


257-

Leyp II - VII



Mr. William J. Hughes.
Supt Llewellyn.
Bisjak.

Groeslow H. S. O.

June 2nd 1900.



1.143



Y LLENOR.

"I WYBOD DORTHINEB AG ADDYGO."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

LLYFR F.

KOSCIUSZKO.

SWN Y MOR.

Y LLENOR CYMREIG.

DEWI WYN O EIFION.

"A'R MOR NID OEDD MWYACH."

ARTEITHIO.

ATHRONIAETH WLADOL MACHIAVELLI.

Gwasg:

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN

IONAWR, 1896.

~~X139~~
~~291A~~

Serial.

GIFT

PB2223

L4

no. 5-12

MAIN

CYNHWYSIAD.

Wyneb-ddarlun,—*Aberglaslyn.*

KOSCIUSZKO.

Calon y gwladgarwr Pwylaidd, a'r cof am dano.

Poland,—ei hen ogoniant a maint ei chwymp. Paham y syrthiodd ac y rhanwyd hi rhwng y tri gallu ysglyfaethus,—Rwsia, Prwsia, ac Awstria? Oherwydd fod ei phobl yn rhanedig yn eu plith eu hunain. Gormesid y werin gan eu huchelwyr; ac ni ddefrodd gwerin Poland hyd nes y clywsant lais Kosciuszko; ac yr oedd hynny yn rhy hwyr.

Mebyd Kosciuszko yn Poland; ei awydd am weled gwledydd eraill. Yn cyfarfod â George Washington, ac yn ennuil clod mawr wrth ymladd dros anibyniaeth yr Amerig. Yn troi adre, ac yn gweled gorthrwm a dioddef yn ei wlad, a'r brenin yn rhy wan ac ofnus i herio Rwsia. Apeliodd Kosciuszko at y werin i achub eu gwlad. Y deffroad yn Kracaw, yn Warsaw, yn Lithuania. Llwyddiant milwrol y gwladgarwyr. Lluoedd Rwsia, Awstria, a Phrwsia'n dod i'w llethu. Brwydr alaethus Maciecowice. "Darfu am Poland."

Cymeriad Kosciuszko? A wnaeth gamgymeriadau? Anobaith y Pwyliaid am weled eu gwlad yn rhydd byth mwy.

TUDALENNAU 5—16.

SWN Y MOR.

Darluniau,—*Afon Maw, y Bermo o'r Môr, Pont y Bermo, ger Lhoyn Gloddaeth, Dyffryn Mawddaech, bore haf yn y Bermo.*

Beirdd Cymru a'r môr,—ei arswyd yn yr emynnau, ond ychydig ddarlunio ei swyn.

Robert Owen, bardd fu farw'n ieuanc, wedi canu am y môr ac am dragwyddoldeb. Ei febyd ar lan y môr, yn unigrwydd athrylith. Mwynder ei ieuencyd,—dysgu plant, breuddwydion uchelgais, serch hudol, ymhyfrydu yn nhlysi anian ac yn swn y môr. Tralodion yn dod fel tymestl arno,—gofid a marw ei dad, marw ei fam. Yn dal i obeithio, ac yn penderfynu magu ei frawd a'i chwirydd amddifaid. Yn is-athraw mewn ysgolion yn Aberystwyth a Birmingham. Deall, tra yno, ei fod yng ngafaelion y darfodedigaeth, a fod yn rhaid iddo farw cyn gwneyd ei waith. Yr ymdrech i fyw. Ffarwelio â'i wlad; mynd dros y môr ac angau yn ei chwim erlid. Cael lle fel is-athraw; a marw, ymhell o swn y môr.

Pigion o'i weithiau,—gydag adlais y môr a thragwyddoldeb ynddynt,—i ddangos dadblygiad ei athrylith.

TUDALENNAU 17—38.

Y LLENOR CYMREIG.

Beth yw'r llenor? Nodweddion y gau,—ffug enw, ffug ddarllen, ffug honni. Y gwir lenor,—caru gwybodaeth, cyndeithasu â natur ac âg athrylith, teimlo swyn arddull.

Y llenor Cymreig,—paham yr ysgrifenna, ei wobr.

TUDALENNAU 39—44.

Gwen y Foty. Bugeilgerdd gan Glaslyn.

TUDALENNAU 45—47.

DEWI WYN O EIFION.

Darluniau,—*Sion Wyn, Ffynnon Gybi, Pedr Fardd.*

Ymddiddan rhwng hen lenor ac efrydydd ieuanc am feirdd Eifionnydd. Dewi Wyn, ei rag-oeswyr a'i ddisgyblion.—John Owen, Owen Gruffydd, Pedr Fardd, Sion Wyn, Robin Wyn, Gwilym Cawrdaf, Sion Cawrdaf, Rhobert ab Gwilym Ddu, Eben Fardd, Ellis Owen Cefn y Meusydd.

TUDALENNAU 48—60.

"A'R MOR NID OEDD MWYACH."

Ol a blaen ddarluniau, Ynys Catharin yn Sir Benfro.

Aflonyddwch y môr,—pererindod. Daeaf newydd heb fôr,—cartref y cad-ernid tawel. Y môr nid oedd mwyach,—diwedd dirgelwch, amcan a diwedd crwydro, diwedd gwahanu, diwedd dinistrio, diwedd dyrysu cynlluniau, diwedd y gofalu a'r adferu, diwedd ar newid, diwedd ar lwybrau gwahanol, diwedd ar gawodydd heilltion.

Sicr arwyddion na bydd môr mwyach.

TUDALENNAU 61—74.

ARTEITHIO.

Darluniau,—*Yr arteithgwyl, y goler ddigwag, farwel y merthyr, y "scavenger's daughter," haiarn bodiau, haiarn coesau.*

Nwyd y cryf yn ymdywalt ar y gwan. Dau fath o arteithio,—i gael tystiolaeth ac i gosbi. Dadblygiad a chamddefnydd erchyll arteithio.

Arteithio yng Ngroeg ac yng nghyfraith Rhufain; dim yn y Beibl, a dim llawer mewn gwledydd barbaraidd. Paul ar fynd dan fflangell yr arteithiwr. Cyfnodau arteithio,—lle mae gwareiddiad yn dirywio, ac yn enwedig pan ddaw crefydd newydd i godi ei llef yn erbyn y dirywio. Tiberius, Nero, a dechreu Cristionogaeth. Ymddirywiad Sanctaidd Ymherodraeth Rhufain, ac arteithio ofnadwy y Canol Oesoedd,—yr Eidal, Ffrainc, Spaen a'r Chwyls. Arteithio yn Lloegr, yn enwedig yn nheyrnasiad Elizabeth, ac yn yr Alban. Diwedd ar arteithio tua dechreu'r ganrif hon.

Afresymoldeb arteithio; dulliau'r dyddiau hyn.

TUDALENNAU 75—88.

ATHRONIAETH WLADOL MACHIAVELLI.

Dim moesoldeb cyd-genhedlaethol; dyhirwch ac anghyflawnder cenhedloedd rhagor unigolion.

Syniad Machiavelli am hen egwyddorion cyflawnder gwladlywiaeth; ffurfia ei athroniaeth wladol trwy syllu ar lwyddiant tywysogion mwyaf diegwyddor ei oes,—llwyddiant yw'r unig nod, waeth pa fodd y ceir ef; nid oes a fynno moesoldeb a gonestrwydd ddim a gwladlywiaeth; rhaid i'r gwladlywydd fedru cuddio ei feddwl a thorri ei air a dweyd celwydd.

Dylanwad Machiavelli.

TUDALENNAU 88—96.

NODYN.

O hyn allan, rhoddir enwau ysgrifwyr y LLENOR dan eu herthyglau os byddant yn dewis hynny. Mae hyn yn newid ychydig ar gynllun gwreiddiol y cyhoeddiad; ond y mae llawer o lenorion yn dymuno'r newid. Fel o'r blaen, gall y neb ddechrau adael ei erthygl yn ddienw.

TADEUSZ KOSCIUSZKO.

Y MAE y driniaeth arw a gafodd Poland oddiar law Rwsia, Awstria, a Phrwsia, tua diwedd y ganrif ddiweddaf, yn adnabyddus bron i bawb. Nid oes yr un cyfnod mwy cynhyrfus na'r amser y rhanwyd y wlad hon gan y tri Galar Poland. gallu rhyngddynt. Ni bu erioed gwypmp gwladwriaeth mor alaethus a phan fachludodd haul Poland.

Ac fe ddylai yr hanes fod yn ddyddorol yr awr hon. Ac y mae enw Kosciuszko yn dod i sylw eto; a hwyrach i ti weled, ddarlennydd, yn y papurau newyddion ychydig o wythnosau'n ol, fod un o'i ddisgynyddion wedi cyflwyno ei galon i amgueddfa Bwylaidd sefydlwyd yn Switzerland.

Cyrhaeddodd Poland anterth ei gogoniant yn y canoloesoedd. Y pryd hwnnw yr oedd ei therfynau wedi ymledu o'r Llychlyn hyd y Môr Du, ac o'r afon Dnieper hyd yr Oder. Nid Gogoniant Poland. yn unig yr oedd Lithuania yn un â hi, ond cynhwysai hefyd Liefland a Curland, ac amrywiol lwythau crwydrol, heb son am y gwarogaeth a dalai Moldavia a Wallachia iddi. Ar air, yr oedd y deyrnas hon, o ran ymhelaethiad a chyfoeth, cyn gymaint ag unrhyw wlad yn Ewrop oddigerth ei chymydoges Rwsia. Fel hyn y parhaodd i flodeuo yn dawel hyd ddechreu y ddeunawfed ganrif, pan y daeth cwmwl du dros ei dedwyddwch.

Nid oes un amheuaeth nad yr achos cyntaf o'r drygfyd oedd yr ymwahaniadau a rwygent y wlad o benbwygilydd yn ystod y ganrif ddiweddaf. Ymddengys fod y Pwyliaid Achos y gofid. trwy eu holl hanes yn meddu nodweddion neilltuol, yn tarddu mewn rhan oddiwrth amgylchiadau eu bywyd, ond, gan mwyaf, oddiwrth gynheddfau gwreiddiol y genedl. O ran eu teithi naturiol, mae y Pwyliaid yn awchus a bywiog, yr hyn a barodd eu llysenwi yn "Ffrancod y Gogledd;" ac yr oedd cyflead a nodweddïadau eu bro gynhefin yn magu y fath gymeriad. Gan eu bod yn byw ar wahan, yn ymgyfarfod ond ychydig â brodorion gwledydd ereill, mewn amgylchiadau anghysurus a hin oerllyd, yn amgylchedig â gwastadleoedd diderfyn, a golygfeydd natur o'u hamgylch yn undonol ac aflawen, tueddai eu meddylddrychau i ymdroi yn eu cylchoedd eu hunain. Ond, os oedd eu hamgylchiadau, mewn rhai ystyriaethau, yn anfanteisiol, eto creasant y serch tuag at eu gwlad enedigol a'r awyddfryd am anibyniaeth sydd wedi eu nodweddu trwy eu holl hanes. Eithr, ar y llaw arall, dengys y nodweddion hyn paham y syrthiodd Poland yn aberth i eiddigedd a chybyddod ei chymydogion. Oherwydd, tra byddai hi yn cadw draw yn ei

hunigrwydd, yr oeddynt hwy, trwy ymgymysgu, yn ymeangu mewn gwybodaeth a gwyddoniaeth, a chydabyddiaeth â'u gilydd. Y canlyniad fu, erbyn i Poland ddyfod i gysylltiad â hwynt, a dihuno o'i thrwmgwsg, iddi ganfod, pan oedd yn rhy hwyr, ei bod yn analluog i'w gwrthsefyll. Nid oedd ganddi arweinwyr cyfarwydd â llywod-ddysg a theyrddichellion Ewropeaidd. Heblaw hyn, yr oedd ei brenin, ar y pryd, yn amddifad o'r prif gymhwysderau i'w uchel swydd. O'r herwydd, bu raid iddynt ymddibynnu am eu pen swyddogion ar wledydd allanol. Nid anawdd rhagweled y canlyniadau a ddeilliant oddiwrth hyn.

Dechreuodd dirywiad Poland yn y flwyddyn 1717, pan ymyrrodd Rwsia gyntaf a'i helyntion mewnol. Er ys amser maith cil-lygadau Rwsia ar diroedd ei chymdoges, ond ni ddechreuodd y gynnen nes esgynnodd ^{Ymyriad} _{Rwsia.} Catrin II. yr orsedd,—dynes hynod o gyfrwys a hyfedr, ond haerllug a phenrydd, ac yn lled brin o egwyddor a chydwybod. Ymhen ychydig ar ol iddi gael y goron, cynhyrfodd meddiannau Poland ei gwanc, a thrwy ei hystrywiau dichellgar, nid hir y bu cyn iddi gael gyfle i drafod helyntion y tu fewn i'r wlad honno. Yn y cyfamser aeth ymrafaelion yno waethwaeth, ac yn 1763 daeth rhwyg, un blaidd a'i gogwydd tuag at Rwsia, a'r llall yn ymlynu yn ddiysgog wrth eu hawliau cenedlaethol. O'r diwedd, ymunodd Catrin â Ffrederig Fawr, brenin Prwsia, i ddiorseddu Augustus III, a chynygiasant i'r Pwyliaid yn ei le Stanislas Poniatowski, eu ffafreddyn eu hunain, yr hwn y disgwyliant fyddai yn offeryn defnyddiol yn eu dwylaw hwy. Y pryd hwn ymgynghreiriodd rhai gwladgarwyr brwydfrydig yn Bar, tref yn Podolia,

^{Cynghrair} _{Bar.} oherwydd hyn gelwir y Cynghrair yn Gynghrair Bar, —a chyhoeddasant ryfel yn erbyn Rwsia. Ymarfogodd Twrci hefyd yn eu hachos. Wrth weled hynny, cyffrodd Catrin yn ddirfawr, a chynhygiodd wneyd heddwch â brenin a Senedd Poland, ond gomeddasant. Yn fuan ar ol hyn, ar gynygiad Ffrederig, cymerodd y ddau allu feddiant ar rai o randiroedd Poland, yn groes i bob cyfiawnder. Nid gwiw oedd, weithian, i'r Pwyliaid gelu y perygl oddiwrthynt eu hunain, na gohirio mwyach. Gan hynny, ymroddasant i adgyweirio a chryfhau y cyfansoddiad gwladol a'r gyfundrefn gyfreithiol, trwy eangu y rhyddfreniau a gwneuthur yr awdurdod frenhinol o hynny allan yn etifeddiaethol. Ymddengys ddarfod i Ffrederig eu hannog yn y dechreu, gan addaw yr amddiffynnai hwy yn erbyn ymosodiadau Rwsia. Ond ni ataliwyd mo Catrin rhag cyflawni ei thrachwant. Modd bynnag, yn 1791, ar ol hir lafur, medrodd yr ymherodres lithio pump o

blith 200,000 o bendefigion Poland, i wrthdystio yn erbyn y gosodiadau newyddion, a danfon eu deiseb i'r llys
Catrin a'r
bradwyr. Rwsiaidd. O ganlyniad, cymerodd Catrin y bradwyr a lwgr-wobrywodd dan ei nodded ei hun; ac, o dan rith o ddial eu cam, ymbarotodd i ryfel. Braidd y gellir dychymygu cyflwr mwy enbyd na chyflwr y Pwyliaid y pryd hwn. Wedi colli bob cefnogaeth oddiallan, a llysgenhadwr Catrin, dan liw cynghori'r brenin, yn dwyn llyw y frenhiniaeth, neu yn ymgnio gwrthweithio a thangloddio ei awdurdod, nid oedd ffordd amgen iddynt na naill ai canu yn iach i'w hanibyniaeth dros byth, neu ynte gladdu eu hunain ym meddrod eu rhyddid.

Dyna oedd cyflwr y wlad pan ymddanghosodd Kosciuszko. Ganwyd ef yn 1716, mewn plwyf o'r enw Kossowsk, lle yr oedd ei dad yn byw ar ei diriogaethau ei hun. Yr oedd ei
Kosciuszko. dylwyth yn anrhydeddus, ond ni pherthynai i radd uchaf y fonedd. Yr oedd yn blentyn tra gobeithiol, ac ymroddai yn ddiwyd i fyfyrio. Danghosai duedd gref at gerddoriaeth, yr hyn a fu yn gysur mawr iddo yn ei ddyddiau olaf. Addysgwyd ef gan ewythr iddo, yr hwn fyddai yn treulio misoedd gyda'r teulu o dro i dro. Yr oedd hwn wedi teithio trwy pob gwlad o'r byd bron, a diameu iddo ddylanwadu ar ddychymyg y bachgen, ac ennyn awydd ynddo am fod yn filwr.

Yn y cyfryw amgylchiadau meithrinwyd ef; ac os cywir y darluniau swynol a rydd y flugysgrifenwyr, megis Sienkiewicz a Kraszewski, o fywyd teuluaidd yn Poland flynyddau yn ol, mae yn hawdd deall fod meithriniaid Kosciuszko wedi effeithio yn iachusol ar ddadblygiad ei feddwl. Modd bynnag, danfonwyd ef i orffen ei addysg mewn athrofa ar gyfer y fyddin. Tra yno, tynnodd sylw y tywysog Adam Czartoryski, rhaglaw Podolia, yr hwn a fu yn gyfaill cynnes iddo ar hyd ei oes; a thrwy ei ddylanwad ef mudodd Kosciuszko i Lys Versailles yn Ffrainc, lle yr arhosodd am ryw hyd. Wedi dychwel i wlad ei eni, digwyddodd anffawd iddo, na fyddai deilwng o sylw oddieithr iddi ddylanwadu ar y rhelyw o'i fywyd. Gosododd ei serch ar ferch uchelwr yn y
Mewn cariad. gymydogiaeth lle yr oedd ei gatrawd yn lletya. Ni fynnai y rhieni, er dim, gydsynio â'i gais am law eu merch. Felly cymerodd Kosciuszko arno ei hun i ddadrys y cwlwm drwy fynd a'i anwylid i ffwrdd liw nos, a darparodd ei gynlluniau i'r perwyl hwnnw. Ond, gyda bod y carwyr yn diengyd, clywent drwst carnau ceffylau yn eu canlyn. Goddiweddyd a daliwyd y ddau. Ar hynny, tynnodd Kosciuszko ei gleddyf o'r waun, ac ymosododd ar ei ormeswyr. Ond ofer fu ei ymdrech; syrthiodd yn glwyfedig i'r llawr, a dygwyd y foneddiges yn ol i'w chartref. Penderfynodd Kosciuszko yn

y man ofyn 'am gennad y brenin i ymadael a'r fyddin, yr hyn a ganiatawyd iddo. Fel y crybwyllwyd gynneu, yr oedd
 Yr Amerig. arno er ystalm awydd am weled y byd, ac yn awr mynnai gyflawni ei ddymuniad o ymweled a'r Amerig. Yn y flwyddyn honno cododd y gwrthryfel Americanaidd yn erbyn y llywodraeth Brydeinig, a pharodd hyn gyffro-nid bychan trwy holl ardaloedd Ewrop. Ymaflodd Ffrainc yn y gwaith o gynhorthwyo y blaid Americanaidd gyda brwdfrydedd,—y brenin a'i gyfringyngor a'r bobl oll am y cyntaf i ddangos eu cydymdeimlad. Felly, ar y chweched o Chwefrol, 1778, gwnaed cynghrair ffurfiol rhwng Ffrainc a'r blaid wrthryfelgar, ac ymhen ychydig casglwyd arfau a chyfreidiau a chludwyd hwy dros y Werydd mewn llynges o ddeuddeg llong. Ymrestrodd llawer o wirfoddolion i'r anturiaeth hon, a Kosciuszko yn eu plith. Cyrhaeddasant yr afon Delaware, a chawsant dderbyniad cynnes gan eu cynghreiriaid newydd. Wedi glanio, ymddanghosodd Kosciuszko yng ngwydd Washington, prif lywydd y byddinoedd, a dyma'r ymddiddan. Gan edrych yn graff ar y llanc ieuanc, gofynnodd yr hen faeslywydd yn fyr yn ol ei arfer,—“Beth fynni di yma?” Atebodd Kosciuszko yn hyf,—“Yr wyf wedi dyfod i ymladd dros anibyniaeth yr America.” “Beth allit ti ei wneyd?” ebe fe. “Profwch fi,” meddai yntau. Mewn canlyniad i'r cyfarfyddiad hwn penodwyd Kosciuszko i swydd yn y fyddin, lle y cafodd gyfleusterau i roddi prawf o'i athrylith, ei wybodaeth, a'i gymeriad. Nid hir y bu cyn ymddyrchafu o ris i ris i'r swyddi uchaf yn y gadu. Ymhlith eraill tynnodd sylw y nodedig Ardalydd Lafayette, un o'r cadfridogion yn y fyddin Ffrengig, a chyfododd cyfaillgarwch rhyngddynt, yr hwn ni phallodd tra y buont byw. Enwogodd ei hun mewn amryw frwydrau. Yng ngwarchae Caer-Efrog Newydd gan y byddinoedd unedig, danghosodd gymaint o ddewrder a medrusrwydd fel y dygodd Lafayette dystiolaeth arbennig am dano. Wedi hynny, cymerodd y rhan flaenaf yn yr ymosodiad ar ran o'r fyddin Seisnig, tan lywyddiaeth Cornwallis, pan gymhellwyd y gelyn i ymostwng. Clwyfwyd Kosciuszko y waith hon. Ym mrwydr Ninety-six,* pan ogwyddodd y fantol at ochr y blaid Americanaidd, hynododd Kosciuszko ei hun nid yn unig trwy ei wrhydri, eithr hefyd am ei diriondeb. Bu yn foddion i achub bywydau llawer oddiwrth gynddaredd cynddeiriogwyllt y gorchfygwyr, ac enillodd barch y prif ddynion o'r blaid, sef Franklin, Jefferson, a'r cyffelyb.

Wedi i'r rhyfel ddarfod, trodd meddwl Kosciuszko tua'i gartref,

* Gelwir y lle hwn felly am ei fod yn 96 milltir oddiwrth y dref Kecowee.

ac yn fuan ar ol yr heddwch wynebodd tuag yno. Nid oedd ei gyfeillion newydd yn foddlon iddo ymadael; cyn-
Mynd adref. hysgwyd iddo swydd uchel yn y Wladwriaeth, ond gwrthododd y cynnyg deniadol; a phenderfynodd ddychwelyd, er mwyn cysegru ei alluoedd i'w wlad enedigol. Felly dringodd i long Ffrengig, oedd ar fin hwylio i Havre, ac ymadawodd â'r glannau Americanaidd, yn llawn tristwch wrth gefnu ar ei gymdeithion yn y wlad a'i hanrhydeddodd. Wedi dod adref, aeth i fyw i'w diriogaethau ei hun, a bu yno yn dal craff sylw ar gyflwr trychinebus ei gydwladwyr. Odditan y tawelwch arwynebol yr oedd teimladau gwrthryfelgar yn cynneu, ac nid oedd eisieu ond llaw gymwys i'w cyfarwyddo. Felly, daeth

Defiro Poland. Kosciuszko allan o'i unigrwydd ac ymgymerodd a'r gorehwyl o achub Poland o grafangau y gormesdeyrn. Dan Poniatowski, nai i'r brenin, fe a hynododd ei hun mewn llawer brwydr. Y Pwyliaid, fynychaf, a gawsant yr oruchafiaeth, ond unwaith dygwyd un o adrannau y fyddin i berygl mawr, a buasai wedi ei llwyr ddinistrio, ond buasai i Kosciuszko ei hachub. Ar yr achlysur hwn ymddialodd ar ran o'r fyddin Rwsiaidd, a buasai wedi ei distriwio oni bai i ryw iswyddog esgeuluso ei orchymynion.

Yn y cyfamser disgwyliai y wlad yn bryderus ar i'r brenin Stanislaus flaenori ei fyddin, ond siomwyd hi
Chwilio am arweinydd. drachefn a thrachefn. Wedi hir ymaros a gohirio o ddydd i ddydd, penododd Stanislaus y tywysog Würtemberg yn ei le; ataliwyd hwnnw gan afiechyd,—dyna, o leiaf, yr esgus a roddwyd; ar ol hyn trosglwyddodd yr awdurdod unwaith eto i Zubiello. Ymroddodd yntau i ddiwygio gwallau yn y gyfundrefn filwraidd, ond methodd a chyflawni ei gynlluniau. Y pryd hwn yr oedd Kosciuszko yn ymyl Dubienka, ac yn ei erbyn ef y cyfeiriwyd holl nerth y Rwsiaid. Mewn byr amser ymddanghosodd Koschouski gyda 18,000 o wŷr dewisol a mwy na deugain o fagnelau. Gan Kosciuszko nid oedd ond 4,000 o wŷr ac

Brwydr Dubienka. wyth o fagnelau i'w gwynebu, a'i adran ef a gynhaliodd holl bwys y rhuthr. Er hynny, llwyddodd i'w curo yn ol dair gwaith â lladdfa frawychus fel y bu raid i'r gelyn ffoi. Ond, wele wrthwynebwr arall yn agoshau o du Galicia, ac yn y diwedd enciliodd Kosciuszko â'i fyddin fechan yn drefnus. Yn yr ymgyrch hon collodd y Rwsiaid 4,000 o wŷr a'r Pwyliaid 900; yr hyn a rydd brawf o echryslondeb y frwydr a gwroldeb yr amddiffynwyr. Tra yr ymlleddid ger Dubienka ymgadwai'r brenin yn ei gastell yn Warsaw, y brif-ddinas, a'r bobl yn disgwyl o hyd iddo arwain ei fyddin. Ond yn lle hynny, ar ol hir wamalu, cyhoeddodd hysbysiad yn galw ar y Pwyliaid i

amddiffyn eu gwlad. Ymroddodd pob dosbarth i ymladd â'i holl egni. Ar hynny, daeth llythyr oddiwrth Catrin at y brenin, i

Penbleth y
brenin.

fygwrth os nad ostepai y cynnwrf, y byddai iddi ymgymeryd â'r gwaith ei hun. Galwodd yntau ei swyddogion ynghyd; gosododd y llythyr ger eu bron, danghosodd iddynt fod y tri gallu yn drech nag ef, a dibennodd trwy ddweyd yr ymostyngai. Ni fedrai un mor uchel-frydig ei dymer a Kosciuszko mo ddiodef y sarhad darostyngol hwn, ac ymddeolodd i'r Almaen. Er cynnyg o'r awdurdodau Rwsiaidd iddo swydd uchel yn eu byddin, gwrthododd y cais, gan ddywedyd y byddai yn well ganddo dlodi ac alltudiaeth nag ymostwng i'r fath waradwydd. Felly y terfynodd y rhyfelgyrch cyntaf.

Wedi croesi y gororau gwnaeth Kosciuszko ei ffordd i Dresden, ac oddiyno symudodd i Leipzig. Yno y bu yn cartrefu am oddeutu blwyddyn. Erbyn hyn yr oedd yn amlwg ddigon nad amcanai Rwsia at ddim amgen na thraisfeddiannu y gweddill o Poland. Nid oedd y gwladgarwyr wedi eu llethu, ac unwaith eto rhoddasant eu bryd ar ddadymchwel yr ormes. Edrychid at Kosciuszko i'w llywyddu, a ffurfiwyd cynghrair cyfrinachol o wladgarwyr oedd ar wasgar, ond yn gohebu'n barhaus â'u cyfeillion o fewn y wlad, a Kosciuszko yn dal yr awenau yn ei ddwylaw. Ac yn awr, pan oedd pob peth wedi ei gynllunio, danfonodd Kosciuszko ei gydymaith Zajączek i Warsaw er mwyn cwblhau y gwaith yno yn y dirgel. Ymhen ychydig cychwynnodd ef ei hun tuag yno. Ond yr oedd y Rwsiaid yn dal i gadw llygad gwyliadwrus arno, a chyda ei fod yn croesi y cyffiniau, derbyniodd neges a barodd iddo ymatal am ychydig amser. Tebyg mai y Rwsiaid oedd wedi clywed am ei ddychweliad. Modd bynnag, er mwyn llonyddu eu drygdyb, cymerodd arno ei fod ar fedr ymsefydlu yn yr Eidal, ac yno yr aeth. Nid hir y bu cyn ymdaenu y gair o hyn i Rwsia, ac, o'r herwydd, bu yn haws iddynt ddwyn eu cynllun i ben. Ond yn awr, pan glywodd y gwladgarwyr oddiwrth eu cyfeillion yn Poland fod pob peth yn barod, derbyniasant ergyd drom. Fel y crybwyllwyd eisoes, addawodd Ffrederig Fawr gymorth, os nad anogodd hwynt i godi yn erbyn Rwsia. Eithr yn y cyfwng presennol llwyr ddiddymwyd eu gobeithion o gael cynhorthwy ganddo. Dywedai yn awr fod arno ofn yr ysbryd chwildroadol oedd yn ymledu o Ffrainc i'r gogledd. O ganlyniad, ymunodd â Chatrin,—danfonodd Möllendorf â llu i'r maes, a chymerodd afael ar ran arall o'u meddiannau (Ebrill, 1793). Er mwyn taflu cochl dros eu gweithredoedd, gelwid ar frenin Poland i lawnodi cytundeb rhyngddo a'r ddau allu, a rhoddi ei hunan o dan eu nodded. Gellir dychymygu boddlonrwydd ei ufudd-dod i'r

Yr all
rannad, 1793.

cais, pan amgylchid y palasdy a'r orsedd â chatrawd o Cossacks.* Yna gwysiwyd y Senedd, a chymellwyd yr aelodau i gydsynio ag ail raniad Poland, yr hyn a wnaed yn uniongyrchol yng ngwynneb gwrthddadl o barth 23 o honynt. Yn y modd hwn y rhannwyd Poland yr ail waith yn 1793, yn groes i bob egwyddor a cyfiawnder, ac yn unol a hynny dechreuid corffoli y catrodau Pwylaidd yn y byddinoedd estronol.

Yn awr torrodd y gwrthryfel allan yn oddaith. Dechreuwyd y codiad gan swyddog o'r enw Madilinski, yr hwn a fuasai gynt yn gadben yng ngosgorddllu y frenhines Awstriaidd yn Vienna am lawer o flynyddoedd, ond ar gychwyniad y gwrthryfel, yn 1791, dychwelodd i Poland. Y pryd hwn yr oedd yn gadben ar fintai o wŷr meirch, a disgwyliai Igielström, y prif gadfridog Rwsiaidd, ef a'i gatrawd beunydd yn Warsaw, er mwyn eu dosbarthu ymysg y fyddin Rwsiaidd. Ond yn lle ufuddhau i'r gorchymyn, danfonodd Madilinski lythyr ato i ddywedyd nad oedd arno flys newid ei le. Yna prysurodd ymlaen, a chafodd hyd i drysorfa y Prwsiaid, a dygodd rai o'r swyddogion yno yn garcharorion. Yr oedd yr awr wedi taro,—pan y byddai raid iddynt naill ai canu yn iach i'w gobaith dros byth neu roi her i'r gormeswyr; a chyrrhodd Kosciuszko ar frys i Krakaw, yr hen ddinas frenhinol, ar gefn nos, mis Mawrth 23, 1794, lle y derbyniwyd ef gyda brwdfrydedd o'r mwyaf gan y trigolion. Cyneuwyd tanllwythi; dylifodd yr holl bobl bron i'r ystrydoedd; heidiasant oddiamgylch iddo, ac a'i hebryngasant i'r Senedd-dy, lle yr etholwyd Kosciuszko yn unfryd i fod yn Naczelnik, neu yn ben rheolwr ar yr achos cenhedlaethol.

Wrth fyned heibio, rhaid sylwi nad oedd Kosciuszko, o ran genedigaeth, yn gwbl addas i arwain ei gydwladwyr yn y cyfyngder hwn, am ei fod yn hannu o deulu o'r is-fonedd. Pwy bynnag sydd gydnabyddus â hanes neu lenyddiaeth Poland, hen neu ddiweddar, nid oes fodd na wel y rheswm am hyn. Un o nodweddion mwyaf tarawiadol hanes Poland yw dylanwad y tylwythau uchelwaded, a'r modd y cadwent y prif swyddi iddynt eu hunain. Nid oedd yn debyg, gan hynny, yr ymfoddlonent i wasanaethu dan ei arweinriad ef; ac i'r teimlad hwn, i ryw raddau, y gellir priodoli yr aflwyddiant a ddilynodd eu hymdrechion i fwrw ymaith yr iau. O ganlyniad croesaw oeraidd a gafodd Kosciuszko gan yr hen deuluoedd hyn, ond yr oedd y bobl yn eu crynswth o'i du, a chyfarhasant well iddo fel rhyddhawr ei wlad.

Ond i ddychwelyd. Yn awr gallai Kosciuszko wneyd y paratoadau fel y gwelai efe yn oreu. Y peth cyntaf a wnaeth

* Milwyr milain a gwyllt a arferir fel ysgeifnwyr yn y fyddin Rwsiaidd.

oedd gorchymyn ar osteg i bob gŵr rhwng deunaw a saith-ar-hugain oed i ymgynnull o hyd nos at luman
Parotodau
Kosciuszko. Jan Sobieski,* a thyngu y llw. Y mae hefyd un o'i hysbysiadau ar gael, yn yr hwn y galwodd ar y gwragedd i ymwadu â hwy eu hunain er mwyn eu gwlad. Casglwyd ynghyd y golud oedd yn y trysordai, yr eglwysi, a'r palasdy brenhinol. Nid hir y bu wedi iddo ymddangos cyn y dechreuodd cynorthwywyr o bob math ymdyrru at ei faner o bob cwr o'r wlad,—llafurwyr a'u ceibiau, amaethwyr a'u pladuriau, crefftwyr a myfyrwyr o'r brifysgol â gwahanol offerynau. Ni siomwyd ychwaith mo obeithion Kosciuszko ym merched Poland, oblegid nid yn unig gwerthasant eu tlysau o'u gwirfodd; eithr hwy a ymrestrasant gyda'r gweithwyr ar y caerau a'r cloddiau, ie, ac a ymladdasant ar y rhyfelfaes.

Pan oedd y gwrthryfel yn awr wedi ei gychwyn o ddifrif, ymdeithiodd Kosciuszko i Warsaw, gan adael Krakaw tan ofal gwarcheidwad o 2,000 o ŵyr. Ar ei ffordd cyfarfu
Brwydr
Radawice. Denisow yn arwain adran o 6,000, wedi eu gosod mewn man cyfleus yn ymyl Radawice. Ymosododd y blaid Rwsiaidd yn ffyrnig ar aden aswy y Pwyliaid, ond gyrrwyd hwy yn ol, a gadawodd y Rwsiaid luaws o laddedigion ar y maes. Wedi hyn gwnaethant ail ruthr angerddol ar y canol, ond gorfu iddynt encilio eilwaith. Yn y frwydr hon cafodd Kosciuszko feddiant o holl fagnelau ei wrthwynebwy, ac enillodd fuddugoliaeth fawr. Ond ar hyn o bryd, derbyniodd o Krakaw y newydd cynhyrfus fod dosran o'r fyddin Brwsiaidd yn prysuro o du Silesia, a chlywodd am ysgogiadau lluoedd yn neshau o gyfeiriad Awstria, canys yr oedd y wlad honno, hefyd, yn siomedig o ddiffyg na chawsai gyfrannu o'r blaen, y tro yma yn honni ei hawl i ran o'r ysglyfaeth. Mor fuan ag y clybu Kosciuszko am hyn, brysiodd yn ei wrthol i'r ddinas.

Yn y cyfamser dilynodd Warsaw esiampl Krakaw. Er ys amser bellach yr oedd rhagrybudd o'r gwrthryfel yn ymddangos yno hefyd, a chynyddai y casineb yn erbyn Igielström
Deffroad
Warsaw. a'i warchlu oedd yn gwylio y ddinas. Danghosai y trigolion y dirmyg mwyaf tuag atynt, trwy duchangerddi a wasgerid ar hyd yr ystrydoedd, a chawd chwareuon gwladgarol yn y chwareudai, yn gorhoian molawdau y blaid wrthryfelgar yn Krakaw. Tarawyd Igielström â braw, a chymhellodd y brenin i arwyddo hysbysiad yn gwadu gweithredoedd Kosciuszko a'r ymdrech a wneid dros anibyniaeth. Ond yn gwbl ofer y bu ceisio eu gwrthsefyll. Credai y bobl fod gwawrddydd

* Y brenin enwog a ryddhaodd Awstria oddiwrth y Tyrciaid yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

eu rhyddid ar dorri, ac y byddai iddynt ysgubo'r gelyn dros y cyffiniau; yr oeddynt yn benderfynol o gyflawni eu bwriad neu drengu yn yr ymgais. Ac yn lle peri iddynt wanobeithio, enynnodd ymddygiad trahaus Igielström tuag at y brenin eu digllonedd a'u cynddaredd drachefn. Dyma fel y cofnoda llygad-dyst yr olygfa yn y ddinas ar y pryd,—

“O gylch hanner nos, yr 17 o Ebrill, 1794, noson serenog, cauodd y trigolion bennau'r ystrydoedd, a chymerasant feddiant o'r arfdy a'r bylorgell. Gyda'i bod yn dyddio, aeth tyrfa fawr o foneddigion, dinaswyr, a chlerigwyr, at y castell gyda'r bwriad o siarad â'r brenin. Ond cyn iddynt gyrraedd yno, yr oedd Igielström yn hysbys o'r cynnwrf, oblegid yr oedd erbyn hyn wedi ymledu trwy yr holl ddinas, a danfonodd un o'i swyddogion i erchi y brenin i'w danfon yn eu holau. Tra yr oedd hyn yn digwydd, ymdyrrai y torfeydd yn fwy-fwy o hyd, nes gorlifo yr ystrydoedd a'r marchnadfeydd. Wedyn torrodd y milwyr Pwylaidd allan o'u lluestdai, ac ymunasant â'r lluaus y tu allan. Yna ymosodasant ynghyd ar y gwarchawdlu Rwsiaidd yn agos i'r palasdy, a rhoddasant hwy i gyd i farwolaeth, heb arbed yr un ohonynt. Trwy gydol y noson honno, nid oedd dim i'w glywed ond y rhyfeloedd a therfysg ar bob llaw, milwyr a dinas-yddion, gwragedd a phlant, rhai hyd yr ystrydoedd, eraill ar y tai yn lladd y Rwsiaid â chleddyfau a drylliau, tra yr oedd y magnelau ar ben pob ystryd yn rhuo bob yn ail funud. Ni welais yn fy oes noswaith mor erchyll, ac ni ddileir yr argraff oddiar fy nghof.”

Erbyn hyn yr oedd dydd Gwener y Groglith yn gwawrio. Wedi amddiffyn eu hunain cyhyd ag y gallent, gan ddisgwyl adgyfnerthion, bu raid i'r gwarchlu ffoi am noddfa i gysegrfa berthynol i'r palasdy. Er hynny, ychydig ohonynt a ddaethant allan yn fyw, oddieithr y cadfridog ei hun a dyrnoid o'i ganlynwyr, a lwyddasant i ddiengyd allan dros furiau y ddinas. Oddiwrth hyn gellir dychymygu faint o gynddaredd oedd wedi meddiannu y genedl, yr hon oedd mor nodedig am ei duwioldeb a'i pharch; ond heddyw, Rhyddid oedd eu Crefydd, ac ymgollodd eu teimladau defosiynol yn eu syched am ddial.

Wedi i'r cynnwrf ostegu yn Warsaw, penderfynodd y trigolion ymuno â'r gwrthryfelwyr yn Krakaw, a danfonasant atynt hysbysiad o'u bwriad. Yn fuan ar ol hynny, Dedroad
Lithuania. cryfhawyd y blaid trwy fod Lithuania yn ymrestru o'u hochr, a hithau yn cynnwys agos i hanner Poland. Ymhén ychydig ymunodd Wilna, dinas fawr a phwysig ar y gororau dwyreiniol, â hwynt. Yma yr arweiniwr oedd beiriannydd o'r enw Tasinski, yr hwn a lwyddodd gyda'i gatrawd a'r rhai mwyaf mentrus o'r dinas-yddion i ddal y warchlu mewn magl. Daethant yn ddisymwth ar eu gwarthaf; cawsant afael ar yr holl arfau a'r darpariaethau, a chawsant y cadfridog a'i gydswyddogion mewn eglwys.

Erbyn y pryd hwn yr oedd Poland wedi ei chynhyrfu hyd at ei seiliau, a phob dosbarth yn ymorchestu yn yr ymgais i dafu yr iau ormesol ymaith. Yn y cynhyrfiad cyffredinol nid hawdd oedd ffrwyno digllonedd a nwydau y werinos, ac er pob ymdrech

i'r gwrthwyneb, digwyddodd anffawd a lychwinodd achos y gwladgarwyr. Er ys amser maith drygdybid llawer o brifwyr dinas Warsaw eu bod yn coleddu teimladau ffafriol tuag at y blaid Rwsiaidd. Gan hynny, ymollyngodd y blaid fuddugoliaethus i ymddial arnynt. Cyhuddid hwy o flaen y gadlys o ddal cymundeb â'r gelyn, a dedfrydwyd hwy i farw am "fradwriaeth yn erbyn y brenin a'r llywodraeth." Cyn i'r ddedfryd cael ei chyflawni rhuthrodd y werinos bobl ar y carcharorion a chrogasant hwy heb drugaredd. Amhosibl esgusodi yr ymddygiad hwn, ac yn ddiameu, pe buasai Kosciuszko yno, ni ddigwyddasai hyn o gwbl, ond yr oedd efe ymhell o'r ddinas, a dwy fyddin ar bob llaw iddo ar lan yr afon Piliza. Modd bynnag, cyn gynted ag y clybu am yr amgylchiad trychinebus yn Warsaw, danfonodd neges at ei gynrychiolwyr yn galw arnynt ddal a charcharu y blaenoriaid euog, ac anfonodd adran o filwyr i atal y werin rhag y fath gywilydd yn y dyfodol.

Nid oes le yma i fanylu ar y mân frwydrau, ac ar ysgogiadau y byddinoedd; felly brysiwn at yr ymgyrch olaf. Er fod y gelyn bron yn ddengwaith cryfach, ai Kosciuszko rhagddo, yr ymgyrch olaf. yn ennill brwydr ar ol brwydr. Yn wir, bu mor llwyddiannus fel y digalonodd Ffrederig a chynygiodd iddo delerau anrhydeddus. Ond bu llwyddiant y Pwyliaid yn rhwystr iddynt, o herwydd denodd eu buddugoliaethau hwy i adael eu gororau eu hunain, a gwneyd rhuthr i Brwsia, gyda'r bwriad o luddias ei hymgysylltiad â'r pleidiau ereill. Erbyn hyn yr oedd y rhyfel yn nesau at ei ddiwedd, a'r byddinoedd unedig yn pwysot tuag at Warsaw, lle yr oedd Kosciuszko erbyn hyn wedi dyfod. Ar y seithfed o Hydref, 1794, cychwynnodd Kosciuszko allan oddiyno, a chroesodd yr afon Weichsel gyda 8,000 o wŷr dethol-

edig, ac ymwersyllodd yn Maciecowice, nid nepell o'r brif ddinas. Dosbarthodd ei filwyr yn ddwy ran, un tan lywyddiaeth Poniuski, ar llall â Kosciuszko ar ei blaen, ac, i aros am ddynesiad Fersen, ymroddodd i gadarnhau ei sefyllfa. Eithr pan oedd ar fin cyflawni y gwaith, bradychodd enciliwr y cynllun i'r gelyn. Ymbarotodd hwnnw yn ddiatreg i wneyd rhuthr cyn i adgyfnerthion agoshau. Gyda'r wawr dechreuodd yr ymosodiad ar eu gwerysll o bob ochr, y Rwsiaid yn gwasgu arnynt dan godi y gadfloedd, a'r Pwyliaid yn eu hateb â chroch ddolef. Derbyniwyd yr ymosodiad cyntaf â chawod o ergydion dinistriol, a gwrthiwyd y Rwsiaid yn ol gyda galanastra mawr. Wedi ychydig seibiant, dygodd Fersen ei wŷr ar ruthr eilwaith yn erbyn yr amddiffynfeydd allanol, ond safodd y Pwyliaid mor ddiysgog a'r graig, a bu raid i'r gelyn wrthgilio drachefn, a gadael nifer fawr, naill ai yn lladdedig neu yn archolledig, o flaen y rhag-gaer. Yna cyd-gasglodd Fersen ei nerth drachefn, ac

ymarllwysodd y rhyferthwy arnynt eto. Y tro yma llwyddodd i ymwithio i mewn i'r arglawdd cyntaf, ac ymhen ychydig ennyd cymerasant feddiant o'r ail a'r trydydd. Er hynny, ni ddanghosodd y Pwyliaid unrhyw arwydd ymostwng, ac feallai mai adgymeryd y gwersyll colledig a wnaethent, ond wele Suwarow, y cadfridog mwyaf medrus a dewr o'r blaid Rwsiaidd, wedi dyfod i gynorthwyo eu gwrthwynebwy. Nid oedd gobaith mwyach. Yr oedd y Rwsiaid weithian gymaint arall a'r amddiffynwyr, a'r rhan fwyaf o honynt wedi eu cymeryd allan o gadernid y fyddin Rwsiaidd. O'r tu arall, nid oedd ond gwladwyr amhrofiadol wedi eu harfogi, gan mwyaf, â phicellau a'r cyffelyb offerynau. Felly, ar ol gwrthladd yr ymosodiad am ryw hyd, gorfu iddynt encilio. Ym mhoethder yr ymornest dychrynlyd hwn, danghosodd Kosciuszko wrhydri digyffelyb, ac enillodd glod arhaethol. Eisoes yr oedd tri o feirch wedi eu saethu odditano, pan wanwyd ef â phicell yn ei ysgwydd, a syrthiodd i'r llawr. Cynhyrfodd yr olygfa hon y Pwyliaid i ymladd gydag ynni adnewyddol, ac ymgyllellasant yn ffyrnig. Wedi i'w llywydd ddyfod ato ei hun, wrth glywed ei ffyddloniaid yn codi y gadfloedd, esgynnodd ar farch arall a chanlynodd ei wŷr meirch, y rhai oedd erbyn hyn wedi cilio, er mwyn eu hail ffurfio; ond colodd ei ffordd yn y dyryswech, a syrthiodd i ffos a'i geffyl odditano. Erfyniodd ar i un o'i ddilynwyr roddi iddo ei ddyrnod olaf, rhag ddisgyn ohono i law y gelyn yn

Finis Poloniae. fyw, a buasai Cossack wedi cyflawni ei ddymuniad, oni buasai i ryw swyddog Rwsiaidd ei atal. Dywedir hefyd iddo waeddi, *Finis Poloniae!* (Darfu am Poland!) ond gwadwyd hyn yn bendant ganddo yn ol llaw. Modd bynnag, cymerwyd ef yn garcharor.

Dyna ymdrech olaf Kosciuszko i ryddhau Poland, a chydag ef diaggynnodd ei bri i'r bedd. Ond er ei holl wroldeb a'i hunanymwadiad, ni waredodd ei hun rhag eiddigedd ei

Achoeton y methu. gaseion afresymol. Cyhuddir ef gan rai o fyrbwyll-dra. Nid oedd cynlluniau plaid y gwrthryfel, hwyrach, wedi eu llawn aeddfedu, ac y mae lle i ofni ei fod wedi gwneyd camgymeriad wrth ddanfôn rhan o'i finteioedd y tu draw i gyffiniau Poland, a thrwy hynny hwyrach wanychu ei nerth gartref. Eithr y gwir yw nad oedd bosibl aros yn hwy, ac na ellid dychymygu cyflwr mwy enbyd ac arswydus na chyflwr Poland ar y pryd. Nid yn unig yr oedd ymrafaelion ac anghytundeb yn cancro y genedl, ond hefyd yr oedd y byddinoedd cynghreiriol yn ymgryfhau o ddydd i ddydd, a bu raid i'r Pwyliaid daro ar unwaith. Bwriwch at hyn y niweidiau a oddefodd y blaid genhedlaethol trwy frad. O'r tu arall, edliwir ei fod wedi

gwastraffu cymaint o waed heb fawr obaith llwyddo yn erbyn nerth y tri gallu. Ond mewn gwirionedd, gellir cymhwysu yr wrthdadt hon at bob ymdrech a wnaed erioed, a phe buasai pawb wedi gweithredu ar yr egwyddor hon, ni fuasai unrhyw wlad ar y ddaear wedi ei rhyddhau. Gyda golwg ar ei deithi filwraidd, nid oes le i gynddaredd ei elynion gael gafael arno. Mae ei wrhydri a'i fedrusrwydd yn dwyn i gof arwyr hynotaf hanes, hen a diweddar. Ynglyn â hyn oll meddai galon gynnes, a theimladau tirion, a enillasant edmygedd ei gyfeillion a'r gelyn.


Efallai y gofynnir,—A ydyw yn debygol y bydd i Poland ennill ei hanibyniaeth yn ol? Ni ddiffoddwyd tân cysegredig rhyddid

^{A ddaw Poland yn rhydd?} ym mynwesau y Pwyliaid ym mrwydr Maciecowice. Er y pryd hwnnw mae yr ysbryd gwrthryfelgar wedi ymdorri yn awr ac yn y man, ac ymdrechion wedi eu gwneuthur i ymysgwyd o'r llyfetheiriau, ond y maent bob tro wedi gwneyd eu hiau yn drymach, a rhoddwyd hwy i lawr â llaw gref a chreulonderau erchyll. Yr awrhon hefyd mae gwreichion yr hen ysbryd i'w canfod o bryd i bryd. Ond hyd y gallaf gasglu oddi-wrth ymddiddanion âg ambell frodor o'r wlad honno, braidd y coledant obaith gweled Poland anibyynnol drachefn, ac y mae rhesymau cryfion am hyn. Erbyn hyn, mae Poland wedi ei hymgorffoli yn o drwyadl yng ngwladwriaethau ei gorchfygwyr, a phob moddion wedi eu defnyddio i fathru marwor yr ysbryd cenedlaethol.* Mae y fyddin wedi ei chwalu ymhlith catrodau y gwledydd hynny. Mae eu hiaith, hefyd, un or arwyddion cryfaf o ysbryd anibyynnol, yn gorfod cilio o ychydig i ychydig o flaen yr Almaeneg a'r Rwsiaeg, trwy ei bod yn cael ei chau allan o rai o'r ysgolion. Yn ychwanegol at hyn, y mae rhwymyn crefydd rhwng Awstria a'i deiliaid Pwyliaid.

Nid rhyfedd, gan hynny, fod y genedl Bwyliaid yn dyfod i blygu i'r anocheladwy. Ond beth bynnag a ddigwyddo, pa un a ennill Poland ei hen ragorfreintiau yn ol ai peidio, ni sycha amser y brychau gwaedlyd oddiar ddwyllaw y tri gormeswr, ac ni ddilea, ychwaith, enw Tadeusz Kosciuszko oddiar lechres hanes fel un o'r rhyfelwyr dewraf, a'r gwladgarwyr cywiraf, a gynyrchodd y byd.

G. HARTWELL JONES.

* Gellir nodi gwaith Prwsia'n newid yr hen enwau Pwyliaid ac yn rhoi enwau fel Bismarkdorp a Gravelotte yn eu lle. Prudd iawn yw hanes cwmp Poland, oherwydd ystyfnigrwydd ei huchelwyr, ac oherwydd syrthni cysglyd ei gwerin hyd yn ddiweddar. A phrudd iawn yw ei rhagolygon; y mae wedi ei llethu.



hyd y gwn i, wedi
su tragwyddol y
wer emyn a chân,
brydferthwch a'i
enw, anial ac oer
Cymreig. Gwell
awreddog a sanct-
nydd rhyddid hyd
ro, fel am nefoedd
owyach.”

ad dwy o'r tair sir
ai a hyfrydwch ei
yng ngolygfeydd
yn ymgolli yn y
wedi teimlo swyn y
us, nag o hyfryd
nd i'w cân. Ar y
rr; ond enaid at
ef, nid at chwyl-
ylyp, sydd a'i fedd
ran uwchben adeg
ef, mewn pryder
dôr tua chartref y

ayd swyn y môr yn
ain mlynedd yn ol
fachgen ieuanc yn
ped; ond yr oedd

gofid, a hadau afiechyd hwyrach, wedi ei ddysgu i sugno cydymdeimlad o swm y môr. Aeth i lan y mor ac i mylon tra-gwyddoldeb yn ieuanc, ac y mae adlais o'r su dieithr pell yn y caneuon adawodd ar ei ol. Ond dyma'r gân y cyfeiriais ati.

SWN Y MOR.

O mor hoff yw gennyf gerdded
Glan y môr!
Ac mor anwyl gennyf glywed
Swm y môr!
Mwyn-gan ddwys yr afon fechan
Wrth ymdreiglo dros y graian
Sydd yn hoff,—ond nid fel prudd-gan
Swm y môr.

Man fy ngenedigaeth ydoedd
Min y môr;
Y swm a'm suodd gyntaf ydoedd
Swm y môr;
Mae fy ysbryd wedi helaeth
Yfed chwerwder ei alaceth,
Cyfran heddyw o'm bodolaeth
Ydyw swm y môr.

Pan o ddwndwr byd yn cilio
I lan y môr,
Yno am orffwysdra i chwilio
Yn swm y môr,
Gefais lawer tawel ennyd
Hamdden i fyfyrto bywyd
Draw ymhell o'i dwrf terfysglyd,
Yn swm y môr.

Dan archollion brathol siomiant
Awn i lan y môr,
Yno i chwilio am ddyhuddiant
Yn swm y môr;
Dywedyd, yn ei ddull difrifol,
Nad yw gwynfyd yn arosol,
Ac mai gwagedd popeth dynol,
Mae swm y môr.

Tra ar lawr dan drallod ingol
Profedigaeth ddu,
Wedi colli'n anamserol
Un o'm rhiaint cu,

Nid adfydus gwyneb hudol
Anian, er fy ngofid mabol,
Canys gwenai gwanwyn siriol
Ar bob tu.

Ond gwell na'i gwên oedd gennyf ruad
Min y môr,
Yno cefais gydymdeimlad
Swm y môr,—
Gwendon gref yn dilyn gwendon
I guriadau prudd fy nghalon,
Gan dragwyddol ruddfan undon
Min y môr.

O mor hoff yw gennyf gerdded
Glan y môr,
Ac mor anwyl gennyf glywed
Swm y môr!
Saith o'm brodyr a chwiorydd
Sydd yn gorwedd gyda'u gilydd
Ym mhriddellau mynwent lonydd
Ar fin y môr.

Ac yn gorffwys yn Llanaber,
Ar fin y môr,
Mae fy nhad, fy rhiant tyner,
Yn swm y môr,
Ar yr anial wedi blino;
Digon i'w weddillion yno
Bellach fydd cael tawel huno
Yn swm y môr.

A phan ddaw'r dydd ym gwysir innau
I'r beddrod oer,
Cladder fi, fel fy nghyndadau,
Ym min y môr;
Wedi gorffen blinwaith bywyd,
Yno llechaf dan y gweryd,
Draw o swm enllibion drygfyd
Yn swm y môr.

Ganwyd Robert Owen ger yr Abermaw, Mawrth 30, 1858; bu farw ger Harrow, Victoria, yn Awstralia, Hydref 23, 1885; ac y mae lled y ddaear rhyngddo a'r fan y clywodd gyntaf swm y môr.

O fewn ergyd carreg i'r brif-ffordd sy'n rhedeg o'r Abermaw trwy Ddyffryn Ardudwy, rhwng capel y Parsel ac eglwys Llanaber, saif ffermdy bychan o'r enw Tai Croesion.

Tai Croesion. Amgylchynir y ty, adeilad digon cadarn, gan goed talgryfion. Gwyneba y môr mawr llydan, ac y mae yn ddigon agos ato i unrhyw un a wrandawa glywed swm

“gwendon yn dilyn gwendon” ac yn marw ar y traeth. Yno y ganwyd Robert Owen, mab Gruffydd a Margaret Owen. Brodor o Benllyn oedid Gruffydd Owen; ganesid ef yn y Ty
 r tad. Llwyd, Cwmtirmynach, ger y Bala. Pan yn llanc ieuanc hawddgar, a'i harddwch corfforol yn ddihareb, symudodd gyda theulu o'i gymdogaeth i'r Ty Mawr, Talsarnau. Fel ei deulu, gŵr cariadus cymhwynasgar oedd, yn ddifyr iawn ei gwmni, gyda gair ffraeth caredig yn barod bob amser, ac yn hoff iawn o gân. Bu farw Chwef. 26, 1875, yn naw a deugain oed, wedi ei siomi yn ei hoff obaith. Yn ei hiraeth am dano, dwys ganai ei fab fel hyn.

FY NHAD.

Fy nhad, anwylaf riant! deunaw mis
 Sydd bellach wedi treiglo er pan
 welsom
 Dy wyneb llydan, llariaidd, dan y chwys
 A frys-fynegai angau; er pan roisom
 Dy gorff lluddiedig mewn gorffwys-fan
 is
 Daearen hoff Llanaber, — llu o honom
 Oedd isch a heinyf pan y'th gollsom di;
 Sydd erbyn heddyw yn y beddrod du.
 Mor hawdd yw gennyf gofio am y pryd,
 Pan mewn addfedrwydd dyndod a
 mwynhad
 O iechyd llon a chwarddai yn dy bryd,
 Yr elit oddiamgylch heb nacad
 Na chysgod pryder yn cymylu'th fryd,
 I fwyn gyflawni dyledswyddau tad, —
 Ymchwyddai'th fron bryd hynny gan
 obeithion
 Dyfodol gwell, a henaint llawn cysuron.
 Ond gwell fa'i gennyf fi i'r dyddiau hyn
 Ymgolli o fy meddwl, nid yw'r adgof
 Am danynt ond yn chwewi'r teimlad
 syn
 Sydd ar adegau bron a'm gyrru'n
 wallgof,
 Pan goflaf eto am y dyddiau blin
 Fu raid it' brofi gwedyn, riant gwiw-
 gof, —
 Y byd yn gwgu, amgylchiadau 'n pallu,
 Dy nerth yn mynd, a'th fynwes yn ym-
 dorri.
 Er iti'n hir a llwyr gyflawni'th ran
 Ar wyllt chwareufwrdd bywyd, er fod
 iti
 Anwyliaid ffyddlon i'th ddyddanu pan
 Yn loesion profedigaeth; er it allu
 Am ennyd fer yn gryf ymgynnal dan
 Y baich o boen a'th lethodd wedi
 hynny,
 Rhy dyner oedd dy ysbryd a theimladwy
 A'th unig noddfa yn 'r ystorn oedd —
 marw!

Pan welaist gynlluniadau hoff dy oes,
 Oedd weithian yn eu blodau, wedi
 gwywo;
 Pan orfu it adael fyth y llannerch dlos
 Lle gobeithiesit mewn tawelwch
 dreulio
 Prydnawn dy fywyd; pan yng ngrym
 dy loes —
 Y gwelaist hengyfeillion yn dy ado, —
 Dy ysbryd mewn dwfn alaeth a ym-
 suddodd,
 A'th galon gan ei gofid a ymrwygodd.
 Ac eto, yn dy gystudd maith a châs,
 Mor ymostyngol fyddai'th wedd bob
 pryd,
 Amynedd plentyn Duw trwy'th lygad
 glas
 Belydrai mewn gogoniant mwy o hyd;
 Ynganol dy bangfeydd y'th nerthai
 gras
 I dawel ddwyn dy gyfran yn y byd;
 Dy boen o'th fron ddirwasgodd lawer
 gruddfan,
 Ond nid, mewn pedwar mis, un lleied
 cwynfan.
 Wrth wyllo'th wely angu, O fy nhad,
 Gwelais mor hawdd, mor anhawdd
 peth, yw marw;
 Mor hawdd am wynfyd pur y nefol
 wlad
 Cyfnewid drwg y byd a'i droion
 chwerw;
 Mor anhawdd gadael gwraig a theulu
 mad
 I syllu trwy eu dagrau mwy ar welw
 Wynepryd tlodi, pan na byddai eil-
 waith
 Dy gymorth parod di i'w droi ef ymaith.
 Anhawdd iawn, iawn, oedd ymryddhau
 o dyn
 Afaelion hen gymdeithion deugain
 gwanwyn, —

Y meusydd hoff, y defaid ar y bryn,
Yr adar garet wrando pan yn blentyn,
Y dydd a'r nos,—harddwch y cwmwl
gwyn,
Lleuad, a ser, a haul,—O gloew'r
deigrin

Ymlwybrai hyd dy rudd wrth weled ola'
Belydryn haul yn gwenu ar dy boenau.

Ond rhaid fu mynd. Byth nid anghof-
ia'r boreu

Y codais, wedi cysgu dim ond awr,
I gael fy hunan heb fy rhiant goreu—
O gystal a fusai gen i'n awr,
Pe mai myfi a offrymasai angau
Gan mor ddyryslyd popeth ar y llawr;
Dy nerth allasai'n hir i eraill weini,
Fy nerth sy'n mynd mewn ameu ac
ymboeni.

O llawer gwyllnos hoff y bum erioed,
Heb arall gwmni gennyf ond distaw-
rwydd

Afonig, neu ysbrydiaeth ddwfn y coed.
Yn synfyfyrion bruddaidd ar an-
slerwydd

Popeth daearol—hywyd brau ac oed,
Ffrwyth wedi hau, gwynfyd ar ol
enbydrwydd,

Byw'n iawn, pa beth sydd iawn, pa fodd
cysoni
'R hyn ddylai fod a'r hyn sydd yn
bodoli.

Mynych a dwys ddymunais, pan fy hun
Yn methu gweld trwy'r caddug erch
ond cysgod

Dyfodol adfyd im a dyddiau blin,
Am itiddod yn ol pe ond am ddiwrnod,
Am cymryd eto'n blentyn ar dy lin,
I wneyd yn eglur i'm ddirgelwch
hanfod,

A chymorth trwy'th oleuni o fydd arall
I farnu a chredu'n iawn, fy rheswm
cibddall.

Ond ofer hyn. Nid oes o dan y ne
I'm llygaid i ond tw'llwch, tw'llwch,
tw'llwch,

Yn ol a blaen, ar aswy ac ar dde,
Uwchben, islaw, dirgelwch ar ddir-
gelwch!


Minnau yn palfalu heb wybod i ba le
Y trof i ddisgwyf toriad gwawr didd-
anwch.

Ffarwel fy nhad! Os na chaf yma heddi,
Caf hyuny fel cêst dithau, yn y bedd.

Fel ei gŵr, yr oedd Margaret Owen yn hynod am ei chared-
igrwydd a'i lletygarwch siriol; y nodweddiadau a'i gwahaniaethai
oddiwrtho ef oedd ei phenderfyniad meddwl. Merch
y fam. Gwern Einion, ger Llanbedr, oedd. Credai mewn
gwaith; a gweithiodd yn rhy galed ei hun i fagu ei
phlant. Ni bu iddi ddiddanwch ar ol marw ei gwr; ac aeth ar
ei ol y seithfed o Fai yn y flwyddyn wedyn, yn saith a deugain
oed.

Pan oedd Robert Owen yn bedair oed, symudodd y teulu i fyw
i'r Abernaw, ac yr oedd erbyn hynny frawd bychan tew o'r enw
Owen, deulwydd oed. Ty ar ochr y graig oedd y ty
Abernaw. newydd, o'r enw Pen y Bryn. Gŵyr pawb fel mae'r
Abernaw wedi ei adeiladu ar wyneb craig, ac fel y
medr y trigolion weled y llongau ar y môr dros simddeuau eu
gilydd. Symudasai Gruffydd Owen, gyda'i wraig a'i ddau blen-
tyn bach, i fod yn ben badwr ar afon Mawddach; yr oedd hynny
cyn amser y ffordd haiarn a'r bont, er fod y ffordd a'r bont wedi
eu dechreu. Collodd y cychwr ei alwedigaeth, a chollodd y rhan
fwyaf o'i arian wrth ofer ymgyfreithio a'r cwmni oedd wedi
dinistrio ffon ei fara.

Yr oedd bryd Gruffydd Owen ar ffarmio. Cymerodd Lwyn
Gloddaeth, ffermdy yng Nghwm Sylfaen, ychydig dros filltir o'r



(Abermaw).

f 1867, gyda'i deulu
a diffwrth oedd ar
a grug; ond yr oedd
lon ar ei wneyd yn
dunelli lawer o galch
oll feusydd â chalh a
wydd, a gwnaeth i wair
olynyddoedd. Ac nid

hwareuai'r ddau fach-
a llong; ac aethant i
dyn ar y bryn wrth
g a chregin cocos yn
ddigon, hwyr a bore,
amaethwr mwyaf yn
iddynt wyllo'r amser

h ei deganau, yr oedd
r ysgol Sul ac yn yr
nder a'i weithgarwch
ld ysgol Frytanaidd
r Abermaw yn 1868
is-athraw yn Robert
oson honno, a'i frawd
roddi cais yr athraw
ei dad wrando arno.
fam; ac yn y bore
dechreuodd ymdrech
lu a defnyddioldeb,—

yr ymdrech bruddaf, ond mwyaf dyddorol, feallai, yn hanes efrydwyr tlodion Cymru.

Beth yw'r rheswm fod ambell i fachgen mewn ysgol, heb gynorthwy cyfoeth na theulu na dysg, yn unig ymysg ei gyd-ysgolheigion chwareugar fel un yn babell i ryw

Bonedd ath-
rylith.

ysbryd mwy pur a choeth na'u hysbrydoedd hwy? Y balchder urddasol, y boneddigeddrwydd naturiol, yr uchelgais ysol, y gonestrwydd anhyblyg,—o ba le y daethant i'r galon fach sy'n curo dan gob sy'n dangos gofal a thlodi mam? Tra'r oedd holl fryd ei gymdeithion ar chwareuon a melusion, pa beth oedd yn ei ddenu ef i unigedd ochrau'r Llawllech, i ymhyfrydu ym mhrydferthwch natur, ac i gyfuno'r mwynhad hwnnw gyda chariad, oedd yn ymagor yn ddistaw fel rhosyn, at eneth fach lygat-ddu oedd yn chware gyda'r lleill?

Lle tawel yw'r Abermaw. Cysgod sydd yno, a lle i ymfwynhau; nid lle i fagu anturiaethwyr. Nid llawer o wŷr enwog gododd yno, os neb. Os symuda meddwl yno o gwbl, symuda,—dan ddylanwad ymbleserwyr a llyfrgell y ffordd haiarn,—yn esmwyth ddiog yn ol. Ac yno yr oedd bachgen unig, a rhywbeth wedi deffro pob cyneddf iddo. Yr oedd pawb yn ei adnabod, ond yr oedd yn ddieithr yn eu mysg. Gwrandawai'n astud ar y pregethau, mwynhai'r seiadau, nid oedd ball ar ei lafur at yr ysgol Sul, carai'r plant yn angerddol, hanner addolai ei dad a'i fam, ac yr oedd prydfferthwch yr eneth honno yn rhoddi ei wedd ddedwydd ar fywyd cudd ei feddwl. Ond eto yr oedd yn unig; yn anesboniadwy hyd yn oed i'r rhai a'i carai. Cerddai lwybrau dieithr iddynt,—min a môr a glan tragwyddoldeb o hyd.

Pan yn alltud pell, a'i uchelgais wedi troi'n anobaith, a phan yn hiraethu am y fam allasai leddfu peth o'i gur; dywed ran o hanes yr ymddieithriad.

FY MAM.

Fy anwyl, fy hen fam,
Paham,
Ar ol i'th farwol ran
Am flwyddi orffwys dan
Briddellau oer y llan,
Y mae dy adgo
Yn gwneyd i'm calon gan
Ei phoen ymsuddo.

Fe gollais dyner fam
Pan fuost farw,
Ond och, nid dyna'r pam
Yr wyf mor arw:
Gwyn fyd na bai ond hyn
I friwio'm hysbryd syn,—
Na bai fy mhoen ond llyn
O ddagrau hiraeth

Am serch nad oes a'i pryn
I'm profiad eilwaith.

Fy mam, nid am y serch
A gollais felly,
Ond am y gofid erch
A berais iti,
Y mae fy adgof prudd,
Megis rhyw wermod cudd,
Yn chwervei nos a dydd,
Felusder bywyd,
Nes gofid-lwydo grudd
Rhosynaid ienctyd.

Pan gynt ar fronau'th fam
Dy gred a sugnaist,
A'r rheswm dyrys pam
Erioed ni fyfnaist;

Digon, er dy foddhad,
Oedd fod dy fam a'th dad
Yn credu'n ddinacod
Yr hyn a ddysget,—
Dymuno sicrhad
Pellach, nis gallet.

Uwch gair dy Dduw ni ddaeth
Ericod i'th fino
U'n anesmwythdra gwaeth
Na methu'i goffo;
Roedd popeth iti'n glir
O fewn y gyfrol bur,
A methaist weled tir
Tywyllwch yno,
Lle mae pob gair yn wir
Yn ol dy gredo.

Felly, yng ngrym dy ffydd
Gref a phlentynaidd,
Ti ellaist, yn dy ddydd
O drallod trymaidd,
Ymgynnal dan ei bwys,
A dioddef cystudd dwys
Am hir mew'n gosteg glwys;
A, phennaf eiw,
Pan ddoist i ben y gŵys,
Ti fedraist farw.

Ond, er im sugno maeth
Dy fron yn blentyn,
Nis gellais yfed laeth
Dy grefydd wedyn;
Rhyw anorffwystera am
Y "pa fodd" a'r "pa ham"
A'm gyrrodd i, ar gam
Fe allai, i grwydro
Ymhell o gred fy mam
A'r heddwch yno.

Diau nas gallaf fi
Byth lawn amgyffred
Ddyfnder dy drallod di,
Fy mam, wrth weled
Y mab, y cefaist fyd
I'w fagu'n anwyl cyd,

A'r hwn oedd yn y byd
Dy bennaaf oibaith,
Yn colli ei enaid drud
Ym mhwill ambeuaeth.


Ond nid o'th ochr di
Y bu'r holl alaeth,
Ond cyflawn gefais i
Fy nghyfran helaeth.
I'th ereill blant nid oes
Ond adgof am dy oes
O gariad, er pob croes
Ddaeth i'th gyfarfod,—
Hiraeth yw'r unig loes
Sydd yn eu trallod.

Ond mwy dy rodd i mi—
Rhoist i mi alaru
Nas gallaf byth i ti.
Byth mwy, ad-dalu
Dy serch, na gwneuthur iawn
Yn rhagor am y cur
A berais iti 'n hir,
Na dwyn i'th adfyd
Addfedrwydd teimlad llawn
Hafddydd fy mywyd.



Ac O, nis gellais chwaith
Ddim dangos iti,
Cyn cyrraedd pen dy daith,
Fod modd cyflawni
Ein dyled yn y byd,
A chofio Duw bob pryd,
A charu a'n holl fryd
Ddynolryw hefyd,
Heb eto gredu i gyd
Hen wersi'r aelwyd.

Ond fe ddaw eto ddydd
Pan yr anghofwn
Bob anghydsyniad prudd
Am beth a gredwn;
Nid oes yn nefoedd Duw
Un cyffes ffydd yn byw,
Cariad yn unig yw
Y gyffes yno;
Ninnau gawn yno'n wiw
Dros byth gytuno.

Yr oedd y byd yn gwasgu ar yr amaethwr, druan. Yr oedd wedi benthyca arian i fynd i Lwyn Gloddaeth, nid oedd ei lafur yn dod ag ennill iddo, aeth yn dlawd yn onest; a ^{Siomiant am-} ^{sethwr.} gorfod iddo droi ei gefn, a'i galon ar dorri, ar y lle yr oedd pob gobaith yn y byd hwn wedi angori wrtho. Nid oedd ing meddwl Robert Owen yn llai nag ing meddwl ei dad. Aethant yn ol i'r Abermaw i fyw, a nod bywyd y bachgen yn awr oedd ennill digon i roddi ei dad yn ol. Ddeng mlynedd i ddiwrnod marw ei dad, yr oedd Robert Owen yn Awstralia yn meddwl am dano. "Ddeng mlynedd i heddyw,"





yr faint o honof fi
 af mai colli fy nhad
 rw, yr oedd gennyf
 wrthych mor gryf
 nos, gymaint ddiodd-
 edi gweled fy nhad
 ai mor fawr, ac yn
 ydig flynyddoedd, yr
 fuasai raid iddo ei
 ai fy nhad ddioddef
 oedd y pwrpas hwn
 y nannedd, cauwn fy



fod neb yn ameu fy
 do mor hapus fu yn
 ai unlle byth fod fel
 yn y Sylfaen, ac yn
 rt Owen bedwar o'r
 gadawodd ei Caesar
 ref. Aethant trwy'r
 en, oddiwrth wyneb
 Wrth basio Ty'n y
 ddd yn feddwl wneyd

aeth ei wyneb yn


ach calon i lawr fel
 o gael gweld dydd-
 s ca i fyw, nhad,
 feistr arnoch eich
 yn Gloddaeth beth
 annu, a'i lygaid yn



DAETH.

Yr oedd yr haul
 af Cymru, a'r bore'n
 Robert Owen adre.
 wedyn, yu wael, a
 yth."

Owen. O'r adeg
 el cloch Llanbedr, yr
 en fywyd ei blentyn-
 mae ei hiraeth cyn



“ O fy nhad, fy anwyl dad,
A wyt ti
O uchelder dy fwynhad
Arnaf fi
Eto'n sylwi, megis pan
Yr ymddringwn er yn wan
Ac yn fiin,
I'm hoffusaf sicraf man
Ar dy lin.

“ O fy anwyl, anwyl dad,
A wyt ti
Eto'n gwenu dy foddhad
Arnaf fi,
Tra yn hwylio tua glan
Lestr fy nghymeriad gwan
Ar hyd aig
Bywyd, a beryglir gan
Lawer craig?

“ O fy nhad, fy anwyl dad,
A wyt ti
Eto'n gwgu dy dristad
Arnaf fi
Pan, yn nwyflant hy fy oed,
Y bwy'n sathru dan fy nhroed
Ddeddfau Duw,
Fu i ti yn gvson nôd
Yu dy fyw?

“ Credu'r ydwyf fi dy fod,
A'th fod di
'Nawr yn ddyfnach nag erioed
Gyda mi,
'N cydymdeimlo pan yr wy
'N methu'n lân a gweled drwy
Nifwl du
Oes-amheumon, nad ynt mwy
Niwl i ti.

“ O fy nhad, a wyddost bryd
Y caf fi
Ddianc rhag gofidiau byd
Atat ti?
A raid imi fod yn hir
Dan fy nghroes yn dwyn fy nghur.
Heb im hedd?
Ai gerllaw mae angof dir
Cynnar fedd?

“ Blwyddi bellach sydd er pan
Roisom ni
'Th gorff yn nwf n dawelwch llan
Ger y lli;
Eto'm hiraeth sy'n dwyshau
Fel mae'r adeg yn neshau
Pan gaf fi
Ddianc fry o'm pabell frau
Atat ti.”

Bum ar bererindod yng nghyffiniau Llwyn Gloddaeth. Saif i fyny ar y bryniau sy'n codi o lan afon Maw. Oddiyno ceir golygfeydd nad oes eu harddach yng Nghymru, os yn y byd. Lle gwael i godi ymborth sydd ar y bryniau creigiog a grugog hynny; y mae caeau gwenith a phytatws yr amaethwyr yn ymestyn, ym mhob ffurf, rhwng crugiau o gerrig a thwmpathau drain. Synna'r dièithr pa fodd y medrasant arloesi lleoedd felly, os nad â fforch; na'u medi, os nad â siswrn. Ond nid ar fara'n unig y bydd byw dyn. Nid yw'r eithin yn felynach yn unlle, na'r grug yn gochach; y mae natur yn gwisgo'r mynyddoedd ag ysblander o felyn a choch na welodd dychymyg bardd eu prydfertach. A'r mynyddoedd mawr, y Gader a'r Aran, safant yn ddifrif-ddwys draw,—a'u gwisg niwl yn newid yn amlach na hyd yn oed ffasiynau'r ddaear. Ac odditanodd clywir su'r môr, nid rhu hygythiol, ond su esmwyth Sabbothol. Yma deffrôdd awen Robert Owen, a dechreuodd ganu cân, ond daeth angyu cyn iddo gyrraedd yr amen. Yn honno, mewn dull difyr, darlunia ei hun yn mynd

“ Am dro yng ngwyleidd-dra y wawrddydd,
Neu ddifrifwch gosteg yr hwyr,
Hyd fynydd a glyn a choedwig,
Ac unig lennydd y dŵr.”

I geisio ymgydnabod â'r awen aeth i ben y Llywllech i weld toriad gwawr, ac i weled a ddeuai'r dduwies gyda hi.

"Nol cyrraedd i ben y mynydd,
Gwelais o'r glynnocedd draw
Gysgodion y nos yn dianc,
A'r ser yn ymguddio draw.

"Y cynyl ar hyn ddechreusant
A gwrido fel gruddiau merch
Wylaidd, pan am y tro cyntaf
Yn mud gyfaddef ei serch.
Ac yna dros ysgwydd y 'Rennig,
Mewn gwisg o fawrhydi a hedd,
Gyda'r urddas balch hamddenol,
Dadlennodd yr haul ei wedd.

"Ar ogledd a deheu a dwyrain,
Mynydd ar fynydd ei ben
A ddyrchai, fel aruthr fyddin
O gewri yn bygwth y nen ;

A thua gwlad Arfon disgleiriai
Y môr megis arian ddrych,
A'i wedd fel gwedd baban yn cysgu,
Mor ddiiddig, mor ddi-grych.

"Gerllaw, tywyll lynnau'n ymlechu
Yn esmwyth is dannedd y graig,
Mân ffrydiau yn trystiog brysurow
I'w cartref ym mynwes yr aig ;
Y Mawddach fel harddwch mewn
breuddwyd,
Gwastadedd, a dyffryn, a glyn,
Llwyni, a meusydd, a chnydau,
A defaid yn britho pob bryn—

"Wyllt Walia ! Wlad anwyl fy nhad-
au !
Pa wlad mor deg a thydi ?"

Ond, wedi'r bore hwnnw, yr oedd pob peth adnabyddai gynt wedi ennill ystyr newydd,—

"Y morfa a'i aml dwmpath,
O for-hesg a blethem ni gynt,
Y tywod yn fil o domennydd
Amrylun wrth fympwy y gwynt,—
A'r Môr, yr hen For, fy addysgydd,
Yn blentyn, a'm cyfaill yn hyn,
Môr, mor ddynol-newidiol,
Ac eto mor ddwyfol yr un."

Gwnaeth y bachgen athraw campus. Yr oedd yn hoff o blant, ac yn bryderus iawn am danynt. Darlennai lawer am danynt, ac ysgrifennai eu hanes yn ei ddyddiadur. Gweithiai â'i holl egni. Codai'n foreu; weithiau ni chysgai ond awr; bywiai'n galed. Enillai ychydig at brynnu llyfrau wrth gasglu arian dros ryw gwmni yswiriol ac ysgrifennu llythyrau. Yn yr ysgol Sul, fel yn yr ysgol ddyddiol, yr oedd ei ymroddiad yn ddiderfyn; dysgai pob aelod o'i ddosbarth lawer iawn o adnodau, dysgai yntau fwy na'r cwbl gyda'u gilydd. Tafodd Ffrancwr dysgedig o rywle i'r Bermo, y mae wedi ei gladdu yno yn y graig, fel Chateaubriand; dysgodd hwnnw bedair iaith iddo,—Ffrancaeg, Almaeneg, Ysbaeneg, ac Eidaleg.

Mwynhai bregethau'r Sabbath, ysgrifennai grynnodeb ohonynt, a beirniadau hwy'n llym. "Yr wyf yn cael rhyw bleser yn y seiat," ebai, "nas gallaf gael yn unlle arall." Pan yr is-athraw. yn fachgen unarbymtheg oed, clywodd Mynyddog yn canu, a hoffodd ef yn fawr. Darlennodd ganeuon cyntaf Ceiriog, ac ni welodd ddim ynddynt; er hynny yr oedd yn hoff o sylnder gonest a naws delynegol Burns. Edmygai

Carlyle, ond nid oedd yn ei hoffi; fel rhyw ddelw farmor arw fawreddog yr ystyriai ef. Ni welodd yr hoffder at orthrwm digydymdeimlad, a'r rhagrith, sydd yn yr ysgrifennydd hwn; yr oedd yn rhy ieuanc. Darlennai draethodau Macaulay drosodd a throsodd, a chyfieithiodd y traethawd ar Bunyan. Swynid ei feddwl gan Shakespeare, yn enwedig gan y cymeriadau pwysicaf,—Macbeth, Lear, Othello. Ond tybiai fod un bardd mwy na Shakespeare, a hwnnw oedd Milton. Yr oedd ei edmygedd o Milton yn ymylu ar addoliad. Rhoddodd ddeuswllt unwaith am *Lives of the Poets* Johnson; a beth a gafodd am ei arian drud ond ymosodiad rhagfarnlyd yr hen ddoethawr cibddall ar ei hoff fardd. Cred frwdfrydig Milton mewn rhinwedd, ac yn nhragwyddol anibyniaeth y meddwl pur, oedd yn apelio ato,—

“ Virtue may be assailed, but never hurt;
Surprised by unjust force, but not enthralled;
Yea, even that which mischief meant most harm
Shall, in the happy trial, prove most glory;
But evil on itself shall back recoil,
And mix no more with goodness.”

Ond daeth swm cloch y llan i dorri ar ei fyfyrddod. Collodd ei dad, ac yr oedd gofal ei fam a'i frawd a'i ddwy
Cloch y Llan. chwaer fach arno ef. Bu ei fam farw hefyd, a daeth pryder i chwerwi ei lafur. Nid ei ddyfodol ei hun yn unig oedd ei faich, ond bywyd ei anwyliaid amddifad.

CLOCH Y LLAN.

Hoffed gennyf ydyw sain
Cloch y llan!
Drymed imi ydyw sain
Cloch y llan!
Llengoedd o adgofion sydd
Yn tramwyo'm calon brudd
Pan y clywaf gyda'r dydd
Gloch y llan.

Ganwaith pan yn blentyn gynt
Y'm hataliodd ar fy hynt
Cloch y llan;
Elai chwareu'n llwyr o'm co
Tra y gwyliwn lawer tro
Fel y siglai uwch y to,—
Cloch y llan.

Dyddiau diddan oedd y rhain,—
Dyddiau pan
Nad oedd tristwch im yn sain
Cloch y llan;
Ond yn awr, wrth ganiad hon,
Gobaith drenga dan fy mron
Fel y trenga nerth y don
Ar y llan.

Flwyddi'n ol ar foreu Sul,
Oer a du,
Mewn ystafell lom a chul
Gwyliwn i,
Gydag ingoedd calon friw,
Ymdrech olaf tad i fyw
Pan ddisgynnodd ar fy nghlyw
Ganiad cloch y llan.

Ond anghoflais fy mhruddhad
Yn y fan,
Pan y gwelais fod fy nhad
Er yn wan,
Yntau'n gwrando dan ei chwys
Megis pe'r diweddaf wys,
Ar ganiadau prudd a dwys,
Cloch y llan.

Tawodd hon, ac yna daeth
Fel o waelod
Enaid yn ymroi gan aeth
Ei hir drallod,
Un ochenaidd ddofn a maith
A lefarai yn ei hiaith—
“ Dyma, dyma'r olaf waith
Clywa'i gloch y llan !”

Fe ddaeth eto foreu Sul
 Duach, oerach,
 Fe ddaeth eto i'r stafell gul
 Ganiad pruddach ;
 Ond er dyfned oedd yr ust,
 Siarad wnai y gloch wrth glust
 Na wrandawai' thonau trist
 Byth mwyach.

Gorfu imi wedi hyn
 Adael bro
 Mebyd a mwynhad, a mynd
 Yn fy nhro
 I wynebu stormydd byd,
 Heb amddiffyn un fu cyd
 Imi'n gysgod ar bob pryd
 Heb fy nhad !

Ond nid ymroddi i anobaith wnaeth y bachgen dewr. Dywed ei hanes yn danfon ei frawd Owen i ben rhiw'r Gorllwyn, fel yr oedd y ddau'n penderfynu amddiffyn eu dwy chwær fach ; ac yno, wedi gadael ei frawd, penderfynodd roddi ei fywyd i'w frawd a'i chwiorydd. Yr oedd y ffordd i goleg Bangor yn glir iddo, ond aberthodd hynny er eu mwyn hwy. Aeth yn is-athraw i Jasper House, Aberystwyth, am ychydig ; ac oddiyno i Bourne College, Birmingham. Ei gynllun oedd ennill digon i gadw ei chwiorydd, a gweithio am ei radd yn Llundain ar yr un pryd. Yr oedd goleuni ar ei fywyd eto, a gwyddai am rai'n credu ynddo ac yn ei garu.

Yn Hydref, 1878, cafodd un o'r rhain newydd prudd oddi-wrtho. Yr oedd y pryder a'r lludded wedi gwneyd eu hol arno.

"A fedrwech gredu," gofynna, "fod eich hen gyfaill yn barod yng ngafael y darfodedigaeth, ac nad yw'n debyg o fyw mwy na blwyddyn, feallai ddim mwy na chwe mis?" Dywedodd dau feddyg yr un ystori anobeithiol wrtho, gan ddweyd y byddai raid iddo roddi ei waith i fyny a mynd adre i farw. Yr oedd yn ymostyngar, "ond y mae'n arw gennyf fod yn rhaid i'm bywyd ddod i'r pen cyn i mi orffen fy nghynlluniau bychain dros fy mrawd a'm chwiorydd. Yr oedd-ynt hwy i fynd i'r ysgol i Ddolgellau, a'm brawd i barotoi at y weinidogaeth. Yr oeddwn wedi gyrru peth arian iddo, a siwt o ddillad. Wrth feddwl mor ddiamddiffyn fyddant hwy, yr wyf wedi wylo nes bron dorri fy nghalon. Nid wyf yn galaru am fy nhynged fy hun, y mae bywyd wedi colli ei swyn i mi. Y mae fel anialwch oer i mi, heb lwybr, heb gydymaith, heb flod-euyn ; dim ond blynyddoedd blin o lafur a thrallod, yn ymestyn fel tonnau o dywod yn y diffaethwch, a marw anocheladwy y tu hwnt."

Cafodd gydymdeimlad serchog Cymry caredig Birmingham, ac yr oedd ganddo le dwfn yn serch pawb gyfarfyddasai. Yr oedd y plant, yr athrawon, a'r gweision yn cystadlu â'u gilydd i ddangos eu caredigrwydd tuag ato. Nid oedd dim yn fwy wrth ei fodd yntau na chael y plant i'w ystafell, i roddi gwledd o ddanteithion ac ystraeon iddynt. Yr oedd meddwl am ei chwiorydd wedi rhoddi gallu iddo ddeall calon plentyn. Ym Birmingham yr ysgrifennodd y gân hon,—

Y FFORDD I BARADWYS.

WRTH ddrws ysbyty, un bore oerddu,
'Roedd geneth mor anwyl ag a welsoch eriood,
Yn curo'n wannaidd, a'i llaw blentynaidd,
A'i llaw fach deneu, seithmlwydd oed.

Ar ei gruddiau, yn lle rhosynau,
'Roedd ol y dagrau; ac yn ei phryd
Lwydni anghenion a gofid calon,
A hi ond ar drothwy bywyd a byd.

Y porthor agorodd, a hithau ofynnodd
Mewn tristwch a phryder, y fechan ddi-nam,—
“ A wyddoch chwi, borthor, pa le mae fy mam ?”
Mudsyllai'r dyn arni, gofidiai drosti,
Cans 'roedd ef yn meddu teimladau tad,
Ac a'i lygaid yn llenwi gan ddagrau tosturi,
Atebodd iddi,—

“ Fy mechan fad,
Mae'th fam wedi symud, byth mwy i ddychwelyd,
Ac wedi cymeryd
Y ffordd tua Pharadwys wlad.”

Gofynnodd hi eto, cyn troi oddiwrtho,—
“ A fyddwch chwi gystal a dweyd i mi am
Y ffordd sydd yn cymwys fynd i Baradwys
Er mwyn im fynd yno at fy mam ?”
Yntau mewn cyni pa beth i'w ddweyd wrthi,
Nis gallai amgen na phwyntio a'i law
Yng nghyfeiriad y ddwyrein-wlad,
Tua chyfodiad yr heulwen draw.

Ymaith a'r fechan tua'r dwyrain,
Ymaith ei hunan drwy'r oerni a'r gwlaw;
A phan y digwydd i'r neb a'i cyferfydd,
Wrth weled ei hunigrwydd a byrder ei cham,
Ofyn ei siwrnai, a'i hateb fyddai,—
“ Rwy'n mynd i Baradwys i fyw at fy mam.”
Ben bore wedyn cafwyd y plentyn
Megis mewn cynt-hun tawel a thlws,
Wedi rhynu ar risiau lleiandy,
A'i phen bach yn gorwedd ar riniog y drws;
I fewn ar fynwes tyner fynaches
Aethpwyd a'r fechan i stafell glyd,
Diosgwyd am dani, gwnaed popeth i'w chynhesu,
A'i hadfyw; ond ofer fu'r cwbl i gyd.
Eto, am eiliad agorodd ei llygad,
Gwasgodd eto ei gwefusau ynghyd,
Fel i ddweyd “ Ffarwel ” wrth ofid ac oerfel;
Yna rhoddodd ei henaid lam,
Nid i ddiddymdra, nid i dywyllfa,
OND I BARADWYS,
Yno i orffwys ym mynwes ei mam.

Tawelodd ei feddwl. Cafodd ei galon serchog foddhad wrth weled a theimlo cariad y rhai a'i hamgylchynai. Ysgrifennai lythyrau, crynhoai ei serch at ei frawd a'i chwiorydd, yr oedd yr eneth honno'n ymberffeithio yn ei ddychymyg, canai ambell i gân leddf.

Deilen ar ol deilen wyw
 I'r llawr sy'n pruddaidd gwmpo,
 Fel gobeithion oes ym myw
 Fron ieuencyd wrth heneiddio,
 Deilen ar ol deilen sydd
 I'r llawr yn distaw gwmpo,
 Fel y disgyn, dro, i'r pridd,
 Yr henwr i huno.

Lawer boreu, gyda'r dydd,
 O'm 'stafell wely,
 Bum yn gwyllo ysbryd cudd
 Y gwanwyn yn yndorri
 Drwy y blagur ar y coed,
 Yn fy hiraeth am y Bermo,
 Ym mreuddwydion pymtheg oed,
 Eto i fyw, i farw eto.

Nid peth hawdd cedd marw'n ugain oed. Daeth hiraeth angerddol am y Bermo, daeth awydd am fyw. "Ni bum ddiwrnod yn iach wedi gadael Llwyn Gloddaeth,"—os oedd
Gobaith eto. trallod wedi ei wneyd yn afiach, oni fedrai gobaith ei wneyd yn iach? Edrychodd o gwmpas ei ystafell fechan, a gwelodd lyfrau,—cymdeithion mwyn,—ar y bwrdd a'r cadeiriau a'r llawr. Yr oedd y byd yn dlws eto, yr oedd gwaith iddo eto,—ni fedrai fynd adre i farw. Penderfynodd fynd i'r ysbyty yn Llundain. Ar ddiwrnod oer clir ym mis Tachwedd gadawodd ei ysgol, ac aeth i Chelsea. Ar y ffordd holodd rhyw hen foneddiges ei hanes, a rhoddodd hanner sofran yn ei law wrth ymadael. Golwg brudd gafodd ar yr ysbyty,—llu o bobl wan yn pesychu ac yn disgwyl eu tro i fynd at y meddyg. Daeth ei awydd am fyw'n gryfach. Penderfynodd groesi'r môr, fel cynifer, a gweithio weddill ei ddyddiau no.

Ar y môr, cafodd hamdden, fel yr ehedydd yn y gwanwyn neu'r eos yn y nos, i dywallt ei deimlad mewn cân

AR Y MOR.

O FY NUW,
 Paham y rhaid im' fyw
 Mor hir, a'm gwedd mor wyw,
 Ar ol im' weld y llu
 O gain obeithion cu
 Fynwesid gennyf ddyddiau fu
 Oll yn y bedd?


Beth yw mywyd? Dim ond gardd
 O fiodau wedi gwywo;
 Dim ond siomiant breuddwyd hardd
 A dedwydd, wedi deffro;
 Twllwch nos pan fyddai ser
 A lloer oll wedi pallu,—
 Newydd win fu gynt yn bêr
 Wedi bythol egru.

Fy anwyl, anwyl Lwyn,
 Hyd dy lethrau
 Wrth fugeilio'r wyn
 Lawer boreu,
 Ar yndorri bu fy mron
 Gan ei gwynfyd—
 Gwynfyd diniweidrwydd llon
 Plentyn mewn breuddwyd.

Eto'n ddieithr i dristad
 Amgylchiadau dyrys;
 Eto'n nghysgod mam a thad
 Tyner a gofalus,
 Eto cerid fi gan un
 Megis ag ei carwn,
 Eto pang aflechyd blin
 Ni phrofaswn.

Iechyd, cariad, tad a mam,
 Gwenau ffawd a chalou
 Anghyffredin yn ei llam,—
 Pa ryfedd droion
 Iddi berlewygu gan
 Draswyn y dyfodol,
 Ac yr ymddanghosai'm rhan
 Uwch daearol?

Un ar bymtheg oed a ddaeth,
 Ond ym mynwes
 Gu fy nhad y glynai saeth
 Angau eisoes;
 Mwy nag all'sai' galon ddwyn
 A fuasai cefnu
 Ar ddyfodol hoff ei Lwyn
 Am dylodi.




byw? A phaham ffoi,
mor ddifwyniant;
o'n awr ymroi
feiriant?
im yn well
are i huno,
chwilio mewn gwlad bell
orffwyso?

fy nwy chwaer fach
u magu,
ad pan yn iach
llu,
eu gweld,—y ddwy
dddifad,
yn i fyny trwy
iad.

nan nad oes mwy
raf syllu
od teg y ddwy
du,
arach, cryfach yw
no
dymor fyw
w cofio.

breuddwydiai; ac er
gwnaeth ei awel hallt
wrth 29, 1879, yr oedd
Da, ac ysgrifennodd

a, ond nid yn gyfan,
mwynhad y llawr;
rs, ond gwag un gadair—
"Dewis Bob" yn awr—
agor yn y teulu,
nid, tristed wy,
wyf na chyflenwir
a mohono mwy!



gall Gruffydd
 newydd weld ei hun,
 wris Bob" roi ceiniog
 n, na'i alw'n ddyn.
 dd bach amddifaid,
 m calon am
 fyw i wneuthur
 nhad a'm mam;
 fwy na phopeth,
 wydd "Bob" y mrawd"
 r, megis argraff
 drod dyn tylawd.
 ng ngolwg eraill
 phlentynaidd bron;
 rgruddiau lleithion
 eth y funud hon—
 a y byd o gariad,
 dd pur ac iach,
 r, rhadwy col'i
 aith plentyn bach.
 r yfed a bwyta yr
 ydd yr oedd, yn
 r. Daeth adgofion
 au a'r corsydd yn su
 ydd byw yn hir,—
 YDEDD.
 nos,
 wdd
 ewy!

Owen, fy anwyl frawd, na fyddet yma,
 Yma yn awr er im' gael arllwys rhan
 I'th fynwes dyner di o'r dwys-deimladau
 Sy'n araf-sicr lethu'm calon, pan
 Nad oes i'w thost ymferwad mwy olyngfa—
 O fil mwy unig nag unigedd man,
 Unigrwydd bod, unigrwydd barn a nwydau,
 A diben bywyd—ac unigrwydd dagrau.

Ond dyma'r ser, cyfeillion hoff yr unig,
 Yn dechreu syllu eto oddi fry,
 A threm mor ddifrif-ddiaglaer, er mor ddiddig,
 Megis pe byddent lygaid ysbryd eu
 Y Cread, neu ysbrydion dwys-buredig
 Rhai a brofasant unwaith, fel nyri
 Yn awr, flinderau bywyd, ac sy'n dyfod
 I wenu arnom gysur yn ein trallod.

Mae'r "Llathen Fair" yn twnnu uwch fy mhen,
 A'r "Llong" ddi-hwyl, a myrddiwn eraill yma
 Ar donnau'r aig, fel bryniau Cymru Wen,—
 Yn twnnu eto'n union fel yn nyddiau
 Fy mebyd, pan oedd eto glir fy nen,—
 Yn union fel pan ddysgwn i eu henwau
 Oddiar wefusau'm tad ar lannau'r Maw,
 Wrth ddod o'r capel adref yn ei law.

Mor deg eu llewyrch, ac mor drist i mi!
 Yn eu goleuni gwelaf,—O mor glir!—
 Agweddau hoff ond gwelw'r hyn a fu
 Ar hyn *na fydd*, yn niniweidrwydd pur
 Y baban heb ei eni,—gyda'r llu
 O fyfyrdodau ffyddlon a fu'n hir
 Yn gweini arnynt, ag sydd eto'n gwarchod
 Eu coffadwriaeth rhag rhwd oes a'i difrod.

Mor deg eu llewyrch, ond mor ddiwahaniaeth,
 'Rwyf yn eu cofio'n gwenu ar fy nhad
 Yn nawn ei nerth, ac arnaf finnau 'ngobaith
 Bachgendod iach, a chariad a mwynhad—
 Maent eto yn pelydru'r un mor odiaeth
 Ar laswellt bedd fy nhad ac ar nacad
 Y cwbl a obeithiais i ond bedd,—
 Nerth, serch, enwogrwydd, meithder einioes, hedd.

Fy mrawd, a wyt ti'n cofio'r aml noson
 Is goleu'r ser y buom ni ein dau,
 Ar ol o'r ysgol ddyfod adre'n gyson,
 Yn rhoi tro ar yr wyn ac yn mwynhau
 Cydrhyngom mor ddiniwed ein breuddwydion
 Am wynfyd y dyfodol, (*wid* ei wae
 Can's nid oedd eto fustl yn ein cwpan,
 A chennym dad a mam ag aelwyd gyfan ?)

O ddyddiau dedwydd! megis adar mwynion
 Yn dyfod o wlad bell, a hardd a chu
 Ydyw i'm henaid i eu per adgofion—
 Ond tros ddiffaethwch erchyll ar bob tu
 Yr hedant tuag ataf,—tros dor calon
 Dirdynnol tad,—tros hiraeth dwfn a du
 Fy mam, a'i hangau wedyn, a thros flyyddi
 O boen i mi, a thristwch a thrueni!

Ond dyma'r clychau deg yn mynd, ymorol
 Raid bellach am obennydd; cul yn wir
 Fy ngwely, ond i mi nid anymunol,
 Caf ynddo synfyfrio'n hoff a hir
 Am aml gyfaill cu, a châr mynwesol,
 Ac am fy nheulu anwyl, ac am dir
 Fy ngenedigaeth, nes o synfyfrio,
 Ymollwng drwy borth cwsg am danynt i freuddwydio.

"Nos da," fy mrawd, er gadael gwlad fy nhadau
 Am ddiethr dir y deheu, ar fy fro
 Rhag tynged, ac yn fy chwim erlid angau,
 Dy wyneb tirion eto yn fy ngho
 Sydd fyth mor fyw, a'm henaid hyd ei seilliau
 Sy'n wirach yn dy garu, fel mae'th fro
 Yn trist bellhau, ac fel y trenga gobaith
 O tan fy mron am gael dy weled eilwaith.

Cyrhaeddodd Melbourne y seithfed o Ebrill, 1879, yn llonnach ac iachach nag y meiddiasai ddisgwyl bod. Cafodd gyfeillion caredig yno, hoffodd erddi y ddinas dlos, a dywedodd *Yn Awstralia.* y meddyg y gallai fyw. Gwenai'r haul yn dlws ar goedydd gwyrddion; yr oedd bachgen a geneth, ar fin priodi, yn rhodio mewn dedwyddwch perffaith,—adeg na ddaw ond unwaith mewn oes,—a thafodd eu hapusrwydd adlewyrch ar fywyd yr allud unig. Cafodd le fel athraw gyda theulu o Wyddelod calon-gynnes, oedd yn byw ar fferm Mullagh, ger Harrow, Victoria; a buan iawn yr aeth ef a'r teulu i serch eu gilydd. Bu'n hapus iawn yno,—yn darlunio beth oedd eira i'r plant, yn eu dysgu, yn cyd-chwareu â hwy, yn breuddwydio am Lwyn Gloddaeth a'r Bermo, yn hela'r kangaroo a'r wningen, yn edrych ar y pren almon yn blodeuo. Weithiau daw hiraeth angerddol am Gymru ato. "O am anadlu'r awel oer iach fyddai'n dod dros y môr pan oedd yr haul newydd fachlud dros fynydd yr Eifl, yn lle'r poethwynt sydd wedi crwydro dros anialdiroedd tywod!" Diflannodd ei atal dweyd; yr oedd yn athraw profedig erbyn hyn, ac yn dyheu am ychwaneg o waith. A'r cariad cudd hwnnw,—troai fyd y darfodedigaeth yn nefoedd yn ei ddychymyg.

Ond sylodd i'r dyfnderoedd drachefn. Aeth ei feddyliau drachefn at y marw. Cofiodd ei dad,—gwelai ef yn berffaith. "A fy mam, O fy anwyl fam, mor wahanol, mor wahanol fuasai pe buaset yn fyw, a chyda dy fab gwael?" Bu dieithriaid mor garedig a chwaer a mam iddo hyd Hydref 23, 1885, pan orffwysodd ar y breichiau tragwyddol.

O'R DYFNDER.

Cul, cul, a chanad yw y glyn.
 O'm hol, yn dyrchu tua'r nen,
 Yr hyn a fum; o'm blaen, yr hyn
 A fyddaf gan or-drwchus len

Y niwl oddiar yr afon ddu,
 Yn oll guddiedig. Uwch fy mhen
 Cymylau yn gorchuddio llu
 Y nefoedd o fy ngolwg.

Cul, cul, ac anial yw y glyn,
Ynddo nid oes na briall mwyn
Na "llygad dydd" a'i siriol swyn,
Na chân yr un fronfraith yn y llwyn
O yw gerllaw, ond oernad brudd
Aderyn corff sy'n tarfu swyn
Distawrwydd, ac yn gwynnu'm grudd
A braw anesboniadwy.

Cul, cul, ac unig yw y glyn,
Nid wyf ond clywed oddi draw
Hoff ddadwrdd bywyd erbyn hyn,
A rhu'r Iorddonen ddofn gerllaw ;
Tra'r geulan olaf dan fy nhraed
Yn araf lithro, er fy mraw,
I'r tonnau geirw sy'n ddiбайд
Yn ceulo danl.

Cul, cul, ddiobaith yw y glyn,—
Byth nid oes modd ei ddringo'n ol
I'r iechyd a'r dedwyddwch fu'n
Fy ngwarchod unwaith yn eu côl,
Na syfyd cam o'r man yr wy'
Yn hiraeth-syllu ar fy ol
Am ennyd cyn anturio trwy
Y dyfroedd oerion.

Ond er mor gul a llwm y glyn,
Ac er mor dywell yw y nen,
Ac er mor serth y bryniau sy'n
Ymddyrcu'n frigog uwch fy mhen
I'm cau rhag bywyd ; eto mae
Un seren anwyl, ddisglaer, wen
O'r enrych gwywol, ar fy ngwae,
Yn tyner-ddwys dywynnu.

Llwyn Gloddaeth a gwrthrych ei gariad cudd oedd yn ei feddwl hyd y diwedd. Wrth ddarlunio'r cariad hwnnw, y mae yn ei gân weithiau adlais o awen Iddewig Heine,—

" Fel y porffora pryd
Tân-wridog haul y byd
Gymyl y nef i gyd
Ar ffoad gwyllnos,
Felly addurnai swyn
Delw y lodes fwy
Holl awyddiadau twym
Gwanwyn fy einioes.

" Dyfnaf yr eigion man,
Glasaf ei donnau ban,
Tecaf ei arliw pan
Bella'i waelodion ;
Felly arddengys lliw
Dulas ei llygaid gwiw
Ddyfnder serchiadau byw,—
Ddyfnder ei chalon."


Nid yn ei ieuencid yn unig y cafodd y cwmni hanner greodd ei ddychymyg ei hun,—

" Mae dy wedd fel gwyneb angel
Yn ymwithio ger fy llygaid,
Ac yn gwneyd i'm calon lamu
Eto unwaith, fel yn nyddiau
Ein plentyndod. O dy lygaid
Du a disglaer disgyn arnaf,
Megis awen dy brydferthwch,
Megis adladd y breuddwydion
A'r gobethion a ymwcent
Gynt oddeutu twf dy swynion."


Ar derfyn y daith fer, ond blin a thymhestlog, cofia gymaint o'i feddwl gymerai Llwyn Gloddaeth a gwrthrych ei gariad cudd. Am danynt hwy yr hiraethai'n angerddol, drwyddynt hwy y gwelai'r pur a'r ysbrydol. Tybed, yn ymyl tragwyddoldeb, ei fod wedi bod o'r ddaear yn rhy ddaearol? Ac yna esgyn gweddi olaf yr enaid ieuanc cystuddiedig prydfferth,—

" O fy Nuw, fy nhad, fy nghyfaill,
Ti sy'n gwybod holl ddirgelion
Calon dyn a'i fawr ddiffygion,
Maddeu imi am anghofio
Serch dy ofal am dy blentyn
Drwg anufudd, ac am geisio

Gosod yn dy deml santaidd
Eilun pridd ; a derbyn gennyf,
Megis aberth cymeradwy
Ar dy allor, galon ysif
A chystuddiol, sydd yn dioddef
Beunydd boenau siomedigaeth




"Th am ei meddu,
 gwlad fy nhadau,
 chyd hoenus,
 y môr i chwilio
 add ymysg estroniaid,—
 "WYF WEDI DIODDEF.
 Dim dangnefedd!"



AETH.


"Addwch mewn breu-
 gyntaf erioed. Lle
 chymyg plentyn o'r
 regin a'u cyfrinion,
 yr Arhosai y swm
 yn llawn o ryw gyf-
 mith. Dwyshaodd a
 ddieithrwrch, y swm
 medig, yn fy nhem-
 wn yr aberoedd fel
 cybiwn fod trefn ar
 y môr a'i ofnau o'm
 dyd, yn derbyn pob
 ren, a chyn darllen
 h ag ef trwy rai o'i
 yr Abermaw a swm
 i ereill ddal mwy
 idach a'r Abermaw,
 môr, yr ysgrifennais
 ton yr Abermaw yn



yn beth oeddynt ym
 yn rhodio yn swyn y
 leithr? O'm rhan fy
 blaen; ond gwnaeth
 mdeimlo ag ef, ac y
 Yr wyf yn ddigon
 bydd ar y môr mawr

yd dyn heddwech na
 ven yn gwneyd hedd-
 yn a dyn, rhwng dyn
 h, y môr, y dymestl,
 on ac yn ddychryn i
 h neu Islwyn, yn ein
 redd y mynyddoedd,
 grwydd y dymestl, a
 colli eu dychryn i ni
 an ofn wasgai'n ingol

rhoddi Robert Owen.
 sgodd ereill i wrando
 nag a gafodd.
 yn anorffenedig. Pe
 asai lawer llinell; ond
 ifenasai hwynt mewn
 affed dragwyddoldeb i
 y môr.



Y LLENOR CYMREIG.



WY yw y llenor? Beth sydd yn rhoddi hawl i'r enw?

Syniad yr anghyfarwydd am dano ydyw,— dyn llyfr; un yn gwario ei dda a'i amser ar bethau

Y llenor. breuddwydiol a di-fudd. Yn ol barn, pe barn hefyd, y dosbarth

hwn, creadur i dosturio wrtho yn fwy na dim arall yw y llenor; rhyw fod meud-wyaidd yn byw mewn broydd awyrol a disylwedd. Nid yw yn awdurdod ar bynciau ymarferol. Ond am y dosbarth yna o feirniaid, digon yw dweyd nad ydynt yn deall y carictor. Y mae yn perthyn i fywyd dyn agweddau sydd yn

yngodi uwchlaw yr ymarferol. Diau fod meddu cyfrannau yn un o weithfeydd aur y ddaear yn deimlad eithaf cysurus, ond credaf fwy yn nedwyddwch y dyn sydd yn berchen *share* fechan yn aur-fwngloddiau llenyddiaeth yr oesoedd. Nid drwy y materol yn unig y bydd byw dyn. Y mae llenyddiaeth yn derbyn ei gwerth a'i hurddas yn ei chyfathrach ag ymherodraeth meddwl; a pha beth bynnag ydyw barn dynion y byd, y rhai y mae eu rhan yn y bywyd hwn, gellir dweyd am lenyddiaeth, fel doethineb, ei bod yn cael ei chyfiawnhau gan ei phlant ei hun. Ond yr wyf yn ymdroi; y gofyniad ydyw,— Pwy yw y llenor? Beth ydyw ei nod angen?

Dichon y byddai yn fuddiol edrych arno o ddau gyfeiriad. Dywedir nad oes dim gwir ragoriaeth ymysg dynion na cheir rhywrai yn amcanu gwneyd ffug a lledrith ohono. Gwelir hynny yng nghysylltiadau masnach. Anaml y gwelir unrhyw ddyfais, neu nwydd poblogaidd, na fydd yn rhaid i'r perchen rybuddio y cyhoedd, gan ddweyd,—*Beware of imitations*. Y mae yr un duedd yn nerthol weithio yn ei pherthynas â dyn fel bod meddyliol a moesol. Ceir rhagrith yn dynward rhinwedd. A'r un modd temtir dynion i ffugio ansoddau a rhagoriaethau meddyliol. Ac y mae llenyddiaeth, yn ei thro, yn cael ei darostwng i'r un oferedd. Y mae ymhonwyr yn lliosog, a chanddynt rith llenyddiaeth, ond wedi gwadu ei grym. Am hynny, gosodir anghenrhaid arnaf i draethu ychydig, mewn ffordd o ocheliad a rhybudd, am y ffug lenor.

Yn ffodus, nid yw y cymeriad hwn yn anhawdd ei adwaen. er y dichon nad ydyw efe yn ei adwaen ei hun.

Y ffug lenor. Y mae yna reddf naturiol mewn dyn sydd yn ei gynorthwyo i adnabod y coeg a'r ymddanghosiadol. Hyd ag yr wyf wedi cael mantais i sylwi, y mae yr arwydd-nodau a ganlyn yn cydfyned â'r ffug lenor.

1. Gosod pwys anghymedrol ar ffugenw.—Y mae'r cwestiwn wedi ei ofyn gan wŷr ymarferol,—Paham y mae eisiau ffugenw o gwbl? Pa fodd na wnai beirdd a llenorion foddloni

Ffug enw. ar eu henwau priodol? Wel, yn un peth, y mae rhan fawr o enwau priodol y cyfnod hwn yng Nghymru wedi mynd yn enwau cyffredin, drwy eu gor-arfer. Felly, hawdd ydyw caniatâu i John Jones, dyweder, roddi afon neu fynydd yng nghanol ei enw, i dorri ar unfurfaeth yr olygfa. Ac am ereill nad ydynt yn meddu hawlfraint John Jones, gellir dweyd cymaint a hyn,—os ydynt yn rhydd oddiwrth ffug mewn pethau ereill, ac eithrio y ffugenw, credaf eu bod yn weddol berffaith. Pe heb y ffugenw, buasant yn rhy berffaith, ac felly yn anghymwys i fyd fel hwn, lle y mae yn fater o anghenrheidrwydd i ddynion allu cyfeirio at ddiffygion eu gilydd mewn trefn i fyw yn ddedwydd a chysurus. Ond am y ffug lenor, edrycha efe ar ei enw fel rhywbeth goruchel a dyrchafedig. Y mae mor gysegr-edig yn ei olwg ag ydyw ei anffaeledigrwydd gan y pab, neu y drugaredd Americanaidd lythyrennol honno y mae rhai yn ei chwenychu dros lawer o ddyddiau. Beth sydd mewn enw? Llauer, ymhob rhyw fodd, ebai y ffug lenor.

“A ladratao bwrs, ni faliaf hwnnw,
Ond gwae a ladratao fy ffugenw!”

2. Ffug-gydnabyddiaeth âg awduron a llyfrau. — Gellid meddwl wrth ei wrando yn ymadroddi, lawer pryd, ei fod wedi dwfn astudio prif feirdd a phrif lenorion y gwledydd.

Ffug ddarllen. Y mae yn dra thueddol i ddifynnu llinellau ystryd-ebol. Mynych y mae enwau Dante, Shakespeare, a Tennyson ar ei wefus. “Rhaid fod y dyn wedi ei drwytho yn eu gweithiau.” Dim o'r fath. Nid yw wedi darllen yr un ohonynt gyda dim manylwech nac astudrwydd. Y mae ei gydnabyddiaeth â gorchestion llenyddiaeth yn dra arwynebol. Dichon iddo ddarllen ambell i adolygiad, a chofio sylwadau o eiddo ereill—ond dyna'r oll. Y mae adolygiad, neu sylw gan rywun cyfarwydd, yn dra gwerthfawr, pan y mae yn tywys dyn i astudio yr awdwr neu y pwnc drosto ei hun, ond y mae gwneyd *capital* o'r cyfryw bethau, er mwyn cael ei weled gan ddynion, yn un o nodau digamsyniol y ffug lenor.

3. Y mae yn enwog ar gyfrif ffug-honiadaeth.—Beirniad

llym a di-dosturi ydyw. Nid oes dim, hen na diweddar, yn rhy fawr i fyned i'w glorian; ac unwaith yr ânt yno, ysgafnach ydynt na gwegi. Ei eiriau mawr ef ydyw, "gwreiddioldeb," "drychfeddyliau," a "chfansoddiad." Fel rheol, ych-

Ffagbonni. ydig y mae yn ei ganmawl. Nid ydyw hynny yn gydweddol â'i urddas beirniadol; a phan y mae, ar ambell foment fawrfrydig yn llefaru neu yn ysgrifennu yn ganmoliaethus, gellir penderfynu fod rhywbeth newydd wedi digwydd dan yr haul. Ond os yw y ffug lenor yn brin yn ei warogaeth i ereill, y mae yn gwneyd iawn am hynny drwy roddi y lle blaenaf ym mhob man i'w gynyrchion ei hun. Pa bryd bynnag y cyfarfyddaf âg ef, y mae newydd "gyfansoddi" rhywbeth fydd yn rhoddi gwerth oesol ar lenyddiaeth ei wlad. Clywais y gallai dyn dreulio dyddiau yng nghwmni Eben Fardd heb wybod, ganddo ef, iddo gyfansoddi dim erioed. Ac y mae yr un peth yn wir am Geiriog. Anfynych y sonient ohonynt eu hunain am eu cynyrchion,—rhaid oedd i arall agor y ffordd. Ond am y ffug lenor, y mae yn lled sicr o agor y ffordd iddo ei hun. "Glywsoch chi yr englyn a gyfansoddais i i'r twrch daear?" "Welsoch chi fy ysgrif i yn y rhifyn diweddar o'r *Gawnen*?" Y mae y math yma o gwestiynau yn awgrymiadol,—

"Hysbys y dengys y dyn
O ba radd y bo'i wreiddyn."

Pan glywir un o'r brodyr hyn yn son byth ac yn dragywydd am ei "gyfansoddiadau," gellir penderfynu fod yna rywbeth o'i le, rhywbeth yn *rotten in the state of Denmark*. Coder y gorchudd ychydig, a gwelir wyneb y ffug lenor. Ond y mae yn hyfryd gennyf symud ymlaen oddiwrth y ffug at y sylwedd,—Y Gwir Lenor.

Pa fath ydyw? Beth ydyw ei nodau?

1. Y mae yn meddu gwir gydymdeimlad â llenyddiaeth; a hynny er ei mwyn ei hun, ar wahan i wobr, elw,

Y gwir lenor. ac enwogrwydd. Y mae yn caru ei hencilion.

Gŵyr am swyn a phrydferthion meddwl ac iaith.

Y mae yn brofiadol o'r ysbrydiaeth sydd yn llofto allan o lyfr byw. Gwerthfawr ganddo ydyw cymdeithas ddistaw meddylwyr. Nid ydyw yn chwennych ei gwell. Beth

**Cymdeithas
lyfrau.**

bynnag ydyw breintiau hudolus cymdeithas y byw, ni fuasai hwn yn ei dewis o flaen cymdeithas yr anfarwolion,—y gwynfyd hwnnw sydd yn eiddo yr efrdydd neilltuedig. Dyna efe, yn unigedd ei ystafell; oddiallan y mae y nos—yr hirnos ddu. Y mae y llenni wedi eu tynnu i lawr; y llusern hwyrol wedi ei goleuo, y tân yn sirioi yr ystafell, a distawrwydd dymunol yn teyrnasu. A fedri di deimlo yn

ddedwydd mewn lle o'r fath, heb ddim ond llyfr yn gwmni? Os felly, gwyn dy fyd; y mae yn profi fod ynnot gydymdeimlad â llenyddiaeth a thrysorau byd y meddwl.

2. Gwir gydnabyddiaeth â rhyw nifer o awduron a llyfrau.—Gellir edrych ar hyn fel canlyniad y dueddfryd flaenorol. Y

mae cydymdeimlad yn arwain i ymdrech bersonol, a honno yn ymdrech deg. Trysorau cuddiedig ydyw meddyliau. Dywed Ruskin, yn ei ddarlith ar lyfrau, nad ydyw yr awdwrwyr goreu yn cyfrannu eu cyfrinach, ond fel gwobr am lafur ac ymdrech feddyliol. Ond, bid sicr, y mae llyfrau a llyfrau. Sonnir am lyfr yr awr, y dydd, y tymor, y flwyddyn. Y mae eu nifer yn lleng. "Cyhoedd" y rhain, gan mwyaf, ydyw tanysgrifwyr y llyfrgelloedd cylch-redol, y rhai sydd yn barhaus yn dyheu am ryw newydd. Ond y mae dosbarth arall,—llyfrau sydd wedi dal prawf amser; llyfrau sydd yn cyfarch yr oesoedd oll, ac yn cludo ynddynt eu hunain hadau bywyd ac anllygredigaeth. Y mae ffurfio cydnabyddiaeth âg un o'r rhain wedi bod yn foddion i greu cyfnod newydd mewn bywyd. Tyf y meddwl yn eu cymdeithas. Derbynia gyffelyb adnewyddiad i'r hyn a wna y corff wrth ddringo mynydd uchel, neu yfed awelon y gwanwyn. Y mae y gwir lenor yn gwneyd ei oreu i gymhwyso ei hun i'r gymdeithas uchelryw hon; cymdeithas sydd yn dyfnhau ac yn melysu fel y mae blynyddoedd einioes yn dirwyn ymlaen.

3. Ymhellach, y mae y gwir lenor yn amcanu bod o ryw wasanaeth ymarferol i lenyddiaeth ei wlad. I'r dibenion hyn, y mae yn craffu ar geinion iaith, yn dilyn ystyron a chyfystyron geiriau, ac yn fyw i brydferthion arddull,—gwisg

Telmlo arddull. lenyddol drychfeddyliau. Yr hyn ydyw llinellau a lliwiau i'r arlunydd, dyna ydyw cyfrinion iaith ac arddull i'r llenor. Y mae gan ryddiaeth, megis barddoniaeth, ei chywreinion, a phrin y gellir ystyried dyn yn meddu nawws lenyddol ar ei feddwl, os ydyw yn hollol farw i'r pethau hyn. Cynghorai Dr. Johnson rywun i roddi ei nosweithiau i ddarlenn Addison, a hynny er mwyn ei arddull. Y mae y rhyddiaeth oreu yn meddu *rhythm* a melodi mor wirioneddol a dernyn o gerddoriaeth. Y mae yn hyfryd i'r glust, ac yn felus fel y diliau mel. Prin yr ydym yng Nghymru wedi talu y sylw dyladwy i'r elfen hon yn ein llenyddiaeth. Y mae gennym ysgrifenyddwyr sydd yn feistriaid mewn arddull. Yn eu plith, yr oedd cyfieithwyr y Bibl Cymraeg, Elis Wyn o Lasynys, Goronwy Owen, Gomer, Gwallter Mechain, Brutus, Emrys, Hiraethog, Lewis Edwards. Y mae gweithiau y gwŷr hyn, a'u cyffelyb, yn deilwng o astudiaeth, er mwyn y feistrolaeth sydd ynddynt ar ddullweddau y Gymraeg.

Ond y mae etifeddu y cymeriad o lenorydd yn waith caled a pharhaus. Nid mewn undydd-unos y gellir ei gyflawni. Nid honiadaeth a wna y tro; rhaid wrth gydnabyddiaeth ddiffuant â'r hyn sydd yn rhoddi ystyr a gwerth i lenyddiaeth.

Gwaith a gwas-
anaeth.

Ac y mae yn cynnwys ymdrech i wasanaethu llenyddiaeth ei hun. Gellir gwneyd hyn ar raddfa fechan. Nid Lewis Edwards pawb, nid Hiraethog pawb, ond nid yw hynny yn cau allan ymdrechion rhai llai disglair eu doniau; y mae y ffrwd risialaidd mor anghenrheidiol a'r afon nofiadwy. A thra y mae y Ddyfrdwy a'r Hafren yn ymdaith yn fawreddog i'r môr, gall yr afonig fechan, hithau, sibrdw ar ei hynt, "ni pherffeithir hwy hebof finnau hefyd." Ond y mae yn bryd i mi ddweyd ychydig ar y darn olaf o'r testyn,—Y Llenor Cymreig.

Onid un o neillduollon ein hanwyl wlad ydyw amledd ei llenorion? Byddwn yn canu y gwirionedd hwn gyda brwdfrydedd,—

"Gwlad beirdd a llenorion, cerddorion o fri."


Anhawdd, mae'n debyg, fyddai rhoddi amcan-gyfrif o rifedi ein lluoedd llenyddol. Y maent yn ymestyn yn gatrrawd hir, ac yn

Y Llenor Cym-
reig.


cynnwys gwŷr meirch a gwŷr traed; gohebydd leol y cwrdd te, ac awdwr erthyglau ar bynciau cenedlaethol. Ac y mae hyn yn fwy hynod yn gymaint ag mai ychydig yng Nghymru sydd yn byw ar lenyddiaeth; mwy priodol fyddai dweyd fod llenyddiaeth yn byw arnynt hwy. Nid yw y gydymgais sydd yn bod ymysg y Saeson mor ryfedd,—y mae eu llenyddiaeth hwy yn talu yn dda. Ond yng Nghymru, prin y mae yn ffon ein bara, heb son am ddim moethau ychwanegol. I bwyso arni corsen ysig ydyw,—egwan

Pabau yr ys-
grifenna?

a siomedig. Rhaid, gan hynny, fod y llenor Cymreig yn fod lled hunanymwadol. Ysgrifenna heb obaith ond ychydig iawn o elw; caiff gopi o'r newyddiadur neu y cylchgrawn, ac ambell ddegwm cil dwrn. O ba le y daw ei sel a'i ymroddiad? Ai yr ysfa am gyhoeddusrwydd sydd yn cyfrif am dano? Y mae hyn, gellid meddwl, yn blino llawer. Nis gallant orffwys heb anfon rhywbeth i'r wasg. Rhaid i'r rhan fwyaf, yng nglâs-ddyddiau mebyd, gydnabod y gwendid hwn. Ond, o drugaredd, y mae yn graddol wisgo ymaith. Y mae y llenor Cymreig yn cynefino â gweled ei enw mewn preint, ac ymddengys ei gynyrchion anwylaf iddo yn lled debyg i'r eiddo pobl ereill. Ond nid yw yn rhoddi noswyl i'w ysgrifell, deil ati ar brydiau hyd ddiwedd ei oes. Na, nid yr ysfa am gyhoeddusrwydd sydd yn esbonio yr holl ddirgelwch. Tybed y gellir ei olrhain i deimlad o serch at iaith a chenedl? Credaf




y mae felly yn ei
fennant yn ddi-baid
ygl. Ac y mae rhai
ll y dueddfryd hon,
fan y faner genedl-
llawer o wasanaeth
mae yn ffaith fod
ghymru, yn talu—i
na chaffai y llenor,
y mae y llenorion
argelwch,—dirgelwch
d serch y Cymro at
wy. Ceir llawer yn



tu rhyw ysbrydiaeth
y cyfrif hwn, credaf
non oblegid y tadau.
o eu coffadwriaeth!
ei feddwl yn *Seren*
annau ar yr antur;
arwol am ddeg swllt
adawer y gorfennol

thrych fy sylwadau.
Cyngrair Llenyddol,
ofalu am iawnderau
chwysu ei ymennydd,
gyd-ddynion, yn cael
argraffydd, a'r llyfr-
hgronau, a newydd-



GWEN Y FOTY.

BYWYD GWLEDIG YN ERYRI 150 MLYNEDD YN OL.

"Dyma i chwi fugeleg fechan wedi ei chopio gan fy mab—yr olaf a, gyfan-soddais, ac hwyrach a wnaif byth."

Mae enw Foty'r Gorllwyn yn dwyn yn fyw i'm co
Y chwedlau glywais i fy nhaid yn adrodd lawer tro,
Am helynt y bugeiliaid a champau'r corgwn ffl,
Wrth ddringo'r mynydd uchel serth ar foreu diwrnod hel.
Fe fyddai rhai yn cychwyn i eithaf blaen y cwm,
A'r lleill yn dringo'n chwim i ben y mynydd llydan llwm;
A chyn i haul y boreu gael yfed gwlith y nos,
Fe fyddai'r defaid gwynion glân yng nghorlan Pant y Rhos.

'Roedd yma ryw hyfrydwch a swyn yng ngwaith y dydd—
Bugeiliaid wrth y gorlan gron yn cyd-chwedleua'n rhydd,
Yn swm bresladau'r defaid, a murmur dwys y nant
Wrth ddod i lawr dros graig y fron yn drochion gwynion gant.

Bu yn y Foty unwaith hen gi o'r enw Tal,
Nad oedd ei fath o fewn y fro am aros ac am ddal;
Adwaenai estron ddefaid, a chyflym oedd ei droed
I'w dal; er hyn ni frathodd ddant hyd at y gwaed erioed,
Deallai ymddiddanion y teulu yn y ty,
Ac ar y gair fe lamai i ffwrdd i flaen y Tyddyn Du,
I aros defaid barus oddiar y dolydd llaith,
Ac yn yr hwyr dychwelai'n ol ar ol ei ddiwrnod gwaith.
Yr oedd yn gi diniwed, chwareuai gyda'r plant;
Ond am y llwynog cyfrwys coch, cai deimlo min ei ddant.
Fe'i claddwyd yn y buarth o dan yr onnen fawr,
A myn traddodiad gadw cof am dano hyd yn awr;
Ni ddylai'r bardd ddim cwyno, os ydyw cwn ei wlad
Yn gallach a ffyddlonach na'r gwyr lle cerir brad.

Mae amser ar y Foty yn difin wneyd ei waith,
A'r swmer fawr yn gwyro i lawr dan bwys blynyddau maith;
Mae'r ddraenen ddu yn aros er's oesau rai cyn co
Dan gnwd o flodau glân bob Mai a'u hoglau'n llenwi'r fro.
Pa le mae'r hen deuluoedd fu'n twymno'r aelwyd gynt?
Maent wedi myned oll i ffwrdd draw i'w tragwyddol hynt;
Ddaw balchder ddim i'r mynydd, ddaw dichell ddim i'r cwm,
Ond och! fe ddrings angau prudd hyd lethrau'r mynydd llwm.

Darlennais yn y fonwent ar garreg wrth fy nbroed
Feddargraff Gwen o'r Foty gynt, yr eneth lana 'rloed;
Yr oedd yn unig blentyn i raiant dedwydd iawn,
Ac yn etifedd eu holl dda a'u teg rinweddau'n llawn.


Bugeiles oedd yr eneth yn arall praid ei thad,
Ac nid oedd, medd traddodiad, chwaith, ei hafal yn y wlad,—
Yn ysgafn fel yr awel ai i'w bugeiliol hynt,
A chyda'r cwn fe groesai'r cwm mor chwim ym mraich y gwynt.
Yr oedd mor deg a blodau y mynydd llydan rhydd,
Mor bur ei bron a'r hedydd llon a'i gân ar fron y dydd:
Brenhines y mynyddau y galwai'r werin Gwen,
A choron o rinweddau pur oedd yn addurno'i phen.
Bu llanciau'r fro'n ymryson am ennill calon Gwen,
Ond ni edrychai hi ar neb, ond Rhys o'r Garreg Wen;

Ac nid oedd Rhys, medd hanes, ond llencyn llwyd a thlawd,
 Fu gynt yn crwydro hyd y fro i chwilio am ei ffawd.
 Bugeilio am y terfyn a Gwen yr ydoedd Rhys,
 A chyfarfyddent ambell waith ar yagwydd Moel y Llys;
 Ond cyd-chwedleua byddent yng nghylch y praidd a'r wyn,
 Ac am y llwynog cyfrwys brwnt, yn lladd tu hwnt i'r llwyn.
 Ryw dro ar ben y Garnedd cyfarfu'r ddeuddyn glân,
 Ac eisteddasant yno'n 'nghyd ar lwyn o grinllys mân;
 Edrychai'r ddau mor serchog, mor lân, mor bur a'r wawr,
 A'r cwn yn gorwedd wrth eu traed yn llafnau hyd y llawr;
 A Rhys ofynnodd iddi "Wnai di mhriodi, Gwen?"
 Edrychodd yn ei llygaid byw, a phlygodd hithau 'i phen;
 Atebodd,— "Gwell yw peidio hyd amser cneifio'r wyn,
 Ac yna cawn briodas lawn a neithior lawn o swyn."


Mor dywyll yw Rhagluniaeth, ei llwybrau pwy a'u gwyr;
 Pwy ddeall chwaith ar foreu gwyn beth ddigwydd cyn yr hwyr?
 Aeth Rhys, yn ol yr hanes, ar neges tua'r dre,
 A chipiwyd ef gan filwyr trais* nas gwyddis i ba le.
 Fe wlychwyd llaws y Foty â dagrau tyner serch,
 A phwy all fesur lled a hyd, na dyfnder gofid merch?
 'R oedd Gwen ers tro yn ofni wrth hen argoelion gynt,
 Fod drwg yn dyfod oddi draw, ac afwydd ar ei hynt;
 Fe glywodd gi ryw noson yn udo wrth y ty,
 A'r diwrnod cynt fe welodd frân ar frig y ddraenen ddu;
 Yn nrych ein nos-freuddwydion, medd hen argoelion gwir,
 Mae delw'r pethau sydd i ddod, i'w canfod eto yn glir;
 Myn rhai fod eisieu chwalu hen gofion gyda'r gwynt,
 Heb feddwl dim mai'r pethau hyn oedd Beibl ein tadau gynt,
 I leddfu poen a gofid y meddyg ydyw gwaith,
 A gwell na 'mroi i borthi cwyn yw cychwyn ar y daith.
 Wrth arall praidd y mynydd, wrth aros yn y cwm,
 Ni theimlai Gwen ei phen mor llym, na'i christwech chwaith mor drwm;
 A phwy all deimlo'n athrist ymysg y defaid mwyn,—
 A phwy all beidio llawenhau a chwareu gyda'r wyn?


Yn ystod gyrfa'i bywyd, cynyddodd golud Gwen,
 A thrwy fugeiliaeth ddiwyd daeth i gyfoeth dros ei phen;
 Cynyddu wnaeth ei daoedd, a gwella'r oedd ei byd,
 A'r praidd a'r wyn yn amlhau dros y terfynau i gyd.
 Mae llanw amgylchiadau yn boddi ambell rai,
 Ac ereill weithiau'n lleddf eu cri yn trengu yn adeg trai.
 Chwedleuai'r glân fugeillaid am gyfoeth rhyfedd Gwen,
 A hwythau y morwynion glân a sonient gyda sen
 Fod rhywbeth yn y Foty yn gyfrin ac yn gel,
 A'r hen i'r chwedlau oedd ar lwydd a roddent sicrwydd sel.
 Fe welodd Morgan Ifan, wrth ddod o'r llan nos Sul,
 Ryw oleu rhyfedd fel yn mynd ar hyd y llwybr cul,
 Arweiniai at y Foty, oddiwrth y Pystyll Gwyn,
 A phenderfynnodd yn y fan gael gwybod beth oedd hyn.
 Fe frysiodd at y goleu, a gwelai wrth y bryn
 Foneddwr bychan, melyn, del, ar gefn ei ferlyn gwyn;
 Fe'i colodd wrth y Foty 'r ol iddo roddi rheg,
 Ac ebai Morgan wrtho i hun,— "Wel dyma'r Tylwyth Teg."
 Fe welwyd wrth y Foty gan fugail Tan y Bryn
 Y Tylwyth Teg yn dawnsio'n chwim, ar donnau glân y llyn,

* Press gang.




kynt,
 nt,
 d,
 t.
 h,
 p;
 yn ei bryd.
 n—
 gwlan,
 ro.
 eth,—
 eth—
 r Glyn,
 Llyn.
 uch chwi;”
 th na gweddw'n wir,
 clir;
 dyn—
 ond un.”
 lli,
 “*Si Rhys wyt ti?*”
 u;
 dd,
 led.
 penna'r plwy'.
 hoff ein gwlad,
 Griffiths, Drws y Coed, am





E. O. SELLIS.

SION WYN O ERFION.
O'i *Wraithiau*, cyhoeddedig gan Alltud Eifion, Tremadog, yn 1861.



I. N.

I.

Gwir, tawel, Alban
af, a'r hwyaf, o'r
dodd dau gyfaill
ffrwd risialaidd
ynnon Cybi Sant
a ohonynt oedd
brddasol; yr hwn
a gymerai ei fyd
Yr oedd wedi
fuddugoliaethau,
aroddiad a llafur
fel oracl yn y
aeth eang, barn
pon o lenyddiaeth.
ampl a hyffordd-
hyn; yr hwn, er
elwir "Taliesin."

Y llall oedd ŵr ieuanc o edrychiad bywiog, gyda gwyneb agored deallgar, a meddwl ymchwilgar, sychedig am wybodaeth; ac wedi dechreu teimlo dylanwad y swyn sydd yn gysylltiedig âg ymgystadlu ac ennill yng ngyfarfodydd llenyddol Eifionnydd Dyweder a fynner am feiau y cyfarfodydd llenyddol a'r Eisteddfod, nid oes unrhyw foddion wedi eu darganfod eto mor effeithiol er symblu gwŷr ieuainc i ymdrechu am ragoriaeth.

Y fath gyfarfyddiad dedwydd! Y naill yn meddu ewyllys a chymhwysder i gyfrannu addysg a hyfforddiant; a'r llall yn perchen meddwl ymchwilgar, yn dyheu am bob gwybodaeth. Ni roddai dim fwy o hyfrydwch i feddwl haelfrydig Taliesin na chyfrannu addysg i ddynion ieuainc. Yr oedd yn adfywiadol iawn i'w ysbryd ef ei hunan, trwy ei gynhorthwyo i ail fyw boreu ei oes, ac i sylweddoli eilwaith olygfeydd a chymeriadau a aethent heibio. Ac nid dyma y tro cyntaf i'r cyfeillion hyn gyfarfod â'u gilydd; oblegid yr oedd addysg galonogol Taliesin yn cadw y tân i gynneu ym mynwes ei gyfaill ieuanc, hyd yn oed yn absenoldeb pob cymhellion ereill. Er mwyn hwylusod, gelwir y gwŷr ieuanc yn "Eifion Ieuanc;" ac ymdrechaf gofnodi eu hymddiddan er hyfrydwch y darlennydd.

TALIESIN.—Iechyd i chwi, fy nghyfaill ieuanc; hyderaf eich bod yn ei fwynhau. Pe amgen, dywedwn wrthy ch eich bod yn y man priodol i gael gafael arno.

EIFION IEUANC. Dymunaf yr un fendith i chwithau, Taliesin. Meddyliaf eich bod yn awgrymu rhinweddau gwirioneddol neu dybiedig Ffynnon Gybi. Dyna oedd y syniadau oedd yn rhedeg drwy fy meddwl innau yn awr; a charwn yn fawr glywed eich syniadau chwi ar y mater yma.

TAL.—Nid wyf yn amheu nad yw defnyddio dwfr oer, pur, fel a geir yn y ffynnon hon, yn llesol at liaws o anhwylderau, ond credaf fod ofergoeledd pabyddol i raddau helaeth ynglŷn âg enwogrwydd y ffynnon yma. Sylwasoch, mi wn, fod llawer o draddodiadau o amgylch pob ffynnon nodedig yn y wlad. Dyna Ffynnon Beuno, ger pentref Clynog, yn siampl; dywedir y byddid yn trochi mabanod afiach, a chleifion, yn nwfr y ffynnon honno; ac yn eu gosod i orwedd ar dusw o lafrwyn ar garreg fedd Beuno Sant yn ei gapel—gweithred a gondemnid yn awr fel creulondeb anesgusodol; ac a ddilynid, o bosibl, â chosped-igaeth drom. Yr oedd yn yr eglwys yma, fel yn eglwys Beuno, hen gyff, sef math o goffr, lle y bwridd rhoddion y cleifion a ddeuent am iachâd. Yr oedd yn rhaid erfyn rhâd a bendith Cybi Sant, er mwyn i'r dwfr fod yn effeithiol. Diau nad oedd hon ond un o ddyfeisiau y mynachod pabaidd i hudo yr anffodus a'r ofergoelus am eu harian. Os bu rhinwedd gwirioneddol yn y dwfr, y mae ynddo eto; ond nid oes neb yn awr yn ddigon crediniol yn ei rinweddau i wneyd hyd yn oed prawfion arno.

Yn oeddwn wedi bwriadu, os caniatâi fy nerth, ddringo i ben Moel Bentyrch yma, i gael trem ar wastadedd Eifionnydd. Mae y wybr mor glir, sier yw fod y golygfeydd yn ardderchog. Buaswn yn dymuno eich cymdeithas yn fawr iawn, os nad oes rhywbeth mwy pwysig yn trethu eich amser. Yr wyf yn credu yr ad-delir inni y drafferth o'i dringo, gan fwynhad o'i golygfeydd.

E. I.—Yr wyf yn falch o'r gwahoddiad i'ch dilyn yno. Hefyd buaswn yn caru myned heibio i Gadair Cybi a Cherrig Samson; ond gwelaf fod ein llwybr yn gorwedd o'r naill du, a gwell yw inni brysuro i fyny. A welwch chwi yr olion muriau sydd ar draws llechwedd y Foel yma? Mae hefyd hen furiau mawrion ar ei phen, a chytiau crynion o'r tu fewn iddynt; carwn gael gwybod gan bwy, a pha bryd, ac i ba ddiben y cyfodwyd y muriau sitrachog hyn.

TAL.—Yn sier, yr ydych yn gofyn mwy nag a allaf ei roddi. Nid oes dim hanes penodol am danynt, ond diameu eu bod yn perthyn i gyfnod boreuol iawn yn hanes Cymru. Tebygol ddarfod i'r hen Frytaniaid, ar eu hymsefydliad cyntaf yma, ymgyrnhoi yn finteioedd bychain ar bennau y mynyddoedd a'r moelydd, ac adeiladu y muriau sydd yn awr yn weledig, i'w diogelu rhag bwystfilod. A diameu, hefyd, eu bod yn cael eu defnyddio ar adegau o amrafaelion rhwng y gwahanol lwythau, os nad ar ol hynny, pan ymosodid arnynt gan ysbeilwyr tramor. Anhawdd meddwl y bwriadwyd iddynt fod yn drigleoedd parhaus; oblegid yr anhawswer i gael dwfr i lawer ohonynt, ynghyd âg angenrheidiau ereill bywyd, er fod y trigolion yn byw yn bennaf ar helwriaeth.

E. I.—Mae un awgrym a wnaethoch yn cadarnhau y dyb oedd gennyf am anianawd yr hen genedl enwog. Er nad yw fy ngwybodaeth ond amherffaith a chyfyng yn hanes fy ngwlad, er hynny byddaf yn gweled yr ysbryd ymranedig yma fel yn ymrithio o fy mlaen yn ei holl hanes, er fod rhai yn eu brwdfrydedd yn ceisio cyfiawnhau yr hen genedl, gan briodoli iddi bob rhinwedd, bron, ellir meddwl am dano.

TAL.—Yr wyf finnau yn barod i ymffrostio fod amryw o rinweddau yn perthyn i'n hynafiaid dewrion. Yr oeddynt yn nodedig am eu lletygarwch yn eu bwthynod mynyddig diaddurn; ond ofer ceisio cau ein llygaid ar eu tuedd fel cenedl i ymbleidio a chyfodi yn erbyn y naill y llall. A welwch chwi Fryn Derwyn a'r Bwlch Derwyn, ychydig i'r gogledd oddiyma? Mor ddiweddar a dyddiau Owen a Llywelyn ab Gruffydd, bu rhyfel waedlyd ar y bryd acw. Y mae yna filoedd o Gymry yn gladdedig yn y ffosydd ar ei ben. Dyna lle dadweiniodd tywysog olaf y Cymry ei gleddyf. Tywalltwyd ar y llannerch yna ffrydiau o

waed puraf y genedl, mewn rhyfel gartrefol rhwng brodyr, a hynny ar adeg pan oedd y gelyn estronol yn mathru ein gwlad a'n hiawnderau; a phan oedd mor angenrheidiol am ein heg-nion unedig er ceisio rhyddhau gwlad ein tadau, oedd yn griddfan dan draed y gorthrymydd. Ni ellais erioed edrych ar y llecyn yna heb deimlo fy nghalon yn curo, oherwydd yr anffawd yma a berthynai i ni fel cenedl. Ond gwell bellach adael y llenni dros yr olygfa bruddaidd. Gadewch inni fwynhau golygfeydd deniadol y wlad odditanom.

E. I.—Wedi ymdrechu dwyn fy meddwl oddiwrth yr amgylch-iadau gresynus y cyfeiriasoch atynt, y gwrthddrych cyntaf y disgynnodd fy llygaid arno yw Mynwent Llangybi, a orwedd gerllaw, yr hon a gafodd yr anrhydedd o gadw llwch yr hwn y mae ei genedl wedi ei ddynodi.â'r enw "godidog a'r anfarwol fardd Dewi Wyn o Eifion." Anrhydedd uwch nis gallasai gael.

TAL.—Buasai enw y gŵr a enwasoch yn ddigon i sicrhau anrhydedd anfarwol i unrhyw wlad, ond y mae gan Eifionnydd lawer o enwogion ag y gall ymfalchio ynddynt heblaw efe. Yr wyf wedi petruso llawer i ba beth y dylid priodoli hyn—pa fodd y tra rhagorodd Eifionnydd yn nifer ac uchraddoldeb ei phlant athrylithgar. Nid yw ond llannerch fechan yn gorwedd ar lan beisfor Cantre'r Gwaelod; ac mewn amryw ystyriaethau, y rhan fwyaf anyddorol o'r sir hon. Nis gall sefyll cymhariaeth â Lleyrn am ffrwythlonder ei thir, na brasder ei hanifeiliaid. Ni chys-tedlir hi âg Arfon am ardderchogrwydd a gogoniant ei golyg-feydd. Er y cwbl, saif yn uchel, mor uchel ag un rhanbarth o Wynedd, am rifedi a theilyngdod ei meibion athrylithgar, yn neilltuol y dosbarth awenyddol. Y mae megis wedi ei chysegru yn feithrinfa awen a chân; a'i meibion a ystyrir yn oreugwyr ar farddoniaeth Gymreig.

E. I.—Yn wir, rhaid i mi addef fod fy ysbryd megis yn chwyddo gan uchelgais. Yr wyf yn falch o'n gwlad, ac yn teimlo awydd angerddol am gael chwanegu un bleth yn ei choron aniflanedig. Oni allaf finnau sangu yn ol traed ein henwogion? A oedd rhywbeth mwy ffafriol yn eu hamgylch-iadau na'r eiddof fi? A fyddwn yn trethu gormod ar eich amynedd wrth ofyn am ychydig o'u hanes? Mor dda gennyf fyddai gwybod rhywbeth am danynt!

TAL.—Mae enwogion Eifionnydd yn lluosog. Gallwn enwi bron ddau gant o feirdd, mân-feirdd, a phrydyddion, er dyddiau John Owen, yr *Epigrammatist*; yr hwn a anwyd yn y Plas Du, plwyf Llanarmon, yn y flwyddyn 1560, ond a ebargofiwyd gan y genedl, hyd yn oed yn ei ardal enedigol. Eithr cenedloedd ereill a dalasant warogaeth i'w athrylith ddisglaer. Argraffwyd ei weithiau yn aml ar y cyfandir—gan Faber, yn 1614; gan

Elzevir, yn 1628; gan Blaeu, yn 1633; a chan Herzte, yn 1658. Bernir mai yr argraffiad goreu ydyw yr hwn a ddygwyd allan, mewn dwy gyfrol, gan Bénonard, yn 1795. Cyfieithiwyd ei weithiau, neu rannau ohonynt, yn fynych,—i'r Saesneg gan Vicars yn 1619, gan Pecke yn 1659, gan Harvey yn 1677; i'r Ffrancaeg gan Lébrun yn 1709, gan Kérialant yn 1819; i'r Yspaeneg gan y dychanwr enwog La Torre yn 1674; i'r Ellumyneg gan Budick yn 1828, gan J. L. B. yn 1863. Derbyniodd ei addysg yn ysgol Winchester, a New College, Rhydychen. Etholwyd ef yn gymrawd o'i goleg yn 1584. Tafodd ei gymrawdiaeth i fyny yn fuan, a throdd yn ysgolfeistr, yn yr hon swydd y bu yn llafurio yn Trylech, ger llaw tref Mynwy; ac wedi hynny yn Warwick. Ymddengys na wnaeth ddim sylw neilltuol o Gymru, gwlad ei enedigaeath, neu wlad ei genedl, o leiaf; mwy nag o ryw dalaeth arall o'r deyrnas. Ymddengys hefyd nad rhyw yrfa lefn a rhwydd iawn a gafodd trwy y byd yma, mwy nag ereill o'i geraint awenyddol. Bu farw yn y flwyddyn 1622, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol St. Paul, lle y cododd ei noddwr, yr archesgob Williams, gofodail i'w goffadwriaeth.

Y nesaf ato, o ran amser, yn debygol, oedd Cadwaladr Cesail, yr hwn oedd yn byw yn y Gesail Gyfarch o'r flwyddyn 1590 i 1640. Yr oedd efe yn foneddwr cyfoethog, o athrylith ddisglaer. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau ynghadw mewn ysgriflyfrau—cynhwysiad naw o'i gywyddau ynghadw ar glawr y *Greul*.

Yn ganlynol iddo ef, o ganol yr ail ganrif a'r bymtheg hyd gyfran helaeth o'r ganrif ddilynol, y bardd enwocaf oedd Owen Gruffydd o Lanystumdwy—hen lanc meudwyaidd a anwyd mewn lle a elwir Ynysdyfnhell, ar dir y Tŷ Cerrig. Cyfansoddodd efe lawer o gywyddau, englynion, a dyriau; ond y maent bron i gyd o nodwedd leol, yn dal cysylltiad âg amgylchiadau a ddigwyddasant o'i amgylch. Yr oedd yn byw, bron yn gwbl, ar ffafrau boneddigion Cefntreflaeth, Cesail Gyfarch, Gwynfryn, Plas Hen, Trefan, &c.; a chyfrifid ef fel bardd teuluaidd iddynt. Gadawodd ar ei ol bum llyfr o farddoniaeth a thri llyfr achau. Cyn diwedd ei oes, collodd ei olwg; a chymydog iddo o'r enw William Elias, Bryn Beddau, a ysgrifennai ei farddoniaeth. Terfynnodd ei oes hir mewn caban bychan wrth dalcen y Ty Mawr, gerllaw y fan y mae Capel y Beirdd yn awr. Claddwyd ef ym mynwent Llanystumdwy, yn y flwyddyn 1730, ac efe yn 87 oed.

Bardd arall tra chywrain, ac yn ei flodau o gylch 1760, oedd "Evan Williams, delypiwr o Langybi, yn sir Gaernarfon, a ganodd gywydd i erfyn cael grammadeg Cymraeg sy'n argraffedig gan Sion Rhydderch, ac a ellir ei draethu wyneb yng ngwrthwyneb."



chael ei gladdu yn
 yllith yn cychwyn gyrfa
 yn gorfod gorchfygu
 anill enwogrwydd.
 y o glod i'w hathrylith
 awen oedd Peter Jones,
 mewn bwthyn gyda'r
 arn Dolbenmaen acw,
 lleifiad yn lled ieuanc,
 ai anghofiodd yr awen
 perch at Eifionnydd yng

1823.)

Lynlleifiad, neu Pedr Fardd; yn
 au.

Owain.

Withebarn Street, MDCCCXXXIII.

nghanol dadwrdd estroniaid. Anrhegodd ei wlad â chyfrol o farddoniaeth bur, a elwir "Mêl Awen," heblaw amryw fân lyfrynnau ereill. Bu farw Ionawr 26, 1845, wedi ennill iddo ei hun enwogrwydd aniflanedig.

E. I.—Nid wyf yn gweled dim yn amgylchiadau y beirdd a ennwyd yn rhagori ar yr eiddo finnau; ond mai trwy ymroddiad a llafur y llwyddasant i gyrraedd enwogrwydd, ac i gyfoethogi llenyddiaeth ein gwlad. Yr wyf yn penderfynu dilyn eu siampl, ac eistedd yn gyfystlys â hwy ar sedd anrhydedd.

TAL.—Yr wyf yn edmygu eich brwdfrydedd, ac yn awyddus i gyfnerthu eich penderfyniad; a dylwn ddweyd wrthy ch y dylech ragori arnynt, am fod eich manteision, a chyfleusderau addysg, yn tra rhagori ar yr eiddynt hwy. A phe lluosogwn siamplau, ni fyddai gennym ond yr un addysg. Gan ein bod yn anfwriadol wedi arwain ein gilydd at feirdd a barddoniaeth Eifionnydd, bwriadaf adolygu gyda chwi, mor fanwl ag y caniaata ein manteision, fywyd ac athrylith un ohonynt, yn neilltuol yr enwocaf, os nad y mwyaf, mewn rhai golygiadau, a gyfododd erioed yn Eifionnydd, ac feallai yng Nghymru. Ar yr un pryd, bydd yn gyfleus inni ddwyn ger bron enwau rhai ereill, er mwyn cael dirnadaeth deg am gyflwr barddoniaeth, pan wnaeth y gŵr mawr hwnnw ei ymddangosiad.

E. I.—Onid yw yn rhyfedd, ymysg cynifer o feirdd enwog, fod can lleied o'u gweithiau wedi eu cyhoeddi? Cyfrifir Siôn Lley, er enghraifft, yn fardd enwog, ond ychydig o'i waith a gyhoeddwyd erioed.

TAL.—Y mae amryw resymau am hynny. Yr oedd y mwyafrif ohonynt mewn amgylchiadau mor isel, ac yn llafurio dan y fath anfanteision, fel y buasai y draul o gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth o gyfrifoldeb iddynt. Yr oedd ychydig iawn o chwaeth at lenyddiaeth, ac yn neilltuol at farddoniaeth, ymysg y dosbarth amaethyddol, lle y preswylent. Pan gyhoeddodd Gutyn Peris ei lyfr, dywed mewn llythyr at Siôn Lley, dyddiedig Awst 30, 1815, nad oedd "wedi derbyn cymaint ag un enw am ei lyfr trwy holl Leyn i gyd." Dewi Wyn, yn ei lythyr at Gwallter Mechain, a ddywed,—“Am waith Huw Morus, nid wyf yn meddwl y medrwn werthu cymaint ag un llyfryn; canys haws o lawer a fyddai gwerthu cadachau esgidiau yn y wlad yma nag un math o farddoniaeth. Methu gennyf werthu cymaint ag un o *Fêl Awen* Pedr Fardd.” Y cyfryw, yn ol tystiolaeth y gŵyr uchod, oedd chwaeth lenyddol Lley ac Eifionnydd. Ysgrifennai Dewi Wyn y dystiolaeth uchod mor ddiweddar a'r flwyddyn 1824.

Yr oedd rheswm arall, hefyd, na chyhoeddwyd mwy o farddoniaeth beirdd Eifionnydd. Yr oeddynt yn cyfansoddi y rhan

fwyaf ar destynau lleol; nad allent fod yn ddyddorol i neb ond i'r rhai oeddynt yn hysbys o'r amgylchiadau. Cyfeiriasoch at Siôn Lley'n; mae y sylw hwn yn briodol, mewn modd neilltuol, iddo ef. Prydyddai ef i foddio ei gyfeillion. Mae ei waith yn dryfrith o gyfeiriadau at bersonau ac amgylchiadau anhysbys i ni. Ni chyfansoddodd nemawr ar destynau dyrchafedig o ddyddordeb cyffredinol. Ond cof gennyf ddarllen y sylw canlynol o barthed awdl a anfonodd Siôn Lley'n i gystadleuaeth y Gwyneddigion yn Llundain, sef "Golygiad ar ansawdd gwybod-aeth a dysg ar derfyn y ddeunawfed ganmlwydd,"—"a'r Gymdeithas, tra ymddygai yn gyfiawn wrth y farn a roesai, a deimlai effeithiau y melysbynciau anianawl a ganed mor gyson yng nghathl y *Wennol*, a thrwy ewyllysiaw dangaws parch i'r awenydd a ganodd yr awdyl hon, sef *John Roberts* o Lley'n, penodwyd ei hargraffu gydag awdyl Cynddelw," sef Gwallter Mechain. Dengys y crybwylliad blaenorol y byddai y beirdd yn cyfansoddi ar destynau tu allan i gylch eu hamgylchiadau a'u cyfeillion, pan roddid rhyw symbyliad i'w hawen; ond fel rheol, fel arall yr ydoedd cyn dyddiau Robert ab Gwilym Ddu a Dewi Wyn.

E. I.—Os darfu i mi ddeall cyfeiriad eich sylwadau o'r blaen, credaf mai at Dewi Wyn yr edrychech fel "yr enwocaf a gyfododd erioed yn Eifionnydd." Yr wyf yn or-awyddus am glywed eich sylwadau arno; oblegid ymddengys i mi ei fod yn ddyn mawr iawn, gan fod cymaint wedi cael ei ysgrifennu am dano; a dengys yr holl amrywiaeth barnau yng nghylch ei athrylith a'i weithiau, ei fod hefyd yn ddyn *anghyffredin*. Cydnabyddir ef, gan rai, yn "ymherawdwr beirdd Cymru," y "trymaf o feibion yr Awen;" a'i athrylith gyda'r "ddisgleiriaf y tywynnodd haul arni." Myn ereill, nad oedd "ei feddwl wedi ei ddisgyblu yn fanwl erioed;" "ei fod yn dra-diffygiol mewn barn a choethder;" a'i "waith mor anhrefnus a'r tryblith ei hunan." Mae y fath amrywiaeth golygiadau a hyn, am yr un un, yr hwn y mae ei weithiau ger bron y wlad er's blynyddau, yn ymddangos i mi yn anesboniadwy.

TAL.—Nid yw y golygiadau amrywiol yma mor wirioneddol anghyson ag yr ymddanghosant ar y cyntaf; ac nid ydynt ond pethau a ellir ddisgwyl mewn cysylltiad â meddyliau uwchlaw y cyffredin. Pwy a fu yn y byd erioed ag yr oedd y fath amrywiaeth barnau yn ei gylch a'r Iachawdwr ei hun? Gwelid ynddo y cablwr, y teyrnfradwr, y twyllwr, y troseddwr, y cyfaill, yr athraw, a'r pridwerth, ar yr un pryd; ond nid yn ei gymeriad ef yr oedd yr anghysondeb, eithr cyfodai o'r ffaith ei fod yn cael ei farnu gan ddynion nad oeddynt yn ei ddeall, neu ynte yn elyniaethus i dystiolaethu i'r gwirionedd. Yr un modd, er nad

i'r un graddau, fe allai, yr ymddygwyd at Dewi Wyn. Drwgliwid ei athrylith gan rai analluog i'w amgyffred ac i gydymdeimlo a'i fawredd. Y lleill, gan genfigennu wrth ei enwogrwydd, a ymdrechent godi eu hunain trwy geisio ei ddarostwng ef. Er na fynwn i i'm hedmygedd o'i athrylith fy nallu i'w ddiffygion, na'm hanallu fy ngwneyd yn ddall i'w ragoriaethau; eto, rhaid i mi ar unwaith roi ar ddeall i chwi fy mod yn ystyried bywyd Dewi Wyn gyda'r mwyaf dyddorol, a'i athrylith gyda'r ddisgleiriaf, a ymddanghosodd yng Nghymru erioed. Ond gwelaf frenin y dydd yn dechreu ymsuddo i'w wely llaith ym mol y lli; a buan y cymer yn awel fantais i droi y tu min atom oni fydd inni brysuro i waered oddiyma. Ofer inni, gan hynny, ddechreu adolygu helyntion bywyd y bardd enwog; ond addawaf dreulio prydawn cyfan gyda chwi i drin y pwnc hwnnw, os bydd hynny o ryw ddyddordeb i chwi.

E. I.—Ni raid imi ddweyd wrthych mor awyddus y byddaf yn edrych ymlaen at yr hamdden a gawn gyda helyntion bywyd mor ddyddorol; a thra byddom yn disgyn, dymunaf am air yng nghylch ereill o feirdd Eifionnydd.

TAL.—A welwch y bwthyn diaddurn yna yn y pentref bychan odditanom? Dyna lle ganwyd Robyn Wyn o Eifion, un o'r ymgeiswyr mwyaf peryglus a ellid gyfarfod ar faes cystadleuaeth farwnadol. Wylodd ei hunan yn sych rai troion; ond yr oedd yn gysur iddo mai lled anfynych yr oedd yn gwneyd hynny am ddim. A welwch chwi eto ran o'r pentref glanwedd acw, yn agos i enau neu aber yr afon Erch? Gelwir ef yn briodol iawn "Aber Erch." Mae yr eglwys acw wedi ei chysegru i Gawrdaf Sant, oddiwrth yr hwn y mabwysiadodd y beirdd enwog Gwilym Cawrdaf a Sion Cawrdaf eu henwau barddonol. Cyfansoddodd y blaenaf lawer o farddoniaeth ragorol; oblegid pwy a ddarllenodd ei "Hiraeth Cymro am ei wlad mewn bro estronol" heb deimlo y bardd yn ysgwyd llinynau tyn-raf ei galon? Yr oedd Sion Cawrdaf, neu "Sion Owen y garddwr," fel y gelwid ef yn gyffredin, yn perchen athrylith o radd uchel; yr oedd yn llawn o ffraethineb a phertrwydd—yn nodedig felly. Ac ym mynwent oer Cawrdaf Sant y gorffwys llwch yr awenyddwr melus o'r Betws Fawr, sef Robert ab Gwilym Ddu o Eifion, am yr hwn y dylem wneyd sylw helaethach, oherwydd ei gvsylltiad â'r "Bardd Gwyn," fel ei athraw, ei gymydog, a'i gyfaill diffuant a fyddlon.

E. I.—O! gadewch inni gael ychydig o hamdden gyda'r "Bardd Du."

TAL.—Yr oedd amgylchiadau tymhorol Robert ab Gwilym Ddu yn fwy ffafriol na'r cyffredin o feirdd Eifionnydd, gan iddo gael ei eni, a byw y rhan fwyaf o'i oes, yn y Betws Fawr, ar lan Dwy-

fach, yn y llannerch fwyaf dymunol yn Eifionnydd. Cyhoeddwyd cyfrol fechan o'i farddoniaeth dan yr enw "Gardd Eifion," gan ei nai, Robert Williams Wynne o'r Cefn Cymerau, yr hwn, yr adeg honno, oedd yn bregethwr yng nghyfundeb y Bedyddwyr. Nid ymddengys iddo gyfansoddi llawer, ac ystyried iddo fwynhau oes mor hir a chyfleuserau mor ffafriol. Nid oedd yn cael ei ddenu i lafurio gan awydd rhagori, yr hyn sydd wedi achosi cynyrchiad y cyfansoddiadau godidocaf a fedd ein hiaith yn yr oes ddiwedddaf; oblegid pe tynnid "Dinistr Jerusalem gan y Rhufeiniaid," "Job," "Y Flwyddyn," "Brwydr Maes Bosworth," a'r "Adgyfodiad,"—pe tynnid y cyfansoddiadau ardderchog yna allan o weithiau Eben Fardd, ni fyddai yn weddill ond ychydig o ganiadau byrion, anerchiadau, ac englynion. A'r un modd gyda'r holl feirdd diweddar, pe tynnid ymaith y cyfansoddiadau a gynhyrchwyd trwy rym yr elfen gystadleuol, byddai grym eu gweithiau wedi ei ddwyn ymaith. Ond y mae holl gyfansoddiadau "Gardd Eifion," o'r bron, wedi eu cynyrchu yn anibynnol ar gymhelliadau o'r fath a nodwyd. Eto, wrth ystyried ei alluoedd rhagorol, ei fanteision helaeth, a'i oes hir, mae priodoldeb neilltuol yng ngwaith ei adolygwyr yn grwgnach, neu yn hytrach yn cwyno, ddarfod iddo adael can lleied o waith o'i ol; er fod y cwbl a adawodd yn perthyn i'r dosbarth puraf a theleidiaf o farddoniaeth Gymreig.

E. I.—Mae yn dda gennyf eich clywed yn gwneyd sylw o "Ardd Eifion," at yr hon yr wyf yn teimlo hoffder neilltuol. Darlennais hi drosodd a throsodd, fel y gallaf adrodd ei gwyddau, ei englynion, ac yn neilltuol ei emynnau melus ac efengylaid, bron yn ddifeth; a bum yn tvbio pe yr ymroddasai yr awdwr i fod yn fwy llafurus, y buasai yn enwocach fel awdwr emynnau cyssegredig na hyd yn oed Williams Pant y Celyn ei hunan.

TAL.—Buasai yn amhosibl i chwi gael llyfr yn cynnwys llai o sothach, a mwy o syniadau chwaethus, pur, a dyrchafedig; a chredaf yr hyn a ddywedodd golygydd "Gardd Eifion," nad ysgrifennodd y Bardd Du erioed, hyd y gwyddis, linell ag y bu edifar ganddo o'i herwydd. A chyda golwg ar y sylw a wnaethoch ohono ef, gan ei gyferbynnu a Williams fel awdwr emynnau; sicr yw ei fod yn tra rhagori ar Williams o ran tlysniaeth, cywirdeb acenion, a syniadau efengylaidd a dyrchafedig. Prif hynodrwydd y "peraidd ganiedydd" oedd y teimlad nefol, gorfoleddus, sydd yn anadlu yn ei emynnau lliosog. Maent yn parhau megis yn frwd gan awelon cynnes y diwygiadau crefyddol.

E. I.—Carwn yn fawr gael rhyw ddesgrifiad o Robert ab Gwilym Ddu o ran ei berson, ei ddull, &c.

TAL.—Gan hynny, y peth goreu allaf wneyd yw dwyn ger bron hanes ymweliadol un o'n beirdd galluocaf â'r Betws Fawr, fel hyn:—"Tua phum mlynedd ar hugain i'r dyddiau hyn, y digwyddodd inni gael golwg ar Robert ab Gwilym Ddu o Eifion, gyntaf erioed, yn ei gartref, yn y tyddyn a elwir y Betws Fawr, Eifionnydd. Nid ydym wedi anghofio yr awydd oedd yn y meddwl am gael ychydig o'i gyfeillach. Fel yr oeddid yn nesu at ei drigle, yr oedd y galon yn dychlamu, ac yn cynhyrfu; edrychem ar bob ochr i'r ffordd, gan ddisgwyl ei weled yn ymwithio o un o'i rodfeydd meudwyaidd. Meddyliem fod yr holl lanerchi oddeutu ei breswylfod dan wllth Parnassus—y cwbl yn gysegredig i'r awen. Edrychem ar yr holl lwyni coed fel temlau dail y dduwies hoff, a disgwyliem yn ddyfal ganfod y patriarch yn gweini wrth un o'i hallorau. Prin y credem nad dan ryw bren deiliog, yn swm Dwyfach, yr oedd y bardd yn byw, gan mor brydferth y mae efe wedi gosod allan ei thlysni, gloewder ei dwfr, a swm ei rhu. Yr oeddym bron a disgwyl gweled barf wen laes yn hongian ar ei ddwyfron, a'i wallt yn gudynau arianliw crogedig dros ei ysgwyddau. Ni thybiem nad ar ganiad yr oedd pob gair yn dyfod allan o'i enau; a disgwyliem ei glywed yn diferu englynion tlysion ar bob achlysur. Pa fodd bynnag, nesu yr oeddym at ei drigle, yr hwn sydd yn amaethdy amrosgo o'r hen ffurf, heb ddim yn swynol yn ei agwedd allanol na mewdol, ond buom mewn cannoedd o dai gwyachach, heb fod ynddynt ddim o'r hyn a ystyriwn ni yn brydferthwech gwirioneddol. Yr oedd pob peth yn wladaidd yn ymddanghosiad y ty a'r celfi, ac yn ymddanghosiad y bardd hefyd. Ni welem yn ei berson ef ond horyn o ddyn trwm, musgrell, arafaidd o ran ei dymer; ond yr oedd rhywbeth tua'i lygaid yn mynegi ein bod ym mhresenoldeb dyn mwy na'r cyffredin."

Yr oedd llawer o'r pethau a ystyrir yn wendidau yn perthyn i'r Bardd Du o Eifion; siaradai lawer o bethau digrif, plentyn-aid; canmolai ei waith ei hun yn ddiffoesgni, a diddichell. Ni chanmolai nemawr ddim ar waith neb arall, oddieithr ei ddisgybl a'i gyfaill Dewi Wyn. Gellid enwi pethau eraill a ddynodent mai dyn ydoedd a llawer o wendidau ynddo; ond cysgodir hwy oll gan loewder ei athrylith, purdeb ei chwaeth, a theleidrwydd ei farddoniaeth. Y cyfryw ydoedd athraw barddonol Dewi Wyn o Eifion.

E. I.—Y mae ein llwybrau acw yn ein harwain i gyfeiriadau gwahanol, er fod eto luaws o feirdd ag y gwn am eu henwau ond na feddaf ddim o'u hanes; ac nad oes gennyf ond syniad tra amherfaith am natur eu hathrylith. Dyna Sion Wyn yn siaml.


TAL.—Ganwyd Sion Wyn, enw priodol yr hwn oedd John Thomas, ym mhentref bychan Chwilog, yn 1786, ymhen dwy

flynedd ar ol Dewi Wyn; ac yr oedd yn un o'i gyfeillion pennaf, ac yn un o'i edmygwyr gwresocaf. Ganwyd ef, fel y crybwyllwyd, yn Chwilog, ac yno y treuliodd ei oes, y rhan fwyaf o lawer ohoni ar wely cystudd. Yr oedd ei wely wedi ei ddodrefnu gydag estyll a llyfrau, a gorweddaï y bardd ar gyfer ffenestr fechan yn wynebu'r deau, trwy yr hon yn unig yr ymgymdeithasai âg anian oddiallan. Yr oedd yn dal gohebiaeth fywiog â phrif lenorion Cymru, ac yn cyfansoddi barddoniaeth yn ei wely: fel yng nghanol ei afiechyd, ac er gwaethaf ei gystudd hirfaith, yr enillodd iddo ei hun enwogrwydd na phydra. Perthyna ei farddoniaeth, mewn modd neilltuol, i'r dosbarth buddiol hwnnw o ffrwyth awen a hynodir gan burdeb chwaeth, iaith semi, meddyliau naturiol a thlyision, a duwiolfrydedd ysbryd. Y mae cyfrol fechan o'i waith yn gyhoeddedig.

Y gwŷr a ennwyd a adawsant ol eu traed ddyfnaf ar dywod amser, fel cyfeillion a chydoeswyr â Bardd Gwyn Eifion, ond dylwn grybwyll am un arall a wnaeth gryn lawer er noddi a meithrin barddoniaeth yn Eifionnydd. Yr wyf yn cyfeirio at Ellis Owen, Cefn y Meusydd. Ni churodd calon fwy pur erioed nag oedd ym mynwes yr hen wron hybarch hwnnw—ei hyfrydwch mwyaf oedd addysgu a chalonogi llenorion ieuainc, hyd y gallai. Yr oedd enwogion pennaf y wlad oddiamgylch yn ymfrostio yn yr anrhydedd o gael cydnabod eu rhwymau i Ellis Owen a'r ysgol lenyddol yng Nghefn y Meusydd. Mae yr enwogion hyn oll wedi hir golli o'n golwg ni; ond ni all y derfydd am broffwyd o Israel, oblegid pan y mae rhyw Elias ar fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas, y mae rhyw Eliseus yn barod i wisgo ei fantell. Pan oedd disgleirdeb goleuadau Eifionnydd yn dechreu pylu gan niwl oedran a marwolaeth, yr oedd sêr disglaer eraill yn prysur esgyn y ffurfafen; ac fel yn argoeli y tafent eu rhagflaeniaid i'r cysgod. Nid oedd enwogrwydd Eifionnydd i ddiflannu pan giliodd y Bardd Du a'r Bardd Gwyn dan lenni marwolaeth. Dilynwyd hwy gan osgordd o sêr disglaer,—nid amgen Eben Fardd, Nicander, Ioan Madog, Beuno, Cynfelyn o Eifion, Taliesin o Eifion, ac eraill. Ni all y derfydd am awenydd o Eifion, cartref anrhydeddus barddoniaeth a chân. Yng nghanol y cyd-ser hyn, yn ddisgleiriach, tanbeidiach ei goleuni, y mae un o faintioli arbennig, honno yw Dewi Wyn ym mys y beirdd.

Mae yr haul yn machlud trwy gymylau y gorllewin, a'r wybr yn gwrido yn gywilyddus o dan ei wên olaf a'i gusan ffarwel: rhaid i ni ymadael. Wythnos i heddyw, os cyfarfyddwch fi ar y llannerch hon, cawn ymhelaethu yn y cyfeiriad hwn.

E. I.—Yr wyf yn ddiolchgar o'm calon. Nos dawch, Taliesin.



ro :

YACH."

*yn gofyn y rhestr am
pnydtyoch y môr.*

wsterau
ddiwn deddfau
byd i odli
i ?"

*môr yn ateb mai ei
sagwyddol bererindod.*

mae rhyw ddeddfau
nnau

fodol
fythol ;
tanllyd,
ysgwyd,
ng munudyn
wydyn.
Bannau
reddfau.
rhyddid,
'm bywyd."

yr newydd heb fôr.

natur
antur
oesau,
hiau.
ddlon
dd gwynion,
wyn gwynfydau
eu breichiau.

Nid ofnaf ddringo gyda thi, mynyddau
 A giliant ymaith ar dy awgrymiadau ;
 A thry y glynnoedd eu gwaelodion diffaeth
 Yn belmynt aur i ysbryd gweledigaeth.
 Mi groesaf hefyd, rhodiaf ar y tonnau ;
 Hollalluawgrwydd Duw sy'n hwylio'm camrau.

A, dyma lan ! Yr wyf o hyd yn effro,
 O'm mewn mae byd a deddfau yn ei wyllo ;
 Ei fryniau derch a'i foroedd oll yn gorwedd
 Yng nghol un syniad cryno mewn tangnefedd.

Ond oddiallan y mae Daear Newydd,
 Heb un pererin ynnddi—cartref llonydd
 I fodau glân—i engyl gwynfydedig,
 Ac ' aros ' tawel bywyd Duw'n blanedig
 Yng ngreddf pob bywyd fedd,—a chysgod golau
 Ieuentid Ydwyf, ar y cysylltiadau.

Ond daear ydyw,—mi welaf fryniau rhyfedd—
 Uchel fel cyfiawnder, denol fel trugaredd ;
 Canfyddaf flodau prid ac anadliadau
 Adfywiol Duw yn ysgwyd eu dalennau ;
 A dacw afon,—loew fel gwirionedd
 A'i llif yn esmwyth-dawel fel tangnefedd.
 Sw'n twrf y môr ni chlywaf, ond ei wyneb
 Ganfyddaf draw dan lewyrch tragwyddoldeb.

*" A'r môr nid redd mwych."—
 Diwedd yfonyddwch a phererinod.*

O fôr di-hedd, fel cariad fyth yn effro ;
 Ac fel dialedd, fyth yn ocheneidio ;
 Yn symud beunydd—cyson fel y galon,
 Ac afreolaidd fel ei llu breuddwydion.
 Dy frochus wedd yn gartref aflonyddwch,
 A'th galon oer yn drigle i ddirgelwch,—
 Y naill yn ansefydlog—fel y dynol
 A'r llall yn ddofn fel ymwybyddiaeth ddwyfol.

" A'r môr nid oedd,"—'roedd popeth yno'n aros,
 Ymgyfarfyddiad wedi dwyn yn agos
 Bellafoedd bod a bywyd,—'roedd bwriadau
 Fu'n ymbabellu yn y byd mewn deddfau,
 Fu yn goleuo aml oruchwyliaeth,
 Ac yn blodeuo anial hanes diffaeth,
 Fu'n rhodio llwybrau dirgel dan y moroedd,—
 Yn gwneyd cerbydau breiniol o dymhestloedd—

Yr oeddynt bellach wedi cwbl orffen
 Eu teithiau pererinol, a phob diben
 Yn ymgartrefu mwyach—yn brofiadau
 Gwynfaol mewn calonnau, yn adnodau
 Mewn ysgrythyrau byw.

Y gwirioneddau
 Gadwasai'r byd mor hir yn oer garcharau
 Credoau mân o fewn i lyfrau meirwon—
 Y rhai fu'n diffodd tanau i ferthyron
 Gan ruddo'u hedyn gyda gwaed eu calon,—
 Y rhai fu'n rhodio yn y diwygiadau
 Fel Adgyfodiad nerthol drwy fynwentau—
 Nid oeddent hwythau bellach bererinion,
 Cartrefent mwy mewn cymeriadau tirion.

"A'r môr nid oedd,"—tawelwch yw cynefin
 Yr angel glân a'i Grewr. Y pererin
 Sydd bellaf oddicartref gurir fwyaf
 Gan donnau ac ystormydd,—pennyd amlaf
 Y crwydryn ydynt. Pennyd nefol angel
 Yw gweled Duw a'i gysylltiadau tawel.

Mae'r enaid wrth ymddiosg o'i aflendid
 Ym mhob arferiad aflan daf i fywyd
 Yn bwrw ymaith lengau o egnion
 Cyn mynd ohonynt yn ystormydd creulon,
 A gwnel ystormydd llwythog o amhuredd
 Heolydd glân i gerbyd aur tangnefedd.

Nid oedd yno gyffroadau'n sangu'n feiddgar ar feddyliau,
 Nes y llifai eu hegnion bywiol allan mewn holiadau,
 Nac ystormydd yn mynd heibio gwigoedd paradwysaidd calon,
 Nes dadwreiddio'r prennau ddygent ffrwythau melus eu
 gobeithion:

'Roedd meddyliau sancteiddiedig wrth fyfyrio'n gwneyd Sab-
 bathau,

A chalonnau wrth ymserchu'n troi profiadau yn gynteddau
 I dangnefedd bythol ieuanc,—cyfoed Duw a thragwyddoldeb,—
 Ledu edyn o oleuni prydferth dros Secina'u purdeb.

Yno gwelwn y taweledd a ganfyddais yn gysgodau,
 Ar hyd ruddiau mwynion hwyrdydd, dros wynebau cain
 enfysau;

Gwelwn gartref y cadernid tawel oedd o dan y mynydd;

Gwelwn drigle'r nerthoedd distaw oedd yn glasu dail olewydd,

A'r angylion a rodiasent fel ysbrydion hollalluog
 Dros y bryniau oedd yn cynau yn llosgfeydd cydwybod euog.—
 Gan ddyferu hedd yn ddafnau, nes yr ymddiffodda'r bryniau
 Ac y treiddiai ias tangnefedd ymwybyddiaeth i'w dyfnderau.
 Tawel oedd yr hen fwriadau yng nghuddfeydd y Fynwes
 ddwyfol,—

Tawel wedi ymgorffori ydynt yn y byd ysbrydol.
 Huno'n ymwybyddiaeth effro Duw y bu y 'Ddaear Newydd,'
 A thangnefedd yr hun honno fydd yn aros dan ei chynnydd.

Fôr aflonydd, nid yw'th donnau gwylltion byth yn ymddistewi,
 Mwy na thrymion ocheneidiau'r colledigion mewn trueni!
 Ai 'paham' dy aflonyddwch yw dy ofal rhag i enaid
 Orffwys ar yr ansefydlog a'r gweledig—cau ei lygaid
 Ar ei 'aros' anaeorol—sydd yn gallu dal ei wyneb
 Mor naturiol a chyfathrach ym myw llygad tragwyddoldeb,
 A'r breuolder amgylchiadol ymollynga pan fo pryder
 Swn dynesiad yr ysbrydol yn cyffroi ei angerddolder?
 Nid oedd angen swm dy donnau gan eneidiau a ddaliasent
 Gawod amgylchiadau amser—yr eneidiau a ollyngent
 Ddychfeddyliau—wnaent i'r bryniau ban ymostwng dan eu
 pwysau—

Heb fod ol y gawod arnynt—heb fod gollwng y syniadau
 Wedi pylu eu galluoedd—oeddent bellach heb gadwynau
 Tynion mater yn eu rhwystro,—na, nis gall un enaid orffwys
 Ond mewn meddylgarwch effro hyd rodfoedd heirdd paradwys.
 Delir di, O fôr aflonydd, gan y deddfau yn eu breichiau,
 Nes y byddi wedi gorffen a thraddodi dy bregethau,
 Ymaith ant i'r 'Ddaear Newydd' wedi cael y bregeth ola'
 Gan dy ollwng di fel baban diymadferth i ddiddymdra.
 Swm dy dwrf sydd fel swm pryder am barhad ei fywyd,
 Nis gall tragwyddoldeb osod diwedd byth yn ei feddylfryd.

*"A'r môr nid oedd mwych,"—
 Diwedd ar ddirgelwch, gweled pob peth.*

DDIRGEL fôr, pa le mae'th waelod? pwy sydd yn cynyrchu'th
 donnau?

Ai angylion negeseuol cariad rodiant dy ddyfnderau?
 Faint o awgrymiadau distaw meddwl Duw a elli osod
 Mewn cyflafan ar dy wyneb? mewn tawelwch yn dy waelod?
 Pa mor uchel ydyw'r bryniau a ymffurfiant yn dy grombil?
 Pa mor ddyfnion ydyw'r glynnoedd a orweddant yn eu hymyl?
 Wrth fynd heibio, ar eu teithiau, ddarfu engyl gwyneb-lawen
 Lanw calon y mynyddau gydag aml aur wythien?
 Ymaith wag holiadau, ciliwch—aros beunydd mae'r dirgelwch,
 Ofer disgwyl am ddadguddiad yng nghynteddau y tywyllwch.

Nid oedd mwyach fôr â'i donnau fel cenhadon diesboniad,
 A'i ystormydd digllawn beunydd fel elyllon di-gyfeiriad ;
 Ceid pob ton fu'n negeseua—pob chwyldroad fu yn tafu
 Egwyddorion fel o'r dyfnder ac arweinwyr dewr i fynu
 Bellach dan oleuni llachar—gwelid llwybrau cudd pob neges ;
 Gwelid calon y gwirionedd ysbrydolodd engyl hanes ;
 Gwelid olion holl ystormydd blinion Amser yn penlinio,
 Er mwyn derbyn baich o nerthoedd gan yr Ydwyf mawr digyffro ;
 Gwelid pabell y cyfarfod lle cynhullai chwyldroadau
 Yn bryderus ac addolgar—pan ddanghosai Duw y llwybrau
 Breiniol, hyd y rhai y teithient—pan gyfeiriai at yr oesau
 Yr arllwysent ddrychfeddyliau Duw yn gawod ar eu pennau.
 Ceid 'paham' pob goruchwyliaeth, a 'pha fodd' ei chanlyniadau
 Gladdwyd yng ngwaelodion moroedd am gyfnodau meithionlawer,
 Yn y Ddaear Newydd brydferth—ceid hwy yn y blodau tyner
 Dyfent hyd ei brynau bythol,—yng ngwynfydau cymeriadau—
 Hoew fel ieuencid Ydwyf, glân fel dwyfol drugareddau.
 Nid tywyllwch, ond goleuni, sydd o dan ddirgelwch nefol ;
 Gweled gwir, ac nid ei-erlid, mae meddyliau byd ysbrydol.
 Adnod sydd anesboniadwy yno am fod tragwyddoldeb
 Yn lletya yn ei chalon ac yn pwyso ar ei gwyneb.
 Pennyd nefol calon yno ydyw byw yn y goleuni :
 Nis gall meddwl yno ddisgwyl gweld wybrennau byth yn nosi.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
 Gweled amcan i bob crwydro.*

Mae dy wyneb, fôr, fel bywyd, weithiau dybir yn DDIAMCAN.
 Gaiff yr awel farchog arnat ddim ond er boddhau ei hunan ?
 Ynte oes o dan ei nwyfiant ddiarwybod ddifrifoldeb,
 Ac a ydyw hi wrth chwareu'n gwasanaethu tragwyddoldeb ?
 Beth yw ystyr gorchwyl hydref ? ai dinistrio gwaith y gwan-
 wyn ?

Ydyw Duw yn creu blodeuyn er ei weld yn cwympo wedyn ?
 All mai llwyfan i'r Anfeidrol chwareu ynddo ydyw bywyd,
 Ai difyrion meddwl dwyfol yw ei amgylchiadau celyd ?
 Ynte oes gan gwmp a chodiad pob blodeuyn bychan neges
 I roi gogwydd nef-gyfeiriol i holl weithrediadau hanes ?
 Nid er mwyn cael seiniau diddan i'w ddifyrru—mae egnion
 Duw'n ymdonni yn y nerthoedd gluda Amser yn ei galon—
 Na, mae sw'n bwriadau grasol ar eu ffordd i'r "Ddaear Newydd"
 Yn y môr o amgylchiadau, yn y nerthoedd mawr aflonydd ;
 Dyna ydyw yr holl donnau—sw'n cerddediad dyfn-feddyliau
 Duw yn ymdaith tuag adref, hyd ddaearol ffyrdd a llwybrau.
 Ddaear newydd, nefoledig ! Mynydd Seion yr holl oesoedd,
 Dinas gyfaneddol bywyd—bythol bell o sw'n y moroedd,—
 Gwelaf ynnot Dduw yn plygu trefn Rhagluniaeth fu yn wisgoedd

I'w ofalon effro tyner—gwelaf ef yn arwain heibio,
I'w tragwyddol bebyll, nerthoedd fu yn rymus weithio drosto
Gwelaf ben y ffordd dragwyddol, ac atalnod ymddadblygiad,
Gwelaf ddiwedd pererindod, gwelaf 'aros byth' cymeriad.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
Diveodd ar bob gwahanu.*

GWAHANU, fôr, yw'th bleser yn feunyddiol;
Rai prydiau rhoddi bwyslais trwm ar nerthol
Raniadau Ior,—fu'n plannu gwahaniaethau
Yng ngwreiddiau bod mewn dynion ac mewn blodau,
Gan osod ffiniau teulu a chenhedloedd
Dros holl wastadedd bywyd nas gall oesoedd
Eu syflyd byth; dull Duw o gadw'n gyfan
Ei roddion oll yw'r rhannu hwn ym mhobman—
Bryd arall mae dy rannu yn fympwyol,—
Di-ddeddf fel pechod, beiddgar fel y dynol.

Ti gedwi gennad Duw oddiwrth yr Achos
I ymbenydio yn unigedd Patmos.
O dŷ y weddw, deni fab yn forwr,
Gan ddangos iddo lwybrau geirwon arwr,
A phan y rhed ystormydd hyd dy wyneb,
Bydd hithau'n gollwng tua thragwyddoldeb
Ddymuniad drylliog, lawned o weddiau
A bron 'colledig byth' o ocheneidiau!
Estynni'th freichiau oerion er llydanu
Gagendor rhwng y tad sydd bell o Gymru,
A'i eneth fechan sydd pan yw yn huno
A gweddi drosto yn ei bron yn effro.

Ond nid oedd mwyach fôr nac ymraniadau
I ffinio bywyd gyda'u cysylltiadau;
Wrth ymneshau at Dduw y mae bodolaeth
Yn tafu oddiwrthi bob gwahaniaeth.
El y boneddwr balch a'r swyddog uchel
Ar goll am byth pan wneir y dyn yn angel.
Difianna'r bydoedd, oedd, pan ar y ddaear,
Yn dadgysylltu dyn a'r blodau hawddgar.
Y mae mynyddoedd, blodau, ac afonydd
Yn nes at Dduw o fewn y Ddaear Newydd;
Am fod yr oll yn ymyl Duw yn aros—
Yr effaith yn cyd-drigo gyda'r Achos.

Pob bywyd yno ymgysgodai'n ddedwydd,
Dan amddiffyniad bywyd Duw'n dragywydd

Tafasai digonolrwydd hwnnw'i lewyrch
 Dros gylchoedd cyfain bywyd yn y llennyrch
 Tyfasai'r blodau heb y gwlith a'r awel,
 Rhodiasai'r saint heb gymorth braich yr angel;
 Ehedai'r engyl fel pe byddai bywyd
 Anfeidrol Duw yn llawn yn eu hieuentid,
 Ymdonnai'r afon dan ei anadliadau,
 Blodeuai'r bryniau dan ei dywyniadau,
 Cartrefai'r dydd tragwyddol ar ei wyneb
 Sancteiddrwydd rodiai donnau ei ddisgleirdeb.

A'r digonolrwydd hwn a adlewyrchid
 Fu'n ysgwyd ymaith wahaniaethau bywyd.

Mor bell ysgara tonnau'r môr galonnau!
 Mor unig bron sy'n llawn o orthrymderau!
 Pan dafsa ton dros enaid ing yn gawod
 Mor bell i bawb ond Duw ei hun yw'r gwaelod!
 Ond nid oes ond trueni'n bell o Wynfa—
 All Duw ddim gwenu belled a Gehenna!
 O Ddaear Newydd, heb un môr—dy gysgod
 Oedd ar freuddwydion gwynraf fy mhлentyndod;
 Pan welwn fam fu'n wylo taer weddiau
 Yn dyner droswyf wrth fynd o'i gofidiau
 Yn sefyll yn fy ymyl, plannu cusan
 Mor frwd â'i chariad, ar fy ngwefus druan.

Ai nid tydi fu'n ysbrydoli'r fechan*
 A fynnai fod yn un o deulu cyfan,
 Ac a dafasai foroedd dyfn a beddau
 A grym angerddol serch o fewn cromfachau?

Nis gellid rhannu yn y Ddaear Newydd;
 Mae'r dydd, fel gwyneb Duw, yn wyn dragwydd;
 Pe ehedasai'r saint nis gwelsent hwyrdydd
 Yn unman ar eu taith—nid yw prysurdeb
 Yn drefn y dydd sy'n faith fel tragwyddoldeb,
 Nis gall un galon wan letya nosau,
 Ac arall wau profiadau o foreuau.
 Mae glesni'r awyr yno yn dragwyddol,
 A nwyf awelon per fyth yn foreuol;
 Gwedd gwirioneddau'n olau ddigyfnewid,
 A phawb yn aros, er o hyd yn symud—
 Yn aros mewn ieuentid, mynd mewn profiad:
 Arosol yn y cyflwr—ymestyniad
 O hyd mewn gwybod hen gyfrinion cariad.

* Odlig fechan Wordsworth—"We are Seven."

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
Dioedd ar ddiwisiau.*

Fôr DINISTRIOL, pam yr ydwyf fyth â'th wedd mor anfoddlongar?
Pam yr ymosodi beunydd ar greigdraethau celyd daear?
Pam yr wyt mor wyneb-lawen, pan yn derbyn y malurion
Gluda'r neint oddiar y mynydd, wrth ymdrechu rhwygo'i galon?
Ai nid ydyw safle'r creigiau, ffurf a sail y cadarn fynydd
Yn dy foddio, pam y mynni wneuthur bryn a chraig o'r newydd?

Mae dy dinistr, fôr, yn ddwyfol,—dryllio er mwyn adeiladu;
O falurion y mynyddau Daeear Newydd ddaw i fyny.
O'th waelodion di yn raddol cyfyd byd nas gall ei ddaear
Dyfu pigog ddrain yn dwyni,—nas gall ddwyn ond blodau
hawddgar.

Nid oedd mwyach fôr i ddryllio, gwisgai popeth wedd derfynol;
Hedd tragwyddol, ac nid tanlyd nerthoedd, sydd dan fryn
gwynfaol;

Y mae diysgogrwydd tawel gorsedd gadaern yr Anfeidrol
Yn ymorffwys yn gymylau gwynion ar y bryniau oesol.
Deil blodeuyn y Ddaear Newydd fwy o bwysau ar ei wyneb
Na mynyddau yr hen ddaear—mae ei faich yn dragwyddoldeb.
Ceir egnion Duw fu'n codi tonnau ar wynebau'r oesau
Bellach yn cartrefu'n dawel ym mherffeithrwydd cymeriadau.
Caiff pob nerth fu'n gwisgo tonnau'n ddillad gwaith dragwyddol
orffwys

Wedi iddynt orffen gweithio yn nhangnefedd pur paradwys.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
Nid oes dyrysu cynlluniau mwyach.*

ANORCHFYGGL fôr, pa nifer o holiadau dyfnion deflaist
I feddyliau? Faint o weithiau yn ddifater y chwareuaist
A gobeithion ieuainc calon? Pa sawl cawod o bryderon
Wlawiaist i ddyfnderau enaid? Beth yw rhif yr ymadferthion
Dynol fu yn ceisio dofi angerdd dy ystormydd gwylltion?
Pa sawl gwaith y camgymerodd enaid wrth dy weld mor feiddgar
Wlithion dwyfol cyfrifoldeb am ddyferion pryder daear?
Ac y teimlodd nad oedd yntau, llestr llawn o dragwyddoldeb,
Mwy na'r llong ddaeth o'i feddylddrych, ddim ond tegau i
drychineb?

Do, wrth ymladd â'th egnion, wrth ymgrymu dan dy ddifrod,
Gwelodd bywyd gysgod tywyll tynged ganwaith ar ei waelod.

Wlad ddi-fôr! mae ymwybyddiaeth yno'n dawel fel dwyfoldeb,
Gwedd ddigyffro anfarwoldeb sydd o dan ei difrifoldeb.
Nis gall myfyrdodau sanctaidd gan oleuni gael eu dryllio,
Na serchiadau dyfnion calon gan sancteiddrwydd cael eu crino,

Na phryderon ddod i enaid mwy, na chyffro ddod i galon
 Duw wrth weled canlyniadau byth-barhaol ei fyfyrion.
 Nid ymdrechu'n gryf yn erbyn, ond cydredeg mewn cyfochredd
 Gyda'i gysylltiadau bythol, y mae enaid mewn tangnefedd.
 Llwybrau anhawsterau blinion, ac allorau filoedd, ydyw
 Y rhai mwyaf dwyfol welir yn ein byd tymhestlog heddyw ;
 Ond o fewn y Ddaear Newydd rhodia enaid hyd gynefin
 Lwybrau Duw sydd, fel ei hunan, fyth yn dawel a dilychwin.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
 Nid oes eisiu goful nac adferiad.*

WASANAETHGAR fôr, nis gelli mwy na Cheidwad Israel huno,
 Mae'th ofalon yn dy gadw ar dy wely fyth yn effro ;
 Ymddirieda'r lili ynnot gyda ffydd y ferch amddifad
 Nas canfyddodd ofal dwyfol yn ddiweddar ei gyhoeddiad.
 Cyfyd ysbryd adgyfodiad yn y gwanwyn fyrdd o flodau,
 Gan ymddiried y gwnei dithau'n dynner edrych ar eu holau.
 Fel dy Grewr, rhoddi beunydd i egnion nerthol Cread—
 Nid yw'r wawr yn ymdaith drosot heb gael profi dy gynwysiad ;
 Beth a ddeuai o'r ddaearen danllyd-galon heb dy ddyfroedd—
 Holltai cri sychedig fywyd galon graig ei dyfnion lynnoedd.
 Ddaear Newydd heb y moroedd—yn dy frodir wynfydedig
 Ni bydd sant nac angel hoew byth yn teimlo yn sychedig ;
 Ni bydd angen pelydr gobaith ar galonnau di-nosweithiau ;
 Ni bydd eisieu hwyr ddyferion ar eneidiau llawn o forau ;
 Ni raid ofni i flodeuyn tyner yno gau neu wywo,
 Tra y mae ireidd-dra bywyd Duw yn disgyn beunydd arno.
 Rhaid cael haul i wenu'n dirion ar ddail prid daearol flodau,
 Rhag i hiraeth am gynefin fryd prydfferthwch wywo'u gruddiau ;
 Ond nis gall blodeuyn hiraethu, mwy nag enaid, pan yn teimlo
 Fod boddlonrwydd hedd-gynyrchol Duw ei hun mor agos ato.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
 Pob peth yn anghyfnewidiol.*

Fôr SEFYDLOG, hen gydnabod ser y borau—rhai fu'n gwylied
 Bryniau'n codi ac yn gostwng, oesau'n dyfod ac yn myned—
 Unig blentyn Dwyfol Fydded sydd yn gallu dal ei oedran—
 Unig un sy'n perchen gwyneb heb fod arno graith yn unman,—
 Ai o th fewn yr ymgartrefa ymwybyddiaeth ddirgel Anian ?
 Ymgysura enaid ofnus wrth dy weld mewn creadigaeth,
 Fel efe, mewn cyfnewidiol wisg yn cadw dy hunaniaeth ;
 I'r "Myfi" anghyfnewidiol sy'n fy natur drych yw'th wyneb,
 Ym mha un y cenfydd ddarlun calon-lawn o dragwyddoldeb.
 I'r cyfnewid nodweddiadol geir o fewn yr eang Gread
 Ti, fôr hen, ond gwyneb-ieuanc, ydyw'r unig un sy'n *eithriad*.

Nid oedd mwyach môr yn *eithriad*. Nid oedd anfarwoldeb hoew,—
 Oedd mewn enaid ar y ddaear, pan yn gwled lili'n marw

Yn pruddhau nes oedd dieithrwch yn gordoi ffurfafen enaid
 Ac ymdeimlad o'i unigrwydd yn dwyseiddio fflach ei lygaid—
 Mwyach yn rhodianna'n ofnus hyd balmentydd celyd angau.
 Ceid ei lewyrch yn gymylau gwynion ar y ffurfafenau,
 Ceid ei egni'n urddasoli chwyfiad aden wen yr angel,
 Ceid ei hedd yn ymorseddu ar binaclau'r bryniau tawel.
 Bod un byd, a hwnnw'n nefol, ydyw sant y Ddaear Newydd—
 Mae'r tragwyddol sy'n ei galon yn ei gysylltiadau llonydd.
 Ni bydd enaid ar ei yrfa ymddadblygol byth yn ysgwyd
 Perthynasau byr-barhaol ymaith oddiar ei fywyd.
 Rhed ei ddymuniadau gloewon mewn cyfrochedd gyda rhediad
 Esmwythliful gyrfawel meddwl Duw ym mhob cysylltiad.

Mae'r eneidiau fu ar wasgar,—amser gyda'i droion rhyngddynt,
 Hiraeth am y Ddaear Newydd yn brofiadau dyfnion ynddynt,
 Amgylchiadau ansefydlog daear oddiamgylch iddynt,—
 Wedi eu cydgasglu bellach, wedi eu crynhoi yn deulu
 Nas gall cawod o ddamweiniau ddisgyn arnynt i'w crebachu.
 Na, ni raid i enaid bellach gau ei lygaid rhag i ddfrod
 Amgylchiadau anfon iasau siomedigaeth ddofn i'w waelod.
 Gall eu dal hwy yn agored, edrych dymuniadau drwyddynt
 Tra'r edrycha ei amgylchoedd eu hatebion parod iddynt.
 Oddifewn i'r cartref nefol, cyfan fel ei ddwyfol fwriad,
 Cura bywyd gyda chalon Duw yn reddfol a dieithriad.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"
 Un llwybr heb beryllon.*

Mor AMRYWIOL ag yw'th donnau, fôr, yw'r cyfeiriadau filoedd
 A gymerir gan y llestri sydd yn marchog brig dy ddyfroedd!
 Pa sawl amcan fu fel llong hyd wyneb enaid yn mordwyo
 Sydd yn llong faterol heddyw hyd dy wyneb di yn nofio?
 Faint o ddrychfeddyliau gloewon meddwl ferchyg dy wanegau,
 Beth yw nifer y pryderon daflodd calon ar dy donnau?
 Dacw long ac ynddi gennad Duw—gwirionedd cnawdoledig—
 Ar ei ffordd at anwar lwythau â chenhadaeth fendigedig;
 Dacw un o apostolion effro Mamon yn ei ymyl—
 Mae y môr mor wyneb-lawen i Famoniaeth ag efyngyl.
 Dacw bleser-fad yn hwylio yn urddasol draw fan acw,
 Yn y llong sydd ar ei gyfer hwyliaw gwyryf adre i farw.

Un cyfeiriad sydd i fywyd o fewn ffiniau'r Ddaear Newydd,
 Heol eang fel dwyfoldeb yn dragwyddol deithia'i chynnydd—
 Y mae'r ffordd fu'n ddigon llydan i fwriadau Duw ei theithio
 Yn ddigonol lydan hefyd i'r holl deulu ei chyd-rodio.
 Duw-nesaol reddf sy'n cadw blodau'r nef mor llawn o nwyfiant—
 Dyna geidw fron yr angel ieuanc lawned o ogoniant.

Hon sy'n gw litho tueddiadau sant âg ysbrydoliaeth sanctaidd,
 Ac yn gwynnu gwyneb seraff hoew ag ieuentid iraidd.
 Ffordd yr Arglwydd ar ein daear isel, orthrymedig, ydyw
 'R unig un all enaid rodio'n gyfan a diogel heddyw;
 Ac o fewn y Ddaear Newydd ni bydd bywyd byth yn crwydro
 Oddiar y linell uniawn ddwyfol a osodwyd iddo.
 Duw sy'n uno; wrth fynd ato glanach daw gwynebau'r oesau
 Am na chreithir mwy mo honynt gan wahanol gyfeiriadau
 Bywyd; na, ni bydd un groesffordd lawn peryglon yn ymagor,
 A bedd-fynag ar ei chanol, ar rawd bywyd byth yn rhagor.

Gwelais fam un dydd yn rhodio'n araf tua mynydd Seion,
 Yr oedd calon yn ei chamrau, hefyd gamrau yn ei chalon—
 Camrau John y rhai gyfeirient at drueni yn ddiwyro;
 Clywais hi dan weddi cyfaill dros ei mab yn ochneidio—
 Os na chlywodd Duw y weddi, aeth y drom ochenaidd ato.
 Clywais John brydnawn-ddydd arall gyda'i fam yn mynd i'r
 mynydd—
 Gwelais gysgod gwlad ddiforoedd yn eu rhodiad gyda'u gilydd.

Gwelais wryf deg un borau'n hebrwng chwaer i wlad yr estron,
 Duw w'yr ystyr eu mudandod—welodd arall mo'i waelodion!
 Torrwyd y tawelwch llwythog—crynna'r geiriau dan deimladau!
 Ebe'r chwaer—"er gwaetha'r moroedd cawn gyd-anfon ein
 gweddiau
 At ein Harglwydd"—un cyfeiriad fedd gweddigar ddymuniadau.
 Dawnsiai'r don, chwareuai'r gwyntoedd; ond danghosai yr ym-
 ddiddan
 Fod yng ngwaelod y ddwy galon gysgod gwlad heb fôr yn un-
 man.

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
 Nid oes yno gawod hallit nac ing.*

Y MOSODOL fôr, mor ddibrin y gollyngi o dy fynwes
 Nerthoedd sydd wrth lamu'n tafu iasau ing i galon hanes!
 Pa sawl rhosyn tyner glwyfwyd gan gawodydd fwriaist allan,
 Ac a sangent gyda'u sendyl budron ar y lili druan?
 Pa sawl corsen ysig welais ar y mynydd wedi dryllio,
 Ar ol i'r ystormydd creulawn ddaeth o honot eu bedyddio?
 Pa sawl dôl flodeuog lydan, lawn o lwybrau ysbrydoliaeth,
 Drowyd gan y llaid a deflaist yn feithrinfa llygredigaeth?
 Arwydd ydwyf o fôr arall sy'n dygyfor yn y galon,
 Ac yn tafu llaid nes gwneuthur dillad bywyd oll yn fudron—
 Môr drygioni daflodd filoedd o gawodydd dros eneidiau
 A phob defnyn ym mhob cawod yn gyd-gasgliad o uffernau;
 Do, fe chwythwyd oddiar fywyd ganwaith obaith llygaid-lawen
 Fel y chwythir aeron addfed gan y gwynt oddiar y goeden,

Nes ymddengys ambell flodyn dyf mewn enaid fel gweddillion
 Y gynddaredd gludai'r gawod uffern-lwythog yn ei chalon.
 Pwy ond Duw wyr rym y cyni y bu enaid ganwaith ynddo
 Wrth ymdrechu bwrw allan ol y gwlaw fu'n curo arno?
 Beth yw'r dagrau heilltion gollir—beth yw'r ocheneidiau trym-

ion

A ollyngir? beth yw'r hiraeth sydd yn blino llawer calon?
 Dyna ydynt,—egni enaid—plentyn Duw ac anfarwoldeb
 Yn ymdrechu bwrw ymaith laid y môr oddiar ei wyneb.

Nid oes mwyach fôr yn taflu llaid dros sanctaidd gymeriadau,
 Nid oes awel byth yn chwythu llwch hyd ddail gwynfaol flodau,
 Glân fel tawel fyfyrdodau Duw yw myfyr dwfn meddyliau,
 Gwyn fel Sabbath calon Ddwyfol yw penydiol hedd calonau;
 Nid ces ar ffurfafen Gwynfa gymyl byth a wlawiant ofid
 Yn gawodydd breision filoedd ar hyd reddfau tyner bywyd.
 Mae'r ddisgyblaeth arw drosodd. Cartref gaed mewn Daear
 Newydd


I eneidiau perffeithiedig aros bellach gyda'u gilydd.
 A phan sang y sant fydd olaf ar y ddaear balmant Gwynfa,
 Caiff ei ofid olaf hefyd gartref—nen ddi-wawr Gehenna!

Ni bydd wylo mwyach yno—fedd sancteiddrwydd ddim defn-
 yddiau

O'r rhai gall y galon dyner wasgu allan ffrwd o ddagrau.
 Welir yr un allor yno; nid oes pren allorau'n tyfu
 Yn y ddaear nad oes enaid ysig yno all aberthu.
 Coron ddrain ni wisgir yno; nis gall pigog dwyni ffvnnu
 Yn y wlad lle na cheir heilltion ddafnau môr i'w dyferynu.
 Croes ychwaith ni cherrir yno,—nis gall cangau bywyd iraidd
 Prennau'r nef wnevd ond coronau prydfarth i eneidiau sanctaidd;
 Na, y mae cydgoriad swynol rhwng y bywyd pur sydd yno,
 A gweniadau nwyf-gynyrchol Duw belydrant beunydd arno!

*"A'r môr nid oedd mwyach,"—
 môr amser wedi llonyddu!*

Fôr 'stormus Amser, beth am dano yntau?
 I'r hwn y taflodd Duw flynyddau'n donnau,
 Ac a wnaeth byd yn hallt â llif ei ddagrau;
 O'r hwn y cododd myrddiwn o gymylau,
 Y rhai, fel bryniau calon-lawn, am oesau
 Symudent beunydd hyd ryw nen dragwyddol,
 Nes yr ymddryllient yn gawodydd llethol
 Uwch ben eneidiau forient gyda'r awel
 Yn gref o'u tu—a'u cysylltiadau'n dawel—



ddiol."

21


4111




ei donnau
dau.



"Ddwr nid oedd mwyach,"—
 chwyddion y sychir ef.
 wybrau cariad
 yw'r GWRES sydd yng
 Llan yw'r TAN sydd yng
 Ddwr sy'n ymdonni ym
 Gwres yw'r TANLLYD
 yw'r GWRES bywyd mor WREICH-
 Ddwr yw'r GWRES
 yw'r GWRES bwriadu sychu
 yw'r GWRES addeg, oll i fynu !





yr awydd i ymhyf-
 v. Peth dwyfol yw
 eneidiau tebyg iawn
 i'r dieflig yn y byd.
 ymfrydu ym mhoen
 dieflig; arteithio er
 credo ei hun yn gredu
 iol. Dryllio blodau
 ariaid direswm, poeni
 dyna dair gradd yn
 y dieflig ar y gradd
 iddo, erlid arall am

feddwl drosto ei hun, poenydio dyn yn naear-gelloedd y chwilys—dyna dair gradd yn nadblygiad y rhagrithiol dieffig. Pe diflannai cariad yn llwyr o'r byd, y mae digon o dân nwydlawn yng nghalon dyn i ddychrynnu uffern; pan enillo cariad y dydd yn llwyr, y mae digon o ddaioni yn nynol ryw i synnu'r nefoedd. Ac eto i gyd, onid creulondeb sy'n magu aberth? Onid swm cadwynau sy'n deffro ysbryd puraf rhyddid? Y mae dihareb Gymreig yn dweyd mai "o ddrwg, gore po waethaf;" ac y mae'r arteithiwr creulon dieffig wedi gwneyd gwasanaeth i'r byd trwy ein dysgu i gashau creulondeb ac erledigaeth.

Wrth ofyn i ti, ddarlennydd hynaws, ddod gyda mi am dro i ddaear-gelloedd y chwilys, ac i sefyll uwchben hen arteith-glywidi rhydlyd llysoedd y ddaear, nid wyf am godi
 Addewid. yr un ffurf neillduol ar grefydd neu wladlywiaeth i fod yn wrthrych dy gasineb. Fy unig amcan yw dweyd wrthyt fel yr arteithiwyd dynion gwaethaf a dynion goreu y ddaear, yn cnw cyfiawnder a chrefydd. Os ca-hei orthrwm a chreulondeb yn fwy nag erioed wedi'm dilyn, nid yn ofer y disgynni gyda mi i fro ddu erchyll yr hen arteithio.

Wrth ddisgyn i'r daear-gelloedd, i fro y gruddfan a'r creulondeb anynol, y mae dwy ystyriaeth yn ymwthio i'r meddwl crwydredig effro. Un ydyw hon,—ein bod yn mynd
 Y meddwl
 rhydd. i edrych ar ymdrech rhwng y cryf didrugaredd a'r gwan, y cryf bwystfilaidd yn gorfodi meddwl y gwan i ymostwng drwy ddirdynnu y corff. Hoff athroniaeth Milton oedd perffaith anibyniaeth y meddwl yn ei fyd unig ei hun, yr oedd yr enethig bur yn drech na gallu bwystfilod y coel; hoff gred hen dduwiolion Puritanaidd oedd fod eu meddwl yn guddiedig hyd yn oed oddiwrth y diafol ei hun. Duw yn unig oedd yn medru gweld y meddwl a chwilio y galon. Ond, yn y ddaear-gell, cawn ddynion,—tywysogion awyddus am ddial neu esgobion gor-selog,—yn ymgreuloni uwch ben un egwan truan sy'n ceisio dal i ddweyd y gwir dan boenau dirdynol ac wrth raddol wanhau nes cyrraedd y terfyn dieithr hwnnw lle nas gallai ei erlidiwr ei erlid mwy.

Ystyriaeth arall yw hon,—apêl at Dduw oedd yr arteithio i ddechreu, ac er mwyn crefydd yn bennaf yr arteithid yn y dyddiau diweddaf hyn. Draw yng ngwyll hanes y byd, tybiai dyn fod llawer achos mewn cyfraith rhy ddfwn a dyrus iddo ef ei ddeall a'i benderfynu; a phan wyneb yn wyneb ag anhawsterau felly, apeliai at Dduw. Gwneid i'r cyhuddedig gerdded dros haiarn eiriasboeth neu rodde ei law mewn dwfr berweddig neu lyncu gwenwyn; a thybid, os oedd yn ddieuog, y cadwai Duw ef yn ddianaf. O dipyn i beth, cymerodd y prawf tanlyd hwn ffurfiau newydd; a defnyddiwyd

ef, nid yn unig fel arbrawf terfynol, ond hefyd fel dull i orfodi i gyfaddef, ac fel cosb. Ac wrth weled y truan yn ymwingo yn ei boennau, deffrowyd yr elfen gythreulig yn anian llawer llywodraethwr, a defnyddiwyd y peth fuasai unwaith yn apêl at Dduw i foddio chwant anaturiol am weled dioddef, i orthrymu'r gwan, ac i borthi uchelgais brenhiniaeth ac eglwys.

Nid o fywyd anwar barbariaid y gogledd y daeth arteithio. Ni cheir ef ychwaith yng nghyfreithiau cenedloedd lle'r oedd teuluoedd rhyddion, heb fawr o gaethwasanaeth yn eu bywyd. Ni cheir ond ychydig olion o hono, os dim, yn y Beibl; ac ni cheir dim yng Nghymru hyd nes i Normaniaid creulon fel Robert o Ruddlan ddysgu'r tywysogion i ddallu eu gilydd. Lle mae eithaf gwareiddiad yn troi'n ddirywiad y megir yr awydd at arteithio, lle mae cymaint o bellter rhwng meistr a gwas fel na chred y naill y ceir y gwir gan y llall ond trwy orfod. Lle y ceir hynny, cyfreithlona'r gyfraith ddau fath o arteithio,—arteithio i gael tystiolaeth, ac arteithio i gosbi. Ond yr oedd arteithio heblaw yr arteithio cyfreithlon, fel y gwyddai llawer carcharor a llawer caethwas.

Yng ngwlad Groeg yr oedd gwahaniaeth dirfawr rhwng y rhydd a'r caeth, a chydmarai Aristotl y gwahaniaeth rhyngddynt i'r gwahaniaeth rhwng dyn a bwystfil. Arteithid caethweision a chaethforwynion wrth ewyllys eu perchenogion. Y tu allan i Athens, arteithid gwyr rhyddion hefyd, a dychmygwyd poenydiau newydd a chreulon fel yr oedd dydd Groeg yn nesu at ei derfyn.

O bob man, Rhufeinaid adawodd fwyaf o'i hol ar gyfreithiau cenedloedd y ddaear, ac yr oedd arteithio yn rhan o'i chyfraith hi. Tra'r oedd yn weriniaeth, ni arteithid ond caethion; pan aeth yn ymherodraeth, aeth y rhydd hefyd dan y fflangell. A phan ddechreuodd yr ymherodraeth anferth ymddirywio a gwanhau a siglo o flaen ei chwmp, dyfeisiodd ei hymerawdwyr creulon ddulliau newydd a chreulon i arteithio. Arteithiasai'r gyfraith er mwyn cael y gwirionedd; arteithiodd Tiberias a Chaligula a Nero er mwyn ymhyfrydu wrth weled poenau'r dioddefwyr.

Y mae'n wir fod ambell atalfa ar rwysg y poenydiwr. Nis gallai fflangellu Rhufeiniwr rhydd ond yn unig pan gyhuddid ef o deyrnfradwriaeth yn erbyn yr ymherawdwr; ac os ceid ef yn ddiuog, cymerai ei gyhuddwr ei le dan y fflangell neu ar yr arteithglwyd. Ond yn y talaethau, daliai'r Rhufeiniwr ei fflangell drom o groen baedd uwchben Buddug y frenhines Brydeinig yn un pen i'r byd, ac uwchben yr efengylwr Cristionogol yn y pen arall. Unwaith

Dechreu
arteithio.

Groeg.

Rhufeinaid.

Paul o flaen yr
arteithiwr.

bu agos i ben-captén syrthio i brofedigaeth trwy arteithio Rhufeiniwr; a bu agos i'r cyhuddwyr Iddewig orfod cymeryd lle y gŵr gyhuddent. Pan safodd Paul i siarad ar risiau y castell i dorf o Iddewon llidiog, i ddweyd hanes y tro rhyfedd hwnnw ar y ffordd i Ddamascus, crochfioeddiodd yr Iddewon yn ei erbyn. Aeth y pen-captén ag ef i mewn i'r castell, a rhoddodd ef ar ei brawf. Er mwyn cael y gwir ohono yn ol y dull arferol, perodd ei fflangellu, fel y gallai wybod am ba achos yr oeddynt yn llefain arno felly. Ac fel yr oeddynt yn ei rwymo ef â chareiau, dywedodd Paul wrth y canwriad, yr hwn oedd yn sefyll gerllaw,—

“Ai rhydd i chwi fflangellu gŵr o Rufeiniad, ac heb ei gondemnio hefyd?”

A phan glybu y canwriad, efe a aeth ac a fynegodd i'r pen-captén, gan ddywedyd,—

“Edrych Beth yr wyt yn ei wneuthur; canys Rhufeiniad yw y dyn hwn.”*

Pan ddeallodd y pen-captén fod Paul wedi ei eni'n freiniol yn ninas nid anenwog Tarsis, ni feddyliodd am ei arteithio mwy; ac aeth ei gyhuddwyr ymaith yn ebrwydd, oherwydd gwelsant y gallai eu tro hwythau i fynd dan y fflangell ddod.

Nid y fflangell oedd unig ddull arteithio. Torri esgyrn ar yr olwyn, dirdynnu ar yr arteithglwyd, cribo â chrib finiog, croeshoelio'n fyw ar bren, gwasgu'r fraich â chortyn nes <sup>Dulliau Rhuf-
ain.</sup> torri at yr asgwrn, gwneyd i'r truan gerdded ar lawr eiriasboeth yn droednoeth, ei wthio i ystafell fechan lle yr oedd raid iddo aros yn ei ddau ddwbl nes yr ai blinder yn boen ingol, gwrthio finigr i'r ffroenau, torri'r cnawd â bachau,—dyna rai o ddulliau arteithio tua'r adeg y bu Crist, yn ufudd hyd angau'r groes. Diddymwyd croeshoelio gan Cystenyn, yn 315, o barch i'r hwn a groeshoeliasid; a daeth hen offeryn arteithio yn addurn anrhydedd ar wisg y mwyaf beiniol.

Fel yr oedd Rhufain yn ymlygru, ymhyfrydai ei hymherawd-wyr dirywiedig mewn dulliau newydd o arteithio. Nis gwn faint ydym i goelio ar Suetonius; os ydyw'n dweyd y gwir, y maer gwir yn erchyll iawn ambell dro.† ^{Nero.} Danghosid llecyn ger Capri lle teffid cyrff y trueiniaid arteithiasai Tiberius i'r môr, rhai nas gallai gael ychwaneg o hyfrydwch oddiwrthynt, oherwydd fod eu bywyd wedi ehedeg dan eu poenau. Dywedir y byddai'r ymherawdwr gwallgof Caligula'n mynnu gweld arteithio carcharorion er mwyn medru mwynhau ei wleddoedd yn well, ac y byddai cyrff rhai byw yn llosgi fel goleuadau o amgylch Nero.

* Actau xxiii. 24-29.

† Suetoni de vita Caesarum lib. iii. § 62.

Pan oedd Paganiaeth ar ei chreulonaf a'i mileiniaf, gwelodd ei llygaid fflamgoch Gristionogaeth addfwyn ymostyngar, a chaed ysglyfaeth newydd i'r arteithiwr. Darlunnir ^{Arteithio'r Cristionogion.} poenau'r Cristionogion gan Tacitus, ac y mae syniad yr hanesydd enwog hwnnw am Grist a Christionogaeth yn dra dyddorol fel syniad un o feddylwyr paganaid mwyaf galluog Rhufain. Wrth son am y tân mawr yn Rhufain yn amser Nero, dywed fod yr ymherawdwr diffaith hwnnw, y rhoddir ei enw'n awr ar gorgwn barus, wedi rhoi'r bai am y tân ar y Cristionogion. "Dioddefodd Crist, oddiwrth yr hwn y cawsant eu henw," meddai, "y pennyd eithaf oddiar law Pontius Pilat, un o'n rhaglafiaid ni, yn ystod teyrnasiad Tiberius; ac ail gododd yr ofergoeldd dinistriol, a lethwyd fel hyn am ennyd, nid yn unig yng ngwlad yr Iddewon, ffynhonnell gyntaf y drwg, ond hyd yn oed yn Rhufain, lle y ca popeth erchyll a chywilyddus o bob rhan o'r byd eu canolfan, a'r lle y deuant yn boblogaidd. Felly, daliwyd yn gyntaf y rhai a blediasant eu heugrwydd; yna, ar eu cyfaddefiad hwy, condemniwyd nifer anferth, nid yn gymaint am y drwg o osod y ddinas ar dân, ond oherwydd casineb at ddynol ryw. Ychwanegwyd gwawd o bob math at boenau eu marwolaeth. Gorchuddiwyd hwy â chrwyn creaduriaid, a llarpiwyd hwy gan gŵn; neu hoeliwyd hwy ar groesau; neu rhoddid hwy i'r fflamau, i fod yn goelcerth nos, pan ddarfyddasai'r dydd. Rhoddodd Nero ei erddi i hyn, a daeth i blith y bobl yng ngwisg cerbydwr. Cododd teimlad o gydymdeimlad hyd yn oed â rhai haeddasai bennyd eithaf; oherwydd yr oedd yn amlwg y dinistrid hwy, nid o ran lles y wlad, ond i borthi creulondeb un dyn."*

Nid oedd barbariaid y gogledd, y barbariaid ruthrodd wedi hyny fel rhyferthwy dinistriol dros ymherodraeth Rhufain, wedi dysgu ymhyfrydu yn yr olwg ar boen y rhai gosbent. Y mae'n wir y byddai mynyddwr Norway neu Ynys yr Ia yn cael rhyw fwynhad rhyfedd wrth ddial gwaed ei deulu, y mae'n wir y byddai hynafiaid y Saeson ddaeth i Brydain yn y bumed ganrif yn claddu rhai'n fyw mewn cors dan lidiard, ond nid oedd arteithio yn rhan o'u cyfraith. A phan gododd teyrnasoedd newyddion o adfeilion Rhufain, o gyfraith Rhufain, nid o'u defodau eu hunain, y cawsant y syniad mai trwy ei arteithio y ceir tyst i ddweyd y gwir.


Tynerodd Cristionogaeth rym nwyd yr arteithiwr am ennyd. Yn ol cyfreithiau Justinian, nid oeddis i groeshoelio mwy, nid oeddis i dorri'r ddwy law ymaith, ac nid oeddis i fflangellu neb

*Taciti Annalium lib. xv., § 44.

rhydd. Yr oedd ing y gwŵr gofidus, cynefin â dolur, yn gwneyd i ddynion gydymdeimlo a'u brodyr oedd yn dioddef. Ond buan iawn yr ymddirywiodd yr eglwys, ac y daeth enw'r addfwyn hwnnw'n esgus dros arteithio mwy creulawn na'r arteithio ddychmygasid gan y Rhufeiniwr barbaraidd ar ei waethaf. Daeth y rhai larpid gan anifeiliaid gwylltion gynt, daeth y rhai hynny'n eglwys gref, a chymerodd yr eglwys honno ffurf yr ymherodraeth Rufeinig. O adfeilion yr ymherodraeth, cododd yr Eglwys Gristionogol law yn llaw â Sanctaidd Ymherodraeth Rhufain, neu yn hytrach fel rhan o honi, gyda thwf grymus distaw fel twf cedrwydden yn Libanus. Ac yna dechreuodd gilwgu ar rai'n hiraethu am hen symlrywydd yr efengyl, dechreuodd erlid, dechreuodd arteithio. Nis gallai roddi neb i farwolaeth,* ac am hynny dyfeisiodd arteithiau creulonach na'r arteithiau y gwyddid am danynt yn llysoedd y barwniaid creulonaf. Tra y doi angau i ryddhau'r truan o boenau arteithglwyd y barwn, nid oedd obaith am ryddhad o ddwylaw'r arteithiwr eglwysig ond trwy ymostwng neu fynd yn wallgof. Ymysg pethau ereill, dysgasant pa fodd i boenydio trwy wneyd i gwsig gilio oddiwrth amrantau eu hysglyfaeth, a gwneyd iddo brofi'r holl ddioddef erchyll sydd rhwng ciliad cwsg a chroesi dros y terfyn i dywyllwch gwallgofrwydd. Yn Fflorens cedwid y truan yn effro trwy ymlid ar ei ol gyda haiarn poeth pan welid cwsg yn dod ato; yn Spaen, cartref creulondeb ei hun, gorfodid y dioddefydd i sefyll yn y fath fodd fel, os ymollyngai i gysgu, y syrthiai ar flaen pigfain barai loes bron angeuol iddo.


Pe dywedwn fod yr eglwys, yn y ddeuddegfed ganrif, fel Nero a'i herlidiasai gynt, ni ddywedwn ormod. Darlennwn am esgobion yn tywallt gwêr berwedig hyd gnawd yr hwn arteithient; neu yn ei grogi gerfydd ei wddf nes y byddai marwolaeth yn ymyl, ac yna yn ei dorri i lawr i'w grogi yn yr un modd drachefn pan beidiai ei wyneb a glas-dduo, a phan ddoi'n ddigon cryf i ddioddef drachefn. Fel yr eglwyswyr, ymgreulonai barwniaid lladronllyd diffaith yn eu cestyll yr un modd. Daeth Ffrainc yn enwedig yn drigfa dreigiau; heriwyd gallu'r brenin gan rai oedd wedi yfed o ysbryd y Daniaid anwaraidd fu'n ymosod ar y Sanctaidd Ymherodraeth Rufeinig, pan gwympodd honno fel y cwympasai Rhufain o'i blaen. Yn yr oes honno

* Y mae hyn yn un o reolau'r Ddeddf Ganonaidd. Dyna'r pam yr oedd troseddwy'r mor awyddus am gael eu treio yn llysoedd eglwysig y canol oesoedd, yn lle yn y llysoedd gwladol; gwyddent na fedrai llys eglwysig eu rhoddi i farwolaeth. Hyd yn oed yn awr, pe rhoddid rhyw arglwydd ar ei dreial am ei fywyd yn Nhy'r Arglwyddi, byddai raid i'r esgobion fynd allan, rhag cymeryd rhan mewn tywallt gwaed.



...oeth. Gellir troi serch a
 ...nau mwy arteithiol na'r

cawn gestyll yn codi bron ar bob bryn yn Ewrob; o Ruddlan i eithaf yr Eidal; ac ym mhob castell yr oedd barwn a hawl i ladd ac i arteithio bron yn ddirwystr. Ar ororau Cymru, yn enwedig, yr oedd barwniaid na ddeuai gwys y brenin o fewn eu terfynau, ac yn y ddeuddegfed ganrif ac wedyn gwnaent bob anghyfraith pan gaent elyn neu farsiadwr neu Iddew i'w daeargelloedd. Yr oedd arteithio a dioddef trwy gyfandir Ewrob. Crogid rhai gerfydd eu traed uwchben tân mud-losg;



COLLE HAIARN.

crogid ereill gerfydd eu bodiau, ac yr oedd poenau'r fath ddirdynnu yn anioddefol. Ambell dro rhoddid rhaff am ben yr hwn arteithid, a thynnid hi mor dyn fel y byddai esgyrn ei ben ar ymddryllio. Dro arall teflid un i ddaeargell lawn o lyffaint du'r dennog a nadroedd; ac fe allai y gadewid i bang-feydd newyn ddod i ymryson ag ofn y creaduriaid llysnafaidd gwenwynlyd fyddai'n ymlusgo yn y tywyllwch dros wyneb neu ddwyllaw y rhai garcherid gyda hwy. Yr oedd gan lawer ceidwad castell goler haiarn hefyd, ac ni fedrai'r hwn wisgai hon orwedd na chysgu, onide elai ei phigau dur i'w wddf.

Daeth arwyddion fod egwys a theyrnasoedd y canol-oesoedd yn ymddatod. Cododd ambell weledydd ei lais wrth weled bore gwirioneddau gwell yn torri, a galwyd ei neges yn heresi. Trodd gwŷn yr arteithiwr at y Waldensiad a'r Huguenot, a chafodd y rhai hynny eu hunain mewn ing,—y gydwybod wedi troi'n llais Duw oddimewn, ac arteithiau rhai dyhiraf y byd creulon oddiallan. Byd ac eglwys yn erlid ychydig rai addfwyn nad oedd y ddaear yn deilwng o honynt,—dyna'r olygfa gawn cyn cynnwrf a gwrthryfel y Diwygiad Protestanaidd. Yn Ffrainc arteithiwyd y Waldensiaid ar yr arteithglwyd, tynnwyd eu cnawd yn ddarnau â gefeiliau, tyllwyd eu tafodau â heyrn poethion, a gadawyd i ddynion bwystfalaidd borthi eu nwyd a'u creulondeb yn eu cartrefi. Yn Lloegr, gorfod i'r Lancastriaid dalu i'r eglwys am ei chymorth drwy basio deddf y llogi,—y tro cyntaf i llogi rhai'n fyw yn Lloegr.* Yn fuan wedi hynny, yr oedd aer y goron

* Hen. IV. 2, cap. 15. Dyma golyn ystadud enwog 1400.—“Eadem coram populo in eminenti loco comburi faciant; ut hujusmodi punitio metum incutiat mentibus aliorum ne hujusmodi nephande doctrine et opinionones heretice et erronee, vel ipsarum auctores et fautores, in dictis regno et dominis contra fidem catholicam religionem Christianam et determinationem ecclesie sacrosante quod absit sustententur.”

yn edrych ar losgi heretic, ar ei godi o'r tân a'i ollwng yn ol iddo.*

Ond y Spaenod oedd arteithwyr y byd. Pan gawsant fuddugoliaeth ar y Moorïaid Arabaidd oedd yn eu gwlad, daliodd eu sel i gynneu ymhell wedi'r frwydr, a dyfeis-

Y Spaenod. iasant arteithiau anhygoel ac anarluniadwy i ddwyn y Mahometaniad a'r Iddew at yr hwn na ddiffoddai lin yn mygu. Dywed milwr Seisnig wrth Iago'r Cyntaf beth ddarluniwyd iddo ef ym Mexico.† Yr oedd hen Indiaid wedi dianc i'r coed rhag ei gaeth-feistri. Gwelodd masnachwr Seisnig ef yn dwyn ei bennyd. Yr oedd wrth gadwen ugain llath o hyd, yr oedd ei gnawd wedi ei fflangellu nes oedd yn gignoeth, ei boenau arteithiol oedd dioddef y cymylau o wibed ymborthai arno hyd nes y deuai angeu i'w ollwng yn rhydd. Ymladdfa ddewraf y byd oedd ymdrech Calfiniaid yr Isel-diroedd Ellmynnig am ryddid crefyddol pan oedd iau'r Hispaen arnynt; ac y mae'n dda gennyf feddwl fod cannoedd o Gymry, wedi eu harwain yno gan Roger Williams ac ereill, ymysg arwyr dewraf y brwydro enbyd hwnnw. Yma y bu'r dioddef mwyaf o unlle, oherwydd cynddaredd mileinig yr ymdrech. Y mae offerynau arteithio'r Spaenod i'w gweled eto mewn daeargell yn Antwerp. Ond ni fedr yr hen heyrn rhydlyd byth ddweyd hanes y dioddef yn llawn. Cleddid rhai'n fyw, yng ngwydd eu hanwyliaid, am ymladd dros ryddid. Rhwymid y Calfiniad ar ei gefn ar lawr, gosodid llygod ar ei fronau a llestr haiarn drostynt; rhoddid tân ar waelod y llestr haiarn, ac yn eu poenau ceisiai'r llygod ddianc drwy'r dioddefydd. Ond paham y dilynwn yr arteithiwr eglwysig ymhellach? Digon, yw dweyd mai o'r ymdrech honno,—ymladdwyd gan Is-ellmyn a Saeson a Chymry ac Albanwyr,—y cododd y syniad am oddefiad crefyddol yn holl brydferthwch ei rym.

Y Chwilys fu'n gartref arteithio. Yn yr Hispaen yn unig y medrai sefydliad felly fyw. Dywedir fod Torquemada ei hun

* Dyma'r hanes rydd Capgrave, dan y flwyddyn 1409. "In this yere was a Parlement at London in tyme of Lenton, where a smyth was appechid for heresie. He held this conclusion, that the sacrament of the Auter is not Cristes Body, but a thing without soule, wers than a tode, or a ereyne, wech have lyf. And when he wold not renouns his opinion, he was take to the seculere hand, for to be spered in a tunne in Smythfeld, and to be brent. The Prince Herry had pite on the man, and counceled him to forsake this fals opinion; but he wold not. Wherfor he was put in the tunne; and when the fer brent, he cried horribly. The Prince comaunded to withdrawe the fire, cam to him, and behite him grete; but it wold not be. Wherfor he suffered him to be brent into ashes."

† "An experimental discoverie of Spanish Practises." 1623.

yn unig wedi llosgi dros ddeng mil o bobl yn fyw, ac wedi dinistrio cysur dros gan mil o deuluoedd.* Y mae
 y Chwilyys. dychrynfeydd y Chwilyys wedi eu darlunio lawer gwaith,—y daear-gelloedd tywyllion, yr arteithglwydi, y faner goch, yr arteithiwr yn ei glog a'i benguwch du heb ddim ond ei lygaid i'w gweled trwy dyllau yn nuwch ei ymddanghosiad, yr unigedd hir a'r ansicrwydd perffaith pwy a gyhuddai ac am ba beth y cyhuddid, y newyn a'r tentio â danteithion, angerdd y tân tra canai'r dyrfa anferth adnodau'r unfed Salm ar ddeg a deugain.†

Ond na feddylier mai'r Pabyddion yn unig oedd yn arteithio. Os trown i wrando yng nghyfeiriad gwledydd Protestanaidd, clywn ruddfan yr arteithiedig oddiyno hefyd. Y
 Lloegr. mae'n wir fod cyfraith gwlad Lloegr wedi gwrthod cydnabod arteithio fel dull cyfreithiol er chwilio am y gwirionedd, a fod prif gyfreithwyr y wlad wedi ei gondemnio erioed. Ystyrir fod un o adrannau Magna Carta, sylfaen cyfraith ysgrifenedig Lloegr, yn condemnio'r arteithglwyd; ac y mae'r adran honno wedi ei rhoddi yn neddfau sefydlog Unol Daleithiau'r America hefyd. Dywed Hobbes, amddiffynnydd gorthrwm, na ddylid defnyddio'r cyffesiad geid trwy'r arteithglwyd yn erbyn y dioddefydd.‡ Ond, bu llawer o arteithio yn ein gwlad ninnau hefyd,—arteithio fel cosb ac arteithio i gael tystiolaeth,—trwy benllywodraeth, neu yn hytrach ewinedd-lywodraeth, y brenin. Am deyrnfradwriaeth yr oedd y gosb erchyllaf, pan ymosodai'r dienyddwr barbariaid â'i gyllell ar y truan mewn dull rhy ofnadwy i'w ddesgrifio; marwolaeth felly gafodd Dafydd yn yr Amwythig, wedi cwmp Llywelyn.

Y bymthegfed ganrif, oes haiarn hanes Lloegr, yr oes welodd haul gobeithfon Owen Glyn Dŵr yn machlud,—dyna oes y creulondeb yn ein hynsoedd ni. Dyna'r adeg y
 Ter Llundain. dechreuwyd llosgi ac arteithio am grefydd, yr adeg yr aeth y Lollard i'r tân, a'r Protestant ar ei ol, a'r Jesuit ar ei ol yntau. Yn nheyrnasiad Harri'r Wythfed a Mari yr oedd crogi a llosgi, ac yn nheyrnasiad y blaenaf rhoid

* Motley, *The Rise of the Dutch Republic*, 1. 281.

† Llorente, hanesydd Yspañaidd y Chwilyys; Lea, *History of the Spanish Inquisition*.

‡ Teifl sylw Hobbes lawer o oleuni ar syniad ei ganrif. "Also accusations upon torture are not to be reputed as testimonies. For torture is to be used as a means of conjecture and light, in the further examination and search of truth; and what is in that case confessed, tendeth to the ease of him that is tortured, not to the informing of the torturers, and therefore ought not to have the credit of a sufficient testimony; for whether he deliver himself by true or false accusation, he does it by the right of preserving his own life."—Hobbes' *Leviathan*, Part I. chapter xiv.

hiraeth.* Ond, hyd y
 Gellir poenydio heb
 broi serch a hiraeth a'r
 mwy arteithiol na'r
 arteithid ei merthyron




SCAVENGER'S DAUGHTER.

(Yn Nhŵr Llundain.)

gyfeiriadau i'w enau,
 pwysau llethol ar ei
 yn y *penniwinkis*,—
 yn y *boots* neu'r
boots, rhoddid coes y
 lawr gyda'r goes a
 es yn ddigon aml.

Esgid haiarn oedd y *caschielawis* hefyd, rhoddid hi yn y tân, a choes y dyn ynddi. Bu Iago'r Cyntaf yn gwylio arteithiau ei garcharorion, ac yn dyfeisio arteithiau newyddion. Arteithiwyd y Protestaniaid, arteithiasant hwythau'r swynwyr. Prudd iawn oedd marwolaeth rhai o enethod y Cyfamodwyr; rhwymwyd hwy wrth bolyn yn y môr ar drai, a gadawyd hwy yno i ddisgwyl y llanw ac angau.



YSGRIFW BAWD.

Fel yr awn o'r gorllewin a'r gogledd i'r de a'r dwyrain, y mae ffurfiau arteithio'n mynd yn fwy erchyll. Lle ofnadwy ddigon oedd Tŵr Llundain yn amser Elizabeth. Yr oedd lle mwy ofnadwy o lawer i'r truan groesai Bont yr Ocheneidiau yn Fenis; ond ni chlywai ei rai anwyl byth beth ddiodefodd yn y daeargelloedd yn y gauaf a than y to plwm yn yr haf. Cyn y gwelwn flingon fyw rhaid croesi'r Adriatic i'r gwledydd anrheithid gan y Twrc. Ac wedi mynd yno,—gadewch i ni gau ein llygaid mewn dychryn, a thewi.

Y mae dyddiau'r arteithio cyfreithiol yn prysur ddarfod. Yr oeddis wedi ei hen adael yn Lloegr ddechreu'r ganrif hon.

Diwedd arteithio. Diflannodd y pilori a'r cyffion yn nheyrnasiad Sior y Trydydd. Ond fflangellir eto; chwipir plant drwg, a fflangellir am ymosodiad ciawd i ysbeilio. Y mae lle i ofni fod yn rhaid fflangellu rhai dyhirod, nid oes dim arall yn tycio. Ond y mae teimlad cryf yn erbyn arteithio yn Lloegr; fel y gwelwyd yn amser prawf Syr Thomas Picton, yn 1806, am arteithio gwraig yn ynys Trinidad trwy'r *piquet*,—ei rhoddi i bwysu ar raff gerfydd ei braich a blaen bawd ei throed ar flaen hoelen fain.

Daliodd y Chwilys i arteithio, yr wyf yn meddwl, hyd y ganrif hon. Daeth arteithio yn Ffrainc,—lle torrid dynion yn fyw ar yr olwyn, neu lle rhwygid hwy gan bedwar o geffylau gwylltion,—i'w ddiwedd gyda'r chwyldroad. Bu arteithio yn yr Eidal ac yn yr Hispaen ac yn yr Almaen yn chwarter gyntaf y ganrif hon; ond gwelodd ein canrif ni ddiwedd yr arteithio erchyll, hyd yn oed yn Rwsia.

Lle teyrnasa'r Twrc ceir arteithio eto. Yn Roumania, yn 1868, crogwyd gwraig wrth drawst, a wyau poethion dan ei cheseiliau; llosgwyd ereill â gwer ac olew; llusgid ereill gerfydd eu gwallt drwy'r drain gan geffylau.

Gwelwyd arteithio yn yr America hefyd, yn enwedig am swyno; ac nid anaml y ceir hanes yn y papurau Americanaidd

am dyrfa yn arteithio negro i farwolaeth.* Tynnwyd sylw'r hen fyd gan hanes arteithio dau negro yn Texas yn 1867; ond y mae hynny'n beth gweddol gyffredin erbyn hyn.†

Y mae'n resynus meddwl mai am grefydd y bu mwyaf o arteithio ac o gashau. Ac y mae'n resynus meddwl fod rhai o feddylwyr galluocaf y byd wedi eu dirdynnu i'w gorfodi i ddweyd neu gyffesu rhywbeth nas gwyddent neu y mynnent ei guddio. Arteithiwyd Savonarola, gŵr y sel danllyd; arteithiwyd Machiavelli, gŵr y weledigaeth eglur ddaearol; bygythiwyd Galileo gan rai, o'u cydmaru âg ef, oedd yn byw mewn tywyllwch bwystflaidd.

Oni chashawn yr arteithiwr? Ac eto, onid oes tuedd i erlid ac i arteithio yn ein hoes ni, yn ein calonnau ni? Os na wnawn niwed fel cynt, hwyrach y gwrthodwn wneyd da i ddyd, am nad yw ei greddo, neu liw ei greddo, wrth ein bodd. "Beth ydyw'ch crefydd,"—dyna gwestiwn yr erlidiwr i ffarmwr ofynno am ffarm, i was ofynno am swydd, i ymgeisydd am aelodaeth o gyngor neu senedd. I ba sect bynnag y perthynwn,—Pabyddion, Eglwyswyr, Anibynwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid, Undodwyr,—y mae ein tadau wedi erlid digon i wneyd i ni gashau yr enw roddasant arnom. Crefydd wedi llwyddo, ac wedi dechreu llywodraethu,—mor dueddol yw i erlid fel ei herlidiwyd hi. Nid oes gennym le i gyhuddo ein gilydd. Ond y mae gennym oll le i weddio ac i weithio, os yw brawdgarwch i ffynnu.

Credwn mai hyd ei ffordd ei hun yr a pob un i'r bywyd; nid drwy ei lusgo, bodd neu anfodd, i'n llwybr ni. Y mae'r arteithglwyd, y tân, a'r gell gyfyng ym mhell o'n hol yn hanes y byd; ond, oni cheir y gilwg, y casineb distaw, a'r oerfelgarwch hyd yn oed heddyw, pan yr ydym yn ymdeithio ymlaen i'r dyfodol prydfferth di-gasineb? Arteithid y sant gynt am gymuno â Duw; arteithid y swynwr am gymuno â'r diafol. Y mae lle i ofni fod olion y ddau erlid yn aros eto; nid mewn hen ddaeargelloedd rhydlyd, ond yng nghalonau dynion byw. Y rhai sy'n meddwl eu bod yn caru eu cyddynion mor fawr fel y gorfodant hwy i gredu eu cred, a'r rhai na fynnant ymyrryd â materion eu cyddynion o gwbl,—gall y


* Dyma deilegram dderbyniwyd gan y Central News ar y chweched o Ragfyr diweddf.—"NEW YORK. FRIDAY.—A telegram from Columbia in South Carolina, says that four prominent whites, while under the influence of liquor, on Monday night proceeded to the cabin in Colleton County of a young negro who was suspected of stealing a Bible, dragged him out, together with his aged mother, who was believed to have known of the theft, and tortured them both to death by beating. The young wife of the negro fortunately escaped."

† Lea, *Superstition and Force*, 522.

naill arteithio oherwydd sel, a'r llall trwy ddiystyrru a chashau. Y rhai sy'n gweddio beunydd am i Dduw eu cadw rhag sism a heresi, a'r rhai nas gallant beidio ymosod ar unrhyw greddo os bydd yn greddo i ddau neu dri,—onid yw'r demtasiwn i erlid bob amser yn barod? Gallwn ddangos llwybr y bywyd i ereill. Ond, os ceisiwn eu gorfodi i'w gerdded, gallwn fod yn sicr o un peth,—nid ydym ar lwybr y bywyd ein hunain. Nid trwy roddi heiyrn am eu traed y cadwn ein cyd-ddynion ar y llwybr hwnnw. Llewyrched ein goleuni, ac fe welir y llwybr.

Addefa rhai profiadol mai methiant truenus fu arteithio erioed. Pan ddirdynnid dyn, addefai unrhyw beth ofynnid iddo, gwir neu gau, er mwyn cael lleddfu munud ar ei boenau ofnadwy. Dro ar ol tro profwyd fod rhai wedi addef yn eu hing beth am danynt eu hunain ac am ereill nad oedd wir; ac yr oedd hyn yn ddigon i gondemnio'r arteithglwyd a'r heiyrn fel dull i gael tystiolaeth. Yn wir, yr oedd meddwl am yr arteithio a'r ddaear-gell yn ddigon i wneyd i lawer un gyfaddef pethau nad oedd wir os gwelai fod ar ei farnwr eu heisiau. Yr oedd hyd yn oed trugaredd prin cyfraith yr arteithio yn ddychryn. Gorchmynnid arteithio'r gwannaf yn gyntaf, gan ei fod yn debycach o ddychryn a chyfaddef,—plentyn neu wraig o flaen dyn. Felly, pan arteithid teulu gan y chwyls, deehreuid gyda'r plant neu'r fam, a chlywai'r tad eu gruddfan cyn mynd ar yr arteithglwyd ei hun. Ni chai'r naill wybod beth oedd y llall wedi gyfaddef; yn wir, ni chai'r arteithiedig wybod dim, ac ni wyddai un amser pryd yr oedd ei boenau drosodd. Dirdynnu plentyn i gyfaddef y dylai ei dad a'i fam gael eu llosgi'n fyw,—yr oedd dull fel hyn, nid yn unig yn greulondeb anfad ynddo ei hun, ond yn dinistrio yng nghym-eriad y plentyn y pethau hynny a'i gwnai'n ddinesydd da.

Dioddefodd yr Iesu arteithion, cyn ei gondemnio ac yn rhan o'r gosb. Fflangellwyd ef, rhoddwyd coron ddrain ar ei ben, gwisgwyd ysgarled mewn gwawd am dano, croeshoeliwyd ef, a rhoddwyd finegr iddo yn syched ei boenau. Felly, hefyd, y dioddefodd ei ddisgyblion mewn llawer oes; ond gorchfygodd ei fwynder, ac y mae arteithio'n diflannu o'r byd. O radd i radd cydnabyddir anibyniaeth cysegredig y meddwl,—



HEIYRN TRAEÐ.

“Y meddwl yw ei le ei hun,
Ac ynddo'i hun gall wneyd o uffern nef,
Ac o nef uffern.”

ATHRONIAETH WLADOL MACHIAVELLI.

Y MAE moesoldeb rhwng dyn a dyn dan ddylanwad Crist; y mae moesoldeb rhwng gwlad a gwlad dan ddylanwad athroniaeth Machiavelli. Nid oes dim mor oruchel ac arwrol a'r aberth wna dyn er estyn cyfiawnder i'w gyd-ddyn; nid oes dim mor anonest a'r peth wna, fel gwladweinydd, tuag at wlad arall. Y mae dynion yn hoff, fel bodau unigol, o ganmol dysgeidiaeth yr Iesu, y gŵr y rhoddwyd ein pechodau ni arno ef, ac y maent yn ymgyrraedd at y moesoldeb uchel sydd yn yr efengyl. Condemniant a dirmygant ddysgeidiaeth Machiavelli, ond ymddygant fel pe buasant yn ei chredu bob mymryn. Dywedodd rhai fod Crist a Machiavelli'n iawn,—y naill yn son am y berthynas rhwng dyn a dyn, a'r llall yn son am y berthynas rhwng gwlad a gwlad.

Y mae'n gwestiwn pwysig,—a ydyw moesoldeb yn un peth rhwng Sais a Ffrancwr, ac yn beth arall rhwng Lloegr a Ffrainc?

Y mae gan bob dyn ei foesoldeb, ei gydwybod, a'i farn a fydd. A yw cenedl heb foesoldeb, heb gydwybod, heb ofn barn y Duw nad yw ond mân lwch y cloriannau ger ei fron? Ni ladratai John Jones, Ysw., U.H., ddim oddiar ei gymydog, ni fedrai beidio ymyrryd pe gwelai blentyn ar fodd; buasai gwneyd y naill yn anonestrwydd, buasai peidio gwneyd y llall yn esgeuluso dyledswydd. Ond pleidleisia John Jones, Ysw., U.H., oherwydd gwên rhywun cyfoethocach; neu peidia bleidleisio, hwyrach, pan y mae bywydau miloedd at drugaredd y rhai etholir. Pe'r ymosodai Ffrancwr ar eneth ddiamddiffyn, ni chai fawr o drugaredd gan reithwyr o dadau Ffrengig; ond ca Ffrainc ymosod ar Madagasgar, a gwneyd cytundeb a'i llaw haiarnaidd ar ei gwddf, heb i neb ddweyd gair. Pe'r ymosodai Sais ar blentyn ar y ffordd fawr, ond odid na chai dreulio'r deng mlynedd nesaf o'i oes mewn pennyd-wasanaeth, a dechreu'r pennyd drwy ddiodeff ergydion y fflangell; ond gall Lloegr ymosod ar Ashanti a gwlad y Matabele, i amddiffyn buddiannau ei haur a'i gwirod, a chaiff weddïau eglwysi Duw o'i thu. Ai un peth yw moesoldeb y bod unigol, ac ai peth arall yw moesoldeb gwlad? A fedr pobl fod yn bur ac addfwyn a chyfiawn fel unigolion, ac yn amhur a thrahas ac anonest fel cenedl?

Medrant, ebai Machiavelli. Dylai'r deiliaid fod yn onest, yn ufudd, yn amyneddgar, yn gyfiawn. Ond am y llywodraethwr,—y mae ef yn gynrychiolydd gwlad. A ydyw rhinweddau yn nerth iddo ef? Ydynt, os eu ffugio a wna; ond os yw ei galon a'i feddwl yn gaeth i'r rhinweddau hynny, y maent yn gadwynau iddo, a buasai'n well iddo hebddynt.

Nac oes, ebe
Machiavelli.

Condemniwyd Machiavelli yn ei ddydd,—a chredwyd yr hyn a ddywedai. Tybiai'r Sais fod Satan ei hun wedi cael llysenw oddiwrth y rhan gyntaf o enw crïstionogol Niccolo Machiavelli; ond tybia, ar yr un pryd, fel Satan a Machiavelli, y gall ladrata tir yr anwar os bydd arno ei eisïau, a llofruddio y trigolion. Dan arweiniad un gyffesai mai Machiavelli oedd ei athraw y daeth y Diwygiad Protestanaidd i Loegr; y mae llun disgybl Machiavelli ar Feibl Mawr y Saeson. Er duwioled oedd y plentyn Edward y Chweched, cafodd ei athroniaeth wladol o Machiavelli; gwnaeth William Thomas gategism bychan iddo, a gwn o ble cafodd William Thomas y catecism hwnnw. Yr oedd Machiavelli wrth fodd Elizabeth. Dywedai Machiavelli fod yn ddyledswydd ar dywysog ddweyd celwydd weithiau; yr oedd hynny i'r dim i Elizabeth, oherwydd ni wyddai neb pryd yr oedd hi'n dweyd y gwir. Dywedai Machiavelli y gallai tywysog da fod a llaw llofrudd a chynlluniau'r gŵr drwg; gwnaeth gwleidyddion Lloegr bob drwg gyfreithlonai Machiavelli wrth ddarostwng yr Iwerddon. Condemnir Machiavelli eto; ond gall ei ysbryd cyfrwys wenu wrth weled mai hunanol a chreulawn yw natur cenhedloedd eto wrth ymdrin â'u gilydd.

Yr Eidal yw ffynhonnell drwg a da, cartref rhyddid a gorthrwm, trigle ofergoeldd a darganfod. Ni fu gwlad erioed yn dyheu mwy am ryddid, ni fu gwlad erioed dan orthrwm
 Yr Eidal. trymach. Ni fu gwlad erioed ac amcanion uwch, ni syrthiodd gwlad erioed yn is. Gwlad athrylith a gwallgofrwydd, gwlad y syniadau pur a'r pechodau mwyaf erchyll, gwlad cariad hunan-aberthol a chasineb difaol, gwlad y tlws a'r hagr, gwlad eithafion gauaf ac eithafion haf, gwlad y mwyniant a'r dioddef digyffelyb,—a oes ei thebyg yn hanes y byd? Ynddi hi y danghosodd Dante freuddwydion mwyaf mawreddog y Canol Oesoedd oedd ar ddiflannu, ynddi hi y danghosodd Machiavelli ffyrdd ceimion gwladlywiaeth y dyfodol; ohoni hi yr aeth Marco Polo i eithaf-oedd y dwyrain, a Columbus i eithaf-oedd gwlad machlud haul; ynddi hi y pregethodd Savonarola neges cyntaf y Diwygiad, o honi hi y gwelodd Galileo fydoedd newyddion; ynddi hi y cyhoeddodd Mazzini neges cenhedloedd. Ond bu Dante'n rhodio'n ofidus ynddi, bu Machiavelli ar arteithglwyd y rhai ddysgodd wedi hynny, llosgwyd Savonarola wrth yr ystanc, gorfod i Galileo fynd ar ei liniau o flaen esgobion pendew, a bu Mazzini'n dihoeni yng ngharcharau ei wlad ei hun. Ond er ei hanghysondeb, bu'n arweinydd i'r byd; addysg, credoau, mapiau morwriaeth,—o'r Eidal y deuent.

Fel ei wlad, y mae Machiavelli'n anghyson; fel ei wlad, y mae

wedi dangos y ffordd. Carodd ryddid hen Rufain, a chanmolodd weriniaeth. Edrychodd ar orthrwm hefyd, a rhoddodd lyfr yn llaw rheolwyr i'w dysgu sut i orthrymu. Ni ddy-
Dylanwad Machiavelli. wedodd ddim gwaeth yn ei lyfr na'r hyn a wneid gan dywysogion ei ddydd; ond wrth weled y dyhirwch yn ffurf athroniaeth, daeth rheolwyr yn gynefin ag ef, ac nid oedd arnynt gywilydd ohono mwy.

"Am gynllwyn, yr Eidal o bob gwlad, Fflorens o bob man yn yr Eidal, a'r Medici o bawb yn Fflorens,"—dyna'r dywediad am y ddinas enwog y bu Machiavelli'n byw ynddi, ac am
Machiavelli 1469-1527. y teulu hirben y bu yn eu gwrthwynebu ac yn eu gwasanaethu. Ganwyd ef yno yn 1469, ac yno y bu farw yn 1527. Gwelodd losgi Savonarola, clywodd lais Luther o bell yn ei hen ddyddiau; ond ni fu ei ran gyda'u hyawdledd ystornus hwy. Oer a dichellgar oedd wrth natur, gwir blentyn y dyddiau doethineb bydol hynny. Am flynyddoedd meithion bu'n ysgrifennydd a llysgenhadr gweriniaeth gyfrwys-ddrwg Fflorens, a bu'n edmygu doethineb, ac yn ceisio plymio dyfnder dichellion Louis XII., Cesar Borgia, a Leo X. Unwaith camgymerodd arwyddion yr amserau, a chafodd seibiant mewn alltudiaeth. Yno, mewn unigrwydd digon hyfryd, meddyliodd am ei fywyd prysur; ac ysgrifennodd ei feddyliau mewn iaith berffaith, o ran tryloewder awgrymiadol, i'w cyflwyno'n aberth heddi i Lorenzo, un o'r rai enwocaf o'r Medici. Amser drwg oedd yr amser hwnnw; amser yr oedd crefydd a ffydd wedi marw, a gwawd ac anffyddiaeth a chreulondeb yn ymdaith law yn llaw. Nid oedd syniad am aberth, egwyddor, na gwirionedd yn y cyich-oedd disglair y troai Machiavelli ynddynt; ac ni cheir hwy yn ei athroniaeth ond fel mygydau ddefnyddir gan y cyfrwys i dwyllo'r ynfyd.

Y mae dau fath o lywodraeth, yn ol Machiavelli, sef gwerin-lywodraeth, a thywysog-lywodraeth. Yn ei amser ef yr oedd gweriniaethau'n diflannu; a thra'r oedd grym Deffroad
Mathau llywodraeth. Dysg a'r Diwygiad Protestanaidd yn chwilfriwio hen rwymau Ewrob, yr oedd tywysogion uchelgeisiol yn disgryn fel barcutanod ar weriniaethau'r Eidal, ac yn eu llywodraethu drwy ddichell a gorfodaeth. Felly y gwnaeth y Medici cyfrwys yn Fflorens, felly y gwnaeth Cesar Borgia anaf ym Milan. Y rhai hyn welodd Machiavelli, ac oddiwrt y peth wnaethant hwy y gwelodd y modd y gall pob tywysog lwyddo, os yn ddigon galluog a di-egwyddor.

Ni ddylai tywysog fod yn drugarog wrth ei elynion. Pan orchfyga dalaeth newydd, dylai lofruddio pob tywysog, pob ysbrigyn o dywysog, a feddai'r wlad honno. Ac ymhob peth dylai wneyd fel Cesar Borgia. "Gorchfygu, trwy rym neu dwyll;

ennill serch ei bobl, neu roddi ei arswyd arnynt; ennill edmygedd ac ufudd-dod ei filwyr; dinistro a difodi y rhai geisiant ei ddrygu; dadwneyd hen gyfreithiau a gwneyd rhai newydd; troi ymaith y milwyr a anufuddhânt, a rhoi ereill yn eu lle; ymwneyd â brenhinoedd a thywysogion, fel y bydd raid iddynt wneyd ei ewyllys, ac fel y bydd arnynt ofn ei ddigio,—i'r tywysog fynno lwyddo, nid oes well na newyddach cynllun, na gwaith y tywysog hwnnw." Ffieiddid gweithredoedd creulawn y tywysog hwnnw, Cesar Brogia, hyd yn oed yn ei amser drwg ei hun, pan oedd dynion wedi cynefino â thywysogion o haiarn a phridd. Ond wedi dwys ystyriaeth, ni wel Machiavelli ddim i'w feio yn hwn;* yn hytrach, rhydd ei esiampl fel nod i uchelgais tywysogion ereill, sydd wedi medru codi eu hunain i'r cyfrwy, ymgyrhaedd ato.

Y rheswm am ei gred mewn brenhiniaeth gref a thrahaus yw ei anffyddiaeth. Ni chredai fod daioni yn aros mewn dynion, o'u hanfodd yn unig yr ufuddhaent. Credai fod y drwg

Anffyddiaeth. yn blodeuo byth, a bod y da wedi marw. Ni fedrai caredigrwydd byth ddofi hen ddog, yn ol ei gred ef.

Yn ymyl yr anffyddiaeth ddifaol hon, nid yw ei anffyddiaeth eglwysig ond chware plant, er fod honno y ddyfnaf, o'i bath. Am dywysogaethau esgobion ei ddydd dywed,—“Enillir hwy drwy ffawd neu rinwedd, ond cedwir hwy heb yr un o'r ddau; oherwydd sylfeinir hwy ar hen gyfreithiau eglwysig sy'n meddu digon o rym ac awdurdod i gadw'r tywysogion ar eu gorseddau, byddo eu hymddiddanion a'u buchedd y peth y byddo.”

Cynghora dywysog i beidio ufuddhau i'w gydwybod, nac i gydwybod ei oes. Wedi dangos mai rhyfel yn unig yw teilwng destyn i feddwl tywysog, rho ef ar ei ochel rhag gwneyd da'n ddiarwybod. “Os edrychwn arnynt yn amhleidiol,” meddai, “y mae llawer o bethau ymddengys yn rhinweddol, ond eto, os dilynir hwy, a arwain i ddinistr sicr; ac y mae pethau ereill, wedyn, sy'n edrych yn bethau drwg, ond, os dilynir hwy gan dywysog, a ddygant heddwch.” Y drwg yn llwyddo, y drwg yn esgor ar ddedwyddwch; y da'n marw, y da'n dwyn dinistr gydag ef,—dyna'r darlun rydd Machiavelli i dywysogion o fywyd gwleidyddol. Ac yr oedd rhai di-ddysg a di-athrylith o'i gwmpas yn darllen, mewn llyfr arall, mai cyflog pechod yw marwolaeth.

Manylion moesoldeb tywysog, dyma hwy. Rhaid iddo ymddwyn at bobl gan gredu eu bod yn ddrwg, ac yn barod i gynllunio yn ei erbyn. “Fel rheol y mae dynion yn aniolchgar, yn ansefydlog, yn rhagrithiol, yn ofni perygl, yn drachwantus; tra y cânt rywbeth gennyh, bydd eu gwaed, a'u cyfoeth, a'u plant,

* Non sopra riprenderlo. *Il Prin.* vii.

at eich gwasanaeth; ond, pan fyddwch mewn perygl, a phan fydd arnoch eisiau eu cymorth, gwrthryfelant.” “Os
Cred tywysog. rhydd tywysog ei bwys ar ei bobl, heb wneyd paroto-
 adau ereill ar gyfer y dydd drwg, y mae'n sicr o ddod
 i ddinistr.” Am hynny, meddai Machiavelli, gwell i dywysog
 osod ei ofn ar ei bobl, nac ennill eu serch.

Dyma syniad yr amser hwnnw,—cred mai er eu gwaethaf y
 gwneid dynion yn dda. Y tywysog oedd i wneyd pob peth, o'i
 ben-arglwyddiaeth ei hun; ymroddi i bob drygoni fuasai ymreol-
 aeth. Er gwaethaf dylanwad nerthol Machiavelli, er gwaethaf
 y tywysogion yfasant wenwyn ei athrawiaethau o'u bodd, yr
 ymesgorodd poenau'r Isel-diroedd ar y syniad o werin yn ei
 llywodraethu ei hun.

Y mae natur y llew a natur y llwynog i fod yn y tywysog
 ond tywysog gwan yw'r tywysog nad oes ond y llew ynddo.

“Ni ddylai tywysog, os bydd yn ddoeth a chall, gadw
Y llew a'r llwynog. ei addewid pan fydd yn colli trwy wneyd hynny,”
 “ni fu tywysog erioed na chafai ddigon o esgusion
 dros dorri ei air.” Er mor ddewr mewn drygioni, y mae'n
 bwysig iawn i'r tywysog fedru rhagrithio. “Peth pwysig iawn
 yw bod yn rhagrithiwr mawr.”* Am Alexander VI., y pab an-
 foesol oedd dad i Cesar Borgia, dywed,—“Ni wnaeth, ac ni
 feddylodd am wneyd dim, ond twyllo; ac ni fethodd gael digon
 i'w twyllo erioed; ac er na addawodd dyn erioed mor gadarn, er
 na chryfhai neb gymaint ar ei addewidion â llwon a melldithion,
 er na chadwodd neb erioed lai ar ei air, eto, oherwydd ei fod yn
 deall y byd yn dda, ni ddaeth erioed i brofedigaeth.”

Cryfder tywysog yw rhagrithio rhinweddau, gwendid yw eu
 meddu. “Os meddir rhinweddau mewn gwirionedd, ac os defn-
 yddir hwy bob amser, y maent yn niweidiol ryfeddol;
Nerth rhagrith. tra, o'u rhagrithio, daw rhyw dda o honynt. Peth
 anrhydeddus yw ymddangos yn dyner, yn drugarog,
 yn foneddigaidd, yn grefyddol, ac yn gywir; ac yn wir, peth
 anrhydeddus yw bod felly, os yw eich meddwl wedi ei dymheru
 a'i barotoi yn y fath fodd fel y gellwch fod fel arall yn hollol pan
 fydd eisiau.” “Bydded y tywysog dda pan fydd hynny yn
 ddewisol ganddo; ond gwybydded sut i wneyd drwg pan fydd
 eisiau.” Ac yr oedd eisiau gwneyd drwg o hyd, yn ol Machiavelli.

Dyna ychydig ddyfyniadau o'r *Principe*, un o lyfrau enwocaf
 y byd, ac un o'r llyfrau y bu ei ddylanwad ar y byd drylwyr, af,
 beth bynnag am hiraf. Yng nghyffro'r Diwygiad Protestanaidd,
 pan roi'r merthyr ei fywyd i lawr o'i fodd dros uniondeb a

* Essere gran simulatore e dissimulatore. *Il Prin.* xviii.

chrefydd, yr oedd tywysogion yn ffugio'r rhinweddau hyn i gyrraedd eu hamcanion hunanol a daearol. Cyfnodau disgleiriaeth brenhiniaeth, tywysogion a thywysogesau yr edrychir ar eu hoes eto fel oes aur y byd,—cyfnodau a disgyblion Machiavelli oeddynt. Beth oedd crefydd ac uniondeb i Elizabeth, brenhines Lloegr, neu i Gatharin de Medici, mam brenhinoedd Ffrainc? Boddloni ar ryw rith o grefydd heb ei grym, dyna oedd cnewyllyn eu bywyd. Trwy rith crefydd anfonodd y naill y Pabydd a'r Ymneillduwr o'r arteithglwyd i'r crogbren; trwy rith crefydd temtiodd y llall Joan o Navarre i'w llys, i'w gwenwyno'n ol pob tebyg, temtiodd Coligni ardderchog i Baris, i'w lofruddio ar ddydd Bartholomew. Ond ni wnaeth y naill na'r llall ddim nas gellid ei gyfiawnhau trwy athroniaeth Machiavelli.

Tlws a mawreddog oedd bore'r Diwygiad Protestanaidd a Deffroad Dysg. Hawliwyd mynediad rhydd i ddyn at ei Dduw, condemnwyd offeiriadaeth, ac yr oedd rhyddid cydwybod a hunan-lywodraeth megis pe wrth y drws. Ond siomedig a thywyll fu'r hir brydnawn. Daeth tywysogion, wedi eu dallu i bob peth ond eu lles daiarol hwy, a *Principe* Machiavelli yn eu dwylaw, a ffrwynasant y Diwygiad. Yn lle hen freuddwyd y canol oesoedd,—un wlad ac un eglwys,—cododd llu o fân frenhinoedd, pob un yn ben ar eglwys leol, a phob un yn rheoli yn ol dwyfol hawl. Defnyddiodd y tywysog y Diwygiad,—ysgydwad ysbryd rhyddid,—i drymhau gefynnau dynion. Pa un bynnag ai derbyn neu wrthod y Diwygiad wnaeth tywysogion y ddaear, bu'r derbyn neu'r gwrthod yn escus dros lethu cydwybod y rhai mwyaf egwyddorol o'u deiliaid. Medrent ennill edmygedd y bobl trwy adrodd geiriau Calfin neu Luther; ond yn y dirgel darlennent Machiavelli. Yn Lloegr addefai prif wladweinydd yr oes mai Machiavelli oedd athronydd gwladol gore'r byd; ac yn ol ei ddysgeidiaeth ef y llywodraethai'r Tuduriaid, y tywysogion olaf fu'n gwir rheoli Lloegr a Chymru.* Tra condemnid ef yn ddiarbed gan y pregethwyr, a'r athrawon, a'r beirdd, ymhyfrydai gwladweinyddion Elizabeth ynddo,—Cecil, Bacon, Syr Thomas Smith, Syr Philip Sydney,—ac nid di-esboniad felly yw eu parodrwydd i ddweyd anwiredd a'u creulondeb di-drugaredd yn yr Iwerddon.

Nid oedd Machiavelli'n waeth na'i oes. Y peth a wnaeth ef

* Profa Cardinal Pole, yn ei *Apologia ad Carolum V.*, cap 32, fod Cromwell wedi astudio Machiavelli, ac mai yn ol y ddysgeidiaeth honno y rheolai Harri VIII. "Hoc saltem, in quo reliqua omnia exprimentur, ut sub pretextu religionis suis desideriis et cupiditatibus serviat, in quo uno tota doctrina Machiavelli et Cromwelli continetur."

Ysgrifennodd y Cymro William Thomas grynhoedeb o Machiavelli i Edward VI., "which your Highness may either for passetyme or in earnest, propose to the wisest men."

oedd darlunio bywyd gwleidyddol rhai doethaf ei oes,—nid i'w gondemnnio. A daeth ei lyfr yn arweinydd hylaw i bob tywysog

Y mae dylanwad Machiavelli eto'n aros ar athroniaeth wladol ac ar wleidyddiaeth. Yn un peth, newidiodd ddull ysgrifennu a meddwl ymysg athronwyr gwladol. Cyn ei amser ef, ^{Dylanwad arnosol Machiavelli.} tynnid egwyddorion athroniaeth wladol o syniadau cyffredinol am foesoldeb; gosodid gwirioneddau cyffredinol i lawr, megis deffiniad Fortescue o gyfraith,—“Gorchymyn dwyfol i wneyd y da a gochel y drwg.”* Ond newidiodd Machiavelli y dull. Nid y Beibl, nid natur moesoldeb, nid cydwybod oedd i fod yn faes ymchwiliad yr athronydd gwladol mwy, ond bywydau tywysogion llwyddiannus. Ynddynt hwy y gwelid gwirioneddau athroniaeth wladol gliriaf.

Ysgarodd Machiavelli athroniaeth wladol oddiwrth dduwinyddiaeth, ac oddiwrth grefydd. Cyn ei ddyddiau ef, edrychid ar y

Athroniaeth
wladol a
chrefydd.

Beibl fel cloddfa gwybodaeth i dywysogion. Fel yn nyddiau Moses, yr oedd y brenin i gymeryd ei gyfraith o lyfr gweinidogion Duw, a dyma ddwy adnod sydd ar ddechreu llawer llawlyfr athroniaeth,—“A phan eisteddo ar deyrn-gadair ei frenhiniaeth, ysgrifenned iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd ger bron yr offeiriaid y Lefiaid. A bydded gydag ef, a darlenned arno holl ddyddiau ei fywyd; fel y dysgo ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau y gyfraith hon.”† Ond dirmyga Machiavelli grefydd fel ynfydrwydd ofergoelus, a dirmyga Gristionogaeth am ei bod yn gwneyd dynion yn llwfr a di-ryfel. Wrth ymwneyd â'i ddeiliaid, yr oedd tywysog i fod yn ofalus am beidio cyffroi eu nwydau crefyddol hwy, ond nid oedd ofn Duw i fod o flaen ei lygaid ef. Ac erbyn hyn, yr oedd gwledydd Ewrob wedi colli rhwymyn crefydd. Nid fel at gyd-grefyddwyr yr oedd tywysog i ymddwyn at dywysogion gwledydd ereill, ond fel dynion di-egwyddor, oedd debycaf o fod yn twyllo mwyaf pan yn edrych yn fwyaf crefyddol. “Yr ydym ni Eidalwyr,” meddai, “yn ddiolchgar iawn i'r eglwys a'i hofferiaid, am ddifodi pob crefydd ac am lygru ein moesoldeb.”‡ Condemnia grefydd am roi'r goron i'r da a'r llywaeth; ac nid i'r drwg llwyddiannus. ||

Ysgarodd Machiavelli foesoldeb oddiwrth athroniaeth wladol. Yn ymwneyd tywysogion â'u gilydd na somier am y deng air deddf mwy. Creda Machiavelli nas gall gwlad-

Athroniaeth
wladol a
moesoldeb.

weinydd lwyddo os yw'n credu mewn geirwiredd a gonestrwydd. Trwy laid anfoesoldeb y mae'r llwybr byrraf i lwyddiant, ebai ef. Nid oes dim yn dda ynddo ei hun,

* *De Laudibus Legum Angliae* iii. “A holy sanction, commanding what is honest, forbidding the contrary.”

† Deut. xvii. 18—19.

‡ *Discorsi* i. 12.


|| *Discorsi* ii. 2.

na dim yn ddrwg ynddo ei hun, mewn athroniaeth wladol. Beth sydd ddefnyddiol yw'r cwestiwn, nid beth sydd d'r Llwyddiant yw'r nod; gall moesoldeb fod yn rhwystr,—os felly, ymaith ag ef. Gall celwydd fod yn angenrheidiol; os felly, gwendid mewn tywysog yw peidio dweyd celwydd. Llais cydwybod,—pe gwrandawsai Alexander VI. a Cesar Borgia ar hwnnw, ni buasai'r naill yn Bab na'r llall yn arglwydd Milan. Y nod sy'n bwysig, ni waeth pa mor bechadurus ac anfoesol fo'r moddion i'w gyrraedd. Rhaid i'r gwladweinydd fod yn barod i lofruddio Remus, os bydd Rhufain i'w hadeiladu. Gresyna Machiavelli at barodrwydd Soderini i drugarhau, a chondemnia ef i "uffern y babanod."* A thywallt ei ddirmyg ar Rinaldo de Albizzi, tywysog gollodd ei frenhiniaeth oherwydd ei rinweddau.

Er cymaint fu dylanwad Machiavelli ar wladlywiaeth, gormod fuasai dweyd fod pob gwladweinydd yn y dyddiau hyn yn credu pob peth sydd yn y *Principe*. Er mai hunan-les ac anghyfiawnder sy'n nodweddu ymwneyd gwledydd â'u gilydd, eto y mae arlliw cyfiawnder, ac hyd yn oed rhywbeth tebyg i aberth, yn hanes ambell wlad. Y mae'n ddiameu, er ei holl goll-
 Ein hoer ni. iadau, mai moesoldeb cenhedlaethol Prydain yw'r uchaf yn y byd. Aberthodd Prydain waed ac arian i ryddhau'r caethion, heb ennill dim trwy wneyd hynny ond cydwybod dda; a rhoddodd ddyngarwch o flaen hunan-les pan ymosododd ar y Twrc amser Canning, a gwna yr un peth heddyw. Tybir fod Ffredrig Fawr, brenin Prwsia, wedi ysgrifennu llyfr yn erbyn Machiavelli, ond nid oes wlad yn bod a'i gwladlywiaeth mor Fachiavelaidd a Phrwsia,—ymosododd ar y gwan, tywysodd Boland i'w dinistr a bradychodd hi, er mwyn cael rhan o'r ysglyfaeth; cymerodd fantais ar grefydd a gwladgarwch ac aberth ereill i borthi ei gwanc aniwall ei hun: A thebyg iddi yw'r arth farbaraidd sy'n gorwedd wrth ei chefn, yn gorffen malurio esgyrn y gwledydd lofruddiodd.

Ond y mae ysbryd addfwyn a hunan-aberthol Crist yn dechreu nawseiddio moesoldeb cenhedloedd. Y mae cyfraith gyd-genhedlaethol yn araf ymffurfio, ac y mae cenhedloedd pellaf
 y ddyddol. y ddaear yn graddol ddod i'w chylch. Fel y mae llywodraeth gwledydd yn dod yn fwy gwerinol, y mae moesoldeb rhwng gwledydd yn dod yn debycach i foesoldeb unigolion. O ddyddiau Albericus Gentilis a Grotius, yn yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, y mae ymdrech rhwng cydwybodolrwydd cynhyddol distaw cenhedloedd ac anghyfiawnder trystfawr gorthrymus ymherodraethau mawr. Ceir gweled, ym mywyd cenhedloedd hefyd, fod heddwch yn drech na rhyfel, aberth na hunan-les, da na drwg.

* "Nel limbo de bambii," *Historia Fiorentina*.





Y LLENOR.

" I WYBOD DOSTHINES AG ADDYGO."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

LLYFR VI.

LLYGAD I WELED ANIAN.
DEWI WYN O EIFION.
HUNAN-ABERTH.
AGWEDD LLENYDDIAETH GYMREIG.
MOZART.
YR IAITH GYMRAEG.
DARLUNIO'R ANWELEDIG.

SWILLEN :

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

—
EBRILL, 1896.

THE HISTORY OF THE

... ..

CHAPTER I

... ..

... ..

... ..

... ..

CYNHWYSIAD.

Wyneb-ddarlun,—*Unigodd y Mynyddoedd.*

Cwrs y Byd TUDALENNAU 5—10.

Darlun,—*Trin y Bil Addysg.*

LLYGAD I WELED ANIAN.

Y gallu i weled,—cylch bychan, ond llawn Henry Rowland a Gilbert White. Y gallu i weled yn ffynhonnell pleaser diderfyn; yn ffynhonnell pleaser nad oes neb yn rhy dlawd neu'n rhy anghysbell i'w feddu.

TUDALENNAU 11—16.

DEWI WYN O ELFION.

Darluniau,—*Eghwys Llanybi, Gutym Paris.*

Nawn hyfryd; ymgais i ddarlunio bywyd Dewi Wyn bob dydd. Y bachgen, yn yr ysgol, dechreu prydyddu ac ymryson. Dewi Wyn a'r cwerylon cisteddfodol,—y Gordofigion, 1803; "Molawd Ynys Prydain, 1804;" "Bonedd yr Awen." Y ddau gyfalll yn dod i olwg y Gaerwen. Awdl "Amaethyddiaeth."

TUDALENNAU 17—40.

HUNAN-ABERTH.

i. Hunan-aberth yn hawddach canu iddo na'i fyw; nid o 'hen ddyn' y pechadur, ond o Dduw, y daw.

ii. Ei gyngod yn natur; pob elfen yn gwasanaethu y llall, ac yn cael eu hunain yn y cyfanswm; y gronyn gwenith yn marw i fyw.

iii. Teml yr egwyddor yw cydymdeimlad; nid a'r digariad iddi.

iv. Nid greddf, ond gras, grea hunan-aberth; Duw yn rhoddi ei hun.

v., vi. Dioddef yn hanfodol i ennill hunan gwell; dioddefaint yr Iesu, a'i ddiflynwyr.

vii., viii. Nerth hunan-aberth,—ymroddiad y cenhadwr, dwyn cystuddiau ereill.

ix. Aberth bywyd cyffredin,—cariad rhieni, hatling y weddw.

x. Awydd am aberthu yn ol esiampl yr Iesu; gweddi'r bardd.

TUDALENNAU 41—56

AGWEDD BRESENNOL LLENYDDIAETH GYMREIG.

Yr oes hon yn oes bwysig yn hanes meddwl Cymru. Llenyddiaeth a iaith. Y cyfnodolion a'r werin; y wasg a'r pulpud.

Ein dyledswydd,—ymagnio i gyfoethogi ein llenyddiaeth, fel nas gall y byd fforddio bod hebddi. Rhaid iddi darddu o'n bywyd.

Awgrym,—cwmni llenyddol; llyfrwerthwyr teithiol.

TUDALENNAU 57—66.

MOZART.

Darluniau,—*Mozart, Salzburg, tŷ Mozart yn Salzburg, y tŷ lle ganwyd ef.*

Swyn ei enw. Byd y gân pan anwyd ef,—Handel, Bach, Haydn.

Ei eni yn Salzburg, 1756, dinas archeagobol Awstria; ei gartref cerddorol; plentyn tyner, a gwir fab y gân o'i febyd. Y siwrnai i Munich a Vienna,—gweled Maria Theresa a Marie Antoinette. Yn Frankfort, Mainz, Cöln, Aachen, Paris, Llundain. Dychwelyd adre,—ond eto'n ddengmlwydd oed.

TUDALENNAU 67—75.

Darlun,—“*Bore Gwanwyn yng Nghymru.*”

TUDALEN 76.

YR IAITH GYMRAEG.

i. Ceisio lladd yr iaith wrth wasanaethu Cymru,—Harri VIII., Salesbury. Dirywiad y Gymraeg wedi coroni'r Tuduriaid,—yr Hen Ficar, Stephen Hughes.

ii. Dechreu'r deffroad. Crefydd gadwodd y Gymraeg, ac Anghydfurflaeth yn bennaf. Nid er ei mwyn ei hun, ond fel offeryn angenrheidiol crefydd, y cadwyd hi.

iii. Ei defnyddio. Cymraeg fel moddion addysg a diwylliant. Athrawon.


iv. Ei thynged. Beth gollir os collir hi? Cydmarer Cymru Seisnig a Chymru Gymreig. Ein gwerin lenyddol; a'n hiaith yn rhodd Duw.

TUDALENNAU 77—94.

DARLUNIO'R ANWELEDIG,

Darganfyddiad rhyfedd,—Mont Blanc heb ei eira, llaw heb ei chnawd. Y gwerth i feddygon; cipolwg newydd i'r athronydd ar ddieithruch bod.

TUDALENNAU 95—96.



daeth y flwyddyn newydd
arwyddion drwg,—ar-
d dinistriol a dioddef i
rwyaf gwaraidd y ddaear.
awn, gyda diwedd yr hen
ad y cymylau i gyd. Ar
wyddyn yr oedd pawb yn
led masnach yn blodeuo,
d yn darfod. Ymfalchiai
yng ngrym gair ei wlad
dd y flwyddyn, y byddai'n
pfad ymddwyn ar rith
edd am barhau'n allu
gyda'r flwyddyn newydd,
u i gyfarfod Prydain; a
wre yn teimlo'n rhydd i
yn ol ei wŷn a'i chwant.
or yn beryglus eto, ac yn
tywyll, nas gwyddom yn

ogledl-dd-orllewin Deheudir
sgedd o gynffordion y
hil y caethion negroaidd
—trefedigacath Brydeinig,
dain wedi rhoi i Venezuela
an fyrbwyll honno, rhodd-

Amerig, a dywedodd fod yr
r Unol Daleithiau godi ei
roce doctrine" nid oes gan
ernir hynny'n beryglus i'r
gyfraith gyd-genedlaethol
ymerig mor eang a thir yr

chydig o wŷr dysgedig i
nyriad yr Unol Daleithiau
mor benboeth a'r Amerig,
nasid gwladgarwch Canada
nasid llongau trafniadol yr

Pollock, un o'r haneswyr
yn gotyn llawer llai nag y
ethaf yr Unol Daleithiau
ai fynnent ruthro i ryfel

Hispaen ei gafael arni yng
gyd-ymladdwr Prydain
Gairic dan Napoleon, daeth
Ac un o'r rhai hynny yw

Yn nechreu'r flwyddyn daeth rhyfel arall at ein drws. Trefedigaeth arall gawsom oddiar Holland yw Cape Colony, y rhan ddeheuol o gyfandir Affrig. Y mae'r drefedigaeth honno wedi ei ehangu erbyn hyn, ac o'i hamgylch i'r gogledd y mae gwledydd mawr rhwng bod yn rhan ohoni a bod yn anibynnol,—gwledydd dan gwmi Prydeinig. Bron y tu mewn i'r wlad Brydeinig fawr hon y mae dwy weriniaeth anibynnol,—y Transvaal a'r Orange Free State,—ond heb hawl i ymwneyd â gwledydd tramor ond trwy Brydain.

Boeriaid,—hen Is-ellmyn diwyd anibynnol Holland,—yw dineswyr y Transvaal, a Pretoria yw eu prif-ddinas. Ond y mae aur y wlad wedi tynnu miloedd o wehillion anturiaethus pob gwlad atynt, a gwelodd yr amaethwyr Boeraidd dref Johannesburg yn codi'n gyflym yn eu mysg. Nid oes ar y Boeriaid,—hen yd y wlad,—cisiau y dyfodiaid hyn, ac y maent yn gwrthod estyn breintiau gwleidyddol iddynt. Ddechreu'r flwyddyn tybid fod chwyldroad yn ymyl yn y Transvaal, a chychwynnodd Dr. Jameson gyda byddin fechan o wirfoddolwyr o dir y cwmi Prydeinig i helpu pobl Johannesburg. Pallebrodd Mr. Chamberlain, fel Ysgrifennydd y Trefedigaethau, am i'r fyddin ynfyd droi'n ol ar unwaith. Ond ymlaen yr aethant, i ymosod, yn amser heddwch, ar wlad anibynnol. Y mae'r Boeriaid yn anelwyr di-ail, a gorfod i'r ymosodwyr ymostwng, a bod yn garcharorion. Anfonodd y Boeriaid hwy i Brydain, ac y maent yn awr ar fin eu prawf.

Rhwng Mr. Chamberlain a'r Llywydd Kruger peth hawdd fuasai adferu heddwch a chyflawnder. Ond taniwyd Prydain gan ymyriad di alw am dano. Y munud y clywodd y gŵr ieuanc milwraidd sy'n ymherawdr yr Almaen am fuddugoliaeth y Boeriaid, pellebrodd at y Llywydd Kruger i'w longyfarch. Medr Prydain faddeu llawer peth i'r Unol Daleithiau; ond nis gall oddef ymyriad diachos Rwsia,—gwlad na feddyliodd am ddim erioed ond am ei lles ei hun. Mewn wythnos o amser yr oedd saith o longau rhyfel newyddion yn barod i'r frwydr, ac yr oedd Prydain oll megis yn dal ei hanadl,—ac yn barod i ryfel neu heddwch,—tra'n gwylio beth a wna'i'r gormesdeyrn ffroenfalch.

Tybia llawer fod Rwsia a'r Almaen yn ceisio codi anhawsterau ar lwybr Prydain yn y dwyrain; a dyma son fod y Twrc, tra'n anrheithio Armenia, am ofyn i'r wlad gashaodd ei greulondeb pryd y mae am droi ei chefn ar yr Aifft.

Ond y mae tŷn yr Almaen yn newid yn barod. Er fod ei byddin y gryfaf yn y byd, nis gall wneyd fawr ddim yn erbyn Prydain. Ac, er ei dychryn, gwel Brydain a Ffrainc yn graddol ddod i ddeall eu gilydd. Y mae yr anghytundeb am ddyffryn y Mekong, a'r dueddau deheuol China, wedi darfod; ac y mae'n eithaf tebyg y deuir i gyd-dealltwriaeth ynghylch yr Aifft hefyd.

Cadernid yr Almaen yn erbyn Ffrainc yw'r Cynghrair Trifflyg,—yr Almaen, Awstria, a'r Eidal. Ond ni fynnai Awstria a'r Eidal er dim fod yn rhwystr i Brydain; a chwelid y Cynghrair, mae'n ddiameu, gan ryfel rhwng yr Almaen a Lloegr.

Y rheswm am y son am ryfel hwn,—son fu'n llenwi'r gwledydd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon,—yw gwanc y gwledydd mawrion am drefedigaethau yn Affrig. Y mae terfynau Lloegr a'r Almaen wedi cyfarfod yng nghanol-barth Affrig, y mae Lloegr a Phortugal yn taro ar eu gilydd ger bau Delagoa, y mae Ffrainc wedi meddiannu Madagascar, ac y mae byddin yr Eidal newydd gyfarfod trychineb milwrol enbyd wrth geisio ymawthio i fynyddoedd Abyssinia, — trychineb sydd wedi tafu'r wlad anfodus honno i rywbeth tebyg i ferw chwyldroad.

Ar hyn o bryd, gwaith Prydain yw adgyfnerthu ei llynges, fel yr amddiffynnir hi a'i masnach a'i threfedigaethau beth bynnag ddaw. Er dyddiau Alfred, ei llynges fu cadernid Prydain, ac nid ei byddin. Mewn gwledydd ereill medrodd y brenhinoedd ddefnyddio'r fyddin i lethu pob ymgais am ryddid; ym Mhrydain nis gellid defnyddio'r llynges ond i amddiffyn yn unig. Ymladdodd y llynges dros ryddid gyda'r Piwritaniaid, gwnaeth Brydain yn amddiffynnydd rhyddid crefyddol ac yn ddychryn gormeswyr byd, a chadwodd hi rhag gorgesgyniad ddwywaith o leaf,—adeg brwydr La Hogue ac adeg brwydr Trafalgar.

Nid wyf yn hoff o ryfel; a gwn am drahauster a rhaib y Prydeiniwr mewn gwledydd ereill. Ond yr wyf yn credu, o bob gwlad, mai Prydain wna fwyaf o neb dros ddyngarwch a rhyddid, a hynny oherwydd fod ei llywodraeth yn fwy gwerinol na'r un llywodraeth arall yn y byd. Yr wyf yn credu hefyd mai anffawd fwyaf gwlad yw gwneyd ei gwladweiniaeth dramor yn bwnc plaid. Faint bynnag yw'r gwahaniaeth rhyngom wrth ymdrin â phynciau gwleidyddol cartref, dylem fod yn un wrth ymwneyd â'r estron. Anffawd fawr i'r America, yn ol fy meddwl i, ydyw ei bod yn ymyrryd a chenhedloedd ereill,—ymryson y Prydeiniaid â'r Venezueliaid, gwrthryfel Cuba yn erbyn yr Hispaen,—er mwyn chwyddo rhif y pleidleisiau dros ryw blaid neilltuol. Er cymaint werrir ym Mhrydain yn y dyddiau hyn ar longau, ni wneir hynny gan un blaid er gwaethaf y llall. Gobeithio y dengys y dyfodol nad oedd eisiau'r hwrdd-longau rhyfel aruthrol a chostus.

* * *

Rhwng pob peth, y mae'r Twrc ar ei uchel fannau. Nis gall gweddeidd-dra oddef darlunio y creulondeb, y llofruddio, y treisio sy'n llenwi Armenia druenus. Ond y mae newyn yn prysur symud y Cristionogion o ffordd y Twrc bwystfalaidd. Y mae pob bywyd yn gwywo dan anadl y gorthrymwr erlidgar ac aflan hwn. Cyn hir bydd bywyd meddyliol a chrefyddol Asia Leiaf wedi ei lwyr lethu ganddo. Gwna anghyfanedd-dra, a geillw ef yn heddwach.

Pan ddeallodd y Twrc fod Prydain o ddirif pan yn dweyd nas gallai oddef y creulonderau yageler mwy, yn y dwthwn hwnnw ymgymododd y ddau elyn gormesol, Rwsia a Thwrc. Nid oes fawr er pan oedd y ddau allu barbaraidd mewn rhyfel ffyrnig, yn awr y mae'r Twrc yn cawodi ei emau anrhydedd ar ei hen elyn; a druan o ryddid a chrefydd y werin rhyngddynt.

* * *


Cadernid Prydain yw ei chariad at heddwach. Y mae ambell un ienanc ynfyd yn dal i freuddwydio am fuddugoliaethau rhyfel, ac yn dychmygu fod rhyw fawredd, os nad prydfferthwch, yng ngharlamiad y march coch. Eithr nid yw buddugoliaethau gwyhaf rhyfel ond megis dim o'u cydmaru â buddugoliaethau heddwach. Tybiai llawer fod delw yr arwrol ar ryfel y Crimea,—ar frwydrau Alma ac Inkerman ac ar y rhuthro ar furiau cedyrn Sebastopol,—ond y mae gwir hanes y rhyfel ynfyd hwnnw yn ddigon i wneyd i bob dyn gaahau son am fawredd a phrydfferthwch mewn cyaylltiad â rhyfel.

I Brydain, buasai canlyniadau unrhyw ryfel yn erchyll, hyd yn oed pe na roddai gelyn ei droed ar ein hynysocdd ni. Mewn tua thri mis gallai fod newyn yn y wlad,—pob ymborth wedi darfod, a dim gobaith am heddwach. Rhydd rhyfel ysgytiad i gyfansoddiad cenedl, a gwanha hi drwyddi. Mag ysbryd hyf a diamynedd yn ei gwyr ienainc. Hyd yn oed pan ymlleddir dros heddwach neu grefydd, daw'r ymladdwr o'r ornest yn aml iawn wedi colli ei gariad at y rhyddid a'r grefydd yr ymladdodd drostynt, ac nid oes ganddo mwy ond cariad at ryfel er ei fwyn ei hun. Dengys hanes fod yn well i wlad weled pla dinistriol yn tramwy trwyddi na chael ei hun mewn rhyfel. Blodeua cydymdeimlad, crefydd, a chynnydd ar ol y naill; ffynna ysbryd creulon, didrugaredd, a phechadurus ar ol y llall.

* * *

Hwyrach y bydd achos heddwach ar ei lwyddiant o'r holl ofnau rhyfel hyn. Clywn eisoes swn, o bobtu'r Werydd, am fwrdd cymod neu gyflafareddiad, i benderfynu pob dad allai beryglu cyfeillgarwch y ddwy wlad. Y mae'r Cyngor Trifflyg, os yw'n achos anobaith i wledydd fel Bohemia neu Hungary neu Poland a'u bryd ar ryddid, yn achos heddwach yng nghanolbarth Ewrob.

Ac y mae'n debyg y tyneir rhwymau undeb rhwng gwahanol wledydd yr Ymherodraeth Brydeinig o flwyddyn i flwyddyn. Cydymdeimlad, nid grym ewyllys Prydain, sydd yn eu cadw ynghyd. Fel y teyrnasa'r werin yn fwyfwy llwyr, ni ymddygir byth at drefedigaeth Brydeinig fel yr ymddygydd mewn amser fu at Canada a Lloegr Newydd. Fel y dadblyga Canada ac Awstralia, dylai Prydain gyhoeddi heddwach tragwyddol ar holl foroedd llydain y byd.



LITCAL
 MEETING
 PER 1841

ac eglwys.

hrydain hefyd. Y mae
 ubwyr Rhyddfrydol,— yn
 reigiau o'u blaenau. Un
 a'r Uchel-eglwyswyr a'u
 heb roddi dim o'u llyw-
 reig, oedd heb eu gorfien
 d eglwysig eithafol.

Y mae'n eithaf tebyg yr ail ymuna corff mawr y Rhyddfrydwyr eto, i rwystro cadw'r ysgolion rhydd dan lywodraeth un enwad. Bydd dadleu brwd eto o flaen pob capel ag eglwys drwy'r deyrnas, a bydd raid penderfynu rhwng dau beth,—helpu'r clerigwyr i reoli'r ysgolion elfennol, neu helpu'r ysgolion i ymryddhau oddiwrth bopeth ond y trethdalwyr a'r llywodraeth.

Peth arall y rhaid ei ddadleu'n fuan yw rhyddfreniad merched. Y mae un peth yn sicr,—nid oes reswm dros beidio rhoddi pleidlais senedd i'r merched sy'n awr yn meddu pleidlais sir a phleidlais plwy.

Un o olion yr oesoedd tywyll, oesoedd grym anghyflawnder, ydyw israddoldeb merched. Mewn sefydliadau newyddion,—prifysgolion a chynghorau,—rhoddir lle iddynt fel i ddynion. Ond y mae'r hen ysbryd ceidwadol yn gryf yn eu herbyn ynglyn â'r hen sefydliadau. Mawrth y trydydd y bu'r pleidleisio yn Rhydychen. Daeth dros dri chant a hanner o'r gwŷr dysgedig i Ystafell y Duwinyddiaeth fawreddog; gwyddai pawb eu bod yn rhy geidwadol i agor graddau'r brifysgol i ferched, er mor ddylanwadol y dadleuai Grose a Dicey dros hynny. Pleidleisiodd 140 o blaid, a 215 yn erbyn.

Pur ddigalon yw dyfodol amaethyddiaeth ym Mhrydain, yn ol adroddiad y ddirprwyaeth frenhinol. Y mae'n amlwg nad yw y rhai sy'n gwybod mwyaf am amaethyddiaeth ac am y trethi yn cytuno hyd yn oed ar amlinellau unrhyw ddiwygiad.

Y mae un peth yn eglur iawn yn adroddiad y lleiafrif,—fod gwahaniaeth dirfawr rhwng bywyd amaethyddol y gwastad-diroedd, sef de a dwyrain Prydain, a bywyd amaethyddol y mynydd-dir, sef y gorllewin a'r gogledd. Yn y mynyddoedd y mae'r ffermydd yn amrywio llawer o ran maint, ond yn fychain fel rheol; ar y gwastatir y maent bron oll yn fawrion iawn.

Yn y mynyddoedd gall gweithiwr godi i dyddyn bychan, ac o hwnnw i dyddyn mwy,—y mae gobaith yn ei arwain ymlaen o hyd. Ac os ca wg y byd, gall ddisgyn yn ol at ei lafur. Ond ar y gwastatir y mae pellder anherfynol rhwng yr amaethwr a'r llafurwr. Nis gall y llafurwr obeithio codi i fod yn amaethwr, nid oes ond gwasanaethu bythol o'i flaen ef a'i epil; ni ddaw uchelgais i ddefro ei feddwl cysglyd nac i godi ei olygon oddiar y llaid. A phan gyll yr amaethwr ei arian, y mae ei gyflwr yntau'n anobeithiol; llafurio ni fedr, cardota sydd gwylydd ganddo, nid oes dim o'i flaen ond mynd i Lundain i yrru cab.

Yn y mynyddoedd ni theimlwyd y dirwasgiad amaethyddol gymaint, yn y gwastatir y mae bron a gwneyd ardaloedd cyfain yn anghyfannedd. Ni fedr yr amaethwr mawr gael dim am ei afalau, na bron ddim am ei wenith; ac ar yr un pryd, oherwydd cydymgais y gweithydd am lafurwyr, y mae cyflogau cyn uchod ag erioed. Ond am amaethwr bychan y mynyddoedd, nid yw ef yn talu cymaint o gyflogau; gweithia ei deulu, a gweithia ef ei hun.

Pan oedd codi gwenith yn talu, y peth goreu fedrai perchennog ffermydd wneyd oedd eu rhoi oll yn un. Wedi gwneyd nifer o ffermydd yn un ffarm fawr, gallai'r amaethwr ddefnyddio aradr ager a pheiriannau mawrion. Byddai llai o adeiladau i'r tîrffediannydd eu hadgyweirio hefyd, un ffermdy ysywaeth, yn lle dwsin. Ond y ffermydd mawrion hyn oedd y rhai deimlodd y dirwasgiad gyntaf. Ac erbyn hyn nid oes gan y tîrffediannydd ddigon o arian i ail adeiladu'r hen gartrefi.

Cynhygir llawer dull o wella'r drwg. Tybia rhai mae rhoi toll ar nwyddau tramor fyddai'r feddyginiaeth. Byddai hyn yn sicr o lesoli'r tîrffediannydd trwy godi pris cig a bara. Ond ni oddefai'r trefwyr a'r pentrefwyr y feddyginiaeth hon, a hwy yw mwyafrif yr etholwyr.

Cynhygia ereill Fimetaliaeth,—gwneyd arian yn gyfrwng masnach ar yr un telerau ag aur. Gyrrai hyn brisiau i fyny, mae'n sicr, ond y prif beth godai fyddai'r rhent.

Cred ereill mewn gwastadhau'r dreth fawr. Ond wrth gofio fod rhai wedi prynu hon ac ereill heb wneyd, nis gellir ymyrryd â hi heb wneyd cam a rhywun.

Annoeth ac ofer, mae'n debyg, yw ymyrryd o gwbl. Y mae byd drwg y tu hwnt i allu deddf seneddol i'w wella nac i'w leddfu heb berygl ei wneyd yn fydd gwaeth.



INWYN.



gwynydd,—a gwena
neusydd;
yn blydd
gwynydd.


GWILL.

OD.

dod!
vch o hyd,
y byd;
dawnsio'n llon,
fron,
awfed ton!

tion
!
wlad,
nig,
od!
GWILL.
N.
yn,
!—GWILL.





NIAN.

phur,
chwym ;
ib
dwyll.
o CAERNARFON.

pob mantais iddynt i
ddawn i ganfod defn-
rychau cyffredin yr
glu gwerthfawr. Yr
m mhresenoldeb Dr.
general information."
general *observation*?"
ni ddydd, yn gosod y
onno a gesglir drwy
n cymhariaeth sydd
yd am dyrfa fawr o
nd *ni* welant." Yr
rawsant y fantais o
natur a chelf; ond

wedi dod yn ol heb sylwi ar ddim gyda'r dwysder hwnnw sydd yn troi gwrthrychau allanol yn ddefnyddiau myfyrdod a mwynhad.

O'r tu arall, adwaenom rai nad ydynt wedi cael mantais i "deithio," yn ystyr ddiweddar y gair; ond, drwy gyfrwng sylwadaeth feddylgar yn eu bro eu hunain, y mae ganddynt etifeddiaeth deg o wybodaeth ymarferol. Pell ydwyf o ddweyd dim yn ddfriol am deithio na theithwyr. Goreu po fwyaf o'r byd a welir, os rhoddir chwareu teg i'r gallu sydd yn sylwi ac canfod ystyr mewn pethau. Yn niffyg hynny, nid yw yr holl deithio ond cyffroad arwynebol a darfodedig. Geilw y Saeson y dosbarth yma yn *globe-trotters*. Y maent yn trotian yn ddi-baid, ond heb aros digon yn unman i dderbyn argraff y weledigaeth. Ond, fel y dywedwyd, y mae yn bosibl treulio oes led gartrefol heb grwydro rhyw lawer yma a thraw, ac eto, drwy sylwadaeth bersonol ddod yn feddiannol ar lawer o wybodaeth ddyddorol i'w pherchen, a buddiol i ereill. Dichon mai y ffordd oreu i ddangos hyn fyddai crybwyll am rai o'r gwŷr hynny a roddasant achles i'r ddawn hon, ac a ddaethant, mewn canlyniad, i gael eu cyfrif ym mysg cymwynaswyr eu rhyw.

Un o'r gwŷr hyn ydoedd HENRY ROWLAND, offeiriad Llanidan, ar finion y Fenai, yn Ynys Mon. Dywedir na fu y gŵr da hwn ond ychydig oddicartref yn ystod ei oes. Conwy oedd y fan bellaf, meddir. Ond gwnaeth iawn am y peth drwy sylwi yn fanylach ar yr hyn oedd o gwmpas ei gartref; ac yn enwedig traddodiadau ac olion hynafiaethol. Gwnaeth nodiadau manwl o'r hyn a welai, a chyhoeddwyd ffrwyth ei sylwadau yn llyfr, ac y mae *Mona Antiqua*, bellach, yn un o drysorau ein llenyddiaeth.

Perthyn i'r un dosbarth, ac i'r un cyfnod yr oedd GILBERT WHITE o Selborne, yn neheudir Lloegr. Offeiriad oedd yntau; gŵr tawel a syml, ond yr oedd yn sylwedydd cywir. Craffai ar bopeth a welai yn ei rodfaon dyddiol. Nid oedd un creadur yn rhy ddisylw ganddo. Elai efe, nid yn unig at y morgrugyn, ond at holl breswylwyr y llwch, a throes yn fywgraffydd iddynt, heb dâl na gwobr. Prin yr oedd dim rhyfedd yn digwydd ym myd yr adar neu y trychfilod mân yn y plwyf hwnnw, heb fod y gyfrinach yn wybyddus i Gilbert White. Ysgrifennai lythyrau at un neu ddau o gyfeillion oedd yn cymeryd dyddordeb yn yr un pethau. A llythyrau hynod ydynt! Nid oes ynddynt air o son am ddigwyddiadau cymdeithasol. Yn yr ystyr hwn, y maent yn debyg i lythyrau Goronwy Owen. Dau beth neilltuol a geir yn y rheiny—holi am ryw hen lyfr Cymraeg, neu am ryw hen offeiriad plwy y disgwylid iddo fynd i wlad well. Ond am lythyrau Gilbert White, y maent yn llawn o gyfeir-

iadau at natur a'i phlant. Nid oedd ynddo un uchelgais i wneyd enw fel awdwr; ond, heb geisio, megis, ar bwys ei ddawn i sylwi, fe ddaeth yn un o'r awduron mwyaf dyddorol. Casglwyd ei ysgrifau ynghyd, a chafwyd ei fod, wrth roddi hanes un plwy, wedi cronico pethau sydd yn meddu gwerth cyffredinol. Gwnaed y llythyrau yn llyfr, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1789—dros gan mlynedd yn ol. Y fath nifer o lyfrau a argraffwyd yn yr adeg honno, ac ar ol hynny, sydd wedi eu hebargofi yn llwyr! Ond y mae y "Natural History of Selborne," gan Gilbert White, wedi mynd drwy lu o argraffiadau, ac yn aros hyd y dydd hwn yn un o'r llyfrau mwyaf dewisol fel arweinydd i gyfrinion anian. Ac y mae y byd yn ddyledus am dano i'r ffaith fod yr awdwr yn sylwedydd, wedi cymhwyso ei hun i "weled y peth fel y mae."

Gellid nodi dynion cyhoeddus, heb fod yn awdwyr, a enillasant enw ac enwogrwydd yng ngrym y gallu arbennig hwn,—llygad i weled Anian. Yn eu plith yr oedd Richard Humphreys, Dyffryn, a Joseph Thomas, Carno. Nodwedd amlwg yn y naill a'r llall ydoedd y ddawn i sylwi. Ynglyn âg Humphreys o'r Dyffryn, yr oedd dylanwad y ddawn hon ar ei feddwl ef yn cymeryd y ffurf o foes-wersi a dywediadau byrion, cofiadwy, wedi eu seilio ar ffeithiau ac ar brofiad bywyd cyffredin. Yn ei pherthynas â Joseph Thomas, yr oedd yr un ddawn yn ymfurfio yn hanesynau a chydmariaethau tarawiadol sydd, bellach, wedi suddo i gof a chalon gwlad.

II.

Drachefn, y mae llygad i weled Anian yn allu sydd yn dedwyddoli ei berchen, a hynny mewn amgylchiadau a gyfrifid gan lawer yn amddifad o elfennau cysur a mwynhad. Dyna—unigedd. Byddai aros mewn neilltuaeth, yng nghanol gwlad, yn gosb drom ar lawer yn y dyddiau hyn. Un rheswm am y peth ydyw—fod y gallu i sylwi heb ei amaethu yn briodol; maent yn tynnu eu holl gysur drwy gyfrwng dysgu, ac yn gad-ael sylwi heb ei feithrin o gwbl. Ond pan y mae hwn yn cael chwareu teg, nid oes yr un lannerch yn gwbl anyddorol. Ceir fod distawrwydd y dyffryn, a chilfachau y mynyddoedd, yn llawn o wrthrychau addas i ddedwyddoli y meddwl, ac i'w dywys at yr Hwn sydd "ryfedd yn ei weithred, ac ardderchog yn ei waith." Ac y mae hyn yn wirionedd, nid yn unig am olygfeydd rhwysgfawr ac arddunol, ond hefyd am bethau syml a chyffredin. Y mae y dosbarth cyntaf fel meistriaid y gynullfa yn hawlio sylw ac edmygedd. Anhawdd meddwl am ddyn yn sefyll ar lan y cefnfor, neu yn ymyl y rhaiadr crychwyn, heb deimlo rhywbeth oddiwrth fawredd neu wylltedd yr olygfa.

Gellir rhestru y rhain,—y môr a'r mynydd, y rhaiadr a'r afon, ymysg pregethwyr mawr—"pregethwyr cymanfa"—Natur. Gŵyr pawb i ryw fesur am danynt. Ond y mae myrdd o wrthrychau ereill sydd yn orlawn o ddefnyddiau mwynhad.

Y mae Ruskin, pan yn darlunio ystlysau'r Alpau, yn dweyd fod y golygfeydd mor eang, mor ddiderfyn, fel y mae y llygad yn diffygio wrth edrych arnynt. A'r feddyginiaeth ar gyfer hynny, ebai ef, ydyw crynhoi y sylw ar ryw un peth yn eich ymyl—tusw o fwswg, neu flodyn yng nghesail y graig. Ond mewn trefn i wneyd hyn, rhaid fod y gallu i sylwi, i ganfod teg-wch yr hyn a ystyrir gan y lliaws yn ddistadl,—rhaid fod hwnnw wedi ei feithrin yn flaenorol. Ac yn y cysylltiad hwn gallwn nodi esiampl neu ddwy er dangos—pe y buasai hynny yn angenrheidiol—fod y gallu y soniaf am dano yn allu pleserus, yn ffyhonnell mwynhad. Mewn hen rifyn o *Longman's Magazine*, fe geir ysgrif dan y pennawd "A Mountain Tulip." Y mae yr awdwr yn disgrifio ei hun yn dringo llechweddau Moel——, un o chwiorydd tal-gryf y Wyddfa. Unffurf a dof, meddai, ydyw yr olygfa ynddi ei hun; ond y mae y dringwr hwn wedi meithrin y gallu i sylwi mewn un cyfeiriad neilltuol. A chyn hir, gwobrwyir ef am ei ymdrech. Wrth odreu un o'r meini mawrion sydd ar lethrau y Foel, y mae ei lygad yn disgyn ar lysieuyn bychan, yswil, a'i flodyn yn wyn fel yr eira. Dyna diwlip y mynydd! Nid oes hanes am dano yng Nghymru na Lloegr, ond ar y llechweddau hyn. Plentyn yr eira ydyw; un o weddillion y cyfnod pell pan oedd yr iâ-fryn-iau yn gorchuddio'r Eryri. Y mae tylwyth y *mountain tulip* wedi mynd yn hynod fychan erbyn hyn, ac fe ddywed y gŵr a'i gwelodd, iddo ei adael yno i wenu wrtho ei hun, rhag ofn mai efe oedd yr olaf o'r teulu oll.

Y mae Wordsworth wedi darlunio dau gymeriad,—un heb agor ei lygad i brydferthwch natur, a'r llall yn troi ei sylwad-aeth yn ymborth i'w feddwl erbyn y dyfodol. Am y naill,—

"A primrose by the river's brim,
A yellow primrose was to him,
And it was nothing more."

Yr oedd yn edrych ar friallen felen fel yr oedd y fuwch neu y march yn arfer gwneyd; nid oedd cennad y gwanwyn yn cyflwyno un ystyriaeth foesol i'w feddwl. Ond am y llall, y mae yn mynd at lan yr afon, ac yn gweled torf o'r blodau euraidd hynny—y *daffodils*—yn dawnsio yn yr awel, ac y mae ei galon yntau yn dawnsio i'w canlyn. Y mae'r olygfa yn suddo i'w feddwl, ac yn dod yn ddefnydd cysur wedi llawer o ddydd-iau,—


“ And oft when on my couch I lie
 In vacant or in pensive mood,
 They flash upon that inward eye
 Which is the bliss of solitude ;
 And then my heart with rapture fills,
 And dances with the daffodils ! ”

Dro yn ol, yr oeddwn yn cerdded gyda chyfaill ar hyd ffordd lled anyddorol; dim coed, nac afon, na thai, ond digonedd o gerrig a meini ar bob llaw. Yn y man, cymerasom seibiant. Tynnodd y cyfaill forthwyl o'i logell, a dechreuodd fanylu ar ansawdd y meini,—eu neilltuolion, eu tylwyth, a'u hanes. Dywedais fod y ffordd yn un anyddorol. Yr wyf yn galw y gair yn ol. Yng nghymdeithas sylwedydd, daeth yn un o'r llannerchau mwyaf difyr, a melus yw yr adgof am dani.

III.

Y mae y gallu hwn, hefyd, yn un tra manteisiol, ac yn un y gellir ei arfer yn ddi-dor. Y mae yn datguddio rhywbeth yn barhaus. Synia rhai fod yn rhaid iddynt fynd ymhell oddi-cartref mewn trefn i weled popeth o bwys. Ond y gwirionedd yw, os felly y mae, fod y gallu i sylwi ynddynt hwy mewn stâd amherffaith. Diwyllier y gallu hwn, a daw pob llannerch yn gyfrwng gwybodaeth ac addysg. Gyda'r allwedd yma yn ei feddiant, gall dyn anturio i'r cwm mwyaf mynyddig mewn llawn hyder y daw ar draws rhywbeth gwerth ei wybod. Y mae yn y ffriddoedd, y mawngogydd, a'r corsleoedd, lawer o wybodaeth guddiedig. Clywais ffermwr yn adrodd ei fod efe, un adeg, yn codi mawn yng nghwmwd Eifionnydd. Yr oedd wedi torri yn lled isel i lawr, a daeth o hyd i ryw sylwedd caled, du fel y gloyn, ac ni wyddai yn iawn pa un ai pren ai carreg ydoedd. Tafodd ef o'r neilltu, heb feddwl mwy am dano. Un o'r dyddiau dilynol, daeth gŵr dieithr heibio y llannerch, canfu y telpyn du, a gofynnodd i'r ffermwr beth a gymerai am dano. Dywedodd yntau, yn ddiniwaid, nad oedd yn werth dim ond i gynneu tân, a bod croesaw i'r gŵr dieithr wneyd a fynnai âg ef. Ac felly y bu. Ond ymhen rhai misoedd, derbyniodd y ffermwr bapyr yn cynnwys hanes darlith ger bron Cymdeithas Wyddonol yn Llundain, a'r testyn ydoedd,—yr hen fonceff a godwyd o'r gors. Dengys hyn fod y gallu i sylwi yn dwyn pob llannerch dan warogaeth iddo ei hun; fel hudlath y swynwr, y mae yn gwneyd yr hagr yn brydferth, a'r distadl yn ogoneddus.


Nid pawb ohonom sydd yn cael treulio ein dyddiau o fewn cyrraedd Amgueddfa, neu arddangosfa o gywreinion. Ond, er hynny, na thristawn fel rhai heb obaith. Y mae amgueddfa




yn agored ddydd a
 a'i gwrthrychau yn
 i'r bydoedd gloewon
 yfynnir beth yw y
 cellid ateb mewn un
 gallu i sylwi ar ei
 ywn, gall ei berchen
 r fy mron; fy phiol
 awel, a gwersi yn y
 rggell; y cae yd yn
 p y graig, ac y mae
 Gan hynny, gellir
 gaid,—Dos, rhodia'n
 a doethineb ymhob



LAND (*Anthropos*).





EIFION.

hir-ddisgwylidig.
 Eifion Ieuanc fod yr
 ffurfafen gydag ar-
 hen awrlais y teulu
 nos yn iwy aniben
 ol greddf-duedd ofn
 ond nid oedd y gŵr
 ond yn llawn gweith-
 ymddangos yn lled
 es Dewi Wyn pan
 athraw barddonol,
 rllan pob peth arch,
 ch, a gwybod barnau
 ylith. Darlennodd
 eth o brif gyfansodd-
 mwyn ceisio ffurfio
 dano.
 o'r amgylchiad, ac o'i
 Ieuanc yn debyg o
 Eifion, efe a chwiliodd yn

fanwl am bob gweddillion llenyddol o eiddo'r bardd, trethodd ar ei adgofion, ceisiai adalw pob digwyddiad neillduol, a phenderfynai, hyd y gallai, borthi yr awydd aniwall oedd ym meddwl ei ddisgybl ieuanc, am fanylion hanes Dewi Wyn. Ystyriai mai efe ei hun a awgrymasai destyn eu hymddiddan ar eu cyfarfyddiad nesaf, a darparai ar ei gyfer.

Yr oedd yn brydnawn hyfryd. Lluchiai yr haul hedlifrwydd o wres, yr hwn a gymedrolid gan yr awel deneu, rywiog, oddiar fôr Cantre'r Gwaelod. Bron yr oedd yr awel yn ddigon cref i ysgwyd y dail; ond cariai ar ei hedyn arogl y meillion a'r briallu, gan eu gwasgaru trwy yr awyrgylch.

Cyrhaeddodd y ddau gyfaill i'r llannerch werdd wrth Ffynnon Gybi yn yr adeg amodol, ac wedi cyfarch eu gilydd yn foesgar a chroesawgar, sylwai—

TAL.—Yr ymfyniad a awgrymai ei hun i'm meddwl wrth gyrchu at y lle yma oedd,—Pa beth sydd yn gwneyd hanes bywyd dyn yn ddyddorol? Byddaf yn gweled ambell fywgraffiad yn debyg i hanes taith dyn o alluoedd cyffredin, yr hwn ni chenfydd ddim anghyffredin yn un man; ond dywed iddo gychwyn ar adeg benodol, iddo gyrraedd Gwesty yr Afr erbyn ciniaw, iddo swpera yn nhref Caerlas, a derbyn ymweliad gan hwn a'r llall, nes dwyn i'm cof hanes un morwr, yr hwn a ymwelai â holl borthladdoedd y byd o'r bron, ond y cwbl a wyddai oedd pris gwirodydd ym mhob un. Achwynir gan fywgraffwyr Dewi Wyn, Robert ab Gwilym Ddu, Eben Fardd, ac eraill, nad oes modd fod bywyd mwy gwag o amgylchiadau pwysig “na bywydau y dynion hyn, am eu bod wedi byw a marw yn ardal eu genedigaeath.” Modd bynnag, yr hyn sydd yn gwneyd hanes dyn yn ddyddorol i mi yw sylwi ar weithrediadau allanol yr elfennau a blannwyd yn ei gytansoddiad; ac nid yr hyn ydyw dyn ar amgylchiadau neillduol, ond yr hyn ydyw yn ei fywyd cyffredin, pan nad yw yn ymwybodol fod un sylw yn cael ei wneyd o hono. Gan hynny, bywyd cyffredin dyn gartref yw yr arddangosiad mwyaf cywir o'i wir gymeriad. Bu y dderwen hon yn fesen fechan; bu y bardd yn blentyn; ac yr wyf yn gofyn i chwi fy esgusodi os crybwyllaf rai pethau plentynaidd yn y gŵr yr wyf yn edmygu ei athrylith i'r fath raddau.

E. I.—Yr wyf yn gobeithio na fydd i chwi ystyried dim yn rhy ddibwys i'w fynegi i mi am ddyn mor hynod. Darlennais sylw yn y cofiant sydd ar ddechreu “Blodau Arfon” sydd yn ddesgrifiad o'm teimlad innau, fel hyn,—“Pan ysgrifennir cofiant awdwr, neu ryw ddyn arall, yr hwn y byddo ei orchestion wedi ennill gradd anghyffredin o boblogrwydd iddo, nid oes fodd boddloni ei ddarllenwyr, neu ei ymlynwyr, ond trwy nodi pob amgylchiad a gynorthwyo i ddarlinellu ei nodweddiad yn y

modd mwyaf eglur. Y mae eu cywreingarwch mor aniwall, fel yr archwaethant yn awyddus bob mân ddigwyddiadau, pa mor ddibwys bynnag, os byddant mewn gradd yn tafu goleu ar ansoddau y dyn." Ond nid wyf yn cael fy niwallu yn y cofiant, er mor ragorol ydyw. Er engraifft, dywedir nad oedd dim nodedig yn neb o berthynasau Dewi Wyn, "oddieithr ei fam;" a "thyfodd ef megis derwen fawr yng nghanol gweunydd ar ei ben ei hun." Oni ddylem gael gwybod rhywbeth ynghylch ei fam?

TAL.—Y cwbl a allaf chwanegu yw ei bod yn wraig synhwyrol a darbodus, ac o gymeriad moesol gwych. Daeth i'r Gaerwen yn forwyn at Owen Dafydd, yr hwn oedd y pryd hynny ar ei oreu; ond trwy ei darbodaeth a'i synwyr i drin ei hamgylchiadau, gwellhaodd eu sefyllfa yn fuan. Hen ŵr lled anystyriol oedd Owen Dafydd; ariaml y gwelid ef mewn unrhyw foddion crefyddol. Cwynai Dewi, ar ol cyrraedd oedran, na buasai wedi ei fendithio â siampl rhieni crefyddol; a dichon, pe cawsai, y buasai ei athrylith gref wedi ei defnyddio er gwell mantais nag fel y bu. Gogwyddai y rhieni yn eu golygiadau ar fedydd at y Bedyddwyr; ond ni feddai y cyfundeb hwnnw un lle i addoli yn agos i'r Gaerwen, hyd oni ddechreuwyd cynnal moddion mewn tŷ annedd bychan, yn Rhos Lan. Nid llawer iawn a ofalai Owen Dafydd am olygiadau y Bedyddwyr chwaith, neu ni fuasai yn myned a'r plant i Lanystumdwy i'w bedyddio, yr hyn yw y tramgwydd mwyaf yng nghyfrif y Bedyddwyr. Ond er nad oedd rhieni Dewi yn grefyddol, yr oeddynt yn ymwybodol o werth addysg i'r plant; oblegid nid oedd deddf na swyddog gorfodol y pryd hynny, ac yr oedd llawer o'r werin yn dra diofal a difeddwl am addysgiaeth eu plant. "Mae yn gof gennyf," ebai cyfaill wrth Sion Wyn, "weled y ddau fachgen yn dyfod yn llaw eu mam i ysgol Llanybi y tro cyntaf. Tynnid fy sylw yn neilltuol at yr hynaf o'r ddau, bachgen bywiog, pert, glandeg; ei wallt melyn-lliw cyrliog, a'i olwg gyflym, deallgar, a dynnai fy sylw mewn modd neilltuol. Yr oedd yn llawn o uchelgais pan yn yr ysgol; ni thybiai y dylasai neb ragori arno mewn dim. Pan gynygid rhyw gamp, byddai efe ynglŷn â hi ar-amrantiad, a thafai ei holl ysbryd i bob gwaith." Bu wedi hynny yn ysgolion Llanarmon, Llanystumdwy, Penmorfa, a Bangor is Coed, ac ystyrriod ef yn ysgolhaig rhagorol.

E. I.—Pa mor ieuanc y dechreuodd efe brydyddu, Taliesin?

TAL.—Dechreuodd yn dra ieuanc, pan oedd yn yr ysgol, neu feallai cyn hynny. Tybiai cymydog iddo mai un o'r pethau cyntaf a gyfansoddodd oedd cân rydd ar ddewisiad Syr Robert Williams, Barwnig, yn farchog y sir, yn wrthwyneb i Lord Penrhyn. Cyfeirir yn ei gofiant at englyn a gyfansoddodd efe pan yn ddeudeng mlwydd oed i "Dic Morus yr achwynwr," a

dywedai ef ei hun ei fod yn deall rheolau barddoniaeth yn dda yn yr oedran hwnnw. Modd bynnag, ceir ar lafar gwlad liaws o ddigrif-benillion o'i waith, hyd yn oed cyn cyrraedd o hono y deuddeng mlwydd oed. Rhoddaf i chwi siampl. Yr oedd hen ŵr o ddilledydd ag ydoedd yn byw yng nghwr y Rhos Ddu, yn agos i'r Gaerwen, wedi bod yn hynod o hir yn gwneyd clôs i Ddewi, ac yntau wedi llwyr flino yn disgwyl am dano. O'r diwedd, cyfansoddai i'r hen ddilledydd hwyrffrydig y pennill a ganlyn,—

“ Wmpre Huws y teiliwr, sy'n byw yng nghwr y Rhôs,
Fu'n cerdded tua'r Gaerwen dros dridiau i wneyd clôs,—
Ei gluniau oedd rhy fychain, a'i wasband yn rhy fawr,
'Roedd Dafydd yn y diwyg a'i d— yn llusgo'r llawr.”

Yr oedd efe hefyd yn troi ei feddwl at destynau difrifol tua'r un adeg, fel y dengys ei “ Gywydd y Farn,” yr hwn a welir yn yr ail-argraffiad o “ Flodau Arfon,” a'r hwn a ddilynir gan y nodiad canlynol o eiddo'r golygydd,—“ Nid yw teilyngdod barddoniaidd y cywydd uchod ond bychan; ond os ystyrir oedran yr awdwr, mae yn rhyfeddod. Gwasanaetha i ddangos y fath eginyn gobeithiol oedd Dewi pan yn ddeuddeg mlwydd oed.” Gan fod y cywydd yn argraffedig, ni wnaef ond dyfynnu ychydig linellau o hono er enghraifft. Fel hyn y darlunia y bardd deuddeg oed effeithiau bloedd a llef yr archangel,—

“ Y creigiau a'u cry' agwedd,
Glywant, a neidiant un wedd;
A'r haul glân dwysglan dysglair,
'N duaw, er unaw, ar air.
E gân yr Ynad gwiwner,
Yn effro nes syrthio'r ser,
A'r lleuad glir ei llewyrch,
Dry'n waed, fel ceulwaed y cyrch;
Disgynnant ar dasg unawr,
O'r wybren lwydwen i lawr.”

Erbyn iddo gyrraedd un mlwydd ar bymtheg oed, yr oedd wedi tyfu yn fardd o gryn faintioli, fel y dengys y cywydd a gyfansoddodd efe y pryd hynny ar y testyn dyrchafedig, “ Mawredd Jehofah.” Dychymyga y Goruchaf yn darlunio ei hun i'r ymofynnydd dynol. Ac wrth ystyried oedran yr awdwr, sylwai un ysgrifennydd ei fod yn fwy gorchestwaith nag oedd “ Awdl Elusengarwech.” “ Nid wyf yn cofio,” meddai, “ am ddim ond un esiampl ail a chyffelyb i hon yn holl hanes llenyddiaeth; fe gyfansoddodd y bardd Seisnig, Pope, ei fugeilgerddi pan yn un ar bymtheg oed. Ystyririd y cerddi hyn, gan gydoeswyr Pope, yn fath o wyrth lenyddol; ond yr oedd Pope wedi cael pob manteision dysg, ac wedi bod yn ddiwyd o'i febyd yn cymeryd addysg, heb ganddo ddim arall i'w wneuthur.”

E. I.—Yr wyf yn darllen yn ei gofiant am ei ymddygiad

myfyrgar a difrifol yn yr ysgolion, a'r dyb uchel oedd gan ei gyd-ysgolheigion am dano, ynghyd â'r cyflymdra y dysgai y gwersi. Carwn gael gwybod pa bryd y gadawodd efe yr ysgolion, ac yr ymsefydlodd gyda'i rieni yn y Gaerwen.

TAL.—Y mae yn rhyfedd na buasai chwaneg o fanylion ei hanes wedi ei ysgrifennu, yn neilltuol gan fod ei gyfaill a'i gymydog, Sion Wyn, wedi ei benodi i gyfansoddi bywgraffiad o hono, yr hwn drachefn a olygid ac a chwanegid gan Eben Fardd—mae'n rhyfedd gennyf na fuasai mwy o fanylion ei fywyd wedi eu cofnodi. “O herwydd y caethiwed cysylltiedig â chystudd corff, fe fu ysgrifennydd y llinellau hyn (Sion Wyn) heb gael un gyfeillach neilltuol âg ef am amryw flynyddoedd ar ol iddo ymadael âg ysgol Llanarmon; ac yn yr ysbaid hwn, yr wyf yn meddwl, y bu mewn ysgol ym Mangor is Coed, ond nis gwn dros ba faint o amser yr arhosodd yno.” Ni ddaeth y bardd claf i gysylltiad âg ef hyd y flwyddyn 1806, pryd yr anfonodd awdl fer a wnaethai i Eifionnydd i'w darllen iddo, gan fod ynddi, meddai, gyfeiriadau ato. Yn ganlynol i hynny galwodd yntau gyda'r bardd claf, yr hyn fu achlysur o adnewyddiad y cyfeillgarwch a barhaodd rhyngddynt hyd farwolaeth Dewi Wyn.

Y mae golygydd yr ail ran o “Flodau Arfon” yn gosod Dewi ym Mangor is Coed yn y flwyddyn 1802, pan oedd yn ddeunaw mlwydd oed. Dichon mai meddwl hynny a wnaeth oddiwrth y llinell gyntaf o'r gerdd a elwir “Y drom galon,” yr hon sydd fel hyn,—

“I Arfon gaerog 'r wyf fi'n gyrru.”

Dyma a ddywed,—“Mae'n debyg i'r bardd gyfansoddi y penhillion canlynol pan yn yr ysgol ym Mangor is Coed, fel cyfarchiad i'w rieni a'i gydnabod.” Ond pa beth a feddylir o'r llinell hon?—

“Mae eu hynafiaeth yma 'n Eifion.”

eto,—

“Er nad wy'n nabod eu wynebau, yr wy'n garenydd.”

A ydyw y llinell olaf yn briodol fel cyfarchiad i rieni a chyd-nabod? Rheswm cryf dros dybio ei fod wedi ymadael â'r ysgolion yn 1802, pan oedd efe yn ddeunaw oed, yw y cyfansoddiadau a gynyrchodd yn y flwyddyn honno, megis “Cywydd i'r Milgi,” “Marwnad y Parch Robert Roberts o Glynog,” ac yn enwedig ei “Awdl Marwnad Goronwy Owen,” yr hon a anfonwyd i gystadleuaeth y Gwyneddigion, ac a farnwyd yn ail oreu. Nid yw yn debyg iddo gynyrchu y fath gyfansoddiadau a'r rhai uchod, ynghyd â rhai eraill byrrach na hwy, tra yr oedd efe yn astudio ei wersi yn yr ysgol. Mwy tebygol yw ei fod

wedi ymsefydlu gartref cyn yr adeg yma, os nad cyn bod yn un mlwydd ar hymtheg oed, pryd y cyfansoddodd ei gywyddau "Mawredd Jehofah," "Cenfigen a Chelwydd," yn gystal a cherdd "Gorthrymder a Drudaniaeth."

Er nad oedd erioed duedd yn Newi i fod yn goegfalch a rhodresgar, eto edrychid arno fel gŵr ieuanc dysgedig wedi cael manteision i ddysgu Saesneg, &c., yr hyn nad oedd ond peth pur anghyffredin yn ei amser a'i gymydogoeth ef. Yr oedd yn uchel ynghyfrif ei rieni—yn ŵr ieuanc cartrefol, diwyd gyda gwasanaeth y fferm; ac uwchlaw y cwbl, ymladaenai ei glodydd fel bardd ar hyd a lled y wlad—canmolid ef—ofnid ef, rhag cael rhyw bennill neu duchangerdd ganddo, yr hyn a ystyrriid yn fwy anioddefol na dim arall; ac ni ryfeddem nad oedd tuedd yn y pethau hyn, ynghyd â'r ymwybodolrwydd a feddai o faint ei allu, i'w wneyd yn hunanol ac yn anghymwys i gyfarfod â gorthrechiaid.

E. I.—Tebygol mai ei ymgyrch gystadleuol gyntaf oedd "Coffadwriaeth Goronwy Owen," pryd y colodd y wobr. Ymddengys oddiwrth ei gofiant fod hon yn brofedigaeth lem i'w feddwl uchelfrydig, ac iddo chwerwi yn erwin o ran ei dymherau. Dyma fel y dywed y cofiant,—“Tebygol mai y chwerwder cyntaf a brofodd, mewn cysylltiad â barddoniaeth oedd yn 1803, pan o gylch 19 mlwydd oed. Yr ydoedd y pryd hwn yn un o'r ymgeiswyr am wobr y Gwyneddigion am awdl er coffadwriaeth am Goronwy Owain; a chollodd y dydd yn yr ymdrechfa; dyfarnwyd y fuddugoliaeth a'r gwobr i Gutyn Peris; ac er na buasai neb yn edrych arno yn is oherwydd hyn, oblegid ei fod mor ieuanc, a'i gydymgeisydd llwyddiannus mor addfed o ran oed a chynefindra â'r gelfyddyd, mewn cymhariaeth iddo ef, fel na buasai ryfedd yn y byd iddo ragori arno; eto tramgwyddo a wnaeth Dewi, a ffroenochi, chwedl yntau, yn dost; ac er mwyn porthi ei deimladau ar yr achlysur, cyfansoddodd gywydd byr, a rhai englynion tra dychanus a llym, yn y rhai y cyhuddai Gutyn o fenthyca a lladrata rhai o'i linellau goreu ef. Y mae fel pe byddai yn codi y bardd yn ei freichiau, i edrych a oedd yn drwm mewn gwirionedd ai peidio, ac yna dywed,—

“ Adwaen draw nad yw yn drwm,
Chwe salach na cheseillwm;
Rhyw dusw, rhaid ei osawd
Dan wrægys, rhwng bys a bawd.”

Ceir hefyd nodiad i'r un perwyl gan y golygydd yn rhagflaenu y cywydd a'r englynion i Utyn, a welir yn dilyn yr awdl, fel hyn,—“Tua'r amser hwnnw (1803) digwyddodd fod y bardd Dafydd Ddu o Eryri a Gwyndaf Eryri ar ymweliad croesawgar â'r hybarch gampus-fardd Mr. Robert Williams (*Robert ab*

Gwilym Ddu) o'r Betws Fawr, yn ol defod Gwyliau'r Nadolig; ac yn eu plith, un diwrnod, daeth Dewi, ac yn ol ei ddigrif-ddull awenyddlawn arferol, cyfansoddodd y llinellau canlynol, gyda chyfeiriad allegawl at ymdrechfa y farwnad grybwylledig." Dyma eto, o'r *Truethodydd*, syniad rhyw feirniad ar yr un pwnc, fel hyn,—“Sorrod Dewi Wyn am hynny yn aruthr, a thynnodd yr amgylchiad oddiwrtho ganiad dychrynlyd, yn yr hwn y trina Gutyn yn dra dirmygus; ond er pob triniaeth, y mae rhagoriaeth awdl Peris ar gyfansoddiad ein bardd yn cael ei addef yn gyffredinol gan bob un a wŷr beth yw barddoniaeth o'r iawn ryw.

E. I.—Yr wyf yn synnu fod glaslanc deunaw mlwydd oed mor hunanol ag ymddwyn fel y darlunnir ef gan yr awdwyr, at y rhai y cyfeiriais, yn ffroenochi, yn sorri, a thuchan-ganu pan gollodd efe y dydd yn y gystadleuaeth honno. Onid oes gennym hanes am ein dynion enwocaf yn colli bron mor aml ag yn ennill; ac er hynny yn ymostwng i'w tynged yn dawel?

TAL.—Gan bwyll, fy nghyfaill. Nid wyf yn eich beio chwi am mai dyna yw yr argraff sydd ar eich meddwl. Dyna yr argraff sydd wedi cael ei roddi ar feddwl y cyhoedd, trwy gyfrwng yr awgrymiadau a ddyfynnwyd gennych yn awr. Ond a wyddoch chwi ar ba seiliau y mae y cyhuddiadau a adroddasoch wedi eu dwyn yn erbyn Dewi? Mae y bardd yn ei fedd ers dros ddeng mlynedd ar hugain, yn gorwedd o dan y cyhuddiad o “ffroenochi,” “sorri,” a “thuchan-ganu,” a thrin Gutyn Peris yn ddirmygus, wedi colli yng nghystadleuaeth y Gwyneddigion yn 1803, ar “Farwnad Goronwy Owen.” Ac er nad allai hynny effeithio y gradd lleiaf ar y farn am ei athrylith, gallaf eich sicrhau fod gennyf seiliau cryfion i greu fod yr holl ymadroddion a ddyfynasoch yn gwbl anheg, ac yn hollol anghywir am ymddygiadau Dewi Wyn mewn cysylltiad â'r awdl dan ein sylw.

E. I.—Rhyfedd! Ni wyddwn i fod neb yn amheu hynny. Os nad oes sail i'r cyhuddiadau, byddai yn ofidus iawn i mi fod wedi adgoffa am danynt.

TAL.—Gadewch i ni, gan hynny, geisio gwneyd ymchwiliad i'w seiliau. Amheuwyd y cyhuddiadau yn erbyn y bardd, yn ddiau. Gwrandewch yr hyn a ddywed Tegai, yr hwn a fu dros ysbaid rhai blynyddoedd yn gweinidogaethu yn ardal y Bardd Gwyn, yng nghanol ei gyfeillion, a'i gydnabod; ac yn cymeryd y dyddordeb mwyaf ym mhob peth cysylltiedig â'i fywyd. Dyma fel y dywed efe,—“Treuliasom lawer awr ddifyr gyda Mr. J. Thomas, Chwilog (Sion Wyn), a bardd Cefn y Meusydd, i wrandaw hanes D. Owen, a'r un modd gyda llawer o'i hen weinodigion, megis Sion William y Foty, Rhos Lan; ac eraill oedd yn berchenogion barn ar y fath gymeriad.”

E.I.—Pa beth, gan hynny, a ddywed efe ar y pwnc oedd gennym ni dan sylw?

TAL.—Dyma ei eiriau,—“Yn y flwyddyn 1803, pan oedd Dewi o gylch pedair blwydd ar bymtheg oed, efe a yngystadleuodd a'r ‘Goffadwriaeth Goronwy Owen,’—testyn y Gwyneddigion. Enillwyd y gamp hwn gan Gutyn Peris. Fe deimlodd Dewi, wrth gwrs, oddiwrth ei aflwyddiant; a diddadau, fe achlysuodd y siomiant hwnnw y lles mwyaf iddo, trwy luddias iddo dybio ei hun yn rhywbeth nad oedd, a thrwy hynny orwedd i lawr ar ei esmwythfainc. Er i Dewi deimlo yn sionedig, ar y pryd, ni rwgnachodd efe ddim yn erbyn y ddedfryd, ond yn hytrach yn y gwrthwyneb; canys pan welodd awdl Gutyn yn argraffedig efe a ddywedodd,—‘Nid oedd dim modd trechu hon heb i Gorynwy ei hun godi oddiwrth y meirw i ganu.’ Er fod Dewi yn ddigon o ŵr bonedig i gydnabod ei fod wedi colli y maes, yr oedd yn ddigon o wron hefyd i gynnyg ail frwydr.” Dyna farn yr enwog Tegai ar ymddygiad Dewi Wyn mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth hon,—“Ni rwgnachodd efe ddim yn erbyn y ddedfryd, ond yn hytrach yn y gwrthwyneb.”

Mae golgydd yr ail argraffiad o “Flodau Arfon” hefyd yn amheu cywirdeb y cyhuddiadau a osodwyd yn erbyn Dewi ar yr achlysur a grybwyllwyd, ac yn nodi amryw ffeithiau hollol anghyson â'r dyb a goleddwyd gan ei feirniaid ynghylch y “ffroenochi” a'r cywydd dychanllyd i Gutyn Peris. Ond, gadewch inni symud ymlaen, mae yma fwy nag amheuaeth. Crybwyllais o'r blaen mai Sion Wyn o Eifion oedd awdwr gwr-eiddiol y cofiant, ond chwanegodd Eben Fardd ato rai nodiadau o'i eiddo ei hun, gan adael darnau o waith Sion Wyn ar ol, gyda golwg ar gywiro, hyd y gallai, yr hyn a gymerodd mewn llaw. Boed felly; yr wyf yn dal yn fy llaw y *cofiant gwreiddiol*, yn llawysgrif Sion Wyn ei hun; ac er ei fod yn crybwyll am y gystadleuaeth, nid oes ynddo un awgrym fod Dewi wedi “sorri” a “thychan-ganu” oherwydd colli'r dydd. Ac yn yr holl ymddiddanion fu rhwng y ddau fardd am farddoniaeth, a'r trin a'r troi ynghylch gwahanol destynau, ni cheir un awgrym o enau Dewi ei hun iddo gymaint a digio ar yr achlysur. Nid felly y mae gyda golwg ar y camwri a gafodd efe yn Ninbych, gyda'i “Awdl Elusengarwch.” Rhaid rhyddhau Sion Wyn, yn gwbl, o fod yn awdwr y cyhuddiad. Ac am Eben Fardd, gwyddom mai y diweddaf yn yr holl fyd oedd efe i osod y fath gyhuddiad ar gymeriad y dyn a edmygai fwyaf o un bardd fu yng Nghymru erioed, heb un eithriad, oddieithr iddo gael ei gamarwain ryw fodd neu gilydd.

Mae yn digwydd bod gennyf, with law, lythyr oddiwrth Dafydd Ddu o Eryri at Dewi Wyn, dyddiedig Ionawr 2, 1804;

a gwelaf ei fod yn crybwyll rhywbeth am Awdl Coffadwriaeth Goronwy. Wele y llythyr yn llawysgrif y bardd ei hun, a darlennaf ef i chwithau,—

WAUNFAWR, Ionawr 2, 1804.

Y bardd ehedawgwiw,

Diolch yn laes am yr Awdl o Goffadwriaeth am yr enwocaf Oronwy, gwaith godidawg, yn ddiamau ydyw; a chyfartal iawn i waith G. Peris. Y mae'n rhaid addef y gellir disgwyl eglurach arwyddion o addfedrwydd barn mewn gwaith bardd sydd wedi hir a dyfal ddilyn y Gelydydd o Farddoniaeth; a hynny gyda chraffineb mwy na chyffredin, er nad ydyw i'w gyfrif ond ysgolhaig uniaith. Mae canmoliaith mawr i dy waith gan amryw o'r beirniaid, i.e. gan Gutyn Peris ei hun. Meddwl yr ydwyf y byddai yn well i'i adael allan yr englyn,—

“ Diwyd ydoedd yn deawr,—o'i fynwes
Wiw feini tra gwerthfawr, &c.”

Nid ydyw'r gyffelybiaeth yn naturiawl, debygwn i, sef deawr meini o fynwes. Y peth na fyddo alluedig neu bosibl yn anian, neu yn natur; ni ddichon, yn ol rheol un gŵr dysgedig, fod yn gyffelybiaeth gyson. Y llinell “Creaduriaid gloywon crwydredig lloedd” sydd anhawdd ei dyoddef, oblegyd nid y lloedd sydd yn crwydro, ond y corph nefol sydd yn crwydro, neu o'r hyn lleiaf yn rhedeg drwy neu ar hyd y lloedd hynny yn nefoedd serenog. Gellir newid y terfyniadau,—

“ Rheolau'r Lleud yr Haul a'r holl luoedd

Yn—

Haul â'r holl luoedd.

A newid y llinell olaf o'r braich yn

Creaduriaid gloywon crwydredig luoedd.

Ni chlywais neb arall yn sôn am hyn, eithr fy sylwiad fy hun ydyw; a chan fy mod yn amcanu at y peth sydd er dy hyfforddiant, na thrangwydda wrthyf, yr wyf yn meddwl fod rhywfaint o reswm yn yr hyn a grybwyllais.

Mae Hywel a Robert Williams yn ddieithrol iawn im' er ys dyddiau. Ni chlywais oddiwrthynt ar ol im' briodi, neu er y llynedd. Cofia fi atynt os gweli hwynt. Yr wyf yn lled-feddwl fod Sion Lleyrn yn llunio priodasgerdd i Dafydd ac Elin Thomas. Yagatfydd y deuaif i Eifionydd Wyliau'r Pasg, ond nid wyf yn sicr o'r peth. Yr ydwyf yn byw mewn tŷ ardrethol i mi â'r wraig, er ys rhai wythnosau.

Ni chlywais o Lundain er ys talm byd. Ni chlywodd Mr. Dafis o Fangor, na Gutyn ddim ychwaith, fel y dywedasant i mi yr wythnos ddiwaethaf. Yn y Bangor y treuliais y Nadolig.

Dim ychwaneg yn bresenol, ond fod dy awdl yn fenthyg gan Gutyn, er mwyn iddo gael amser i'w hadysgrifenu.

Cyfansoddodd Robyn o Feirion bwtt o garol go dda erbyn y Nadolig; dadganwyd ef yn Llandegai. Gutyn Peris a luniodd garol hefyd, dadganwyd ef yn Llanllechyd. Dadganwyd carol o waith Wm. Jones o Fon hefyd yn Llandegai—Dafydd Ddu a Gwilym Peris yn fudion!! - ond y mae gan D. Ddu ychydig o waith dewydd; nid oes hamdden i'w ysgrifenu.

Bydd wych, medd dy gyfaill diweniaith,

DAFYDD THOMAS.

Blwyddyn newydd dda i ti, a phawb o'th gyfeillion.

Yn awr, rhaid inni dynnu y casgliadau canlynol oddiwrth y llythyr hwn, sef nad yw nodiadau golygydd “Blodau Arfon” i ddihyntu arnynt mewn un modd am eu cywirdeb. Ni fu Dafydd Ddu yn Eifionydd o gwbl yn 1803, fel yr ymddengys; ac nid oedd wedi clywed oddiwrth Robert Williams “er y

llynedd." Ond, a chaniatau iddo ddyfod i'r Betws Fawr Wyliau y Pasg, yn ol ei fwriad, ac i Dewi gyfansoddi y "cywydd difyfyfyr" yng nghymdeithas y beirdd, fel y crybwyllir, yn ei "ddigrif-ddull awenyddol" ei hunan, cyfeiliornodd y golygydd drwy gysylltu yr englynion gyda'r cywydd; oblegid ni chyfansoddwyd yr englynion am rai blynyddoedd ar ol y cywydd. Nid ydynt yn dal perthynas â'r un amgylchiad, er yn cyfeirio at yr un person. Nid ydynt wedi eu cyfansoddi yn yr un ysbryd—cellweiriaeth dalentog a diniwed er mwyn hwyl gyda'r beirdd yw y cywydd; ond am yr englynion, y maent wedi eu cyfansoddi mewn ysbryd digofus a llym. Achwynna Dewi fod Gutyn wedi lladrata ei eiddo ef, a'i gyhoeddi yn ei lyfr, yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1816, dan yr enw "Ffrwyth Awen." Gwelwch nas gall yr englynion fod wedi eu cyfansoddi hyd onid oedd Gutyn wedi anfon ei "lyfr hyd y wlad i brofi" y lladrad y cwyna y bardd o'i herwydd; a'r englynion hyn, ac nid dim arall, sydd wedi rhoddi sail i athrodwyr a beirniaid haerllug bentyrro y cyhuddiadau ar gymeriad Dewi Wyn, sef ei fod wedi "sorri," "digio," "ffromi," a "dirmygu Gutyn Peris," pan enillodd yr olaf ar Goronwy Owen; er eich bod yn gweled, oddiwrth y dyfyniadau a wnaethum, dystiolaeth amlwg na chyfansoddwyd yr englynion o leiaf dair blynedd a'r ddeg ar ol y cywydd; er eu bod wedi eu cyhoeddi yn "Mlodau Arfon" fel wedi eu cyfansoddi yr un pryd, gyda chyfeiriad at yr un amgylchiad.

E. I.—Yr ydych yn golygu, ynte, fod yr englynion sy'n rhan o'r cyfansoddiad sydd yn dilyn "Awdl Coffadwriaeth Goronwy" ym "Mlodau Arfon"—yr englynion ar y rhai y sylfeinir y cyhuddiadau yn erbyn Dewi o "sorri," "ffromi," a "dirmygu," y rhai a adroddir drosodd a throsodd drachefn, ac yn ddiweddfaf oll, a adroddwyd gennyf finnau heddyw, heb wybod eu seiliau—yr ydych yn golygu na chyfansoddwyd yr englynion am flynyddoedd ar ol y cywydd sydd yn ei ragflaenu—eu bod yn perthyn i amgylchiadau ereill, ac wedi eu cyfansoddi mewn tymer wahanol; ac mai yr atierwch a'r anghywirdeb yma yw holl sail y cyhuddiadau wedi'r cwbl. Ac o ran hynny, mae rhyw anghysondeb ar wyneb y cyfansoddiad, *fel y mae*, erbyn inni gael goleuni arno. Pa reswm arall ellir roddi dros alw "cywydd" ar gyfansoddiad ag y mae bron ei hanner o englynion unodl union? Cyfeirir at Gutyn yn y trydydd person yn y cywydd; ond cyferchir ef yn yr ail berson yn yr englynion. Gall hyn fod yn wers i mi, i chwilio i seiliau cyhuddiadau, yn neilltuol yn erbyn cymeriad y marw, ac o ganlyniad yn analluog i amddiffyn ei hun. Mae yn wir ddrwg gennyf imi wneyd hynny ar gam y waith hon.

TAL.—Er prawf pellach fod Dewi Wyn yn cael ei gam-

gyhuddo yn yr amgylchiad sydd dan sylw gennym, cyfeirïaf at un ffaith arall. Yr oedd Dewi a Gutyn ar y telerau mwyaf cyfeillgar â'u gilydd wedi i'r blaenaf golli, a'r olaf ennill, ar y farwnad. "Nid oedd ef (Dewi Wyn) wedi gweled Gutyn Peris, er fod y ddau yn byw yn yr un sir. Penderfynodd Dewi, pa fodd bynnag, gael golwg ar ei gydymgeisydd llwyddiannus. Ymaith ag ef o'r Gaerwen i'r Braich Talog, sef cartref Gutyn, taith o gylch pum milltir a'r hugain. Erbyn cyrraedd y Braich Talog, yr oedd Gutyn gyda'i alwedigaeth yn y gloddfa, sef cloddfa Braich y Cafn. Ymlaen a Dewi eilwaith i'r gloddfa, tua dwy filltir o gartref Gutyn. Daethant o hyd i'w gilydd, ac i'r Hall,—tafarndy cyfagos i'r gwaith,—a hwy. Ymysg ymddiddanion ereill aeth y ddau fardd i ymresymu ynghylch yr awen.

'O! f'awen deg, fwyned wyt,
Di-odid, dawn Duw ydwyf'

meddai Gutyn ar ol Goronwy.

'O! f'awen deg, fwyned wyt,
Dawn natur pob dyn ytwyt'

meddai Dewi.

Ar ol i Dewi ddychwelyd adref, efe a anfonodd yr englynion canlynol at Gutyn.—Yma y dilyna yr englynion "Bonedd yr Awen," a ymddangosasant yn "Seren Gomer" am Rhagfyr 16, 1818, fel y crybwyllir mewn nodiad sydd yn eu rhagflaenu ym "Mlodau Arfon," argraffiad cyntaf, tudalen 163. Yr unig sylw a wnaif o'r dyfyniad blaenorol, yr hwn a gymerwyd o ysgrifau Tegai, yw hyn. Gŵyr pawb a ŵyr rywbeth am Ddewi Wyn, na fu ef erioed yn ddigon o ragrithiwr i ymddangos yn gyfeillgar, ac ar yr un pryd i gyfansoddi llinellau mor golyngog a'r rhai y crybwyllwyd am danynt.

Wedi gwneyd pob ymchwiliad galluadwy i mi, a hynny yn yr ysbryd mwyaf diragfarn, methais a chanfod rhith o sail i'r cyhuddiadau fod Dewi wedi "digio," "sorri," "ffroenochi," a "dirmygu" Gutyn Peris am ei fod wedi cael ei orchfygu ganddo yn y gystadleuaeth ar Awdl Goronwy.

E. I.—Yr wyf yn dra diolchgar i chwi am gymeryd y fath drafferth i symud y cam-argraff yma oddiar fy meddwl. Ymddengys mai lled anffodus fu Dewi Wyn yn ei ymgyrchoedd cystadleuol. Bu rhyw helynt mewn cysylltiad â'i "Awdl Molawd Ynys Prydain," er mor odidog yw yr awdl honno. "Yn y flwyddyn 1805, yr oedd wedi cyrhaeddyd i addfedrwydd oedran, sef un mlwydd a'r hugain oed, ac ar yr un pryd amlygodd i'w genedl addfedrwydd dawn, cynneddf, a chelfyddyd, na welwyd ond anfynech eu cyffelyb. Yr adeg yma, daeth allan ei awdl faith, gywrain a dysgedig, ar destyn y Gwyneddigion,

sef "Molawd Ynys Prydain," yr hon a enillodd y gamp, ac nid yn unig hynny, ond enillodd hefyd i'w hawdwr enw ac anrhydedd fel bardd, na ddileir hyd ddilead tragywyddol yr iaith." Cyfeirir ati mewn man arall yn y cofiant fel "awdl dryloyw, ddysgedig, a chywrain." Ond er holl ragoriaethau yr awdl, ymddengys i ryw amgylchiadau cysylltiedig â hi afonyddu ar feddwl ei hawdwr enwog.

TAL.—Yr wyf yn tybio fod priodoldeb neilltuol yn y sylw canlynol o eiddo un o'i gymydogion craffus,—“Yr oedd ei fywyd yn gynwysedig o dair rhan,—yn gyntaf, canlyn ei duedd farddonol; yn ail, casglu cyfoeth gyda diwydrwydd a chynildeb; ac yn olaf, ymboeni ac ymofidio o herwydd ei gamarferiad o'i amser.”

Yr ydym, erbyn hyn, wedi dyfod at gyfnod pwysig yn ei hanes, pryd y mae ei awen falch a goludog yn bwrw allan ffrydiau tryloewon o farddoniaeth; eithr ofer dweyd ei fod wedi cyrraedd addfedrwydd yn un mlwydd ar hugain oed. Os cym'erir yr "Awdl Molawd Ynys Prydain" â'r "Awdl Coffadwriaeth am Goronwy Owen," a gyfansoddwyd ddwy flynedd yn flaenorol, rhyfedd y fath gyfnewidiad a welir yn addfedrwydd y bardd. Tra y mae ei athrylith yn gwreichioni yn yr olaf, y mae ynddi lawer o gymhariaethau anaturiol, diffygion pwysig mewn chwaeth, anaddfedrwydd mewn barn; ond yn yr "Awdl Molawd Ynys Prydain," braidd y gall y beirniaid mwyaf hoff o bigo beiau gael ynddi ddiffygion, gan mor odidog ydyw.

Ond gan mai gyda helyntion bywyd Dewi Wyn yr oeddym, rhaid i ni gymeryd hamdden i ystyried yr helynt a ddigwyddodd mewn cysylltiad â'r "Awdl Molawd Ynys Prydain, a'i hamddiffyniad rhag cenedl estron." Cyhoeddwyd y testyn hwn yn 1804. Sonnid am gynnal yr Eisteddfod honno yn Harlech yn 1805; meddyliwyd eilwaith mai Caerynarfon fuasai y lle goreu; ond wedi y cwbl ni chynaliwyd Eisteddfod yn un man. Barnwyd y cyfansoddiadau Rhagfyr 2, 1805, neu yn hytrach cyfarfyddwyd i'w darllen ac i ddadlu eu teilyngdod. Gwelwyd yn fuan fod dau gyfansoddiad yn rhagori ar y lleill, sef eiddo Eifion Ieuanc (Dewi Wyn), a Bardd Cwsg (Hugh Maurice, nai Owen Myfyr). Yma y canlyn dyfarniad y "Cyfarfod Misol" ar yr adeg a nodwyd, wedi i'r Gymdeithas "synied arnynt wrth bwyll ac ystyr cyfiawn, er dangos pa un oedd yn rhagori—o barth iaith a synwyr addas—o barth mydraeth hylithr a chynghanedd hylais—o barth athrylith awen—ac oll yn cyfuno ag athrawiaeth gysefin Beirdd Ynys Prydain.”

Yn unol â'r ystyriaethau crybwyllledig, barnodd y Gymdeithas "y dylid y bathodyn arian am ganiadaeth y Bardd Cwsg. Barn hefyd yw, bod awdl Eifion Ieuanc yn ail; a bod ynddi

amryw orchestion awenydd, a chyfarwyddyd ar y testyn, yn deilwng o glod a diolch gan y Gymdeithas. Ac yn drydedd y bernir yr awdl tan enw *Dwned*; a bod y prydydd yn haeddu clod am orchestion awenydd a chynghanedd."

"Er cyflawni amcanion y Gymdeithas, yn yr achlysuron hyn, deisyfir i awduron y Caniadau anfon eu henwau arbenig at gyhoeddwy'r *Great*, ar y cyfleustra cyntaf."

E. I.—Dyna Ddewi Wyn wedi colli yn yr ymdrech yma eto. Pa fodd y teimlodd efe ar dderbyniad y newydd mai "caniad-aeth" yr hwn a ymgyfenwai Bardd Cwsg oedd i gael y bathodyn arian? Diau ddarfod iddo "sorri," "firoenochi," a "dirmygu" rhyw un neu ryw rai yn erwinach y tro hwn na chynt.

TAL.—Dim o'r fath beth; tra yr oedd efe yn anmwybodol fod unrhyw ddichell neu anghyfiawnder yn cael ei arfer yn yr achos. "Anfonodd Dewi ei enw yn ol y cais," ebai golygydd 'Blodau Arfon;' ond y mae cyfiawnder â chymeriad y bardd yn ein rhwymo i ddwyn ger brôn y llythyr a ddanfonodd efe at y Gymdeithas ar dderbyniad y newydd mai ail y bernid ef yn y gystadleuaeth, ac yr wyf yn barod i roddi her i'w holl feirniaid a'i gyhuddwy'r, i ddangos llythyr mwy diymhongar a char-edig, mewn cysylltiad âg unrhyw gystadleuaeth erioed. Wele y llythyr yn llawn,—

At Anrhydeddus Gymdeithas y Gwyneddigion.

Ymddiriedawl Feirniaid,—

Mae y newydd eich bod wedi penderfynu beirniadaeth yr odlau ar eich testyn olaf,—Molawd Ynys Prydain, ac hefyd ei hamddiffyniad rhag estron genedl, a bod cathl dan enw "Bardd Cwsg" yn gyntaf, a gwaith Eifion Ieuanic yn ail: hwnw ydwyf fi; ac er y dymunaswn fod ris yn uwch na'r tro cyntaf, yr wyf yn llawen am nad wyf yn is. Llwyddiant yn garedig i'r Bardd Cwsg, ar ei wob'r a'i enw da, ac i minau i brydu'n rhagorach nag yntef y cynnyg nesaf. Buaswn wedi rhoi un tro diwygiadawl ychwaneg ar fy awdl cyn ei throsglwyddo i Lundain, oni buasai fy mod yn bur wachul amryw wythnosau, cyn Gwyl Fihangel; a disgwyl gwel'hâ icchyd i'w hadysgrifio a wnaeth im' fod cyhyd heb ei hanfon i chwi; canys yn un peth yr oeddwn yn ofni eich digio, wrth anfon y fath gysoddiad maith i chwi, yn y fath ysgrifen anhardd ac anhawdd ei darllen yn hwylus a deallus. Ond gan fy mod yn tybio yn ganolig am fy awdl, ac yn hyderu ei bod yn beth gwell na'm gwaith i Oronwy, a'ch bod chwi yn hynod am goffeidio llafurwaith yr awen megys o'r llwch, penderfynais ei hanfon o dan eich ystyriaeth cyn darfod y dydd barn; canys pan elai hwnw heibio, ni chawswn un math o gynnyg eilwaith. Ac os ydych, anrhydeddus feirniaid, yn barnu fy myfyrwaith yn deilwng o'i argraffu, ac yn bwriadu bod gystadl a'i argraffu, yr wyf yn erfyn yn ddwys am gael cenad genych i'w anfon i chwi mewn ysgrifen eglur dealladwy; canys y mae'r llen rydd (lle'r enwir y mor-aerwyr) a'r sydd ar ymyl y dalenau, yn rhanau anheborawl o'r awdl; ac anhawdd dysgwyl i argraffydd neu ysgrifenydd eu cyfieu mal y dydid. Gan hyny, gyfeillion, cydym-deiml'wch â'ch gwasanaethwr Ieuanig a chemadewch i mi ei pharotol mewn ysgrifen ddealladwy, fel na bo i chwi fwy o drafferth na'i hestyn i law'r cyssoddydd. Pa fodd bynag, anfonwch ddwy linell i hysbysu pa un ai eich bod yn cenadhau fy nymuniad ai peidio; ac os bydd im' genad, anfonaf yn ddiraul.

Os argreffir fy awdl, byddaf lawen iawn a gwobrwyawl ddigon; yn llawn calondid a pharodrwydd i ganu, os gallaf yn anorod y tro nesaf, os byddaf byw.

Ydwyf, yr eiddoch,

Gaerwen, Ionawr 7fed, 1806.

DEWI WYN O EIFION.

Llefera y llythyr yna drosto ei hun, er hynny tueddir fi i chwanegu sylw neu ddau. Ymddengys i mi yn wyrth o hunanfeddiant ac ymostyngiad meddwl, oblegid mae colli mewn cystadleuaeth bwysig, ar destyn ag y bydd yr ymgeisydd wedi taflu ei holl enaid iddo, ac wedi gweithio ymlaen am lawer o fisoedd yng ngrym y disgwyliad prydeurs am oruchafiaeth, ac yn neilltuol i ddyd ieuanc llawn o uchelgais a thanbeidrwydd tymer, yn brofedigaeth gyda'r fwyaf llem all ei gyfarfod. Ond gwelir fod ein bardd, gyda symledd pur a dihoced, yn ymostwng i ddedfryd ei "feirniaid anrhydeddus;" a chyda symledd plentyn y dywed yr helynt oedd arno tra'n ceisio parotoi ei awdl i'r gystadleuaeth, yng nghanol ei waeledd. "Canolig" yw y syniadau uchaf y dywed efe am gyfansoddiad ag y dywedai un o feirdd enwocaf Cymru ei fod yn "ddysgedig, cywrain, a thryloew." Nis gallai dim llai nag amlygiad fod rhyw dwyll wedi ei arfer gyffroi y natur oedd yn ymgrymu i'w dedfryd yn y fath fodd. Er hynny, nid ydwyf am honni ddarfod iddo wneyd mwy na'i ddyledswydd yn yr amgylchiad yma, oblegid dyledswydd pob ymgeisydd aflwyddiannus yw ymostwng i'w "anrhydeddus feirniaid," pan fyddont yn gweithredu oddiar yr egwyddor ogoneddus o gyfiawnder; pe amgen, gallwn yn hawdd gydymdeimlo â'r bardd fyddo yn chwerwi wrth dwyll ac anonestrwydd. Ac nid oedd neb a ffeiddiai dwyll yn fwy na Dewi Wyn. Nid oes ond un farn am dano yn y golygiad hwn,—ei fod yn un o'r cymeriadau mwyaf cywir a fagodd Cymru erioed.

E. I.—Mae y ffeithiau yna yn ymddangos yn anghyson â'r argraff oedd ar feddwl y cyhoedd o berthynas i ddynged yr 'Awdl Molawd Ynys Prydain,' ac yn anghyson âg ymadroddion o eiddo Dewi Wyn ei hun ar ol hyn. Awgrymir gan olygydd "Blodau Arfon" mai eiddo Dewi Wyn oedd yr oreu, gan fod yr ariandlws wedi ei ddyfarnu iddo. Bu chwareu y ffon-ddwybig, ynglŷn â'r drafodaeth yna, mi dybiwn. Mae'n wir ddarfod i Gynddelw gasglu cryn lawer o ffeithiau a daflant oleuni ar y pwnc hwn, ond goleuni yn dangos y dirgelwch yn gorwedd y tu ol i'r llenni ydyw. Yr wyf yn methu cysoni y ffeithiau â'u gilydd.

TAL.—Gan eich bod wedi cyfeirio at yr hybarch Gynddelw, mae yn ddywennydd mawr gennyf gael cydnabod ein rhwymau iddo, am ei lafur a'i ddiwydrwydd yn casglu o'r *Brython, Golud yr Oes, Yr Haul, &c.*, y gweddillion barddonol a chwanegwyd at "Flodau Arfon" yn yr ail argraffiad. Gwnaeth wasanaeth i lenyddiaeth yn gyffredinol, ac addefaf yn rhwydd ddarfod iddo wneyd mwy o gyfiawnder â'r bardd nag a wnaeth neb o'i flaen; ond nid oedd yntau yn alluog i wybod y dirgelion oll.

Nid wyf yn barod i haeru fod anghyfiawnder wedi cael ei

wneyd a'r bardd yn y gystadleuaeth sydd dan ein sylw yn awr; ond os gellir ymddiried yng ngrym tystiolaethau, ymddengys nad oedd popeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn dull teg ac anrhydeddus iawn; ac ymddengys yn debygol, a dweyd y lleiaf, y bu yma wyro barn.

Y tyst cyntaf yw Dewi Wyn ei hunan, ac wele ei lythyr,—
 “Nid yw brân na barcud yn werth eu saethu na'u pluo; felly nid yw cysoddiad anferth y Breuddwydiwr, ond pentwr o eiriau digysondeb; prin y gellir dyweyd mai canu ydynt, os ystyrir gwybodaeth a chywreindeb yr oes; rhyw linellau llusgedig, musgrell a diaddurn, diflas, ac anserchiadol; hollol anweddus ac anmhrifodol i'w gymharu â chysoddeidiau Beirdd Arfon. * * * *” “Ac ni allasai Wyddelod meddwon eu dirmygu yn fwy nag y gwnaeth y Llundainwyr drwy gynnyg dywedyd fod rhinyn cryglyd y Cysgadur yn rhagori 'o barth mydraeth hylithr a chynghanedd hylais,' yn yr hwn nid oes braidd un gynghanedd, neu gymaint a'r brif-odl yn gywir; lle mae agos bob gair a llythyren yn awdlau yr Arfonwys, yn cofleidio eu gilydd mewn cydseinedd hyfryd a chelfyddwyh; erbyn hyn, mae yn hawdd i'r cyffredin farnu os dywedais anwiredd dybryd.”

E. I.—Er nad wyf yn amheu cywirdeb eich golygiadau chwi; eto chwi a oddefwch i mi sylwi nad yw colli y gamp mewn ymdrechfa yn ddigon o brawf fod anghyfiawnder wedi cael ei gyflawni. Ac nid yw barn bersonol ymgeisydd aflwyddianus o dan ddylanwad siomedigaeth i ddibynnu arni; oblegid naturiol oedd iddo ef deimlo yn anfoddog, Nid efe oedd y person cymwys i roddi barn ar deilyngdod cymhariaethol cyfansoddiadau ag yr ydoedd yn awdwr un o honynt ei hunan.

TAL.—Gwir; ond gwyddoch na theiulai Dewi yn anfoddog, o leiaf, nid amlygai unrhyw anfoddlonrwydd, yn ei lythyr at ei “anrhydeddus feirniaid.” Y cwbl a ddywed yw y dymunasai fod ris yn uwch, ond llawen ganddo nad oedd yn is. Ac heblaw hynny, danghosodd cyn hyn ei fod yn ddigon o foneddwr i gydnabod pan drechid ef yn deg, megis ag y gwnaeth pan ddarllenodd efe awdl Gutyn Peris yn yr ymdrech flaenorol, pryd y dywedodd,—“Nid oedd dim modd trechu hon heb i Goronwy ei hun godi o'i fedd i ganu.” Buasai yn gwneyd cydnabyddiaeth gyffelyb pe buasai cyfansoddiad y Bardd Cwsg yn haeddu hynny. Ffolineb yw tybied nas gall dyn fyddo yn ymgeisydd weithredu un math o farn bersonol. A ydyw yn rhesymol i ymgeisydd, pan aflwyddo trwy anwybodaeth neu anhegwch ei feirniaid, osod ei enau yn y llwch, a goddef i ereill ddweyd fod unrhyw rigwm, os bydd yn fuddugol, yn rhagori ar ei eiddo ef? A ydyw yn bosibl i

ymgeisydd ymwrthod â barn bersonol er mwyn osgoi y cyhuddiad o fod yn hunanol? Ni welaf fi un rheswm dros y fath wahaniaeth tymer ag sydd yn llythyrau Dewi ynghyswllt â'r drafodaeth hon, ond yn unig ei fod wedi cael ar ddeall, trwy un o'r beirniaid eu hunain, nad ymddygwyd yn deg at yr ymgeisywyr, yr hyn drachefn a gadarnhawyd pan gyhoeddwyd eu cyfansoddiadau.

Ond gwell i mi ychwanegu tystiolaeth y beirniad crybwyllidig, trwy ddyfyniad o'i lythyr at ein bardd, fel hyn,—“Ond gadewch ini eto goffâu un frawddeg sydd gyda chyhoeddiad y Llundeinwyr o destyn Ynys Prydain—‘Bydded yr awdl ar rai o'r pedwar mesur ar hugain, nid ar y cwbl ohonynt.’ Gwedi hynny, cynnyg barnu *yn oreu* ryw rimyn, nad oedd ar, nac yn ol, rheolau yr un ohonynt. Hwyr aethant, nid yn unig yn erbyn gwir gyfreithiau barddoniaeth Gymraeg, eithr hefyd yn erbyn eu gosodiad cyhoeddedig eu hunain; gan hyn, bu rhywyr iddynt gymeryd esgusion i garthu ymaith eu barn i'r domen.” Dyna dystiolaeth un o'r Gwyneddigion, ac un o'r beirniaid eu hunain, yr hwn yn wir ni chytunasai â'u cynghor hwynt. Hawdd, gan hynny, y gallwch weled mai nid heb sail yr amheudd Dewi eu hanrhydedd.

Megis ag i ategu'r dystiolaeth flaenorol, dygaf ger bron un arall allan o lythyr John William Prichard o Blas y Brain, ym Môn, at Owen Myfyr, ewythr y Bardd Cwsg, ynglŷn â'i ddatganiad o'i farn am y *Greal* tra'n synied fod “y bobl yn ei weled yn rhy ddrud, a gormod o ffiloreg ynthaw, tebyg i lythyr a barddoniaeth Bardd Cwsg, o'r Deheudir; nad ydoedd y fath lythyr na lles, na dywenydd, na chynnydd pwyll, gwybodaeth, na synwyr i neb; fod ei farddoniaeth yn ddigon i beri'r ddincod ar ddannedd y sawl a wyddai ddim am blethiadau a mwyneiniau'r iaith Gymraeg. Meddwl yr oedd fod y Bardd Cwsg wedi cyfenwi ei hun â'r enw mwyaf priod iddo ag a ellid ddychmygu; nas medrai edrych ar ei waith, ond fel dyn yn ymleferydd rhwng cysgu ac effro; a bod un llythyr, cywydd, neu awdl, o waith Goronwy neu Ieuan Fardd yn werth mil o'r cyfrw sugan-gerddi.”

E. I.—Gall rhai wrthwynebu y tystiolaethau blaenorol, am fod y beirniad y cyfeiriasoch ato yn frodor o Arfon, ac feallai yn gyfaill personol i Ddewi Wyn. Am yr olaf, mae yn wybyddus ei fod yn gâr i'r bardd: ac felly, gallai ei eiddiedd yn mhlaid ei gâr ieuanc greu rhagfarn yn ei feddwl at gyfansoddiadau ei gydymgeisydd.

TAL.—Os felly, dyma i chwi dystiolaeth arall o eiddo Cynddelw, yr hwn a gymerodd lawer iawn o drafferth i chwilio a barnu drosto ei hun. Dyma fel y dywed,—“Rhigwm rhyfedd

yw cân y Bardd Cwsg yn ein tyb ni, heb nac odl na mesur, fâ chynghanedd, yn debyg i ddim, hen a diweddar, hyd ag y gwyddom." Gosodwch, ar gyfer y disgrifiad yna, "awdl faith, gywrain, dryloew, a dysgedig" Dewi Wyn, sef disgrifiad Eben Fardd o "Molawd Ynys Prydain." Ac os gall dynion anrhydeddus, a beirniaid o safleoedd Cynddelw ac Eben Fardd—os gallant ddefnyddio ymadroddion fel y rhai crybwylledig, oddiar unrhyw gymhelliad llai na chariad at wirionedd, bydded i bopeth dan enw beirniadaeth gael ei ysgubo i ebargofiant.

Ni ffinaf chwi â mwy o dystiolaethau ar y pen hwn. Enwais ddigon i argyhoeddi fy meddwl i, y dylasai Dewi Wyn, yn gyfiawn, gael ei restru yn uchaf yn y gystadleuaeth ar "Molawd Ynys Prydain."

E. I.—Yr wyf yn ofni eich blino, ond carwn gael gwybod oddiar ba resymau y barnwyd y Bardd Cwsg yn oreu; a pha fodd, wedi hynny, y cyhoeddwyd ynglŷn âg awdl Dewi Wyn mai "*iddo ef y barnwyd yr arian-dlws.*" Onid oedd yna ryw anghywirdeb neu anghysondeb?

TAL—Mae eglurhad y Gwyneddigion ar amlen y *Greal* yn bur syml. Barnwyd mai cyfansoddiad y Bardd Cwsg oedd yn rhagori; ond pan wahoddwyd yr ymgeiswyr i anfon eu henwau priodol i'r Gyndeithas, derbyniwyd nodyn oddiwrth y Bardd Cwsg, wedi ei arwyddaw "J. R.," Caerfyrddin, yn gorchymyn argraffu ei gân ef yn y *Greal*, er mwyn herio barn dysgedigion Gwynedd ar ei orchest-gamp; ac wedi iddynt feio ar ei waith! parod oedd yntau i'w amddiffyn, ond na ddatguddiai ei enw dros un dydd a blwyddyn. Ar ol darllen y nodyn yna yng "Nghyfarfod Misol y Gyndeithas, Mawrth 3, 1806," penderfynwyd, gan ei fod yn "ymwrthod â rheolau safedig y Gyndeithas, a chan mai felly ei feddwl o ymgelu, nad ydoedd addas ymaros wrth ei oed, un dydd a blwyddyn; canys y dylid terfynu y fath achosion yn ol trefn ac arfer; a chan mai ail yn y gystadleuaeth oedd Eifion Ieuanc, *iddo y barnwyd yr arian-dlws.*"

Heb gyhuddo neb o anonestrwydd bwriadol, nodaf y feithiau canlynol. Yr oedd awdl Dewi Wyn wedi cael ei hanfon i'r gystadleuaeth mewn cyflwr anghryno ac anealladwy, yn ol ei gyfaddefiad ef ei hun; yn cynnwys dalennau anghysylltiol a darnau min-ddalennol, mewn ysgrifen "anhardd ac anealladwy;" tra yr oedd eiddo y Bardd Cwsg, yn ol tystiolaeth cyfaill Dewi Wyn, "yn yr ysgrifen oreu" a welodd efe erioed. Ni ddylai yr ysgrifen, mae'n wir, benderfynu tynged awdl neu draethawd; er hynny, gwaith blin a threth fawr ar amynedd a natur dda unrhyw feirniad yw ceisio darllen gwaith mawr mewn ysgrifen anealladwy. Gallai Dewi Wyn ysgrifennu yn hardd a dealladwy, fel y cawn eto gyfle i roddi siampl; ond ei arfer oedd bod

yn frysiog gyda phopeth, wrth, hyd yn oed doi y dâs wair, pryd y gwnelai gymaint a dau neu dri o ddynion, ac y canai ar y diwedd—

“ Y dâs a ddiddoswyd,
Mewn awr y gorfennwyd.”

Oherwydd y rheswm yna, dichon na ddarllenwyd yr awdl gan rai o'r beirniaid o gwbl; megis y dywedir na ddarllennodd rhai o'r beirniaid Awdl Elusengarwch, oherwydd aneglurder y llaw-ysgrif. Yr oedd Owen Myfyr, tad y Gymdeithas, yr hwn a arferai gael cryn lawer o'i ffordd ei hun, wedi penderfynu mai y Bardd Cwsg gaffai y wobr, er ei fod yn troseddu amod bwysicaf y Gymdeithas; a phwy oedd y Bardd Cwsg ond nai Owen Myfyr ei hun!

Rheswm Gwilym Owain dros farnu y Bardd Cwsg yn oreu oedd ei fod wedi “sôn am *Hu Gadarn*.” Dyna safon gywir beirniaid Llundain! Os oedd crybwyll am y bod dychmygol hwnnw o gymaint pwys, pa fodd na fuasai ei lygaid yn disgyn ar yr englyn sydd yn “Awdl Molawd Ynys Prydain” Dewi Wyn, sef

“ Da i hon oedd dyfodiad HU—GADARN,
A'i giwdawd addwyngu;
Mewn hedd i gyfaneddu,
Ddiddrais lwyth, a dirus lu.”

Yr wyf wedi gosod o'ch blaen y profion sydd yn dangos fod tebygolrwydd cryf iawn ddarfod i Dewi Wyn gael cam yn y gystadleuaeth ar y testyn “Molawd Ynys Prydain.” Yr oedd y Gwyneddigion yn haeddu parch mawr ar gyfrif eu brwdfrydedd Cymreig—am eu nawdd i lenyddiaeth eu gwlad gynhennid, er eu bod yn byw, fwyafrif ohonynt, ar dir yr estron, Ond fel y crybwylla Cynddelw, nid “rhyw wybodus iawn oedd llauws ohonynt.” Goddefid i elfennau anymunol, ffafriaeth, ac anwybodaeth, feddu dylanwad ar eu penderfyniadau. Nid wyf am haeru, gyda Dewi, mai “newid barn rhag cywilydd” wnaethant, ond yn hytrach goddef i anwybodaeth a ffafriaeth ffurfio eu barn. Nid oes ddadl am ragoriaeth “Awdl ddysgedig, gywrain, dryloew” Bardd Eifion ar “rimyn” y Bardd Cwsg, os gellir ymddiried o gwbl i dystiolaethau y rhai a ddylent wybod y gwirionedd.

E. I.—Nid fy amcan mewn un modd yw gwrthsefyll eich ffeithiau er mwyn y pleser o ddadlu, ond fy unig reswm dros godi rhai gwrthddadleuon oedd, cael y gwirionedd, ac yr oedd yn werth i mi wneyd hynny er mwyn y wybodaeth a dderbyniais. Eithr, atolwg, a dramgwyddodd Dewi y tro hwn fel na chyfansoddodd efe ar gyfer cystadleuaeth y Gwyneddigion rhagllaw?

TAL.—Efe a gyfansoddodd ar destyn y Gwyneddigion y flwyddyn ganlynol—1806, ar y testyn “Marwnad yr Anrhydeddus Lyngesydd Nelson;” ond ymddengys na anfonodd ei gyfansoddiad i'r Gymdeithas, ac na fu gystadleuaeth o gwbl ar y testyn hwn. Awgrymai cyfaill i Ddewi mae diffyg ymddiried ym marn y Gymdeithas a lesteiriodd feirdd Cymru rhag anfon dim o'u cynhyrchion i mewn. Ond cymaint oedd y dylanwad a gaffai cyhoeddiad testyn ymgystadleuol ar feddwl Dewi fel nad oedd raid ond ei brin grybwyll, na byddai ei feddwl cynrychiol yn bwrw allan doraeth o feddylddrychau gwreiddiol a thanbaid. Am ei gyfansoddiad i'r Llyngesydd Nelson, gwna Sion Wyn sylw i'r perwyl, fel hyn,—“Rhywbryd yn y flwyddyn 1806, yr wyf yn meddwl, y cyfansoddodd ef bryddest er coffadwriaeth am y diweddar Lyngesydd Nelson. Cof gennyf i mi ei darllen unwaith, a'i bod yn cynnwys mwy o hen eiriau Cymreig, anealladwy i'r cyffredin, nag a welir mewn un darn arall o'i waith. Nid peth anaturiol i ysgrifennydd ieuanc, fo yn arfer a darllen hen awduron, yw gwneyd defnydd o eiriau ansathredig ambell i dro; ond nid arferiad doeth ydyw; oblegid po amlycaf y gesydd unrhyw awdwr ei feddwl allan, mwyaf tebygol a fydd ei waith o fod yn ddefnyddiol, neu ateb y diben; ac fe sylwyd gan un, yn neillduol, fod eglurdeb yn un o'r prif foddion tuag at i'r prydydd ennill y gamp. Grym meddyliau, a phrydferthweh ymadroddion, sy'n gosod gwerth mewn cyfansoddiadau barddonol, ac nid eu bod wedi eu britho â geiriau anealladwy i ddarlennydd cyffredin.”

E. I.—Gallwn dybied fod awen Dewi Wyn tua'r adeg yma yn hynod o fywiog a diorffwys, oblegid yn y flwyddyn ganlynol, 1807, y cyfansoddodd efe yr englynion a'r cywyddau ymryson ynghylch “Bonedd yr Awen,”—sef yr ymryson a fu rhyngddo â Gutyn Peris, Llandegai. Ond rhaid i mi addef fod y fath gymysgedd o anghysondeb yn y “Nodiadau” sydd ynglŷn â'r ymrysonfa hon, ym “Mlodau Arfon,” fel na allaf yn fy myw gael amseriad yr ymddigwd. Er enghraifft, mewn un man dywedir yr “ymddengys i'r cwyddau ymryson ar bwnc yr awen gael eu cyfansoddi yn union ar ol yr englynion a wnaed yn 1807.” Mewn man arall, dywedir am yr ail gywydd fel hyn,—“Yn y *Seren* am Ionawr, 1820, Gutyn Peris a gyhoeddodd gywydd drachefn i amddiffyn ei farn am Awen, ac fel gwrthatebiad i'r cywydd blaenorol o eiddo Bardd Eifion. Yna Dewi, yn *Seren* Chwefror, a roes y cywydd canlynol fel gwrthatebiad i'r eiddo yntau,—ac felly y mae yn debygol y terfynodd y ddadl.”

Gan gymeryd mantais ar y nodiad diweddaf, sylwai un ysgrifennydd ar barodrzydd awen Dewi, meddai,—“Cawn enghraifft

arall o barodrwydd ei awen yn ei ail gywydd 'Bonedd yr Awen.' Yn y *Seren* am Ionawr, 1820, cyhoeddwyd cywydd Gutyn Peris, fel atebiad i gywydd blaenorol Dewi Wyn. Yn y *Seren* am Chwefror, 1820, ymddangosodd ail gywydd Dewi, yr hwn a gynhwysa oddeutu 400 o linellau. Pan ystyriom mor araf y cludid llythyrau yn yr adeg honno, rhaid fod y cywydd hwnnw wedi ei gyfansoddi mewn ychydig ddyddiau."

Os cyfansoddwyd y cywyddau "yn union" ar ol yr englynion yn 1807, rhaid fod yr ysgrifennydd olaf wedi cael ei gam-arwain, ac fod ei gasgliad ynghylch parodrwydd awen Dewi Wyn yn syrthio i'r llawr. Ymddengys yn anghyson i mi, ddarfod i'r ddadl gael ei dechreu yn 1807, a bod heb ei gorffen hyd 1820—ysbaid tair blynedd ar ddeg. Byddai yn dda gennyf gael eglurhad ar yr anghysondeb yna.

TAL.—Nid oes ynnof heddyw awydd i gyffwrdd a phwnc y gynnen, sef "Bonedd yr Awen," nac awydd i geisio penderfynu pa un ai cywir ai anghywir oedd syniadau Bardd Eifion ar y mater. Hyn sydd amlwg—ei fod yn newydd-beth yn yr oes honno; ond gan fod y ddadl yn amgylchiad ym mywyd Dewi Wyn, y mae gennyh hawl i ddisgwyl cymaint o eglurhad ag a allaf fi roddi i chwi. Dywedais wrthyh o'r blaen, ar awdurdod y diweddar Tegai, pa fodd a than ba amgylchiad y dechreuwyd y ddadl; sef ddarfod i Dewi Wyn gymeryd taith o'r Gaerwen i'r Braich Talog, cartref Gutyn, yn fuan wedi i'r olaf ei orchfygu yn y gystadleuaeth ar "Goffadwriaeth Goronwy Owain," ac wedi cwrrd â'u gilydd—dechreu ymgomio ynghylch awen a barddoniaeth, a digwydd i Gutyn Peris adrodd y cwpl canlynol o waith Goronwy Owen,—

"O! f' awen deg, fwyned wyt,
Dioed, dawn Duw ydwyf,"

pryd yr atebodd Dewi, gyda'i barodrwydd arferol,—

"O! f' awen deg, fwyned wyt,
Dawn natur pob dyn ytwyf."

Ar ol i Dewi ddychwelyd adref, efe a anfonodd at Gutyn yr englynion sydd yn dechreu fel hyn,—

"O! f' Awen, addien iawn wyd,—iawn oeddit
Yn Adda pan grewyd;
Rhesymol eneidïol nwyd,
Dawn natur pob dyn ytwyf."

Argraffwyd hwy gyntaf yn y llyfr a elwir "Corph y Gaingc," yn 1810. Nid yw yn hysbys pa mor fuan yr anfonodd Gutyn Peris ei gywydd cyntaf, mewn atebiad i'r englynion o eiddo Dewi; ond ymddengys, oddiwrth dystiolaeth Gutyn ei hun, fod y cyfan drosodd cyn diwedd y flwyddyn ganlynol, 1808. Rhyw ysgrifennydd ymhen nifer o flynyddoedd, sef yn Rhagfyr, 1818;

a anfonodd yr englynion a'r cywyddau i *Seren Gomer*, ac yn honno, yn 1820, yr argraffwyd cywydd olaf pob un o'r ddau fardd, er eu bod wedi eu cyfansoddi yn 1807. Cyhoeddodd Gutyn ei gywydd cyntaf yn ei lyfr a elwir "Ffrwyth Awen," gyda'r sylw yma,—“Ni ddarfu i'r awdwr, yn y cywydd uchod, gymeryd yr awen megis testyn i ganu arno yn drwyadl; ond canu ar un peth perthynol i awen, er mwyn egluro ei farn ar y pwnc hwnnw i gyfaill awenyddol o wahanol farn ar yr unrhyw bwn. Mae cywyddau ereill ar yr achos; ond ni argreffir hwy yma, rhag blino neb â gormod ar un testyn.” Cyhoeddwyd “Ffrwyth Awen” Gutyn yn 1816. Dengys y ffaith hon i'r holl gywyddau gael eu cyfansoddi cyn 1816, ac yr ydych felly yn gywir mai ei gamarwain gafodd yr ysgrifennydd a ddefnyddiodd y cyfeustra o'u cyhoeddi yn *Seren Gomer* am Ionawr a Chwefror, 1820, er mantais i brofi parodrwydd awen Dewi Wyn. Nid wyf yn amheu nad oedd awen barod gan Dewi, ond camsyniad pedd dwyn ger bron yr amgylchiad cyfeiliornus yna fel prawf o hynny. Yr wyf wedi awgrymu o'r blaen mai ychydig o bwys sydd i'w roddi ar gywirdeb y nodiadau; a dylasai y gorchwyl gael ei ymddiried i rywun cyfarwydd â'r holl fanylion.

E. I.—Yr wyf yn deall yn awr pa fodd y bu, ac yn ddiolchgar am yr eglurhad. Dyfynnais yr ymadroddion o draethawd arobryn gan un o lenorion Lleyn, a rhyfedd na fuasai y beirniad, Eben Fardd, yn gwneyd sylw ohono. Dylasai hyn, mae'n wir, gael ei gywiro pan ail argraffwyd “Blodau Arfon,” oblegid cyhyd ag yr erys fel y mae, bydd ereill yn agored i gael eu gamarwain yr un modd.

Cato pawb! Dyma ni yn ymyl y Gaerwen, cartref y bardd! Gan fod y lle bron yn ardoedig gan goed a phrysglwyni, ni feddyliais ein bod mor agos iddo. Aroswech, Taliesin, yr wyf yn teimlo iâs o fferdod yn cerdded dros fy holl gorff, am i mi arfer ymadroddion mor hytion, tra yn sangu ar y llannerch a gysegrwyd gan yr awen danbeidiaf a lewyrchodd yng Nghymru eriaed. O, yr hen Gaerwen enwog! Er nad wyt ond amaethdy digon diaddurn; eto ti a fyddi mewn coffadwriaeth anfarwol yn anfarwoldeb y gŵr a roes anrhydedd arnat. Sefais o flaen thâl o balasau gorwychaf Prydain Fawr; ond heb deimlo y fath gyffro a gostyngedd rwydd ag a deimlaf yn awr o flaen y muriau diaddurn hyn. Ymddengys fel pe byddai popeth yma wedi ei ysbrydoli. Eiddunaf faddeuant yr angel gwarcheidwad ol am fy rhyfyg yn sathru y llannerch gysegredig hon. O na fyddai fodd i mi gael golwg ar y bardd, gan mor gryf yw y dymuniad, sydd yn fy meddwl am gael gweled pob gwrthrych ag y byddo enwogrwydd yn perthyn iddo.

TAL.—Dichon mai un o weision duwies yr awenau, fel y dywedir, yw yr angel gwarcheidiol sydd yn gwylio y lle yma; ac o'r braidd na thybiwn ei fod wedi cyffwrdd â chwi & blaen ei aden; canys gwelaf fod eich pen yn rhy frwd, weithian, i feirniadu amgylchiadau a helyntion bywyd y bardd, y mae yr olwg ar ei gartref syml wedi rhoddi eich ysbryd ar dân. Yr wyf yn gweled fod natur megis ar noswylio—yr awel yn ymsymud rhwng brigau'r coed gyda sain drom ac wylofus, a phrydyddion y dail yn araf-ddynesu i'w lletyau yn y twmpathau drain tew-frig sydd mor ddymunol ganddynt, ac mae'n bryd i ninnau ymadael, o leiaf am y tro hwn.

E. I.—Na! na! na adewch i'm byrbwylldra dorri ar yr ymddiddan sydd mor bleserus ac addysgiadol, i mi beth bynnag, eyn bod llwyr angenrheidrwydd am hynny. Gwelaf i Dewi gyfansoddi ei awdl odidog ar Amaethyddiaeth yn fuan ar ol yr amgylchiadau fu dan sylw gennym; ac ymddengys i mi fod ffawd megis yn gwenu arno, ac fod ei dalent, y tro yma, yn cael y sylw a'r clod a deilyngai.

TAL.—Nid oes gennyf ddim i'w chwanegu at a geir yn y Cofiant am y gystadleuaeth hon. Dyma a ddywed Sion Wyn o berthynas iddi,—“Yn y flwyddyn 1811 y cyfansoddodd ei awdl ar Amaethyddiaeth, yr hon a enillodd yr anrheg yn Eisteddfod Tre Madog. Ymwelodd â mi yn ol ysgrifennu rhan ohoni, ac wedi iddo yn garedig amlygu ei ddymuniad ar i minnau ysgrifennu rhywbeth ar y testyn, efe a sylwodd,—‘Yr wyf fi yn edrych arno fy hun yn orchwyl lled fawr, ac, o ddywedyd y gwir i ti, o nerth braich ac ysgwydd y gwnaethum yr hyn a ysgrifennais ohoni hyd yn hyn.’ Ond er na chafodd ond ychydig wythnosau o amser i gyfansoddi yr awdl honno, a hynny yng nghanol trafferthion y cynhauaf, eto ymddengys iddo ymaflyd yn y testyn, a'i drin gyda deheurwydd neilltuol; treiddiodd yn ddwfn iddo, a chanfyddir yn amlwg fod ei alluoedd yn gweithredu mor gryf ac egniol yn yr awdl hon, ag y gwelwyd hwynt braidd ar un amser.”

Yr oedd rhai o feirdd enwocaf Cymru yn y gystadleuaeth hon, megis Gwallter Mechain, Twm Pedrog, ac ereill; a'r beirniad oedd Dafydd Ddu o Eryri. Ni amheudd neb nad oedd awdl Dewi yn rhagori; ond er hynny, nid aeth yr amgylchiad hwn heibio heb beri siomedigaeth i'r bardd. Yr oedd efe megis wedi ei dynghedu i ryw brofedigaethau neu gilydd mewn eysylltiad â'i holl ymgyrchoedd cystadleuol. Y tro hwn, siomwyd ef am ei wobwr, wedi iddo ei hennill. Pa fodd yr ymddyddodd y boneddwr haelfrydig felly ni chafwyd, hyd y gwn i, un eglurhad boddhaol. Barna Cynddelw, ar sail rhyw frawddeg a ddyfynna o lythyr Twm Pedrog at Dewi Wyn, fod y Gwyneddig-

ion wrth wraidd hyn. Ond, yn fy myw, ni welaf fi un prawf yn y frawddeg, ac ni ddeallodd Dewi Wyn mohoni felly; onide buasai wedi cernodio y Gymdeithas am hynny. Nid oedd y fynno y Gwyneddigion ddim â'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn Nhref Madog—yr oedd honno ar draul W. A. Maddocks, Ysw., yn gyfan-gwbl; a dichon mai esgeulustra neu anghof oedd yr unig achos na chafodd Dewi y mwynhad o dderbyn y gwpan arian. Mae yn digwydd bod gennyf lythyr yn llawysgrif frysiog Dewi Wyn at Sion Wyn, yr hwn sydd yn cadarnhau y ffeithiau a grybwyllwyd eisoes, ac yn dangos mai tua mis yn unig a gafodd efe i gysoddi y fath arwyrain faith ac ardderchog; a chan nad yw y llythyr ond byr, cyflwynaf ei gynnwys i chwi gyda chymaint o foddineb ag y darfu i mi ei dderbyn. Dyma fel y mae,—

Fy Nghyfaill hoff,—


PWLLHELI, *Awt* 19, 1811.

Bu, ac y mae, yn ddrwg iawn gennyf na ellais gaffael darn o ddydd-gwaith i ymddiddan â thydi; gan na welaf un cyfleustra yn y dyddiau canlynol i mi ddyfod hyd yna, yr wyf yn anfon y llen hon i hysbyseu it fod Eisteddfod Beirdd wedi ei chyhoeddi i fod yn Nhref Madog, ar yr 20d dydd o Fedi nesaf,— y testyn yw Amaethyddiaeth neu Hwsmonaeth. Yr anrheg a fydd Cwpan Arian. Er fod yr amser yn fyr hynod, yr wyf yn meddwl fod amryw yn canu. Nid wyf yn ameu pe baid tithau yn cysoddi awdl fer, goreu po goreu, na ddangosai Mr. Maddocks ryw haelioni i ti, myfi a'i cefais yn ŵr hael. Os byddaf byw ac iach, mi ddeuaf yna cyn hir, i edrych a fydd gennyf ddim at yr Eisteddfod.

Yr eiddot,

D. OWEN.

Oddiwrth y llythyr yna, gwelwn ddarfod i Dewi ymweled â Sion Wyn, yn ol ei air a'i addewid, er ei fod ar ganol cysoddi ei awdl, ac megis â'i ddwyllaw yn rhwym wrth orchwyllion dyfal masnach; ond, fy nghyfaill ieuanc, rhedais i fwy helaethrwydd nag a fwriedais, rhaid i ni ymadael. Gwelwch mor gyflym y mae llenni'r hwyr yn ymdaenu dros y ffurfafen; a chyda'r nos, llwythir eich meddwl gan syniadau pruddhaol, a theimladaeth siomedig yn yr olwg ar wywder, methiant, a darfodedigaeth gwrthrychau byd daearol. Yr ydym yn ymadael heno yng ngolwg cartref y bardd—lle a fu, sydd, ac a fydd yn enwog tra byddo ein hen iaith yn cael ei siarad rhwng mynyddau sir Gaernarfon. Amhosibl atal i ryw feddyliau gwibiol alw i gof amgylchiadau pruddglwyfus, mewn lle fel hyn. Bob tro yr af heibio i'r fan yma, llenwir fy meddwl gan filoedd o adgofion hiraethlawn am Dewi Wyn; efe oedd canolbwynt yr holl enwogrwydd sydd yn glynu o amgylch y Gaerwen. Yr wyf yn edmygu hyd yn oed yr hen feudai syml a diaddurn yna, am fod eu hanes yn gymhlethedig i'r fath raddau â hanes ei fywyd ef. Yr wyf yn hanner addoli y neuadd acw, lle y rhodiar ol a blaen i borthi gwanc ysol ei glefyd. Nis gallaf oddef byw, ond mewn anesmwythdra rhyfeddol, yn yr ystafell wely acw, y lle yr aeth angeu â newydd da iddo, bod dyddiau ei boenedigaeth





wy pery clod na
li ei wasgaru; ond
y fan.

E. I.—Yr wyf
yn teimlo y fath
ddydd ordeb
dwin a chyn-
hyddol ym my-
wyd a helynt-
ion y bardd
enwog, fel nas
gwn, yn wir, pa
fodd i ollwng
gafael o'r pwnc,
er fod cysgod-
au yr hwyr yn
amgau o'n ham-
gylch yn brys-
ur.

TAL.—Mae'n
llawenydd cal-
lon gennyf eich
bod felly; gan
hynny, ym-
rwymaf i'ch
cyfarfod eto ar
y llannerch
yma wythnos i
heddyw, os
byddwn byw
ac iach. Lith-

bardd, ar ol budd-
gofiadwy Dinbych,
nes ei fywyd. Eto,
yn, eithr parhâi i
wb o'i amgylch â'i
rychau tlysiion y
cynhesu, goleuo, a
rhyw drem fras-
ffraeth, ei atebion.
i ni ar gymeriad
urno ar achlysuron
yfarfyddiad nesaf,

fy nghennad, gan



I.

canu iddo na'i fyro.

laioni,—adfywied
glodfori; ...

an i ti
yf o d'enwi.

hwydd iawn yw—

n uchelryw;
atur' ydyw
a dy fyw.

fad egwyddor,—

armor,
er fy lor,—drwy

yn fyw ar d'allor.

—ni pherthyn—
i'n 'hen ddyn;"
yw pant hunan
pedwar ban;

rydiau mwynhad,
read

'murmrol,
n yn ei gol.

gloi

Eithr rhin hunan-aberth red
 Allan—fel hunan-golled—
 I ffrwd wen, cyffredinol
 Dda i bawb rhwng y ddau bôl.
 Ei ddawn o Dduw ei hun ddaeth,
 A rhin uchaf teyrnachaeth
 Daioni'n ei wythi ef
 A'i nodwedda mewn dioddef.
 Cariad yn ei darddiad yw,
 Ac o'i nod y cawn heddyw
 Win phiol aberthol boen
 I wan ŵr yn troi'n orhoen ;
 Dedwyddwch ydyw dioddef,
 A rhoi yn wir yw ei nef,
 Os ceir drwy loesau cariad
 I arall llesg ryw wellhad.

II.

Hunan-aberth yn natur.

O'r egwyddor agweddu —eilfyddol
 A fedd y cysawdiau ;—
 Rhoi'u hunain mae'r wybrennau—i'w gilydd,
 Hyd wyrdd heolydd pelydrwedd heuliau.
 Y ddaear hyfwyn a ddyry hefyd,
 Rin ei thymhorau, hoen ei thwym weryd,
 I filoedd angen fwynhau llawenfyd,
 Na bo yn unlle neb yn newynllyd ;
 Trwy roi'n hael troir hi'n wywlyd—yn nhranc haf,
 A cha'r hesb auaf echrys ei bywyd.
 Grawn y gwenith a geir yn egino
 Eu bywyd allan, lle bo'u diwyllio ;—
 Trenga yr hadyd i fyd gael ei fwydo,
 A'r hunan-aberth dry newyn heibio ;
 Gwisg yr had ar gwysi gro—hael ddelwedd
 O'r ddwyfol duedd, gan hardd flodeuo.
 Drych teg, neu ddameg i ddyn,
 Wele, geir drwy'r blaguryn,
 I weled allanolion
 Cyrrau bri y pwnc ger bron ;
 Eto'i hanfod at-dynfawr
 Sydd o ryw rhy fyw, rhy fawr,
 I'w eneidio mewn hedyn,
 Na, hawlia'n deml galon dyn ;

Rhaid wrth fron i guro'n gel,
 Waed o âch bywyd uchel,
 Er dirnad y teimlad da
 Mor hollol a'm haralla.

III.

Caniad yn creu hunan-aberth.

Awn i deml cydymdeimlad—âg angen,
 Ac ingau y cread ;
 Nid agora'r digariad
 Borth aur hon â'i ebyrth rhad.

Yn nheyrnas greddf rhyw ddeddf dda,
 Hael, drwy waed milod reda ;
 Pob edn-fam, rhag cam i'r cyw,
 Hunanwadol iawn ydyw ;
 Traserch y fam betrisen
 Argoela'n wir galon wen
 Pan lesg hed yn darged i
 Adarwr didosturi,
 I'w chywion bach yn y berth—ymguddio—
 Hyd yr el heibio—ar drael ei haberth ;
 Gwaedu wnai i gadw nyth
 Ei heiddilaidd wehelyth.

Ond, tu arall, brwnt eryr—a welaf
 Yn hwylio trwy'r wybyr ;
 A llygad rhaib hyll egyr—uwch baban,
 A'r unig druan a gwyd i'r awyr.

Fry i'w nyth tan hofran a,—ac uthredd
 Ysgythrog a chwardda
 Wawd awyrfyd ar dyrfa,—tra na fyn
 Ungwr ei ddilyn,—pob grudd a welwa !

Nos hapus i fwynhau swper—peraidd,
 Ar y purwyn tyner,
 Ddisgwylia cordd ysgeler—eryrod,
 Yn ddifrawychdod, yn noddfa'r uehder.

Yn araf, greulon eryr !—maidd arall
 Fam-ddewredd yn bybyr
 Esgyn, tra y gwelwa gwŷr,—lluiddia'th fall
 Ystryw, aniwall omesteyrn awyr.

Yn bur iach ca'r fam i'w breichiau—'r baban,
 Tra heb wybod ofnau ;
 O ! mae fel yn ymhyfhau—~~gan~~ fywyd,
 Wrth wyro i sengyd serth risiau angau !

Yng nghyfoeth serch anghofiodd—ei hunan,
 A'i heinioes ddibrisiodd;
 A dau fywyd a fuodd—gwobr fawrwerth
 Yr hunan-aberth mor ewn wynebodd.*

IV.

Methuon y gwobr.

Natur ddwyfol hunan-aberth.

Ha fannolredd,—moler hon; ei hanes
 Yw hunan roi'n gyson;
 Ac yn frwd, drwy sugn y fron,
 Y gwachulaf ga'i chalon!

Nid greddf, er hynny, ond gras,—aiff yn hael
 Dros fin-waliau cytras,
 I waed wythi cymdeithas,
 I luddio cur, i ladd cas.

Ac hyn yw creiddbwnc anwyl
 Fy nhestyn;—lled edyn hwyl,
 Yn llawn o burddawn barddas,
 Gan chwa gre' o greiddle gras,—
 Yn wyl gyda'r hwyl yr af
 I'w heulog sancteiddiolaf.

I'r egwyddor agweddu—a roddodd
 "Cynghor hedd" y borau;
 Iôr fathodd, mewn arfaethau,—gyn-ddelwedd
 Cynnar o'i haeledd cyn cannu'r heuliau.

A haelaf 'wyllys, rhyw lifo allan
 Yn fywiol ynni o'i ddwyfol Hunan,
 Bu Duw ar ofod yr uthr bedryfan,
 Er rhoi i dlodi y gread lydan;
 A thonna fyth o'i nef fan—adnoddau
 Môr, i wythenau amrywiaeth anian.

Yr Hwn ei hun wnai'r nenau,—wnai â'i air
 Aneirif hunanau
 I redeg yn rhyw ffrydiau—aberthol
 I'w fawl yn ol o filiwn o heuliau.

Ef yw'r Hunancyfriniol—sy'n einioes
 I hunanau meidrol;
 Er ei hun mor mor wahanol,—rhyw fedru
 Llwyrr ymarallu i roi mae'r Hollol.

* Chwedl Ysgotaidd.

Ond wele'r ymgawdoliad
 Agorai stor gras y Tad
 I'w gwaelodion,—gweladwy
 Yn y Mab ei galon mwy;—
 Rhoi'r Mab bia bob bywyd,
 Er yn FAB, i farw'n ei fyd
 Dros elyn du, roes haeledd
 Iôn i ddyn mewn newydd wedd.

 Y difai hefyd o'i fodd
 A yfodd ddiodeffaint
 Nes gwaghau cwpanau poen;—
 Caled, ddiarbed ddirboen
 Y chwys, a'r ymdrech iasol,
 A'r fagddu fu'n gwanu'i gôl;—
 Briw y cusan bwrcasiad
 Swynai bres o wyneb brâd;—
 Y gwawd a'r euog wadu
 Yn offer lladd gaffai'r llu;—
 Yr hoelio a'r gwanu creulawn
 Ofynnai deddf i wneyd iawn;—
 O! dyma'r aberth, gwerth gwaed
 Y Rhoddwr;—dwyfol ruddwaed—
 Na fedr y pennaf adrodd
 Eitha'r ing, na gwerth y rhodd.
 Wrth roi iawn trethai'r Hunan
 Feddai'r oll i fuddio rhan;
 Gan agor caudad ddorau
 Ystor gras i drugarhau,—
 Drud haeddiant i rai didduw;
 O waelod aig golud Duw.
 Fy enaid! O fy hunan—anheilwng,
 I'w wres ymollwng mewn gras mwy allan.
 Arddun fedredd anfeidrol,—Trindod, trwy
 Wendid tranc y dynol,
 Adrodd ofid rhyw ddwyfol—ymwadiad
 Yn fywyd o gariad i fyd gwyrol!
 Llefara'r gwaed llifeiriol—am yr aig
 Sy 'mron y Tragwyddol
 Yn tonni haeddiant iawnol
 I'n dwyn i hedd Duw yn ol.

 Yn mhob dafn mae bywyd Duw
 Yn troi poen yn hoen i ni;—
 Aig o ras i euog rai—
 Ie, dwfn aig—pob dafn yw.

V.

Dioddef yn fywyd hunan-aberth.

Am werth pob aberth, lle bo,
 Dioddef sy'n fywyd iddo,—
 Dioddef ysbeiliad eiddo,—a iechyd,
 Er i'r 'achos' lwyddo;
 A diodde'n gwaradwyddo,—dros y gwir,
 Ie, o'n lleddir, pan fo'n well iddo!

Ein hoff Waredwr ai'n offeiriadol,
 O fawr ingau yr allor gyfryngol,
 A gwaed dioddefaint yn deyrnged ddwyfol,
 I Naf ei orseddu yn ei fri swyddol;
 Yn was hyd angau, mor ymostyngol
 Fu, i'w addfedu i'w fraf ddyfodol;
 Drwy y peiriau darparol—cymhwyswyd
 Y fron a wanwyd i'r sedd frenhinol.

At bwy, ond ef mwy, am hedd,
 Y nesaf?—pur hynawsedd
 Cyd-deimlydd, ar dywydd du,
 Sy dan ais y dyn Iesu.
 Y groes gerth, mwy'n brydferth bren
 Geir, a choed gorwych Eden
 Yn dlodion, dail-wywedig,
 Byrion dwf, wrth bren y dig;
 Er pan drefnwyd, godwyd gwerth
 Hwn, i ddiben hedd aberth;
 Pa ffrwyth gawn fel grawn y groes?—
 Hwn rydd hoen, hwn rydd einioes
 I lwgr enaid, wael grinai
 I dân anwn, dan bwn bai.
 Y gras ddaw o'r groes i ddyn
 Osoda bob croes wedyn
 Dan ei draed,—enaid rodia
 Yn ddi-gwyp, trwy'r 'stormydd ga,
 Ar sarn o groesau i hedd,— ac elw
 Yw'r rhain o'i farw i'w hen oferedd.

Dioddef yn holl gystuddiau—ei frodyr
 Wna'n haelfrydig Feichiau;
 Rhyfedd ing yr ufuddhau
 A'i rhyngom ni a'r angau.

Rhy isel aeth yr Iesu—dan weli
 Dynoliaeth yn pechu,
 I un ddofn demtasiwn ddu,—brofa dyn,
 Yrru ei gwenwyn yn is na'r gwanu.

Rhydd dyfnder diodde'r Duw-ddyn
 Fraich mwynder is diodde'r dyn ;
 Mwynder yn gryfder, drwy'r groes,
 Yw'r dawn i wared einioes !

VI.

Aberthu fel yr Iesu.

Yn wybyr hunan-aberth
 Ein haul yw yr iawnol werth.

Ser enwog asur Hanes—adwenynt
 Dywynion ei heuldes ;
 Ac han pob teimlad cynnes,
 Rhydd i roi, a dardd o'i wres.

Y teilwng apostolion
 Ymlaen res miliynau'r Iôn,
 Efo'r Oen, fu arweinwyr,
 Y merthyrol, wrol wyr
 Wynebynt ofyn aberth,
 Prawf y tân, yn eitha nerth
 Ei angerdd, i fynd rhyngddynt
 A gras tywysog yr hynt.
 Hidl waed eu Crist hoeliedig
 Yn rhoi y ddawn heria ddig,
 Ddaliodd Pedr ddiludd, a Paul,
 A'u rhes brodyr ysbrydol,
 Yn nydd eu dienyddiad.
 A'u gwaed hwy i godi hâd
 I'r eglwys, yn mheryglon
 Gauaf y dig, fwydai hon.
 Profent yn ngwynneb Rhufain
 Rinwedd yr erch goron ddrain
 I berlu coron burlan,
 Goludog urdd, gwlad y gân ;
 A mawr fu dydd ymwarded
 Arweinyddion cryfion cred.

Byw Crist yn ngwynneb croesder—ystormus
 Dirmyg, a chreulonder
 Y diafol, a'r byd ofer,
 Wnai y twym' ddisgybillion ter.

Yfed o ysbryd ufudd—eu Blaenor,
 Yn mhair blinaf cystudd,
 A'u daliai'n arwyr diludd,
 Trwy ing prawf, trwy angau prudd.

Hoff lu, o danau Smithfield, dywynnant—
 Er du wg anwn—wrid o ogoniant,
 Sydd fyw o Iesu!—hwy oddefasant
 Ei wawd yn wrol, tra'u gwaed yn warant
 Arwyddol o'i wir haeddiant;—hyd drengu,
 I 'mroi i Iesu'r fflamau heriasant!

O! 'r etifeddiaeth o helaeth olau
 Gawsom yn eiddom!—pur wirioneddau
 Duw, a'i gyngor am fywyd ac angau,
 A gwaed a brynwyd!—i gadw breiniau
 Y ddwyfol Lusern yn ddeddfol oesau.
 Hunan wâd ydoedd ffordd ein hen dadau;
 Aethant, drwy lid erlidiau,—'n fuddugol,
 Er eitha unol carchar a thanau.

Drwy gollu 'u heinioes, i drig llawenydd
 Aent ar eu hunien at eu Harweinydd;
 Ar hunan-wywiant, yr anian newydd
 Fywiol eginai at nefol gynnydd;
 Edwa bywyd heb awydd—mynd allan
 I foddi ei hunan yn ei Feddiannydd.

Cadw'r ffydd ar dywydd du,
 A gwronedd digrynu,
 A hunan-wâd cariad ddug hedd;
 Ac ar lennyrch creulonedd
 Rhosynau gras yn eu gwrid
 Wasgar heddyw fwag rhyddid;
 Hadau gorau brawdgarwch,
 Wedi y lladd, doa'u llwch;
 Ha! gwanwyn, eyn ein geni,
 Ddug ffaeth gynysgaeth i ni.
 O freintiau, a'u golau gwir
 Yn fendith pum cyfandir;
 A grawn y myg wirionedd
 Addfeda'n braf yn haf hedd;—
 Cnwd penna cynhaua'r nef
 Hauwyd iddi'n âr dioddef.

Ymdorraï grym drwy y groes,
 I lydanu'm tlawd einioes;
 Drwyddo 'rwy'n byw mwy, 'mhob man
 O hyd a lled byd llydan;
 Rhyw ddylanwad rhydd leinw
 Hanes dyn â hoenus dw';

A chodwyd byw'r pechadur
 I fyw peth ym mhob peth pur,
 Trwy aberth,—try nerth ei nawd—gynyddol
 Yn fywyd asiol â'r holl fydysawd.

VII.

Aberth milerio dros grefydd a gwlad.

Y cenbadwr arwrol
 Ad wên gwareiddiad o'i ol;
 Ac, yn aberth, gwyneba
 Ormesol hin a blin bla,—
 I anialwch dynoliaeth,
 Yn nwf'n falldod cyfnod caeth
 Hirnos ei chyfeiliornad,
 Rhydd ei ddysg wawr, o ddyddhad
 Bywyd a'i wyneb ieuanc,
 I'w natur hen sy'n min tranc.

I filwr hyf eilia'r oes
 Nadd-ogonedd, i gannoës
 Allu gweled daled oedd
 Ei ddawn i drin byddinoedd.
 Mynag-arfwaith maen gerfiawl
 Gawn fyth i ddatgan ei fawl.
 Dros ei wlad hunanwadu,
 O ryw fath, lawer a fu;
 Ond Ah! arfod ei erfyn
 Adawodd wae i'w gyd ddyn;
 Ac hwyrach, er concweru
 Hwnnw'n deg, fod hunan du
 Fyth yn dal yn ei galon
 Yn gawr-feistr ar gaerfa hon;
 Ac er seiniau clychau clod,—
 Rhufon arfau anorfod,
 Troa gwir ystyr y gân
 Yn acenol dinc hunan,
 Wira aberthu arall
 Yn iawn i fost anian fall.

Ond arwr cenadwri
 Y nef yw'r arwr i ni;
 Hwn, â than gwroniaeth wir
 Drwy waed enaid drydanir,
 Nes rhoi o hono'i hunan
 I Iôr yr oll—nid rhyw ran—
 Aberth byw o werth i bawb.
 Lletach, hirach nag Ewrawb

Yw y 'plwyf' sydd yn y 'plan,'
 I'w ewylllys fynd allan,
 Yn swynion o wasanaeth
 Leiha'r cur i lawer caeth :
 Ie, ryddha 'rhain ryw ddydd
 Yn wobr enaid i'w Brynydd.

Mae aeth hir am fam a thad—tirionaf,
 Yn trywanu'i deimlad ;
 Ond, â thes eu cymdeithasiad,
 Am wên un mwy, hunanymwâd.

Torri'i gyswllt !—rhwygiasol—yw'r gwahân
 I'r gynneddf wladgarol ;
 Ond myg gariad mwy gwrol
 A baid er neb droi yn ol.

Yn ei fynwes tyn-faenol—yw rhinwedd
 Yr anian ddyngarol ;
 Os o groes Iesu grasol
 Y daw'r nerth, nid oes droi'n ol.

Rhyw rym cudd, drwy'r ymwacâd
 Dwyfol, fag wrol gariad
 I was tru— fel ei feistr ef—ddal trallod—
 Yfed ei wermod hyd waddod dioddef,—
 Cwrdd creulonder trawsder trwch
 Anwariad â thynnerwch ;
 A lladd y'mron y lleiddiad,
 A gwên, bob gwenwynig had,—
 Hael wên a ladd elyniaeth
 Adyn heb wneyd neb yn waeth ;
 Fel haul ha' dawdd ia yn ddwr
 A'i deg wenau digynwr.
 Gras yw erfyn y dyn da,
 Er ei fawl, i ryfela ;
 Drwy hyn i gyd rhin a gwerth
 Ei boen dybia nod aberth ;
 Pan i gâs gras digroesaw
 Fo'r hael werth brofir o'i law,
 Yn ei waed adyn a olch
 Ei law ddu, fel ei ddiolch !
 Ow ! am dda, dyma ddial—brawf inni
 Wyll a thrueni llwythau yr anial.
 O ! mae yngan Eromanga—yn dwyn
 Dyn Duw, a dyhirdra
 Ynyswyr Polynesia,
 I go prudd ;—yn rhawg farha

Gwledd ystaen a gloddest hyll
 Rhaib bwytafyr byd tywyll,
 Yn ystaen o hanes du
 Ar fygddwl fâr y fagddu ;
 Gwaed calon cenhadon hedd
 Wiriona'r fall ddi-rinwedd ;
 Hyn yw y moddion i'w meddwi,
 Digon o waed yw ei gwin hi !
 Enwau arwyr aneirif
 Roed i'w lladd, dorrwyd â llif,—
 Dreuliasant ystor loesau
 Holl fâr ing, heb eu llwfrhau ;
 Rhy liosog enwog ynt
 I ddilyn eu prudd helynt ;
 Ni all iaith roi ar ein llen,
 O'u bywyd gofeb awen,—
 Hynawsaf gymwynaswyr
 Roes anwaraidd ddi-afiaidd wŷr
 Yn ebyrth, drwy anwybod,
 Dan ŵg eu duwiau di-nod.

Ond nerth cariad rhad ein Rhi,—yn ei saint,
 Mae nos ing yn brofi ;
 Ar waetha'r fall,—angall hi—
 Lleda ennill daioni.

Drwy ddarllen y ddalen ddu,
 Daw y wen i dywynnu
 Y llewyrch da drecha'r drwg
 A'i deg haeledd digilwg.
 Digon yw dweyd y gwna dal
 Trueni plant yr anial
 Yn y drych, i galon drem
 Weled—fel gynt uwch Salem—
 Apeliad at deimlad dyn,
 O ymdoddawl drem Duw-ddyn,
 Am godi'r tlawd frawd di fri
 At ystyriaeth tosturi.

Os cas a fu'n trais geisio—dial waed,
 Hyd wledydd y Congo ;
 Ha ! gwaed yn gwrthergydio
 Ddaw i ladd ei ddial o.

Gwaed aberth yw'r gwerth dry gâs
 Yn gariad fflamiog eirias.
 Nawd brawd yn di-baredu
 Y nawd wahan "wyn" a "du,"

Brofir pan y teimlir/tân
 Hwn ynnom; tawdd ein hunan
 Yn hoff lif i chwyddo'n fflwch
 Bur waed goreu brawdgarwch;
 Ac o'i nodd y cawn heddwch,
 Dry'r cledd dur, segur, yn swch,
 I aru dôl, i'r had da
 Wneyd drych hon fel derch wynfa.
 Pa ddyn o fil—pa ddawn ferth—
 Ardeba gariad aberth
 Yn y ffrwythlon dirionedd
 Wna fyd dyn yn hafod hedd?

Pwnc a nod poen cenhadwr—yw dwyn byd,
 Enbydus ei gyflwr,
 Yn glyd oll, i ddiogel dŵr
 Y nefol Gynhauafwr.

VIII.

Ffrwythau hunan-aberth.

Hynawsedd haelionusaf
 Hunan-aberth, trwy nerth Naf,
 Geir dan bwysau beichiau'r byd,
 Yn dof gydfyw âg adfyd.
 Ni fu 'Och 'un afiechyd
 Na cheid o'n galon i gyd,
 Am iachau dwfn friwiau'r fron
 A'i olewaidd elion.
 Dymn glefyd gwahangleifion
 Ni lwfrha ei ddynol fron;—
 Na! beiddiodd anwybyddu
 Adwy'r ddofn agendor ddu
 Wahan rhwng y byd a hwy,—dorf ysig,
 Yn gnawd-friwedig anadferadwy.
 Yn rhith byw, eu nerth yw bod
 Yn gas boenfawr gosb hanfod,—
 Swm o adwyth symudol,
 Heb wawr hedd—mae'r byw ar ol!
 Ond dacw'r aberthwr byw—
 Onid "tad" ar hynt ydyw—
 Yn y cais o ddwyn cysur,
 Leddfa gwynion caethion cur.
 Cariad cydymdeimlad Ion,
 Ar nos y truenusion
 Wawria ddydd, er hir ddioddef,
 Drwy ei ddawn pelydraidd ef,—

Byd o obaith byw diboen,
A haf o dragwyddol hoen.

A ! Damien, drwy'th rawd yma,—ardeb
Ddrud aberth Calfaria,
Megis awgrym gysegra—fyth dy glod—
Daear, o'i wybod, a'i diarheba.

Yn dyner, drwy dy enwi,—daw i gof
Fywyd gwyn yn profi
Wneyd o'r nef ein daear ni—yn fraenar
I Iesu hygar ymluosogi.

Nid a 'mroad mor eon
Er lleshau ereill, o son ;
A'th farw'n brawf-sel welaf—o fywyd
Yn gry o iechyd pur y Goruchaf.

IX.

Aberth bywyd pob dydd.

Yn awr tynner at hanes
Y ddawn hael mewn arwedd nes ;
Ys ceir hon yn gwasgar hedd,
A'i naws amlwg yn symledd
Yr aelwyd, gan reoli
Er dwyn nef i'n haddef ni ;
Hon sy wyl yn iseledd
Bwthynod a'i nod yn hedd,—
Ei dawn hael yn nhai di nod
Heol gefn hawlia gofnod.

Yno gwel Gabriel ei gwerth,—a'r ffrwyth da,
A'i bin gofeba yn guaf aberth.
Ni saif i ddangos ei hun—er temtio
Dawn i orhoio ei bod yn rhywun ;
Hunan fost i'w haniau fad
Nid yw ddim ond diddymiad.

Drwy y wlad, ar aelwydydd,
Heb ei dawn yng ngwaith pob dydd,
Rhyw fywyd bach crebach croes
I ddyn a fyddai einioes.

Rhyw ias oer yn rhewi serch—goreu gwlad,
Ydyw tlawd asiad y teulu di-serch—
Nas doniwyd â'r gwres danwydd—dodda'u bron,
Yn fwy o galon, i fyw i'w gilydd.

Ond ar aelwyd reolir
Gan deimlad o gariad gwir,

Seiliau cymdeithas welaf
 Mewn aberth, a'i nerth yn Naf.
 Cyfrifoldeb ieuol undeb
 I wael wendid,
 Wna gymdeithas yn gu deyrnas
 O gadernid.

I'w rhai bach, ar ddechreu'u byd,—rhieni
 Gyfrannant eu bywyd;
 I'r un gwan rhoi'i hun i gyd—wna'r fam, fal
 O ddiwyd ofal am eiddo deufyd.

Ei nodwydd a'i gwniadur— a noda
 Hunanwadol lafur
 Er eu mwyn,—O! pwy'n fwy pur?
 Nid oes wag funud segur!

Mewn gofal dyfal bob dydd,—arweinia'i
 Rhai anwyl at grefydd;
 A'i chred yn ei Chreawdydd,
 Iddo'r oll mewn gweddi rydd.

Tyaid o blant i'r tad, blin—ei lafur,
 Dan aml ofwy'r ddryg-hin,
 I ni feddwl gryn fyddin—o rwystrau
 I gadw eisiau draw rhag y 'dwsin.'

Diboen i'w fryd yw aberth,
 O iachus nwyf, a chwys nerth,
 Er ennill i'w rai anwyl
 Gartref clyd a hyfryd hwyl;
 Canwyll llygad tad ynt hwy,—
 O! ni edir un adwy,
 I groes wynt arnynt chwyrnu,
 O fyd haint, yn ofid du,
 Os medr cariad tad, o'u tu,
 Trwy einioes, eu tariannu.

Dyma'r fawr egwyddawr gu
 A droes dylodi'r Iesu
 Yn rym i agor, megys,
 Dôr cyflawnder llawer llys
 I'w haur 'stôr, o isterau
 Hunan foeth, ddryllio'r cronfâu,
 I ffrydio i'r cyffredin
 Y llif hael ddiwalla fin
 Llauer 'rhaid,' yn lle rhydu'n
 Mannau rhwysg i ddamnio'r un.

Us yw pyrsau heb *berſon*
 Efo'r aur, yn nghyfri Ion;—
 Mae eisiau'r firwd o firwd fron
 I waed dreiddio neint rhoddion;
 Lled ddiwarth yw'r aberth rhwydd
 O ledred dideimladrwydd;
 Gau gariad, rhy rad i'r Ior
 Y 'gweddill' diegwyddor:
 Na, ad 'w'lyſ mo'i doli
 Megis rhan o'n hunan ni;
 Hawlio gwaed i selio'i gwerth,
 Tybir, mae gwarant aberth.
 Ond rhing y ddwy hatling hen
 Sy' newydd swyn i awen;
 Hael ged anwyl!—gwaed einioes
 O'r un gwraidd a rhin y groes,
 Rywfodd, anfarwolodd fri
 Dy oludog dylodi!

Ti hynaws weddw fud hanesyddol,
 Uwch teulu angen, drwy ddrych hatlingol
 Dy 'stad amddifad, welai'r drem ddwyfol
 Yn bennaf aeres cofeb anfarwol;
 Hael orchest adlewyrchol—bron ar dân
 Yn rhoi ei hunan oll, nid yn rhannol.

Os o'u trysorau rhyw ruddaur roddion
 Ag afiaeth ddyga'r beilch gyfoethogion;
 Tybir rhoi golud, heb roi y galon,
 Yn rhin a hawlia eu cyfri'n haelion:
 Am eu degwm eu digon—o fawl gant,
 Y dogn eiddunant yw'r 'gweld gan ddynion.'

Eto yn ofer am glust y nefcedd
 Y rhown â thwrw arian a thiroedd;
 Trengu mae talent rhing y meteloedd,
 Onid yw'r galon yn ei dirgeloedd;
 Ac awyr-gloch y cyhoedd—yn fyr syrth
 O gael eu hebyrth i'r dwyfol glyboedd.

Ond dyma weddw brin ei hadnoddion,
 Yn mhlith y dyrfa nesâ i Seion,—
 Delwedd eisiau ar ei dwyael ddwysion
 Arwydda 'stori brudd ei hystyron;
 Er hyn, i'w Harglwydd, mor rhwydd ei rhoddion!
 Dyrcha'n ei haeledd ar drai'i chynilion;

Rhyw foddi miwsig aur pendeffigion
 Mae'i hatling ola'n myd hael angylion ;
 Aur i chwiliwr ei chalon—yw'r haeledd,
 Yn dweyd o'i hagwedd, "A Duw a digon."
 Ond gloddest moethau plasau pleser,
 Ac aur, tai, tiroedd, yw nefoedd nifer :
 O flaen y Dwyfol, enw'u duw ofer
 Yw "da anwadal y byd" yn hyder ;
 Yn lle nawdd tan asgell Ner,—Tŵr Hunan
 Yw adail simsan hudolus amser.
 Ond am bob mwyniant ddaw'n nes na Iesu,
 Bendigedig boen ydyw eu gadu ;
 O'n mewn ein henaid wna'i ymnewynu ;
 A'u myned rhyngom a Ion yw trengu ;
 Ond cawn y "can cymaint" cu—'n bresennol,
 Yn amodol mewn hunan ymwadu.
 Ond er rhiaint, ceraint cu,—o fy mhlaid
 Daw angeu enaid o 'ngwahanu
 A'r Undod dry wendid y rhan—yn nerth,
 O fael gwiwferth, yn y Dwyfol Gyfan.

X.

Gweddî'r bardd.

Gu Iesu, bydd agosach
 Ynwy'n byw na m hunan bach ;
 Aed yr hunan dirinwedd
 Hwnnw a'i fyd—pob dawn
 fedd—
 Yn dom a cholled imi,
 Y golud oll yw'th gael di.
 Hunan goll yw hunan gais,
 Swm gofal yn siom gefais,
 I'm hunan gadw'm heinioes
 Mae hon a'i grym yn y groes,—
 Dyma rydd, i gadw 'mrawd,
 Ynni Ion drwy'm hanianawd ;
 Rhyw fyw oer o oferedd
 Yw byw i'r byd,—byw i'r bedd ;
 Marw i'r byd, fo 'mywyd mwy,
 Ac i'r hunan llwgr ynwy',—
 Marw i fyw,—Ha! dyma'r fel
 Y daw iach fywyd uchel.
 Af allan o'm hunan mwy,
 I'm hael Ion demlu ynwy',—
 Os i deml fy mynwes daw
 'R Offeiriaid mawr i'w phuraw

O'i du lwgr, yn adail lân,
 A'i llenwi â'i well Hunan ;
 Af allan yn gân i gyd—"Iddo
 Ef,"
 Brofodd wae cyfanfyd ;
 "Iddo Ef" greiddia hefyd
 Acen pob iaith, cân pob byd.
 Brig cynydau aberthau'r
 byd,
 Yn haf-elfen nefolfyd,
 Wedi dydd du y dioddef,
 Fydd y pyncio "Iddo Ef."
 Rhyw ymwacau yn ngrym
 cân
 Fel hyn, i'r Dwyfol Hun-
 an
 Ein hadlenwí ni yn ol,
 O'i fwyniant anherfynol,
 Cawn, yw diben cnwd
 aberth,
 Ac onid yw'n gnwd o
 werth ?

TAFOLOG.

TH GYMREIG.

pennawd uchod, yr
wybodol na feddaf
wyster i drafod y
ac nid wyf yn am-
dd â'i ymylon, gan
diffygion i fod yn
galluocach i ymgy-
ei holl agweddau.
ym mywyd cenedl,
ra phwysig.—sydd
Dywed Schiller,—

cenedl yn rhedeg i
i argyfwng byr, y
weithreda; oblegid
eulustra mewn ys-
i lwyddiant cenedl
yd ein bod ni yng
wr, eto, braidd na
n ei pherthynas â'i
wydd wrth ystyried
m ar Gymru, ac yn
r farchnad. Mae y
Gymru gyda'r fath
ymgystadlu â hi.
dydd ar ein gwlad
a'u ffug-chwedlau
l arnom, ac eisoes
frau, fel mai prin y
ein llyfrwerthwyr.
ol-lyfrau Smith, a'r
e, ynghyd â dau neu
s i'r arolygydd a
raeg oedd ef yn ei
â'i ateb oedd, nas
thiant newyddiad-
cydmariaeth i rai
d gymeryd y ffaith
anad lenyddol yng

Nghymru; ond gallai fod yma awgrym gwerth i garedigion llenyddiaeth Gymreig ei ystyried.

Pell oddiwrthyf a fyddai dweyd gair yn erbyn lledaeniad llenyddiaeth Seisnig yng Nghymru, oblegid yn anibynnol ar y

swm mawr o ddealltwriaeth y maent yn ei gludo i'n ^{Ymseisniglad Cymra.}mysg, y mae gennym ni yr un hawl a'r Saeson eu hunain yn eu llenyddiaeth gyfoethog, am fod gwŷr galluog o'n cenedl ni wedi gwneyd eu rhan tuag at ddwyn llenyddiaeth Seisnig i'r cyflwr llewyrchus y mae ynddo yn awr. Nis gellir gwadu nad ydyw yr iaith Seisnig yn ennill tir yn ddirfawr yng Nghymru y blynyddoedd hyn; ond nid yw hynny o angenrheidrwydd yn cynnwys fod y Gymraeg yn colli tir, ac y mae gennym bob sail i gredu ei bod yn ennill bob blwyddyn mewn parthau o Gymru; eto i gyd, mae y ffaith fod yr iaith Seisnig yn ennill tir yn ein mysg yn ehangu maes llenyddiaeth Seisnig, ac yn gosod llenyddiaeth Gymreig dan ryw gymaint o anfantais i gael yr oruchafiaeth yng Nghymru.

Yn ol Jones yn ei draethawd ar "Nodweddion y Cymry," gallem feddwl mai ychydig gydag un ran o dair o'n cenedl oedd heb ddeall ond Cymraeg yn unig; ond erbyn heddyw, prin y gellir dweyd fod un ran o bedair o'r Cymry heb fod yn alluog i ddeall yr iaith Seisnig. "Mae y ffaith yn deilwng o sylw," medd Stephens, "fod yr iaith Seisnig yn ennill tir yng Nghymru, a bod mwy nac erioed o'r Cymry ieuainc yn coleddu adnabyddiaeth o'r iaith honno. Saesneg yw iaith ein trefydd; Saesneg yw iaith y llyfrau a werthir yn y siopau; llyfrau Saesneg sydd yn ein llyfrfaeodd cyhoeddus; Saesneg yw iaith newyddiaduron Cymru; ac oddiwrth yr iaith Saesneg y mae ein ieuencyd yn ennill yr hyn a wyddant am y gwyddorau a'r celfyddydau. Yn yr holl gelfyddydau defnyddir yr iaith Saesneg; holl oruchwylion dyddiol a gyflawnir yn yr un iaith; ac os bydd Cymro ieuanc yn anwybodus o'r iaith Saesneg, y mae ymhell iawn ar ol ei gyfoedion." Wedi dyfod fel hyn yn genedl ddwyieithog, y mae yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg mewn cystadleuaeth â'u gilydd am yr oruchafiaeth.

Mae uchelwyr ein gwlad bron i gyd wedi cefnu ar ein hiaith a'i llenyddiaeth, ac fel yr awgrymwyd, y mae y dosbarth mwyaf

meddylgar o'n pobl ieuainc yn cael eu cyflenwi â ^{Cefn yr uchel.}llyfrau Seisnig ar wyddoniaeth, athroniaeth naturiol, a moesol, &c., na feddwn ni ddim yn ein hiaith i gystadlu â hwynt. Mae ein llenyddiaeth yn bur gyflawn mewn duwinyddiaeth, a barddoniaeth, ond mewn amryw ganghennau ereill y mae yn ddiffygiol iawn. Mae gogoniant llenyddiaeth Cymru yn gynwysedig, nid yn ei chyflawnder a'i hamrywiaeth, ond yn ei phurdeb.

Wedi edrych fel hyn ar yr ochr dywyll i'n llenyddiaeth, y mae yn destyn llawenydd, a pheth balchder, i ni fod y deffroad cenedlaethol sydd wedi myned dros ein cenedl yn ddiweddar, wedi taflu bywyd ac ynni newydd i'n llenyddiaeth; ac wedi rhoddi genedigaeth i dri neu bedwar o gylchgronau cenedlaethol bron ar unwaith, oll yn cael eu nodweddu gan fywyd, ieuentyd, a thyfiant. Eto i gyd, nid yw llenyddiaeth Cymru yn deilwng o'r genedl, nac yn adlewyrchiad llawn, a theg, o'i bywyd cenedlaethol. Mae y wasg Seisnig yn yr ystyr yma yn rhannu ein cenedl ni, ac i ryw fesur yn cyfyngu ar ein llenyddiaeth frodorol. Nis gellir gwadu ychwaith nad ydyw llenyddiaeth gyfoethog y Saeson yn dylanwadu yn rymus arnom, ac yn araf hwyrach yn gwisgo ymaith rai o'n nodweddion cenedlaethol mwyaf prydferth. Mae'n wir fod y Gwyddelod a'r Ysgotiaid wedi cadw rhyw gymaint o'u nodweddion cenedlaethol ar ol colli eu hiaith a'u llenyddiaeth frodorol; ond nid y rhai goreu, ac nid ydyw eiddgedd a gelyniaeth y Gwyddel, nac ymffrost a balchder yr Ysgotyn, o nemawr werth wedi'r cyfan. Nis gall athrylith cenedl ddim ymddadbygu yn llawn, a theg, ond yn yr iaith sydd yn ateb i'w haniau, ac yn gymwys i adlewyrchu ei bywyd cenedlaethol. Fel y mae pob pren yn y goedwig yn brydferth yn ei wisg ei hun, felly y mae pob cenedl yn brydferth yn ei llenyddiaeth frodorol ei hun. Yn y canol oesoedd, pryd yr oedd yr iaith Ladin yn iaith gyffredinol llenyddiaeth, nid oedd ond unfuriaeth trymaidd yn gorffwys dros ddealltwriaeth y bobl; ond yn y Diwygiad Protestanaidd, pan apeliwyd at y bobl yn eu heithoedd eu hunain, deffrodd y bobl a daeth eu bywyd cenedlaethol i amlygu ei hun mewn llenyddiaeth frodorol oedd mor brydferth a naturiol iddynt hwy ag ydyw ei ddail i'r pren.

Wrth edrych ar agwedd bresennol llenyddiaeth Gymreig, y mae yn ymddangos fod nerth meddyliol ein cenedl, ar hyn o bryd, wedi rhedeg i'r cyfnodolion, neu y misolion, a'r newyddiaduron,—a chwynir gan rai fod hyn wedi niweidio a gwanhau ein llenyddiaeth fel nas gellir cael gafael ar braidd ddim sylweddol. Dadleuir fod ein henwogion gynt yn treulio blynyddoedd goreu eu hoes i astudio pynciau pwysig, ac i ysgrifennu llyfrau sylweddol, a'u cyflwyno yn drysorau i'w cenedl ar eu hol; ond fod ysgrifenyddyr ein cyfnodolion yn ysgrifennu yn erbyn amser, ac yn ffwdanu eu nerth ymaith mewn erthyglau sydd yn amddifad o wreiddioldeb a llwyredd—yn waelion o ran ansawdd, ac yn isel o ran arddull. Anffawd y sylw hwn feallai ydyw, fod ynddo ryw gymaint o wirionedd; ond mae yn amlwg i'r rhai sydd yn gydnabyddus â llyfrau a chyhoeddiadau y rhan gyntaf o'r ganrif hon fod ein

Bywyd llenyddol
a iaith.

Cyfnodolion.

cyfnodolion ni yn rhagori o ran ysbryd, ansawdd, ac arddull, ar y rhan fwyaf o lyfrau a chyhoeddiadau dadleuol yr oes o'r blaen. Mae yn wir nad oes ond ychydig o lyfrau trymion a phwysig yn cael eu cyhoeddi y blynyddoedd yma, ac y mae hynny yn peri fod ein llenyddiaeth yn ysgafnach nag y dylai fod. Pa fodd bynnag, nid yw yr amser a gymerir i ysgrifennu llyfr yn un sicrwydd am ei ragoriaeth,—ond gall fod gwaith dyn yn torri iddo ei hun amser maith i ysgrifennu yn ei dentio i fyned yn drymaidd a chysglyd, a'i waith i fyned yn ddwl a blinderus. Meddylodd Coleridge unwaith am gymeryd pymtheng wlynedd i gyfansoddi cân anfarwol, ond mae'n debyg, pe gwnaethai hynny, na buasai ei orchestwaith yn rhagori dim ar ei "Ancient Mariner," a gyfansoddwyd mewn byr amser. Cysegrodd Dafydd Ionawr fynyddoedd goreu ei oes i gyfansoddi "Cywydd y Drindod," ond mae ei waith oll bron wedi myned i angof, oddi-eithr y deryn cyffrous hwnnw "Cywydd y Daran." Mewn gwirionedd, darnau wedi eu cyfansoddi mewn ysbeidiau byrion, ydyw gemau goreu ein llenyddiaeth.

Dyweder a ddyweder, mae ein cyhoeddiadau cyfnodol yn cludo llenyddiaeth bur i gyrraedd pob dosbarth yng Nghymru ac allan ohoni; ac er feallai nad ydyw yn hollol lân oddiwrth y Philistiaeth y cwynai Matthew Arnold gymaint o'i herwydd, eto y mae yn bur o ran moes, ac o naws efengylaidd. Mae ein cyfnodolion yn cludo cyfoeth meddyliol y genedl i bob teulu ymhell ac yn agos, fel y cludir dwfr Cymru trwy bibellau i drefydd Lloegr, ac mae y dwfr wrth ddisgyn o'r pibellau yn Liverpool, mor loew, ac mor bur, ag ydyw yn y llyn dan gysgod y mynydd, ac mor buraidd ei flas i'r plant a phe byddent yn drachtio o'r llyn lle chwery yr hwyaden wyllt. Fel hyn mae cyfoeth meddyliol y genedl—cyfalaf llenyddol Cymru,—yn cael ei wasgaru drwy ein cyfnodolion er cyflenwi anghenion dealltwriaethol y bobl.

Mae ein cyhoeddiadau cyfnodol hefyd yn cynnwys y fath amrywiaeth testynau fel nas gallant lai na bod yn ffynhonnell o ddiddanwch i bobl Cymru. Ceir o dan yr un amlen, yn aml, erthyglau ar destynau mor amrywiol ag Athroniaeth Plato, Chwedlau y Tylwyth Teg, Campau Sian ach Ifan, &c., ac ond odid na cheir ar waelod y ddalen englyn buddugol i chwilen y rhedyn. Gall y darlennydd wenu, ond y mae amrywiaeth fel hyn, a gludir yn gyson i gartrefleoedd ein gweithwyr lluddedig, yn rhoddi mantais ddedwydd iddynt i ddarllen ymaith eu blinder. Mewn gwirionedd, y mae anghenion ein cenedl wedi dyfod mor eang ac amrywiol fel y mae yn angenrheidiol i'r wasg fod, fel trwnc yr eliffant, mor gymwys ac mor barod i rwygo y dderwen gref ag i godi y pin bach.

Diwal u'r
werin.

Nid y fantais leiaf y mae ein cyhoeddiadau misol ac wythnosol yn ei estyn i bobl ieuainc Cymru ydyw y cyfleustra a'r cymhellion a roddir iddynt i ddyfod yn llenorion ac awdwyr eu hunain. Mae darllen ein cyfnodolion yn ennyn uchelgais dymunol yn ein pobl ieuainc i ddyfod yn awdwyr; a chan fod drws y newyddiadur a'r misolyn yn agored, cânt gyfleustra i drïo eu hunain—i fesur eu nerth a theimlo eu pwysau fel llenorion; ac os cânt eu hunain yn ddiffygiol, gallant gilïo yn ol i'r cysgod, a hynny heb unrhyw anfri, dan gyfundrefn y ffugenwau. Mae yn ystyriaeth ddymunol fod cynifer o'n pobl ieuainc yn dyfod yn ysgrifenywyr campus, a'u rhif yn lluosogi bob blwyddyn; yn gymaint felly fel y mae llenyddiaeth Cymru y fwyaf gwerinol o fewn terfynau gwareiddiad. Hyd y gwn i, ni bu ysgrifennu i'r cyhoedd yn alwedigaeth neu broffeswriaeth yng Nghymru, er dyddïau y tywysogion Cymreig o leiaf; ac mae yn bur debygol na bydd o hyn allan, gan fod ysgrifennu i'r wasg wedi dyfod yn beth mor gyffredin yng Nghymru, fel os deil pethau i fyned ymlaen fel y maent am gwrs o amser eto, fe aiff siarad allan o'r ffasiwn, a bydd y llaw yn cymeryd lle y tafod, a'r pin y llais. Fel hyn mae ein llenyddiaeth wedi dyfod mor gyffredinol fel y mae yn cario dylanwad grymus ar bob sefydliad yn ein gwlad. Prin y goddefir darllen beirniadaeth mewn Eisteddfod; mae'r bobl fel pe byddent yn dweyd yn eu hymddygiad,—“ Rhoddwch i ni rywbeth difyr—rhywbeth i gyffroi y synhwyrâu a'r teimlad; mae gennym yn ein tai gartref bethau llawn cystal a dim a ellwch chwi ddweyd yma heddyw; pa le mae'r delyn; pa le mae'r corau?”

Nid yw ein cyfarfodydd llenyddol erbyn hyn, ond cyrddau canu; a da os gellir eistedd pwyllgor i'w ddiwedd heb alw am gân. Mae cystal pregethu yng Nghymru yn awr ag ^{y wasg} a fu erioed, ond nid yw y pulpud wedi dianc heb ^{a'r pulpud.} deimlo dylanwad y wasg; mae y newydd-deb oedd yn y pregethau gynt wedi ei wisgo ymaith, a cheir cynulleid-faoedd deallgar yn gwrando pregethau yn awr, nid gyda boddhad, ond gydag amynedd parchus. Nid yw hyn yn un arwydd fod y pulpud yn adfeilio; ond mae y pulpud, fel pob sefydliad arall, yn cael dylanwadu arno gan y ddeddf honno sydd yn rhoddi ffurf a chyfeiriad i gymdeithas yng nghwrs ei dadblygiad; oblegid mae deddfau mor bendant a thragwyddol yn llywodraethu cymdeithas ag sydd yn llywodraethu dydd a nos.

Ond er fod gennym lenyddiaeth rymus ac effeithiol, yn ymestyn at bob dosbarth, ac yn cryfhau mewn rhai canghennau bob blwyddyn, eto i gyd, gan fod llenyddiaeth gyfoethog y Saeson yn pwyso mor drwm arnom, y mae yn rhaid i ni wneyd ymdrech, a pheth aberth hefyd, mewn trefn i lenyddiaeth Gymreig

ennill a chadw yr oruchafiaeth yng Nghymru. Dylem ddyfnhau ac ehangu cylch ein llenyddiaeth ymhob cyfeiriad.

Mae gennym iaith odidog, ond dylem roddi rhywbeth godidog ynddi cyn y bydd ein llenyddiaeth yn y safle y dylai fod. Yn 1871, cyfarfyddais yn ddamweiniol, mewn pentref ^{Ein} ^{dyledawydd.} bychan yn nhroed y Wyddfa, â'r ysgolaig enwog, y diweddar Barch. Derwent Coleride, yr hwn oedd yn deall ein hiaith yn drwyadl, er nas gallai ei siarad yn lithrig. Yr oedd yn gydnabyddus a'n llenyddiaeth henafol, ac meddai,—“Y mae gennych iaith henafol, rymus, a godidog, a gresyn fyddai i chwi ei gollwng i golli, ac ni raid i chwi ddim gwneyd hynny, gan fod digon o athrylith yn y genedl Gymreig i gynyrchu llenyddiaeth gwerth sylw cenedloedd ereill.” Fe wnaed hyn yn y gorffennol, a phaham nad ellir gwneyd yr un peth eto? Dywed Emerson am danom,—“Mae ganddynt awen ddiogel ac amrywiol. Gwnaethant y lenyddiaeth oreu yn y canol oesoedd yng nghaniadau Myrddin, ac yn ffughanes hyfryd a thyner y brenin Arthur.” Fe ddylai pob oes gynyrchu llenyddiaeth deilwng o'i manteision; ac y mae manteision yr oes bresennol y tu hwnt i ddychymyg ein tadau.

Cwynir mai ychydig o lyfrau pwysig a gyhoeddir y blynydd-oedd yma oddieithr ychydig eithriadau. Mae'n wir y cyhoeddir amryw o esboniadau ar rannau o'r Ysgrythyr Lân, ac ^{Distawrwydd} ^{eta duwinyddion.} y maent yn cael derbyniad croesawus; ond nid oes neb yn anturio rhoddi i ni Esboniad Cymreig cyflawn hyd yn oed ar y Testament Newydd; ac nid yw yr esboniadau sydd gennym ond lloffion gan mwyaf o esboniadau Seisnig. Mae gennym ddynion o gyneddfau disglair a dysgeidiaeth eang, ac yn meddu y cymhwysterau uchaf i roddi i genedl y Cymry y golygiadau mwyaf diweddar ar Air Duw,—ond pa le maent? Mae yn ymddangos fod rhyw hwyrfrydigrwydd yn ein gwŷr mwyaf dysgedig a galluog i ysgrifennu ar bynciau pwysig yn Gymraeg; ac wrth edrych ar y mater o bwynt ariannol nis gellir eu beio am hynny; ond a ydyw yr hen genedl, a'r hen iaith anwyl, ddim yn werth gwneyd rhyw gymaint o aberth er eu mwyn?

Pan roddwyd terfyn ar gyhoeddi y “Gyfras Gymraeg,” cyfras ragorol a gyhoeddwyd gan y Methodistiaid, dywedai y golygydd, y diweddar Dr. Hughes, iddo gael anhawster mawr i gael gan y gwŷr mwyaf galluog i ysgrifennu o gwbl,—ac os ydyw yr un anhawster yn parhau i'n dilyn hyd yma, beth a ddaw o'n hiaith a'n llenyddiaeth?

Yn 1851 ysgrifennodd Tegid lythyr dyddorol mewn cysylltiad ^{Llythyr Tegid a} beirniadaeth o'i eiddo ar draethawd o waith y

diweddar T. Stephens. o Ferthyr; a chan ei fod yn taro ar y mater sydd dan sylw nis gallaf wneyd yn well na'i gyfleu yma,—

“Yn gymaint ag i'r awdwr son fwy nag unwaith am y Germaniaid, cymeraf yr achlysur o roddi yma yr hanes a ganlyn. Yr oedd ymysg yr Ellmyn ddyinion dysgedig iawn er's oesoedd; ac yn ddyinion hafyd o gyneddfau cryfion, ac o dealltwriaeth mawr. Eithr nid yn eu hiaith eu hunain yr ysgrifennent eu gwaith dysgedig, ond yn yr iaith Lladin; a mawr ac ehelaeth oedd nifer eu darllenwyr drwy holl Ewrop, ond bychan a phrin oedd nifer y gwŷr da a chwenychent ddysgu yr Almaeneg, mamiath y dysgedigion. Ymhen hir a hwy'r o amser, pan welodd y dysgedigion Ellmynawl fod eu gwaith hwy mewn bri mawr gan ddysgedigion ereill wledydd; ac nad oedd neb er hyn yn dysgu, nac am ddysgu yr Almaeneg, eithr i'r gwrthwyneb ei dibrisiaw, a'i dirmygu, penderfynasant yn unfryd, mewn cyfarfod gyda'u gilydd, nad ysgrifentent mwyach yn Lladin, ond yn iaith eu gwlad, yr Almaeneg. Pan welodd dysgedigion gwledydd ereill hyn, a hwythau yn gwybod drwy brofiad mor ddysgedig oedd yr awdwyr Ellmynawl, aethant yn fuan ynghylch dysgu eu hiaith hwynt; yr hon iaith, o herwydd hyn, yn lle bod megis o'r blaen, yn wael ac yn ddiwerth yng ngolwg y byd dysgedig, a gyfrifir heddyw yn un o'r ieithoedd goreu a mwyaf cymeradwy a dymunawl ar wyneb yr holl ddaear. Nid oes dysgedigion yn un wlad heddyw heb fod yn hyddyag yn yr Almaeneg. Efelyched y Cymry, gan hynny, yr Ellmyn dysgedig a gwladgarawl, os ydym mewn gwirionedd yn caru ein iaith a'n cenedl. Pan oeddwn yn cartrefu yn Rhydychain, cefais yr anrhydedd o roddi naw o wŷr ieithawg a llythyrenawg o'r Almaen ar ben y ffordd i ddysgu Cymraeg. Y rhai hyn a ddaethant ataf oblegid clywed ohonynt am y llythyrau a ysgrifenaswn at y diweddar y Doethawr Gesenius, mewn perthynas i'r iaith Gymraeg. A chlywais yn ddiweddar fod yr iaith Gymraeg yn cael ei dysgu yn holl brif ysgolion yr Almaen. Eithr Ah! nid cymaint oblegid yr ysgrifeniadau sydd yuddi; ond oblegid y ceir gweiddiau hynaf ieithoedd y byd yn hon.

*Nanhyfer yn Mhenfro,
Mai 30ain, 1851.*

TEGID.

Mae yn amlwg oddiwrth y llythyr uchod beth oedd syniad Tegid am y ffordd fwyaf effeithiol i ddyrchafu, ac ehangu cylch llenyddiaeth Gymreig,—“efelyched y Cymry yr Ellmyn dysgedig,”—trwy ysgrifennu gweithiau llafurfawr a dysgedig yn yr iaith Gymraeg. Rhaid cyfoethogi ein llenyddiaeth â gweithiau brodorol teilwng cyn y gellir ei dwyn i sylw a pharch cenedl-oedd ereill; oblegid fel y dywed Tegid, nid er mwyn yr ysgrifeniadau sydd yn y Gymraeg y dysgir hi gan ddysgedigion gwledydd ereill, ond oblegid ei pherthynas i ieithoedd ereill. Rhaid i mi addef mai go dywyll yw ein rhagolygon yn y cyfeiriad yma, ac mai ychydig mewn cydmariaeth o lyfrau trymion a gyhoeddir yn bresennol; ac ymddengys fod tuedd mewn rhai o'n gwŷr goreu i ysgrifennu a chyhoeddi eu llyfrau yn yr iaith Saesneg.

Pa fodd bynnag am hynny, nid er mwyn ei llenyddiaeth, er mor gyfoethog ydyw, y mae yr iaith Saesneg yn cael ei dysgu mor gyffredinol ymysg cenedloedd ereill; ond am

Saesneg yn iaith masnach.

mai hi yn bennaf ydyw iaith masnach y byd; a phe llenwid yr iaith Gymraeg â'r trysorau uchaf y gall y meddwl Gymreig eu cynyrchu, nis gellir disgwyl iddi ddyfod yn ddim pellach na bod yn iaith llenorion—iaith y

drychfeddyliau, ac iaith gysegredig y bardd a'r athronydd. Yr wyf yn cofio Ab Ithel, wrth draethu ar ragoroldeb y Gymraeg, yn ei sel wladgarol, yn dweyd y gellir disgwyl anser pan y bydd yr iaith Gymraeg wedi cymeryd lle yr iaith Saesneg fel iaith llenoriaeth; ond hyd yr wyf yn cofio, yr oedd ef yn ddigon boddlon i'r Saesneg fod yn iaith masnach; a byddai Owen William, o'r Waenfawr, yn dweyd "ar ei gydwybod nad oedd yr iaith Saesneg dda i ddim yn y byd ond i werthu tybaco, snyff, a rhyw stwff felly." Saesneg ydyw iaith masnach Cymru; yn Saesneg yr argreffir hysbysiadau yn y newyddiaduron Cymreig, ac ni wiw cynnyg dim yn y byd *ar werth* ond yn Saesneg, ie, y pethau mwyaf Cymreig; a phe cymerid bwch gafr o greigiau y Wyddfa i ffair Caernarfon, ond odid na byddai raid ei werthu yntau yn Saesneg.

Boed a fynno, fe ddylai ein llenyddiaeth fod yn llenyddiaeth Gymreig, yn tarddu oddiar fywyd pobl Cymru, ac nid yn adsain o lenyddiaeth y Saeson. Mae gennym lawer byd o ^{Bywyd a llenyddiaeth.} gyfieithiadau, cynnyrch y rhan gyntaf o'r ganrif hon, ac er mor werthfawr ydynt, ni ddylem er dim foddloni a gadael i estroniaid y gorchwyl pwysig o ffurfio ein golygiadau am fyd tragwyddol. Mae gan y diweddar T. Stephens o Ferthyr sylwadau mor darawiadol ar y mater dan sylw fel nas gallaf osgoi y demtasiwn o'u cyfleu yma,—


"Heblaw y ddyledswydd arbennig sydd ar bob dyn i ddefnyddio'r talentau a ymddiriedwyd iddo gan ei Grcawdwr, dylai y genedl gymeryd gofal am roddi cefnogiad i bob ymdrechion meddylgar. Dylai benderfynu nad ymfoddloni a gael ei maeddu yn yr yrfa ddeallol, ac y dylai ddwyn i fyny ynddi ei hun ddynion galluog i ddeall a defnyddio yr hyn oll a wybyddir dros yr holl fyd. Y mae o'r pwys mwyaf fod dynion o gyneddffau cryfion, myfyrwyr diwyd, ac yn alluog i ffurfio syniadau gwreiddiol a gwerthfawr, yn hanfodi yn y genedl; ac y mae o'r lles mwyaf i unrhyw wlad feddiannu meibion o alluoedd disglair yn ei mynwes ei hun. Y mae dynion o'r fath yn ennill parch i'w cydwladwyr trwy eu henwog-rwydd, a thrwy eu dysg a'u cyfrinach a'u cydwladwyr, yn dyrchafu eu cymeriad, yn ehangu eu gwybodaeth, ac yn eu gwneyd ymhob ffordd yn fwy teilwng o'r parch ychwanegol a roddir iddynt. Ac ymhlith dynion mor wladgarol a'r Cymry, pob gradd o'r rhael a garant eu gwlad, eu hiaith, a'u cenedl, y mae'r lles a allai dynion o'r fath ei wneyd i'w cydoesolion bron yn aurhaethol. Nid wyf am wneyd un sarhâd ar ddysgawdwyr estronol, wrth y sylwadau rhagfalaenol; ac nid oes gennyf un gwrthwynebiad iddynt fod yn adnabyddus i'm cydwladwyr. Y maent yn ddiau wedi bod, ac yn bod, o les anghydmarol; ac o ddiffyg ysgripenwyr cartrefol, ni fuasai ein cyflwr meddylgar gystal ac y mae, oni buasai eu cynorthwy hwy; eithr ni ddylem ymfoddloni ar gyfieithiadau yn unig; gan y dylai pob cenedl ffurfio ei llenyddiaeth ei hun, a dylai y rhan fwyaf a'r gwerthfawrocaf o bob llenyddiaeth genedlaethol darddu ymysg y bobl eu hunain. Cyfieither a fynnir, ond ni ddylid esgeuluso gwrteithiad y meddwl cartrefol: ac mewn cyfar-talrwydd i rif y cyfieithiadau y mae galwad am weithiau gwreiddiol, ac am ymdrechion i gadw y deall cenedlaethol mewn gweithrediad, ac yn ei lawr rym. Po fwyaf y byddo'r derbyniadau estronol, mwyaf o alwad y sydd am gynnyrch cartrefol; gan y dylai cenedl, i feddyliau yr hon y mae meddyliau a meddwl-ddrychau dynion estronawl yn cael eu harllwys yn feunyddiol, fod yn berchen ar lawer iawn o egni tufewnol i wrthwynebu, ac i reoli y dylanwad mawr hynny; onide bydd yn sicr o syrthio i'r cyflwr gwaelaf o esgeulusdod a diffurwythder;

bydd mewn perygl o adael y meddwl i suddo dan rwyman caethwasanaeth deallol; a byddai braidd yn well i ni fod heb un llenyddiaeth yn y byd, nac i ni ymddibynnu yn hollol ar estroniaid am ein hymborth meddwl. Yn ein cyflwr cymdeithasol ni, llyfrau yw ein gwir lywodraethwyr; ac y maent yn feunyddiol yn dyfod i gael mwy a mwy o ddylanwad ar y bobl. Lawr reolwyr y wlad yw y rhai hynny sydd yn ffurfio ei deall, yn penderfynu ei chynlluniau crebwyllol, ac yn llywio ei thuaddiadau; ac nis gallwn er un peth ymddiried yr awdurdod hwnnw yn nwyllaw dieithriaid; canys y mae y wlad, fel person unigol, yn meddiannu tellyngdod mewn cyfartalrwydd i'r graddau yn y rhai y mae yn hunan ffurfol. Y mae, gan hynny, o'r pwys mwyaf i ni gael gwybod pwy sydd i reoli ein meddyliau. A ydym ni i ymddibynnu ar wybodaeth estronol, neu ynte, a oes gobath am lenyddiaeth gartrefol?"

Yr wyf wedi sylwi yn barod fod ein cylchgronau wythnosol a misol yn tynnu iddynt eu hunain athrylith a thalentau y genedl, ac ynddynt hwy yn bennaf y ceir ein llenyddiaeth gartrefol yn ei theithi priodol; ond y mae arnom eisiau rhywbeth mwy na hyn, a dylid cyhoeddi, yn awr a phryd arall, gyfrolau a fyddent wedi tynnu iddynt eu hunain holl ddisgleirdeb dysgeidiaeth, a holl nerthoedd meddyliol eu hawdwyr. Mae'n wir fod rhai o'r cyfrolau mwyaf derbyniol yn yr iaith Saesneg wedi ymddangos yn eu cyfnodolion, megis traethodau Carlyle, Macaulay, ac ereill, ac wedi cael cylchrediad eang. Cyhoeddwyd hefyd yn ein mysg ninnau draethodau llenyddol a duwinyddol Dr. Edwards, y Bala; ond siomedig ar y cyfan a fu yr anturiaeth yng Nghymru; oblegid yn lle fod yr ail, neu y trydydd argraffiad o weithiau Dr. Edwards allan o'r wasg, y mae yr argraffiad cyntaf yn cael ei gymell am yn agos i hanner y pris; ac yr wyf yn credu fod y derbyniad hanerog a gafodd ei ysgrifeniadau ymysg ei genedl wedi dylanwadu yn anffafriol ar feddwl yr awdwr ei hun.

Mewn gwirionedd, nis gellir disgwyl i'n gwŷr goreu i ysgrifennu a chyfoethogi llenyddiaeth Gymreig heb ryw ragolwg am dâl rhesymol am eu llafur. Ond pa fodd y gellir cael hyn? Wel, gadewch i mi ond prin grybwyll, yn gyntaf, trwy ffurfio cwmni llenyddol cenedlaethol, neu gryfhau y cwmni sydd gennym eisoes, gyda chyfalaf digonol tuag at gyhoeddi llyfrau teilwng, a thalu yn rhesymol i'w hawdwyr am eu llafur. Yn ail, trwy apwyntio dynion deallgar a medrus fel llyfrwerthwyr teithiol ymhob sir yng Nghymru, yr hyn a fyddai yn ddiogelwch i'r anturiaeth.

Nid oes arfod yn awr i drafod y pwnc o lyfrwerthiant yng Nghymru; ond beiddiaf ddweyd y gellir ehangu cylch ein llenyddiaeth trwy roddi bywyd newydd yn y fasnach lyfrau, a dyblu nifer derbynwyr ein cylchgronau mewn ychydig amser. Pe buasai yr un ymdrech yn cael ei wneyd yng Nghymru tuag at werthu llyfrau a sydd yn cael ei wneyd i werthu te, ni fuasai




...erdd.
 ...afsydd ab Gwilym.
 ...o yn galw i'r meddwl
 ...gynt yn gallu galw,
 ...berchen yr enw, a'n
 ...Yn aml, ni fu perchen
 ...writh yn dysgu'r gyf-
 ...nid pob un sydd a'i
 ...ofer canu i fyddar.
 ...wrth enw Shakespeare,
 ...ong yr India a'i holl
 ...at Carwn gyflwyno yn
 ...o Fawrion y Gân i
 ...boed grydd, i deimlo

Cyn dechreu olrhain gyrfa ei fywyd drwy gyfnod helbulus yn hanes dyn,—oes ysgaru meddwl a chred, a thorri cadwynau haiarn y werin,—boed i ni aros ennyd i edrych ansawdd <sup>Trwm ar fyr
y gân.</sup> byd y gân yn 1756, blwyddyn ei eni. Ym Mhrydain, Handel yn ddiau ydoedd y cerddor mwyaf ei ddylanwad, wedi caffael ohono "hyfryd fuddugoliaeth" ar ei holl elynion. Ond trwy ofidiau fyrdd a dioddefaint dwys y cadd hi. Trwy ing yn unig yr oedd ei enaid i'w buro, fel y gwelai ei lygaid y nef yn agored, ac y clywai ei glust gân teulu'r gwynfyd yn molli'r Hwn oedd ar yr orsedd,—“Haleliwia; daeth teyrnasoedd y byd hwn yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.” Weithian, yr oedd wedi cyfansoddi y “Messiah” anfarwol, a chyfres ddi-ail o reithganau ysblenydd, ac yn awr mewn dallineb yn disgwyl am doriad dydd, mewn gwlad heb wyll na “Total Eclipse” o'i mewn. Gwnaed gogledd yr Almaen yn oludog o gân gan y cantor tawel-fwyn o Leipsig, Johann Sebastian Bach. Canodd yn ingol ddwys ar y Dioddefaint, bu'n llawenhau wrth gofio'r Nadolig, yn addoli fel Protestant yn offeren fwyaf arddunol gwledydd cred, ac yn arllwys ei enaid pur yn ddylif o beroriaeth yn ei ehedganau cywrain, llawn o awen; ond bellach yr oedd yn ei fedd, ac ni wybu'r byd fawr am dano am yn agos i bedwar ugain mlynedd ar ol ei farw. Crythor tlawd ydoedd Haydn ar hyn o bryd, yn byw yn nen y tŷ fel aderyn y to, ac ymron newynu er maint ei “ynni'n llifio cân ar dannau'r crwth.” Tybed fod syniadau newydd am drin cerddorfa, am sylfonau deublyg i offerganau a chyfundonau, neu am ddarlunio gwaith chwe diwrnod y cread ar gân, yn ymrithio weithiau i'w feddwl ieuanc, tra'r ydoedd fel hyn yn hiraethu am fara? Er cymaint fu dylanwad miwsig pur aruchel Palestrina yn Ffrainc bert a'r Eidal gain, yr oedd wedi edwino'n enbyd, a pheroriaeth yr opera oedd yno'n fawr ei fri, ac eiliw ohono oedd cân y cysegr ei hun. Peroriaeth llon-wyneb oer-enaid ydoedd, mor amddifad o swyn anian yn ei symledd aruchel ag ambell i ysmotyn yng nghanol arddunedd natur, a goeg lafurir, ac a enwir yn barc yn yr oes hon. Yn y cyflwr yna yr oedd cân pan ddaeth un o'i mawrion i'r byd, ac aruthrol fu ei ddylanwad. Rhoes ynni a grym yn holl gangau'r gelf. Cyfansoddodd weithiau fyddant byth yn geinion y gân yn rhin eu tlysni a'u swyn dieithr, sydd fel adsain wan o wlad well, yn rhin eu harddull loew a symledd dilyn eu cynllun. Rhwng Haydn ac yntau dadblygwyd y gerddorfa i'w safle odidog y dyddiau hyn, dodwyd i lawr sylfeini newydd i'r offergan a'r gyfundon, a chrewyd cyfnod eirianwych am awen ac asbri, nas dichon na dewin na sant fynegu dydd ei dranc.

Mab y mynydd ydoedd Mozart, er ei eni yn ninas freiniol Salzburg, ac anhawdd synio am fangre mwy addas i ddadblygu

n. Saif y ddinas yn
 pennau'n hyf odidog
 merw bywyd a hel-
 gaid yno, a disgwyl
 di-ddiwedd. Trwy
 ng nghysgod y myn-



Byth ni orffwys ei
 Weithiau ymlonna ei
 fus yw y gân, yna
 n. Ond pery ei hym-
 adgoffa dyn beunydd
 hono ei annedd yn y

graig ac yng nghadernid y mynyddau. A dacw furiau llwydion y "castell hyglod draw" yn ymgodi uwch ben y dref, a rhithiau yr hen oesau yn mudo drosto fel cysgod cymylau. Tawelwch y mynydd, ymdaith yr afon a swyn gyfaredd y castell, dyna'r elfennau allanol fu'n dylanwadu ar enaid y bachgen, ac nis gallwn iawn amgyffred awen y cerddor heb gofio hyn. Ond y mae dylanwadau ereill yn bod, dylanwadau cryfach feallai na'r rhai hyn, dylanwad yr aelwyd, yr ysgol, a throion chwerw yr yrfa, a chyfuniad o'r dylanwadau hyn roddes eu naws arbennig i firwyth awen Mozart.


Brithid Almaen y de a'r gogledd y dyddiau hyny â mân llysoedd. Yno y coleddid y celfau cain ac y gwnai cân ei chartref.

Ohonynt hwy y deilliai diwylliant i nawseiddio
Ar yr aelwyd. meddwl y deiliaid, fel y bu hen balasau Cymru cyn i'r pendefigion wadu eu gwlad a gado'r werin i ymbalfalu yn y gwyll oreu gallent, ac i dorri hualau gorthrwm heb eu cymorth hwy. Ond nid telynor yn trin tannau ddiidanai y llysoedd hyn â cân, ond cerddorfa, a gweision cyflog mewn cerddorfa o'r fath ydoedd llawer o brif gerddorion yr Almaen, fel Haydn yn llys tywysog Esterhazy ar ol hyn. Un o swyddogion cerdd yn y castell fry, trigfan Archesgob Salzburg, ydoedd tad y cerddor, Leopold Mozart. Gŵr llym, craff, a manwl gywir, yn ymylu ar fod yn or-fanwl mewn mân bethau, ydoedd o ran cymeriad, ond deallus ei feddwl, yn gerddor a llenor gwych, ac yn awdwr llyfr gwersi campus ar ganu'r crwth. Dynes hardd, rywiog, ddi-awen oedd y fam, a'i chalon yn llywio ei deall. Croes i hyn, meddir, ydyw'r rheol efo rhieni gwyr o athrylith, ond dyledus oedd Mozart, fel Milton a Richter, i'w dad, ac nid i'w fam, am deithi amlycaf ei feddwl. Qyd-dyfai chwaer bedair blynedd hyn nag ef,



Yn llon a chu
 Ar aelwyd tŷ eu tad.

Lodes fach yn llawn o dalent oedd Nannerl, fel yr anwes enwid hi yn y teulu, yn medru canu'r clavier pan nad oedd ond saith mlwydd oed. Swynai hyn y brawd bach, a buan y gwelwyd yntau'n ceisio bod yn hafal iddi, drwy ymestyn ar flaenau ei draed a chwilio efo'i fysedd egwan eiddil am drydeddau dwys a melus ar allweddau gwyn yr offeryn—pyrth ifori palas cain iddo'n ddiameu. Daeth mewn amser byr yn fedrus ar y clavier, a chyn cyrraedd ei bumed pen blwydd, dengys y plentyn beth fydd y dyn, trwy gyfansoddi darnau bach o fwsig, tra mae'r tad o wynfyd calon yn eu doddi i lawr.


Plentyn swynol odiaeth ydyw Mozart, yn llawn asbri a nwyf. Ymgyl yn llwyr yn yr hyn sy'n denu ei fryd, ond anian hylaw




ersi yn rhwydd,
 antyn câr i'w feddwl
 i sipian mêl fel y
 ywag na gaeaf oer.
 s gallai yr un "hen
 gariad at eilun ei
 am hulio'r byrddau,
 yn "cabarddilio efo'i
 i'r fam—a gofynnai
 ch yn fy ngharu"?
 na delai cwmwl dros
 yw ateb y bychan
 pwyl? "Duw yn




ifo tywod y môr na
 , a buan y mynnodd
 us oedd, yn carlamu
 i llu o gampau gwr-
 union pan ddelai at
 Bydd un hanesyn yn
 ddangos mai mab y
 ion diymwad ereill
 ll gydag ef i'w dŷ
 plentyn yn ysgrif-
 na"? "Concerto i'r
 "Gad i mi ei weld."



angos ef i mi, mae'n
 arno, yn fwy llawn
 feirian sefydlog. Yr
 bin a'r bychan wedi
 saith. Torri allan i
 d'erbyn sylwi ar y
 d ei lygaid & dagrau
 dor gywir a threfnus
 ddefnydd. Nis gall
 arto," tarawa'r dynyn



•••



r hwn cyn dod yn
 ddechreu arno efo'r
 un dybio fod canu
 hollol.
 alent y plant yn hwy
 d athrylith ei ddau
 hwy ar wib-daith i
 ho y byd mawr oedd
 ddig, ac elwa tipyn

hefyd ynglŷn â hynny. Ar y neges yna y gadawodd Mozart ei gartref gyntaf pan yn chwe mlwydd oed. A dyma roes fod i'r dylif o blant os hen eu cynheddfau, sydd byth a hefyd yn cadw'r lliaws mewn llesmair o fwynhad, wrth eu gweled, yn hytrach na'u gwrando, yn curo cân o berdoneg, neu yn gwasgu seiniau o linyddau'r crwth. Ond tosturio wna'r deallus wrth gofio maint llafur y rhai bach, a sawl plentyn anafwyd am ei oes i foddio gwanc aniwall y teulu am arian a chlod, ac i ddifyrru oriau hamddenol tyrfa ddiotal. Bu llu afrifed o rai mawr eu dawn o flaen y cyhoedd, a phawb yn synnu ac yn gofyn, Beth fydd yr eginyn hwn pan ddêl i'w lawn dwf? Ond un Mozart gaed, a chroesaw digon oer gadd yntau, wedi i'r byd ffaelu ei luddias drwy ei fabanu i dyfu i fyny yn ŵr gwir fawr. Yr oedd wedi colli ei ddyddordeb ynddo weithian, fel aml i un na wêl hawdd-gared goleu glân y dydd ar ol bod yn gwynfydu ar dlysi amryliw y wawr. Ond gwawr ydyw eto gyda Mozart, ac arhoswn ennys i syllu ar geinder yr olygfa.

Yn 1762 yr oedd Rhyfel y Saith Mlynedd, rhwng Ffrederic "a gyfenwir y Mawr" o Prwsia & Maria Theresa o Awstria, ymron ar ben; a pharod iawn i'w diddanu ydoedd hi a'i gŵr

Y dewin bach. Ffrancis I. ymherawdwr yr Almaen, wrth ganfod y dinystr erchyll, fu'n eu bwgwith am flynyddau, yn pellhau ac ar ddiflannu dros y gorwel, byth i'w hwynebu mwy. Ac yn Schönbrunn, eu llys godidog ger Vienna, y cawn Mozart yn swyno'r ymherawdwr â'i gân, a'r ymherodres â'i gusanau, ac yn difyrru'r holl lys â'i arabedd. Llamai ar lin y wraig ddewr, fu'n herio gelynyon aml didostur, heb eiliw o ofn na meddwl dim am ddeddfau'r llys, ond ufuddhau i gymhellion ei galon eiddgar ei hun. Ei ddodi ar y ford o'i blaen, a gomedd cusan iddo wnaeth Madame Pompadour ym Mharis ychydig ar ol hyn, ond yr oedd Maria Theresa yn deall calon lân plentyn, ac yn gwybod nad oes dim "ond cariad Iesu Grist yn well na chariad plentyn bach." Hyfryd i'r ymherawdwr oedd lolian efo'r "dewin bach," fel y galwai Mozart—hulio allweddau yr offeryn & napcyn, gwneyd iddo ganu cân arno ag un bys, "dyna'r gamp, nid gyda'r bysedd i gyd," a diriedi diniwed o'r fath. Ond ad-dalai Mozart iddo yntau, pan elai i ganu ei hoff offeryn y crwth mawr, drwy ei feirniadu ar goedd,—“Hy,” “Da iawn,” “Campus,” “Dyna wall,” a swta eiriau i'r un perwyl. Syniad ysmala iawn oedd gan y plentyn am ddirnadaeth gerddorol merchetos gwryw a banyw y llys. Pallai yn lân ganu iddynt oni fyddai rhai o'i gyfeillion yn eu plith, a holai,—“Lle mae Herr Wagenseil? Doed yma; y mae efe yn deall tipyn am hyn.” Rhy wych oedd miwsig i'w wastraffu ar boblach y gwisgoedd cain a'r glust bwl.

Yma y bu am ysbaid yn diddanna'r mawrion, ac yn llon

chwareu â phlant y llys. Un ohonynt oedd Marie Antoinette drallodus, mwyn a chlyd yn ei mebyd, "ni chai'r Marie Antoinette awelon anadlu'n arw arni;" ofnadwy yn ei hangau fel pe rhwygai Tynged-ddorau distryw yn agored i wylliaid Abred ruthro arni. Cadd heulwen dirionach i wenu arni ym moreu oes na'r cerddor bach o Salzburg, duach cymylau i wgu arni yn ei nawn, a phan ddisgynnodd llenni'r nos ar warthaf y ddau, a hi eto yn ddydd, ymadawodd a'r byd yn swn crochlefain erchyll gwallgofiaid y chwyldroad yn Ffrainc, ac nid fel efe yn canu ei farwnad ei hun.

Rhoes afiechyd derfyn ar y canu a'r chwareu, a chadd Mozart ei hun ar yr hen aelwyd semi yn Salzburg, a'i ymweliad a'r llys ysblynydd oedd megis gweledigaeth nos iddo.

Yr oedd Leopold Mozart ymron pendroni yn ffyniant y daith gyntaf hon, ac yn ymorchestu wrth feddwl fod tir lawer i'w feddiannu. Felly egwyl fechan gadd Mozart. Yn Ar yr eden. fuan, gwelwn ef yn codi aden i hedfan fel yr aderyn glas ei liw i swyno broydd y gogledd â chân ei wanywn. Dan ofal y tad ymwél ei chwaer ac yntau â Munich, "hendre'r mynach," ar lan yr Isar gyflym, yna â Frankfort ar yr afon Main, lle y cyfarfu â bachgennyn rhyw dair ar ddeg oed oedd i ddod yn un o gedyrn barddas yr Almaen a'r byd, Goethe. Wedi hyn geilw ar ei ffordd tua Pharis yn ninasoedd glannau'r Rhein, Mainz ar y gwastad cyn i'r afon ruthro megis i ddannedd mynyddoedd y Dreigiau, a Cöln, wedi iddi ddianc yn ddianaf i ymdaith mwy yn fwyn dawel tua Môr y Gogledd. Yn Aachen syrth y Dywysoges Amelia, merch yr hen deyrn hoff o gewri a thybaco, a chwaer Ffrederic Fawr, mewn cariad â'r cerddor bach, a myn i'w dad fyned ag ef i'w ddangos i'r teulu ym Merlin. Ond na. "Nid oes arian ganddi," medd y tad darbodus, "a phe byddai'r cusanau rydd i'r plant, yn enwedig i Wolfgang, yn ddarnau aur, byddem yn weddol dda arnom, ond fel y mae pethau, anhawdd talu bil gwesty efo chusanau." Yr oedd clod y tad a'i ddau blentyn wedi eu rhagflaenu i brif ddinas Ffrainc, a chaed pawb yn seiad y byd yno yn barod i'w derbyn a'u croesawu. "Gwelais wyrth am unwaith yn fy mywyd, a dyma'r gyntaf," medd Grimm, Almaenwr o fri, wrth son am athrylith y bachgen.

Cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o'i gyfansoddiadau ym Mharis cyn ymado i hwylio dros y tonnau am Brydain, bro y niwl a'r glannau gwynion. Yma swynnodd Sior III., drwy Tua'r glannau gwynion. ganu iddo beroriaeth ei hoff Handel, ac enillodd galon y frenhines drwy gyflwyno iddi yr ail gyfrol o'i waith ei hun. Cadd ei foli gan Farmer George, a'i anrhegu gan ei wraig â rhywbeth mwy sylweddol na moliant ei gŵr ac na chusan-

au ei gares o Aachen, sef hanner can gini—er mawr foddhad i'w dad bid siwr. Bu'n eistedd ar lin athraw cân y frenhines, J. Christian Bach, mab yr hen gantor enwog o Leipsig, ac yn "chwareu" offergan ac ehedgañ bob yn ail mesur ag ef, heb goll amser na gwall pan yn newid tro. Wedi creu syndod dihafal, a derbyn gwarogaeth teyrn a deiliaid y wlad hon, trodd tua thref gan alw yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, a Switserland, a gwneyd ei hun yn destyn molawd a rhyfeddod o lannau gwynion Prydain i gopaon eiraog yr Alpau.

Deng mlwydd oed ydoedd pan ddaeth yn ol i Salzburg, yn fyd-enwog fel y dywedir, a phlentyn syml ydoedd wedi'r cyfan, yn para i garlamu ar lawfion ei dad pan gai hamdden, ac yn dal yn ffyddlon i'w hen barabliad,—Duw yn gynta, tada wedyn.


A dyna hanes mebyd Mozart.

Y GWANWYN.

Alaw—"Hob y deri dando."

Wedi'r ia a'r eira oera, Llon yw gwên y gwanwyn.	Blodau hardd sy'n tarddu allan, Llon yw gwên y gwanwyn,
Wele wanwyn awyr bura, Llon yw gwên y gwanwyn.	Yn y fan dan droed yr huan, Llon yw gwên y gwanwyn.
Eirfan wenau huan glanwyn— Wanwyn mwyn.	Mil a mil yn denu dynion— Wanwyn mwyn,
Llon yw gwenau gwyn y gwanwyn. Swyn, swyn, hudol swyn, Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.	Tua bro y gynau gwynion. Swyn, swyn, hudol swyn Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.
Ar y twyn mae'r wyn yn llamu, Llon yw gwên y gwanwyn.	Adar mân yn lân eu hawen, Llon yw gwên y gwanwyn,
Yna galwan' am eu mami, Llon yw gwên y gwanwyn.	Yn y llwyni'n canu'n llawen, Llon yw gwên y gwanwyn.
"Me," medd hithau'r fam ddianfwyn— Wanwyn mwyn.	Heb un gofal ar eu cyfyl— Wanwyn mwyn,
Llyna ganu llon y gwanwyn. Swyn, swyn, hudol swyn Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.	Sy'n moliannu Mai yn ymyl. Swyn, swyn, hudol swyn Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.
Ar y waen y dawnsia'r huan, Llon yw gwên y gwanwyn,	Canwn ninnau'n lân o galon, Llon yw gwên y gwanwyn,
Anian gansa'n fuan, fuan, Llon yw gwên y gwanwyn.	Gwanwyn gawn i ia gofalon, Llon yw gwên y gwanwyn.
Graian mân a thonnau arian— Wanwyn mwyn,	Haf a'i dilyn efo'i delyn— Wanwyn mwyn,
Dyna dannau telyn anian. Swyn, swyn, hudol swyn Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.	Telyn aur â thannau melyn. Swyn, swyn, hudol swyn Sy'n dy wenau, wanwyn mwyn.

R. BRYAN.



BOLE GWANWIN YING MOHYMEU, —YR ABERMAW.

YR IAITH GYMRAEG.

GELYNION pennaf yr iaith Gymraeg yn yr oesau gynt oedd caredigion cenedl y Cymry. Nid oedd ei pherygl gymaint tra y ceisid ei difetha o elyniaeth yn erbyn y bobl a'i siaradai.

Deu ddull lladd yr iaith Gymraeg. Anelodd Harri'r Pedwerydd gyfreithiau llym yn ei herbyn, heb ei niweidio. Ni chai gŵr a siaradai

Gymraeg fod yn berchen cledd, nac yn gapten ar dref gaerog, nac yn briod i Saesnes; eto ni rwystrodd hyn Dafydd ab Edmwn't a Lewys Glyn Cothi rhag canu, na Gruffydd ab Nicolas rhag cynnal Eisteddfod. Dechreuodd gwir berygl y Gymraeg pan dderbyniodd Cymro goron Lloegr. O hyn allan, amcenid ei difetha, nid er mwyn gorchfygu Cymru, ond er mwyn symud rhwystr oddiar ffordd llwyddiant bydol pobl y wlad. Ni anghofiai y Tuduriaid y graig o'r hon eu naddwyd; yr oeddynt yn barod i roddi swyddau breision i Gymry, os dyagent siarad Saesneg. Ond credent nad oedd yn bosibl creu cenedl unol gref heb unfurfiaeth iaith, crefydd, arferion, a chyfreithiau. Amcanent, gan hynny, ddileu pob arbenigrwydd a berthynai i'r Cymry. Rhydd Harri'r Wythfed fraslinelliad tarawiadol o'i bolisi yn y rhagymadrodd i'r "Ddeddf Uniad" (i roddi iddi ei henw cyffredin) yn 1536.

"The people of the dominion of Wales" meddai, "have and do daily use a speech nothing like, ne consonant to the natural mother tongue used within this realm, some rude and ignorant people have made diffinition and diversity between the king's subjects of this realm and his subjects of the said Dominion and Principality of Wales. . . . His Highness, therefore, of a singular zeal, love, and favour that he beareth towards his subjects of his said Dominion of Wales, minding and intending to reduce them to the perfect order, notice, and knowledge of his laws of this his realm, and utterly to extirp all and singular usages and customs differing from the same,"

a benderfynodd ddiddymu'r iaith ynghyd â holl ddefodau, arferion, a chyfreithiau neilltuol y Cymry. Yr un amcan oedd gan William Salesbury mewn golwg un flynedd ar ddeg ar ol hynny wrth gyhoeddi ei Eiriadur,—

"What great hatred, debate, and strife," meddai, "hath arisen amongst men by reason of diversity of language. . . . Wherefore seeing there is many of your Grace's subjects in Wales that readeth the Welsh tongue,"

ac er mwyn eu galluogi i ddysgu Saesneg y mae yn cyhoeddi ei Eiriadur.

Yr un oedd bwriad y ddau, y brenin a Salesbury; yn unig amrywient yn eu dull o gyrraedd eu hamcan. Tybiai Harri y gallai ddifetha'r iaith âg ysbryd ei enau, a thrwy rym cyfraith; credai Salesbury mai'r ffordd rwyddaf a sicraf i gael gwared arni oedd drwy ei defnyddio fel cyfrwng i ddysgu iaith newydd i'w deiliaid. Y mae i'r ddau eu canlynwyr. Am dair canrif a

hanner mae gwladweinwyr Lloegr wedi dilyn ôl Harri'r Wythfed, ac wedi ceisio lladd y Gymraeg drwy ei hanwybyddu. Y mae ereill yn gweled rhagoriaeth yng nghynllun William Salesbury. Yn 1887 darlennodd Mr. W. Edwards, Arolygydd Ysgolion y Merthyr, bapur o flaen Cymdeithas y Cymrodorion yn Llundain. Y mae Mr. Edwards o'r un farn a Salesbury—mai y ffordd rwyddaf a mwyaf effeithiol i ddysgu Saesneg i Gymry unieithog yw drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond creda hefyd mai dyna'r ffordd sicraf i ladd yr iaith. Meddai,—

"I feel certain that the life of Welsh will not be appreciably prolonged by its recognition in schools. . . . When every Welshman knows English as well as he knows Welsh, and there is no nucleus of monoglots to act as a preservative, the weaker language will then rapidly die."*

Ond os na lwyddodd cynllun Harri ymysg y werin bobl, llwyddodd, beth bynnag, i Seisnegeiddio'r boneddigion a gwyr dysgedig Cymru. Gwelir disgynyddion Rhys ab Tomos yn cymeryd iddynt eu hunain enwau Seisnig, ac yn brin iawn y ceir noddwyr llenyddiaeth Gymraeg ymysg bonedd Cymru.†

Nid allai hyn lai na chael effaith drygionus ar gymeriad y werin. Teimlent fod gwybodaeth o'r Gymraeg yn arwydd o israddoldeb cymdeithasol a gwleidyddol; a chredaf mai yn yr unfed ganrif a'r bymtheg y ceir son yn gyntaf am deulu Dic Sion Dafydd.

"Canys chwi a gewch rai," medd Dr. Gruffydd Roberts yn ei Eiriadur yn 1584, "yn gytrym ag y gwelant afon Hafren, neu glochdaf Amwythig, a chlywed Sais yn dywedid yn ei iaith 'good morrow' a ddechreuant ollwng eu Cymraeg dros gof a'i ddywedyd yn fawr eu llediaeth; ei Cymraeg sydd Seisnigaidd, a'i Saisoneg, Duw a Wyr, yn rhy Gymreigaidd."

Blinwyd y Doctor John David Rhys wyth mlynedd ar ol hyn gan yr un poblach.

"Eithr nid yw y bursenaidd sorod o Gymru," meddai, "os teg dywedyd y gwir, onid gohilion a llwgr a chrachyddion y bobl a'i brynteion; a megis cachaduriaid y wlad. Ac yn yr un orseddfa a chadair y dylid lleihau a gosod y rhai a fynant ddodi a difa iaeth y Cymru a dodi iaeth y Saeson yn ei lle hi."

Yn yr un flwyddyn, 1592, y mae Morus Kyffin yn colli ei dymer wrth glywed siarad rhyw

"wr eglwysig mewn Eisteddfod. . . . Ynteu a ddoedodd nad cymwys oedd adel printio math yn y byd ar lyfrau Cymreig, eithr efe a fynnai i'r bobl ddysgu Saesonaeg, a cholli eu Cymraeg, gan ddoedyd ymhellach na wnae'r Bibl Cymraeg"

* Yn 1761, dywed Lewys Morris fod Cymraeg da yn cael ei siarad yn Llandrinod; ond siariedid Saesneg hefyd. Nid oes neb yno heddyw yn arfer Cymraeg.

† "Llwyd y Bacsau" oedd enw march Rhys ab Tomos; "Dafydd y Ceffyl Cwta," y gelwir ei ewythr ar lafar gwlad; ond o hyn allan ni chawn son am gefyl ag enw Cymraeg. Gyda'r boneddigion yn unig yr oedd ceffylau; ychain fyddai gan yr amaethwyr yn aredig; a chyn pen canrif ar ol esgyniad Harri'r Seithfed, Saesneg oedd iaith arferedig y boneddigion a phob swyddog dan y llywodraeth.

ddim da, namyn llawer o ddrwg. . . . A alle ddiawl ei hun ddoedydd yn amgen-ach? Doeted pawb Amen, ac na chlywer byth mwy son am dano."

Nid oedd y "gŵr eglwysig" ar ben ei hunan, ond y mae llawer o'i fath i'w cael ymhob cwr o'r Deyrnas Gyfundebol. Daeth Dr. Johnson ar draws rhai ohonynt yn Sgotland ganrif a chwarter yn ol. Fel hyn y dywed ef yn ei "Tour in the Hebrides,"—

"Their language (n.y. y Gaelic) is attacked on every side. Schools are erected in which English alone is taught, and there were lately some who thought it reasonable to refuse them a version of the Holy Scriptures that they might have no monument of their native tongue."

Yr oedd y rhagfarn yn erbyn y Gymraeg, a'r cysylltiad agos rhwng Cymru a Lloegr yn amser y Tuduriaid, yn cyflym wneyd eu gwaith.

"There is never a market town in Wales," meddai John Penry yn 1587, "where English is not as rife as Welsh."

Bu raid i Morus Kyffin roddi heibio ysgrifennu "Cymraeg llenyddol," ac ysgrifennu yr hyn a ellid ei alw yn "Gymraeg Rhydychen."

"Mi a dybiais yn oref," meddai yn y rhagymadrodd i'w gyfleithiad o' Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr, "adel heibio'r hen eiriau Cymreig, y rhai ydynt wedi tyfu allan o gydnabod a chydarfer y cyffredin, ag a ddewisais y geiriau hawsaf, rhwyddaf, a sathredicca gallwn i wneuthur ffordd yr ymadrodd yn rhydd ag yn ddirwystros i'r sawl ni wyddant ond y Gymraeg arferedig."

Ond er "sathredicced" oedd Cymraeg Morus Kyffin yn ei olwg ei hunan, yr oedd Cymraeg arferedig y De yn llawer gwaeth. Y mae Cymraeg yr Hen Ficar yn adnabyddus i bawb; ond y mae lle i greu fod Cymraeg y werin yn well na Chymraeg "Canwyll y Cymry."

Dylid cofio mai Saesneg oedd iaith gyffredin Ficar Pritchard, ac y mae yn debyg ei fod yn tueddu i wneyd rhagor o ddefnydd o eiriau Saesneg wedi eu Cymreigeiddio nag a wnelai gwŷr Ystrad Tywi yn yr oes honno. Beth bynnag am hynny, y mae y ffaith yn aros fod Cymraeg Stephen Hughes—gŵr o'r un sir—yn llawer mwy pur,* ac nad yw tafodiaith sir Gaerfyrddin heddyw mor llawn o eiriau Saesneg sathredig. Eto, nid oes ddadl nad oedd Cymraeg y De yn waelach na Chymraeg Gwynedd yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cawn Stephen Hughes yn un o'i amrywiol gyhoeddiadau yn ymesgusodi am na allai ysgrifennu gwell Cymraeg. Erfynia ei ddarllenwyr,

"I gymmeryd mewn part da fy Nghymraeg wael Saesnigaidd i, sydd a gwanhaeth ynddi, mewn geiriau ac ymadroddion (phrases), a therminations (neu ddiweddiad geiriau) a'r Gymraeg dda sydd ganddynt yng Wunedd."

Cynyddu wnai difaterwch y Cymry ynghylch eu hiaith yn ystod hanner cyntaf y ganrif. Yn 1630 yr oedd Rowland

*"Canys chwi wyddoch yn ddigon da mai y modd yr ydwyf fi yn scrifennu yr ydym ni yn llefaru yn Neheudir Cymru."—*Stephen Hughes.*

Vaughan, Caergai, yn ei "Ymarfer o Dduwioledeb," yn cwyno fel hyn,—

"O Frutaniaid gwaedol, cymerwch chwithau beth poen a thraul i osod allan eich tafodiaeth gyfoethog, oddieithr i ohwi fod o un feddwl a'r Cymry Seisnigaidd y rhai sydd yn tybied yn oreu ddileu a diffoddi ein hiaith ni. . . . Mwyaf peth sydd yn dyfod yn erbyn ein hiaith ni ydyw anhawsed gan y Cymry roddi eu plant i ddyscu."

Achwyn, eto, a geir gan John Edwards yn 1651 yn ei "Madruddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf."

"Ac o'r Cymry cartrefol," meddai, "ie, ym mhlith y pendeifigion ysgolheigaidd, ie, ym mysc y dysgawdwy'r Eglwysig, braidd un o bymtheg a fedr ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Ac o'r achos hyn y mae, fod llyfrau Cymraeg mor ymhell, canys ni welais i erioed uwch pum llyfr Cymraeg yn brintiedig."

Yn y *Red Dragon*, ychydig flynyddau yn ol, rhoddwyd ffeithiau ychwanegol i brofi gwaeledd cyflwr yr iaith yn yr hanner gyntaf o'r ganrif.

1. O 1568 hyd 1798 ni chynhaliwyd Eisteddfod yng Ngwynedd. Cynhaliwyd saith yn y Deheudir yn yr unfed ganrif a'r bymtheg, a 80 o wrandawyr oedd yn y saith. Cynhaliwyd Eisteddfod yn sir Forgannwg yn 1620, ac yr oedd pedwar yn bresennol.

2. O 1546 hyd 1644 cyhoeddwyd 269 o lyfrau gan Gymry neu ynghylch Cymru. O'r rhai hyn, yr oedd 44 yn Lladin, 184 yn Saesneg, a 41 yn Gymraeg.

3. O'r 41 a gyhoeddwyd yn Gymraeg, yr oedd 37 yn ymdrin â phynciau grefyddol, ac hyd y flwyddyn 1660 nid oedd ond dau lyfr gwleidyddol wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg, ac un o'r ddau oedd "Llyfr y Tri Aderyn."

II.

Ond yn yr hanner olaf o'r ganrif adfywiodd y Gymraeg drachefn, ac oddiar hynny hyd yn awr, nid yw yn ormod dweyd ei bod wedi myned ymlaen o nerth i nerth. Yn 1677

Dechreu'r doffroad. ail-gyhoeddwyd "Agoriad byr ar Weddi'r Arglwydd;" argraffwyd ef yn gyntaf yn 1600. Yn y rhagymadrodd i'r ail-argraffiad dywed y cyhoeddwr,—

"Y mae yn agos i bedwar ugain mlynedd oddiar pan printiwyd llyfr Mr. Holant gyntaf, ac fel y mae'r Saesneg, felly y mae'r Gymraeg, wedi ei phuro yn fawr oddiar yr amser hynny."

Y mae llawer o esbonio wedi bod ar yr achos o'r adfywiad hwn. Dywed Mr. Arthur Price, mewn rhifyn diweddar o *Wales*, mai adferiad y brenin Charles II. a gorchfygiad yr Anghydffurfwyr oedd yr achos.

"The oppression of the English Evangelicism, which warted on everything Welsh, struck a blow at Welsh national development,"

meddai mewn un man. Yna dywed wedi hynny,

"Wales naturally welcomed the Restoration, which brought with it the old worship, the old court, and once more tolerated the Eisteddfod;—

ond ni chynhaliwyd Eisteddfod o 1660 hyd 1698.

Nid beirdd nac Eisteddfod, nid bonedd nac esgob, a gadwodd yr iaith yn fyw, ond crefydd. Os oedd "gwŷr eglwysig mewn Eisteddfod" am ddifetha'r Gymraeg, gwelai Morus Kyffin ac areill yn amgen.

"Herwydd pwy ni ŵyr," medd Kyffin, "mor amhosibl fyddai dwyn yr holl bobl i ddysgu Saesoneg ag i gollu eu Cymraeg, ag mor rheymol yn y cyfamser fydde colli peth aneirif o eneidiau dynion."

Gwelai Esgob Davies ac Esgob Morgan mai y cam cyntaf tuag at efengyleiddio Cymru oedd rhoddi'r Ysgrythyr i'r bobl yn eu

Crefydd a
Chymraeg.

hiaith eu hun. Yr oedd hwn yn waith amhrisiadwy; rhoddodd safon arosol i lenyddiaeth Gymreig; gwnaeth lafur y rhai ddaeth ar eu hol yn llawer ysgafnach; ond, er hynny, nid oedd ynddo ei hun yn ddigon i gadw'n fyw yr iaith. Gwir fod y Beibl yn eglwys y plwyf, ond nid oedd nemawr yn gallu darllen, ac ychydig iawn oedd yn prisio dim am dano mewn un iaith. Cyn byth y gallai'r Beibl Cymraeg fod o ddefnydd cyffredinol, yr oedd yn rhaid cynneu awydd yn y werin i'w ddarllen a'i ddysgu. Yn 1651, yn ol John Edwards, dim ond un o bob pymtheg o "wŷr eglwysig" oedd yn gallu darllen Cymraeg, ac y mae'r Hen Ficar mewn un man yn dweyd fod merched "llawer scweier" yng Nghymru heb wybod cymaint a merched "tinceriaid" yn Lloegr.* Rhydd awdwr "Carwr y Cymry" (1631), ddarlun truenus o sefyllfa'r wlad yn yr amser hwnnw,—

"Ie, rhoddwch genad i mi, fy mrodyr anwyl, i ddywedyd wrthych (y peth sydd ddrwg genyf orfod ei ddywedyd), y gellir cael ym mhob un o esgobaethau Cymru ddeugain neu dringain o eglwys, heb un ynddynt ar y Suliau hirddydd haf, pan fo sychaf y ffyrdd a chlaisraf yr hin."

Felly, yn y flwyddyn pan clywid son gyntaf am Anghydfurfiaeth yng Nghymru, yr oedd y bedwaredd ran o'r eglwysi plwyf yn wâg o ddechreu i ddiwedd y flwyddyn. Ni fyddwn ymhell o'n lle, gan hynny, wrth ddweyd mai yr hyn a achubodd y Gymraeg o safn marwolaeth oedd cynnwrf y Rhyfel Cartrefol a'r Diwygiad Pwritanaidd. Yr oedd y Cymry, mae'n wir, o blaid y brenin, ac ni chafodd Pwritaniaeth afael fawr ar y genedl. Eto dylid cofio i'r Senedd Hir apwyntio pregethwyr i Gymru, ac i Vavasor Powell gael ei ddewis fel un o herwydd ei fod yn hyddysg yn y Gymraeg. Bu Walter Cradoc, hefyd, yn teithio

* Pob merch tincer, gyda'r Saeson,
Fedr ddarllen llyfrau mawrion;
Ni ŵyr merched llawer scweier
Gyda ninne ddarllen pader.—*Cenwyll y Cymry.*

drwy Gymru, ac yn un o'i oedfaon yr argyhoeddwyd Morgan Llwyd o Wynedd, awdwr "Llyfr y Tri Aderyn." Y mae yn dra thebyg i'r Crynwyr fod mor llwyddiannus a'r Anibynwyr, ac nis gall neb ddarllen hunan-gofiant Richard Davies heb synnu wrth gryfder enwad sydd erbyn heddyw wedi diflannu yn agos yn hollol o'r tir.*

Ond nid oedd yr Anghydfurfwyr cyntaf yn foddlon ar ddiuno cydwybodau'r bobl. Ceisient, hefyd, eu dysgu i ddarllen y Beibl Cymraeg, ynghyd â llyfrau crefyddol a defosiynol. Dichon na fuasai gennym gopi o "Ganwyll y Cymry" ar glawr oni bai am Stephen Hughes. Efe gasglodd lawysgrifau yr Hen Ficar oedd ar wasgar ar hyd a lled y wlad, ac a'u cyhoeddodd yn un gyfrol. Dyma ddywed yn ei ragymadrodd i'r rhan gyntaf,—

"Peth arall a'm hanogodd i brintio'r pethau yma yw y tebygoliaeth mawr y cynhyrfir wrth hyn laweroedd ni fedrant ddarllen i ddysgu darllen Cymraeg."

Nid cariad at y Gymraeg yn gymaint a phryder dros eneidiau ei gyd-genedl barodd i Stephen Hughes gyhoeddi, ar ei gost ei hunan, filoedd o lyfrau Cymraeg. Y mae y dyfyniad a ganlyn o un o'i ysgrifeniadau yn tafu goleu eglur ar ei resymau,—

"Ac pyt tae dros lawer oes dri chant ar ddeg o Saeson dysgedig, cydwybodol, ar unwaith yn cadw ysgollon, yn nhair sir ar ddeg† Cymru, i ddysgu Saesneg i'n cydwladwyr, er hyny ni byddai yn bosibl i gyffredin bobl ein gwlad golli iaith eu mamau y pum can mlynedd a ganlynant, os parhaiff y byd cyhyd a hyny. Canys nid oes ond rhai o'n cyffredinwyr yn abl cadw eu plant mewn ysgol. A'r sawl a ellir eu cadw yno, wedi dysgu Saesneg yn yr ysgol, rhaid iddynt ddywedyd Cymraeg gartref, ac, onide, nis deallir mo honynt; ac pan tyfent i fyny i fod yn ben-teuluoedd eu hunain, fe wyddis mai Cymraeg a orfydd arnynt ei ddywedyd yn mysc eu tylwyth, ac yn gyffredinol yn y ffeirie a'r marchnadoedd—a pha fodd erbyn hyn, y collir y iaith Gymraeg? Ac eto dyma'r fath beth y mae rhaid ei phansio; ac ar hynny yn barnu nad da printio math yn y byd o lyfrau Cymraeg‡ i gynnal yr iaith i fyny, ond ei fod yn weddus i'r bobl golli eu iaith, a dysgu Saesneg. Haws dywedyd mynydd na myned drosto. Gwir yw, mai da iawn fyddai, pe tae pawb yng Hymru yn deall Saesneg; canys yna ni byddai arnynt eisieu na Beiblau na llyfrau da ereill, gan fod printwyr yn Llundain, er mwyn eu hennill eu hunain, yn printio miloedd ohonynt bob blwyddyn yn yr iaith hono, fel nad all fod diffyg yn y mater hyny, mewn lle yn y Deyrnas. Ond er fod laweroedd yn ein gwlad (i Dduw y byddo'r diolch) yn medru denfydd o'r

* Y mae yn drueni mawr na fuasai rhywun wedi ymgymeryd a'r gwaith o ysgrifennu hanes y Crynwyr Cymreig. Ni ryfeddwn pe cawsai gymaint o ddefnyddiau at ei bwrras,—am y deugain mlynedd cyntaf o'u hanes,—ag a goir gan haneswyr yr Anibynwyr a'r Bedyddwyr cyntaf. Buasai hanes manwl ac ymchwilgar yn sicr o'n hargyhoeddi fod y Diwygiad Piwritanaidd yn yr ail ganrif a'r bymtheg wedi lledu yn fwy cyffredinol nag yr ydym yn barod i gredu ar yr olwg gyntaf. Ceir olion mynych o'r Crynwyr yn holl siroedd y De, ac yn siroedd Meirionnydd, Dinbych, a Threfaldwyn yn y Gogledd.

† Cyfrifir Sir Fynwy yn rhan o Gymru.

‡ Gwel, uchod, eiriol yr "gŵr eglwysig" wrth Morus Kyffin.

Beibl Saesneg, etto gan fod peth yn amgenach gyda'r trydydd ran o bob Cymru,* ac nad oes possiblwydd mewn llawer oes, nac iddynt i gyd, nac i'r rhan fwyaf o honynt, i ddysgu cymaint o Saesneg ag y gallent ddeall y Beibl yn yr iaith hono oni bai i Dduw wneuthur gwyrthiau. . . . ,”

y mae Stephen Hughes yn cyhoeddi argraffiad rhad a newydd o'r Beibl Cymraeg.

Anghydfurfiaeth, dywedwn, a gadwodd yr iaith Gymraeg yn fyw pan oedd waelaf ei chyflwr, nid, yn wir, am fod yr Anghydfurfwyr yn ei charu yn fwy na'r eglwyswyr, ond am iddynt ganfod yn gynnar mai trwyddi hi yn ^{Anghydfurfiaeth a Chymraeg.} unig y gellid cyfrannu gwybodaeth grefyddol i'w cyd-genedl. Nid siarad am *lennyddiaeth* Cymru yr wyf; y mae y dyfyniadau a wnes uchod o ysgrifeniadau eglwyswyr ffyddlon a selog yn ddigon i ddangos—pe bai eisieu am hynny—na pherthyn llenyddiaeth ein gwlad i un enwad yn fwy na'r llall. Ond credaf mai y Diwygiad Piwritanaidd greodd yr adfywiad mawr a gymerodd le yn yr iaith ar ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg.† Oni bai am y deffroad crefyddol,—er nad oedd mor nerthol a pharhaus ei ddylanwad â'r Diwygiad Methodist-aidd,—buasai'r werin wedi aros yn ddiotal ynghylch eu hiaith, ac ni fuasai'n bosibl cael llenyddiaeth Gymraeg fyw, boblog-aidd. Diau na cheir arddull mwy llithrig na safon mwy cywir o ryddiaeth Gymraeg, nag a geir yng nghyfieithiadau yr Esgob Morgan a Morus Kyffin. Ond ni ddarllennid yr iaith gan y werin.‡

* Dengys y cyfrifiad diweddat fod dros hanner miliwn o Gymry unieithog yn awr yng Nghymru. Nid yw'r boblogaeth i gyd yn nhair sir ar ddeg Cymru ond ychydig dros filiwn a thri chwarter. Nid yw y cyfartaledd o Gymry unieithog wedi lleihau nemor, gan hynny, yn ystod y ddwy ganrif ddiweddat.

† Cf. Morus Kyffin: “Chwith iawn yw dal sylw ar lawer o wŷr eglwysig Cymreig yn byw ar bris eneidiau dynion, a bagad ereill o Gymry yn cymeryd arnynt eulun dysc a goruwchafiaeth, heb ganddynt fri'n y byd ar iaith eu gwlad.”

Steph. Hughes: “Na atto Duw i fi fod mor anghariadus” a dweyd nad oedd esgobion Cymru yn gofalu am eneidiau pobl y wlad; “yr unig achos o'r esgeul-udra am nad ydynt yn gwybod angen y wlad; canys nid ydynt yn ymgyfeill-achu a'r gyffredin bobl, na'r gyffredin bobl a nhwythau.”

Cymharer, eto, beth ddywed Ieuan Brydydd Hir (1766): “Y mae yn dra hynod fod yr ychydig Cymreig ag sydd yn argraffedig, wedi cael eu trefnu a'u llunio, gan mwyaf, gan ymwahanyddion, ac nad oes ond ychydig nifer wedi eu cyfansoddi gan ein hyffeiriaid ni es mwy na chan mlynedd; a'r rhei'ny, ysywaeth, yn waethaf o'r cwbl o ran iaith a defnydd.”

Y mae Canon Silvan Evans yn awgrymu ei gydsyniad (1876): “Pa fodd,” medd mewn esboniad o'r ffaith, “y dichon pethau fod yn wahanol, tra y mae yr esgobion estronawl, y rhai sydd yn llywodraethu yr Eglwys Gymreig, yn gorth-rymu, ac yn erlid, ac yn llethu pob gŵr eglwysig a ryfgo wasanaethu ei genedl drwy gyfrwng y wasg.”

‡ “Y mae'n well gan lawer dyn fod ei etifedd yn fuwch yn ei fyw, na threulio gwerth buwch i ddysgu iddo ddarlain; ac ni cheir yn Lloegr nemmawr o eurych, neu scubwr simmeiau, na fedro ddarllen pan fyddo'r achos.”—*R. Vaughan*, “Ymafer o dduwioldeb.”

Os nad wyf yn camsynied, tua 500 oedd nifer y Beiblau argraffwyd gan Dr. Morgan; ac nid oedd yr argraffiad o'r "Beibl bach" neu'r "Beibl coron" yn cynnwys ond pymtheg cant o gopian,* tra yr oedd yn agos i fil o eglwysi plwyfol yng Nghymru. Yn ol Stephen Hughes, yr oedd chwe mil yn rhy fach i ddiwallu angen y bobl ar ddiwedd y ganrif,—

"Er y dichon tair mil o Feiblau," meddai, "wasanaethu ein gwlad ddeg o flynyddoedd . . . etto, fel y gallo y tlawd yn gystal a'r cyfoethog eu prynu hwynt, mae'n rhaid printio chwe mil (Oh! na ellid printio deng mil) . . ."

Cul iawn, serch hynny, oedd yr olwg a gymerai yr Anghydfurfwyr ar waith a safle'r Gymraeg. Edrychent arni, yn unig, fel cyfrwng i afangyleiddio'r wlad. Cawn, fel eng-raiff, fod y Bedyddwyr hyd ddechreu'r ganrif ddiwedda† yn cadw cofnodion yr undeb yn Saesneg. Yn Saesneg, wedi hynny, yr ysgrifennai Howel Harris at Daniel Rowland, ac yn Saesneg y carai mab Daniel Rowland ferch Howel Harris. Yn Saesneg, neu yn Lladin, y cadwai Harris y rhan fwyaf o'i Ddyddiadur, ac yn Saesneg, hefyd, y cadwai Charles o'r Bala ei gyfrinion.

Er na ddymunem, felly, ddyrchafu gwladgarwch yr hen Anghydfurfwyr rhagor na gwladgarwch yr Eglwyswyr oherwydd yr ymgeledd a roddasant i'r Gymraeg, credwn ei fod yn ffaith anorfod mai i'r "Ymwahanyddion," gan mwyaf, ac i'r ysbryd newydd a darddodd o'r Diwygiad Pwritanaidd, y mae i ni ddiolch am gadw'n fyw yr iaith Gymraeg. Dau lyfr mwyaf poblogaidd diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg oedd y Beibl a

* Rhydd Dr. T. Rees restr, yn niwedd ei lyfr ar "Hanes Anghydfurfaeth yng Nghymru," o brif argraffiadau y Beibl Cymraeg, a nifer y copiau a argreiffid o bryd i bryd. Rhoddwn yma y 16 argraffiad cyntaf o'r Beibl, neu ran ohono,—

<i>Cyhoeddiwyd.</i>	<i>Gan ddy.</i>	<i>Nifer y copiau.</i>
1567	Salesbury	600
1588	Esgob Morgan	600
1620	" Parry	1,000
1630	Heylin a Middleton	1,500
1641	Wroth a Cradock	—
1646	Cradock	—
1647	"	3,000
1654	Cradock a V. Powell	6,000
1654	Cradock a Powell	—
1671	S. Hughes	6,000
1672	Gouge a Hughes	—
1677	"	8,000
1690	David Jones	10,000
1690	Piers Lewys a'r Esgob Lloyd	1,000
1718	Society for Promoting Xian Knowledge	10,000
1727	" " "	20,000

† Hyd y flwyddyn 1711, os wyf yn cofio yn iawn. Saesneg oedd iaith swyddogol y Methodistiaid Calfinaidd hyd 1830 neu 1831.


Chanwyll y Cymry. Eglwyawyr oedd yr Esgob Morgan a'r Ficar Pritchard; ond ni fuasai eu gwaith wedi cyrraedd, ac wedi ei ddarllen gan y werin, oni bai fod y Piwritaniaid wedi creu awydd am ddarllen Cymraeg, ac, yn enwedig, gweithiau crefyddol yn Gymraeg. Ni wiw i mi ymhelaethu rhagor ar y pen hwn. Digon yw dweyd fod yr Anghydfurfwyr yn y ddwy ganrif ddiweddaf wedi codi mwy na thair mil o gapelau yng Nghymru i gadw'n fyw y Gymraeg fel iaith crefydd yn y tir. A hyn sydd wedi bod yn fur ac yn amddiffynfa gadarn i'r iaith rhag ei difetha gan ei gelynion.

III.

Y mae amrywiaeth barn ar un pwnc yn sicr o greu amrywiaeth barn ar lawer pwnc arall. Felly y digwyddodd hi yn hanes Anghydfurfiaeth yng Nghymru. Nid hir y bu cyn i'r Anghydfurfwyr anghytuno yn eu plith eu hunain. Ar y cyntaf, cawn yr Anibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Presbyteriaid yn un corff. Cyn bo hir gwelir Vavasor Powell yn ymneillduo oddiwrth blaid Cradoc a Stephen Hughes, ac yn ymuno â'r Bedyddwyr. Y mae Richard Davies, hefyd, yn troi oddiwrth yr Anibynwyr at y Crynwyr. Ymysg yr Anibynwyr eu hunain y mae rhai yn Bresbyteriaid, ac ereill yn "Anibynwyr o'r Anibynwyr."* Ac yn nechreu y ganrif ddiweddaf y mae yr enwad yn ymrannu eto,—rhai yn aros yn Anibynwyr, ac ereill yn coffleidio egwyddorion Ariaeth. Nid oes a fynnom ar hyn o bryd â'r dylanwad gafodd yr ymranïadau hyn ar hanes a dylanwad Anghydfurfiaeth gyntefig yng Nghymru. Ond y mae yn amlwg ddigon fod yr ymranïadau â'r pleidiau hyn yn sicr o fod wedi creu dyddordeb yn nyrs bethau'r ffydd, ac awydd i ddarllen ac ymchwilio. Y mae yn ffrasiwn yn ein dyddiau ni i fwrw ar sectyddiaeth fel gelyn pennaf cenedl y Cymry. Ni ddymunwn fychanu dylanwadau drwg sectyddiaeth; ond dylem gofio mai sectyddiaeth, wedi'r cyfan, sydd wedi creu yr awydd am addysg ymysg y werin,—†

* Y mae y pwnc dyryelyd hwn yn haeddu rhagor o sylw nag y mae eto wedi dderbyn ar law ein haneswyr, sef, y cysylltiad rhwng yr Anibynwyr a'r Presbyteriaid.

† Y mae Mr. Lingen, un o'r Dirprwywyr fu yn ymchwilio i gyflwr Addysg yng Nghymru hanner can mlynedd yn ol, ac awdwr rhan o "Frad y Llyfrau Gleision," wedi gwneyd un sylw hynod o graff yn ei adroddiad. Yr oedd wedi talu ymweliad â dau blwyf gwledig yn sir Gaerfyrddin,—Llanwrda a Llanycrwys,—synwyd ef gan y gwahaniaeth rhwng yr awch am addysg a ffynnai yn Llanycrwys, a'r difaterwch yn ei gylch yn Llanwrda. Yr oedd Ficar Llanycrwys yn byw yn Llanwrda, ac felly honnai wybod amgylchiadau y ddau blwyf. "There is a great contrast," meddai, "between the people in Llanycrwys and in this parish (Llanwrda), in respect of the desire for education. Here, altho' there is a good foundation, they seem to care little about learning, but in Llany-



yn ddigon i'w hargyhoeddi. Safodd yr ysgolfeistri yn anhyblyg, ac nid yw barn dysgawdwy'r addfed a phrofiadol fel y Prifathrawon Rhys a T. C. Edwards a Mr. Acland, a llawer o'r goruchwylwyr yng Nghymru, nac aflwyddiant amlwg yr hen gynllun, wedi llwyr ddileu eu rhagfarn yn erbyn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion. Eto gellir dweyd yr addefir yn dra chyffredinol, erbyn hyn, ddefnyddioldeb y Gymraeg fel yr unig gyfrwng teilwng ac effeithiol i ddysgu Saesneg i'w deiliaid, ac er gwaethaf dallineb a rhagfarn a difaterwch, fod y Gymraeg yn sicr o gymeryd ei lle priodol yn ysgolion elfenol parthau Cymreig y Dywysogaeth.

Cyn ymadael â'r rhan hon o'r pwnc, ac er mwyn cael golwg gliriach ar yr yr hanes, nid ofer fyddai rhannu dysgawdwy'r Cymru, gyda golwg ar eu hymddygiad tuag at y Gymraeg, yn dri dosbarth,—

i. Dilynwy'r Harri'r VIII., y rhai ni fynnent wneyd defnydd yn y byd ohoni. Barnent—fel y gwna llawer o ysgolfeistri gwledig ac aelodau Byrddau Ysgol hyd eto—mai yr unig ffordd i ddysgu Saesneg oedd drwy anwybyddu'r Gymraeg.

ii. Ereill a gredent, gyda Salisbury, y dylid gwneyd defnydd o'r Gymraeg er mwyn galluogi'r genedl i ddysgu Saesneg, ac ar ol hynny, mai gore po gyntaf y diflannai o'r tir. Y mae llawer o'r dosbarth hwn i'w cael eto. Addefant y dylid dysgu'r Gymraeg yn yr ysgolion elfennol am na all plant Cymry unieithog ddeall un iaith arall. Ond nid yw o bwys, meddant, ei dysgu yn yr ysgolion canol-raddol na'r colegau, canys, erbyn hyn, bydd pob myfyriwr wedi ennill gwybodaeth o Saesneg. Y mae Lingen, yn ei adroddiad, wedi egluro saf-bwynt y dosbarth hwn mewn geiriau tarawiadol iawn,—

“Nor can an old and cherished language,” meddai, “be taught down in the schools . . . even tho' to supersede it be the most important part of (Welsh) education. . . . How to employ the old tongue as a scaffolding, yet to leave; if possible, no trace of it in the finished building, but to have it, if not lost, at least stowed away.”

iii. Ereill, drachefn, a fynnent wahaniaethu rhwng iaith crefydd a iaith masnach. Credent mai'r Gymraeg ddylai fod yn “iaith dydd Sul;” a'r Saesneg yn “iaith bob dydd.”

“The common arguments used are that Welsh should be the language of sacred, as English of secular, things in Wales,” medd Lingen am y rhain, “because it would always be impossible to make religious truths so generally acceptable in any other form,” &c.

was raised up. . . . Sure I am, the Welsh charity schools do no way hinder to learn English, but do very much contribute towards it; and perhaps you will allow, sir, that learning our language first is the most expeditious way to come to the knowledge of another. . . . Experience now proves beyond dispute that if it be ever attempted to bring all the Welsh people to understand English, we cannot better pave the way for it, than by teaching them to read their own language first.”

Gwnaethpwyd un ymgais, serch hynny, at adfer i'r iaith ei lle priodol yng nghyfundrefn addysg sydd yn werth ei chofnodi yma, ac yn werth hefyd, i'n dysgawdwyr i roddi eu sylw dyfnaf a mwyaf gofalus iddi. Cyfeirir at Cynllun Llanymddyfri. Sefydliad Cymreig yn Llanymddyfri yn 1847, gan Mr. Thomas Phillips, yr Arglwyddes Llanofar, a'r Archddiacon Williams. Nid oes eisieu i mi roddi manylion o hanes y sefydliad. Boddlonaf, ar hyn o bryd, ar ddweyd i'r ymgais lwyddo tuhwnt i ddisgwyliad neb, cyhyd ag y cafodd chwareu teg, ac na wnaeth neb wasanaeth mor ddrwg i Gymru ac i addysg genhedlaethol Gymreig, ag Esgob Llanelwy wrth ddymchwelyd cynllun ac aincan gwreiddiol hen sefydliad Thomas Phillips. Nid yw'r sefydliad, yn awr, yn Gymreig mewn dim ond mewn enw,—yn wir, y mae hyd yn oed yr enw wedi syrthio o'r golwg yn ddiweddar. Gwir na all neb, eto, fod yn brifathraw ond Cymro; ond ofnaf y bydd i'r "diwygywr," wrth ganfod esiampl ysgolion canolraddol Llandudno ac Abertawe, edrych ar y rheol hon, hefyd, fel *relic* o fymppy penffol. Ta beth am hynny, y mae holl drefniadau doeth y sefydlwyr llygadgraff ynghylch dysgu'r Gymraeg wedi eu hanwybyddu er ys mwy nag ugain mlynedd. Bydd yn rhyfedd gennyf os na chyfaddefir gan yr oes nesaf, os nad gan ein hoes ni, fod sefydlwyr Athrofa Gymreig Llanymddyfri wedi deall anghenion Cymru yn llawer gwell na'r Esgob Edwards a'i ganlynwyr. Mae erthyglau y Weithred Ymddiriedol yn llanw holl ofynion Cymru Fydd yn y mater o ddyagu'r Gymraeg; a gwyn fydd na chymerid hwynt fel siarter pob ysgol ganolraddol yng Nghymru. Fel hyn y rhed geiriau y Trust Deed,—

"The Welsh language shall be taught exclusively during one hour every school day, and be then the sole medium of communication in the school, and shall be used at all other convenient periods as the language of the school, so far as to familiarise the scholars with its use as a colloquial language.

"The masters shall give lectures in the language upon subjects of a philological, scientific, and general character, so as to supply the scholars with examples of its use as a literary language, and the medium of instruction on grave and important subjects.

"The primary intent and object of the founder, which is instruction and education in the Welsh language, shall be faithfully observed."

IV.

Fel y mae dysgawdwyr yn dyfod i ganfod yn fwy-fwy ddefnyddioldeb y Gymraeg, y maent hefyd yn dechreu gweled ei gwir werth fel offeryn i ddadblygu cyneddfau uchaf a goreu y meddwl Cymreig. Dywedais mai'r Gymraeg oedd ac yw iaith crefydd yng Nghymru; ond nac anghofier gymaint mwy y mae hyn yn gynnwys yng Nghymru nag, feallai, yn un wlad arall. Er ys dwy ganrif, beth bynnag, y mae dyheadau a drych-

feddyliau godidocaf y genedl wedi gwisgo ffurf ac agwedd grefyddol. Ein barddoniaeth, ein hareithyddiaeth, ein llên a'n cân,—y maent oll dan ddylanwad, os nad dan lwyr reolaeth, yr ysbryd crefyddol. Yn wir, gellir dweyd mai hyn sydd wedi bod yn gryfder a nerth i grefydd yng Nghymru; nad oes rhan o fywyd Cymreig heb ei ddysgyblu, ie, a'i lywodraethu ganddo. Os yw hyn yn wir,—a chredaf na all neb ei ameu,—y mae yn canlyn nad oes modd i'r cenhedlaethau a ddel gael mynediad helaeth i mewn i ddyheadau mwyaf cysegredig, a phrofiadau dyfnaf y genedl Gymreig, os anghofir yr iaith Gymraeg. Nis gallaf wneyd yn well na dyfynnu geiriau doeth y Prifathraw T. C. Edwards ar y pen hwn,—

“To permit the people of Wales to lose their knowledge of literary Welsh, the language of the Welsh Bible, so that they will understand no other Welsh than the the mongrel *patois* of the streets, is to abandon deliberately the creative influences of the past, to break for ever with the ennobling examples of our great men, to throw away the heritage of many centuries, in order to start, forsooth, from the low intellectual and moral condition of savage tribes. Let English come into Wales and take possession if it can. But let the intellectual and moral life of the future be the natural development of the past. This it cannot be if we foolishly and criminally neglect to teach literary Welsh until we have accomplished the task of teaching literary English.”*

Gwir a ddywedodd;—os tafwn o'r neilldu yr iaith sydd yn ein cysylltu â'r gorffennol, a ddadlenna i ni hanes ein gwlad a meddyliau ein tadau, yr unig allwedd a egyr y porth sydd yn arwain i'n hetifeddiaeth genhedlaethol, bydd yn rhaid i ni ail-gychwyn ein gyrfa fel pobl farbaraidd, i'r rhai nid oes na hanes, ond traddodiadau niwlog, na llenyddiaeth, ond geiriau sathredig a dilun.

Nid oes dim yn fwy tarawiadol yn hanes Cymru, na'r sel sydd wedi ysu cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth at ddysgu Saesneg.

* Y mae W. Edwards, arolygydd ysgolion Merthyr, wedi gwneyd sylwadau craff ar hyn, hefyd. “A policy,” meddai, “which gags the mouth of a child, stupidly ignores the habits and associations of home, and crushes every native sensibility, can only result in immense waste of energy, in the lowering of the tone of the nation, and in the paralysis of the intelligence of many generations of Welshmen.”—Gwel Southall's “Wales and her Language.”

Nis gallaf ymatal rhag rhoddi barn y Deon Vaughan,—un o brif ddysgawdwy, ac un o feddylwyr cliraf a mwyaf anibynnol yr oes,—

“Wales,” meddai, “has a patriotic and a religious duty still towards the language in which she was born. She has, first, to see that it be articulately and grammatically formed and shaped in all its particulars, so that it be no *patois* of chance or trick, but a language worthy of the respect of other languages, worthy to become the study of the learned and the training speech of the young. Next, that it shall have a literature all its own, a literature without a knowledge of which the education of a scholar shall be confessedly incomplete,—a literature unapproachable save through its language, and therefore securing to that language the undying interest and unstinting effort of all who would think or know.”

Cydnabyddid yn hawdd ddigon fod gan y Cymry dalentau disglauer; eto, arosai'r wlad yn llwm a thlawd. Yr ^{Saesneg a gwareiddiad.} oedd pawb o'r un farn a Lingen, mai'r iaith Gymraeg oedd yn cadw'r bobl "under the hatches." Pe gellid, felly, ddodi tafod Saesneg mewn genau Cymreig; credid y buasai tloedi ac anwybodaeth, aflwyddiant bydol a chulni medd-yliol, yn diflannu o'r tir. Wrth ddarllen rhai tystiolaethau a roddid o flaen y Ddirprwyaeth Addysg yn 1846, gellid casglu y byddai y mil blynnyddoedd yn gwawrio ar Gymru pan adawai y genedl eu heniaith dros gof. Erbyn heddyw, y mae profiad chwerau wedi dysgu yn amgenach i ni. Y mae rhannau o Gymru eisoes wedi colli eu Cymraeg. A ydynt, o herwydd hynny, yn fwy gweddus a dichlynaidd eu hymddygiad, yn decach eu gwareiddiad, yn fwy a gwell eu diwylliant, yn uwch a disgleiriach eu dysg,—neu hyd yn oed yn fwy llwyddiannus eu hamgylchiadau bydol? Nis gall neb sydd wedi talu sylw i gyflwr moesol, cymdeithasol, llenyddol, ac addysgol Cymru ddweyd na meddwl y fath beth. Y mae mwy o Saeson unieithog yn sir Fynwy a sir Forgannwg nag yn un sir arall yng Nghymru; ond y mae cyflwr moesol y ddwy sir hon yn waeth na'r eiddo holl siroedd ereill Cymru. Wrth gwrs, nid wyf am ddweyd mai Seisnegyddiaeth yn unig sydd wedi dirywio cymeriad moesol a chymdeithasol y siroedd hyn. Gwn yn dda fod amgylchiadau bywyd yn dra gwahanol mewn ardaloedd poblog i'r hyn ydynt mewn ardaloedd gwledig. Ond nid yw hyn, ynddo ei hun, yn ddigon i gyfrif am gyflwr gwael y rhannau Seisnig. Y mae y boblogaeth mor aml, ac y mae amgylchiadau bywyd yr un, yn sir Forgannwg ag ydynt yn sir Fynwy; ond saif Mynwy yn is ar y rhestr na Morgannwg. Eto, y mae rhannau o sir Gaerfyrddin yn boblog iawn; ond ers y sir hon yn ail ar y rhestr. Y casgliad sydd yn rhaid ei dynnu oddiwrth yr ystadegau yw,—po fwyaf Seisnigaidd y boblogaeth, gwaethaf eu cyflwr moesol.*

* Gall y cywrair weled yr ystadegau yn llawnach yn rhifyn Ionawr o GYMRU. Hwyrach y bydd y daflen isod o ddefnydd,—

<i>Enw'r Sir.</i>	<i>Cyfrifaledd y cant o Saeson unieithog.</i>	<i>Cyfrifaledd o'r bobl all siarad Cymraeg.</i>	<i>Nifer troseddau am bob can mil o bobl.</i>
Ceredigion	5	95	59
Caerfyrddin...	10	90	63
Arfon	5	95	81
Meirion	5	95	85
Fflint	32	68	96
Maldwyn	50	50	107
Morgannwg...	51	49	285
Mynwy.....	84	16	354

Beth yw'r rheswm am hyn? Ai nid oes gwareiddiad yn Lloegr? A yw yn beryglus dyfod i gyffyrddiad â dylanwadau Seisnig? Na ato Duw i ni ddweyd y fath ffolineb! Y mae gennym y parch mwyaf i'r Saeson; y mae iddynt lawer o rinweddau cenhedlaethol fyddai yn dda i'r Cymry pe yr enillent hwy. Credaf na welodd y byd erioed uwch gwareiddiad na gwareiddiad Lloegr ar ei goreu; ac, yn sicr, ni fu erioed lenyddiaeth mor eang, mor gyfoethog, mor amryfal a llenyddiaeth iaith Shakespeare a Miltwn, Wordsworth a Shelley a Ruskin. Ond dengys hanes pob cenedl orchfygedig mai nid rhinweddau, ond ffaeiddau a gwendidau y gorchfygwyr a ddilynir gan mwyaf, ac y mae y dôn gymdeithasol isel a ffynna yn rhannau Seisnig Cymru yn profi y deil y ffaith hon yn wir gyda ni.

Yng Nghymru Gymreig ceir y gyfeillach a'r cwrdd gweddi, y gymanfa ganu a'r sasiwn, yr ysgol Sul a'r eisteddfod a'r cwrdd llenyddol. A geir eu cystal neu eu gwell yn y rhannau Seisnig? Nid oes fawr argoel. Chwareu pel ddu a mynychu *music halls*, rhedegfeydd ceffylau, a *boxing matches*—dyna bleserau y Cymry Seisnigaidd a'r Saeson yng Nghymru. Nid wyf mor gul a meddwl na ellir dweyd llawer dros rai o'r pethau hyn; ond a ddywed neb fod y gwareiddiad a gynrychiolir gan y bobl hynny a ddiystyrrant eisteddfod neu gwrdd llenyddol er eu mwyn, yn rhagori ar y diwylliant sydd yn tarddu yn naturiol o ffynonhellau hollol Gymreig?

Clywsom o bryd i gilydd boblach yn gofyn,—“Pwy les all ddyfod o dreio cadw yn fyw lenyddiaeth Gymreig? A oes gennych fardd neu lenor bydenwog? Ble mae eich Gwerth ein llenyddiaeth. Shakespeare neu eich Miltwn? Onid llawer rhagorach llenyddiaeth Lloegr na llenyddiaeth Cymru?”

Y mae hwn bellach yn hen ofyniad. “Onid gwell Abana a Pharpar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel?” meddai'r tywysog gynt wrth y proffwyd. Ond y mae yr ateb hefyd yr un. Diau, buasai yn beth da pe gallai trigolion Cymru ddarllen a deall Homer a Virgil, Dante a Goethe, a holl weithiau clasurol y cynfyd; ond, fel y dywedodd Stephen Hughes,—“Haws dywedyd 'mynydd' na myned drosto.” Y mae gwerin Cymru yn bobl lengar; eu hoff lyfrau ydyw y Beibl, Drych y Prif Oesoedd, gweithiau Pant y Celyn, Ceiriog, Mynyddog, Islwyn, a Daniel Owen. Dichon y ceir mewn llawer iaith drech llenyddiaeth; ond nid dyna'r pwnc. A geir llenyddiaeth sydd yn taro cenedl y Cymry yn well? Ac a ydym yn sicr pe bai i werin Cymru roddi heibio darllen “Drych y Prif Oesoedd,” y darllenent ysgrifau John Richard Green? Cyfaddefaf fod Miltwn yn fardd mwy urddasol na Phant y Celyn; fod Tennyson yn rhagori ar Ceiriog, a Swinburne ar Mynyddog, a Wordsworth ar Islwyn,

a George Eliot ar Daniel Owen;—ond a wna ac a all y gwŷr hyn gymeryd lle Ceiriog a Mynyddog ac Islwyn a Daniel Owen yng nghalonnau'r genedl Gymreig? Sicr yw, beth bynnag, nad ydynt, hyd eto, wedi cymeryd eu lle ymhlith y Cymry Seisnigaidd. Cilia llenyddiaeth Cymru o flaen ei gwaeth, nid ei gwell; nid o flaen Shakespeare, ond y *sporting papers* a newyddiaduron isel-wael; nid o flaen George Eliot, ond nofelau dichwaeth sydd yn iselhau a llygru safon ac archwaeth feddyliol a llenyddol eu darllenwyr; nid o flaen iaith Gladstone a Bright, ond o flaen iaith y *navvies* a'r porthmyn.


Eto, erfyniaf ar y darlennydd beidio fy nghamddeall. Ni ddymunwn ddweyd—byddai yn hollol afresymol i ddweyd—na ddarlennir ac na werthfawrogir llenyddiaeth chwaethus gan Saeson a Chymry Seisnigaidd. Ond dywedaf yn groew na ddarlennir Shakespeare a Wordsworth gan y dosbarth Seisnigaidd sydd yn cyfateb i'r dosbarth Cymreig sydd yn ymhyfyrydu yng ngweithiau beirdd a llenorion Cymru.

Credaf na welodd y byd erioed well engraffit o ddiwylliant gwerinol nag a geir yng Nghymru heddyw. Y mae y Sais yn siarad am Weriniaeth Lenyddol, "the Republic of Letters;" ond Llenyddiaeth y werin. ychydig o'r tlawd a'r anysgedig all ennill eu dinas-fraint ynddi. Ond y mae llenyddiaeth Cymru wedi ei chreu gan y werin er mwyn y werin. Oddiar pan gollodd y bonedd eu Cymraeg, y werin ddiddysg sydd wedi bod yn noddwyr i'n llenyddiaeth. Pregethwr oedd Islwyn; ffarmwr oedd Mynyddog; *station-master* oedd Ceiriog; melinydd oedd Dewi Wyn o Essyllt; dysgodd Hiraethog reolau barddoniaeth pan yn fugail ar lethrau'r mynydd, a Watcyn Wyn pan yn gweithio dan y ddaear. Yr hyn sydd yn wir am ein barddoniaeth, sydd yn wir hefyd am ein holl fywyd cenhedlaethol. Ysgrifennodd ffarmwr yn sir Gaerfyrddin ei dystiolaeth yn Gymraeg, a chyflwynodd hi i'r Ddirprwyaeth Dir ddwy flynedd yn ol; nid oedd wedi cael awr o ysgol erioed,—ond yr ysgol Sul,—ni allai siarad gair o Saesneg, ni chafodd unrhyw gyfarwyddyd gan neb ffordd i gyfansoddi yn ei iaith ei hun. Eto, swynwyd y Prifathraw Rhys yn gymaint gan arddull goeth a llithrig y cyfansoddiad, fel y gorchymynnodd iddo gael ei argraffu fel ychwanegiad at yr adroddiad swyddogol. Y mae y Methodistiaid Calфинаidd yn rhoddi bathodyn bob blwyddyn i'r un a ddengys mewn arholiad cyhoeddus fwyaf o wybodaeth ysgrhythrol. Morwyn mewn gwasanaeth yn Llanberis a enillodd y bathodyn ddwy neu dair blynedd yn ol. Ymhob plwyf yng Nghymru ceir "meib yr awen," gwŷr sydd yn gosod eu bryd ar ddarllen a chyfansoddi Cymraeg yn eu horiau hamdden. Gwyddom nad yw cynnyrch eu myfyr yn fynych yn cyrraedd safon lenyddol uchel; ond nid hynny sydd yn bwysig. Yr hyn sydd yn

werthfawr yw fod ein gwerin-bobl, tra yr arhosant yn Gymry Cymreig, yn cymeryd dyddordeb mewn pynciau sydd yn eu codi uwchlaw eu bywyd a'u gorchwylion cyffredin. Ond nid cynt y collant eu Cymraeg nag y collant, hefyd, eu gafael ar y diwylliant sydd yn perthyn i werin Cymru. Nid Islwyn yn unig ynhlith ei bobl sydd wedi dal cymdeithas âg "angel y dyffryn ac awen yr afon," ond pan gilia'r Gymraeg, lleda yr angel hefyd ei adenydd, a'r afon nid edwyn mwy ei hawen. Cyll anian ei llais; try Paradwys yn ddifiaethdir gwyllt, lle ni thyf ond drain a mieri. Y blodau ni fyddant mwyach yn "ser gloewon y llawr,"* ond porfa ych a dafad; cerdd eos ni fydd ond swm i oglais clust, fel crwth mewn tafarn; y fwyalehen a'r deryn du, ni fyddant ond lladron yr ardd, ac nis danfonnir hwynt eto yn llatai at Forfydd neu Ddyddgu; y dydd ni fydd ond amser bwyd a gwaith, a'r nos ni fydd ond amser gorffwys; y bugail a'r gweithiwr, yn nhrigfannau tawelweh, ni chlywant mwy sibrdw o'r wlad tu draw i'r llen. Diflanna prydferthwch a barddoniaeth bywyd; ac ni fydd dyn, heb hanes iddo na gobaith, yn ddim gwell na pheiriant cywrair i ddadblygu cynheddfau materol y wlad.

Yr ydym wyneb yn wyneb â'r perygl mwyaf a ddaeth erioed ar draws cenedl y Cymry. Ni allai gwaywffyn a bwâu y Norman-iaid ond lladd y corff; ond y mae arfau gwrthwynebwyr y Gymraeg yn lladd yr enaid. Pa fodd, gan hynny, y gwnawn osgoi'r perygl? "Addysg yw y saeth flaenllymwr," medd Eilir yn un o'i ganeuon byw. Ond beth ddylai fod yn rheol lywodraethol, yn brif ddben addysg? Yn Lloegr detholir y goreuon o blith y lluaws, a gosodir hwy ar binacl, lle yr edrychant i lawr ar y rhai ni chawsant yr un manteision neu'r un talentau naturiol. Ai er mwyn yr ychydig y sylfeinir ein haddysg "genedlaethol" ni, neu er mwyn y genedl gyfan? Yn y caeau a'r masnachdai, yn y glofeydd a'r chwarelau yr erys cenedl y Cymry. Hanes Cymru—hanes y werin yw! Y werin sydd wedi rhoddi gwerth ar ein bywyd; y werin sydd wedi dioddef ac aberthu fwyaf er mwyn ein hiaith, ein gwlad, a'n crefydd. Ai diben addysg yw codi mur rhwng y dysgedig a'u brodyr sydd yn aros gartref wrth eu gorchwylion gwaith? A ddylai ein haddysg "genedlaethol" ladd ein diwylliant gwerinol, er mwyn, ysywaeth, i ychydig o'r pigion i gael eu magu ar faeth Seisnig? Ni fynwn, er dim, osod rhwystrau ar ffordd llwyddiant a dyrchafiad y Cymry ieuanc dysgedig. Rhwydd hynt iddynt i ennill safleoedd o barch ac anrhydedd yng Nghymru ac allan o Gymru. Ond ai teg iddynt, wrth ddringo

* "Y blodau, ser gloewon y llawr."—Eilir.




gorff y genedl suddo
 ? Ond y mae ein
 fir y Gymraeg yn
 yn unig fe ddyrch-
 enedl, ond ni fydd
 helgais a llwyddiant

owland Williams o Lan-
 g away a great gift of

tu mwyaf rhadlaw
 Nid rhwystr ar
 gaffold, ychwaith, a
 di, nid iaith at rai
 ydd wedi byw yng
 Cymru er ys dros
 niaeth i'n cenedl ni!
 hachiad y fellten a
 goedwig wyw, a'r
 dyw, y mae dynion
 Rhagluniaeth yw'r
 gysyllta bedwar ban
 ymyn tangnefedd.
 u gynt yn elyn ac
 genedl, nid yw'r bai
 neu a gamddefnydd-
 wrth gychwyn ein
 eb ofnadwy—pa un
 neu yn allu Duw i

WELYN WILLIAMS.



DIG.

r byd yn treiddio i
id beunydd, ac y mae
a lledrith yr oesoedd
ymagor o flaen llyg-
Y mae bellach dros
hedd er pan sylwodd
ydd Swedaidd, fod
newid *chloride* arian
chreuodd ef ac ereill
am hyn, a'r canlyn-
oleu'r haul i dynnu
aynny, trowd at ser-
ny nas gwelwn ni
r fron y nefoedd,—a
eu llun, i ni edrych
Darganfyddwyd ser-
tu, ac ni wŷr neb pa
edrych i bellderau


igaeth,—os gellir ei
darganfyddwyd dull i
Daliwyd pelydrau
lir byth, a gwnawd
ymyn ânt trwy syl-
t, a thynnant ddarlun.

awl-arlunydd yn eis-
Geneva sy'n wynebu.
yn ymgodi i fyny o
an milltir o Geneva.
mynydd yn dechreu
aeth y mynydd yn
id adeg yr arlunydd i
aeth oedd y medrai,
lygad noeth ei weled,
hir, gael darlun o'r
Tybiai y byddai i'r
yr un gwaith a'r
velodd y darlun, caf-
ydio am dano erioed.
eb ei amwisg o eira.
dd, ac ni wel neb byth
ddarlun o beth nas
er amlwg nad oedd y
dd rhyfedd. 95

Tua dechreu'r flwyddyn hon, gwelodd gwyddonwr German-aid o'r enw Röntgen linell ddu ar rai o'i ddarluniau, a bu mewn cryn benbleth i wybod beth oedd. Ni wiw i mi yma adrodd hanes ei ymchwiliadau; ond y diwedd oedd hyn,—darganfyddodd y medr pelydrau anweledig fynd drwy fater nas gall y llygad ganfod drwyddo, a thynnu darlun o'r peth sydd yr ochr draw. Cymerer gwydr hirgrwn a'i du mewn yn wag, a rhodder trydan drwyddo. O'r naill ben iddo daw pelydrau nas gall y llygad eu gweled, ac ânt trwy goed a chnawd a llian fel yr a pelydrau gweledig drwy awyr neu wydr tryloew. Dan y pelydrau rhyfedd hyn, gellir tynnu darlun o'r tu mewn i goffr pren, i ddangos yn eglur beth yw ei gynnwys.

Mor fuan ag y gwybu'r byd am y darganfyddiad, y peth ddywedai pawb oedd,—dyna gaffaeliad i'r meddygon. Prysurodd meddygon Prydain,—a rhai gwych yw'r Prydeinwyr bob amser am ddefnyddio darganfyddiau meddylwyr estron,—i brofi pa ddefnydd fyddai'r pelydrau, oedd newydd eu darganfod a'u dofi, iddynt hwy. Gwelwyd y medrir cael darlun perffaith o esgyrn y llaw; ac felly gellid ysbio'r esgyrn mor fanwl a phe diosgid hi o'i chnawd. Pan fydd rhyw ddrwg ar yr asgwrn, gwelir felly mewn amrantiad ym mha le y bydd. Weithiau a nodwydd dros ei phen i'r cnawd, a pheth eithaf gwybyddus ydyw y teithia trwy'r corff, heb i'r dioddefydd na'r meddyg wybod ar ddaear ymhle y mae. Ond yn awr, prin y bydd ymguddfa yn y corff dynol yn unlle iddi. Mae cael darlun perffaith o esgyrn y corff, heb orfod torri trwy'r cnawd atynt, yn amhrisiadwy i'r meddyg ac i ddynol ryw. Gwelir ar unwaith ymhle y bydd y fwlet, y cancr, y drylliad. Bydd yn achub dioddef ac yn achub bywyd i lawer un yn y dyfodol; nid dyfalu lle mae'r drwg, a cholli amser i chwilio am dano a wna'r meddyg, ond ei weled ar unwaith. Gorchwyl hawdd yw gwawli-arlunio, ac y mae'n ddigon rhad erbyn hyn i fod yng nghyrraedd gwerin; dylai pob meddyg fod yn fedrus ynddi.

Y mae'n sicr y deffroa'r darganfyddiad hwn feddwl yr ymchwilgar, ac y bydd ail greu athroniaeth. Onid yw y cysylltiadau rhwng meddwl a mater yn mynd yn rhyfeddach o hyd? Onid oes ystyr ddyfnach bob dydd i'r hen gwestiynau sydd wedi ymlid y meddwl dynol drwy'r oesau? Yr ydym fel pe'n dysgu galluoedd natur i gymeryd lle synhwyrau newyddion, ac i ddadguddio i ni bethau na ddeuai y llygad neu'r glust o hyd iddynt byth. Yn ol pob tebyg, y mae rhyfeddodau diderfyn o'n cwmpas, ac fel y dadblygwn y mae bydoedd newydd dieithr yn ymagor o'n blaenau o hyd. Nid gwagle yw tragwyddoldeb, ond peth anfeidrol lawn.



83

83

83

83

83

83

W.

Y LLENOR.

"I WYND DOETHINES AG ADYTRG."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN

LLYFR VII.

LLOFFION.

HUW MYFYR.

HEN FESURAU TIR CYMRU.

LLENYDDIAETH Y SAESON.

DEWI WYN O EIFION.

SANCTEIDDRWYDD.

Chwarswm :

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN

GORFFENNAF, 1896.

C Y N H W Y S I A D .

Wyneb-ddarlun,—*Eglwys Kemper, Llydaw.*

LLOFFION.

Darluniau,—*Lloffa ger traeth Gwyr, yng ngwlad Islwyn ac Aneurin Fardd, Pistyll Rhaiadr.*

Un o gyfieithiadau Robert Owen; un o ganeuon Horas; llythyr Jones o Ramoth; achau Glasyny; adgof ei athraw am Islwyn; darnau o ddyddlyfr Islwyn; Islwyn a digrifwch; Islwyn a'r iaith Gymraeg; llenyddiaeth yr ochr arall i'r Berwyn.

TUDALENNAU 5—16.

HUW MYFYR.

Darlun,—*Huw Myfyr.*

Ei FfWYD yn dri chyfnod yng nghysgod Hiracthog, Berwyn, ac Eryri; ei wyleidd-dra, ei onestrydd, ei bruddglwyf; pregethwr cynulleidfaoedd bychain Maldwyn.

Ei GANEUCON,—Pigion o rai heb eu cyhoeddi. i. Canu. ii. Achub John. iii. Natur a'i phlant. iv. Tŷn y gwynt. v. Nos feddyliau. vi. Wrth wely angau fy mam. vii. Pydew Bethlehem. viii. Eisieu bod yn flaenor. ix. Cyf-archiad i fynyddoedd Cymru.

TUDALENNAU 17—32.

HEN FESURAU TIR CYMRU.

Nodiadau ar ymchwiliad i hen-fesurau tir Cymru,—y rhan fwyaf, erbyn hyn, yn auarferedig. Modfedd a throedfedd a thri hyd heidd; y llath, yr erw, yr acr; y stang; y *Welsh rood*; "llath" Dyfed; "cyfar" Ffiint; aceri ac erwau'r Deheudir, y gwrhyd, "llath" Mon.

Ni roddir ond ffrwyth ymchwiliad yn yr erthygl; ond y tebyg yw fod y gwahanol fesurau'n perthyn i donnau gwahanol o genhedloedd, ac y gallant dafu llawer o oleuni ar hanes y crwydriad.

TUDALENNAU 33—46.

Dwy gân,—GADAEL TIR; DAN Y GWLITH.

Darluniau,—*Porth Penrhos, Cartref ym Muallt.*

TUDALENNAU 47—48.

LLENYDDIAETH Y SAESON.

Cyfnodau bywyd a meddwl cenedl,—y rhamant, y ddrama, y nofel, beirniadneth.

Tri chyfnod llenyddiaeth y Saeson,—I. Cyfnod y Rhamantau, 1100—1500; II. Cyfnod y Ddrama, 1500—1750. III. Cyfnod darlunio natur, 1750—1895. Y tri'n ateb i dri chyfnod hanes,—cyfnod yr uchelwyr, cyfnod y brenin, cyfnod y werin.

I. Cyfnod y Rhamantau, neu'r cyfnod ffederalaidd. Defnyddiau Celtaidd y rhamantau yn iaith y Normaniaid; eu Seisnigo; eu dwyn i gyffyrddiad â bywyd. Chaucer. Deffroad y werin, dechreu gwladgarwch.

II. Cyfnod y Ddrama, 1500—1750. Llenyddiaeth cenedl yn lle llenyddiaeth dosbarth. Llwybrau newyddion a defnyddiau newyddion. Pen llanw'r bywyd yn Shakespeare. Ddrywiad y ddrama. Pregethu a rhyfel. Milton. Ymorffwys a gwanhau,—hanes, y nofel, beirniadaeth. Cewri'r adfeilion.

III. Cyfnod darlunio natur, 1750—1895. Dadblygiad y gallu i weled tlysmi natur wyllt. Wordsworth. Arwydd deffroad newydd,—gwerth dyn, rhyddfreiniad gwraig, heddwch â'r storm ac â'r nos.

Beth fydd llenyddiaeth y Saeson?

TUDALENNAU 49—62.

DEWI WYN O EIFION.

Darlun, y *Gaerwen*.

Ffracthineb Dewi Wyn,—ei ddywedialau a'i rigymau ar lafar gwlad.

Ei ymgais i ddysgu cerddoriaeth; yr ohebiaeth rhyngddo â Jones o Ramoth.

Ol-ddarlun,—*Glan y Môr, ger Abertawe.*

TUDALENNAU 63—85.

SANCTEIDDRWYDD.


Darlun,—*Bannau Brycheiniog.*

I. Yn Nuw. (a) Yn allu clywed. (b) Yn allu gweled. (c) Yn allu teimlo.

II. O Dduw. Meddyliau Daw mewn cread a hanes yn gwisgo sancteiddrwydd fel nod dwyfoldeb.

III. At Dduw. (a) Sancteiddrwydd meddyliau Duw yn cyfrif am eu hafonyddwch a'u pegerindod. (b) Sancteiddrwydd yn bugeilio bywyd i'r nef hyd groesffordd. (c) Sancteiddrwydd yn gwneyd disgybl o fywyd, trwy beri i'w amgylchiadau ei ogwyddo at Dduw. (d) Sancteiddrwydd wedi arwain ei braidd i'r Ddaear Newydd i aros byth.

TUDALENNAU 86—96.



ADEG CYNHAUAF.

ION.

anerbyniol, am dro,
heb gysylltiad rhwng
wedi ei hysgrifennu
honynt wedi huno
tryloew disglær i'm
da phost pob dydd.
y bum yn hiraethu
un er mwyn y gwir-
w pennill a bywyd
hyw fardd y mae ei
Ar ol hynny, hwyr-
yn medru gweled a
ryw hen lawenydd
il-greu yn y meddwl
dd wedi ffoi ac heb

l wrth ymgydnabod
yn codi o dywarchen
dechreu'r ddeunaw-

fed ganrif, y cyntaf, hwyrach, o'r rhai welodd brydferthwch natur wyllt. Yn yr haf y daeth Coleridge, Wordsworth, a Byron. Da gen i'n aml fydd mynd yn ol i wanwyn llenyddiaeth Seisnig ein dyddiau ni,—pan oedd y Deffroad Rhamant-aidd yn ei fabandod, pan ddechreuwyd hoffi ac edmygu caneuon syml naturiol gwlad. Yr oedd caneuon felly yng nghalonau ac ar dafodau bugeiliaid sir Ayr. Llawer gwaith y clywais ganu, ar dawelwch noson haf, ryw bennill fel hyn,—

“ And whan the brad mune glisters oor
Wee bit bield and heathery muir,
Wull ye no greet for ye're sae puir,
Lussie, tho' I lo'e thee ! ”

Daeth yr hen deimladau hyn yn ol i gyd wrth ddarllen cyfieithiad o “ Highland Mary ” Burns. Nid cyfieithiad adnabyddus Daniel Ddu o Geredigion oedd hwnnw, ond efelychiad gan Robert. Owen, bardd swm y môr a glan tragwyddoldeb. Ysgrifennodd y cyfieithiad yn 1875.

Y FERCH O'R FRONGALED.

Cwri fryniau, a llethrau, a ffrydiau sy
Oddiamgylch hen gastell Corsgedol,
Eich coed-byth fo'n wyrddion, a'ch blodau'n gu,
A'ch dyfroedd yn glaer a dylifol ;
Yr haf yuo'n gyntaf llednened ei swyn,
Ac yno yn olaf arhosed,—
Can's yno ffarwellais yng nghysgod y llwyn
Ddiweddaf â merch y Fron Galed.

Mor las y blagurni y fedwen der,
Mor wych ydoedd blodau'r drain gwynion,
Tra yno mewn hedd tan eu cysgod per
Y gwasgwn fy mun at fy nghalon !
Ar edyn angyludd yr oriau di-hun
Ehedent heb imi ystyried,
Can's unwyf i'm henaid fel bywyd ei hun,
Oedd cwmni y ferch o'r Fron Galed.

'Nol mynych adduno cyfarfod druchefn,
A thyner goffeidio ein gilydd,
Rhaid fu dryllio rhwymau cymdeithas mor lefu,
Byth, byth, i gael profi ei heilfydd.
Na, rhew-wynt yr angau a wywodd cyn pryd,
Flodeuyn fy serch er ei hoffed,—
Glas heddyw'r dywarchen, a fferllyd y pridd,
Amdoa y ferch-o'r Fron Galed.

O, gwelw'r gwefusan oedd gynt fel y rhos,
Gusenais i ganwaith mor hoffus ;
A thywyll yn angau y drem ddisglaer, dlos,
Edrychai gynt arnaf mor serchus ;
Ac oeraidd falurio yng nghosteg yr yw
Mae'r galon a'm carni wresoced,—
Ond eto yn eigion fy mynwes caiff fyw
Hoff ddelw y ferch o'r Fron Galed !

Faint o feirdd sydd wedi ennill dwysder a sancteiddrwydd eu hawen wrth weled y ferch a garent yn diflannu yng nglyn oer cysgod angau, neu y tu ol i fynyddoedd o anhawsterau nas gallent hwy byth eu croesi? Beth fuasai Dante heb y cof am Beatrice, a Petrarca heb Laura? Beth fuasai Dafydd ab Gwilym heb gollu Morfudd, beth fuasai Islwyn heb gollu ei ddyweddi, fel Burns, ar fin ei briodas? Mae pawb yn ieuanc rywbyrd, neu fe ddylai fod, ac y mae'r teimlad sydd yn y "Ferch o'r Fron Galed" yn adnabyddus i bawb fedd deimladau dynol.

Nid yn y cywair lleddf y mae pob cân serch ychwaith. Dyma ddalen o Horas, gan R. Morris Lewis. Mae meddwl yr hen Rufeiniwr wedi ei gadw'n dda, ac y mae melodedd canadwy sir Gaerfyrddin yn y gân.

HORAS A LYDIA (*Carm.* iiii. 9).

Hor.—"Tra nad oedd breichiau wnai y tro
Ond rhain am d'wddwg gwyn ynghlo;
Tra fi gni fwyaf o dy fryd,
'Roedd breuin Persia'n wa'th ei fyd."

Lyd.—"Tra cawn i run o'th serch, a sail
Na wnelai Chloe Lydia'n ail;
Am Lydia'r ai y gair ar goedd,
Ac uwch ei chlod nag *Ilia oedd."

Hor.—"Nawr Chloe sydd i fi a swyn,
Ar dant hi fedr alaw fwyu;
A marw yu ei lle yn llon
A wnaif os arbed angau hon."

Lyd.—"Nawr mab Ornytus yw y dyn
Gyd-dania 'mron a'i fron ei hun;
A marw ddwywaith allaf, gwn,
Os arbed angau'r mwynlunc hwn."

Hor.—"Ond beth petai'n hen serch yu dod
A'n hieuo'n dynnach nag erio'd;
Pe gadwn Chloe deg ei gwawr
A dacioi'r drws i Lydia'n awr?"

Lyd.—"Os seren wen yw'r gŵr a nghâr,
Os gwamal di, heb fod mor wâr
A thonnau'r môr—bod gyda thi
I fyw neu farw fynaf i."

Un o gymeriadau rhyfeddaf Cymru oedd John Richard Jones o Ramoth. Yr oedd ganddo allu ac athrylith a allasai ei wneyd yn arweinydd dynion, yng Nghymru ac ymhell y tu allan iddi. Magwyd ef ymysg unigeddau mynyddig llethrau'r Berwyn,

* Iliad—Scilyddes Rhufain.

ymhell oddiwrth gymydog, ymhell iawn oddiwrth dref, ond yr oedd tân y profiwyd yn ei enaid, a buasai tyrfaeodd trefi mawrion yn hel ar ei ol. Ond dewisodd yn hytrach fyw ymysg creigiau gorllewin Meirionnydd,—i gario mawn ar ei gefn, i gerdded trwy'r ystormydd dros draeth a mynydd, i fugeilio ychydig "rai hesbion sych," ac i weled rhai'n drwgdybio'r uchelgais feistrolgar yr oedd ef yn ceisio ei phlygu i wasanaeth y gwirionedd llym.

Dyma un o'i lythyrâu,—anfonwyd ganddo ef at gyfaill, John Roberts, Bryn Isa, Llanefydd; ond a anfonwyd i mi yn y dyddiau hyn gan Mr. Edward Humphreys, meddyg, Pen y Groes, Arfon,—

"Y GARREG FAWR, *Chwefr*. 25, 1819.

Fy anwyl frawd,

Aeth heibio lawer tro ar fyd, a'r tro diweddfaf hefyd i lawer yn y byd hwn, ar ol gwelod o honof dy wnech di a'r brodyr yn y Bryn, y tro diweddfaf.

Wedi'r cwbl, y mae gennyf yr hyfrydwch o hysbysu i ti heddyw fy mod i a'r eglwys yma yn aros hyd heddyw mewn cyflawn undeb, tangnefedd, a chariad brawdol; ac yn cynyddu mewn rhifedi hefyd, er gwaethaf Satan a'i gynllwynwyr.

Dydd yr Arglwydd, y pedwerydd ar ddeg o'r mis hwn, yr oeddyd yn derbyn chwech i'r eglwys trwy fedydd, un o ardal Harlech a phump o'r gymydognaeth hon. Derbynasom ddeuddeg trwy fedydd, ar ol ymranïad R. Morgan a'i bleidwyr. Claddasom hefyd ddau yn lled ddiweddar yn Ramoth; y naill oedd Hugh Pugh o'r ardal yma, a'r llall oedd frawd ieuanc, ffyddlon, a serchog, o Harlech, ac un o'r deuddeg a fedyddiwyd ar ol yr ymranïad. Diarddelasom ddau hefyd yn yr Ysgoldy.

Yr ydym wedi prynnu a rhoddi ernes ar naw rhwd o dir ym Mhen y Bryn. Harlech, mewn trefn i godi tŷ addoliad, ac i fod yn feddiant beddrod. Gobeithio yr ydym yr a'r gwaith ymlaen yn lled hwylus a dirwystyr gyda brys.

Rhwng y naill beth a'r llall, nid wyf fi yn cael nemawr iawn o amser i ddarllen, astudio, ac ysgrifennu; yr hyn sydd yn golled fawr i mi, ac i'r eglwys hefyd. Yr wyf yn teithio llawer ar fy nhraed, trwy bob tywydd, ar hyd ffordd enbyd a pheryglus, tros y Traeth Bychan unwaith bob pythefnos yn gyson, heb fetu er ys blwyddyn a hanner bellach, heb son am amrywiol fannau eraill yn fynych. Bum dair gwaith yng Nghrugcerth er calangauaf, yn ymweled â'n brawd Wm. Jones o'r Parciau, yr hwn a fu glaf iawn yn agos i angau, tros ennyd faith o amser;—ond yn awr er ys talm o ddyddiau yn gwella yn dda. Byddaf yn pregethu bedair gwaith yn yr wythnos, yn gyffredinol, ac yn ymweled â chyfeillion cleifion ym mhob ardal yn dra mynych; a thrwy fawr ddaioni Duw, yn mwynhan nerth yn nol fy nydd, ac iechyd yn lled dda.

Newydd trwm ac athrist a gafodd argraff bur ddwys ar fy meddyliau oedd marwolaeth fy hen gyfaill ffyddlawn am gohebydd teilwng tros bedair ar hugain o flynyddoedd,—Mr. Wm. Richards o Lyme Regis, Norfolk. Bu farw ar ol pythefnos o gystudd, Medi 13, 1818, a chladdwyd ym medd ei wraig yn Wisbeach, Cambridge shire, wrth dŷ cyfarfod y Bedyddwyr. Gadawyd ei lyfrau yn cynnwys 1300 *cols*. i brif ysgol y Bedyddwyr yn Rhode Island, America. Y mae gennyf fi o gylch pedwar a deugain o'i lythyrâu yn gadwedig, er ym pedair ar hugain o flynyddoedd.

Os bydd modd yn y byd, mi wna' fy ngoreu am ymweled a'r brodyr yn y Bryn, a Llanfair, ryw amser tua chalanmai.

Nid oes gennyf newydd yn y byd o Scotland a Lloegr, er ys talm o ddyddiau. Terfynaf gyda'm anerchiad caredigol at dy wraig, a'r eglwys oll.

Yr wyf yn parhau,

Yr eiddot yn ddiragrith,

J. R. JONES."

A dyma ol llaw dlos Glasynys, druan, blin gan ystormydd a mynydd-grwydrefig, yn olrhain ei achau. Mewn llythyr at Eben Fardd y gwneir hyn. Pe buasai gen innau ryw obaith olrhain fachau i un fel awdwr *Bardd Cwsy*, aethwn i'r un drafferth a Glasynys yn union.

“LLANGRISTIOLUS, BANGOR, 13^{eg} Rhag. 1861.

Fy anwyl Brif-fardd awenol,

Ces gollod. Ni chefnais ddod atoch drachefn. Ond os byw a fyddaf, yr wyf yn disgwyl cael eich gwled etto cyn pen nemawr o ddyddiau. Soniasom, os ydych yn cofio, am 'achau teulu Elis Wynne.' Addewais innau anfon yr unrhyw i chwi. Dyma swm yr addewid mor belled ag y gellais eu bel Edward ab Elis ab Gwilym Wynne o'r Glyn-cywarch a briodes Jane etifeddes Glasynys. Bu iddynt fab a merch, sef Elis Wynne, awdwr y *Bardd Cwsy*, a chwaer iddo o'r enw Jane. Gwraig gyntaf Elis Wynne oedd Lowri Wynne o Foel y glo. Yr oedd hi yn gyfnither iddo. Priodwyd hwy yn Llangfhangell y traethau ym Medi, 1698. Ond bu hi farw a chladdwyd hi ar y 10 o Orffennaf, 1699, a'i maban hefyd, yn Llandanwg. Ail-briododd hefo Lowri Llwyd o Hafod Lwyfog, ar y 14 o Chwef. 1701—2.

Eu plant hwy oeddynt y rhai a ganlyn,—Gwilym, (a galwyd ef felly ond odid, ar yr un enw a thad ei fam: sef Gwilym ab Ifan Llwyd, Hafod Lwyddog, sirydd. Arfon, yn y flwyddyn 1680: a'i dad cyn hynny yn y flwyddyn 1671 a fu'n llenwi'r un swydd.)

Gwilym a briodes ferch y Trallwyn gerllaw Pwllheli Offeiriad oedd, a bu'n beriglor Llanaber. Bu iddo dair merch, ond ni phriododd ond un o honynt, a gwr honno oedd Robert Pw, Yw., Garthmaelan, wrth Ddolgellau.

Aeth y dreftadaeth o angenrhaid yno, ac y mae wedi dianc i safurwrth lynclyn agos i'r cyfan o'n treftadaethau cyntefig. Y mae rhai o'r epil yn fyw eto. Edward, a fu'n gurad i'w frawd, ac efe a gyhoeddodd 'Brif Addysg y Cristion gan y Parchedig Mr. Ellis Wynne.' Cafodd berigloriaeth Penmorfa. Ei wraig oedd Ann Anwyl o'r Parciau. Ei fab Elis a briodes Miss Royle o Lanrwst, a'u mab hwy ydyw John Wynne, person Llandrillo-yn-Edeirnion. Nid oes ond ychydig o flynyddoedd er pan fu Miss Frances Wynne, wyres i'r Bardd Cwsy, sef merch Edward, farw. Gwelais i yr hen lodes unwaith. Un blaen a gwir Gymreig o ran ei dull. Bu i'r *Bardd Cwsy* fachgen o'r enw Elis, ond bu farw pan yn ieuanc. Ei ferched oeddynt y rhai a ganlyn,—Anne a Lowri. Priododd Anne, Owen ab Sion Wynne neu Owen o Lecheiddior yn Eifonnydd. Aethant i fyw i Aber-dunant, ac yno y ganed eu mab John. Daeth rhai o honynt i fyw i'r Lleuar Fawr, ac oddiyno y priododd John Owen, Margaret ferch William Rowlands o Dyddyn y Maesaer, Llandwrog. Anne, merch y par olaf hwn, oedd fy mam innau.

Lowri, drachefn, a briododd un Parri, curad ei thad, a daeth yn berson Llanbedr yn Ardudwy. Un o'u merched hwy drachefn a briododd un Hartley, dyn o Gernyw, yn ol a glywais. Daeth i Feirion i edrych ar ol rhyw fwnau, a phriododd Lowri Parri, ferch Lowri Wynne ferch Elis Wynne o Lasynys. Eu plant hwy oedd Thomas Hartley,—priododd yntau ferch y Parch. R. Nanner, Llwyn, wrth Ddolgellau. Mab iddo oedd y diweddar R. N. Hartley, ac wyr iddo ydyw Thomas H. Williams, aer presennol y treftadaeth. Lewis, mab arall i'r *hen* Hartley, sydd yn byw yn Llanegryn, a thad ydyw i J. B. Hartley, Manceinion, ac y mae i hwnnw fab yn ysgolhaig gwych yn Lloegr.

Merch i'r hen Hartley, sef chwaer i Thomas a Lewis, oedd gwraig y Parch. Thos. Jones, curad Llanegryn, a mam y Parch. W. Jones, offeiriad yn Lloegr, ac hefyd Miss Jones ac Anne Jones, dwy rian sy'n byw yn y Plas Uchaf, Dolgellau. Dyna i chwi fras olwg ar y teulu yna. Y mae gennyf erthygl yn yr ail Gyf. o'r *TALIESIN*, tudalen 275, 6, 7, 8, 9, yn yr hon y crybwyllir am lawer o'r ffeithiau sydd yn y llythyr yma. Os ydyw y llyfr hwnnw gennyh, a gaf fi ofyn i chwi edrych drosti pan y cewch gyfie. Hefyd, pe digwyddai i chwi rywbryd fod yn lied ddiotal, a phe troech i'r Gyf. I. o'r *TALIESIN*, tudalen 257, caech weld fy “*MTRDDIN WYLLT*; sef y Gân Ddesgrifiadol.” Yr wyf yn

neu rywle, y pwnc o iawn
y mae lle mawr i wella
am beth sydd mor eglur i
wr i mi gael llinell oddi-

lwy'r garedig,
GLASYNYS."

hol Islwyn, i'r hwn y

an gymerem ni
nyl llonydd li

, ac yn fawr ei barch,
ganodd mewn adgof
yhlith papurau y dydd

an sy'n llonyddu,
dros yr Ynys Ddu;
Glyn dan glo,
yn huno;
ai, 'r hyn sydd waeth,
marwolaeth;
add, dyma'r gwir,
cheudir;
synt, holl Gymru
'n dwyn ei du.

gofeidliol,—iawn oedd-
dwch gwastadol; [ynt
air na'i ol,
wahanol.

anir—oddiwrthi,
earth ni chleddir;
an dywarch dir,
sg, ni chuddir.

duf bennydd,
ni fydd.

ariant

n bawb geid,



Brawd mad gydag ysbryd mwyn
 O dda oslef oedd Islwyn ;
 Mal ei awen, ymloewai—o'i arfer,
 Mwy gorfyg y deuai ;
 Anwylach mwyaf wnelai,
 Mwy-fwy ei nerth, mwyaf wnai,
 Heb allu i weled, bellach,
 Cwynwn oll, rhaid canu'n iach :

Y mae llawer o ymholi am Islwyn yn y dyddiau hyn, ac y mae pob hanesyn am dano'n ddyddorol i genedl sy'n dechreu agor ei llygaid ar ei werth, ac yn dechreu sylweddoli mor sancteiddiol fydd dylanwad ei awen ar fywyd y dyfodol. Wle'n canlyn dri dyfyniad o'i ddyddiadur, a nodyn a ysgrifennodd ar yr iaith Gymraeg. Cofier mai ym Mynwy y ganwyd Islwyn, ac mai yno y treuliodd ei fywyd. Iddo ef yr oedd Mynwy'n rhan hanfodol iawn o Gynru; ac ni fagodd un o'r tair sir ar ddeg fardd gredai-fwy yn iaith a meddwl ei wlad.

"*Dydd Iau, Ion. 18, 1866*—Aethum i Gasnewydd. Yr oedd y Parch. E. Matthews yn darlithio ar y diweddar Barch. Morgan Howells, a minnau yn gadeirydd. Cyfarfod da, cynulliad gweddol, a darlith ddoniol iawn. Aethum i letya i Richmond House, Maindee, a Mr. Matthews gyda mi, sef i dŷ Mr. Griffiths, *traveller*, gŵr sydd a'i galon yn llawn o garedigrwydd, a'i ben yn llawn o synwyr. Treuliasom noswaith a gofir yn hir. Yr oedd Mr. Matthews yn ei hwyl ymddiddan oreu, a'r nos wedi cerdded ymhell cyn myned i orffwys.

"Dywedai Mr. Matthews am ryw bregethwr oedd yn arfer rhoi ei gyhoeddiadau Sabbothol mewn dau neu dri o leoedd—dywedai mai yn y *station* yr oedd y gŵr yn penderfynu i ba un o'r manau yr ai. 'Does bosibl fod y ddynoliaeth mor ddrwg a hyn!'"

"*Llun, Ion. 22, 1866*.—Daeth William Llewellyn i'r oedfa nos i Machen i fod yn gydymaith i mi adref dros y mynydd. Cydymaith tlawd yw William i ddyn ofnus ar ben y mynydd yn y nos. Y mae hen ysgubor ar ben y Warren, ac yr oedd rhywun wedi addaw doddi llyfr i William yn yr ysgubor—yn y ffenestr—na, nis gwn beth yw yr enw—*betwal*, medd fy mam—yr agoriad hirgul. Aeth William dipyn ymlaen, a dododd ei law i mewn—ond wele ysbryd! Ynaflodd llaw flewog yn llaw William, nes i bob diferyn o waed yn ei gorff sefyll gan fraw a dychryn. Adroddodd y stori wrthyf gan daeru ei bod yn wirionedd. Dyma gyffail! Os oedd frae rhwng y diafol a William, y maent bellach wedi gwneyd i fynu trwy ysgwyd llaw. Dywedir fod yr hen ysgubor hon, a'r adfail gerllaw iddi, yn gyrchfa boblogaidd iawn o ysbrydion. Beth bynnag am hynny, mae yn ffaith fod yn y lle filoedd o gwningod, a digon posibl i William gamsyniad cefn cwningen am law ei feistr."

“*Mawrth, Ion. 23, 1866.*—Yr oedd Henry Edmunds, Gelli Groes, blaenor gyda'r Trefnyddion Calфинаidd, yn ddyd crefyddol iawn, gwreiddiol iawn, a ffraeth dros ben; ond perthynai i'r hen *glas*, o flaenoriaid—yr oedd yn swrth iawn. Penodwyd Mr. Jenkyns, Babell, ac Henry Edmunds ryw dro gan y Cyfarfod Misol i fyned i wneyd blaenoriaid yn rhywle, yn ol yr hen arferiad o ddanfon gweinidog a blaenor. Dan gofio, clywais y doniol Mr. Thomas Morgan, Caerdydd yn dweyd unwaith, —‘Os gwelwch chwi weinidog a blaenor yn cerdded gyda'u gilydd, gellwch fentro fod rhywun ar gael ei grogi.’ Wel, fe ddaeth y noswaith i fyned. Galwodd Mr. Jenkyns heibio i Harri, ond ‘doedd dim arwydd fod Harri yn parotoi i daith. ‘Dewch, Henry Edmunds,’ meddai wrtho. ‘Na wnaif ddim,’ oedd yr ateb, mor benderfynol sych a chroes ag oedd yn bosibl, ‘ddim un cam.’ ‘Clywch, y dyn,’ medd Mr. Jenkyns, ‘pa syn-wyr sydd yn hyn, y mae y Cyfarfod Misol wedi'n penodi ni ein dau i wneyd blaenoriaid, ac ni all y bobl wneyd blaenoriaid hebom ni ein dau; dewch.’ ‘Na ddo’ i,’ meddai Harri, ‘wnes i ddim ond un blaenor erioed, a ‘does dim llun ar hwnnw, wna i ddim rhagor o honyn’ nhw.’”

“Un o brif ddiffygion beirdd Cymru yw eu hesgeulusdra o briod ansoddeiriau,—yn enwedig beirdd y gynghanedd. Cymerir gafael ar yr ansoddair cyntaf a gynygio ei hun, pan y mae un anhraethol ragorach idd ei gael pe chwiliid gydag amynedd am dano. Yn hyn o beth, rhaid i ni addef fod prif feirdd Lloegr yn rhagori ar lawer o'n prif feirdd ni.

“Rhaid addef mai y prif achos o'r bai hwn ydyw diffyg addysg glasurol. ‘Does un o'n beirdd clasurol, braidd, yn euog o gam-ansoddeiriaeth. Ond achos arall ohono ydyw brysineb, gorwylltedd, a diffyg pwyll. Po mwyaf fyddo cyfoeth athrylith y bardd, mwyaf oll o angen pwyll y sydd—arafwch, a ffrwyno i mewn.”

Tybir yn aml nad oedd gan Islwyn allu i fwynhau'r digrif. Yn ei ganeuon, y mae'n wir, prudd-der melus a dyrchafol yw y prif nodwedd,—prudd-der dedwydd Cristion ffyddiog. Ond yr oedd llawer iawn o'r elfen chwareus yn ei natur: bwrlymia allan, fel pe er ei waethaf, yn niwedd glo yr “Ystorm.” Ymysg ei bapurau ceir y pigion canlynol, ymysg ereill. Nis gwn o ba le y cododd hwynt.

SHON ABOT.

“Aniben yw Sion Abot,—a gogwydd
A gwegil fel tebot;
Un o ddosparth iawn ddespot,
A'i aſun ben fel hen bot.”

I FARDD MEINGOES.

“Dyma fardd a dim o forddwyd,
A'i gopa llesg yn ei gap llwyd.”

Y mae syniadau Islwyn am Gymru yn falm i enaid glwyf'r beunydd gan ragfarn a gwawd rhai na welant gyfoeth y meddwl, rhai na roddant ei bryd ar ddim ond ar gyfoeth diflanedig a siomedig mater.

“*Y mae'n rhaid i'r Gymraeg farw.*” Dyma'r ddedryd a glywir o enau llaweroedd yn y dyddiau presennol. Nid wyf yn synnu clywed Saeson yn canu cnul yr hen iaith, ond pan welaf ambell Gymro, ac ambell un o safle hefyd, yn cydio yn y rhaff ac yn ei chyd-dynnu gyda'r estron, nis gallaf lai na rhyfeddu a theimlo yn archolledig. Nis gallaf yn fy myw gyduno â'r waedd ddaroganol hon. Y mae yn ymddangos i mi fod y Gymraeg mor hoew yn y dyddiau presennol ag y bu ar unrhyw adeg yn ei hanesyddiaeth hirfaith a gogoneddus.

“Ffolineb a fyddai ameu ymosodiad y Saesneg ar ein terfynau, a'i chynnydd yn ein mysg. Ond paham na all y Saesneg gynyddu a'r Gymraeg hefyd barhau, paham y rhaid i'r Saesneg ddifodi y Gymraeg, nid wyf yn gallu gweled.

“Y mae neilltuolrwydd yn perthyn i'r genedl Cymreig, ac y mae ynglyn â'r neilltuolrwydd hwnnw bosibilrwydd i'r ddwy iaith gyd-fyw. Gyda chenedloedd ereill y mae yn gwbl wahanol. Pan y mae iaith newydd yn dyfod i mewn i'w plith hwy, y mae yr hen iaith yn encilio, ac o'r diwedd yn cael ei llyncu i fyny yn y diluw. Ond ni raid i'r Gymraeg suddo felly. Y mae ganddi hi arch nefolaidd i'w chadw uwchlaw y dyfroedd diluw. Yr wyf yn cyfeirio yn bennaf at y Weinidogaeth, at ymlyniad y galon Gymroaidd wrth bregethu Cymreig. Fe wna yr ymlyniad hwn, os meithrinir ef fel y dylid, gadw yr iaith yn fyw a'i galluogi i herio pob gwrthdylanwad. Er iddi gael ei gyrru o'i holl amddiffynfeydd eraill, hi ali drigo mewn diogelwch sier yn yr amddiffynfa olaf hon am oesoedd eto. Yr wyf yn credu ei fod yn beth eithaf posibl i'r ddwy iaith gyd-hanfodi yn ein mysg, pob un yn ei chylch ei hun. Bydded y Saesneg yn iaith masnach, y Gymraeg yn iaith crefydd. Rhodder i'r Saesneg y byd; i'r Gymraeg y cysegr. Onid oes gennym brofion anwadadwy o hynyma? Ewch i Liverpool a Llundain i edrych helynt ein cenedl yn ol y cnawd yno. Chwi a gyfarfyddwch yno â channoedd o'n cyd-genedl yn berffaith feistri ar yr iaith Saesneg. Ar yr *Exchange* ac yn y masnachdai mawrion nis gellwch eu gwahaniaethu oddiwrth Saeson pur. Ond os ewch o'r masnachdŷ i'r teulu yn yr hwyr, ac o'r byd i'r cysegr ar y Sabboth, chwi a glywch cyn bured Cymraeg ag a lifodd o enau Gomer ei hun yng ngwawrddydd yr oesoedd. Paham na all hyn barhau?”


“Gwir yw fod ein plant yn troi yn Saeson, ond ein bai ni ein hunain i fesur helaeth yw hynny. . Yr ydym yn clywed rhieni Cymreig, mewn trefydd bychain, ie, mewn pentrefydd distadl yng Nghymru, ac yn enwedig yn Neheudir Cymru, yn cwyno oherwydd fod eu plant yn cefnu ar y Gymraeg. Cwynant fod y dylanwadau Seisnigeiddiol mor gryfion, a'r profedigaethau i droi oddiwrth y Gymraeg mor lluosog, fel nad yw yn bosibl o'r braidd eu gwrthsefyll. Y mae y llifeiriant yn torri'n rhaiadrau ar bob llaw, ac nid oes dim i'w wneyd ond ymollwng a mvned gydag ef. Ond pan elom o'r trefydd bychain hyn i Lundain fawr, a phan glywom blant y Cymry yno yn siarad cystal Cymraeg a ninnau, nis gallwn lai na theimlo fod yr achwyniadau hyn yn cyfodi oddiar anffyddlondeb y rhieni, oddiar ddiffyg dysgeidiaeth foreuol, diffyg penderfyniad a dyfalbarhad.

“Nid ar yr ystrydoedd y mae y bai, ond ar yr aelwyd gartrefol. Y mae yn eithaf posibl i rieni, ond iddynt ddechreu yn ddigon bore, i blannu yr iaith yng nghof a serch eu plant yn rhy ddwfn i ddylanwadau oed eu diwreiddio.

“Nid wyf yn dadleu dros gadwraeth y Gymraeg oddiar ryw fympwy a hunan-dyb, ond oddiar olygiad ar lesiant ysbrydol y genedl. Yr wyf yn credu y byddai colli yr iaith yn golled ddirfawr i ni mewn ystyr crefyddol—yr ystyr uchaf a phwysicaf. Oblegid pan gollom ein hiaith, ni a gollwn ein gweinidogaeth anghydmorol. Diameu fod y weinidogaeth Gymreig yn un o ddadblygiadau ardderchocaf y meddwl Cristionogol trwy yr holl oesoedd. Ni chewch y fath gyfuniad o ragoriaethau mewn unrhyw bulpud trwy holl deyrnasoedd cred. Nid oes un areithfa yn yr holl fyd yn cael ei thwymo â'r fath wres, ei goleuo â'r fath ddisgleirdeb, a'i hamgylchynu â'r fath nerthoedd a dylanwadau, a'r areithfa Gymreig. Y mae'r llefarwr yn dân, a'r gynulleidfa yn donnau. Y mae rhagoriaethau ein gweinidogaeth i'w phriodoli i fesur mawr i neilltuolrwydd ein hiaith. Iaith crefydd ydyw. Y mae rhyw gydnawsedd rhyfeddol rhyngddi ag ysbryd yr efengyl. Fel yr eneiwiwyd y lleiaf o dŷ Jesse i fod yn frenin ar Israel, felly eneiwiwyd i Gymraeg, y leiaf braidd yn nheulu'r ieithoedd, i fod yn iaith efengyl tangnefedd. Y mae darllen y Beibl Cymraeg ar ol y Beibl Saesneg, fel newid byd o oerni am fyd o wres a chân. Y mae y weinidogaeth odidog hon yn ymddibynnu ar barhad yr iaith. Darfydded yr iaith, dyna hithau yn colli ei holl ragoriaethau, ac yn suddo i lawr i gyffredinedd. Wrth aberthu ein hiaith, ni a aberthwn y ffurf uchaf a pherffeithiaf ar weinidogaeth yr efengyl ag a gafwyd er dyddiau yr apostolion. Ofer son am dân y pulpud Cymreig mewn areithfa estronol. Nis gellir *importio* y rhagoriaethau hyn i borthladdoedd Lloegr. Os



sudda y Gymraeg, dyna eu *hunig* long wedi ei cholli, a hwythau gyda hi. Fe geir crychiad weithiau y tu draw i'r Hafren ar for y gynulleidfa, ond nid yr ymdoniad cyffredinol o deimlad gorddwfn a welir dan ddylanwadau efengyl rymus y Gymraeg. Ychydig o weinidogion Cymreig o'r safle uchaf sydd yn hyfedr ar bregethu Saesneg. Ceir rhai felly, ond go afrosgo yw eu symudiadau. Morfilod ydynt, mae'n wir, ond morfilod ar dir sych. Y mae y gogoniant wedi ymadael, y mae bywyd wedi rhoi lle i ffurf, natur wedi rhoi lle i gelfyddyd, a rhwysg mawreddoꝝ rhyddid wedi rhoi lle i gywirdeb gramadegol a cheinder arddull. Yr un yw y pregethwr, a'r un yw y bregeth, pa beth ynte sydd yn ddiffygiol? Iaith y bryniau, y rhaiadr, a'r efengyl! Clywais un o weinidogion pennaf Cymru yn dweyd ryw dro, pan yn siarad ar y mater hwn—ei fod yn edrych ar Fethodistaeth Galfinaidd *fel cenadwri at y Cymry*, a bod yn rhaid iddi hi a'i holl neilltuolion farw gyda'r Gymraeg.

“Byddai colli ein gweinidogaeth danllyd a nerthol yn golled anadferadwy i'n cenedl, ac yn golled nas gallai unrhyw gaffaeliad Seisnig ei gwneyd i fynu. Nid wyf yn anghofus o laweroedd o drysorau cenedlaethol ereill. Hawdd gennyf gyfaddef y gallai difodiad ar y Gymraeg agor y ffordd i lwyddiant helaethach mewn ystyr tymhorol. Ond y mae ystyriaethau ereill, y rhai a wnant y Gymraeg yn anwyl iawn i mi. Y mae ein llenyddiaeth, yn enwedig y gangen farddonol o honi, yn dra blod-euog, ac yn bwrw allan lawer o firwythau rhagorol. Y mae gennym amryw o feirdd a ddaliant eu cydmaru â beirdd galluocaf unrhyw genedl. Ar yr un pryd, er mor werthfawr yw ein barddoniaeth yn fy ngolwg, yr wyf yn credu mai ein crefydd ydyw trysor gwerthfawrocaf ein cenedl o lawer. A gaiff y trysor hwn ei golli o'n mysg o ddiffyg ffyddlondeb i'n hiaith a phenderfyniad i'w pharhau? Yr ydym ni ein hunain yn ystyriol o werth a rhagoriaeth ein gweinidogaeth. Ac i ba le bynnag yr elom, rhaid i ni ei chael hi atom. I ba dref neu ddinas Seisnig bynnag y symudir ni gan ragluniaeth, rhaid i ni gael y bregeth Gymreig. Rhaid i'r genedl gario ei hareithfa gyda hi fel arwyddlun pennaf ei rhagoriaeth, fel baner yr amddiffyniad dwyfol drosti. Er i ni dreulio yr wythnos yng nghanol twrf y Saesneg, rhaid i ni dreulio y Sabboth yn swm nefolaidd y Gymraeg. Y mae fel myned o'r anialwch i Ganan. Paham na chaiff y fendith hon ei throsglwyddo i'n hollynwyr? Paham na chaiff ein plant, a phlant eu plant hwythau, eistedd mewn hedd o dan gysgod nefolaidd y weinidogaeth anghydmorol hon, a phrofi o'i nerthol ddylanwadau pan y byddwn ni ym mro distawrwydd? Y mae hyn yn ymddibynnu ar y rhieni. Os mynnant hwy, os byddant hwy yn ffyddlon i'r iaith, os pender-



aelwyd, ac yn iaith
ac yn rymus am oes-
r y torfeydd yn ym-
loedd i ddod, ac fe
llu cynhyrfedig. Ac
angyl, a chyfaddasder
h, wrth gynmeryd eu
nt y weinidogaeth, fe
na anwyd eto, ac fe
eu hagog eto, mewn
drysor a ymddir-

Yr ydym yn
rhy dueddol i
dybied mai
llethrau dwyr-
einiolein myn-
yddoedd yn
unig yw Cym-
ru, ac mai a'i
gwyneb tua'r
môr a'r gorlle-
win yr hoffa'r
awen drigo
bob amser. Y
mae i lethrau
dwyreiniol y
Berwyn, hef-
yd, le anilead-
wy yn hanes
a llenyddiaeth
Cymru. Pwy
wad fod Pis-
tyll Rhaiadr
yn rhan o
Gymru? Pwy
fedr anghofio
lle Llanrhai-
adr ym Moch-
nant yn hanes
crefydd Cym-
ru? Pwy sydd
a ddywed nad
Mynyddog yn llen-



w ei "Gyfarchiad i
 gân honno i dair
 y mae yn adrodd ei
 unny yn rhannu darn
 hannant hefyd yn y
 fnod. "Hen fynydd
 fynydd Berwyn," a
 a iddynt. Treuliodd
 anwyd ei oes yn dri
 h odreu y naill a'r
 ngolwg hoffusder yr
 g ngolwg arddereh-
 ac aeddfedodd o ran
 r Eryri. O herwydd
 nae yn amlwg, a
 diwahan ;"
 ylanwad hefyd oddi-
 thwr. Un o feibion

444

y mynyddoedd fu o'r dechreu i'r diwedd o ran ei hanes; ac un o feibion y mynyddoedd, hynny yw, un o blant natur, a fu o ran ei brif nodweddion ar hyd yr hanes hwnnw. Gall y mynydd wneyd yn llawer gwell a'i blant na'u gwneyd yn fynyddig, os ceisiant ei ddeall, ac ufuddhau iddo, a'i anrhydeddu. Rhydd iddynt ddelw o'i bethau goreu, ac ynddi, mewn llinellau amlwg, symledd, naturioldeb, iachusrwydd, a mawredd. Gwnaeth y mynyddoedd hyn Huw Myfyr, nid yn ddyn "mynyddig," ond yn ddyn "mynyddog," o ran ei feddwl a'i gymeriad. Os hoff yw hen fynydd Hiraethog, ac os ardderchog yw mynydd Berwyn, ac os mynyddoedd ban yw yr Eryri, nid mwy hoffus na mwy ardderchog na mwy aruchel na'r meddwl a'r cymeriad a ffurfiwyd wrth eu godreu yn hanes y gŵr a ganodd iddynt.

Treuliodd Huw Myfyr yr un mlynedd a'r hugain cyntaf o'i oes yn ymyl yr Hiraethog, y gadwen o fynyddoedd fu hefyd yn gwylio boreu oes Owen Myfyr a Gwilym Hiraethog. Mab yd yd Hiraethog. Cymerodd ei enw barddonol oddiwrth le ei enedigaeath, sef Llanfihangel Glyn Myfyr. Mab ac unig blentyn ydoedd i Evan ac Elinor Jones o'r lle hwnnw, a ganwyd ef rywbryd yn y flwyddyn 1845. Yr oedd ei fam, yn arbennig, o gyneddau meddyliol cryfion, a daeth yr un peth i'r golwg yn y mab yn gynner yn ei hanes. Heblaw yr addysg arferol yn ysgol y pentref, cafodd Huw Myfyr addysg dduwinyddol a barddonol dda gan ŵr o flaenor rhagorol oedd yn y pentref, sef Cadwaladr Lloyd, yr hyn a ystyriai efe ei hun fu yn fantais fawr iddo. Pan oddeutu deunaw oed aeth at Dr. Davies, Cerrig y Drudion, gyda'r bwriad o fod yn feddyg. Ond gwelwyd yn fuan fod ei feddwl yn cyfeirio yn fwy at lenyddiaeth a duwinyddiaeth; ac wedi bod gyda Dr. Davies am dair blynedd dechreuodd bregethu yng Ngerrig y Drudion.

Ffarweliodd â gwlad ei enedigaeath ac â hen fynydd hoff Hiraethog pan yn un a'r hugain oed, a dechreuodd ar gyfnod arall newydd yn ei hanes. Cyfeiriodd tua'r Berwyn, Cwmwl'r Berwyn. ac yng nghysgod y Berwyn y cawn ef am yr un mlynedd ar ddeg nesaf yn ei hanes. Treuliodd y pedair cyntaf ohonynt yn y Bala, ac aeth drwy y cwrs arferol o addysg yn y coleg. Ni chyrrhaeddodd deilyngdod mor uchel fel efrdydd yn y Bala ag a wnaeth mewn cyfeiriadau ereill. Rhoddai gryn lawer o sylw i farddoniaeth ac i'w bregethau, a rhy ychydig o sylw i bynciau y coleg. Er hynny nid oedd ei safle yn un ddianrhydeddus. Ar ddiwedd ei gwrs derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Llanrhaiadr Mochnant, yr ochr arall i'r Berwyn, lle y treuliodd saith mlynedd yn gweinidogaethu gyda chymeradwyaeth oedd yn cynyddu hyd y diwedd. Priododd ymhen tair blynedd â Miss Margaret Lewis, trydydd ferch Mr. Richard

Lewis, Parc Isa, un o flaenoriaid yr eglwys, yr hon a fu yn ymgeledd iddo ar hyd ei oes. Yr oedd ei gysylltiad â'r eglwys yn hynod gysurus a llwyddiannus, ond nid oedd i gael para yn hir. O ben bryn cyfagos i'w gartref yn Llanfihangel yr oedd, yn ol ei gân, yn medru gweld "arlderchog fynydd Berwyn," ac "o bell edrychai arno, fel eitha'r ddaear hon;" tra i gyfeiriad arall yr oedd yn medru gweld "mynyddoedd ban Eryri" oddidraw, yn sefyll "fel gwylwyr wedi eu gosod ar ddorau'r byd a ddaw." Yr oedd yn eu hymddangosiad iddo pan yn fachgen gartref broffwydoliaeth am gwrs ei fywyd.

Yr oedd proffwydoliaeth y Berwyn yn awr wedi ei chyflawni, a'r tymor i fyw o dan ei gysgod ar ben. Derbyniodd a'wad oddiwrth eglwys Llanllechid, sir Gaernarfon, a symudodd yno i fyw ym Mai, 1878. Bu yno yn gweinidogaethu yn ffyddlon am ddeuddeng mlynedd, ac yna galwyd ef yn nes drachefn at fynyddoedd ban Eryri,— "gwylwyr dorau y byd a ddaw," ac yn fuan,—ymhen oddeutu blwyddyn,—ar ol derbyn yr alwad i Ddinorwic, agorwyd iddo "ddorau y byd a ddaw," a bu farw yn sydyn, yn 46 mlwydd oed, er galar dwfn i'r holl wlad. Claddwyd ef, nid yn Ninorwic, ond yn Llanrhaiadr Mochnant.

*Cragodau
Eryri.*

"Ond o gyfeiriad Berwyn y chwyth awelon hedd,
Ac yna dan dy aden dymunwn gael fy medd."

Fe gafodd ei ddymuniad hwn sydd yn y pennill, ond yn llawer iawn rhy fuan gan y rhai a'i hadwaenent a'r rhai a wrandawent arno.

Fe welir oddiwrth hyn mai hanes syml ac heb ddim hynod-rwydd yn perthyn iddo oedd ei hanes. Ciliodd bob amser oddiwrth bob math o hynodrwydd. Un yn caru neillduedd a distawrwydd ydoedd yn fwy nag amlygrwydd a swm. Un o feibion godreu y mynyddoedd fu ar hyd ei oes. Cymeriad rhagorol oedd ymhob ystyr, ond hollol ddiymhongar; hoffai fod o'r golwg yn hytrach nag yn y golwg. Ni fysiodd amlygrwydd pen y mynydd, ond gwerthfawrogodd ddistaw ragoroldeb godreu y mynydd, yr hwn y gellir ei guddio; ni waeddodd, ac ni ddyrchafodd, ac ni pharodd glywed ei lef yn yr heolydd. Yr oedd yr ymlyniad hwn mewn neillduaeth yn ormodol ynddo. Ciliodd o aml gyloch y gallasai yn hawdd eu llenwi gydag urddas. Cyfyngodd ei gyloch fel pregethwr yn ormodol. Dwywaith y pregethodd mewn sassiwn, sef ym Machynlleth ac yn Llanidloes. Y mae'n rhaid cydnabod mai diffyg ynddo oedd y cyfyngiad hwn arno ei hun, ond diffyg mwy yn y wlad oedd ei bod yn gallu caniatáu hynny iddo.

Cyfyng fu cylch ei gyfeillion, ac nid oedd yn ystyr gyffredin y gair yn ŵr poblogaidd. Ychydig o ddawn ysgwyd llaw oedd

*Caru'r
encillon.*

ganddo, ac ni alarodd erioed oherwydd ei phrinder. Ond yr oedd yn gyfaill pur a hoffus a difyr iawn, ac yr oedd ei burdeb a'i onestrwydd a'i serch yn ei wneyd yn anwyl iawn i bawb a'i hadwaenent fel cyfeillion, a gallasant oll ddweyd ar ol ei golli,—“Cu iawn fuost gennyf fi.”

Serch.

Yr oedd yn ddyn o argyhoeddiadau dyfnion, ac yn ddigon gwrol i'w dweyd. Collai ychydig ambell waith wrth fynegu ei argyhoeddiad, ac wrth geryddu, a thueddai i

Gonestrwydd.

ddweyd yn chwyrn; ond ni chafodd neb erioed le i ameu ei onestrwydd. Yr oedd ei fyddlondeb i'r hyn a dybiai oedd yn iawn yn ddiwyo, a dywedai ei feddwl yn ddi-dderbyn-wyneb ac agored. Nid ofnai neb ond Duw, ac ni phlygai byth i ddim ond i'r gwirionedd; ac er na waedai ac na ddyrchafai, eto yr oedd gwroldeb ganddo i gario barn i fuddugoliaeth. Yr oedd teimlad plant a phobl ieuainc tuag ato yn gymysg o ofn a chariad. Clywais i flaenor unwaith ofyn i fyfyrwr o'r Bala,—“A oes arnoch chi ofn y Doctor acw?” “Ei ofn,” ebai yntau, “bobol anwyl, oes, mae arna i ofn botwn ei gôt o.” Gwn am rai ieuainc fu o dan ofal Huw Myfyr yn teimlo yn debyg. Yr oedd arnynt ei ofn, a hwnnw yn ofn iach, ac yn cael ei dymheru â pharch, edmygedd, a chariad.

Yr oedd yn cael ei bocni yn fynych gan iselder ysbryd, a thueddai yr adeg honno i gilio yn fwy o'r golwg, a bygythiai weithiau dafu ei holl waith i fyny. Blinid ef gan

Pruddglwyf.

hyn er yn ieuanc, ond er yr afael oedd gan y pruddder hwn arno, yr oedd ambell un yn meddu y ddawn i'w ymlid ymaith yn fuan iawn. Pan yn Llanrhaiadr digwyddodd Isfryn fynd ato un diwrnod i'w ystafell pan oedd yn bur bruddglwyfus. Yr oedd Isfryn wedi cael blodyn eira, cynnar yn rhywle, ac wedi mynd âg ef yn ei law i'r ystafell. “Dyma i chi,” ebai, “destyn i edrych arno ac i feddwl am dano, ac i ymlid i ffwrdd y pruddglwyf yna; mi wna i benillion arno am y gore â chi os mynnwch chi.” “O'r gore,” ebai Huw Myfyr yn y fan, “dowch i ni fynd ati ar unwaith.” Ac felly fu, aeth Isfryn yn ol i'r siop i wneyd ei benillion, a gadawodd Huw Myfyr ei hun yn yr ystafell gyda'r blodyn eira, ac yn gwneyd ei benillion yntau. Dychwelodd Isfryn ymhen ychydig amser, a phenderfynwyd mai efe oedd i ddarllen ei benillion gyntaf, ac yna darlennodd benillion tlysiion,—a ganlyn ydoedd y pedwar olaf. Cyfarchai y blodeuyn fel un wedi ei anfon o flaen y blodau ereill,—

“Ai rhedeg wnest o'u blaen i ddweyd
I mi eu bod yn dyfod?
Ai'th anfon g'est i beri gwneyd
Eu lle i gyd yn barod?”

“A ddaw'r friallen felen fach,
Y rho syn coch, a'r lili?
A yw'r hen wr yn fyw ac iach,
A ddaw ef yma eleni?”

"Faham y plygi'th ben i lawr,
Gan edrych tua'r ddaear ;
'Rwyf iawn mor lân, mor bur a'r wawr,
O cwyd dy ben, un hawddgar.

"Nid un mor lân, a thlws a thi,
Mor wyn, mor iawn o burdeb,
Na, na, pechadur fel myf
A ddylai guddio ei wyneb."

"Wel," ebai Huw Myfyr, "yr ydech chi wedi nghuro i o ddigon, ni chewch chi ddim clywed fy mhenillion i." Ac felly yr ymlidiwyd ymaith y pruddglwyf y diwrnod hwnnw. Dro arall, pan aeth Isfryn ato, yr oedd yn isel iawn ei feddwl, ac yn dweyd ei fod wedi penderfynu ymadael oddiyno. "Yr ydwi i," ebai, "ar fin pacio fy mhethau." "O, o'r gore," ebai Isfryn, "mi a inne at C. J. y cariwr i ofyn iddo alw am y *boxes*," ac aeth allan. Ymhen yr awr dychwelodd drachefn,—*"Ydi'r boxes yn barod,"* meddai; ac ar hynny torrodd Huw Myfyr allan i chwerthin, a chaed diwedd y diwrnod hwnnw ar son am fynd i ffwrdd.

Yr oedd yn amlwg arno fod tymor ei arhosiad wrth droed y Berwyn, er y byrraf o ran anser, y cryfaf ei ddylanwad arno, a bu ei galon yn glymedig wrth y lle tra bu byw. Yr oedd llawer o bethau yn cyfrif am hyn. Yma y bu gyntaf mewn cysylltiad bugeiliol, a thra y bu yma yr ordeiniwyd ef, a thra yma hefyd y priododd. Heblaw hynny yr oedd llawer o gydnawsedd yn nhrigolion y wlad â'i dueddffryd naturiol. Er ei fod yn uchel fel pregethwr cyn dod i Lanrhaiadr, yno y dabblygodd i fod y pregethwr meddylgar, coeth, a newydd, fel yr adnabyddid ef yn ddiweddarach. Yr oedd yr eglwys, oherwydd presenoldeb lliaws ynddi o rai yn medru gwerthfawrogi ei bregethau, yn un ffafriol i'w gynnydd. Cafodd bregethu hefyd i gylch o eglwysy yn y Cyfarfod Misol a allasant werthfawrogi gweinidogaeth dda. Bychain yw cynulleidfaoedd sir Drefaldwyn, ond craff a chwaethus. Y mae llawer o gynulleidfaoedd mewn rhannau ereill sydd oherwydd eu rhif yn edrych gyda llygad tosturiol arnynt, ond heb feddu eu craffder a'u chwaeth o lawer iawn. Un o gas bethau Huw Myfyr oedd dynion hyfion. Cyfarfyddodd â llai ohonynt yn sir Drefaldwyn nac yn unman arall. Os yn fychain a gweiniaid, y mae y cynulleidfaoedd yn llednais a boneddigaidd, ac y maent ar y cyfan yn gwybod yn llawn cystal a rhannau ereill o'r wlad nad oes flas ar wyn wy er ei estyn hyd yn oed â llwy arian, ac yn gwybod am y mêl mai da yw, a'r dil mêl mai melus yw i'r genau, pa lestr bynnag y bydd ynddo. Cynulleidfaoedd mawrion a wna ddyr yn bregethwr poblogaidd, ond cynulleidfaoedd bychain a thafod eu genau yn deall blas y pethau goreu am feithrin yr elfennau goreu ac uchaf mewn pregethwr. I gynulleidfaoedd bychain, chwaethus, *sympathe'ic* sir Drefaldwyn y bu Huw Myfyr yn pregethu y cyfnod cyntaf a phwysicaf ar ei oes, ac yr oedd llawer o'i nodweddion fel pregethwr i'w priodoli i hynny.

*Myfyr
Maldwyn.*

Yr oedd rhyw frwdfrydedd rhyfedd ynddo ynglŷn â chyfansoddi pregethau, ac ni byddai byth brinder pregeth arno. Buasai yn un o'r rhai cymhwysaf at wasanaeth y cyfundeb

^{Pethau newydd.} Methodistaidd pe digwyddasai y cyfundeb hwnnw gredu mewn gweinidogaeth fwy sefydlog; ac, fel y sylwodd un yn ei angladd, nis gallasai unrhyw gynulleidfa ddweyd wrtho,—“Bum newynog ac ni roddaist i mi fwyd.” Yr oedd y bwyd hwnnw hefyd bob amser yn ei bryd, ac nid ar ol ei amser. Newydd-deb oedd un o nodweddion amlycaf ei bregethau. Taffai oleuni newydd bob amser ar ei destyn, ac nid oedd ryfedd i un blaenor yn sir Gaernarfon gyhoeddi yn ei glyw ar foreu Sabboth,—“Bydd yr ysgol yma am ddau, a Mr. Jones, Llanllechid, yma yn deyd pethau newydd wrtho ni eto am chwech.” Pregethai yn feddylgar ac yn ymarferol. Yn ei ddull o gymhwyso gwirionedd at fywyd ymarferol y deuai ei feddylgarwch i'r golwg. Ceir y ddau beth hyn ar wahan yna fynych; mor fynych nes y mae llawer wedi tybio nas gall pregethwr meddylgar fod yn bregethwr ymarferol, na'r ymarferol yn feddylgar. Ymdriniaeth ar bwnc dyrys a thywyll a gyfrifir yn bregeth feddylgar yn fynych, a'r pregethwr sydd yn eu trin, pa mor dywyll bynnag a fyddo, a gaiff y clod am feddylgarwch a mawredd, ac anghofir fod yn bosibl i'r pregethwr mwyaf ymarferol yn fynych fod y mwyaf meddylgar. Yr oedd y cyfuniad yn Huw Myfyr. Arferodd ei feddylgarwch i ddwyn pethau yr efengyl yn agos at ei wrandawyr a'u cymhwyso at fywyd cyffredin. Nid pregethau anhawdd eu deall yn gymaint oedd ganddo, ond pregethau anhawdd eu byw. Cyhoeddwyd rhai o'i bregethau; ond er mor ragorol ydynt, prin y rhoddant syniad cywir am y pregethwr. Prin hwyrach y mae y detholiad o'i bregethau yr un hapusaf. Galleid yn hawdd wneyd detholiad gwell. Ond hyd yn oed pe buasid wedi cyhoeddi ei bregethau goreu, amherffaith fuasai y syniad geid drwyddynt am dano ef. Collir y dyn ei hun, ei lygaid bywiog a thanllyd, ei ysgogiadau sydyn; a'r nwyd o ryw fath a ddeuai i'r golwg yn fynych. Yr oedd hefyd yn ei bregethau darawiadau sydyn, ac ambell ffachiad yn goleuo ar y pryd; ac wrth gwrs, y mae y sylwadau a wneid ganddo o dan ryw ysbrydoliaeth felly ar y pryd yn absennol o'i bregethau. Pethau oeddynt sydd i'w cael, nid wrth ysgrifennu pregeth, ond wrth ei thraddodi,—y perffeithiad hwnnw ar bregeth ag y mae, nid y pregethwr yn ei roi arni wrth ei pharotoi, ond yr un y mae cynulleidfa yn ei roddi iddi wrth ei gwrando. Mellt oeddynt, ac nis gellir eu cael, ac y mae llawer o'i bregethau argraffedig yn anhebyg iddynt eu hunain oherwydd eu habsenoldeb.

Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth, ond ni adawodd i hynny

ymyrryd â'i bregethu, ond yn hytrach trodd hynny yn fantais i'w bregethu. Clywais ar ol un o Lanllechid y byddai, El ganeuon. yr adeg yr oedd yn troi y Salmau a'r gân, yn pregethu yn well hyd yn oed nag arferol. Yr oedd wedi dechreu barddoni er yn ieuanc. Cyfansoddodd ddarnau pan yn ieuanc gartref. Byddai yn gwneyd hynny pan yn y Bala. Dyna'r adeg y cyfansoddodd ei benillion i *Green* y Bala. Nid oedd ef ei hun yn meddwl ryw lawer o'r penillion hynny, a synnai iddynt dynnu cymaint o sylw. Ond nid oedd y wlad yr un farn ag ef am danynt. Y mae y tynerwch a'r naturioldeb hwnnw ynddynt ag sydd yn sicrhau lle i benillion ym meddwl a chalon gwlad. Ychydig a ganai ar gyfer cystadleuaeth ar ol gadael Cerrig y Drudion. Efe enillodd y wobr o ddeg punt am y farwnad oreu i Dr. Edwards y Bala. Yr oedd yn gyfartal ail oreu a'r Parch. E. Davies ar y farwnad i Dr. Parry. Cafodd y wobr hefyd mewn Eisteddfod ym Mlaenau Ffestiniog am y cywydd goreu ar Fynydd Sinai. Dyna oddeutu yr oll mewn cystadleuaeth. Ni ysgrifennodd ond ychydig mewn cydmariaeth i'r wasg. Hoffai y gwaith er ei fwyn ei hun, ac nid er mwyn clod. Yr un fath a chyda phopeth arall, tueddai yn hyn at gadw o'r neilltu. Nid edrychai, fel y dywed yn un o'i ganeuon, "tua brig y dal Eisteddfod," am mai "gartref yn y berth mae lle aderyn dinod." Dywed lawer o'i brofiad yn y gân honno, "Canu, canu, canu," pan yn dweyd,—

"Aderyn bychan wyf yn canu, canu, canu
Myfi a chymar dlos yng nghwr y llwyn o'r neilltu."

Y mae rhai o'i ganeuon mor awenyddol a dim yn yr iaith Gymraeg. Nid ydynt heb frychau, na phob amser yn wastad, ond y mae y crefyddolder, y tynerwch, a'r naturioldeb sydd ynddynt yn eu gwneyd yn werthfawr fel meddiant i'r wlad. O'r lliaws mawr sydd heb eu cyhoeddi erioed yr wyf wedi dethol un neu ddwy.

D. HOSKINS.

CANEUON HUW MYFYR.

CANU, CANU, CANU.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Nis gwn yn iawn pabam o: nad i ymddyfyrnu;
Ac os yw hyn yn fai, myfi nis gallaf wrtho,
Ni pheidiwn yn fy myw a'i ddilyn doed a ddelo.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu canu,
Heb ganu dim erioed a wnaeth i neb ryfeddu;
Bodddhad i mi fy hun yw pwt o gân ddiniwed,
A mil melusach yw pan nad oes neb yn clywed.

Aderyn bychan wyf yn canu, canu, canu,
Ond nid ág adar mwy yn meddwl am gystadlu ;
Pe byddwn eos awn i frig y dal Eisteddfod,
Ond gartref yn y berth mae lle aderyn dinod.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Nid am fy mod yu llon, ond rhag i boen fy llethu ;
Nis gwn pa beth a wnawn pe collwn hyn o gysur,
Mae canu tipyn bach yn esmwythau fy nolur.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
A gweithio bob yu ail, amcanaf eu cymysgu ;
Mwynhau ei gân ei hun, nis gall aderyn diog,
Cantores wael yn wir yw pob cydwybod euog.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Ac arall hunan-ddoeth yn barnu, barnu, barnu ;
Mae'n rhydd i bawb ei farn, a barned pawb yu ddiiddig
Ond, at aderyn bach, plant drwg sy'n lluchio cerrig.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Myf i chymar dlos yug nghwr y llwyn o'r neilltu ;
A chynulleidfa'r brain yn crawcian am wlcidyddiaeth,
Mawr ydyw pwnc y dydd, pwy sydd i fod yu bennaeth.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Heb ofyu dim i neb ond llonydd, ceisiaf hyuny ;
Os hyn a ganiateir, gwnewch bopeth fel y mynnoch,
Oddiar y gainc i lawr edrychaf funau arnoch.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
Ac ambell nodyn main, rhyw un o fil yn glynu
Yng nghalon dieithr ddyn ddigwydda fyned heibio,
Y Nef yn unig wyr a all fod bendith ynddo.

Aderyn bychan wyf, yn canu, canu, canu,
A theimlo ambell waith fy enaid yu moliannu
Creawdwr mawr y byd ; ac O ! na allwn dreulio
Fy mywyd oll yu fawl ac yn wasanaeth iddo.

ACHUB JOHN.

Beth yw'r goleu yn y bwthyu, unig oleu yn y fro ?
Beth yw'r cri wylofus, tyner ? rhof fy nghlust wrth dwll y clo ;
Hawdd adnabod llais y weddw, rhed y briw o dan ei bron,
Ac mae Duw o'r Nef yn clywed gweddi daer am achub John.

Clywaf swm ei droed yu dyfod, sobrach yw na llawer tro ;
Ciliaf fi, a gwrendy yntau, rhydd ei glust wrth dwll y clo ;
Try yn ol, ac ar ei liniau, syrth o dan y berthen gron,
Heb fod gauddo, druan tyw, ill, ddim i'w ddweyd ond " achub John."

Minnau gerddaf tuag adref mewn rhyw ddwys fyfyrdod prudd,
Gan weddio fel y medraf gyda deigrn ar fy ngrudd,—
" Arglwydd cyffwrdd di â r elor, gwn y galli'r funud hon ;
Bydd drugarog wrth y weddw, dwed y gair, ac achub John."

Beth pe cawn, ar aden angel, esgyn uwch y byd am dro ?
Agoshawn at ddrws y nefoedd, rhown fy nghlust wrth dwll y clo ;
Swm llawenydd mawr sydd yno, ac mi glywn yn sicr bron
Dad o Gymro'n gwaeddi heno,— " Diolch byth am achub John."

NATUR A'I PHLANT, GAUAF 1888-9.

Beth yw'r mater ar y flwyddyn?
Daeth y gauaf er ys meityn;
Ond mae natur fawr yn methu
Rhoi ei phlant ei hun i gyagu.

Hi ddywedai braidd yn dyner
Bellach er ys oriau lawer,—
“Ymddioegwch fawr a mân,
Cewch yfory ddillad glân.”

Llafur blin a garw helynt
Fu i'w cael i dynnu am danynt,
Ac er bygwth tost a churo
Wele rai heb ddiog eto.

“Cysgwch a gorffwyswch, blant,”
Ebe hi ar fryn a phant;
Rhai ynghwsg, a rhai yn effro,
Dyna'r gwir am danynt eto.

Addewidion teg a cherydd
Aent yn ofer fel eu gilydd,
Dyma nhw yn blant anhydrin
Hanner nos yn canu a chwerrthin.

Un a dau o'r gloch y bore
Deffry'r lleill yn swm y chware,
Gan y byw ddiereol awydd
Galwant am eu dillad newydd.

Ofer taenu hulyn gwyn
Ar welyau plant fel hyn;
O ddiereidi noeth eu calon
Lluchiant ef i fwrdd yn union.

Dyma hi yn dri a phedwar;
Amser yw i'r rhai yn gynnar
Aent i orffwys feddwl codi;
Beth a ddaw o hyn mewn difri?

“Amlwg yw y rheswm pam,
Bum ry feddal,” ebe'r fam,
“Dyma chwi, mi gloaf arnoch
Cysgwch chwithau pan y mynnoch.”

Ac os gall hi beidio agor
I gusanu'r pethau propor,
Odid fawr i'w hadnewyddu
Na chant hwy awr neu ddwy o gyngu.

Sut y bydd hi fory tybed?
Rhaid yn wir mai gorchwyl caled
Fydd eu codi yn ol y rheol
Erbyn naw i fynd i'r ysgol.

TON Y GWYNT.

(Nid wyf yn sicr a yw y drychfeddwl yn hollol wreiddiol. Mae gennyf ryw adgof am gân Seisnig i'r un pwrpas.—HUW MYFYR.)

Mae'r greadigaeth fel yn fyw
O fwyn beroriaeth, onid yw?
Ysgafnder a bywiogrwydd hon
Sy'n llawenhau y glwyfus fron;
Ac eto ar ei grwydrol hynt
Galarus ydyw tôn y gwynt.

Yn nhymor gauaf, uchel lef
Wylofus wallgof ddyry ef;
Tynerach ydyw yn yr haf,
A thebyg iawn i gwyn y claf;
Os uchel, isel, araf, cynt,
Galarus ydyw tôn y gwynt.

Pan oeddwn innau fachgen llon
Heb wybod dim am bryder bron,
Pan nad oedd holl ofidiau'r byd
Yn ddim ond geiriau—geiriau i gyd,
Rhyfeddais ganwaith ar fy hynt
Mai pruddaidd ydoedd tôn y gwynt.

Ces wedi hynny lawer siom
A gwybum beth am galon drom;
Diangodd aml ochenaid brudd
Oddiarnaf gyda'r awel rydd;
Ac nid wy'n synnu megis cynt
Mai pruddaidd ydyw tôn y gwynt.

Ochenaid gyffredinol fawr
Unedig holl dylwythau'r llawr
Sydd yn y gwynt. Pa ryfedd yw?
Nos adnewyddu dynolryw
Parheir i ganu megis cynt,
Galarus ydyw tôn y gwynt.

NOS-FEDDYLLIAU.

A'th *asicy* law, garedig nos,
Gorchuddi wyneb daear dlos ;
Distawa twrf y hyd, ac yna
I esmwyth hûn yr ymollynga.

Dy *ddeheu* law a dyn y llen
A daenwyd ar y nef uwchben ;
Diflanna'r tyner gwrliid ariant
A bydoedd fel o gwsg ddeffroant,

Mor ieuanc ac mor lawn o nwyf,
Nes yn fy ngalon tyblo 'rwyf
Eu clywed acw mewn llawenydd
Yn cyfarch bore da i'w gilydd ;

Mor glir a glân, mor loewon laith,
A phe ar ol ymdrochfa faith
Yn nyfnder môr y gwawl ei hunan,
I draeth y nef y denant allan.

Ac wrthi ei hun ymrodia'r loocr
Ar wedd bugelles athrist oer,
Yn chwilio acw ywyl colledig,—
Ai am y ddaear yn arbennig ?

O ddaear, pam nad elli di
Ymuno gyda'r dorf ddiri
O fydoedd yn yr wyl fawreddog
I ogoneddu'r Hollalluog ?

O holl aneirif deulu Duw
A'i daear dyn yn unig yw
Y plentyn sorlyd fyn ymguddio
Nes i'r addoliad fyled heibio ?

Pa beth yw dyn, greadur brau,
Pan fynnai'r nefoedd ei fawrhau ?
Mae ateb llawn i'w gael wrth gofo
Y Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo.

Na, na, mae hithau yn y llu
Yn edrych fel rhyw ddafad ddu,
Pa fodd y bu hi mor ysmala
A syrthio i gysgu yn yr oedfa ?

Distawed ydyw hi a'r bedd,
A chysgod angau ar ei gwedd,
Ond tybiaf weithiau'i bod yn effro
Ac fel yn ymlonyddu i wrando.

Estynna'r Wyddfa'i chlust yn fain
I gasglu dyferynnau sain
Y gerdd ymdonna trwy'r ehangder
Gan ymddistewi yn y pellder.

Wrth adsain odlau'r nefol gôr
Ymsigla ysbryd mawr y môr
Addolgar gynnulleidfa'r tonnau
A syrthiant oll ar eu hwynebau.

"Pa le mae dyn ? Pa le mae dyn ?"
Gofynna'r lleuad iddi ei hun ;
"Ei le sydd wag, a minnau'n crwydro
Ar hyd y nos i chwilio am dano."

Tyrd allan ddyn ! tyrd allan ddyn !
Ymad a'th gragen fach dy hun,
A gad i'r nefoedd weld dy wyneb,
Tydi etifedd tragwyddoldeb.

Ardderchog yw dy enw, O Dduw !
Defnynnau o'th ogoniant yw
Yr hyn a alwn ni yn fydoedd,
Mân wlith y boreu ar dy wisgoedd.

WRTH WELY ANGAU FY MAM.

Bu farw yn fy nhy yn Llanllechid, yn 71 mlwydd oed.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Rhyfeddol fu dy ofal am
Dy unig blentyn hwn ;
A'th ofal pennaf yn y byd
Oedd am ei gyfarwyddo ar hyd
Yr uwlawn ffordd ; wrth siglo ei gryd
Gweddiaist lawer, gwn.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Dioleghgar ydwyf flunau am
Gael byw i'th wyllo'n awr,
A dweyd yr adnod ddysgaist im
Pan nad o'wn eto'n deall dim,
A'th weld yn gafael ynddi'n chwim
Yng ngrym yr afon fawr.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Tydi ni wnest âg undyn gam
Os nad â thi dy hun ;
Dy glorian, a dy lyfr bob darn
A drinit fel yng ngoleu'r farn,
I'r gwir yn ffyddlon hyd y carn
Heb ofni gwyneb dyn.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Dy hun ni fernit yn ddimam
Er pured fu dy foes,
Ond dygit beunydd fore a hwyr,
Ac amlach hefyd, Duw a'i gwyr,
Dy ynau 'mlaen i'w cannu'n llwyr
Yng ngwerthfawr gwaed y Groes.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Ti gefaist, er nas gwn paham,
Rai prydiau'n boeth y pair;
Ond daeth yr olaf gystudd blin,
A thithau, pan yw arwa'r hin,
Yn ostyngedig hawdd dy drin,
Heb achwyn hanner gair.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
O'r bore cerddaist ti bob cam,
A'th wyneb tua'r wlad;
Ac er na chefaist hyd brydnawn
Ohoni weledigaeth lawn,
Yr oedditi, gwn, yn dduwiol iawn,
Ac felly 'roedd fy nhad.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Trafferthus Fartha fuoest am
Feunyddiol fara'r llawr;
Ac eto yn yr oriau mân,
Pan gysgai pawb yn ddiwahan,
Fel Mair, eisteddit ger y tân
Wrth draed yr Athraw mawr.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
Mae'th lamp yn llosgi'n oleu filam
Ar awr yr hanner nos;
A'r "wisg ddisglaerwen oleu" sydd
O flaen y gwynt yn chwiffo'n rhydd,
Brysis ni raid i berchen ffydd;
Ffarwel, yn dawel dos.

Fy mam, fy mam, fy anwyl fam,
'Rwyt *ceidi* myned; rhoddaist lam
I'r nef o'n dwylaw ni;
Dof finnau i fynt yn y man,
O's llaw fy Nuw a'm deil i'r lan,
Ond hoffwn gael i'r diwedd ran
Yn dy weddiau di.

PYDEW BETHLEHEM.

I.

"Pwy a'm dioda i a dwfr o bydew Bethlem draw?"
Rhyfelwr dewr ofynnai gynt i'r gweision oedd gerllaw.
Bu ryfedd gennyf lawer tro fynyddoedd rai yn ol,
I Dafydd frenin roddi lle i'r fath ddymuniad ffol.
Ond dysgodd profiad imi'n well, deallaf heddyw'n glir
Ddingelwch dwfn ei syched ef trwy gydymdeimlad gwir.
Ni chefais ianau dabyg ddwfr, er crwydro o fan i fan,
I'r hwn a'm disychedai gynt o ffynnon bach y llan.
Ac nid yw teiau mawrion teg y parthau hyn o'r wlad,
Fel cartrefleoedd, hanner ffordd i fwthyn llwyd fy nhad.
Nid yw'r blynyddoedd fel o'r blaen mewn haf na gauaf chwaith,
Na'r adar ar eu nythod mân yn gwneuthur crystal gwaith.
Pan ddel y gwew yn ei thro, mwy anyddorol yw;
Hi gân mor gywir ag erioed, ond nid—ond nid mor fyw.
Nid yw y Beiblau megis cynt, ac nid oes crystal blas
Yn y capelau sydd yn awr i'w gael ar foddion gras.
Yr hen bregethwyr melus iawn, pa le, pa le maent hwy?
O bydew Bethlem ger y porth pwy a'm dioda, pwy?
Ai tybed mai heneiddio'r wyf heb wybod i'm fy hun,
A'r byd oddiamgylch yn ei le yn aros fyth yr un?

II.

"Pwy a'm dioda i a dwfr o bydew Bethlem draw?"
"Myfi, myfi," medd un, dau, tri, o'r gweision oedd gerllaw.
Heb wybod iddo, ffwrdd â hwy fel y dianga saeth;
Yr amnaid leiaf digon oedd oddiwrth y gŵr a'i gwnaeth.

A gweryll y Philistiaid oedd ymlaen, i'w dorri trwy ;
Ond trech nag ofn y bleiddiaid hyn oedd grym eu cariad hwy.

A oedd y negea yn ei phwys yn werth yr antur fawr ?
Ni chadd amheuaeth dan eu bron roi blaen ei throed i lawr.

Ymlaen i'w taith cyflym hwy, a gwirfoddolrwydd pur
A roddai iddynt droed yr iwrch, a dynol wyneb dur.

Ar wersyll y Philistiaid erch wynebent yn ddi-fraw ;
Rhuthrasant trwodd bob yr un a'i fywyd yn ei law.

Ardderchog lanciau oeddynt hwy, a chymeriadau prin ;
Mae credu fod eu bath yn bod yn iechyd ysbryd in.

Dywedir fod y byd yn oer a diymddiried iawn,
Rhy wir, ac eto beth os yw yn debyg fel ei gwnawn ?

Ardderchog feistr oedd iddynt hwy, a hwn sy'n gwneyd y gwas ;
Mae cymeriadau gweddol iawn yn rhoddi "gras am ras."

Ond UN a ddaeth "trwy ddwfr a gwaed" a bywyd yn ei law
I'w ddienyddwyr ; coffr hyn i dragwyddoldeb draw.

III.

"Pwy a'm dioda i â dwfr o bydew Bethlem ?" Na,
Ond am y lanciau erbyn hyn pryderai'r brenin da.

"Ardderchog fechgyn," ebai ef, tra'n gwylio eu rhedfa chwim,
Pe syrthiai un, i mi fy hun byth ni faddeuwn ddim.

"Rhy ddrwg oedd hyn, edifar wyf am roddi yn fy mrys
Un awgrym i'r fath lanciau dewr o gyfryw ormod blys.

"Boed werthfawr yn dy olwg Di, O Dduw y Nef, eu gwaed ;
Tywalltfa finnau'r dwfr os dël yn offrwm wrth dy draed."

Diderfyn hunanoldeb sydd yng ngalon dyn pan all
Ddefnyddio i'w foddhad ei hun beth gostia waed y llall.

"Pwy am dioda i," medd un, gan rym ei feddwol chwant,
Er gweld yn tremio newyn du yng ngwedd ei wraig a'i blant.

"Pwy a'm dioda," medd y llall, "ag enw o fod yn fawr ?"
A gwaed eueidiau mwy eu gwerth yn llifo ar y llawr.

"Pwy am dioda i âg aur ?" medd rhyw gyfoethog frawd,
A'i ddwylaw'n gwasgu aur yn chwys o gorff y gweithiwr tlawd.

Mae blys yn greulawn fel y bedd, ei ffordd ei hun os ca ;
I'e llifai erddo fôr o waed, addefai hyn yn dda.

Nid felly Dafydd, er ei fai, efe oedd dduwiol wr,
A'r draul peryglu bywyd neb ni fynnai ddiod ddwr.

IV.

"Pwy a'm dioda i â dwfr o bydew Bethlem ?" Na,
Y dwfr oedd barod iddo, a byw y lanciau dewr a da.

Er addunedau cyfyng awr dadleuai chwant yn gryf,—
"Am fod y lanciau'n fyw ac iach, nac ofna, tyred, yf."

Cydwylbod ddaliai at ei phwnc, a thystiai gyda nerth
Mai Duw yn unig feddai hawl i aberth cymaint gwerth.

Ardderchog fuddugoliaeth fu, ac wrth derfynu hon
Boddhad ac ynni ieuanc wr fwrlymai dan ei fron.

Mor ddedwydd ni theimlasai er y fendigedig awr
Y dychwelasai tua thref o ladd Goliath gawr.

O ffynnon fechan oedd gerllaw yr yfodd ar ei hynt ;
A'i blas un ffunud oedd a'r dwfr o bydew Bethlem gynt.

A phed yfasai wrth ei frys y dwfr o'r pydew pell,
Ni wnaethai hwnnw, er ei siom, ei ysbryd ronyn gwell.

Na, nid amgylchoedd bore oes, er cymaint yw eu swyn,
A ddwg ieuencyd inni'n ol a thawel fron ddi-gwyn.

Os oes a'i dwg, ufudd-dod yw i'r dwyfol dyner lais,—
Gwneyd da i bawb, newynu blys, a llethu hunan gais.

Daw inni felly hyd yr hwyr oleuni boreu ddydd ;
A phob rhyw ffynnon ar y daith yn ffynnon Bethlem fydd.

EISIAU BOD YN FLAENOR.

Mae Ifan Morgan Blaen y Plwyf o dan ryw glwyf anaele,
Fel dyn ar fin anobaith llwyr yn gruddfan hwyr a bore ;
Mae chwerwedd angau yn ei dôn, ond waeth heb son am ddoctor,
Y clwyf, mae'n eglur wrth ei nod, yw eisiau bod yn flaenor.

Lle iddo'i hunan wrth ei fodd a barotodd yn araf,
Heb dwrw ebill, cyn, na gordd, oll yn y ffordd esmwythaf ;
Ond pedwar o rai bach diras roed yn ei balas arian,
I ymddifyrru nos a dydd, a'r adeiladydd allan.

Er ceisio cuddio 'ngwydd y wlad ei deimlad archolledig,
Mae pawb yn gwybod am ei siom, a'i ysbryd ffrom aniddig ;
A phan grybwyllir am y brawd bydd rhai mewn gwawd yn gwenu,
Heb neb yn teimlo dros ei gam na gofyn pam am hynny.

Gwir iawn ei fod yn ŵr go drwm ; ond gormod swm o Hunan
Yw y gwahan-glwyf, medda nhw, sydd yn ei gadw allan ;
Yr hwn a ddarostyngo'i hun, gan Dduw a dyn ddyrcheffir,
A'r neb a fyfno fod yn fawr, i lawr, i lawr a dynuir.

Rhagorol yw, er maint ei gam, ei ofal am yr achos ;
Cynllunia'n wych, cyfrannu'n hael, ond iddo gael ymddangos ;
Mae'n ddyu rhy dda i fwrw lliid mewn erlid y swyddogion
Os cydnabyddant ef yn dŵr a chyfarwyddwr union.

Mae bron a thorri ar ei draws, pe byddai haws er hynny,
Am gael ei weled ym mhob man, a'i deilwng anrhydeddu ;
Rhowch bwys digonol ar ei faru, fe'i cewch i'r cam yn gyfaill ;
Ond digia wrthych yn ddifeth am wrando peth ar eraill.

Mae Ifan, er a'i ben i lawr, yn ddyu go fawr mewn angladd ;
Gwell ganddo gerdded wrtho'i hun na chyda dyn iselradd ;
Os rhywun gaiff ei gwmi'n rhwydd, gweinidog fydd, neu ddoctor,
A chystal, os nad gwell, bid siwr, yw ambell ŵr o flaenor

Nid ydoedd yntau, meddent im, yn amgen dim na gweithiwr,
Ond iddo droi, am nad oedd iach, yn dipyn bach o siopwr ;
Trwy wir ofalu am ei bwrs fe gasglodd gwrs o arian,
A chlywodd ambell dro, mi wn, ei alw'n Fistar Morgan.

'Does odid gwestiwn yn ei dyb nad etyb ar ei union,
Mae'n gwybod gormod ar ei les, os nad ar les cymdogion ;
A hysbys yw fod llawer gwalch yn fulch o gael ei gyngor
Na fyfynu'r byd i gyd yn grwn am wneuthur hwn yn flaenor

Paham na chaffai'n llawn y lle y gŵyr efe sydd addas—
Y gŵr a roddai i'r set fawr y cyfryw ddirfawr urddas?
Un Pab sydd ddigon, dywed rhai, ac os oes bai yn rhywle,
Atebed Rhufain drosto ei hun am wrthod y dyn gore.

Un moddion esmwythaol sydd i'r dioddefydd truan,
Gweinydder iddo hwn wrth raid rhag poeni ei enaid allan;
Ei roddi weithiau dros ei ben mewn rhyw ddiangen bwyllgor,
Ac am y tro fe dyr y *cramp* fel pe bai glamp o flaenor.

Tosturiwch wrtho, bobol bach, greadur aflach ddigon;
Ac onide fe wel y wlad ei farw o doriad calon;
Am hynny bwriwch ef i'r llyn, waeth i chwi hyn na rhagor,
Does feddygiaeth is y rhod i'r dyn ond bod yn flaenor.

CYFARCHIAD I FYNYYDDOEDD CYMRU.

Chwi hen fynyddoedd Cymru, yng ngwydd y pedwar gwynt,
Amddiffynfeydd cadarnaf ein rhyddid fuoch gynt;
Ac ymddyrchefwch eto yn un ardderchog lu
O gofgofofnau sanctaidd ar lwch ein Cymru gu.

Athrawon dwyfol ydych dan bennau gwynion heirdd;
Chwi sydd yn magu dewrion, chwi sydd yn magu beirdd;
Proffwydi mawr y genedl a fuoch oesoedd maith;
Rhy brysur ydym heddyw i wrando'ch cyfrin iaith.

Beth ddaw o Gymru newydd eiddlloedd mân y dref?
Mae hon wrth gefnu arnoch yn cefnu ar y nef;
Ac onid ydych chwithau, mewn cydystyriaeth brudd,
Yn gostwng braidd eich pennau mewn ofn am Gymru fydd?

Fynyddoedd Gogledd Cymru, rhy ofer treuliais i
Ymhell dros ddeugain mlynedd ar eich llechweddau chwi;
Ond un o'ch meibion ydwyf, yr anheilyngaf gaed,
Heb allu dim ond chwareu fel plentyn wrth eich traed.

Ni bum erioed yn gyfaill i'r dref a'i bywyd main,
A chartref nid adwaenwn heb gwmni grug a drain;
Y ceunant dwfn mynyddig na alwed neb yn hyll—
Chwareule'r bert afonig, a chymdeithasfa'r cyll.

Ni ddysgais eto garu y môr,—anwadal yw;
A chredu ei fod yn Gymro ni allaf yn fy myw;
Ond, hen fynyddoedd anwyl, 'r y'ch chwi yn Gymry glân,
A glŷn fy enaid wrthych hyd angau'n ddiwahan.

Hen fynydd hoff HIRAEITHOC, o fewn dy gesail di
Mae dinod fangre lonydd fy ngenedigaeth i;
Ti ddysgaist imi gerdded i fyny'th lawes lwyd,
Yn swm bresfadau'r defaid a murmur afon Clwyd.

Rhoist imi gartref arall ymysg y llwyni coed,
Lle chwery Cilwen ddifyr hyd heddyw wrth dy droed;
Chwareuais innau lawer yng nghwmni hyfryd hon,
Ysgafned oedd fy meddwl ag ewyn ar y don.

Gwahoddit fi yn fynych ym mraich yr awen fwyn
I wleda ar ddistawrwydd ym mhlith y grug a'r brwyn;
A chefais lawer orig o ddifyr gydymgom
A'r gornant fach siaradus, cyn geni calon drom.

Mi wylwn yr ehedydd, ac ar ei aden ef
Y teimlwn fod fy nghalon yn codi tua'r nef ;
Mi syllwn ar fynyddoedd dienw draw ymhell,
Fel dymuniadau enaid am fywyd purach, gwell.

Hen fynydd hoff Hiraethog, ym moreu gwyn fy nydd
Goddefaist imi grwydro un fath a'r awel rydd ;
Mi dyfais innau ormod heb wybod am yr iau ;
Anhywaeth yw fy meddwl, heb ddysgu ufuddhau.

Ti ddysgaist im wirionedd a dysgaist imi fwy
O wag freuddwydion segur, waeth heb eu henwi hwy ;
O ! na ddysgaswn gennyf ymroddiad llwyr i waith,
Nes troi y breuddwyd hyfryd yn rhyw sylweddol ffaith.

'Rwyf bron a maddeu heddyw i'r hen gornchwiglod cas
A dorrent ar fy heddwch pan fyddai fwya'r blas ;
A phe gwrandawswn arnynt mil gwell fuasai im,
Rhybuddwyr ffyddlawn oeddynt, a mi ni chredwn ddim.

Ffarwel, ffarwel byth mwyach, freuddwydion boreu oes ;
Addawsoch imi goron, a chefais innau groes.
Ond cadw wnaif fy ngolwg fry ar y tiroedd pell,
'Roed imi'n etifeddiaeth mewn addewidion gwell.

Un cwlm anatodol sydd rhyngof â thydi,
Hen fynydd hoff Hiraethog, mae tad a mam i mi
Yn gorwedd yn dy myl, ni cheisaf ddim ond hyn—
Boed iti wyllo drosof eu gwely yn y glyn.

Ardderchog fynydd Brawyn, yn nyddiau mebyd llon
O bell edrychwn arnat fel eitha'r ddaear hon ;
Breuddwydiais beth am danat, ond ni freuddwydiais hyn,
Dy fod yn sefyll rhyngof a'r fath hawddgarwch gwyn.

Mi glywswn er yn foreu son am dy ddefaid mân,
A gwyddwn am dy eira digymar wyn a glân ;
Ond bychan y meddyliwn am ddim o'r gwynder gwell
Oedd destyn cân bugelliaid ar dy gopaon pell.

Pryd hynny dan dy gysgod chwareuai geneth chwim,
Yr unig un a wnelai ymgeledd gymwys im ;
Goruwch yr holl fynyddoedd, dyledus wyf i ti,
Fel llaw rhagluniaeth dyner, am gadw hon i mi.

Rhoist imi gartref newydd mewn paradwysaidd fro,
A phraidd y nef yn ufudd i'w harwain fyr o dro ;
Mae hiraeth ar fy nghalon, ac nid ymedy mwy,
Am rodio dy lechweddau yn eu cymdeithas hwy.

Ardderchog fynydd Berwyn, mi'th groesais lawer gwaith
Fel efengylwr bychan, a diddan fyddai'r daith ;
Bu aml i gyd-gyfrinach ddyddorol rhyngom ni ;
Pregethaist i mi lawer, a minnau beth i ti.

Os buom ar ryw ddamwain mewn ambell frae led ffrom,
A thithau'n curo arnaf â dwrn y dymhestl drom ;
Ym mhelder deuddeng mlynedd diflannodd brychau mân,
Ti sefi yn fy ngolwg a'th wisg yn berffaith lân.

Fy nghofion dyro'n serchog i'r cymoedd mân i gyd,
Fel cywion sy'n ymwithio o dan dy aden glyd ;
A gofyn i'r aberoedd, er mwyn y dyddiau fu,
At y dyffrynnoedd tawel i gario'm cofion cu.

Ardderchog fynydd Berwyn, gorffwysaf ennyd bach ;
Yn fuan dof i'th weled, os byddaf byw ac iach ;
Ond colli hen gyfeillion i mi fu'n ffyddlon gynt
Wna bob ymweliad mwyach yn rhyw bruddhaol hynt.

Nis gwn a wna Rhagluniaeth yn dirion ganiatau
Dy gysgod imi eto yn niwedd bywyd brau ;
Ond o gyfeiriad Berwyn y chwyth awelon hedd,
Ac yna dan dy aden dymunwn gael fy medd.

Fynyddoedd ban Eryri, mi gerddais lawer tro
I ben y bryn cyfagos i'm genedigol fro,
I weled mor fawreddus y safed oddidraw,
Fel gwylwyr wedi cu gosod ar ddorau'r byd a ddaw.

Yn fynych ymddanghosech mewn gwiag o burdeb gwyn,
Cyn bod y bluen eira gynaraf ar y bryn ;
A phwy fuasai'n meddwl, ar un olygfa gaed,
Fod môr o lygredigaeth yn tonni wrth eich traed ?

Blynyddoedd aethant heibio, a minnau ges fy hun
Ar suddo yn ei ganol, y truenusaf un ;
Meddyliwn am waredu rhai ereill—druan ŵr ;
Ac amlwg yw nad oeddwn yn deall grym y dŵr.

Fynyddoedd ban Eryri, gymdogion ser y nef,
Ymafaelasoch yunof â grym deheulaw gref ;
Dyrchefwch ysbryd egwan mewn dryswch sy'n ymdroi,
Ar eich ysgwyddau cedyrn i fyny 'rwyf am ffoi.

Anadlwch eto arnaf, 'rwyf bron angoffio'n awr
Fod un berthynas rhyngof a'r domen ddynol fawr ;
Mae daear Duw'n eangach, a daear dyn yn llai ;
Sancteiddrwydd sydd ar gynnydd, a phechod sydd ar drai

Anadlaf anfarwoldeb yn eich awelon per,
A threuliaf hirnos dawel yng nghwmni Duw a'r ser ;
Yndrochaf mewn arddunedd, O ! gnawd, pa le 'rwyf ti ?
Un cam yn uwch, a digon o nefoedd fydd i mi.

I fyny, medd yr ysbryd, ond O ! mae'r corff yn wan,
Anghymwys yw, mi welaf, i'w godi'n uwch i'r lan :
Fynyddoedd ban Eryri, rhowch imi ogof glyd,
Lle gallant ennyd fechan mewn hedd breswyllo 'nghyd.

Boed hon yn ddigon isel i gyfleusterau'r enawd,
Heb alw'n ol yr ysbryd o'i ddyrchafedig rawd,
Cytuna'r ddau yn ebrwydd, addfedu maent yn wir,—
Pob un i ddychwel adref i'w enedigol dir.

Fynyddoedd ban Eryri, mi wn y dewch yn llu,
Am ran o'r ffordd i hebrwng y bur wreichionen fry ;
Ac yna chwi ddychwelwch, nis gellwch ddod ymhell ;
Pwy ŵyr na ddaw i'm cyrchu ryw nefol osgordd well

HEN FESURAU TIR CYMRU.*

Y MAE efrydu hen fesurau tir Cymru yn cynnwys cynifer o bethau dyddorol fel yr hoffwn roddi ar gof a chadw firwyth yr ymchwiliad wneis i'r pwnc hwn dros wyth mlynedd yn ol.

Datgana dull Gwynedd yn eglur fod y droedfedd, neu y mesur troed Cymreig, yn cynnwys naw modfedd. Yn awr, beth ydoedd hyd yr hen fodfedd? Gellir addef ar unwaith nad oedd yr hen fesurau hyd yn cael eu cyfrif efo manyldra amseroedd diweddar. Ond yr wyf yn dal fod y fodfedd yn ymarferol yr un a'r fodfedd ystatud Seisnig, a bod yr hen droedfedd Cymreig yn cynnwys naw modfedd o'r fath Fel hyn y darnodir modfedd a throedfedd yn ol dull Gwynedd,—
“Try hyt gronyn heyd yny uoduet [a] teyr modued yn llet [y] palyw try llet [y] palyw yny troetued.” †

Y tro cyntaf y mesurais hyd “tri gronyn o haidd,” cefais hwynt yn mesur modfedd ystatud union; ond ar y cyfan, yn yr esiamplau haidd a brofais, yr oedd tair heidden ben ymhen yn mesur tipyn mwy na modfedd. Modd bynnag, gan fod tri gronyn o haidd yn nifer rhy fychan i roddi boddlonrwydd terfynol, mesurais, dair gwaith, saith heidden a'r hugain heb eu dethol, y rhai o'u dod i'n ofalus ben ymhen ddylent fod cyhyd a'r hen droedfedd Gymreig o naw modfedd. Cefais y saith gronyn ar hugain cyntaf yn mesur 9.56 o fodfeddi; yr ail 9.45 o fodfeddi; a'r trydydd eto'n 9.45 o fodfeddi. Ond yma dylwn ddweyd i farsiantwr grawn o brofiad helaeth fy hysbysu fod gronynau yr esiampl ddanghosais iddo braidd yn hir, ac os mesurai saith ar hugain ohonynt wedi eu doddi ar linell tua 9.5 o fodfeddi, y gallai saith a'r hugain o'r esiampl nesaf yn hawdd fesur tua 8.5 o fodfeddi. Modd bynnag, ni raid inni dybio fod y fodfedd Gymreig yr un yn hollol a'r fodfedd Seisnig. Y mae'n ddigon i dybio fod y ddwy yn ddigon agos i'w gilydd i warantu,—pan ddaeth rhaid cyfartalu mesurau Cymru a Lloegr,—nid yn unig unoliaeth y fodfedd â'r *inch*, ond y droedfedd â'r hanner cufydd naw modfedd. Yr hyn sy'n ei gwneyd yn debygol i'r unoli hwn gymeryd lle mewn gwirionedd yn y rhan fwyaf o achosion ydyw y cynhwysir y droedfedd naw modfedd yn y rhan fwyaf o'r “aceri arferol” sydd, neu fu, yn cael eu defnyddio yng Nghymru.

* O'r *Archeologia Cambrensis* Ion. 1896; cyf. gan R. Bryan.

† Dull Gwynedd, Lyfr II., pen. xxii., adr. 5.

Gadewch i ni ddechreu gyda'r llath,* neu y *rod*, o ddeunaw troedfedd, sydd yn cael ei galw yn Null Gwent, yn "llath Hywel dda;" deunaw llath o'r fath o hyd, a dwy o led, ^{Llath, erw, acer.} wnelai'r erw.† Yn awr byddai deunaw troedfedd o naw modfedd yr un cyhyd a thair troedfedd ar ddeg a hanner ystatud, neu bedair llath a hanner; ac yn wir arferir eto y llath o dair troedfedd ar ddeg a hanner ystatud ym Maldwyn, Brycheiniog, Maesyfed, a mannau ereill, er nad ydyw erw Dull Gwent (729 o lathenni ysgwar ystatud),‡ cyn belled ag y gwn, yn goroesi yn unman. Ond os nad ydyw'r erw yn para'n fyw, y mae "llath Hywel dda;" ac os gosodwn allan lain o dir yn ddwy o'r llathau hyn o led ac yn ugain o hyd, gan wneyd y llain felly yn ddeng waith hwy na'i lled, yn lle naw gwaith yn ol Dull Gwent, cawn yr hyn ellir ei alw'n erw (neu, ag arfer y gair lleol, stangel,) o wyth cant a deg o lathenni ysgwar. Yna dyry tair o'r erwau hyn ochr yn ochr yr acer adnabyddus a elwir yn "acer arferol" o 2,430 o lathenni ysgwar, a dyry pedair ohonynt yr acer adnabyddus a elwir yn "acer arferol" o 3,240 o lathenni ysgwar. "Cyfar" ydyw enw'r olaf ym Mrycheiniog ("cyfar Brycheiniog"), ac "ystang" (neu ar lafar gwlad "stang") ym Maldwyn.

Fel hyn,— $(13.5 \times 2) \times (13.5 \times 20) = 7,290$ troedfedd ysgwar.

$$a \frac{7290}{9} = 810 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

$$\text{Yna } 810 \times 3 = 2430 \text{ o lath. ysg.}$$

$$a \ 810 \times 4 = 3240 \text{ o lath. ysg.}$$

Felly bydd yr "acer arferol" gyntaf yn ugain "llath" o hyd wrth chwech o led: a'r ail yn ugain "llath" o hyd wrth wyth o led.

Dengys yr hanesyn dilynol yn eglur i stang Maldwyn neu'r "acer arferol" dderbyn ei ffurf, ac yn ol pob tebyg, ei tharddiad, y modd awgrymwyd yn y desgrifiad uchod. Yn y ^{y stang.} flwyddyn 1887 bu Mr. Bennett, Glan yr Afon, Llanidloes, ar gymhelliad Mr. Evan Powell, yntau o Lanidloes, mor garedig a chasglu i mi beth gwybodaeth am fesurau tir Maldwyn. Galwodd yn ystod ei ymchwil gyda Richard Rees, Llawr y Glyn, hen ŵr dwy flwydd a phedwar ugain oed, fyddai flwyddi lawer yn ol yn gwneyd yr holl waith

* Defnyddiaf y gair llath bob amser yn yr *ystyr* amhenodol o *rod*, yr hyn yw ei iawn feddwl, gan ei ddefnyddio i fesur ystangau (*poles*) o amryfal hyd. Rhaid wrth gwrs, wahaniaethu rhwng *llath* a *llathen*.

† Dull Gwent, llyfr II., pen. xxxiii., adran 2. "A deunaw troetued y g gwialen Hywel da; a deunaw llath yn hyt yr erw, a dwy lath o let."

‡ $\frac{(13.5 \times 2) \times (13.5 \times 18)}{9} = 729$ o lathenni ysgwar.

o godi'r donnen las neu o "dorri bettin"* yn y fro honno. Pan fynegodd ei neges wrth Richard Rees, aeth yr hen ŵr yn gyntaf oll i dŷ'r fen i ynofyn ei wialen fesur, yr hon alwai'n "quart rod," ac yna rhoddodd ei hyd,—“Pedair llathen a hanner yn *exact*,” meddai. Wel, dyna "lath Hywel Dda," yn cynnwys tair ar ddeg a hanner o droedfeddi ysgwar, neu ddeunaw troedfedd o naw modfedd yr un. Yn olaf oll aeth yr hen ŵr gyda Mr. Bennett i'r maes, a chan fesur ar y tir ugain hyd y wialen mewn un cyfeiriad, ac yna wyth waith ei hyd yn gywirongl (*at right angles*) meddai,—“Dyna i chwi stang o dir.”

Y mae'n amlwg oddiwrth hyn nad oes i'r stang, neu'r cyfar o 3,240 o lathenni ysgwar, na ffurf na chynnwys yr un o'r *erwau*

Cymreig, ac yn fyr, nad ydyw yn erw o gwbl. Ond ^{Y stang}_{a'r erw.} daw ei ffurf a'i chynnwys yn dealladwy ar unwaith pan welwn ei chyfansoddi o bedair erw ochr yn ochr, fel y mae'r "acer arferol" arall o 2,430 o lathenni ysgwar yn gyfansoddedig o dair erw o'r fath, pob erw'n acer ar raddfa fechan (dengwaith hwy na'i lled) wedi ei llunio allan o lath Hywel dda; llath Gwent (yn cynnwys tair troedfedd a'r deg a hanner ystatud) yn cytuno'n gywir â'r cymhesuredd nodir yn Null Gwynedd, ond nid yn ianwl â'r rhai roddir yn y ddau dull Cymreig arall.

Yn awr cyfyd y cwestiwn,—ai cywir y gair erw yn yr ystyr cymharol ddiweddar o feddwl "acer" neu "acer arferol;" a'r ateb

ydyw,—nage'n sicr, os ymwneyd yr ydym âg ^{Yr erw}_{a'r acer.} erwau cyfreithiol Cymru. Hyd yn oed mor udiweddar ag 1620, gwahanieithir yn ofalus rhwng *erw* Bromfield â'r *acr*, neu'r "acer arferol," a gynhwysai, mae'n ymddangos, bedair erw. Rhaid fod enw Cymreig unwaith i'r "customary acre;" yn wir, gwyddom mai "cyfar" ydoedd mewn rhai manau, a "stang" mewn manau ereill, os gair Cymraeg yn wir ydyw'r olaf; ond mewn parthau ereill, yn enwedig yn y De, lle'n aml yr ydoedd yr "acer arferol" yn eang, cawn bedwar cyfar, neu bedair stang, yn ffurfio'r "acer arferol" lle'i gelwir yn erw, ac y mae arfer yr enw erw yn yr ystyr yma yn hen iawn yn y manau hyn. Eto ni arferid y gair erw byth yn yr ystyr yma yn un o gyfreithiau Cymru.

Yn awr y mae dau ofyniad arall yn ymgynnyg. Yn gyntaf,—Pa fodd y cyfieithwn y gair erw, fel y mae yn y cyfreithiau, i'r Saesneg, fel y cyflea syniad cywir am ei ffurf a'i gynnwys yn

* Bettin, yn cael ei ynganu'n *betting*, ac yn Nehendir Cymru, fel y dywed Mr. Phillimore wrthyf, *betting*, yn dri sill. Daw *betting* o'r Seisnig "beat," ffurf foreol "peat."

unol â hwy. Nis gallwn ddefnyddio'r gair "acre;" er fod erw Gwynedd, fel yr acer ystatud Seisnig, ddengwaith hwy na'i lled,* am fod ei gynnwys yn llawer iawn llai. Gellid ei alw'n "rood,"—y mae arwyneb erw a "rood" yn bras gyfateb,—oni bai fod "rood" yn ddeugain gwaith hwy na'i lled. Felly ymddengys nad oes yr un gair cyfystyr hollol yn Saesneg i erw y rheithiau Cymreig.

Yn olaf daw y cwestiwn,—A oes gair Cymraeg mewn bod y gallwn ei ddefnyddio i ddarnodi erwau y rheithiau Cymreig, a gochel dwyn i mewn, wrth ymdrin â hwynt, yr ystyr hollol wahanol y mae'r enw erw yn gyfleu'n awr? Oes, rwy'n tybio. Dyna'r gair,—stangel; a hwn, neu ei ffurf lenyddol ystangel (llosog ystangelau) fydd yr enw roddaf o hyn allan i erw y rheithiau pan fydd arnaf eisieu gwahaniaethu rhyngddi â'r erw ddiweddar a mwy eang.

Dywedais fod ffurf stang Maldwyn,—ugain "llath" o hyd ac wyth o led,—yn wahanol i ffurf yr erwau ddarnodir yn y rheithiau Cymreig; ond ni ddylid dodi gormod o bwys ar y ffaith hon, canys amlwg yw fod darn o dir a'i faintioli'n cael ei ddynodi drwy liosogi ugain wyth waith, yn cynnwys yn gymwys yr un arwynebedd ag a ddynodir drwy liosogi deugain bedair gwaith ($20 \times 8 = 40 \times 4$); a rhoddai llain wedi ei gosod allan yn ol y darnodiad olaf y ffurf yn hollol y mae Dull Gwynedd, beth bynnag, yn ofyn. Yn wir, hysbysa George Owen ni, yn ei *Description of Pembrokeshire* (1603) mai "8 poles in bredth, and xx. in length, or 4 in bredth, and 40 in length, maketh a stange."† Gallai ansawdd tir aredig rhai trefi degwm, neu nodwedd anwastad yr arwyneb, fod y cyfryw na chaniatai i'r gŵys gael ei llawn hyd, neu gallwn ddyfalu achosion ereill a wnaent i stang o un ffurf fod yn fwy cyfleus na'r llall.

Ond lluddia maintioli y stangelau hyn iddynt fod yr un ag erwau (=stangelau) y rheithiau. Ac heblaw hyn, y mae George Owen, ar ol darnodi cyfansoddiad stang Penfro, fel y dyfynnwyd eisoes, yn myned rhagddo i ddweyd,—“4 of these stanges make the Pembrokeshire acre;” hynny yw, yr "acer arferol," neu'r erw fel ei gelwir yn awr.

Gwelwch beth y mae hyn yn olygu. Tybiwn fod hyd y stang ddeng waith mwy na'i lled. Dyma fe,—

* Fel y gwelsom, yr oedd erw Dull Gwent naw gwaith hwy na'i lled; ac fel y cawn weled ar ol hyn, yr oedd erw Dull Dyfed wyth gwaith yn hwy; ac eto mae'n ddiamwys wrth efrdu hen "aceri arferol" Gwent a Dyfed i'r erw (neu'r ystangel) gael ei newid mewn ffurf nes y daeth i'r cymhesuredd o ddeg i un yn ei hyd a'i lled, hyd yn oed yn y parthau hyn.

† Argraffiad 1892, tu-dal. 133 a 134.

4 o "lathau."	40 "llath."
	Stang.

Yn awr dodwn bedair ohonynt ynghyd ochr yn ochr, fel y gwnelont yr hyn a elwir yn erw neu'n "acer arferol;"—

16 o "lathau." 4 "lath." 4 "lath." 4 "lath." 4 "lath."	40 o "lathau."
	Stang.
	Stang.
	Stang.
	Stang.

16 i 40 = 8 i 20.

Felly nid yn unig y mae gormodedd eu cynnwys yn cael ei fwyhau'n bedwarplyg, ond nid cynt y cawsom adfeddiant o ddull cywir y stang, nag yr ydym yn ei gollu'n union eilwaith. Mae'n eglur nad yr un ydyw erw y dyddiau diweddar ag erw y dyddiau fu, ac y mae yr un mor eglur fod dull arferol y cyfar diweddar, neu'r stang, i'w briodoli i dair neu bedair stangel yn gorwedd ochr yn ochr, a bod y stangelau hyn yn cyfateb mewn ffurf ac yn agoshau mewn arwynebedd i erwau y rheithiau. Bydd cynllun stang Maldwyn fel hyn,—

8 o "lathau." 2 "lath." 2 "lath." 2 "lath." 2 "lath."	Stang.	
	20 "llath."	stangel.
		stangel.
		stangel.
		stangel.

Nid wyf am honni y gallaf esbonio pa fodd y daeth y gair erw i ddynodi'r "acer arferol."

Gadawodd Richard Rees ei wialen yn "quart rod." Yn wir, gelwid "llath" ysgwar yn "quart," a chynhwysai ugain llath ysgwar a chwarter ($\frac{15^2 \times 15^2}{5} = 2025$), ac wyth ugain ^{Quart rod.} "quart" a wna stang. Ond y mae'n debyg yr adweinid hi yn Llawr y Glyn a manau ereill dan yr enw amhenodol "llath." Credaf mai "pren naw" (hynny yw, gwialen naw) ei gelwid hi gynt yn y Deheudir, am y cynhwysai naw o "gyfelinau," neu o guffyddau troedfedd a hanner yr un ($9 \times 1\frac{1}{2} = 13\frac{1}{2}$ o droedfeddi). Yn sir Gaernarfon, a pharthau ereill o Wynedd, "paladr" yw yr enw roddi arni.

Ond enwir "llath" arall yn y cyfreithiau Cymreig. Sonia Dull Gwynedd a Dyfed ill dau am "wialen cyhyd â'r iau hir."*

^{Fren wyth.} Arferid y wialen hon i ddodi allan erwau Gwynedd a Dyfed. Cynhwysai un troedfedd ar bymtheg yn naw modfedd yr un, ac am hynny yr oedd yn hollol gyfartal â "llath" deuddeg troedfedd ystatud. Gelwid hi weithiau yn y De yn "bren wyth" (= gwialen wyth), a chynhwysai wyth o gyfelinau, neu o guffyddau ($8 \times 1\frac{1}{2} = 12$).

Yn awr, y mae'r wialen ddeuddeng troedfedd eto mewn bri ymarferol, ac yn safon i o leiaf ddwy "acer arferol." Os dodwn allan lain o dir tair "llath" o led a deg ar hugain o hyd efor wialen hon, gan ddilyn cyfarwyddiadau Dull Gwynedd,† cawn ystangel (ac y mae o bwys cofio mai ystangelau, ac nid aceri, ydyw erwau y rheithiau Cymreig), yr hon a gynnwys 1,440 o lathenni ysgwar. A dyry tair o'r ystangelau hyn ochr yn ochr yr "acer arferol" 4,320 o lathenni ysgwar, tra y rhy pedair ohonynt yn gorwedd fel yna "acer arferol" arall, acer y 5,760 o lathenni ysgwar, a arferir mewn rhannau o Benfro a Morgannwg, ac a geir hefyd yng Nghernydw,—

$$(12 \times 3) \times (12 \times 30) = 12,960 \text{ o droedfeddi ysgwar.}$$

$$\text{a } \frac{12960}{9} = 1440 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

$$\begin{array}{l} \text{Yna } 1440 \times 3 = 4320 \quad \text{"} \quad \text{"} \\ \text{a } 1440 \times 4 = 5760 \quad \text{"} \quad \text{"} \end{array}$$

Y mae'n sicr, fodd bynnag, fod yr acer ennwyd olaf, mewn llawer man, yn hannu o'r "llath" naw troedfedd, ac wedi ei threfnu yn ol cynllun arall. (Gweler tudal. 43).

* Gwyalen gyhyt a[r hyr yeu] honno." Dull Gwynedd, llyfr II., pen. xvii., adran 6. Gwel hefyd Dull Dyfed, llyfr II., pen. xx., adran 8.

† Y mae y cyfarwyddiadau hyn yn amwys iawn, ac nid oeddwn wedi dod o hyd i'w hiawn ystyr pan ysgrifennwn fy *History of Ancient Tenures in the Marches of North Wales*. Ond credaf yn awr fod yn eithaf eglur mai'r arwyddocâd uchod fwriadwyd iddynt ddwyn. 'Rwy'n ddyledus i'r diweddar Mr. O. C. Pell am yr eglurhad hwn.

Dyry Dull Dyfed y "llath" o'r un hyd,—“vn troetued arbymtheg a vyd ynhyt yr hirieu ac vn ieu arbymtheg a vyd yn hyt yr erw a dwy ryd y llet.”* Felly cynhwysai “Llath” Dyfed. erw neu ystangel Dyfed 512 o lathenni ysgwar, $\frac{(12 \times 2) \times (12 \times 12)}{9} = 512$, ond nis gwn a oes mewn bod ryw ystangel o'r fath, neu ystang o'r fath, neu “acer arferol” sydd yn deilliaw ohoni.†

Y mae'r wialen hon eto mewn bri i osod allan y “cyfar” o 2,560 o lathenni ysgwar. Y cyfar bach, neu cyfar bieting, y gelwir y cyfar hwn ym Mrycheiniog, i wahaniaethu rhyngddo â “chyfar Brycheiniog” sydd yn 3,240 o lathenni ysgwar.‡ Ond trinig ef yn y sir yna fel ystang, am ei fod, yn ol Mr. R. James, Llanwrtyd, yn ugain o “lathau” o hyd wrth wyth o led. Feallai ei fod felly wedi ei gyfansoddi o bedair ystangel yn gorwedd ochr yn ochr, pob ystangel a'i hyd yn ugain o “lathau,” a'i lled yn ddwy, ac yn cynnwys 640 o lathenni ysgwar. Fel hyn,—

$$(12 \times 12) \times (12 \times 20) = 5760 \text{ o droedfeddi ysgwar.}$$

$$\text{a } \frac{5760}{9} = 640 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

$$\text{Yna } 640 \times 4 = 2560 \quad \text{,,} \quad \text{,,}$$

Cynhwysai “cyfar” § sir Fflint hefyd, fel y cefais allan, 2,560 o lathenni ysgwar; ond gan fod gwialen neu “lath” “Cyfar” Fflint sir Fflint yn un droedfedd ar hugain,—y mae hyn ymron wedi ei brofi,—rhaid mai ystangel oedd y cyfar ddeilliai ohoni, ac nid ystang, yn mesur ugain “llath” o hyd, a dwy o led. Fel hyn,—

$$\frac{(24 \times 2) \times (24 \times 20)}{9} = 2560 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

Gwyddom hyd gwialen Gogledd Powys, fodd bynnag, i sicrwydd diymwad.¶ Mesurai bedair troedfedd ar hugain, ac yr oedd wyth ugain o “lathau” ysgwar yn yr “acer arferol.” Cyfansoddid yr acer hon hefyd o bedwar “rood,” yn hafal eu harwyneb i gyferi sir Fflint, ac ymddengys y gelwir hwy yn erwau yn Gymraeg; y mae'n agos yn sicr fod pob “rood” yn ugain o “lathau” o hyd wrth ddwy o led, fel y cynhwysai'r acer 10,240 o lathenni ysgwar (2,560 × 4).

* Dull Dyfed, llyfr II., pen. xx., adran 8. Wrth gwrs, troedfeddi naw modfedd yr un ydyw y rhain, ac y maent yn gyfartal â deuddeg troedfedd yn ddeuddeg modfedd yr un.

† Gweler y nodiad ar tudalen 35. ‡ Gweler nodiad tudalen 34.

§ Yr enw Seisnig am “gyfar” sir Fflint ydyw “yoking,”—enw awgrymiadol iawn, ac yn cyfleu syniad o gyd-aredig.

¶ Gweler Norden's *Survey of the Lordship of Bromfield and Yale*, A.D. 1620, Harleian MS., 3696.

Defnyddid “acer arferol” gogledd Powys hefyd trwy gydol siroedd Stafford, Caer, a de Caerhirfryn,—lle'i gelwid yn “acer sir Stafford,” neu'n “acer sir Gaer,”—yn ogystal ag mewn parthau o Benfro, Ceredigion, Caerfyrddin a Morgannwg, lle, fodd bynnag, yr oedd o haniad gwahanol.* Erw Llanguig ei gelwid ym Morgannwg. Ar ol hyn sylwaf yn llawnach ar y dosbarth yma o enwau, o'r rhain y mae'r enw hwn yn siaml.

Y mae'r acer ystatud wedi mynnu lle “acer arferol” gogledd Powys ers talm o amser, ond arferir yr wyth ugeinfed ran o honi—y “llath” ysgwar o bedair troedfedd

Y Welsh rood.

ar hugain, neu drigain a phedair o lathenni ysgwar ($\frac{24 \times 24}{4}$) = 64) eto dros barthau ehlaeth iawn.

Arferir y mesur unionsyth o bedair troedfedd ar hugain yn gyffredin efo chloddiau, ffosydd, a muriau, ac felly ymlaen. Gelwir y mesur trigain a phedwar o lathenni ysgwar yng Nghymru'n “rwd sgwar,” tra'n y parthau cyfagos yn Lloegr fe'i gelwir “the Welsh rood,” “the square rood,” neu “the digging rood.” Fe'i defnyddir gan mwyaf ynglŷn â thyfu cloron neu godi'r donnen las. Cefais, neu clywais, fod y mesur hwn mewn arferiad drwy siroedd Maldwyn, Maesyfed, Brycheiniog, Caernarfon, Mon, dwyrain Dinbych, yng Nghwm yr Hob, Cwm y Wyddgrug,† yn siroedd Caer, yr Amwythig, gogledd Henffordd, rhannau o sir Stafford, ac, os da fy nghof, drwy Gaerhirfryn ddeheuol hefyd.

Sylwer fod yr hyn allwn alw'n ganolbarth mewnol y rhandir eang hwn yn cyd-derfynu ymron â hen dywysogaeth Powys cyn ei rhannu a'i chwtagi drwy ddyfodiad y Mersiaid a'r Northumbriaid. Ond yr wyf yn priodoli'r defnydd helaeth hwn o'r “rhwd sgwar” i ledaeniad dulliau amaethyddol sir Gaer drwy Ogledd Cymru, yn enwedig yr arfer o bilio tyweirch neu godi'r donnen las; canys, beth bynnag yw y mesurau lleol, gwneir pob gwaith o'r natur hwn yn ol y rhwd o drigain a phedair o lathenni ysgwar. Bu'r ffaith fod y mesur hwn yn un â'r ddeugeinfed ran o gyfar sir Fflint, ac o erw dwyrain Dinbych, yn foddion i'w ledaenu. Dengys ei enw, “y rhwd sgwar,”‡ mai dyfodiad o Loegr ydyw. Mae'n amlwg fod ei yrfa o sir Gaer drwy Ddinbych a Fflint i Arfon a Mon, oddiyno ymledodd, y mae'n debyg, drwy Feirion, Maldwyn, a Maesyfed, i dde Amwythig a Henffordd. Ar y dyb yna, gallwn ddeall

Tarddiad y
Welsh rood.

* Deilliai yna, nid o “lath” pedair troedfedd ar hugain, ond o lath deuddeg troedfedd, deugain “lath” o hyd wrth un ar bymtheg o led.

† Wrth gwrs, y ddeugeinfed ran o gyfar sir Fflint yw y “rhwd sgwar” hwn, a'r ddeugeinfed ran o gyfar bach Brycheiniog.

‡ Ei enw mwyaf cyffredin yng Nghymru ydyw “rhwd o dir.”

paham ar brydiau yn y ddwy sir ennwyd olaf yr adwaenir ef fel "the Welsh rood."

Yn Neheudir Cymru gelwir y "llath" yn aml yn "bat,"—Llydewig, *baz*=ffon; Gwyddelig, *bat*, *bata*=ffon neu wialen; Seisnig y Canol Oesau, *batte*; Seisnig diweddar, *bat*,
Gwahanol
"lathau." megis "*cricket-bat*." Y mae'n amrywio'n ei hyd ymron ymhob cantref, weithiau ymhob plwy—naw, unarddeg, unarddeg a hanner neu ddeuddeg troedfedd;* tra mewn rhai parthau o Forgannwg defnyddir y bat dwbl fel "llath" neu "wialen." Anghywir tybio y cyfyngir yr enw bat i'r "llath" un droedfedd ar ddeg. Geilw George Owen, Henllys, yr holl "lathau" arferid ym Mhenfro yn "land battes." Ond teilynga llath yr un droedfedd ar ddeg sylw neilltuol, pe ond am ei hadwaen mewn rhan o Forgannwg fel "llath eglwys Silin;"† enw'n awgrymu y cedwid y "llath" arferid yn gyffredin mewn rhanbarth neilltuol yn eglwys plwy y rhanbarth hwnnw. Yn Atodiad *Report of the Commissioners of Weights and Measures*, argraffwyd yn 1820, gelwir y "llath" hon yn "llath Eglwys haw,"‡ enw'n awgrymu'r cyffelyb syniad. Yr un modd adwaenid yr "acer arferol" ddeilliai o'r llath un droedfedd ar ddeg a hanner fel erw Ferthyr Tudfyl, ac erw Llanfabon. Ac yr wyf eisoes wedi galw sylw at yr "acer arferol" elwid erw Llangiwig.

Soniais yn barod am "fatau" neu "lathau" naw a deuddeg troedfedd. Y mae hyn yn hynod ym "matau" deg, unarddeg, ac un droedfedd ar ddeg a hanner,—nad ydynt yn gwneyd nifer llawn o droedfeddi naw modfedd. Gwna'r gyntaf dair troedfedd ar ddeg yn ol naw modfedd yr un, gyda thraian troedfedd dros ben; yr ail, bedair troedfedd ar ddeg o'r cyfryw, a deuparth troedfedd dros ben; a'r drydedd, bymtheg o'r fath droedfeddi, a thraian troedfedd dros ben. Yn awr, dengys y cyntaf a'r trydedd o'r tor-rifau hyn un "lled palf;" a'r ail, ddau "led palf." Felly, nid ydyw'r ffaith o barhad y "batau"

* "In Pembrokeshire the pole differeth allmost in every hundred of the sheere from other, for in some place the pole is but ix foote, and in some place xi foote, and so differinge betweene both, as shall appeare; and this seemeth to be first so devised according to the goodness of the ground, for in the best soyle is used the least measure, and so of the contrarie, the pole being knowne, they differre altogether in somming of the acre."—*Owen's Description of Pembrokeshire*, p. 133, ed. 1892.

† Dywed Mr. Thos. Thomas, Pontypridd, wrthf fod llath Eglwys Silin, mewn gwirionedd, yn ddwy droedfedd ar hugain o hyd; hynny yw, bat dwbl o un droedfedd ar ddeg ydyw. Soniaf ar ol hyn am yr "aceri arferol" sydd yn hannu o'r bat dwbl.

‡ Gwall yn eglur ddigon ydyw "Eglwys haw" am "Eglwys Silin" neu "Eglwys Wrw."

hyn yn gwrthbrofi, mewn unrhyw fodd, y syniad am gyn-fodol-aeth y droedfedd naw modfedd, pob troedfedd wedi ei dosranu i dri "lled palf," ond yn hytrach yn cadarnhau'r syniad. Mae'n amlwg mai gweddillion anhydrin "llathau" traddodiad ydyw batau'r deg, yr unarddeg, a'r un droedfedd ar ddeg a hanner. Gellir ychwanegu nad yw'r "aceri arferol," ddeillia o'r batau hyn. yn cynnwys nifer llawn o lathenni ysgwar.

Wrth fanylu ar "aceri arferol" Deheudir Cymru, sydd wedi eu cyfansoddi o'r batau ennwyd eisoes, ymddengys y dylid eu dosrannu i ddwy adran, pob rhan yn cynnwys dau ddosbarth cyfatebol. Yn gyntaf, dyna adran yr "aceri" sydd bob un yn deilliaw o'r bat unigol wedi ei gwneyd o bedair ystang, ac yn cynnwys 640 neu 768 o fatau ysgwar. Yn ail, dyna adran yr "aceri," sydd bob un yn deilliaw o'r bat dwbl, wedi ei gwneyd o un ystang, ac yn cynnwys 160 neu 192 o fatau ysgwar.

YR ADRAN GYNTAF.—*Dosbarth Cyntaf*.—Dechreuwn efo dosbarth cyntaf yr adran gyntaf. Y mae pob ystang yn ddeugain o "lathau" yn ei hyd wrth bedair o led, a ffurfia pedair o'r ystangau hyn yn gorwedd ochr yn ochr, yn ol y cynllun ar tudalen 37, yr hyn elwir yn erw, neu'n "acer arferol." Hynny yw, y mae'r erw yn ddeugain "llath" o hyd wrth un ar bymtheg o led; ac yn lle lliosogi ysgwar y llath efo $40 \times 4 = 160$, fel y gwneir yn y mesur ystatud Seisnig; rhaid i ni liosogi efo $40 \times 4 \times 4 = 640$ i gael arwynebedd yr "acer." Esbonia hyn y ffaith fod cynnwys yr aceri yn fwy na chynnwys yr aceri Seisnig, er mor gwta ydyw'r "llathau."

Yr Ail Ddosbarth.—Yn aceri'r ail ddosbarth o'r adran gyntaf, cawn nad yw'r ystang ddeng waith hwy na'i lled, er mai ychydig engreiffiau sydd o hyn. Ond yn yr eithriadau hyn, deuddeng waith mwy yw'r hyd na'r lled. Hynny yw, er mai pedair "llath" yw'r ystang o led, y mae yn wyth a deugain (nid deugain) o "llathau" o hyd; felly, yn lle lliosogi ysgwar y "llath" efo $40 \times 4 \times 4 = 640$, rhaid i ni, os ydym am gael arwynebedd yr "acer," liosogi efo $48 \times 4 \times 4 = 768$; yn ol hyn y mae'r "acer" yn 48 "llath" o hyd wrth 16 o led, ac y mae'r hyd yn ateb i'w lled yn ol tri i un. Ymddengys mai dyma gynllun yr "aceri" a adwaenir fel erw Eglwys Silin, erw Ferthyr Tudfyl, ac erw Llanfabon, ac yn yr engreiffiau hyn gelwir y pedair "ystang" a wnelai'r erw yn "gyferi."

ADRAN YR AIL.—*Dosbarth Cyntaf*.—Yr ydym weithian wedi dod at ddosbarth cyntaf yr "aceri arferol," neu erwau'r ail adran. Yr oedd pob un o'r erwau hyn yn ddeugain o'r "llathau dwbl" o hyd wrth bedair o led, a'u hansawdd oedd pedair

ystangel ochr yn ochr, pob ystangel y tro hwn yn wir "lath," hynny yw, yn ddeugain gwaith mwy na'i lled.

Dosbarth yr Ail.—Y mae pob ystangel yn ail ddosbarth yr adran hon yn hwy wyth waith a deugain na'i lled, a chan fod pedair ystangel yn yr erw, y mae hyd yr olaf wyth waith ei lled. Hawdd bwrw rhif a dangos fod yn y dosbarth cyntaf wyth ugain bat ysgwar o hyd dwbl, ac yn yr ail ddosbarth ddau cant namyn wyth o'r cyfryw.

Nid dewisol gennyf lwytho'm llith â ffurfennau arbennig i brofi'r pwyntiau amryfal hyn, ond, os tâl y darllennydd sylw manwl i'r ffurfennau roddir maes o law i arddangos pwyntiau ereill, gwel wiro'r daliadau hyn oll.

Danghosais ar tudalen 38 y modd yr oedd yn ddichonadwy llunio'r "acer arferol" o 5,760 o lathenni ysgwar efo'r "llath" deuddeg troedfedd. Ond y gwir yw, ymddengys

Dulliau cyfrif acer.

mai'r "llath" naw troedfedd ydoedd ei sail yn Neheudir Cymru, a'i bod yn amrywio rhywfaint yn ei ffurf oddiwrth yr "acer" lunid o'r "llath" ddeuddeg troedfedd; hynny yw, yn lle bod yn ddeg ar hugain "llath" o hyd a deuddeg o led, yr ydoedd yn ddeugain o hyd wrth un ar bymtheg o led. Fel hyn,—

$$\begin{aligned} (9 \times 9) \times (9 \times 40) &= 1440 \text{ o lathenni ysgwar,} \\ \text{a } 1440 \times 4 &= 5760 \text{ o lathenni ysgwar.} \end{aligned}$$

Yr un modd dangosais ar dudalen 39 fel y deilliai cyfar Brycheiniog oedd yn cynnwys 2,560 o lathenni ysgwar o'r "llath" deuddeg troedfedd; ac ar yr un tudalen y modd yr hannai cyfar sir Fflint a hen erw sir Ddinbych, y ddau'n cynnwys yr un faint, o'r "llath" bedair troedfedd ar hugain. Ond ain ystangel y 2,560 o lathenni ysgwar, gynhwysid yn erw Llangiwg, er yr hannai o'r un "llath" a'r cyfar ennwyd gyntaf, yr oedd iddi ffurf wahanol, ac er o gyffelyb lun i'r cyfar ennwyd olaf, deilliai o "lath" wahanol. Fel hyn ei ceid,—

$$(12 \times 12) \times (12 \times 40) = 2560 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

A phedair ystangel wnelai erw, neu "acer arferol" o 10,240 o lathenni ysgwar ($2560 \times 4 = 10240$), fyddai gynt mewn bri drwy barthau o Benfro, Ceredigion, Caerfyrddin, a Morgannwg. Gwelwn fel hyn y dichon acrau o'r un arwynebedd mewn amryfal rannau o'r wlad darddu o ffynhonnell wahanol.

Rhaid imi son weithian am "acer arferol" y 7,840 o lathenni ysgwar. Fe'i gelwid yn Fesur Meisgyn, am ei ddefnyddio yn Nyffryn Meisgyn, er ei fod i'w gael yn ogystal ym Mhenfro a manau ereill o Forgannwg. Yn ol *Report of the Commissioners of Weights and Measures*

Mesur Meisgyn.

(1820), deilliai o "lath" ddeg troedfedd a hanner fu gennyn dan sylw eisoes, ac fe'i gwneid fel hyn,—

$$\frac{(10.5 \times 4) \times (10.5 \times 40)}{9} = \text{cyfar o 1960 o lathenni ysgwar.}$$

Yna $1960 \times 4 =$ acer neu erw o 7840 o lathenni ysgwar.

Dywed Mr. Thomas, o Bontypridd, wrthyf, fodd bynnag, mai'r "bat dwbl" o un troedfedd ar hugain ddefnyddir mewn gwirionedd. Yn ol hyn yna byddai'r "acer" yn wir erw o ran llun, er nad mewn arwynebedd, a delai i fod fel hyn,—

$$\frac{(21 \times 4) \times (21 \times 40)}{9} = 4840 \text{ o lathenni ysgwar.}$$

Yn awr awgrymir rhai casgliadau dyddorol gan y "llath" hon o un troedfedd ar hugain. Yn gyntaf oll, y "bat dwbl" soniwyd am dano mewn paragraff o'r blaen ydyw. Y "llath" ²¹ troedfedd. Yn ail, efe ydyw y "bat triflyg" fu'n ffynnu ym Mrycheiniog* yn ol prawf sy'n fy meddiant; ac yn olaf, yr "hanner bat" o ddwy droedfedd a deugain ydyw a fu, y mae'n ymddangos, mewn bri mewn aml i fro yn y De. Felly, y mae'n amlwg i'r "llath" un troedfedd ar hugain, neu ei dwbl, neu un ran neu gilydd o'i rhannau cyfansawdd, ymdaenu ymhell ar led.

Ac yma rhaid mynegu ffaith hynod iawn. Y "llath" o un troedfedd ar hugain ydoedd "llath" yr Iwerddon hefyd, neu ran eang o'r Iwerddon. A'i rhaib-ymwelwyr o'r Iwerddon ddaeth a'r "llath" Wyddelig i Ddeheudir Cymru? Ynte ai cymunrodd ydyw hi, â'r "llathau" ddeillia o honni, wedi ei ado i ni gan y cyn-Frythoniaid fu'n hir bara mewn llawer bro heb lwyr ymdoddi yn eu concwerwyr Cymroaidd? Gofynion hawdd eu doddi yw y rhai hyn, ond anhawdd, os nad amhosibl, eu hateb.

Gadewch imi bellach gasglu gweddillion y wledd. Nid erys namyn dwy "lath" am y rhai y mae angen son. Yn gyntaf, dyna'r gwrhyd. Clywais am hwn, ond nis gwn ddiagon am dano i ymwneyd âg ef i ddim daioni. Modd bynnag, waeth imi ddangos na pheidio mai cyfieithiad o'r gair Groeg, *δρυιδ*, ydyw yn yr Actau, ac mai *fathom* (o chwe troedfedd?) ydyw yn y Beibl Saesneg. Os hyn yw ei iawn hyd, byddai'r gwrhyd yn hanner bat y deuddeg troedfedd. Ond hwyrach fod ei hyd, fel hyd "llathau" ereill, yn amrywio mewn broydd gwahanol.

* Ger Llanwrtyd. Mr. R. James, o'r fan hon, yw fy awdurdod am y gosodiad hwn. Dywed Mr. James wrthyf hefyd fod "perc o fawn-dir" (*turf-walk*) yn myl Llanwrtyd yn "un troedfedd ar ddeg o hyd ac yn llathen a mawnen o led."

Weithian nid oes ond "llath" Mon i siarad am dani. Y mae un o'r "llathau" hyn ym meddiant Mr. Thomas Pritchard, Llannerch y Medd, a gwelodd un arall, ill dwy yn "Llath" Mon. mesur deugain modfedd union. Deugain modfedd hefyd ydoedd "llath" Mon, yr hyn gadarnheir gan broffon dogfennol, er fod ei hyd yn cael ei roddi'n ddeugain modfedd namyn hanner, neu'n ddeugain modfedd o fewn tair rhan o wyth ($39\frac{1}{8}$), neu "rywle'n fan yna," mewn llaw-ysgrif argraffwyd yng nghyfrol 1881 o'r *Archæologia Cambrensis*, tudalen 64. Ond yr oedd "llath" deugain modfedd, yr hon, yr un wedd a'r "llath" dair troedfedd ar ddeg a hanner, a elwid yn "baladr," yn ffynnu yn sir Gaernarfon yn ogystal a Mon. Hysbysir fi gan Mr. Thomas Roberts, Porthmadog, iddo weled hen fap a thirlyfr wedi'i ddyddio 1755, yn nechreu'r hwn yr oedd y nodiad dilynol,—

"Parish of Llangybi, Hundred of Eifionnydd :
 5 Welch yards and a quarter (40 inches to the yard)
 each way 1 pole or paladr.
 30 poles 1 yard land.
 5 yard-lands and 8 poles 1 statute acre."

Gallwn anwybyddu'r gosodiad olaf, a chymeryd yn ganiataol, os ydoedd deg paladr ar hugain yn hyd yr erw neu'r "yard-land," fod tair yn ei lled. Felly cawn hyn yn gynnwys yr erw yna,—

$$\frac{(5.25 \times 40) \times (5.25 \times 40)}{144 \times 9} = 34 \text{ o lathenni ysgwar} = 1 \text{ paladr ysgwar,}$$

$$\text{a } 34 \times 30 \times 3 = 3060 \text{ o lathenni ysgwar} = 1 \text{ erw neu "yard-land."}$$

Ar y llaw arall, datgana *Report of the Commissioners of Weights and Measures* (1820) fod pump o lathenni a thraian yn gwneyd acer o 3,240 o lathenni ysgwar, pob un yn cynnwys deg "llath" ar hugain yn dair troedfedd ar ddeg a hanner ysgwar." Ond y mae'n eithaf amlwg i'r Dirprwyon wneyd tro carbwl a chymysgu dwy "lath" wahanol a dwy "acer arferol" wahanol; a dichon i ni ddodi bys ar y fan yr awd ar gyfeiliorn. Y mae'r gwall i'w briodoli i gamddeall y gair "yard-land." Y maent wedi ei gyfieithu efo'r gair "llathen," hynny yw "yard-measure." Gwnaeth y Dr. Owen Pugh yr un camgymeriad,— "Llathen o dir" ydyw "a yard of land." Ar y llaw arall, nid yr "yard-land" Seisnig—sypyn o leiniau gwasgarog o dir tro—ydyw "yard-land" Mon a Chaernarfon. Nid yw'n amgen nag enw anghywir Seisnig ar yr "erw" Gymreig. Credaf fod yr "acer arferol" ddeilliai o'r "llath" ddeugain modfedd yn 3,060 o lathenni ysgwar, fel y danghoswyd uchod. Ond dywedwyd eisoes fod "acer arferol" mwy

cyffredinol Mon ac Arfon yn 3,240 o lathenni ysgwar; a deilliai hon, fel y cydnebydd y Dirprwyon, o "lath" y tair troedfedd ar ddeg a hanner, "llath Hywel Dda;" ac ym Mon ac Arfon ymddengys na wneid yr acer 3,240 o lathenni ysgwar yn ol yr hyn ddanghoswyd ar tudalen 34, mewn amseroedd diweddar beth bynnag, ond fel hyn,—

$$\frac{(13.5 \times 3) \times (13.5 \times 30)}{9} = 607.5 \text{ llath. } \text{ysg.} = \text{erw iawn neu "yardland."}$$


$$\text{Yna } 607.5 \times 5\frac{1}{3} = 3240 \text{ o lath. ysgwar.}$$

Dull hynod, ysywaeth, oedd hwn o ddodi acer allan, ac nis gallaf beidio synio ei fod ar y cyntaf yn unol â'r cynllun ar tudalen 34, a bod ei ffurf diweddar i'w briodoli i ddyrswch yn tarddu o'r ffaith fod *dau* fesur yn ffynnu ym Mon ac Arfon.

Dylwn grybwyll mai pur ychydig o'r mesurau ennwyd sy'n cael eu harfer yn awr, er fod y rhan fwyaf ohonynt yn llercian mewn rhai parthau lai na chan mlynedd yn ol. Y maent agos oll bellach wedi eu disodlu gan y mesurau adwaenir fel mesurau "ymherodrol" neu "ystatud."

Onid trown eilwaith at y pwnc. Ni ddywedais yn bendant fod unoliaeth berffaith rhwng troedfedd henafol Cymru â'r mesur naw modfedd Seisnig, ond yn unig eu bod yn ymarferol yr un. Yr hyn ddywedais oedd, fod eu hyd mor gyfartal ag i arwain mewn llawer amgylchiad i'w hunoliaeth, pan fu raid cyfartalu mesurau Cymru â mesurau Lloegr. Serch fod amryw "lathau" yn aros, fel y rhai elwais yn "weddillion anhydryn" yr hen "lathau" Cymreig, credaf i'r unoli hwn gymeryd lle mewn gwirionedd, a danghosais fod bron yr oll o "aceri arferol" Cymru yn esboniadwy ar y dyb hon o unoliaeth. Nis gwn beth ydoedd iawn hyd y fodfedd foreol a'r droedfedd. Gadawaf y pwnc yna i'w benderfynu gan y rhai sydd wedi efrydu'n fanwl, nid yn unig fesurau tir un gongl o Brydain, ond tir-fesurau parthau ereill o'r un wlad ac o'r Cyfandir, ac wedi eu cymharu. Yn unig dodais i lawr ffrwyth fy ymchwiliadau i fesurau tir Cymru y gellir profi eu ffyniant, a nodais y canlyniadau sy'n ymddangos yn dilyn. Nid wyf yn honni fod yr holl syniadau fu gerbron yn ddiymwad; ond am fod y testyn yr ymdrinir arno yma, a'r pynciau perthynol iddo, wedi llanw fy meddwl am flynyddau, bernais nad anaddas ydoedd cofnodi fy nghasgliadau fel y gallo efrydwyr ereill eu hatodi a'u cywiro.

A. N. PALMER.




"r mör yn gilir."

3


tir,

DİR.



DAN Y GWLITH.

Rodyn bach yn marw,
 ydrau hafddydd gwyn,
 wedi rhoi ei ddelw
 wrth droed y bryn ;
 dan grwydrais yn bryderus
 heb heibio'r biodyn brith,
 r chwaon peraroglus
 fel adfywiad grymus
 dan y gwlith.



Yn gyf yn sychedig
 derau'r anial gwyw,
 byrd yn lluddedig,
 halon dan ei briw ;
 yn o dy foroedd,
 yn fy enaid chwith,
 res y dydd a'l ingoedd,
 traedd bryniau'r nefoedd
 y gwlith.

BRYFDIR.

yn, y mae cyfnod-
 y mae ei meddwl
 id tra dilyn y cyf-
 hynny eu gilydd.
 phlentynod, cerddi
 wrth ei bodd. Yn
 ieuentyd, arwr-
 au yw dewis fwyd
 nerth dyndod, y
 sfawr,—drych cy-
 bywyd,—a apelia
 u. Gyda dechreu
 am droion yr yrfa,
 hanes a'r nofel.
 meddwl yn troi ato
 rwydd eu lludded,
 oll, yn yr ail blen-
 dar diamynedd oes
 r fel y bu. Daw
 ambell adgof am
 veigerddi.
 dol cenedl pan ga
 Ond nid bob amser
 o, fel rhew, i ddeifio
 dro arall, fel haul
 id llenyddiaeth y
 odd y Normaniaid
 dechreuodd meddwl
 ydd yn siarad Saes-
 nry. Yn y bumed
 hufain yn ymrydd-
 ythau Teutonaidd i
 lad. Ond buan yr
 a chlywir llais y
 llenyddiaeth,—llais
 brenin Teutonaidd
 1066, peidiodd twf
 eth hollol newydd
 ith y lenyddiaeth

honno, yn iaith mor ddeithr i Sais y dyddiau hyn ag Ellmyneg; ac nid yw hadau dadblygiad llenyddiaeth y Saeson yn llenyddiaeth eu cyndadau oedd yn byw cyn y goncwest Normanaidd. Wedi 1066 y dechreua dadblygiad llenyddiaeth ardderchog y Saeson.

Ond pa fodd y medrodd concwest neu chwyldroad politicaidd roddi cychwyn o'r newydd i lenyddiaeth cenedl? Onid yw'r bobl, a'u meddyliau a'u traddodiadau, yn aros yr un dan bob ysturm fydd yn anrheithio eu llywodraethwyr? Ydynt; ond, cyn darganfod dull argraffu â llythrennau rhyddion, eiddo'r dosbarth llywodraethol yn unig oedd llenyddiaeth. Hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, iaith a meddwl yr uchelwyr yw llenyddiaeth. Dengys llawysgrifau tlysiion drudfawr y canol oesoedd mai pobl gyfoethog a hamddenol oedd noddwyr llenyddiaeth; medrent dalu am lyfrau gymerasant holl fywyd rhyw fynach medrus i'w hysgrifennu, mewn dalennau rhyfeddol brydferth o ddu a choch. Gyda gwawr yr unfed ganrif ar bymtheg mae'r castell a'r fynachlog yn dechreu adfeilio; mae'r Saeson yn eu gadael, ac yn dechreu cyniwair dros foroedd a mynyddoedd y ddaear, i chwilio am fydoedd newyddion a meddyliau newyddion. Nid oes amser mwy i ysgrifennu llaw gywreindlos; llaw redag, anodd ei chodi, ysgrifennir ar ffrwst diamynedd. Nid oes amser mwy i berffeithio ffurf, hen draddodiadau, y mae teimladau newyddion y byd newydd yn mynnu mynegiant gwyllt eu ffordd eu hunain. Cyn hir, tua'r ddeunawfed ganrif, dengys y papur rhad a'r argraff hagr fod y bobl yn ymwithio i mewn i'w hetifeddiaeth lenyddol. Prin yr ystyrrid fod y werin yn meddwl yng nghyfnod yr uchelwyr; dirmygid hwy gan fardd mwyaf y deffroad; ond, o'r diwedd, hwy yw pob peth. Daeth llenyddiaeth yn boliticaidd, i ennill eu pleidleisiau; eu bywyd hwy ddarlunnir gan fardd mwyaf y ganrif hon; eu hischawdwriaeth hwy yw nod meddwl crefyddol goreu'r oes. Ni fedr concwerwr newid llenyddiaeth y Saeson yn awr,—y mae wedi tyfu gormod, ac wedi gwreiddio'n rhy ddwfn ym mywyd nerthol y werin; ond, yn 1066, pan nad oedd ond eginyn gwan yn awyrgylch oer y llys a'r fynachlog, hawdd iawn oedd newid yr had.

Cofier un peth,—y mae llenyddiaeth yn ymddadblygu dan ddaw ddylanwad. Y naill yw ei hawydd hi ei hun am godi i feddylgarwch a thlysi uwch. Y llall yw dylifiad pobloedd newyddion i'w rhandiroedd. Gydag estyniad galu politicaidd i'r werin, gydag addysg rad, daw dosbarth ar ol dosbarth i'r cylch lenyddol; a rywbyrd, feallai, ni bydd un dosbarth o bobl Lloegr heb fod yn lenyddol. Pan ddaw dosbarth newydd gyntaf i mewn i lenyddiaeth,

Uchelwyr,
deffro, gwerin.

Codi a gos-
twng.

iselheir chwaeth a gwanheir meddwl er ei fwyn; ond buan iawn y daw rhai sy'n dechreu gydag us y gorsafoedd i fwynhau meddyliau dyfnaf llenyddiaeth. Y mae'r ysbryd yno, a'r pwysau plwm; y naill yn ceisio ymsaethu i fyny at y meddwl pur, a'r llall yn tynnu i lawr at bethau bywyd pob dydd.

Gellir rhannu hanes llenyddiaeth y Saeson yn dri chyfnod. O 1100 hyd 1500, cawn gyfnod yr uchelwyr. Hanes y cyfnod ydyw,—yr uchelwyr yn ceisio gwanhau gallu'r brenin a'r bobl, gan aros yn anibynnol eu hunain. Gyda Harri Tudur,—uchelwr ddaeth yn frenin,—y medrodd y brenin a'r bobl ymuno i ddryllio gallu'r uchelwyr. A llenyddiaeth yr un cyfnod yw,—rhamantau am wrhydri uchelwyr, hanesion a chaneuon i'w diddanu, darluniadau o'u rhyfel-oedd, a'u hela, a'u crefydd. O 1500 hyd 1750, ceir cyfnod y brenin; cyfnod y ddrama mewn llenyddiaeth. Ac o 1750 ymlaen, ceir cyfnod y werin, cyfnod yr ymhyfrydu ym mhrydferthwch natur wyllt. Chaucer, Shakespeare, a Wordsworth yw cynrychiolwyr goreu y tri chyfnod.

Ymestyn y cyfnod cyntaf dros ddiwedd y canol oesoedd,—yr oesoedd rhwng Rhufain a ni,—o 1100 hyd 1500. Yn nechreu'r canol oesoedd hynny yr oedd pob peth yn ymddatod, ymherodraeth a phabaeth. O adfeilion yr hen alluoedd cododd galluoedd llai. Adeiladodd pob uchelwr gastell carreg iddo ei hun, i'w amddiffyn rhag ei frenin a rhag estron. Yr oedd ef ei hun yn atebol i'w frenin, ond yr oedd yn frenin ei hun yn ei gastell a'i diriogaeth. Dyna ydyw ffudaliaeth. Yr oedd y cestyll ffudalaidd yn aml a chedyrn yn Normandi'n neilltuol,—rhwng Ffrainc a Lloegr. Yn y cestyll hyn yr oedd yr uchelwyr Normanaidd yn ddiogel, ac mewn heddwch ambell dro. Yr oeddynt wedi hoffi caneuon eu cymdogion Llydawaidd, ac wedi eu swyno gan eu rhamantau. Pan orchfygodd y Normaniaid Loegr, cadwasant eu cariad at lenyddiaeth gain y Celt, a dirnygasant lenyddiaeth anghelfydd y Saeson lywodraethent. Agorwyd iddynt hefyd y ffordd i lenyddiaeth Cymru; ac yr oedd eu beirdd yn prysur gyfieithu'r mabinogion i'w hiaith hwy,—sef Ffrancaeg Normanaidd. Hon neu Ladin, ac nid Saesneg, oedd iaith pob dosbarth digon gwar-eiddiedig i gymeryd dyddordeb mewn llenyddiaeth. A rhyfedd iawn, defnyddiau Cymreig a Llydewig ddaeth yn sylfaen llenyddiaeth y Saeson. Daeth Arthur, gelyn y Saeson mewn hanes, yn arwr eu llenyddiaeth.

Yn rhan cyntaf y cyfnod cyntaf, gwelir y llenorion yn chwilio am ddefnyddiau sylfemi. Tri Chymro,—Sieffre o

Fynwy, Geralt Gymro, a Walter Map,—oeddynt hwy. Daeth y rhain a rhamantau rhyfedd eu gwlad eu hunain i gestyll y Normaniaid ac i'r mynachlogydd. Erys y defnyddiau hyn yn llenyddiaeth y Saeson o hyd, mae Arthur yn frenin y llenyddiaeth honno hyd heddyw, yn gynrychiolydd pob meddwl mawr sy'n creu cyfnodau. Yn y cyfnod cyntaf hwn efe yw cynrychiolydd puraf gwrhydri'r canol oesoedd, ynddo ef yr unir dyheadau goreu y byd a'r eglwys,—crwydra i amddiffyn y gwan fel gwir farchog, chwilia am y cwpan fu'n dal gwaed Crist fel gwir offeiriad. Yn yr ail gyfnod, gwna Spenser ef yn ymgorfforiad meddwl adeg gyfoethocaf llenyddiaeth Lloegr, yn ymgorfforiad o wladgarwch adeg ardderchocaf ei hanes. Fu ond y dim i Milton ei wneyd yn arwr Puritaniaeth; gwnaeth Blackmore ef yn gynrychiolydd dadfeiliad y cyfnod canol,—ymswagra fel gwŷr llys Siarl yr Ail. Ac yn ein dyddiau ni, gwnaeth Tennyson ef yn gynrychiolydd syniadau mwyaf poblogaidd yr oes hon.

Yn ail ran y cyfnod cyntaf, gwneir y defnyddiau Celtaidd yn Seisnig mewn iaith a theimlad. Drwy'r cyfnod Normanaidd, yr oedd y meddwl Seisnig eto'n fyw, er ei fod yn bur ddistaw; ac o dipyn i beth daeth Saesneg yn iaith llenyddiaeth drachefn. Ond pan ddaeth llenyddiaeth

2. Y Seisnigo.
1200—1250.

Lloegr yn Seisnig drachefn, nid y lenyddiaeth a flodeuasai gynt oedd, ond y lenyddiaeth Geltaidd hoffasai'r Normaniaid. Gwnaeth Robert of Gloucester groniel cynghaneddol yn Saesneg; rhoddodd Thomas the Rhymer hanes Tristram ar gân yn yr un iaith; rhydd awdwr "Sir Gawayne and the Green Knight" wedd Seisnig ar ramantau Arthur. Ond prif fardd y cyfnod hwn oedd Layamon fab Leovenath. Efe anadlodd i ddychymyg fyw rhamantau Arthur ysbryd synwyr cyffredin y Sais. Ar adeg y gwasanaeth hwyrol yn Earnley ger yr Hafren, daeth i'w gof a'i feddwl na wyddai ei gydwladwyr eu gwir hanes eu hunain. Crwydrodd ymhell ac yn agos i chwilio am y gwir, a dychmygion Sieffre o Fynwy a gafodd; ac yn gariadus efe a'u gosodes ar Seisnig gân. Mewn llinellau cynghaneddol Seisnig, weithiau'n odlog, weithiau'n ddiodyl, edrydd Layamon fab Leovenath ramantau llys Arthur fel y gallai'r dylaf oedd yn dilyn yr aradr ger yr Hafren eu deall. Ni wywodd holl degwech pryd y rhamantau Cymreig yn ei gân ef; ac y mae'n werth sylwi mai ynddo ef, yn gyntaf un, y cawn hanes Arthur yn mynd i ynys Afallon, i ddod yn ol a'i glwyfau wedi eu hiachau, ei bechodau wedi eu maddeu, a'i nerth yn fwy nag erioed i ymladd dros y gwir.

Yn nhrydedd ran y cyfnod cyntaf, dygir y rhamant i gyffrddiad â bywyd gwirioneddol y byd. Gadawodd pawb y

cestyll unig, lle y gwrandawsent gyda syndod gynt ar hanes rhamantus Arthur a'i farchogion, ac aethant allan i'r byd mawr adeg Rhyfeloedd y Groes. Y mae meddwl y Saeson yn awr yn gadael ei ieuentid,—adeg y rhamantau,—ymddwyseiddia eu dychymyg, a meddyliant fel dynion. Ac felly, pan ddeuwn at Langlande a Chaucer a Gower, nid hen farchogion y rhamantau a gawn, ond crwydriadau a bywyd y gwŷr a'r gwragedd a welir bod dydd.

Ac yn y fan yma, gadawa llenyddiaeth y Saeson a llenyddiaeth y Cymry eu gilydd, a dadblygant mewn ffyrdd gwahanol.

Aiff pob cenedl trwy ddau fath o fyfyrdod,—myfyrdod am ddyn, a myfyrdod am natur. Dechreuodd y

Natur a dyn. Cymro fyfyrion am natur i ddechreu; mor foreu a'r bymthegfed ganrif y mae ef wedi gweled prydfferthwch natur wyllt, ac y mae mewn cydymdeimlad hollol â hi. Pan giliodd lliw'r grudd a'r gwrid mwyn o wyneb marw cariad Dafydd Nanmor, nid yw Mai yn deilio mwy yn Eryri. Daeth Wordsworth y Cymro o flaen ei Shakespeare, adeg astudio natur o flaen adeg astudio dyn. Ond nid oes un tarawiad o'r cariad hwn at natur wyllt yn llenyddiaeth Seisnig y bymthegfed ganrif, nid oes brydfferthwch mewn dim ond gardd,—erchyll yw'r mynydd a'r anialwch a'r môr. Dechreuodd y Saeson astudio dyn cyn astudio natur, ac am hynny daeth y ddrama'n foreu yn eu hanes hwy.

Paham y daeth llenyddiaeth Seisnig yn astudiaeth natur dyn? Yn un peth, daeth Rhyfeloedd y Groes a hanes am ddynion.

gwirioneddol yn lle arwyr dychmygol y rhamantau.

Byd y gwir. Heblaw hynny, yr oedd dylanwad Dante a Petrarca,—gyda'u manwl graffu ar natur dyn,—yn fawr iawn.

Ond, yn bennaf, gosododd gwrthryfel y llafurwyr raid ar bobl lenyddol yr oes honno i sylwi ar y natur ddynol o'u hamgylch. Yr oedd yr hen drefn fanoraidd yn prysur ddadfeilio; yr oedd y caeth yn dod yn rhydd oddiwrth ei feistr; yr oedd llaweroedd o lafurwyr, am y tro cyntaf yn hanes Prydain, yn rhydd i fynd i'r man a fynnent. Daeth y Marw Du echrydus, a medodd hanner dosbarth llafur i'r bedd, a cheisiodd y meistri lusg y'r gweddill yn ol i'w gwasanaethu ar eu hystadau fel cynt. Yna daeth gwrthryfel y werin,—pa ryfedd fod pawb yn troi ei lygaid oddiwrth farchogion rhamant at y bobl wirioneddol o'u cwmpas, yn crynnu rhwng ofn a gobaith am y dyfodol?

Y mae i'r cyfnod hwn ei bum cynrychiolwr,—Langlande, awdwr *Piers Plowmans Crede*, Gower, Wiclif, a Chaucer.

Rhydd Langlande ddarlun tywyll o fywyd y werin, ac y mae holl gydymdeimlad ei enaid gyda hwy; condemnia Gower eu gwrthryfel, anghenfil yw'r werin

Chaucer.

iddo ef. Cyferbynia awdwr *Piers Plowmans Crede* nerth cymeriad pur y llafurwr, druan, â chymeriad diwerth y mynach diog, cyferbynia ardderchawgrwydd y mynachlogydd â thlodi'r werin,—y mae'n amlwg mai nid bodau dychmygol rhamant, ond rhai sy'n dioddef ac yn gweithio, fydd cymeriadau llenyddiaeth. Gwelodd Wiclif arwyddion deffroad y werin, ac apeliodd atyat drwy bamffled a Beibl yn eu hiaith eu hunain. Ond prif gynrychiolydd y cyfnod hwn yw Chaucer,—ynddo ef ceir pethau goreu rhamantau'r hen gyfnod, ac y mae gwawr y cyfnod newydd hefyd i'w weled ar ei feddwl ef. Ar yr olwg gyntaf nid yw Chaucer ond rhamantyd, fel y rhai aethai o'i flaen, yn cymhwyso hen ddarluniau llys Arthur at farchogion balch llys Edward y Trydydd, yn eu gwisgoedd o aur melyn a dur gloew. Ond y mae'n llawer mwy. Efe yw'r Sais cyntaf astudiodd gymeriad er mwyn yr astudio ei hun. Desgrifia Langlande y gwerinwr oherwydd ei fod yn ei garu, Gower oherwydd ei fod yn ei gas-hau; ond desgrifia Chaucer ef er mwyn ei ddesgrifio. Nid yw'r werin yn elyn iddo ef, nac yn gyfaill,—gwerin yw. Desgrifia'r gŵr o radd uchel mor naturiol a'r gŵr o radd isel,—y marchog a'r melinydd, yr abades a'r wraig o Bath, y Rhydycheiniwr a'r person gwlad. Ac onid hyn yw perffeithrwydd dadblygiad llenyddiaeth? Nage, y mae un peth ar ol.

Un peth yw gweled cymeriad unigol, a mwynhau ei astudio; peth arall yw gweld y cysylltiad anatodol sydd rhwng pob dosbarth mewn cymdeithas. Rhes o bererinion digyswllt sydd yn y *Canterbury Tales* adroddodd Chaucer; y mae cysylltiad anatodol rhwng y cymeriadau yn *Lear* neu *Macbeth* Shakespeare. Dosbarthiadau gwahanol, heb gydymdeimlad â'u gilydd, mewn gwrthryfel yn erbyn eu gilydd, oedd yn amser Chaucer; un genedl,—un bobl, un eglwys, un gobaith, un ofn, un nŵd,—oedd yn amser Shakespeare. Rhwng y ddau y mae cyfnod geni gallu newydd, y gallu drodd lenyddiaeth dosbarth yn llenyddiaeth cenedl,—gwladgarwch.

Rhan olaf y cyfnod cyntaf yw adeg dechreu llenyddiaeth wladgar. Yr oedd yr hen fyd yn cilio ymaith i'r cysgodau. Yr oedd ffendaliaeth yn prysur ddarfod, a breintiau dosbarth yn faich. Collasai'r marchogion eu gwrhydri anrhydeddus,—yr oeddynt yn awr yn ymladd â'u gilydd ac yn ymgreuloni yn erbyn y werin. Collasai'r offeiriad ei duedd ysbrydol a'i hiraeth am weled y cwpan ddaliasai waed yr Iesu, nid oedd mwy ond dyn bydol yn rhith crefyddwr. Collasai'r rhamantau eu purdeb; "y rhai gyfrifir yn farchogion pennaf," ebe un ddysgai blant uchelwyr, "yw'r rhai laddant fwyaf o ddynion yn ddiachos, ac a wnant odineb trwy'r cyfrwyster mwyaf." Yr oedd Beibl Wyclif a masnach â'r byd yn

¹. Gwladgarwch.
1400—1500.

dechreu deffro'r bobl. Nid oedd ganddynt amynedd mwy i wasanaethu'r uchelwyr. Yn lle ffudaliaeth, yn lle undeb trwy ufudd-dod y naill ddo-barth i'r llall, daeth undeb newydd, undeb cenedl wedi ei sylfaenu ar gydymdeimlad ac ar gyd-gyrchu at yr un nôd. Enw'r undeb newydd hwn yw cenedlaetholdeb, a gwaed ei fywyd yw gwladgarwch. Yn yr Alban yr oedd gryfaf, oherwydd rhyfeloedd Wallace a Bruce yn erbyn Lloegr,— gwelwn ef yn *Original Chronicle* Andrew of Wyntoun, *King's Quhair* y brenin James V., *Wallace* Blind Harry, a *Thistle and the Rose* Dunbar. Ond y mae'r teimlad yn gryf yn Lloegr hefyd, oherwydd y rhyfeloedd yn erbyn Ffrainc, a gwladgarwch ar dorri allan mewn cerdd a chân na welodd Lloegr eu tebyg cynt na chwedyn. Yr oedd y barwn ar ddiplannu, yr oedd ffudaliaeth ar roddi lle i genedlaetholdeb, braint dosbarth i faint cenedl; yr oedd y castell, hen gyrchfan y rhamantwr, ar ymchwalu o flaen powdwr gwn; yr oedd y fynachlog, hen drysorgell llawysgrifau, ar syrthio o flaen y Diwygiad Protestanaidd. Ac yr oedd galluoedd newyddion nerthol ar greu cyfnod newydd.

Yn y cyfnod newydd y mae rhyw ysbryd yn cynhyrfu nas teimlasid ef cynt, yr ydym mewn byd newydd,—byd Yr Ail Gyfnod. 1550—1750. o ddyinion a byd o feddyliau. Y mae dyfnderoedd meddwl *Macbeth*, doethineb oer *Essays* Bacon, teimlad ystormus y *Broken Heart*, oll yn newydd ac yn rhyfedd i'r hwn gerddo atynt o fywyd y cyfnod o'r blaen.

Yn un peth, yn y cyfnod newydd, gwelir pob dosbarth gyda'u gilydd, nid yn unig yn cyd-deithio ar ddamwain ffawd, ond o angenrheidrwydd yn cydymfwynhau ac yn cyd-ddioddef. Mae'r da a'r drwg, y gwâr a'r anwar, yr uchel a'r isel, yr hen a'r ieuanc yn y ddrama fel mewn bywyd.

Heblaw hyn, y mae meddwl yn ddwysach a theimlad yn ddyfnach. Fel y mae tiriogaeth llenyddiaeth yn ymledu, y mae llygaid llenorion yn clirio i weled. Nid eu hunig waith yn awr yw dangos y drwg ar un tu, a'r da ar y tu arall; ymgollant mewn astudiaeth am berthynasau da a drwg â'u gilydd, a cheisiant weled paham a pha fodd y mae'r da'n ddblygu o'r drwg fel yr ymeanga teyrnas Dduw.

Beth achosodd y deffroad hwn? Gwladgarwch yn bennaf,— deffrodd egnion y Saeson, deffrodd eu balchder cenedlaethol, enynnodd eu ffydd yn eu gwlad eu hunain, dysgodd Y sail newydd. gwladgarwch. iddynt edmygu eu hiaith yn ogystal a'i charu. Tybiant cyn hir, er mai Ffrancaeg oedd iaith gwleidyddiaeth, ac er mai Lladin oedd iaith dysg, fod gan yr iaith Saesneg hithau ei chryfder a'i melusder; ac yn y dybiaeth

honno, codasant Shakespeare i gwinni Aeschuylus a Vergil a Dante heb gywilydd ei arddel.

Un o achosion ereill y deffroad oedd darganfod dull torri llythrennau rhyddion at argraffu. Drwy hyn gwnawd meddyliau cryfaf a grymusaf Lloegr, a meddyliau'r Beibl cyfieithiedig yn eu mysg, yn eiddo i'r werin. A'r adeg honno yr oedd gwyr dysgedig y dwyrain yn ffoi tua'r gorllewin o flaen y Twrc, ac yn fuan iawn yr oedd llenyddiaeth anghofiedig Iddew, Groegwr, a Rhufeinwr yn deffro ac yn cryfhau enaid y Sais.

Achos arall y deffroad oedd gweled llwybrau newyddion y moroedd, ac ynysoedd a chyfandir y byd newydd. Daeth y Tyrciaid fel gwynt ystormus difaol dros Asia Leiaf

Llwybrau newyddion.

a'r Aifft, ac felly cauwyd yr hen lwybr i'r India. Trodd y morwyr i'r cyfeiriad arall; chwilio am lwybr i'r India yr oeddynt ym Môr y Werydd, ond cawsant fwy. Yn 1492 darganfyddwyd America gan Columbus wrth chwilio am yr India,—dyna'r rheswm paham y gelwir cynfrodorion yr Amerig yn Indiaid hyd heddyw. Yn 1498 hwyliodd Vasco de Gama heibio i Benrhyn Gobaith Da, a chafwyd llwybr newydd i'r India; yn 1520 gwelodd Magellan ehangderoedd dieithr y Môr Tawel. Ar unwaith bron, felly, daeth Lloegr yn ganolfan y byd, ar bob llwybr trafndiaeth, a hi o'r blaen megis ar ymyl aneglur y byd. Crwydrodd ei morwyr i bob man, daeth awydd darganfod dros feddwl y wlad,—darganfod bydoedd newyddion a darganfod meddyliau newyddion.

Fel mewn hanes, felly mewn llenyddiaeth, gwaith rhan gyntaf y cyfnod newydd ydyw chwilio am hen lwybrau,—ceisio teithio'n ol i ogoniant llenyddiaeth Rhufain a Groeg. Ond, wrth chwilio am yr hen lwybrau, darganfyddwyd llwybrau newyddion. Daeth defnyddiau'r llenyddiaeth newydd o lawer cyfeiriad,—hen ramantau Arthur, gyhoeddwyd ym *Morte d' Arthur* Malory yn 1485; hanesion, oll yn dechreu drwy ail adrodd Sieffre o Fynwy; hanes mordeithiau'r dyddiau hynny; cyfieithiadau o'r Eidaleg, yn enwedig y disgrifiadau o nwydau y natur ddynol; cyfieithiadau o'r clasuron Groeg a Lladin, yn enwedig y rhai sy'n darlunio hanes, mordeithiau, golygfeydd bugeilaidd, a'r natur ddynol; y Beibl a'r esboniadau newyddion arno.

Tra'r oedd cyfieithwyr diwyd yn agor yr hen lwybrau, yr oedd rhai ereill yn darganfod bydoedd newyddion,—bydoedd *Utopia* More, *Arcadia* Sidney, a *Shepherd's Calendar* a *Fairy Queen* Spenser. Hyd yn hyn y mae ffeithiau'r hen fyd a gobaith y byd newydd ar wahan: ac anhebyg iawn i fyd y dioddef a'r pryder o'n cwmpas ydyw'r byd ddarlunnir gan More a Sidney a Spenser,—torrwyd pen More, colodd Sidney ei fywyd mewn rhyfel, diangodd Spenser o fflamau ei dŷ.

Yn rhan nesaf y cyfnod priodir y ddau fyd,—byd y ffeithiau a byd y gobaith; y mae'r darluniadau'n brydyddol fel o'r blaen, ond y mae bywyd cynhyrfus gwirioneddol y dyddiau hynny yn eu llenwi. Dyma gyfnod y ddrama, cyfnod Shakespeare. Dadblygwyd rhyw elfen neu gilydd yn athrylith rhyw fardd, unwyd hwy oll yn Shakespeare, ac yna graddol syrthiasant oddiwrth eu gilydd drachefn. Ceir yr hen ramant, yr hen fywyd dychmygol, yn Sackville a Norton; erys yn Shakespeare, ond fel dydd gwyl mewn bywyd gwir prysur. Ceir gloewder ymadrodd clir y meddylwyr clasurol yn Udall; erys yn Shakespeare fel gwisg meddyliau mawr. Ym Marlowe, gŵr mwya'r ddrama o flaen Shakespeare, darlunnir nwydau a theimladau'r galon ddynol gydag awch y meddylwyr Eidalaid, ond y mae'r cymeriadau'n wallgof eithafol,—rhy dda neu rhy ddrwg, rhy druan neu rhy greulon, oll yn unlliw amhosibl; yn

Shakespeare ceir y nwydau a'r teimladau,—eiddigedd Othello, uchelgais Macbeth, trachwant cybyddlyd Shylock,—ond gyda rhagluniaeth yn amlwg o'u cwmpas. Yn Greene, ceir y ddrama'n adlewyrchu hanes; ceir hi felly yn Shakespeare hefyd, er fod bywyd llenyddiaeth wedi ei anadlu iddi. Ceir mawredd arddull felodaidd y ddrama yn Peele, ceir ei difrifwch yn Nash,—yn Shakespeare, cyfunir tlyzni a mawredd, cyfunir teimlad barddonol a sel wleidyddol wladgarol danbaid y blynyddoedd rhyfedd hynny. Unwyd yr holl elfennau hyn yn athrylith Shakespeare; dengys ei fywyd llenyddol ef, megis mewn drych, fywyd llenyddol yr oes gawraidd honno,—bywyd yn graddol ddadblygu hyd nes ceir perffeithrwydd ei addfedrwydd yn y *Winter's Tale*.

Cyn marw Shakespeare yr oedd undeb teimlad y Saeson yn dechreu gwanhau, ac ni ddaeth neb i uno holl elfennau drama'r Saeson ar ei ol ef. Y mae'r ffurf glasurol gan Ben Jonson, ond y mae'r ddysg yn rhy amlwg, a'r hen naturioldeb yn diflannu. Y mae'r cryfder ystormus yn aros yn Ford, ond heb yr hen dynherwch; ynddo ef y mae dyn yn hollol at drugaredd tymhestloedd ei natur a thymhestloedd rhagluniaeth; *fatalism*, Calfiniaeth ddi-ailanedig heb ei Gwardwr, geir yn unig yn Ford, a heb y maddeuant geir yn Shakespeare. Y mae'r hen fawredd a miwsig soniarus yn Beaumont a Fletcher, ond y mae'r nerth yn diflannu gyda'r purdeb. Y mae'r cariad at ddadansoddi cymeriadau ym Massinger, ond nid yw'r cymeriadau'n gawraidd fel yn Shakespeare mwy. Gŵyr Shirley sut i ddiweddu, dysgodd wir ystyr maddeuant yr aet olaf oddiwrth Shakespeare, ond dengys ei ddiffyg chwaeth a'i ddynwarediad gwan fod dyddiau'r ddrama'n prysur ddirwyn i ben.

Yr oedd bywyd Lloegr yn newid. Yng nghyfnod y ddrama yr oeddynt wedi ennill eu hanibyniaeth cenedlaethol, ac wedi dod yn ymwybodol o'u hundeb fel cenedl; yn awr dechreuasant ymwahanu, a chwilio am ddull i roddi rhyddid meddwl i bob un, yn ogystal ag i'r genedl. Gynt unid hwy gan ofn y gwledydd Pabyddol; yn awr nid oedd berygl. Cawsant amser i astudio eu Beiblau, ac nid yr un goleu welai pawb ar lwybr y dyfodol yn hwnnw. Yr oedd gan bawb ei greddo, awydd ei phregethu, ac awydd ymladd drosti. Mynnai'r Anglicaniaid unfurfiaeth addoli, mynnai'r Piwritaniaid unfurfiaeth credo, ac ymbalfalai'r Independiaid yng nghyfeiriad rhyddid cydwybod a gweriniaeth. Ceir yr un ymwahaniad yn llenyddiaeth yr oes. Ymollyngodd yr hen dlysnï a'r hen nerth pur oddiw'rth eu gilydd. Y mae'r tlysnï,—heb y nerth, ac heb fawr o'r purdeb,—gyda'r rhai fynnent grefydd o hyfryd seremonïau; hoff destynau Herrick yw cariad y blodau a morwyndod teg yn addfedu. Y mae'r nerth, heb lawer o'r tlysnï, yn y pregethwyr Piwritanaidd. Cyll Milton, bardd mwyaf y cyfnod, dlysnï ei arddull wrth ennill ei nerth arwraidd. Gadawodd lwybrau rhosynaidd llenyddiaeth i ysgrifennu pamffledau politicaidd geirwon, ac yna, wedi'r frwydr, desgrifiodd frwydrau'r Piwritaniaid a chynhadleddau Cromwell ym m'rwydrau a chynhadleddau *Coll Gwynfa* a *Samson Agonistes*.

Wedi'r cyfnod hwn, cyfnod y gydwybod effro a'r argyhoeddïadau cryfion, daw cyfnod gwannach, cyfnod gorffwys, pan ymawyddai pobl am fynd yn ol o ddyddïau'r brwydro a'r ymrannu i ddyddïau undeb y cyfnod cynt. Ac wrth sylwi ar y cyfnod hwn, gwelwn beth ddaw mewn cyfnod gorffwys.

Yn gyntaf peth cawn hanes y frwydr, gan rai'n gorffwys mewn buddugoliaeth neu mewn anobaith. Erys rhyfel y Chwyldroad Piwritanaidd,—“Rhyfel Mawr” Lloegr,—yn ei llenyddiaeth ac yn ei hanes byth. Ceir ef yn *Paradise Lost*, *Paradise Regained*, a *Samson Agonistes* Milton,—yr ymîrech, y gobaith, colli'r dydd. Ceir ef fel breuddwyd athronydd am ryfel yn *Leviathan* Hobbes. Ceir golwg y gelyn gwatwarus arno yn *Hudibras* Butler. Ceir ymdrech yr enaid â phechod yn *Nhaith y Pererin* Bunyan, a'r ymdrech â'r gelyn yn yr *Holy War*. Ceir adlais yr heddwch gan ddau Gymro o dros Glawdd Offa,—George Herbert a Henry Vaughan.

Yn y cyfnod hwn, hefyd, ceir ymdrech i ail godi drama'r dyddïau gynt. Ond nid yr hen ddrama godwyd gan Wycherley, Congreve, Farquhar, a Vanburgh; ac nid oes ond adlais gwan a siomedig yn Dryden, ac Otway, a Lee. Ni apelïa'r ddrama

7. Yr ymrannu.
1600—1600.

Milton.

8. Y gorffwys.
1680—1700.

hon at yr holl genedl, dim ond at y bodau bychain arwynebol oedd yn troi o gwmpas llys Siarl yr Ail; dengys hon fywyd a meddwl gwannaf a salaf Lloegr, nid y goreu a'r cryfaf fel cynt. Ymhyfydir mewn aflendid er ei fwyn ei hun; yn lle meddylgarwch dwfn yr hen ddrama, ceir gwreichion o ffol ymadroddion rhai'n dynwared meddwl gwaelfaf a gwannaf y cyfandir.

Gyda'r gorffwys hwn daeth hoffder at astudio natur, gyda Ray ac Isaac Newton. Nid oedd neb yn teimlo sel mawr at grefydd; felly daeth athroniaeth Locke, a goddefiad crefyddol, a rhoi rhyddid i wŷr y wasg.

Yn rhan nesaf, rhan olaf y cyfnod, perffeithir ffurf prydyddiaeth,—a dadblygir llenyddiaeth henaint,—y nofel, hanes, ac athroniaeth. Dyna gyfnod yr arddull berffaith, ^{a. Y gwanhan. 1700—1730.}—arddull Pope mewn prydyddiaeth, pan y credid fod pob meddwl wedi ei ddarganfod, ac nad oedd eisiau ond gloewi ffurf mwy; arddull Defoe, Addison, a Steele mewn rhyddiaeth. Y mae arwyddion henaint yn amlhau. Rhoddir y pwys i gyd ar ddull dweyd meddwl,—dull yw'r cwbl yn Sterne. Y mae gan yr oes dôn aniddan,—rhydd llais y gwawdiwr a'r beirniad dinc diffyg amynedd ynddi. Dechreuir dweyd hanes cênhedloedd a chyfyd y nofel,—Richardson, Smollett, Fielding, Goldsmith. Yn y diwedd ymddirywia prydyddiaeth i draethodau sychion ar ffrwythau ac iechyd, neu i felodi di-gynnwys Shenstone. A blodeua'r wawd-gerdd, ffurf wannaf a mwyaf di-ddaioni llenyddiaeth, fel chwyn chwerw rhwng cerrig adfail.

O ganol y ganrif ddirywiol hon cyfyd tri gŵr o feddwl cawraidd, i gondemnio'r adfeiliad o'u cwmpas, ond heb weled dim gwel i ddod. Ca'r oes ei gwawdiwr yn Swift, ei hanesydd

^{Yr adfeillion.} yn Gibbon, ei hathronydd yn Hume. Gwel athrylith wallgof Swift drwy'r llen denau ffasiynol o rodres llenyddol a guddiai wir dlodi meddwl; cyliodd Hume yn y meddwl gwan hwnnw, a gweithiodd ef allan i anfyddiaeth ac i'w farwolaeth; wrth adrodd hanes dadfeiliad a chwymp Rhufain, y mae Gibbon, mewn gwirionedd, yn adlais o ddadfeiliad a chwymp meddwl llenyddiaeth fu unwaith mor ardderchog ac mor lawn o obaith. Erbyn 1750, felly, y mae meddwl cyfnod y ddrama wedi troi'n fateroliaeth athronyddol, y brwdfrydedd wedi oeri'n oddefiad, y brydyddiaeth wedi gwywo'n draethodau.

Lle mae llwybrau'r hen a'r newydd yn gadael eu gilydd, saif bod hen, rhyfedd, a thrist. Yr oedd digon o ardderchowgrwyd i yn Dr. Johnson, er gwaethaf rhagfarnau fuasai wedi ^{Y diwedd.} dallu pawb arall, er gwaethaf anfodion fuasai wedi chwerwi pawb arall, i weled gwawr y cyfnod newydd yn torri. Ond y mae'r hen Dori gonest yn llawn o ofn chwerw

wrth geisio edrych ymlaen i ddyfodol oedd yn dywyllwch perffaith iddo ef. Y mae'n teimlo fod yr hen gyfnod yn diflannu, ac nis gŵyr beth sydd i ddod yn ei le. Pe na buasai dim arall, rhwystrid ef gan ei olwg byr i ddeall beth roddodd gychwyniad i gyfnod newydd nerthol mewn llenyddiaeth,—y cyfnod yr ydym ni'n byw yn nyddiau ei ddadfeiliad. Y peth hwnnw oedd tlyzni natur wyllt.

Yn yr ail gyfnod, natur dyn oedd nôd ymchwil y meddwl,—teimpladau'r galon ddynol. Yn y trydydd cyfnod hwn nôd yr ymchwil yw prydfferthwch anian wyllt,—prydfferthwch eangder yr anialwch, ac ystormydd y mynyddoedd, unigedd y rhos-diroedd maith, tawelwch y nos,—prydfferthwch newydd yn llenyddiaeth y Saeson. Yn amser Pope, prydfferthwch gardd yn unig yw prydfferthwch natur,—yr un faint yn union rhwng y coed, pob gwely blodau wedi ei drimio'n ofalus. Ni welai Addison brydfferthwch yn yr Alpau,—er y teimlai fod swyn Lausaune yn ei lanw a rhyw "ofnadwy-aeth hyfryd" nas gallai ei esbonio. Ond tyfodd y cariad at natur wyllt o dipyn i beth. Cafodd Parnell hyfrydwch wrth edrych ar ddoldiroedd coediog ac ar amlinellau esnwyth mynyddoedd pell. Desgrifia Thomson ystormydd y mynyddoedd,—ond nid yw cariad eto wedi bwrw allan ofn. Gwel Burns deimpladau dyn yn yr ystorm ac yn llygad y dydd. Ymddigrifa Cowper,—dan ofni gwg Dr. Johnson,—ym mhrydfferthwch pruddglwyfus gwastadeddau East Anglia, darlunia Dyer ogoniant tawel Ystrad Tywi. Gwel Gray brydfferthwch y mynyddoedd,—“mae pob clogwyn yn orlawn o brydyddiaeth; cyll Collins ei reswm wrth adael i'w feddwl aros ar brydfferthwch dieithr anial-diroedd distaw diderfyn y dwyrain. Oni ddywedir fod rhywun welodd dduwies natur wedi colli ei synhwyrâu? Tybiai Dr. Johnson fod pawb oedd wedi gweled y prydfferthwch newydd, ac nid Collins yn unig, o'u co.

Yn Wordsworth y ceir y teimplad newydd wedi ei ddilladu ac yn ei iawn bwyll. Ynddo ef ceir cariad angerddol at natur wyllt,—nôd y cyfnod newydd; ond wedi ei drwytho Wordsworth. â chariad mor angerddol at ddynolryw. Yn Wordsworth y mae natur wyllt a dyn mewn heddwach a'u gilydd; y mae'r mynydd a'r môr a'r nos yn hardd ac yn gymhwynasgar, nid yn llawn o alluoedd hagr er drwg fel o'r blaen. Fel yr ymgyfunodd elfennau'r ail gyfnod yn Shakespeare, ymgyfunodd elfennau'r trydydd cyfnod yn Wordsworth. Yn yr *Excursion* y mae dyn a natur mewn heddwach; y mae'r un natur yn gwisgo genethig a bedwen arian â thlyzni. Y mae ysbryd bywyd a chydymdeimlad â dyn yn y coed.


Beth achosodd y deffroad newydd hwn? Hanes y cyfnod a etyb y cwestiwn. Yr oedd gwerin y gwledydd wedi dechreu anesmwytho dan gyfreithiau nad oedd ganddynt law yn eu gwneyd na'u rhoddi mewn grym. Yr oedd y gyfraith yn eu herbyn, llenyddiaeth yn edrych arnynt fel barbariaid anysgedig, a phob braint o'u cyrraedd. Tybed ai gwaith Duw ynte gwaith yr uchelwyr oedd y byd anghyfiawn hwn? Dinistriodd Hume gred athronyddol yr oes, ac agorodd lygaid y bobl i edrych i gyfeiriadau newyddion. Dablygodd Rousseau athroniaeth Locke, a rhoddodd gipolwg i'r werin ar hen Eden dynolryw,—adeg heb frenin, heb gyfraith, heb ffugiau celfyddydol gwareiddiad. Yno yr oedd natur dlos yn wyllt, yno yr oedd pawb yn rhydd. A charodd y werin ryddid, a'r prydferthwch natur wyllt, yn angerddol. Ceisiasant ruthro'n ol yno yn ymdrech y Chwyldroad Ffirengig,—yr ystorm ofnadwy honno gliriodd ac a iachaodd awyr y byd. Deffrodd pob gwerin yn Ewrob, a daeth cyfnod o fywyd newydd.

Daeth deffroad crefyddol nerthol gyda Wesley, daeth dull newydd a dyfnach o feddwl gyda Coleridge, gwelir yng nghaneuon Blake fel y mae cydymdeimlad wedi ymeangu, ac adfywiwyd yr hen gyda'r newydd,—daeth yr ysbryd Celtaidd yn ol, trwy Chatterton a Macpherson. Gyda'r cyfnod newydd daeth cred yng ngwerth dyn fel dyn, ac nid fel bod addysgedig yn unig. Yn nofelau Richardson ac Allan Ramsay ceir fod yr arwr neu'r arwres o'r werin; ond ar ddiwedd y nofel, danghosir eu bod o gyff bonheddig wedi'r cwbl. Pan ddeuwn at Smollett a Fielding, y mae'r arwr yn arwr er mai gwaed y werin sydd ynddo; ac yn Wordsworth y mae'r cydymdeimlad â'r werin mor llwyr ag ydyw a phrydferthwch natur,—gwelir tlysnï llawenydd a thlysnï prudd-der yr isel radd. Rhoddir i wraig ei lle priodol hefyd. Chwareu-beth ydyw yn Swift, peth ffol iawn, heb ddigon o allu i fod yn ddrwg; pen-ysgafn ydyw yn Addison, ond mwyn ar y cyfan; cred Steele fod ganddi galon, cred Defoe fod ganddi feddwl; yn Wordsworth y mae yn ei lle ei hun, yn allu pur anorchfygol er daioni.


Beth fydd llenyddiaeth y Saeson? Nis gallant aros gyda Wordsworth byth, er y gallant droi ato o holl droion eu hanes, i fwynhau gorfhwys sancteiddiol. Rhaid i ysbryd llenyddiaeth ymhangu eto. Darganfyddwyd prydferthwch y byd hwn; ond tra yr oedd y ddaear yn ganolbwynt pwysig greadigaeth Duw yn meddwl yr hen gyfnodau, sylweddolir erbyn hyn nad ydyw ond fel un o fân lwch y cloriannau yng nghanol bydoedd afrifed ac anghydmorol fwy. Darganfyddwyd gwerth dyn fel dyn; ond, er effroed yw meddwl

Y deffroad
newydd.

B th ddaew eto?



yd i ddweyd eu bod
 dynol ryw. Y mae
 sibilrwydd bydoedd
 yn rhwng meddwl a
 syndod brawychus
 diad neu anobaith.
 Night James Thom-
 sy'n ei ddyngwared,
 Gydag Arthur y
 Ym more llenydd-
 a rhyfeddodau plen-
 rwydro drwy'r byd
 rydnawn, pan mae
 erin,—i ddarganfod
 thur eto welwn yn
 a di-ymdrech llen-



III.

mi gadw y dar-
wyl, tra byddom yn
pa fodd y treuliodd
yr wythnos, wedi
geisiwyd gofnodi.
grybwyll nad oedd
tuc, o herwydd ei
an prydnawn o bob
nawr oedd ei awydd
dedig yn dyfod, er
wech o gyfarfod â'i

Yn y cyfamser,
oedd trydydd gŵr i'w
oyw mewn amaethfa
yn ŵr o synwyr a
maeth gyffredinol, yn
wyych, yn fardd da,
ystyried ei fod yn
rhai camrau hwnt i
a'i amgyffredion yn
agosaf, yn gyfaill
y Gaerwen; a bydd
at ddyddordeb y

rys felly y cyflwynaf
oeddynt gerllaw y
sgwyl yn bryderus

mae yn bleser o'r
ac wele y cyfaill
nawn gyda ni. Yr
gymydog a chyfaill
llawer o hynodion
chwi feddwl neu
pan, wedi ein hym-

frifid Dewi Wyn yn
tir gan ysgrifenywyr
y syndod pan ddar-

llennais mewn erthygl dra galluog yn y *Traethodydd* y sylw canlynol,—“Nid ymddengys fod Dewi yn meddu ar lawer o arabedd (*wit*), ond nis gwyddom am un bardd yng Nghymru a feddai ar fwy o watwareg (*sarcasm*) nag ef. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y galluoedd hyn a'u gilydd, fel y gŵyr y darllennydd, a dylid gofalu am beidio a'u cymysgu wrth son am danynt.” Ni roddodd yr ysgrifennydd ddarnodiad o'r naill na'r llall; ond yr hyn a'm hanfoddlonai oedd yr awgrym nad oedd yn priodoli i Dewi Wyn nemawr o arabedd (*wit*).

TAL.—Mae y darnodiad yna yn dal cysylltiad agosach ag athrylith Dewi Wyn nag â'i fywyd; er hynny, gan y coffeir amryw o'i atebion, y rhai a ymddangosant i mi yn ffraethineb, byddai yn burion i ni gael gwybod beth a olygir wrth arabedd. “Mae arabedd,” ebai Dr. Johnson, “fel pob peth sydd wrth eu natur yn ddarostyngedig i ddewisiad dyn, yn meddu ei gyfnewidiadau a'i agweddau; ac yn cymeryd ffurfiau gwahanol ar wahanol amserau.” Darnodiad Pope o arabedd yw,—“yr hyn a feddyliwyd yn fynych, ond na ddywedwyd mor dda erioed o'r blaen.” Ond mae y darnodiad yna yn gamsyniol, meddai Dr. Johnson, am ei fod yn darostwng dyn yn is na'i urddas naturiol, ac yn priodoli i hapusrwydd mewn iaith yr hyn a berthyn i nerth meddyliol. Pe darnodiad Pope fuasai yr un cywir, buasai raid i ni gytuno â golygiad yr ysgrifennydd yn y *Traethodydd*; ond, os meddyliau nerthol yn ymsaethu allan mewn ymadroddion pert a tharawiadol yw ffraethineb, nis gwn am neb yn meddu ar fwy o ffraethineb na Dewi Wyn. Beth ddywed Amaethon am hyn?

AM.—Cyfarfod da i ni, fy ngyfeillion. Nid wyf yn ewyllysio dim amgen, yn fy sylwadau, na helaethiad gwybodaeth ynghylch Dewi Wyn. Cyn y coeliwn bob athrawiaeth, bydded i ni ei phwyso mewn clorian gywir, neu o leiaf ym mantoleg synwyr cyffredin. Yn sicr, ni feddyliais am geisio gwybod beth yw nodweddion arabedd; ond cyfrifid Dafydd Owen yn hynod o ffraeth gan bawb a'i hadwaenent; er na allai nemor un o honom, fe ddichon, roddi darnodiad o'r hyn a feddyliem wrth ffraethineb. Ond, meddylied y cywrain a fynno am dano, yr oedd Dafydd Owen yn barotach ei atebion na neb yn y wlad; a'r rhai hynny yn gyrhaeddbell ac i'r pwrpas.

TAL.—Gadewch i ni, ynte, ystyried beth oedd syniad ei gyd-oeswyr am dano. Dywedai Sion Wyn fel hyn,—“Ymddanghosai i mi y pryd hyn (1806) yn nodedig mewn ymddiddan, yn gryf a medrus mewn dadl. Er nad oedd cylch ei wybodaeth yn dra eang, er hynny ei ddeall treiddgar a'i galluogai bob amser i ganfod, ar unwaith, bob peth oedd yn cyd-daro â'r pwnc y dadleuau drosto; yr oedd ei ddull o ymadroddi yn hyawdl a

bywiog; ac yn wyneb ei ddehurwydd, ynghyd â grym, parod-
rwydd, a phriodoldeb ei atebion, nis gallai y neb a fyddai yn ei
gyfeillach lai na meddwl yn fawr am ei ddoniau ymddiddan-ol.”
Dywed Eben Fardd, yn ei gofiant, mai “anaml y cyfarfyddodd
yn yr un person y fath helaethrwydd o amgyffrediaidau cyntefig,
a'r fath barodrwydd i'w darlunio mewn geiriau. Yr oedd yn
rhyfeddol o ffraeth, ac yn dra pharod ei ateb.” Heblaw hyn,
tystiolaeth cynydog enwog arall i Ddewi oedd hyn,—“Yr oedd
yn nodedig am ei sylwadau tarawiadol a'i arabedd. Pan yn
Nublin gyda'r meddygon, yn ei afiechyd olaf, arweinai un
o honynt ef trwy y Lunatic Asylum; ac wrth sylwi mor dawel
oedd y rhai oeddynt yng ngafael gwallgofrwydd, gofynnai i'r
meddyg—‘Don't they complain?’ Yr ateb oedd,—‘No, they
dare not complain.’ Yna Dewi a atebai,—‘Then, it is worse
here than in hell, for they are allowed to complain there.’
Synnai y meddyg yn fawr at yr atebiad.”

Er mor ragorol yw sylwadau yr ysgrifennydd yn y *Trieth-
olydd*, o'r rhai y dyfynnodd Eifion Ieuanc, amlwg yw fod
y sylwadau hynny wedi eu sylfaenu ar weithiau cyhoeddedig
Dewi Wyn, tra yr oedd yr awdwr yn anghyfarwydd hollol â
bywyd cyffredin y bardd. Ni chafodd efe erioed fantais, amgen
nag a geir ym “Mlodau Arfon,” i adnabod cymeriad yr awdwr;
a dyna yr unig reswm sydd yn ymgynnyg i fy meddwl i dros
fod yr awdwr medrus wedi gwneyd haeriad a ymddengys i ni yn
gamsyniol iawn, o berthynas i arabedd Bardd y Gaerwen.

AM.—Clywais Sion Tomos, Chwilog, yn dweyd ei fod yn
cwyno wrtho unwaith ei fod yn methu yn lân a chael hamdden i
ymweled â chyfaill iddo; pryd y gofynnai Sion Tomos iddo,—
“A fyddwch chwi ddim yn myned yn agos i'r fan ar y Sabboth,
fel y gallech alw gydag ef?” Atebiad Dafydd Owen oedd,—
“Mi fyddai yn dda gennyf allu ymweled â'm cyfaill yn fynych,
pe medrwn wneyd hynny ar ddydd gwaith; ond nid wyf yn
dewis un amser wneyd y Sabboth yn was i ddiwrnod arall.”
Dywedai Sion Tomos ei fod yn rhagori ar bob dyn a welsai
ef erioed yn ei atebion parod, pwrpasol, ar bob amgylchiad.
Gallesid llenwi cyfrol helaeth o'i ffraethebion pe cesglid hwy
oddiar lafar gwlad ac adgofion ei gydoeswyr. Gadawsant ar-
graffiadau mor ddyfnion ar feddyliau pawb a ddaethant i gys-
ylltiad â Dafydd Owen, fel nas gellir eu dileu gan amser nac
amgylchiadau.

E. I.—Yr wyf wedi cael llwyr foddlonrwydd i fy meddwl
trwy yr hyn a ddywedasoch am ffraethineb Dewi Wyn. Er
hynny, bydd yn hyfrydwch i mi glywed o'ch genau chwi, y
rhai oeddych gydoeswyr a chyfeillion arbennig y bardd, gymaint
ag a gofiwch o'i ffraethebion, mewn rhyddiaith a barddoniaeth.

Yr wyf yn hyderu y maddeuwch i mi yr awydd aniwall sydd yn fy meddwl am wybod y pethau lleiaf a berthynai iddo ef. Buasai yn dila gennyf fod yn fwy cyfarwydd â blynyddoedd boreuaf ei fywyd; yr ydwyf er hynny wedi cael ar ddeall fod llawer o bethau bach o'i eiddo yn werth eu cronico. Y mae yn beth dyddiol iawn gennyf glywed adrodd a darllen ffeithiau bych*in syml a phlentynnaidd mebyd ac ieuencid dynion o fri; ac yr ydwyf yn eu hystyried yn bwysig iawn, canys danghoseg ydynt o gyfrol fawr oes dyn.

TAL.—Wedi iddo orffen ei addysg yn yr ysgolion, ac ymsefydlu gyda'i rieni i amaethu y Gaerwen, cyn i siomedigaethau eisteddfodol chw*erwi ei ysbryd, a chyn i brudd-feddyliau, yn tarddu oddiar natur ei anhwyldeb, ddechreu ei boeni, byddai yn prydyddu braidd i bob peth, a'r awen yn cael ei deffroi gan yr amgylchiadau mwyaf syml. Yr oedd yn y Gaerwen, fel mewn tai cyffelyb, gi a chath,—dau o greaduriaid teuluaid, tra gwasanaethgar ar dyddyn. Yr oedd Dewi yn hoff neilltuol o'r ci, oherwydd ei onestrwydd, ei ffyddlondeb, a'i ufudd-dod; ond efe a gasai y gath yn drwyadl, am ei bod yn greadur gwenieithus, ffals, a lladronllyd, yn cyfranogi o natur llofrudd,—dywedai mai llofruddion oedd ei holl hiliogaeth. Tra byddai yn anwesu Pero, ei gydymaith ffyddlon-onest, byddai yn ysgarmesoedd aml rhyngddo â Pws, ac nid heb achos, oblegid cymaint oedd ei hyfdra arno weithiau, fel y dygai ei gig oddiar ei fwrdd, os mewn cyfleustra i hynny. Gwaeddai Dewi yn aml wrth ei herlid,—“Mor amhosibl yw cael cath onest!” Canai i'r ddau unwaith, fel hyn,—

“Purion yw dysgu Pero,
A'r gath yn llywath fel llo.”

Ci llwyd, cynffon laes, un-llygeidiog, a'i fynwes yn wen, ydoedd Pero; ac yr oedd ei lygad diffygiol yn lwmp gwyn yn ei ben, fel y noda'r bardd yn y llinellau hyn,—

“Pero bach a'i lygad lwmp
A'i wasgod wen o dan ei siwmp.”

Yr oedd Pero yn hoff o fwyta mwyar duon, ac fel y canlyn yr anerchai y bardd ef am hynny,—

“Mae Pero laes ei gynffon
Yn hela'r mwyar duon,
Gan feddwl mynd, ond bod yn lew,
Yn dew ar fwyar duon.

“Pe byddai'r ynyd gwirion,
Yn gwyrto i hel llygeirion,
Pe ai yn llyfn ei flewyn llwyd
Wrth fwyta bwyd bon'ddigion.”

AM.—Gan eich bod wedi dechreu son am ei gi, daw i'm cof amgylchiad a gymerodd le yng Nghriciaeth, pan oedd efe yno ar neges, a'i gi yn ei ganlyn. Yr oedd yno foneddwr o Sais hefyd yn aros yn yr un tŷ ag ef, ac yr oedd ci yn ei ganlyn yntau. Ar ol ciniaw aeth Dafydd Owen i'r ardd, i roi tro, pryd yr hysbyswyd y boneddwr pwy oedd ei gydymaith, a'i fod yn fardd rhagorol. "Mi a af ato i'w dynnu ef allan i brydyddu," meddai y boneddwr. Atebwyd ef inai gwell iddo fod yn bur gynnil, fod y bardd mor anibynnol ei feddwl fel nad oedd yn gofalu dim am ŵr mawr mwy na gŵr bach; ac os cai ei gynhyrfu y byddai ei eiriau fel cleddyfau noethion. Pa fodd bynnag, aeth y boneddwr ato, gan ddweyd ei fod yn deall ei fod yn brydydd, ac yna gofynnodd iddo pa faint a gymerai am wneyd pennill i'w gi ef. "Pumpunt," meddai Dafydd Owen, ar darawiad amrant. "Yr ydych yn gofyn gormod," meddai y boneddwr. "Nac ydwyf," meddai yntau, "nid wyf yn gofyn dim mwy nag wyf yn barod i roddi i chwi am wneyd pennill i fy nghï i, os bydd efe yn deilwng o'r enw." Ar hyn aeth y boneddwr i'r tŷ yn ei ol i adrodd yr hanes.

Un tro, yr oedd Lewis Tomos yr hwsmon a Dafydd Owen yn y drol yn myned i nol mawn, a bachgen o'r enw Wmffre Owen yn certio. Modd bynnag, arweiniodd y gwas bach y ceffylau yn rhy agos i'r naill ochr, nes aeth y drol ar draws cilbost yr adwy. Dwrddiai yr hwsmon yn erwin o'r achos, a'r gwas bach a amddiffynnai ei hun yn ddewr; ond Dafydd Owen, tra'n gwrandao ar y ffræ, a ddywedai,—

"Mae Lewis, ddyn aflawen,
Am ffræ âg Wmffre Owen;
'Rwyf mewn ofn, a dweyd y gwir,
Y curant yn y Gaerwen."

TAL.—Yr wyf finnau yn cofio gwas yn y Gaerwen, o'r enw Wil Parri. Yr oedd yno yn amser rhyfel Boni,—amser terfysgelyd yn Lloegr, a Chymru hefyd o ran hynny, oedd yr amser hwnnw. Daeth galwad prysur i godi milwyr, a cheisiai pawb hel pob math o esgusodion rhag myned i'r fyddin, na thalu am i ereill fyned drostynt. Yr oedd chwaren yn digwydd bod yn arddwrn Wil Parri, a haerai yn gryf ei bod yn ddigon i'w esgusodi, ac ebai Dewi wrtho,—

"Wil Parri sy'n ympirio,
'N un palat am ympelio;
Heb ganddo esgus o un asgwrn,
Ond bod aren yn ei arddwrn."

Dro arall, yr oedd Wil Parri yn helpu y merched odro y gwartheg; ac fel yr oedd efe yn godro, gan edrych o'i amgylch, ac heb wylïo pwynt y llaeth, sylwai Dewi arno a dywedai yn ddisyfyd,—

“ Rhaid i Parri wrth drin y byd,
 Roi'r godro i gyd i'w gadw;
 Yn lle o gwmpas y sten gul,
 Mae hyn yn gweryl garw.”

Gofynnai unwaith i Wil Parri, a ydoedd wedi gorffen rhyw orchwyl a benodasai iddo; atebai hwnnw,—“ Do.” Ar hynny dywedodd,—

“ Wele purion, Wil Parri,
 Gonest iawn a da gwneist di.”

Wrth sylwi ar blentyn yn y gymydogoeth, a adawai ei fam heb ei ddiddyfnu yn hwy nag arferol, dywedai

“ Y mac Wil Parri, druan,
 Yn chwarc oddeutu'r dditeu;
 Y cema' mawr, mae'n fry na'i fam,
 Yn sugo'n gam ei gwman.”

Yr oedd yn y Gaerwen lances o forwyn, yr hon oedd yn ymgyf-eillachu mewn dull carwriaethol â llanc o'r enw Wmffre Owen, a wasanaethai yn yr Ynys—amaethfa gyfagos. Ryw noswaith, tra y teulu yn ymgomio o gylch y tân, diangodd ochenaid drom o fynwes Ann y forwyn, a gofynnodd un a eisteddai gerllaw,—“ I ble'r aeth hona, Ann?” Atebai Dewi yn y fan,—

“ Ochenaid Ann sy'n gwynfanus,
 Yn taranu tua'r Ynys;
 Torri pen, a dychryn amryw,—
 Torri calon Wmffre'n chwilfrw.”

Pan oeddid yn adeiladu Gefail y Cenin iddo, method a chael pren digon hir i wneyd mantell simdde ynddi, ac yr oedd raid newid y cynllun, yr hyn a chwaneagai drafferth y seiri; er hynny, boddlonent i wneyd y gwaith am yr un bris, os gwnelai yntau ychydig benillion iddynt hwythau; ac yn y fan, dan ddylanwad y cymbelliad, cyfansoddodd y pennill canlynol,—

“ Y seiri celfyddgar, yn hawddgar a rhwydd,
 A wneuch fy nymuniad trwy gariad i'm gwydd;
 Sef gweithio trwy bleser ryw biler main bulch,
 A chloi cerrig bychain yn gywraiu trwy gulch;
 Pan drowch chwi eich cefnau a'ch eirf efo chwi,
 Bydd i chwi'n barhaol ryw frol o hir fri;
 Cewch hefyd, ysgatfydd, gan Ddafydd, wan ddyn,
 Ar ddechreu mis Ebrill ddau bennill bob un.”

Wrth glywed y merched yn y tŷ ar ddechreunos yn siarad yn anghyffredin yng nghylch cael gynau newyddion, dywedai yntau oddiar ei orwedd ar y faine yng nghongl y simdde,—

“ Cynhauaf mawn, cynhauaf tatws,
 Cynhauaf gwair ac yd yn gwplws,
 Nid oes yr un o'r rhai'n yn eilfydd
 I gynhauaf y gown newydd.”

Tra yr oedd Evan Evans, teiliwr, Ty'n Rhos, Rhos-lan, ar foreu hyfryd yn croesi yr afon Ddwyfach, wrth fyned i'r Gaerwen i weithio, gwelai bysgodyn braf gerllaw y rhyd lle y croesai; er hynny elai ymlaen at ei waith gan gylchdroi yn ei feddyliau, a theimlo yn bur anesmwyth yn herwydd ei awydd i ddal y pysgodyn,—yn gymaint felly nes penderfynu dianc oddiwrth ei waith at y gorchwyl. Wedi deall hyn, plethodd Dewi y llinellau canlynol i'r digwyddiad,—

“ Y teiliwr ddiangodd ar ffwdau yn ffol,
Gadawodd y siawrn a'r 'styllen ar ol;
Ni wnaethwn i iddo na chywydd na chân,
(Oni bae fod ei haiarn yn twymuo'n y tân.”

Un tro, yr oedd Dewi wedi cyflogi dyn yn nechreu y cynhauaf i ladd gwair; ac wrth iddo ddyfod at y Gaerwen, ei fam a ofynnodd i Dewi,—“ Ai rhywbeth gwael fel hyn a gyflogaist ti Dafydd?” Yntau a atebodd,—

“ Cwla, bychan, cul o bell,
Eto'n agos ato'n well;
Mae genyf feddwl am fy ngwas
Na thyr o 'leni wana' las.”

Ar ben-tymor, unwaith, cyflogodd John, brawd Nŷcander, i fod yn was bach yn y Gaerwen; eithr ymhen yr wythnos yr oedd ei hiraeth mor fawr fel y penderfynodd fynnu ymadael a myned adref. Cyn iddo gychwyn, galwodd Dewi arno, gan roddi y pennill canlynol iddo i fyned ag ef i'w fam,—

“ Bum yn y Gaerwen wythnos gyfa'
Yn cadw moch a gweithio 'ngora',
Cario gwair a dŵr, a chywain,
A phopeth berai Dafydd Owain.”

Ar ddiwedd un cynhauaf yd, wedi cael y gwair a'r yd i ddiddosrwydd, un o'r gweision yn ymyrgar, i ddim ond i dynnu allan awen Dewi, a ddywedai,—

“ Y gwair a'r yd i gyd a gawd.”

Ac ebai Dewi,—“ Ie, ond bod

Eisiau 'i ddyrnu a'i falu'n flawd,
A'i bobi'n faru i fagu cnawd.”

Rhyw ddechreunos, ar ddychweliad y gwas bach dros drothwy y tŷ, wedi bod ar neges ym Mrynllaeth, yr hen wraig, yn gyson a'i harfer, a ofynnai iddo,—“ Pwy welaist ti yno dywed.” “Mari, a Rhys, a Gruffydd Prys,” ebai yntau. Yna Dewi a'i dilynai â'r un enwau, fel hyn,—

“ Fe welodd Mari a Rhys,
A Gruffydd Prys wrth graffu.”

AM.—Gan i chwi grybwyll enw Wmffre Owen, a fu yn was yn y Gaerwen, y mae yn gof gennyf unwaith ei fod yn curo eithin gyda gordd; oblegid felly y gwneid cyn dyfod peiriannau i'w malu. Ac wrth weled Wmffre Owen yn ei afaith a'i orchest gyda'r gorchwyl, Dewi a ddywedai yn y fan,—

“ Mae Wmffre'n curo eithin, yn gethin megis cawr ;
Ni welir un eithinen yn unman cyn pen'r awr ;
Mae o yn codi'n bybyr i'r awyr ben yr ordd ;
Fe fala y cymylau, a phopeth yn ei ffordd.”

Wrth ganfod fod un James, Bryn y Ffynnon, yn fuan wedi marwolaeth ei wraig, yn arfer myned allan y nos i garu, bwridd ar ei ben wrtheb unfryd ei gymydogion, ymysg y rhai yr oedd gwas y Gaerwen, yr hwn a'i gwelodd ar doriad y dydd yn myned dros ryw glawdd, ac a achwynodd arno wrth Dafydd Owen. Heb golli amser, y bardd yn rhwydd-gellweirus a ddywedodd fel yma,—

“ Pwy a welodd Iago 'smala
Ar ei drac yn mynd o wreica,
Yn llam i dros y muriau mawrion
Fel yr hydd a'i draed yn rhyddion ?”

Yr oedd gan Ddafydd Owen ddau o geffylau gwedd o'r enwau Ffarmer a Smoyler, a chasesg or enw Darbi. Wedi bod yn y cae yn llafurio, ac wedi iddynt ollwng, aeth un gwas ar gefn Smoyler, ar llall ar gefn Darbi, a'r bardd ar gefn Ffarmer,—hen geffyl gwyn, tew, diog, oedd Ffarmer. Tra'r ddau was yn dechreu teithio tuag adref, a methu o'r bardd a chael gan Ffarmer geisio prysuro dim, gwaeddai ar eu holau, megis o goeg-rybudd digrifol,—

“ Prysurwch, gyrrwch yn gynt,
Rhag ofn cawr ar gefn corwynt.”

Prydyddai Dafydd Owen, hyd yn oed yn ei gwsg. Yr oedd helynt yn y Gaerwen unwaith, am fod yr hen wraig yn methu cael y wê o'r Pandi, a'r rheswm dros yr oediad oedd fod rhyw aflwydd ar beiriannau'r lle. Modd bynnag, achosodd yr amgylchiad, dan effaith swm drwg yr hen wraig, yn debygol, i Dafydd gymhlethu, yn ei gwsg, y ddwy linnell yma,—

“ Awn drwy go' i drwsio'n drist
Y Pandi a phob pendist.”

Wrth weled dyn yn adgyweirio hen glawdd cerrig oedd yn terfynu rhwng y Gaerwen a'r Gaerddu Fawr, gofynnodd Robert Williams, Betws Fawr, i Dafydd Owen unwaith,—“ Pa faint wyt ti'n dalu i William Jones am drwsio cloddiau ?” Yntau a atebodd,—


“ Ei dâl yw deunaw yn dydd,
Am gyweirio magwrydd.”

Er cymaint cyfeillion oedd Dafydd Owen a Robert Williams, goddefent weithiau i bethau dibwys iawn oeri eu cyfeillgarwch. Yr oedd Dafydd Owen eisiau pren mynci unwaith, a chyfarwyddai yr hwsmon ef i fyned i'r Betws Fawr at Robert Williams i chwilio am un wnelai y tro. Felly, efe a aeth, ac wedi ei gael, gofynnodd ei bris. "Chwe cheiniog, Deio," ebai Robert Williams. "Mae o'n ormod Robert," ebai Dafydd. "Nag ydyw wir, Deio," ebai Robert drachefn. Modd bynnag, wedi taeru cryn lawer, ymadawsant â'u gilydd mor ddiplawn fel na ddywedasant air y naill wrth y llall am oddeutu mis o amser.

Wedi i'r Parch Morris Williams (*Nicander*) ymadael oddiwrth y Methodistiaid, gan ymuno â'r Eglwys, efe a anfonodd lythyr at y Parch. T. Roberts, Hendref, Abererch, yn yr hwn yr awgrymai fod tipyn o ymfrost dirgel yn ei galon, yn herwydd ei ffawd o gael derbyniad i'r Eglwys, yn hytrach na bod, fel y tybiai efe, gydag enwad is-raddol fel y Methodistiaid. Mr. Roberts yn falch o hyn, a chyda pharodrwydd gwresoglawn, a roddodd y llythyr i Ddafydd Owen i'w ddarllen; eithr aniolchgar yn wir y cyfrifai Dafydd ymddygiad Nicander, canys symiodd ef i fyny mewn ychydig eiriau, fel hyn,—“Gall ef gau ei safn yn hawld, oblegid ar ffawd o gwd, a llaeth o biser Methodistiaid, y cafodd efe ei fagu.”



TAL.—Diau fod gogoniant y dywediadau a nodasoch i'w briodoli i sydynrwydd eu bwriad allan o feddwl y bardd. Os edrychir arnynt heb ystyried hynny, collant yr adderchowgrwydd a berthynai iddynt yn wreiddiol. Pethau bychain, ond pethau bychain dyn anghyffredin, a dyn mawr, ydynt; a phethau gwerth eu cronico i fod ar gof a chadw. Dichon ein bod, bellach, wedi cyflenwi awydd aniwall Eifion Ieuanic. Os nad ydym, fe allai mai gwell i ni fyddai cyfeirio at ryw nodwedd neilltuol arall ym mywyd y bardd.

E. I.—Y mae braidd yn afreidiol i mi eich hysbysu mai ychydig obaith sydd i chwi lwyddo i gasglu digon o ddefnyddiau tuag at fy niwallu â hanes y fath gymeriad amryfath a Dewi Wyn; ac ni wiw i mi geisio celu bod fy awydd yn myned fwyfwy llongerddol o hyd,—y byddaf wedi yr elo un amgylchiad feibio, yn teimlo yr un mor awyddus i wybod y nesaf ar ei ol. Aniolchgar hefyd y cyfrifwn fy hun, pe nis cyfaddefwn y caredigrwydd parodlawn a ddangosasoch eich dau tuag ataf, a'ch bod, yr un pryd, fel yn mwynhau eich hunain ar draul eich adgoftion diddanus; oblegid nid oes dim a siriola gymaint ar hen bobl a chyd-ymddiddan mewn adgoffhad am yr amser gynt. Bydd cofio y ffair, y gymanfa, a'r dyddgwyl, ac yn enwedig adgau difyrus carwriaeth, yn debyg i farwor ar eu calonnau,—yn fwy hyfryd ac enynnol na'r adgau sylweddol eu hunain.



bdweddion arbennig
ddisymwth trwy y
yn cyfrannu o ryw

barth fod nodwedd-
megis yn ddisym-
neilltuol yn yr
moch i ymweled ag
ond tri o berchyll
yn un o dri, ond ni
weision y degymwr
un ymaith lle nad
in ddyweyd,—“ Mi
oedd gan yr hwch,
ai hynny yn eithaf



Taw mam. Paid a
od am gyw mochyn,”
ol dros ben.
ylwai fod rhyw farn
ac nad oedd cymaint
ebai Mrs. Williams,
yn bregethwr, ac yn
byddai i Caledfryn
ymryn dicach wrtho
ac i'w ganmol am ei
ones, Llanllyfni, iddo
gwelai gyfansoddiad

gwych o eiddo rhai ohonynt, gan chwanegu "ond ni chenfigenwn wrth Caledfryn pe bai yn parhau i farddoni am dragwyddoldeb."

TAL.—Parod wyf i obeithio y byddwch eich dau yn llawen o gael clywed rhai amgylchiadau ymhellach am y prif-far-dd enwog, Dewi Wyn. Galwaf chwi i gof mai arferiad gwrthun mewn teuluoedd yw goddef i blant siarad ar draws, a rhoddi gair i mewn pan fo ereill, hynach, yn ymddiddan â'u gilydd. Yr oedd tuedd at hynny mewn lodes fechan, merch i gefnder Dewi Wyn, yr hon oedd yn cael ei chadw yn y Gaerwen; ac yr oedd yno was bach hefyd, cynddrwg a hithau. Pan ar hirnos gauaf, yr ymgesglid i'r simdde fawr, o gylch y tân mawn, i adrodd pawb eu helynt, sefydlodd Dewi ddeddf neilltuol i lywodraethu y lodes a'r gwas bach, ar y cyfryw achlysuron. Gosodai un i eistedd ar bob pen i'r pentan hir, a'u wynebau at eu gilydd, fel dwy ddelw; ond nid oeddynt i ddweyd *un gair*, ond a ofynnid iddynt gan ryw un fyddai hynach na hwynt.

Mae hynyna yn fy adgofio o'r farn gyffredin am Dewi, sef, ei fod yn fawr yn ei awdlau, ond yn llawer mwy ar yr aelwyd,—fod y cwbl a ddywedai o sylwedd da rhagorol, ond nad oedd ei waith, sef ei eiriau, ddim yn ddigon dealladwy bob amser i bobl anwybodus ac anllythrennog.

Ymhellach, tra ar ei daith ar ymweliad i'r Gwyndy, a'r gwas gydag ef, yn ddisymwth trodd at y gwas, a dywedodd wrtho,— "Robin, treia fy nghario i, i cdrych a wyt yn ddigon cryf, rhag y byddaf farw cyn y nos, ac y bydd eisiau i ti fy nghario adref."

Yr oeddwn wedi meddwl profi, drwy y pethau hyn, i Eifion Ieuanc, fod Dewi Wyn yn "ffraeth a gwreiddiol ei atebion;" ond arweiniwyd fi i rywle oddiwrth bob testyn. Pe byddem yma hyd ddydd Sadwrn, ni ddelem i derfyn yr hanesion sydd ar gael ynghylch helyntion a geiriau neilltuol y dyn rhyfedd hwn. Adroddaf hanes un amgylchiad a glywais o enau Owen Owens, brawd Dewi. Dywedai Owen Owens iddo ef ac yntau fyned i Ddinbych o bwrpas i weled Twm o'r Nant; ac wedi dyfod o hyd iddo, a myned i mewn i westy yno, dechreuai Twm blethu llinellau cynghaneddol i'r forwyn oedd yn y lle; dilynai Dafydd ef â llinellau cyffelyb, fel atebion iddo; a bu ymrysonfa hir a gwydn rhwng y ddau; "ond aeth Dafydd a'r maen i'r wal," er gwaethaf parodrwydd diarebol Twm o'r Nant. Dyna dystiol-aeth Owen Owens am yr amgylchiad.

AM.—Yr wyf yn meddwl yr un peth a chwi, nad oes derfyn i'r hanesion am droion rhyfedd, geiriau neilltuol, ac atebion parod a gwreiddiol Dafydd Owen. Y gwir am dano yw, yr oedd yn hynod ymhob nodwedd a berthynai iddo. Er mwyn rhoddi golwg eglur a chywir ar ei nodweddion neilltuol, dylasai golygwyr "Blodau Arfon" hysbysu y cyhoedd, os gwyddent, dan ba

amgylchiadau, ac mor fyrfyfyr y plethwyd rhai o'r cyfansodd-iadau bychain, clyision, sydd yn argraffedig yn ei lyfr. Er enghraifft, dyna y llinellau a welir ym "Mlodau Arfon," tudalen 316, dan y pennawd "Absen i'r Awen,"—ni w'yr y darllennydd, wrth edrych arnynt, na fu yr awdwr fis neu chwaneg yn ei cyfansoddi; tra mai mewn rhydydig funudau, wrth eistedd gyda Sion Wyn, y cyfansoddodd efe hwy; ac wedi eu hysgrifennu â phwyntel oedd wrth law, a'u gadawodd felly ar y bwrdd. Wele y llinellau;—

"Mynnwn bill mwyn iawn o ben,
Ond 'sywneth nid oes Awen.
Dewi wna, ond â'i'n iwin,
Seithaill yn bennill o'i bin:
Ni fedd at waith y saith sill,
Ond y pin i wne'd pennill;
A phrydydd anghyffredin,
E daera pawb ydyw'r pin."

Bu ar ymweliad â'r Parch. R. V. Lloyd, person Llanengan, yn Lleyn, lle yr oedd yn aros ar y pryd, gyda Mr. Lloyd, foneddiges ieuanc o Saesnes, yr hon wedi hynny a fu yn briod â'r Parch. John Wynne Jones, Caergybi. Wrth ei chlywed yn chwarae canu'r piano yn y Persondy, lle'r ydoedd Dafydd Owen ar y pryd yn ymwelydd, dywedai yn fyrfyfyr,—

"Di boen yw dy biano,—a'th fysedd,
A'th fwsig yn seinio,
Fy nghlust, oni f'ai y'nglo,
Er undyn a fyn wrando."

"Da gwrando dy gywreindeb—y' Ngwalia,
Angyles cysondeb;
Ni fydd hir y nefoedd heb
Dy ganu, a'th deg wyneb."

Am y ddau englyn yma, dywed Eben Fardd eu bod "yn dlyision o ran meddwl a iaith, yn gynllun o ffraethineb diledryw; amlyg-ant archwaeth uchel mewn peroriaeth, ac addurnir hwynt â'r moes gyfarchiad mwyaf diwair a boneiddigaidd i'r rhyw fenyw-aidd, yr hyn a ddengys fod ein bardd, er ei holl astudiaeth, yn talu parch dyladwy i ddeddfau ysgoifn a phrydferth moesau cymdeithasol."

Ond heblaw y ganmoliaeth uchel a delir ynddynt i beroriaeth ac i'r foneddiges ieuanc, yr oedd yr awdwr fel pe buasai dan ddylanwad ysbryd proffwydoliaeth, o leiaf, trodd ei ragfynegiad yn wirionedd llythrennol. Diflannodd y tegwch o'r wyneb, oeroedd y hysedd cyn hir yn yr angau, ac anrhegwyd y nefoedd, yn ol a ddywedid yn gyffreuin, â phresenoldeb ei "gwyneb teg a'i pheroriaeth angylaid."

Wrth edrych ar y beudy acw, daw i'm cof yr amgylchiad

canlynol. Tua'r flwyddyn 1822, sefydlwyd cymdeithas lenyddol yn Nŏlbenmaen dan yr enw "Cymdeithas Gymroaidd Dolbenmaen," ac yr oedd ysbryd prydyddu wedi disgyn yn bur drwm ar Dafydd Owen, a meddyliond am gyfansoddi englynion i annerch y Gymdeithas. Yn ddistaw, ond yn ferw gan deimlad brwd prydyddu, troes allan o'i wely gyda thoriad y wawr un boreu Sul. Ar adeg boreufwyd, clywid ei fam yn galw Dafydd. Ond nid oedd neb yn ateb. Galwai eilwaith, ond i ddim pwrpas. Un o'r gweision a feddyliai, neu yn hytrach a ddywedai, ei fod wedi myned allan i edrych y praidd, ac aeth tua'r caeau, gan feddwl cwrdd âg ef; ond wedi manwl chwilio, dychwelai yn siomedig tua'r beudai, lle y canfu Dafydd Owen mewn cilfach neilltuedig ar ei led-eistedd, a lliaws o lechau wrth ei ochr, ac â hoelen bedol yn ysgrifennu yn brysur. Gyda bod y gwas yn y golwg, gwaeddai Dafydd,—“Wil! Wil! Yr wyf yn ceisio prydyddu. Yr oedd rhyw chwilen yn fy mhen er's deuddydd neu dri. Paid a dweyd am danaf wrth fy man.” Dyma yr amser y cyfansoddwyd, neu o leiaf yr ysgrifennwyd yr englynion a welir ar dudalennau “Blodau Arfon.” Ysgrifennwyd hwy gyntaf â hoelen bedol ar ddarnau o lechi llwyd-leision a gesglid ar y buarth. Caiff Eifion Ieuan sylwi arnynt, yn hytrach nag i mi gymeryd amser i'w hadrodd. Dyma yr englyn blaenaf ohonynt,—

“Yn Eifionnydd nef anian,—am wyrda
Mae ardal Dolbenman;
I'w chanmol goruwch unman,
I glyw yr holl Gymry glân.”

E. I.—Gyfeillion, yr wyf wedi fy ngosod dan rwyrau fwy na unwy i chwi am y fath wledd o wybodaeth ag a gefais heddyw yn eich cyfeillach. Ni feddyliais i, ac yr wyf bron yn sicr na feddyliond neb arall chwaith, ond y rhai oeddynt fel chwithau yn hysbys yn hanes ei fywyd, fod Dewi Wyn mor hynod o neilltuol ymhob peth a berthynai iddo. Wedi clywed cymaint, y mae yn gywilydd gennyf awgrymu un gofyniad yn chwaneg, onide—

TAL.—Esgusodwch fi, fy nghyfaill—ond gofynnaf eich nawdd am eich tynnu mor ddisymwth oddiar eich pwne, yn herwydd fy mod yn awyddus i roi ar ddeall i chwi fod yr ymddiddan a fu rhyngom wedi ei achlysuru yn gwbl oherwydd eich awydd i wybod manylion y dyn rhyfedd hwn, ac yn hollol er eich mwyn chwi, ac ereill y dewisoch gyfrannu y wybodaeth iddynt, y mae Amaethon a minnau yma heddyw; er, ar yr un pryd, rhaid i ni addef nad yw yr amcan o fwy dyddordeb i chwi nag ydyw o bleserus i ninnau. Ac heblaw hynny, yr ydym ni, fel y lliaws o gydoeswyr y bardd, yn prysur gilio tua chysgodion tywyll y

bedd; ac oddieithr i ryw gyfaill fel chwi ddiogelu y manion sydd yn aros ar ein cof, byddant oll yn fuan wedi colli yn anadferwy. Gan hynny, na chelwch oddiwrthym un awgrym neu ofyniad; ac hyd eithaf ein gwybodaeth, rhoddwn ninnau eglurhad arno o lwyfrfyd calon.

E. I.—Rhywbeth ynglŷn â cherddoriaeth ydoedd y gofyniad oedd ar flaen fy nhafod, yn cael ei awgrymu gan ryw sylw a wnaethoch ynglŷn â hanes y foneddiges ieuanc a'i phiano. Ymddengys oddiwrth y Cofiant fod Dewi Wyn wedi cfrydu cerddoriaeth, a'i fod yn adnabyddus fel cerddor yn gystal, bron, ag fel bardd. Fel yma y cyfeirir at hynny,—“O gylch y flwyddyn 1815, cymerodd y gorchwyl arno i astudio y rhan egwyddorol o beroriaeth, ac ymddengys iddo, nid yn unig gyrraedd gwybodaeth o'r gelfyddyd hon mewn amser byr, ond hefyd ei fod yn ei deall mewn modd neilltuol o oleu a chyflawn.”

TAL.—Mae y dyfyniad yna wedi ei gymeryd o ysgrif wreiddiol Sion Wyn, yr hon sydd wrth law gennyf, ac y mae efe yn chwanegu y sylw yma, yr hwn a adawyd allan o'r Cofiant sydd yn argraffedig,—“Hoffai ar brydiau roi gofyniadau anhawdd eu hateb o flaen rhai a broffesent gryn wybodaeth yn y gelfyddyd, trwy yr hyn y taflodd amryw i ddyrswch lled fawr; ond nid hawdd oedd rhoi gofyniad iddo ef mewn cysylltiad â'r gangen hon o wybodaeth, nad allai ei ateb. Nid oedd yn meddu llais i ganu ei hun. Ysgrifennodd draethawd byr ar beroriaeth, o'r hwn y mae gennyf adysgrif.”

AM.—Er fod Dafydd Owen yn dra hysbys yng nghelfyddyd miwsig,—yn selog iawn gyda chvfarfodydd canu yn ei ardal, ac yn canu ynndynt fel y medrai â'i holl egni,—ni byddai byth yn cynnyg canu yn yr add. liad cyhoeddus, am fod ei lais, wrth geisio canu, yn aflafar ac yn anghywir. Y peth a fyddai yn ei foddio fwyaf mewn canu fyddai canu naturiol, dirodres, a diorchest. Diau fod rhai o'r gofyniadau y cyfeiria Sion Wyn atynt yn bur neilltuol, ac fel Dafydd Owen ei hun yn hollol. Pan yn dysgu cerddoriaeth, gofynnodd i fachgen yr hwn oedd ychydig o ganwr,—“A fedri di daraw pob cywair yn ei sain briodol ei hun?” Dywedodd y bachgen,—“Medraf yn lled agos.” “A wyddost ti yn sicr pan fyddi wedi ei seinio yn hollol gywir?” Atebodd y bachgen drachefn,—“Nid wyf yn sicr iawn o hynny.” Cododd Dafydd ddarn o fawnen, a gofynnodd,—“A weli di fi yn ceisio taro y twmpath acw?” Taflodd ato, eithr heb ei daraw. “Dyna fi wedi methu,” meddai. Taflodd drachefn, a tharawodd y twmpath, a dywedodd,—“Dyna fi wedi ei daro.”—“Mi wn fy mod wedi taro y twmpath,” ebai drachefn. “Ac oni wyddost dithau pan fyddi wedi seinio nodyn yn gywir, fel y gwn i fy mod wedi taraw y twmpath acw?” Atebodd y bachgen drachefn,—“Nid mor sicr a hynny.”

Ond nid gofyniadau o'r natur yna a ofynnai Dafydd Owen bob amser, pan oedd yn efrydu cerddoriaeth. Yr ydych yn adnabyddus âg enw y Parch. J. R. Jones, gweinidog y Bedyddwyr yn Ramoth, sir Feirionnydd. Bu dylanwad y gŵr enwog hwnnw yn rymus iawn un adeg yn Eifionnydd, yn neilltuol yng nghymydogiaethau Criciaeth a Llanystumdwy; ac y mae dylanwad yr egwyddorion a ddysgai yn aros heb eu diwreiddio ynddynt hyd heddyw. Yr oedd Mr. Jones yn gerddor galluog iawn, wedi efrydu yn drwyadl elfennau cerddoriaeth. Ymddengys iddo fod yn cyd-ganu llawer â Bardd y Betws, os nad yn athraw iddo, fel y cyfeiria yr olaf yn y llinellau tlyision hyn,—

“ Mor dawel oedd ein helynt,
Wrth ddysgu cyd ganu gynt,
Pybyr, a difyr ein dau,
Llïosem, braidd, bob lleisiau;
Trin egwyddor peroriaeth,
Ar oleu gerdd, reol gaeth;
Hwyr arcs, lawer noson,
I gyrraedd dull gwraidd y dôn.
Mae'n bri eleni ar lawr,
A fu gynt ein prif gantawr,—
Wele in' oll wylô'n awr,—Och! hydrais,
Dwyn y pereiðlais o dan y priddlawr.”

Y Parch. J. R. Jones hefyd oedd athraw cerddorol Dafydd Owen, o leiaf, derbyniodd lawer o gyfarwyddiadau oddiwrtho. Rhoddaf ger eich bron yr hyn y sy gennyf o'r ohebiaeth a fu rhwng y ddau, trwy yr hyn y gallwch weled pa fath ofyniadau a anfonai y disgybl i'w athraw. Dyma fel y dechreuai'r ohebiaeth.

“Pwllreli, *Chwercroer 27ain*, 1816.

Fy hynaws gyfall,—

Derbyniais yr eiddoch yn brydlon, gyda'r Eos a'r llyfrau. Anffodiog a fy eich cais bychan i mi gyfieithu yr emyn, er lleied gorchwyl a gorchest debygid ydoedd; ond yr wyf yn gwybod drwy brofiad, mai gormod gyneddau dioglyd a chysglyd ydoedd; nid yw yn werth ei anfon ond yn unig er profi i chwi na bum ddiystyr o'ch cais, ac na phroffais yn yr ymgais ond mai mwyaf poen, poen y methwr; ond os mynnwch chwi, chwi eilwch ddiwygio'r naill hanner o honi, a'i defnyddio fel y mynnoch; ni chefais ddim hwyl awenyddol, nac ystigrwydd i ymgonio gan ddiogi wedi rhewi fy nwydau, &c. Dyns ddiigon a gormod, am beth nad ydyw yn werth dim braidd. Cewch ei gweled cyn diwedd y llen.

'Pawb a'i fyw lle bo ei ddolur.'—Gadewch imi drafferthu peth arnoch ag ymadroddion plentynnaidd, a led ddisynwyr, ac ymddygwch ataf gyda chydymdeimlad i fwy graddau nag y gwna'r cyffredin. Pa mor isel bynnag y cantyddoch fi ym mhwill camsyniad, anghydwelad, ac anirnadaeth, mwyaf yr estynnoch ddeheulaw cymorth i'm cychwyn o anialwch anwybodaeth,—chwi a wyddoch fod yn angenrheidiol i hyfforddi alltud ar ei deithfa, heblaw dywodedd ar ddywedyd, yr hyn debygid a fyddai yn ddiigon amlwg ynddo'i hun, dangos â bys, ie ymaffyd yn ei wegl ac anelu ei lygaid at y nôd y cyfeirier, ac y cyfarwydder yntef tuag ato, &c.

Fy achos i sydd fel y canlyn. Mae yn y gymydogiaeth hon, fel ereill, ryw ymgais i ddysgu canu wrth y nodau; a chan mor gyffredin ydyw, tueddwyd ffinau, yr anhebycaf o ddyinion i gyd, ymgaisio â'r ddysgeidiaeth hon; erbyn

edrych y mae fy llais ryw faint yn well nag yr oeddwn yn ei gyfrif, o ran grym a phereidd-dra, ond ni feddyliais i na neb arall erioed ei fod mor anaturiol a di lywodraeth, ie anhawdd ei ddysgu a'i reoleiddio, fel na allaf benderfynu a yw yn ddichon cael ganddo ddysgu un beroriaeth yn ganolig gywir pe bai hynny yn achub hoedl. Ond er hynny, nid yw hyn yn peri imi laesu cymaint nad oes gennyf ewylls ac awydd cryf am wybod am drefn a sylwedd peroriaeth. Ni welais ddim hyfforddiant nag agoriad ar y gelfyddyd wybodawl hon ond yn unig yr ychydigyn sydd yn niwedd *Llyfr Emynau J. James*, sef traethawd o waith John Williams, Aberystwyth, yr hwn debygwn, heb law ei fod yn fyr, sydd yn cynnwys ymadroddion masgrell a thywyll di amcan ddigon i oleuo meddwl diethrol ac anhysbys o'r blaen. Neu yn amgen mae tywyllwch, gwendid, ac anibendod rhyfeddol ynnof fi wrth ei ddarllen, a cheisio ei ystyried, &c. Daethum drwy ddirfaith fyfyrlo i wybod drwyddo, i ryw raddau, pa fodd yr oedd *cydaain* ac *anghydaain*. Ond methu gennyf yn hollol a dirnad pa beth oedd y *mi* neu y *meistrnod* yn nghyd a'r drydedd, y chweched, a'r seithfed *lleiaf*, a *mwyaf* yn gywirnod; methu gennyf yn hollol a gwybod ystyr, sylwedd, a defnydd y pethau; methu gennyf wybod a oes tri math o leisiau, sef a oes rhai peroriaethau i'w canu yn y llais lleddf (*flat*), rhai yn y cras (*sharp*), a rhai yn y naturiol, neu bod y lleddf a'r cras yn cymeryd i fynu bob math o beroriaethau; ac nad oes yr un i'w chanu yn y llais, neu, mewn llais naturiol, sef fod naill ai yn lleddf neu yn gras, &c., a chan fod lleddf a chras y naill yn codi hanner tŷn, a'r llall yn gostwng hanner tŷn, methu gennyf amgyffred pa beth yw yr hanner tŷn y mae'r B⁰ a'r F yn eu cynnwys; pa un ai o ddewisiad a dychymyg y gosodwyd yr hanner tŷn yn B^C a'r F^C, ai eu bod yno yn naturiol ac yn anocheladwy; pa un ai fod y rhan fwyaf o reolau yr wybodaeth hon wedi eu seio ar ddewisiad a dychymyg yr hynafiaid, ai ynte yn hollol hanfodol i anian ynddi ei hun megys rheolau rhifyddiaeth, ie megys y gynghanedd a berthyn i farddoniaeth, &c. Rhy anhawdd im' ddyfod i ben a holi ac adrodd fy ynfyrdrwydd; ac anhaws i chwithau fy neall a gwybod beth wyf yn ei faldordd, a'm hateb i un diben.

Y ffordd hawsaf, ysgatfydd, i chwi ganfod graddau a sefyllfa fy amgyffredion, yw, syllu ar yr hyn wyf yn ei anfon yna, fel cynnygiad gennyf i gyfansoddi tŷn newydd, dangos yr hyn beth nid wyf yn medru clywed arnaf i neb arall, am nad wyf yn dewis dangos fy ffolineb i neb nad allwyf ymddiried iddynt y bydd iddynt gydymdeimlo yn fwy na difrio ac enllibio.

Yma drwy sylwi ac ystyried, y gallwch ganfod os wyf yn deall unrhyw radd o natur y gwrthdrys dan fy ystyriaeth, ac ym mha beth y mae gennyf unrhyw amcan, ac hefyd ym mha bethau yr wyf yn hollol ddall, odid fel hyn y cewch gyfleu teg i amlygu i mi am ddefnydd ac ystyr y *mi* neu y *meistrnod* a'r *gywirnod*, e allai y medrwch ddangos imi pa beth yw y pethau uchod yn rhyw dŷn amlwg a hawdd sydd gennych yn eich cadwraeth. Nid wyf yn meddwl fod dim mwy o fwynder naturiol yn yr ynfyrdrwydd a anfonaf atoch, mwy na phe baech yn taro y naill bren yn y llall; ond nid oes modd imi wybod pa un ai bod ai peidio, o herwydd na fedraf swnio cymaint ag un nodyn &c., ond nid hynny yw fy mater i; eisieu gwybod pa beth yw y *mi* neu y *meistrnod* a'r *cywirnod* sydd arnaf fi. Odid nad oes gennych ryw draethod yn eich meddiant, a fedrdech hebgor ei fenthgyl, heblaw ceisio ateb fy ymofyniadau disynwyr a thywyll; mae'n debygol ichwi fedri dirnad pa beth wyf yn ei geisio. Ond os na fedraf ddim ar ganu, fe uchod, rhowch imi le i gynnig prydyddu,—

'Rwy' beth yn rhyw obeithio,—ond arfer
A dirfaeth fyfyrlo,
Er mor wael, drwy draul ryw dro
Y d'o'n ganwr dan gwyno.

Peroriaeth odiaeth ddidor—a ddysgant
Ddewisgamp anhebgor;
A minnau gyda'u mwyn gŵr
Yn rhoi tŷn ar y tenor.

Er teirawr o fawr fyfyrlo—heb lyfr
O'm blaen i'm hyfforddio,
Nid wyf ond (dan glwyf, dyn glo)
Yn y niwl dan y nwylo.

O chai lyfr gennych, o lafar ganiad
 Godidog wiw addysg a dadguddiad,
 Caf y nodau, a phob cyfnewidiad,
 Ac arwain y deall i'r gwrandawriad,
 Trwodd at bob tarawiad,—a helaeth
 Caf hanesyddiaeth y cyfansoddiad, &c.

Ond cofiwch na wna holl lyfrau y byd mo'r tro yn lle atebion perthynol yn uniongyrchol i'm gofyniadau, &c.

A ddarfu i chwi erioed feddwl fy mod yn llestr yn dal y fath ynydrwydd?
 Ond e allai y chwydaf y cwbl cyn pen y mis ac y byddaf fel o'r blaen; bwyf mor
 ynyd ag y mynnwyf, ni byddaf ond fel fy mrodyr yn gyfiredin, plant Adda.

Bellach, dyma'r brydyddiaeth wan yn dyfod,—

CYFIEITHIAD O'R SAESNEG.

Heb. xiii. 11, 12, 13.

Yr ebyrth glân tu maes i'r gwersyll,
 Llosgent megys aflan rai,
 Gan ddwyn eu gwaed i mewn i'r cysegr
 I wneyd cymod dros y bai;
 Dyna'r pam bu Iesu hefyd
 Felly'n dioddef yn lle dyn
 Tu maes i'r porth fel y sancteiddiaid
 Ei bobl drwy ei waed ei huu.

Cadd ei demtio, eto heb bechod.

Dyn, dyn, ni waeth imi roi yr ysgrif sydd gennyl i chwi i'w weled, a therfynu
 fy nghybolfa, a dywedyd fy mod yn diagwyl llythyr oddiwrthych ar fyrder, er
 nad wyf yn ei haeddu.

Eich gohebydd annhellwng,

D. OWEN.

Meddyliwn eich bod yn cyflwrdd yr hanner tŷn ddwywaith wrth gyfrif o'r G i'r G,
 neu o 1 i 8, sef ar B^c ac F, neu ar 3 a 6; ond a ydych yn cyflwrdd yr hanner
 tŷn felly drwy gydol neu gorff yr holl beroriaeth? Meddyliwn fod hynny yn angn-
 rhaidiol, os amgen nid wyf yn medru amgyffred pa fodd y saif y gydsain rhwng
 y bass a'r tenor, &c.; ond yr wyf eto yn methu dirnad pa fodd y mae'r byd yn
 bod: pan fo nodyn diweddf y bass ar A, a nodyn olaf y tenor ar B, C, neu D,
 &c., a sw'n nodyn y tenor ar yr wythfed i fyny o'r bass, ac yna pa le y sw'nir yr
 hanner tŷn? Ni ddaw hi ddim ar B ac F os y llinell isaf ond un o'r pump a
 ystyrir i'r G isaf, ac wrth fyfyrto a chwilio fel hyn, yr wyf fi yn ymsoddi i dy-
 wylwch yr Aifft, neu'r fagddu fawr, ac yn barod i selio nad wyf yn deall dim oll
 mwy na mochyn.

D. OWEN.

Yn atebiad i ofyniadau Dafydd Owen, ysgrifennodd y Parch.
 J. R. Jones y llythyr cywrain a dyddorol hwn,—

“HAFOD Y GAREG FAWR, *Mawrth* 18, 1816.

Y cyfall athrylithgar,

Derbynialis yr eiddoch, amseredig y 27. o'r mis diweddf ac ystyriais y
 cynhwysiad Cyntaf peth sy ddyledus arnaf i chwi, yw diolch am y cyfieithiad
 o'r emyn Saesneg a antonaswn i chwi. Am y mesur a gymerasoch chwi, 8au a 7au
 ydyw cwmpas hwnnw; ond y mae y rhan fwyaf o'ch llinellau chwi yn 8au a 7au
 a rhai ereill yn 8au a 7au. Ond gellir diwygio hyn o fethwaith yn lied rwydd
 a hawdd.

Am beroriaeth, ni feddf unrhyw draethawd neillduol, ar y gelfyddyd wybod-
 awl hon. Ond gwelais, darlennais, ac ystyriais gynt, yr eiddo Tansur, Simpson,
 a Bremner. Hen lyfrau candryll oedd y rhai hynny, er ys ugain mlynedd yn ol
 —y pryd hynny ym meddiant y peroriaethydd hyglod John Williams o Ddolgellau.

Ond am waith John Williams, gynt o Abertawe, yr hwn sydd yn niwedd llyfr emynau J. James o Aberystwyth, nid yw hwnnw ond traethawd digon salw, a diamcan, i hyfforddi meddwl dieithrol ac anhysbys yn y gelfyddyd.

Bellach, amcanaf roddi atebiau eglur i'ch gofyniadau, fel y canlyn,—

1. "A oes tri math o leisiau, sef lleddf, cras, a naturiol?" Ateb,—Nag oes. Y mae pob peroriaeth, naill ai yn gras, neu yn lleddf. Ond y mae peroriaethau cras naturiol a pheroriaethau lleddf naturiol. Ereill ydynt draws-osodedig; sef, cras traws-osodedig, a lleddf traws-osodedig. Yr unig gywair cras naturiol sydd ar C., a'r unig gywair lleddf naturiol sydd ar A. Pob cywair arall, sy ddiffygiol, neu amherffaith, nes eu perffeithio trwy osod cras, neu lleddf, ar y llinellau priodawl, yn nechreu y beroriaeth, gan fod yr hanner tonau, heb wneuthur hynny, allan o'u lleoedd priodawl. Ond digon yw hyn wrth y glust, am eich gofyniad cyntaf;—bellach rhoddaf ddarluniad cywir o'r hyn a ddywedais uchod, o flaen eich llygaid; fel y galloch chwi wybod yn hollawl fel y mae'r peth yn bod. Ac am fod cynifer o eiriau celfyddydawl (technical terms) yn perthyn i'r gelfyddyd wybodawl hon, chwi a'i cewch mewn iaith arall.

THE PROPER SCALE OF MUSIC.

Cantus.

C D E F G A B C D E F G A B C
fa sol la fa sol la mi fa sol la fa sol la mi fa

Bassus.

C D E F G A B C D E F G A B C
fa sol la fa sol la mi fa sol la fa sol la mi fa

In the scale, you may see the full tones about an inch distance from one another; and the semitones about half an inch distance.—In the sharp series the *F* and the *C*, or the *fourth*, and the *eighth*, are always the two semitones in the Octave. And in the flat series the *C*, and the *F*, or the *third* and the *sixth*, are always the semitones in the Octave. In the sharp key always, the *Third*, above the keynote, is a *full tone*, or *greater third*.—And in the flat key, the *Third* above the keynote is a *semitone*, or *minor third*,—and that is the real difference betwixt a sharp key and a flat key. The flat key is adopted to mournful, and grave songs; and the sharp key, adapted in a way of thanksgiving and praise. Therefore the flat is termed the *plaintive* key, and the sharp termed the *cheerful* key.

N.B.—The only natural sharp key is founded on *C*, and the only natural flat key is founded on *A*. All the rest are imperfect in each of the forementioned characters until made perfect by flats, or sharps, placed on the proper places, or letters, at the beginning of the piece, the semitones being out of due order.

2. "Pa un ai o ddewisiad a dychymyg y gosodwyd yr hanner tŷn ar *C*, ac *F*, neu ynte eu bod yno yn naturiol ac anocheladwy, ac yn hanfodol i anian ynddi ei hun, megis rheolau rhifyddiaeth, &c.?" Ateb,—Hanfodol i anian ynddi ei hun yw bod dwy hanner tŷn ymhob wyth-radd-dŷn (octave) fel y galloch wled y naill a'r llall yn y glorian (*the proper scale of music*) y tu arall i'r ddalen.

3. "Am y *Mi*, neu'r Meistrnod."—The *Mi* returns every eighth note from itself, and its natural place is *B*;—but the other three syllables, *fa*, *sol*, *la*, are repeated, in order to complete the Octave.—In the Sharp series, the syllables stand thus,—

C	D	E ^½	F	G	A	B ^½	C
Fa	Sol	La	Fa	Sol	La	Mi	Fa
1	2	3	4	5	6	7	8

And in the flat series they stand thus,—

A	B ^½	C	D	E ^½	F	G	A
La	Mi	Fa	Sol	La	Fa	Sol	La
1	2	3	4	5	6	7	8

It has been already observed that the natural place of the *Mi* is *B*; and it may be further noticed, that to whatever place it is removed, in transposed keys, the semitones follow it, and stand always in the same relation to it that as do to *B* in the natural key: so that *Mi* is always a semitone below the *key-note* in the *sharp series*, and a tone above the *key-note* in the *flat series*.—And so much of the *Mi*.

4. Nid ar "*B* ac *F* y cyfyrddir yr hanner tón wrth esgyn o *G* i *G*, neu o *I* i *8*," ond ar *C* ac *F*.—A gwybyddwch fod y cyfryw lythyrenau yn gwnceuthur hanner tonau trwy gorff yr holl dôn os na bydd nod crâs ♯, neu nod lleddf ♭, yn cael ei osod o flaen rhyw nodyn neilltuol, yn rhywle yn y dôn.

5. "Pa fodd y mae'r byd yn bod, pan fo nodyn diweddaf y Bass ar *A*, a nodyn olaf y Tenor ar *B*, *C*, neu *D*?" Atch.—Pan arferid yr hen ffordd anhylaw, ac anhwylys, o osod y *C* clef ar y llinell ddu nesaf i'r uchaf, byddai nodyn olaf y Tenor ar y 3ydd llinell ddu.—Ac weithiau bydd y Tenor, neu y Treble, yn diweddu ar y drydedd uwchlaw y cyweirnod,—ac os felly, bydd yn disgyn ar *C*. Ond ni welais mo'r nodyn olaf, neu gyweirnod y Bass yn *A*, a nodyn olaf y Tenor yn *D*. Y mae'r 4ydd uwchlaw y cyweirnod yn anghydsain â'r cyweirnod ei hun. Erbyn hyn, dyma fi wedi rhoddi atebiadau byrion, ac mor eglur ag y mae i'w gwneud, i'ch gofyniadau. Bellach, gobeithiaf y dyallwch y cyfan, ac y bydd er dywentydd a boddlonrwydd i chi.

I shall here add a table of the Clefs, as they are now used by the best modern musicians.

The G Clef for the Treble.

The C Clef for the Counter. *Alto.*

The G Clef for the Tenor.

The F Clef for the Bass.

F

N.B.—The union that there is in one part with another will appear by observing that upper G, in the Bass, is one and the same note as lower G, in the Tenor and Counter; and also that upper G, in the Tenor, is exactly of the same sound with lower G, in the Treble.

Pell oddi wrthyf fi yw 'enllibio na gwawdio' eich cynygiad am gyfansoddi tŷn,—a phell yw yr unrhyw oddiwrth fod yn gywirgerdd, neu gywirgan.—Ond rhaid cropian cyn cerdded.

Gwelais gynt yn llyfr Simpson, lawer o reolau ac engraffau, ym mherthynas i gyfansoddiad peroriaeth,—ac nid oes fodd i neb gyfansoddi yn gywir heb wybod a chanlyn y cyfryw reolau yn fanylaidd.

Bellach, terfynaf fy llythyr llipa, gan hysbysu y byddai hoffus gennyf glywed os bydd y llythyr hwn er addysg a chynorthwy i chwi ddeall ychwaneg am y gelfyddyd ddiwyrsus a hyfryd hon. Nid oes gennyf newydd yn y byd yn werth ei anfon i chwi,—ond bod yr awen ar rewi, gan faint yw fy ffwdan gyda rhyw betheu ereill, trwy gydol y gnaaf hwn. Wyf,

Eich cyfaill diragrith,

J. R. JONES."

Cafodd y Parch J. R. Jones ddigon o brawf yn fuan mai nid disgybl cyffredin a eisteddai wrth ei draed y tro hwn. Nid dyn i gredu pob ysbryd heb ei brofi oedd Dafydd Owen. Yn gynnar y mis Mai canlynol, ysgrifennodd lythyr at ei athraw, yn yr hwn yr ymdrechai ddädyrchwel ei osodiadau. Rhaid addef mai ymbalfalu yr oedd Dafydd Owen y pryd hyn, ond dengys ei ohebiaeth ei fod yn arfer barnu drosto ei hun ar bob pwnc; ac fod ei syniadau yn hollol wreiddiol, a phriodol iddo ef ei hun bob amser. Yr oedd yn rhaid i'w athraw "dynnu ei glustiau," fel y gwneir â disgyblion anhydryn; ac mewn llythyr dyddiedig Mai, 15, 1816, y mae J. R. Jones yn arfer gwatwargreg lem tuag ato; er fod digon o brofion mewn rhannau ereill o'r llythyr nad oedd yn ddigllawn na difrifol, ac mai math o watwargreg ysmala y bwriedid iddo fod. Dylwn grybwyll, cyn gwneyd cynnwys y llythyr yn hysbys i chwi, fod Dafydd Owen newydd golli ei dad, a'i fod yn teimlo yn glwyfedig am dano, at yr hyn y cyfeiria Mr. Jones yn y dechreu, fel hyn,—

"HAFOD Y GARREG FAWR, Mai 15, 1816.

Fy nghyfaill hybarch!

Derbyniais yr eiddoch, gyda'r Eos, yn hwyr ddydd Sadwrn diweddfaf; ac ystyriais y cynhwysiad gyda theimlad cymysgedig o dristwch a difyrwch. Hawdd y gallaf fi gydymdeimlo â chwi, yn eich cwyn a'ch colled, am eich tad, gan fy mod innau yn brofiadol o'r un peth, er ys agos i 24 o flynyddoedd. A chymaint, os nid mwy colled na hynny, oedd colli fy mam anwyl a thirion, er ys 34 o flynyddoedd. Dyma'r fath farwol fydd aydd yma. Darfodigaeth a siomedigaeth sydd ymhob peth a welir tan haul; ond 'Gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd.'

Ond am beroriaeth, hawdd y gellwch chwi haeru, os mynnwch, 'mai ffwrwyth dychymyg ddynol yn unig' yw bod dwy hanner tŷn ymhob wythraddnod, 'ac nid peth hanfodol i aniau ynddi ei hun;—hawdd i chwi, meddaf, haeru hynny, gan 'na w'yr eich clustiau chwi sw'n yr un lythyren yn wahanol i un arall;—yn amgen, ni buasech chwi byth yn meddwl, nac yn ysgrifennu y fath beth. Clywais, cyn hyn, fod 'profiad yn dysgu ffyliaid.' Ac, yn wir, lawer gwaith, profiad a ddysg ddoethion yn ddoethach,—pan fo pob moddion ersill yn methu.—Ond mi welaf nad oes dim o'r fath beth a'ch dysgu chwi trwy brofiad, gan na w'yr eich

clustiau chwi sw'n yr un llythren yn wahanol i un arall. Yr un amser, gan eich bod yn ddyn rhesymol a deallus, pwy a w'yr na ddygir chwi i gydnabod ac i goellio yr hyn a ganlyn.

Here I shall adopt the words of the late eminent musician, Mr. H. Boyd, of Glasgow upon this occasion. 'The stave consists of five parallel lines, with their intermediate spaces. On these are placed seven letters of the alphabet, in regular succession upwards, viz., G, A, B, C, D, E, F, which serve as names to distinguish the lines and spaces. And this stave thrice repeated and regulated by their proper Clefs, are called the '*Bass Stave*,' which is always founded on the five lowest lines; and the '*Treble Stave*,' which is always set on the five highest lines; and betwixt these two staves, there is another, called the *Tenor Contra*, or *Medius Stave*. The reason why no more than seven letters are made use of, is, because there are but seven degrees of sound in Nature; for the eighth note is always exactly of the same sound with the first. So the upper G in the Bass is the same note as lower G in the Treble. The seven degrees of sound in nature are found to be unequal. There are *five* greater called *tones*, and two smaller called *semi-tones*. The natural places of the semitones are between B, C, and E, F; that is C, and F, are semi-tones descending.'

Now, my friend, let you, or any other man, give out the proper sound of any note in the Octavo, and let him ascend an Octavo, or descend an Octavo, which he pleases; I defy any man born of a woman to sound the Octavo in succession, without sounding two semi-tones in the same. And every man that has a musical ear may as easily distinguish the sound of a semi-tone from a full tone, as your eyes may distinguish the difference between an *inch* and *half an inch*. And if you will give out the proper sound of C, you will find the semi-tones coming on the 4th and the 8th above; which will make a *sharp key*. But if you will give out the proper sound of A, you will find the semi-tones coming on the 3rd and the 6th above; which will be a *flat key*.

Ond meddylwch chwi, mae'n debyg, mai haws yw codi tŷn gyflawn bob cynnyg, na chodi dwy hanner tŷn ymhob wythraddnod. Nage, meddaf finnau, peth amhosibl i lais dyn wneuthur hynny. Ond, ysgatfydd, gormod gorchwyl imi yw argyhoeddi dyn na w'yr ei glustiau ef sw'n yr un llythren yn wahanol i un arall. Ond os ydych chi o ddirif yn meddwl myned a'ch pwnc ymlaen yn orchfygol, rhaid i chwi yn gyntaf

'Ddifrio Rhifeg Newton,
A cherddi Handel gyson,
A dweyd eu bod i gyd ar fai,
A naddu rhai newyddion.'

Ac os er mwyn cael mân ddefnyddiau i rannu'r ymrafael, ac i weithio yn well gyda defnyddiau mawrion, y dychymygyd rhoddi yr hanner tonau mewn peroriaeth, paham, meddwch chi, na buasai ryw rai, cyn hyn, wedi dychymygu rhoddi cwarter tonau, a hanner cwarter tonau i mewn hefyd, er mwyn rhannu'r ymrafael? Ond diau gennyf, os amcanwch chi wneuthur yr hanner tonau yn donau cfflawn, yn ol yr engraff yn eich llythyr, y cewch chi fwy na digon o waith i fedru rhannu'r ymrafael rhyngo chi a holl berorinethwyr dygedig y byd. Ond digon am hyn y tro yma, a gadewch imi glywed eich barn ar y testyn yma eto, cyn y bo hir.

Na feddylwch fod y radd leiaf o ddirger na chwerwder ynnof wrth groesi eich dychymyg am beroriaeth. Yr oeddwn yn agos iawn, os nid yn hollol o'r un farn â chi am yr Eos, cyn gofyn eich barn chi yn ei chylch. Ond gwyddwn yn ddigon da eich bod chi yn feirniad manylach a mwy gwybodus na mi ar y fath gysoddind.

Bellach, terfynaf gyd â llawer o barch ac ewyllys da i chi,

Yr eiddoch,

J. R. JONES."

Mewn trefn i nesu ymlaen gyda'r pwnc hwn, mae gennyf y pleser eto o gyflwyno i'ch sylw un llythyr caredig o eiddo y Parch. J. R. Jones at Dewi Wyn, ynghylch peroriaeth; ac yr

wyf yn dirgel gredu y bydd dyddordeb pob un ohonoch, fel fy hunan, yn cynyddu yn y mater dan sylw. Dyma fel y rhed y llythyr,—

“ Iechyd fyth i galon Twm ap Edwart ap Eurgain, pwy bynnag ydyw hwnnw. Gwelwch ei drasthawd godidog a gorgampus ar beroriaeth yn *Seren Gomer*, Ebrill, 1822. Yn wir, y mae yr ysgrif yma ar beroriaeth yn werth swllt ei hunan ym marn pob dyn gwybodus am y fath beth.

Cofus gennyh chwi, fy nghyfaill D. Owen, am yr amser y buoch chwi yn taeru yn galed yn fy erbyn, nad oedd y ddwy hanner tôn ag sydd ymhob wython ddim yn beth sylfaenol ar ddeddf natur, ond mai mympwy (*fancy*) y cyfansoddwyr yn unig yw hynny. Ond pe buasech chwi yn berchen ar wybodaeth gyfarwydd a beirniadol ar beroriaeth, ni buasai raid i chwi fyned byth ymhellach na'ch clust eich hun i gael prawf digonol a phenderfynol am hynny. A'r gwirionedd yw, megis y dywedodd Twm ap Edwart ap Eurgain, fod i beroriaeth real osoddedd benderfynol, a hynny wedi ei sylfaenu ar ddeddf natur ei hun.

Yr oeddwn i o hyd yn uniawn o'r un farn a Twm ap Edwart am yr holl donau a ymddangosodd yn *Seren Gomer* hyd yn hyn—ac yn ddiaw, y mae cywilydd yn codi yn fy nghalon, ac yn fy wyneb, wrth weled y fath rigymau sothachlyd o fis i fis yn ymddangos yng ngwyneb yr holl wlad.

Beth bynnag yw gwybodaeth Mr. Joseph Harris a'i fab am y Gymraeg, a phethau eraill, y mae yn dangos yn amlwg, i bob dyn gwybodus am y fath beth, na wyddant hwy ddim yn y byd am beroriaeth realaidd, mwy nag a w'r cywion dalluan Cwm Cowlyd am *the science of optics*; pe amgen ni chyhoeddent fyth y tath gymysgfa fongleriaidd yn wyneb y wlad. Yr oeddwn gynt yn bwriadu yn wresog am aifon rhai o donau godidog a rhagorol J. Williams o Ddolgellau i gael eu cyhoeddi a'u cadw yn *Seren Gomer*; ond erbyn gweled fod golygydd, neu olygwyr y cyhoeddiad hwnnw, mor anwybodus am beroriaeth a phrydyddiaeth realaidd, y mae bellach yn beth hollol ddiflas a diystyr gennyf fi gynnwys gwneuthur hynny. A mwy na thebygol gennyf na byddai waeth i minnau geisio dal y gwynt mewn rhidyll na cheisio dangos ei wallau i olygydd *Seren Gomer* ar y testyn yma.


Mr. D. OWEN.

J. R. JONES, Ramoth.”

Gwelir fod y Parch. J. R. Jones yn ddigon o foneddwr i gyd-nabod uwchraddoldeb Dewi Wyn mewn cysylltiad â barddoniaeth, tra ar yr un pryd, yr oedd yn ysgwyd ei “ddechymygon am beroriaeth” i'r pedwar gwynt. Maddeuwch i mi, gyfeillion, am drethu cymaint ar eich amser, a'ch amynedd.

E. I.—Un gair.—Yr oedd y dyfyniadau o'r ohebiaeth yn neilltuol o bleserus ac adlysgiadol i mi. Mae'r egluriadau a rydd J. R. Jones yn ymddangos yn athronyddol, ac yn gorffwys ar seiliau tra rhesymol; ond cyn i chwi adael pwnc y beroriaeth, byddai yn dda gennyf gael gwybod i ba ganlyniad yr arweiniodd yr ohebiaeth rhwng y Parch. J. R. Jones a Dewi; ac a gryhaeddodd yr olaf wybodaeth gyflawn o egwyddorion cerddoriaeth?


TAL.—Fe ddywedir hynny gan ei fywgraffwyr, ond ni ddygir un siampl nac un ffaith i brofi hynny. Mae tuedd mewn dynion i gredu y gall dyn ragori ymhob peth, os bydd yn enwog mewn un peth. Nid oes gennyf fantais i wybod yn sicr; ac nis meiddiaf ddyfalu rhag eich camarwain. Ymddengys, fodd bynnag, fod Dewi yn gwneyd yngais at gyfansoddi tonau tua'r adeg y cyfeirir ati yn y llythyr; oblegid dywed J. R.




yn engraifft o ddull
oddiwrthyf fi yw
boddi tŷn;—a phell
neu gywirgan, 'ond
t yn llyfr Simpson,
nas i gyfansoddiad
oddi yn gywir heb
idd."

orion peroriaeth yn
erol o'r llafur yma.
thiwyd ef â llais i
cimlo anian, a glew-
od ei ddamcaniaeth
deb fel ag i fod yn
yr englyn hwn o'i

wsig



wysgrifau; ond i ba
eg yma, a pha mor
i hegwyddorion, nid



Gymydog nesaf? Onid ydyw hwnnw
Yn wrthddrych serch egnion sy'n ei gadw
Rhag croesi'r troethwy? Aeth deddf ofalus
Ryw dro wrth ei gofleidio'n wahanglwyfus?—

Na, glân yw popeth Duw; nis gall dwyfoldeb
Roi sang ar amser nac ar dragwyddoldeb
Ond fraich-ym-mraich â phurdeb; braich Sancteiddrwydd
Sy'n gwneyd cerddediad trwm Hollalluawgrwydd
Yn ddigon ysgafn fel nad ydyw llwybrau
Bodolaeth yn ymollwng dan ei gamrau.

Ffordd yr Arglwydd gerddir heddyw, gan holl nerthoedd
creadigaeth;

Rhodia deddf yn llaw gorchymyn dwyfol drwy bob rhan o'i
thalaeth;

Nid aeth awel heibio mynydd i gysuro corsen ysig
Heb i Dduw yn gyntaf adrodd pregeth-gysur fendigedig
Yn ei chlyw; nid aeth pelydryn gwylaidd at fân rug y mynydd
Heb gael caniatad i chwareu yn gariadus gyda'u gilydd.

Faint o weithwyr cyson distaw a raid gael i baentio lili?
Nid aeth un i'r ardd i'w helpu i roi gwisg yr haf am dani,
Ond ar archiad ei Chreawdwr; nis gall egni, er tramwyo
Fyth ohono yr un llwybr, heb air Duw fynd eilwaith hyd-ddo.

Mor glust-deneu ydyw deddfau! Ond a glywai nerthoedd daear
Lef yr Arglwydd, pe na wnelai ei Sancteiddrwydd hi mor
dreiddgar?

Ei Sancteiddrwydd sydd yn cludo geiriau Duw o dragwyddoldeb,
Ac yn cadw glynnoedd bywyd oll mor llawn o gerrig ateb.

Pe gallasai Anherfynol Allu rodio mewn gwisg garpiog
Drwy fodolaeth—beth am hynny? Fel rhyw fudan hollalluog
Ni ddeallid byth mo'i ubain; elai deddfau'n ddiymadferth;
Syrthiai'r bydoedd oll o'u breichiau parlysedig—pluen brydfarth
Fyddai yn rhy drom i'w chynnal. Pe rhodiasai Gallu'n unig
Heb Sancteiddrwydd yn ei gwmmi, ai ei hunan yn golledig.

Glywid llef Hollalluawgrwydd gan ddiddymdra pe heb acen
Bêr Sancteiddrwydd yn ei eiriau? Allai Nerth ei hun greu seren?

Un lleferydd a glybuwyd gan ddiddymdra; o'i waelodion
Ar yr alwad daeth ynysig ferth y Cread; yn ei chalon
Yr oedd tân—pwy a'i cyneuodd? Onid angerddolder dwyfol
Ei Sancteiddrwydd oedd yn gwneuthur gair ei nerth mor
galon-ysol?

Y mae pob pererin allu dwyfol ar ein daear heddyw
O dan arweinyddiaeth oleu'r Sanctaidd hwnnw—dyna ydyw

Y "paham" sydd dan brydferthwch, a than drefn y greadigaeth,
Gwnel Sancteiddrwydd glân o'n daear thuser brydferth pured-
igaeth.

Mae gweddiau "eitha'r ddaear" gan ein Harglwydd yn glywadwy,
Mae'n adnabod swm y dorf o ocheneidiau sydd yn tramwy
Tuag ato—fel adnebydd mam o bell swm troed afradlon
Gyrcha adref nos Nadolig ar ol crwydro flwyddi meithion.

Gwelais wraig yn gollwng deigrin yn y seiat fisol heno
Pan weddiai hen bererin dros ryw un arferai ddringo [leoedd—
Llethrau mynydd Duw, ond grwydrodd wedyn yn y diffaeth-
Gweddi fer heb ddysgu siarad oedd y deigrin yn y Nefoedd.
A! mae llawer deigrin-weddi eto'n treiglo dros y gwyneb
Nas dehonglir nes y croesa'r ffin i fynwes tragwyddoldeb.

Clyw ein Hior y cyfan beunydd; nid yw'r Sanctaidd hwnnw'n
huno.

Ei Sancteiddrwydd sydd yn cadw Duw ei hunan heb ddiffygio.
Nid aeth gweddi enaid ysig, flinid gan ystormydd Hydref
Amgylchiadau, at yr orsedd, a chael Ydwyf oddicartref.

Gall goludog anystyriol gysgu'n dawel a gorffwyso,
Er i Lazarus tlawd cornwydlyd yn ei ymyl ocheneidio.

Nid oes fynwes mor anesmwyth yn ein byd tymhestlog heddyw
A Sancteiddrwydd wedi iddo glywed un ochenaidd. Ydyw!
Y mae *un* ochenaidd ddrylliog, neu *un* odlig bêr esgynno
O mor ddyfned man ag enaid,—y mae'r crwydro dwfn neu'r cwyno
Inni'n sicrwydd byth yr erys yr holl-sanctaidd Dduw yn effro.

(b) Sancteiddrwydd yn allu gwled.

Beth a welaf? Dacw rosyn coch yn tyfu ger yr afon;
Ceir pelydrau tangnefeddus, miloedd o ystormydd gwylltion
Oll mewn hedd yn aros ynddo,—mae rhyw allu anweledig
Ynddo ef i droi egnion yn gynghanedd fendigedig;
Nid efe ei hun ganfyddaf, mater wedi ei weddnewid
Ganddo ydyw'r cyfan welaf—yn yr anwel mae ei fywyd.

Clywaf swm Dysgeidiaeth heddyw'n ceisio tynnu'r arwynebedd
Sydd dros fywyd; "Nef o'r dyfnder" glywa hi; ond mae unigedd
Llethol yn yr anweledig, ac nis gall gwybodaeth fyned
Hwnt i lenni trwchus mater—i fyd gwirioneddol gweled.

Tabernaclau yw'r gweledig,—lle i feddwl ymbabellu
Ac er cymaint ydyw'r babell, mwy yw'r anweledig Allu.
Ond mae Duw yn gweld dyfnderau; wrth farddoni dyd fynydd-
Dianwadal i wneyd odlau gyda'r byth-symudol foroedd. [oedd
Paham hynny? Mae gwirionedd *gwaelod* môr a *gwaelod* mynydd
Mewn cytundeb—holl feddyliau Duw sy'n odli gyda'u gilydd.

Pwy ond gwelwr *sanctaidd* allai gyd-gysylltu myrddiwn darnau
Un drychfeddwl gyda'u gilydd? Allai Nerth ei hun roi bachau
Tynion am y darnau filoedd? Onid ydyw Anweledig
Creadigaeth Duw'n datguddio ei sancteiddrwydd bendigedig?

Nis gallasai noeth Ddrygioni, pe â gallu hollalluog,
Weld ond un cysylltiad gweithred—ei phresennol un-gwynebog.

Ond mae Duw sydd oll yn sanctaidd, am bob gweithred yn cwm-
Amser gyda'i fyrddiwn oesau, ac ar ol i hwnnw ballu [pasu
Ceir y weithred byth yn aros, a bydd gŵg a gwên ei gwyneb
I eneidiau fyrdd, yn lliwio hanes cyfan tragwyddoldeb.
Am ei fod yn *sanctaidd* gwelodd Duw y pwysau enfawr feddai
Amser yn ei gamrau trymion; pan yn galw 'Bydded' gwelai
Y mintcioedd chwyldronau ddeuent heilio hyd ei lwybrau,
Do, gosododd bob chwyldroad, cyn ei ddyfod, mewn cloriannau.

Dim ond byd gweledig Hanes wel Drygioni—gwela feddau
Hen weddiwyr mewn mynwentau, ond ni chenfydd eu gweddiau
Mewn calonnau'n torri beddau iddo'i hunan; erledigaeth
Pan yn cychwyn wel ein Harglwydd, ac mae'n anfon gweledigaeth
Hyd ei ffordd i'w goddiweddyd—bydd Sancteiddrwydd yn ofalus
Na chaiff hi, heb newid neges, byth gyrrhaeddyd i Damascus.
Mae goruwch-reoli Hanes, troi ei wyneb tua'r nefoedd,
Golchi ei holl ddillad budron, gwylied drosto drwy yr oesoedd,
Torri llwybrau esinwyth iddo ddod yn ol i ffordd yr Arglwydd
Ar ol crwydro i bellafoedd,—y mae hyn yn waith Sancteiddrwydd.

(c) *Sancteiddrwydd yn teimlo.*

Boreu ddoe canfyddais Bronwen fach ar lan y llyn yn tafu
Graian mân i'w ddyfroedd tawel, a'r rhai hynny yn cynhyrfu
Dan y cyffyrddiadau tyner; gwelais hi i'r ty'n dychwelyd
A phob cam yn gadael argraff eglur ar y tir tywodlyd.
Clywais hi yn galw heddyw ar ei mam mewn dwys gyfyngder,
Gwelais honno yn ei hing fel darn o farmor ar ei chyfer.
Mor deimladwy ydyw bywyd! A pho uchaf ei diriogaeth
Anlaf oll yr olion dorri gan egnion yn ei dalaeth.
Gloewa'r dwfwr, amla'r tonnau a gynyrchid gan y graian;
Glana'r tir, amlyca'r olion wnaethid ynldo gan y fechan;
A pho puraf fyddo mynwes dyfnaf fydd ei chylymdeimlad—
Calon sanctaidd ydyw'r gyntaf waeda o dan ing-gyffyrddiad.

Gwelaf Anystyriaeth heddyw'n sefyll ar lan môr gwirionedd
Ac yn tafu llaid y ddaear fudr dros ei arwynebedd,
Dan y llaid ymdonna'r dyfroedd; gwelaf hi drachefn yn croesi
Fel yn droednoeth dros diriogaeth deddfau, a'r rhai hynny'n llosgi
Ei beiddgarwch. A! mae digon o ddefnyddiau tân ym mynwes
Un o ddeddfau Duw droseddir i wneyd Uffern byth o'n hanes.

Beth yw y teimladrwydd tyner sydd ym mynwes gwirioneddau?
 Beth yw'r angerddolder ysol losga yng nghalonau deddfau?
 Onid y Sancteiddrwydd hwnnw ddyferynodd Duw o'i galon
 Ef ei hunan—onid hwnnw sy'n dygyfor yng ngwaelodion
 Dyfnion bywyd ydyw'r cyfan? Gellir mesur anesmwythyd
 Mwyaf dwyfol byd wrth raddau y Sancteiddrwydd sy'n ei fywyd.

Gwisgodd Anfeidroldeb unwaith wregys gwendid am ei lwynau.
 Ymbabellodd ar y ddaer—rhodiodd Duwdod hyd ei llwybrau—
 Cafodd deilen wyw yr Hydref esmwyth ddisgyn ar ysgwyddau
 Ei Chreawdwr,—cafodd yntau'n esmwyth ysgwyd ymaith ddeilen
 Simeonaid ddisgynasai lawr i'w bythol fedd yn llawen.

Nid yr un yw bywyd heddyw, nid yr un yw hyd ac amser,
 Wedi iddynt weld eu Crewr yn eu gwydd mewn gwisg o fater;
 Daeth ei Dduw yn ddigon agos i dywodyn ei adnabod,
 Galwodd yn yr Ymgawdoliad fydoedd mater i'w gyfarfod.

Rhedodd bywyd clwyfus ato; ar ei fynwes wen yn wylaidd
 Pwysodd yn ei ing a'i flinder—teimlodd y cyffyrddiad sanctaidd
 Yn y dyner Law a dynnai'r drain mor esmwyth o'i ystlysau.—
 Onid ei Sancteiddrwydd purlan oedd yn gwneuthur cyffyrddiadau
 Iesu Grist mor ddwyfol-dyner? A allasai Cariad rodio
 Drwy auafau oerion Hanes, heb fod tân Sancteiddrwydd ynddo?

Nis gallasai Drwg byth ddisgyn ond i Uffern—yr oedd llamu
 Lawr i achub enaid euog a gogwyddo i gusanu
 Mab afradlon—yr oedd disgyn i lanhau holl gonglau Bywyd,
 Oll yn gyfryw waith nad allai ond Sancteiddrwydd ei gymeryd.

Ni chadd Cariad dramwy'n daear heb i gawod o ergydion
 Anystyriaeth ddisgyn arno—dyna daflad pellaf dynion
 Oedd yr hwn anelwyd ganddynt at eu Duw! Sut mae Dwyfoldeb
 Byth yn goddef i feidroldeb euog boeri yn ei wyneb?
 Onid am ei fod yn Sanctaidd? Can's nid yw drygioni'n goddef—
 Heb Sancteiddrwydd byddai ysbryd pur goddefaint yn ddigartref.

Geidwad dyn! y mae gwyddfaoedd dy oddefaint yn ymestyn
 Fry goruwch mynyddau Hanes—deimlaist ti wrth eu goresgyn
 Fod y dringo'n faith ac anhawdd? Flinaist ti wrth wneyd allorau
 O'r coedwigoedd amgylchiadau dyfent ar hyd ochrau'th lwybrau?
 Do, ti deimlaist, Arglwydd Iesu, pa mor anhawdd ydoedd codi
 Allor—oedd yn waith pechadur—tra Sancteiddrwydd yn llochesu
 Yn dy fynwes dangnefeddus; ni fu gan Sancteiddrwydd prydferth
 Yn ei law er tragwyddoldeb ddim a deimlai'n drwm fel aberth.

II.—SANCTEIDDRWYDD YN NUW.

*Meddyllau Duw mewn Cread a Hanes yn gwioleg
 Sancteiddrwydd fel nod dwyfoldeb.*

Pau y gwelodd tragwyddoldeb tawel allu Duw yn myned
 Ar ei daith genhadol gyntaf, pan y torrodd swm y weithred

Gyntaf ar ei glywedigaeth—newydd fel barddoniaeth ddwyfol
Oedd yr amgylchiadau iddo, ond yr ydoedd gwedd dragwyddol
Ar ddilladau'r weithred ryfedd—gweld Sancteiddrwydd yn ei
wyneb

Wnaeth bererin-feddwl dwyfol yn gydnabod tragwyddoldeb.

Clywaf lais Gwyddoniaeth heddyw'n torri allan mewn gorfoedd
Wrth ddarganfod darnau llwybrau Bydded drwy'r eangder
rhyfedd.

Wrth ymdeithio gyda'r gwllithyn, gwel fod ffyrdd y bychan hwnnw
Laned a phe na buasai gwaith gan Dduw ond fyth eu cadw.

Ac wrth geisio gan belydryn ddangos iddi ei sandalau
Ni wel arnynt olion sangu fyrdd o weithiau ar domennau.

Gwelaf feiddgar law Athroniaeth fel yn agor drws y carchar
I wirionedd newydd rodio'n rhydd ddinesydd ar y ddaear.
Gwelaf hi yn sylwi'n fanwl ar ei wisg ac ar ei wyneb
Ac wrth sylwi'n gweld Dwyfoldeb yn ymrythu yn ei ardeb.

Gall gwirionedd fynd i garchar, ond nis gellir rhoi am dano
Wisg carcharor—llosgid honno gan y sanctaidd dân sydd ynddo.

Y mae gwenwisg am bob amcan dwyfol lwybra drwy yr oesoedd,
Gwyndra honno sy'n gynhesrwydd iddo yn ei deithiau filoedd,
Gweled honno bair i enaid ei gymeryd yn ei fynwes,
Cyffwrdd ynyl hon sy'n gwella dwylaw gwahanglwyfus Hanea.
Gofal am y wisg sy'n codi hiraeth am ei gartref ynddo,
Dyna'r pam yr ymawyddda "gyda Duw" gael bythol drigo.

Enfawr ydyw un meddylddrych dwyfol yn y byd allanol;
Nis gall llestri lle ac amser, er eu bod mor fawr-gynhwysol,
Ddal ond darn o un drychfeddwl, ac mae hwnnw'n troi ei wyneb
Megis i gyfeiriad cartref pan yn troi at dragwyddoldeb.

Er mor fawrion yw'r meddyliau, rhedant oll mewn gwirgyfochredd,
Ac mae'r cyfan o fewn Meddwl Duw yn aros mewn tangnefedd.
Nis gallasant hwy gyd-drigo ond mewn *Cysegrr* gyda'u gilydd,
Mae Sancteiddrwydd Duw'n cysgodi ei feddyliau yn dragwydd.

Y mae oesau llwythog Amser yn defnyddu dafnau breision
Ar hyd lethrau rhyfedd bywyd, ac y mae'r cawodydd trymion
Weithiau'n troi cyfeiriad Hanes, sydd o'i le fel mab afradlon,
Tua chartref yn ystyriol; pwy sy'n casglu y dyferion
I gostrelau llawn yr oesau? Trefnwyd Exodus y dafnau
O wybrennau Tragwyddoldeb gan Sancteiddrwydd yn benodau.

Chwilier cyrrau Creadigaeth, onid oes egnion filoedd
Yn ymlwybro drwyddi'n gyson, ond a welwyd drwy yr oesoedd

Ddeddf yn crwydro? neu ganfyddwyd gwyrth wrth dramwy
drwy'r eangder

Fel dan erledigaeth deddfau yn dod heibio cyn ei hamser
I'w chyhoeddiad? Na, ni chafwyd gwyrthiau'n euog o drespasu—
Pe yn teimlo pwys euogrwydd byddent wedi eu parlysu.

Mae y ddeddf sy'n gweithio'n gyson wrth yr awr ac wrth y funud.
Ac mae'r wyrth sy'n negeseua drwy randiroedd bod a bywyd,
Wedi cychwyn o'r un cartref, er nad hawdd mewn creadigaeth,
Yn y dillad gwaith ar neges ydyw gweld y gydnabyddiaeth.
Mae cysondeb y gweithgarwch, a phrydlondeb yr ymyriad,
Yn ganlyniad sy'n cyfodi o Sancteiddrwydd yr ordeiniad.

Yr oedd llwybrau ymadferthion elwir gennym yn ufudd-dod
Wedi eu llinellu allan gan Sancteiddrwydd Duw yn barod.

III.—SANCTEIDDRWYDD AT DDUW.

Dacw enfys draws y wybren. Pa beth ydyw? Ai gobennydd
I Brydferthwch crwydrol gurid gan ryferthwy garw'r tywydd
Orffwys arni? Cilia ymaith; yn y byd nid oes i geinder
Mwy na'i Arglwydd le i rod-di pen i lawr ond am fyr amser.

*(a) Sancteiddrwydd meddyliau Duw yn cystrif
am eu hafonyddwch a'u pererindod.*

O Brydferthwch, mor aniddig yr edrychi ar ein daear;
Yn y gauaf gwelaf di yn gorffwys ar yr eira hawddgar.
Wedi colli hwnnw crwydri gydag Ysbryd Adgyfodiad
Drwy tynwentau yn y gwanwyn, a dy olwg fel amddifad
Clwyfus fel yn disgwyl blodyn daflu'r dillad bedd ar fyrder
I'th goffeidio, grwydryn dwyfol. A! mae osgo anesmwythol
Ym Mhrydferthwch tra yn crwydro drwy dymhorau byrion Amser.

Ni oddefir i Gadernid orffwys dan y mynydd llonydd
Tra bo Ysbryd y daeargryn yn gwneyd cysgod o'i obennydd,
Na, mae'n rhaid cael "Daear Newydd" cyn y caiff Cadernid
orffwys—

Nid yw yntau ond pererin blin yn disgwyl am baradwys.

Ond paham mae'r pererinion mor anesmwyth?—onid hiraeth
Am y nef a Duw sydd arnynt? A! Sancteiddrwydd Creadigaeth
Sydd wrth wraidd eu hafonyddwch—Ef sy'n gwneuthur yr
anialwch

Yn rhy arw a digysur i wneyd cartref i Brydferthwch.

Mae rhyw Afon loew'n llifo drwy ddyffrynnoedd dyfnion Amser,
Rhaid yw dilyn ei throadau hyd y nef cyn ceir ei haber,—
Gwlith-feddyliau sanctaidd Duw ddyferwyd dros lechweddau'r
oesau

Yn ymlifo tuag adref ydyw'r afon; amgylchiadau

Dynol ydyw'r myrddiwn brigau gerrir megis ar ei gwyneb—
Wrth eu cludo golchir hwy yn lân ar gyfer tragwyddoldeb.

Pwy fu'n torri gwely'r afon, drwy'r dyffrynnoedd celyd dyfnion,
Ai sancteiddrwydd calon-ysol?—Ef fu'n casglu'r dyrfa wllthion.

Y mae ochr nefol hanes byd tymhestlog heddyw'n llithrig,
Gwnaed o balmant caled daear nef-lithrigfa fendigedig
Gan Sancteiddrwydd fel y gallo bywyd lithro i'r nefolfyd
Wedi iddo roi ei gamrau unwaith ar y llwybr hyfryd.

Draw fan acw, wele weithdy; yn ei ymyl mae'r tyloty;
A cherllaw i'r ddau sefydliad—gwelaf furiau y masnachdy;
Gwelais ddoe y gweithiwr dewr yn llawen dalu treth y tlodion;
Wedi hynny gwelais eneth y masnachwr gyda rhoddion
Yn ei llaw yn dringo fyny i'r tyloty er cyflwyno
Aur afalau i ddolurus law cyfeilles fach oedd yno.

Gall y tri sefydliad heddyw sefyll oll gerllaw eu gilydd,
Gall y tri gymuno hefyd; pwy fu'n torri draws y mynydd
Lwybr i ddyngarwech rodio i'r tyloty? Ar y gweithdy
Pwy fu'n gosod feichiau ereill? Pwy fu yn darparu llety
Glân i gariad yng nghalonau gweithwyr a masnachwyr
gwledydd?

Onid tân Sancteiddrwydd dwyfol lysg o hyd ym mherthi'r mynydd
Sydd yn gwneyd ei awel oerllyd yn gynhesol i do-turi?
Onid ef drwy gyrrau bywyd gyda'i law ei hun fu'n rhoddi
Seddau Cariad yn eu lleoedd? Ac efe â'i dyner ddwyllaw
Sydd i bob ymwelydd nefol wêl y byd yn estyn croesaw.

Wedi i Sancteiddrwydd sangu llawr masnachdy, troa hwnnw
Yn y fan yn gysegr prydferth,—yna clywir ef yn galw
Duw i mewn i'r eglwys newydd—wedi iddo roi'r Secina
Yn ei le, "At Dduw i aros" ydyw ei ymadrodd cynta.

(b) *Sancteiddrwydd yn bugeilio bywyd
i'r nef hyd groesfordd.*

Gwn, Sancteiddrwydd, na buaset byth yn aros ar ein daear
Ond er mwyn bugeilio bywyd crwydrol â'th fugeil-ffon hawddgar,
"Daear Newydd" fendigedig—Mynydd Seion yr holl oesau—
Yno yr arweini fywyd i'r porfeydd hyd rai mae llwybrau

Duw ei hun yn ymlinellu. Fugail Duw! mae ar dy ysgwydd
Heddyw braidd colledig truaïn. Cerri drwy y garw dywydd
Yn dy fynwes gynnes fywyd sydd yn methu gan ei flinder
Lwybro gyda'i draed dolurus i'r porfeydd sydd ar ei gyfer.

Sabbath ydyw; clywaf glychau'r llan yn galw i'r addoldy,
Sylwer ar y pererinion fel y maent yn dod i fyny
Tua'r Mynydd yn dyrfaoedd; un yw'r gynulleidfa heddyw.
Nid y gof neu'r saer a welaf, ar y Sul *addolur* ydyw.

Daear sydd yn tafu enwau gwahaniaethol ar y gwyneb,
 Dyddiau gwaith y byd sy'n cuddio cysylltiadau tragwyddoldeb;
 Ar y Sabbath—dydd Sancteiddrwydd—gwelaf ddaear oll yn
 gyfan,

Nid oes un ond ffordd yr Arglwydd yn y byd yn ddigon llydan
 I ddynoliaeth rodio ynddi—ond fe dorrwyd gan Sancteiddrwydd
 Lwybr bydol tuag ati—llwybr gwyn a glân dyledswydd.

O, Sancteiddrwydd bendigedig, ar y ddaear bechadurus,
 Rhodio croesffyrdd raid it beunydd; mae "ffordd fawr" y byd
 blinderus

Yn cyfeirio i drueni; nid yw'th lwybrau gwynfydedig
 Di yn rhedeg mewn cyfochredd gyda honno—dyna'r unig
 Ffordd nas gall yr Arglwydd gerdded—fedd addewid fendigedig
 Duw mo'r hawl i sangu arni,—gorchymynion dwyfol feiddgar
 Fethrir beunydd ar ei phalmant, nid oes ond trugaredd hawddgar
 O holl deulu'r nef yn gallu cerdded hyd y ffordd ofnadwy,
 Ac mor anhawdd yw i honno sydd mor ddwyfol o deimladwy
 Rodio hyd y fan y sengir deddfau glân gan anstyriaeth—
 Gall trugaredd fynd a sangu bron ar drothwy colledigaeth!

(c) *Sancteiddrwydd yn gwneyd diaybi o fywyd dryw
 beri i'w amgylchiadau ei ogwyddo at Ddaew.*

Byd y llwybrau ydyw'n daear, olion camrau pererinion
 Yw ei myrddiwn digwyddiadau; bywyd sydd yn mynd yn gyson
 Fel curiadau distaw calon; afreolaidd fel breuddwydion
 Ydyw ei wersylloedd rhyfedd; i ba le mae'r byd yn myned,
 Dros ba hyd a thrwy ba leoedd rhaid i gymeriadau gerdded
 Cyn gorffwyso? Y mae'r Cread oll yn symud*—oes atalnod
 I benodau pererindod? oes rhyw nod i'r mynd a'r dyfod?
 Ai rhyw gwrwgl-lestr bychan heb na llyw nac angor iddo—
 Heb fod cyfeiriadau ganddo—heb fod cyfrifoldeb ynddo
 Ydyw bywyd? Ynte llestr dry awelon gwylltion nwyfus
 Amgylchiadau'n fantais iddo gyrraedd hafan dangnefeddus?

Clywaf lef oddiar ganllawiau'r Nef yn rhoddi i mi ateb—
 "Y mae popeth yma'n aros; deil blodeuyn dragwyddoldeb
 Ar ei ddeilen heb ddiffygio; mae'r cymeriad fu'n aeddfedu
 Mewn ystormydd ar y ddaear, bellach wedi gorffen gwynnu—
 Aros fydd ei hanes mwyach; Duw yw diwedd pererindod,
 A'i Sancteiddrwydd ef sy'n gwneuthur nef yn babell y cyfarfod."

Un gorchymyn fedd ystormydd garwaf bywyd—yr un hwnnw
 Hefyd roddir gan wynfydau'r yrfa; clywaf lef yn galw

* "Some far off divine event
 To which the whole Creation moves."—*Tennyson.*

"Byddwch Sanctaidd" o'r corwyntoedd—y gorchymyn yma ydyw
 Adnod seiat yr egnion sy'n rheoli'n daear heddyw;
 Gwelais amryw gyfeithiadau o'r gorchymyn—gwelais lili
 Deg yn dangos ei chyfeithiad—dyna ydoedd, perarogli;
 Gwelais nant yn rhoi dehongliad iddo—dyna ydoedd, llifo;
 Aros, ydoedd un y mynydd; deddf a roddai peidio huno.
 Un y sant a hoffem oreu—gwelem yn ei fyw a'i siarad
 Ystyr ddyfnaf y gorchymyn—"mynd at Dduw" oedd ei
 ddehongliad.

Bydd mynyddau'r byd yn disgyn rywbryd ar hyd risiau'r nosau
 I'r diddymdra o'r lle daethant; bydd myrddiynau "ser y borau"
 Yn cydganu'r troion olaf gyda'u gilydd mewn angladdau.
 Bydd Sancteiddrwydd wedi arwain praidd yr Arglwydd oll cyn
 hynny

I'w gorffwysfa nefol dawel; wedi'r olaf ddod i fyny
 Tua'r nef yn llaw y bugail—ymollynga'r greadigaeth
 Wedi cael i'w glendid wynfa, ac i'w pechod golledigaeth.

Pwy sy'n clywed swn cerddediad trystfawr barn yn y pellderau
 Ac yn cilio o'i chyfeiriad? Pwy sy'n gweled trugareddau—
 Disgyblesau cudd Sancteiddrwydd yn dod ato yn y nosau,
 Ar ol bod drwy'r dyddiau'n dadlu yn Sanhedrim galed barnau
 Dros i lwybrau'r byd anuwiol gael eu cadw'n gyfan iddynt
 Heb i farnau a'u cerddediad trwm gael sangu unwaith arnynt?
 Onid sant? Ni chlyw yr halog daran barn hyd nes i fellten
 Ddialeddol losgi ymyl gwisg ei bechod. Ar y domen
 Mae byddardod yn pabellu; O, Sancteiddrwydd, ti sy'n peri
 Fod y sant—dyn gweld a chlywed—at ei Dduw yn dringo fyny

Ryw ben-borau rhodiai gweddi ddwys rhyw sant yn llaw y
 wawrddydd,

Clywodd honno hi yn siarad wrthi ei hunan yn y tywydd.
 Gweddi hen bererin ydoedd dros y bachgen drwg afradlon,
 Cael y ffordd at hwnnw'n fuan a ddymunai yn ei chalon;
 Ond er crwydro'n llaw y wawrddydd, nis gallasai honno ddangos
 Iddi ym mha le yr ydoedd yr afradlon drwg yn aros,—
 Aeth pelydryn o Sancteiddrwydd ryw fin nos i galon galed
 Y gwrthgiliwr—gwelodd hwnnw weddi'r tad yn dod a myned;

Gwelodd hithau drwyddo galon yr afradlon ac aeth iddi,
 Ac yn fuan y mae yntau y tro cynta'n anfon gweddi
 At ei Arglwydd; y mae honno yn ei llaw yn dal goleuni
 Roddwyd iddi gan Sancteiddrwydd, ac yn llewyrch hwnnw rhodia
 Gweddi gyntaf mab afradlon at orseddfaine y Jehofa.

Mae pob llusern sydd gan fywyd crwydrol heddyw'n oleuedig
 Wedi ei goleuo iddo gan Sancteiddrwydd bendigedig.

Wele'r Diwedd! Y mae Amser fu yn pwyso ar golofnau
 Creadigaeth wedi colli ei gynhaliaeth. Mae'r eneidiau
 Pererinol elent heibio iddo wedi dwyn ei olud
 Oddi arno,—yntau'n dlotyn gwan a llesg ar ddiwedd bywyd;
 Mae ei deulu gorluosog wedi myned—y materol yn eu beddau,
 A'r ysbrydol wedi ffurfio priodasol gysylltiadan
 Yn y tragwyddoldeb uthr. Huned bellach, nid oes mwyach
 Blentyn eisieu cardod ganddo. Huned, riant digyfeillach.

Wele bopeth yn ei gartref; wele ddiwedd pererindod,
 A phellafoedd bod a bywyd bellach wedi cydgyfarfod.

(d) Sancteiddrwydd weith aronin ei braidd
 i'r Dduw Newydd i aros byth.


I ba le yr aeth drygioni wnaeth holl ffyrdd y byd yn fudron?
 Lle mac'r nosau fu'n bugeilio byd-obeithion & breuddwydion?
 Lle mae y cymylau duon fuont fel symudol fryniau
 Hyd wybrennau llwythog Amser—teithient hyd gyffelyb lwybr-
 Ar y ddaear orthrymedig—ai uffernau y gorffennol [au
 Wedi eu cydgasglu ydyw'r Uffern bery yn dragwyddol?


I ba le yr aeth Cadernid wedi colli'r graig a'r mynydd?
 Ym mha le y mae'r taweledd welwyd gynt ar ruddiau hwyrdydd?
 Ym mha le gorffwysodd Ceinder noson angladd lili olaf
 Gerddi'r ddaear? A Thynerweh, wedi iddo'r tro diweddfaf
 Drin archollion corsen ysig? Clywaf lef yn dod yn ebrwydd
 Ag atebiad o'r gogoniant. Y mae teulu glân Sancteiddrwydd
 Oll yn aros gyda'u gilydd gerbron Duw; yn sancteiddiolaf
 Nef y nef *cjfferfydd* teulu pereriniol Duw'r tro cyntaf.

Wele'r Dechreu! Daear Newydd fendigedig sydd yn disgyn
 Oddiwrth Dduw; mor ddieithr ydyw! Syller funud ar y blodyn
 Dyf fan acw—nid oes *llwchyn* ar ei ddeilen. Pwy sy'n gorffwys
 Arno mewn tangnefedd nefol? Fu, tuallan i Baradwys,
 Rywbryd rywbeth tebyg iddo? Do, Brydferthwch, bu dy gysgod
 Ar flodeuyn yr anialweh; ai y llwchyn oedd yn dyfod
 Gyda'r awel heibio hwnnw ydoedd yn dy anesmwytho?
 Ar flodeuyn Daear Newydd *sanctaidd* gwelaf di'n gorffwys.

Beth oedd diben gosod Cread yn yr anherfynol wagle?
 Onid er i lu meddyliau Duw gael ymdaith oddicartre?
 Beth oedd diben pontio dinistr pechod gydag iachawdwriaeth?
 Onid er i Gariad dwyfol rodio hyd-ddi & i genhadaeth.?

Ond nis gallai heddfeddyliau Duw fod byth mewn gwisg o fater,
 Ac nis gallai Cariad aros ar y bont ar ol i Amser
 Beidio mwyach—nid oes lle i gynulleidfa fawr Sancteiddrwydd
 Aros byth ond gyda Duw dan gysgod goleu ei berffeithrwydd.





YR EIDYDD (AIRIONNYDD).

(Yr Eiddiwrch ym 1890.)

Y LLENOR.

" I WYBOD DOETHINES AG ADDYSG."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN

LLYFR VIII.

DAU ADRODDIAD.

Y NOS.

DINASOEDD DISTAW YUCATAN.

DEWI WYN O EIFION.

ROBERT BURNS.


ADDYSG MOZART.

I FYNY'R RHEIN.

Gwasg:

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

—
HYDREF, 1896.



C Y N H W Y S I A D .

Wyneb-ddarlun,—“*Y Grisiau Rhufeinig.*”

(Ym Mwlich Tuthiad, rhwng dyffrynoedd yr Arthro a'r Eden, sir Feirionnydd).

DAU ADRODDIAD.

Darluniau,—*Adfeilion Castell Penrice, Grôyr; porth Coleg Prifysgol Cymru.*

HANES CYMRU,—o ormes dosbarth i lywodraeth gwerin; o'r castell i'r brifysgol.

Graddau yn hanes Addysg Cymru,—(1) addysg gan rai oddiallan o dosturi, (2) hunan-addysgu er mwyn crefydd, (3) hunan-addysgu ar gyfer y ddau fydd; hynny ydyw (1) ysgolion elusen, (2) ysgol Sul a cholegau enwadol, (3) cyfundrefn addysg orfodol a Phrifysgol Cymru.

I. “Brad y Llyfrau Gleision,” yn 1847. Ymchwiliad elusengar i achos addysg oherwydd estyn yr etholfraint yn 1832. William Williams yn galw sylw at gyflwr Cymru. Y llywodraeth yn gofyn am adroddiad. Y “Brad.” Darlun o addysg elfennol gwlad bron yn anwaraidd. Yr iaith Gymraeg yn brif rwystr addysg a gwareiddiad. Ambell gipolwg yn dangos nad oedd gwyr y llyfrau gleision yn deall eu pwnc. Cydymdeimlad John Ruskin.

II. Adroddiad Pwyllgor Arglwydd Aberdâr, yn 1881. Yr angen am ysgolion canolraddol a phrifysgol. Y tystiolaethau,—eu dyddordeb fel profiwyddoliaethau. Cymru'n hawlio addysg oherwydd nerth ei meddwl, nid oherwydd ei dlodi fel o'r blaen. Cyflawnhau'r iaith Gymraeg fel moddion dyrchafiad Cymru. Gosod seiliau'r dyfodol. Llawenydd John Ruskin.

Paham na ddaeth prifysgol tan 1896,—drwgdybiaeth enwadol, Coleg Dewi Sant a Choleg Prifysgol Cymru'n anghydnarus, difyg undeb cynlluniau.

TUDALENNAU 5—16.

Y NOS.

Darluniau,—*Porth yr Ogof, Llwydnos ar y bryn.*

Suddo i hyfryd ddistawrwydd y Nos; y Nos yn dangos hunan a'r nefoedd. Beth yw neges y planedau? Cân yr eos. Ymdaith yr enaid drwy heddfreuddwydion. Y Nos fel cysgod pethau chwerwon,—adfyd, y fywent. “Ni bydd nos yno.”

TUDALENNAU 17—24.

DINASOEDD DISTAW YUCATAN.

Darluniau,—*Pyramidiau Palenque, Ffynnon ym Mexico, Tyfiant Savanna, Ar y Rio Dolce, Dyffryn yn Vera Cruz, Pyramid Chobula.*

Dinasoedd distaw canolbarth America; dull eu pyramidiau. Delwau ac arwyddluniau Copan,—hanes heb ei ddarllen. Dinas anghyfaunedd, ei henw wedi ei gollu. Adfeilion a phalasaau Quiche. Son am ddinas lle y siaredid iaith y dinasoedd distaw eto. Palenque ac Uxmal,—tyfiant ffrwythlawn y wlad yn eu cuddio. Pwy ydyr pwy a'u cododd, a beth yw meddwl yr ysgrifeniadau? Cais Dr. le Plongeon i'w darllen,—hanes hyn na'r Beibl, hanes bore'r ddynol ryw, hanes y diluw. Ai mud fydd iaith y dinasoedd distaw byth?

TUDALENNAU 25—42.

DEWI WYN O EIFION.

Chwe llythyr fhwng Dewi Wyn a J. R. Jones o Ramoth ynghylch emynnau; barn Dewi Wyn am eiriau sathredig; afreoleidd-dra cynhyrifiadau'r awen.

A oedd awdwr awdl *Elusengarwch* yn gybydd? Ei ymroad i gasglu cyfoeth ar ol chwerwi wrth feirniaid eisteddfodol; ei lwyddiant, ffrwyth gonestrwydd. Ei lythyr at Owen Williams y Waen Fawr,—eto profion i ddangos ei haelioni benyddiol.

Dewi Wyn a chaneuon serch; a fu efe mewn cariad erioed?

TUDALENNAU 43—56.

ROBERT BURNS.

Canmlwyddiant Burns. 1759—1796. Ei fywyd yn hawdd ac yn anhawdd ei ddeall.

Ei febyd mewn lle anghysbell; ei dad cywir, ei fam dyner. Llafur caled, ei gân gyntaf. Ofni dydd y rhent. Symud i fferm fwy, ymdrech chwerw; Burns yn ceisio tyfu a thrin llin.

Tralldion ei dad. Troi oddiar lwybr rhinwedd. Caneuon serch a gwawd gerddi. Jean Armour a Highland Mary. Tlodi, ing, parotol i ymfudo. Cyhoeddi llyfr; ei adnabod fel bardd cenhedlaethol yr Alban. Ei ganeuon "Nos Sadwrn y Gweithiwr" a'i "Lygad y Dydd."

Gadael yr aradr i fynd am dro i Edinburgh. Cyfarfod Clarinda; dod yn ol i briodi Jean Armour; ymsefydlu yn Nithsdale fel amaethwr a thollwr,—ar lwybr ei dad. Hiraeth am Highland Mary, methu talu rhent, aflechyd, yr hen bechodau. Ei genedlgarwch, a'i gydymdeimlad & hawliau dyn. Ei ganeuon olaf, a'i farw.

Lle caneuon Burns mewn llenyddiaeth. Barn Wordsworth am ei fywyd. Cofgolofn ac anfarwoldeb Highland Mary.

TUDALENNAU 57—72.

ADDYSG MOZART.

Darlun,—*Mozart*.

Ei ymdrech i ymberffeithio yn Salzburg,—astudio gwrthbwynt. Y daith i'r Eidal, a'i groesaw. Oerfel awyr ddi-gân Salzburg. Y siwrne tua Pharis,—mewn cariad, ar fin y Chwyldroad, wrth fedd ei fam.

TUDALENNAU 73—78.

AR LAN Y NIL.

TUDALENNAU 79—80.

I EYNY'R RHEIN.

Darluniau,—*Eglwys Gadeiriol Cologne, Cologne, Rolandseck, Bingen, Tŵr y Llygod, Castell Heidelberg, Heidelberg a Dyffryn y Rhein, Eglwys Cologne.*

Manteision mynd i dreulio gwyliau ar y Rhein,—er mai rhy hwyr ar y fiwyddyn yr eis i,—amrywiaeth golygfeydd, rhadlondeb, dyddordeb hanesiol, dim traferth gyda iaith nac arian. *Aufantais*, yn ol rhai,—“y mae pawb yn mynd yno.” *Esgusawd* dros ddweyd hanes ysgafn gwyliau dyn diog.


Cologne, ei hanes, yr eglwys gadeiriol, clychau'r eglwys Jesuitaidd. Bore ar y Rhein,—Bonn, y Drachenfels, y Saith Fynydd,—cytraedd Coblenz.

Diwrnod arall ar y Rhein,—y dyffryn cul, y Lurlei, Bingen, Mainz.

Cyrraedd Frankfurt a'r dyffryn uchaf. Blino, ac aros wythnos yn Heidelberg. Ymwelod a Speyer a Worms. Swyn Heidelberg.

Prysuro adre.

TUDALENNAU 81—96.



L. PENRICE, GWYR.

RODDIAD.

yll fu unwaith yn
 yddoedd, ysgolion ac
 saer maen yn newydd
 aw i Gymru i ddeall
 Yn yr hen amser,
 gwr uchel-geisiol; i
 h. Yn ein hamser ni,
 ybodaeth yw gallu; a
 gwlad ag ysgolion ac
 oes dim adeiladwaith
 Nghymru y medrir ei
 ddiarthwch, a chestyll
 ormes hunanol yr hen
 iro adfeilion toredig ei
 yd dyngarwch yr oes
 hog a'i aml gartrefi ef.

Y mae dysg, pan wedi ymbriodi â chrefydd, yn wir, wedi cael cartrefi da,—yn Nhrefeca, yn Llanbedr Pont Stephan, yn y Bala, yn Aberhonddu. Ond am ddysg ei hun, rhyw hen adeilad ar ddod yn anghyfannedd roddwyd at ei gwasanaeth. Coleg Prifysgol Cymru, yn Aberystwyth, yw'r adeilad harddaf, hwyrach, fedd dysg yng Nghymru; ond at letya ymdrochwyr, nid at noddi rhai'n dod i chwilio am addysg, y codwyd ef. Hen westy, os nad wyf yn camgymeryd, oedd Goleg y Gogledd; hen ysbyty oedd Coleg y De, ac y mae ei fywyd cynhyddol yn ymbabellu mewn adeiladau coed. Trown at yr ysgolion canol-raddol eto. Ar hen fur dinas, mewn hen anedd-dy rhy oer hyd yn oed i ysbrydion,—yn wir, ni synnwn glywed fod ambell ysgol ganol-raddol wedi ymgartefu mewn hen ysgubor. Ond waeth beth, y mae Cymru wedi gweled gwerth addysg. Gwel fod ei meibion a'i merched yn colli'r ol oherwydd nad yw cyfleusterau addysg yn eu cyrraedd, gwel nad yw'n cymeryd ei lle gyda chenedloedd y ddaear yn nerth gwybodaeth a daioni, gwel y gall addysg ei chodi i fysg arweinwyr y ddaear,—arweinwyr at feddyliau uwch, at lwybrau newyddion, at ddyfeisiadau wna'r corff yn iachach a'r enaid yn gryfach a'r meddwl yn fwy gorchfygol. Daw adeiladau, ni raid i mi ofni. Y mae pob ardal wedi magu rhywrai gofia am dani; ac, o'm rhan fy hun, nid oes arnaf ofn na welir yng Nghymru cyn hir adeiladau fedr gydmaru â mynachlogydd y canol-oesoedd, ac wedi eu codi trwy yr un cariadus aberth.

O'r castell i'r ysgol rydd, yr un peth yw hynny ag o ormes i lywodraeth y werin. Y milwyr a'r swyddwyr ddysgyblid yng nghastell Llwydlo, y rheini reolai Gymru gynt; heddyw, mewn gwirionedd, rheolir Cymru gan y bechgyn ddaw o'i phrifysgol. Wedi brwydr hir, daeth llywodraeth Cymru i ddwyllaw'r werin; ac arwydd y fuddugoliaeth oedd, nid chwerwder difaol chwyldroad Ffrainc, ond Prifysgol, lle y dysg pob dosbarth o Gymru weithio law yn llaw. Tynnir pob dosbarth mewn amser i hon; a pha beth bynnag fydd ffaeledau meistr tir ac amaethwr, meistr llafur a'r chwarelwr neu'r glowr, yr Eglwyswr a'r Ymneillduwr, byddant yn deall eu gilydd.

Paham y bu Cymru hyd y llynedd heb brifysgol? Tan ddylanwad yr Arab a'r Groegwr, Rhyfeloedd y Groes a'r Diwygiad Protestanaidd, yr oedd braidd bob gwlad wedi cael prifysgol iddynt eu hunain. Paham y cadwyd Cymru heb yr un? Y rheswm oedd hwn,—yr oedd brenhinoedd Lloegr wedi penderfynu llethu'r bywyd Cymreig, ac yr oedd pob castell godwyd yn ateb "Na" i'r hiraeth Cymreig am weled bywyd Cymru yn dadblygu yn ei

O'r castell i'r
brifysgol.

Fie bu'r brifysgol
cyhyd?

ffordd ei hun. Yr oedd traddodiadau prifysgol eto'n hofran o gwmpas neilltuedd tawel Llanelltyd Fawr ar gyrrau Bro Morganwg, yr oedd Tyddewi eto'n hawlio bod yn sedd hen fywyd crefyddol Cymru anibynnol; ond gwaith Harri'r Ail oedd eu hysgubo ymaith, fel y dygibai we pryf copyn oddiar hen ystafell wrth ei glanhau. Rhwng dyddiau Dante a dyddiau Adfywiad Dysg, rhwng y deffroad Cristionogol a'r deffroad paganaidd, daeth ysbryd dysg a'r awen i Gymru; a thra'r oedd Dafydd ab Gwilym yn perffeithio caneuon serch Cymru, ac Iolo Goch yn canu am wladgarwch a hawliau llafur, cymerodd Owen Glyn Dŵr fantais ar y deffroad i hawlio dwy brifysgol i Gymru gyda'i hanibyniaeth.

Pe llwyddasai Owen Glyn Dŵr, buasai Cymru wedi cymeryd ei lle ymysg cenhedloedd y byd er ys pum canrif yn ol; a buasai Prifysgol Cymru yn bum cant o flynyddoedd o oed, ac nid un flwyddyn. Ond suddodd y tywysogion i'r mân ymladdfeydd oedd yn llenwi bywyd eu tebyg yn Lloegr. Gydag esgyniad Harri Tudur i orsedd Lloegr colodd y tywysogion eu cariad at fywyd a llenyddiaeth Cymru, a galarodd Tudur Aled ar ol y tywysog olaf; ac ysweiniaid fel Rowland Fychan o Gaer Gai yn unig a noddent ddysg a llenyddiaeth Cymru; erbyn y ddeunawfed ganrif, nid oedd yswain nad oedd yn ceisio ymseisnigo ar frys, ac ni chafai llenyddiaeth Gymreig well llety na chaban Huw Jones o Langwm neu Elis y Cowper. Tra'r oedd dysg a llenyddiaeth yn cilio fel hyn i leoedd tlotach a thlotach, yr oedd yn prysur dirywio; ac yr oedd y dosbarthiadau uwch, a ymwrthodasant â hi, yn ymddirywio hefyd. Talodd Cymru'n ddrud oherwydd colli'r cyfle i sefydlu ei phrifysgol.

Yr oedd yr uchelwyr yn ymdaro yn eithaf; dysgent hwy Saesneg i gyd, a chyda Saesneg yr oedd swyddi a llenyddiaeth, byd bras i gorff a meddwl, yn agored iddynt. Ond beth am y werin? Yr oedd y werin bobl, i olwg Puritaniaid cynnar fel John Penri, ac i olwg Puritaniaid diweddar fel Richard Baxter, mewn cyflwr gresynus. Nid oeddynt yn gwybod digon i ddeall yr efengyl, yr oeddynt yn rhy ddall i weled y ffordd agorasid i'r bywyd. Tosturiwyd wrthynt; rhoddwyd iddynt Feibl, rhyw fath o lenyddiaeth, ac ychydig ysgolion, oll yn eu hiaith eu hunain. Ond nid oedd y rhain i fod ond am amser, dim ond hyd nes y dysgai pob Cymro gwrthnysig Saesneg. Dan hyn i gyd, yn ddwfn yn natur y Cymro, hyd yn oed pan oedd llenyddiaeth ei wlad dlotaf, yr oedd cariad angerddol at gân. Blodeuai, ambell dro, ar ddechreu gwanwyn oer, ym mywyd truan Goronwy Owen neu ym mywyd mwy heulog Lewis Morris. Ac yn y cariad hwn at gân yr oedd

Dirwyiad llenyddiaeth heb brifysgol.

Gwerin amddifed.

hadau pob dadblygiad meddwl. Ni fu llenyddiaeth Gymreig farw, er i lawer dybied eu bod yn trwsio ei hamdo; gyda deffroad y werin yn y dyddiau hyn deffrodd hithau, mor sicr a fod y blodau'n dod gyda dail y briallu.

Cawn dri chyfnod yn hanes y werin yn y ganrif hon. Yn y cyfnod cyntaf y mae Saeson dyngarol, gyda gwenau'r llywodraeth, yn estyn addysg grefyddol i Gymru, neu yn cynorthwyo i wneyd hynny, oherwydd ei thlodi a'i hanwybodaeth. I'r cyfnod hwn y perthyn ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror, dechreu Coleg Trefeca, a Choleg Llanbedr Pont Stephan. Yr oedd y Cymry'n rhy dlodion i yrru eu plant i Rydychen nag i unman arall; am hynny trugarhawyd wrthynt, yn wannaidd. Yn yr ail gyfnod, y mae Cymru'n ffurfio ei chyfundrefn addysg ei hun ynglŷn â chrefydd; dyma gyfnod perffeithio'r Ysgol Sul Gymreig a chodi'r colegau enwadol. Yn y trydydd cyfnod, araf ymgyfyd y Brifysgol, ac ysgolion o'i hamgylch, i ddangos fod Cymru yn meithrin holl addysg y genedl â'i llaw ei hun. Nid sefydliad oddiallan, wedi ei godi gan dramoriaid trugarog i wareiddio gwlad dywell, ydyw Prifysgol Cymru. Na, blodeuad bywyd meddyliol Cymru ydyw, bywyd y gwelir ei gryfder oddiwrth oerfel y gauaf ac enbydrwydd yr ystormydd oroesoedd. A hyn yw unig amod llwyddiant Prifysgol Cymru,—fod i'w llyswyr gofio mai i ddadblygu bywyd Cymru, ac nid i'w newid, y daeth i fod. Y mae bywyd meddyliol cryf yng Nghymru, a neges y Brifysgol yw ei feithrin. Gall y bywyd wneyd hebddi hi, y mae wedi gwneyd; ond nis gall hi wneyd hebddo ef. Pe tybiai Senedd y Brifysgol mai ei gwaith hi yw oeri sel, ymosod ar wladgarwch, sarhau'r ysbryd cenhedlaethol, ac anwybyddu llenyddiaeth Cymru, ni bydd ei dylanwad ar y werin yn fwy nag oedd dylanwad Prifysgol Dublin ar Iwerddon neu Brifysgol Prâg ar Fohemia. Ond dywed ffydd y Cymro na fradychir ef, ac mai'n goron dadblygiad addysg Cymru yr erys ei Phrifysgol o hyd.

Pan estynnwyd yr etholfraint yn 1832, daroganid y gwnai'r werin bob anghyfiawnder yn ddeddf; ond nodau newyddion y deddfu newydd oedd cyfiawnder, dyngarwch, moesoldeb, addysg, rhyddid. Nid cyfreithloni hen hawliau gormes oedd gwaith y Senedd mwy, ond ystyried cyflwr y gweithiwr, y plentyn, y caethwas; rhoi amddiffyniad i'r diamddiffyn a dysg i'r diddysg. Wrth ystyried deddfau gweithdai, daeth anwybodaeth gresynus ac anfoesoldeb tybiedig y werin i'r golwg. Dechreuodd dyngarwyr amlhau ysgolion gwirfoddol; dilynwyd y *British and Foreign Society* yn 1846

Addysg oddiallan:
deffroad
crefyddol;
deffroad dysg.

Y werin ac
addysg.

gan y *National Society*; ac yr oedd y llywodraeth wedi rhoi ychydig o filoedd o bunnau, ei chyfraniad cyntaf at addysg, yn 1833. Yr oedd cyflwr Cymru'n fwy gresynus, meddid, nag un ran o Brydain; yr oedd addysg elfennol yn llawer is, ac nid oedd ynddi ddarpariaeth at addysg uchraddol o gwbl. Gwlad a'i gwerin heb ysgolion oedd, a gwlad a'i dysgedigion heb Brifysgol. Tybid nad oedd anwybodaeth dyfnach na'i hanwybodaeth hi, ond anwybodaeth ei llywodraethwyr am dani.

Mawrth 10, 1846, galwodd W. Williams, yr aelod dros Coventry, sylw at gyflwr Cymru; a'r canlyniad fu i'r Llywodraeth anfon tri Sais i barotol adroddiad. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn dair cyfrol drwchus yn 1847, ac anfarwolwyd gwaith y

"Brad y Llyfrau
Gleision," 1847.

dirprwywyr dan yr enw "Brad y Llyfrau Gleision." "I ystad addysg yn nhywysogaeth Cymru, ac yn enwedig i'r moddion sydd gan y dosbarth gweithiol i gael gwybodaeth o'r iaith Saesneg" yr oedd yr ymchwiliad i fod. Cymerai'r dirprwywyr yn ganiataol mai'r cam cyntaf i godi Cymru i wybodaeth a gwareiddiad oedd difodi'r iaith Gymraeg. Danghosant fod cariad angerddol yng Nghymru at yr iaith Gymraeg ac at yr Ysgol Sul, ac eto dywedant mai'r rhain sy'n gyfrifol am ddau bechod mawr Cymru,—yr iaith Gymraeg am ei hanwiredd,* a'r Ysgol Sul am ei haniweirdeb.† Enynnodd yr adroddiad ddigllonedd pob un oedd yn adnabod Cymru, a bu Ieuan Gwynedd, yng nghanol pryder anesgrifiadwy, yn prysur chwilio am y gwir i'w ddangos.‡ Mewn cyfeiriadau ereill; enillodd yr adroddiad dosturi, yn wir dyna ei amcan; ac y

* "Perjury is common in courts of justice, and the Welsh language facilitates it; for, when witnesses understand English, they fail not to do so, in order to gain time in the process of translation to shape and mould their answers according to the interest they wish to serve. Frequently neither the prisoner nor the jury understand English; and the counsel, nevertheless, addresses them in English, and the judge sums up in English, not one word of which do they often understand. There is no remedy for this state of things except the propagation of the English language."

† "The Welsh language is peculiarly evasive, which originates from its having been the language of slavery."

Geiriau clerig ynadon Llanbedr, a rhyw E. C. Ll. Hall, yw y rhain; dyfynnir hwy gan y dirprwywr yn ei adroddiad,—Rhan II., tud. 61.

‡ Adr., Rhan II., 52. Tystiolaeth Deon Tyddewi a Churad Troed yr Aur.

§ Yr oedd ei blentyn a'i wraig yn gwywo'n raddol. Dyma'r adeg yr ysgrifennodd ei *Gathlau Blinder*. Edrydd un pennill o'i "Beth yw Siomiant," y bedwaredd gathl, ei hanes ei hun pan yn dadlennu Brad y Llyfrau Gleision,—

"Beth yw siomiant? Tad yn edrych
Ar ei faban tlws, di-nam,
Arno'n gwenu, yna'n trengu,
Pan ar fron ei dyner fam.
Beth yw siomiant? Sylwi 'mellach
Ar y fam yn wyw ei gwedd,
Ac yn plygu, megis lili,
I oer wely llwm y bedd."

mae ambell beth yn nalennau aml y llyfrau gleision sy'n ddigon i ddangos nad oedd y dirprwywyr yn deall eu pwnc,—rhyw gipolwg ar wir fywyd Cymru ac ar ei gwir ddyheadau.*

Ond y peth cyntaf i'w gofio am lyfrau gleision 1847 yw mai amcan addysg oedd difodi'r iaith Gymraeg a neilltuolion y Cymry. "Y mae'r iaith Gymraeg yn rhwystr enbyd i Gymru," ebe un o'r dirprwywyr, "ac ar ffordd cynnydd ei moesoldeb a'i llwyddiant masnachol. Nid yn hawdd y gor-ddarlunnir ei heffeithiau drwg. Iaith y Cymry yw, a hŷn na iaith yr hen Brydeiniaid.† Nid oes unrhyw lenyddiaeth Gymreig werth sylw mewn bod. Y mae drwg yr iaith Gymraeg yn amlwg neilltuol yn llysoedd cyfraith, y mae'n darnio'r gwir, yn ffafrio twyll, yn cynorthwyo anudoniaeth,—peth cyffredin yn y llysoedd, a pheth ddianga trwy ddiangfeydd cyfieithiad." Yna dengys mor hawdd fusai i ysgolion ddifodi'r iaith Gymraeg,— "this disastrous barrier to all moral improvement and popular progress in Wales." Yr ail beth i'w gofio am y llyfrau hyn yw,—enillasant dosturi trugarog ond anwybodus y Saeson, a deffroasant y Cymry eu hunain. Yn un o'i lyfrau mwyaf poblogaidd, galwodd John Ruskin sylw merched Lloegr at cyflwr Cymru.‡ Tybia yntau y pryd hwn mai Seisnigo'r wlad fyddai ei hiachawdwriaeth.

Peth eithaf anymunol, mewn gwlad lle mae ei bywyd yn tyfu i'w weled, yw byw'n rhy hir wedi dweyd yn gadarn beth ddylai'r

* "Observing that the income of the school was only £20, derived entirely from school fees, while 12 children are taught gratis, I expressed surprise that he should risk loss by entrusting the care of his business to servants, and, for a pittance which few masters of any ability would accept, devote his whole time to the school. He replied,—“Well, sir, my wife look after the mill; and I do love the children and I do love my country.” I ascertained that the good man is in all probability losing, by devoting his time to the school, and that there is no doubt about the genuineness of his sentiments.”

John James (Rhan III., tud. 132) am Lanuwchllyn.

† Adroddiad un o'r prif ddirprwywyr,—Jelinger C. Symons. II., 66. Nid rhyfedd ei fod yn dweyd ymhellach ymlaen nad yw sir Faesyfed yn Geltaidd, a fod amheuaeth am dref Aberteifi; nid rhyfedd ei fod yn profi nad oes llenyddiaeth yng Nghymru oddiwrth eu rhestr lle y cyfieithant *Gardd o Gerddi yn Garden of Gardens*.

‡ "Just on the other side of the Mersey you have your Snowdon, and your Menai Straits, and that mighty granite rock beyond the moors of Anglesey, splendid in its heathery crest, and foot planted in the deep sea. once thought of as sacred—a divine promontory, looking westward; the Holy Head or Headland, still not without awe when its red light glares first through storm. These are the hills, and these are the bays and blue inlets, which, among the Greeks, would have been always loved, always fateful in influence on the national mind. That Snowdon is your Parnassus; but where are its Muses? That Holyhead mountain is your Island of Aegina; but where is its Temple of Minerva?"

"Shall I read you what the Christian Minerva had achieved under the shadow of our Parnassus up to the year 1848?—Here is a little account of a Welsh School,

dyfodol fod. Y mae llawer yn fyw fu'n traethu eu barn yn 1881 am Brifysgol Gymru; a gellir dal eu proffwydoliaeth a'r cyflawniad wyneb yn wyneb heddyw.

Awst 25, 1880, anfonodd Iarll Spencer at Arglwydd Aberdâr ei fod ef a'i bwyllgor,—Viscount Emlyn, Prebendary Robinson, Henry Richard, John Rhys, a Lewis Morris,—i chwilio ^{Pwyllgor} ^{Arglwydd Aberdâr,} ^{1881.} ansawdd addysg ganolraddol ac uchraddol yng Nghymu. Ymhlith pethau ereill, yr oeddynt i holi a oedd Prifysgol yn angenrheidiol i Gymru, ac a fyddai o wir fudd i addysg uchraddol yng Nghymru. Arwyddasant eu hadroddiad Awst 18, 1881. Yr adroddiad hwn yw sail cyfundrefn addysg uchraddol Cymru; ac mor fuan y dadblygodd hanes Cymru fel y cafodd Arglwydd Aberdâr fyw i weled yr hen freuddwyd am Brifysgol Cymru wedi ei sylweddoli.

Mor bell ag y mae a fynnont ag addysg uchraddol, dywed y dirprwywyr yn ddifloesgni iawn mai bendith fawr i bobl lenyddol fel y Cymry fyddai Colegau Prifysgol. Prin yr oedd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth wedi llwyddo hyd yn hynny; ond nid ystyrient hynny'n brawf nad oedd eisiau colegau ^{Colegau.} o'i fath. Awgryment fod coleg yn cael ei sefydlu yn y De,—yng Nghaerdydd boblog neu yn Abertawe fwy amrywiol ei gweithfeydd; a fod Coleg y Brifysgol i wasanaethu Gogledd Cymru, fel yr oedd yn Aberystwyth, neu wedi ei symud i Gaernarfon neu Fangor; a fod y Llywodraeth i roddi £4,000 yn y flwyddyn i bob un o'r ddau.

Ond pan ddaethant at y cwestiwn pellach a oedd eisiau Prifysgol, nid yw'r dirprwywyr mor gadarn yn eu barn. Gwrandawant yn astud ar y rhesymau yn ei herbyn,—na fyddai'r gradd werth dim, na ddeuai neb o'r tuallan i Gymru iddi, na ddoi'r Cymry goreu iddi ychwaith, y cadwai ^{Prifysgol.} Gymru'n fwy neilltuedig nag erioed. O'r tu arall, dywedid y buasai yn dod ag addysg yn agosach at y bobl, apeliai at y teimlad cenedlaethol a phurai ef, meithrinai wybodaethau cydnaws â natur y Cymry; a hwyrach mai gwell fyddai goleuni canwyll frwyn yn ymyl na goleuni coelcerth

from page 261 of the Report on Wales, published by the Committee of Council on Education. This is a school close to a town containing 5,000 population:—

“ I then called up a larger class, most of whom had recently come to the school. Three girls repeatedly declared that they had never heard of Christ, and two that they had never heard of God. Two out of six thought Christ was on earth now' (they might have had a worse thought perhaps), ' three knew nothing about the Crucifixion. Four out of the seven did not know the names of the months nor the number of days in a year. They had no notion of addition; beyond two and two, or three and three, their minds were perfect blanks.' ”

“ Oh, ye women of England! from the Princess of that Wales to the simplest of you, do you think your own children can be brought to their true fold of rest, while these are scattered on the hills, as sheep having no shepherd.”

Secame and Lilies, pp. 160-162.

ymhell draw. Os Prifysgol newydd, y mae'r dirprwywyr yn rhy ofnus i ddweyd y medrid sylfaenu un. Ond, ebe hwy, y mae Coleg Dewi Sant, Llanbedr, yn rhoi graddau'n barod; cymerer ei siarter ymaith, a rhodder un newydd i Fwrdd, yn cynnwys cynrychiolwyr Coleg Dewi Sant, Goleg Prifysgol Cymru, ac unrhyw goleg neu golegau eraill a fabwysir gan y Bwrdd. A dyna Brifysgol Cymru. Tybient y dylid ystyried hefyd beth fyddai'r cysylltiad rhwng y Prifysgol newydd â'r colegau duwinyddol ereill, ac â merched.

Y mae cyfrol tystiolaethau Dirprwyaeth Arglwydd Aberdâr,—cyfrol drwchus o tua naw cant o ddalennau,—yn un o'r cyfrolau mwyaf dyddorol ddarlennais erioed. Nid oes bosibl

^{Y tystiolaethau.} cael dim rydd esboniad mor lwyf ar feddwl Cymru yn un o adegau pwysicaf ei hanes. Ynddi ceir tystiolaethau llawer o'r caredigion addysg sydd yn awr yn rheoli ac yn medi lle gynt y buont yn ymdrechu ac yn hau. Difyr heddyw, wedi dydd y pryder, yw darllen eu profiadau,—rhesymau y rhai wyddent na fedrid codi Prifysgol Cymru byth; cynghorion ofnus rhai na fynnent Brifysgol, ond a dybient fod bryd eu cenedl ar un; a ffydd berffaith rhai ereill yn ehangder dyfodol y genedl Gymreig.

Mae rhyw bleser prudd mewn ymdroi uwchben tystiolaeth rhai sydd, erbyn hyn, wedi meirw. Cafodd Arglwydd Aberdâr fyw i weled y Brifysgol ar ei thraed; ac efe, gŵr nas gall Cymru byth ddiolch digon iddo, oedd i fod yn Ganghellydd cyntaf. Gyda'r cyntaf o flaen y ddirprwyaeth yr oedd Hugh Owen, yn amddiffyn Coleg y Brifysgol a chyda chynllun i godi ysgolion canolraddol. Ar ei ol daeth Dr. Harper, ymgorfforiad o'r *don* Rhydycheiniol, ond gyda sain rhyw fath o ddiwygiad penchwith yn ei dystiolaeth; mae llond ei eiriau, er hynny, o garedigrwydd a gobaith.* Daeth Deon Bangor i ddweyd mai prifysgol wael fyddai Prifysgol Cymru, nad oedd le i ysgolion sir, mai coleg y Methodistiaid Calфинаidd oedd Coleg Prifysgol Cymru, nad oedd Coleg yr Iesu'n werth dim neilltuol i Gymru, fod perygl i glerigwyr addysgir ym mhrifysgolion Lloegr anghofio'u Cymraeg a pheidio darllen llyfrau Cymraeg. Daeth yr Esgob Hughes o Lanelwy i ddweyd ei fod am newid a diwygio'r ysgolion eglwysig ymhob cyfeiriad, ac i hyderu y gwelid ysgolion canolraddol a Phrifysgol yng Nghymru. Ni wrthwynebai B. T. Williams Brifysgol, ond brwydrai'n bybyr dros rwystro i'r un sect grefyddol dra-arglwyddiaethu. Nid oedd yr

* Cyf. II., tud. 35.

701 (*Professor Rhys*). Have you thought of the difficulty arising out of the uncertainty as to whether a boy would be likely to go on with his schooling or not?

I should not care about that. If a boy were worth educating for the public good I should put it in the power of those who had charge of his teaching to carry his education further; that is where we want Government aid.

Esgob Campbell o Fangor wedi gwneyd ei feddwl i fyny am fanylion; ond ni fynnai er dim wrthwynebu colegau na phrifysgol i Gymru. Daeth Dr. Rees Abertawe i brofi fod hen ysgolion gramadegol Cymru yn proselytio bechgyn Anghydffurfwyr i Eglwys Loegr, ond yr oedd yn barod i arafu er mwyn medru darbwyllo'r Senedd. Yr oedd y teimlad yng Nghaerdydd yn gryf iawn dros y Brifysgol; ac yn sir Fynwy daeth yr hen Galfiniad urddasol David Edwards, Casnewydd, genedigol o Lanuwchllyn, i grynhoi rhesymau ei gyd-grefyddwyr dros gael Prifysgol Cymru,—fod teimlad cenhedlaethol yn rhywbeth, fod Cymru'n hen gartrefle addysg, fod awydd mawr am gael Prifysgol ynglŷn âg enw Cymru, y gwnai Prifysgol i ni geisio dal ein tir gyda Saeson ac Albanwyr a Gwyddelod, y temherai ein cherwder sectol.

Waeth i mi heb osod dwy restr wyf wedi wneyd,—rhestr o'r Cymry sy'n awr yn fyw oedd yn bleidiol i Brifysgol, a rhestr o'r rhai oedd yn ei herbyn,—yn y fan yma. O'r rhai roddasant dystiolaeth; y mae rhai wedi cwbl newid eu barn, a rhai wedi edifarhau. Ond nid oes un o'r rhai oedd o blaid prifysgol wedi newid eu barn. Cred Mr. Stephen Evans eto yn uchelgais bechgyn Cymru, cred Mr. Lewis Williams eto mai Caerdydd yw prifddinas Cymru, mae Mr. Gee yn dal i gynllunio mor egniol ag erioed, ac y mae llu wedi ymdaflu o ddirif i waith y Brifysgol yr hiraethent am dani, y pryderent yn ei chylch, neu yr ofnent ei gweld yn dod.

Wrth ddarllen adroddiad 1847 ac adroddiad 1881, prin y medrir sylweddoli ein bod yn darllen hanes yr un wlad. Yn y naill disgrifir addysg elfennol gwlad farbaraid, ac
1847 ac 1881. enynnir tosturi oherwydd ei thlodi a'i hanwybodaeth; yn y llall dadgenir hiraeth gwlad lawn deall ac athrylith am gyfundrefn addysg berffeithiaf o'r un yn y byd. Yn 1847 darlunnir Cymru fel gwlad briod anudoniaeth a godineb, a'r iaith Gymraeg yn llyffetheirio ei meddwl ac yn pydru ei moesoldeb; yn 1881 y mae Sais fel Dr. Harper, wrth ffyrnig wrthwynebu colegau a phrifysgol iddynt, yn dweyd fod Cymry yn dod o awrygylch mwy coeth, o ran meddwl, na Saeson o'r un dosbarth.*

* Cyf. II., tud. 45.

"Taking the son of a tenant farmer in England of £100 a year, and the son of a tenant farmer in Wales of £100 a year, the son of the tenant farmer in Wales speaks Welsh well and English indifferently perhaps; but if he is sent to school he starts with the advantage of knowing an extra language, and he has been in a home quite as intellectual and caring more for education than the son of the English farmer of £100 a year. If I had to choose between the case of a boy from an English farm of £100 a year and a boy from a Welsh farm of £100 a year, the boy which I believe would win the race between those two is the Welsh boy, and not the English boy."

Ac am yr hen gelwydd difriol mai rhwystr i Gymru yw'r iaith Gymraeg, y mae'r adroddiad hwn wedi rhoi taw bythol arno. Ychydig o Gymry wedi llwyddo mewn dysg neu fasnach oedd i roi tystiolaeth yn 1847; yn 1881 y mae llu ohonynt, a'u tystiolaeth bron yn unfryd mai oherwydd eu Cymraeg, nid er ei gwaethaf, y llwyddasant. Cyfaddefa diweddar Esgob Llanelwy fod medru Cymraeg a bod yn gyfarwydd a llenyddiaeth Cymru'n fantais i fechgyn.* Dywedodd y Milwriad R. O. Jones iddo ef fyned yr holl ffordd o'r Bala i ysgol y Bont Faen oherwydd fod Cymraeg yn cael ei ddysgu yno; a hyn, mae'n ddiamau, esbonia drylwyredd ei waith gyda'r *Ordnance Survey*.† Yn y Bala, daeth amaethwr i roddi ei dystiolaeth yn Gymraeg, ac wrth ddweyd hanes ei fab, dywedodd na fedrai air o Saesneg pan aeth i ysgol y Bala. Y pryd hwnnw ni wyddai neb beth oedd y gŵr ieuanc yn feddwl wneyd, ni fedrai ei dad na'i athrawon gael dim byd pendant am ei amcan; erbyn heddyw y mae mwy na Chymru'n gwybod beth yw amcan T. E. Ellis.‡ Dywedai'r Parch. Hugh Williams, M.A., fod Cymraeg o wasanaeth mawr yng Ngholeg y Bala, ac y dylai gael lle yn y Brifysgol.§ Wrth gwrs, pan ddaeth Deon Perowne i goleg yng Ngheredigion, yr oedd rhai o'r bechgyn yn methu ei ddeall; ni wiw hyd yn oed i esgob neu ddeon gredu ei bod yn Wyl y Pentecost bob dydd. Dywedai'r Prifathraw Edwards, er fod cwynion ynghylch y Gymraeg gyda'r dosbarthiadau isaf, ei bod yn fwy o gymorth nag o rwystr iddo ef gyda Groeg ac athroniaeth.** Fel Deon Bangor, dywed Esgob Tyddewi y dylai clerigwyr ofalu am eu Cymraeg.‡ Dywed Esgob Caer,—y pryd hwnnw'n brifathraw Coleg Dewi Sant,—fod Saesneg Cymro'n dod yn arafach mewn arholiad, ond ei fod yn aml yn burach ac yn well.‡‡ Dywed Esgob Bangor,—y pryd hwnnw'n brifathraw Ysgol Aberhonddu,—ei fod yn gwneyd i'r plant gyfieithu *Drych y Prif Oesoedd*, a fod ol ceinder arddull y llyfr hwnnw ar eu Saesneg.§§ Gobeithia'r Parch. David Rowlands weled Cymraeg ymysg efrydiau Prifysgol Cymru; ond nid oedd pawb yng Ngholeg Aberhonddu o'r un farn ag ef

* Cyf. II., 175. "Welsh is rather a benefit to him?" "Yes."

† Cyf. II., 235. "At which I could keep up my knowledge of Welsh."

‡ Cyf. II., 254.

§ Cyf. II., 291. "You find the Welsh language of assistance to you?" "Yes."

** Cyf. II., 403.

‡ Cyf. II., 440. "The importance of their keeping up, and, let me add, improving their knowledge of their native language. I say improving, because I am afraid a very large number indeed have a very imperfect knowledge of their own language."

‡‡ Cyf. II., 445. "He knows it more purely and scientifically."

§§ Cyf. II., 654. Yr oedd hyn yn ysgolion Llanbedr a Llanymddyfri hefyd.

y pryd hwnnw. O dystiolaeth esgob presennol Llanelwy, y pryd hwnnw'n Warden y Sefydliad Cymreig yn Llanymddyfri, yr oeddwn yn disgwyl mwyaf o wybodaeth ar y pen hwn. Dywed fod llawer o fechgyn yn dod i ysgol Llanymddyfri i ddysgu Cymraeg, hyd yn oed o Benfro Seisnig, gan fod Cymraeg yn angenrheidiol iddynt gyda galwedigaethau eu bywyd, megis mewn banciau. Y mae Llanymddyfri yn un o'r ysgolion diweddaf,— Mawrth 1, 1848, y sefydlwyd hi; ac yn ol ewyllys y sefydlwyd y mae awr o bob dydd i'w roddi i ddysgu Cymraeg. Gwn fod Esgob Llanelwy yn edrych ar waddoliadau fel pethau gweddol gysegredig, ond yn fy myw y gallaf ddeall ei dystiolaeth yn 1881.*

Erbyn 1881 y mae'n amlwg fod gan Gymru fywyd yr ymfalchia ynddo, ac awydd angerddol am gyfundrefn addysg gyflawn, a iaith gwerth ei chadw. Y mae Ruskin, fu'n tosturio wrth drueni Cymru gynt, yn awr mor falched a'r paen oherwydd fod Cymru wedi penderfynu cadw nodweddion ei bywyd.† Y mae'r wlad yn galw am Brifysgol iddi ei hyn. Gwelir oddiwrth benderfyniad a basiwyd gan nifer o eglwyswyr blaenllaw yn yr Amwythig, Ebrill 25, 1876, fod cael prifysgol wedi bcd yn nod o flaen y genedl ers llawer blwyddyn, fod cylchgronau ac Eisteddfodau Cymreig yn dangos mor effro oedd egui meddwl Cymru, a fod addysg yn dioddef oherwydd nad oedd gan Gymru brifysgol. Yn ol penderfyniad nifer o Ryddfrydwyr blaenllaw ymgysfaryddasent yn y Drenewydd, Tachwedd 1, 1882, yr oedd yr amser wedi dod i sefydlu prifysgol genedlaethol. A phan ddaeth y dirprwywyr i ofyn barn Cymru cawsant fod y teimlad bron yn unfrydol yn ei ffafr. Hyd yn oed yn ol tystiolaeth rhai na chredent ynddi, yr oedd y wlad yn hiraethu am weled Prifysgol Cymru. Paham, ynte, y bu awgrymiadau'r Dirprwywyr yn farw am gryn bymtheng mlynedd?

* Cyf. II., tud. 475.

(*Chairman*). With regard to the provision in the deed for the teaching of Welsh, how far is that carried out?—Instead of teaching Welsh regularly every day, we have rearranged the Welsh work.


(*Rev. H. G. Robinson*). Was it a *sine quâ non*, according to the deed, that all the children should learn Welsh?—As far as the terms of the founder's deed go, it was.

You do not adhere to that?—It would be difficult to do so to the letter.

You do not oblige English boys to learn Welsh?—The question rarely, if ever, comes up.

(*Chairman*). And you have considerably reduced the amount of time given to the instruction in Welsh that was required to be given?—We have rearranged the work.

† “Your letter makes me extremely happy and as proud as a peacock,” meddai mewn llythyr ysgrifennodd ataf yn 1886. “It makes me happy chiefly in telling me that there is yet this native Welsh element in its purity and strength. I have believed so always, but of late have feared its being crushed out by manufactures and — education.”




ddol fu'n gymaint o
 llawer mai ffrwyth
 hiraeth am addysg,
 r addysg honno yn
 Sant mewn bod, ac
 veddion prifysgol er
 egr yng Nghymru.
 ac yr oedd llawer yn
 Methodistaidd, oedd.
 fod y ddau hyn i
 teimlad cryf ymysg
 oedd arnynt ofn eu
 n ddiameu, pam yr
 n rhan o Brifysgol
 brodyr pe sefydlid
 odraeth estron mewn
 adgarwch yn tafu
 Cymry yn eu gilydd,

ru'n unfarn am natur
 Prifysgol Llundain,
 fydd? Os dysgu, ai
 prifysgolion yr Alban;
 Lloegr?
 wch.



CYMRU.



ddi-ser, a di-eneinlad."

N O S.

yn di,
yn i;
gun.
awel
wel;

yn beichio'r gwynt.

Nid yn y nos mae defnydd ofn a braw,
 Mae'r nos mor sanctaidd weithian ag oedd yn Eden draw ;
 Y mae ei ser yn crynnu ar dannau 'i thelyn hi
 Yn awr mor beraidd ag erioed. Ond sut na chlywaf fi
 Y greol, wreiddiol, anthem ? Ha ! *ynnof* fi mae'r ofn,—
 Mae'r braw yn cysgu'n effro yng nghiliau 'm calon ddofn ;
 O ! am y pur sancteiddrwydd eill ddeffro'm natur oll,—
 Y cariad tanbaid hwnnw eill fwrw ofn ar goll ;
 O ! am y feinglust honno eill wrando'r anthem dlos,
 O ! am y llygad hwnnw eill weled --“ yn y nos !”

Mi wela'r Dydd yn suddo yn ei fri,
 A'i fyw rosynau ar ei ol yn llu
 Yn gwrido ar ei fedd ; mae ei gymeriad
 O'i ol yn llawn o flodau'r adgyfodiad.
 A dacw'r Nos yn araf ddringo i'r orsedd,
 A'i gwisg yn cuddio'r ddaear mewn tangnefedd.
 Mae llygaid byd yn cau. Beth yw ei brofiad
 Ar ol y llydan ddydd ? A yw ei lygad
 Yn troi i fewn ? Ai onid galw allan
 Wna'r Dydd, tra hithau'r Nos at ddyfnder hunan
 Yn galw i fewn—yn galw, galw'r dyn
 Fel drwy bob nos i ddyfod ato'i hun ?
 Mae'n werth i ddiffodd Dydd er 'nabod hunan ;
 Trwy ddyfnder dyn mae'r ffordd i rodio allan ;
 Ai onid cysgu'r ydym yn y Dydd,
 A'r Nos yn effro ym mysg engyl rhydd ?
 Y Dydd sydd yn ein cadw gyda'r llawr,—
 Y Nos sy'n dangos inni'r nefoedd fawr ;
 Y Nos sydd yn ein harwain â'i thawelwch
 At fwsig per cymdeithas y dirgelwch.

Disgynna'r llenni tyner dros y wlad
 Fel mentyll hun o dyner ddwylaw Tad ;
 A'r byd a ddychwel adref. Dychwel dyn
 I'w fwthyn i anghofio 'i lafur blin ;
 Yr anifeiliaid gyniweiriant draw
 Yn llu i huno ; yn y coed gerllaw
 Try'r adar i ymglwydo rhwng yr irwydd,
 Fel i freuddwydio'u cerddi mewn distawrwydd ;
 Hebryngir twrf i'w fedd ar elor awel,
 Ac ymollynga'r byd yn dawel, dawel,
 I freichiau cwsg. Ar hyn, dihuna'r ser
 Fel pe i wrando y distawrwydd per,—
 Buasent hwythau yn breuddwydio'r Dydd
 Dan fentyll tyner o oleuni 'nghudd,—

Breuddwydio am fynd i garu yn y nos,—
 Caru a chanu gyda'r lleuad dlos;
 Ac weithian dacw hwy yn edrych allan
 Fel llygaid dieithr-lawen gan ysmician—
 Fel rhai yn gwybod rhyw gyfrinach rhyfedd,—
 Af finnau i'w cyfarfod mewn taweledd.

O dwedwch imi, ser, beth wyddoch chwi,
 Oes cenadwri gennych chwi i mi?
 Dwed seren wen y gogledd wrth y morwr
 Air o lawenydd anwyl, ar y mawrddwr;
 'Rwyf finnau fel y morwr ar y tonnau
 Am wybod heno beth o'ch cyfrinachau.
 Beth yw eich profiad am y byd uwchben?
 Beth wyddoch am y byd tuhwnt i'r llen?
 A oes ser uwch yn edrych arnoch chwithau?
 A ydynt hwy'n ddwyfolach goleuadau?
 A ydyw y materol yn diflannu
 Po uchaf yr esgynnwn ar i fyny?
 Pa le mae yr ysbrydol yn cyfarfod
 Mewn heddwch â'r materol,—yntau'n darfod
 Dan ganu salm, salm bêr y gweddnewidiad,—
 Miwsig y byd pan glyw y Nef yn siarad?
 Bu un o'th tylwyth chwi yn arwain gynt
 Ddoethion o'r dwyrain ar eu hirfaith hynt
 At "Newydd Da" yr oesoedd. D'wedwch chwithau
 Eich cenadwri wrth fy enaid innau;
 Paham nad allaf ddysgu oddiwithych wersi cun,—
 Y mae pob seren wen â'i gwera yn crynnu ar ei min;
 Ni th'wynna ser yn ofer; nid ydyw dalen nef
 Heb fod â'i llythyrennau oll yn llawn o'i enw Ef;
 Ni ddiffydd ser,—ni dderfydd eu gorymdeithiau gwiw
 Drwy'r nef,—hyd oni theithiant drwy yr enaid 'nol i Dduw;
 Gan hynny, ser, tramwywch drwy ddyfnder f'enaid blin,
 Nes rhoi im ser-feddyliau am wynder Duw ei Hun.

A thithau, Loerwen lariaidd, mae'th grwydrol athrist wedd
 Yn odli â fy nghalon i mewn hiraeth pur am hedd;
 Mi wela'th ddelw anwyl yng nghalon wen y môr,—
 Paham, gan hynny, Loerwen, y crwydri nefoedd Ior?
 Mae yn dy law awdurdod, awenau llanw a thrai,—
 Paham, gan hynny, Loer, nad yw dy ofid di yn llai?
 Mae cwmwl ar dy wyneb, fel craith hen bechod fu,
 Yn aros yna o oes i oes,—ai dyna'th ofid di?
 Derbyn fy nghydymdeimlad, Loer, mae arnaf finnau graith,—
 A dyna 'ngofid,—dyna pam yr wylaf ffrydiau maith;

Er hyn, ni ddigalonnaf, mi grwydraf gyda thi
Fel Islwyn gynt,—tua byd dilen; mae “gloewach nen” i ni.

Dwysa y Nos. Mae'r bydoedd yn fwy clae'r
Yn syllu arnaf ar y nefol gaer.
Maent yn addoli. Ust! Clyw'r anthem dlos,—
Gwylaidd addoliad cynulleidfa'r Nos;
Aneirif dorf o fydoedd ar ddihun
Yn chwareu eu telynau “oll yn un,”—
'Rwyf yn llesmeirio, O na allwn i,
Ganu, O fydoedd, fel y canwch chwi!

Try y seryddwr i'w arsyllfa deg
I'ch mesur, ac i'ch pwyso, fydoedd chweg;
Er hyn ni theimlwch chwi ei fyw linytau
Yn rhedeg amgylch ogyllch eich terfynau;
A chwi yn canu,—dyd efe yn gryno
Chwi yn ei glorian gywir, fel y mynno:
Eich llwybrau troellog chwi yw ei rodfeydd,
A'ch symudiadau derch ei olygfeydd;
Heb ball “ar hyd y nos” y rhodia ef
I'ch dilyn, ei gariadon glân, ddisgleiriaf fydoedd nef.

Dwfn yw'r tawelwch. Natur sy'n clustfeinio
I glywed swm ei chalon bur yn curo.
Dawelwch cyfareddol, gwyn ei fyd
Y dyn eill fyw yng nghanol hwn o hyd;
Mae bryd y byd yn rhedeg ar ol twrw,—
'Chydig wrandawant ar y gân ddienw.
“Ychydig enwau,” etholedig, drud,
Glywant ganiadau distaw Duw drwy'r byd;
Diolch am ambell awr o'r miwsig pell
Distaw, sydd imi fel newyddion gwell;
Cilied taranau hunan fyth o'm clyw,—
Ar ol i ddyd ddistewi sieryd Duw.

Ust! Dyna gathl bêr yr eos dlos
Yn torri ar ddistawrwydd dwfn y nos
O'r coed cyfagos. Ryfedd, ryfedd gân,—
O ba le daeth? Ai draw o'r Wynfa lân?
Beth,—ai diengyd wnaeth o lwyni gwyrddion
Y gwledydd pell i ddysgu daearolion
Y ffordd i ganu? Loewaf naturioldeb!
Iechyd i galon yw yn nhwrf bydoldeb;
Dim pall, dim egni, glywir yn ei chân,
Ac eto dyry'r goedwig fel ar dân

Yng ngwres ei molawd. Mae fel ffynnon bêr
 Yn tarddu o'r distawrwydd tua'r sêr.
 Bereiddiaf gasgliad o alawon cun,—
 Dwyfolaf nodau adar cân fel wedi cwrdd mewn un,—
 Pwy glywodd y fath warbl wefriol, dlos?
 O eos! wyt yn ail i sant,—yn canu yn y nos.

A! beth yw y cawodau distaw mwyn
 Deimlaf yn disgyn fel neithdarol swyn?
 Y gwllith, y gwllith, ddistawaf wlith y nos!
 I ddisychedu'r llawr, a min y rhos;
 Erys y defnyn ar y rhosyn mud
 Fel i wanwyno ei freuddwydion drud;
 A braidd nad ydyw yntau, fel drwy'i hun,
 Yn chwerthin wrth ei deimlo ar ei fin.
 O ddiod dyner! ddaagrau mwyn y nos!
 Yn disgyn fel pe i ddeisyf ar i ros
 Y ddaear wenu megis rhos y nen,—
 I'r ddaear odli gyda'r byd uwchben.
 Ddistaw gawodau! O na theimlai'm calon
 Gawodau "fel y gwllith ar fynydd Seion!"

Ymddadluddeda Natur drwyddi oll,—
 Llonydda i adennill nerthoedd coll;
 Mae traul y dydd yn gofyn am lonyddwch
 I galon byd gryfhau, dan falm tawelwch;
 Mae'n rhaid i bopeth oll, ond Duw, gael hun;
 Ai onid cylch o waith yw cwsg ei hun,—
 Natur fel pe yn galw'i hun i dre
 At ymgyrch diwrnod arall is y ne,—
 Hwytthau ei lluoedd maith yn ufuddhau
 I'w llef, heb un afradlon yn nacau;
 Fel mam dyneraf, sua'r oll i hun,—
 Ac i'w cyfnerthu dyry ei goraf win,
 Cânt sugno'n dawel o bur laeth ei bron,
 Diymofalu dan ei llygaid llon.
 Nid rhyfedd fod y byd yn ymiachau—
 Mor beraidd, beraidd, yw ei *gwsg*, gan hyfryd ymfwynhau.

Ym mreichiau cwsg esgynna'r enaid fry
 Y froydd dieithr, anwel, pell, yn hy—
 Fel teithiwr yn mynd adre. Ryfedd ymdaith!
 Ar esgyll breuddwyd; yspryd yn gydymaith!
 Ha! Dyma'r pryd mae'r anwel yn ymagor
 I'r enaid nofio yn ei briod gefnfor;
 O fyd dieithriol, ryfedd olygfaon,

Yn fyw dan ysbrydoliaeth dwyfol chwaon!
 Byd *breuddwyd*! Beth, ai sylwedd cadarn yw?
 Neu ynte rith, neu gysgod bywyd gwyw?
 P'un ai agosaf yw—i "dir y bywyd,"
 Neu "randir angau"? Mae y corff heb symud,
 "Ar ffurf a llun y marw." A yw'r enaid
 Felly? a llwydrew'r glyn yn llanw'i lygaid?
 Pa faint o ffordd sydd i'r "mynyddoedd tywyll"
 O'r ardal hon? Pa faint i olwg gwersyll
 "Mynyddoedd Seion"? * * * * *

* * * Ond paham yr holaf!

Onid wrth ddrws y wawr mae'r nos dywyllaf?
 Po bellaf i'r ysbrydol fyd yr awn,—
 Angau a bywyd—maent yn agos iawn;
 Dan gysgod angau du tyr gwawr y nef;
 Ffy'r byd—yng ngolwg ei oiseddaine Ef

Beth yw dylanwad *breuddwyd* ar y byd?
 Faint sydd yn gallu dysgu'i wersi drud?
 "Weledigaethau'r nos," i'r oesoedd gynt,
 Doi negeseuau dwyfol ar eu hynt;
 Paham nas clywir eto yn y byd
 Yr unrhyw genadwri o'r tir mud?
 Pa hyd y pery *breuddwyd* yn ddiles?
 Paham na ddaw'r ysbrydol fyd yn nês?
 O am y gallu hwnnw eill ddryllio'r "dora pres!"

Diolchaf it, O Nos, am hedd-freuddwydion,—
 Am hamdden im i gwrdd â hen adgofion—
 Adgofion pell fy natur, sydd yn ddistaw,—
 Is-ymwybyddiaeth ddofn fel pe'n eu gwyliaw
 Yn nwn fy hanfod. Dont i fyny weithiau;
 Ac onid ynt fel engyl ar eu teithiau?
 Henffych i'r bore caf eu cwrdd ynghyd
 Heb orchudd ar eu gwyneb, yng ngwawl ysbrydol fyd.

O Nos! defnyddia'r byd dydi fel *cysgod*
 O bethau chwerwon,—gofid, ing, a thrallod;
 Nos anwybodaeth; meddwl heb ddihuno,
 Heb deimlo angen gwawrddydd i'w oleuo;
 Y deall dall,—heb wybod fod dirgelwch
 O fewn y byd,—yn cysgu mewn tawelwch;
 Sylweddau bywyd fel pe baent heb fod,—
 Popeth yn troi yn ofer is y rhôd.


Nos enaid, eilwaith, pechod fel afagddu
 Yn atal gwyneb Duwdod i dywynnu

I'w ystafelloedd; calon bêr yn oeri
 Yng nghefn yr haul,—ei blodau tlws yn edwi;
 Nos ddu, ddi-wlith, ddi-ser, a di-eneiniad,—
 Ai gweinidogion oll yn ddiordeiniad,—
 Dyna y nos dywyllaf ar y llawr—
 Enaid yn marw mewn tywyllwch mawr;
 Enaid fel ar ei ffordd i'r nos dywyllaf
 Yng nhreadigaeth Ior,—“*y twyllwch eithaf.*”
 Dyna y fan y cesglir fyth ynghyd
 Holl dwyllwch amser, nosau du pob byd.
 “I'w le ei hun” y sawdd pob cysgod dunos—
 Fel na fydd mwy ond UNDYDD MAWR yn aros.

Ond, ar y llawr, mae'n bosibl plannu ser
 Yn nosau'r byd i siarad cysur per;
 Tra yn y byd, mae gobaith gweld goleuni
 Yn hollti'r cwmwl, rhwygo'r tywyll-lenni;
 Ei iachawdwriaeth Ef eill ddeffro ser
 Yn nos yr enaid i dywynnu'n der;
 Ei iachawdwriaeth Ef, i'r galon brudd,
 Eill droi ei golwg at y seren ddydd;
 Drwy hon mae seintiau'n canu yn y nos
 Mewn gobaith am y fythol Wawrddydd dlos;
 Mae addewidion hon fel ser goleuni
 I'r sant,—morwynion gwynion Duw i'w lonni.
 Yn nyfnder nos y cân efe bereiddiaf;
 Genir ei salmau yn y dyfnder isaf
 Tra'n edrych fry at Dduw a theimlo'i law
 Ato'n ymestyn drwy y twyllwch draw.


O nosau adfyd, curwch ar y sant;
 Rhy eiddil eich cynghreiriau chwi, fyth, fyth, i dewi ei dant.
 Fe ddawnsia ar eich beddau ddydd a ddaw,
 Dan ganu Buddugoliaeth, a'i delyn yn ei law.

O Nos y Fynwent, onis enwaf di?
 Ddinas y meirw! odfa'r dyffryn du!
 Mewn galar du ymwel y byd â'th byrth;
 I'th fynwes beunydd ei anwyliaid syrth;
 Ac onid maith yw'th nos, dywyllaf ddyffryn?
 Ai nid oes gwawr i dorri ar dy derfyn?
 Ymaith, anobaith trist! Mi wela'r golau,—
 Mae ser y Beibl ar y cerrig beddau
 Yn gwenu eisoes,—ser yr Adgyfodiad,
 Adnodau'r Bywyd uwch y bedd yn siarad!
 A chlywaf bêr hyawdledd Sul y Blodau




u;
 d;
 wyd anherfynol.
 d;
 haul fynd lawr—
 r wawr.”
 *
 draw
 rllaw;
 ddangos weithion.
 wersi :
 —
 d d;
 w
 dd !
 en,—
 yneb”—
 loldeb.

JOHN T. JOB.



•••••
 •••••

—



Y CATAN.

Gogledd America,—
ifeiliaid a'i goedydd
goedwigoedd enfawr,
rancwr i ymsefydlu
un o barthau mwyaf
gryn, bro y mynydd-
ydd dychymyg llawer
gymoedd ac ar ei
ydd gyn:aint o swyn
nyddoedd Deheudir

Mexico, a'r wlad ddyfrheir gan yr Afon Beraidd ar ei ffordd o fryniau tanllyd Guatemala i'r môr.

Yn 1834, aeth trafnoddwr Americanaidd, a chyfaill iddo, i'r wlad. Yr oeddynt wedi penderfynu chwilio'r olion rhyfedd oedd yn hanner guddiedig yn Yucatan a Guatemala. Cawsant y dinasoedd, y temlau, a'r delwau; yr oedd eu hanes wedi eu cerfio ymhobman hyd y cerrig, ond mewn iaith nad oedd neb yn ei deall mwy. Yn y dyddiau hyn y mae gŵr penderfynol yno yn ceisio dehongli'r arwyddluniau, ac wedi bod yno am ryw ddeuddeg mlynedd gyda'r gwaith. Dywed ei fod wedi llwyddo, a fod y cerrig yn adrodd hanes hen a chyffrous o'r mur. Tybia ei fod wedi darganfod Gardd Eden dynol ryw.

Amcan yr ysgrif hon ydyw rhoddi cipdrem ar hynafiaethau Canolbarth America fel y gwelodd yr Americanaid, Stephens a Catherwood, hwy drigain mlynedd yn ol, a dangos pa ddehongliad y mae Dr. le Plongeon yn roddi'n awr i'w llafar mud.

Gadewch i ni ddilyn y ddau Americanwr i'r lleoedd mwyaf hynod, sef Copan, ar derfyn Honduras; Quiche a Dinasoedd diataw. Quirigua, yn Guatemala; Palenque, yn agos i Tabasco, ym Mexico; ac Uxmal, yn Yucatan.

Ymhob un o'r lleoedd hyn, oddieithr feallai Uxmal, yr oedd y goedwig a feddianasai wastadeddau hyfryd yr hen wareiddiad gynt wedi gorchuddio y broydd, fel nad oedd ond ambell frodor mwy anturiaethus na'i gymydogion yn gwybod dim am y rhyfeddodau oedd o fewn dwy neu dair milltir i'r pentrefi sy'n rhoi eu henwau ar, neu yn cael eu henwi â genwau, y dinasoedd fu gynt yn eisteddled pen awdurdod teyrnasoedd cryfion.

Yr hyn a nodweddai bob un o'r lleoedd yr ymwelwyd â hwynt oedd y bryniau celfyddydol uchel a ddarganfyddwyd ynddynt. Ar ol codi bryn, ynddengys y trefnid ef gan yr hen adeiladwyr ar ffurf pyramid. Nid oedd y pyramidiau hynny mor fawr a nerthol a'r rhai welir yn awr yn yr Aifft, ond yr oeddynt yn fwy celfydd eu gwneuthuriad; a'r grisiau ar eu pedair ochr, y rhai oedd yr un lled a'r ochrau, yn llai eu huchder na'r rhai Aifftaidd, ac felly yn haws i'w dringo. Gwahaniaeth arall rhyngddynt a phyramidiau yr Aifft oedd y palas neu y deml fawr oedd ar gopa pob un. Gan mai pridd oedd defnydd mewnol y bonsang pyramidaidd, a'r gwyneb cerrig o waith ysgafn iawn mewn cymhariaeth â'r gwaith Aifftaidd, a'r tir yn ffafriol i dyfu coedydd mawrion o hono ei hun, a hynny mewn anser byr, yr oedd y goedwig wedi gorchfygu gorchestwaith dyn, ac wedi gwrthio meini mawrion o'u lleoedd yn y muriau nes dymchwelyd parwydydd trwchus a cholofnau mawrion.


Ond yr hyn dynnai eu sylw yn fwy na dim yn Copan oedd y delwau, eilun-dduwiau, neu gof-golofnau, a godasid tu fewn a

thu allan i'r hen furiau. Nid oedd y colofnau hynny wedi eu gosod gydag un math o reol ymddanghosiadol,—yr Delwan Copan. oeddynt wedi eu codi yma ac acw, yn gyffelyb i fel y codir y cofgolofnau yn y lleoedd cyhoeddus mewn dinasoedd yn ein gwlad ni.

Yr oedd y colofnau yn amrywio yn eu uchder, lled, a thrwch; ond yr oeddynt o un cynllun. Ar un tu, neu y wyneb, yr oedd llun dyn neu ddynes wedi ei gerfio yn ddwfn a chelfydd, gyda llawer o fân-luniau a cherfiadau yn amgylchu y llun ymhob cyfeiriad. Yr oedd y tu cefn a'r ddwy ochr yn orchuddiedig â cherfiadau prydferth ac arwydd-luniau (*hieroglyphics*), sef math o argraff yn rhoi, fel y mae'n ymddangos, hanes y dyn neu y duw y cerfiwyd ei ddelw ar y maen. Yr oedd rhai o'r colofnau yn sefyll fel y gosodwyd hwy ar y cyntaf, wedi eu sicrhau mewn bonsang gadarn o feini mawrion; yr oedd eraill wedi eu gyrru ar osgo gan goed cryfion a dyfasant yn rhy agos iddynt; ac eraill drachefn wedi eu bwrw i lawr.

O flaen pob colofn, ac ychydig droedfeddi oddiwrthi, safai rhywbeth tebyg i allor fawr. Nis gellir gyffelybu yr allor i gromlech, oblegid, yn y lle cyntaf, yr oedd yn bedair onglog rheolaidd; yn nesaf, yr oedd yr ochrau'n gauedig,—yr oedd yn debycach i gist fedd a welir mewn mynwent nag i gromlech. A'r hyn a'i gwnelai yn fwy anhebyg i gromlech oedd yr arwydd-luniau a orchuddiai holl wyneb y garreg uchaf, a'r lluniau pedwar dyn a gerfiasid ar bob un o'i phedair ochr. Yr oedd yr argraff neu'r arwydd-luniau ar y garreg uchaf yn debycach i lythyrennau Hebraeidd neu Chinceidd nag i luniau adar ac anifeiliaid a ddefnyddid fel arwydd-luniau Aifftaidd. Yr oedd y lluniau ar yr allor yn debyg i'r lluniau ar y priddlechau mawrion a orchuddient barwydydd palasau Asyria, ond fod gwynepryd y bodau ddarlunnid yn anhebyg, y rhai yn Copan fel pe buasant yn gais i ddangos ffurf y gwyneb negroaidd, tra mae'r lluniau Asyriaidd yn dangos nodweddion Asiaidd.

Y mae o fy mlaen ddarluniau o amryw o'r colofnau a ddarganfuwyd yn Copan. Hwyrach mai nid anfuddiol fyddai i mi roddi yma fesuriadau rhai o'r colofnau. Saif y gyntaf a nodaf â'i gwyneb tua'r dwyrain. Ei uchder oddiar y bonsang ydyw tair troedfedd ar ddeg; ei lled ydyw pedair troedfedd; a'i thrwch yn dair troedfedd. Y mae'r cerfiad yn dra phrydferth. Yr oedd y cerfiad unwaith yn bäentiedig, oblegid yr oedd peth o'r paent coch i'w ganfod pan oedd Stephens a Catherwood yno yn eu chwilio. Yr oedd un arall yn gwynebu tua'r dwyrain, yn ddeuddeg troedfedd ei uchder, ac yn dair troedfedd ei lled, a'i thrwch yr un faint. Gwynebai un arall tua'r gogledd; yr oedd ei uchder yn un droedfedd ar ddeg a naw modfedd, a'i mesuriadau eraill yn dair troedfedd. Gwynebai un arall tua'r



FFYNNON A DYFR-FFOS YM MEXICO.

“Gallasai Quiche gystadlu mewn ardderchowgrwydd i mawredd Mexico Montezuma.”

gorllewin; ei huchder yn ddeuddeg troedfedd, ei lled yn bedair troedfedd, a'i thrwch yn dair troedfedd a phedair modfedd. Gwelir fod colofnau Copan o ran uchder yn debyg i'w gilydd; ond darganfuwyd rhai llawer uwch yn Quirigua.

Ar yr ochr bellaf i'r afon o Copan, ac ar gopa bryn dwy fil o droedfeddi o uchder, y mae colofn anferth. Y mae'n anhawdd dirnad pa fodd y cloddiwyd y fath feini, pa fodd eu symudwyd o'r gloddfa dros arwyneb daear anwastad, a pha fodd y codwyd un, beth bynnag, i ben bryn uchel. Yr oedd y gloddfa neu chwarel o'r hon y cloddiwyd y colofnau, a'r meini mawr i adeiladu, gryn bellter o'r hen ddinas. Grut lled feddal oedd y garreg. Yr oedd yn y chwarel amryw golofnau wedi eu cloddio, ond wedi eu gwrthod oherwydd rhyw wall; ac mewn un lle, hanner ffordd yn y crigyll neu nant ddofn a arweiniai i'r afon, yr oedd colofn anferth, llawer mwy na'r fwyaf welwyd yn y ddinas, yr hon ond odid oedd ar y ffordd i gael ei cherfio a'i gosod i fyny, ond a adawyd yno oherwydd rhyw reswm dieithr i ymwelwyr yr oes hon.

Mewn perthynas i'r arfau cerfio oedd gan yr hen grefftwyr yn cyflawni'r fath orchestwaith mewn cerrig, nis gallai Mr. Stephens ond prin awgrymu neu ddyfalu. Ni chafwyd un math o oferyn na theclyn wedi ei wnethur o haiarn nac un math o fetel yn y ddinas dawel nac yn y chwarel. Oherwydd absenoldeb pob math o gynorthwy i ffurfio barn, nid oedd gennym ond syrthio i'r hen farn gyffredin mai arfau callestr a ddefnyddid cyn darganfod y ffordd i weithio mewn meteloedd, ac felly mai cynion callestr oedd gan gyn-frodorion Copan yn cerfio eu delwau. Y mae'r temlau gwag a'r delwau mud yn ennyn cywreinrwydd ym mhawb a'u gwelant, ond yn gadael yr edrychydd i ryfeddu ac heb fedru dyfalu ond ychydig yn eu cylch. Yr oedd y colofnau hynny yn Copan yn creu rhyw ofn neu arswyd yn y chwilieddion. Ymddanghosent iddynt megis gwylwyr o'r oes o'r blaen yn tawel wawdio dieithriaid oedd yn ceisio codi cwr mantell yr hen oesoedd i weled ychydig o weddillion gogoniant cyntefig y ddinas ddistaw. Brenhinoedd ac arwyr yr oesau tywyll wedi eu dwyfoli gan baganiaeth ydynt, a phob un yn gwylio ei allor ar yr hon yr offrymai yr addolwyr eu hebyrth i'w hynafiaid.

Peth anhyfryd ydyw syllu ar lyfr wedi ei selio a'i gloi rhag i gywreinrwydd ddarllen hanes crefydd a gwleidyddiaeth y cnyfyd. Yr oedd hanes Copan yn gerfiedig ar y colofnau a'r allorau, ond yr oedd carreg y dehongliad heb ei darganfod, ac felly yr oedd yr argraff yn gloedig. Bu arwydd-luniau yr Aifft am oesoedd heb yr agoriad i'w hagog, ond pan ddarganfuwyd carreg ddeongliadol Rosetta, daeth pob peth yn hawdd ac yn eglur. Hyderai Mr. Stephens y ceid agoriad rywbryd i agor llyfr hynafiaethau Canolbarth America.

Hanes heb
ei ddarllen.

Wrth edrych ar y colofnau, neu y delwau, a'r allorau, fel nodweddion amlwg dinas Copan, meddyliai'r hynafieithydd mai hi oedd Jerusalem neu Mecca y gwledydd amgylchynol yn yr oesoedd gynt. Ystyriai Mr. Stephens ei fod yn destyn syndod fod y dinasoedd rhyfedd hynny wedi eu cuddio gyhyd o amser o olwg y byd tu allan i ymerodraeth Spaen. Ond ar ol ystyriaeth bellach, ac wrth gofio mai gallu goresgynol a dinistriol oedd y wlad honno yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac mai ffanaticiaid o'r lliw duaf oedd y Spaciaid, heb fod yr un tipyn uwch o ran cydoddefiad gwareiddiedig na'r Mahometaniaid, nid oes achos i neb synnu fod penboethiaid crefyddol fel goresgynwyr cyntaf Canolbarth America yn ceisio diwreiddio cenhedloedd a distrywio dinasoedd, heb ystyried dim, ond yn anghofio y cyfan megis cyn bore trannoeth, gan adael i natur wyllt orchuddio â choedwig holl olion gwareiddiad pobl y cynoesoedd. Ac fel yr oedd penboethni dall y Pabyddion yn gorfodi y cynfrodorion i anghofio eu crefydd a'u gwladgarwch trwy eu rhwystro rhag arfer moddion eu hen grefydd, a thrwy gadw oddiwrthynt arwyddion gogoniant eu hen lywodraeth, nes i'r hen ddinasoedd ddadfeilio bron yn hollol,—felly hefyd yr oedd eu rhaib aniwall am aur ac arian a thryscrau yn eu dallu, fel na welent ddim ond yr hyn a dybient a'u cynorthwyent i gyrraedd eu prif amcan. Yr oedd eu heiddigedd gwyliaidwrus yn eu dysgu i gadw eu cyfrinion oddiwrth y Saeson anturiaethus oedd yn gwylio symudiadau y Spaciaid yn y Byd Newydd, ac yn eu fflangellu mor dost ar y môr yr holl amser yr oeddynt yn medi yng nghynhauaf gwaed cynfrodorion Canolbarth America. Ychydig y mae hyd yn ced Prydeinwyr y dyddiau hyn yn ei ofalu ynghylch adeilion cyntefig Affrica Ddeheuol, pan y mae eu bryd ar aur a meini gwerthfawr; pa faint llai o ystyriaeth a roisai Saeson tri chan mlynedd yn ol i hynafiaethau Canolbarth America, pe digwyddasent eu darganfod? Mae'n debyg mai dilyn esiampl y Spaciaid a wnaethent, a dinistrio adeiladau wrth chwilio am drysorau.



O Copan aeth y ddau gyfaill i archwilio hen olion yn agos i le a elwid Quirigua. Y mae y colofnau ger Quirigua mor gelfydd a pherffaith a rhai Copan; yr oeddynt lawer o droed-

Quirigua. feddi yn dalach, a rhai o honynt gymaint ar osgo nes y gellid meddwl eu bod ar fin cwmpo; ond, er fod y lluniau mewn cadwraeth dda, yr oeddynt yn fwy bas, fel pe buasent yn fwy hynafol nag adeilion Copan. Mae enw a hanes y ddinas farw hon wedi colli, os na cheir hwynt pan ddadgloir dirgelion yr arwydd-luniau.

Y lle nesaf yr ymwelwyd âg ef oedd Quiche, y ddinas oedd dri chan mlynedd yn ol yn brif ddinas ymerodraeth gref ag enwog.

ond sydd yn awr heb drigiannydd. Ymddanghosai adfeilion Quiche fel olion dinas ddiweddar o'u cymharu â rhai Quiche. Copan a Quirigua. Nid oedd i'w gweled yno un ddelw, allor, colofn, nac arwydd-luniau; dim ond muriau a sylfaeni a ddanghosent gynllun dinas gadarn, ac amddiffynfa fawr yn agos iddi. Pan ymwelodd y goresgynnwr Spaenaidd, Alvarado, a'r lle tua thri chan mlynedd yn ol, yr oedd Tecum Umam, brenin Quiche, yn medru casglu a threfnu 230,000 o filwyr ar wastadedd Tzaccapa i geisio gwrthsefyll ymosodiadau y goresgynwyr; ond ofer fu ymgais teyrn Quiche i wrthwynebu disgyblaeth a medrusrwydd y Spaciaid, wedi eu harfogi mor wahanol i'r Azteciaid, y rhai a ddibynnent fwy ar nifer eu milwyr ac arddanghosiadau rhwysgfawr nag ar eu harfau diniwed. Ond, er pob anfantais, ymladdai y brodorion fel gwroniaid, gan ruthro ar y gwŷr meirch gyda dim ond eu dwylaw moelion, a cheisio dymchwelyd y march a'i farchog. Mewn nerth ac ardderchowgrwydd gallai Quiche gystadlu â mawredd Mexico Montezuma, neu brif ddinas Inca Peru. Yr oedd poblogaeth y ddinas yn unig yn cynnwys deng mil a thrugain o filwyr; a dywedir fod ynddi goleg i hyfforddi rhwng tair a chwe mil o blant ar gost y drysorfa frenhinol. Yr oedd y ddinas wedi ei hadeiladu ar fryn uchel amgylchynedig gan nant ddofn. Cyfeiriai yr offeiriad Pabaidd, yr hwn a ddaeth at yr hynafiaethwyr pan oeddynt ymhlith adfeilion Quiche, eu sylw at fan neilltuol o'r nant, lle bu deugain mil o bobl un adeg yn gweithio i gadarnhau y ddinas. Dywedai yr offeiriad fod hen ysgrif yn y crefydd-dŷ rai blynyddoedd cyn ei ddyfodiad ef yno, yn yr hon yr oedd llawer o fanylion hanes Quiche.

Safai y palas ynghanol y ddinas; ei hyd un ffordd oedd saith gant ac wyth ar hugain o gamrau, a'i led oedd dri chant ac un ar bymtheg a thrugain o gamrau. Yr oedd ei furiau Y Palasau. o gerrig nadd o wahanol liwiau. Rhennid y palas i chwe rhan,—un yn cynnwys ystafelloedd y brenin ei hun; rhan arall a gynhwysai ystafelloedd y gwraedd; un arall ystafelloedd merched y brenin, a benywod eraill o'r teulu brenhinol; mewn rhan arall y trigiannai y gosgorddlu brenhinol; ac un arall a gynhwysai yr arfdy, llysoedd y barnwyr, a'r trysordy. Amgylchynid y llys brenhinol gan balasau y pendefigion; a phreswylid y gweddill o'r ddinas gan y bobl gyffredin. Yr oedd y ddau gastell a amddiffynnent y ddwy fynedfa i'r ddinas yn anoresgynadwy. Y mae'n debyg y buasai sefyllfa y brenin yn ddiogel pe cadwasai tu fewn i'w gadarnle; ond gan fod ei ddinasoedd eraill yn galw am amddiffyniad, aeth allan i gyfarfod y gelynion, pan y gorchfygwyd ei fyddin ac y lladdwyd yntau yn y frwydr ar y gwastadedd.



YNG NOWLAD Y DINAGREDD DISTAW,—HILANDIR SAVANNA.

Yr oedd rhai dinasoedd Indiaidd mewn lleoedd anhygyrch yn nentydd y mynyddoedd, trigolion y rhai a yrrwyd i'r fath ffyrnigrwydd, ac a arosasant mor wrthnysig ar hyd yr oesoedd, fel y gwrthodent ddal un math o gymundeb â'r Spaeniaid a ymsefydlasant yn y wlad. Dywedai hen offeiriad dyddanus Quiche ei fod ef lawer o flynyddoedd yn ol wedi cael golwg ar un o'r dinasoedd hynny o bell o ben mynydd, megis y

Dinas ddieithr. gwelodd Moses ddinasoedd Canan o ben Pisgah. Yr oedd y ddinas honno tu hwnt i'r Cordilleras, sef trum o flynyddoedd a ffurfent y terfyn rhwng y dalaeth lle yr arosai ar y pryd a thalaethau yng ngyfeiriad Yucatan, tua'r gogledd. O ben y mynydd ymddanghosai y ddinas ddieithr megys yn gorchuddio gwastadedd mawr. Yr oedd ei hadeiladau a'i cholofnau yn fawrion ac uchel, ac yn ymddisgleirio yn yr haul.

Credai Mr. Stephens fod hen iaith y brodorion yn cael ei llefaru gan bobl y ddinas ddieithr a wrthodent gyfeillachu â dieithriaid; a disgwyliai fod yno offeiriad yr hen grefydd, a gadwasent ond odid eu llenyddiaeth hynafol yn ddilwgr. Blysiat am ryw foddion i ennill cyfeillgarwch ac i ddal cymundeb â thrigolion y Lais honno oedd bell oddiwrth bob Sidon Ewropeaidd. Ond ni chafodd amser i fyned i ben y mynyddoedd i gael cymaint a chipolwg ar y ddinas ddieithr. Ond ymhen hanner can mlynedd, a llawer o flynyddoedd ar ol marwolaeth Mr. Stephens, bu hynafiaethydd arall yn fwy ffortunus. Aeth hwn i Yucatan ac arosodd yno flynyddoedd lawer i gopio y cerfluniau sydd yno, ac i dynnu darluniau o bob peth sy'n aros o'r hen adfeilion yn Uxmal. Dylwn ddweyd yn awr fod yr hynafiaethydd hwn wedi darganfod agoriad i'r dirgelwch trwy fyned ei hunan i dalaeth yn yr hon y trigai Indiaid na thalasant warogaeth i'r Spaeniaid na thramorwyr eraill mewn unrhyw gyfnod.

O Guatemala aflonydd, lawn gwrthryfel, aeth y teithwyr dros derfyn Mexico, i chwilio olion Palenque, ar derfyn Yucatan.

Palenque. Ond gorfod gwynebu rhwystrau newyddion,—gwa-harddiad y llywodraeth i neb fynd yn agos i Palenque, yr angen am drwydded cyn symud cam, y gwibed anioddefol, a'r tymor gwlawog. Ond, er gwaethaf popeth, medrasant gyrraedd y ddinas ddistaw farw.

Lletyai y teithwyr yn yr adfeilion, lle y dioddefasant lawer oddiwrth effeithiau y lleithder, ac oddiwrth ymosodiadau y gwibed blinion adnabyddus yn y gwledydd hynny. Byddai y rhan foreuol o'r dydd yn braf iawn, hyd yn oed yn y tymor gwlyb a ddechreu a ddiwedd Ebrill. Ond yn y prydawn daw cyfnwidiad sydyn, gyda chorwynt yn aml; a phob dydd bydd yn tywallt gwlaw yn ddiarbed, a pharha y gwlaw dylifol,

yingoleu y mellt ac yn swm arswydus taranau, i ddisgyn hyd doriad dydd.

Nid oes yma gofgolofnau tebyg i'r rhai a welwyd yn Copan a Quirigua. Un ddelw a ddarganfuwyd yn Palenque, a honno o-gelfyddydwaith rhagorol, ond ar gynllun gwahanol i rai Copan. Nid dinas y delwau ydyw Palenque, ond dinas y palasau. Yr

Dinas y
palasau.


oedd yno un palas tra nodedig oherwydd ei faintioli, ei gerfiadau, a'i arwydd-luniau. Yr oedd yr arwydd-luniau yn debyg i'r rhai a orchuddient wyneb uchaf allorau Copan. Yr oedd pob palas ac adeilad ar gopa bryn celfyddydol. Mae pyramidiau yr Aiff yn anferth eu maint ac yn betryal yn eu sylfaeniad, wedi eu hadeiladu o gerrig mawrion; yn cynnwys ystafelloedd tu fewn i'r muriau trwchus; ond heb un adeilad ar y coryn. Yng Nghanolbarth America y maent yn llai,—yn hirgul yn eu sylfaeniad, wedi eu codi o bridd, eu pedair ochr wedi eu gwynebu â gwaith cadarn o feini mawrion, a'r holl ystafelloedd neu'r palas yn sefyll ac yn gorchuddio y gwastadle eang ar y pen uchaf. Yr oedd yr ochrau ar osgo fel ochrau pyramid. wedi eu gwynebu yn brydferth â pharwydydd o gerrig mawrion a ffurfient risiau i gyrraedd y palas. Yr oedd mesuriadau y bonsang neu'r pyramid yn dri chant a deg o droedfeddi wrth ddau cant a thrugain. Yr oedd ei uchder yn ddeugain troedfedd. Dyma fesuriadau allanol y palas, yr hwn wynebai i'r dwyrain,—dau cant ac wyth ar hugain wrth naw ugain o droedfeddi, a'i uchder tua phum troedfedd a'r hugain. Yr oedd pedwar a'r ddeg o ddrysau yn ei wyneb, tua-thair llath o led bob un; a mesur i'r colofnau neu y pendistiau rhyngddynt rhwng chwech a saith troedfedd o led. Yr oedd llawer o'r muriau wedi syrthio, ond yr oedd digon o bob rhan o'r palas yn aros fel y gellid ei fesur, ar ol cymeryd yr ysbwrial ymaith o'r ystafelloedd a'r cynteddau. Gorchuddid y muriau tu mewn a thu allan i'r adeilad â chymrwd tebyg i gymrwd Paris, wedi ei baentio o wahanol liwiau. A lle bynnag y byddai'r mur heb ei orchuddio â chymrwd yr oedd llechau mawrion o gerrig yn llawn o gerfiadau wedi eu gosod. Yr oedd yr holl barwydydd tu fewn a'r colofnau rhwng y drysau wedi eu gorchuddio â bas-luniau, cerfluniau, ac arwydd-luniau, cyffelyb i'r rhai oedd ar yr allorau yn Copan. Ond nis gallai neb ddychmygu beth oedd cynhwysiad yr hanes a draethid trwy yr arwydd-luniau.

Mae y prydfferth a'r hynafol wedi eu cybblethu â'r aruchel a'r rhyfedd yn y fath fodd yn y palasau distaw hyn nes ennyn teimladau cymysg, a gwneyd i mi ofyn i mi fy hun yn aml,—Pwy oedd yr adeiladwyr? Pa bryd yr adeiladwyd hwynt? Ond yr un ateb a sisialir i'r glust ag a gai Mr. Stephens wrth holi y brodorion,—“Quien sane?”—“Pwy a wŷr?”

Os goddefir i mi droi am funud i edrych ar y tebygrwydd oedd rhwng cynfrodorion America a thrigolion y cynfyd yn Asia ac Affrica, yn eu harferion, cawn weled yn nrych hanes Ysgrythyrol fod yn Asyria a'r Aifft adeiladwyr tyrau a phyramidiau; a chawn weled hefyd fod pobl hynafol iawn, megis yr Horiaid, yn gwneyd eu tai yng nghilfachau ac ogofeydd creigiau a mynyddoedd. Y bobl olaf, mae'n debyg, a ffurfiasant ddinas gadarn Petra yng ngwlad Edom, oesoedd cyn geni Esau.

Trown drachefn i'r America, a chawn olion pobl fu'n cloddio eu tai yn nannedd clogwyni y mynyddoedd uchel. Mae'n wir nad ydynt mor hynod a Petra, ond, os darganfuwyd y rhai mwyaf ac ardderchocaf ohonynt, nis gall eu bychander neu eu sylmrydd brofi dim yn well na'u bod o ddechreuad mwy hynafol na dinasoedd Edom. Ac eto, os edrychwn am ddynwardwyr neu athrawon adeiladwyr y pyramidiau, cawn fod tyrau mawrion fel brynau, yn awr yn orchuddiedig gan goed a glaswellt fel pe baent fynyddoedd naturiol, wedi eu darganfod ag ystafelloedd mawrion yn eu crombil. A oedd craig-breswylwyr a thŵr-adeiladwyr America o flaen ynte ar ol cyfnod yr Horiaid, a gwareiddiad cyntaf yr Aifft ac Asyria? "Quien sane?" "Pwy a ŵyr?" Ond y mae ymwelydd diweddar a fu am flynyddoedd yn Uxmal, Yucatan, yn chwilio a dadenhuddo ymysg adfeilion a gweddillion gorchestwaith pobl anadnabyddus, yn proffesu ei fod wedi darganfod agoriad i ddeongli yr arwydd-luniau; ac y mae hwnnw yn meddwl ei fod yn gallu profi fod gwareiddiad Canolbarth America yn rhagflaenu gwareiddiad yr Hen Fyd.

Brysiog fu ymweliad Mr. Stephens ag adeiladau Yucatan. Nid hawdd oedd aros yno, oherwydd sefyllfa anymunol Uxmal gyda'i dwfr hen ac afiach. Yr oedd y coed a phethau eraill a guddient yr adfeilion, y flwyddyn cynt, wedi eu symud ymaith, fel y gallai Mr. Stephens o ddrws y prif balas adfeiliedig gyfrif cymaint ag un a'r bymtheg o adeiladau mawrion a dyddorol, mewn cyflwr rhagorol, tra gwahanol i sefyllfa adeiladau Copan a Palenque. Safai palasau Uxmal ar sefyllfaoedd uchel wedi eu hadeiladu ar y gwastadedd, ond nid oedd y bonsangau yma yn codi ar osgo fel y tybid fod pyramidiau Copan a Palenque, eithr yn syth ac yn fur cadarn o gerrig petryal. Wrth edrych ar y bonsangau hyn yn sefyll yn syth dechreuodd Mr. Stephens ameu mai pyramidaidd oedd rhai Palenque, a meddyliai mai y cwympiadau a gweddillion o amgylch godreun y bonsangau a roisai y ffurf iddynt. Yr oedd mesuriad bonsang un o'r prif adeiladau yn ddau gant a deugain wrth chwech ugain o droedfeddi. Ar yr ochr ddwyreiniol yr oedd grisiau llydain,—pob gris rhwng wyth a naw modfedd o uchder, a mor syth fel yr oedd yn rhaid wrth ofal mawr tra'n esgyn neu yn disgyn ar hyd-ddynt; o'r rhai hyn yr oedd cant



"YU AFON BERAIDD (Rio Doce) AR YI FFORDD O PHYNIAU TANLLYD GUATEMALA I'R MOR."

ac un yn eu lleoedd, naw wedi syrthio o'r pen uchaf, ac feallai ugain wedi eu gorchuddio yn y gwaelod. Yr oedd yr adeilad, neu y palas, yn drugain ac wyth o droedfeddi ei hyd. Yr oedd yr holl furiau o gerrig. Tu fewn yr oedd y parwydydd yn llyfnion fel pe buasai y meini yn gaboledig; tu allan a chyn ured a phen uchaf y drysau yr oedd y cerrig yn betryal a thrwsiedig, ond heb eu caboli; yn uwch i fyny yr oedd addurn-dalaith brydferth, ac o hyn hyd ben uchaf yr adeilad yr oedd pob ochr iddo yn orchuddiedig gan gerf-addurniadau cain a gorchestol yn ffurfio math o addurnwaith arabaid. Yr oedd y cerfwaith yma yn hollol wahanol i ddim yn Copan a Palenque. Yr oedd cynlluniad y portreadau yn ddieithr ac anirnadwy, yn bur orchestol; ambell i waith yn ddigrifol, ond yn aml yn syml, chwaethus, a phrydferth. Ymhlith y lluniau dealladwy yr oedd rhai ffigyrau mesuryddol, cerf-ddelwau, pennau llewpardiad, dail a blodau, a brith-addurniadau. Yr oedd yr holl addurniadau a ddilynt eu gilydd yn amrywio, hynny yw, yr oedd yr un a ddilynai yn wahanol i'r un a flaenorai; a'r oll yn ffurfio cyfanwaith cyfoethog a chymysg, a'r effaith yn fawreddog. Ac yr oedd yr holl wneuthuriad yn llawn mor rhyfeddol a'r effaith a gai ar yr edrychyd. Nid wedi eu cerfio ar y meini ar y mur nac mewn cymrawd yr oedd y lluniau a'r addurniadau, ond pob llun wedi ei ffurfio trwy gysylltu ynghyd ddarnau cerfiedig o gerrig, pob un yn anealladwy ar ei ben ei hun neu yn anghysylltiol â'r lleill, ond yr holl ddarnau wedi eu cysylltu â'u gilydd yn cyfansoddi addurn neu lun cywrain a pherffaith.

Beth ydyw'r dinasoedd rhyfedd distaw hyn? Beth oedd y gwareiddiad yma nad yw wedi gadael argraff ar ei ol? Azteciaid wedi eu gorchfygu gan y Spaenod, a'u hancs a'u llen-
Qnion rano? yddiaeth wedi mynd ar goll, yw'r cynfrodorion. Y mae mwy o allu ac o ynni ynddynt nag yn yr Indiaid fu'n crwydro Gogledd a De'r Amerig o'u blaenau. Nid ydynt yn cilio o flaen y dyn gwyn,—ychydig o amser yn ol yr oedd un ohonynt yn arlywydd Mexico; un ohonynt hwy oedd y Juarez erlidiodd y Ffrancod o'r wlad, ac a fynnodd saethu yr ymherawdwr Maximilian.

Ond er fod disgynyddion yr hen gynfrodorion yn ffurfio rhan fawr a phwysig o boblogaeth Canolbarth America, nid ydynt ond hanner gwareiddiedig. Llwyddodd y Spaeniaid
Coll'r hancs. i'w gwneyd yn Babyddion gor-babyddol a thra choelgrefyddol, ond y maent mor anwaraidd a phaganiaid unrhyw wlad. Dinistriwyd eu llywodraeth gyntefig, diboblogwyd eu hen ddinasoedd, a dilewyd pob olion o ogoniant gwareiddiad eu hynafiaid i geisio eu gorfodi i anghosio eu hanibyniaeth a'u crefydd fel y gallai y pendefigion a'r milwyr Ewropeaidd eu caethiwo yng ngwaith y mwn-gloddiau aur ac arian, ac er mwyn

i'r offeiriad eu proseytio i gaethiwed Pabyddiaeth. Byddai yr hen golofnau a'r hen ddelwau yn eu cynhyrfu yn aml i wrthryfel a gwrthgiliad. Y pryd hynny byddai ymryson dinistriol, a'r llwyddiant am ychydig yn ymddangos fel yn chwareu o'r naill ochr i'r llall, ond y diwedd fyddai gorchfygu yr Aztecaid, a mwy o ddinistrio ar eu hen ddinasoedd.

Tybia Mr. Stephens mai diweddar oedd gwareiddiad yr Aztecaid, ac nad oedd yr adeiladau'n hen pan ddaeth y Spaenod yn genllif dinistriol i'r wlad wedi darganfod America yn Yr ysgriften ar y mur. 1492. Ond y mae Dr. le Plongeon, fu am flynyddoedd yn chwilio adfeilion Uxmal, ac yn dysgu darllen yr arwyddluniau, yn tybied ei fod yn gallu profi o'r hanes ar y muriau mai yr hanes hwnnw oedd ffynhonnell llenyddiaeth hynafol yr Hen Fyd, ac hyd yn oed hanes y cwymmp, Cain ac Abel, a'r diluw. Heblaw yn Uxmal bu'r hynafiaethydd hwn yn chwilio llawer yn Chichin-Itza. Yr oedd Uxmal yn brif-ddinas ymherodraeth Mayax, a Chichin-Itza yn fath o'brif athrofa neu ganolbwynt gwareiddiad y byd, i'r hon y deuai dysgedion o bob man. Mewn darluniau yn y Troano MS., y mae rhai o'r ymwelwyr hynny yn cael eu dangos yn ddyinion barfog tebyg i'r Asyriaid. Nid oedd dynion Mayax nac un o'r gwledydd Americanaidd yn gadael i'w barfau dyfu.

Ond yr hyn sydd wedi gwneyd chwiliadau Dr. le Plongeon yn fwy dyddorol nag ymweliad Mr. Stephens yn Yucatan yw y deongliad tybiedig neu wirioneddol a rydd y cyntaf i'r arwyddluniau; a'i eglurhad o'r modd y darganfu agoriad dirgelwch yr ysgrifen ddyrus. Yr oedd Mr. Stephens wedi sylwi fod ymhlith yr arwyddluniau un gair neu lythyren debyg i'r *Tau* Aifftaidd. Daeth Dr. le Plongeon i'r penderfyniad fod cysylltiad agos rhwng arwyddluniau, os nad rhwng iaith, adfeilion America a'r rhai Aifftaidd. Perffeithiwyd ei astudiaeth trwy iddo megis orchfygu y rhwystrau oedd ar ffordd dal cymundeb â thrigolion y ddinas ddirgel y soniai Mr. Stephens am dani. Os na chafodd efe ymweled â'r ddinas neilltuol honno, neu os nad oedd y ddinas honno yn ffaith, cafodd Dr. le Plongeon gyfleustra i ddysgu iaith y brodorion sy'n cadw eu hanibyniaeth yn ne-orllewin Yucatan, sef y rhan o'r wlad lle mae y ddinas ddirgel.

A beth ddywedi, ddarlennydd, am yr haerriad mai yn Yucatan y llofruddiodd Cain ei frawd Abel, mai yn agos i'r America y digwyddodd y diluw pryd y diflannodd Atlantis, yr ynysgyfandir, i roi lle i'r Werydd osod ei wely, ac y boddodd dros drugain miliwn o fodau dynol? Digwyddodd y diluw hwnnw meddir, rhyw un fil ar ddeg o flynyddoedd yn ol.


Os nad ydyw dehongliadau Dr. le Plongeon yn gywir y maent yn dra chywrair. Y mae rhediad cynhwysiad llyfrau y muriau yn Yucatan yn debycach i hanes digwyddiadau nag i farddoniaeth neu chwedloniaeth; ond peth arall ydyw cymeryd yr hanes hwnnw fel yr argraffiad cyntaf a'r desgrifiad mwyaf pur o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn nechreu Llyfr Genesis, ac ar furiau yr Aifft ac Asyria.

Ond myn yr archwiliwr mai dyna ydyw. Y mae ganddo syniadau rhyfedd o newydd am ystyr y wyddor Roeg, ac am darddiad ieithoedd y ddaear; ond gall ei fod wedi dehongli'r arwyddluniau er hynny. Danghosaf beth ydyw ei ddehongliad; os nad yw'n gywir, y mae'r cerfiadau dan gysgod y coed duon hynny yn cadw eu cyfrinach eto.

Cofier fod yr Azteciaid, fel yr Indiaid, yn rhoddi enwau anifeiliaid ar eu plant. Sitting Bull oedd enw y pennaeth
Yr Azteciaid. Indiaidd anhyblyg a laddwyd ychydig amser yn ol yn yr Unol Dalaethau. Black Hawk hefyd oedd bennaeth galluog a roes boen i ymsefydlwyr yn America, rai ugeiniau o hynyddoedd yn ol.*

Ond dyma hanes Cain ac Abel, fel y darllen Dr. le Plongeon ef ar y cerrig ym mhalasau anghyfannedd canolbarth America. Y brenin Can (sarff) oedd adeiladydd neu adgyweirydd
Aac a Coh. dinasoedd hynafol Yucatan. Ganwyd i hwn dri mab, a enwyd Cay (pysgodyn), Aac (crwban), a Coh (llewpard); a dwy ferch, Moo (macaw, math o barrot), a Nicté (blodeuyn). Gan mai felly y gelwir pobl ym Mayax, rhoddir hwy yn yr arwyddluniau ar y muriau ar ffurf yr anifeiliaid a roddent eu henwau iddynt. Yn unol a deddfau ac arferion Mayax, yr oedd y mab ieuengaf i briodi ei chwaer hynaf. Mae'n wybyddus fod defod gyffelyb ymhlith yr Aifftiaid, yr Ethiopiaid, y Groegiaid, a thrigolion Mesopotamia yn yr oesoedd boreuaf. Yr oedd Coh, y mab ieuengaf yn filwr dewr a llwyddiannus, ac wedi helaethu terfynau teyrnas Maya; ac yr oedd Moo yn falch o lwyddiant yr hwn a garai. Ar ol marwolaeth y tad, y brenin Can, rhannwyd y deyrnas rhwng ei blant, a daeth Moo yn frenhines Chichin-Itza, tra y rhoddwyd i Aac, yr ail fab, ddinas hynafol Uxmal, lle y mae ei gerf-lun yn aros hyd heddyw uwchben y brif fynedfa i'r palas. Yr oedd Aac yn dra eiddigus oherwydd geir-da a phoblogrwydd ei frawd Coh, ac yn enwedig oherwydd iddo gael Moo yn wraig. Yn cael ei yrru gan ei nwydau drwg, bradgynlluniodd Aac yn erbyn ei frawd. Yn y cerfiadau ar y capan-coed uwch ben drws a arweinia i'r ystatell a adeiladwyd i roi

* Oni fyddai Arthen yng Ngheredigion, ac onid oes Fledlyn Llwyd yn Nolwyddelen?



UN O DDYFYRNOEDD GUATEMALA,—RHANDIR VERA CRUZ,


corff Coh ynddi, ac hefyd yn y darluniau ar y parwydydd, y mae yr hanes wedi ei argraffu, Aac yn cael ei ddangos yn arfog gyda thair gwaywffon, ac mewn ymrafael ffyrnig â Coh. Mewn cerfiadau pellach gwelir y modd y llofruddiwyd Coh gan Aac, trwy ei frathu dair gwaith yn ei gefn. Cadarnheir hyn oll yn hanes yr un digwyddiad yn y Troano MS.

Ymhlith y traddodiadau yn dwyn perthynas a digwyddiadau a gymerasant le, neu y tybir eu bod wedi cymeryd lle, ym moreu-ddydd yr hil ddynol ar y ddaear, nid oes un wedi
 Y diluw. ymdaenu ar led gymaint, nac yn cael ei gredu mor gyffredinol gan genhedloedd gwareiddiedig y cynfyd, nag hanes diluw mawr, tebyg i'r un y darllennwn am dano yn y Beibl. Mae'n wir nad oedd yr offeiriaid Aifftaidd, y rhai a gadwent yn llyfrgelloedd eu temlau gofnodion o bob digwyddiad ymhob rhan o'r byd, yn credu yng nghyffredinolrwydd y diluw, a gwawdient yr athronwyr Groegaidd, y rhai a gredent i'r holl hil ddynol gael ei dinistrio yn niluw Deucalion. Ond hysbyswyd Solon ganddynt, pan y talodd efe ymweliad â'r Aifft chwe chan mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, fod yn eu llyfrgelloedd hanes diluw trychinebus, yn yr hwn y diflannodd yn y tonnau mewn diwrnod a noson ynys fawr, "Tir Mû," a orweddai ym Môr y Werydd, mewn canlyniad i ddaeargryn dinistriol a thâruthriad llosgfal; fod y trychineb erchyll hwnnw wedi digwydd naw mil o flynyddoedd cyn ymweliad Solon, ac fod pob cymundeb rhwng yr Aifft a "Thiroedd y Gorllewin" wedi darford yn hollol ar ol y dinistr hwnnw. Mae desgrifiad o'r un digwyddiad dychrynlyd, a gofnodwyd gan offeiriaid Mayax, wedi ei gadw ar y muriau hyd ein dyddiau ni. Darganfu Dr. le Plongeon yr hanes yn gerfiedig ar y garreg sy'n ffurfio capan drws mewnol adeilad yn Chichin-Itza,—adeilad a elwir hyd heddyw Akab-oib,—“tŷ yr ysgrifen erchyll.”

Mae awdwr y Troano MS. hefyd, yn rhoddi llawer o dudalennau i'r un hanes; ac mewn ysgrif arall yn iaith Maya, a'r hon a gyfieithwyd gan Dr. le Plongeon, y mae desgrifiad maith o'r un digwyddiad. Mae'r tri hanes, nid yn unig yn cytuno â'u gilydd, ond hefyd â'r desgrifiad a roddwyd gan yr Aifftiaid i Solon.

Dyma gyfieithiad o'r hanes a gynhwysir yn y Troano MS.—


“Yn y flwyddyn 6 Kan, ar yr 11eg Muluc, ym mis Zac, digwyddodd daeargrynfaŷ dychrynlyd, a barhasant yn ddibaid hyd 13eg Chuen. Gwlad y bryniau lleidiog, tir Mu a aberthwyd, gan gael ei godi ddwywaith, efe a ddiflannodd yn ddisymawth yn y nos, tra'r ysgydwid yr holl byllfa gan gynhyrfaeau llosgfal. Yr oedd y tir yn ysgwyd ac yn suddo mewn rhai manau, ac yna yn ymddangos drachefn. O'r diwedd rhwygodd gwyneb y tir, a deg gwlad a dorwyd ac a chwallowyd. Gan nas gallent wrthsefyll nerth y cynhyrfaeau, hwy a suddasant gyda'u peitair miliwn a thrugain trigolion, wyth mil o flynyddoedd cyn ysgrifennu'r llyfr hwn.”



unes Cain ac Abel, a
 Y mae llawer o
 y mae'n amlwg,
 yn am ietheg. Ond
 ain iawn, ac y mae
 amrywiaeth cened-
 wedi suddo, ac nad
 tol ond ei bigynau
 ay 'n eithaf tebyg.
 gwisgir ef fel croen
 pes ymysg y lluniau
 seren Croes y De,
 diad gwlaw a bywyd

an i droi ein golygon
 arat i wastadeddau
 gennym gredu fod
 hongli eto.

DWEN WILLIAMSON.



DEWI WYN O EIFION.

PENNOD IV.

E.I.—Mae'n ddiameu ein bod oll yn teimlo ein hunain yn cynhesu yn anghyffredin wrth ddilyn yr ymdrafodaeth fuddiol ac adeiladol a fu rhwng Dewi Wyn a'i gyfaill dilynwiw J. R. Jones. Wyddoch chwi beth, mae mwy o ymohebu wedi bod rhwng y ddau nag oeddwn erioed wedi feddwl, a mwy nag a freuddwydiodd llawer un heblaw fy hunan. Diolch yn fawr i chwi, Taliesin, am ddwyn i sylw y fath ohebiadau defnyddiol a blasus. Mae yn iechyd i mi glywed pethau fel yna; ac os oes coel ar iaith calon, credu yr wyf iod fy ngwyneb yn gloewi o sel a brwdfrydedd am ychwaneg. Cymeraf, gan hynny, yr hyfdra i ofyn i chwi, Taliesin, fel un sydd yn dra hyddysg yn hanes Dewi Wyn, i roi i ni ychwaneg o gynnyrch ei ymdrafodaeth lenyddol â'r doethwych J. R. Jones. Diameu gennyf y buasai hynny yn fantais i bob un o honom werthfawrogi ei hanes, a pheri inni deimlo mwy o gynhesrwydd wrth ei draffod.

TAL.—Os felly, ymdrechaf gydsynio, gan fy mod yn teimlo yn wresog yn y peth; ac fod eto ychydig ddefnyddiau o fewn fy nghyrraedd. Yn hytrach nag esgeuluso dim, gallaf, fel chwanegiad at yr ymdrafodaeth a fu rhyngddynt ar beroriaeth, grybwyll fod J. R. Jones, i raddau pell iawn, yn cydnabod ei hun yn rhwymedig i Ddewi am y cynhorthwy a gafodd ganddo i gwblhau ei lyfrau emynnau; ac yr oedd cryn undeb yn eu golygiadau yn yr ymdrafodaeth ddyddorol hon. Ni ellir disgwyl manylrwydd yng nghwrs cysylltiadol yr hanes, ond mewn trefn i nesu ymlaen, dygaf gerbron chwech o'u llythyrau, gan anturio eu rhestru fel y canlyn.

I.

Diwrdd Mai, 1812.

Fy nghymwynaswr gwiwgoſ,

Derbyniais yr eiddoch o ddiwedd Awst, lle cefais fy moddiaw yn burion. Hoffus iawn a fyddai gennyf gael gweled yr emynnau a grybwyllasoch am danynt yn eich llythyr, cyn gynted ag y galloch gael odfa i'w hadysgrifennu. Nid wyf yn amau mymryn na byddant yn ddodrefn derbyniol a chymeradwy yn y casgliad newydd, os caf gymorth ac iechyd i'w gyhoeddi.

Erbyn dyfod eich llythyr i'm llaw, yr oedd gennyf finnau ryw fath o gyffeithiad ar yr emyn gyntaf o'r pedair a anfonaswn i chwi, ac ar fesur gwahanol i'r eiddoch chwi, yr hon a gewch chwithau yma fal hyn.

Pam mae pechod a marwolaeth
Ymysg odiaeth wyrthiau Duw ?
A pham yr amlhaodd camwedd,
Trwy ddeddf lân gadd dynolryw ?
Pam gadawyd i'r Iddewon,
Oedd anwyllion Brenin nef,
I gyflawni geiriau'r Iesu
Yn ei angau dirfawr ef ?

Fal y byddai i drugaredd
Lwyr orchfygu pechod cas,
Fal disgleiriai mewn tywyllwch
Ddirfawr oleu dwyfol ras ;
Pam y torrwyd Israel ymaith
I gael impio pobloedd byd ?
Ond os rhedant i'r un rhyseidd,
Torrir hwythau oll i gyd.

Felly maeddir balchder dynol,
A chwilyddir pob rhyw ddyd ;
Fel y byddo'r etholedig
Yn ddyledwr gras ei hun ;

Felly hwy a adeiladir
Yn breswylfod Duw trwy ffydd,
A dyrchafir gras yn unig
Pan ddel barn y balch di-ffydd.

O ! mor ddirfawr ydyw dyfnder,
Doethder a gwybodaeth Duw !
O ! mor anchwiliadwy hefyd
Yw ei ffyrdd a'i farnau gwiw !
Pwy a wybu ei feddyliau ?
Pwy a rodia'i lwybrau ef ?
Pwy fu gyntaf yn ei gyngor
A sefydlu'r arfaeth gref ?

Neu, pwy roddes iddo'n gyntaf,
Ac fe delir iddo'n llawn ?
Pwy yw'r gŵr a'i cyfarwyddodd,
Ac a haeddodd ddim o'i ddawn ?
Caays popeth sydd o hono,—
Trwyddo,—iddo, hyd y nen,
Iddo'n ol y bo'r gogoniant,
Gyda moliant byth, Amen.

Dyma i chwi un arall a gyfleithais yn ddiweddar, ar All Ddyfodiad Crist.

Chwi sy'n ofni Duw, gwrandewch,
Arwyddion cewch i ddangos
Fod ail ddyfodiad Crist o'r nef,
A'i ddial ef yn agos.

Oerfelgarwch a balchder cas,
A hunan atgas bydol,
A chariad rhai yn oeri sydd,
A phrin yw ffydd iachusol.

Mae teyrnas anghrist a fu'n sad,
O'r bron yn dadymchwelyd ;
A'r athrawiaethau sydd ar led
Gwenwynig rhed eu hysbryd.

Fel hyn y ceblir ffordd y gwir,
A Christ a wedir hefyd,
A gwradydd ganddynt ffordd y groes,
Ei farwol loes a'i fywyd.

Banerau trais yn uchel sydd
Gan ddynton penrhydd gwaedlyd ;
Yr awdurdodau'n awr a gryn
Gan ofn a dychryn enbyd.

Tan ddirfawr orthrymderau'r dydd,
Ni saif ond ffydd ddiysgog,
A'r etholedig a fydd byw,
Trwy ras eu Duw trugarog.

Eich pennau codwch chwi i'r lan,
Braidd bychan amyneddgar ;
Mae'ch iechydwrriaeth chwi ger llaw,
Eich Arglwydd daw i'r ddaear.

Wele fe ddaw fal lleidr y nos,
Mae'r dydd yn agos weithian ;
Disgwyliwn fal morwynion call,
Gan ochel gwall a hepian.

Byddai hoffus gennyf gael eich cyfleithiad chwithau ar yr emyn ganlynol, ar eich dewis un o'r mesurau arferol gennym ni.

Lo he comes, the King of glory
With his chosen tribes to reign ;
Innumerable saints and angels
Swell the mighty Conqueror's train,
Now in triumph,
Sin and death are captive led.

He who once on Calvary's mountain
Grouned and bowed his sacred head,
Now appears enthroned in glory,
The sovereign judge of quick and
Haleluia, [dead,
Now the promised kingdom comes.

Nation rising against nation,
Antichrist's declining sway ;
All these signs are fast fulfilling,
Ushering in that awful day,
When the secrets
Of all hearts shall be revealed.

See the rocks and mountains rending,
All the nations filled with dread ;
Hark the trump of God proclaiming
Through the mansion of the dead,—
"Come to judgment,
Stand before the Son of Man."

Hear the chief among ten thousand
Thus address his faithful few,—
“Come, ye blessed of my Father,
The Kingdom is prepared for you ;
I was hungry, I was thirsty, I was naked,
And ye ministered to me.”

But how awful is the sentence !
“Depart from me, ye cursed race,
To that place of endless torment,
Never more to see my face ;
I was hungry, I was thirsty, I was naked,
Ye to me no mercy shewed.”

Then awake, ye slumbering virgins,
Trim your lamps, the bridegroom's near ;
Let your loins with truth be girded,
The time proclaim he'll soon appear ;
Mark the fig tree,
Budding shows the summer's near.

Goreu gennyf po gyntaf yr anfonoch imi yr emynnau a grybwyllasoch, gyda chyfieithiad o'r emyn Saesneg flaenorol. Meddyliwn fod gennyf 30 o emynnau newyddion, wedi eu cyfieithu o'r Saesneg, ar destynau tra phwysig. Bellach, byddwch wych. Pob bendith reidiol i'ch rhan, yw dymuniad

MR. DAVID OWEN,

Caerwen, Llanystumdwy.

Eich ewyllysiwr da yn ddfiuant,

J. R. JONES.

II.

Fy nhirion ohebydd,—

PWLLHILL, * Hydref 15 B.A., 1812.

Derbynais yr eiddoch o ddiwedd Medi yn ddi oedi, y mawr ddyiolwch am y ddwy emyn o'ch cyfieithiad ynddo, am y rhai y gcfynnaf gennad i ddywedyd fy meddwl noeth di-wawd, di-weniath. Y gyntaf yn fy marn egwan i sydd dda ragorol, a'r ail sydd ogystal nas gwn imi weled erioed ei gwll, oddi-eithr un gair o lygriaith, sef *sad* yn y llinell “Mae teyrnas anghrist a fu'n *sad*.” Diameu gennyf mai Saesneg ydyw, er fod rhai o'r beirdd manyliaf a gorchestolaf wedi ei ddrwg arfer yn yr oes hon, a rhai a aethant heibio hefyd. Gan hynny, mynnwn i chwi newid y gair. Gallwch wisgo yr ystyr mewn rhyw eiriau eraill, mae yr emyn yn rhy ardderchog o ran naturioldeb y farddoniaeth, yn ogystal a chadarnwch y synwyr, i oddef coll mewn iaith yn agos ati. Tebyg ydyw o ran dull ymadrodd ac ysbyrd yr awenydd i waith y bythgofiadwy Edmwnd Prys ; gwaith anghydmorol yr hwn y darfu i mi o'm mebyd, hyd yn ddiweddar, yn dra chamsyniol ei ddfrio, ond newidiais fy marn fel troi cwpan yn y dŵr, a meddwl yr ydwyf mai y darn gwaith ardderchocaf a fedd cenedl y Cymry yw y Salmau Cân, gwaith Edmwnd Prys,—yn gyntaf, o ran cywirdeb a manylwydd yr athrawiaeth wrth ei chydmaru a'r Ysgrhythyr ; yn ail, perffeithrwydd a phriodoldeb yr iaith Gymraeg, ynghyda chyflawnder o honi ; ac yn drydydd, y dull hyffraeth o ymadroddi yn y modd mwyaf treiddgar, effeithiol a serchiadol, megis y ceir ynghyd megis dan rwymyn synwyr cyflawn wir feddwl y Salmydd, goludoedd yr iaith Gymraeg, a'r fraethineb mwyaf hedegog, melus a chywrair, fel na all y cynefin a'r ystyriol ond hoffi a mawrygu'r cyfan.

Dyma i chwi gyfieithiad o'r emyn a anfonasoch i mi yn gyntaf yn yr ysgriflyfr, gwelwch leoedd i ddewis geiriau a llinellau, &c. Chwi gewch yn ganlynol rai emynnau y byddai yn dda gennyf i chwi roi llety iddynt yn eich casgliad, os gallwch farnu bod un neu rai ohonynt yn deilwng o gael inc a phapur a sylw darllenwyr ; ac os cyhoeddwch ryw faint o'r rhai hyn neu o'r rhai a anfonais eisoes i chwi, bydd hynny yn wobwr deublyg i mi am yr ychydig gymwynas a gyflawnais ar eich dymuniadau. Galarus a chywilyddus gennyf, yn wir, na allaswn wneuthur yn well, ac os gofynnwch ddim byth yn gyfelyb oddiar fy liaw, yr wyf yn bwriadu rhoi mwy o egni at y gorchwyl, oherwydd darfu i'r emynnau o'ch cyfieithiad chwi godi eiddgedd arnaf.

Yma yr amser hwn y cefais hamdden i ysgrifaw yr emynnau fel y gwelwch. Wedi i chwi eu darllen a chopio yr hyn a ddewisoch, disgwyliaf i chwi ddychwelyd yr ysgriflyfr, ond nid rhaid i chwi ddim brys, ond bod yn sicr yn y diwedd o'i anfon mewn llaw ofalus. Os digwydd i chwi fflasio cyfieithiad eto i'w roi yn eich casgliad, anfonwch ataf, ac os bydd brys, dychwelaf i chwi gyfieithiad y Gwener cyntaf i farchnad Tref Fadog.

At JOHN R. JONES,

Garreg Faer, Llanfrothen.

Wyf eich gwasanaethwr anfedrus,

DAFYDD OWEN.

* Ym Mhwlhelli yr wyf y dyddiau yma, tra fyddo mrawd yn fair Gaer.

III.

Mis yr Iâ, 1814.

Y Cyfaill astudgar,—

Bum ar feddwl dyfod i'r Gaerwen, ddydd Iau, y 6ed o'r mis hwn. A phe gwybuaswn eich bod chwi gartref yn y cyfamser, dyfod yna a wnaethwn. Bum y dydd hwnnw cyn belled a thŷ y llencyn gorweiddiog, Siôn Tomos;—ac yn pregethu yn y Ty'n Coed yn Ffriddlwyd, y noson honno. Trannoeth, yr oeddwn yn rhwymedig i droi adref yn ddiocedi,—pe amgen, daethwn unwaith hyd y Gaerwen. Yr oedd gennyf y pryd hynny gyda mi rai emynnau, neu ganiadau Cristionogol, ar amrywiol destynau pwysfawr, wedi eu cyfleithu gan mwyaf o'r Saesneg. Buasai da gennyf i chwi iwrw golwg arnynt, fal llên-feirniad deallus a synwrol; canys nid wyf fi yn ymhonni fy hun yn fardd na phrydydd llithrig ac awenyddol, er bod gennyf ddirfawr hyfrydwch mewn prydyddiaeth Gymraeg, ar destynau dwyfol.

Wrth eich llythyr o fis Hydref, 1812, meddyliais, a disgwyliais yn wresog, y buasai gennyf gryn luwr o'ch gwaith prydyddol a chyfleithiadol chwithau, cyn hyn; ond hyd yn hyn, cefais fy siomi yn hollol. Yn eich llythyr a grybwylliais uchod y darlennir fal hyn,—“Os gofynnwch ddim byth yn gyffelyb oddiar fy llaw, yr wyf yn bwriadu rhoi mwy o egni at y gorchwyl, oherwydd darfu i'r emynnau o'ch cyfleithiad chwi godi eiddigedd arnaf. Ac os digwydd i chwi frysio cyfleithiad eto, i'w roi yn eich casgliad, anfonwch ataf; ac os bydd brys, dychwelaf i chwi gyfleithiad Gwener cyntaf i farchnad Tref Fadog.” Ac os darfu fy ngwaith egwan i gynt, “godd eiddigedd arnoch,” mi gaf yma unwaith eto eich cyfarch â'm cynghaneddiad rhydd ar Esay xi., xii. A chymeraf fy nghennad ar hyn o bryd, gan wirio i chwi fy mod yn parhau

Eich ewyllysigr da yn ddiffuant,

MR. DAVID OWEN,
Caerwen, Llanystumdy.

J. R. JONES.

Bydd gwreiddyn Jesse lawen lwydd,
I'r bobl yn arwydd is y nef;
Cenhedloedd pell a ront eu pwys
I orffwys dan ei gysgod ef.

Ar Seion fryn, yn frenin hedd,
Yr eistedd mewn gogoniaut mawr,
Ymloda ei lywodraeth dda,
Teyrnasu wna tros ddaear lawr.

Cyflawnder a ffyddlondeb clau,
Wregysant lwynau brenin nef;
Bendithlon gwiw o heddwch hir,
I'w bobl yn wir a ddyry ef.

Fe dderfydd pob ymryson maith,
Fe dderfydd gwaith rhyfela mwy;
Ni ddaw i fro hyfrydol hedd, [chlwyr.
Na braw na chledd, na briw na

Y blaidd a'r oen cyd-drigant hwy,
Ni ddrygant mwy mewn bro a bryn;
Y llo a cheneu'r llew'r un wedd,
A'r llewpard gorwedd gyda'r myn.

Drygu, na difa mwy ni bydd,
Yn mynydd iach sancteiddrwydd Iôr;
Gwybodaeth ddwyfol lleinw'r llawr,
Fal dyfroedd dirfawr yn toi'r môr.

Yr Arglwydd eilwaith gyda'i law
A gasgla draw ei bobl i gyd;
Gwir Israel Duw heb un ar goll
A gesglir oll trwy barthau'r byd.

Ac yn y dydd heddychol hwn,
Moliannwn rin dy ras, O! Dduw;
Dychwelwyd dy lldiawgrwydd di,
Cysurir ni â'th iechyd gwiw.

Duw ydyw'n hiechydwrtaeth gref,
Clodfarwn ef a'i nefol ddawn;
Ein nerth a'n cân yw Duw o hyd,
A'n hyfryd iechydwrtaeth lawn.

Molwch yr Arglwydd Dduw dilyth,
Cyhoeddwch fyth ei enw ef;
Hysbyswch chwi ei wyrth digoll,
I'r bobloedd oll ar lawen lef.

Cenwch i'r Arglwydd, fal yr oedd
Ei holl weithredoedd yn y tir;
Mawr odidawgrwydd a wnaeth Duw,
A theilwng yw o fawl yn wir.

Preswylferch Seion, llawenha,
A gorfoledda yn dy fraint;
Mawr yw Sanct Israel o'th fewn di,
A mawr yw bri ei siriol saint.

O.S.—Od yw eich cynghaneddiad chwi ar Gân Moses, Exod. xv. ar ryw Salm neu emyn, byddai da gennyf gael adysgrif o honi, yn eich llythyr nesaf.

J. R. JONES.

IV.

CAERWEN, *Chweroer* 2ed, 1814.

Y gohebydd amynoddgar,—

I fod yn fyr, ni feddaf yn gynrychiol, yn lle eiddigedd, ond y cywilydd i'w broffesu; ond yn hysbys o'ch dioddefgarwch, haeraf mai fy meddwl diffuant a adroddais pan addewais gynt mor hael a pharod, y gymwynas o gyfieithu emynnau, &c. Yr oeddwn y pryd hynny mewn tymer fywiog ac ysbryd awenyddol, fel y buasai cyfieithu yn fwy o chwareu na llafur i fy meddwl; ond cyn dyfod eich llythyr i'm llaw gyda'r emynnau Saesneg, yr oedd gauaf rhewllyd o syrthni wedi cloi fy nghynheddfau, er darllen yr emynnau, ni wnawn fwy ymddull i'w cyfieithu nag a wnai cylla llawnion o effeithiau y llycheden â phryd o fwyd. Yn ganlynol i hyn, dilynodd lliaws o drafferthion fy nwyllaw a'm meddyliau yn ormodol yn yspaid y flwyddyn a aeth heibio, er nad oeddwn yn anghofio nac yn diystyrru yn y mesur lleiaf eich gofyniad o'm gwasanaeth, hyd nos Sul diwaethaf, pan ddaeth eich llythyr olaf i'm llaw yn hysbysu eich bod wedi bwriadu dyfod hyd yma, a'r hyn yr oedd yn ddrwg gan fy nghalon eich bod yn, ac wedi eryn mor daer a pharhaus am gyn lleied cymwynas oddiar law dynsawd mor wael ag wyf fi ymhob ystyriaeth. Aethum yn ddiatreg i fysg fy mhapurau, daethum hyd i'ch cynlythyr, a chyfieithais yr emyn gyntaf cyn cygu. Doe, eilwaith, y tarewais at yr ail, a chyfieithais yr ail a'r drydydd a'r bedwerydd cyn cygu; nid oedd cyn y diwedd fawr drafferth na llafur, namyn darllen y Saesneg ac ysgrifaw y Gymraeg. Ond, ow, ow, y mae y cyfieithiad fel pob cysoddiad o'm heiddo, yn llawn o bethau sy'n anfoddlondeb a digalondid i'm meddwl, heblaw fy mod yn ystyried fy mod wedi ysgwyd ymaith y blodau godidog ac aroglber oedd yn y Saesneg; y mae ambell linell yn wrthun o anystwyth ac anaturiol, heblaw fod y rheswm yn wanlyd a thywyll; ac oni bai'r cyfryw a'r cyffelyb bethau, byddwn dri rhwyddach o'm gwasanaeth yn cysoddi ac yn cyfieithu barddoniaeth. Anhawdd, yn fy mryd i, yw i un awenydd cyfieithu emyn gynhwysafawr, heb gymeryd ehangach mesur, heb waethygu'r ystyr yn fawr—gormod gorchest i mi yn wir yw cadw ymadrodd lithrig a synwyr cyflawn a goleu wrth brydu yn wreiddiol, a mwy na hynny wrth allegu.

Ym mherthynas i'r gair *sad* a phethau ereill a grybwyllasoch yn eich llythyr, yr wyf yn dueddol i feddwl fel chwithau. Ym mherthynas i'r emynnau o'r eiddof, nad oeddych yn hysbys o'u mesur, dyma i chwi lyfr emynnau o waith bardd cadarn a godidog o swydd Ddinbych, yr hwn yr ewyllysiwn i chwi ei ddarllen i gyd drosto, a chewch weled ynddo rai emynnau ar yr un mesur ag y mae yr eiddof finnau dan ein ystyriaeth, a dyma i chwi hefyd gân Moses yn argraffedig; nid yw werth i chwi ei dychwelyd; ond os byddwch yn meddwl ei chyhoeddi yn eich casgliad, gadewch im wybod, ac adysgrifennaf hi yn fanylach.

Yr wyf yn ystyried eich cyghaneddiad o'r pennodau yn *Esay* yn ganolog, os nad pur dda; y peth mwyaf tramgywyddus i mi, yw fod tarawiad y sain yn yr ail linell o barth y pennill yn cymeryd lle cyn cytraedd hanner y sillau, megis yn yr hon a ganlyn,—

Cenhedloedd pell a ront eu *pwys*
I *orfwys* dan ei gysgod ef.

Y mae y sain *wys* oherwydd ei bod yn dyfod i mewn cyn cyfrif hanner y llinell, braidd yn ddielfaith, ac yn analluog i roi difyrrwch disagwylidig i'r glust,— adroddwch y fath linellau i chwi eich hun, ac ymwrandewch yn esgud am darawiad y gynghanedd sain, ac yna bernwch drostoch eich hun. Y llinell a nodais, a ysgrifennwn i fel hyn,—

yn y man }
Daw y cenhedloedd o bob *man* } lle i ddewis.
I orfwys *dan* ei gysgod ef.

Yn yr ail pill yr ysgrifennwn fel hyn,—

Ar Seion fryn yn Frenin hedd,
Yn eistedd mewn gogonodd mawr.

Yn y chweched, fel hyn,—

Drygu, na difa mwy ni bydd,
O fewn i *fynydd* sanctaidd Iôr.

Yn yr wythfed,—

Ac yn y dydd heddychol hwn,
Dy ras moliannwn, O! ein Duw.

Ymhellach, gelwch i gof y ganfed Salm yn ol cynghaneddiad y gwiwgof Edmwnd Prys, er fod Edmwnd Prys, er mwyn cywirdeb yr ystyr, wedi arfer rhyddid agos yn eithaf helaethrwydd; eto, y mae wedi gofalu am y rheol a gynhwysir uchod ymhob pennill ond un, hyd yr wyf yn cofio, sef yn y cyntaf,—

Dewch o flaen Duw â pheraidd dôn,
Trigolion y ddaear i gyd.

Ond y mae yna gynghanedd ag sydd mewn gradd yn goddefoli'r bai i'r glust gyfarwydd awenyddol, sef cyffyrddiad y gynghauedd draws yn swm y llythyr-ennau R ac G. Gwelwch

Trigolion y ddaear i gyd.

Ond er hynny, nid yw hi yn gwbl gymeradwy yn fy marn egwan i.

Nid gormod nac ofer, ysgatfydd, a fyddai i chwi (a phob awdwr arall) ddangos eich ysgribyr cyn ei fwrw yn y wasg i ryw gyfaill a fo yn deall peth am natur ac ansawdd eich cyfansoddiadau. Weithion, onid oes dynsawd mwy cyfleus i chwi ei gyrrhaeddyd, a chymhwysach i'r gorchwyl o adolygu eich cysoddiad neu eich casgliad, boed ddiameu gennych bod i chwi roesaw cyflawn i fwynhau yr hyn sydd ar fy llaw i yn yr achos hwn. Pan ddeloch nesaf i Gricerth, os bydd da yn eich golwg, byddwch gwbl hyf i ddyfod yma i aros rhyw yspaid o amser ag y byddo eich galwedigaeth yn ei genadhau i chwi, cewch ddiagon o fwyd a llety gwerinaidd fel y byddont, a rhydd groesaw calon. Heblaw hynny, gwybyddwch y byddai hoffus gennyf gael eich cymdeithas i wrandaw arnaf yn ceisio darllen Hebraeg, ni chefais glust un egsus o athro erioed i'w dychrynnu â'r swm hwnnw, ond yn unig yr eiddo Rhislart Robert o Aberdaron; ond pwy well?

Gan fod fy nyledsyydd fol llafurwr yn llenwi un o'm dwylaw, a chydymaith gwarthus a elwir diogi yn gyffredin yn mwynhau defnydd y llall, byddai da gennyf i chwi ddychwelyd y pedair emyn gyda'r llyfr argraffedig.

At J. R. JONES,
Garreg Fawr, Llanfrothen.

D. OWEN.

v.

CAERWEN, Ia-yn-awr 13eg, B.A., 1815.

Y Cyfaill hoff,—

Derbyniais yr eiddoch ynghyda'r llyfryn mewn amser dyladwy, can croesaw i chwi gadw hen lyfr Gwilym Ganoldref yr yspaid a fynnoch, neu hyd oni alwyf fi am dano. Ym mherthynas y mesurau a arferodd Ed. Jones, &c., nid wyf yn ddiagonol i farnu hyd foddlonrwydd i mi fy hun. Cof gennyf yn ddiweddar im cymydog Rd. Jones o'r Coedcae Du gyfansoddi carol plygain ar Mentra Gwen, ac i minnau ryfygu neu ruthro dywedyd nad oedd y fath dôn yn addas ar garol neu ryw ganiad crefyddol mwy na hen rigymgainc ddawnsio, &c., ond erbyn i mi glywed y gynulleidfa ym Mryn Egan yn canu'r garol, ymddangosai fod y dôn yn dra gwahanol i'r un a genid ar benhillion masweddol; ac wedi hynny, petrusais fel na feiddiais ond bod yn ddiastaw, &c., yr un pryd, mae enwau cellweirus y fath fesurau, ynghyda'r hir a'r hen arferiad masweddol ohonynt yn rhyweth, mewn gradd o leiaf, yn erbyn eu cymeradwyaeth gennyf.

Ond yr hyn a dorrai'r ddudl o barth pethau cyffelyb yn bennaf yn fy meddwl i a fyddai cael gwybod ar ba fath fesurau a thonau y canodd y proffwydi drwy ysprydoliaeth y Salmau a rhannau barddonol ereill o'r Ysgrythyf. Atolwg, ai byw yw'r wybodaeth o'r nodau tonawl (*musical accents*) sy'n cyd-fyned âg agos bob dau neu dri gair yn y Salmau Hebraeg? Ac os byw ydyw, mae'n debyg mai yn meddiant yr Iddewon y mae'n cartrefu; os amgen, anichon cael y fath dystiolaeth, i benderfynu pa fath fesurau sydd gymhwysaf neu anghymwysaf i'w harferyd i glodfori yr un Gwrthddrych gan dduwiolion y Testament Newydd, fel y dywedir

Pan ddarlennais eich cymhelliad i mi gyfleithu a chysoddi ychydig benhillion, yr oeddych fel yn gofyn imi beth nad oedd mewn un modd yn alluedig imi ei gyflawni; oherwydd bod yn teimlo fy nghynheddfau mor ddi-ysgogiad a thuedd at y fath orchwyl ag y gallasai fod ceffyl neu eidion, darlennwn yr emyn Saesneg gan ddisgwyl i hynny gyffroi'r nwydau a deffro'r awen, ond yn ddi-ffaith—cynnwg cyfleithu pennill heb ymgais dim am gynghanedd ond y brif-odl, methu yn deg—cynnwg eilwaith canlyn swm y glust gynghaneddol, methu yn hollol, a hynny i gyd oherwydd fy mod yn analluog i dafu'r diogi, fel pe gwelid dyn yn rhy swrth a diog i ddiosg ei hugan cyn dechreu medi—cywilydd yn ddiau, ow, ow! Ond wedi hynny, cefais ryw egwyl i gyfansoddi pennill ar Adgyfodiad, fel rhywbeth yn ymgripio â'i ewinedd i fyny hyd bared—pennill wedyn nes cyr-raedd i ddeuddeg; ond nid wyf yn gallael gobeithio nad rhai hynod o salwon ydynt, a llai na gwerth sylw. Dyna nhwy i'ch barn a'ch triniaeth chwi arnynt; os oes rhai o honynt yn ganolig, cymerwch at eich dewis wasanaeth; os oes 6 neu 8 o honynt i'w deol, ac eisiau cysoddi 2 neu 3 yn eu lle, anfonwch hyfforddiadau, ac mi a gynhygiat gyflawni'ch arddelwad.

Ym mherthynas i'r emynnau a anfonasoch i mi, y maent, yn fy marn egwan i, nid yn unig yn cynnwys synwyr cadarn, gloew, ac athrawiaeth iachus, eithr hefyd mae arnynt ol bardd craff a chyfarwydd, yn neilltuol yr emyn ar Gariad Brawdol; prin y medraf weled lle i roi ewin i feio na gwellhau; yn wir, yr wyf yn hell o fod yn gwenieithio, ac os wyf yn canmol gormod, ar eich cysoddiadau, fy anwybodaeth a'm amherffeithrwydd yw yr achos yn ddigymysg. Gan na fedrais foddio fy hun ar emyn Adgyfodiad, nid wyf yn bwriadu ymyrryd dim weithion â cheisio cyfleithu yr emyn a nodasoch.

Terfynaf fy llythyr llipa, gan ddiolch i chwi am fy arhegu â chymwysau gwerthfawr ac ardderchog, ac os bydd un o dair o'm hemynnau yn teilyngu llety yn eich llyfryn a'u defnyddio gan Gristionogion, dyna i mi gan gwoibr am fy ychydig lafur trwstan a phlentynaid. Dymunaf arnoch hefyd barhau eich gohebiaeth a'ch cyfeillgarwch, ac os bu idiol yn eich tyb a fydd imi olwg garedigol ar eich ysgriflyfr ynghyda'ch ymweliad chwithau, danghosir pob parodrwydd o ewyllys da gan eich cyfall anheilwng a'ch cymwynaswr anwadal, eithr eich hoffwr diragrithiol,

D. OWEN.

J. R. JONES,
Gareg Fawr, Llanfrothen.

VI.

CAERWEN, *Mai* 25, 1815.

Hynaws Gyfaill,—

Er fy nghynderwng, nid wyf yn methu cywilyddio am fy ymddygiad anynol ac anheilwng o gymhwysderau cyfaill; gobeithio y medrwch faddeu ac esgusodi, yr wyf yn golygu yr holl emynnau a anfonasoch imi yn dra theilwng o'u cyhoeddi a'u defnyddio; nid oes nemawr ynddynt yn fy anfodloni nac y medraf eu gwellhau. Ond nis gwn amgen nad all y newidiadau canlynol dueddu at ddiwygiad, cewch farnu drosoch eich hun,—

AR Y GWEADIGAETH.

Wrth ordinhad ac archiad Iôr.—Wrth ordinhad *y cadarn* Iôr.

YNG NGORUCHWYLLIAETH YR EGLWYS.

Fal un a sathrai win wryf.—Fal un a sathrai *y gwin wryf* } lle i ddewis.
Sethrais y gwin wryf fy hun.—Mi sethrais y gwin wryf fy hun.

YN NIOGELWCH A BUDDUGOLIAETH LAWN.

I roddi'ch pwys yn hollol.—*I'ch* roddi'ch pwys yn hollol.

Y BRIF-FFORDD.

Cenwch chwi, waredigion Duw.—*O!* cenwch waredigion Duw.

D

GALWAD A FFYDD ABRAHAM.

Anwylion bererinion nef.

Nid wyf yn medru amgyffred yn oleu ymha fodd y mae yn gwbl briodol i alw y rhai sydd yn ymdeithio ar y ddaear yn bererinion nef, gwell y dirnadwch hynny eich hun ond ei ystyried, nid wyf yn beiddio beio'r llinell, namyn crybwyll.

Pe bawn feirnydydd addas ar gyfryw ag ydyw eich emynnau, y gorchwyl a fyddai canmol deg cymaint ag a ellid gynnyg feio, ac os nad wyf yn camgymeryd, mae y rhan fwyaf o lawer ohonynt yn fwy ardderchog a gorchestol na nemawr o emynnau argraffedig adnabyddus i mi, a gresyn a fyddai peidio eu cyhoeddi; ar yr un pryd, chwi ellwch, os oes rhyw linellau yn ymddangos yn fwy diragoriaeth na'u gilydd, ymdrechu i'w gwellhau. Meddyliwn mai cymwys yw yr hyn a nodasoch ar gynghaneddiad Hywel, mae'n debygol mai o'r tadogaeth *cwmp* y tarddodd *cwmp*, ac os Cymraeg yw *cwmp*, ni wn i na ddichon fod *cwmp* yn Gymraeg hefyd; ond pa fodd bynnag, nid yw yng nghyfrif ysgrifwyr ond llygiad o'r Saesneg. Buaswn wedi hen anfon yr ychydig sylwadau tylodion uchod er ystalm, oni buasai diogi mawr arnaf, a diogi mwy ar yr awen, yn hwyrfrydig ac yn gyndyn i-gysoddi dim ar eich testyn, nes yn rhywfodd iddi o'r diwedd fwrw rhywbeth digon anhebyg i emyn oherwydd meithder yn un peth, ac yr wyf yn ofni mai prin y mae yn werth canolog. Mae ynddi ambell linell sydd ysgrifedig o'r blaen yma ac acw yn rhai o'r emynnau a anfonais i chwi gynt. Byddai burion gennyf gael eich beirniadaeth diweniaeth arni: yn wir, nis gwn i pa beth ydyw. Byddai dra dymunol gennyf eich gweled yma, os bydd eich galwedigueth yn cenadhau i chwi yr amser; danghoswn i chwi bob wyllys da mewn modd dirodres. Disgwyliaf glywed oddiwrthyd cyn bo hir, fel y gwypwyf a fyddwch wedi derbyn fy llythyr; ac nid llawer gwaeth a fydd gennyf ddychwelyd yr emyn, gan na feddaf fawr lun ar ysgrif ohono. Byddwch wych, byddwch wych.

Wyf, eich gohebydd anheilwng a'ch ewyllysiwr da,

J. R. JONES,

*Hafod y Gareg Fawr,
Near Llanfrothen.*

DAFYDD OWEN.

Dichon y bydd i chwi, gyfeillion, fel fy hunan, deimlo yn siomedig oherwydd y bylchau sydd yng nghwrs cysylltiadol y gohebiaethau a fu rhwng Dewi Wyn a J. R. Jones. Byddaf yn hoffi bob amser, hyd y bo modd, i gael pethau yn cylymu am eu gilydd fel achos ac effaith; ond yngwyneb yr anhawser o allu hel ynghyd y cwbl o'u llythyrau at eu gilydd, nid oedd gennyf ond ymwroli a gwneyd y goreu gallwn, gan hyderu i eraill, yn y dyfodol, gyflawni lle yr wyf fi yn ddiffygiol.

E. I.—Yn wir, Taliesin, y mae yr ychydig bethau sydd ar fy meddwl y dyddiau hyn wedi eu hail gynneu gan eich sylwadau gwerthfawr. Er na chafwyd, hyd yn hyn ond cyfran o'r llythyrau, diau y bydd iddynt yn y dyfodol fod fel marciau i lawer gyfeirio atynt am hanes Dewi Wyn. Yr wyf yn mawr werthfawrogi eich cynhulliad adeiladol a thra difyrus, ac mae fy nghalon yn cydguro â'r eiddoch chwi mewn gobeithion am ychwaneg,—y mae y fath ragolygon yn fendigedig dros ben. Ond nid allaf yma lai na theimlo eich bod wedi sylwi i rai gyhuddo Dewi Wyn o fod yn gybydd eithafol; ac yr amddiffynnir ef gan eraill, y rhai a ddygant ymlaen liaws o ffeithiau i

brofi ei fod yn elusengar a haelfrydig. Nid dichonadwy i'r naill a'r llall fod yn gywir; a buaswn yn caru cael eich barn ddiuedd chwi ar y pwnc hwn. Nis gallaf roddi nemawr ddim o bwys ar gyhuddiadau y bardd yn ei erbyn ei hun, oblegid, nid yw fod dyn yn cyhuddo ei hunan o fod y "pennaf o bechaduriaid," yn anghyson ag argyhoeddiad dwfn o bechod, yn enwedig pan ystyriom y sefyllfa druenus ag yr oedd meddwl Dewi wedi suddo iddi yn ystod y pedair blynedd o'i fywyd a dreuliodd efe yn y Gaerwen wedi marwolaeth ei fam a'i frawd, a'i ymneillduad yntau oddiwrth fasnach ym Mhwillheli. Ymddengys iddo gasglu swm mawr o gyfoeth, ag ystyried ei amgylchiadau. Mae yr etifeddiaeth a rannodd efe rhwng ei geraint yn werth tua thri chant o bunnau o ardreth yn flynyddol. A allasai efe gasglu y fath eiddo, a bod yn haelionus hefyd? Gall Amaethon, yn ddiameu, roddi boddlonrwydd i ni ar y pwnc yma, gan ei fod yn gymydog agos iddo—yn meddu ar bwyll, ystyriaeth, a gochelgarwch; a phob amser yn ymgyrraedd am y gwirionedd.

AM.—Y mae fy nghyfaill ieuanc wedi fy ngosod o dan gyfrif-oldeb mawr, os ydyw yn meddwl imi unoli y pleidiau, at y rhai y cyfeiria. Ond awgrymaf ffaith neu ddwy, a gadawaf i chwi dynnu y casgliadau a fynnoch oddiwrthynt. Rhaid inni gofio yr ystyrir fod a fynno rhagluniaeth â llwyddiant bydol. Nid yw yn deg cyhuddo dyn llwyddiannus o fod yn gybydd, fel pe na byddai gan ragluniaeth un llaw yn y mater. Yr oedd Dafydd Owen yn llwyddiannus, ond ni phrawf hynny ei fod yn gybyddlyd. Yr oedd efe yn benderfynol na fyddai iddo wario ei arian ond am bethau gwir angenrheidiol; er cymaint ei awydd am lyfrau, ni phrynnai ond cyn lleiad ag oedd bosibl iddo. Ni chaniatâi iddo ei hun unrhyw foethau,—yr oedd yn gyfiawn a chynnil ato ei hun, yn gymaint felly, os nad mwy nag at eraill. Yr oedd yn perchen meddwl penderfynol iawn, a gallu uwchlaw y cyffredin i gyrraedd ei amcan. Dywedai wrthyf unwaith ei fod wedi penderfynu ymenwogi fel ymladdwr, ond canfyddodd nad oedd ganddo gorff a gewynau digon grymus i gario y penderfyniad hwnnw allan. Penderfynodd ragori fel bardd, a diau y saif ei enw cyfuwch a'r beirdd goreu, ac mewn rhai ystyriaethau uwchlaw holl feirdd Cymru. Wedi diflasu at farddoniaeth, o leiaf at gyfansoddi ar destynau cystadleuol, ymrôdd o ddirif i gasglu golud, a llwyddodd i raddau anghyffredin. Pa beth bynnag yr ymaflai ei law ynddo, gwnai ef â'i holl egni. Tafiai ei holl ysbryd i'r gwaith, a llwyddai yn fynych i gyrraedd ei amcan.

Amlygodd fy nghyfaill i chwi na chafwyd rheswm boddhaol paham na dderbyniodd Dafydd Owen y cwpan arian am ei awdl ar Amaethyddiaeth. Goddefer i mi yma eich hysbysu fy mod yn llwyr gredu mai y dyryswech a gymerodd le yn amgylchiadau

y boneddwr anturiaethus, Mr. Alexander Madocks, tua'r un adeg, ydoedd yr unig achos o lesteiriad y cwpan addawedig. Ond ni wnaeth Dafydd Owen ddim erioed a fu gymaint lles iddo, gyda golwg ar ei lwyddiant bydol, ag ymgystadlu y tro hwn. Mae yn ddigon gwybyddus i bawb fod teulu ardderchog y Mostyniaid yn gefnogwyr aiddgar i lenyddiaeth Gymreig ym mhob modd. Eiddo y boneddwyr hynny oedd bron yr holl wlad o amgylch Pwllheli, sef rhannau helaeth o Leyn ac Eifionnydd. Ar ol i Ddafydd Owen ennill y flaenoriaeth yn Nhref Fadog, daeth i sylw y boneddwyr hyn; ac yn neilltuol i ffafr goruchwyliwr yr etifeddiaeth, sef Mr. Maughan, Plas Hen. Daeth yn ddealladwy fod y tenantiaid oll i fyned i brynu eu nwyddau i "Siop y Gaerwen," Pwllheli. Yr oedd y ffaith fod boneddigion y Plas Hen yn cefnogi y siop honno yn ddigon i sicrhau masnach a chefnogaeth helaeth. Ac yno, yn bennaf, y casglwyd y swm mawr o arian, â'r rhai y prynnodd Dafydd Owen y tiroedd oedd yn ei feddiant. Yr oedd y brodyr yn cael eu cyfrif yn nodedig o onest yn eu masnach. Troes y *syniad yma* ffrwd gref o drafnidiaeth i'w drysau, ac yr oeddynt yn cyfiawn deilyngu y gefnogaeth gyffredinol oeddynt yn gael. Yr oedd amgylchiadau ffodus, cymeriad gonest, a ffafr rhagluniaeth megis wedi ymgynghreirio i'w cyfoethogi.

TAL.—Credaf mai purion peth i mi yma, yn gyntaf oll, yw nodi fod tuedd mewn athrylith gref i wneyd ei pherchennog yn eithafol, gan nad ar ba amcan bynnag ei tueddir i weithredu. Pan ymroes Dewi i gasglu cyfoeth, fe ddichon iddo fod yn eithafol. Gan mai syniad a barn deg, ddiamwys, a ofynnir gan ein cyfaill ieuanc, cyflwynaf i chwi lythyr byr a ysgrifennodd y bardd at Owen Williams, Waen Fawr, pan oedd yr olaf yn paratoi i ddwyn ei Eiriadur trwy y wasg. Nis gwn am ddim sydd yn adlewyrchu yn fwy anffafriol ar dueddfryd fydol Dewi Wyn; ac wrth ddwyn i sylw y llythyr hwn, yr ydwyf yn rhoddi y prawf cryfaf a feddaf fod ein bardd yn gynnwl, os nad yn orgynnwl. Ond beth ydyw os cymherir ef â'r prawfion sy gennym o'i gymwynasgarwch a'i haelioni? Y gwir yw hyn; mewn un cyfnod ar ei oes, yn neilltuol y deng mlynedd a dreuliodd efe ym Mhwillheli, yr oedd yn ormod am y byd; ac yn y pedair blynedd olaf o'i fywyd, yr oedd yn nodedig am ei gydymdeimlad a'i hael-frydedd. Mae y llythyr y cyfeiriwyd ato fel y canlyn,—

PWLLHELI, *Gorffennaf* 14, 1825.

Hynaws Gyfaill,—

Erchaf arnoch anfon hyn i law Owen Williams gyda'r cyfleustra cyntaf.

Fy nghyfaill Owen Williams,—A mi yma tra fyddo fy mrawd yng Nghaerleon, derbyniais eich llythyr ddoe; cefais gyfleustra i'w yrru ymlaen i law Robert Williams, Betws Fawr. Mac'n dda gennyf eich bod yn debyg o lwyddo yng nghyhoeddiad eich Cylchddyag; ac y mae yn anhyfryd gennyf nad yw yn

fy ffordd i roi un gradd o gynhorthwy i chwi tuag ato: gan fod arian bob amser yn cael eu hystyried yn rhy werthfawr gennyf i'w rhannu am ddim ond yr hyn a fyddo o ddefnydd; ni all prynu llyfrau fod felly, i un na adawa diogi a difaterwch iddo ddarllen braidd ddim. Nid wyf yn meddwl fy mod yn ddifai, nac yn disgwyl i'r byd beidio a'm beio; ond ni all neb yn *neilltuol* fy meio, na digio wrthyf. mwy na'u gilydd, gan nad yw fy ymddygiad yn well at y naill awdwr na'r llall; cywilydd i mi gyfaddef na phrynnais yr un o gyhoeddiadau gwerthfawr fy amser, namyn Dacaryddiaeth R. Roberts, Caergybi. Meddwl yr wyf, er na thaeraf, na wnai fy enw gwag gymaint ag ysgrifelliad o un daioni i chwi; ond pa un bynnag, ni allaf ei roddi, gan fy mod yn wastad, mewn rhai pethau o leiaf, yn dra doeth, dan ddylanwad cydwybod ac anrhydedd, pa mor orwael bynnag yw fy ymddygiad mewn pethau ereill. Ond, am yr englyn a gysoddais, ac a darddodd oddiar syndod a hyfrydwch weled y fath hyfedredd a galluoced yn llewyrchu allan o'r fath wendid, dyma fo i chwi, gyda'r parod-rwydd mwyaf,—

Ni chafwyd o fedr diledryw,—eriodd
Eiriadur o'i gyfryw;
Geiriadur o'i gwr ydyw,
Pennaeith ein iaith—*Pantheon* yw.

DEWI WYN O EIFION.

Mae yma gan fy mrawd *Encyclopaedia* Seisnig helaeth a chywrain, un o'r cyhoeddiadau diweddat, ac hefyd Geiriadur Charles, ac os digwydd blys gwybod unrhyw beth, mae y rheiny at fy ngwasanaeth, ac felly yn torri yr angen-rheidrwydd imi brynnu un newydd. Terfynaf, gan ddymuno i bob daioni a llwyddiant eich amgylchynu.

Yr eiddoch yn oestyngedig,
DAFYDD OWEN.

Dyna y llythyr yn gyflawn, ac y mae i chwi ryddid i dynnu y casgliadau a fynnoch oddiwrtho.

E. I.—Mae yn dda gennyf eich gweled mor ddiragfarn, ac mor barod i dderbyn unrhyw sylwadau ag a fyddo o duedd i ddwyn goleuni ar y mater dan sylw; felly, gyda'ch caniatad, awgrymaf mai fy marn bersonol i ydyw, mai y cwbl ellir brofi oddiwrth y llythyr yw fod y bardd yn dra gofalus pa fodd ac am ba beth y rhoddai ei arian. Nid digon oedd fod unrhyw beth yn angenrheidiol, yr oedd yn rhaid iddo fod yn *ddefnyddiol*, cyn y byddai iddo ei brynnu. Heblaw hynny, awgryma ei fod, weithiau o leiaf, yn ymddwyn yn ddoeth, “dan ddylanwad cydwybod ac anrhydedd,” feallai ei fod yn gwneyd hynny trwy wrthod tansgrifio fel cefnogwr i Eirlyfr Owen Williams, Waen Fawr. Ni welaf yn fy myw fod yma ddim i brofi cybydd-dod.

AM.—Nid yw ond ffolineb i chwi son am gybydd-dod wrth neb a wyddai hanes bywyd Dafydd Owen. Diameu nad oedd yn arfer udganu ei gymhwynasau; ond yr oedd yn hael yn ol argyhoeddiad, pan y gwelai fod gwir angen am hynny. Arferai rhai o fechgyn y gymydogiaeth bysgota ar brydiau, a myned a'r pysgod i'r Gaerwen i Ddafydd Owen; rhoddai yntau chwecheiniog am danynt. A phe buasai un bachgen wedi dal nifer lled dda, rhoddai rai ohonynt i fachgen arall, ac elent ato ill dau, a derbynient chwecheiniog bob un. Dichon yr ymddengys yr engh-

raifft flaenorol i chwi yn ddibwys, ond i mi ymddengys yn arwyddocaol iawn. Ysgafn yw y bluen ar wyneb y llyn; er hynny, hi a ddengys gyfeiriad y gwynt. Nid yr hyn oedd Dafydd Owen ar achlysuron neilltuol, ond yr hyn ydoedd yn amgylchiadau bychain bywyd cyffredin,—dyna ei wir gymeriad. Cawn gyfeirio eto at ei haelioni ym mlynyddau olaf ei fywyd, yr adeg y ceisiai wneyd i fyny am ormod crintachrwydd blynyddau blaenorol.

E. I.—Digon bellach ar gyhuddiadau disail o'r fath, gwell gennyf gredu ei gymydogion na'r beirniaid sydd wedi arfer pob moddion yn eu gallu i ddyfal chwilio am bob amherffeithrwydd yndo. Mae fy mwriad ar hyn o bryd, o rhynga bodd i chwi, gyfeillion, alw eich sylw at helynt garwriaethol y bardd. Ynghyswllt â'r mater hwn, ceir yn ei *Gofiant* yr ymadroddion canlynol. "Heblaw yr hoff barch a amlyga y llinellau blaenorol i'r rhywogaeth hawddgar yn gyffredinol, ymddengys oddiwrth gywydd byr a gyfansoddodd y bardd pan yn y ddegfed flwyddyn ar hugain o'i oedran, ddarfod i'r holl serch gwasgarog a ddanghosir uchod gael ei grynhoi i un pwnc, a'i gyfeirio at yr un gwrthrych, gyda pha un yr ymddengys ei fod dros ei ben a'i glustiau (fel y dywedir) mewn cariad. Y mae y cywydd yn llawn tlydni a mwynder a thynnerwch; ie, a serch, hyd onid yw yn colli dros yr ymylau." Yna y canlyn darn o'r cywydd, gyda'r chwanegiad,— "Pa fodd y terfynodd hyn nid yw hysbys, ond felly y nodwyd, — Ni eiliwyd Dewi Wyn a'i Elen' byth."

Nid teilyngdod y cyfansoddiadau fel barddoniaeth sy gennyf mewn golwg; nid oes dadl am "dlydni a mwynder a thynnerwch" "Cywydd Gwraig Rinweddol," a'r "Cywydd i Elen"; ond y mae arnaf awydd gwybod a fu Dewi mewn cariad, ai ynte ffugio teimladau serchgynhyrfiol yr ydoedd.

TAL.—Nid oedd Dewi Wyn yn garwr mawr, ac nid oes wybodaeth ddarfod iddo syrthiomewn cariad ond unwaith, a'r pryd hynny nid oedd efe fel Cowley, heb ddigon o benderfyniad i ddatguddio ei serchiadau. Syrthiodd mewn cariad a Jane, ferch Gruffydd Roberts, Wern Fawr, Llanbedrog, yr hon oedd gryn nifer o flynyddau yn ieuengach nag ef, ac yn ferch ieuanc dra phrydweddol, yn gystal a rhinweddol ei chymeriad. Wedi ysbaid byr o garwriaeth benrhydd, meddyliodd Dewi am ei phriodi, ac amlygodd ei fwriad i dad y ferch ieuanc. Yr oedd yr ymddygiad yma yn hollol briodol, ac yn gydweddol â'r addysg a roddai efe bob amser i'r llanciau o amgylch y Gaerwen, am fyned i ymofyn gwraig yn uniongyrchol, pan fyddai angen arnynt, ac nid crwydro ac aflonyddu ar heddwch teuluoedd yn y nos, fel yr oedd yn arferiad yn y wlad y pryd hynny, ac eto i gryn raddau. Modd bynnag, rhoes y tad derfyn, yn ddifwriad o bosibl, ar y

garwriaeth, trwy ofyn i Ddafydd Owen a wnai efe sicrhau ei holl eiddo iddi hi, os y byddai ar ei ol. "Dyn am cato i," ebai yntau, "mi welaf nad ydych yn gofalu dim am fy nghorff i, eithr am fy eiddo," a throes ar ei sawdl ar hynny, ac ymaith ag ef; a therfynodd yr holl ymdrafodaeth garwriaethol rhyngddo â Jane ar hynny. Dyna dystiolaeth ei chwaer, yr hon sydd eto yn fyw. Ac yr oedd Dewi yn hynach o flynyddau na deg ar hugain pan fu yr anffawd yma; ac os yw y dyddiad wrth y "Cywydd i Elen" yn gywir, ni ddichon mai Jane Roberts a olygid ganddo, er nad oes wybodaeth iddo erioed ymgyfeillachu âg unrhyw ferch arall.

E. I.—Os dyna y ffaith, rhaid mai ffugio teimladau serch yr ydoedd, neu nad yw y "Cywydd i Elen" ond ymgais at farddoni yn y dull hwnnw; ac mai "talu ei ddyled i gariad" yr ydoedd, megis ag y mae arfer beirdd, heb brofiad neilltuol o'i effeithiau. Carwn fel un gael gwybod beth sy gan ein parchus gyfaill Amaethon i ddweyd ar y pen hwn.

AM.—Nid oes gennyf un ffaith i'w hychwanegu at yr hyn a ddywedodd fy nghyfaill Taliesin. Mae rhyw arferiad ymysg y bobl ieuainc o ddirgelu, hyd eithaf eu gallu, bob ymgyfathrach o eiddo y ddau ryw cyn priodi; ac nid wyf fi yn gweled dim yn amhriodol yn hynny. Gallai fod Dafydd Owen yn edmygu prydferthwch rhyw Ellen, pan oedd efe tua deng mlwydd a'r hugain oed; ond ni ddeallodd neb o'i gymydogion erioed iddo roi ei feddwl ar neb ond Jane Roberts, y Wern, fel y crybwyllwyd. Ni ddanghosodd Dafydd Owen, na'i frawd, erioed duedd i ddilyn bechgyn ieuainc yr ardal,—yr oeddynt ill dau o dueddiadau neilltuedig; ac ymddigrifai Dafydd yng nghyfeillach ei awen, yn prydyddu i'w gyfeillion, ac i bob amgylchiad bron, fel y dengys y siamplau a roddwyd eisoes o'ch blaen, at y rhai y buasai 'n hawdd chwanegu cryn nifer o rai cyffelyb. Bum yn meddwl lawer gwaith pe cawsai Dafydd Owen wraig rinweddol, o dymer hynaws a siriol, y buasai yn ei ddenu oddiwrth lawer o'r pruddfeddyliau a'i blinent gymaint; ac yn sirioli llawer ar ei ysbryd ym mlynnyddau adfydus diwedd ei oes.

TAL.—Gan nad oes gennym unrhyw dystiolaethau ar y pen hwn, gwell inni beidio ymbalfalu yn hwy gyda'i helynt garwriaethol. Gresyn oedd i dad Jane Roberts fod mor fyrbwyll a haerllug, a dangos cymaint o'i drachwant am eiddo y bardd, pe amgen, diau y buasai ei briodas â'r ferch ieuanc wedi rhoddi agwedd wahanol i'w fywyd o hynny allan; os na fuasai efe yn troi fel Byron i gashau ei chymdeithas; ond yr oedd efe o deimladau gwahanol iawn i'r bardd Seisnig, a'i syniadau am gyfrifoldeb moesol dyn yn dra gwahanol i'r awdwr hwnnw, er fod rhai yn ceisio eu cymharu, ac yn cael rhyw debygolrwydd ynddynt,

mewn ystyriaethau eraill. Yr oedd Dewi Wyn yn weddaidd a chymhedrol ei arferion, yn parchu rhinwedd ym mhawb, ac yn drwyadl edmygydd cywirdeb ym mhob dyn. Yr oedd yn elyn hollol i wastraff ac anghymedroldeb—ni welodd neb erioed mo hono yn waeth oherwydd yfed, chwaithach yn feddw; yr oedd yn cefnogi yr holl rinweddau hynny, o gymedroldeb, cynhildeb, a darbodaeth, sydd yn tueddu i beri llwyddiant bydol i'w perchennog.

E. I.—Yr wyf finnau wedi darllen ei “Anerchiad at Gymdeithas Gymedroldeb Pwllheli,” a sefydlwyd yn y flwyddyn 1836. Traethawd ydyw ar feddwod yn gyffredinol; ac y mae yn hyawdl, cryf, ac effeithiol dros ben, fel popeth a ddeuai o'i ysgrifell; mae'r iaith a'r meddyliau yn dylifo o'r dechreu i'r diwedd, fel llifeiriant trochionog yn disgyn ar hyd llethr y mynydd i'r gwastadedd.

AM.—Yr wyf yn cofio fod Dewi Heli, sef y diweddar David Williams, Ysw., Castell Deudraeth, cyfreithiwr galluog, y pryd hynny yn cario ei alwedigaeth ymlaen ym Mhwillheli; ac yr oedd o'i febyd yn gyfaill i Ddafydd Owen. Yn fuan wedi sefydlu y Gymdeithas at yr hon y cyfeiriwyd yr oedd y ddau Ddafydd, sef Dafydd Owen a Dafydd Williams, yn ymddiddan a'u gilydd ar y pwne, ac yn beirniadu rhyw lyfr Seisnig rhagorol, a ysgrifenasid gan foneddwr Ysgotaidd,—meddyg wrth ei alwedigaeth, yn erbyn yr arferiad o ddefnyddio gwirodydd poethion, oddi-eithr mewn achosion neilltuol, fel meddyginiaeth yn unig. Tra yr oedd Dafydd Owen yn sefyll wrth y bwrdd, efe a gyfansoddodd ddau o englynion i'r gwirodydd—argraffwyd y cyntaf ym *Mlodau Arfon*; ond gan na chyhoeddwyd yr ail, fel yr ymddengys, dodaf y ddau gerbron, fel hyn,—

Gward ni rhag gwirod noeth!—dwyn iechyd,
A nychu'r holl gyfoeth;
Dwyn synwyr dyn sy annoeth,—
Gward pawb rhag gwirod poeth!

Rhoer gwirod i'r rhai rygaro—y bustl,
Y bardd a'i gwrthodo;
Gwneyd gwirod, ac nid gwaro,—
Islaw'r bardd mewn seler bo.

Gyfeillion,—cefais bleser dirfawr yn eich cymdeithas y prydawn hwn; ond gwelaf fod y gweithwyr yn noswyllo, a deallaf wrth newidiad swm treigliad yr afonydd, a sibrydiad dail y coed, fod y dydd yn hwyrhau; rhaid i mi, gan hynny, eich gadael gyda diolchgarwech i chwi am wahoddiad i dreulio prydawnngwaith mor hyfryd. Yr oeddwn yn teimlo fy hun fel yr oeddwn ddeugain mlynedd yn ol, pan oedd Dafydd Owen a minnau yn gymydogion a chyfeillion calon.

ROBERT BURNS.

"Barddoniaeth seml y galon ddynol,
 Uchder a dyfnder yn un gytun
 Reilant trwy gerddi y barid cenhedlaethol ;
 Nid merch y ferch, na dyn y dyn,
 Sydd wedi eu darllen heb weld ei hun."
CEIRIOG.

GAN mlynedd i heddyw,—Gorffennaf 21, 1796,—bu farw Robert Burns, bardd yr Alban a bardd naturioldeb. O holl feirdd gwledydd ereill, nid oes odid fardd mor debyg i'r beirdd Cymreig a Burns. Y mae o'r un waed a Canmlwydfiant Robert Burns. hwythau; tyfodd mewn awyr debyg i'w hawyr hwythau,—mewn gwlad grefyddol heb lwyr golli ei chred mewn ysbrydion, ymysg pobl Buritanaidd heb lwyr golli golwg ar fwy nag un pleser a'u tentiai oddiar y llwybr cul; mewn ymdrech galed â'r byd ac âg ef ei hun. Tyfodd fel blodeuyn grug o'r neilltu, mewn cilfach anghysbell, a chanodd ganeuon anfarwol tra yr oedd llenorion enwog a dysgedig ei wlad yn canu am fawrbris ganeuon di-enaid munud awr. Yn ei unigedd yng ngorllewin yr Alban rhoddodd ei enaid adlais i'r Chwyldroad oedd yn dechreu chwilfriwio llyffetheiriau meddwl a gwledydd. Y mae ei fywyd yn hawdd ei ddeall, ac yn anawdd. Hoffi tlysni genethig,—beth sydd haws ei ddeall? Bod yn aberth i athrylith wnaeth ei fywyd yn ddiodef,—beth sydd anaws ei ddeall na hyn? Er ei bechod a'i ddiodef, erys ei ganeuon yn ddifyrrwech y galon bur.

Ganwyd Robert Burns, Ionawr 25, 1759, yn Alloway, ger tref Ayr,—mewn bwthyn clai oedd ei dad wedi ei godi â'i ddwyllaw ei hun. Cafodd dymer wyllt ei dad gonest ac unplyg; cafodd lygaid prydfarth ei fam, a'i chariad at gân. Yn y bwthyn clai y bu Burns tan oedd yn seithmlwydd oed. Yno y cafodd ei gariad at ddarllen; yno y dywedodd yr hen forwyn ystraeon ysbrydion a ddeffrôdd ei feddwl ac a wnaeth iddo edrych yn ofnus o'i gwmpas wedi nos hyd ddiwedd ei fywyd. Hynodid ef gan ei grefyddolder a'i ddifrifwech fel plentyn,—ufuddhaodd o'i fodd i'r ddisgyblaeth eglwysig lem y bu wedi hynny mewn gwrthryfel chwerw yn ei herbyn.

Pan oedd ef yn seithmlwydd oed, symudodd ei dad o'i saith acer yn Alloway, a chymerodd fferm Mount Oliphant ar uchel-dir oer rhyw ddwy filltir neu dair o'r bwthyn clai. Gwnaeth hyn yn bennaf er mwyn cael bod gartref i fagu ei blant; cai

fod gyda hwy wedi noswyllo i'w dysgu, yn lle crwydro o le i le i arddu fel cynt. Yn ei gartref tlodaidd yr oedd y cariad angerddol hwnnw at wybodaeth sydd wedi gwneyd Albanwyr yn feistriaid y byd. Gwariai ei enillion prin ar lyfrau, ac ar lyfrau yn unig. Wrth ganwyll, wedi llafur y dydd, casglai ei deulu o'i gwmpas, a dysgai iddynt y Beibl neu feddyliau goreu ei wlad ei hun. Ymysg llyfrau ereill yr oedd hanes William Wallace, arwr anibyniaeth yr Alban; taniodd hwn ysbryd y plant yn anad dim, a pha beth bynnag golodd Robert Burns, ni cholodd ei wladgarwch angerddol hyd ei fedd.

Bywyd caled gawd ym Mount Oliphant. Tir gwael oedd, ni fedrai William Burns dalu cyflog i was na morwyn. Yr oedd

yn rhaid i'r plant weithio'n galed; a phan yn bym-
Y gân gyntaf. theg oed Robert Burns oedd y prif weithiwr ar y
 fferm,—yn troi, yn dyrnu, ac yn popeth. Yr oedd y
 byd yn mynd yn eu herbyn, er caled y gweithient ac er cyn-
 hiled y bywient. Ar yr un pryd yr oedd y stiward yn gwasgu
 eithaf cyfraith haiarnaidd arnynt, a dydd dychryn oedd dydd
 gweld ei lythyr yn dod. Flynyddoedd wedi hynny, yn ei *Twa
 Dogs*, darluniodd y gwahaniaeth rhwng bywyd y meistir tir a
 bywyd y tenant, ac yn honno tynnodd ddarlun o'r stiward
 creulon,—

Ar ddydd y rhent fe welais i,—
 A throm fu'm calon lawer tro—
 Denantiaid truain, prin o bres,—
 Yn dioddef ei gas wawdiaith o.
 Fe gura'i draed, fe dwng, fe reg,
 Eu heiddo myn, i'r carchar ânt;
 A gwrando, sefyll, crynnu'n fud
 Yn ufudd ger ei fron a gânt.*

Yn y dyddiau tywyll hyn y canodd Burns ei gân gyntaf, yn fachgen pymtheg oed. Yr oedd geneth ychydig fisoedd yn iau nag ef,—merch gof y pentref,—yn gydymaith iddo yn y fedel. Curai ei galon yn gynt wrth gyffwrdd â'i llaw i dynnu pigau'r ysgall o honi, ac i alaw glywsai hi'n ganu gwnaeth ei ychydig benhillion cyntaf. Yn hogyn gwladaidd, carpiog bron, ai Burns weithiau i dref Ayr; ac yr oedd ei wybodaeth a'i allu meddyliol cryf yn ei wneyd yn hoff gydymaith i nifer o fechgyn

* "I've noticed, on our laird's court day,—
 And mony a time my heart's been wae,—
 Poor tenant bodies, scant o' cash,
 How they maun thole a factor's snash;
 He'll stamp an' threaten, curse an' swear,
 He'll apprehend them, poind their gear;
 While they maun stan', wi' aspect humble,
 And hear it a', an' fear an' tremble."

ieuaicne darllengar ac anturiaethus oedd yn y dref honno. Darllennai bopeth gai afael arno,—y Beibl yn enwedig, heb ang-hofio Càn y Caniadau,—a byddai llyfr yn ei boced ar gyfer munud o orffwys yn oriau ei lafurwaith caled. Fel pladurwr, fel trowr, nid oedd ei well yn y wlad. Ond nid oedd ganddo amcan i'w fywyd. Anobaith bywyd caled oedd o'i flaen fel amaethwr; ni chymerai ddyddordeb yn ei lafur, a diane i ryw bleser yn unig oedd ei awydd yn oriau gorffwys. Hiraethai am dafu'r plisgyn garw oddiam dano, ac ymloewi fel y medrai gymdeithasu ag ereill. Aeth i'r ysgol gyda chaniatâd ei dad; dysgodd ddawnsio, heb ei ganiatâd ac yn erbyn ei ewyllys. Ac ar ol hyn graddol ymestronodd oddiwrth grefydd fanwl ei dad; yr oedd ei feddwl ar lawenydd y ddawns ac ar swyn glendid rhyw enethig o hyd.

Yn 1777, symudodd y teulu i fferm arall,—Lochlea,—a daeth pethau ychydig bach yn well arnynt, am ychydig o leiaf.

Ymysg pethau ereill, yr oedd Robert Burns yn tyfu llin, a phenderfynodd fynd i Irvine i ddysgu ei drin.

Ymdrech.
1777—1784.

Adeg ddu oedd yr adeg a dreuliodd yno,—adeg afiechyd a dysgu pechu ac anobaith. Ysgrifenna at ei dad mai prin y meidd edrych i'r dyfodol. "Ni wnawd fi i flwdan y prysur. Gwelaf mai tlodi fydd fy rhan, ac yr wyf yn parotol ar ei gyfer." Er hyn gweithiai'n galed a bywiai'n gynnil, tan ddaeth nos Galan. Ni welais i Ysgotyn erioed fedr beidio gwneyd rhywbeth i ddathlu'r nos honno; nid trwy feddwi bob amser. Yr oedd croesaw mawr i'r flwyddyn newydd yn siop Burns, a'r diwedd fu iddi fynd ar dân. Daeth adref, yn dlotach nac erioed, ac heb gydwybod dda. Ymdrech galed oedd yn ei gartref hefyd, hyd yn oed am fara. Aeth yn gyfraith rhwng ei dad a'r meistr tir. Collodd yr hen wr y gyfraith, a thorrodd ei galon. Bu farw yn Chwefrol, 1784, gan bryderu am ddyfodol ei wraig a'i saith blentyn,—yn enwedig am ddyfodol ei fab hynaf anufudd. Gyda'r ychydig arian oedd yn weddill symudodd y teulu i fferm Mossiel, ger Mauchline, flwyddyn marw eu tad.

Yn y cyfnod du hwn cryfhaodd edyn ei awen. Teimla ei dlodi i'r byw, ac y mae sain anobaith yn llawer o'i ganeuon. Eto y mae sain llawenydd yn ambell un, ac ymhyfrydiad yn nhlyision bethau'r byd,—

" Mae'r ehedydd yn codi y bore o'i nyth,
I eigion yr awyr a'i bron bach yn wlith;
Hi gân gyda'r trowr yn llawen drwy'r dydd,
A'i nyth gyda'r nos iddi'n wely a fydd."^{*}

^{*} "The lar'rock in the morning she'll rise from her nest,
And mount i' the air wi' the dew on her breast,
And wi' the merry ploughman she'll whistle and sing,
And at night she'll return to her nest back again."

Ymysg llawer o ganeuon i enethod, y mae'r gân brydferth i'r
 "Lass of Cesnock Banks." Dyma ychydig o'r penhillion,—

Mae'n hardd fel onnen ieuanc sydd
 Yn codi uwch briallu'n hy
 Gan yfed dwfr afonig lân,—
 A llygad llon sydd iddi hi.

Mae'n brydferth bur fel blodau'r drain,
 Y gwynder rhwng y gwyrdd y sy
 Pan dan y bore wliith bo rhain,—
 A llygad llon sydd iddi hi.

Ei gwallt, fel niwl trofaog sydd
 Yn dringo ochrau'r mynydd fry
 Ar ol i'r gwlaw adfywio'r gwydd,—
 A llygad llon sydd iddi hi.

Ei dwyfron sydd fel eira'r nos
 Pan gyfyd bore gwyn ei fri,
 Tra'n gudd yr afon lon a'r rhos,—
 A llygad llon sydd iddi hi.*

Ymysg llawer o ganeuon,—gweddiau anobaith, cathlau cariad,
 meddyliau llon a phrudd,—ceir yn y cyfnod hwn ddechreu'r
 gwawd gerddi cnoawl fedrai Burns ysgrifennu ambell i dro.
 Ysgrifennodd feddargraff blaenor cybyddlyd fel hyn,—

Yma gorwedd Souter Hood,
 I uffern os daeth yna,
 Satan, rho iddo gadw'th dda,
 Fe'i ceidw'n iawn, mi wranta.†

Ymdrech galed â'r byd, ond cymundeb agosach â'r awen,
 gafodd Burns ym Mossiel. Clai oer oedd daear y fferm hon eto,

- * "She's stately like yon youthful ash,
 That grows the cowslip braes between,
 And drinks the stream with vigour fresh ;
 An' she has twa sparkling rogueish een.
- "She's spotless like the flow'ring thorn,
 With flow'rs so white and leaves so green,
 When purest in the dewy morn ;
 An' she has twa sparkling rogueish een.
- "Her hair is like the curling mist,
 That climbs the mountain-sides at een,
 When flow'r reviving rains are past,
 An' she has twa sparkling rogueish een.
- "Her bosom's like the nightly snow,
 When pale the morning rises keen,
 While hid the murm'ring streamlets flow ;
 An she has twa sparkling rogueish een."
- † "Here Souter Hood in death does sleep ;
 To hell if he's gane thither,
 Satan, gie him thy gear to keep,
 He'll haud it weel thegither."

ond yr oedd ym Mauchline goed bedw a drain gwynion yn cysgodi llwybrau dedwydd ac aml afonig lon. Yr oedd yno gymdeithion diddan hefyd,—ac yno cyfarfyddodd Burns y ddwy eneth gafodd ganeuon tlysaf ei awen. Yma hefyd y cyhoeddodd ryfel yn erbyn Puritaniaeth yr Alban, ac yr ysgrifennodd *The Two Herds* a *Holy Willie's Prayer*,—y fflangell erwinaf ddisgynnodd ar gefn crefyddwyr erioed.

Yr oedd wedi syrthio mewn cariad a Jean Armour, merch saer maen bucheddol ac uniawngred, a phriodasant yn ddirgel. Ond gwnaeth tad yr eneth iddi roddi ei chariad i fyny. Penderfynodd Burns adael y wlad, a throï ei wyneb dros y môr tua'r India Orllewinol. Erbyn hyn yr oedd ganddo gariad newydd,—Mary Campbell,—ac yr oedd i fynd gydag ef neu i'w ddilyn i Jamaica. Ond bu hi farw'n ddisymwth, ac ymhen blynyddoedd wedyn cyfansoddodd Burns ei "Highland Mary" mewn hiraeth ingol am dani. Erbyn 1786 yr oedd clod Burns fel bardd telynegol wedi ymledu; a chyn cychwyn i fwrdd penderfynodd gyhoeddi cyfrol fechan o'i weithiau. Gwelodd oddiwrth y derbyniad gafodd y gyfrol hon fod iddo le yn ei wlad ei hun. Wrth ddilyn yr aradr yr oedd wedi cyfansoddi ei delynegion, ond gwelodd fod ei gydwladwyr yn eu cyfrif yn drysorau cenhedlaethol. Ac yn lle mynd yn alltud dinod i wlad bellenig, aeth ar gefn merlyn i Edinburgh, prif ddinas ei wlad, yn Nhachwedd 1786, yn wyth ar hugain oed.

Paham y cafodd y gwladwr ieuanc o'r gorllewin groesaw mor frwdfrydig yn Edinburgh,—dilyn yr aradr heddyw, gwenau rhai mwyaf diwylliedig ei wlad yfory? Ni raid ond edrych ar y gyfrol fechan gyhoeddwyd yn Kilmarnock i esbonio hyn oll. Ymysg cynnwys y gyfrol hon y mae *The Cottar's Saturday Night*,*—cân fawreddog ei symlrwydd, cân apelia at galon grefyddol yr Albanwr tra cof am ei wlad yn bod. Yn hon danghosir yr aelwyd Ysgotaidd fel allor i Dduw sancteiddrwydd, ac y mae'r gân wedi bod yn foddion i sancteiddio miloedd o aelwydydd erbyn hyn. Yn yr un gyfrol y mae darnau'n apelio at rai dreuliai fwy o'u hamser yn y gyfeddach nag ar yr aelwyd neu mewn addoldy. Ffordd bynnag, addefodd pawb wrth ddarllen y gyfrol fechan fod bardd cenhedlaethol yr Alban wedi ymddangos. Yn y gyfrol honno y mae'r gân oreu, yn fy meddwl i, a ganodd Burns erioed. *The Gowan* oedd ei henw cyntaf; ond, gan na wyddis beth yw'r *gowan* ond yn yr Alban, galwodd hi wedyn yn *Mountain Daisy*. Yr oedd yn aredig yn Ebrill 1786, a chyn iddo fedru ei hachub yr oedd yr aradr wedi troi'r gwys

* Mae cyfleithiad campus o'r gân hon i'r Gymraeg, gan Robert Owen, yn *Cymru'r Plant*, Cyf. III., Rhif. 31 a 32.

ar lygad y dydd oedd yn gwenu'n unig ar y bryn oer. Y mae y tynerwch a'r grym a nodwedda ganeuon goreu
Can Llygad y Dydd. Burns yn y gân naw pennill hon. Y mae'n adlewyrchu ei fywyd ef ei hun ar y pryd hefyd. Yr oedd am ennyd wedi colli cariad Jean Armour, yr eneth amyneddgar ddiodefodd gymaint er ei fwyn, oddiwrth ei theulu ac oddiwrtho yntau. Yr oedd wedi sylwi ar swynion geneth arall,—Highland Mary ei gân anfarwol. Ni wya neb wir hanes y garwriaeth hon, ac ni cheir gwybod byth. Y mae'r Beibl y seliodd y ddau eu cyfamod arno ger y ffrwd,—y mae'r Beibl yn aros eto, wedi dod yn ol o Ganada. Y mae geiriau'r llw arno, ond y mae enwau Mary Campbell a Robert Burns wedi eu brys rwbio ymaith. Tybed mai anffyddlondeb i galon mor bur oedd achos yr ing oedd yn hiraeth Burns am dani flynyddoedd wedyn? Yng nghân *Llygad y Dydd* y mae swm y prudd-der anobeithiol sydd i'w glywed o fywyd Burns, y prudd-der y mae adlais o hono yn ein clustiau hyd yn oed wrth ddarllen ei ganeuon llonnaf. Prin y meiddiaf geisio cyfieithu'r penhillion, hyd yn oed i'r iaith Gymraeg.

Ti wylaidd, hoff ymyl-goch em,
 Gwae fi im heddyw weld dy drem,
 Dy lethu raid i'r aradr lem,
 Ti brydferth berl.

A! nid dy fwyn gymydog gwiw,
 'R ehedydd bach, dy gyfaill, yw,
 Yn plygu'th ben a'i fron aml liw
 I'r perlog wliith,
 Wrth lon ymsaethu a'i groesaw byw
 I'r bore byth.

Oer oedd y chwerw ogledd wynt
 Uwchben dy eni cynnar gynt,
 Ond gwenu wnest ar fore'th hynt
 Mewn storom fin,
 Gan lechu i lawr rhag deifol wynt
 Gauafaidd hin.

Ac yna, yn dy fantell hon,
 I'r haul agori'th eira fron,
 A chodi'th wylaidd ben yn llon
 Mewn isel wedd,
 Tra'r aradr ddiidrugaredd hon
 Yn difa'th hedd.

A dyna dynged geneth bur,
 Flodeuyn hoff y gwledig dir,
 Fradychwyd yn ei chariad gwir
 A'i ffydd oedd fawr,
 Nes a, fel ti, i'w gorffwys hir
 Yn llwch y llawr.

A dyna dynged haeddiant cu
 A hir ddiodefodd adfyd du,

Flaen balchder dynol cyfrwys sy
Yn dianc 'nawr,
Nes i drueni bywyd ffy
Gan suddo i lawr.

A thi, aleri dynged brudd
Y blodyn bach, ar agos ddydd
Trwm gwlltwr Distryw'n rhwygo fydd
Dy fywyd di,
Nes llethir di dan gwysau prudd
Y dyffryn du.*

Yr oedd Edinburgh wrth fodd Burns. Ymdaflodd â'i holl enaid i'w hadgofion ac i'w chymdeithas. Hi oedd prif ddinas brydferth ei wlad. Ynddi hi y canodd Fergusson ac Allan Ramsay gerddi'r Alban. Ynddi hi y cyfarfyddai'r athrylithgar, yr ariannog, a'r teitlog. Symudai Burns yn hapus ac esmwyth ymysg pendefigion a phendefigesau ei wlad; swynid hwy gan ei ymddiddan bywiog, yr oedd fflach ei lygaid disglær yn argoel bob amser fod meddwl hapus tarawiadol yn ymfurfio'n eiriau ar ei dafod. Ac ar ddiwedd y dydd gadawai eu cwmni urddasol, ac ymneillduai i'w lety tri swllt yr wythnos, neu deffroai adleisiau'r nos wrth botio gyda'r beirdd chwil droent o'i gwmpas.

Yn 1787 ail gyhoeddodd ei weithiau, a thrwy ymdrechion ei gyfeillion ariannog dygwyd pum cant o bunnau i'w boced. Ond trwy hyn oll ni cholodd ei anibyniaeth, ac ni cholodd ei naturioldeb. Ceisiodd y beirniaid ganddo ganu fel hyn ac fel arall,— yn enwedig mewn dull llai Ysgotaidd. Ond canodd Burns yn

*“ Wee, modest, crimson-tipped flow'r,
Thou's met me in an evil hour;
For I maun crush among the stoure
Thy slender stem;
To spare thee now is past my pow'r,
Thou bonie gem.

“ Alas! it's no thy neibour sweet,
The bonie lark, companion meet,
Bending thee 'mong the dewy weat,
Wi spreckl'd breast, [greet
When upward-springing, blythe, to
The purpling east.

“ Cauld blew the bitter-biting north
Upon thy early, humble birth;
Yet cheerfully thou glinted forth
Amid the storm,
Scarce rear'd above the parent-earth
Thy tender form.

“ There, in thy scanty mantle clad,
Thy snawie bosom sun-ward spread,
Thou lifts thy unassuming head,
In humble guise;

But now the share up tears thy bed,
And low thou lies!

“ Such is the fate of artless maid,
Sweet flow'ret of the rural shade!
By love's simplicity betray'd,
And guileless trust;
Till she, like thee, all soil'd, is laid
Low i' the dust.

“ Such fate to suffer'ing worth is given,
Who long with wants and woes has
striv'n,
By human pride or cunning driv'n
To mis'ry's brink;
Till wretch'd of ev'ry stay but Heav'n,
He, ruin'd, sink.

“ Ev'n thou who mourn'st the daisy's
fate,
That fate is thine—no distant date;
Stern Ruin's ploughshare drives elate,
Full on thy bloom,
Till crush'd beneath the furrow's weight,
Shall be thy doom!”

union fel cynt. Hyd yn oed yn Edinburgh ni welodd amcan i'w fywyd na neges i'w athrylith. Megis gwelltyn ar donnau byd adfydus yr arhosodd o hyd. Ond gwelodd eraill beth oedd cuddiad ei gryfder. Gwelsant mai ar hen alawon yr Alban yr oedd ei ganeuon goreu wedi eu cyfansoddi. Adlais rhyw alaw felus ymfurfiai'n gân yn ei feddwl; a dealodd ei hun na fedrai ganu ond wrth feddwl am ryw alaw, yn enwedig os doi mewn adgof am lais rhyw eneth a garasai. Ac o hyn hyd ddiwedd ei fywyd, canu geiriau ar alawon y bu i ddau Ysgotyn o'r enw Johnson a Thomson. Ni ddygodd hyn fawr o elw iddo; ond ni feddylasai am fyw ar ei awen, i'w fferm ac at yr aradr yr oedd yn meddwl mynd yn ei ol.

O Edinburgh aeth am daith trwy ororau hanesiol yr Alban, gan feddwl cael fferm yn rhywle yn nyffryn y Nith,—lle cynhesach a ffrwythlonach na bryniau cleiog oerion sir Ayr. Tra yma croesodd y terfyn i Loegr, a chlywodd ei gydymaith ef yn adrodd, mewn teimlad dwys, ddau bennill olaf ei *Cottar's Saturday Night*,—

“ O Alban anwyl, bro fy ngenedigaeth,
Fy nhaeraf gais i Dduw sydd erot ti;
Bendithier fyth dy lewion feibion amaeth
Ag tehyd, heddwch, a boddlondeb cu;
A'u syml fuchedd, O gwarchoder hi
Rhag haint andwyol gloddest, yna aed
Yn deilchion mân bob coron, urdd, a bri;
Ymgyfyd uniawn werin eto'n gad,
A saif fel mur o dân o gylch eu hynys fad.

“ Tydi arllwysaist gynt y gwladgar lif
Trwy eon galon Wallace, pan gyhyd
Y baidd yn deg wrth ymladd gormes hyf,
Neu fario'n deg ei nesaf gyfran ddrud;
(Duw agos y gwladgarwr di bob pryd,
Ei ffrynd, ei nawdd, ei annog, ei foddhad),
Rhag Alban byth, O byth na chilia'th fryd,
Ond cyfod fwy y gwladgar wr di-wad
A'r gwladgar fardd i fod,—addurn a grym eu gwlad.”*

Cyf. ROBERT OWEN.

*“ O Scotia! my dear, my native soil!
For whom my warmest wish to heaven
is sent,
Long may thy hardy sons of rustic toil
Be blest with peace, and health, and
sweet content! [prevent
And O! may heaven their simple lives
From luxury's contagion, weak and vile!
Then, howe'er crowns and coronets
be rent,
A virtuous populace may rise the while,
And stand a wall of fire around their
much-lov'd isle.

“ O Thou! who pour'd the patriotic tide
That stream'd thro' Wallace's un-
daunted heart,
Who dar'd to nobly stem tyrannic pride,
Or nobly die, the second glorious part;
(The patriot's God peculiarly thou art,
His friend, inspirer, guardian, and
reward!)
O never, never Scotia's realm desert;
But still the patriot, and the patriot-
bard
In bright succession raise, her ornament
and guard!”

Ac yna aeth adre. Yr oedd wedi newid tipyn yn allanol,—siwt las a choch yn lle'r dillad gwladaidd, aur yn ei boced, a phawb yn edrych arno fel gŵr enwog. Wedi aros ychydig ddyddiau gartref, aeth ar grwydr drwy'r Uchel-diroedd, i weled llecynnau hanesiol yr Alban, ac i gynnyg serch ei galon droiog i ryw enethig gyfarfyddai. Daeth yn ol i Edinburgh, ac yno cyfarfyddodd â gwraig,—merch meddyg o Glasgow,—yr oedd ei gŵr anffyddlaw yn byw yn yr India Orllewinol. Yr oedd y ddau o'r un chwaeth, yn addoli eu gilydd,—ond nid oedd yno le i ddim ychwaneg na chyfeillgarwch yn hudd i serch. Tra yn ymheulo yng ngwenau Clarinda, clywodd Burns newydd dyryslyd oddi-cartref. Yr oedd yr Armours wedi troi Jean dros y drws oherwydd ei hymlyniad wrth Burns, ac yr oedd yr eneth, druan, mewn cyflwr pryderus iawn. Cymerodd Burns fferm Ellisland, yn nyffryn y Nith, rhyw bum milltir yn uwch i fyn y na thref Dumfries. Ychydig cyn ei briodas ysgrifennodd at Clarinda, i ddweyd nad oedd Jean Armour, o'i chydmaru â hi, ond megis canwyll ddimeu wrth haul canol dydd. O'r Sulgwyn hyd ganol haf 1788 bu'n gwibio yn ol ac ymlaen rhwng ei hen gartref a'i gartref newydd,—pellder o ryw hanner can milltir. Priododd Jean Armour ym Mai. Gwnaeth iawn hefyd am ei lythyr calongaled at Clarinda drwy ganu i'w ddyweddi un o'i ganeuon melusaf,—

O bob rhyw fan y chwytho'r gwynt,
Gorllewin garaf fi,
Can's yno 'n byw mae'r eneth wen
Sy'n anwyl iawn i mi;
Coedwigoedd eang, bryniau maith,
A'n cadw ar wahân,
Ond ddydd a nos mae'm calon i
Fyth fythoedd gyda Sian.

Mi gwelaf hi ym mhob blodyn teg
Sy'n plygu dan y gwllith,
Yng nghân yr adar clywaf hi,
Ac ym mhob awel chwyth;
Ni chyfyd blodyn tlws ei ben
Uwchlaw y dyfroedd glân,
Ni chân aderyn yn y llwyn
Na choffaf am fy Sian.*

Gyda llaw, mae gan Ceiriog bennill tebyg iawn i'r rhai hyn ym *Myfunwy Fychan*. Barna llawer fod Ceiriog,—edmygydd

*“ Of a' the airts the wind can blow
I dearly like the west,
For there the bonie lassie lives,
The lassie I lo'e best;
There's wild woods grow, and rivers row,
And mony a hill between;
But day and night my fancy's flight
Is ever with my Jean.

“ I see her in the dewy flowers,
I see her white and fair,
I hear her in the tunefu' birds,
I hear her charm the air;
There's not a bonie flower that springs
By fountain, shaw, or green;
There's not a bonie bird that sings
But minds me o' my Jean.”

Burns, ac un a'i awen yn debyg iawn iddo,—wedi cael awgrym yn y bardd Ysgotaidd. Dywedodd Ceiriog ei hun na welodd gân Burns hyd ymhen blwyddyn wedi cyfansoddi *Myfanwy Fychan*; a phe gwelsai hi, nis gallaf beidio teimlo mai tlysach ac uwch yw penhillion y bardd Cymreig na'r gân hoffaf gan bawb o waith Burns.

“ Myfanwy, 'rwy'n gweled dy rudd
Mewn meillion, mewn briall, a rhos,
Yng ngoleu dihalog y dydd,
A llygaid serenog y nos;
Pan gyfyd clae'r Wener ei phen
Yn loew rhwng awyr a lli,
Fe'i cerir gan ddaear a nen.
I f'enaid Myfanwy, goleuach, O tecach wyt ti!
Mil lanach, mil mwynach i mi!

Goddefer i mi grwydro am ennyd,—y mae bwndel o lythyrâu Ceiriog, yn dadleu'n daer dros addysg Cymru, ger fy mron. Gyda phurach bywyd na Burns, a chydag awen mor naturiol, bu ei ddylanwad yntau ar ei wlad yn fawr, a bydd yn fwy. Beth bynnag deimlai'r Albanwyr wrth wrando Burns yn adrodd “Of a' the airts the wind can blow,” nis gallent deimlo mwy na'r rhai glywodd y llanc gwledig o Ddyffryn Ceiriog yn adrodd yn Eisteddfod Llangollen,—

“ O! na bawn yn awel o wynt
Yn crwydro drwy ardd Dinas Brân,
I suo i'th glust ar fy hynt
A throelli dy wallt ar wahân;
Mae'r awel yn droiog a blin,
Un gynnes ac oer ydyw hi;
Ond hi sy'n cusanu dy fin.
O feinwen fy enaid, nid troiog fy serch atat ti,
Tragwyddol yw'm serch atat ti.”

Daw teimlad cenhedlaethol Cymru yn ddigon cryf, feallai, i roddi i Geiriog y lle rydd yr Alban i Burns heddyw wrth ddathlu ei ganmlwyddiant.

Ond yr hyn ysgrifennwn oedd fod Burns wedi cymeryd fferm mewn gwlad newydd, wedi priodi Jean Armour, ac wedi penderfynu byw bywyd newydd. Dechreuodd fyw fel dyn newydd. Daeth ei aelwyd ymron fel yr aelwyd yn “Nos Sadwrn y Gweithiwr.” Ai i foddion gras, er teimlo fod y bregeth yn sych. Dechreuodd gerdded yn hen lwybrau ei dad, gan weithio dros addysg yr ardal yr oedd ynddi. Nid oedd erbyn hyn yn hollol ddibynnol ar ei fferm, yr oedd yn *eriseman* yn y wlad o gwmpas Ellisland. A geidw cyfrifoldeb penteulu Burns rhag ei hen demtasiynau?

Yr oedd llewod eto ar ei ffordd. Yn un peth, yr oedd ei hen bechodau yn codi mewn dull anisgwyliadwy i'w gyfarfod o

hyd,—“ yn rhythu yn ei wyneb ” chwedl yntau. Yr oedd rheffynau ei bechodau ei hun am dano, ac nis gallai ymysgwyd oddiwrthynt. Mewn llawer cân ingol rhydd lais i'w boenau; a darlunia ei hun, yn ei hunan-ffieidd-dra, fel llyffant mewn ogof yn syllu ar dlysi clir yr awyr fry. Aeth Clarinda at ei gŵr i'r India Orllewinol, a dychwelodd adre yn yr un llong. Yr oedd ei hymdrechion hi i gadw Burns ar lwybr rhinwedd yn ddiffas iddo, a'i hysbryd anfaddeugar yn gwneyd i'w feddwl ymgreuloni.

Yr oedd ei waith fel *exciseman* yn ei ddwyn yn barhaus i afael ei brif demtasiwn. Yr oedd yn rhaid iddo fynd i ffeiriau i gadw golwg ar y tafarnau, yr oedd yn rhaid iddo grwydro ar bob tywydd dros fynyddoedd gwlybion i chwilio am rai'n darllaw whisgi yn groes i'r gyfraith, yr oedd yn rhaid iddo fod lawer iawn oddicartref. Nis gallai fod ei hun, ymollyngai i gyf-eeddach isel mewn mân dafarnau.

Yr oedd ei ddaliadau gwleidyddol yn groes i rai ei uchafiaid hefyd. Nid oedd parch yn ei galon i deulu brenhinol Lloegr; yr oedd gwladgarwch a'r awen yn gwneyd iddo hiraethu am y Stuartiaid ddiorseddased. Dyddiau cynhyrfus y Chwyldroad Ffrengig oedd dyddiau olaf ei oes, ac nid rhyfedd iddo glywed ryw fore, er ei ddychryn, fod yr awdurdodau'n ceisio plymio maint ei gydymdeimlad â phregethwyr hawliau dyn.

Heblaw hyn oll, nid oedd ei fferm yn talu; ac wedi tair blynedd o ymdrech yn Ellisland, symudodd i fyw i Dumfries, i ben tŷ. Am fywyd ffermwr dywed,—“ Fel ffermwr yn talu rhent afresymol, bywyd melldigedig ydyw. Ond i feistr tir yn trin ei fferm ei hun,—yn hau ei yd ei hun mewn gobaith, yn ei fedi er gwaethaf pob tywydd mewn llawenydd, yn gwybod nas gall neb ofyn iddo ‘ Beth wyt yn ei wneyd ? ’ yn pesgi ei wartheg ei hun, ac yn cneifio ei ddefaid ei hun, yn ymhyfrydu adeg Nadolig, yn cenhedlu meibion a merched hyd nes y bo'n batriarch gwallt-wyn parchedig ei lwyth bychan,—y mae'n fywyd nefolaidd.” “ Ond,” meddai, wrth ganu ffarwel i alwedigaeth ei dad a'i alwedigaeth yntau, “ y diafol a gymero fywyd o gasglu ffrwyth i arall ei fwyta.”

Yn ystod ei arhosiad yn Ellisland y cyfansoddodd Burns rai o'i ganeuon enwocaf, a'u melodi'n berffeithiedig, ond heb ychwaneg o rym na'i gerddi cyntaf, nac ychwaneg o naturioldeb mor bur a gloewder gwllith y bore. Yn nyddiau dedwydd y dechreu byw gyda Jean yr ysgrifennwyd “Yr Hen Amser Gynt.” Y flwyddyn wedyn ysgrifennwyd *The Wounded Hare*,—cân ddengys dynerwch naturiol Burns, ac a esbonia'r ystori am dano yn dysgu ei gi fynd hyd y wlad o'i flaen er mwyn rhoi ar ddeall i'r pechaduriaid fod yr *exciseman*

Caneuon Ellisland.

yn dod. Yr un flwyddyn, tra'n dyfalu a gai gyfar fod ei dad a'i gyfaill Muir a Highland Mary yn y nefoedd,* ehedodd ei feddwl at henaint hapus gyda'r wraig aberthodd gymaint drosto.

John Jones, fy anwyl wr, John,
Pan gyntaf gwelais di,
Dy dalcen gwyn oedd lwfn,
A'th wallt fel brân yn ddu ;
Ond heddyw crych yw'th dalcen, John,
A'th wallt fel ewyn dŵr,
Ond bendith ar d' eiraog ben,
John Jones, fy anwyl wr.

John Jones, fy anwyl wr, John,
Cyd-ddringsom fryniau'r byd,
A llawer dedwydd ddiwrnod, John,
A gawsom ni ynghyd ;
Mae'r goriwaered o'n blaen, John,
Law'n llaw ni awn yn siwr,
Ynghyd yr hunwn wrth ei droed,
John Jones, fy anwyl wr.†

Ond yr oedd ei feddwl yn dechreu suddo dan bwys afiechyd ac ing. Cerddai drwy'r nos, heb fedru huno, gyda glannau'r Nith, hyd wawr y bore. Ar un noson felly, tra'n llechu yng nghysgod tas gwair rhag min gwynt oer y nos, cyfansoddodd ei gân anfarwol *To Mary in Heaven*. Yn 1790 bu a'i holl egni adeg etholiad, ac yn y flwyddyn honno y clywodd yr ystori ysbryd ysgrifennodd yn gyflym,—*Tam O' Shanter*. Yn 1791 collodd ei noddwr,—iarll Glencairn,—a chyfansoddodd, mewn teimlad dwys, un o farwnadau goreu'r byd ar ei ol.

Wedi gwneyd ffair ar ei bethau yn Ellisland, symudodd Burns a'i deulu i lofft dair ystafell yn nhref Dumfries. Yr oedd ei gyflog ychydig yn well, ond yr oedd ei feddwl mewn poenau. "Y mae pob awr o'm bywyd yn codi o'm blaen," meddai, "a phob un a baich o ing ar ei chefn." Ond tua'r adeg yma, wrth erfyn am faddeuant Clarinda, yr ysgrifennodd y gân,—perffeithrwydd prydyddiaeth,—sy'n diweddu gyda'r pennill

* "There I should meet an aged parent, now at rest from the many buffetings of an evil world, against which he so long and so bravely struggled. There should I, with speechless agony of rapture, again recognise my lost, my ever dear Mary, whose bosom was fraught with truth, honour, constancy, and love."

Llythyr at Mrs. Dunlop, Rhag. 13, 1789.

† "John Anderson, my jo, John,
When we were first acquent,
Your locks were like the raven,
Your bonie brow was brent ;
But now your brow is bald, John,
Your locks are like the snaw,
But blessings on your frosty pow,
John Anderson, my jo.

"John Anderson, my jo, John,
We clamb the hill thegither ;
And mony a cantie day, John,
We've had wi' ane anither ;
Now we maun totter down, John,
And hand in hand we'll go,
And sleep thegither at the foot,
John Anderson, my jo."

Nid gwenynen ar flodeuyn
 Yng ngogoniant heulog nawn,
 Nid y tylwyth teg sy'n chwareu
 Dan oleuni'r lleuad lawn,
 Nid y bardd pan fo athrylith
 Yn pelydru o'i lygad du,
 Wyr y pleser, deimla'r gwynfyd,
 Rydd dy weled, Gwen, i mi.*

Ychydig wedyn ysgrifennodd ei gân ffarwel i Glarinda, pan yn cychwyn dros y môr at ei gŵr,—

Mi ni feiaf droiog ffansi,
 Nis gall dim wrthsefyll Nansi ;
 Wrth ei gweld 'roedd raid ei charu,
 Yn unig hi, byth byth ond hynny :
 Pe mor anwyl na charasem,
 Pe mor yufyd na charasem ;
 Pe heb gwrd—pe heb ffarwelio,
 Ni thorasai'n calon heno.

Ffarwel iti, kyntaf, decaf,
 Ffarwel, oreu ac anwylaf,
 Un hoff gusan, yna 'madel,
 Un ffar-wel, a bythol ffarwel ! †

Yn haf 1793 aeth Burns gyda chyfaill ar daith i Kirkud-bright. Bwriai wlaw yn ddidrugaredd, yr oedd y ddau'n wlyb at eu croen ; ceisiodd Burns dynnu ei esgidiau, ac yna ni fedrai eu rhoi am ei draed drachefn. Yr oedd yn wallgo ddrwg ei dymer tan ddechreuodd rigymu am ei elynion. Ebai am un,—

Pan aeth Morine i lawr at Satan i'w le,
 Coron Satan yn unig a'i boddiai efe ;
 Ebe Satan,—Fy nghoron byth byth ni chei di,
 Rwyf gen waethed, ond nid mor alluog, a mi. ‡

Ac yn y gwlaw hwnnw, tra'n croesi gwylltir Kenmure, yr oedd Burns wedi ymgolli yn ei feddyliau ei hun. Yr oedd mewn dychymyg yn rhuthro ar fyddin y Saeson gyda Bruce. A dyna enedigaeth cân genhedlaethol yr Alban,—“ Scots wha hae.”

*“ Not the bee upon the blossom
 In the pride o' sinny noon ;
 Not the little sporting fairy,
 All beneath the simmer moon ;

Not the minstrel, in the moment
 Fancy lightens in his e'e,
 Kens the pleasure, feels the rapture,
 That thy presence gies to me.”

†“ I'll ne'er blame my partial fancy,
 Naething could resist my Nancy ;
 But to see her was to love her,
 Love but her, and love for ever.
 Had we never lov'd sae kindly,
 Had we never lov'd sae blindly,

Never met—or never parted,
 We had ne'er been broken-hearted.
 “ Fare thee well, thou first and fairest !
 Fare thee well, thou best and dearest !
 Ae fond kiss, and then we sever !
 Ae farewell, alas, for ever !”

‡“ When Morine deceased to the devil went down,
 'Twas nothing would serve him but Satan's own crown,
 Thy fool's head, quoth Satan, that crown shall wear never,
 I grant thou art as wicked, but not quite so clever.”

Yr oedd iechyd Burns yn gwywo, a'i wedd yn newid. Yr oedd y ddiod yn aml yn drech nag ef. Yr oedd yn pryderu am ddyfodol ei deulu pan yn ofni fod ei oes agos ar ben, ac yr oedd mewn dyled yn aml. Y mae prudd-der dwys yn ei lythrau,—bu ei frawd William farw, collodd eneth fechan, oerodd serch rhai un-waith a'i carasai, cwmpodd llawer cyfaill i'r bedd. Onid tua'r deugain yw deufangyfarfod bywyd dyn, a'r man pruddaf,—pan fo'r hen genhedlaeth yn diflannu, ac yntau'n troi i edrych ar do newydd nas adnabuasai yn codi? Ac eto, yr adeg hon, pan yn gwar-grymu dan ymosodiadau y byd a'r cnawd a'r diafol, yr ysgrifennodd ei gân “Dyn yw dyn er hyn i gyd.”

Cyn ei farw yn ddeunaw ar hugain oed, fore Iau, Gorffennaf 21, 1796, gwyddai Burns fod ei ddiwedd ar ddod. Y mae ei ing, ei lythrau ffarwel at ei gyfeillion, a'i bryder dros y teulu o wraig a rhai bychain oedd yn adael yn dlawd, yn ddigon i wneyd i'r caletaf faddeu iddo bechodau ei oes, a gadael rhyngddo a thrugaredd y Duw pur y gallasai ei wasanaethu'n well.

Paham, heddyw, y mae gwlad fwyaf deallus a moesol y byd yn dathlu canmlwyddiant bardd lychwinodd ei fywyd a'i awen? Paham yr erys ei ganeuon yn hoffder plant dynion tra y prysur anghofir nos-feddyliau Young a chymysg-feddyliau Carlyle,—dau gydwladwr iddo fu'n enwog, y naill o'i flaen a'r llall ar ei ol?

Y rheswm cyntaf a'r pennaf am swyn anfarwol ei ganeuon ydyw eu naturioldeb. Yr ail ydyw eu gwladgarwch,—y mae lliw rhyw afon neu fryn yn ei wlad ei hun ar bob un o honynt. Nid am gyffredin bethau,—hanner duwinyddiaeth hanner ynfydrwydd,—y canodd; ond am faterion pwysig pob dydd,—am fywyd rhai, fel yntau, oedd yn ennill eu bara mewn chwys a phryder. Teimlai'n angerddol, teimla fel ei frodyr, ac nid anghofir ei gân. Llosgai ei fron o wladgarwch,—addolai fawredd hanes ei wlad. Canai, yn anad dim, am serch mab at ferch, testyn fydd yn newydd tra bo'r natur ddynol yr hyn yw. Dyn yn byw ar serch oedd, nis gallai fyw ei hun; hiraeth am rywun a'i carai yw bron bob un o'i serch-ganeuon. Anghofier ei feiau, y mae y rhan fwyaf o'i ganeuon yn bur fel y gwllith. Nid ei hanes, ond y gân olaf ganodd, hoffaf gael yn fy nghlustiau wrth ei adael,—

Yn anwyl gwyddost, 'rwy'n dy garu,
Paham ar falais cas gwrandewi?
O gwrando ar Gariad ddwed pryd hynny,—
“Ffyddlon serch sydd ynddo i ti.”

O tyred, o bob teg y decaf,
Fel cynt, O gwena eto arnaf,
Ac i dy dlysnai 'th hun mi dyngaf
Na châr fy nghalon ond tydi.

Eneth decaf glannau'r Devon,
Crisial Ddevon, troiog Ddevon,
Gyr y gwg oddiar dy ael,
A gwena fel y gwenet gynt.*

Ysgrifennais y tudalennau digyswllt hyn am Robert Burns dan fy adgofio fy hun am ei ganeuon, a than gofio fel y byddai un o'i wlad, yn nyddiau ein haddysg mewn prifysgol Albanaidd, yn adrodd y caneuon gydag acen sir Ayr.

Clywais laweroedd o weithiau, gan rai wedi manwl graffu ar bechodau aml ei fywyd, nad oes athrylith na thlysni yn yr un o'i ganeuon. "Y mae arogl y dafarn, y mae adlais rhag y gyfeddach, hyd yn oed ar y rhai goreu," ebe un o weinidogion yr Alban wrthyf unwaith. Clywais rai eraill yn profi oddiwrth ei fywyd y gall athrylith gyd-gartrefu â phechodau sy'n fwyaf darostyngol i ddyn. Ni choeliais y naill,—yr oeddwn wedi darllen caneuon Burns cyn gwybod dim am ei fywyd, ac wedi eu cael yn bur a sancteiddiol. Ni choeliais y llall; ond gwn, ysywaeth, y gall athrylith fod yn yr un fan a thuedd at aflendid, ac y mae'r athrylith yn gwanhau wrth i'r purdeb bywyd golli'r dydd.

Athrylith a
phechod.

Nis gwn am neb mwy athrylithgar na Wordsworth, nis gwn am neb a bywyd mwy pur. Mae'r byd yn well a hapusach wedi iddo ef ganu,—fel cân fwyn ddyrchafol, fel arogl esmwyth, y bydd ei goffadwriaeth byth. Ryw ugain mlynedd wedi marw Burns, ysgrifennodd Wordsworth ei feddwl am dano. Hoffai ef, mae'n ddiameu, oherwydd mai mab y mynydd oedd, wedi canu'n anhebyg iawn i'r beirdd caeth oedd yn crynnu dan deyrnwialen Dr. Johnson. Ond cashai Wordsworth bob amhuredd. "I mi," meddai, "ymddengys fod Burns yn fôd ardderchog. Tra eto 'n fachgen, ie cyn i'w gyhyrau gryfhau, gwelwn ef yn golofn tŷ ei dad. Ni welwn ef yn cerdded ar bennau'r mynyddoedd, gan anadlu ysbrydoliaeth natur, fel y cafodd beirdd ereill gerdded yn eu hieuenctyd trwy garedigrwydd rhagluniaeth; ond gwelwn ef yn llwythog gan lafur diddarfod,—gallaf ymron ddweyd, yn gweithio gwaith caethwas. Codai gyda'r ehedydd, ond nid i fyw bywyd yr ehedydd,—dydd cân ac afiaeth yng ngloewder dedwydd yr awyr. Yr oedd dyled-swyddau caled a phoenus o'i amgylch ac uwch ei ben. Fel lleoedd i weithio'n galed ac i ddioddef yr adnabu efe'r caeau


Burn
Wordsworth.

*"Full well thou know'st I love thee dear,
Could'st thou to malice lend an ear?
O did not Love exclaim,—'Forbear,
Nor use a faithful lover so.'

"Then come, thou fairest of the fair,
Those wonted smiles, O let me share,


And by thy beauteous self I swear,
No love but thine my heart shall know.

CHORUS. "Fairest maid on Devon banks,
Crystal Devon, winding Devon,
Wilt thou lay that frown aside,
And smile as thou wert wont to do."



um ei fara beunydd-
 hog hiraeth. Daeth
 h, goleuni o dywyll-
 tlysni yng nghanol
 y dymhestl, curodd
 odd Awen ei wlad,—
 nyddoedd a dyffryn-
 gelynen am ei ben.
 oleuni ddanghosodd

ydd yr hyn ddiodd-
 ddanghosodd i ni, y
 d, o gaethiwed di-
 ed ganrif, mai'r dyn
 cymdeithas yn dda
 euni'r athrylith a'i
 dyn ei hawliau nas
 an draed yn hir. A
 rwydd i aberthu, y
 riad gwraig bron yn
 ennill ei faddeuant
 daen llygaid dynion
 dwyll, y ffyddiog, y
 deb feallai, ac ing
 h mud hwn. Ac o
 f tarawiadol ydyw'r
 ffolofn yn Dunoon,
 Campbell. Edrych
 ua gororau sir Ayr,
 llaw.



ryfall, hyd y borau
yn y pell ororau,
nwent yn eu duo,
nhad byth, byth yn trelo.

ISLWYN.

N I thwyllwyd Leopold Mozart er
ramwy'r gwledydd
yn dad arwr ieuanc y
pobl. Deallai'n bur-
on mai oed y bychan
pedd yn peri'r berw,
ac nid ei allu, er cym-
int ydoedd; ac ni
mfoddlonai ar hyn.
Os edwinai swyn y
yntaf o ddydd i
ddydd, mynnai i'r
olentyn gynhyddu yn
llall. Felly, ac eithr-
o gwib-daith i Vien-
na, i gyfarfod â'i siom
gyntaf, erys Mo-
zart yn Salzburg
yn llanweiswydd
gyngherdd feistr yn
lys yr archesgob, ac
n llafurio'n ddyfal
an addysg ei dad i
deall manylion cyng-
anedd gwrthbwynt
Wele len yn llawn
linellau hirfain du ar
ed o'i flaen, ac yn-
au'n trefnu arni or-
mdaith cân yn ol
edd-fau gwrthbwynt.
yn olwyno'n araf
on fynnai arbed ei
ar eu hungoes wrth
c penddu i'r tu arall
mae amryw gloffion
r bach, beth yw y
ymuno â hwy, nes
ennid o'r orymdaith
antant a'r boblach yn

nhrefi glan y môr, sydd yn dilyn gwŷr y gwyneb du, y goler wen, a'r hugan fraith, ac yn dyheu am eu crechwen ynfyd a'u nâd.

Dyffryn yr esgyrn sychion ydyw gwrthbwynt, medd yr oes hon, oes y swm tramawr, oes chwythu udgyrn—pob un ei udgorn ei hun ysywaeth—oes doddi sain ar sain, fel y dyd y
Dyffryn yr Esgyrn Sychion. seiri meini faen ar faen, a haen ar haen, yn y mur, nes o'r diwedd nas gwelir na daear na nef, na dim ond y mur moel cadarn, a gwaith llaw ac nid anian. Esgyrn sychion yn ddiau ydyw gwrthbwynt a chynghanedd, y naill fel y llall, i bob un amddifad o ddawn. Ond am wir fab y gân, saif ef fel y gweledydd gynt, ar gwr y dyffryn erchyll a'r esgyrn yn teryllu arno yng ngoleu'r haul, ac ar air ei enau daw anadl einioes o bedwar ban hyd, ac wele drydan bywyd yn gwefrio trwy'r dyffryn, asgwrn yn hel at ei asgwrn, giau yn eu hulio, a llu mawr yn ymysgwyd o gwsig angau, ac yn ymdaith yn amllder ei rym.

Yn yr hen ysgol hon, ysgol yr amrysain, yr ysgol gododd Bach, a Handel, a Haydn, ac wedi hyn Beethoven,—er mai disgyl anhydrin odiaeth ydoedd ef,—yr addysgir Mozart. Am iddo ymhyfrydu mwy yn ei deddfau nag odid un o fawrion y gân, ond Handel a Bach, y ceir y fath newydd-deb, y fath lesni ir a swynion gwanwyn, ymhob gwaith o'i eiddo, ac y ceir alawon mirain yn ymdroelli ymhob adran, fel aberoedd cain-loew, ac eto'n cyfuno yn un dylif gogoneddus o beroriaeth.

Wedi gloewi arfau fel hyn drwy ymgynefino â rheolau manylaf y gelf, ymwel Mozart â'r Eidal, gwlad y gân a'r celfau cain, i ddeffro holl ymadferthoedd ei enaid, a gwregysu ei
Gwlad y Gân. lwynau i fyned allan i'r byd, fel Iwl Caesar, i weled a gorchfygu. Ac ar lannau dyfroedd asur Môr y Candaldir y bu, o 1769 i 1771, yn tramwy o ddinas i ddinas, dan wenau ffawd a heulwen ddi-gwmwl. Mewn un lle gwelwn ef yn "dadrys cenglau dyrws gwrthbwynt cyn hawsed a bwyta tamaid o gaws;" mewn man arall yn ennill gradd gerddorol trwy wneyd mewn awr yr hyn ofynnai bedair neu bump, ac ymhob man enynna'r "Saxon bach anwyl" frwdfrydedd dihafal yr Eidaliaid cangar a thanbaid,—“Byw fo'r cerddor, byw fo'r cerddor bach,” yw eu llef. Ym Mologna dena serch gŵr mwyaf amryddawn a choeth yr Eidal, y tad Martini, ac efryda wrthbwynt ac ehedgan dano. Yn Rhufain dengys ei hun yn ail i Glust mab Clustfeiniat, trwy ysgrifennu o gof y *Miserere* prydferth o waith Allegrî a glybu unwaith yn y Capella Sistina, er fod rhannau o hono i wyth o wahanol leisiau, * a bellach rhaid

* Oherwydd i Mendelssohn efelychu'r gampwaith hon, dichon y dylid cael trioedd y glust rywbeth i'r perwyl a ganlyn,—Tri gŵr clustfeiniat a fu, Clust mab Clustfeiniat, "pei cledid seith cuppyt yn y dayar, deng milltir a deugeint y glywei y morgrugyn y bore pan gychwyne y ar y lwth;" Mozart fab Leopold a glybu ac a ysgrifennodd folianber afrifed seiniau y ddau gŵr gwyn pan ydoedd yn Rhufain; a Mendelssohn fab Abraham, o gydymgais serch, a orug yn hafal iddo wedi hyn.

iddo, ar gais y Pab, wisgo'r "ysbardyn aur," a cheisio ymgynnal oreu gallo dan yr enw pwysfawr aml ei gymal,—Signor Cavaliere Amadeo. Yn Naples hygoelus gorfu iddo dynnu'r fodrwy oddiar ei law pan yn canu'r offeryn, am fod swyn yn perthyn iddi; ac o Filan, dinas gain yr eglwys wen a'i mil o ddelwau, lle bu Dr. Gruffydd Roberts yn ofidus ei galon am anfri'r iaith Gymraeg yn ei bro gysefin ddau can mlynedd cyn hyn, ysgrifenna'r tad adref,—“Yr un wedd yma ag ymhob man, fel nad oes angen darlunio.” A thawn ninnau a son.

Pan droes Mozart ei gefn ar yr Eidal i lwybro'n ol i fangre ei febyd, canodd yn iach am byth i wanwyn bywyd a'i heulwen eirian ddi-gwmwl, a'i brofiad mwyach fydd,—

“Yn seiniau mawl mae oslef poen,
Ymhob llawenydd llawer cur.”

Nid cynt y cadd Mozart ei hun yn y dreflan fynyddig, na chanfu mor anaddas ydoedd weithian i ymdroi ymhlith y dinasyddion syml di-awen, na fuont erioed ymhell o dro-Dechreu goddian. thwy eu tai; ond eto, er fod “gwynt yn tramwy trwy eu pen,” a dybient eu hunain yn urddasolion byd. Ac ni ddysgasai ef na'i chwaer wers Voltaire, i gelu pob ymdeimlad o uwchafiaeth o'u gwydd. Gadawent i ffrewyll eu gwatwareg ddisgyn yn hael ddiarbed ar bawb o'u cwmpas, ac ni thueddai hyn i feithrin cariad tuag atynt ym mynwes y sawl a wingai dan ei blas. Nid oedd yno chwaith nemawr i un allai iawn brisio ei awen, a rhaid oedd arno wrth edmygedd a chydymdeimlad i'w symbylu i ragori yn ei gelf. Gwan iawn, gan hynny, ydoedd ei ymlyniad wrth Salzburg dawel ddinod, ar ol trwr prif ddinasoedd Ewrob, a'r unig hualau a'i daliai yno ydoedd aelwyd ei dad, a hynawsedd ei feistr, yr archesgob Sigismund. Ond ni fu'n hir iawn yn mwynhau'r fraint o wybod ei fod yn rhyngu bodd yn ei swydd, canys daeth gŵr traws i lanw lle Sigismund; er mawr siom i bawb yn Salzburg. Gwyddai Hieronymus nad efe oedd ffefryn y bobl, ond yr oedd yn rhy anhyblyg ei feddwl i wneyd yr ymgais leiaf i ennill serch neb, boed gorach, boed gawr. Mae'n wir ei fod, fel llawer gormesydd, yn wr o ddiwylliant a gallu, yn loew lân ei foes, ond yn galed fel yr adamant, yn ddinaws ddi-deimlad, ac yn fawr ei draha wrth y sawl ddibynnai beunydd arno am air mwyn i'w cysuro, ac am fara i'w dinewynu. Gwrthrych pennaf ei atgasedd oedd y llanc gerddor, anibynnol ei feddwl, ond egwan o gorff. Cashai ef am y naill, a dirmygai ef am y llall, a mwy na'r cyfan, ffuantai ei anwybyddu fel cerddor, i'r amcan moliannus o gadw'r glaslanc yn wylaidd iselfryd, a'i luddias i gaffael digon o hyder i ofyn mwy o dâl am ei lafur. Y diwedd fu i esgeulusdra anesgusadwy

yr archesgob, a'i fryntni bwriadol, wneyd hywyd Mozart yn boen anaele, a gorfu iddo dorri'r gadwaen olaf a'i cadwai ym mro ei febyd dan furiau llwyd yr hen gastell a chysgod yr Alpau brig-wyn.

Ymha le yn awr y mae i ymofyn bara? Coffa da am yr ymweliad gynt â Pharis, ac wele ef eto a'i wyneb tua'r ddinas gain.

Y tro hwn y mae dan aden ei fam feddal-galon, am
Antur enbyd. na cha'r tad gennad gŵr garw'r castell i ado cartref, ac wiw meddwl munudyn am i'r cerddor dramwy o dre heb neb i ofalu am dano, canys ni fedd anian marsiannu, ac nid yw'r fam fawr gwell—neu waeth. Ymad y ddau o Salzburg Medi 23, 1777—blwyddyn y tair caib—ac un o honynt ni welwyd mwy yn ei hen gynefin ar yr aelwyd. Ond ni wŷr efe hyn pan ad yr hen aelwyd yn hanner gwag, a llanerchau hyfryd mebyd a'u hadgofion fil ar ol, ac y cyflyma ymlaen tua pharthau gwyn gan wenau gobaith. Ond antur enbyd ydyw hon i fod iddo. Cyn ei diwedd y mae i adwaen hud serch, ac ing galar, i deimlo awelon esmwyth yn anadlu arno o fyd yn llawn o bob ryw swynion, a chwaon oerion angau yn rhynu ei enaid.

Torrwyd y siwrne yn Augsburg, Munich, a Mannheim. Bu ei arosiad yn y lle olaf a'i ddylanwad arno er gwell ac er gwaeth tra y bu byw. Yno y cadd drem ar ddau fyd newydd,
Darganfod deufyd newydd. byd o gân, a byd o serch. Drwy gerddorfa y chwareudy, yr oreu yn yr Almaen, y gwelodd nad ydoedd, er ei holl diwylliant, ond megis yn sefyll ar fin y traeth, ar yr hwn y cura mân donnau'r cefnfor eang. Llamodd neges offerynau tant a phres fel fflach mellten i'w feddwl, a throdd ei awen hwy i'w gwasanaeth ei hun o dipyn i beth, gan alw seiniau allan o'r tryblith mud na chlybu clust undyn byw mo honynt erioed o'r blaen. Ond beth am y byd arall? Cadd wib-olwg ar hwn hefyd drwy y chwareudy. Ymhlith eraill, daeth i adwaen gŵr o'r enw Weber, gŵr dibwys ddigon, yn gwneyd tipyn o bopeth, a dim llawer o ddim. Ond yr oedd yn dad i lawer o lodesi, a phob un ag awen y gân ganddi, ac un o honynt, Aloysia, er nad ydoedd ond pymtheng mlwydd oed, yn gantores swynol odiaeth, mor swynol fel yr hudwyd Mozart ieuanc ddibrofiad i gyfansoddi caneuon iddi—*Se amor non è, che dunque?*

O dro i dro gwna Mozart ei dad pryderus draw yn Salzburg yn hysbys o droion yr yrfa. Yn ei lythyrau ato'r cyfnod hwn,

y mae dyngarwch dihanan, hollol anisgwyliadwy yn
Dondio garw. tarddu allan o'i galon pan fyddo'n son am Weber a'i drallodion, ei deulu aneirif a'i brinder arian. Ond ni ddelir hen aderyn â manus. Bu llygaid Leopold yn ddigon craff i weled drwy y llen deneu hon o ddyngarwch eangfryd, ac i ganfod nad ydoedd eto gyflod â'r byd, nac ers lawer mor ddi-

hunan ag y mynnai'r ymhonnwr mawr ei bod. Mewn gair, gwybu i'w fab syrthio "dwyllath dros ei ben" mewn cariad â merch Weber, ac enynnodd ei ddigofaint. Nid i hyn yr aed oddicartref, ni wnaed aberth ariannol a rhwyg yn y teulu i ddwyn hyn i ben. Eto anfonodd ato'n dyner, gan ei dynghedu i frysio tua phen y daith; ac awgryma'n gynnil watwarus mai ei deulu ef ei hun sydd yn deilwng o dderbyn y danghosiad sylweddol cyntaf o effeithiau daionus y dyngarwch newydd a nefol-anedig hwn. Ond dibris fu Mozart o'r cyngor, a mynnai newid y cynllun gwreiddiol o fyned i Baris, an gynllun newydd spon danlli o'i eiddo ei hun, sef myned i gadw cyngherddau yn yr Almaen, yr Eidal, a holl wledydd cred, efo teulu Weber yn gan-torion, ac yntau yn gyfeilydd, yn gyfansoddwr, a threfnydd marsiandiol. Mewn ol-ysgrif i'r llythyr ysmala hwn, mynega'r fam ei hanallu i'w gael i roddi'r cynllun penchwiban o'r neilltu. Gormod oedd hyn i gig a gwaed Leopold. Aeth ei anian oll yn wenfflam, ac anfonodd y llith grymus a ganlyn at ei fab,—

"Y mae eich calon gariadus yn eich harwain i weled dim bai yn y sawl a'ch mola'n uchel ac a'ch dyrchafa i'r cymylau, ac i roddi eich serch a'ch ffydd ynddo. I'r gwrthwyneb, pan oeddech blentyn, yr oeddech mor ormodol o wylaidd fel y wylech pan folid chwi. Erys yn eich gallu i esgyn cyn uchod ag y cododd cerddor erioed. Dyledus ydych am eich talent odidog i'r Duw daionus, ond dibynna ar eich synwyr a'ch ymddygiad chwi eich hun pa un ai cerddor cyffredin anadnabyddus i'r byd fyddwch, neu gapel-feistr enwog a'i glod yn hofran i'r oesau a ddel; pa un ai ymdyrru'n bentwr wnewch mewn caban llawn o blant yn ygrechian ar dusw o wellt, neu dreulio bywyd Cristion yn llawn anrhydedd, mwyniant, ac elw, a marw'n barchus gan yr holl fyd, gan adael teulu ar ol a digon ar ei gyfer. Ymaith â chwi i Baris, ar unwaith! Dodwch eich hun ystlys yn ystlys â mawrion byd—Caisar neu ddim. Dylasai'r syniad o weled Paris eich lluddias i wib synio'n wallgof. Ymleda enw a chlod gŵr o wir dalent drwy yr holl fyd o Baris."

Nid oes yma air o son am Weber na neb a berthyn iddo, a dengys hyn mor ddoeth ydoedd y tad, hyd yn oed yn ei ddig. Cadd y llythyr hwn effaith mor ddwys ar Mozart nes amharu ei iechyd, ond atebodd yn addfwyn a gostyngedig,—“Duw yn gynta, tada wedyn, oedd fy llafar pan yn blentyn, ac yr wyf yn para'n bur iddc byth.” Ac i Baris yr aed.

Yma caed yr holl ffurfafen yn ddu gan wg y rhyferthwy ofnadwy oedd yn cronni draw ar y gorwel, y rhyferthwy ysgubodd dros Ffrainc gan gludo hen amserau'r gorthrwm ymaith i'r difancoll, a gadael ei lwybr yn dryfrith o olion galanas a gwae. Yn wir, yr oedd yr ystorm eisys wedi dechreu, a hynny ym mro dawel y gân, sef llwyfan yr opera. Pwy bia'r gân, ai Gluck syml lan ei awen a phur ei amcan, neu Piccini fas-swynol a mawr ei hwy! Ai hen ysgol yr alawon per o'r Eidal, neu ysgol newydd y cynghanedd dwfn o'r Almaen sydd i ffynnu? Ai seiuiâu'n arllwys gwir deimlad y galon, neu felus swn i foddio'r glust? Hen ofynion sydd fyth


Ffwr a gân.

yr pawb fu'n dilyn
ar ddoethion yr oes
liwrnod ffair. Ond
o oes i oes, canys
a wyr a'r ieuanc
i hyn,—A ydyw
d sydd, neu i bara
id tramwy draw o
o'r anian hon yn

th rhyddhad efo'r
moes, ac eiddigedd
weryl. Ar un llaw
u'n cyd-chwareu â
ei chyd-wladwr a'i
llywyddes y llys, yn
i; ac ymuna cared-
fan, o segur weision
Siawns wael gan
n eangu ei glod, pan
n ond i ymdaeru am
mdaflood ef i ferw'r
wy blaid i'w ddwyn
bio, daeth y trai, a
y traeth.

bri, ond nid oedd
rlifodd ei enaid pan
r rhymor ei chystudd
yn hofran beunydd
ofal pan ddel angau.

—



AR LAN Y NIL

Wir heissen euch hoffen.

GÖTTE.

Ar lan y Nil un nawn,
Mwynhau'r awelon wnawn,
Ym min y dŵr,
Ymhell o stwr
A dwndwr llu di-daw
Heolydd Cairo draw,
Yn dawel wr.

A llawer ffela * sydd
Yn myned heibio'n brudd,
A gwae ei hil
Am fwyddi fil
I'w weled ar ei wedd,
Yn gwysau dwys di-hedd,
Ystruan sil.

Ac wele lodes fam
Yn dod o gam i gam,
A'i llygaid sy
Yn sylu'n gu
Ar blentyn yn ei bron,
Blodeuyn unig hon
Ar ddaear ddu.

Ei golwg arno dry,
Ac yna sylla fry
I'r nef yn syn,
A deil yn dyn
Ei baban yn ei chôl,
Rhag hedfan yn ei ol
I'r broydd gwyn.

Neu ganfod rhith y rhan,
A ddaw i'th faban gwan
O ddydd i ddydd,
A'th wna yn brudd?
Oes dichon dweyd pabam
Nad ef i wlad ei fam
Ymwarded rydd?

Pwy ŵyr na cheidw'r wlad
Ei enw mewn mawrhad
Tra daer yn bod
A ser y rhod?
Nid byth y dua'r nen,
Hi wena'n oleu wen
Ar fro y llawer sen,—
Mae'r wawr yn dod.

Ddaeth gair erioed i'th glyw
Am fam yn Israel Duw,
Yn nyddiau'r llyw
Creulona'i ryw,
A roes ei baban mwyn
Mewn cawell bach o frwyn
I'w gadw'n fyw?

Ond Duw a'i dug o'r dŵr,
I'w godi'n gadarn wr
I frwydro'n hir
Am ryddid gwir
I lwythau caeth ei had,
Ac arwain tras ei dad
I fywyd glân a mad
Yng Nghanan dir.

Neu ofni'r wyd mai mynd
A raid at anwyl ffrynd
I fro y gro,
A'i adael o
Ar ol heb dad na mam,
I dderbyn llawer can,
Ac anfad dro?

Mi wn yr hoffi rin
Mahomed El Amin,*
Dy broffwyd yw,—
Y gwron gwiw

* Ffela—gwladwr; lliosog ffelahn.

* Mahomed y Ffyddlon.

Roes lef i'r anial mud
I adsain drwy y byd,
"Does dduw ond Duw." *

"Islâm. Ewyllys Duw,
Tra fyddwyf fydd fy llyw,"
Medd ef yn hy,
Er gwgu du
Coreaidd lu ;
Ac yntau'r Mawr ei ddawn,—
"Myn goleu haul y nawn,
A'r noson loergan lawn,
Ni'th wadaf di.

"Heb dad na mam dy ges,
Yn dlawd, a'th goledd wnes,
Mae Duw yn dda
Dy noddi wna ;
Mil gwell y bywyd ddaw,
Datgana di'n ddi-daw,—
Hael yw Al-lâ." †

Neu oes ar d'enaïd ofn
Ar lan yr afon ddofn,
Wrth wrando rhu
Y dyfroedd du ?
Ai arswyd sy gerllaw
Yn 'mafael yn dy law
I'th dywys drwodd draw,
At wyllon lu ?

A glywaist son am Un
Yn fil fil mwy ei rin,
Y baban cu,
Ar ffo a fu
Yn ymdaith yn dy wlad,
Dan ofal mam a thad,

* Lâ ilâha il Al-lâ.

† Aralleiriad o ran o'r Cwrân, Swra
xciii.

Rhag llid y teyrn a'i frad,
Ein Hiesu ni ?

Pan rodia'r ddaear hon,
I'w coledd yn ei fron
Bu mamau'n dwyn
Eu hanwyl wyn,—
"Don' ataf," yw ei lef,
"Can's eiddyn' deyrnas nef,"—
Ei wynfa gorlan Ef,
Y Bugail mwyn.


Fe roes ei einioes wiw
O'i fodd dros ddynolryw,
I'w dwyn o ffin
Yr erchyll fin,
Drwy oddef marwol loes,
Ac ing ofnadwy'r groes,—
O ddwyfol rin.

Os doi i adwaen Hwn,
A dawn ei iau a'i bwn,
Daw nefol hedd
I lonni'th wedd,
A gweli oleu gwyn
Yn gwenu yn y glyn
Drwy wyll y bedd.

Ti glywi odlau cân
Y dyrfa ddiwahan,
Mewn gynau gwynion glân
A bythol hoen,
Heb wae na phoen,
Sy'ar lannau'r dyfroedd byw,
Yr afon loew liw,
Yn llawen foli Duw,
Duw a'r Oen.

R. BRYAN.





L L I N .

dd o ddiffyg gwreidd-
th a hefyd yn yr un
hmygu drwy gydol y
cyfeillion a llyfrau a
ol i mi fynd i orffwys
ffinnau, wrth feddwl
yn rhydd, yn barod i
y ngwyliau i,—rhyw
yddaf bob amser, fel
orchfygol, yn troi fy
ataf Hydref yn agos-

hau, bydd eglwys gadeiriol Cologne yn codi o flaen fy meddwl gyda rhyw swyn a rhyw wirioneddolrwydd, a'r Rhein fawreddog yn rhedeg o'm blaen fel y gwelais hi gyntaf erioed oddiar bont Cologne, a'r heulwen gynnes yn chware ar ffrwythau gwridog y Rhein,—ac ni fedraf fi feddwl am droi fy wyneb i un cyfeiriad arall. A hwyrach y daw'r darllennydd mwyn,—er ei fod wedi cael ei wyliau ei hun yn Llandrindod neu Drefriw, neu wedi gweled gwlad yr haul canol-nos neu bigyn Teneriffe,—am dro unwaith eto gyda mi yn yr erthygl chwareus hon, gan adael erthyglau ar yr athronyddol a'r duwinyddol tan hirnos gauaf.

Mae llawer o resymau dros fynd i fyny'r Rhein. Y mae'n wlad ramantus,—gydag amrywiaeth ymron heb ei fath. Y mae

bron yn ymyl,—gadewir Llundain, dyweder, nos Lun, Swyn y Rhein. a byddis ar bont Cologne brydnawn dydd Mawrth.

Y mae'n lle rhad, ond bod ychydig yn ofalus. Y mae'n lle diberygl,—nid oes le i ofni cael treulio gwyliau mewn daearell; nid oes berygl oddiwrth nag arth na blaidd na neidr na phryf colyn arall; nid oes lawer o berygl oddiwrth heintiau,—y mae mil drawdod Cologne wedi peidio pan ddaeth dyddiau oerach Medi wedi gwres llethol Awst, ac nid yn aml yr ysguba'r frech wen neu'r geri dros y dyffryn hwn. Y mae'n lle hanesiol hefyd,—ni fedd hynodrwydd tragwyddol gwlad Canan, ni fedd ddisgleirdeb llachar Groeg, na chof am rym haiarnaidd fel un Rhufain. Ond yma y darganfyddwyd y wasg, yma y bu ymdrech y Diwygiad Protestanaidd, yma y penderfynwyd pwy oedd i reoli Ewrob, yma y rhoddwyd sail llawer adeilad cadarn i lawr. Cologne a'i mawredd hanesiol, Coblenz a'i chryfder milwrol, Mainz a'i bri eglwysig, Frankfurt a'i llysoedd heddwch, Heidelberg dlos a'i hen Brotestaniaeth, Worms a'i hadgof am lais taran Luther, Speyer a'i meirw ymherodrol, Strasburg a'i brwydrau erchyll, Basel a'i dysg a'i sel grefyddol,—onid yw y rhain, heb enwi ychwaneg, yn ddigon i demtio pob un hoff o ddarllen i grwydro drwy eu hen heolydd? Ac yn fwy na'r cwbl, y mae'r gorffwys a geir trwy deithio dau ddiwrnod hyd yr afon, cyn cymeryd y ffordd haiarn hyd y dyffryn uchaf, yn dwyn y meddwl lluddedig i'w gynefin nerth ymron ar ddechreu'r daith.

Un peth ddywedir gan fy nghyfeillion i gyd,—y mae pawb yn mynd yno. Gwell ganddynt hwy lwybrau mwy disathr,—i

wledydd lle nad yw pawb yn dibynnu am ei fywiolaeth ar rai'n teithio 'u gwyliau. I rai a digon o amser, ac i rai 'n medru ieithoedd dieithr yn dda, y mae'n ddiameu mai gwell yw gwledydd lle nad oes llawer o drafaelio drwyddynt,—gwledydd lle nad oes berygl iddynt ddod ar draws llu o gydwladwyr yn chwilio am yr un golygfeydd a hwythau, gwledydd heb eu disgrifio gan wr diddarfelydd y

darganfod, gwledydd
 heb ddangos eu hunain
 yn, gwell iddo ef gael
 i'w pir popeth i'w hwyl-
 nodweddion ei bywyd
 dangos rhai eraill i'r
 llynynt.

tan ac iaith. Cymerir
 y berth, ond gadawed y
 yn ei wlad ei hun.
 ; ond iddo gofio mai
 ar yw chwe cheiniog,
 ei bres mor gyflym



Hawdd y gelli wenu
 at was, ond pe buaset
 bleth mawr,—yn ceisio
 tren, a hynny mewn
 d yn ddarnau bychain
 gyrau ; yn ceisio cyf-
 w dro nas gelli gofio
 an o'r gloch y bore, ac
 ob awr byth er hynny ;
 biog rhai roglyd, ac yn


dal mewn cof o hyd mai tair ac wythfed o'th geiniogau di yw pump a chweched o'u ceiniogau hwy,—pe buaset wedi gorfod ceisio gwneyd y tri pheth hyn ar unwaith, tra mewn ofn mawr colli dy dren, ni fuaset yn fy ngwatwar yn dy feddwl am gofio y gelli daro dy fargen ger lannau'r Rhein heb droi dy wyliau yn adeg ymarfer *mental arithmetic*.

Nis gwn ai dwy iaith yn unig a fedri. Na chywilyddia, y mae llawer yn medru llai. Nid yw yn debyg yr ai i'r un gwesty yn Nyffryn y Rhein na chroesewir di yno yn Saesneg; ac os rhoir tipyn bach yn ychwaneg yn dy fil oherwydd dy fod yn siarad iaith y gŵr llawn ei war, cei lawer gwên a moes-ymgrymiad yng nghyfer hynny. Bum yn meddwl lawer tro am yr anobaith, y rhaid fod tramorwr un-iaith ynddo pan geisia grwydro, druan, drwy'n gwlad ni. Nid oes odid i orsaf na gwesty hyd yn oed yn nhrefydd mawrion Prydain lle siaredir iaith yn y byd ond Saesneg; ond yn wir y gwestai hynny sy'n cyflogi Germaniaid am eu bwyd a'u siawns. Mantais fawr mewn gwlad ddieithr ydyw cael siarad iaith fyddis yn fedru'n well na'r hwn y siaredir âg ef, yn enwedig pan fydd cweryl.

Hwyrach, ddarlennydd, nad wyt wedi penderfynu colli dy fywyd wrth ddringo rhyw bigyn mynydd uchel na sangodd troed dyn ar ei eira dihalog erioed. Hwyrach fod dringo bryn serth caregog ar ddiwrnod poeth yn Awst yn ormod gennyt. Hwyrach dy fod yn dew ac yn ddiog,—na, yn gorffol a rhadlon oeddwn yn feddwl. Na hidia, os treuli dy wyliau fel myfi, ni raid i ti fentro dy fywyd y gauaf na chwysu'r haf. Cei osod dy hun at unrhyw ongl ar gwch cyfforddus, ac am ddau ddiwrnod bydd dwy orymdaith, un o bobtu, o'r golygfeydd mwyaf swynol,—creigiau, mynyddoedd, gwinllannoedd, pentrefydd, adfeilion cestyll, tyrau eglwysi,—yn llithro heibio i ti, heb i ti ymegnio dim. Y mae'n wir fod yn rhaid i ti fwyta yn ystod y dyddiau hyn,—rhaid wrth hynny o ymdrech. Ond, er nad wyt wr glwth, cei ginio ar y cwch y buasai'n dda gennyt fedru gwneyd cyfiawnder ag ef fel yr Almaenwyr o'th gwmpas, a chei gwpaned o goffi ar y dec, tra mae'r awel hyfryd yn chwarae ar dy dalcen, wna i ti fynych gofio am dani yn nyddiau bara blinder a the llygoer. Ond ai gweddus diogi fel hyn? Ie, ond cofia mor fyr yw dy wyliau.

A gelli ddysgu faint a fynnot, bron heb wybod i ti dy hun. Gweli oddiwrth yr adeiladau beth oedd cariad y canol oesoedd at dlysi, a gweli hefyd mor hagr a di-addurn yw ein tai ni,—eu glanweithdra yw eu hunig rinwedd. Ond yma, y mae pentrefydd llawn o'r adeiladwaith mwyaf cain yn ein pasio o hyd,—ochrau pren duon a phanelau golau,

a dormerau yn codi o
 pys bigfain neu gastell
 rhin y bydd tref neu
 ofio am ryw dro hynod



awer i'r daith diwrnod
 y foeth o ddinasoedd ac
 y meddwl oddiwrthynt
 law ymhellach yn ol at
 gron. Gwyliau yw,
 pe na byddai raid mynd
 bedwar cant a hanner o
 hwyrdydd tawel fel
 blaen ar hyd-ddi gan
 f,—fel ysbryd rhyddid
 wydnos ar y golygfeydd
 yry.

Yn gymysg a dwndwr llon y lli clywn furmur,—trymach a mwy pruddaidd,—bywyd y ddinas fawr yr ydym yn sefyll ar ei chwyr. Mor hen yw, mor ryfedd fu ei hanes,—mae
 Cologne. bron bopeth wyddom ni am Gymru megis cynnwys papur newydd o'i gydmaru â'i hanes hi. Codwyd hi, meddir, gan fam Nero; a bu Cystenyn yn adeiladu pont dros y Rhein lle yr ydym ni yn awr. Pan oedd cenhedloedd y gogledd yn chwilfriwio ymherodraeth Rhufain, bu'r llanw tonnog o wynebaw barbaraid yn curo ar furiau a phyrth Cologne. Pan oedd gormes yr eglwys yn crynnu o flaen deffroad masnach y ddeuddegfed ganrif, daeth Cologne yn un o'r prif ddinasoedd marchnatol, a chyrchai marsiandwyr i'w Ffair y Grogliith o bob man. Yng nghyfnod yr ymdrech rhwng golud a medr, ac wedi hynny yng nghyfnod yr ymdrech rhwng y Pabyddion a'r Diwygwyr, bu brwydro chwerw yn yr hen ddinas, ac yr oedd pob brwydr yn difa ei nerth. Ac yn yr oesoedd diweddfaf hyn, safodd ar gwr y gwastadedd fu'n faes y brwydrau benderfynasant pwy sydd i fod yn fawr yn Ewrob.

Uwch ein pennau, ar godiad tir o drigain troedfedd, ymgyfyd eglwys gadeiriol fyd-enwog Cologne. Ei mawredd anferth yw ei hardderchogrwydd. Nid oes ynddi'r cymhesuredd hwnnw wna brydferthwch, y cymhesurydd hyd a lled; y mae'n llawer rhy fer o'i hyd. Ei huchder aruthrol,—ar lun y *giraffe* yn hytrach nag ar lun yr ewig,—i mewn ac allan, sy'n hynod. Er tua 1270 hyd y dydd hwn y mae cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth, fel y ca'r byd ffitiau o hunanoldeb, wedi codi ei rhan arni. Y mae'n ddarlun o'r ormes eglwysig godwyd yn y canol oesoedd ar seiliau efengyl syml Iesu, ac o'r ormes wladol adeiledir yn awr ar wladgarwch y gwerinwr Almaenaidd amyneddgar. Beth sydd y tu mewn? Gwagder aruthrol, ac esgyrn y doethion o'r dwyrain, a chalon Marie de Medici, ac esgyrn duwiolion nad oedd y byd yn deilwng o honynt, ac arweinwyr yn eich poeni am bres,—nid wyf yn sicr am ddim ond y gwagder a'r bobl awydd pres. Heb fod nepell o'r eglwys gadeiriol y mae eglwys y Jesuitiaid. Codwyd hi tua 1625, pan oedd sel genhadol a gallu digymar y Jesuitiaid yn ennill gwledydd cred yn ol i Babyddiaeth, yn aml trwy ystryw nad oedd tebyg i arlliw diniweidrwydd y golomen arno, a thrwy fraich ddiosturi'r arteithiwr. Y mae ei ffenestri'n taflu holl oleuni tanbaid yr haul ar yr allor. Dyna ei chlychau'n canu. Yr ydych yn cofio y gwarchae ofnadwy ar ddinas Lutheraidd Magdeburg, y gwrth-sefyll arwraidd, a'r dinistr echryslon pan ruthrodd y mileiniaid ymherodrol,—carthion trefi Ewrob,—drwy'r muriau rhwygedig i ganol gwragedd a phlant y dineswyr Protestanaidd. O'r magnelau fu'n amddiffyn y dineswyr hynny y gwnawd y clychau; trodd y


Jesuitiaid hwy, ebe hwy, o wasanaeth Satan i wasanaeth yr hwn na ddiffydd lin yn mygu.

Y mae'n rhy hwyr i fynd i rannau uchaf yr eglwys i gael golwg aderyn ar y ddinas gynhyddol, a chyrrau gwastadedd y gogledd, ac amlinell y mynyddoedd yr ydym yn meddwl dilyn y Rhein i'w mysg. Mae eglwysi ac amgueddfeydd enwog yng Nghologne wedi eu codi bron oll trwy haelioni rhyw ddinesydd y rhoddasai Rhagluniaeth ofal eiddo iddo; a gwyn fyd na ddeuai ambell Gymro cyfoethog yma i weled pa fodd y gallai wasanaethu ei oes a'i wlad. Ysgrifennu erthyglau fflam i bapur newydd am bres, neu eu darllen gyda blas ar ol brecwest cysurus,—onid hyn yw swm a sylwedd gwladgarwch ein hoes ni?



Dyma'n gwesty. Y teithwyr o bob rhan o'r byd, y fyddin o weision a'u harffedog wen yn lifre, y dysglau mel ymhob man, y poteli afrifed o ddŵr Cologne, y bobl a'r basgedi o lafrwyn y Rhein yn gwibio heibio'r ffenestr, curiad undonog y tabwrdd gwregys yn y pellder, hirsain lawn yr Almaeneg yn gymysg a chlic metelaidd y Ffrancaeg,—y mae gwesty yng Nghologne yr un fath flwyddyn ar ol blwyddyn yn yr haf.

Bore ar y Rhein,—mae niwl gwyn yn codi'n raddol ac yn gadael yr awyr yn loew glir. Mae Cologne yn graddol ddiffannu ar y gwastadedd, a thyrau ei heglwys gadeiriol yn

Bore ar y Rhein. dod yn fwyfwy unig hyd nes y collir pob golwg arni hithau hefyd. Cawn hamdden i gerdded yn ol a blaen hyd y dec; lle mae teithwyr o bobman rhwng dyffrynnoedd ffrwythau California a charchardai Siberia, ac nid ydynt yn anfoddlawn i gychwyn ymgom, yn enwedig y merched Americanaidd. Toc gwelwn y brynau'n neshau; a dacw binaclau Bonn yn y golwg. Y mae Bonn yn un o leoedd hyfrytaf a mwyaf dyddorol y ddaear; ond ar ddiwrnod poeth, onid hyfrytach syllu ar ei choedydd a'i hadeiladau o gwch ar yr afon nac wrth gerdded trwyddi mewn chwys a llwch? Dyweder a fynner, y mae dychymyg yn brif ffynhonnell dedwyddwch; gwelaf wr gwelw yn ddedwyddach mewn swyddfa uwchben Bradshaw neu Baedeker nag un arall llyfndew a llwch dinas enwog yn codi syched arno tra mae'r gwres yn toddi ei amynedd yn ddim. Ie, cofia'n sydyn mai llwch y gelwir ef, ond hwyrach mai hadau'r frech wen a'r geri yw llawer o hono,—gronynau sych budreddi lleoedd arianaf y byd. Ni fiina'r gŵr sy'n byw ar ei ddychymyg, ni chyll ei amynedd na'i wats. Mynd i'r cyfandir yn un o ddau i weled rhyfeddodau, dod yn ol wedi dangos tymer sur i'r cyfaill a cholli oriawr aur werthfawr o logell tra'n ceisio gweled prydferthwch mewn rhyw hen blastar o baent,—onid dyna hanes gwyliau ambell un? Ddarllennydd mwyn, a wyddost ti beth yw'r teimlad o gael dy boced yn wag pan deimli awydd gwybod



gael dy dren? Nid
 smon wrth ei ochr;
 hen natur ddynol.
 fis gallwn ddial ar
 d oeddwn wedi ei
 hae'n perthyn iddi.
 n yr Almaen, rhai
 m ryw ychydig o
 y naill ar ol y llall,
 r cant. Yr wyf yn
 y wrth sylweddoli
 am fy nheimpladau




iladau gwynion dan
 yg,—yr amgueddfâu
 d gan yr Helen y
 Gymraes, y tŷ y
 wchmygwn hyn tra
 yn dyfroedd chwyrn
 au rhamantus, tua
 fysg coedwigoedd a
 t y mynyddoedd â
 oew ymysg y myn-
 wch, pawb yn distaw
 w aros yn Königs-
 neck yr ochr arall, i

feydd, y cestyll, a'r
 ddraig; olion y fyn-
 fel yn Llwyn y Ne-
 fil o flynydoedd fel
 uncthon yn esbonio'r
 ar gael gwraig yn
 Rolandseck yn cadw
 h, ceidwad traeth y
 n arwr dychymyg y
 ardal fynyddig hon,
 neu pan rydd y nos
 eu troi'n arian.



HEIN.

feydd digymar wrth
 Maw oddiar bont y
 adiau yw y Rhein.
 arth,—perffeithrwydd
 trosodd y cwch gludai
 hun; gwinllannoedd
 ai heglwys dlos a'i
 yn cario agoriadau
 a phedwar tŵr ei
 ar troed bwrdd ar i
 cilio oddiwrth yr
 n blaenau. Dyma
 on, ar y dde; castell




cadarn gynt i fynnu
y ac i lawr y Rhein ;
winllannoedd,—ac ar
diffynfa Ehrenbreits-
edd o ddwfr y Rhein,

plainz ; arhoswn nos-
am Coblenz,—lle y
Moselle. Bum lawer
o'r ddwy afon yr
Trèves a Metz ar y
yw Coblenz i dreulio
ystrydoedd i weled
edd na phobl Cologne,
weld megis codi cwr
yn fuan yr anghofir
bontydd, a'r mynydd-

i ni gollu golwg ar
ddyffryn y Rhein,—
aml gastell fel coron
ybyd sut y medrid
castell. Dyma dro
hynod am ei anedd-
Wrth fynd drwy'r
rwydd yn unig sydd
y Brodyr, cadarnle'r
goden," St. Goar fyn-
g, castell hynafol y
infels, creigiau brad-
s y Lurlei, castell y
z yn codi o ganol yr
a Bacharch a'i win di-
bol, "Ysgol y Diafol,"
y ll rhy hen i hanes,—
yw'n rhyfedd fod
aint o brydferthwch
yr un byd? Dyma
eto yn codi o'n blaen-
r afon. "Tŵr Hatto"
"Dŵr y Llygod" y
vir ef. Dylai rhai pobl
bethog yng Nghymru
d nifer o bobl dlodion
yr ysgubor ar dân, a

di rhoi eu lludw yn
 sy'n difa'r tir," ebe'r
 o lygod o'i gwmpas,
 r hwn ynghanol yr
 wsant wledd nad yn
 i ysbrydion y bobl

n, wele'r dyffryn yn
 t o'n blaenau.



us rhwng Bingen a
 nes yr Almaen. Yr
 Lewis Dduwiol, mab
 heb son am neb arall,
 Mainz, a byddwn yno
 yr ydym yn gadael

rhan ganol y Rhein, lle nad yw ei gwely ond megis gwely'r Ddyfrdwy wrth Langollen, ac y mae ei dyffryn uchaf llydan,—na welir y mynyddoedd pell o'i ganol,—yn ymagor o'n blaen. O ddyddiau'r Rhufeiniaid hyd y dydd hwn, y mae Mainz wedi bod yn bwysig iawn fel safle filwrol, ac y mae heddyw, fel bob amser, yn un o gadarnleoedd y ddaear. Dywedir mai yr un gair yw ei henw Rhufeinig (*Magontiacum*) a'n Machynlleth ni, cyfieithiad o ryw hen air Celtaidd. Anhawdd peidio cofio awdl *Cenedl y Cymry* Islwyn,—

“ Wrth deithio heibio ar hynt
Rhoddodd y Cymry iddynt
Enwau sydd gan eu sain,—eu cynhwysiad,
A'u dylanwad, yn awdlau eu hunain.”

Yma y gosododd Cristionogaeth ei throed gyntaf yn yr Almaen, a daeth archesgob Mainz yn rheolwr y miloedd o eneidiau rhwng y Rhein a'r Elb. Ac yma y ganwyd y gallu chwilfriwiodd ormes ar gorff a meddwl pan welodd Gutenberg, tua diwedd y Canol Oesoedd, y medrid gwneyd llyfrau gyda llythrennau cerfiedig symudol. Nid ei grym milwrol, nid ei heglwysig deyrnwialen, nid ei masnach, enillodd i “ Mainz Aur ” deyrnged y byd, ynddi hi y dechreuodd yr argraff-wasg ryddhau dynol ryw. Dyma ni'n neshau ati. Cewch eistedd yn eich gwesty i ddarllen am dani, neu grwydro drwy ei heolydd. Eglwys gad-eiriol, milwyr, amgueddfeydd, ystrydoedd culion budron,—mae dinasoedd hanesiol ar y cyfandir yn debyg i'w gilydd. Ond yn eu manylion y maent yn wahanol iawn.

Wele ddyffryn uchaf y Rhein o'n blaenau, a bore braf yn gwawrio eto. Ei ffrwythlondeb hyfryd, ei ryfeddodau, ei ddinasoedd, olion hanesyddol,—nis gŵyr dyn i ba gyfeiriad

Frankfurt. i droi gan amllder y pethau i'w gweled yn y dyffryn lle bu cymaint o bryderu ac ymdrech ynglyn â symudiadau pwysig hanes y byd. Cymerwn y tren yn gyntaf man i Frankfurt. Yr ydym yn gadael y Rhein cyn hir, ac yn troi ar y chwith trwy wlad goediog gyda'r afon Main. Down i'r ddinas yn gynnar yn y bore, ac y mae arnoch awydd, mae'n ddiameu, os na fuoch yma o'r blaen, am weled prif ddinas Almaen y Canol Oesoedd, lle'r ymgynhullai'r tywysogion i ethol ymherawdwr, lle cartrefai llysoedd cyfiawnder, lle penderfynid materion cyn apelio at y cleddyf. Nid oes gennym amser i ddim ond i syllu ar ei glendid a'i harddwch, fel y mae'r mynyddoedd o'i hamgylch yn edrych arni. Rhown dro drwyddi tra bo haul y bore ar ei pharciau a'i llynnoedd,—ac, waeth cyfadde'n onest, yr ydym yn dechreu blino.

Pa deithiwr erioed welodd gymaint ag a fwriadai pan yn

cychwyn, er nad oedd Pegwn y Gogledd ym map ei daith? A awn ni i fyny i Strasburg, ac oddiyno i Basel i gael
Cyfaddef. golwg ar yr Alpau? Yr ydym yn flinedig, rhaid i ni fynd i rywle i orffwys. Ple yw'r man hyfrytaf o fewn cyrraedd? Heidelberg, yn ddiameu. Gadewch i ni fynd yno ar ein hunion, heb aros hyd yn oed i weled darluniau a choedydd Darmstadt. Cyrhaeddwn yno yn y prydnewn,—prif ddinas etholaeth Brotestanaidd y Rhein. Gwn am lety cysurus ym mhen uchaf y dref, ac oddiyno cawn olwg ar y ddinas cyn iddi dywyllu.

Saif Heidelberg ar lain hir o dir rhwng yr afon Neckar a mynydd uchel y Königsstuhl, a'i chastell uwch ei phen, ac ochr mynydd wedi ei orchuddio â gwinllannoedd ar ei chyfer yr ochr arall. Y mae felly yn union lle mae'r Neckar yn gadael ei gwely cul creigiog, ac yn dechreu ymddolennu'n arafaidd hyd y dyffryn gwastad i'r Rhein. Ar gyfrif ei safle, ei chroesaw boreu i'r Diwygiad, ei phrifysgol fydenwog, a'i dioddefiadau arswydus yn yr hen ymdrechfeydd rhwng Ffrainc a Phrotestaniaid yr Almaen, y mae Heidelberg yn un o ddinasoedd enwocaf y byd. Y mae ei chastell, medd rhai, y murdyn ardderchocaf yn Ewrob; ac nid hawdd ei hanghofio yw'r olwg ohono ar y Rhein ariannaidd yn ymddolennu trwy ei dyffryn bras. Ie, dyma'r lle i ni orffwys.

Gadewch i ni weled lle mae'r pres a'r amser arni hefyd. Sofren o Lundain i Antwerp dyweder, sofren oddiyno i Cologne, sofren o Cologne yma,—mae teithio hyd y Rhein yn rhad
Cyrtll. iawn wrth fod y cychod a'r ffyrdd haiarn yn cydymgais,—dyna dair sofren am ein cludo; pymtheg swllt yn Nghologne, Coblenz, a Mainz,—dyna ddwy a choron; cawn lety a bwyd cystal ag yn y gwesty goreu yn Lloegr am ddeg swllt ar hugain am wythnos; ac awn oddiyma'n ol i Lundain ar lai na phedair punt. Daw'r cwbl felly yn llai na deg punt am tua phythefnos. Beth am yr amser eto? Cychwynasom o Lundain nos Lun, yr oeddym yng Nghologne nos Fawrth; treuliasom ddyddiau Mercher a Iau ar y Rhein,—dyma hi'n nos Wener felly. Arhoswn yma tan nos Fercher. Byddwn yn Llundain yn gysurus felly erbyn bore Sadwrn.

Beth bynnag oedd deuddydd ar y Rhein, y mae wythnos yn Heidelberg yn llawn mwy swynol. Weithiau esgynnem i'r castell, dringem y mynydd uwch ei ben, a chaem gip-
Speyer. olwg ar ryw afon neu fynydd neu ddinas y dysgasem eu henwau gydag anhawder mawr yn hen ysgol y Llan. Weithiau dilynem y Neckar i'w mynyddoedd drwy bentrefydd bychain dyddorol, i weled bywyd diwyd yr Almaenwr amyneddgar. Pa le bynnag yr aem, caem bryd o

fwyd da a choffi i gofio am dano am bris nas meiddiwn ei enwi wrth geidwaid gwestai yng Nghymru. Un diwrnod aethom dros y gwastadedd i Speyer, y ddinas ddistaw adfeiliedig lle y gorwedd hen ymherawdwr yr Almaen, rhai y bu tynged y byd yn y Canol Oesoedd yn dibynnu arnynt, a'r ddinas lle cynhaliwyd y senedd, oesoedd wedyn, i roi terfyn ar yr ymrafael rhwng yr hen grefydd a'r newydd, pan alwyd y tywysogion diwygiedig yn "Brotestaniaid" am y tro cyntaf, am iddynt brotestio yn erbyn Diet 1529.

Ddiwrnod arall aethom trwy ddinas brysur Mannheim, hynod am ei darluniau a'i hysgolion yn ogystal ag am ei masnach, i hen ddinas Worms. Cerddasom iddi o'r Rhein, a gwelsom

Worms. mai distawrwydd adfeiliad sydd yn ei gordoi hithau,—nid yw mor bwysig ag y bu ym masnach ac yng ngwladweiniaeth Ewrob. Ond, pan fo cof am ei bri wedi darfod, pan nad arbeda amser hyd yn oed ei heglwys gadeiriol, cofir am y diwrnod rhyfedd hwnnw y safodd Luther o flaen ymherawdwr a thywysogion yr Almaen i ddweyd ei eiriau bythgofiadwy,—“Yma y safaf, nis gallaf wneyd ond fel hyn, Duw a'm cynorthwyo i, Amen.” Yn y funud bwysig hon ar ei fywyd y darlunnir y diwygiwr yn y gofgolofn godwyd yn Worms rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Treuliasom lawer o amser o gylch y golofn, a'r mân golofnau sydd yn ei hamgylchynu. Yn eu mysg y mae'r cynddiwygwyr,—y Prydeiniwr Wiclif, y Ffrancwr Waldo, y Bohemiad Huss, yr Eidalwr Savonarola, yr Almaenwr Melancthon. Tarawiadol iawn yw'r cerffuniau o'r dinasoedd fu a fynnont fwyaf a'r Diwygiad,—Magdeburg, dinas y dioddef; Speyer, dinas y rhyfel; Augsburg, dinas yr heddwch. A chyda hwy y mae enwau y pedair tref ar hugain dderbyniodd y Diwygiad gyntaf. Diwrnod hafaidd cynnes, heb fawr o haul,—darlun perffaith o heddwch,—a gawsom yn Worms. Tawel iawn yw'r cofgolofnau draw, y mae'r hen eglwys fawreddog yn cysgu'n drwm uwchlaw y meirw sydd yn ei chôl, y mae'r gweithiwr lluddedig yn tynnu adref o'r caeau,—ac anodd iawn yw sylweddoli mai oddiyma unwaith y siglwyd Ewrob drwyddi.


Hen Heidleberg hoff, buan iawn y daeth ein gwyliau i ben. Ond cofiwn yn hir am dani,—y crwydro ar noson loergan lleuad trwy'r castell, a gweled dyffryn y Rhein megis priodasferch dan orchudd o arianwaith cain; yr ymdroi yn y farchnadle ar lawr y ddinas, a'r ceisio bargeinio â'r gwladwyr caredig oedd yno yn gwerthu eu frwythau a'u da; y mynych ymgom â'r Iddew oedd yn gwerthu llyfrau i ni; y Sul heulog dedwydd ranasom rhwng Lutheriaid, Pabyddion, ac Iddewon i gyd-addoli â hwy; y nawn dreuliasom mewn café gyda rhai o'r myfyrwyr, nid y rhai mwyaf diwyd gobethio.

Ambell noson, a nid y rhai hynny oedd y lleiaf difyr, ymgomiem yn y tŷ, gryn ddwsin o honom, yn Brydeinwyr ac Americanaid, am hanes Heidelberg a dyffryn uchaf y Rhein. Yr oeddym oll wedi gweled Speyer a Worms, ac oll yn teimlo'r dyddordeb mwyaf yn Luther a'r Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd rhai ohonom wedi bod yn uwch i fyny'r afon,—yn Strasburg, lle cafodd llu o Brotestaniaid Prydeinig noddod gyda Phedr Ferthyr; ym Masel, lle'r argreffid y llyfrau Protestanaidd; ac yng Nghonstans, lle y llosgesid Hus.

Ond nid yw Heidelberg hithau heb ei hanes. Bygythiwyd rhyddid Ewrob gan ddau allu; a mathrwyd Heidelberg yn y llwch dan draed y ddau. Ar ddechreu'r ail ganrif a'r bymtheg yr oedd llanw'r Diwygiad Protestanaidd yn dechreu troi'n ol, a'r Jesuitiaid yn darbwyllo penaduriaid Ewrob i ddinistrio'r gwrthryfel yn erbyn y Pab. Bu ymdrech galed rhwng y ddwyblaid am y goron ymherodrol. Yr ymgeisydd Pabyddol oedd Ferdinand, duc Awstria, un oedd wedi difodi Protestaniaeth fodeuog Styria a Charniola drwy greulondeb mawr. Yr ymgeisydd Protestanaidd oedd Ffredrig, Etholwr y Palatinate, a'i gartref ef oedd Castell Heidelberg,—ac y mae'r adfeilion mawreddog yn adgofio i ni yr amser y dygodd Ffredrig ei frenhines brydferth yma o Loegr, canys merch Iago'r Cyntaf oedd Elizabeth. Bu hon, "brenhines calonnau" fel ei gelwid, yn gydymaith arwrol i'w gŵr pan oedd yn arweinydd Protestaniaid erlidiedig Bohemia a'r Palatinate. Collodd Ffredrig y dydd, ymdeithiodd y Spaenwr erlidgar drwy Heidelberg, a chiliodd yr ymdrech i'r gogledd, lle'r ymladdodd y Daniad a'r Swed frwydr Protestaniaeth.

Can mlynedd wedyn, ac yr oedd perygl i ryddid Ewrob o gyfeiriad arall. Yr oedd Louis XIV., brenin Ffrainc, wedi penderfynu difodi Protestaniaeth a llethu'r Almaen. Yr oedd Heidelberg dlos yn ysglyfaeth i filwyr Ffrainc bob tro y croesent y terfyn. Ymhyfyrdai'r gelyn wrth geisio dinistrio neu anffurfio y castell prydfarthaf yn Ewrob, a chartref amddiffynwyr Protestaniaeth yr Almaen. Yn 1693 medrodd y Ffrancod ddylifo i'r ddinas ymron heb dywallt gwaed. Cododd dolef o ddechryn a chynddaredd o holl Ewrob Brotestanaidd pan glywyd hanes ofnadwy y noson honno. Ychydig ddihangodd a'u bywyd ganddynt; a phan ymadaŵodd y Ffrancod, gadawsant y castell yn furddyn a'r ddinas yn garnedd losgedig. Ond dros ryddid a chrefydd y dioddefodd Heidelberg erioed.


Ni welsom fawr o fywyd yr Almaen, mae'n wir, ond beth fedrir weled mewn wythnos? Ni fuom mor ynfyd a cheisio dysgu'r iaith i'w siarad, ni ruthrasom o fan i fan i weled pob




asburg a Basel. Ond
 ennym ni na mynd i
 ar y darganfyddiadau
 oedd gwrando ar ryw
 llig, yr ofn mawr oedd
 nerth byddin Ffrainc
 yw chwe blynedd ar
 enwau Napoleon y
 bert yn cilio o gof y
 m, fel rhyw hen gi a'i

b ymdrech meddwl,
 at gyflawni dyled-
 e'r blinder wedi cilio,
 ewn dim arall inni,—
 i Metz ac ar draws
 dyffryn y Moselle i'r
 Na, hyd y Rhein yr
 a,—medrwn gyrraedd
 e'r gwlaw a'r niwl yn
 estr y cwch y gwelwn,
 r, y glannau oedd mor
 en fod swm y gauaf yn
 urus dan gysgod yr
 m yn cyflymu dros y
 ddwl am ein gwaith, a
 olwg olaf ar dyrau







...dd, 1613—1682.)

Y LLENOR.

"I WYBOD DORTHINES AC ADDYGA."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

LLYFR IX.

CANEUON.

LLAIS NA DDISTEWIR.

ADDOLI MAIR.

ARIAN.


OWEN GLYN DWR.

YR YMDRECH AM Y BRIFYSGOL.

GWYBODAETH :

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

—
IONAWR, 1897.



CYNHWYSIAD.

Wyneb-ddarlun,—*Madonna* (Murillo).

Adroddiad y Ddirprwyaeth Dir TUDALENNAU 5—8.

CANEUON.

Darluniau,—*Afon Tŵrch, Ym Meirion, Cychod Abertawe.*

I. Yn y Blodau. II. O, noson gu. III. Noswyl. IV. Y Wawr. V. Yn Sasiwn Llangeitho. VI. Telyneg. TUDALENNAU 9—16.

LLAIS NA DDISTEWIR.

Darluniau,—*Llun Milton yn argraffad 1688, John Milton, Tŷ Milton yn Chalfont St. Giles.*

Llais Milton yn dilyn y genedl. Cyfnodau o orffwys ac ymdrech bob yn ail yn hanes cenedl. Defodsaeth a Phuritaniaeth,—Laud a Milton.

Sancteiddrwydd a phrydferthwch, Milton yn eu hedmygu ar wahan yn *Il Penseroso* a *L'Allegro*; y sancteiddrwydd yn dyfnhau, y prydfferthwch yn ymgyssylltu â phechod, yn *Comus*; y ddau allu, sancteiddrwydd pur a swyn pechod, yn ymgyssylltu ym meddwl Milton â phleidiau politicaidd y dydd yn *Lycidas*. Milton yn rhengau'r Puritaniaid.

Buddugoliaeth y Puritaniaid; siom Milton yn yr *Areopagitica* pan ddeallodd nad oedd y waag i fod yn rhydd. Milton a rhyddid. Yn amddiffynnydd Cromwell a'r Weriniaeth yn yr *Eikonoklastes* a'r *Defensio pro populo Anglicano*.

Cwmp y Weriniaeth. Darlunio'r brwydrau a'r cynghorau yng *Ngholl Gwynfa*. Cred yn rhyddid yr enaid, mewn cymundeb unlongyrchol â Duw. Ffydd Milton yn y dydd blin. Llais na ddistewir. TUDALENNAU 17—32.

ADDOLI MAIR.

Darluniau,—*Madonna della Seggiola* (Raphael), *Madonna della stella* (Fra Angelico), *Madonna* (Guido Reni?), *Madonna detta dell' Arpie* (Andrea del Sarto), *Madonna del dito* (Carlo Dolci).

Ollion addoli Mair yng Nghymru. Mair dychymyg y canoloesoedd.

I. Credu yn y gwryfodod dihalog. Dadleuon bore ynghylch Mair. Distawrwydd y Beibl; yr efengylau gau. Cynnydd graddol yr athrawiaeth hyd Gyngor Chalcedon yn 415, pan y daeth y gwryfodod dihalog yn rhan o gredo'r eglwys.

II. Mair yn dod yn dduwies,—“mam Duw,” yn eiriol, yn dod yn wrthrych addoliad genethig a mlwr. Yr hanes am dani yn *Llyfr yr Anor* yng Nghymru.

III. Credu fod Mair yn ddibeched erioed. Yn y canoloesoedd y tyfodd y gred hon, yn bennaf trwy bregethiad y Ffrancisciaid. Y Jesuitiaid a'r athrawiaeth. Ei gwneyd yn rhan o gredo Eglwys Rhufain gan Pio Nono yn niwedd 1854.

Achosion yr addoliad,—hiraeth am yr hen dduwiesau paganaidd; camddeall ystyr purdeb, mai gwryfodod yn unig sydd bur; camddeall natur Duwdod, gan dybio nad yw mor dynner a mam farwol; swyn tlysi'r oelfau cain, pan ddarlunid Mair gan brif arlunwyr yr Eidal a Spaen.

Y gwrthwynebwyr,—beirdd y canoloesoedd, a'r Diwygwyr Protestanaidd. Enw Mair ar flodau. Ystyr yr addoliad. TUDALENNAU 33—48.

ARIAN.

Arian,—cyfrwng masnach. Aur y cyfrwng goreu; ei berthynas ag arian a phres. Owestlynau arian ym Mhrydain a'r Amerig yn y dyddiau hyn; yr achos y gofynnir hwy.

Gallu Arian,—fel y rhyddhaodd y caethwas tir; fel yr ennill bob eiddo arall.

Cysylltiad Arian a phris. Y Mercantiliaid a'u camgymeriad fod gwerth Arian bron yn ddigyfuewid. Ymyriad y Tuduriaid â masnach i sicrhau dyfodiad aur, ac oferedd deddfu felly. Achosion y camgymeriad.

Natur llog. Deddfau yn erbyn usuriaeth,—eu ffolineb.

Prisiau a llafur; ansefydlogrwydd prisiau yn achosi ansicrwydd llafur. Paham y mae prisiau'n codi ac yn gostwng. Bimetaliaeth,—ei ganlyniadau.

Anhawster ymyrydd.

TUDALENNAU 49—64.

OWEN GLYN DWR.

Darluniau,—*Adfeilion Mynachlog Glyn Nedd, Dyffryn Dyfrdwy.*

Gogoniant Owen Glyn Dŵr yn graddol ymddangos. Ei bwysigrwydd,—ei wrthryfel ef wnaeth i frenin a barwniaid Lloegr ofni trawsfeddiannu tir y Cymry.

Ei addysg a'i gyfie. Y tywysogion dan y deddfau tir, y llafurwyr dan y deddfau llafur, y myfyrwyr dan ddylanwad y Deffroad,—oll yn barod i'w ganlyn. Iolo Goch a'r aradr.

Sycharth a Glyndyfrdwy,—Iarl^l Grey 'n trawsfeddiannu tir Owen Glyn Dŵr. Cynlluniau Owen. Hanes y rhyfeloedd rhwng 1399 a 1416.

Amcanion Owen Glyn Dŵr,—eglwys rydd, dwy brifysgol, gwlad rydd unedig.

Ei gynghreiriaid,—y gwrth-bab, brenin Ffrainc, y Percies, y Mortimeriaid.

Cariad Cymru ato.

TUDALENNAU 65—80.

YR YMDRECH AM Y BRIFYSGOL.

Darluniau,—*Coleg y Bala, Coleg Dewi Sant, Coleg Aberhonddu, Ysgol Llanymddyfri.*

Awgrym Dirprwyaeth 1881,—fod i Goleg Dewi Sant a Choleg Prifysgol Cymru ymuno'n Brifysgol Cymru; yr anhawsterau yn ffordd hyn. Yr hanes o 1881 i 1893.

Prifysgol yn fwyfwy angenrheidiol,—ei heisio i gysylltu'r colegau newyddion, i arwain yr ysgolion cenhedlaethol, i addysgu athrawon ysgolion elfennol.

All ddechreu'r symudiad yn 1887. Cyd-gynhadledd y tri choleg. Anhawster newydd,—prun ai fel Rhydychen ynte fel Llundain? Methiant y symudiad.

Cynhadledd cyd-bwyllgorau'r siroedd yn gwrthod lle i Goleg Dewi Sant ar y Bwrdd Canol. Barn y wlad yn graddol addfedu.

Y trydydd ddechreu yn 1891. Cynhadledd yr Amwythig. Y Siarter. Ei derbyniad gan Dŷ'r Arglwyddi a'r Cyfrin Gyngor.

Y canghelydd cyntaf a'r ail.

TUDALENNAU 81—95.

"Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist."..... TUDALENNAU 95—96.

ADRODDIAD Y DDIRPRWYAETH DIR.

Y MAE adroddiad y Ddirprwyaeth Dir, yn ogystal a chyfrolau'r tystiolaethau, yn awr ger ein bron. Y mae'r adroddiad mewn dwy gyfrol, yn cynnwys o fewn ychydig i bymtheg cant o dudalennau; cynhwysir y tystiolaethau mewn pum cyfrol, yn cynnwys rhyngddynt dros bedair mil a phum cant o dudalennau.*

Nid crynhodeb o gwynion tenantiaid a thir-feistri'n unig yw'r cyfrolau; rhoddant ddarlun llawn a manwl o Gymru amaethyddol y flwyddyn ddiweddaf. O bob llyfrau perthynol i Gymru, dyma y rhai mwyaf ddyddorol i ni yn yr oes hon; ac, i'r rhai ddaw ar ein holau, dyma fydd y drysorfa lawnaf sydd wedi ei pharatoi eto. Math o *Domesday Book* i Gymru ydyw.

Yr oedd y dirprwywyr yn naw; ac nid yn hawdd y gallasid gwneyd gwell dewis. Yr oeddynt oll yn meddu rhyw gysylltiad â Chymru, ac oll a'u gair yn air ar ryw bwnc pwysig neu gilydd. Y mae'r cadeirydd, Arglwydd Carrington, yn un o hen deulu Gwydyr, ac wedi cael profiad helaeth ynglŷn â phwnc y tir yn Lloegr ac Awstralia. Y mae Lord Kenyon yn dirfeddiannwr galluog a goleuedig; a'i fryd, fel bryd pob un o'i deulu, ar wneyd daioni. Gwyddis yn dda hefyd am Syr John Talbot Dillwyn Llewelyn, y gwŵr enillodd Abertawe i'r Ceidwadwyr yn yr etholiad diweddaf, fel tîrfeddiannwr hynaws a theg. Y mae David Brynmor Jones yn gwybod cymaint a neb o hanes deddfau'r tir yng Ngymru; y mae'r Prifathraw John Rhys yn gwybod mwy na neb, ond odid, am haniad a hanes y bobl. Cynrychiolid y tenantiaid gan John Morgan Griffiths, un o deulu Anibynnol enwog yn y De; a chan Richard Jones, Perth Eirin yn y Gogledd, un o fechgyn Coleg Prifysgol Cymru. Yr oedd profiad Edwin Grove, o Gasnewydd ym Mynwy, yn werthfawr iawn oherwydd ei wybodaeth drylwyr am ffyrdd haiarn. Ac y mae Frederic Seebohm, awdwr y *Tribal System in Wales a'r Early English Village Community*, yn gwybod cymaint a neb sy'n fyw am hanes y tir yn yr ynysydd hyn. Y ddau

* Ceir y cyfrolau gan Eyre & Spottiswoode, East Harding Street, Fleet Street, London, E.C. Dylent fod yn meddiant pob Cyngor Plwy drwy Gymru. Dyma brisiau'r cyfrolau, a nifer y tudalennau ynddynt,—ADRODDIAD,—Cyf. I., 962, 10/6; Cyf. II. (Atodiadau), 507, 5/4; TYSTIOLAETHAU,—Cyf. I., 898, 7/3; Cyf. II., 958, 7/3; Cyf. III., 1054, 8/5; Cyf. IV., 956, 7/7; Cyf. V., 812, 6/5.

ysgrifennydd oedd Daniel Lleufer Thomas, bar gyfreithiwr, a gŵr sy'n hollol gyfarwydd ym mywyd yr amaethwr a'r llafurwr Cymreig; a Cecil Edgar Owen, ŵyr i Syr Hugh Owen.

Heb gyfrif costau argraffu,—a dylai yr argraffu dalu am dano ei hun mewn amser,—ni chostiodd y Ddirprwyaeth ond rhyw wyth mil o bunnau. O'r rhain aeth rhan fawr i'r ysgrifenydd llaw fer oedd yn rhoi'r tystiolaethau i lawr. Ni chafodd y dirprwywyr ond eu costau'n brin; ac ni chymerodd rhai ohonynt hyd yn oed y rhai hynny. Eisteddasant bedwar ugain o weithiau yng Nghymru i dderbyn tystiolaethau, a phedair gwaith ar bymtheg yn Llundain; eisteddasant bump a deugain o weithiau yn Llundain i drin y materion sydd yn eu hadroddiad hefyd. Holasant dros fil o dystion; ac y mae eu hadroddiad yn grynhodeb o bob peth,—hanes, milodeg, llenyddiaeth,—sy'n perthyn i'r tir ac i fywyd amaethyddol. Rhaid fod pob un ohonynt wedi rhoddi blwyddyn gyfan o lafur caled i'r cyfrolau hyn, ac y mae Cymru dan ddyled drom iddynt ain y gwasanaeth llafurus, ewyllysgar, a di-dâl a roddasant.

Prin y cawsant ddiolch o gwbl eto. Y mae'r *Times* wedi dangos mwy o anhegwch tuag atynt nag a ddanghosodd at ddim erioed. Sylfaenwyd ei ymosodiad ar ran o'r adroddiad yn unig; ac yr oedd yn amlwg nad oedd ei feirniaid wedi darllen y rhan honno. Dywedir mai cynrychiolydd chwera'r tir-feddianwyr sy'n ysgrifennu erthyglau'r *Times* ar y mater, a gellir barnu oddiwrth hynny a oedd yn amhleidiol. Ymddengys i'r *Daily Chronicle* gael yr adroddiad o flaen y *Daily News*, ac nid oedd gan y papur diweddaf ond ychydig i'w ddweyd yn ei soriant. Y mae'r *South Wales Daily News* yn casglu barnau tir-feddianwyr. ac fel pe buasai a'i fryd ar wneyd barn y dirprwywyr yn ddiddim; ac y mae'r *Western Mail*, yn ol ei arfer ddyddorol ef, yn bendithio ac yn melldithio bob yn ail. Anfoddog a sur fu'r Llywodraeth bresennol hefyd tra'r oedd y dirprwywyr cydwybodol a hunan-aberthol yn dirwyn eu gwaith i ben. Ond erys y cyfrolau yn feddiant i'r wlad; a gwelir troi pob awgrym yn ddeddf mewn amser. Yn wir, y mae'r awgrymiadau'n troi'n ddeddfau ewyllysgar yn barod; agorwyd llygaid llawer tir-feistr, a bydd gwell dealltwriaeth rhwng tenant a meistr tir mewn llawer man o hyn allan.

Wedi dweyd hanes eu dull, rhydd y Dirprwywyr lond deg tudalen ar hugain o ddesgrifiad o dir Cymru, a'r anifeiliaid ac adar gwyllt a dof sydd arno. Yna dont at ddesbarthiad y bobl, lle y danghosant, ymysg pethau ereill, mor hoff yw'r Cymry o'u cartrefi; eto dilynir y Cymry ar wasgar i drefydd Lloegr, i'r Unol Dalaethau, i Batagonia, i leoedd fel deheudir Rwsia.

Dyddorol iawn yw cyllun John Mills i sefydlu gwladfa Gymreig yn Syria, a hanes y Mormoniaid Cymreig. Y mae'r bennod nesaf,—gwaith y Prifathraw Rhys, mae'n ddiameu,— yn dweyd pwy ydyw'r Cymry; a gall y meddylgar weled paham y mae gwahanol ddosbarthiadau yn y wlad. Yn y bennod ar iaith a llenyddiaeth Cymru, y mae comisiwn y frenhines Elizabeth i gynnal Eisteddfod Caerwys yn 1568 wedi ei argraffu'n llawn, am y tro cyntaf erioed, mi dybiaf. Y mae dwy bennod ar grefydd ac addysg Cymru, yn enwedig yn eu cysylltiad â bywyd amaethwyr.

Gyda'r unfed bennod ar ddeg, y mae'n amlwg ein bod yn dod at waith arbennig Brynmor Jones,—hanes deddfau'r tir. Y mae'n eglur ac yn deg; ond y mae ef, fel Mr. Seebom ymhellach ymlaen, yn gadael y cyfnod pwysicaf yn hanes y tir yng Nghymru heb bron gyffwrdd dim ag ef. Y Marw Du ac Owen Glyn Dŵr rhyngddynt a gadwodd i'r hen berchenogion,—pobl y tir gwely,—hynny o dir eu tadau a arhosodd yn feddiant iddynt. Er hynny y mae'r penodau hyn y peth cliraf ysgrifennwyd eto ar hanes y tir yng Nghymru. Gyda sylwadau ar gyflwr masnach a diwydrwydd yng Nghymru, derfydd y rhan hanesyddol, sef rhan gyntaf llyfr cyntaf yr adroddiad.

Yn yr ail ran ceir adroddiad manwl am dir fel eiddo ac am ei berchenogion. Maenoriaid a hawliau maenoraidd; tiroedd y goron, eu hanes a'u llywodraethiad; y tir cyffredin, a thiroedd heb eu cau,—ynglŷn â hanes y rhain dyfynir o'r tystiolaethau roddwyd o flaen y dirprwywyr. Yna trinir meddianwyr tir preifat,—ystadau yn y rhannau Cymreig a'r rhannau Seisnig o Gymru,—y rhoi ffermydd at eu gilydd, y stiwardiaid, dylanwad crefydd a gwleidyddiaeth. Yma ceir cyfeiriadau at fodau ddesgrifir yn y tystiolaethau; a dyma gloddfa ddihysbydd i nofelwyr y dyfodol.

Yn nhrydedd ran y llyfr ymdrinir a'r rhai sy'n byw ar y tir,—tenantiaid, rhydd-ddalwyr, pobl tai unos, bwthynwyr, a llafurwyr. Ymddengys mai yn Arfon a Meirion a Maldwyn y mae lleiaf o feddianwyr yn byw ar y tir; yng Ngheredigion a Chaerfyrddin y mae mwyafrif. Pan gofir mai yn y rhan hon y mae'r penodau ar y newyn am dir, ar rent, hawliau'r tenant, cytundebau rhent, helwriaeth, trethi, yr amaethwyr a'r llafurwyr, a'r bennod ar fywyd a thair amaethwyr (y fwyaf dyddorol yn y llyfr) nid rhyfedd fod y rhan hon yn mynd a thros un ran o dair o'r adroddiad i gyd.

Am amaethyddiaeth y mae'r bedwaredd adran,—hanes amaethyddiaeth yng Nghymru; dull amaethyddiaeth; amaethdai; pethau ynglŷn âg amaethyddiaeth, megis cloddiau, lliidiardau, sychu'r tir, dyfrhau'r tir; offer amaethyddol; gwrtaith; hau; magu


anifeiliaid; gwneyd ymenyn a chaws; prisiau; magu da pluog; gwenyn; codi firwythau; gerddi; coedwigoedd; addysg amaethyddol; ffyrdd a marchnadoedd.

Hyd yn hyn dyna'r llyfr cyntaf,—826 tudalen o'r cyfanswm o 962. Yn yr ail ceir casgliadau'r dirprwywyr a'u hawgrymiadau. Gwel y dirprwywyr fod y dirwasgiad amaethyddol wedi cyrraedd Cymru; a'i fod yn mynd yn waeth o hyd ers tua phymtheg mlynedd, yn gymaint felly fel nad yw amaethwyr yn cael unrhyw elw o gwbl, neu ddim digon i dalu am eu llafur. Yna rhoddir trem ar sefyllfa'r amaethwr, ar y cyfreithiau tir fel y maent, ac ar y gwahanol welliantau gynhygir. Ac yna'n ddiweddaf rhydd y dirprwywyr eu cynhygion hwy. Am lawer o'r awgrymiadau hynny, gellir dweyd y derbynnyr hwy gan dirfeddianwyr a thenantiaid o'u bodd, heb gyfraith yn y byd,—megis eu hapel unol a chref at bob tinfeddiannwr ar iddo apwyntio ystiwad fedr Gymraeg.

Y mae'r dirprwywyr oll yn unfarn fod cyfraith y tir fel y mae yn hollol anigonol i amddiffyn y tenant. Ond tybia'r lleiafrif,—Arglwydd Kenyon, Syr John Llywelyn, a Mr. Seebohm,—y gellid newid y cyfreithiau sy'n awr mewn grym fel ag i fod yn amddiffyn digonol. Eithr barn y mwyafrif,—Arglwydd Carrington, Brynmor Jones, y Prifathraw Rhys, Mr. Griffiths, Mr. Grove, a Mr. Richard Jones,—ydyw na wna dim y tro ond Llys Tir, gyda gallu i benderfynu rhent ac amodau teg.

Nid oes cyfle yma i roddi crynhodeb o awgrymiadau'r dirprwywyr, gwneir hynny mewn erthygl i ddod ar bwnc y tir yng Nghymru. Ond dylwn ddweyd fod yn y cyfrolau hyn faterion o'r pwysigrwydd mwyaf i bawb sydd ar y tir, ac yn enwedig i gynrychiolwyr Cymru yn y Senedd.

Y mae'r cyfrolau'n llawn dyddordeb i'r hanesydd ac i'r nofelydd hefyd. Yma ceir dros fil o bobl,—yn cynrychioli pob peth yng Nghymru amaethyddol. Ni cheir hwy gyda'u gilydd yn unlle arall; nid ant i'r un cyd-gyfarfod crefyddol, ni welir hwy mewn un cyd-gyfarfod politicaidd, ni ddaw rhai ohonynt i'r Eisteddfod, ni ddaw ambell un i dalu teyrnged i'r Brifysgol hyd yn oed dan wenau Tywysog Cymru. Ond y maent yma i gyd. Deuai'r landlord tyn a'r hen ffermwr mynyddig yn ei wisg o frethyn cartref bob yn ail; ac yr ydym bron a disgwyl gweled y ceiliog ffesant a dafad y mynydd yn dod i ddweyd eu cwynion ar eu hol. Y gorthrymydd a'r gwas a ryddhawyd oddi wrth ei feistr,—ceir hwy yma oll yn ol eu dull. Difyr iawn oedd gwyllo landlordiaid, stiwardiaid, amaethwyr, ceidwaid helwriaeth, a phawb sydd ar y tir, yn sefyll i ddadlennu ei hanes a hanes ei gymdogion. Darluniad llawn o fywyd gwlad yw'r cyfrolau.



Y GROES.
 dd,
 dd;
 Deryn Par.
 hedd
 on,
 hedd
 llon,—
 yn,
 uyn,

Fel yn eiriol yma'n siriol
 Wenau'n ol gan fodau dynol;
 Ond gwenu yn y blodyn byw
 Mae llygaid Duw'n wastadol.

“ Mae blwyddi fil o wynfyd pur
 Heb gur i ddod i'r ddaear,
 Addoli Duw pryd hyn b. dd pawb
 A glân ddiiddefawd lafar,—
 Rhodio rhosydd, dawnsio dolydd,
 Yn y blodau'n llawn llawenydd,
 Hionon awel sua'n dawel
 Adsain anthem gân yr angel;
 Dyn wena'n ol ar Dduw mewn hoen,
 Heb son am boen a rhyfel.”

Mae'r fam yn nolydd gwyn yr hedd,
 Tu draw i'r bedd yn rhodio,
 Awelon gwlad na wel un nos
 Yn mlodau'r rhos sy'n sio,—
 “ O awelon mwyn alawon,
 Ewch i lawr i fyd gofalon,
 Yno'n dirion yn y blodion,
 I suo ganu i' mab adgofion
 Am un a'i herys ef fan hyn,
 Ym mlodau gwyn y Cyfion.”

II.—O, NOSON GU.

O NOSON gu, mor dawel wyd,
 Heb si o swm y byd a'i nwyd;
 Dy wên sy'n dwyn i enaid dyn
 Dangnefedd pur y nef ei hun.

Awelon nos sy'n suo cân,
 Fel adlais wan y dyrfa lân
 Sy'n moli Duw ar fryniau pell,
 Ar fryniau gwawl y wlad sy well.

Fry sylla arnom ser y nen,
 Fel llygaid llu tu draw i'r llen,
 A bron na welwn oleu weld
 Anwyliaid cu yng Ngwlad yr Hedd.

III.—NOSWYL.

CRI'R gwylwyr yn y dwyrain ydyw *La i-lá-ha il Al-lá*—"Nid oes dduw, namyn Duw."

MAE'R nos yn ddu, mae'r nos yn gu,
 Mae'r ser yn gwylaidd wenu fry,
 Distawrwydd dwfn sy dan y rhod,—
 Na, na ; na, na ;
 Mae dyn yn dod, mae dyn yn dod,
Lá i-lá-ha il Al-lá.

Mae'r awel fwyn yn nail y llwyn
 Yn dwyn i ddynion hun o swyn ;
 'Does neb yn mudo dan y rhod,—
 Na, na ; na, na ;
 Mae'r lloer yn dod, mae'r lloer yn dod,
Lá i-lá-ha il Al-lá.

Yr awel daw, yr adar ddaw
 I foli'r hon lon wena draw
 Mewn mantell wen o liw yr ôd,—
 Ha, ha ; ha, ha ;
 Mae'r wawr yn dod, mae'r wawr yn dod,
Lá i-lá-ha il Al-lá.

IV.—Y WAWR. Alaw—*Toriad y Dydd.*

MAE'R dydd o'n bro yn mado,
 Y nos yn nesu sy,
 A sylla'r ser mewn syndod mud
 Am ganfod byd mor ddu ;
 Swm galar sy'n yr afon
 Ddolenna drwy y ddôl,
 Gan gwynfan wrth yr helyg prudd,—
 " Ni ddaw y dydd yn ol ;"
 Tawela su'r awelon
 Fu'n hwian ganu'n fwyn
 I'r adar mân yn huno'n glyd
 Yn nail canghennau'r llwyn ;
 Ar fin amrantau'r blodau
 Tryloewon ddagrau sydd,
 Mewn hiraeth dwys disgwylia'r byd
 Am weled toriad dydd.

Mae'r dwyrain draw yn gwenu,
 A rhosyn ar ei rudd,
 Ac wele'r wawr yn agor dôr
 I'r huan ddod â dydd;
 Clyw drydar-gân yr adar,
 Wi, wi, mor swynol yw,
 Dihuna'r byd i wrando'r gân,
 Mae anian oll yn fyw.
 Moliannwn Dduw am wenau
 Yr huan eirian fry,
 A'n dwg o ddydd i ddydd yn nes
 I fynwes gu ein Rhi;
 Yn fuan gwawria'r gwynfyd,
 A bore hyfryd fydd,
 Pan welwn wyneb Ion heb len,
 O! dyna doriad dydd.

V.—YN SASIWN LLANGEITHO.


Y DORF sy'n gwelwi dan ei air,—
 " Fe syrth y ser ynghyd,
 Fe ferwa'r moroedd megis pair,
 A thawdd mynyddau'r byd.

" Ymhyllt y creigiau megis gwawn,
 Neu we yn chwaon Mai,
 Diflanna llenni'r beddau llawn,
 'Does gél i'r euog rai.

" A phyrth y nef agoran draw
 Ar wys y Barnwr Mawr,
 A gwyrar engyl glân mewn braw
 Eu hwyneb tua'r llawr.

" Pan ofna plant y gwawl fel hyn,
 Oes modd i ni gael byw?"
 Daw adlais draw o ben y glyn,
 A'i lafar ydyw,—*Byw.*

Fel llef o'r nef ei hun y daw,
 Yn gennad cariad Duw,
 A hedd i ddyn sydd yn ei law,—
 Moliannwn Dduw, cawn fyw,
 Cawn fyw.



(1881)

(1882)

(1883)

(1884)



dirion,
alon,

ynol

gredun dyn byw
hl ryw angyles."

Hen bennill.

Am ei ded yn fereh i Efa,
 Hi a'm pura, hi'm dyrchafa;
 Daeth yn isel agos ataf,
 Byth fe'i caraf, byth fe'i molaf.

Tlysiion flodau gynt a dardden,
 Yn y meusydd hwy a chwardden,
 Man gwnai Olwen, glân o galon,
 Droedio'n ysgafn yn yr hinon.

Blodau gwiwlon, fil fwy rhadlon,
 Yn fy meddwl, Feinwen Manon,
 Dan dy heulwen a flaguran,
 Yn dy wenau beraroglan.

Palmwydd gwyrddlas a pherllanau,
 Trydar adar yn y cangau,
 Melus bêr eu cân o foliant,
 Fel yng Ngwynfa cyn y colliant.

Ennyn wna fy enaid innau
 Am wir ddawn i ganu i tithau;
 Atal mwy yn wir nis galla,
 Ac os metha, pwy a' meia?

2.

Beth wna i' mynwes lonni
 Wrth weld dy wyneb mwyn?
 Beth rydd i bob symudiad
 O'r eiddot gymaint swyn?
 Beth wna i'm henaid ganu?
 Nis gwn ai cariad yw,
 Ond clywaf lais yn sibrwd,—
 Bendithia hi, fy Nuw.

Paham mae'th wenau tyner,
 Fel heulwen hinon haf,
 Yn gwneyd i'm calon dyfu
 Yn llawn o flodau braf?
 A all y blodau ateb
 Yng ngwrid y lliwiau byw,
 A sisial mwyn yr awel,—
 Bendithia hi, fy Nuw?

Paham mae swyn dy eiriau,
 Fel miwsig dwyfol gân,
 Yn ennyn hiraeth ynof
 Am wynfyd pur a glân?

Paham y palla 'ngenau
 Ynganu gair i'th glyw,
 Tra'n ddwys y llefa'm henaid,—
 Bendithia hi, fy Nuw ?

3.

Mor felus ydyw hedfan
 Ar aden ysgafn co
 I lan yr afon loew
 A ganai yn y gro ;
 Yr huan dyner wenai
 Yn serchog ar y lli,
 Ond gwenau mil mwy swynol
 Dywynnai arnaf fi.

Yng ngwyll y cangau deiliog,
 A suo dwfn y llwyn,
 Ar dwmpath glas eisteddem
 Yn sibrwd geiriau mwyn ;
 Adseinio'n bêr wna'r goedwig
 Ganiadau adar mân,
 Ond miwsig mil fwy melus
 Oedd llais fy meinwen lân.

Yn nwndwr mwyn yr afon
 A lifai dan ein traed,
 Dy law yn wylaidd roddaist,
 Ac amod yno wnaed ;
 O boed i'm henaid lifo
 Trwy'r byd,—boed wyn, boed ddu,
 Gan furmur cân o gariad
 I ti, fanwylyd cu.

4.

Yn si'r awelon tyner,
 Un nawn o nefol hin,
 Daeth gair o felus fiwsig
 Yn wylaidd dros dy fin,
 Y lli ddylifai'n araf
 I ddelwi'n dlws dy lun,—
 Fel yna ar lan yr afon
 Y'th welais di, fy mun.

Un bore nad a'n ango
 Tra fyddwyf is y nen,
 Y rhos oedd ar dy ruddiau,
 A'r lili ar dy ben,


Mi glywais air dy wefus
 Mewn melus ddedwydd hun,—
 Fel yna'n hoen ein huno
 Y'th welais di, fy mun.


Ond wele'th rudd yn welw,
 A'th lygaid llon yn brudd,
 Tra'n syllu fry mewn hiraeth
 Am weled toriad dydd;
 Ai chwa o gân yr angel
 A glywaf yn dy ffun,—
 Fel yna'n canu ffarwel
 Y'th welais di, fy mun.

Fe ffyfy byd a'i boenau,
 Fel nos o flaen y wawr,
 A minnau ddof i orffwys
 O'm lludded ar y llawr;
 'Rol cysgu'n dawel ennyd,
 Mi godaf o fy hun
 I geisio'n mro y gwynfyd
 Dy weled di, fy mun.

5.

Mi glywais lais o Wlad yr Hedd,—
 "Paid wyllo mwy ar lan fy medd;
 Mewn gwynfyd pur, O dywed pwy?
 Tydi ym myd y gwae a'r clwy,
 Neu fi na welaf angau mwy?"





...ith.)
THE WIR.

agwyddol newydd, a
ol oes. Y mae'n wir
ia,—ymdaith y New
ou i ymladd brwydr
lluocdd nefol yng
peidio meddwl am y
adwyr yn y cyngor
Ac y mae'n wir mai
do,—poethder y ddadl
Copernicaidd am le'r
ddadl rhwng y Cal-
th a rhyddid ewyllys,
a ffurf llywodraeth.
Milton rywbeth sydd
ar ei oreu yn ceisio ei
y gorfennol, y mae'r
nedl bob cam rown i'r

dyfodol. Ac yn y dyddiau hyn, pan y mae ysbryd Puritaniaeth yn llesg, tybiaf glywed grymusder cynyddol yn y llais,—llais un yn gweled ymbhellach i'r dyfodol na ni, er ei fod yn byw fwy na dwy ganrif o'n blaen.

Nis gall cenedl aros yn ei hunfan; y mae'n symud bob amser,—weithiau ymlaen; weithiau, hwyrach, yn ei hol. Daw

un genhedlaeth o weithwyr pybyr,—gwelant ddaear
Ymdrech a gorffwysa. newydd a nefoedd newydd, ymgynhyrfant i'w hennill, a gadawant fyd newydd o'u hol; gorffwysa eu meibion, i bob golwg allanol, fel yn ystod y tawelwch ar ddistyll y don; try eu hwyrion yn ol, ond odid, i gaethiwed na wyddant am ei gywilydd na'i boen,—tlws a sidanaidd ydyw iddynt hwy. Ceir mab y gwerinwr Calфинаidd ar ei liniau o flaen cymdeithas foethus a ddirmygasai ei dad, ceir mab yr Undodwr cadarn yn melus leisio hynny o erthyglau cred geisiodd pob sant roi yn llyfetheiriau ar feddwl y rhai enid ar ei ol, ceir aer rhyw hil Brotestanaidd ddewr yn ceisio credu fod yr offeiriad deyrnasa ar ei feddwl yn olynedd pabau'r canol oesoedd. Ac ar y meibion a'r wyrion pen-ysgafn hyn y geilw llais clir tanlyd John Milton,—llais na ddistewir gan orthrymydd nac offeiriad byth.

Gwelir dwy duedd dynol ryw yn yr ail ganrif ar bymtheg, a cheir dau gynrychiolwyr y ddau ysbryd,—Laud yn ei henaint, a Milton yn ei ieuentyd,—yn cyd fyw. Yn nechreu'r ganrif honno, yr oedd y Prydeiniaid yn dechreu blino wedi
Laud a Milton. ymdrech gynhyrfus y Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd heddwch yn teyrnasu hefyd, a chyfoeth yn llifo i'r wlad. Daeth yn esmwyth ar feibion gwŷr yr hen ystormydd; a daeth awydd am orffwys, os nad am fynd yn ol i'r hen grefydd yn nhlynsni ei hofergoeidd a melusder ei chân. "Minnau'n aros yn fy ninas fore a nawn" oedd cân rhai na freuddwydient unwaith am ddim ond am deithio ymlaen. Cafodd yr awydd hwn gynrychiolwr yn Laud,—athraw yn Rhydychen ac esgob Tyddewi, gwŷr ymhyfrydai yn yr hen adfeilion hyn. Gwŷr yn meddu penderfyniad y meddwl bychan oedd. Trefn berffaith mewn byd ac eglwys oedd ei nod,—unffurfaeth meddwl ac ymddygiad,—heb le i'r meddwl anibyynnol wneyd dim ond gwingo yn ofer yn erbyn y symbylau. Nid oedd am i Loegr fynd yn ol i gorlan Rhufain, ond yr oedd am ei rhoddi ar yr un llwybr,—yr oedd y meddwl ymchwilgar i ymostwng i ddeddfau eglwys, yr oedd y cariad at ddyfodol nas gwelsid eto i droi'n ol, ac i rodio'n brudd ymysg adfeilion hen sefydliadau. Yn ol i ddefodaeth,—y rhan baganaidd hen o Gristionogaeth,—y gelwid dynion.

Ond yr oedd tuedd arall. Yr oedd rhai wedi hoffi crefydd mor syml ac mor bur fel nad oedd raid iddi wrth brydferthwch

pren a maen, ysblander lliw a melusder llais. Nid ymswyno mewn eglwys brydferth oedd eu pleser hwy, ond edrych ar symledd diaddurn meddwl a gwirionedd. Ni fynnent

Y Puritaniaid. hwy gymorth yr allor i ddysgu dyledswydd offrymu, ni fynnent wenwisg i ddangos purdeb un oedd yn offeiriad i Dduw, ni fynnent y fodrwy i ddangos natur ddi-ddarfod cariad pur priodas,—yr oedd pob defod i roi lle i'r gwirionedd o hyn allan. Yr oedd y gloch i ddistewi er mwyn tawelwch i addoli. Nid oedd un rhan o'r ddaear i fod yn llai cysegredig na'r rhan arall; nid cysegriad dyn, ond calon ddryll-iog a phresenoldeb Duw, oedd i fod yn nodwedd cysegr.*

Yr oedd rhyfeloedd, ac ofn rhyfeloedd, am amser wedi darfod o'r tir. Yr oedd darganfod byd newydd wedi rhoddi rhyw ehangiad bywyd i'r genedl,—yr oedd ffyrdd diderfyn y môr yn agored bob amser o flaen ei llygaid. Breuddwydiai am gyfandiroedd newyddion, am fynyddoedd tawel hyfryd yn codi y tu arall i ddwfr fu unwaith yn derfyn nas gallai dyn ei groesi. Daeth yr hen furiau'n llwybrau i fyd newydd. Gyda chestyll a rhyfeloedd y canol oesoedd, yr oedd y Puritan am weled yr hen syniadau eglwysig yn diflannu hefyd. Yr oedd eglwys y canol oesoedd i roi lle i eglwys arall,—a'i bywyd yn dibynnu, nid ar y cysylltiad rhwng ei hoffeiriaid â'r gorfennol, ond ar yr undeb rhwng ei haelodau, ei meini bywiol, â Christ. "Y mae pob un yn yr eglwys yn frenin, yn offeiriad, ac yn broffwyd dan Grist."

Ac ar yr adeg yma, pan oedd heddwch a llwyddiant yn rhoi lle i'r ysbryd newydd gredu y byddai defodau olaf yr eglwys wedi diflannu'n fuan,† tybiodd penaduriaid Lloegr fod perygl yn y deffroad. Ofnodd Elizabeth syniadau'r Puritaniaid am le'r gydwybod; yn adeg Iago'r Cyntaf a Siarl y Cyntaf yr oedd yn amlwg fod defodaeth yn ail ennill tir yn Lloegr, fel yr oedd ar y cyfandir dan nawdd y Jesuitiaid. Yr oedd yn amlwg fod y dydd yn agos pan fyddai ymdrech galed rhwng yr hen a'r newydd. Ac y mae y llais gododd John Milton ym mhlaid y bywyd a'r rhyddid newydd yn llais na ddistewir byth.

Pan glywn lais Milton gyntaf, y mae mewn cydgord hyfryd â lleisiau ei oes. Adlais o ddedwyddwch oes Elizabeth gawn yn *L'Allegro ac Il Penseroso* yn 1632. Undeb rhwng Llais llon a phrudd. sancteiddrwydd a phrydferthwch oedd nodwedd yr oes honno ar ei goreu, ymgyfuniad o ysbryd Hebreig yr anialwch mawreddog ac ysbryd Groegaidd prydferthwch ynysocedd y môr. Yn *L'Allegro* cawn lawenydd pur y naill, yn

* "Only the Popish vestments remain in our church, which we hope will not last long." Sandys, *Zürich Letters*, I., p. 74.

† "The scenic apparatus of divine worship, as if the Christian religion could not exist without something tawdry." Esgob Jewel, *Zürich Letters*, I., p. 23.

Il Penseroso cawn ddfrifwch myfyriol y llall. Yn awr y mae addoliad yr hen eglwys,—goleuni dwys tyner ei ffenestri lliw a sain felusber ei horgan,—wrth ei fodd. Cân am

“ A window richly dight
Casting a dim religious light.”

Ac nid yw'r cariad hwn yn anghyson eto â ffydd ddiderfyn yn y meddwl dynol ac yn y dyfodol. Y mae'r muriau'r coleg, a'i addysg ddifudd, ymhell o'i ol; y mae byd, yn llawn o burdeb ac o egni ac o arwyr, fel y cred yn awr, o'i flaen. Os bu Milton yn hapus erioed, y mae'n hapus ar ddechreu ei yrfa; cyfyd yr hyfrydlais mor llon a gloew-bur a llais ehedydd y mynydd.

Digwyddodd pethau rhyfedd mewn dwy flynedd,—daeth pryder i lawer meddwl a phrudd-der i lawer llais. Yn 1632 bu Eliot, arweinydd hoff y Senedd, farw yng ngharchar ^{1632—1634.} y gwladgarwr; a gwrthododd Siarl frenin adael i'w blaent fynd a'i weddillion o'r carchar i'w gartref dedwydd yng Ngwlad yr Haf. Yn 1633 yr oedd yr esgobion wedi rhoi cosb drom ar Buritan oedd, yn eithafon ei sel, wedi bwrw ei ffon trwy “ a window richly dight, casting a dim religious light.” Ebe ef, yn iaith Milton, am y ffenestr,—“ It obscured the light.” Yr oedd yr ymdrech grefyddol wedi dechreu yn yr Alban, yr oedd Laud yn ceisio mygu pregethu yn Lloegr, yr oedd Noy yn ceisio ffordd i'r brenin gael arian heb fynd ar ofyn ei bobl. Yr oedd ofn yn y wlad, a phawb yn gofyn beth ddeuai nesaf.

A dyma'r adeg yr ysgrifennodd Milton *Comus*. Yn Llys Cymru, yn Llwydlo, yr actiwyd y ddrama fechan hon, a hwyrach fod Richard Baxter yno yn ei gweled. Hanes plant ^{Llais pregethwr.} Llywydd y Llys yn ymgolli yn y coed, temtio'r arglwyddes fechan gan *Comus*, dangos gwaredigaeth gan ysbryd pur y coed yn ffurf bugail,—dyna sydd yn y gân. Yn *Comus* y mae Milton fel pe'n treio ei lais at ei godi fel cri rhyfel yn y man. Y mae *Comus* ei hun yn rhag-arlun o Satan Coll Gwynfa, hyd yn oed pan yn gwrandao ar fiwsig llais yr arglwyddes,—

“ Smoothing the raven down
Of darkness till it smiled.”

Yn yr arglwyddes y mae rhag-arlun o Buritaniaeth y dyfodol,—purdeb wedi ei sylfaenu ar hollalluogrwydd y meddwl unig pan mewn cymundeb â'r Duw sy'n sancteiddrwydd. “Thou canst not touch the freedom of my mind,”—dyna'r ateb i'r temtiwr, a dyna orfoledd y Puritan. Y mae'r golygfeydd,—coedwigoedd gororau Cymru,—yn rhag-arlun o olygfeydd y gweithiau diwedd-arach hefyd; fforest enfawr a thywell ydyw, gyda phalas o

oleuni tanbaid yn nuwch ei chalon. Y mae dwy blaid yn y gân; plaid tywyllwch ac anhunedd a diogi a mwyniant yw un, a phlaid goleuni a phurdeb ac egni ac ymroddiad yw'r llall. Y mae Milton, â holl nerth ei enaid, yn ceisio cryfhau nerth plaid y goleuni. Yn ei ganeuon cyntaf, y mae'r ddwy blaid a rhyw dda ynddynt; yn awr y mae'r naill yn dda a'r llall yn ddrwg. O'r blaen yr oedd Milton yn ymhyfrydu yn ysbryd mwyniant ac yn ysbryd sancteiddrwydd; yn awr y mae'n codi ei lais yn gryf dros burdeb oedd yn ymddangos yn rhewllyd i rai gyd-ganasai âg ef gynt. A thra'r oedd ef yn canu fel hyn, yr oedd y blaid ddefodol a'r blaid Buritanaidd yn mynd bellach bellach oddi-wrth eu gilydd; ond nid hwy, eto, yw'r pleidiau sydd yn *Comus*.

Erbyn 1637 yr oedd yn eglur i bawb oedd a'i lygaid yn agored beth oedd y gwahaniaeth rhwng y pleidiau politicaidd ac eglwysig. Yr oedd dau wr yn cyd-weithio,—Wentworth gawraidd yn adfer gorthrwm y brenin, a Laud benderfynol yn adfer unoliaeth seremoniau yr hen amseroedd. Brenin cryf trugarog, a'i fryd ar dda; amrywiaeth credo dan unoliaeth defod,—dyna'r breuddwydion, ac nid oedd-ynt yn afresymol ynddynt eu hunain. Ond yr oedd yn rhaid torri ysbryd Puritaniaeth cyn y llwyddid, a gorfod i Wentworth a Laud roddi menyg heiyrn am eu dwylaw. Erlidid gwŷr cymhedrol fel yr Esgob Williams; anfonid gwŷr eithafol fel Prynne i'r pilori. Nid oedd cydwybod na llafar yn rhydd. Ac yr oedd gwrthwynebwyr yn ymwregysu; penderfynodd John Hampden na thalai dreth anghyfiawn, penderfynodd yr Alban na cherddai'n ol o'r grefydd oedd wedi garu.

Yn *Lycidas* y mae Milton, nid yn unig yn penderfynu sefyll gyda'r da yn erbyn y drwg, ond gyda'r Puritan yn erbyn y defodwr. Marwnad yw'r gân am gyd-efrydydd iddo,

Llais rhyfel. yntau'n bwriadu unwaith gymeryd urddau eglwys, fu foddi wrth groesi Môr yr Iwerddon. Condemnir hunanoldeb a chysgadrwydd y clerigwyr yn ddiderfyn. Paham y safant yn llonydd tra mae'r blaidd yn torri i'r gorlan? Onid oedd ysgrifennydd y brenin yn cynllunio sut i adfer Pabyddiaeth, onid oedd athronydd Seisnig wedi cynnyg llyfr ar y gwirionedd i'r Pab ddweyd ei feddwl am dano? Cwyd llais Milton,—nid llais llon *L'Allegro* mwy, nid llais erfyniol *Comus* mwy,—ond llais croch rhyfel. Bygythiai'r eglwys; dywed fod rhyw ddinistrydd wrth y drws. Ac yr oedd dinistrydd yn prysur barotoi ei arfau.

Yr oedd Milton, yn *Lycidas*, wedi proffwydo fod diwedd y gorthrwm gwleidyddol ac eglwysig yn ymyl. Daeth y fuddugoliaeth, ond chwerw siomedig oedd natur y fuddugoliaeth honno i Milton. Bu ei lais gyda llais yr ymladdwyr o hyd, ond

nid yr un oedd cân eu buddugoliaeth. Yr oedd Puritaniaeth wedi deffro, ac wedi taro brwydr. Yr oedd Wentworth a Laud, erbyn hyn, wedi eu dienyddio gan yr arweinwyr seneddol. Yr oedd Llundain yn llaw'r Puritaniaid, ac nid oedd cwbl ddinistr y brenin a'i fyddin ymhell.

1644. Ond gwelodd Milton berygl newydd ym muddugoliaeth y blaid y tafasai ei holl egni gyda hi. Ei nod ef oedd rhyddid,—rhyddid cydwybod a rhyddid y wasg. Tra'r oedd y Puritaniaid yn dinistrio'r hen, yr oedd Milton gyda hwy, mor frwdfrydig a neb. Ond cafodd le i ofni mai'r peth cyntaf wnaent, wedi dinistrio'r hen orthrwm, oedd codi gorthrwm newydd gwaeth. Yr oedd y Senedd Hir wedi difodi hen lys gorthrymus Ystafell y Ser, ond yr oedd wedi galw llys arall i fod,—y *Committee of Examinations*,—ac yr oedd cydwybod a'r wasg mor bell o fod yn rhydd ag y buont erioed. Safodd Milton yn llwybr y buddugwyr, a chododd lais rhybuddiol fod rhyddid cydwybod yn fwy pwysig nag unrhyw gyfundrefn eglwysig, a llais ei siomiant oedd y frawddeg gynhwysfawr "Presbyter is but priest writ large."

"Rhoddwch ryddid cydwybod, a rhyddid llafar; gadewch y wasg yn rhydd,"—dyna lais Milton ym mrawddegau rhyddieithol ac afrosgo, ond tanllyd, ei *Areopagitica*. Rhyddid y wasg. Gwaith pabau, gwaith offeiriaid, gwaith gorthrymwyr pob oes yw caethiwo'r wasg,—apelia Milton at ryddhawyr Lloegr i beidio ail loewi gefynnau'r hen orthrwm. Apelia at wladgarwch y Presbyteriaid trwy ddweyd mai peth estronol, ac nid peth Prydeinig, yw gwasg mewn caethiwed. Ar y cyfandir, ebe ef, cred pobl fod gwŷr Prydain yn rhydd. Dyna glywodd yn yr Eidal, pan ar ymweliad â Galileo erlidiedig ar y bryn gerllaw Fflorens. Ceisia gysylltu caethiwed y wasg â'r Chwilys Ysbaenaidd, geilw Galileo'n garcharor y sefydliad hwnnw,—sefydliad mor adgas i Saeson yr ail ganrif ar bymtheg. Ac yn wir, yn yr adeg honno, yr oedd doctoriaid y Sorbonne yn Ffrainc a'r Chwilyswyr yn Spaen yn ymryson â'u gilydd pwy chwyddai fwyaf ar y rhestr o lyfrau comdemnedig,—yr *Index Librorum Prohibitorum*,—yr oedd y Pabydd ffyddiog i beidio eu darllen. Dengys hefyd mai hoff waith y gorthrymwyr y codasai'r Senedd yn eu herbryn oedd caethiwo'r wasg, a gofyn a ydynt am gerdded llwybr y rhai creulon ddiorseddasant. Apelia at bawb bron yn y Senedd Hir,—at y Presbyteriaid eithafol oedd yn edmygu dewrder John Knox, at y rhai llai tanbaidd oedd yn credu gyda Selden y dylid chwilio cyfeiliornadau er mwyn cael y gwir, at y rhai gredent mewn goddefiad gyda Lord Brooke. Dengys hefyd mor ynfyd yw'r ymgais i gaethiwo'r wasg. Nis gallai pamffledi chwerwach ddod o wasg rydd nag

oedd yn ymddangos ar y pryd er gwaethaf y caethiwed.* Pa arolygwr fedrai ddarllen pob peth oeddis i'w gyhoeddi, yn enwedig mewn llawysgrif? Ac y mae'n ddiameu fod gwên ysgornllyd ar wyneb y gŵr, hyd yn oed pan fwyaf difrifol, wrth ofyn,—Ac onid oes perygl i feddwl archwiliwr y wasg ymlygru wrth ben y cyfeiliornadau?

Ni wrandawodd y Senedd Hir ar lais Milton, ac arhosodd y wasg yn ei gefynnau. Un rheswm am fethiant neges yr *Areopagitica* oedd hyn,—dywedodd Milton ormod o wir i ateb ei bwrpas. Dywedir nad ydym yn clywed miwsig cylchdroadau'r ser oherwydd ein bod yn rhy agos atynt. Yr oedd oes Milton yn rhy agos ato i weled mawredd ei feddyliau ac i ddeall ei lais. Yr oedd y gwirionedd yn rhy danbaid iddynt yn ei ymyl, a'r llais, oherwydd ei agosrwydd, mor ddieithr iddynt a thwrf rhaiadr.

Onid os oedd yn ddieithr iddynt, yr oedd yn frawychus. Daeth ofn arnynt wrth ei wrando. Deallasant ei fod yn dweyd nad oedd y Chwyldroad Puritanaidd yr ymdrech olaf ar y ffordd i dir rhyddid.† Yr oeddynt hwy wedi gorchfygu'r gorthrymwr, ond gwelent rai'n codi allai eu gorchfygu hwythau. Wrth edrych i'r dyfodol, ofnai'r Presbyteriad. Gwelai rai'n dechreu yngan mai nid ei ddull ef ar grefydd oedd yr unig lwybr at Grist. Teimlai ei fod wedi cerdded yn ddigon pell ar lwybr rhyddid, ac amheuai rai oedd am gerdded ymhellach nag ef. A daeth awydd achub pobl er eu gwaethaf arno; ac onid hynny oedd awydd rhai o'r gorthrymwyr? Y mae caethiwo'r wasg yr un peth a lladd rheswm yn ei lygad, ebe Milton. Ond credai'r Presbyteriad mai gadael i Satan fyned oddiamgylch fel llew rhuadwy fyddai rhyddhau'r wasg. Credai'r Presbyteriad fod Satan yn gryfach na dyn, a'i fod yn sicr o'i gael i lawr os cai chware teg. Credai Milton fod dyn yn gryfach na Satan, os byddai ei feddwl yn effro a'r cymundeb yn agos rhyngddo â Duw.

Yr oedd ar y Presbyteriaid, yn awr eu buddugoliaeth, ofn nas gallent lywodraethu'r wlad oeddynt wedi ryddhau. Hwyrach y caent help y brenin, a help yr arglwyddi; ond yr oedd arnynt ofn y wasg, ac yr oedd arnynt ofn rhyddid crefyddol. Ni fynnent hwy adael i bawb

* Ymysg y pamffledi hynny y mae un yn condemnio erledigaeth. Cyhoeddwyd ef fwyddyn ar ol yr *Areopagitica*; ac yn erbyn y Presbyteriaid y mae. Ei deitl yw *The Arraignment of Mr. Persecution*. Amddiffynnir Mr. Erledigaeth gan Syr Simon Synod a Syr John Presbyter. Argraffwyd ef "at the signe of the Subjects' Liberty, right opposite to Persecuting Court."

† "He who thinks we are to pitch our tents here falls far short of the truth."—Milton, *Areopagitica*.

gredu ac addoli fel y mynnai; tybient nas gallai Llywodraeth a Gwirionedd sefyll heb ategion o waith eu dwylaw hwy. Ond credai Milton, nid yn unig nad oedd gan frenin ac esgob hawl i gyfyngu ar ryddid meddwl dyn a gwlad, ond nad oedd gan senedd a chymanfa a phregethwr hawl i gymeryd eu lle. A dychrynnai ei hen gymdeithion pan ddywedai Milton nad oedd hyd yn oed John Calvin wedi canfod pob gwir oedd Duw wedi feddwl ddatguddio i ddyinion*; sibrydent yn eu plith eu hunain pan godai ei lais clir herfeiddiol i gyhoeddi fod y Gwir yn rymus, yn agosaf peth i'r Hollalluog.†


Credai Milton yn y Gwir, credai yn y ddyndoliaeth hefyd. Os oes bosibl i neb gredu ynddi, Milton wnaeth hynny. Sieryd Shakespeare am y werin gyda dirmyg, i Milton y
Nerth y Gwir. mae ddeffroad y werin yn y Chwyldroad Puritanaidd yn ddeffroad y gallu oedd i wneyd dynolryw yn bur a sanctaidd ym myd y meddwl ger bron Duw tragwyddoldeb. Tybed mai Shakespeare oedd yn iawn? Ffordd bynnag, y mae llais Milton yn chwerwi yn yr *Eikonoklastes*. Yn 1644 cred fod pob Prydeiniwr fel efe ei hun,—yn hiraethu am ryddid a goleuni a gwirionedd. Yn 1649 gwelir ei fod wedi ei siomi mewn gwerin oedd yn hiraethu am gusanu rhyw ysbrigyn brenhinol er mwyn gwella clwy'r brenin.

Ond y mae un peth yn yr *Areopagitica* na cholodd Milton mohono byth,—ei gred ddiysgog mewn rhyddid. Cred o hyd y gall yr enaid unig, dan belydrau goleuni Duw, gael y gwirionedd; cred fod y gwir yn ein rhyddhau yn wir; cred mai rhyddid yn unig fedr fagu cenedl o gewri ymhob daioni. Rhodder rhyddid i'r enaid,—dyna ei gri. Nid trwy beidio gwybod am y drwg y cedwir dyn, ond drwy roddi iddo'r ewyllys i'w wrthsefyll. Nid purdeb yr hwn gadwyd yn yr anialwch, o gyrraedd temtasiynau, yw y purdeb uchaf; y gwir burdeb yw purdeb yr hwn aeth drwy ogof Mamon a thrwy'r Bower of Bliss heb lychwino dillad ei feddwl. Nid trwy gau o'i amgylch y nerthir enaid, ond trwy ei gryfhau oddi mewn. Cymerwch holl emau'r cybydd oddi arno, erys ei gybydd-dod yn feddiant iddo fel o'r blaen. Eneidiau gweiniaid salw yw'r rhai sydd bob amser a'u pwys ar offeiriad a'u hiraeth am gysgod y deddf-roddwr. Rhodder i'r meddwl ryddid i deimlo haul y dehau a nerth y gogledd-wynt,—dyna a'i gwna'n gryf. Tybiai oes Milton fod yn rhaid amddiffyn y deiliad rhag athrylith y wasg, a rhag ymroad ei feddwl ei hun; yr oedd i gymeryd esboniad dynion ar Air Duw, yr oedd i

* Sieryd yn yr *Areopagitica* am rywbeth "beyond the discipline of Geneva."

† "Truth is strong, next to the Almighty."—*Areopag.*

darlun o'r archeidwad rhyngddo



darlun o'r archeidwad rhyngddo

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32
33
34
35
36
37
38
39
40
41
42
43
44
45
46
47
48
49
50
51
52
53
54
55
56
57
58
59
60
61
62
63
64
65
66
67
68
69
70
71
72
73
74
75
76
77
78
79
80
81
82
83
84
85
86
87
88
89
90
91
92
93
94
95
96
97
98
99
100

Llef yn erbyn hynny yw'r *Areopagitica*,—llef groch a chynhyrfus, ond yn gloewi ar adegau i fiwsig anghydmorol.

Anghofia'r arddull sydd mor gain yn ei ganeuon, Arddull a north. dirmyga'r bluen nas gall dafu inc ond yn Lladin; ond y mae ambell frawddeg yn ei dudalennau, fel llais udgorn clir yn codi uwchlaw mil o dabyrddau, glywir tra cariad at ryddid yn bod.

Rhoddodd Milton bwys ar beth arall y dylem ddal arno yn y dyddiau hyn,—sancteiddrwydd bywyd llyfr da. Wrth adolygu llawer llyfr, y mae'r gofyniad yn dod i'r meddwl,—

Bywyd llyfr da. "Tybed, wrth ysgrifennu y llyfr hwn, i'r awdwr weddio am iddo fod yn gymeradwy ger bron yr Arglwydd, ei graig, a'i brynnwr?" Nid yw Milton yn anghofio y gall llyfr drwg fod. Ac o bopeth drwg, llyfr drwg yw y peth gwaethaf,—y mae'n rhoi rhyw fath o anfarwoldeb i ddrygioni. Y mae, yn ol syniad Milton, fel dannedd y dreigiau hynny a hauid gynt, ac a godent yn ebrwydd yn fyddinoedd arfog. Ond, meddai ef, y mae lladd un llyfr da yn fwy o bechod nac arbed llawer o'r rhai drwg; a'r tebyg yw, os ceisia'r llywodraeth ladd llyfrau drwg, ei bod yn sicr o ladd rhai da. Ac ni fedr, ychwaith, ladd y llyfr drwg; ca hwnnw faeth newydd trwy yr anufudd-dod. Ond am ladd llyfr da, gall wneyd hynny,—a merthyrdod llyfr ydyw.

Dyna lais Milton yng nghanol y frwydr, ac yn awr buddugoliaeth. Gadewch i ni wrando arno yng *Ngholl Gwynfa*, pan oedd y gelyn wedi cael y rhyddid a'r gwirionedd dan ei draed. Llais yr amddiffynnydd. Gwelodd Milton amseroedd enbyd rhwng 1644 a 1660. Dinistriwyd byddin y brenin ar faes

Naseby, cymerwyd Bryste drwy drais a Rhydychen drwy deg; a daeth y fyddin yr ymladdai Hugh Peters a John Bunyan ynddi yn waredydd y genedl hon. Rhoddwyd y brenin ar ei brawf am dywallt gwaed ei bobl, ac aeth ias o arswyd drwy wledydd Ewrob pan ddeallwyd fod y Saeson wedi torri pen eu brenin. Diddymwyd y frenhiniaeth a Thy'r Arglwyddi gyda'r eglwys, sefydlwyd Gweriniaeth Lloegr, gydag Oliver Cromwell yn arweinydd ei byddin ac yn amddiffynnydd iddi. Daeth Lloegr yn un o brif wledydd Ewrob mewn gallu milwrol, a daeth ei llynges yn ddychryn ei galynton ym mhob

Gweriniaeth Lloegr. 1649—1660. môr. John Milton oedd ysgrifennydd tramor Oliver Cromwell; ac wrth amddiffyn ei wlad mewn llyfrau, mewn Lladin tryloew a chyda rhesymeg berffaith, y collodd ei olwg. Llafurus a blin fu bywyd Cromwell; ni thywyswyd ef gerllaw y dyfroedd tawel, a dywedai llawer wrtho nad atebodd Duw ei weddi am iddo ei arwain ar hyd llwybrau cyf-

iawnder er mwyn ei enw. Ond yr oedd iddo ef ei hun gydwybod dda, credai fod ei droed ar yr uniawn; a chredodd Milton, pan fu farw, na chasglwyd ei enaid gyda phechaduriaid na'i fywyd gyda dynion gwaedlyd. Pan fu farw Cromwell yn 1659, yr oedd yn amlwg fod sylfeini gweriniaeth Lloegr yn gollwng. Nis gallai'r fyddin a'r Senedd gyd-daro, nid oedd neb i lenwi'r lle mawr gwag; daeth ysbryd anrhefn dros bopeth, a'r diwedd fu galw Siarl yr Ail i orsedd ei dadau. Tafliwyd llwch Cromwell i'r domen; dienyddiwyd a darniwyd llawer o'r hen arweinwyr, John Jones o Faes y Garnedd yn eu mysg; a thybïai llawer y dylasai Milton dalu â'i fywyd am yr hyn wnaeth dros y Weriniaeth ddymchweledig.

Ond, er gorfod ffoi, cafodd Milton fyw, mewn unigedd a dall-ineb, i adrodd yr hanes wrth oesau i ddod. Adroddodd hanes yr ymdrech rhwng da a drwg yng nghaneuon ei ieuenctid, cododd ei lef yn ymdrech y Chwyldroad Puritanaidd gyda'r hwn dybiai ef oedd yn ymladd dros y da, ac yn ei hen ddyddiau desgrifiai'r ymdrech honno rhwng Satan a Christ y gŵyr pob enaid gwaredig am dani. Yr un yw'r llais eto,—yn hawlio rhyddid i'r enaid, yn dirmygu offeir-iadaeth, yn ymladd dros y gwirionedd. Ond y mae'r ymdrech yn un fwy mawreddog; nid ymdrech am ryddid cenedl ddarlunnir yn awr, ond ymdrech am ryddid dynol ryw hyd oesoedd tragwyddoldeb. Dinistriwyd gwaith Cromwell, am ennyd beth bynnag; ond nid ysbeiliai neb waredydd dynol ryw o lafur ei enaid.

Oliver Cromwell oedd amddiffynnydd rhyddid, i John Milton. Pryderodd Cromwell lawer, ac ofnodd lawer, am y llwybrau oedd i'w cymeryd. Disgwyliodd lawer gwaith am oleuni oddiwrth Ragluniaeth, ac heb ei gael. Ond yr oedd un llwybr yn berffaith oleu iddo,—yr oedd cydwybod a llafar i fod yn rhydd. Cafodd yr Iddew loches, ar ol pedair canrif o erlid. Cyd-addolodd yr Eglwyswr a'r Anghydfurfiwr mewn heddwoch yn yr un eglwys gadeiriol. A gwelodd Cromwell y dylai fynnu rhyddid i'r Pabydd hefyd. Yn hyn oll cafodd John Milton yn amddiffynnydd pybyr,—oherwydd yr oedd yn gyfrwng goleuni a rhyddid. Ac yn y dyddiau hynny y trodd Milton y gwrthryfelwr yn Milton yr amddiffynnydd.

Yn nhywyllwch ei ddallineb cymerodd John Milton dasg anrhaethol fwy. Mewn dyddiau pechadurus ac anffyddol, cododd ei lais i amddiffyn ffynhonnell pob goleuni a rhoddwr pob rhyddid. Ei waith yn awr oedd adrodd hanes y cwmp a'r codi,—

Coll Crysafa.

“And justify the ways of God to men.”

Yr un llaw sydd yng *Ngholl Gwynfa* ag yn yr *Areopagitica*. Yr un yw arwydd-nodau'r gwaith,—gwrthgyferbyniad goleuni llachar a thywyllwch du, cariad angerddol at ryddid gwladol ac eglwysig, a chred ddiysgog yn nerth y meddwl pur.

Er i'w awen godi i'r uchder yma, llais y Chwyldroad Puritan-aidd yw llais Milton o hyd. Awydd angerddol am ryddid a goleuni mewn ymgysgriad i Dduw yw'r awydd o
 Cariad at ryddid. hyd. Y mae'r gred fod adenydd yr enaid yn rhydd i grwydro i'r tragwyddol weithiau, y mae'r gred honno yng *Ngholl Gwynfa* fel o'r blaen. Cred Milton mor gryf yng ngallu y meddwl i orchfygu amgylchiadau fel y rhydd eiriau rhyddid yng ngenau Satan, yn unig am ei fod yn orchfygedig. Y mae adlais cred Milton ei hun yng nghred Satan; pan ddywed hwnnw ar drothwy uffern,—

“Hawddamor, erchyll ardal, Annwn fro,
 A thithau, ddyfnaf Uffern, derbyn fi,—
 Dy newydd deyrn, sy'n dod i'th fewn
 A meddwl na newidfa lle nac awr.
 Lle iddo'i hun yw'r meddwl, gall ei hun
 Wneyd Nef yn Uffern, a'th wneyd dithau'n Nef.”*

Rhyddid yr enaid,—am hynny y cyfyd Milton ei lef. Ond cofier beth a feddylia wrth ryddid. Nid rhyddid i wneyd beth a fynno,—i ymgodi at y sanctaidd neu i ymdrybaeddu yn y llaid yn ol ei ewyllys,—nid dyna syniad Milton am ryddid. Rhyddid i gymuno â Duw, rhyddid i chwilio am y gwirionedd, rhyddid i garu'r pur,—dyna ei ryddid ef. Ac y mae y cariad hwn at ryddid yn cyd-fyned â phurdeb; y pur yn unig sydd yn rhydd ac yn deisyfu bod yn rhydd. Felly, er fod ei lais yn uchaf un yn hawlio rhyddid, er ei fod yn cashau rhwymau eglwysig a swyddau offeiriaid, y mae llymder pregethwr cyfiawnder yn ei lais. Gwel ddrwg pechod yn anad neb. Ni chanodd bardd erioed dan deimlad mor gryf am y gwahaniaeth rhwng goleuni a thywyllwch,—cydmarer tywyllwch dudew diwedd yr ail lyfr â'r disgleirdeb llachar yn nechreu'r trydydd; ni chanodd bardd erioed dan deimlad mor ddwys am y gwahaniaeth rhwng ufudd-dod ac anufudd-dod i Dduw. Ac er na chododd neb ei lais yn fwy egniol o blaid rhoi pob chware teg i'r enaid unigol weithio allan ei iachawdwriaeth ei hunan,

* *Paradise Lost*. Book I. 250.

“Hail, horrors; hail,
 Infernal world; and thou, profoundest hell,
 Receive thy new possessor, one who brings
 A mind not to be changed by place or time.
 The mind is its own place, and in itself
 Can make a Heaven of Hell, a Hell of Heaven.”

nid oes yn unman effeithiolach darluniad o aberth a chariad y Gwardedwr nag yn rhai o lyfrau Coll Gwynfa. Nis gwn i am ddim y tu allan i'r Beibl a ennyn deimlad y credadyn fel cydmaru araeth Beelzebub yn Llyfr II. ac araeth Duw yn Llyfr III. Pan oedd yr angylion syrthiedig wedi eu gorchfygu, ac ar anobeithio yn nyfnder uffern, cododd Beelzebub a dywedodd fod un ffordd eto i ymladd â Duw, sef trwy lygru'r byd newydd, a'r dyn oedd newydd ddod i fod. Ond y cwestiwn oedd, pa angel oedd yu ddigon dewr a chryf i ymgymeryd a'r ymdrech ofnadwy,—

“Pwy sydd ddigonol at y gwaith ofnadwy hwn?
Crwydredig draed pwy geisia ddisgyn i'r
Diwaelod, tywyll, a diderfyn Ddwn,
Hyd lwybr nas canfyddodd neb, trwy'r du
Dywyllwch ellir deimlo? Pwy
Ar aden nas gwyr ffinder gwyd
Uwchlaw yr eang Ddwn?*

Wedi iddo ddangos mor ofnadwy yw'r daith trwy'r tywyllwch, a heibio gwylwyr y Goruchaf, eisteddodd, a disgwyliad yn ei olwg am rywun i eilio'r hyn a ddywedodd, neu wrthwynebu, neu ymgymeryd â'r gwaith. Pwy fentra i'r tywyllwch diderfyn, lle y gallai golli ei fod i dragwyddoldeb?

“Ond mudion oeddynt oll.
Meddylent am y perygl. Gwelent fraw,
Bob un, yng ngerth wynebau'u gilydd.”†

Ac ar hyn wele Satan yn codi o blith y llu, ac yn ateb,—
“Wele fi.”

Cyn hir ymegyr golygfa arall,—ond fod goleuni yn lle tywyllwch o'i hamgylch. Mae Duw'n dweyd hanes cwmp dyn wrth y lluoedd nefol,—

“Collodd oll.
I dalu am y brad, 'does ganddo ddim;
Ond, wedi ei roi i ddinistr, iddo ef
A'i hil 'does mwy ond marw.

* *Paradise Lost*, Book II. 402—408.

“Whom shall we find
Sufficient? Who shall tempt with wandering feet
The dark, unbottomed, infinite Abyss,
And through the palpable obscure find out
His uncouth way? Or spread his aery flight,
Upborne with indefatigable wings
Over the vast abyss?”

† Yr un, II. 420—422.

“But all sat mute,
Pondering the danger with deep thoughts, and each
In other's countenance read his own dismay.”

Cyfiawnder neu efe raid farw, onid oes
Ryw un yn abl, ewyllysgar, dâl yr iawn,
A marw yn ei le."*

Gofyn yntau a oes rhywun yn y nefoedd ai'n farwol, i achub
yr anghyfiawn, a oes yn y nefoedd gariad mor ryfedd ag a wnai
hynny.

"Gofynnodd. A'r holl nefol gôr ai'n fud,
A'r nef yn ddistaw; ar ran dyn
Nid oedd eiriolwr; ac ni feiddiai neb
Fynd dan y baich, a marw'n iawn."†

Yr oedd y glorian ar droi, a thynged dyn ar gael ei selio'n
dragywydd pan gododd un o fysg y llu, yn harddach na thoriad
y wawr,—

"Wele ff! Fy hunan yn ei le,
A'm bywyd am ei fywyd ef,—O cymer fi.
Dy lid disgynned arnaf fi; a chymer fi yn ddyn."‡

Dyna dduwinyddiaeth yr hwn oedd yn codi ei lais am i bob
un gael rhyddid i addoli Duw fel y mynnai, ac i wasanaethu
dynion yn ol y gallu roddwyd iddo. Credodd Milton
Milton a rhyfel. mewn ymladd dros y gwirionedd a thros rhyddid; nis
gall neb wrando ar ei lais heddyw heb deimlo, fel y
teimlir wrth swm y clarion neu'r udgorn, ryw barodrwydd i
ryfel. Rhyfel sydd trwy ei weithiau i gyd,—ail adrodd hanes
brwydrau'r New Model, a chynghorau rhyfel Cromwell, y mae
drwy *Goll Gwynfa*. Ond, er hynny, cashai ryfel er ei fwyn ei
hun. Gwnaeth Duw y sanctaidd yn bechod drosom; gwna ddyn,
a'i holl hiraeth am heddwch, yn barod i ryfel yn ysbryd yr un
aberth. Ceir aml olygfa gan Milton lle danghosir fel y dug
rhyfel erchylldra dros wyneb gwlad fu'n llawn o brydferthwch
a chyfaneddrrwydd gynt; dengys Hugh Peters neu Richard
Baxter, pregethwyr cyfiawnder gwalltwyn yn codi ymysg y llu.||

* "So, losing all,
To expiate his treason hath naught left,
But, to destruction sacred and devote,
He with his whole posterity must die;
Die he or Justice must; unless for him
Some other, able, and as willing, pay
The rigid satisfaction, death for death."—
Paradise Lost, Book III. 206—212.

† "He asked, and all the heavenly quire stood mute,
And silence was in heaven; on man's behalf
Patron or intercessor none appeared—
Much less that durst upon his own head draw
The deadly forfeiture, and ransom set."—Yr un, 217—221.

‡ "Behold me then; me for him, life for life,
I offer; on me let thine anger fall;
Account me man."—Yr un, 236—238.

|| *Megis yn Llyfr XI. 638—680.*


Ond heddwch sydd wrth ei fodd. Na chamddealler ef,—
 aberth yw ymwregysu i ymladd wrth raid, ac nid dymun-
 iant.

Pan ymddanghosodd *Coll Gwynfa* yn 1666, yr oedd y rhyfel
 wedi mynd yn erbyn Milton. Ffoadur am ei fywyd, ei arwr
 wedi ei godi o'i fedd a'i dafu i'r domen, efe ei hun yn
^{Cwrmp y}
^{Paritan.} ddall ac yn wawd tyrfaoedd bloesg gan feddwod a
 llygad-glwyfus gan anlladrwydd,—nis gellid cael
 cywirach darlun o drueni ac o fethiant. Ond y mae rhyw
 fawredd yn ei hiraeth am y goleuni sy'n gwneyd holl fawredd
 yr Adferiad brenhinol,—ei lysoedd disglær, ei lenyddiaeth
 rwsygfawr, a'i adeiladau gorwychion,—megis dim.* Pa le mae
 Siarl yr Ail a'i gynlluniau bychain cyfrwys heddyw? Pa le
 mae'r llenor oedd yn tybied ei fod yn byw yn oes aur y byd, ac
 yn ysgrifennu meddyliau amhur yr ymddigrifai dynion ynddynt
 byth? Pa le mae'r esgob geisiodd dâl am anfarwoli teimlad
 crefyddol Siarl y Cyntaf trwy dwyll? Pa le mae'r Presbyter-
 iad fu'n condemnio y rhai y bu Milton yn eu hamddiffyn? Y
 maent oll bron wedi cilio i fro distawrwydd hollol, bodau marw
 hanes ydynt oll erbyn hyn. Murmur pell, rhan o furmur mil-
 iynau o drychfilod, yw eu lleisiau hwy. Ond am lais John
 Milton, dyma lais yn clirio ac yn grymuso fel y mae terfyngylch
 y dyfodol yn ymehangu i roi lle iddo. Pan fydd rhyddid y
 meddwl mewn perygl, pan gynhygio rhywun ddweyd nas gellir
 mynd at Dduw ond trwy gyfrwng offeiriad, cyfyd llais Milton i
 dorri ar bob heddwch ac i chwyddo'n uwch na phob ystorom.
 Ni ddistewir ei lais byth.

Er colli'r frwydr, ni cholodd y fydd. Cred fod Duw'n
 gweithio, a fod meddwl dyn yn cydweithio âg ef.
^{Fydd Milton.} Anadla hyn drwy ei ddau waith mawr diweddaf,
Paradise Regained a *Samson Agonistes*. Cân y côr
 ar ddiwedd hanes ymdrechion Samson brofiad Milton ei hun,—

“Pob peth yn dda. Er aml iawn 'r amheuwn ni
 Anolrheinadwy ffordd Doethineb Duw,
 Beth yw y bwriad mawr, y diwedd clir
 A ddengys mai y cynllun goreu yw.
 Mae'i wyneb Ef yn aml fel pe'n gudd,
 Ond daw yn aml, anisgwyladwy ras,
 A gogoneddus lwydd i'w filwr Ef,
 Galara Gaza, a phawb sy'n eu byddino hwy
 Yn erbyn bwriad anorchfygol nef.
 Gollynga'i wasanaethwyr oll yn rhydd
 O'r ymdrech fawr, o brofiad oll yn llawn,


* Gweler er esiampl ei gyfarchiad i'r goleuni ar ddechreu Llyfr III., lle y cyf-
 eiria at ei ddallineb ei hun,—“Hawddamor santaidd oleu,” &c.




ent hwy,
iawn."

heddyw? Dywedir yn dod gyda diwedd y mae meddwl ym seidd fel pe bai grol yn pryderu mewn t'r sacrament iddo yn tae gwaith y Pab yn wedi tafu llawer un i wedi rhoddi ei hyder hwy'n maddeuant. Y t'r anfyddiaeth sy'n fleg honno yr oedd y rheol symudiadau y t'r Eidal wedi ymrydd- ch ofn Duw. Yn ein nod, trwy foddion cel- ch byth i synhwyrau t'r yn agor o'i flaen o a pharchedig ofn yn bryd i ni wrando ar ach nac erioed, mai'r nod at Dduw; dywed yn dynion, y rhydd y goliaethau.

58.





3-1520.)

wthyn ei dad mewn
 sgu dweyd enw Mair.
 gol Sul ac ar yr ael-
 fel y Beibl, yw ei
 a'r cwbl ŵyr yw'r
 fam i'r Iesu. Ond,
 w flodyn beunydd i
 waith ym meddwl ei
 birglawdd islaw, y mae
 llaw, mae "gwaltt y
 fod yn bell, y mae
 yn yr ardd.

Un o'r pethau rhyfeddaf yn hanes meddwl gorllewin Ewrob yw addoli Mair. Nid oes rith o sail iddo yn y Beibl, ni cheir ef cyn i Gristionogaeth fore ddirywio. Ond rhyfeddol fuan fu ymlediad yr addoli yma pan ddechreuodd, rhoddodd wedd newydd hollol ar Gristionogaeth, magodd y cymeriadau hynawsaf a mwyaf parod i aberthu dros ddynolryw, creodd arluniaeth nas gwelodd y byd ei thebyg. Addoli gwraig bur ac addoli "mam y Duwdod" ar yr un pryd, yn yr un un,—dyna nod dychymyg llenyddiaeth a nod dychymyg duwinyddiaeth wedi ymdoddi i'w gilydd. Cyfunwyd tlysnir ddaear a mawredd y nefoedd yn syniad y canol oesoedd am dani hi. Ac y mae'r Beibl wedi gadael digon o le gwag i dychymyg ddynol ei lenwi; ychydig sydd yno am Fair ond ei chân, proffwydoliaeth am ei phryder, ei gofal mam, a rhoddi ei gofal i Ioan ar y groes. Nid oes yno air am hanes ei hieuentyd; nid oes yno sill am le nac amser ei marw. Ac fel y ffurfiwyd Blodeuwedd yn y Mabinogion o ddail y dderwen a blodau'r banadl a blodau anemoni'r coed, felly y ffurfiwyd Mair y canol oesoedd o fawredd duwies, tlysnir gwryf, a phurdeb man.

Nid llenyddiaeth yn unig a'i piau. Y mae gan dduwinyddiaeth ran ynddi hefyd. Pan ddechreuwyd deffinio gwirioneddau'r efengyl, a rhoddi i lawr mewn credo beth oedd i synio am Dduw, y mae'n ddiameu fod llawer yn graddol teimlo fod Duw megis pe wedi cilio ymhellach oddiwrthynt. Clywent son am y gwirioneddau rhyfedd ynglŷn â phersonau'r Drindod, a dechreuasant golli golwg ar y syniad syml am Dduw fel tad, a dechreuasant golli golwg ar ddynoliaeth yr Iesu a'i gydymdeimlad. Hiraethent am rywun agosach atynt, am rywun eiriolai ger bron personau'r Duwdod ar eu rhan. A phwy mor debyg o wneyd hynny a mam yr hwn a wnaethpwyd yn gnawd, ac a gafodd allweddau uffern a marwolaeth?

Y cam cyntaf at addoliad oedd credu yng ngwryfodod dihalog Mair. Tybiwyd fod y Sanctaidd a anwyd o honi hi wedi ei sancteiddio hithau hefyd. Cododd dychymyg hi uwchlaw teimladau dynol, hyd yn oed rhai dibechod. Yn y Beibl nid oes awgrym am hyn. Gallm feddwl fod iddi blant o Joseff,—brodyr yr Iesu; a'm dychymyg i yw ei gweled gyda'i phlant, brodyr ieuainc yr Iesu, yn parhau yn gytun mewn ymbil a gweddi gyda'r disgyblion a'r gwragedd, wedi i'r cwmwl dderbyn yr Iesu o'u golwg hwynt.

Am agos i dair canrif ymfoddlonodd yr eglwys uniawngred ar yr ychydig fanylion rydd y Beibl am Fair. Bu dadleu brwd rhwng y Cristionogion bore a'u difenwyr am enedigaeth yr Iesu. Daliai'r Ebioniad mai Joseff oedd tad yr Iesu; ac yr

Mair
dychymyg.

Mair crefydd.

Y gwryfodod
dihalog.

oedd gelynyon Cristionogaeth yn dychmygu anfri ar Fair. Ac yn eu sel dros burdeb Mair, deffrôdd dychymyg rhai o'i hamddiffynwyr, ac ychwanegasant lawer at eiriau syml yr efengylwyr. A graddol ymddadblygodd athrawiaeth yr *deiwapŵerla*,—fod Mair wedi aros yn wryf ddihalog ar ol geni'r Iesu.

Mewn llyfr a gyfrifwyd yn heresi y cawn yr athrawiaeth hon gyntaf, yn y *Protevangelium Jacobi*, ysgrifennwyd yn yr ail ganrif. Condemniwyd y llyfr gan yr eglwys uniawn-gred, a cheir ei enw yn y rhestr gyntaf o lyfrau hereticaidd gyhoeddwyd gan y pab. Y mae dechreu

Mebud Mair. digon tlws i'r hanes,—hadau prydferth y cynhauaf toreithiog o dychmygion y bu ysgrifbin a phwyntel mor ddiwyd yn eu darlunio wedi hyn. Yr oedd rhyw Ioachim, ebe'r hanes, yn fugail defaid ger Ierusalem, ac un o lwyth Juda oedd efe. A gofid mawr ei fywyd oedd nad oedd iddo ef a'i wraig blentyn. A thaer fu gweddi Ioachim. Ac wele, ymddanghosodd angel i Ioachim ac i Anna ei wraig ar wahan, i hysbysu iddynt y genid merch i Anna. A galwyd yr eneth Mair. Nid rhyfedd i'r angel raghysbysu ei genedigaeth, oherwydd yr oedd ei natur hi'n grefyddol uwchlaw natur plentyn. O'i thrydedd i'w deuddegfed flwyddyn bu fyw yn y deml "fel pe buasai golomen, a chai fwyd yno o law angel." Ond ni wyddai neb ryfeddod ei hanes,—yr oedd morwyn i esgor ar fab, ac i aros yn bur yn ol eithaf cyfiawnder cyfraith Moses.

Ymhen canrif wedyn y mae tadau'r eglwys yn gweled fod hanes Mair yn ennill tir, ac y maent yn hanner gredu eu hunain.

Ond rhydd Clemens o Alexandria ryw air fel "dywed rhai" pan yn adrodd darnau o'r hanes.

Cyngor Chalcedon. Erbyn y bedwaredd ganrif y mae "dywed rhai" y ganrif flaenorol wedi diflannu; a chredai pawb yng ngwryfyddod Mair wedi geni'r Iesu. Dywed Ambrosius fod proffwydoliaeth am y gwryfyddod hwn yn yr Hen Destament, sef hanes porth y dwyrain, neu borth y tywysog, yn llyfr y proffwyd Ezekiel.* A saith mlynedd cyn marw Ambrosius yn 378, condemniwyd Bonosus o Sardica gan synod Capua fel heretic am wrthod credu athrawiaeth y gwryfyddod. Yr oedd Ierom yn credu mwy hyd yn oed nag Ambrosius; a cheisiodd brofi fod Joseff hefyd yn wryfol, ac mai plant i ryw Fair arall oedd "brodyr yr Iesu." Ac yng Nghyngor Chalcedon yn 415 gwnawd fod Mair Forwyn yn *dei papŵerlos* ("fyth yn wryfol") yn rhan o ffydd yr eglwys gatholig. Ni fu amheuaeth ar y pwnc yn Eglwys Rhufain byth; a dywed rhai fod gwryfyddod Mair yn rhan o gred Eglwys Loegr, gan fod Llyfr yr Homiliau

* Ezek. xlv. 1.

yn argymhell ufudd-dod i benderfyniadau'r pedwar Cyngor cyn-
taf. Ymhell cyn y chweched ganrif, pan gasglwyd y cyfreith-
iau gan y deddfroddwr Justinian, yr oedd addoli Mair Forwyn
wedi dod yn rhan o fywyd cyffredin y byd; rhoddodd Justinian
ei henw ar allor Eglwys St. Sophia yng Nghaercystenyn, ac y
mae'n amlwg oddiwrth y cyfreithiau fod offrymu i Fair yn beth
cyffredin iawn.

Nid rhyfedd fod llawer wedi dechreu gofyn beth oedd per-
thynas Mair a'r Duwdod, gan fod addoli y naill fel y llall. Yr
oedd duwinyddion Alexandria wedi defnyddio'r enw
Mair "mam
Duw." *θεοτόκος* ("mam Duw") am dani yn y drydedd ganrif;
ac erbyn y bedwaredd ganrif defnyddid y gair gan
Athanasius a phawb. Nis gallai gair fel hyn beidio rhoi i Fair
ryw natur hanner dwyfol; credai'r difeddwl ei bod yn dduwies,
cuddiai'r duwinydd ei greddo mewn amllder geiriau parch ac
edmygedd. "Yr unig bont rhwng Duw a dyn" yw gair Proclus
am dani yng Nghaercystenyn tua diwedd y bumed ganrif. Ac
ebe Cyril, esgob Alexandria, wrth bregethu ar ddechreu Cyngor
Ephesus yn 431,— "Y fam a'r wryf trwy'r hon y gogoneddir ac
yr addolir y Drindod, yr anrhydeddir ac y dyrchefir croes y
Gwarddwr, trwy yr hon y ca'r nefoedd fuddugoliaeth, y llawen-
heir angylion, y gyrrir ysbrydion drwg ymaith, y gorchfygir y
temtiwr, ac y codir dynion syrthiedig i fyny i'r nef."

Yn fuan iawn daeth i gymeryd lle'r Iesu fel eiriolydd.
Dywedai'r hanes, oedd yn ymhelaethu o hyd oherwydd fod fydd
ymofyngar yn disgwyl am ychwaneg, fod Mair wedi
Mair yn eiriol. gweddi ar y Mab am iddo roddi pob peth ofynnai
neb yn ei henw hi, a'i fod yntau wedi ateb y weddi
honno. Gwaith y Cristionogion bore oedd profi i'r byd fod yr
Iesu, yr hwn a groeshoeliasid,—yn wir Dduw; gwaith cynghor-
au'r canrifoedd cyntaf oedd dangos ei le yn y Duwdod. A
chymerrodd y natur ddynol afael ar Mair, oherwydd ei bod hi'n
aros yn ddynol o hyd. Ac nid y fam mewn pryder am ei
phlentyn neu'r wryf mewn ofn am ei bywyd, nid y rhain yn
unig ai at Fair i ofyn am ei heiriolaeth; ati hi yr ai deddf-
roddwyr fel Justinian a milwyr fel Narses. Yn y bedwaredd
ganrif, croes yr Iesu wél Cystenyn yn ei arwain i fuddugoliaeth.
Erbyn y chweched ganrif enw'r Forwyn sydd ar faner Heraclius;
ei llun hi welodd dychymyg Prydain ar darian Arthur; hi, yn
nhynerwch ei chalon, helpodd y Llundeinwyr i orch-
fygu llongau'r môr-ladron oedd yn ymosod arnynt.
Mair y milwr. Pan rhuthrodd y barbariaid i'r ymherodraeth Rufeinig,
a phan orchfygwyd hwy gan Gristionogaeth, apeliai addoli Mair
yn rymus at eu calonnau hanner eilun-addolgar hwy. Ac yn
Gregorius Turonensis, hanesydd y Ffranciaid, tua diwedd y

diwedd yr adroddwyd
Pan oedd y disgyblion
goruwchnaturiol o'u
r hanes.

i holl wledydd cred, a
gredo pelleroedd y
unig oedd yn ancr yn
yfr yr Ancr,"* ar arch
rahaearn, o'r Cantref

(367-1455.)

wyfieithedig ereill, y mae
ffug lythyr y dywedir
Laodicea, i adrodd yr
Ioan, ebe'r darn hwn
Iesu, "canys ei hun a
ir, ar ol y croeshoeliad,
od yn aros, pan oedd yr

gan y Clarendon Press dan
ys. Ni wyddant ddim am yr
dydd yn ewythr i Ifor Hael,

apostolion ar wasgar yn pregethu, yn nhŷ un o'i rhieni ger Mynydd yr Olewydd. A'r ail flwyddyn wedi esgyn o Grist i oruchelder y nef, wele angel yn dod ger bron Mair, ac yn estyn cangen o balmwydd iddi, gan ddweyd fod honno i'w chludo o flaen ei helor, gan ei bod i farw ym mhen y tri diwrnod. A dymunodd Mair ar i holl apostolion ei Harglwydd fod gyda hi pan fyddai ei henaid yn ehedeg ymaith. Yr oedd Ioan yn pregethu yn Ephesus, pan dorrodd taran wrth ei ben, a chipiwyd ef i fyny i wybren wen, a chafodd ei hun o flaen drws y tŷ lle yr oedd Mair. Dywedodd Mair neges yr angel iddo; ac wele'r holl apostolion yn dod yno, wedi eu dwyn o bedryfannoedd byd lle yr oeddynt yn pregethu,—a Phaul yn eu mysg, newydd gredu. Cadw cyfarfod gweddi oedd eu gwaith cyntaf. Galwodd Pedr ar Baul i ddechreu y cyfarfod. Ond dywedodd Paul mai Pedr, fel y cyntaf o'r apostolion, oedd i ddechreu y cyfarfod; a hyfryd i'r lleill oedd ei ostyngaidrwydd. A phenderfynwyd mai efe oedd i gael diweddu'r cyfarfod.

A phan ddaeth adeg ymadawiad Mair, wele'r Iesu'n dyfod i mewn yn ddisymwth, a lluosawgrwydd o angylion gydag ef, gan ddywedyd,—

“Tangnefedd iwch, frodyr.”

“Boed arnom dy drugaredd, Arglwydd,” ebe hwy, “megis y gobeithiasom ei fod.”

“Coffa fi, Arglwydd frenin,” gweddiai Mair. “Gogonedd dy enw a fo moladwy, gyda'r Tad a'r Yspryd Glân, yn preswyllo yn un teilyngdod. Mi a weddiaf oni wrandawech lef dy lawforwyn, fel na ddaw i'm herbyn neb ryw feddiant diafol, ac na welwyf ysbrydoedd y tywyllwch yn fy nghyfarfod, ac na welwyf dywysog y tywyllwch.”

“Pan oeddwn i,” ebe'r Arglwydd, “yn dioddef poenau angau chwerw dros fywyd yr holl fyd, fe ddaeth tywysog y tywyllwch ataf fi; a phan na chafodd ynnof ddim ol ei weithred ef, ymaith yr aeth yn orchfygedig sathredig.”

Addawodd yr Iesu fod gyda hi. Ac yna y gwelai yr apostolion ei henaid, mor gannaid fel na allai neb rhyw ddydd marwol ddadganu â'i dafod ei theced. Tecach oedd nag a fu erioed o eira na metel nac arian nac aur yn tywynnu o ddirfawr eglurder. Ac wedi dweyd wrth yr apostolion am gladdu ei chorff mewn mynwent newydd, aeth yr Iesu i'r nef gydag enaid ei fam.

Wrth adrodd hanes y claddu, y mae ysgrifennydd y *Transitus Mariae* yn rhoi yng ngenau Pedr ddadleuon addolwyr Mair yn ei ddyddiau ef ei hun. Nid oedd eisiau golchi'r corff; ac ni allai neb gan ei ddisgleirdeb. Yna cymerodd lliw blodau'r lili ac arogl hynaws le'r disgleirdeb. Bu Pedr ac Ioan yn ceisio perswadio eu gilydd i gludo'r gangen balmwydd o'i blaen; a darbwyllyd

Ioan i gymeryd yr anrhydedd. Ac aethant,—Ioan yn cario'r gangen, Pedr a Phaul yn cludo'r elor, a'r holl apostolion yn canu. A daeth coron o gwmwl gwyn, fel y gwynder fydd o amgylch y lleuad, o amgylch yr elor; ac yr oedd llu o angylion o'i gwmpas yn canu canuau teg.

Pwy welodd yr orymdaith hon ond tywysog yr offeiriaid. A phan ddeallodd mai elor mam yr Iesu oedd yno, aeth yn lliidiog i geisio ei dymchwelyd. Ond glynodd ei law wrthi, a llusgwyd ef ar ei hol. Dychryanodd yn ddirfawr, ac erfyniodd ar Bedr drugarhau wrtho, gan ei adgofio ei fod ef wedi cymeryd ei blaidd yn erbyn y forwynig honno yn y llys. Yn gyntaf peth gwnaeth Pedr iddo addef gwirionedd yr hyn a bregethai'r apostolion; a daeth ei ddwyllaw yn rhydd wedi iddo ddweyd,—

“Mi a gredaf i Fab Duw, yr hwn a ddug hon yn ei bru.”

Ond yr oedd ei freichiau'n ddiffwrwyth wedyn, a gwnaeth Pedr iddo gyfaddef gwirionedd dadleuon canrifoedd wedi ei farw. Ac aeth yr archoffeiriad rhagddo,—

“Ac a fu er hynny wryf wedi esgor fel cyn esgor.”

A mwy na'r cwbl, dyma gyfle i wneyd i'r awdurdod uchaf ar ddysgeidiaeth yr Hen Destament ddadgan fod yno broffwydoliaeth am y gwryfydod, a rhoddir dadl Ambrosius yn ei enau.* Pan gladdwyd Mair, daeth yr Iesu at y bedd, a gofynnodd y disgylion iddo fynd a'i fam i'r nef. Ac ebe yntau, wedi i'r archangel Gabriel droi'r maen oddiar y bedd,—


“Fy nghymdeithas a'm cyfnasaf a'm colomen, gorffwysfa y gogoniant, llestr y fuchedd, teml nefol, cyfod i fyny. Canys megis na chytunaist âg halogrwydd pechod, ni ddioddefi dithau yn deilwng dy gorff yn y bedd.”

Ac felly yn y *Transitus Mariae*, gyfieithwyd i'r Gymraeg dan yr enw “Y modd yd aeth Meir i nef,” rhoddir dadleuon mynachod ofergoelus y ddegfed ganrif yng ngenau yr apostolion, ie yng ngenau'r Iesu ei hun. Ac unwaith, mae'n ddiameu, bu bugeiliaid Plinlimon ac amaethwyr ochrau Cors Goch Glan Teifi, yn gwrando ar hanes Mair yn mynd i'r nef, a chyda chymaint o ffydd ag sydd heddyw yn yr efengyl yn Llangeitho neu Soar y Mynydd.



Gyda'i gwryfydod dihalog, a'i pherthynas agos â'r Duwdod, y mae Mair wedi dod yn dduwies; y mae wedi dod yn eiriolydd rhwng Duw a dynion, ac iddi hi mewn gwirionedd y codai addoliad mwyaf brwd y byd. Nid rhyfedd, felly, fod ei haddolwyr wedi myned gam ymhellach wedyn, ac wedi haeru ei bod, nid yn unig yn sanctaidd wedi geni'r Iesu, ond yn ddihalog ac yn ddibechod erioed; nid oedd

Athrawiaeth
feiddgar.

* “A dwynn tystolyaeth aoruc y Veir o lyuyr hendedyf ar y bot hi ynn demyl y Duw.” *The Elucidarium*, Jones a Rhys, tud. 83.




yn pechod, nid oedd of
 idol iawn y dadblyg-
 yr awydd am addoli
 rai gael rheswm na
conceptio immaculata.
 er cymaint eu parch
 fawr oesoedd boreu
 diol,—a oedd pawb
 nad oedd Adda ond
 yn gwneyd peth



id.
 Adda wedi gwneyd
 hyn dywedodd eiriau
 r fwyddyn 410,—sef
 air yn bechadures, er
 hae'n berffaith amlwg,
 niadau, nad oedd yn
 wedi cwmpo yn Adda.

propter honorem Domini,
 quaestionem."—*De Nat. et*

bed ganrif, a phreg-
 demniodd Bernard,
 ; a dywedodd nas
 heb brofi fod ei
 Adda hefyd. Yn
 ceir gwadiad pen-



(188—1530).
 nesaf, y bedwaredd
 nus, Bonaventura,
 anio'r athrawiaeth.
 oedd ceidwaid yr

athrawiaeth, yn eu mysg hwy yr oedd y duwinyddion,—yn ffyrnig yn ei herbyn. Ond yr oedd y Ffrancisciaid,—
Y Dominiciaid
 a'r Ffrancisciaid. cydymgeiswyr y Dominiciaid am ffafwr Duw a rhoddion dynion,—yn graddol nesu at yr athrawiaeth fod Mair yn ddibechod. Un rheswm am hyn, mae'n ddiameu, oedd fod y Dominiciaid yn credu fel arall. Ffordd bynnag, rhoddasant Wyl y Beichiogiad Dihallog ymysg eu gwyliau, ond heb ddadgan yn bendant eu bod yn credu ym mherffeithrwydd Mair. Rheswm arall oedd eu hawydd am fawrhau Mair, ac am wneyd un edrychent arni fel Mam Cydymdeimlad yn wir dduwies. Astudiant hwy lai ar y Beibl hefyd, nid oeddylnt mor hoff o dduwinyddiaeth lem awdurdodol y tadau; gwell oedd ganddynt dir darganfyddiadau gwyddonol, rhyfeddodau natur, a hoff lwybrau dychymyg y bardd. Ac yr oedd eu cydymdeimlad â'r natur ddynol,—ddanghosir ym mwynder eu duwinyddiaeth a thrylwyredd eu hastudiaeth feddygol,—yn dangos mor hawdd y troid hwy yn addolwyr eithafol Mair. Erbyn y bedwaredd ganrif, y mae Duns Scotus yn graddol gredu'r athrawiaeth y bu'r byd yn blysiog i chredu cyhyd, ond yn ofni nad oedd rhithyn o sail. Dilynwyd ef gan yr urdd Ffrancisciaid, a rhoddwyd holl boblogrwydd y rhain o blaid yr athrawiaeth newydd am Fair. Er gwaethaf y Dominiciaid enillwyd yr eglwys i greu, ac hyd yn oed y pab ei hun. Ond y pab oedd yr olaf yn Eglwys Rhufain i greu fod Mair yn ddibechod, ac yr oedd ef yn fyw o fewn fy nghof i.

Penderfynodd Eglwys Rhufain, mor bell ag y cynrychiolid hi yng Nghyngor Basel yn 1439, ar wawr y Diwygiad Protestanaidd, fod y gred am natur ddibechod Mair yn gyson
Cyngor Basel,
 1439. â ffydd, rheswm, a'r ysgrythrau, ac y dylid ei derbyn fel rhan o gredo'r duwiol. Cododd dadleu brwd trwy Ewrop ym mhob mynachdy a phrifysgol, a gwelodd y pab na fedrai neb benderfynu pa blaid oedd y gryfaf. Yn 1483 cyhoeddodd Sixtus IV. nad oedd yr athrawiaeth wedi penderfynu arni, a gwnaeth ei oreu i gadw'r heddwch rhwng y pleidiau dig.

Yn rhu bygythiol ystorm fwy y Diwygiad Protestanaidd, distawodd y cythrwfi am ennyd. Ond pan ddaeth y Jesuitiaid i geisio dadwneyd gwaith y Diwygiad, credasant yn
Y Pab a'r
 Jesuitiaid. athrawiaeth y *conceptio immaculata*, oherwydd ei bod yn athrawiaeth debyg o fod yn boblogaidd bob amser, ac oherwydd ei bod yn athrawiaeth brydferth na feddai'r Protestaniaid mohoni. Darbwyllo'r pabau i greu oedd eu gwaith hwy; a rhwng Clemens IX. a Gregorius XVI. yn rhywle, hwy a lwyddasant. Ond yr oedd y pab yn ofni eto. O'r diwedd penderfynodd Pius IX.,— Pio Nono ieuencid llawer

o honom,—ddwyn y ddadl i derfyn. Anfonodd at ei holl esgobion am gyfarwyddyd. Ac ar yr wythfed dydd o *Ineffabilis Deus*, 1854, yng nghanol cynhadledd o gardinaliaid ac archesgobion ac esgobion, cyhoeddodd yr *Ineffabilis Deus*,—y ddeddf sy'n dadgan fod Mair erioed yn ddibechod, fod hyn yn erthygl ffydd y credadyn, a fod ei wadu'n heresi.

Felly, o ddyddiau'r apostolion hyd ein dyddiau ni, y mae addoli Mair wedi dadblygu hyd nes y gellir edrych arni'n awr megys duwies ymysg personau'r Duwdod.

Pa fodd yr esbonnir addoli Mair? Rhyfedd a chyflym fu ei dwf. Erbyn yr unfed ganrif ar ddeg y mae Mair wedi dod yn dduwies; trwy'r canol oesoedd yr oedd ei haddoli yn rhan mor hanfodol o grefydd a gwirioneddau'r efengyl. Ac yr oedd hynny'n bod er fod yn rhaid ei haddoli yn groes i ddysgeidiaeth eglur yr efengylwyr a'r apostolion, er fod ei haddoli yn hollol anghyson â gwirioneddau sylfaenol duwinyddiaeth a osodasid i lawr gan y tadau. A chyn y medrwn esbonio yr addoliad rhyfedd yma, rhaid cymeryd i ystyriaeth gnawdolrwydd meddwl y byd a'i ysbrydolrwydd, y duedd at addoli eilunod a'r hiraeth am Dduw.

Y rheswm cyntaf dros i'r byd addoli Mair oedd dyfnder ei hiraeth am ei lu o hen dduwiesau. Peth newydd i'r byd oedd addoli un Duw. Syniad yr anialwch, syniad unigedd y mynyddoedd oedd hwnnw; ac anhawdd iawn oedd i filoedd Alexandria a Chaercystenyn ddygymod ag ef.

A daeth yr hen dduwiau a'r hen offrymwyr yn ol ar lun seintiau ac offeriaid. Nid oedd dirgeledigaethau'r Drindod yn ddigon o faes i ddychymyg byd fu unwaith yn llawn o dduwiau. Hiraethai yn enwedig am ei dduwiesau; ac yn yr ail ganrif cawn sect o ferched yn rhoi Mair yn lle gwag Ceres, duwies y cynhauf a llawnder, ac yn offrymu teisenau iddi. Erbyn y bedwaredd ganrif, rhoddid delwau Mair yn lleoedd gweigion delwau'r hen dduwiesau, a daeth rhyw ddychymyg am Fair yn dduwies pob ardal. Dechreuwyd cysegru eglwysi iddi cyn hir hefyd, fel y cysegrid temlau i'r hen dduwiau, a llawer Llanfair sydd erbyn heddyw yn y byd.

Achos arall cynnydd addoliad Mair oedd y syniad mynachaid am briodas. Eglwys y canol oesoedd sydd wedi rhoddi i'r byd ei syniadau am natur priodas, a thrwy ymdrech galed y gwnaeth hynny.* Peth tymhorol yn unig oedd priodas cyn hynny, nid oedd a fynno yr eglwys ddim â sancteiddio'r fodrwy. Torrid y briodas ar ychydig iawn o beth, ac ychydig gyfiawnder a gai'r wraig yn aml.

² Camdrell ystyr purdeb.

* Pollock and Maitland, *History of English Law*, Vol. II. pp. 362—396.

Ond, wedi hynny, tuedd yr ysbryd mynachaidd oedd tuag at gondemnio priodas yn gyfangwbl. Dywedai mai gwell oedd priodi nag ymlosgi, ac yna graddol gredodd mai oherwydd gwendid y cnawd y cyfreithlonid priodas. Yr oedd y syniad hwn ar ei gryfaf adeg geni mynachaeth y gorllewin. Yr oedd y byd mor ddrwg rhwng y chweched ganrif a diwedd y ddegfed fel y tybiodd llawer mai'r unig ffordd i fywyd tragwyddol oedd ymgadw o'i gyfeillach yn rhywle yn eigion yr anialwch. Yr oedd bywyd anllad dirywiedig y talaethau Rhufeinig wedi ymgyfuno â bywyd garw bwystfllaidd barbariaid oedd yn ymdywallt drwy adwyau muriau'r ymherodraeth. Yr oedd y duedd i gondemnio priodas ar ei chryfaf yn amser Gregori Fawr. I'w feddwl ef yr oedd hyd yn oed priodas yn ychwaneg na gwendid,—yr oedd yn ymylu ar bechod, yn oruchafiaeth y cnawd ar yr ysbryd. Yr oedd ei eiddigedd yn erbyn priodassu clerigwyr mor gryf fel y credid fod gwaelod ei bysgod-lynnoedd wedi ei balmantu â phenglogau eu plant. Ac erbyn yr unfed ganrif ar ddeg yr oedd priodas clerigwyr wedi ei gwahardd gan y pabau,—gorfodid hwy i adael eu "gordderch-wragedd."

I gredo fel hyn, yr oedd gwryfod Mair yn ddadl ac yn nerth. Trodd mynachod y nawfed ganrif dduwinyddiaeth bron yn athrawiaeth am Fair. Neges y Benedictiaid
Mynachaeth. oedd dysgu'r byd i fod yn ddihalog oddiwrth y cnawd megis Mair. A phan ddaeth y Cisterciaid ar eu holau,—i fynyddoedd Cymru ymysg lleoedd ereill, i Ystrad Fflur, Tintern, Cwm Hir, a'r Fanner,—yr oeddynt dan nawdd neillduol y Fendigaid Fair. Hwyl ddaeth a llysiâu a ffirwythau newyddion i'r wlad. gan eu galw ar enw'r Forwyn; hwy roddodd enw llawer o'n blodau gwylltion o'r newydd ar ei henw hi.

Os oedd camsyniad fel hyn am y natur ddynol yn un achos addoli Mair, yr oedd camsyniad am natur Duw yn achos arall.

I'r Cristionogion boreu, rhai wedi arfer â mân dduwiau ynnysoedd a phenrhynnoedd Môr y Canoldir, peth newydd a dieithr oedd Duw'r anialwch y daeth yr Iddew i ddweyd y gwir am dano, a'r Sarasen yr anwir. Ond yr oedd yr Iesu, y Duw wnaethpwyd yn gnawd ac a ail orseddwyd ar orsedd y nef, yn fwy dealladwy iddynt. Ac o'i amgylch ef,—y dirgelwch am ei berson, a rhyfeddodau'r iawn,—yr ymdrodd y byd am ganrifoedd. Ond wrth ddod yn fater duwinyddiaeth oedd yn ymehangu o hyd, aeth Crist hefyd ymhellach oddiwrth y byd. Rhoddid mwy o bwys ar ei dduw-dod, ac anaml y gwelai'r byd ef mwy yn ŵr gofidus a chynefin â dolur. Yn lle'r swper syml i gofio am farw'r Arglwydd, ni welai'r Cristion ond defod fawrwych yr offeren, ac offeiriaid mewn gwisgoedd rhyfedd yn canu mewn iaith ddieithr. Ac

3. Camddeall
 natur Duw.

felly pellhaodd yr Iesu oddiwrtho, ac nid ai ato mwy pan yn ffinderog ac yn llwythog.

Ond yr oedd Mair, mam yr Iesu, yn ddynol eto. Oni eiriolai hi ar ei Mab? A dechreuwyd codi llef ati gan bawb oedd mewn cyfyngder. Ni fedrai duwinyddion yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif feiddio credu fod Mair yn ddibechod, ond hoffent osod ymadroddion eithafol megis offrwm ger ei bron. Dywedai Peter Damiami, arwr y mynachod, ei bod wedi ei dwyfoli. "Codwyd hi i orsedd Duw," meddai, ac nid yw hynny ond adlais gwan o ymadroddion ereill ddeuai o'i enau, "a rhoddwyd hi ar sedd y Duwdod ei hun." Yr oedd gan bawb ei hoff frawddeg am dani,—"Mam Trugaredd" oedd i Odo abad Clugni. Dechreuodd ymddangos hefyd, yn enwedig i ferched. Gwelai'r fynaches Hildegard hi'n aml tua chanol y ddeuddegfed ganrif, fel "Brenhines y Nefoedd," a chredid dadguddiaethau'r fynaches wallgof fel pe buasant adnodau o efengyl Ioan. A graddol bellhaodd Mair hefyd; daeth yn dduwies i'w haddoli, ac nid yn fam yn pryderu am ei mab. Daeth yn hollalluog; nid eiriol a wnai yn y nefoedd, ond gorchymyn. Fel yr oedd y Sul yn gysegredig i Dduw, yr oedd y Sadwrn yn gysegredig i Fair; a chyhoeddai'r Cisterciaid ar ochrau Plinlimon ac yn nyffryn Gwy eu bod hwy dan ei nodded arbennig; a haerai'r Carmeliaid, a'u gwyneb pres, fod Mair, bob Sadwrn, yn achub pawb fuasai farw yng ngwisg eu hurdd hwy yn ystod yr wythnos cynt.

Gydag adfywiad dysg, ac ail eni'r celfau cain, yn y bymthegfed ganrif, dygwyd Mair yn agosach at deimladau dynol ryw drachefn gan yr arlunwyr. Rhoddodd holl arlunwyr mawr Adfywiad Dysg, yn neheudir Ewrob, eu hathrylith i wasanaeth y Madonna,—yr Arglwyddes. Rhoddodd Ysgol Fflorens ei harddull fawreddog yn offrwm iddi,—purdeb aruchel Fra Angelico, mawredd dihafal Michael Angelo, y prydferthwch fedrai Andrea del Sarto roddi mewn gwynebau, a hyfrydwch y gwynebau ddarluniai Carlo Dolce pan oedd yr Ysgol ryfedd hon yn ennill tlyzni wrth golli ei nerth. Yr un modd cafodd Mair wasanaeth Ysgol Rhufain,—y mawredd hwnnw a gafodd Raffael wrth astudio cerf ddelwau'r hen amseroedd, y prydferthwch welodd Sassoferrato ym merched ei oes ac yng ngwaith anfarwol Raffael. Ond cafodd Mair wasanaeth dychymyg mwy daiarol na dychymyg Michael Angelo a Raffael. Rhoddwyd ysblander lliwiau Ysgol Fenis yn wisg iddi hi; a phrin y gŵyr yr Eidaliad, wel y cnawd fel pe'n gwrido gan gynhesrwydd ar ganfas Titian heddyw, prun ai Mair ai duwies pleser ddarlunnir. Darluniwyd Mair gan Ysgol Lombardi, o

4. Swyn y celfau cain.

Corregio i Guido Reni, yn ei holl brydferthwch hudol ac yn hyfrydwch ei chymysg liwiau. Ac yn yr Hispaen, pan ddaeth lliwiau tanbaid a thlysi swynol Murillo ar ol Velasquez, wrth ddarlunio Mair y gwnawd y gwaith ardderchog. Felly crewyd rhyw Fair newydd bron ym mhob ardal gan ddychymyg yr arlunwyr mwyaf welodd y byd. Ac os gwelid dysgedigion pennaf a dynion duwiolaf y byd yn penlinio mewn addoliad o flaen ei darluniau, beth am y werin anwybodus ac ofergoelus?

Cododd gwrthwynebiad i addoli Mair o ddau gyfeiriad. Gwelwyd, yn un peth, fod y syniad yn gwneyd cam â'r natur ddynol. Gwelwyd mai nid wrth ymgadw o'r byd y Gwrthwynebiad. gwnai dyn duwiol ei ddyledswydd tuag ato, ond wrth ymdafu iddo i'w wella. Gwelwyd mai nid lleiandy, ond y cartref pur, oedd ffynhonnell iechyd y byd. Nid dianc i garchar lleiandy oedd dyledswydd y wryf, ond ymbarotoi at ddyledswyddau bywyd. A theimlwyd Yr Urddau Cardod. mai anrhydeddus ym mhawb oedd priodas. Gwelodd yr Urddau Cardod hyn; ac yr oedd y Ffrancisciaid, tra'n dal i addoli Mair yn fwy aiddgar na neb, yn ceisio dysgu'r byd ei bod yn gwenu ar briodas bur. Ond y prif ddiwygwyr oedd y beirdd. Yn Lloegr, gwraig briod bur fel llygad y dydd yw bod perffeithiaf Chaucer. Ac yng Nghymru, y Y Beirdd. mae llawer o ganeuon serch Dafydd ab Gwilym yn ddull eithafol o ddweyd yr un gwirionedd,—mai nid pechod, fel y dywedai'r mynachod, oedd cariad pur rhwng mab a merch.

Os gwelodd y beirdd fod athrawiaeth addoli Mair yn gwneyd cam â'u syniadau am y natur ddynol, gwelodd y Diwygwyr Y Diwygwyr. Protestanaidd ei bod yn gwneyd cam â geiriau'r Beibl ac â'u syniadau am Dduw. Gyda'r Diwygiad Protestanaidd diorseddwyd Mair fel duwies yng ngwledydd gogleddol Ewrob. Dioddefiadau'r Iesu, manylion bywyd dyn,—dyna hoff destynau'r arlunwyr. Mair yn pryderu am ei mab fel mam arall, nid Mair yn eiriol yn y nef,—dyna le Mair gan y pregethwyr. A dygwyd yr Iesu'n ol, heb neb rhwng enaid y credadyn ag ef.

Wedi colli gwledydd gogledd Ewrob o gymundeb eglwys Rhufain, cafodd addoli Mair lai o wrthwynebiad a mwy o le. A phe craffet, ddarlennydd, ar fywyd a chredo genethig yn yr Iwerddon neu yn Llydaw neu yn yr Eidal neu'r Hispaen, gwelet le mor fawr sydd eto i Fair dychymyg y canol oesoedd, ac mor ychydig i Fair yr efengylau, ym mywyd y byd.


Nid i gondemnio addoli Mair, ac nid i'w gyfiawnhau, yr wyf

yn ysgrifennu'r erthygl hon. Ysgrythyrol neu anysgrhythrol, gwir neu gau, er da neu er drwg, y mae Mair wedi denu addoliad a gwasanaeth athrylith rhan helaeth o'r byd am oesoedd lawer. I roi cipolwg ar y lle gafodd ym meddwl Cymru, dyma restr o flodau a llysiau elwir ar ei henw,—

Gwlydd Mair—*Pimpernel*.
 Dagrau Mair } —*Cowslip, Paigle*.
 Briallu Mair }
 Eirin Mair—*Gooseberries*.
 Yanoden Mair—*English Galingale*.
 Tapr Mair—*Great Mullein*.
 Allweddau Mair—*Ashe-keys*.
 Mwyar Mair—*Deuberry*.
 Clustog Mair—*Thrift*.
 Bynedd Mair—*Lady's Fingers*.
 Esgid Mair—*Lady's Slipper*.
 Tafol Mair—*Sharp Dock*.
 Bogail y Forwyn—*Common Navel Wort*.
 Ysgaw Mair—*Dwarf Elder*.
 Meddyg Mair—*Ploughman's Spikenard*.
 Llysiau Mair—*Common Bugle*.
 Mantell Mair—*Lady's Mantle*.
 Celyn Mair—*Butcher's Broom*.
 Ysgol Mair—*Common Centaury*.
 Claes Mair—*Wild Clary*.
 Eurwallt y Forwyn—*Common Hair Moss*.
 Chwys Mair—*Bulbous Crowfoot*.
 Cribau Mair—*Milk Thistle*.
 Geulin y Forwyn—*Bastard Toad-flax*.
 Helyg Mair—*Sweet Gale*.
 Gwallt y Forwyn—*Common Maidenhair*.
 Gold Mair—*Marigold*.
 Llin y Forwyn—*Common Toad-flax*.
 Llaeth Bron Mair—*Common Lungwort*.

Rhaid cyfaddef fod addoli Mair, er croesed yw i'r Beibl ac i ysbryd Protestaniaeth, wedi bod yn gymorth mawr i buro ac i ddyrchafu meddwl y byd. Ymdrech fawr ysbryd gwareiddiad yn y Canol Oesoedd oedd gwneyd cyfiawnder â gwraig,—ei chodi uwchlaw bod yn gaethwas neu'n degan. Nid oedd deddfau priodas ond llac, yr oedd y gwan at drugaredd y bwystfilaidd. I wella'r byd yn hyn o beth, bu'r Forwyn Fair ddychmygol honno'n ddylanwad nas gellir ei orbriso. Gwnawd hi'n dduwies, hyhi oedd yn eiriol dros bechadur, yn ei ffafr hi yn unig bron yr oedd nefoedd i un wedi haeddu uffern. Ac wrth fod hon yn nodydd neillduol y fam a'r wraig, nid rhyfedd fod deddf priodas a rhyddfreniad merch wedi cael cynhorthwy rhyfeddol oddiwrth ei dylanwad. Os oedd gwaig ar orseddfa'r nef,—oni allai gwraig hefyd fod yn frenhines ddaearol, ac oni ddylai lywodraethu ar yr aelwyd gartref?


Bu'r athrawiaeth am wryfydod Mair yn gynorthwy i ddangos prydfferthwch a phurdeb dihalog y forwynig hefyd. Teimlai




ymdeimlad, y Forwyn
 efoedd arni o hyd. Ac
 yn uwch yng ngolwg
 y Gymraes sy'n cael
 ach na chyfeiliornwn
 yddol yn rhoi mwy o
 hon, na'r gwledydd

edi nerthu llawer mam
 ntyn drwy angau, oni
 A gwelaist, ond odid,
 glin, a Mair,—“mam
 aid yn llawn cydym-

ymdeimlad, cred mewn
 roddodd fod i addoli
 edi colli'r ffordd sy'n
 ach, pa ŵr am ei wraig,
 yr addoli hwn?



(1.)



gyddir fel cyfrwng
tange ys dywed yr
gyfrwng,—aur ac
ymysg cenedloedd
o bethau ereill yn
bethau eto mewn
cregin. Yn yr hen
artheg, ac weithiau
al o ddefaid, tair mil
at o asenod, llawer o
yfoeth y mwyaf o
oreu feddu'r nod-
i weithio a'i dorri;
dreulio; rhaid iddo
ddir symiau enfawr
nad yw'n rhy brin
mhob man; a rhaid
arno ei hun, ac nid
nad.
preu; y mae gormod
mae aur, ond rhoi
iawn ei weithio a'i
y mae bywyd hwy
n, y mae'r cyfnewid-
lawnder yn raddol
at pa un bynnag a
yn y wlad hon, aur
gwerth dyn, mewn
efnyddid fwyaf yng
roddwn ni i gyfrwng
w dull y gofyn pan
bethau dymunol sydd

Gan mai aur yw ein "Harian" ym Mhrydain felly, beth yw lle priodol arian a phres? Nid ydynt yn ddim ond darnau newid. Buasai'n anhwylyd rhannu hanner sofran yn ddarnau manach, gan mor hawdd fuasai eu colli.

*Perthynas arian
a phres ag aur.*

Felly cymerir metel llai gwerthfawr, arian a phres, i gynrychioli gwahanol raniadau sofran,—swllt o arian yn cynrychioli un ran o ugain ohoni, ceiniog o bres yn cynrychioli un ran o ddeuddeng ugain. Felly nis gellir gorfodi neb i gymeryd mwy na gwerth dwybunt o arian yn dâl dyled, na mwy na rhyw ychydig o bres, gan mai aur, ac aur yn unig, yw safon tâl a chyfrwng masnach. Y mae hanes am fachgenyn ysgol drygionus yn mynd a thwr anferth o ffyrllingod i dalu dirwy o bumpunt, er mwyn dial ar ei athraw drwy roddi iddo'r dasg o'u cyfrif; ond cymer yr ystori'n ganiataol fod yr athraw'n llai gwybodus nag y dylasai athraw fod.

Cytunir gan bawb yn y wlad hon i dderbyn sylltau neu geiniogau fel newid, er mwyn hyrwyddo masnach a setlo mân fargeinion. Ond gwyr pawb nad yw'r arian sydd mewn swllt yn werth un ran o ugain o sofran; pe toddid ugain swllt yn lwmp o arian, ni cheid sofran am dano, nac yn agos. Er hynny defnyddir y swllt fel cynrychiolydd ugeinfed ran o sofran. Yn awr, tra y mae rhai gwledydd yn cymeryd aur fel eu safon, cymer ereill arian. Aur yw hen safon Prydain; ac yn ddiweddar cymerodd yr Almaen, yr Eidal, Ffrainc, ac Unol Daleithiau'r Amerig aur yn safon hefyd. Ond mewn ambell wlad, megis India, y mae arian yn safon eto. Ac oherwydd fod safonau gwahanol fel hyn, y mae dau gri adnabyddus wedi codi ym marchnad Arian,—y cri am fimetaliaeth yn y wlad hon ac am rydd-fathiad arian yn yr Unol Dalaethau.

Y mae'n debyg mai un rheswm am y cri am fimetaliaeth yn y wlad hon yw'r cysylltiad rhyngom a'r India. Yno y *rupee* arian yw cyfrwng masnach. Ond, yn ddiweddar, mae pris arian wedi disgyn yn isel ryfeddol. Un rheswm am hyn yw fod y cloddfeydd arian yn llawer mwy cynhyrchiol na'r cloddfeydd aur. Y mae llawer swyddog yn yr India'n awr a'i gyflog wedi ei bennu pan oedd y *rupee*'n werth un ran o bump o sofran, ond nid yw'n awr yn werth llawer mwy nag un ran o ugain ohoni. Pan ddaw yr Indiaid a'i arian i Loegr, felly, i'w droi'n aur, ni cha ond rhyw bedwaredd ran o'r hyn a gai gynt. A dyna ydyw bimetaliaeth,—gwneyd arian yn ogystal ag aur yn safon talu; rhoi arian ac aur ar yr un tir yn union, a phenderfynu rhyw gafartaledd rhyngddynt trwy gyfraith. Cefnogir yr Indiaid gan lawer o dirfeddianwyr y wlad hon hefyd, oherwydd gwelant y codai prisiau pe teflid arian yn ogystal ac aur i'r farchnad Arian.

Bimetaliaeth.

Tuag 1870 y cymerodd yr Almaen a'r Eidal a Ffrainc a'r Unol Daleithiau aur yn safon yn lle arian. Y canlyniad oedd fod galw am filiynau o bunnau o aur yn ychwanegol, at gario masnach y byd ymlaen; ac oherwydd hynny, cododd pris aur yn ddirfawr. Am yr un rheswm, yr

*Rhydd-fathlad
arian.*

oedd llai o alw am arian bathedig, a'r canlyniad fu toddi llawer ohono a'i weithio'n llestri ac addurniadau. Oherwydd hyn, y mae pris arian yn isel; ni fu llestri arian erioed mor rhad. Ychydig amser yn ol gwerthid llestri arian Madryn mewn arwerthdy yn Llundain ar adeg wael iawn at gael pris am danynt hwy. Gyda'i masnach gynhyddol, y mae'n anodd iawn i'r Unol Daleithiau gael digon o aur i fod yn gyfrwng. A thra'r wyf yn ysgrifennu y mae cwestiwn yr aur a'r arian wedi dyrysu pleidiau'r Unol Daleithiau'n hollol. Nid Democratiaid a Gwerinwyr, nid cefnogwyr masnach rydd a chefnogwyr diffyddol, sydd yn ymladd brwydr mor galed yno yn awr, dan waeddi enwau Bryan neu McKinley, ond rhai am ryddfathu arian a rhai am gadw'n dyn at yr hen safon aur. Perygl masnach y

Disyg aur.

byd yw methu cael digon o aur i fod yn gyfrwng masnach, gan fod maes masnach yn ymhelaethu o o hyd, a chenhedloedd anwaraidd yn graddol ddod yn genhedloedd masnachol. Y mae cloddfeydd aur Awstralia a Chalifornia wedi mynd yn hesb rhagor y buont, ac y mae y rhyfelodd diweddar yn Neheudir Affrica wedi siomi gobeithion llawer ddisgwyliasant am ffrwd newydd o aur toddadwy o'r rhan honno o'r byd. Rhoddir dau gysur i'r rhai sy'n ofni ofnau fel hyn. Yn un peth, dywedir fod digonedd o aur yn y byd, ond ei fod yn ronynau mor fân fel na thâl am falurio'r creigiau *quartz* y mae ynddynt hyd nes y cwyd pris aur dipyn eto. Yna, fe ddywedir, malurir creigiau Meirionnydd, a daw ohonynt ddigon o aur i wneyd olwynion masnach y byd. Cysur arall roddir i'r rhai sy'n ofni y bydd masnach yn sefyll o eisieu aur yw hyn,—fel y dysg dynion roi ymddiried yn eu gilydd, cymerant nodau eu gilydd fel aur, ac ni fydd eisiau'r aur ei hun. Gwneir hynny i raddau pell yn awr. Gall Ariandy Lloegr argraffu hynny a fynno o arian-nodau, os bydd ganddo aur yn ei goffrau ar gyfer pob un; a medd amryw ariandai

Arian-nodau.

lleol,—pob un argraffai nodau cyn 1844,—hawl i argraffu nifer benodol. Nid oes raid i neb gymeryd y nodau banc hyn, gall hawlio aur; ond cymer y nodau oherwydd eu bod yn hawdd eu cario, ac oherwydd ei fod yn gwbl hyderus fod aur yn yr ariandy yn gyfnewid am danynt pryd bynnag y dewiso fynd a hwy yno. Yn wir, nis gall neb wrthod cymeryd ei dalu mewn nodau Ariandy Lloegr,—ond yn yr Ariandy ei hun, gall hawlio aur yno.

Ac heblaw nodau banc, y mae'r wlad yn awr yn llawn o law-nodau (*cheques*). Y mae'r rhain o'r un natur yn union a nodau banc; yr unig wahaniaeth ydyw mai un dyn, ac nid Nodau. cwmni ariandy, sydd wrth eu cefnau. Y mae y rhain i gyd,—nodau banc, llaw-nodau, nodau'r Llythyrdy,— yn esmwyth-hau gwaith yr aur, ac yn gadael iddo orwedd yn llonydd neu ymdrawsffurfio'n addurniadau. Pan gollir ymddiried yn y nodau, rhaid i'r aur gael ei doddi'n sofrud, a dod i wneyd ei hen waith. Ond hyn sydd i'w gofio,—y mae'r nodau hyn, oherwydd eu bod yn medru cymeryd lle aur, yn peri fod llai o alw am y metel hwnnw, ac oherwydd hynny yn gostwng ei bris.

Un o'r pethau mwyaf dyddorol, i'r meddwl hoff o ddyrys lwybrau, yw ceisio deall y berthynas rhwng cyfnewidiadau pris Arian a chyfnewidiadau masnach. Y mae'n rhyfedd Trofon Aur. meddwl y medrasai rhyw ynfytn, trwy ddarganfod mynydd o aur yn rhywle, dafu masnach yr holl fyd i ddyrswch trwy dywallt gormodedd o aur i'r farchnad. Beth a wneir i atal cyfnewidiadau sydyn ym mhris Arian? Beth a wneir i wared masnach rhag twymyn codiad rhy sydyn prisiau, a rhag fferddd gostyngiad rhy sydyn? Dywed un o athronwyr mwyaf hirben yr oes hon mai cyfnewidiadau sydyn prisiau yw'r achos fod miloedd o ddynion yn cael eu tafu o waith yn barhaus; oni fedrir trefnu rhywbeth i wneyd prisiau'n fwy sefydlog?

Yr wyf yn llwyr gredu mai un o anghenion mwyaf Cymru ar hyn o bryd,—yn enwedig meistriaid a gweithwyr mwyaf deallgar ein chwareli a'n glofeydd,—yw gwybodaeth fwy Eisiau adnabod deddfau. trylwyr am y deddfau sy'n llywodraethu masnach y byd. Bu llawer brenin yn ceisio gwrthsefyll y deddfau hyn trwy ddeddfau o'i waith ei hun,—bu aml feistr llafur ac aml undeb gweithwyr yn ymladd yn ofer yn eu herbyn. Ond y mae deddfau mawrion, a'r gwirionedd am danynt yn syml iawn, ac yn ofer y ceisia neb atal eu gweithrediad am funud awr. Ceisiaf roddi cipolwg ar rai ohonynt drwy ddangos y benbleth y bu dynion ynddo ar wahanol adegau oherwydd nad oeddynt yn eu deall, neu oherwydd eu bod yn ceisio tynnu yn eu herbyn. Y mae anhawsterau pwnc yr Arian yn fater doe ac yfory, yn ogystal ag yn fater heddyw.

Un ymadrodd glywn yn aml yn y dyddiau hyn yw "holl-alluogrwydd Arian." Clywir y gair, yn enwedig yn yr Amerig,— "the almighty dollar,"—oherwydd nad oes yno eto deitlau ac

urddau i gydymgais ag Arian am addoliad. A phan gofiwn beth all Arian wneyd, ni ryfeddwn at yr enw,—gall ^{(Gallu Arian.} brynnu cysuron, gall euro pechod, gall ennill hanner addoliad y dienaidd ofergoelus, gall roi mantais i ddringo i sefyllfaoedd uchel yn y wladwriaeth, gall deyrnasu ar rannau hyd yn oed o diriogaethau iechyd a rhinwedd.

A phan welwn y gwrhydri wnaeth Arian yn y gorffennol, ni ryfeddwn lai at ei allu. A chofiwn ei fod wedi ei oruwchlywodraethu i wneyd daioni ac i ehangu teyrnas ^{Da a drwg.} Dduw,—gwnaeth lawer i falurio gorthrwm cymdeithasol yr hen oesoedd. Ein tuedd ni yw edrych ar y drwg a wna yn unig. Pan welodd Lord Lytton lun y sant yn lladd y ddraig ar sofron Prydain,—“Newidiwch y darlun,” ebai, “nid y sant yn lladd y ddraig yw gweddus arwydd aur, ond y ddraig yn lladd y sant.”

Arian ddenodd wŷr allan o gaethwasiaeth yr hen fyd. Fil o flynyddoedd yn ol,—ac nid yw mil o flynyddoedd ond megis amrantiad o’u cydmaru a llu diderfyn yr oesoedd ^{Dadysylfaennu caethiwed.} meithion,—yr oedd y rhan fwyaf o drigolion Prydain mewn caethwasiaeth dygn. Yn ol cyfraith yr oedd deiliaid maenor at ewyllys ei feistr,—nis gallai feddu eiddo, nis gallai apelio at neb yn erbyn ei feistr, ni chai briodi heb ganiatad ei feistr, nid oedd yr un eiliad o’i amser yn eiddo iddo ei hun, ac ni wyddai yn y nos beth fyddai raid iddo wneyd bore drannoeth. Yr oedd pob peth yr oedd arno angen am dano yn y faenor ei hun, oddigerth haiarn a halen a meini melin; ac nid oedd debyg yr ymryddhai’r deiliad o’r bywyd cyfyngedig hwn byth. Ond daeth Arian i ryddhau’r caeth o law’r cadarn. Pan amlhaodd llongau masnach, daeth danteithion newyddion i’r wlad, ac yr oedd ar yr arglwyddi awydd am danynt. A phan ddaeth brwdfrydedd anesboniadwy’r Croesgadau, aeth yr arglwyddi’n lluoedd gyda’r fyddin fawr i ymladd â’r digred oedd yn halogi bedd ^{Rhyddid y gweithiwr.} gwag y Gwarddwr; ac am y lleill arhosodd gartref, yr oedd arnynt hwy awydd y nwyddau newyddion,—arfau, dillad gwychion, addurniadau, peraroglau, a pherlysiâu,—ddygai’r marsiandwyr o wledydd y dwyrain. Y canlyniad fu i Arian ddod i mewn yn gyfrwng rhwng arglwydd a gwas. Gynt yr oedd holl fywyd a holl amser y gwas at alwad ei arglwydd; ond, yn awr, er mwyn cael arian i fynd i’r Croesgadau, neu i brynnu nwyddau y dwyreinfyd, cymerai’r arglwydd arian yn lle’r gwasanaeth amhenodol, a gadawai i’r gwas fynd i’r fan a fynnai i’w hennill. Felly rhoddwyd pris penodol ar wasanaeth y gwas, ac felly rhoddwyd modd iddo brynnu ei ryddhad. Felly, dan nawdd Arian, daeth y gweithiwr rhydd i

fod, a hawl i fynd a'i lafur i'w werthu yn y farchnad a fynnai.*

Trwy nerth Arian y daeth yr amaethwr yn rhydd hefyd. Yr oedd yntau'n gaeth ar dir y faenor. Bob yn dipyn cafodd ryw ran o'r tir dan ei ofal neillduol ei hun; ac yn lle

Rhyddid yr
amaethydd.

gweithio yng nghynhauaf ei arglwydd, deuai a swm penodol o wenith iddo. A dyna ffurf cyntaf rhent. O dipyn i beth yr oedd ar yr arglwydd fwy o angen arian na gwenith, gan eu bod yn haws eu cario ymhell, ac yn haws eu gwario. Felly, yn lle talu ei rent mewn cynnyrch, dechreuodd y deiliad dalu mewn "arian gwynion." Yr oedd yr arian yn dod yn rhatach ac yn fwy cyffredin o hyd, ond yr oedd y rhent wedi ei rhoddi pan yr oedd arian gwynion yn brinion iawn. Ac nid oedd yr arglwyddi eto wedi dysgu sut i "godi yn y rhent."†

Daeth Arian fel gwaed newydd i gylchredeg drwy gymdeithas y canol oesoedd. Dygodd fywyd newydd i bawb. Torrwyd yr hen gaerau diobaith oedd yn cadw bywyd breintiedig

Bywyd newydd.

y dosbarth rhydd oddiwrth fywyd di-fraint y caethwas. Trowd yn anwiredd hen ddywediad o'r un ystyr a'r dywediad celwyddog hwnnw,—“Y neb a aned i dair ceiniog, ni chyfyd i rôl.” Agorodd Arian ffordd i'r isel radd i ffyny; oherwydd yr oedd yn bosibl, o hyn allan, ddweyd gwerth llafur ac ysbryd anturiaethus a medr yn yr un termau a gwerth tir,—sef hyn a hyn o Arian.

Nid rhyfedd, pan ystyriwn allu Arian, y casheir yr echwynwyr a'i meddant gan rai na feddant ond tir. Rhowch ddosbarth o bobl yn meddu arian yn unig, a dosbarth o bobl yn

Tir ac Arian.

meddu tir yn unig, gyda'u gilydd yn yr un wlad,—y canlyniad fydd i'r tir hefyd fynd yn feddiant i bobl yr arian. Y mae arian mor sefydlog yn ei werth, ac

* Nid dyma'r lle i adrodd hanes ymdrech llafur. Pan welodd arglwyddi fod y llafurwyr yn dod yn rhydd, ceisiasant dynhau eu cadwynau ar unwaith. Difawyd hanner y gweithwyr gan blâu mawr y bedwaredd ganrif ar ddeg; a medrai'r gweddill, oherwydd prinder llafurwyr, hawlio'r cyflog a fynnent. Ceisiodd yr arglwyddi eu llusgo'n ol i'w hen gaethiwed drwy'r Ystatudau Llafur. Ond, er i'w gwrthryfel gael ei lethu, enillodd y llafurwyr y dydd yn y diwedd. Olion hen orthrwm llafur oedd cyfraith y tlodion a chyfraith yn erbyn undebau gweithwyr ddechreu'r ganrif hon. Amcan cyfraith y tlodion oedd rhwymo'r gweithiwr wrth y tir,—ei rwystro i symud, ac ychwanegu at ei gyflog o'r trethi.

† Desgrifir hanes y tir yn fanylach eto, gan law arall. Ond yr wyf wedi rhoddi gwir hanes dechreuad rhent. Esbonnir rhent fel arall gan Ricardo, sef fel hyn. Y mae rhyw lain o dir, dyweder, nad yw ond prin yn talu costau ei hamaethu. Ni fedr dalu rhent, dim ond ei chostau. Rhent unrhyw ddarn o dir yw gwerth y ffrwythlonder sydd ynddo uwchlaw ffrwythlonder y lain o dir gwael hwnnw. Ond rhywbeth i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng rhenti gwahanol diroedd yw damcaniaeth Ricardo, ac nid esboniad ar ddechreuad rhent. Y mae'n gadael llawer o bethau heb eu cyfrif hefyd; tâl gwr rent am lain anial iawn os bydd yn hen gartref iddo, a chymer aml hen arglwydd rent fechan am dir bras gan un fydd yn addoli ac yn pleidleisio wrth ei fodd.

yn ymddangos yn fwy sefydlog nag ydyw, y mae'n werthadwy ac yn brynadwy ar bob amgylchiad, gellir ei gadw heb golled a'i gludo heb anhawsder,—ond ar ol ei amser ac afrosgo ei symudiadau fyddai un yn ceisio bargeinio a masnachu heb ganddo ddim ond tir, a hwnnw at drugaredd tymhorau celyd, rhyfeloedd anrheithiol, a chyfreithiau tynion. Nid rhyfedd fod tynfa'r uchelgeisiol a'r mentrus o hyd o fyd y tir i fyd yr arian; nid rhyfedd fod yr awchus am ffortiwn yn gadael bywyd araf amaethyddiaeth ac yn rhuthro i'r Gyfnewidfa Arian.

Gallu Arian sy'n rhoi i'r Iddewon eu dylanwad a'u cyfoeth; ac oherwydd hynny eu casheir. Daethant i Loegr yn yr unfed ganrif ar ddeg, ac yr oedd gallu eu harian yn prysur ddwyn y barwniaid mwyaf nerthol yn ysglyfaeth iddynt. Ofnid eu gallu mor fawr fel y gorfododd y bobl i'r brenin Edward,—gorchfygwr Llywelyn,—eu halltudio yn 1290. Erbyn iddynt ddod yn ol yn amser Oliver Cromwell, yr oedd arianwyr ereill yn Lloegr; a gwelwyd nad oedd yr Iddew yn drech na'r Sais pan fyddai Arian yn arf yn llaw y naill fel y llall. Ond yn llawer o wledydd y Cyfandir, yr Iddew yn unig sydd yn medru ysgwyd teyrnwialen Arian. Yn Poland, er esiampl, y mae'r gwladwyr, gorff ac enaid bron, wedi syrthio i ddwyllaw'r Iddew. Temtir y Pwyliad a dillad, dodrefn, gwin; a chan nad oes ganddo arian i dalu, disgyn yr Iddew ar ei dir a'i gartref, ac erys yno gydag ef i sugno gwaed ei fywyd. A dyna wlad wedi ei gwneyd yn dlawd dan deyrnwialen Arian yn llaw y cyfrwys didrugaredd.

Yr wyt yn cofio, ddarlennydd, fod Disraeli wedi dod ag ynys Cyprus yn rhyw fath o wystl i'r goron Brydeinig wedi Cytundeb Berlin. Oherwydd iddo anghofio am ennyd beth

Galla'r
benthydw.

yw gallu aruthrol Arian, ni fu ond y dim i'r treth-gasglydd Prydeinig ddwyn yr ynys honno i'r un cyflwr anedwydd a Pholand. Byddai pobl Cyprus yn talu eu trethi i'r Twrc mewn cnwd,—hyn a hyn o wenith, o rawnwin, o ffrwythau. Ac ai'r treth-gasglydd Tyrcaidd a hwy i farchnad y cai arian yn eu lle. Ond yr oedd y treth-gasglydd Prydeinig yn meddwl fod arian yn gyfrwng arferol ymhob man; a gwnai ef i bobl Cyprus dalu iddo mewn arian glân. Gwnaeth hyn Lywodraeth Prydain yn amhoblogaidd iawn yn yr ynys, ond tybid nad oedd achos ond anfodogrwydd pobl geidwadol i dderbyn dull gwell. Ond gwelwyd cyn hir fod yr amaethwyr yn suddo'n ddyfnach i ddwyllaw yr echwynwyr arian Groegaidd. Yr oedd yn rhaid cael yr arian i dalu'r dreth; gofynnai'r Groegwr y pris a fynnai am eu benthyg, a disgynnai ar yr amaethwr ar dymor o'r flwyddyn nad oedd fawr o werth ar ei dyddyn, ac ai'r tir yn hollol gaeth i'r meistr newydd,—Arian. Aeth y perygl yn

gymaint fel y gorfodwyd Llywodraeth Prydain i droi'n ol at yr hen ddull Tyrcaidd; ac yn awr tál pobl Cyprus eu trethi, nid mewn arian, ond mewn gwenith a gwin fel o'r blaen.

Camgymeriad oesoedd yw credu fod gwerth pob nwydd arall yn newid, ond fod gwerth Arian, safon pob peth, yn aros yr un.

Y mae'r camgymeriad hwn wrth wraidd credo gwyr Safon a nwydd. wnaeth gymaint dros fasnach a Harri'r Seithfed, Oliver Cromwell, Colbert, a Frederick William. Yn wir, tybia llawer gwleidyddwr heddyw fod gwerth Arian yn aros yr un o hyd, oherwydd rhyw werth cynhennid di-newid yn yr aur, neu oherwydd fod stamp y Llywodraeth yn ei gadw o'r un gwerth o hyd. Gadewch i ni weled yn eglur fod gwerth Arian yn newid,—er gwaethaf Llywodraeth a phopeth,—fel gwerth rhyw nwydd arall. Oherwydd y mae'n nwydd ac yn safon ar yr un pryd.

Pan fo gwerth Arian yn isel, y mae prisiau'n uchel; pan fo gwerth Arian yn uchel, y mae prisiau'n isel. Dyna wirionedd syml iawn; ond gad imi gredu, ddarlennnydd hynaws, Prisiau ac Arian. dy fod yn llawer mwy dwl nag ydwyf, a fod eisiau esbonio. Os bydd ychydig mewn cydmariaeth o sofrud yn y wlad, bydd ymgeisio mawr am danynt, wrth mai hwy yw cyfrwng masnach. Felly cwyd eu pris,—hynny ydyw, y mae pobl yn barod i roi ychwaneg o wenith neu ryw nwyddau ereill am danynt. Felly, pan fo arian yn ddrud, y mae prisiau'n isel; pan fo digon o arian yn y farchnad, y mae prisiau'n uchel. Pan fydd prisiau'n isel iawn, y mae llawer o nwyddau yn y farchnad neu ychydig o arian yn y wlad, neu'r ddau. Pan fydd prisiau'n uchel y mae cyflawnder o arian yn y wlad, neu ychydig o nwyddau, neu'r ddau. Y ffordd hawddaf yw meddwl am holl nwyddau marchnatol y byd yn un cyfanswm, ac am Arian yn un cyfanswm arall; rhaid i'r naill fod gyda'i gilydd yn werth y llall gyda'i gilydd; felly pan fydd llai o un ohonynt bydd yn werth y llall i gyd fel o'r blaen. Os bydd ychydig o arian yn y byd, felly, bydd prisiau'r nwyddau ereill,—hynny ydyw, eu gwerth mewn arian,—yn isel; os bydd llawer o arian, rhaid cael mwy o hono am nwyddau, hynny ydyw, aiff prisiau'n uchel. Y peth i'w gofio ydyw, ynte, fod y safon, sef Arian, yn amrywio mewn gwerth. Nid yw llawer o aur yn ychwanegiad mor fawr ag y tybia llawer at gyfoeth gwlad, ond y mae'n hwylusdod i fasnach, ac y mae prisiau uchel yn rhoi ynni newydd yn y marsiandwyr.

Cyfnod pwysig yn hanes masnach ac arian yn Lloegr oedd cyfnod y Tuduriaid,—y brenhinoedd a'r brenhinesau osododd

syfaeni ein llwyddiant cenhedlaethol, ein dull o reoli ac ufuddhau, ein heglwys a'n hanghydffurfiaeth, a'n dull
 Y Tuduriaid. o reoli masnach hyd yn ddiweddar iawn. Wedi anrhefn a difrod, wedi dinistr masnach yn Rhyfel-oedd y Rhosynau, daeth Harri'r Seithfed, a'i nod ar adferu heddwch a llwyddiant. Penderfynodd roddi heddwch i'r wlad, beth bynnag a gollid mewn gogoniant drwy hynny, er mwyn dadblygu ei hadnoddau masnachol. Tybiodd pobl ei oes mai i ddoethineb ei wladlywiaeth fasnachol ef yr oeddis i briodoli'r dyddiau enraidd wawriodd, yn y blynyddau hynny, ar yr amaethwr a'r llafurwr. Tybiai Bacon, athronydd y ganrif, fod Harri'r Seithfed yn un o ddeddfroddwyr mwyaf llygadgraff y byd; ac ni fedrai neb esbonio paham y dechreuodd y byd waethygu tra'r oedd y Tuduriaid yn ceisio cadw llwybr masnach fel y tybient hwy y dylai fod.

Y gwir ydyw, yr oedd camgymeriad am natur Arian wrth wraidd holl dwf deddfau trafndiaeth y Tuduriaid. Yr oedd y teyrn galluocaf ohonynt megis plentyn yn codi mur o
 Camgymeriad Mercantiliaeth. dywod i wynebu llanw'r môr; gwnaent eu deddfau bychain i reoli masnach am ennyd, ond buan y dadwneid eu holl waith gan dreigliad deddfau mawr naturiol masnach y byd. Camgymerent natur bargaen; tybient, os enillai un ochr, fod yn rhaid fod y llall yn colli; ni welsant mai natur bargaen wirioneddol yw fod y ddwy ochr ar eu hennill. Ond y rheswm am bob camgymeriad oedd,—camgymerent natur Arian. Tybient fod gan aur werth safadwy ynddo ei hun, ac nad oedd ei bris yn codi ac yn gostwng, fel pris pob nwydd arall, fel y codai neu y gostyngai'r cyflenwad.

Oherwydd y camgymeriad hwn, amcan eu deddfau masnachol oedd gwneyd i fwy o aur ddod i'r wlad nag a elai allan o honi.

Os byddai mwy o aur yn y wlad ar ddiwedd y
 Balance of Trade. flwyddyn nag oedd ar ddiwedd y flwyddyn o'i blaen, ystyriant fod y wlad yn llwyddo, a fod "mantol masnach" yn troi o'i thu. Ond os byddai llai o aur mewn gwlad ar ddiwedd blwyddyn nag oedd ar ddiwedd blwyddyn o'r blaen, ystyrrid fod masnach yn gwaethygu, fod rhywbeth wedi amharu'r glorian, ac y dylid ail droi'r fantol trwy ddeddf.

A llawer deddf wnawd i'r amcan hwnnw. A dyna oedd nod Mercantiliaeth,—ymyrryd â chwrs naturiol masnach er mwyn amddiffyn masnachwyr a gwneuthurwyr brodorol, a
 Troi'r fantol trwy ddeddf. sicrhau cyflenwad cynhyddol o aur yn y wlad, Gwneid hynny drwy lawer ffordd. Y ffordd fwyaf syml oedd deddfu nad oedd yr un darn o aur i fynd allan o'r deynas. Tybid y gellid felly wneyd i'r masnachydd tramor fynd a gwerth ei nwyddau ef o nwyddau'r wlad hon i farch-

nadoedd ei wlad ei hun. Yr oedd deddf fel hyn mewn grym pan ddaeth Erasmus i'r wlad hon i ennill arian i fynd i ysgolion yr Eidal; cymerwyd ei arian oddiarno gan swyddogion y brenin wrth iddo groesi'r môr adre'n ol. Dro arall deddfid fod yn rhaid i fasnachwyr tramor gymeryd nwyddau'r wlad hon fel tâl am o leiaf hanner eu nwyddau hwy. Ond hoff ddull y brenhinoedd oedd cefnogi allforiaeth ar ran eu masnachwyr eu hunain, a chondemnio prynnu pob nwyddau dieithr oddigerth defnydd amrwd. "Gwerthwch gymaint a alloch, na phrynnwch ddim ond aur,"—dyna gyngor a gorchymyn y brenhinoedd i'w masnachwyr. A phan welent fod rhyw olud heblaw aur yn dod i'r wlad, ymyrrent fwyfwy; rhoent wobrau (*bounties*) am allforio, condemnent bawb ddygai nwyddau tramor i'w gwerthu yn y wlad hon. Gwlad yn graig o aur fuasai gwlad wrth eu bodd hwy; tybient, pe caent aur y byd, y buasai holl gyfoeth y byd yn eiddo iddynt.

Ac yn hyn oll, oherwydd camgymeryd natur Arian, yr oeddynt yn dirfawr gyfeiliorni. Tybient mai'r un fyddai gwerth aur faint bynnag ohono ddeuai i'r wlad. Ni chofient fod

Gwerth aur. ei werth yn codi fel yr ai'n brinnach, a fod ei werth yn lleihau fel y cynhyddai'r cyflenwad ohono. Ac ni ddeallent, oherwydd hynny, paham y diflannai Arian, mewn rhyw ddull anesboniadwy, unwaith y tybient eu bod wedi denu'r dduwies aml ei haddolwyr i wneyd ei chartref yn eu gwlad. Gadewch i ni chwilio am y rheswm am ymdrech ofer y Tuduriaid.

Er mwyn cael arian i'r wlad, cefnogent werthu i wledydd ereill, condemnent brynnu ganddynt. Dyweder eu bod yn gweled, ar ddiwedd rhyw flwyddyn neillduol, eu bod wedi llwyddo; y mae mwy o aur yn y wlad nag oedd ar ddechreu'r flwyddyn. Felly bydd aur yn rhatach; hynny ydyw, gellir cael mwy ohono am ryw swm penodol o ryw nwydd arall; hynny yw, cwyd prisiau. Wedi i brisiau godi, bydd llai o allforio, oherwydd ca'r masnachydd brisiau uwch yn ei wlad ei hun na phe croesai'r môr i farchnadoedd ereill. O'r ochr arall, oherwydd y codiad yn y prisiau, daw ychwaneg o nwyddau o'r gwledydd tramor i farchnadoedd y wlad. Felly daw llai o aur i mewn, ac a mwy allan. Felly dadwneir effeithiau ymyriad y brenhinoedd gan ddeddfau naturiol ac anorchfygadwy masnach. Gellir cydmaru gwaith y Tuduriaid, pan yn ceisio troi ffrydlif aur i'r wlad hon, i waith yr ysbrydion coll hynny sy'n adeiladu cestyll gorwych o dywod yn y nos, i syrthio'n ol i'r llawr pan gyffyrddo'r môr a hwynt. A'r rheswm am yr holl obeithio ofer, am yr holl ddeddfu ofer, oedd camgymeryd ystyr Arian, wrth geisio syllu ar wisg danbaid y dduwies.

Paham y temtid dynion i gredu fod aur, yn groes i bob nwydd arall, yn dal yn ei werth o hyd, pa un bynnag ai ychydig ai llawer fyddai ohono, pa un bynnag ai ychydig ynte llawer o alw am dano? Un rheswm yw hwn,—efe oedd safon tâl a phris. A pheth anodd ei sylweddoli ydyw fod gwerth y safon yn amrywio yn ol y cyflenwad ohono. Anghofid fod aur yn nwydd yn ogystal ag yn safon. Oherwydd fod pris arno fel nwydd, yn enwedig at wneyd tlysau, y gellir ei gymeryd fel safon. Nid oherwydd fod delw'r brenin arno, nid oherwydd ei fod yn safon, y mae'n cael ei werth. Ond y mae'n safon oherwydd ei fod yn werthfawr ynddo ei hun. Gall y brenin y mae ei enw ar yr aur fod yn fethdalwr, gall y wlad dorri; ond, tra y mae arian papur yn colli ei werth, erys yr aur yr un mor werthfawr, a gellir ei doddi i dderbyn delw rhywun arall. Nwydd gwerthfawr ydyw felly, wedi ei wneyd yn safon pris; ond y mae ei bris yntau'n codi ac yn gostwng, fel pris rhyw nwydd arall. Peth anodd, ond i un tra chyfarwydd, yw cofio a gweled bob amser fod pris aur, a phrisiau nwyddau y cyfrifir eu gwerth marchnataol mewn aur, yn effeithio ar eu gilydd. Symlach o lawer, a hawddach ei ddeall, yw edrych ar aur fel safon diysgog, a phris pob nwydd arall yn newid yn ol y cyflenwad. Ond camgymeriad yw.

Rheswm arall am y gred fod aur yn dal yn ei werth drwy bob cyfnewidiad oedd rhyfeloedd aml y dyddiau hynny. Yr oedd yn amlwg i bawb, pan ddinistrid cred y naill wlad yn y llall gan ysbryd erchyll rhyfel, mai rhoddi aur fyddai'r unig ffordd i dalu. Pan deflid byddin o Loegr i Ffrainc, ni fedrai ddibynnu fawr ar yr ymborth a ai gyda'r fyddin,—ond cadwai aur y newyn a'r pla ymaith, a hwyrach y gelyn ei hun. Felly, pan deflid holl ymwneyd meibion dynion a'u gilydd yn ol i ddull y cyfnod barbaraid, pan gyrrhaeddid gwaelod anwarineb, yr oedd aur yn dal yn ei werth yno; a naturiol iawn oedd i'r byd gredu fod gwerth aur mor safadwy a gwerth yr haul.

Yr oedd y galw mawr am aur yn gwneyd i hobl gredu fod rhyw rinwedd rhyfedd ynddo hefyd. Byddai galw am dano bob amser i wneyd addurniadau; gwell gan y byd dlysnï rhudd-felyn aur na gloewder gwyn arian,—er y gwn am rai sy'n gweld arian yn dlysbach. Ond erbyn amser y Tuduriaid yr oedd galw mawr am aur fel cyfrwng masnach, ac yr oedd y masnachwr yn ogystal a'r bonheddig yn ymgipris am dano. Daeth Prydain yn union i lwybr yr Hen Fyd i'r Byd Newydd, ac nid yn rhyw gornel bell-enig fel cynt. Gwelodd ei marsiandwyr fod ffortun yn eu cyrraedd, cymerodd ysbryd masnach afael yn y wlad,—ac aur

Achoelion y cam-gymeryd.
1. Aur yn nwydd a safon.

2. Ei werth adeg rhyfel.

3. Y galw am dano.

yn ffrydlif toddedig yw gwaed y bywyd hwnnw. Ac nid rhyfedd i bobl feddwl, wrth fod pawb yn ymgipris am dano fel eu gilydd, fod rhyw werth parhaol, roddai foddlonrwydd i bawb byth, mewn aur.

Tafodd aur ryw hud dros feddwl y byd hefyd, oherwydd darluniad dychymyg o ddinasoedd o aur pur yng ngwledydd rhyfedd y byd newydd. Yn nechreu'r unfed ganrif

4. Swyn aur.

goresgynwyd Mexico gan Cortez, a Pheru gan Pizarro, a gwyddai gwledydd ereill fod llongau llwythog o aur yn cyrraedd porthladdoedd Spaen, a rhai'n suddo dan eu llwyth gwerthfawr trwm i waelod y môr. Y mae'n wir mai ychydig o aur gafwyd ar y dechreu yn y Byd Newydd, dim ond yr aur oedd y brodorion wedi godi o welyau afonydd. Ond er hynny taniwyd awydd y byd am dano, a bu llawer un heblaw Syr Walter Raleigh yn edrych yn hiraethus o fyd tlawd dros fôr ystormus ar balasau dychmygol o aur gloew. Nid rhyfedd i rai llygadgraff gamsynied, a meddwl fod gwerth aur yn aros yr un o hyd.

Er cymaint o egluro fu ar natur Arian, ac er fod Masnach Rydd erbyn hyn wedi cymeryd lle Mercantiliaeth, nid heb ymdrech y cofiwn fod gwerth aur, er mai efe

Anghoffo natur Arian. yw'r safon, yn newid o hyd. Yn y dyddiau hyn, oherwydd fod y cloddfeydd aur wedi mynd yn gydmarol hesb, y mae ei werth yn codi o hyd; hynny ydyw, y mae prisiau'n gostwng. Ond ar nwyddau ereill y rhoddwn ni'r bai am y cyfnewidiad. Dywedwn fod prisiau'n mynd i lawr oherwydd y llawnder o wenith a gwartheg sydd yn y wlad,—cyfoeth yr Amerig ac Asia'n ymdywallt i farchnadoedd y wlad hon. Ond y mae aur yn mynd yn brinnach hefyd; ac oherwydd hynny gofynnir ychwaneg o nwyddau ereill am dano bob dydd. Ac eto, pan gofia ambell hen amaethwr am y newid sydd wedi bod ar brisiau, edrych ar sofran fel pe bai o'r un gwerth o hyd.

Mae perygl, mewn llawer ystyr, edrych ar Arian fel pe buasai ei werth yn dragwyddol. Addoli Arian yw pechod mawr rhai o wledydd y ddaear yn yr oes hon. Nid yw ond safon masnach, i'n cynorthwyo i gyfnewid cyfoeth. Pe difodid ef, arhosai'n cyfoeth yn eiddo i ni fel o'r blaen. Ac nid yn hir y byddai Masnach heb edyn. Chwiliai am edyn ereill, ac y mae rhai yn tybied yn y dyddiau hyn yr ehedai'n well gydag esgyll arian yn lle esgyll aur. Tra cedwir Arian fel morwyn Masnach, bydd popeth yn dda. Ond creulon iawn yw fel duwies, Moloch, yn wir, yw aur i lawer. Pwy ddarlennodd hanes priodas Miss Vanderbilt heb deimlo mai peth dirmygus yw cyfoeth pan fo mor aruthrol fel y collir golwg ar

Perygl yr anghoffo.

bopeth ond efe? Mae aur, oherwydd ei wasanaethgarwch fel nwydd ac oherwydd ei fod yn safon masnach, yn farchnatadwy bob amser. Ond camgymeriad mawr a phrudd yw tybio mai efe yw'r cyfoeth uchaf oherwydd hynny. Y mae gwenith a blodau yn uwch eu gwerth nag ef, er y gall eu prynnu. Y mae addysg a medr a chymeriad da yn anfeidrol fwy eu gwerth, y maent a dylanwad a gwerth mwy cyson nag aur; ac y mae y rhain yn bethau rhy werthfawr i aur eu rhoi, yn rhy barhaol i ddiffyg aur eu cymeryd ymaith.

Os bu llawer o gamgymeryd am natur Arian, bu mwy o gamgymeriad am natur llog, sef y pris delir am ei wasanaeth. Erbyn hyn y mae popeth yn weddol glir inni. Llafur wedi ei gadw, a'i gyflog heb ei wario, yw Arian. Os oes gan rywun aur yn y banc neu yn rhywle arall, y mae llafur rhywrai er ei fwyn heb ei wario ganddo eto. A chyflog y llafur hwnnw yw llogau.

Ond hir iawn y bu'r byd yn gweled mai llafur megis wedi ei gadw oedd aur,—nis gallent edrych arno ond fel trysor ddarganfyddwyd mewn craig. Felly condemnid usuriaeth yn y Canol Oesoedd. Yr oedd Aristotl wedi ei gondeinio; oherwydd, yn ei amser ef, nid oedd y dinesydd Groegaidd yn ymyrryd â masnach. Peth anaturiol a drwg, "arian yn cenedlu arian," oedd usuriaeth iddo ef. Condemnir usuriaeth yn yr Hen Destament hefyd. Cenedl heb awydd at fasnach oedd yr Iddewon yr adeg honno,—gadawsant eu harfordir i gyd i'r Philistiaid a'r Phoenisiaid, ac nid oes môr i longau yn nefoedd Ioan. Felly, os benthycid arian yn yr Hen Destament, i'w wastraffu, neu ar awr gyfyng y benthycid ef; drwg oedd rhoddi benthycid yn y naill achos, creulon oedd cymeryd llog yn yr achos arall. Dan ddylanwad Aristotl a'r Beibl, condemniodd y gyfraith ganonaidd usuriaeth; ac ni welai un oedd yn byw mor ddiweddar a Bacon y gellid gwneyd heb gyfraith i setlo llog.

Ond ofer oedd y cyfreithiau hyn hefyd. Penderfynir llog arian, nid gan gyfraith, ond gan y galw am dano, a chan raddau'r perygl na cheir ef yn ol. Dyweder fod deddf galw a chyflenwad wedi penderfynu mai pumpunt y cant ydyw llog arian pan na fyddai perygl ei golli. Os benthycid i fasnachwr yn mynd i Ffrainc, gofynnid pump arall oherwydd y perygl i'r llong fynd i lawr ac i bopeth golli. Os oedd y nwyddau brynnid â'r arian i fynd i Fôr y Canoldir, codid pump wedyn, oherwydd y perygl oddiwrth fôr-ladron Barbari. Ac os gwneid cyfraith yn erbyn usuriaeth, dyma berygl newydd eto, y perygl o gael eu canfod yn ei thorri,—a rhoddid pumpunt

Ffiofnob deddfau usuriaeth.

yn ychwaneg ar gyfer hynny. Felly yr oedd y deddfau yn erbyn usuriaeth yn codi y llog, yn lle ei ostwng.

Nid oes ddeddf yn erbyn usuriaeth yn awr. Yn ol Siarter 1844 rhaid i Ariandy Lloegr gyhoeddi pob wythnos beth yw llog y farchnad; ac os rhydd rhywun fwy na hynny, gwna gan wybod faint ddylai roi os yw ei gredd yn dda.

Prif ffynhonnell anhawsderau yw cyfnewidiau sydyn mewn prisiau; ac amcan pob athronydd masnach yw taro ar gyfrwng newid, rhyw Arian, na newidia ei werth ond yn raddol

Prisiau a llafur. iawn. Prif effaith cyfnewidiad mawr mewn prisiau yw afreoleidd-dra cyflogau. Os a prisiau rhyw nwyddau i lawr yn sydyn, peidir a gwneuthur ychwaneg ohonynt, a theffir y gweithwyr o waith. Ar yr un pryd, hwyrach, a prisiau rhyw nwyddau ereill i fyny ar garlam; ac wrth weithio y rhai hynny, y mae ychydig weithwyr yn cael cyflogau uchel, ac yn dysgu byw'n foethus. Cyn hir dysg y gweithwyr ereill y grefft newydd, bydd digon ohonynt; felly a'r cyflogau i lawr. Y cyfnewid sydyn mewn prisiau, felly, yw achos fod gweithwyr allan o waith.


Y mae achosion cyfnewidiadau prisiau yn aneirif bron. Y prif achos yw rhyfel. Dinistria nwyddau, parlysa fasnach, try lafur y gwneuthurwr pylor a'r milwr yn wastraff

Achosion newid prisiau. erchyll. Yn 1815, wedi'r rhyfeloedd meithion a drudfawr â Ffrainc, y bu prisiau uchaf erioed yn y wlad hon. Wedi gwneyd heddwch yn 1815 aeth prisiau i lawr yn hyfryd raddol. Ni bu cynhyrriad mawr o gwbl tan tuag 1840 neu 1850, pan deimlwyd effaith yr aur newydd oedd yn dylifo i'r wlad o fwngloddiau California ac Awstralia. Ychwanegwyd yn ddirfawr at yr aur oedd yn y byd, a daeth yn rhatach,—hynny ydyw, aeth prisiau i fyny. Pan ddechreuodd y mwngloddiau aur fynd yn hesb, a chyda'r galw cynhyddol am aur i'r gwledydd oedd yn ymagor i fasnach y byd, aeth aur yn brin drachefn, ac aeth prisiau i lawr. Ac yn y blynyddoedd rhwng 1870 ac 1875 aethant i lawr ar eu rhedeg, oherwydd i anryw wledydd "ddiariannu arian." Cyn hynny yr oedd arian yn gyfrwng masnach ac yn safon tâl yn yr Almaen, yn Unol Dalaethau'r Amerig, yn Ffrainc, ac yn yr Eidal. Ond cymerodd yr Almaen safon aur yn unig; dilynwyd ei hesiampl gan Unol Dalaethau'r America, a dilynwyd hithau gan Ffrainc, a chan yr Eidal. Y canlyniad oedd fod galw newydd am symiau aruthrol o aur yn y gwledydd hyn, ac aeth ei bris i fyny'n sydyn,—hynny ydyw, aeth prisiau i lawr ar eu rhedeg. Ac i lawr y maent yn cyflymu byth.

Yn y dyddiau hyn y mae arwyddion y gallai fod cynhyrfiad newydd wrth ein drws. Y mae gan gefnogwyr Bimetaliaeth lawer o allu gwleidyddol yn y wlad hon; ar faes Bimetaliaeth yr ymladdwyd brwydr ethol yr Arlywydd yn Nhachwedd diweddaf yn yr Unol Dalaethau. Amcan y bimetalwyr yw gwneyd arian yn gyfrwng masnach ochr yn ochr ag aur; fel y byddai Arian, nid yn gynhwysedig o aur yn unig, fel y mae yn awr, ond yn gynhwysedig o aur ac arian,—a gallai'r gofynnwr a'r dyledwr ddewis y naill fel y llall. Felly gallai ambell wlad fod ag aur yn safon, un arall ag arian; neu gallai pob gwlad fod ag aur ac arian yn safon ar yr un pryd. Yr anhawsder mawr yw hwn,—y mae gwerth aur yn newid yn ol y cyflenwad, ac y mae gwerth arian yn newid yn ol y cyflenwad; ond nid yw gwerth y ddau fwn yn newid yr un fath. Ar hyn o bryd y mae aur yn mynd yn brinnach o hyd, tra y gwyddis fod digonedd o arian yn barod i'w gloddio. Felly, pa fodd y gellir penderfynu ar unrhyw berthynas safadwy rhyngddynt? Amser yn ol yr oedd saith owns o arian yn werth un owns o aur; yn awr y mae un owns o aur yn werth dros bymtheg owns o arian. A phe penderfynid yn awr ar y berthynas 15:1, hwyrach y byddai hynny, o fewn ychydig iawn o amser, ymhell o fod y wir berthynas rhwng gwerth aur a gwerth arian.

Pe gwneid arian ac aur yn gyfrwng masnach, gyda rhyw berthynas fel 1:15 rhyngddynt, buan, yn ol pob tebyg, y byddai arian yn werth mwy wedi ei fathu na phan heb ei fathu. Ai pawb a'i arian i'r mint, i'w fathu, ac i godi ei bris. Wrth ei fod yn rhatach yn ol yr herwydd nag aur, talai pawb ei ddyledion mewn arian. Y canlyniad fyddai mai arian ddefnyddid gan bawb. Felly ai aur o arferiad fel cyfrwng masnach a safon tâl, a deuai metel gwaelach yn ei le,—breuach, trymach, byrrach ei oes, a llawer mwy ansefydlog. Ac os lleihai swm yr arian ryw-bryd,—pe'r ai pob mwnglawdd arian yn hesb,—byddai galw am aur wedyn; a thrwy hynny rhoddid ysgytiad arall i'r farchnad, a chri i ryw blaidd boliticaidd ddig.


Ond y peth y meddylia pawb am dano yw,—nid pa fodd y gellid cadw perthynas ddigyfnawid rhwng aur ac arian yn y dyfodol, ond beth fuasai canlyniad uniongyrchol tafu holl arian y ddaear,—y cwbl ddeuai i oleu dydd o fwngloddiau'r Amerig a Spaen ac Asia Leiaf,—i chwyddo'r aur sydd heddyw'n gyfrwng masnach. Syrthiasai pris aur; hynny ydyw, aethai prisiau i fyny megis ar garlam. Newidid ystyr pob bargaen,—ac ar fargenion dirifedi y mae cymdeithas a masnach wedi eu sylfaenu,—gydag ysgytiad. Buasai pob dyled yn llai, oherwydd yr un faint o Arian fuasai, er fod yr Arian yn llai ei werth. Peth da i'r dyledwr a'r hwn sydd heb ddim fuasai'r newid; ond peth




wm sefydlog, i bawb

pedr doethineb ddynol
 vbl, wneyd hynny'n
 nderfynu pris uchaf
 Ond y canlyniad
 man iawn yn bris isaf.
 id codi pris uchel yn
 edd salaf, daeth llai o
 elodd Colbert ei fod
 g.

ol geisiadau wnawd i
 nu nad oedd nwydd
 nyw bris penodol, neu
 d neb i ofyn mwy na
 hio am lai. Ofer, a
 troion Arian yn rhy
 au hyn ydyw bod yn
 Gwell, yn ol tyb
 na'r drwg na wyddis
 ymyrryd â'r deddfau,
 sy'n goruwchlywodr-
 weithiau, pan fydd
 Llyrsir llwybrau gwas-
 tid i weithwyr streicio
 an hwy ac ar ran y
 r byd; ac Arian yw
 â'r sylfaen yn aml,
 rygl. Annoeth yw
 ac yn ol pob tebyg, ni





Y R.

wir le mewn hanes.
 ywyd ystormus, a
 heddyw megis seren
 ei blaen. Yn aml
 yn ymgorffori mewn
 deilwng o hono, ac
 er gwell yr oedd ef
 blaw hynny, y mae
 mfyddino dan faner
 mys myn wneyd daioni,
 id yr edrychir arno,
 ach a mwy parhaol
 Cyn y gwel y byd
 godi i'r un safle ag
 ad y blaid grefydd-

yn graddol ymgodi
 ll, Owen Glyn Dŵr
 oed yn cofio dysgu
 idd yn erbyn brenin
 y ca y rhan fwyaf
 ei ogoniant, a'i gyd-
 isio codi a gwella'r

ynysoedd hyn. Ei awydd am addysg genhedlaethol,—y mae Prydain erbyn hyn yn deall hwnnw; ei gred ym mharhad cenhedlaetholdeb Cymru, yn enwedig mewn ystyr grefyddol,—gwelir erbyn heddyw mai nid dinistr i undeb Prydain ydyw, ond nerth. Gwelodd Shakespeare fawredd Owen Glyn Dŵr,—ond y mae niwl a chymylau o aungylch y mawredd, a thybiodd llawer Sais difeddwl fod y bardd yn cymeryd y tywysog yn ysgafn. Y mae mwy nag un ysgriennydd Seisnig yn chwilio hanes Owen Glyn Dŵr heddyw; ac nis gwn am un o honynt nad yw'n graddol synnu fod cymeriad mor ardderchog wedi bod ynghudd mor hir.

Rhyfedd iawn yw'r dadguddiad,—a phaham a tybiasom mai gwrthryfelwr dinod oedd y gwladweinydd oedd a'i fryd ar ail drefnu'r eglwys genhedlaethol, ar godi prifysgolion,
Gwr parod. ac ar roddi cyfiawnder i feibion llafur oedd yn ceisio ymwared o ormes y cyfnod maenoraidd? Yr oedd Owen Glyn Dŵr, mae'n ddiameu, yn ŵr o feddwl beiddgar ac o gynllun parod, ac y mae'n amlwg fod yn ei gymeriad y dychymyg cryf sy'n darganfod bydoedd uwch, ac yn gweled y llwybr iddynt. Yr oedd wedi cael y fantais oreu i wled beth godai Gymru hefyd,—treuliodd ei febyd yn nyffryn y Dyfrdwy ac ar lethrau'r Berwyn, a deffrôdd ei feddwl tra'n astudio cyfraith yn Llundain a thra'n dwyn arfau y milwr oedd wedi crwydro mwyaf, mae'n debyg, o holl filwyr yr oes.

Ond cafodd gyfleustra hefyd. Prun bynnag a oedd hynny wrth ei fodd ai peidio, rhoddwyd angenrhaid arno i arwain cenedl, a chenedl fwy unol nag a welwyd ar fynydd—
Cyfiawnder
 amser. oedd Cymru erioed o'r blaen. Tybiodd ef ei fod yn codi tarian ac yn dadweinio cledd Llywelyn, ac yr oedd yn credu'n gryf fod gwaed hen dywysogion Cymru yn ei wythienau. Ond yr oedd ei darian yn lletach nac un Llywelyn, a'i gleddyf yn rymusach. Nid arweinydd tywysogion yn unig oedd, ac nid tywysog rhan o Gymru. Yr oedd yn arweinydd cenedl gyfan, yr oedd gwŷr Gwent a Morgannwg yn ei ddilyn fel gwŷr Eryri a'r Berwyn. Mwy na'r cwbl, yr oedd yn arweinydd gwerin wedi deffro. Hwyrach mai rhyw freuddwyd cynhyrfus yng nghanol y nos oedd y deffroad hwnnw, i'w sylweddoli mewn bore oedd eto heb ymwasgaru ar y mynyddoedd; ond y mae rhyw nerth anfeidrol hyd yn oed mewn breuddwyd am ryddid. Yr oedd cenedlgarwch, yr oedd rhyddid, yr oedd dychymyg o blaid Owen Glyn Dŵr. A gwelwn ymgorfforiad, megys, o'r tri gallu hyn dan ei faner,—y tywysog gorthrymedig, y llafurwr gwasgedig, a'r myfyriwr na welai ond y dyfodol yn unig.

Yr oedd tywysogion Cymru gydag Owen Glyn Dŵr. Wedi cwmp Llywelyn, yr oeddynt at drugaredd y barwniaid Seisnig ffroenuchel a'u dirmygai wrth raddol ladrata eu tir oddiarnynt. Nid y brenin yn eu graddol roddi dan cyfraith mwy gwaraidd,—nid dyna hanes tywysogion Cymru rhwng cwmp Llywelyn a thywyniad seren Glyn Dŵr; hanes pruddach yw eu hanes hwy,—hanes diflaniad eu tir a'u gallu drwy ladrad gyfreithlonid gan gyfreithiau nad oeddynt hwy yn eu deall. Yr oedd min cyfreithiau tir Lloegr yn eu herbyn hwy. Yn ol cyfraith tir Cymru yr oedd yr holl deulu i ddal ei afael yn y tir, yn feibion ac yn wyrion hefyd. Ond yn ol cyfraith tir Lloegr, yr oedd y tir i aros yn llaw y mab hynaf yn unig. Bu ymdrech galed rhwng y ddau ddull, a phrin y gellir dweyd ei bod wedi darfod eto. Lle bynnag yr oedd tywysog Cymreig, rhennid y tir ymysg y teulu; a graddol ymgymysgai uchelwyr a gwerin. Ond lle bynnag y plannai barwn Seisnig ei hun, y duedd oedd i'r tir aros yn ei ddwyllaw, ac i'r ystad fynd yn fwy o hyd. Y teulu, nid y tir, oedd hanfod undeb i feddwl y Cymro; a'i awydd ef oedd cadw'r tir yn gyffredin a'r mynyddoedd yn rhydd. Ond y tir oedd popeth i'r dyfodiad estronol,—llys tir oedd llys cyfraith, wrth y tir yr oedd y deiliaid yn rhwym, am dir y talai warogaeth i'w frenin, yn ol y tir oedd ganddo yr oedd ei gyfrifoldeb i amddiffyn a gwasanaethu ei wlad. Ac ennill ychwaneg o dir oedd amcan hwn. Yr oedd Ystadud Merton yn rhoddi hawl iddo draws-feddiannu hynny o fynydd a choedwig nas gallai'r deiliad brofi oedd yn hanfodol angenrheidiol i'w dyddyn ef. Ac oherwydd cyfraith ac anghyfraith, yr oedd yr estron yn estyn ei linyddau dros fynyddoedd cyfaeon. Edrychai Iarll Grey yn hiraethus o Gastell Rhuthyn ar ehangderoedd Hiraethog a Berwyn; ac ymysg darnau ereill o fynydd gymerodd yr oedd un a hawlid gan yswain Cymreig o'r enw Owen Glyn Dŵr. Beth bynnag oedd Owen Glyn Dŵr cynt, daeth yn arweinydd tywysogion Cymru ar ol i Iarll Grey roddi ei law haiarn ar ei fynydd, oherwydd yr oedd rhyw law debyg ar fynydd pawb.

Yr oedd mab llafur hefyd wedi cael cipolwg ar ryddid, ac yn cwyno. Bu ef yn gaethwas, heb wybod fin nos beth y gelwid ef i'w wneyd boreu drannoeth. Yn raddol rhoddodd

Y gweithwyr a deddfau llafur.

arferiad derfynau ar amser ei wasanaeth. O dipyn i beth talodd rent,—cynnyrch neu arian,—yn lle'r gwasanaeth. Erbyn adeg Owen Glyn Dŵr yr oedd wedi dod yn ddyn rhydd,—talai rent, gweithiai am gyflog. Yr oedd llawer o filwyr Owen Glyn Dŵr yn cofio'r Marw Du. Ysgubodd y pla bythgofiadwy hwnnw fel ysbryd du dros yr holl wlad, gan anadlu marwolaeth ar wlad a thref, dyffryn a mynydd fel eu

gilydd. Tyfai'r glaswellt ar ystrydoedd Bryste, yr oedd cartrefi'n wag yng ngheseiliau mynyddoedd uchaf Cymru. Y mae'n ddiameu fod hanner gweithwyr y wlad wedi marw o'r pla. Gan fod llai o'honynt yr oedd mwy o alw am eu llafur, a chododd eu cyflogau fel nas gallai'r arglwyddi eu talu; braenai'r llafur ar y meusydd oherwydd nad oedd gweithwyr i'w cael. A dechreuodd yr arglwyddi ymyrryd trwy gyfraith. Ceisiasant lusgo'r gweithwyr yn ol, a'u rhwymo wrth y tir yn eu hen gaethiwed. Gwnaethant Ddeddfau Llafur, i rwystro i neb, dan bennyd, gymeryd na rhoddi cyflog uwch nag a arferid roddi gynt. Trwy ei hela fel bwystfil, trwy serio llythrennau gwaradwydd ar ei dalcen â haiarn poeth, trwy ei werthu i gaethiwed lle byddai ei fyw a'i farw'n dibynnu ar ewyllys ei arglwydd,—felly y ceisiwyd llusgo'r gweithiwr i'w hen gaethiwed yn ol. A pha ryfedd fod deiliaid a gweithwyr pob maenor yng Nghymru yn clustfeinio am ddyfodiad Owen Glyn Dŵr?

Ni fedr anghyfiawnder yn unig, ni fedr newyn yn unig, nerthu i ryfel neu godi chwyldroad. Ni fedr y naill ond gruddfan, y y mae'r llall yn ddall gan wendid. Rhaid cael breudd-

*Drych-feddylliau
byw.*

wyd, gobaith, drychfeddwl,—beth y galwaf y swyn hwnnw sy'n troi gruddfan y gorthrymedig yn iaith hyawdl ddealladwy, sy'n rhoi tân bywyd yn llygad pwl y newynog, sy'n gwneyd i'r meddwl cysglyd a'r bywyd isel wneyd gwrhydri, sy'n gwneyd gwerin yn un? Yr oedd y peth byw hwnnw'n barod i groesawu Owen Glyn Dŵr.

1. Gwladgarwch. Dywedai'r bardd y genid pobl ereill dan ddylanwad rhyw seren gyffredin,—Mercher goch, Gwener deg, Sadwrn drwm, neu lau ysblenydd; ond yr oedd seren neillduol wedi tywynnu ar gynlluniau Owen Glyn Dŵr. Beth bynnag am seren naturiol, yr oedd seren aml ddrychfeddwl byw yn ei arwain yn ei flaen. Un oedd gwladgarwch, hwn, mae'n ddiameu, dynnai dorf o efrydwyr Rhydychen i ymladd drosto. Un arall oedd cred yn urddas llafur. Tra'r oedd rhai beirdd

2. Urddas llafur. yn dal i ganu am ogoniant rhyfel ac ysblander llysoedd, canai ereill gân newydd,—cân o glod i'r amaethwr, cân oedd megis emyn i'r aradr. Breuddwydiasai Langlande, ar y brynau sydd rhwng Cymru a Lloegr, mai ar ffurf llafurwr, ac yn y cae llafur, y gwelid Crist,—nid mewn eglwys lle gorweddai cerf-ddelwau'r arglwyddi gorthrymus. Ac yng Nghymru cyweiriodd lolo ei delyn i ganu mawl y llafurwr a'r aradr,—

“ Nid addas mynnu dioddef,
Nid bywyd, nid bwyd, heb ef;
Ni cheir eithr ond ei weithred,
Aberth Crist, i borthi cred;

Na bywyd,—pam ei beiwn f—
 Pab nag ymherawdr heb hwn,
 Na brenin haelwin hoew-liw,
 Na da'n y byd, na dim byw."

Ac wrth groesawu seren Owen Glyn Dŵr, dymuniad gweddi y bardd uchel-fonedd hwn oedd,—

" Llaw Dduw Ne, gore un gŵr,
 Llaw Fair dros bob llafurwr."

Yr oedd ysfa am wybodaeth yn y byd hefyd. Yr oedd y dwyrain yn dechreu tywallt ei thrysorau i'r gorllewin; yr oedd Cyngor Vienne, yn 1311, wedi argymhell dysgu Hebraeg, Caldaeg, ac Arabaeg. Yr oedd dysg yr Eidal yn anterth ei ogoniant, yr oedd y ganrif y ganwyd Owen Glyn Dŵr ynnddi wedi gweled blodeuad Dante, Petrarca, a Boccaccio. Yn Ffrainc, yr oedd athroniaeth a meddyg-inaeth yn eu llawn flodau, a'r ddrama'n dechreu. Yn yr Almaen, yr oedd cyfnod y prifysgolion yn dilyn cyfnod y serch ganeuon; a sylfaenwyd prifysgol Heidelberg. Yn Lloegr, yr oedd Chaucer a Langlande yn cyd-fyw ag Owen Glyn Dŵr; a hwyrach i'r yswain Cymreig weled Wyclif, seren fore'r Diwygiad. Yn ystod y ganrif hon,—y bedwaredd ar ddeg,—sylfaenwyd deunaw o brifysgolion newyddion.

Yr oedd meddyliau newyddion ym myd yr eglwys a chrefydd hefyd. Yr oedd yr eglwys wedi penderfynu dinistrio'r meddyliau newydd drwy erledigaeth a thrwy dân. Yn fuan iawn yr oedd cri'r merthyr cyntaf i godi o'r fflamau; ac yr oedd y tywysog Harri, gwrthwynebydd Glyn Dŵr, a brenin Lloegr wedi hynny, yn edrych ar ei boenau. Yr oedd y Lancastriaid am nerthu'r eglwys i erlid; ond yr oedd Rhisiard yr Ail o'u blaenau, a'r Yorkiaid ar eu holau, yn bleidiol i'r meddwl newydd ac i oddefiad. Yr oedd rhyw ym yr eglwys yn gyffredinol hefyd. Yn amser Owen Glyn Dŵr yr oedd Iau bab, a phob un yn dweyd am y llall mai anghrist oedd. Dros Urbanus VI. (1378—1389), a'i ganlynwyr* yr oedd yr Eidal, yr Almaen, a Lloegr; dros Clemens VII. (1374—1394), a thros Benedictus XIII. (1394—1409) ar ei ol, yr oedd Ffrainc a Spaen. Penderfynodd Owen Glyn Dŵr adfer rhyddid eglwys Cymru yng nghanol yr helyntion hyn. Ymunodd â'r pab Ffrengig a Spaenaidd, ar yr amod fod eglwys Cymru i fod yn anibynnol ar eglwys Loegr,

Pan gyfarfyddodd Senedd Lloegr yn Chwefrol, 1401, yr oedd

* Bonifacius IX. (1389—1404), Innocens VII. (1404—1406), a Gregorius XII. (1406—1409).

trefn ryfedd ar y byd. Aflwyddiant ddilynasai'r llywodraeth yn y rhyfeloedd yn yr Alban ac yng Nghymru, a chyda ^{Amseroedd enbyd.} "murmur mawr a thufewinol fellldithio" y rhoddwyd hawl i'r brenin godi treth newydd. Yr oedd Sawtre,— y gŵr cyntaf losgwyd yn fyw am heresi yn Lloegr,—newydd ddweyd wrth fy arglwydd archesgob, gyda llygaid tanbaid, y byddai iaith cenedl ddiethr yn dal ei theyrnwialen cyn hir dros wlad Lloegr, a fod y drwg wrth y drws. Ac yn yr adeg honno daeth yswain Cymreig, o'r enw Owen,* i erfyn ar y brenin roddi'n ol iddo diroedd a drawsfeddianesid gan Lord de Grey o Ruthyn, tiroedd oedd yn eiddo i deulu Owen er oesoedd cyn cof. Dadl-euodd John Trevor, esgob Llanelwy, drosto, gan ddweyd y byddai'n well rhoddi iddo rywbeth tebyg i gyfiawnder, gan y gallai godi cynnwrf mawr yng Nghymru os ai adre'n ddig. Ond ni thyciodd dim yn erbyn Iarll Grey; a dywedodd yr arglwyddi nad oeddynt hwy'n malio dim yn y Cymry coesnoeth lladronllyd. Dyna eiriau un hanesydd.

Gwyddid am Owen Glyn Dŵr yn barod. Yr oedd llawer o dir ei dadau yn ei feddiant, yr oedd wedi gwasanaethu'r brenin Harri'r Pedwerydd, yr oedd wedi ymosod ar Iarll Grey cyn hyn. Ond, erbyn hyn, y mae cryn dipyn o ansicrwydd am ddechreu ei fywyd fel am eiddiwedd; ac y mae'r niwl sydd o'i gwmpas yn ei wneyd yn fwy tarawiadol, feallai, wrth edrych arno o'r pellder, am fod ei ffurf yn fwy aneglur.

Ar ddechreu'r bymthegfed canrif, pan ddaeth yn un o brif gymeriadau'r dydd, yr oedd Owen Glyn Dŵr tua deugain oed, yn ŵr tal, meingryf, urddasol, gyda barf a gwallt ^{Owen Glyn Dwr.} llaes. Yr oedd ganddo ddau dŷ gwych,—y naill yn nyffryn y Ddyfrdwy, rhwng Corwen a Glyndyfrdwy; a'r llall, Sycharth, lle tery haul y bore ar lethrau dwyreiniol y Berwyn, ger Llansilin. Ni wyddom fawr am ei gartref yn nyffryn Edeyrnion,—nid oes yno heddyw ond bryncyn glas ger afon Dyfrdwy, rhyw chwe milldir i'r gogledd-ddwyrain o Gorwen, gydag ambell dderwen i'w gysgodi ac ychydig gerrig yn olion tlawd o'r mawredd fu yno unwaith. Ond y ^{Sycharth} mae Iolo Goch wedi rhoddi darlun o Sycharth, "mewn eurgylch dŵr, mewn argae." Tŷ uchel oedd, aml ei simneuan, a hyfrydwch o'i amgylch,—y capelau a'u gwyddu gwiw, y berllan a'r winllan flodeuog, y parc ceirw, y dolydd gweiriog glân, yr ydau mewn caeau cywair, y pysgodlyn a'i adar,—nid rhyfedd na fydd

" Na gwall na newyn na gwarth
Na syched fyth yn Sycharth."

* Sillebir ei enw gan y croniclwyr Seisnig mewn gwahanol ddulliau; megis Owen Glendower, Owen de Glendyfrdwy, ac Owen ap Glyndyfrdwy.

Yr oedd Owen o fonedd uchel. Orlheiniai ei achau i deulu brenhinol Powys ac i deulu brenhinol Gwynedd. Dywed traddodiad fod Castell Dinas Brân, sy'n edrych ar ei

Tenlu Owen. diroedd, unwaith yn eiddo i'w deulu, a fod ei gefndryd wedi eu boddi ar noson dywell dan bont Holt gan Iarll Warrenne a Roger Mortimer. Ffordd bynnag, bu Owen yng ngwasanaeth Iarll Arundel, perchennog Castell Dinas Brân; mewn cyfeiriad arall, yn Nyffryn Clwyd, yr oedd ei brif elyn ef. Yn wraig i Owen yr oedd Margaret Hanmer, merch i un o farnwyr Rhisiart yr Ail; ac ebe Iolo Goch am dani,—

“Gwraig oreu o'r gwraedd,
Gwyn y 'myd o'i gwin a'i medd.”

Mae dychymyg wedi cuddio gwir ffeithiau bore ei oes. Credid fod y meirch at eu hanner mewn gwaed y bore ganwyd ef, credid fod ei seren yn tywynnu yn y nefoedd, credid ei

Hanes Owen. fod yn medru codi ysbrydion i ymladd drosto. Bu'n efrydydd y gyfraith yn Llundain, y mae hynny'n amlwg, ac yr oedd yn ŵr dysgedig. Bu'n ymladd yn rhyfeloedd Rhisiart yr Ail yn yr Alban yn 1385; bu'n yswain i Iarll Arundel, ac wedi hynny i Harri o Lancaster, y gŵr egniol hoff o grwydro fu wedi hynny'n frenin Lloegr.

Yn 1399 diorseddwyd Rhisiart yr Ail gan y barwniaid a'r eglwys, oherwydd ei fod a'i fryd ar ymyrryd â'u hawliau hwy, a gosodasant un o honynt eu hunain, Harri o Lancaster,

Owen a'r brenin. ar yr orsedd. Yr oedd cydymdeimlad Owen Glyn Dŵr gyda'r Harri hwn hefyd, oherwydd tybiai y rhoddai drefn ar anghyfraith barwniaid y gororau. Ond siomwyd ef yn hyn; yr oedd Harri, er cymaint ei egni a'i allu milwrol, yn rhy wan i ymyrryd nemawr â'r gwŵr mawr oedd wedi ei osod ar ei orsedd. A phan welodd Owen na chai gyf-iawnder yn erbyn Iarll Grey, penderfynodd apelio at y cleddyf.

O'r dechreu y mae'n amlwg fod Owen Glyn Dŵr yn wladweinydd medrus. Yr oedd ei gynlluniau'n feiddgar ac yn fawrion, a medrai dafu trem eryraidd ar yr ymrafaelion

Cynlluniau eadg. a'r cynghreiriau oedd yn y gwledydd o'i gwmpas. Y mae ganddo gynllun amlwg yn 1400,—cymeryd y cestyll yn y Gogledd, yn enwedig Conwy a Chaernarfon, cael byddin o Albanwyr a Gwyddelod i lanio yn yr Abermaw neu Aberdyfi; ymdaith gyda llu anorchfygol drwy'r gororau, ac ymuno â phlaid Rhisiart ddiorseddedig yn Lloegr. Yr oedd pob peth fel pe'n gweithio gydag ef. Dylifai'r Cymry dan ei faner, prysurai'r llafurwyr Cymreig o Loegr yn ol ato, ymdyrrai myfyrwyr Cymreig Rhydychen, arweinwyr y mynych gwerylon yn y brifysgol honno, i ymladd dan arweinydd mor

boblogaidd. Ysgrifennai ceidwad castell Caernarfon at y brenin fod y Cymry'n ymarfogi,—“gwerthant eu gwartheg i brynnu ceffylau a harnais; a lladrata rhai ohonynt geffylau, a phrynant gyfrwyau a bwâu a saethau.”

Ond, oherwydd yr egni digymar oedd mor nodweddiadol ohono yn nechreu ei deyrnasiad, medrodd Harri'r Pedwerydd ddod i Gymru cyn bod cynlluniau Owen yn barod,—

^{1400.}
Deffro Cymru.

cyn i'r Albanwyr na'r Gwyddelod ddod, cyn cymeryd y cestyll, a chyn disgyblu'r Cymry i sefyll brwydr. Daeth y brenin ym mis Medi, ac aeth drwodd i ynys Mon. Trodd y brodyr llwydion o Lan Faes,—lle gorweddai Elin, gwraig Llywelyn,—ond gorfod iddo fynd adre cyn ystormydd y gauaf heb weled cipolwg ar Owen Glyn Dŵr. Hwyrach mai'r adeg hon y colodd ei ganlynwyr eu golwg ar Owen hefyd, pan ar ffo rhag Harri, ac y gofynnodd Iolo Goch,—

“ Y gŵr hir, ni'th gâr Harri,
Adfyd aeth, a wyd fyw di?”

Yr oedd yn amlwg fod gwrthryfel Owen wedi disgyn yng Nghymru fel gwreichionen ar ddail crin. Yr oedd y llafurwr yn enwedig yn barod i'w ddilyn, canys trwm iawn fuasai iau arglwyddi'r gororau, a thrahaus iawn oedd bywyd y castellwyr yn hen Gymru Llywelyn. Llais Cymru i gyd oedd gwahoddiad Iolo Goch,—

“ A gwaew o dân,
Dyred, dangos dy hunan;
Dyga ran dy garennŷdd,
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd.”

Erbyn gwanwyn 1401 y mae Owen Glyn Dŵr wedi dod yn ol. Tra'r oedd Percy'n ceisio cadw ofn y cestyll ar Ogledd Cymru, trodd Owen i'r De. Ym Mai clywai'r brenin fod holl Ddeheubarth yn dylifo ato, a'i fod yn ymgynghreirio â thywysogion y wlad honno i ymosod ar Loegr, ac i ddifa'r iaith Saesneg oddiar wyneb y ddaear. Oddiyno trodd yn ol i Bowys, lle y ceisiodd feddiant o'r Trallwm, a Dyffryn Hafren. Cyn diwedd yr haf yr oedd yn teyrnasu fel tywysog ar Wunedd, Powys, Ceredigion, a Deheubarth; ac yr oedd Cymry'r gororau, yn enwedig Gwent a Morgannwg, yn hiraethu am ei ddyfodiad.

Yn yr Hydref daeth y brenin a byddin fawr i ganolbarth Cymru; a difrododd bopeth ar ei ffordd, gan adael gweddill y cleddyf a'r tân i newyn, ac heb arbed gwraig na phlentyn. Gwnaeth fynachlog Ystrad Fflur yn ystabl i'w geffylau; ac oddiyno casglodd fil o blant y wlad, ebe'r hanes, i'w dwyn yn gaeth i Loegr. Ni feiddiai Owen sefyll brwydr, ond gwibiai o gwmpas byddin y brenin, ac ymgynddeiriogodd hwnnw nes

^{1401.} Anrhaith
Ceredigion.

gwneyd i uchelwyr y gwerinwyr Ceredigion ddioddef creulonderau erchyll. Ond ni fedrodd y brenin wneyd dim i Owen ei hun; a chydag iddo droi ei gefn, yr oedd Owen a'i fyddin yn gwarchae castell Caernarfon. Y mae'n wir na chafodd feddiant o'r castell yn y mis Tachwedd hwnnw, ond yr oedd erbyn hyn yn arwr cenhedlaethol, a'i faner,—draig euraidd ar liw gwyn,—yn faner yr edrychai pob Cymro gyda llygaid deisyfgar am dani, o Lanandras i Dyddewi, ac o Gaergybi i Gaer Dydd.

Yr oedd gallu brenin Lloegr yn gwanhau hefyd, yr oedd murmur yn erbyn y trethi, yr oedd anffyddlondeb yng nghalonau'r barwniaid. Yr oedd Dafydd ab Iefan Goch ac ^{1402. Llwyddiant Owen.} ereill yn gwibio rhwng Owen a thywysogion yr Iwerddon a'r Alban, ac yr oedd son fod Owen a rhai o'r barwniaid Seisnig mwyaf nerthol yn deall eu gilydd. Yn nechreu 1402, ymosododd Owen ar Ruthyn, a llosgodd hi. Yna dechreuodd ddarostwng gororau Powys, a phan gyfarfyddodd fyddin yr Iarll Grey yn nyffryn y Fyrnwy, gorchfygodd ef ac aeth ag ef i garchar.

Yr oedd llwydd yn awr ar ei arfau, a chroesodd o Bowys i Faesyfed. Casglodd Syr Edmund Mortimer fyddin fawr yn Llydlo, a chyfarfyddodd fyddin y Cymry, dan Rys ^{Bywyd Bryn Glas. Mechlfn 22.} Gethin, ym mynyddoedd Maesyfed. Aeth y Cymry oddiwrth Mortimer, ac ymunasant â'u cydwladwyr; a'r diwedd fu llwyr lethu'r Saeson, a chymeryd Syr Edmund Mortimer yn garcharor. Wedi'r frwydr hon gwelodd pawb mai Owen Glyn Dŵr oedd prif elyn Harri'r Pedwerydd, a fod ganddo ddigon o allu i ddymchwelyd yr orsedd sigl. O hyn allan efe, "the great magician, damned Glendower," yw ffynhonnell pob gwrthryfel; ar ei arch ef cwyd y Ffrancod, yr Albanwyr. y Percies. ie y diafol ei hun,—yr hwn a ymddanghosai'n aml yn y dyddiau hyny,—yn erbyn Harri. Yr oedd hen bleidwyr Rhisiart yr Ail mewn cyngrhair ag Owen; a mwy na'r cwbl, ofnid fod Syr Edmund Mortimer, ewythr y bachgen ddylasai ddilyn Rhisiart fel brenin, wedi ymuno âg ef. Gwelodd Harri mai mater bywyd oedd llethu'r tywysog Cymreig ar unwaith. Ac ym mis Medi, pan oedd Owen wedi torri trwy gestyll y Deheudir ac yn ymdaith drwy Forgannwg, ymwithiodd tair byddin trwy'r gororau,—o Gaer a'r Amwythig a'r Henffordd,—i gau am Owen Glyn Dŵr a'i fyddin, a'i lethu. Ond yr oedd yr ystormydd yn cyfarfod y byddinoedd hyn ymhob man; ac Owen yn rhywle y tu cefn i'r stormydd o hyd. Ac un o'i fyddinoedd ef oedd y storm, ebe'r cronicydd Seisnig,—“trwy swyngyfaredd fe gododd yr Owen hwnnw y fath dymbestl o wyntoedd ac ystormydd ac eira a gwlawogydd, i ymladd â byddin y brenin, fel na chlywodd neb am un debyg iddi erioed.” Aeth Harri'n ol heb ennill dim;

ond cafodd beth cysur wrth glywed fod yr Albanwyr wedi eu gorchfygu ym mrwydr Homildon Hill.

Erbyn diwedd 1402 y mae cynlluniau Owen Glyn Dŵr wedi llwyddo. Y mae wedi dechreu rheoli Cymru drwy gyngor o dywysogion; y mae ei fyddin wedi ennill buddugoliaeth fawr, ac y mae brenin Lloegr wedi methu torri'r rhwyd oedd Owen yn barotoi iddo ymddyrysu ynddi; y mae ei ymwneyd â'r Ffrancod, â'r Albanwyr, ac â'r barwniaid Seisnig wedi bod yn hollol lwyddiannus. A mwy na'r cwbl, y mae wedi ennill, nid yn unig y Cymry, ond prif farwniaid y gororau hefyd,—y mae Syr Edmund Mortimer, ewythr y gwrthymgeisydd am goron Lloegr, wedi priodi ei ferch.

Gobaith diwedd
1402.

A oedd y flwyddyn 1403 i weled llwyddiant Owen Glyn Dŵr, ac adferiad anibyniaeth Cymru? Yr oedd ei gynlluniau wedi eu perffeithio. Yr oedd ef a'i fyddin a'r Mortimeriaid i gymeryd pob castell yn Neheudir Cymru; yr oedd y Percies, barwniaid y gogledd, gyda'u byddin enfawr, i ymdeithio tua'r de; yr oedd y gogleddwyr a'r Cymry i ymuno i lethu Harri, ac i goroni aer y Mortimeriaid,—iarll Mers.

Cynllun 1403.

Gyda gwanwyn 1403 yr oedd Owen yn ymdafu â'i holl egni i'r ymdrech, ac yr oedd y ser yn eu cylchoedd fel pe'n ymladd drosto. Gan obeithio y deuai, cododd llafurwyr Maelenydd a Brycheiniog, a gwarchaessant ar Aberhonddu. Ym mis Gorffennaf daeth Owen ei hun i Ystrad Tywi, a chododd yr holl wlad i'w gyfarfod. Cymerwyd castell Llanymddyfri, a gwersyllodd yr holl fyddin yn y wlad hyfryd sydd o gwmpas Llandeilo a chastell Dynefor. Oddiyno gallai Owen droi ar y chwith i Aberhonddu, neu ar y dde i Gaerfyrddin. Dewisodd droi ar y dde, er mwyn cael Cymru i gyd o'i ochr cyn ymddangos yn y gororau. O bob arglwyddiaeth ac o gysgod pob castell rhwng Tywi a'r môr, daeth y Cymry i dyngu fyddlondeb iddo. Ar yr wythfed o Orffennaf ysgrifennodd deon Henffordd at y brenin y collai yr holl wlad oni ddeuai i'w hachub ar unwaith; ac ychwanega mewn olysgrif frysiog fod Caerfyrddin wedi ei llosgi. Gwaith nesaf Owen oedd cymeryd cestyll Dyfed a Gŵyr. Gorchfygwyd rhan o'i fyddin gan Lord Carew; ond aeth yn ol i Gaerfyrddin o Ddyfed yn fwy cadarn nag erioed. Cododd Cymry Morgannwg a Gwent; ac nid oedd trwy Gymru i gyd ond y cestyll heb eu meddiannu gan Owen. Ac ebe Iolo, o Ddyfryn Clwyd,—

Owen yn y
Deheudir.

“ Glân yw'r arglwydd mawlrwydd mau
Yn dial cam y Dehau.”

Ar yr un pryd yr oedd ei gynghreiriaid yn Lloegr yn brysur. Gwrthryfelodd y Percies, ac ymdeithiasant tua
Erbyn iddynt gyrraedd yr Amwythig, nid
oedd Owen Glyn Dŵr wedi gorfien ei waith yn Neheudir

Erbyn
Amwythig.

Cymru. Ac yr oedd Harri'r Pedwerydd wedi gweled y collai ei orsedd os gadawai i'r Percies ymuno â'r Cymry. Gydag egni bron anhygoel, cyrhaeddodd Harri'r Amwythig cyn i Owen Glyn Dŵr ymuno â'r gwrthryfelwyr Seisnig, er fod llawer o Gymry'r Gogledd wedi cyrraedd atynt mewn pryd. Ymladdwyd y frwydr chwerw ar yr unfed ar hugain o Orffennaf, a chafodd y brenin fuddugoliaeth. Ond yn union wedyn yr oedd Owen yn bygwth Henffordd a'r Amwythig, ac yn croesi'r Hafren. Drachefn ymdeithiodd Harri a'i fyddin i Gymru, ac ym mis Medi yr oedd wedi cyrraedd Caerfyrddin. Ond gorfod iddo gilio'n ol gyda'r gauaf, a daeth yr holl wlad dan lywodraeth Owen Glyn Dŵr drachefn.

Yr oedd ganddo gynllun arall. Galwodd y Ffrancod a'r Llydawiaid i gymeryd lle byddin orchfygedig Gogledd Lloegr; a chyn diwedd 1403 yr oedd y fyddin ddieithr yn glanio yng Nghaerfyrddin. Gyda help y fyddin hon, amcana Owen gymeryd y cestyll,—gwaith oedd yn gofyn profiad a medr milwyr disgybledig Ffrainc,—a rhoddi trefn cyfraith a heddwch ar y wlad. Yn Ionawr, 1404, cauodd ei fyddin o gwmpas castell Caernarfon. Dihangodd dynes,—nis gellid colli gwasanaeth dyn,—drwy'r rhew a'r eira, ac aeth a hanes trybini'r castellwyr i Gaer, gan ddweyd nas gallai gwarchodlu bychan Robert Parri gadw'r castell yn hir. Prin yr oedd wedi dweyd ei stori pan ddaeth gŵr byr o'r enw Hywel Fychan i ddweyd fod Owen ar gymeryd castell Harlech, gan fod y gwarchodlu wedi eu lladd bron bob un. Tra yr ymosodid ar y cestyll hyn gyda pheiriannau ac ysgolion, ymdeithiodd Owen tua Lloegr, ac yr oedd tref fawr a chadarn yr Amwythig yn crynnu wrth ei ddyfodiad. Ond nid oedd am fynd ymhell i Loegr nes y cymerai gestyll Caernarfon a Chaer Dydd, ac yr oedd yn dyheu am ennyd o seibiant i drefnu'r wlad.

Galwodd senedd i Fachynlleth, pedwar gŵr o bob cwmwd. Coroni eu tywysog, trefnu'r trethi, dwyn pawb yng Nghymru dan awdurdod cynrychiolydd eu hundeb a'u rhyddid,

^{1404. (Gwarchod ar y cestyll).}
 Senedd Cymru. —dyna waith y senedd hon. Dywedir i Syr Dafydd Gam,—fu farw wedi hynny ar faes Agincourt,—gynllunio brad ei dywysog; ond yn y diwedd tyngodd lw o ffyddlondeb iddo. Yn eisteddiad nesaf y senedd Gymreig yn Nolgellau, arwyddwyd y cytundeb â Ffrainc, ar y degfed o Fai. A thra yr oedd llysgenhadon "ein gogoneddus arglwydd Owen, tywysog Cymru" yn trefnu rhyfel â Lloegr gyda'i "frenhinol gefnder" yn Ffrainc, yr oedd Owen ei hun yn prysur ddiffodd marwor olaf y gwrthwynebiad iddo yng Nghymru. Daeth i Ddyffryn Clwyd, ac ymunodd John Trevor, esgob hirben Llan-elwy, âg ef. Rhoddodd castellwyr Harlech ac Aberystwyth eu

harfau i lawr; cymerwyd Caer Dydd a llosgwyd hi, oddigerth yr heol lle trigai'r Ffrancisciaid; ac ym mis Gorffennaf ymddanghosodd y fyddin Gymreig wrth byrth Henffordd, a ffodd duc York yn ebrwydd o'i blaen.

Yn niwedd 1404, y mae cynlluniau Owen bron yn ymyl sylweddoliad; ac os oes gwobr i fod i allu diamheuol gwladweinydd, i ofal di-ddiwedd, ac i egni diorffwys, yr oedd wedi haeddu buddugoliaeth. O'i gwmpas yn senedd Harlech yr oedd arweinwyr pob ardal y tu yma i Hafren, yr oedd brenin Lloegr yn ddyledog, yr oedd barwniaid Lloegr yn cydymdeimlo âg Owen, yr oedd Northumberland a Scrope yn ailgodi'r gogledd mewn gwrthryfel, yr oedd y llynges Ffrengig yn cadw'r ffordd yn glir rhwng Brest ac Aber Daugleddau, yr oedd byddin Ffrainc yn ymbarotoi. Ar graig Harlech yr adeg honno, gwelai Owen Glyn Dŵr sicrwydd anibyniaeth ei genedl a'i eglwys.

Ond, unwaith eto, daeth y taro cyn y medrai Owen roi'r cynghreiriaid anghydmarus i ymdeithio gyda'u gilydd yn erbyn y gelyn. Pan ddeallwyd fod Lady Spencer wedi ceisio dianc i Gymru gyda iarll y Mers,—y bachgen oedd yn wir etifedd y goron,—penderfynodd y Cyngor roi pob gewyn ar waith i wynebu'r dymhestl newydd oedd Owen Glyn Dŵr yn barotoi. Llwyddodd y brenin ymhell y tu hwnt i'w ddisgwyliadau. Ym Mawrth, gorchfygwyd rhan o fyddin Owen, a chymerwyd ei ganghellydd galluog, Gruffydd Young, yn garcharor. Ychydig ddyddiau wedyn, daeth llythyr oddiwrth y tywysog Harri, yn adrodd hanes brwydr Mynydd Pwll Melyn, yng Ngwent, lle y daliwyd mab Owen, ac y lladdwyd ei unig frawd, Tudur. Dihangodd Northumberland a Scrope i'r Alban, ac yr oedd Deheudir Cymru heb neb i'w hamddiffyn rhag y brenin. Diflannodd Owen. Danghosir eto ogof ar draeth Meirionnydd lle y myn traddodiad iddo ymguddio. Ond

Y Ffrancod. yr oedd mor brysur ag erioed; a chyda glaniad y fyddin Ffrengig hir-ddisgwyliedig ddiwedd yr haf, yr oedd mor rymus ag erioed. Ychydig, fodd bynnag, wnaeth y deuddeng mil Ffrancod. Ac ychydig wnaeth Harri hefyd; pan ddaeth i Henffordd, yr oedd tymhestl ar fynyddoedd Cymru, heblaw Owen Glyn Dŵr.

Gyda 1406, darfyddodd chwerwder y brwydro. Yr oedd Harri'r Pedwerydd wedi colli ei hen egni,—oherwydd cydwybod ddrwg neu afiechyd dieithr; yr oedd bryd ei fab ar ymosod ar Ffrainc. Yr oedd y llafurwyr wedi ennill ei brwydr, ac yn dyheu am heddwch. Heb fyddin sefydlog, tra'r oedd brwdfrydedd yn treio, yr oedd yn anodd i Owen Glyn Dŵr ddal ei dir. Ond yr oedd ei ysbryd mor an-

Gobaith diwedd
1404.

1405. Mynydd
Pwll Melyn.

Y Ffrancod.

1406. Adeg traf.

hyblyg, a'i gynlluniau mor fawreddog, ag y buont erioed. Ar y dydd olaf o Fawrth ysgrifennodd lythyr at frenin Ffrainc ym Mhennal, ac ynddo geilw'r flwyddyn 1406 "y chweched flwyddyn o'n brenhiniaeth." Yn y llythyr addawa ufudd-dod i'r pab Ffrengig ar amodau. A'r amodau hynny yw'r darluniad cywiraf o amcanion Owen Glyn Dŵr.

Ar lawer cyfrif y ddau gymeriad mwyaf dyddorol yn y bymthegfed ganrif yw'r gwrth-bab Peter di Luna a'r gwrth-ryfelwr Owen Glyn Dŵr. Yr oedd Benedictus XIII.

Peter di Luna ac Owen Glyn Dwr. a Thywysog Cymru,—dyna enwau swyddogol y ddau,—yn debyg i'w gilydd mewn aml beth. Nid oedd neb yn deall gwladweiniaeth y ganrif yn well na hwy, edrychent i lawr fel eryrod ar gynlluniau brenhinoedd di-ddal a phleidiau afrifed; yr oedd cynlluniau'r ddau'n eang ac yn feiddgar; meddai'r ddau urddas personol a phenderfyniad anhyblyg; gwisgid y ddau â dieithrwch sydd wedi rhoddi lle mawr i ddychymyg oesoedd wedyn wrth feddwl am danynt; bu'r ddau farw,—y naill ynghudd a'r llall yng nghastell anghyr-aeddadwy Peniscola,—yn edrych ar ddinistr eu cynlluniau, ond yn anhyblyg hyd y diwedd. Meddai'r ddau, hefyd, amynedd i aros nes y byddai eu gelynyon wedi methu, ac nes y gelwid hwy'n ol gan eu pobl eu hun. Ac wele amcanion Owen.

I. ANIBYNIAETH EGLWYS CYMRU. Yr oedd y pab i ddileu pob melldith eglwysig oedd yn gorwedd ar Owen a Chymru.

Yr oedd i adfer Tyddewi i'w hen fri dychmygol, yr Eglwys. oedd ei harchesgob i reoli, nid yn unig pedair esgobaeth Cymru, ond esgobaethau Cernyw, lle y siaredid Cymraeg yr adeg honno, ac esgobaethau'r gororau.* Yr oedd pob bywioliaeth yng Nghymru i fod dan archesgob Tyddewi, a'r un dan archesgob Caer Gaint. Ac yr oedd y pab i ofalu fod pob swydd eglwysig i'w rhoi i rai cyfarwydd â'n "hiaith ni."

II. ADDYSG I GYMRU. "A'n bod hefyd," ebe'r llythyr, "i gael dwy brifysgol, un yng Ngogledd Cymru a'r Prifysgol. llall yn y Deheudir, mewn dinasoedd neu drefydd neu leoedd y penderfynir arnynt gan ein llysgenhadwyr ni."†

III. ANIBYNIAETH CYMRU. Yr oedd y pab i hyrddio mell-dithion yr eglwys yn erbyn Harri'r Pedwerydd, ac i roi holl

* Exeter, Bath, Hereford, Worcester, a Leicester. "Cujus sedes," meddir am yr olaf, "jam translata est ad" Coventry a Lichfield.

† "Item quod habemus duas universitates sive studia generalia, videlicet, unum in Northwallia et aliud in Swthwallia, in civitatibus, villis, seu locis per ambaxiatores et nuncios nostros in hac parte specificcon. et declaracion."

nerth y fraich ysbrydol gydag Owen Glyn Dŵr. Cyn y medrai

Owen lwyddo, yr oedd yn rhaid diorseddu Harri.

Coron.

Er mwyn sicrhau anibyniaeth barhaol Cymru, yr oedd yn rhaid gwanhau Lloegr trwy ei rhannu. Ni wyddis fod sicrwydd hanesyddol am y rhaniad ddarlunnir gan Shakespeare,* ond y mae'n ddiameu mai rhybeth tebyg oedd ym meddwl Owen. Gyda'r Percies yn rheoli yn y gogledd, a'r Mortimeriaid yn y de, y mae'n amlwg mai yn llaw'r tywysog y tu arall i'r Hafren y buasai'r deyrnwialen gryfaf a'r orsedd fwyaf disigl. Yr oedd brenin yr Alban i fod yn gyfaill iddo, a thywysogion yr Iwerddon i weled amddiffynnydd ynddo ef.

Yr oedd amcan arall nad oedd a fynno Peter di Luna âg ef, ac na sonnir am dano yn y llythyr. Hwnnw oedd rhoi trefn

ar Gymru. Am amser a heddwch i wneyd hyn yr

Trefn.

oedd Owen yn hiraethu. Senedd, debyg i senedd Lloegr, oedd ei senedd ef i fod,—cynrychiolwyr o'r gwahanol ardaloedd, a'r rhai hynny, ond odid, yn uchelwyr. A phe cawsai ond deng mlynedd o lonydd buasai, yn ol pob peth fedrir weled heddyw, wedi arbed canrifoedd o oedi a dioddef i Gymru yn nhyfiant ei bywyd. Yr oedd yr uchelwyr gydag ef —nid oedd ond un Syr Dafydd Gam, ond un Hywel Sele. Yr oedd yr eglwys gydag ef; yr oedd y Cisterciaid, y cyfoethocaf o'r urddau mynachaid, a'r Ffrancisciaid, y mwyaf dylanwadol o'r urddau cardod, wedi bod o'i ochr bron o'r dechreu, ac wedi dioddef er ei fwyn. Yr oedd y beirdd, a'r teimlad cenhedl-aethol,—eglwysig, neu wrth-eglwysig,—gydag ef hefyd. Ac yr oedd y werin ymhob man, yng Ngwent fel yng Ngwynedd, ar y gororau fel ar y mynyddoedd, yn edrych arno fel y gŵr a'u gwardai o'u caethiwed. Yr oedd llwyddiant yn gwenu ar y byd hefyd, yr oedd cyfoeth a chysur yn dod ar ol pla a rhyfel. Yn ol pob arwyddion, pe cawsai ond llonydd yn unig, buasai Cymru'n Gymru lwyddiannus a dedwydd dan deyrnwialen Owen Glyn Dŵr, "trwy ras Duw'n Dywysog Cymru."

Ond nid oedd hynny i fod. Erbyn 1407 gwel Owen Glyn Dŵr fod raid iddo ymladd ei hunan, ac â gelyn cryf. Gwelodd ei gynghreirwyr yn diflannu, y naill ar ol y llall. Ychydig longau ddeuai o Ffrainc, yr oedd nerth Gogledd Lloegr yn gwanhau. Yn yr haf medrodd y tywysog Harri gyrraedd Aberystwyth, er mai buan yr ail gymerodd Owen y castell.

* MORTIMER. "England, from Trent and Severn hitherto,
By south and east, is to my part assigned;
All westward, Wales, beyond the Severn shore,
And all the fertile land within that bound,
To Owen Glendower; and, dear coz, to you
The remnant northward, lying off the Trent."


King Henry IV. Part I., Act iii., Sc. i. 75-80.

Ond, gyda llofruddiad Orleans, darfyddodd pob gobaith am gymorth o Ffrainc. Yn 1408, gwnaeth Northumberland ei ymdrech anobeithiol olaf ar faes Bramham Moor. Cymerwyd esgob Bangor yn garcharor yno; a gwelwyd pen yr hen iarll, yn brydferth oherwydd gwynder ariannaidd y gwallt, yn pydru ar ganllaw Pont Llundain. A cholodd Owen Glyn Dŵr ei gestyll olaf,—Llanbedr Pont Stephan, Aberystwyth, a Harlech.


Yr oedd y werin bobl wedi blino ar ryfel. Dan orthrwm yr ieirll yr oeddynt yn barod i groesawu Owen Glyn Dŵr, ac i ymuno â'i faner. Ond, pan oedd wedi ennill iddynt yr hyn a ddymument, naturiol oedd iddynt hiraethu am heddwch, a derbyn cynnyg y brenin, a rhoi eu harfau i lawr. Yr oedd cyfoeth y werin yn cynyddu, yr oedd dyddiau braf o'u blaen. Darfyddodd eu terfysg,—yn fuan iawn nid oedd i Wyclif ddilynwr yn Lloegr nac i Owen Glyn Dŵr fyddinoedd yng Nghymru. Os oedd eu cyflogau'n uchel a'u bwyd yn rhad,—a deddfau cyflog a phris yn ddi-rym,—nis gellid disgwyl i'r werin aberthu ei chysur a'i llwyddiant er mwyn adran o gredu neu brydyddiaeth gwladgarwch. Darfyddodd y gwrthryfel llafur yng Nghymru fel y darfyddodd yn Lloegr, oherwydd fod y llaturwyr wedi ennill yr hyn oedd arnynt eisiau. Darfyddodd y gwrthryfel; a chydag ef diflannodd dau freuddwyd yn eu pryddferthwch,—breuddwyd y Lolardiaid am eglwys newydd, a breuddwyd Owen Glyn Dŵr am Gymru newydd.

Ond ni cholodd gwerin Cymru ei pharch a'i chariad at ei harweinydd yn nydd ei chyni. Am flynyddoedd, bu'n crwydro ymysg ei bobl; ac ni fradychwyd ef erioed. Y mae'n wir i'w wraig a'i ferch,—Lady Mortimer,—syrthio i ddwylaw'r brenin; ond arhosodd ef yn ddiogel yng Nghymru, yn barod i amddiffyn y werin pe buasai galw am danu. Yn 1412 y mae Syr Dafydd Gam yn garcharor ganddo; yn 1414 y mae ysiwr oddiwrth y brenin yn ei wyllo; yn 1415 a 1416 gwnaeth Harri'r Pumed ymdrech i ymheddychu âg ef ac â'i fab Meredydd. Gwelodd Owen Gymru'n llwyddo, a rhyfel yn darfod ohoni, er na chafodd ef roddi ei hoff drefn arni, ac er na welodd roi argraff ei feddwl yn eglur iawn ar ei dyfodol. Bu farw, yn ol pob tebyg, yn 1416, ac mewn heddwch. Ni ŵyr neb i sicrwydd pa le mae ei fedd. Dywed un traddodiad mai yn Nyffryn Gwy y mae; ond y tebygolrwydd ydyw mai yn rhywle yn Nyffryn Dyfrdwy y gorwedd, ym mynwent Corwen feallai.


Gellir dweyd hanes Owen Glyn Dŵr ar bedwar gair,—amddiffynnydd gwerin, ymgorfforiad cenedlgarwch. Ei genedlgarwch a'i parotodd at ei waith; cariad y werin ato, a'i ffydd ynddo, a roddodd nerth iddo yn ei pob dydd.




Hanes Cymru, gwelodd
 hinoedd; y mae ei
 Iwerddon yn llawn
 elodd werin ei wlad
 thrwm swyddog ac
 gwell. Rhoddodd
 osgi rholiau'r faenor,
 i'w digofaint dall,—
 charwyd neb erioed
 ymru. Mewn hanes
 Dŵr fel pe'n byw
 Moses ac Arthur a
 beirdd hiraeth am
 cyfarfyddai ef eto ar
 ei fynnai ei fod wedi
 codai'r cri,—



fynd i fyny'r afon, y
 n codi fel grisiau o'r
 af fyw i welod cof
 wyneb at fro ddiwyd
 Dinas Bran fry. Ei





(gol).

PRIFYSGOL

Yn ymddiriedolaeth y symudiad tuag
eto ni ddaeth Prif-
ysgol Aberdâr, Arglwydd Aberdâr,
collun y gyfundrefn
—ein prif orchest
—ros fod y pwyllgor yn
prifysgol, oherwydd
n barod. Y cynllun
goleg cenhedlaethol
od nepell oddiwrtho.
odd y collodd Cered-
yn meddu y ddau
ng 1881 ac 1893 yw

Yr oedd yn naturiol i Goleg Dewi Sant geisio cadw meddiant o'i fantais, ac, feallai, camgymeryd ei nerth. Yr oedd wedi ei sefydlu er 1822, trwy haelioni clerigwyr y Deheu-
Aberystwyth a
Llanbedr. bARTH a gweinyddiaeth Arglwydd Liverpool a'r brenin Sior y Pedwerydd. Cynhyddodd mewn cyfoeth a gallu; cafodd hawl i raddio rhai'n B.D. yn 1852, ac yn 1865 cafodd hawl i roi gradd B.A. Saif yng nghanol Cymru, mewn lle iach a phrydferth; y mae ei adeiladau a'i fywyd ar gynllun rhai Rhydychen; dysgir Cymraeg ynddo, mi dybiaf, o'r dechreu; mae addysg yn rhad ynddo, a'r ffordd i raddau Rhydychen yn rhwydd. Yn 1881 yr oedd yn gryfach nag y bu erioed.—nifer ei fyfyrwyr yn 78, a'r Prifathraw Jayne, yn awr Esgob Caer, yn ei buro a'i rymuso. Rheolid ef gan athrawon y coleg, ac Esgob Tyddewi'n ymwelydd iddynt; yr oedd gan yr esgob bob gallu,—gallu i wneyd deddfau'r coleg ac i'w newid yn ol ei ewyllys ei hun. Naturiol oedd meddwl na roddai'r coleg hwn ei fanteision i arall yn nydd ei obaith cryfaf. Y mae adlais gwrthodiad yn nhystiolaeth yr ymwelydd. Nid oedd yn foddlon i'w ddadsectu; ac os nad oedd ef yn foddlon, nis gellid ei wneyd.* Cyn apwyntio'r dirprwywyr yr oedd caredigion Coleg Dewi Sant wedi bwrw trael y dyfodol. Yng nghyfarfod yr Amwythig, yn 1876, penderfynasant awgrymu i'r Llywodraeth y gallai "on its present basis" ddod yn Brifysgol Cymru, gyda gallu i fabwysiadu colegau ereill; ac, os na wneid hynny, ac os byddai raid i'r coleg gymeryd ei fabwysiadu gan y brifysgol newydd fel rhyw golegau ereill, y dylid gofalu am beidio newid nodweddion y coleg, "as defined by its charter and constitution."

O'r ochr arall, ofnai caredigion Prifysgol Cymru mai nid hwnnw oedd yr amser i ddod i delerau. Yr oeddynt wedi ymdrechu'n galed, ac y mae hanes y symudiad, fel yr adroddwyd ef gan Hugh Owen, yn un o'r pethau mwyaf ddyddorol ddarlennais erioed, er mai enwau a ffigyrau yn bennaf ydyw. Cyn agor y coleg yn Hydref, 1872, yr oeddis wedi casglu dros ddenddeng mil o bunnau; erbyn 1880 yr oedd dros £65,000; a dywedid fod o leiaf gan mil o bobl wedi cyfrannu llai na hanner coron. Ond er hyn, cyfaddefai Hugh Owen nas gellid mynd ymlaen heb gymorth oddiwrth y Llywodraeth. Dyna hefyd oedd barn Stephen Evans. "Mae cymorth y Llywodraeth yn hollol angenrheidiol," ebe ef, "heb hynny, rhaid i'r coleg fynd a'i ben iddo." Yr oedd nifer y disgyblion wedi eu siomi hefyd, a golwg nychlyd ar y coleg; 79 oedd y nifer mwyaf, ac yr oeddynt wedi

* (*Mr. Richard*). Your lordship would not be in favour of depriving it of its denominational character and throwing it open?—No, I feel strongly upon that point, the more so as this particular part of Wales is, so to speak, the training ground of the clergy to a very extraordinary extent.

mynd i lawr i 53. Gelyniaeth yr ysgolion gramadegol, diffyg yr ysgolion canolraddol, a thlodi, oedd achosion y siomiant hwn, ebe Stephen Evans. Nid dyma ddiwedd trallodion Aberystwyth; dywedai llawer am dano mai coleg Methodistiaidd oedd. Mewn gwirionedd, ar ei brawf yr oedd y prifathraw o flaen y dirprwywyr; ac aeth Arglwydd Emlyn mor bell a gofyn a gynhelid gwasanaeth crefyddol yn y coleg ar y Sul. Ond er fod rhai o bob enwad yn y coleg, mynnai dallineb mai coleg enwad oedd. Felly, gwan a gwyw oedd Coleg y Brifysgol; ond gwyddai llawer ei fod yn gynrychiolydd o awydd Cymru am addysg prifysgol, a fod ei ddydd i ddod os medrid ei gadw'n fyw yn ddigon hir.

Ond, yn 1881, yr oedd Coleg Dewi Sant dan lywodraeth un esgob, wedi ei godi at bwrpas eglwysig, yn amharod i roi dim i fyny, a dyfodol disglair o'i flaen. Yr oedd Coleg y Brifysgol dan lywodraeth y werin, yr oedd lluaws yn drwgdybio fod tuedd Fethodistaidd ynddo, ac nid oedd yntau wedi colli ei uchelgais yn y dyddiau blin.

Pa fodd y medrid gwneyd Prifysgol Cymru o'r ddau goleg hyn, ond er eu gwaethaf?

Ond yr oedd awydd Cymru am addysg yn cryfhau, prifysgol neu beidio. Mewn gwledydd ereill dechreuid gyda phrifysgol, ac o dipyn i beth treiddiodd addysg i lawr. Ond yng Melan Prifysgol. Nghymru, dadblygodd ysgolion elfennol ac ysgolion canolradd a cholegau talaethol i ddechreu, tra'r oedd diffyg ymddiried yn gwneyd prifysgol yn beth amhosibl. "Tŷ heb do" oedd yr holl adeilad ym meddwl y Prifathraw Rhys; llwch haiarn gwasgaredig, heb dynfaen i'w dynnu i drefn, oedd ysgolion y wlad ym meddwl y Prifathraw Viriamu Jones. Ac yn fuan iawn daeth rhaid wrth brifysgol i roi unoliaeth i'r holl gyfundrefn.

Yn 1889 cawsom Ddeddf Addysg Ganolraddol, trwy ymdrechion yr aelodau Cymreig o bob plaid,—cydweithiai Mr. Stuart Rendel a Mr. G. T. Kenyon â'u holl egni. Yn ol hon Tu f addysg ganolraddol. gallai'r Cynghorau Sir newydd-anedig godi dimeu yn y bunt o dreth at addysg ganolraddol; a gallid nodi cyd-bwyllgorau i ail drefnu gwaddoliadau hen ysgolion, ac i godi ysgolion newyddion. Ym mhob rhan o Gymru yr oedd awydd am ysgol, ac yn fuan iawn codwyd un bron ym mhob man yr oedd gobaith iddi lwyddo.

Yr oedd cynnydd mawr mewn addysg uwchraddol hefyd. Yn 1882 rhoddodd y llywodraeth grant flynyddol o bedair mil o bunnau i Goleg Prifysgol Cymru; yn 1883 cychwynwyd gwaith Coleg Prifysgol Deheudir Cymru yng Nghaerdydd; yn

1884 dechreuodd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor. Felly yr oedd tri choleg prifysgol,—un yng Ngheredigion, y llall ym Morgannwg, a'r trydydd yn Arfon,—
Colegau newyddion. a llu o ysgolion canolraddol. Ond nid oedd dim undeb rhwng y siroedd na rhwng y talaethau, rhwng yr ysgolion na rhwng y colegau.

Yn Awst 1887 darlennwyd papur gan y Prifathraw Viriamu Jones o flaen adran y Cymmrodorion o Eisteddfod Llundain, i ddadlu dros drefnu yr holl ysgolion,—cysylltu 'r
Yr ail ddechreu. colegau, arwain ac arholi 'r ysgolion canolraddol, a rhoddi 'r un addysg i'r ysgolion elfennol. Yr oedd yn amlwg mai prifysgol yn unig a fedrai wneyd hyn. Y diwedd fu penderfyniad, gynhygid gan yr athraw John Rhys, ac a gefnogid gan Syr Lewis Morris,—

“Mai syniad y cyfarfod hwn ydyw y dylid gwneyd rhywbeth i wasgu ar Lywodraeth ei Mawrhydi awydd pobl Cymru am brifysgol.”


Penderfynwyd hefyd galw cynhadledd o gynrychiolwyr y colegau, yr ysgolion canolraddol, a'r ysgolion elfennol. Galwyd y gynhadledd gan y Cymmrodorion, a chyfarfyddodd yn yr Amwythig yn Ionawr 1888, dan lywyddiaeth Arglwydd Aberdâr. Penderfynwyd yno, wedi eistedd am ddau ddiwrnod, y dylid gorffen y gyfundrefn addysg Gymreig trwy sefydlu prifysgol, ac y dylai 'r brifysgol arholi 'r ysgolion canolraddol. Penderfynwyd hefyd fod ymdrech i'w gwneyd i drefnu cyfarfod arall lle y gallai y gynhadledd drin y pwnc gyda'r arglwyddi Cymreig â chyda'r aelodau seneddol Cymreig. Cyfarfyddodd y gyd-gynhadledd hon Mawrth 18, 1888, dan lywyddiaeth Arglwydd Aberdâr. Dywedwyd wrth y seneddwyr beth a benderfynasid, ac yr oedd yn amlwg eu bod hwy'n barod i weithio.

Sut yr oedd dechreu? Yr oedd llywyddwyr Coleg y Gogledd yn cyfarfod Ebrill 27, 1888, dan lywyddiaeth y diweddar Iarll Powys, yn union wedi 'r gyd-gynhadledd. Yn eu
Ymgais y colegau. mysg hwy penderfynwyd, ar gynhygiad y Parch. Ellis Edwards, ac eiliad yr athraw Rhys, fod gwahoddiad i'w anfon i Aberystwyth a Chaerdydd i gyfarfod. Awgrymid fod i Gyngor y ddau goleg arall ethol cynrychiolwyr i gyfarfod cynrychiolwyr Gyngor Coleg y Gogledd. A'u gwaith fyddai tynnu cynllun siarter Prifysgol Cymru.

Cyfarfyddodd saith o gynrychiolwyr o Gyngor pob coleg yn Llundain yn gynnar yng Ngorffennaf, 1888. Penderfynwyd yno,—

“Fod y cyfarfod hwn, sy'n cynrychioli tri Coleg Prifysgol Cymru, o'r farn fod yr amser wedi dod pan y dylai 'r colegau hyn wneyd cais unol at y llywodraeth am siarter i sefydlu Prifysgol Cymru.”

GOL.



“Fod y cais at y llywodraeth i fod am siarter debyg i'r siarter roddwyd yn barod i brifysgol Victoria, gyda'r cyfnewidiadau priodol i angenrheidiau neillduol Cymru.”

Nid yn hollol unol y pasiwyd y penderfyniadau hyn. A phan roddwyd hwy o flaen Arglwydd Lywydd y Cyngor ar y pymthegfed o Orffennaf, yr oedd yn amlwg fod y llywodraeth yn teimlo nad oedd y Cymry'n ddigon unol eto.

Y gwir ydyw, yr oedd yr hen anhawster yn aros o hyd, ac nid oedd yn debyg iddo gilio. Yr oedd Coleg Dewi Sant wedi ei adael allan yn gyfangwbl, a'i dynged i fesur wedi ei rhag-ordeinio,—nid oedd i fod ar yr un tir a'r colegau cenhedlaethol beth bynnag. Nid oedd ei garedigion yn ddall nac yn segur; ac yr oedd yn well ganddynt i Gymru aros am saith mlynedd arall heb brifysgol nac i'w coleg hwy beidio bod a rhan yn ei llywodraethiad. Y mae pawb yn meddwl nad oes ond eisiau amser i bobl weled mai hwy sy'n iawn.

Ond, heblaw yr hen anhawster, yr oedd anhawster newydd. Nid oedd caredigion addysg yn unfarn am gyfansoddiad y brifysgol newydd. Yr oedd y mwyafrif, o'r dechreu, mae'n ddiameu, yn credu mai yn ol ail benfyniad cyfarfod Llundain y dylai dull y brifysgol fod. Ond yr oedd ereill,—cefnogwyr aiddgar ac egniol addysg y werin,—yn tybio fel arall; ac yr oedd yn well ganddynt hwythau aros na threfnu prifysgol ar gynllun hen tra'r oedd un newydd gwell yn y byd.

Nodwedd yr hen brifysgolion ydyw fod pob disgybl yn efryd yng nghartref y brifysgol a than reolaeth uniongyrchol athrawon fydd hefyd, ond odid, yn arholwyr arno. Nid cyfrannu hyn a hyn o ddysg yn unig yw amcan prifysgol, ac nid arwydd dysg yn unig yw ei gradd.

Hanfod addysg prifysgol yw dod a'r disgyblion i gyfarfod eu gilydd, ac i gyfarfod eu hathrawon. Y mae'n wir fod arholiadau yn Rhydychen a Chaer Grawnt, ond peth hawdd yw pasio y rhain; oddigerth, wrth gwrs, yr arholiadau am anrhydedd,—y mae y rhai hyn, yn sicr, y pethau anhawddaf yn y deyrnas. Cyferfydd y bechgyn yn eu darlithiau â bechgyn colegau ereill, a chydymdrechant â hwy ar yr afon ac ar y maes rhedeg. Cydgyfarfyddant yn yr Union, yn enwedig ar nosweithiau'r dadleuon, nosweithiau magu areithyddiaeth cymaint o wladweinyddwyr Prydain. Gwel y rhai mwyaf efrydgar eu gilydd yn y Bodleian hefyd. Cyd-fwytânt yn eu colegau, cyd-ymgomiant yn eu *common-room* ac yn eu hystafelloedd, ânt am dro hir gyda'u gilydd ar y nawniau. Cyfarfyddant eu hathrawon yn aml, a threulia pob bachgen oriau lawer bob term gyda'i athraw,—dim ond hwy eu dau,—i gyd-drin pynciau'r efrydiaeth.

Y mae hyn oll yn rhan bwysig o addysg. Dysg y cyfoethog i ddeall y gall y tlawd fod yn anrhaethol uwch nag ef, oherwydd athrylith, neu ynni, neu brydferthwch a chryfder cymeriad. Gwerth yr hen radd. Dysg y tlawd i gollu pob gwasaid-dra, ac i ennill nerth heb gael gormod o hunan-hyder gydag ef. Cyll pob un ei onglau pigog wrth rwbio yn erbyn ereill, a daw yn un fedr ddeall y byd a byw bywyd o wasanaethgarwch ynddo. Nid ar radd y gŵr yn unig yr edrychir; nid yw pasio arholiadau ond un peth,—a hwnnw, hwyrach, heb fod y pwysicaf. Ond cymerir i ystyriaeth ei ddylanwad ar ereill, ei ddoethineb, ei fwyneidd-dra, ei amynedd, ei ynni,—pob peth a'i gwna'n allu yn y byd.

Ym Mhrifysgolion yr Alban ac ym Mhrifysgol Victoria, ceir hyn oll hefyd; ond i raddau llai. Yno hefyd rhaid i'r disgybl, nid yn unig basio arholiadau, ond byw yn ymyl y Brifysgol a mynd i'r darlithiau. Felly, os ceir gŵr a gradd Prifysgolion yr Alban. Glasgow ganddo, dyweder,—dengys hynny ei fod, ymysg pethau ereill, wedi clywed darlithiau Henry Jones ar athroniaeth, ac wedi ymglydnabyddu â bechgyn o bob rhan o'r wlad.

Ond y mae un brifysgol ym Mhrydain yn hollol anhebyg i bob prifysgol arall, sef Prifysgol Llundain. Nid yw'r brifysgol honno ond cofnodydd ac arholwyr yn unig,—nid oes iddi Prifysgol Llundain. ddarlithle nac athrawon na disgyblion. Ond daw tyrfa fawr bob blwyddyn i'w harholi gan ei arholwyr.

Y mae gradd Llundain yn arwydd o hyn a hyn o wybodaeth,—gwybodaeth fwy eang na manwl hwyrach, ond eto yn swm mwy na'r swm ddanghosir gan odid i radd ddi-anrhydedd mewn unrhyw brifysgol yn y byd. Ond o'r swm yna o wybodaeth yn unig y mae'n arwydd. Ni ddywed ddim am gymeriad,—gall y graddedig fod o fywyd dilychwin neu o fywyd ffaidd am a wyr yr arholwyr. Ni ddywed ddim am y dylanwadau y bu danynt,—gallai fod y coethaf yn y wlad, a gallai fod yn farbaraid.

Y mae i radd Prifysgol Llundain ei gwerth, mae'n ddiameu, a gwerth mawr. Medr bychgen tlawd uchelgeisiol gyrraedd ei graddau hi heb fynd i ddyled, a than weithio ei ffordd. Gradd Llundain. Gall fyfyrion gartref, yn ei oriau hamddenol; ni raid iddo ond colli rhyw wythnos yn y flwyddyn, wythnos yr arholiad. Gall fod ei gymeriad mor loew hefyd, ei ysbryd mor addfwyn, ei ddull mor gariadlawn, a'i awydd i wneyd daioni mor gryf a phe buasai wedi cael y fraint o fod dan ddylanwadau hynawsaf a mwyaf gwareiddiol yr hen brifysgolion. Mae aberth er mwyn gwlad neu deulu neu hunan yn ddyrchafol ynddynt eu hunan; y mae cydymdemilad chwaer neu fam dlawd yn well na


chydymdemilad yr athraw goreu a mwyaf medrus. Gall gŵr sy'n gwisgo gradd Prifysgol Llundain fod yn hyn oll,—ond ni ddywed ei radd ddim am hynny.

Meddwl rhai oedd gwneyd Prifysgol Cymru fel Prifysgol Llundain, yn gorff o arholwyr yn unig. Yna cai myfyrwyr o'r colegau cenhedlaethol, o Goleg Dewi Sant, o Goleg ^{Dadl y dull newydd.} Duwinyddol y Bala, o Goleg Aberhonddu, o Ysgol Llanymddyfri, o ysgol ganolraddol, eu harholi fel eu gilydd. Dywedai cefnogwyr y cynhygiad hwn mai dull i roi amddiffyn anheg i'r colegau cenhedlaethol oedd gorfodi pob un gai ei radd yng Nghymru i dreulio tair blynedd o leiaf yn un o honynt. "Paham," meddent, "y cauwch ddrws y brifysgol rhag rhai rhy dlodion i fynd i'r colegau cenhedlaethol? Gadewch i'r gof llengarol, os myn, gymeryd ei radd." Atebid mai nid gwybodaeth yn unig arwyddai gradd; atebid mai nid gradd, ond gwybodaeth er ei fwyn ei hun, oedd nod efrydydd mewn oedran.

Ond nid ar egwyddor yn unig y penderfynir y pynciau hyn fel rheol. Yr oedd pethau ereill. O blaid cefnogwyr prifysgol fel un Llundain yr oedd y peth yma,—difiannai'r hen ^{Ystyriaethau ereill.} anhawster ynglŷn â Choleg Dewi Sant, a gwyddent, ond odid, y caent gymorth gwŷr pybyr Llanbedr. O ochr y lleill yr oedd hyn,—byddai cefnogwyr Prifysgol Llundain yn sicr o wrthwynebu codi gwrth-ymgeisydd iddi yn y senedd. "Paham," gofynnid, "y sefydlir prifysgol i wneyd yr un gwaith yn union ag a wneir gan Brifysgol Llundain, tra y cynhelir arholiadau'r brifysgol honno mewn amryw fannau yng Nghymru? Beth fydd y canlyniad ond rhoi gradd anadnabyddus yn lle un adnabyddus?"

A chyn y gellid symud ymlaen, yr oedd yn amlwg fod yn rhaid i farn addfedu ar hyn hefyd. Ac addfedodd barn yn fuan iawn.

Yn ol Deddf Addysg Ganolraddol, 1889, yr oedd gofyn i gyd-bwyllgorau addysg y siroedd wneyd Bwrdd Canolog i arolygu ac arholi'r ysgolion canolraddol. Pe buasai y brifysgol ^{Cynhadledd y cyd-bwyllgorau.} mewn bod ar y pryd, y mae'n ddiameu mai hi fuasai'r Bwrdd Canolog hwn. Ond, fel y digwyddodd pethau, yr oedd y ddau sefydliad yn dod i fod ar yr un adeg; ac yn y cyfamser yr oedd colegau'r brifysgol yn arholi'r ysgolion ar wahoddiad cyd-bwyllgorau'r siroedd. Tra na wyddid eto beth fyddai'r brifysgol, yr oedd llawer yn gobeithio y byddai'r Bwrdd hwn yn rhyw fath o Fwrdd Addysg cenhedlaethol i Gymru. Ond gwnawd un peth oedd yn bwysig iawn yn hanes y brifysgol; penderfynwyd gan gynhadledd cyd-bwyllgorau'r siroedd nad oedd Coleg Dewi Sant ar yr un tir a'r colegau



(Kysgol Cymru).

olegau enwadol. Yr
 wydd nad oedd yr un
 ei gynrychioli arno.

Deon hirben ymadroddus Llanelwy,—yr awr yn brifathraw poblogaidd y coleg y bu'n brwydro mor gyndyn drosto,—oedd prif amddiffynnwr hawliau Coleg Dewi Sant. Yn ail gyfarfod cynhadledd cyd-bwyllgorau'r siroedd, a gynhaliwyd yn yr Amwythig, Tachwedd 28ain, 1890, y bu'r brif frwydr. Cynhygiodd Lord Emlyn fod dau gynrychiolydd o Goleg Llanbedr,—y prifathraw yn rhinwedd ei swydd, ac aelod i'w ethol gan yr athrawon,—i fod ar y Bwrdd Canol os gwneid ef, ac wrth wneyd rhoddodd y rhesymau dros i Goleg Dewi Sant fod a lle mawr yn llywodraethiad cyfundrefn addysg Cymru. Dywedodd ym mha bethau y mae'n wahanol i'r colegau enwadol. Yn gyntaf, y mae ganddo hawl i roddi graddau mewn duwinyddiaeth a chelfau. Yn ail, y mae'n fwy na choleg duwinyddol; gall anghydfurfwyr ymaelodi ynddo. Yn drydydd, y mae cysylltiad agos rhywgddo â Rhydychen a Chaergrawnt, gan ei fod wedi ymfabwysiadu dan y prifysgolion hynny. Yn fyr dyma'r rhesymau,—y mae Coleg Dewi Sant yn genhedlaethol; y mae ei bwysigrwydd yn hawlio lle iddo mewn unrhyw gyfundrefn addysg Gymreig; buasai dull ei fywyd,—ar gynllun yr hen brifysgolion,—yn rhoddi amrywiaeth daionus i'r gyfundrefn. Ychwanegodd Iarll Powis y gellid, hwyrach roi cynrychiolaeth i'r holl golegau enwadol; a danghosodd, oddiwrth wŷr enwog y gorffennol, y dylai prifathraw Llanbedr gael lle ar "Gyngor Cymru." Dywedodd prifathraw Llanbedr ar y pryd.—y Parch. C. G. Edmondes,—mai Coleg Eglwys Loegr oedd y coleg, ac nas gallai wadu hynny; ond adgofiodd y gynhadledd fod Dirprwywr 1881 wedi dangos y gallai'r coleg fod yn ddechreuad prifysgol genhedlaethol.

Gwrthwynebodd A. C. Humphreys-Owen, a cheisiodd brofi mai coleg enwadol oedd y coleg,—i barotoi clerigwyr i urddau Eglwys Loegr y sefydlwyd ac y gwaddolwyd ef, rheolid ef gan esgob yn rhinwedd ei swydd, yr oedd yn rhaid i rai o'r athrawon fod yn glerigwyr, o'r 402 fu ynddo er 1865, nid oedd ond 22 heb gymeryd urddau yn Eglwys Loegr. Dywedodd R. A. Jones fod yr aelodau seneddol,—Ceidwadol a Rhyddfrydol,—wedi gadael Coleg Llanbedr ar yr un tir a'r colegau enwadol yn y Ddeddf, ac mai chwerwder yn unig enynnid drwy'r yndrechion parhaus i osod Coleg Llanbedr ar dir uwch na'r colegau enwadol ereill. Dywedodd y cadeirydd y gallai'r colegau cenhedlaethol, os myn- nent, ymfabwysiadu yn Rhydychen a Chaergrawnt; ac awgrym- odd i Lord Emlyn roi "dau gynrychiolydd" yn lle "y prifathraw *ex officio* a chynrychiolydd," gan na chymerai'r Cyfrin Gyngor y prifathraw *ex officio* o herwydd y rhaid iddo fod, nid yn unig yn aelod o Eglwys Loegr, ond hefyd yn glerigwr. Wedi rhoddi'r cywiriad hwn yn y cynhygiad, ac wedi dadl bur ystormus,

pleidleisiwyd ar welliant Mr. Humphreys-Owen,—“ Os rhoddir cynrychiolaeth i Coleg Dewi Sant, na byddo yn fwy na'r hyn roddir i unrhyw goleg enwadol arall. Weler rhestr. Rhoddir seren wrth enw pob aelod etholwyd gan y Cyngor Sir, a dagr ar gyfer pob un apwyntiwyd gan y Cyfrin Gyngor.

CADEIRYDD,—A. H. D. ACLAND, A.S. (ARFON),

DROS Y GWELLIANT,—20.

- *Parch. Aaron Davies (Morgannwg).
- *Parch. Ll. Edwards (Ceredigion).
- *Gwilym Evans (Caerfyrddin).
- *S. C. Evans-Williams (Maesyfed).
- *Edwin Grove (Mynwy).
- *R. Hughes (Mon).
- *A. C. Humphreys Owen (Maldwyn).
- *Parch. Lewis James (Penfro).
- *J. Jenkins (Maldwyn).
- *Dr. Edward Jones (Meirion).
- *O. Isgoed Jones (Dinbych).
- *Peter Jones (Ceredigion).
- *R. A. Jones (Fflint).
- *J. Herbert Lewis (Fflint).
- *J. E. Powell (Dinbych).
- *F. W. A. Roche (Brycheiniog).
- *W. Sanders (Caerdydd).
- *Parch. W. Thomas (Caerfyrddin).
- *M. Tutton (Abertawe).
- *P. M. Williams (Fflint).

YN EBBYN,—11.

- †Hyb. Archdeon Bruce (Morgannwg).
- †Col. H. Davies-Evans (Ceredigion).
- *J. A. Doyle (Brycheiniog).
- †Hyb. Brifathraw Edmondos (Ceredigion).
- †Gwir Anrhyd. Viscount Emlyn (Caerfyrddin).
- †Parch. B. O. Jones (Dinbych).
- †Gwir Barch. J. Owen (Fflint).
- †Gwir Anrhyd. Iarll Powis (Maldwyn).
- †Prifathraw H. R. Reichel (Arfon).
- †O. Slaney Wynne (Meirion).
- †W. S. de Winton (Penfro).

AMHLEIDIOL,—3.

- †Ivor James (Caerdydd).
- †D. Lewis (Abertawe).
- †J. S. Tregoning (Caerfyrddin).

Yr oedd y papurau newyddion a'r werin bobl yn prysur drin y pynciau hyn hefyd,—hawl Coleg Dewi Sant i fod yn genhedlaethol, a'r dull goreu ar brifysgol. Ar y

Pa ddall? cyntaf yr oedd y wasg yn ffafriol ar y cyfan, yn enwedig y papurau mwyaf democrataidd, i gynllun tebyg i un Prifysgol Llundain. Fel y mae'r peth yn digwydd bod, y mae un o Gymry galluocaf y dydd yn drefnydd cyfundrefn Caer Grawnt i estyn addysg o'r brifysgol trwy ddarlithiau i ardaloedd y wlad. Rhoddodd gynllun at-dyniadol iawn o flaen Cymru,—gadawer i bob ysgol neu goleg, os medr brofi i'r Llys ei chymhwyster i gyfrannu addysg, anfon ei disgyblion i geisio gradd y Brifysgol. Rhyw hanner y ffordd rhwng Rhydychen a Llundain ydyw hyn, ond prydferthwch y syniad i'r Cymro oedd ei fod megis yn ffurfio'r genedl gyfan yn fath o Brifysgol.

Ond, yn raddol, penderfynodd y wasg a siop y saer a'r efall a phob man mai ffurfio'r colegau'n Brifysgol fyddai'r goreu. A phan gyfarfyddodd y gynhadledd oedd i drin y mater o'r newydd, yr oedd yn bosibl cael y wlad yn unfarn.

* Etholwyd gan y Cynghorau Sir.


† Apwyntiwyd gan y Cyfrin Gyngor.

Ail ddechreuwyd symud yng nghwrdd llywyddwyr Coleg y Gogledd eto, dair blynedd ar ol y symud arall, ac ar gynhygiad yr un gŵr. Yng nghyfarfod Ebrill 1, 1891, dan ^{Y Trydydd Cynnyf.} lywyddiaeth Mr. Rathbone y bu hyn. Cynhygiodd y Parch. Ellis Edwards, ac eiliwyd ef gan Esgob Llanelwy, fod pwyllgor i'w benodi eto i ystyried y moddion i gael Prifysgol Cymru, ac i gyd-ystyried y mater, os yn bosibl, gyda phwyllgorau cyffelyb o Aberystwyth a Chaerdydd, a chyda chyd-bwyllgorau addysg Deheudir a Gogledd Cymru. Bu tipyn o siarad, a theimlid yn dra hyderus fod y cychwyn newydd yn gychwyn i ben y daith. Ofnai rhai,—rhai'n barod i weithio'n galed er hynny,—fod digon o waith gyda'r ysgolion canol-raddol, a fod yn well oedi nes y byddai y rhai hynny wedi eu rhoi mewn trefn. Ond tybiai y rhai wyddai fwyaf am Gymru fod digon o frwdfrydedd dros addysg i orchfygu pob anhawster, a chariwyd penderfyniad yr athraw a'r esgob yn weddol, os nad yn hollol, unfrydol.

Etholwyd pwyllgor, a chyfarfyddodd yng Nghaer dan lywyddiaeth Mr. Stuart Rendel. Cyfarfod tangnefeddus hyfryd oedd, oherwydd yr oedd y penderfyniadau'n ddigon cyffred- ^{Pwyllgor Caer.} inol i bawb uno, er fod yn amlwg fod defnydd brwydr dan bob un. Cynhygiodd y Deon Owen,—yn awr prifathraw Coleg Dewi Sant,—ac eiliodd y Parch. Ellis Edwards fod yr adeg wedi dod i gael Prifysgol Cymru. Cynhygiodd un arall, ac eiliodd Esgob Llanelwy, mai un, ac nid tair, oedd y brifysgol i fod. Cynhygiodd W. Cadwaladr Davies, ac eiliodd R. A. Jones, y dylid cofio am addysg rhai na fedrant dreulio blynyddoedd i efrydu mewn coleg.

Deallai pawb mai'r gynhadledd, os medrid ei chael i gyfarfod, oedd i roddi manyldeb i'r penderfyniadau hollol gyffredinol hyn. Ac ar yr wythfed o Dachwedd, 1881, cyfarfyddodd ^{CYNHADLEDD YR AMWYTHIG.} CYNHADLEDD YR AMWYTHIG. Nid yw'n amcan gennyf yma adrodd hanes y gynhadledd fythgofiadwy honno; ond dylai rhywun ysgrifennu'r hanes yn fanwl. Penderfynodd mai,—

1. Prifysgol i addysgu, ac nid i arholi yn unig fydd Prifysgol Cymru,—hynny ydyw, fod yn rhaid i bob un geisio ei radd efrydu am dymor penodol yn un o'r colegau a ystyrir yn golegau'r Brifysgol.
2. Colegau'r Brifysgol fydd y colegau yn Aberystwyth, Bangor, a Chaerdydd, ynghydag unrhyw goleg arall a dderbynnir yn y dyfodol gan lys llywodraethol y Brifysgol gyda chydswyniad y goron.
3. Dymunol fydd trefnu darlithiau y tu allan i golegau'r Brifysgol.
4. Dymunol fyddai i'r Brifysgol arolygu ac arholi ysgolion canolraddol a sefydliadau addysg ereill yng Nghymru.
5. Er mwyn sefydlu'r Brifysgol yn fuan yn ol y cynllun hwn, apwyntir pwyllgor,—pedwar gan bob un o adrannau'r gynhadledd,—i ffurfio cynllun siarter.



YFRI.

yn anhygoel, a bydd
 weithiasant mor galed
 weithiau ; ac nid heb
 sodasant sylfeini y
 di hyd yn oed na'u

wedi gorffen ei waith,
 ydd gynllun siarter i'r
 nanwl i bob adran o
 gyfnewidiadau, der-
 r hanes, gyda bloedd
 a duwinyddion yn
 auasant arwyr rhyfel-
 y ar ffurf siarter gan
 Y. Cadwaladr Davies;
 adledd Llundain ym
 i'r Cyfrin Gyngor.

Gyngor yn sicrhau
 neb faint a newidid

ar gynllun Cynhadledd yr Amwythig. Yr oedd llawer o bethau bychain y galleid eu newid. Ac yr oedd y ddau anhawster mawr yn aros hyd y diwedd,—lle Coleg Dewi Sant, a beth i'w wneyd tuag at estyn addysg i'r rhai na fedrent dreulio cwrs o amser mewn coleg. Yr oedd aelodau'r Cyfrin Gyngor wedi cymeryd llawer o drafferth i gael digon o wybodaeth i ffurfio barn deg.

Ynglŷn â Choleg Dewi Sant yr oedd dau gwrs amlwg,—ei roddi ar yr un tir a'r colegau cenhedlaethol neu ei adael fel yr oedd. Ni chlywais neb yn awgrymu ei amddifadu o'r gallu oedd ganddo i roddi graddau. Rhwng y ddau ddull amlwg yr oedd llawer o ddulliau ereill,—ac yr oedd y dull gymerid yn dibynnu ar ddau beth, sef parodrwydd y Cyfrin Gyngor i ystwytho y gyfundrefn ddesgrifid yn siarter Cynhadledd yr Amwythig, a pharodrwydd Coleg Dewi Sant i newid ei gymeriad fel ag i fod yn llai enwadol. Os gadewid Coleg Dewi Sant allan, ofnid y byddai un adran o Gymru'n anheyrngarol i'r Brifysgol; os rhoddid ef i mewn, teimlid yr ystyrai'r colegau enwadol eu bod hwy yn cael cam. Yr oedd anhawsterau ym mhob cyfeiriad, mae'n ddiameu; a'r diwedd fu derbyn dull Cynhadledd yr Amwythig, a gadael i'r dyfodol benderfynu perthynas Coleg Llanbedr â'r Brifysgol. Faint bynnag oedd yn credu y dylid gwrando ar gais Coleg Dewi Sant, er mwyn cyfiawnder ac er mwyn heddwch, mae'n rhaid i bawb addef mai'r ffordd gymerodd y Llywodraeth oedd y fwyaf didramgydd i gorff mawr poblogaeth Cymru.

Derbyniodd y Cyfrin Gyngor gynllun Cynhadledd yr Amwythig, a rhoddwyd siarter Prifysgol Cymru o flaen Senedd Prydain Fawr. Ni fu gwrthwynebiad iddi yn Nhŷ'r Cyffredin, ond condemniodd Tŷ'r Arglwyddi hi oherwydd nad oedd Coleg Dewi Sant yn goleg iddi. Y Cyfrin Gyngor sy'n creu prifysgolion, ac ni wrandawodd ar ddymuniad Tŷ'r Arglwyddi. Rhoddwyd y sel ar y siarter ar y dydd olaf o Dachwedd, 1893.

O'r rhai fu'n gweithio dros y Brifysgol, y maent oll ar dir y byw, mor bell ag y gwn i, oddigerth dau. Cafodd Arglwydd Aberdâr fyw i weled y Brifysgol yn ffaith, ac efe benodwyd yn Ganghellydd cyntaf iddi. I'w ddoethineb ef, i'w awydd am addysg i fechgyn a merched Cymru, i'w lafur di-orffwys, y mae llwyddiant yr ymdrech am Brifysgol i'w briodoli i raddau helaeth iawn.

Bu Arglwydd Aberdâr farw o ludedd gwaith blynyddau meithion, a'i ddylanwad ar Gymru megis dylanwad teyrn urddas-

ol; bu R. A. Jones farw o dwymyn, ym mlodau ei ddyddiau.
 Ni chafodd Cymru erioed wasanaethwr llai hunan-
 B. A. Jones. geisiol, mwy egniol, a mwy parod i waith ac aberth.
 Ni wŷr ond y cyfarwydd gymaint o addysg Cymru
 sy'n ddyledus i'w lafur distaw a phenderfynol ef.

Tywysog Cymru ddilynodd Arglwydd Aberdâr fel Canghell-
 ydd y Brifysgol; ac, yn sicr, nis galleid cael ei well. Gwyr y
 wlad am ei ddoethineb, ac y mae wedi gwneyd llawer iawn yn
 barod i ennill cydymdeimlad pob dosbarth, yng Nghymru ac yn
 y rhannau ereill o'r deyrnas, i'r brifysgol newydd.

Tair blynedd sydd er pan sefydlwyd Prifysgol Cymru. Y
 mae wedi dod yn rhan hanfodol o fywyd Cymru'n barod. Gwel
 pawb na ddaeth i fod yn rhy fuan,—llwydda oherwydd fod ei
 heisiau.

"FY NUW, FY NUW, PAHAM Y'M GADEWAIST."

I.

Festah-ddolef ingol-gref!

Mor anorchfygol oedd Ei serch!

Caru wrth farw yr oedd Ef—

Caru ar Ei groesbren erch,

Gan anadlu drwy'r trybestod arwydd-iaith salm-odlig dderch.

O ddallineb enaid coeg; O fyddardod calon wyw;—

Sut na welsai'r Iddew ffol fod ei ddrain ar ben ei Dduw,

Sut na chlywsai yn Ei eiriau furmur peraidd cariad byw?

Er ei ddysgu am ganrifoedd, mor war-galed ydoedd Ef,—

Mor egniol y cyfodai fraich o gnawd i herio'r nef.

II.

Fel pererin dan y tonnau didosturi, llofodd allan,—

Chwerwder newydd brofai'i enaid,—marw, marw wrtho'i Hunan.

Suddai'i natur yn ffinedig yn rhyferthwy'r dirdyniadau,

Ac ni feddai gyfaill tyner i eneinio 'i danllyd friwiau.

Marw—orchwyl anghynefin!—mynd i wyddfod ingol sobrwydd,—

Yr amrantau'n cau, a'r galon yn arafu mewn distawrwydd,—

Iesu sanctaidd yn gruddfanu, ac yn teimlo'r caddug erchyll,—

Tra mae llawer annuw'n cerdded yn ei gwag trwy'r Dyffryn Tywyll!

Nid oedd marw iddo'n dynged—'roedd Ei natur yn ddilychwin;

Gorfu'i angau daro'n chwerw—all-flaenllymu'i saethau gerwin.

Cafodd Iesu ffwrnais gofid wedi'i thwymo "seithwaith boethach,"—

Nid yw'r weddi-ruddfan yma ond *evgrymu*'r ing-gyfrinach.

III.

Ond mae ystyr ddyfnach eto
 I unigrwydd Iesu sanctaidd,—
 Tragwyddoldeb i'w fyfyrto
 Ar ei liniau blyg yn wylaidd ;


Neb ond Iesu'n storm cyflawnder oedd a'i dafnau'n foroedd heilltion,
 A'i tharanau pella'n ddychryn i galonnau'r bryniau cryfion,—
 Chwa ei haden a yrasai'r ddaear halog i ddiddymdra,
 Oni buasai fod yr Iesu'n groeshoeliedig ar Galfaria,—
 Rhaid oedd iddi cyn gallasai deithio rhagddi goncro'r Cadarn
 Esgynasai ar Ei groesbren i'w chyfarfod—a'i thro'i'n wasarn.

Neb ond Iesu yn "alluog;" neb ond Iesu wedi'i "osod;"
 Neb ond Iesu dan y "cleisiau;" neb ond Iesu wedi'i "wrthod!"
 Nid oedd dynion yn Ei adwaen, nac yn deall Ei amcanion,—
 Poer a cherrig, drain a hoelion gadd am drugareddau mawrion.
 Ac ni safodd neb o'r bobloedd i'w gysuro yn Ei drallod—
 Ar ei enaid Ef ei hunan y llifeiriai'r melt a'r wermod.
 Hefyd gwgai'r Duwdod arno wg anfeidrol, cyffroedig,
 Trengai'r Cyflawn dros anghyflawn ar y croesbren melldigedig.
 Rhaid oedd deffro'r cleddyf cadarn,—daethai'r awr i'r meichiau farw,—
 Trodd y Tad ei gefn, a gwybu'r Mab beth oedd unigedd chwerv.
 Duw a dynion wedi'i wrthod, gyda chleddyf yn ei galon,—
 Dreigiau'r Fagddu tan ei sangiad,—gwae'n ei foddi megis afon,—
 Yntau'n caru hyd y diwedd,—yn rhoi'i fywyd dros Ei elyn,
 Dyna'r pam 'roedd Iesu'n unig yng ngafaelion marwol ddychryn.

Rhaid i'r gyfraith gael ei gofyn ;
 Mor ofnadwy ydoedd hwnnw,
 Wrth ei rodai suddai'r Duwddyn
 Yn ddigyfaill—ac yn farw !

O unigrwydd rhyfedd, rhyfedd!—bechod halog; gyfraith sanctaidd!
 Gariad dwyfol, anorchfygol,—rhoddwn iddo foliant peraidd,
 Rhoddwyd digon i bob gofyn!—yn y marw yma'r ydoedd
 Dioddefaint is nag uffern, ac ufudd-dod uwch na'r nefoedd.

Cenwch, bererinion, cenwch! fe agorwyd ffordd i fywyd,
 Yn lle'r Groes a'r cuddio gwyneb ceir llawenydd difrycheulyd.



UNIGEDD.
Oddŵrth y darlun gan Tim Evans.

Y LLENOR.

"I WYBOD DOWTHINES AG ADYDDE."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

LLYFR X

CRWYDRO.

DEWI WYN A'I FEIRNIAID.

BLODAU'R GWANWYN.

CRISTIONOGION ARMENIA.

ADGOFION GWIBDAITH.

CYNNYDD Y CYMRO.

GEORGE JEFFREYS.

GWLAD HAUL CANOL NOS.

SWITSCHEM :

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN.

EBRILL, 1897.

1. The first part of the document is a letter from the author to the editor, dated 10/10/1968. The letter discusses the author's interest in the subject of the journal and the author's previous work in the field.

2. The second part of the document is a letter from the editor to the author, dated 11/10/1968. The editor expresses interest in the author's work and asks for more information.

3. The third part of the document is a letter from the author to the editor, dated 12/10/1968. The author provides the requested information and expresses a desire to publish in the journal.

4. The fourth part of the document is a letter from the editor to the author, dated 1/10/1969. The editor agrees to publish the author's work in the journal.

5. The fifth part of the document is a letter from the author to the editor, dated 2/10/1969. The author expresses appreciation for the editor's interest and agreement to publish.

6. The sixth part of the document is a letter from the editor to the author, dated 3/10/1969. The editor provides information about the journal's publication schedule and the author's responsibilities.

7. The seventh part of the document is a letter from the author to the editor, dated 4/10/1969. The author provides the final details for the publication.

8. The eighth part of the document is a letter from the editor to the author, dated 5/10/1969. The editor expresses appreciation for the author's contribution and wishes the author good luck.

CYNHWYSIAD.

Wyneb-ddarlun—UNIGEDD.

CRWYDRO.

Llaw Duw, Dameg Swedaidd. Caneuon gobaith. Galar Ap Vychan am ei chwaer. *In Memoriam*. Beth yw unigedd. Sian ac Elin a Lil. Gwaith Ialwyn. Llyfr yr athraw Spencer. Casglu'n foddion gras. Ieuan Gwynedd. Myfyrdodau Gwilym Marles. Negeu y bardd newydd. Canu'n iach.

DEWI WYN A'I FEIRNIAID.

Cymdeithas y Gwyneddigion yn cynnyg gwobr am awdl ar "Elusengarwch;" Dewi Wyn yn adrodd hanes y beirniadu; ei ymosodiad ar Dr. W. O. Pughe.

Ei soriant a'i waith ar ol awdl Elusengarwch.

Ysgrif Iwan yn *Seren Gomer*, yn ymosod ar farddoniaeth Gymreig; ei "Fedd fy Nhad"; yn ymosod ar Dewi Wyn; marw Iwan; Dewi Wyn yn ymneilldno i'r Gaerwen. TUDALENNAU 17—32.

BLODAU'R GWANWYN.

Dyffryn y Dywynni, Ger Rhaiadr Gwy.

Mwynder y gwanwyn; adar y gwanwyn; blodau'r gwanwyn—Lliwiau blodau; blodau cyn dall.

Eiriawl, Carn yr Ebol, Llygad Ebrill, Croeso Gwanwyn, Blodeuyn y Gwynt, Briallu, Pidyn y Gog, Crinllys, Blodau'r Drain.

Paham y blodeua rhai coed cyn deilio? TUDALENNAU 33—38.

GEIRIAU I FIWSIG. *Y Ddau Arwr; Y Bardd a'r Cerddor.* TUDALENNAU 39, 40.

CRISTIONOGION ARMENIA.

I. Dioddefaint yr Armeniaid; O Dduw, pa hyd?

II. Gregori'r Goleuadur yn pregethu'r efengyl yn Armenia; cariad yr Armeniaid at y Beibl; credo Nicea; troi cefn ar Eglwys Groeg; dyfodiad y Mahometaniaid.

III. Daioni croes Armenia. TUDALENNAU 41—46.

OrffwsTUDALENNAU 47—48.

"ADGOFION GWIBDAITH"—*Ishoyn.*

Ger Abercaw.

Y tren; Pont y Crumlin; Henffordd; Church Stretton.

Gogledd Cymru,—Natur; y môr; Dyffryn Clwyd; y mynyddoedd; Mon; Beaumaris; y Wyddfa; beirdd y Gogledd; adgofion am y mynyddoedd.

TUDALENNAU 49—56.

CYNNYDD Y CYMRO.

Dechreu o'r newydd gyda'r ganrif; newid chwaeth; cynnydd goddefiad; dadblygiad athroniaeth, duwinyddiaeth, papurau newyddion, cylchgronau, beirniadaeth, barddoniaeth, pregethu, gwleidyddiaeth, y gweithiwr, addysg.

TUDALENNAU 57—61.

La Belle Dame Sans Merci.....TUDALENNAU 67, 68.

GEORGE JEFFREYS.

Anghyflawnder haneswyr tuag ato, yn enwedig Macaulay.

Ei febyd a'i addysg; o Wrecsam i Lundain; esgyn fel cyfreithiwr,—common sergeant, cofiadur Llundain, arglwydd farnydd yn adeg Brad y Pabyddion a gwrthryfel Monmouth, arglwydd ganghellydd mewn amseroedd enbyd.

Ai teg ei gondemnio? Jeffreys a Baxter.

TUDALENNAU 69—78.

GWLAD HAUL CANOL NOS.


Y Saith Chwaer, Ynysodd Loffoden, yr Haul ganol nos, Penrhyn y Gogledd.


Trondjhem; rhaladrau ac afonydd.

Troi'n syth i'r gogledd eithaf; ffrwythau a blodau; y Saith Chwaer; y Maelstrom; Harstad; Trondnaes; haul canol nos, paham y gwelir ef.

Gwersyll y Lapiaid, Hammerfest, Penrhyn y Gogledd, Tromso, Aalsund, Geiranger Fjord, Merok, Bergen, Aberdeen, adre.

TUDALENNAU 79—96.





Y mae'r meddwl yn
fôr a thir, a daw
a ddieithr a rhyfedd
en,—ond heb allu i'w
nio. Gwely marw
en, ystorm ar noson
an lleuad, saethu
mewn gwaed oer wedi
en, hen alaw wedi colli
byd o flodau heb ddim
yn eu lliwiau,—medr
en fo cwsg ac esmwyth-
oddiwrth y meddwl,
newyddion nag sydd
hwy'n ddigyswllt.

a oes trallod nas gellir
ffydd yn rhagluniaeth
ddwl am dan'n gyrru
ty waed fy nghalon;
rwy ei hing, nas gallwn
dd yr ystorom arnaf;
rhyw anherfynol hedd.
na wyr neb ond rhai
briw heb adael balm

dol iawn yn y ddameg
cwsg mewn llawer iaith:
au nes blino, canlynwyd
rwyd o'r diwedd gan
rth yr ymataliad yma,
waith,—

"Cân ydyw bywyd."

"Na, ymdrech mewn tywyllwch ydyw," meddai Gwâdd oedd bron newydd lwyddo i gael ei ben allan o'r ddaear.

"Rwyf fi yn meddwl mai dadblygiad ydyw," meddai Rhos-flaguryn gwyllt, fel y dadblygai ei flodeu-ddail un ar ol un, yn unol a chwaeth y Gloyn hwn yr hwn a ddaeth i'w gusanu, a'r hwn a ychwanegodd,—

"Bywyd sydd oll yn fwynhad."

"Galw ef yn hytrach yn fyr-dydd haf," mwmiat Gwybedyn bychan fel yr elai heibio.

"Nis gallaf fi weled dim ond caledwaith ynddo," ydoedd galarnad Gwenynen fechan, tra yr ymdrechai gyda gwelltyn oedd gymaint yn ormod iddi hi. Y Bioden ni wnai ond chwerrthin i arddangos ei dlodi meddwl. Gallasai y digofaint cyffredinol at y fath ysgafnder gynyrchu ymrafael, oni buasai i'r Gwlaw ar yr eiliad hwnnw ddechreu disgyn—gan bruddaidd sisial,—

"Y mae hywyd yn cael ei wneyd i fyny o ddaagrau."

"Yr ydych oll yn cam-gymeryd," galwai yr Eryr, fel y nofiai drwy yr awyr ar ei adenydd brenhinawl, "bywyd sydd ryddid a nerth."

Yn y cyfamser graddol gynhyddai'r tywyllwch, a chynhygiodd Bwlffyn o feddwl ymarferol iddynt fyned i orffwya. Gwynt y nos a ocheneidiai, gan sisial yn dyner drwy'r canghennau,—

"Breuddwyd yw bywyd."

Distawrwydd orweddai dros dref a gwlad, a'r wawr oedd yn ymyl, pan ydoedd yr ysgolor yn ei ystafell unigol yn diffoddi ei lusern, ocheneidiai,—

"Bywyd nid yw ddim ond ysgol."

Cwynfannai yr ieuanc yn ei galon, wrth ddychwelyd wedi hir noson o loddesta,—


"Bywyd sydd un hir ddymuniad, byth anghyflawnedig."

"Y mae yn dragwyddol ddirgelwch," ydoedd llesmeir-lawm sisialiad y newydd-anedig foreuol awel. Yna mewn sydynrwydd dros y llinell derfyn ymdaenai rhes hir o oleuni, gan orliwio â'i wrid frigau uchaf y goedwig, fel y dringai i'r wybren. Ac fel y cusanai y bore y ddeffroawg ddaear cysondeb cryf a ddadseiniat drwy y byd,—

"Bywyd sydd ddechreuad."

"Marwolaeth ydyw yr esboniad ar fywyd."

Mae pob bardd, beth bynnag, yn tybio fod Cymru ar fin bod yn fawr. Mae'r beirdd, fel adar yn croesawu ^{Y wawr.} toriad y dydd, yn canu am y gobaith a'r bywyd sy'n dod gyda'r wawr. Dyma gân eto gan Eurog Mon.



Cymru'n nghyd
 oesawu'r wawr,
 At o'i chyfyng gryd
 iach yn fawr.

Moedd llwyd
 Gymru wen,
 nod gysgod gwyd,
 "Hwnt i'r llen."

Ynru fydd"
 wisg y wawr;
 Moedd Gymru'n rhydd
 olaf awr.

Bu yn well na neb;
 Fwm am ragoroldeb
 Bu Cymreig. Llafar

am ei chwær ag
 oedi a iechyd a ded-
 yr oedd adgof am y
 all. Bu hi farw y
 mynwent Llanecil,
 brawd i weled ei
 dani. Yn y gwan-
 aer.



Yn adfywio
 wisgo rhywiog wên,
 enn fil yn pyncio,
 eilio'i anthem hen :
 nor, coed yn deillio,
 yn suo sydd,
 orwedd yn dy 'statell
 eb oleuni dydd.

Mae fy meddwl am ehedeg
 'N ol i adeg bore oes,
 Buost ganwaith i mi'n siglo,
 Minne'n crio'n faban croes;
 Cydchwareuem gyda'n gilydd
 Ar hyd llongydd ael y llwyn,
 Felly treullem mewn dedwyddydd
 Dyddiau hyfryd melys mwyn.

Rhedem dros y nant i chware
 Gyda godre Gwaen y Garn,
 Ofn camu,—yng mentro,
 Mentro,—a syrthio dros y sarn;
 Codi'n gilydd, sychu'n dillad,
 Yn nhywyniad heulwen haf,
 Casglu llys, briallu, a blode
 Ar hyd ochre brynne braf.

Rhedeg am y cynta i'r gwaelod
 I gael gweled pysgod gant
 Ar y tesog ddydd yn gwibio,
 Noffo a neidlo yn y nant;
 Sefti ti ar ben y dorlan
 I wyllo pan ddiangai'r pyeg,
 Minne'n ceisio gwneuthur anrhaith
 Rhuthr a mawrwaith yn eu mysg.

Cofiaf am dy wallt modrwyog
 Yn chware ar dy rywiog rudd,
 A'th wynepryd bywiog hardd-deg
 Bron mor deg a hanner dydd;
 Cenit inni fel y fronfraith
 Gerdd yn berffaith heb ddim bai,
 Pan fai angen yn y teulu
 Am lonyddu plant oedd lai.

Cawsom ni oll ein gwasgaru
 A'n tafu'n mhell o dy ein tad,
 Cefais ti er hynny lonydd
 Ar aelwyddydd d'anwyl wlad,

Rhodiaist hyd ei huchelfannau,
 Glynau, bryniau mawr eu bri,
 A che'st fedd ar ddydd dy arwyl
 Yn ei hanwyl fynwes hi.

Mud yw'r aelwyd lle chwarenaist
 Ac y plethaist gyda'r plant
 Dy ganiadau mwynion seinber,
 Taro pob rhyw dyner dant;
 Mae dy delyn wedi rhydu
 Yma yn y llety llaith,
 Lle nad oes it gyfran mwych
 O gyfeillach, gwobr, na gwaith.

Cefais enw yn Nhŷ yr Arglwydd,
 O fewn ei lân fagwrydd le,
 Ond eheadaist ffwrdd ar fyrd
 At y nifer sy yn y ne;
 Yr oedd nodau ffydd a chariad
 Yn dy holl nodweddiad di,
 Ac ymddiried d'enaid uniawn
 Yn yr iawn fu ar Galfari.

Ffarwel iti, 'rwy'n dy adael,
 Yma yn dy dawel dy,
 Charles a'i frodyr sy'n gymdeithlon
 I ti yn y ddaear ddu;
 Esmwyth hunwch yn y beddrod
 Islaw dyrnod tralod trist,
 Cewch o'r dyfnder adgyfodi
 Yn nyfodiad Iesu Grist.

Yn wir tyred, Arglwydd Iesu!
 D'achos fo'n ymledu'n mlaen,
 Casgla nghyd rifedi d'eiddo
 Yna dyro'r byd ar dân;
 Marchog ar y cerub, tyred
 Mewn buddugol rwygafwr wedd,
 Barna'r bydoedd wrth y llyfrau
 A bydd angu i angu a'r bedd.

Nid ychydig fu gwasanaeth y Parch. R. Jenkin Jones, M.A.,
 Aberdâr, i lenyddiaeth Cymru. Yr ydym yn ddyledus iddo am
 rai o'r erthyglau goreu yn y *Dictionary of National*
In Memoriam. Biography aruthrol sy'n awr yn tynnu at ei derfyn.
 Y mae'n fardd da hefyd, ac y mae wedi cyfieithu
 llawer. Rai blynyddoedd yn ol cefais rai o'i gyfieithiadau; a
 dyma un cyfieithiad sy'n taro'm ffansi heddyw.

Fel gwaela 'nghalon gan ei chlwy
 O'th weled di, ein bachgen mad,
 Ac o'it yn bob peth mam a thad,
 Ac na ddoi 'nol i'r ddaear mwy!

Gwaith caled ydyw canu'n iach,
 A meddwl mwy dy weld na chawn
 Ar yr hen aelwyd anwyl iawn
 Lle cwrdd y teulu fawr a bach.

Ni ddisgwyliasem bethau mawr,
 Pen wyllem dwf dy feddwl byw;
 Ond mynych y mae trefnau Duw
 Yn bwrw ein hoff gynlluniau i lawr.

Fe sydd i ddweyd, mae'th daith ar ben,
 Yn llawn mae dalen fach dy ddydd,
 A'th bererindod drwyddi sydd;
 Dywedwn ninnau, Felly, Amen!

Cyfeillion goreu'r ddaear hon
Wasgerir oll, a chaled yw [Dduw;
Dweyd, Gwnaer dy wyllys Di, O
Ond O, rhodd heddi i lanw ein bron!

A chysur nefol i ni oll
O boed y gobaith am ail gwrdd;
Fel llithro'r bywyd hwn i fwrdd
I'r wlad lle na fydd neb ar goll.

Tybed ai gofidus i gyd oedd unigedd yr Iesu? Bu dynion yn y byd,—feallai fod rhai yn awr,—yn gwybod nad oedd y byd yn eu deall. Ai dedwydd ynte anedwydd oedd eu Unigedd. hunigedd? Yr wyf bron a meddwl fod poblogrwydd yn arwydd o fychander yr eilun. Mae ambell un yn rhy fawr i bobl ei oes ei weled yn iawn o'i ymyl. Dyma gan gan fardd newydd,—J. Garnon Owen,—ar y testyn.

Bod yn unig,—beth yw hyn?
Blodyn bach ar ben y bryn,
Yno yn ymagor allan
Wedi'i adael yno'i hunan;
Ai hyn yw bod yn unig?

Allan ar y noswaith ddu,
Morwr wrtho'i hunan sy,
Heb yn awel iddo'n gwmi,
Yn llywio'i fad dros gefn y wellgi;
Ai hyn yw bod yn unig?

Disgwyl, disgwyl mae ei wraig,
Disgwyl gweld ar donnan'r sig
Ryw arwyddion o gyrhaeddiad
Ei lestr ef mewn diogelliad,—
Ai hyn yw bod yn unig?

Gadael cartref gynta erioed
Mae y bachgen pymtheg oed,
Wylo mae gawodydd heilltion
Godant o unigedd calon,—
Ai hyn yw bod yn unig?

Yn bur fel gwanwyn benyw drig
Mewn bwth a braswellt ar ei frig,
Y teulu oll yn ddrwg ac aflan,
Hithan'n bur fel darn o arian,—
Ai hyn yw bod yn unig?

Duw y Mab ar lawr y byd,
Tragwyddoldeb yn ei gryd;
Mab y dyn yng nghwmni dynion,
Wedi dod o wlad angylion,—
Hyn yw bod yn unig.

Y peth sanctaidd yn y byd,
Pethau aflan gylch ei gryd,
Blodyn nef yn cadw i harddwch
Mewn tir difodau fel diffaethwch,—
Hyn yw bod yn unig.

Iesu ar y mynydd oer,
Drwy y nos yng ngoleu'r lloer,
Iesu yn y plygain wedyn
Yn gweddio ar ei ddeulin,—
Hyn yw bod yn unig.

Y mab yng ngardd Gethsemane,
Neb i gydymdeimlo ag e,
Bwriadau dwyfol yn ei galon
Uwch eu deall gan angylion,—
Hyn yw bod yn unig.

Iesu ei hunan ar y pren
Yn doletain tua'r nen,—
"Fy Nuw, fy Nuw," O! gri aniddig,
"Pam y gadewaist fi yn unig?"—
Hyn yw bod yn unig.

Lai na phum mlynedd yn ol, wrth grwydro trwy Gymru gydag Ab Owen,—y pryd hwnnw'n faban mwynaf welais erioed,—cosglais ganeuon beirdd am eu plant eu hunain.*

Plant y beirdd. Rhoddais yn eu mysg rai caneuon am blant wedi marw,—megis galar Lewis Glyn Cothi am Sion y Glyn. Heddyw, wrth grwydro ymysg papurau, y rhain sydd felusaf i mi. Dyma'n gyntaf un gan Robert ab Gwilym Ddu am Sian.

* Plant y Beirdd. Pris Ceintlog. Hughes a'i Fab, Gwrecsam.

Sian. Ow Sian fach! Mae'n syn fod
Eia t'wysen mewn tŷ isod.
Llwch y llawr yn awr, er neb,
Sy heno dros ei hwyneb.
Nid oes wên i'w rhieni
Ar ei hól, er nas gŵyr hi.

Ymholais, crwydras, mewn cri—och alar!
Hir chwiliais am dani;
Chwilio'r celloedd oedd eiddi,
A chwilio heb ei ohael hi.

Och! arw son, ni chair seinio,—un mesur,
Na miwsig piano;
Mae'r gerdd anwyl yn wylo,
A'r llaw wen dan grawn gro.

Chwys afiach, a chas ofid,
A'i grudd fach dan gryfach gwrid.
Llawer dengwaith, drymwaith dro,
Tra sylwn, trois i wylo.
Byr oedd hyd ei bywyd bach,
Oes fer—Ow! be sy fyrrach!

Cael tragwyddol gyd-foi,
Mewn eilfyd hyfryd, â hi,
A'n lle fry yn nhŷ fy nhad,
Amen, yw fy nymuniad.

Dyma ddarluniad Goronwy Owen o'i hiraeth am ei unig farch
fu farw yn Walton, ger Lerpwl, Ebrill 17, 1755, yn flwydd a
phum mis oed.

Elin. Mae cystudd rhy brudd i'm bron—'rhyd f wyneb,
Rhed afonydd heilltion;
Collais Elin, liw hinon,
Fy ngeneth oleubleth lon.

Anwyl, oleubryd lân,
Angyls, gynnes ei gwên,
Oedd euriaith mabiaith o'i min,
Eneth liw ser (ni thâl son).
Oedd fwyn llais, addfain ei llun,
Afeuthus, groesawus swm,
I'w thad, ys ymddifad ddyd.

Am anwyl etriau mwynion—a ddywaid,
A'i heiddil gannaid ddwylo gwynion,
Yn iach, f'enaid, hoenwch fanon,
Nell, 'n iach eilwaith, lân ei chalon,
Yn iach, fy merch lwysfach lon,—f'angyls,
Gorffwys ym mynwes mynwent Walton,
Nes hwnt dy gynnull at saint gwynion,
Gan lef dolef dilyth genhadon;
Pan roddo'r ddaear ei gwâr gwirion,
Pan gyrcher lluoedd moroedd mawrion,
Cai, f'enaid, deg euraid goron—dithau,
A lle yng ngolau llu angylion.

Unwaith eto, dyma Islwyn dyner yn galaru am ei nith.

12. O Lâl y brydferth! Lâl y brydferth fyth
A fyddi yn fy ngolwg i, fy Nith.

'Rwyf yn dy gofio fel angyles iach
Yn dod i dŷ fy mam, a th faged fach
Yn hongian ar dy fraich a'i llond o ros
(Debygwn heddyw) o'r Baradwys dlos,
O'r fath sy'n tyfu yng ngerddi nef y nef
O flaen ei balas Ef!

'Bwy'n tybied fod y cwmwl fry
Yn cadw ei gawod nes-dy weled di
Yn gynnes a diogel yn y tŷ.
O Lâl y brydferth! y brydferthaf bron
Ericod fu'n sangu ar y ddaear hen!
Anfonaf'th fam ryw neges gyda thi,
Mor swynol ei hadroddit wrthym ni
A'th beroriaethol lais, fel llais y corau
Sy'n pyncto u llon ar lasiad hafaidd forau:
A phan anfonem di yn d'ol â'r ateb,
'Roedd dydd o wenau yn goleuo'th wyneb.

O! tyrd i'm cwrdd pan groeswyf afon angau,
Bydd di ym mysg y cyntaf ar y giannau,
I'm croesaw'r ochor draw. Adroddaf yno
Ein helynt wedi'th fynd, cei dithau wrando
Dan gysgod pren y bywyd, ein dau'n holltach!
Ein dau heb ofni byth ymadael bellach.

Yr wyf wedi bod yn rhy lawn o ofalon yn ddiweddar i gasglu
barn y tanysgrifwyr am Waith Islwyn. Y mae y rhan fwyaf
wedi cael eu cyfrul, ac wedi talu. Os oes rhyw am-
ryfusedd, maddeuer i mi; gwnaf fy ngoreu i roddi
popeth yn ei la. Y mae rhai cyfrolau heb eu hanfon,
oherwydd nad wyf yn sicr o'r cyfeiriad. Anfoned y cyfeillion
hyn ar unwaith, onide feallai na fydd cyfrol yn aros.

Y mae ychydig ar law, a gwerthir hwy am bris y tan-
ysgrifwyr, sef hanner gini, tra y parhaont.

Nid yw'r gyfrol yn berffaith, mor bell ag yr a gwaith y
golygydd. Y mae amryw o'r pethau goreu wedi eu gadael
allan; y mae un gân o waith gŵr arall wedi ei rhoddi i mewn.
Bydd y rhifyn nesaf o'r LLENOR yn gyfrol atodiadol i "Waith
Islwyn." Ceir ynddi ychydig o'i waith prydyddol, a rhai o'r
darnau goreu o'i waith rhyddieithol.

Bydd ychydig o newid yn rhifynnau nesaf y LLENOR. Hyd y
medrir, bydd holl erthyglau y rhifyn ar yr un testyn,—Islwyn,

Cymru a'r Chwyldroad Ffrengig, Duwinyddiaeth y
Cynllun. Dydd, Ossian-Gwent, Daeareg, &c. Felly bydd pob
rhifyn yn llyfr i'w gadw, ac ar ryw bwnc o ddyddordeb
neillduol yn ein dyddiau ni.

Gellir rhwymo pob rhifyn ar ei ben ei hun, mewn llian, neu
gellir ei gael o'r swyddfa wedi ei rwymo am ychydig yn
ychwaneg. Ysgrifenner at y cyhoeddwr.

Cwynir yn aml nad yw'r athrawon yn ein colegau cenhedl-aethol yn ysgrifennu fawr. Y maent wedi dechreu, beth bynnag.

Dyma lyfr* wedi ei olygu gan yr athraw Spencer,—
Llyfr ar Addysg profffeswr llafurus a llwyddiannus ieithoedd diweddar yng Ngholeg y Gogledd,—ar ddulliau addysgu. Ysgrifennwyd y llyfr gan athrawon profedig, a dylai pob athraw ysgol sir yng Nghymru ei ddarllen yn fanwl. Ymaith â'r hen addysg,—dysgu plentyn sut i "ennill marciau" yn lle ennyn ei ddyddordeb, dysgu iaith iddo heb roi syniad sut i'w siarad na'i hysgrifennu, trethu'r cof lle dylid dadblygu'r meddwl, dysgu plentyn i ddirmygu gwaith llaw yn lle edrych ar lafur y peth mwyaf aruchel ym mywyd dyn. Yn lle hyn oll, rhodder i'n plant addysg fydd yn gynllun i addysg plant y byd. A rhwydd hynt i bawb sydd, fel yr athraw Spencer, yn ein gwasanaethu yn y cyfeiriad hwn.

Yn hanes ei daith ddifyr i gyfeiriad Pegwn y Gogledd, dywed

Casglu. Mr. Elias Jones hanes y morwyr llongdrylliiedig na wyddent beth i wneyd, pan yn ceisio addoli, ond gwneyd casgliad.

Chware teg iddynt, yr oedd ganddynt syniad go lew. Byddaf fi'n teimlo mai prif adeg moddion gras,—oddigerth adeg y cymundeb,—yw'r adeg y cesglir mewn distawrwydd at gynnal y tlodion, at leddfufu dioddefaint yr Armeniaid, at helpu addysg yn ein gwlad, ac at achosion ereill. Mae hwn yn rhan o'r addoliad y gall pob un gymeryd rhan ynddo,—adeg ddistaw yr offrrwm tlawd, adeg ddistaw y saeth-weddiau.

Fy nghas beth i yw clywed pregethwr yn rhoi emyn allan ar ganol y casglu, neu wrth ddechreu. Eithaf peth yw dweyd yr emyn wrth y dechreuwr canu, er mwyn iddo gael chwilio am don briodol; ond gadawer i'r gynulleidfa lawn heddwch i sylweddoli ei bod yn rhoi, yn aberthu, i Dduw. Trwy *rod-di* y dadblygir daioni'r enaid; trwy *rod-di* y ceir. Mae adeg dawel ddistaw y casglu ar nos Sul yn un o hoff adegau Ysbryd Duw i ymweled â chalonnau, a llawenydd iachawdwriaeth yn dod gydag ef.

Anfonodd cyfaiil i mi ddarnau am ac o waith Ieuan Gwynedd nas gwelawn o'r blaen. Cyhoeddwyd hwy yn y *Monmouthshire Merlin*, Hyd. 15, 1852. Y dyddiad dan y gân yw 1842.

ENGLYNION AR NODWEDD IEUAN GWYNEDD.

Wyled yr awen wiwlan,—llonydded
 Llennyddiaeth yrwan;
 Boed genau byd ac anian,
 Yn cyd-drydar galar gân.

* *Aims and Practice of Teaching.* 6s. Cambridge: The University Press.

Un gân am Ieuan Gwynedd,—drwy lawn barch,
 Darlun byw o'i nodwedd;
 Rhoi ar lawr liw ei fawredd,
 A phryd ei fywyd i'w fedd.

Doniol archoffeiriad anian—deiliad
 Ysbrydoliaeth pobman;
 Ysbryd coeth—syberwyd cân
 Ar y ddaear oedd Ieuan.

Treiddio at burdeb natur—wnai' awen,
 Ymfwynhau'n y llafur;
 Chwareu'n mhlith y pethau pur—
 Treiglo i'w chartre' eglur.

Awen dêr a'i hynni'n dân—a feddai,
 Wrth fodd y byd cyfan;
 Paential, darluniai'n lân,
 Ger gant gogoniant anian.

Ar "Heddwch"* gwnaeth gyrhaeddyd—mawr heiddiant,
 Ymroddodd yn ddiwyd;
 A daeth ef yn ail hefyd,
 I'r gerdd oedd yn oreu gyd.

Bwriodd ei ystwyth bryddestau—i'n mysg,
 Fal y mêl gafodau;
 Ei enw pyth fydd yn ein pau,
 Seraff y rhydd fesurau.

E gipiodd deimlad Cowper—i'w gerddi,
 Chwaeth ac arddull Heber;
 Gwyrddnit Pope, ac arddawn pêr
 A diwyg Young a Dyer.

Gweinidog yn Nuw ydoedd,—a thriniau
 Athroniaeth y nadoedd—
 Yn goeth iawn; a'i bregeth oedd,
 Yn cynnwys mêl i'r cannoedd.

Mawr ydoedd ymrosadau—i athrylith
 Ar ei wely angau;
 Heibio i neb y bu'n hau,
 Grawn addysg a rhinweddau.

Da a wnaeth i'n merched ni—bau oeddynt
 Heb nawdd yn cael anfri;
 Ymroes yn ei GYMBRAES i
 Eu harddel a'u hyfforddi.

Wron dedwydd, er nad ydyw—yn awr
 Gyda ni yn cydfyw;
 Uwch ei fedd yn wyrdd heddyw,
 Ei fawl a'i rinwedd sy'n fyw.

Caerdydd.

GWILYM TEILO.

Mae yn fy mynwes boen o hyd,
 † Na wyr y byd am dano;
 Mae pryf difaol dan fy mron
 A'i wenwyn bron a'm gwywo.

* Cyfeiriad at ei Awdl orchestol.

† Freshness.

O'm hamgylch fy nghyfeillion sydd,
Yn teimlo'n rhydd a llawen ;
Ond trom fy nghalon i bob dydd,
A'm meddwl sydd mewn cadwen.

Mae pob peth o fy neutu'n llon,
A phawb a'u bron yn striol ;
Ond blino wneir fy meddwl gwan
A phoenau anorffennol.

Yr hen wr pen llwyd wrth ei ffon,
Mae hwn a'i fron yn hoew !
Ond fi yn nydd ieuentyd wyf,
O dan fy nghlwyf yn marw !

Wyf ail i'r dderwen yn y coed,
A'i brig erioed heb grino ;
Ond yn ei gwraidd y maldod cryf,
Sydd yn ei hyf ddistrywio !

Gynt gyda chyfaill ar y ddol,
Mor siriol gallwn siarad ;
Ond llon edrychiad heddyw sydd,
Yn llofrudd i fy nheimlad !

Pe gallwn, cilio wnawn ymhell,
I ddaear goll unigol ;
Lle na thywynnai heulwen gu,
A'r alltud truenusol.

Fel gwennot unig yr wyf fi,
Ar ben y tŷ yn cwynfan ;
Nid hir gwnaf ddal y trymlyd bwys,
Af dan y gwys yn fuan.

O cleddwch fi ym min y nant,
I lawr y pant sy'n treiglo,
Caf yno dawel, oemwyth hun,
Heb lygad dyn i'm gwylio.

Helygen plennwch uwch fy medd,
Rhydd hon o'i gwedd ddifrifol,
Ddariuniad o fy mynwes wan,
A'm hangeu anamserol.

Dyma fyfyrdodau Gwilym Marles ar lannau'r afon Twely, is
law Pencader. Ysgrifennwyd hwy ym Medi 1863. Cefais i
noddfa ynddynt lawer gwaith adeg helbul ac iselder ysbryd.

O na soniwch wrthyf mwjach mai dedwyddwch tref na gwlad,
Ac mai gwell f'ai gado'r ardal dawel hon os am fwynhad ;
Mae dywediad gynt a glywais, mynych, mynych cofiaf ef ;—
“ Mai Duw Dad y wlad a drefnodd, ond mai dyn a wnaeth y dref.”

Os yw'r wlad yn drwm a marwaidd, nid yn Nuw y nef bu'r gwall,
Mae'n llawn seiniau ond i'r byddar, oll yn hawddgar ond i'r dall ;
Dwg pob hwyr a dwg pob bore i'm amrywiaeth o fwynhad,
Odiodoced ei phleserau, oll yn bur ac oll yn rhad.

Rhodio allan hyd y meusydd dros y soffydd gyda'r nos,
Gweled gwawr y lleuad arian draw yn codi uwch y rhos ;
Dilyn troion mân yr afon, gwrando ar ei bywiog gân,
Syllu ar y coed hynafol fagwyd ar ei mynwes lân ;

Gweld y clymau cnau yn pygno 'n dew mewn llawer cilfach las,
Hwythau 'r mwyr duon addfed yn fy nhemtio i brofi 'u blas;
Llechu dan y tewfrig gangau rhag y gawod dyrfaeu drwm,
Tra 'r llifogydd llwyd yn llamu draws y llethri tua'r cwm.

O mor hyfryd yw ymddirwyn hyd y troellog lwybrau hyn,
'Dyw ond peraidd nodau anian yn adseinio trwy y glyn;
Swyn unigedd a thawelwch yn teyrnasu dros y fro,
Dadwrdd croch y pentref diwyd draw o glyw, a braidd o go.

Mygu 'n chwarian mae 'r bythynod ynt yn britho 'r dyffryn tiws,
Yntau'r gweithiwr fore gododd yn llesg ddringo at ei ddrws;
Ond pan genfydd ei rai bychain am y cyntaf yn ei gwrdd,
Cymer ddau neu dri i'w freichiau, a phob blinder aeth i fiwrdd.

Swper gryo, lân, a blasus, yn ei ddisgwyl yno sydd,
Gwèn ei briod i'w roesawu, a rhyw ddifyr stori fydd;
Yntau 'r gwridog lanc llygadlym, hant yr yagol byth nis gad,
Ac yn gwlwm ar y stori,—“ Eisiau llyfyr newydd, nhad !”

Tra 'r wyf yma 'n oedi 'n araf, a'r mwyn wlith yn lleitho 'r llawr,
Cynnar, cynnar ant i gysgu, i gael codi gyda 'r wawr;
Gweithio 'n galed, huno 'n felus, weithiau 'nghôl breuddwydion ter,
Byw 'n gymedrol yn lle meddyg,—aiff y bywyd bant mor bêr.

Pan ddaw 'r ceffyl tân i redeg ar wyllt garlam trwy y fro,
A'r mwg tew o'i ffroenau 'n esgyn, na wnaed yrru byth ar ffo
Hoffus symledd ardal wledig a'i dirodres ddeflon mad,
Ond gadawed hwynt yn dystion o bleerau pur y wlad.

Dyma neges y bardd newydd,—

Celf a
neges. “ Nid dyma'r canu uchaf—
Y canu gwersi hwn
Sydd gennyf ti fynychaf ! ”—
Mi wn, fy mrawd, mi wn.

Hoff gennyf gelf a gwyddor,
A rheol swynol sain;
A'r beirdd fu wrthi'n agor
Y blodau ar y drain.

Ac weithiau, 'rwyf yn canu
Er mwyn celfyddyd lân;
Heblaw fy ngwersi i Gymru,
Cei yma ambell gân.

Ond O, mae gennyf neges
I'w thraethu 'nawr, rhag blaen,
Ac nid mewn geiriau rhodres,
Ond mewn brawddegau plaen.

Nid wyf am gael fy nghoffo
Yfory am bennill pêr;
Ond am fy mod i'n tanio
Gan neges newydd Nêr.

Fe fydd rhyw fardd yn chwerrthin
Wrth ddarllen hyn o gân,
Am nad oes iddo'n perthyn
Y parod dafod tân.

Bu eraill yn ynfydu,
Cyn hyn, gan neges fyw;
Os ydwyf finnau felly,
Ar bwy mae'r bai? Ar Dduw.


Mi welaf Gymru newydd
Yn amlwg, nos a dydd;
Ac O, mi garwn beunydd
Ei gweld yn Gymru rydd;

Yn rhydd o'i hanwybodaeth,
Ac o'i chadwynau blin;
Yn rhydd o'i Phariseaeth
A drôdd am dani ei hun.

Mi welaf Gymru newydd,
Ac addysg iddi'n dod;
Ond O, 'rwy'n ofni beunydd
Rhag iddo droi'n gywilydd
I'w hen grefyddol glod.

Mi garaf ryddid meddwl;
Mae'n dod i Gymru Fydd;
Ond O, nac aed i'r nifwl
A dwys hiliogaeth ffydd.

Bydd dda i Gymru farw
I'w holl gredoau gwyw,
Os geill er hynny, gadw
Ei ffydd yng Nghrist a Duw.



lentyn y deffroad,
 i'w ganu ei gân,
 aros a'r cennad
 yn gelf-reolau mân.


hydd.

lion melus a melodaid
 hynnydd,—

rd,
 yn bach;
 yw fy ysbryd
 ach;
 bulon
 uhan?
 foddlon
 y nghân.

rawd;
 ef tylawd;—
 ro,
 uddfannau
 ro!

colli
 nag erioed;
 at;
 an eto
 awr."



BEIRNIAID.

wyf yn bwriadu
weddill helyntion
vssylltiad â chys-
Yn *Seren Gomer*
mddanghosodd yr

SION i'r Beirdd, y
RWCH.

y cynhelir Eisteddfod
fid ar y Testyn uchod,
n *Fihangel nesaf*, set y
y GORON, yn nhref
a gyhoedd yr amrwiol
a anfon yno (yn
dybier odidocaf gan y
a wobrwyr â THLWS
THAS Y GWYNNEDDIGION,

ad yna, rhoddid i'r
s o amser i gyfan-
i ddiwedd Medi.
ath yr oedd Dewi
R. Davies (*Bardd*
Llwi Silin), person
a gorffen ei awdl
lythyr at Dafydd
amryw bethau cys-
i'w hanfon i law
anfonodd Dafydd

OWROG, *Medi* 18, 1819.

ethau na chrybwyllais i
ogor, beth bynnag; ni
synwyr cyffredin, &c.
Ar frig y ddalen, pan
afal y llythyr dy hun.—
ydd Mercher neu'r Iau
ydd ef, ni wna diwrnod
hyn, gwell ydyw anfon
aw dirgel wrth yr awdl,
es yn y papur newydd.
eu henwi yn bendant,
ond gwell arfer peth

Nid yw Robt. Davies o Nantglyn ddim yn ddarllenwr Saesoneg mawr, debygaf, o ganlyniad, nid yw ond gŵr o archwaeth gyffredin; mae'n debyg mai efe a fydd un barnwr. Os y chweched o Hydref ydyw'r amser penodol, galli oedi heb anfon hyd o fewn diwrnod neu ddau i ddiwedd y mis hwn, ynghylch 27 neu 28 dydd o'r mis hwn a fydd yn burion amser i anfon, debygwn i, neu'r 29 o'r hyn pellaf. Gwell oam ymlaen na rhy ddiweddar.

Ar frys, yr eiddot yn ddianwadal,

Cyfrinach.

D. T."

Gadawer i ni wybod pa beth a ddywed ei gymydog Sion Wyn o Eifion ar y pwnc yma. "Yn y flwyddyn 1819," eb efe, "anfonodd ei awdl ar Elusengarweh i Eisteddfod Dinbych. Hyfryd yw gweled ein bardd yn rhoi ei alluoedd ar waith i ddyrchafu ac argymhell y ddyledswydd o dosturio wrth, a gwneyd daioni i'r tlawd—dyledswydd a osodir yn fynych iawn o'n blaen yn y Beibl, ar yr un pryd ag y mae yn un o nodau ac effeithiau ffydd yr efengyl. Mewn rhannau eraill o'i waith, nyini a gawn amlygiadau nodedig, nid yn unig o'i wybodaeth ddofn a manwl o'r iaith, ac o reolau barddoniaeth Gymreig, ond hefyd o gryfder ei ddeall, cysondeb ei farn, ynghyd â bywiogrwydd ac egni ei ddoniau awenyddol; eithr yn yr awdl hon, yn chwanebol i'r pethau a ennwyd, y canfyddwn mewn modd neilltuol ei barch amlwg i'r gwirionedd dadguddiedig—ei ddymuniad ar i bob llwyth, iaith, a chenedl gael gwybodaeth o'r Beibl, ac am i efengyl heddw gael ei chyhoeddi yn eu mys. Yma y gwelwn fardd o feddwl cryf, dychmygfawr, ac awenyddol, yn pleidio achos y gwir, achos y tlawd a'r anghenus, ynghyd a lles dynolryw yn gyffredinol, a hynny gyda hyawdledd effeithiol a bywiog anarferol—a thra cadwo unrhyw ysgrifennydd ar y tir hwn, fe fydd iddo fwynhad bodd ei gydwylbod ei hun, pan ar yr un pryd nad atelir oddiwrtho gymeradwyaeth y doeth a'r rhinweddol."

E. I.—Yn rhagweled y deuem yn anocheladwy ar draws yr helynt anymunol yma, defnyddiais yr ychydig amser hamddenol oedd gennyf i holi a chwilio pa fodd y bu; ond ymddengys y mater i mi eto yn ddirgelwch mawr,—nis gallaf yn fy myw gael golygiadau eglur ar yr ymdrafodaeth, er y gwn i yr hyn a wŷr Cymru oll, sef i Dewi Wyn gael y fath amharch a cham nes diflasu ei ysbryd a gwrthod o hono ag ymwneyd dim ag Eisteddfod mwyach,—trychineb oedd hwn ag y delir y beirniaid yn Ninbych yn gyfrifol am dano. Paham na chynhaliwyd yr Eisteddfod ar y chweched o Hydref, fel yr hysbyswyd, pan yr oedd cynifer a phymtheg o gyfansoddiadau wedi dyfod i law, a pha reswm oedd ei gohirio hyd y pumed ar hugain o'r mis, ac wedi dyfod y dydd hwnnw, pa fath Eisteddfod a gynhaliwyd?

TAL.—Er yr holl ymdrafodaeth a fu ynglyn â'r helynt yma, mae'n ddiameu fod rhyw ddirgelwch yn aros heb ei egluro eto;

ond dyma adroddiad Dewi Wyn ei hun,—

“MR. GOMER,

Poed gwiw gennyoh hysbysu i'm cyd-awenydd a'm hewyllsiwr da, y Tywodwr, mai nid y bál a'r gaib, nac unrhyw o beiriant amaethad, sydd yn gyffredinol yn lluddias imi dyllof yr ysgrif-bin; ond fod Rhagluniaeth wedi fy nghyfleu y blynyddoedd a aethant heibio mewn digonedd o fanteision, o ran amser ac amgylchiadau; ond yr achos na chafodd ef y difyrwch o rwbio fy Lloffion oedd am na chetais (hyd yr wyf yn cofio), ddim anogaeth gynorthwyol; ac fel y tybiwn mai ei enw ef fydd y cyntaf o'r 500 gofynedig. Os gwybydd y Tywodwr nad wyf fi hyd yn hyn (mai mai mwyaf trueni) yn perthynu i'r un blaidd neu gymdeithas neillduol o broffeswyr, ni bydd ddim rhyfedd ganddo fy mod mor wywedig ac aniben yn cyhoeddi llyfryn ar destynau moesol, &c., gan fod gan bob enwad o ddynion megis corff ddigon o waith ymdaro drosto ei hun, megis yr seolau yn gofalu ac yn diffynnu y naill y llall.

“Yr achos nad yw yn gweled peth o'm gwaith yn y *Seren* yn amlach ydyw fy nirtawr ddiffyg a'm hanghynawysder i gyfansoddi dim yn deilwng o'i restru ger bron yr oesoedd; gan gofio mai y ddoethineb gyrrhaeddadwy i mi yw teui; gan nad oes ar fy helw nemor o wybodau i ymdrin â phynciau athronawl; ac am bob pwnc crefyddol braidd, ‘Dyma wybodaeth ry ryfedd i mi; uchel yw, ni fedraf oddiwrthi.’ A bod yn fynych ryw lais yn trosglwyddo i'm meddwl, ‘Pa beth sydd i ti a fynegydh?’ ac adgofio hefyd mai ‘Darllen llawer sydd flinder i'r cnawd.’ Gadewch iddo wybod hefyd nad oes imi ddim mawredd a chwpanau arian yn digwydd, fal y gall ei fod ef yn achlysurol yn tybio; ac na chetais i na neb o'm cydymdrechwyr (hyd yr wyf yn gwybod), gymaint a thamaid o fara, na dafn o ddwr oer, gan yr addawydd, am ein parodrwydd a'n hegni yn anrhydeddu ei gyhoeddiad ef. Ac nid oes eto chwaith ond yr afiwydd noeth yn fy nilyn ar chwareufwrdd amryson; canys darfu imi drwy anogaeth gyhoeddus Cymdeithas y Gwyneddigion i'r beirdd y fwyddyn ddiweddfaf, gyfansoddi awdl ar *Klusengarwch*, feithach a thra ragorach nag arwyrain arall a gyfansoddais i erioed, yr wyf yn sicr; a darfu i flaenoriaid cyfrifol Eisteddfod foneddigaidd Dinbych, y chweched o Hydref, 1819, wrthod barnu y gweithiau yn gyhoedd, yn ol amodau cyhoeddiad y gwobrwywyr, gan ohirio'r ddeddfryd o'r chweched hyd y pumed ar hugain o'r mis, ac yn ganlynol cyhoeddi'r obrwy a'r oreuaeth i awdl y Dryw, gŵr boneddig parchedig o beriglor. fel yr wyf yn deall; ond anghofasant anfon y cydweithiau ymdrechawl i'r Gwyneddigion, namyn gorchest y Dryw yn unigol; ac i addurno cofradwriaeth yr oruchaflaeth ddedwydd, yr oedd y Dryw awenydd-wych wedi anfon i Lundain i grefu am yr anrhydedd o ail gaboli neu ddiwygio ei awdl fuddngol cyn ei hargrafu; a'r gymdeithas deimladwy wedi cydsynio. Ow, ow (tystiolaeth hunanbrofadwy, onide?). Bu hyn yn achlysur o amheuseth am deilyngdod y feirmiadaeth; ac yn sylfeini i minnau ysgrifennu at y Gwyneddigion, drwy gyfrwng papur Bangor; gan argyhoeddi a heriau yn y modd noethaf, er ystalm o amser bellach; ac ni welaf ac ni chlywaf fod dim argoel i neb ateb yn gyhoedd nac yn gyfrinachol, ac nid wyf yn tybied y beiddia neb ateb chwaith, ond cymeryd arnynt fod mor fyddar a'r neb ni fynnai glywed, yn hen *Seren Gomer* gynt; canys mae weithion o flaen fy wyneb ysgrif o rimyn y Dryw, ac y mae yn wanychdod ac yn ergyd imi feddwl fod rhigwm mor wanlllyd, plentynaidd, a beius, wedi cael erioed ei gydolygu a'm barddoneg i ar *Elusengarwch*. Ac wedi ei ddarllen fwy nag unwaith, yr wyf yn anturio dywededyd gyda gwroldeb meddwl a dibetruder,—

Wyau'r Dryw'n wir drewi wnant;

Wyau'r Estrys a rwystrant.

Nid wyf eto wedi ymgreuloni digon, nac ychwaith yn ddigon diswydd, i nodi a dinoethi gwendidau yr anawdl hon, o barth synwyr, iaith, a chynghanedd; dyma, er engraff, un o laweroedd,—

“Elusen fach a'r lais fwyn.”

Twyll cynghanedd o goll N; a gadael i'r llinell draws-nyddu'r iaith a'r synwyr fel y mae uchod, y rhai a fynnent gael eu ffordd fel hyn,—

Elusen fach a'r llais mwyn;

ac yna pa le y byddai cynghanedd y Dryw? Pe manylwn dros yr holl rimyn, yr wyf yn ofni y byddai'r brychau yn ddigon i dywyllu a bod fel diffyg dros fwy na hanner gwyneb *Seren Gomer*. Diolch yn wresog i chwi, feirniaid teillwng Eisteddfod Dinbych, am farnu fel nad oes achos craffu na manylu am y gydmariaeth ag sydd rhwng gwich a byrnaid y Dryw bach, ag oesef a dychlam yr uch-hedydd.

"Dywedwch hefyd wrth y Tywodwr fod yr ystyriaeth briodol i'r hanes uchod wedi fy nghymhell i frysyrn fy awdl i Mr. P. Efans, argraffydd, Caernarfon, i'w chyhoeddi, ac y mae yn awr ar roi'r cam olaf o'r wasg, ynghyd ag awdl newydd arall a anfonais yno, yn cynnwys darluniad o rai o weithredoedd a golygiadau amaethyddol yr enwog John Manghan, Ysw.; byddant yn llyfryn ar werth o faintiol a phris *Seren Gomer*; ac yr wyf yn meddwl eu cymell i ymgeledd Mr. Gomer, ac eraill o lyfrwerthwyr y Dywysogaeth; er mwyn dangos i'r byd na fedr na gwyr llyg na gwyr llên bob amser, er mor barchedig ac anrhydeddus y tybiout eu hunain, ddim sathru ambell ddynyn gwerinaidd yngwydd ei lygaid; felly bydd yr awdl hon fel olew poeth yn llygaid, a halen ar gig noeth, rhai sy'n caru clod nas haeddant. Hyderaf y bydd er cymaint o ddiiddanwch ac adeiladaeth i'r Tywodwr ac eraill ag a fuasai Llofflon awen, ac y gwelir hefyd na chladdwyd fy awen mor ddwfn nad yw yn cyfodi mor rymus a'r gwenith mwyaf cynyrchiol a welodd Mr. Gomer erioed ar faesydd ffurwthlon Morgannwg, o hanner Mai hyd ddiwedd Mehefin. Ydwyl yr eiddoch yn ostyngedig,

Caerwon, Eifionnydd.

DEWI WYN O EIFION."

Gan fy mod, er dechreu ein hymddiddan, wedi ymdrechu hyd y gallwn i beidio ail-adrodd yr hyn a argraffwyd ym *Mlodau Arfon*, rhaid i mi eich cyfeirio yno, os mynnwch weled dyfyniadau helaeth o'r llythyrau a ysgrifennwyd mewn cysylltiad â chystadl-euaeth Dinbych. Ysgrifennai Dewi ei hun lythyrau dychanllyd i geisio argyhoeddi y byd ei fod wedi cael cam a sarhad gan feirniaid diegwyddor. Cefnogid ef yn hyn, hyd y gellid, gan feirdd ei sir enedigol, gyda'u llythyrau a'u caneuon; a thra daliodd y tân i gynneu ym mynwes Dewi, yr oedd yn llosgi ac yn poenydio tymherau ei wrthwynebwy'r i'r byw; neu, fel y desgrifir ef gan ysgrifennydd arall, "pan geisiai ei feirniaid ei sathru fel pryf o dan eu traed, ymddolennai yntau o amgylch eu sodlau fel sarff dorchog, gan eu colynu yn ddidrugaredd."

Gallaf chwaneu hefyd, pan argraffwyd y ddwy awdl,—*Elusengarwch* Dewi a'r Dryw,—ac i'r cyhoedd gael mantais i'w tafoli, ddarfod i bob amheuaeth ar y pen hwn gael ei symud; er fod Dewi wedi argraffu yr eiddo ef fel yr oedd yn y gystadl-euaeth, a'r Dryw wedi diwygio ei awdl, a bwrw ei sothach ymaith, ar ol iddi fod o dan feirniadaeth; eto, ni welir un gymhariaeth rhyngddynt, a chyfeirir yn ddibetrus hyd y dydd hwn at yr amgylchiad yma fel y siampl bennaf o anhegwch beirniadol a gymerodd le yng Nghymru erioed.

E. I.—Tybiaf y gallaf sicrhau i chwi ddarfod i mi ddarllen gyda phwyll a gofal, holl nodiadau y golygyddion ym *Mlodau Arfon*, a chymaint ag a allwn gael o adolygiadau mewn llyfrau eraill, ar athrylith a gweithiau Dewi Wyn; ond nis gallaf er hynny, sicrhau yn ddibetrus fy mod yn gymwys i ffurfio barn gywir arnynt, ond gallaf amlygu i chwi yr argraff a adawsant ar

fy meddwl,—gwn nas gellir cyfiawnhau y bardd yn ei lythrau beiddgar a gwrolfrydig, ac yn enwedig ei or-wawdus “Awdl yr Adebau,” a’i ymosodiadau ar ei feirniaid, yn neillduol y Dr. W. O. Pughe. Bydd raid i mi gydsynio âg adolygwyr *Blodau Arfon* i gondemnio Dewi Wyn am ei iselwaith yma,—ei gyfeiriadau a’i edliwiadau personol; ond wedi’r cwbl, pan af i ddarllen gwaith y bardd, ie, hyd yn oed ei “Awdl yr Adebau,” nis gallaf yn fy myw ddal digter tuag ato, gan fod rhywbeth mor bert a naturiol, eto minigi a chyrrhaeddbell, yn ei linellau, nes y byddaf yn myned i wenu, i ryfeddu, i edmygu. Mae yn chwaredu ar y cynghaneddion mor ddiraffferth, ac ar deimladau amrywiol y natur ddynol gyda bysedd mor feistrolgar, fel y byddaf yn anghofio “y cyhuddiadau,” y “baweidd-dra,” yr “enllib,” a’r cwbl; mae cydymdeimlad y darllennydd, er gwneyd ymgais i’r gwrthwyneb, yn troi gyda’r bardd. Yr aflwydd mwyaf i adolygydd fyddo yn anffafriol i Dewi Wyn ydyw dyfynnu ei linellau i geisio profi ei osodiadau; oblegid hwy a enilliant galon y darllennydd oddiwrth yr adolygydd at yr awdwr; o leiaf, dyna fel y teimlais i bob amser,—mae *rhywbeth* yn ei farddoniaeth nas ceir mo hono yng ngwaith yr un bardd arall y gwn i am dano.

TAL.—Dichon ein bod wedi ymdroi gormod braidd gyda’r pwnc hwn, er ei fod yn amgylchiad pwysig yn hanes gyfa lenyddol ein bardd. Mae’n chwith genyf weled ymysg ei gyhuddwyr rai y cafwyd digon o brofion eu bod yn agored i edliw a chablu eu beirniaid, pan mewn amgylchiadau tebyg; ie, hyd yn oed pan y byddai cyfiawnder diwyrni wedi cael ei weinyddu; ond eu bod hwy wedi eu siomi yn eu syniadau disglær. Pa fodd bynnag, cyn gadael y pwnc yma, mae arnaf awydd dyfynnu, o ddau ysgrifennydd, ychydig frawddegau ym mherthynas i ymosodiad Dewi Wyn ar Gwilym Owain. “O bob dygasedd,” ebe un, “yr eiddo Dewi Wyn ydyw y mwyaf anhawdd i’w ddiodef. Ond dangosodd ei hun yn llwfr ddigon, pan ymosodai ar Dr. Pughe yn bersonol, pan grybwyllai am ei eiriadur a’i gredo. Dylasai adael nwydau a dull bawaidd fel hyn o ymosod ar ei wrthwynebwyr ym medd Twm o’r Nant. Yr oedd ei watwarg ef yn ddigon i boeni creaduriaid dynol, heb alw am gymorth cyfeiriadau personol atynt. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng Dewi Wyn a Llywelyn Ddu, fel tuchanwyr. Cashau y byddai un, ffeiddio y byddai y llall; gogleisiai Llywelyn ei wrthwynebwr i farwolaeth, llarpiai Dewi Wyn ef yn ddrylliau. Yr oedd picellau Llywelyn Ddu yn dra miniog; yr oedd rhai Dewi Wyn wedi eu gwenwyno yn gystal a hynny,—disgynnai ei ddigofaint fel cawodydd o *lava* tanllyd ar bennau ei gaseion. Cymysgai ei watwarg â than a brwmstan,—yr elfennau mwyaf dinistriol. Nid oedd brathiadau arabedd pigog Twm o’r Nant,

a gwatwreg ddifaol Llywelyn Ddu, ond fel ffrewyllau, tra yr oedd dirmyg Dewi yn debycach i ysgorpionau."

Pan byddo hynny o ryw fantais er darostwng Dewi Wyn, dyrchefir y Dr. Pughe, gan rai ysgrifenwyr, a gwneir iddo ymddangos yn foneddigaidd a difrycheulyd fel angel; ar adegau ereill, pan y byddo fwyaf boddhaol felly, gwneir ef *the greatest fool in existence*, ys dywedai Iolo Morgannwg. Oddiwrth y cyfeiriad at "gredo" a "gwrach" y Dr., yn "Awdl yr Adebau," cymer Cynddelw fantais i ddangos pa fath oedd y naill a'r llall. A chyda golwg ar y llinell dramgwyddus, dywed,—

"Addefwn ei bod yn isel i'r eithaf o ran iaith, eto nid ydoedd y mymryn lleiaf yn is nag yn halogedicach na chredo y Doethawr. Pwy oedd y wrach? Pwy, ond Siwan Southcott y broffwydes? Hoeden benboeth ac anllythrennog oedd Siwan; ond pan oedd tua deugain mlwydd oed dechreuodd broffwydo; darogan y tywydd i ddechreu, yna aeth i ddarogan damweiniau gwladol; a phan gyrhaeddodd hi tua thri ngain mlwydd, wedi myned yn hen horgest symgar, rhoes y gair allan mai hi oedd y wraig ryfedd a welwyd yn Dat. xii., a'i bod yn feichiog ar y Siloh, a bu darparu mawr ymysg y disgyblion hudoledig erbyn gwledd yr enedigaeth. Ond yn lle esgor, bu'r wrach farw o'r dyfrglwyf, yn 1814, er mawr siomedigaeth i'r credinwyr gwallgof. Y Dr. W. O. Pughe oedd un o brif swyddogion eglwys y broffwydes, ac efe oedd yn diwygio ei phroffwydoliaethau fel y byddent yn addas i'r waeg, gan nad oedd y broffwydes, na'r ysbryd oedd yn ei chynhyrfu, yn gwybod dim byd am ramadeg. Mae hyn yn ddigon o brawf fod y Dr. yn hynod o blentynaidd a difarn, a'i fod yn gymhwysach colwynydd i Siwan Southcott nag i farnu gorchestion awenyddol Dewi Wyn."

Wedi gwneyd ymddanghosiad gwrolfrydig o fflangellu ei feirniaid anghyfiawn, ac i'w feddwl ymlonyddu a thawelu, penderfynodd Dewi na byddai a wnelai âg Eisteddfodau mwyach, ac nid oedd yn y byd resymau digon cryfion i beri iddo gyfnewid yn ei benderfyniad. Troes hyn yn achlysur iddo ymaflyd o ddifrif yn y gorchwyl hud-ddenol o gasglu cyfoeth, a bu Mamon yn llawer mwy teg a chyfiawn tuag ato na'i gydfeirdd a'i feirniaid. Hawdd yw ei feio am "ddigio hyd angeu," ond pan ystyrir ei fod ef ei hun yn ddyn gonest, geirwir, a dihoced—yn drwyadl felly, yr oedd gweniaith ac anghyfiawnder yn rhwym o fod y gwrthrych mwyaf isel ac atgas yn ei olwg. Sonier a fynner am ei linellau "bawaid a phersonol," y maent yn anhraethol fwy cymeradwy na ffafriaeth ac anonestrwydd. Fe faddeuir holl ddiffyg chwaeth, ymfrost, a baweidd-dra y llinellau tramgwyddus yng ngwaith y bardd cyn y maddeuir y twyll a'r anghyfiawnder brwnt fu yn achlysur ohonynt.

Cynhyrfodd gwaed beirdd sir Gaernarfon, ie Cymru oll, wrth glywed am y camwri dirfawr hwn a wnaed yn Ninbych, a llawer ohonynt a antonasant linellau at y bardd i'w galonogi a'i gysuro, ond y maent yn rhy faith a lliosog i'w dwyn gerbron ar hyn o bryd. Tra yr oedd y beirdd fel hyn, megis cwmwl

ardderchog o dystion, yn ehwythu llioiwgrwydd yn erbyn ymddygiad gwarthus y beirniaid, gyda'r amcan clodwiw a charedig o amddiffyn Dewi ar dir teg; yr oedd yntau drwy hynny, gydag eithaf boddlonrwydd, a'r gwresogrwydd mwyaf tanbaid, yn eu fflangellu ymhob dull a modd; a daeth allan o'r frwydr yn fwy na choncwerwr, wedi mynegi iddynt yr holl wirionedd yn noeth a grymus, heb arbed un tipyn ar glefydau a briwiau moesol yr un ohonynt, a chan roddi ar bob un nôd arbennig, ac nid oedd neb a fedrai ei wrthsefyll na'i wrth-ddywedyd. Ond er mor awyddus ydoedd am ragori, ac yn neillduol am chwareu teg pan y rhagorai, ni chafodd gystadleuaeth ffodus erioed. Nid oes amheuaeth na ragorodd efe mewn tair ymdrech olynol, ond yr oedd rhyw anffawd ynglŷn â phob un. Rhagorai ei "Folawd Ynys Prydain" gymaint ym marn prif feirniaid ei oes, o gymaint ag y mae awdl faith, "dryloyw, ddysgedig, a chywrain," yn rhagori "ar rimyn anhebyg i ddim a welodd un beirniad erioed;" er hynny, oherwydd anhegwch ei feirniaid, ni chafodd ei restru yn flaenaf. Rhagorodd ar "Amaethyddiaeth," ond difuddiwyd ef o'i gwpan arian. Rhagorodd yn fawr yn ei "Elusengarwch," ond rhoddwyd ei dlws i'r Dryw, sef y Parch. Edward Hughes, Bodffari; eithr, fel y sylwai un beirniad, rhaid i'r Dryw "gael gwell ysgolion na'i awdl ar *Elusengarwch* a'i *Longddrylliad*, cyn y gall esgyn i gadair y bardd o Eifion."

Pa faint, neu i ba raddau yr effeithiai awyddfryd o gymeradwyaeth dynion ar feddylfryd Dewi Wyn, anhawdd yw dywedyd. Ond diau fod cymeradwyaeth ei gydwybod yn werthfawrocach o lawer yn ei olwg, fel yr addefai wrth Sion Wyn, "na fyddai efe yn gofalu ond ychydig pa beth a ddywedai dynion am dano, os byddai ei gydwybod heb ei gyhuddo." "Ymdrechu y byddaf," ebe efe, "i ymddwyn yn y fath fodd na bydd ganddynt ddim llawer o ddrwg i ddywedyd am danaf—a byddaf weithiau yn meddwl myned i ben rhyw fryn, a rhoi her i bawb i ddywedyd a fynnonnt am danaf." Gadawaf y mater hwn at eich ystyriaeth pellach, gan ddisgwyl clywed gennych beth a ddywedir yn ei Gofiant. Mae yn angenrheidiol cymeryd golwg fanwl ac eang ar nodweddau meddyliol a helyntion bywyd y bardd, er gallu eu deall yn briodol.

E. I.—Yr wyf yn cymeradwyo yn fawr eich doethineb yn dymuno cael clywed beth a ddywed Cofiant y bardd. Gan hynny, cymeraf y pleser o gyfeirio eich sylw at ddau neu dri o bwytiau fel y canlyn. Pan yn cyfeirio at ei siomedigaeth gyda'i "Awdl ar Elusengarwch," dywedir fel hyn,—

"Ond er ei fod, dan ddylanwad cynhyrfol y siomedigaeth, yn gallu gwneyd ymddangosiad fel hyn o fawrfrydigrwydd a chalondid, eto ymlonyddodd y

teimladau uchel a bywiog yn fuan, gan leddfu i iselder meddwl, a difrawder ysbyrd, fel nad amlygodd byth ar ol hynny yn agos gymaint o hyfrydwch mewn barddoniaeth, nac awydd cryf i gyfansoddi; er hynny i gyd, yr oedd yr awen mor reddfal yn ei natur, fel pan gyfarfyddai â rhyw amgylchiad o arbenigrwydd, neu ragor-gamp ag y byddai mawrhydi anianol neu feddylol ynghŷn â hwynt, nis gallai lai nag amlygu cyffroad ei feddwl a'i deimlad ar yr achlysuron, yn ei gynnefin ddull gwir farddonol a chywraim."

Yna, mae y Cofiant yn myned ymlaen i grybwyll am waith rhyw ysgrifenydd yn *Seren Gomer*, dan y ffug-enw Iwan, yn ymyrraeth â'i "Awdl ar Ymweliad y Brenin â Mon," mewn dull ag oedd anghytunol iawn âg anianawd y bardd,—

"Yr eondra, a'r ysafa ychwanegol yma i ymyrraeth mewn dull mor arw â'i waith, a ail offdiodd Ddewi; cymerodd ei lwnc olaf o gwpan siomedigaethau llenyddol, a throes ei wyneb draw gyda soriant a dirmyg; ac ni chynrychodd ond ychydig iawn o farddoniaeth byth wedi hyn,—rhyw ddernyn byr yn awr a phryd arall, er difyrwch iddo ei hun, a'i gyfeillion mwyaf mynweol oedd y cwbl a amcanai ato ar ol hyn; a'r cyfansoddiaid ardderchoaf, ac fe allai braidd yr olaf o'r doebarth yma o'i waith, ydyw yr englynion campus i Bont Menai."

Yn sicr, mae y dyfyniadau diweddaf yna a ddarlennais wedi fy synnu i'r fath raddau, nes y mae fy natur wedi ei chythruddo drwyddi. Wele Dewi wedi "troi ei wyneb draw mewn soriant a dirmyg." Och resyn! tra nad oedd ei awen ddielffydd ond yn anterth grym ei hoenusrwydd, oblegid nid oes deryn yn ei waith, nag efallai yn y Gymraeg, mor rymus a'i englynion adnabyddus i Bont Menai. Mae ynddynt ddigon o dân awenyddol i "doddi tidau Porthaethwy." Ffarweliodd â phob cystadleuaeth ar ei siomiant yn Ninbych. Ffarweliodd â duwies yr awenau yn awr, trwy waith yr Iwan ymyrgar yma; ond rhaid i mi gael gwybod rhywbeth am y gŵr a dynnodd drychineb fel hyn i'n rhan.

TAL.—Dichon fod lliw ychydig rhy gryf yn cael ei roddi ar yr amgylchiadau affodus yma; oblegid nid ar frys yr ymadawai Dewi Wyn â'i awen, yr hon a'i gwnaeth mor dra enwog. Yn yr un mis ag y cyhoeddodd efe ei "Awdl ar Elusengarwch," a phan oedd y ffrwgwd rhyngddo â'i feirniaid yn ei gwres, cyfansoddodd ar frys awdl bert ar destyn ysmala o ran ei ymddangosiad, ac y mae yn un o'r rhai goreu yn y *Blodau Arfon* o ran trefn a chrynhoad. Y mae efe yn dilyn ei destyn yn well yn hon nag yn un o'r lleill, ac y mae ynddi bertrwydd a thlysmi na chyfarfyddwn yn fynych â'u cyffelyb yn ei waith. Ychydig, os dim, a ellir eu tynnu allan o'r awdl hon fel pethau amberthynasol i'r testyn, neu bethau heb eu heisiau. Y mae yr awdl yn ddifyr i'w darllen drwyddi. Pa fodd bynnag, prawf cryf dros deilyngdod yr awdl yma—"Awdl Cyfarch y Gweithwyr,"—ydyw iddi lwyddo i wasgu allan gymaint a hynyna o ganmoliaeth oddiwrth y gŵr a wnaeth yr ymdrech fwyaf

beiddgar, eto fwyaf aneffeithiol, i geisio darostwng bardd Eifion, o un beirniad a gymerodd arno i hun y gorchwyl o adolygu gwaith ac athrylith Dewi Wyn o Eifion ericed.

Yr ydych yn gweled fod sefyllfa y Gaerwen yma, ynghyd âg amryw o ffermydd cyfagos, yn dra anghysbell, oherwydd diffyg ffyrdd a gwelliantau angenrheidiol. Y maent felly yn awr, ond yr oeddynt yn fwy felly yn amser Dewi Wyn. Nid oedd y Gaerwen, dri ugain mlynedd yn ol, ddim mwy anghysbell na ffermydd ereill ardaloedd Eifionnydd, ac nid oedd y llwybrau ato yn fwy anhygyrch nag at ffermdai ereill y cymydogaethau hyn. Ond ystyrir ef yn awr megis llecyn neillduedig, yn gymaint felly fel mai anfynych y mae neb, hyd yn oed y cymydogion agosaf, yn ymlwybro heibio iddo. Mae y gwahan-iaeth sy rhyngddo a lleoedd ereill wedi ei achosi, nid am fod y Gaerwen wedi myned yn ol yn y byd, ond am fod lleoedd eraill wedi myned ymlaen. Perthynai yr holl diroedd o amgylch, a'r Gaerwen yn eu mysg, i'r Mostyniaid; a'r goruchwyliwr ar y pryd y cyfansoddwyd "Awdl Cyfarch y Gweithwyr" oedd Mr. Maughan, Plas Hen, yr hwn, tua'r flwyddyn 1819, a wnaeth ffordd a adnabyddir hyd heddyw fel "Ffordd Maughan," o gymydogaeth Ffriwlyd i gyfeiriad Mynydd y Cenin, er mwyn hwylusdod i'r amaethwyr i gludo calch ac angenrheidiau ereill perthynol i ffermydd. Gosodid llu o weithwyr i wneyd gwely y ffordd newydd, a phlannu coed ar bob ochr, y rhai erhyn heddyw, fel y gwelwch, ydynt wedi tyfu i'r maintioli ag y rhagddywedai y bardd am danynt mor gyfrdo a phriodol. Yn wir, pe cawsai olwg arnynt heddyw, pan y maent yn eu llawn wyrddlesni canghennog a deiliog yn ffurfio math o ortho uwchben, ni allasai eu disgrifio gyda mwy o briodoldeb. Cymharwch y cyfresau cymhlethog â'r llinellau nodedig a ganlyn,—

"Ban chwysoch, ben a choesau,—da palwch;

Daw pelydr melinau;
A thŷf o bridd eithaf brau,
Er eich mwyn, arch i minnau.

Rhyw wych grydau, eirch credir,
O'u ceinciau'n hawdd, cawn cyn hir;
Newid ar ddeunydd noeau,
A thanwydd o'r bregwydd brau.
Ac wedi rhoi'r coed ar werth,
Gofynnir rhyw gyfanwerth;
Gwel Rhifydd gymynydd mawr,
Wrth y droedfedd, werth drudfawr,
Rhagor mawr i'r gŵr a'u medd,
Ar y grug ddygai'r gwragedd.
Creu a wnewch i'n Caerwen ni,
Cysgod rhag dyrnod oerni;
Cysgodion lle cwsg adar,
Ty'r eidion gwyllt, a'r eidion gwâr."

Yn wir, y mae bron yn anichon peidio darllen yr awdl oll, gan mor hynod ragorol ydyw; mae yn ddarlun byw o'r hyn a welir heddyw o'n blaen, ac y mae yn diweddu gyda dymuniadau bendithlawn i "Syr Tomas a'i aerod," gan ddymuno,—

"O'i roddion gwiw a diwael,
Arch o'i goed a ercha'i gael.
A da'r cof, wedi'r cyfan,
MAUGHAN am goed—minnau am gân."

E. I.—Os ydych wedi gorffen gydag "Awdl Cyfarch y Gweithwyr," caniatewch i mi alw eich sylw at yr englyn a gyhoeddwyd yn *Seren Gomer* am Fawrth 1822, dan y pennawd *Gwiliwch Lundain*. Mae rhyw ysgrifennydd a ymgyfenwa Morthwyl ab Einion yn cyfeirio at achlysur cyfansoddiad yr englyn fel hyn,—

"Y Parch. Efan Efans" (Llundain, mae'n debygol) ar ei daith yn ddiweddar trwy Eiflonnydd, a ddigwyddai fynd i gymdeithas y ddau fardd godidawg sydd yn y wlad honno, nid amgen Dewi Wyn a Robert Gwilym Ddu. Ac yn y gyfeillach, canai Dewi englyn i ddinas Llundain, yr hwn a welir isod. Digwyddodd i minnau gael golwg ar yr englyn,—ac am fy mod yn adnabod y ddau fardd, bum gan hyfed a chanu ychydig englynion go drwsghlon fal atebiad iddo; ac yrwan cyflwynaf hwynt i chwi, heb bryderu na bydd yn hoffder ac yn ddywennydd gan y ddau gyfaill uchod eu gweled yn *Seren Gomer*, yn gystal a chan yr eiddoch chwi a hwythau MORTHWYL AB EINIION."

"Llundain fawr, a mawr ei moes,—nid ydyw
Ond adail pob drygfoes;
Gwenwyno egin einioes,
Gwanhau a bywhau ber oes.—D. O."

Cyflwynaf eto i'ch sylw rai o englynion Morthwyl ab Einion fel atebiad,—

"Llondeg o dref yw Llundain,—adeiliwyd
A dwylaw rhai cywraïn;
Harddwch y byd a Phrydain,
Gwelwch ei modd galch a main.

"Gwir, oes, mae anfoes ynfyd,—yn Llundain
A llawnder o ddrygfyd;
Dan y nef, Llundain hefyd
Sydd ben dinasoedd y byd.

"Ar dy gred dywed Dewi—paid amau
Pa dymor y deui
Idd ein tref, anwyldref ni,
Sef dinas y daioni.

"Gwelom ddau, sef Gwilym Ddu—a Dewi
Yn dawed i fyny,
Dau amaethon, hillion Hu
Gadarn—a phwy a'u gwedy?

"Dewch y ddau fardd, hardd eu hurddas,—Fai haf
Neu Fehffin gwyrddlas;
Cewch yfed gwin ein dinas,
A bir cryf, heb eiriau cras."

Tebygol mai yr hybarch James Hughes (*Iago Trichrug*), oedd y "Morthwyl ab Einion" hwn; pa fodd bynnag, yr achos i mi alw eich sylw at yr englyn "Gwiliwch Lundain" gan Dewi Wyn, yw y gwahanol adroddiadau sydd ynghylch yr achlysur o'i gyfansoddi; canys fel hyn y dywed Nicander o berthynas iddo,—

"Dywedir mai un englyn yw hwn allan o chwech neu saith, y rhai a ganodd y bardd ar ymadawiad cymydog ieuanc iddo o Bwllheli i Lundain i fasnachu. Gresyn yw fod yr englynion ereill ar goll. Diau eu bod yn cynnwys cynghorion i'r gŵr ieuanc, ag oeddynt yn werth eu hargraffu ar ei gof a'i galon. Yr oedd Dewi Wyn yn nodedig am ei lynder yn erbyn pob math o anfoesoldeb, byddai ar bob dyn drwg ei ofn yn ei galon. Ni feiddiai neb ddweyd un gair anweddus yn ei glyw. Ac yr oedd yn gwybod, trwy glywed a darllen, lle mor berygius oedd Llundain i foesoldeb dyn ieuanc a elai yno i drigiannu. Mae y grisiau ar hyd pa rai y mae pobl ieuanc yn Llundain yn disgyn i wared i ystafell angau, trwy anghymedrodeb, yn cael eu dynodi'n gywraim yn yr englyn. Y gris cyntaf yw gwenwyniad eginau bywyd, naturiol a moesol. Y gris nesaf yw gwenwyniad yr einioes. Y gris diweddaf yw ei byrhad trwy farwolaeth, neu trwy warth, yr hyn sydd waeth na marwolaeth. Ac ni byddai byth raid myned i drafferth i fyrhau peth ag sydd eisoes mor fyr ag einioes dyn."

Boed a fo, y mae achlysur cyfansoddiad yr englyn, neu yr englynion yma, os oedd rhagor nag un, fel yr awgrymai Nicander, yn ymddangos i mi yn lled gymysglyd, ond mae yr hanes a ddyry Nicander yn ymddangos yn bur athronyddol, ac yn gorffwys ar seiliau tra rhesymol.

TAL.—Yn fy myw, nis gallaf gyda dilysrwydd brofi y pwnc yna, ond ymddengys oddiwrth destyn yr englyn mai fel rhybudd y bwriadwyd iddo fod; yr oedd Nicander mewn gwell mantais na mi i wybod i fanylrwydd am yr achlysur. Yr un pryd, gan fod y Parch. Evan Evans, yr hwn oedd enedigol o blwyf Llanarmon yn Eifionnydd, yn aros yn Llundain, digon posibl oedd i Dewi, neu R. ab Gwilym Ddu, adrodd yr englyn iddo ef; ond ar achlysur arall y cyfansoddwyd ef yn ddiameu. Nid oes gennyf ond dyfaliad llac; yr hyn, mor bell ag y cyrhaedda, sydd yn gwneyd i mi fod yn dueddol i gredu yr hyn a ddywed Nicander.

E. I.—Hoffaf y syniadau a gyflewyd ddiweddaf genych, ac yr wyf yn hollol gydolygu â chwi. A gaf fi yn awr glywed eich sylwad ynghylch yr Iwan yma, pryd yr "yfodd ein bardd ei lwnc olaf o gwpan siomedigaeth." Mae fy natur wedi ymadfer i raddau, ar ol yr ias o fferdod disymwth a yrrodd yr ymadrodd yna drwy fêr fy esgyrn, ac yr wyf yn dra awyddus am wybod manylion yr hanes, gan ei fod yn gyfryw ag sydd yn dwyn cysylltiad mor bwysig â bywyd llenyddol Dewi Wyn.

TAL.—Nid oes yn aros nemawr fanylion heb eu cyhoeddi, hyd y mae yn wybyddus i mi. Tua hanner can mlynedd yn ol, prif faes llenyddiaeth y genedl oedd *Seren Gomer*, cyhoeddiad misol, o dan olygiaeth y llenor addfed Joseph Harris (*Gomer*). Yn Ebrill 1822, ymddanghosodd ysgrif Iwan ar Farddoniaeth

Gymreig, amcan yr hon yw ymosod ar y mesurau caethion, fel eu gelwir. Am yr awdwr hwn, dywed y golygydd ei fod yn "ymgeleddwr gwresog o'r iaith Gymraeg, yn wr dysgedig, ac mor hyddysg mewn amryw ieithoedd ag yw yn iaith ei fam, ac felly yn medru cymharu barddoniaeth mewn gwahanol ieithoedd." Dyna wron yn gwneyd ei ymddanghosiad ar y maes, a'r golygydd parchedig yn myned o'i flaen i floeddi "Abrec!" Ac etyb Iwan drwy ganmol y *Seren*,—

"Y mae *Seren Gomer* wedi gyru ar ffo y cymylau o ddiolalwch ag oedd er ya amrywiol flynyddau wedi tof ein cenedl, ac yn awr y mae'n bryd i chwi gyfnewid y *Seren*, a'i galw o hyn allan yn *Hauloen Gomer*."

Goddefwch i mi ddwyn i'ch sylw ychydig frawddegau o lythyr yr athraw dysgedig yma, fel hyn,—

"Nis gallaf lai nag ystyried lluniwr y mydrau uchod yn un o'r bradwyr gwaethaf a ymddangosodd erioed ar iaith y Cymry. Yr oedd Hengist a Horsa yn elynion diniwed, mewn cymharfaeth i'r bradwr digydwytod hwnnw."

Eto,—

"Edrychwch ar awdlau ag sydd wedi ennill tlysau yn ddiweddar; a gallaf ddywedyd, er eu bod yn rhagori ar ereill o'r un myrdiad yn Gymraeg, eto nad ydynt fel cyfansoddiadau barddonol yn werth eu codi o'r llwch."

Drachefn,—

"Chwi a glywsoc am D. ab Gwilym, Iolo Goch, Gutyn Owain, &c.; ond mi a wn y cywilyddiaid pob Cymro ag sydd yn caru ei wlad, pe bai yn canfod cyfleithiad *Uythyrrenol* i un iaith estronol, o'r awdwr uchod. Nid wyf yn meddwl, er eu holl glod, y gwyddent fwy am wir farddoniaeth nag y gwyddai asyn Balam."

E. I.—Yn sicr mae y pethau diweddar yna wedi fy synnu yn llwyr, onid yw rhagfarn yn cario dynion yn mhell oddiwrth y gwirionedd? Ychydig ddyddiau yn ol yr oeddwn yn cael mwynhad anarferol wrth ddarllen sylwadau tra gwahanol yn un o gyhoeddiadau parchusaf y Dywysogaeth. Medd efe,—

"Beth bynnag a feddylir am ddyrysi a manylrydd mesurau barddonol y Cymry,—ac yn sicr y maent yn deilwng o astudiaeth fel cynhyrchiad cywraïn celfyddyd lenyddol,—addefir gan y beirniaid mwyaf galluog eu bod yn meddu dirnadaeth gywir o'r hyn yw barddoniaeth, ac o'r hyn sydd angenrheidiol i wneyd bardd. Ond y mae y beirdd Cymreig o dan yr anfantais o orfod ysgrifennu mewn iaith a lefarir gan ond ychydig nifer o bobl; ac o ganlyniad, mae clod y rhai mwyaf talentog yn cael ei gyfyngu o fewn cylch bychan. Pe buasai i Robert Burns gael ei ddwyn i fyny yng Nghymru, ac fod ei gynhyrchion wedi eu cyfansoddi yn Gymraeg, prin y buasai ei enwogrwydd wedi cyrraedd tuhwt i derfynau y Dywysogaeth. Ond y mae y dyddordeb cynyddol a deimlir mewn llenyddiaeth Geltaidd yn argoeli amser gwell yn y dyfodol, pryd y derbynia cynhyrchion ein beirdd gydnabyddiaeth eangach yn y byd lenyddol. Nid yw George Barrow, awdwr y *Wild Wales*, a'r hwn sydd un o'r ychydig Saeson a feddant gybnabyddiaeth drwyadl â llenyddiaeth Gymreig, yn petruso rhestru Dafydd ab Gwilym, Goronwy Owen, &c., ymhlith beirdd blaenaf y byd. A ffaith arall, hyd yn oed yn fwy nodedig, ydoedd fod gan y *Westminster Review* yn ddiweddar erthygl feirniadol ar Dafydd ab Gwilym."

Ofer, meddaf, yr eiddgeddais yn fy nghenedl wrth ddwyn i'ch sylw y syniadau teg yna, os ydyw edliwiadau Iwan yn gywir.

Ni phetrusa ysgolhaig Seisonig, yr hwn a fedd gydnabyddiaeth drwyadl yn y Gymraeg,—ni phetrusa George Barrow restru Dafydd ab Gwilym, &c., “ymhlith beirdd blaenaf y byd.” Na, “ni wyddant fwy am wir farddoniaeth nag y gwyddai asyn Balam,” medd yr ymgeleddwr a'r danodwr dysgedig Iwan.

TAL.—Gwelaf fod eich teimlad gwladgarol yn cael ei gynhyrfu,—mae eisiau pwyll, a rhaid cael pen oer i feirniadu. Dymunaf arnoch fod dipyn, yn amyneddgar—nid oes un cyfeiriad personol at Dewi Wyn yn yr ysgrif o'r hon y dyfynnwyd y mynegiad blaenorol; eithr nid oedd yntau yn eithriad, a diau ddarfod iddo deimlo oddiwirth y sarhad yma ar feirdd ei wlad. Dylwn grybwyll fod amryw feirdd enwog yn dadlu yn erbyn caethiwed y mesurau, o leiaf yn erbyn cyfyngu y gadair i awdl yn unig; ond gellir dadlu yn erbyn caethiwed y mesurau heb geisio sathru beirdd enwocaf Cymru dan draed, a haeru “na wyddent fwy am farddoniaeth nag a wyddai asyn Balam.” Mae haeru peth fel hyn mor ffol ac afresymol, beth bynnag, a dim a haerodd Dewi na neb o'r beirdd i'r gwrthwyneb.

Ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn, anfonodd rhyw ysgrifennydd, a ymgyfenwai “Dylluan Llwyniorwg,” gyfarchiad trwy y *Seren* at Dewi, gyda nifer o englynion, fel hyn,—

“DEWI WYN! ble'r oedditi ti pan ganwyd ar destynau Gwrecsam? ‘Na lidia yn dragywydd.’ Cân er mwyn dy wlad! Cân er mwyn yr awen! Cân er mwyn Dylluan Llwyniorwg! Y mae a werthfawrogant dy waith.

“Giwdeg wr, rhaid it ymgodi—o gwsg,
Ac esgud farddoni;
Dy awen, fy nghar Dewi,
Gwin yw a mêl, gwn, i mi.

“Y Byron Cymraeg, mae'n berwi—ynnot
Yr awenydd wisgi;
O wlad haul iawn weled hi
Eto unwaith fyd tani.

“Disgleiried yn des gloewrydd—o irdeg
Wen ardal Eifionnydd
Yn gywir deg i Gaerdydd,
I roi manna i'r 'mennydd.

“Mi deithiwn, y gauaf, Dafydd—ddiwrnod
Dros ddu oernaws fynydd,
I wrando sain, rwyddsain rydd
(Lif eirian) dy leferydd.”

Yr wyf yn teimlo mai digwyddiad lled anffodus ar ran Iwan oedd iddo gyhoeddi yn y *Seren* am Mehefin y flwyddyn honno, ugain o benhillion dan y pennawd “Bedd fy Nhad;” gyda'r amcan ag oedd yn “gosod allan y teimladau hynny ag sydd yn naturiol feddiannu pob plentyn wrth edrych ar fedd ei dad.” Galleisid disgwyl i awdwr dysgedig, cyfarwydd â barddoniaeth gwahanol genedloedd, a'r hwn oedd wedi ymgymeryd â'r

gorchwyl o'u cymharu a'u gilydd, ac â barddoniaeth Gymreig—gallesid disgwyl iddo roddi esiampl odidog o wir farddoniaeth; ond yn lle hynny yn ymesgusodi, ac yn cydnabod nad oedd ef yn fardd, gan roddi ei hun ar drugaredd a maddeuant y darllenwyr; a thra fel hyn yn cydnabod nad oedd efe yn fardd, yn ymgymeryd â'r gorchwyl o benderfynu beth oedd "gwir farddoniaeth," a phwy oedd y gwir feirdd; ac wrth gwrs, Groegiaid, Rhufeiniaid, a Saeson oedd y rhai hynny. Ond yn lle rhoddi engraifft odidog o wir farddoniaeth, ni cheir ganddo ond rhimyn mewn gwirionedd; mae wedi dewis un o'r mesurau mwyaf rhydd; ond er hynny, ymddengys ei fod yn rhy gaeth iddo ef, gan fod un gohebydd sylwgar wedi rhifo cymaint a chant a phymtheg ar hugain o sillgoliadau mewn cân rydd o ugain pennill, heblaw lliaws o bob anafau ereill; a llinellau mor weiniaid, fel hon, liaws o honynt,—“Isel iawn yn awr yw 'i ra'n," lle nad oes na meddwl na chywirdeb, na dim yn werth ei edmygu—mae y gerdd mewn gwirionedd cyn waeled a nemawr i faled pen ffair; ac eto, dyma engraifft o "wir farddoniaeth" gan un a haerai na wyddai D. ab Gwilym "ddim mwy am dano nag a wyddai asyn Balam." Rhaid i mi addef na wn innau ddim amcan beth yw gwir farddoniaeth, os ydyw yn llochesu yn y penhillion "Bedd fy Nhad" gan Iwan. Crybwyllais y ffaith yma yn unig er dangos pa mor anioddefol i feirdd godidog fel Dewi Wyn, ac ereill, oedd darllen sylwadau ysgrifennydd o ddoesbarth Iwan ar feirdd goreu y genedl.

Yn y *Seren* am Fedi, y mae Dewi Wyn yn ysgrifennu ei atebiad i'r "Dylluan," ac yn cyhoeddi ei "Awdl ar Ymweliad y Brenin â Mon," dan y pennawd o "Oroian y Bardd." Gan fod ei atebiad i'r "Dylluan" wedi ei argraffu ym *Mlodau Arfon*, afreidiol yw i mi, ar hyn o bryd, ei ail adrodd; ond dengys yr awdwr ynddo yr hyn a grybwyllwyd gennym o'r blaen, fod y cyhuddiadau a osodwyd yn ei erbyn yn yr helynt efo beirniaid "Elusengarwch," wedi ei lwyr ddigalonni; er hynny, ei fod yn ymgiprys â chyfansoddi barddoniaeth o ran difyrrwch iddo ei hun, ac un o gynhyrchion y cyfryw ddifyrrwch yw yr "Oroian," neu "Ofwy Mon gan y Brenin Sior." Gwir fod y testyn hwn wedi ei roddi erbyn Eisteddfod Caernarfon, y flwyddyn flaenorol; ond ni anfonodd Dewi ei awdl i'r gystadleuaeth, ac ni chyfansoddodd hi gyda'r bwriad hwnnw, eithr o "serch pur at Sior y IV.," eb efe. Cyfansoddodd Glan Geirionydd ar yr un testyn, ond fforffetiodd yntau ei hawl i'r wobr, am fod ei gyfansoddiad dair gwaith yn hwy na'r hyd penodol.

Llwyddodd Iwan, drwy ei ysgrifau a'i gerdd, i gyffroi dygasedd lliaws o'r gohebwyd, y rhai a ymosodent arno o bob cyfeiriad; ac yn y *Seren* am Tachwedd, y mae yntau yn troi atynt

gan roddi megis blaendroediad i bob un, a'r olaf sydd yn derbyn ei gosp yw Dewi, druan, yn y wedd a ganlyn,—

“Ar ol y pendeifg hwn (*Adolygydd*), wele Dewi Wyn yn neidio allan, âg ysgubell fawr enllib yn ei law, gyda llawn fwriad i ysgubo ymaith fy ngwybodaeth o farddoniaeth, yn gystal a'm penhillion, y rhai a ellw efe mewn iaith fwy boneddigaidd, *rhimym*. Nid wyf yn gofalu dim am farn eich gohebwyr ynghylch fy ngwybodaeth na'm gwaith. Gwell gennyf gael tyb dda rhagorach barnwyr, a'r rhai sydd wedi dysgu mwyneiddiach iaith.”

Wedi hyn, a Iwan rhagddo i gondemnio y caeth-fesurau, ac i foli ei Homer, ei Virgil, ei Tasso, a'i Filtwn; a chyn y diwedd, dechreu a ei ymosodiad ar “Oroian” Dewi Wyn, fel hyn,—

“Gan fod Dewi Wyn wedi anfon awdl i *Seren* Medi, nid oes achos inni ymdrafferthu i chwilio am un arall. Ni a gawn ddigon o brawf yn ei ‘Oroian,’ na fedr ef, er ei holl gynefnidra â'r mydrau caethion, osod ei feddwl allan, na gosod ond ychydig o synwyr cryf mewn cynghaneddion. Gwir yw, y mae ganddo ryw ystyr ymhob braich, ond fynychaf y mae yn wannaidd a nychlyd, neu yn ddigysylltiad.”

Yn y *Seren* am Rhagfyr cyhoeddodd Iwan erthygl drachefn, yn yr hon, yn ol helaethrwydd ei allu a'i gecri, y mae yn hyf-nithio “Oroian y Bardd,” gan ddyfal-chwilio, fel iar haf, am bryfed mân y beiau. Am hyn, ni edrychid arno gyda'r parch a'r hynawsedd ag a ragdybiai, ac er mwyn diheuro argoelion o ddilysrwydd y ffaith, bydded engraffft neu ddwy yn esgusodol. Dywed Cynddelw fod “ganddo ambell i sylw da, ac ambell i sylw anheg, ac ambell i sylw plentynaidd ar waith ein bardd. Ei ffordd bennaf oedd cyfieithu yn llythyrennol, a gofalu gwneyd ystyr y farddoniaeth yn ddigon gwrthun.” Ac medd Caledfryn,—“Yr oedd efe yn cyfrif pethau yn feiau nad ydynt felly mewn iaith a chynghanedd.”


Digiodd Dewi yn ddirfawr oherwydd yr ymyriad hyf yma o eiddo Iwan â'i “Oroian;” ac mewn canlyniad, cyfansoddodd gywydd a elwir “Cywydd yr Iwan,” yr hwn yn ddieithriad, yw y siampl bennaf o watwareg a fedd y Gymraeg. Fel hyn y mae y naill eithafion yn achosi eithafion arall. Diddadl fod Iwan yn ddyn ieuanc dysgedig; mae llawer o ol darllen ac ymgydnabyddu â beirdd ac â barddoniaeth cenhedloedd ereill yn ei waith; ond nid oedd efe ei hun ond cyfansoddwr prin ail-raddol, os na roddes brawf amgenach i'r hyn a gesglir oddiwrth “Bedd fy Nhad.”

Ond y gwaethaf am dano oedd iddo fod yn graig rhwystr i lwyr achosi i Dewi beidio anfon dim i'r *Seren*, nac i unrhyw gyhoeddiad arall, trwy haeru “nad oedd un o'r awdlau buddugol diweddar yn werth eu codi o'r llwch.” Dyma y pryd yr yfodd Dewi ei lwnc olaf o gwpan siomedigaeth, ac y “troes ei wyneb draw gyda soriant a dirmyg,” fel na chynhyrchodd mwyach ond ychydig iawn o farddoniaeth. Y rhesymau a ddyry Cynddelw dros y cyfryw soriant yw y rhai canlynol,—

"1. Yr oedd ef yn ddyn o ysbryd uchel a hunanol wrth natur, fel nad oedd cael ei groesi yn beth hawdd i'w oddef ganddo. 2. Yr oedd efe wedi cael cymaint o gamdriniaeth, er's pymtheng mlynedd bellach, nes ei wneyd yn hynod o ddolurus a chroen-densu. 3. Yr oedd ei gyfansoddiad yn llawn o anhwylderau gewynol; ac ar gyfrif y peth olaf hwn dylai pawb dosturio wrtho, yn hytrach na'i gollfarnu. Yr oedd y pethau yna bron wedi ei orchfygu eisoes; felly nid oedd gan Iwan ond gorchwyl bychan i'w orffen, a'r canlyniad a fu iddo lwyrd diflasu ar farddoni mwyach."

Yn ol "Cofiant y diweddar Barch. David Williams (*Iwan*)," a ymddangosodd yn *Seren Gomer*, Mai, 1823, "efe oedd fab i Mr. Williams, o Benpontbren, ym mhlwyf Llanwnen, Ceredigion. Aeth yn ieuanc dan ofal athrawiaethol y Parch. D. Davies, o Gastell Hywel, Ceredigion, ysgol-athraw hybarch a chlodwiw, mawr ei enw am egwyddori ieuencid. Oddiyma symudodd i athrofa y Bedyddwyr yng Nghaerador, lle y bu yn dra diwyd yn myfyrio. Yn ol priodi, bu yn cadw ysgol, gyda llwyddiant mawr yng Nghaerfyrddin. Oddiyno daeth groesawiad a galwad arno i fyned i swydd Dyfnaint, i bregethu ac i gadw ysgol; ond y llong ymha un y moriai efe a'i dylwyth a yrrwyd yn ol gan dymhestl aruthr i Abertawe. O hynny allan ei iechyd a aeth waethwaeth o ddydd i ddydd, hyd nes darfu â'r fuchedd hon, ar y degfed o Ionawr, 1823, yn y seithfed flwydd a'r hugain o'i oed." Er fod Iwan yn ysgohaig gwych, ac wedi sylwi yn y modd manylaf ar bopeth a ddarllenodd; eto nid oedd ei athrylith farddonol ond salach nag islaw sylw yn ymyl bardd mawr y Gaerwen.

Yr wyf wedi rhoddi y crynhodeb cywiraf a allaf o'r manylion ynglŷn â'r ymrafael rhwng Iwan a Dewi, heb chwanegu ond ychydig sylwadau o'm heiddô fy hun; er fy mod yn teimlo temtasiwn i wneyd hynny weithiau; ond rhoddais o'ch blaen y ffeithiau, mor bell ag mae fy ngwybodaeth i yn cyrraedd, a rhydd i chwithau dynnu oddiwrthynt y casgliadau a fynnoch. Yn awr rhaid inni groesi y trothwy i mewn i gyfnod gwahanol ar ei oes, pan wedi sorri a digio wrth eisteddfodau, o herwydd anheg-wch eu beirniaid; ac wedi diflasu at farddoni, i raddau, o herwydd yr aniolchgarwch a dderbynai, pryd y troes i amlhau golud, ac i ymsuddo yn ddyfnach ddyfnach i drafferthion ei fferm a'i fasnach. Am y pymtheng mlynedd nesaf o'i fywyd, nid oes gennym fawr o'i hanes,—o'r rhai y treuliodd efe ddeng mlynedd i fasnachu gyda'i frawd ym Mhwlheli, yr hwn a gymerwyd yn glaf,—i orfod nychu dros hir amser,—hyd y flwyddyn 1837, pryd y bu efe farw. Yn ddilynol rhoddodd Dewi y siop i fyny, a symudodd yn ol i'r Gaerwen; ac am yr ysbaid y bu efe fyw yma y mae llawer iawn i'w ddweyd, ond eu bod o natur hynod o gyffrous a difrifol. Gwahoddaf ein cyfaill Amaethon i ddod atom ryw dro,—y mae efe yn gyfarwydd iawn ag amgylchiadau blynyddoedd olaf Dewi Wyn.



W. N.

Ddu.

"i'r adar i ganu."—
Caniadau Solomon.

Yn y gwanwyn y
 ad yw y gwynt yn
 yn y gwanwyn y
 baith ac addewid,—
 thau. Y gwanwyn
 ydyw y mwyaf

iasol na'r gwres yn orlethol. Y mae popeth byw yn sirioli gan hyder a disgwyliant,

“ . . . nid gwynt yw'r helynt rheolaidd
Yn y tymor hwn, ond 'Taw' morwynaidd,
Arian yn llithro'n wanwyn llathraidd.”

Y mae tywyniadau'r haul megis yn taro tannau Natur nes y mae rhyw fwyneidd-dra nefolaidd yn gwefreiddio drwy'r greadigaeth oll. Mae rhwymau y gauaf yn ymddatod, ac wele

“ Pob peth o'r ddaear a ddaw
Ond y marw mawr ei garchar.”

Wedi seibiant adgyfnerthol, y mae'r goedwig yn gwisgo o'r newydd ei gwyrdd ac iraidd addurn, ac fe welir eto

“ . . . yr hen gainc
Yn gref o flagur ifainc.”

Unwaith bob blwyddyn ceir trai a llanw mawr ym mywyd y ddaear. Y mae yn awr yn bywiogi, ac yna yn dadfeilio. Ym mis Mawrth y mae'r haul yn croesi y cyhydedd, gan daenu ei belydrau yn ehelaeth dros rannau gogleddol y ddaear, nes peri i don fawr o yhrddlesni i ddylifo tua'r pegwn. “A daw,” fel y canodd Dafydd ab Gwilym,

“ A daw ar ucha blaen dâr,
Caniadau cywion adar,
A chôg ar lau pob rhandir,
A chethlydd a haf-ddydd hir.”

Gyda'r don yma o oleuni a bywyd y daw y wennol a'r gôg, ac adar ereill sydd yn crwydro'r llwybr gwyrddlas tua'r gogledd, mewn gobaith o fywyd gwell a helaethach. Dywed <sup>Adar y gwan-
vyn.</sup> seryddwyr mai dirgelwch y tymhorau ydyw y ffaith fod echel y ddaear bob amser yn gogwyddo i'r un cyfeiriad wrth chwyrnelli yn ei hir-gylch oddeutu'r haul. Mor fawreddog y mae trefniant pob rhan o'r byd yn datgan y syniad o ddaioni a chyfiawnder. Pwy fedr ddirnad maint dylanwad y trefniant hwn ar fywyd ein daear? Yn rhinwedd gogwyddiad ei hechel y mae pob rhan o'r ddaear yn ei dro yn cael ei fendithio â llifeiriant cynyrchiol o oleuni a gwres. Onibae am y trefniant hwn, ni chaem ond rhyw un tymor undonog a digyfnwid, ac ni chawsai y doniau hyn eu gwasgar mor gyfrodedd ac helaeth. Pe buasai echel y ddaear yn gogwyddo mwy neu lai nac yn bresennol tua'r haul, buasai gwedd tra gwahanol ar fywyd ein gwlad. Pe gogwyddai lai byddai'r hin yn ia gwastadol, a deuai eto i'n gororau y morfil a'r arth o'r gogledd, yn lle y wennol a'r gôg o'r deheu. O leiaf, dyna un modd y ceisia daearegwyr egluro y ffaith fod hin y wlad hon unwaith—yn yr oesau gynt a fu—

wedi bod mor boeth a mwill a'r trofanau heddyw; a thrachefn mor oer gan ei meusydd ia a Greenland yn bresennol. Canys beth am yr achos, y mae y ffeithiau yn ddiymwad. Tystia cregyn Moeltryfan, olion yr hen afonydd o ia fu gynt yn llithro rhwng ein creigiau, a gweddillion y rhedyn hafaidd talfrig geir yng nglo Morgannwg, fod cyfnewidiadau enfawr wedi cymeryd lle yn nhymeredd a meithder y tymhorau.

Y mae'r ddaear wrth deithio o gylch yr haul yn bwrw allan ei gwahanol flodau yn olynol a rheolaidd. Ni gawn fod i bob tymor ei flodau nodweddiadol. Nodweddir blodau'r

Lliwiau blodau. gwanwyn gan eu gwawr oleu a thyner. Lliwiau blodau'r gwanwyn yn gyffredin ydyw gwyn, melyn-

wyn, a glas goleu. Awgrymir eu bod wedi eu cynysgaeddu a'r cyfryw liwiau er adlewyrchu yn well oleuni'r haul. Yn nhan-beidrwydd yr haf y mae eu lliwiau yn fwy tywyll a dwfn. Hynodrwydd arall sydd yn perthyn i luaws mawr o flodau'r

gwanwyn ydyw y ffaith eu bod yn ymagor cyn Blodau cyn dail. ymddangos o'r dail. Sylwer fod yr Helygen, y Gollen, y Ddraenen ddu, ac amryw ereill, yn blodeuo cyn

deilio. Cawn sylwi eto yn y man fel y mae i'r trefniant hwn—sef blodeuo cyn deilio—ddibenion pwysig ym mywyd y llysieuyn.


Bellach, gadewch i ni sylwi ar rai o flodau mwyaf cyffredin y gwanwyn fel y deuant i'r golwg o un i un. Un o'r rhai cyntaf i ymddangos ydyw yr Eiriawl (*Snowdrop*), neu fel ei Yr Eiriawl. gelwir yn fwy cyffredin, y Lili wen fach. Hwn ydyw cyntafanedig y flwyddyn a rhagflaenydd y gwanwyn.

Cyfyd ei ben yn wylaidd a phryderus o flaen ei gyd-gyfeillion megis i ganu cnul y tymor du ac i'w hannog i adgyfodi. Tyf yn wyllt mewn llennyrech mwsoglyd cysgodol o gylch adfeilion hen aneddau. Mae rhywbeth yn ei "arferion" yn codi amheu-aeth ym meddwl rhai parthed ei hawl fel brodor o'r wlad hon. Pe trosglwyddem llysieuyn o un wlad i un arall, dyweder o wlad lle y mae'n haf yn y naill pan y mae'n auaf yn y llall, blodeuai y llysieuyn—yn nerth "arferiad"—yn y gauaf, ac nid yn yr haf, fel y gwnai yn ei enedigol fre. Dichon mai dyma y rheswm fod yr Eiriawl yn blodeuo mor anhymig, ac nad yw yn cartrefu ond o gylch hen adfeilion, lle, yn ddiamheu, y gosodwyd ef unwaith gan law ddynol. Enwau prydfferth ereill arno ydyw Cloch y baban, a Cloch y dyffryn.

Yn gynnar yn Chwefror, oni fydd yr hin yn anffafriol iawn, gwelir blodeuyn melyn, hynod o debyg i flodeuyn

Carn yr ebol. Dant y llew, yn dyfod drwy'r ddaear, o flaen ei ddail, oddiwrth ffurf y rhai y mae'r llysieuyn yn

derbyn ei enw, sef Carn yr ebol.



annar arall ydyw Mel-
y gwanwyn neu Llys-
r piles. Gwelir ei
dyn melyn gloew yn
adin ar fronnau hen
gloddiau tua
Chwefror, er
ei fod yn aml
yn myned dan
yr enw Llyg-
ad Ebrill.
Mewn cyffel-
yb leodd, ond
feallai yn ddi-
wed darach,
y gwelir y
Rhwyddlwyn
neu Llys Lly-
welyn a'i fiod-
au brau o'r
glas pryd-
ferthaf. Ac
yn ymlusgo
a'i ddalen lled-gron
yn glas. Y mae iddo
yf, a geilw ei enw Cym-
s y gelwrn, a'i enw
gof ei fod wedi bod
gan y bragwyr cyn
uar Pasg, ceir Cenin y
pedr, y Frithogen a'r Fri-
dili. Tyf Cenin y brain
ghysgodion y goedwig.
adon adnabyddus a chyff-
en, ar Genin Pedr ydyw
s un blodeuyn yn fwy
na Dwy-dwm-dili, chwedl hen
aid dweyd mai llygriad
7. Y mae'n dra hoff o
edd; fe'i ceir hefyd yn
lawer i fwthyn gwledig
wanwyn i wanwyn, am
uriau pridd yr hen fwth
deulu wedi myned i dir
dio llwch yr hen fangre

fu yn gysegredig i lawer to. Y mae rhai yn amheu fod y llysiuyn hwn hefyd yn wir frodor o'r wlad hon. Sonia Hugh Davies iddo ei gael mewn gweirgloddiau ym mhlwyf Llanedwan. Ond y mae yn anhawdd penderfynu yn awr pa lawer llecyn fu gynt yn berllan i hen balas neu yn ardd i ryw hen fynachlog. Nid oes un blodeuyn wedi ennill serch y beirdd, yn enwedig y beirdd Seisnig, fel y *Daffodil*. Prydferthwch hwn ysprydolodd ganig ddigymar Wordsworth, a'r geiriau anfarwol hynny o eiddo Keats,—

“ A thing of beauty is a joy for ever ;
 and such are daffodils
 With the green world they live in.”

Diamheu, hefyd, ei fod wedi gwneyd ei ran i godi hiraeth yng nghalon Browning am fod yn Lloegr yn y gwanwyn. Y mae Shakespeare yn ei gysylltu â dyfodiad melusder y flwyddyn ; ac y mae'r hen lanc llawen Herrick yn gweled ynddo gysgod o fyrder a breuder ei fywyd.

Mewn coedwigoedd a pherthi y ceir y Frithogen neu Blodeuyn y gwynt (*Anemone*), y mae iddo flodeuyn tlws o liw gwyn.

Byr ydyw tymor ei flodeuad o'i gymharu â llawer o
Blodeuyn y gwynt. flodau ereill. Y mae'r Friallen yn llysiuyn llawer rhy adnabyddus i ni ymhelaethu arno yma. Un hynodrwydd neillduol sydd yn perthyn i'r Friallen ydyw fod iddo ddau fath o flodeuyn. Ni cheir y baladr a'r briger o'r un hyd yn yr un blodeuyn. Ond os cymharir amryw


Briallu. flodau gwahanol, ceir pelydr a briger o'r un hyd.

Mae Darwin, ac ereill, wedi profi fod croes-ffrwythiant yn fanteisiol i'r llysiuyn hwn, ac fod yn rhaid i hynny gymeryd lle rhwng briger a phelydr o hyd cyfatebol. Er dwyn hyn oddiamgylch, y mae gwasanaeth gwybed yn angenrheidiol er cludo y blodeu-flawd (*pollen*) o'r naill flodeuyn i'r llall.

Blodeuyn hynod arall sydd yn ymddangos yn y gwanwyn ydyw Pidyn y Gog. Tyf mewn perthi a brysglwyni cysgodol.

Yr enw Seisnig mwyaf cyffredin arno ydyw *Cuckoo-*
Pidyn y Gog. *pint*. Y mae iddo amryw enwau ereill megis *Jack-in-the-pulpit*, *Parson-and-clerk*. Mae y pidyn coch sydd yn codi rhwng ei ddail o'r ddaear yn cael ei amwisgo gan fath o gwcwll. Mae ei flodau gwirioneddol yn hynod fychain. Fe geir y blodau gwrywaidd a'r rhai benywaidd wedi eu gosod yn gylchoedd ar wahan oddeutu'r pidyn. Medr Pidyn y Gog garcharu pryfed bychain sydd yn tramwyo ar hyd iddo a'u gwneyd i gyflawni gwasanaeth neillduol iddo cyn cael rhyddhad.

Ymhlith ereill fe geir yn agored yn awr flodau y Garlleg
Orinllys. Gwyllt (*Rampious*), Suran y Gog (*Wood Sorrel*), Crinllys neu Pen y Neidr (*Dog Violet*), a blodau gwynion serenog Tafod yr Edn (*Greater Stitchwort*).





yn llawer cynharach
 guo cyn, a'r llall ar ol
 un ddu, a chrawel
 iwn yn awr egluro
 yn lysiau y gwanwyn
 Helygen, y Fedwen,
 teill, yn blodeuo cyn
 d sylwi, fod blodau
 deuo yn y gwaauwyn
 e'r baladr a'r briger
 on, y rhai sydd yn
 eu ffirwythloni y
 r naill i'r llall. Yn
 fod blodau hardd eu
 ar gyfryngwriaeth
 hain a diaddurn, fel
 gyfryngwriaeth y
 baladr. Felly, gan
 y gyfrwng y gwynt,
 nt ymagor cyn ym-
 dydd euraidd a welir

ysurdeb bywyd. Y
 dan sêl rhag rhew-
 yn y gwres; y mae
 mân ũs i'r llawr;
 ollti gan newydd-deb

an lle bu

oherwydd eisoes,—





I.
 Toriaeth garaf fi,
 miwsig i fy mron
 y'r awel fwyn,
 murmur lleddf y don."

II.
 G.
Paul's Cathedral.

III.
 I.
 I gael
 th ar ei ael?
 II.
 drwy waed
 an ei draed;
 ref,
 ef,—
 I.
 el.

III.

Pwy yw yr Arwr? Pwy ddylai gael
Coronbleth anrhydedd am byth ar ei ael?

IV.

Mi wela'r dyngarwr yn nesu o draw
A chleddyf gwirionedd yn loew'n ei law;
Ymdeithio, ymdrechu dros lawnder y mae,
A chodi'r adfydus o ddyfnder ei wae;
O'i flaen mae Trueni, ond beunydd o'i ol
Daw blodau i'r anial fel gwanwyn i'r ddôl.

V.

Ardderchog ddyngarwr! Pwy draetha ei oes?
A'i fynwes yn wenfflam gan gariad y Groes,
Mae llwybrau ei fywyd yn bur a di-staen,
Ac erys ei enw pan dodda y maen.
Efe yw yr arwr; efe sydd i gael
Llawrylon anrhydedd am byth ar ei ael.

II.—Y BARDD A'R CERDDOR.

I.

RWY fi yn caru'r prydferth,
Fy nghalon lawenha
Wrth syllu ar addurniadau'r llwyn,
A heirdd rosynau'r ha;
Mae rhai yn hoffi mawredd
Y mynydd serth, a'r môr,
Ond y tlws a'r cain a garaf i
Yng nghreadigaeth Ior.


II.

Cerddoriaeth garaf i,
A mfwsig i fy mron
Yw su yr awel fwyn
A murmur lleddf y don;
Caiff ereill ddilyn ffawd,
A cheisio bydol fri,
Ond beunydd ar fy rhawd
Cerddoriaeth garaf i.

III.

Carwn bur farddoniaeth anian,
Canwn gerddi'r wawr a'r nos,
Triged ysbryd cân ac awen,
Oes y byd yng Ngwalia dlos.

R. D. ROWLAND (*Anthropos*).



WEST OF THE MOUNTAINS.

rdd
 rdd brudd
 m llaw
 law
 ces
 loes
 law
 lai'r byd
 gyd.
 ofnadwy—
 anirnadwy.
 anhawdd ffoi ohoni;
 sy'n ymdonni;
 cau ymgymysgant
 rachant.
 ri'n ocheneidio,
 bo'r bryniau'n ym-

Weithiau llefaf am ymdoddi'n ffynnon wylai oesau'r ddaear,—
Yna'n fyddin o wroniaid gosbai nwydau'r Sultan anwar.
Nid barddoniaeth hen ganrifoedd yw barddoniaeth drist fy
nhestyn,

Clywch ei hodlau'n araf hedfan tros y ddaear gyda dychryn.

O fel mwydir bryniau'r Dwyrain gyda phuraf waed calonnau
Bronnau puraf meibion dynion! Onid ydyw gwlaw'r cymylau,
Eira'r gauaf, gwllith y gwanwyn, dwfr diddarfod yr afonydd
Yn digoni syched creulon dyn, anifail, maes a choedydd—
Raid wrth frydiau gwaed ein brodyr i felysu'r gwinwydd
moethus—

Raid wrth ddaagrau'r gweddwon afrif i gysegre'u'r wawrddydd
nwyfus?

Mor egniol yw'r llofruddio—mor ddiorffwys yw'r elyniaeth,—
Wrth y gelyn gwancus, aflan, cyfaill tyner yw marwolaeth.
Gyda'r gwanwyn mwyaf tawel daw'r llofruddion mwyaf
erchyll,—

Gyda'r haf, ysbeilwyr arfog, gyda'r gauaf, newyn tywyll.
Mae trueni di-dosturi heno'n cuddio gwlad Armenia
Fel mae'r llanw'n cuddio'r draethell—O! fy Nuw, pa bryd y
treia?

Wle'r llanciau'n gelaneddau—dacw'r tadau'n llogi'n lludw,
Dyma'r baban a'r henafgwr ar fidogau milwyr meddw;
Dacw famau mwyn a gwragedd a gwryfon llawn o burdeb
Rhag erlidwyr halogedig yn rhoi llam i dragwyddoldeb;
Dacw fonedd nef a daear yn ymwibio'n ddychrynedig—
Dyma dorf yn cau am danynt—yn eu gadael yn fathredig.
Mae'r pentrefydd yn ddiffaethwch—yn ymlogi i ddifodiant;
Mewn diwrnod troir dinasoedd yn ysbwrial diogoniant;
Mae talaethau llawn o bobloedd wedi newid yn fynwentydd;
Cyfyd galar o'r ogofau—murmur galar mae'r cornentydd;
Peidiodd moliant yr eglwysi—nid oes eglwys heb ei dryllio;
Peidiodd dwndwr plant chwareugar—nid oes plant i chware
heno;

Nid oes bugail ar y bryniau—mae'r corlannau'n anrheithiedig—
Chwalfa greulon yw'r amaethdai—hen gartrefi cysegredig!
Peidiodd tlysnï'r dyffryn eang—nid oes meusydd i egino;
Peidiodd arogl bêr gwinllannoedd—nid oes gwinllan i flodeuo.
Dacw longau'n hwylio'n llwythog—dacw'r tonnau'n chwala'n
gochion,
Dyma'r llongau'n brysisio adref. Ple mae'r llwythi? Gŵyr yr
eigion!

Caer Cystenyn! melldigedig yw dy enw'n mysg dinasoedd,—
Dy gyflafan yrrodd ddychryn drwy fynwesau'r holl deyrnasoedd,
Lleddaist seintiau wrth y miloedd, fel ellylles waed-sychedig,
Dy gyflafan nid anghofir—Gaer Cystenyn felldigedig!

II.

Fy awen, tro o ganol ing dy oes,
 Enciliwn i ganrifoedd boreu'r Groes ;
 Cawn weld Cystenyn Fawr yn ymherawdwr,
 Gregori'r " Goleuadur " yn genhadwr ;
 Cawn weld y Groes ar faner fwya'r byd,
 A gweld Armenia'n deffro yr un pryd,—
 Sawl gwaith deffroes cyn hyn, y clywyd cri
 Ei heisieu'n siglo'r nos, y cafodd hi
 Ei dagrau ar y bryniau'n farrug oer,
 A neb dosturiai—neb ond craig a lloer ?
 Sawl gwaith bu hi fel plentyn bach amddifad
 Yn huno 'n ol, er wylô'n hir, heb dderbyn cusan cariad ?

Ond gyda'r Goleuadur daeth gwawr dros fryniau'r wlad,
 A dysgodd plant yr eisieu mawr adnabod Duw yn Dad ;
 Blagurodd blodau rhinwedd trwy'r ucheldiroedd pell
 A thrwy'r dyffrynnoedd clywyd cân am olud gwlad sydd well.
 Daeth Iesu Grist yn Geidwad i blant Armenia hen,
 A'u holl eilunod frysient ffoi o flaen ei ddwyfol wên.
 Ar lannau'r chwern Arexis, a'r hen Euphrates gref,
 O ddydd i ddydd cynhyddai llu y rhai a'i ceisient ef.
 O gwm i gwm ehedai colomen Calfari,
 A deilen olew heddwch Duw a gludai gyda hi ;
 A syllai'r maith Ararat o'i uchelderau syn
 I weld rhai glanach wrth ei draed nag eira'i goryn gwyn.

Machludodd haul Cystenyn, a'i ymerodraeth fawr
 Yn araf nychlyd ar ei ol a blygai'i phen i lawr ;
 Ond daliodd plant Armenia drwy'r cyffroadau erch
 I garu'r Gŵr sy'n maddeu bai, ardderchog oedd eu serch.

A chawsant ganiad newydd pan welsant Mesrob draw
 Yn dod i'w mysg i daenu dysg, a'r Beibl yn ei law.
 Daeth oriau o lawenydd dilychwin ei fwynhad
 Yng nghwmni'r llyfr—y dwyfol lyfr—yn santaidd tros y wlad ;
 Henafgwyr droent iddo yn niwl yr afon ddofn
 Pan fyddai gwawd hen eilun du yn deffro ing ac ofn ;
 Llafurwyr maes a gwinllan, a mamau uwch y cryd
 Siaradent, ganent am y llyfr, a dysgent ef o hyd ;
 Os buont yn farsiadwyr wrth fodd brenhinoedd gynt
 Enillent ffafwr y nef yn awr, y llyfr oedd haul eu hynt.

Yr oedd eu heglwys hithau yn bur, os braidd yn goeg,
 Yn forwyn Duw os oedd yn ferch fanylaf eglwys Groeg;
 Drwy'r gwledydd cerddai clodydd ei phatrieirch duwiol hi
 A safai i meudwy difrif doeth yn uwch na'r aur mewn bri;
 Os blinai'r llygaid weithiau â'i haddurniadau mân,
 Yr oedd y galon yn iachau yn swyn ei bywyd glân.

Wrth grede coeth Nicea a'r apostolion cain
 Hyfforddiai i phlant ym mhynciau'i ffydd, a melus oedd ei sain
 Ei mawl drwy Salmau Dafydd ehedai adre'n bêr,
 Ei burach, mwynach, heibio'n mynd ni chlywodd haul na ser.
 Yr oedd yn fendigedig ymysg eglwysi'r llawr,
 Ei gwisg yn wen, a'i braich yn gref ym mraich yr Athraw mawr.

Ond dyddiau enbyd oedd y dyddiau hynny,
 Am ennyd byddai hawddfyd yn tywynnu
 Yn llawn disgleirdeb—pobloedd yn dynesu
 Dan ganu'n llon at Groes ardderchog Iesu;
 Eglwysi'n amlhau—y gwreng a'r bonedd
 Yn cerdded llwybrau gwynion y Gwirionedd,—
 Am ennyd felly! Yna blwyddi hirion
 O wae ofnadwy ar ddilynwyr tirion
 Yr Iesu anwyl! Rhuthrai dylif mawr
 O erledigaeth danllyd tros y llawr
 Ar ol tawelwch melus, gan ddifrodi
 Torfeydd o saint godidog wrth ymgodi.

Gwrthgiliwr—Ariad—Pagan—drioedd erch!
 Yn nwydwyllt ysent deulu'r dwyfol serch
 O faes a dinas. Blant Armenia fechan!
 Profasant hwythau hawddfyd a chyflafan
 Yn wamal-gymysg yn y dyddiau hynny.
 Pa ryfedd iddynt wylo, amheu, crynnu?
 Ond na edliwier hynny iddynt heno—
 Cadwasant lamp yr Arglwydd i oleuo
 Yn ogoneddus yn y Dwyrain erchyll
 Drwy holl ganrifoedd meirw'r Oesau Tywyll.
 Os troisant gefn ar Eglwys Groeg rodresgar
 Wrth amheu i chred a'i hymffrost, mor ymlyngar
 A fuont wrth yr Arglwydd, mor ddisgwylgar
 Am ei dangnefedd ef—mor ddioddefgar
 Drwy'r holl ddrycinoedd! Methodd ymherodron
 Byddinog ladd defosiwn pur eu calon,
 Er lladd eu meibion glewaf wrth y miloedd,
 Eu herlid megis llwch tros gyfandiroedd.

Canrifoedd wrth fynd heibio'n araf-drymion
 Chwanegent at rifedi eu gelynion,—
 Eu brenin laddwyd—llethwyd eu byddinoedd—
 Erlidiwyd hwy o farchnadfeydd teyrnasoedd,
 Yspeiliwyd eu trysorau amhrisiadwy,
 A'u gwaed halogodd gormes anrhaethadwy ;
 Nes daethant bron yn wylliaid gwrthodedig,
 Yn genedl o gardotwyr gorthrymedig ;
 Ond methodd pabau nerthol eu hysgogi,
 A phlant Mahomed aflan eu halogi.
 Yn Gristionogion daethant drwy'r blinderau,
 Yn Gristionogion safent orthrymderau.
 Bu'r Tyrciaid yn eu mathru'n ddirmygedig
 Am oesau meithion—hwythau'n ostyngedig
 Yn gwyro'u gyddfau tan arteithiau trymion,
 Yn meirw'n ddistaw tan archollion llymion.

A dyna'u hanes heno ! Tra mae'u brodyr
 Ar esmwyth feinciau mewn eglwysi segur
 Yn swm anthemau chwyddol, dawns, a thelyn,
 Drwy'r maith Orllewin yn yr hafddydd melyn,
 Dinistrir hwy—braidd bychain diamddiffyn—
 Mae angeu noeth ei arfau yn eu herbyn.

III.

Ond nid diddiben yw'r dioddef maith,
 Mae gan y croesau geirwon oll eu gwaith,
 Mae croesau'n codi'r oesau o'u drycinoedd
 Yn nes at orsedd Brenin y brenhinoedd.
 A chroes Armenia—gwelaf hithau'n codi
 Fy oes faterol fydol i'r goleuni ;
 Ysgydwir y cenedloedd o'u cysgadwrwydd
 I weled fod gorthrymder ac anfadrwydd
 Yn aros eto yn y byd—fod dynion
 Yng ngwenau'r ganrif yma yn elynion
 I ryddid, undeb, cariad cysegredig,
 A bywyd llawn tlysineb nef anedig ;
 Deffro'r cenedloedd cryfion, elwgarol
 I ryfel tros egwyddor—daw'r dyngarol
 I losgi'n danllyd ym mynwesau gwledydd,
 A daw'r eglwysi'n nghyd i dderbyn bedydd
 Yn eigion cydymdeimlad sanctaidd Iesu ;
 Ac at yr orsedd gwelir hwy'n cydnesu



wydd ;
 dolrwydd
 iddeb
 b.
 uw
 ithas wyw,
 iddeb
 trifoldeb.
 af su
 weh du,
 Bu'n hir—
 clir
 yd—
 l.
 wes ddofn ;
 hewn ofn—
 ?
 ryn,—
 elyn.
 Golofn,
 Aifa
 yd Armenia.

A decorative block of text, possibly a continuation of the poem or a separate section, rendered in a highly stylized, almost illegible font. The text is arranged in several lines within a rectangular frame.

ORFFIWS.

Orfeo cantando all' Inferno la tolse ;
Ma non potè servir la legge data.

POLIZIANO.

I.

DO, do; bu farw'r fun,
Ac Orffws wrtho'i hun,
Eistedda'n brudd,
A thannau'r delyn fwyn,
Fu'n swyno bryn a llwyn,
Yn ddistaw sydd.

II.

Yn llawn o hiraeth cry,
At lan yr afon ddu
Y daw y gwr,
I aros am y bad,
Sy'n cludo'r ddynol had,
Draw dros y dwr.

III.

"Ai bad," llefara'r Llyw,
"Yw hwn i ddwyn y byw
I farwol wlad?"
Y dyn ei delyn gân,
A swyna'r Llyw yn lan,—
"Pwy, pwy a'th wad."

IV.

Ar lannau na bu troed
Un marwol ddyn erioed
Yn sangu o'r blaen,
Dan ganu crwydro wna,
A'r son am dano a
Yn chwim ar daen.

V.

"Mae marwol ddyn yn dod."
Yw si cysgodion bod
O un i'r llall;

El yntau yn ei dro
O drum i drum, o fro i fro,
A'i gân ni phall.

VI.

Fel hyn y feinwen gais,
O hyd â'i lafar lais
Y geilw hi,
A thyr ddistawrwydd trwm
Y bryniau du a llwm,—
IWRIDISI,
IWRIDISI.

VII.

I'r cwmwd anial draw
At hon y gân a ddaw,—
"Ei lais ef yw."
Eheda drwy y glyn,
A heibio'r rhithion syn,
I'w fynwes wiw.

VIII.

Tra'n ceisio yn ei serch,
Goleddu'r anwyl ferch
A llaw o gnawd,
Y delyn gwyp i lawr,
Ac arno rhuthra'n awr
Ellyllon Ffawd.

IX.

Cyn llarpio yn eu gwŷn
Yr egwan eiddil ddyn,
Ei delyn ga,
Ac ar y tannau mwyn
Ef iddyn gân ei gwyn
A'u swyno wna.

X.

I wyddfod Brenin Braw
Y dygir maes o law
Y mab a'r fun;
"Ai dyn mewn marwol wisg
A welaf yn ein mysg?"
Gofynna Rhun.

XI.

"Paham i'r neuadd hon
Y deui ger fy mron
Cyn dydd dy dranc?"
Ar dannau'r delyn lân
Mewn nefol swynol gân
Ateba'r llanc,—

XII.

"Ymofyn wyf fy mun,
Dan rwymyn cariad cun
Y dyddiau fu,
A dwyn i wlad y wawl,
Mewn melus odlau mawl,
F'anwylyd cu."

XIII.

A swn y delyn sy,
Fel llanw'n chwyddo'n gry,
Yn don ar don.
Ac yna a yn wan,
Fel trai yn gado'r lan,
A thry yr athrist fan
Yn wynfa lon.

XIV.

"Dos, ddyn, i dir y byw,
A'r fun gadd farwol friw
A'th ddilyn di;
Ond gwylia droi yn ol,
Mewn gwŷn o gariad ffol,
I'w gweled hi."

XV.

Mewn gwynfyd maent yndod
I ail ymweled rhod
Yr haul a'r ser,
A'r delyn wlawia'n rhad
Gawodydd ar y wlad
O foliant per.

XVI.

Y fun ganlyna'r gwr
Yn wylaidd at y dwr,
A dyma'r bad,
Ei lon olygon dry,
Ond gwel ellyllon lu
Yn dwyn ei gariad cu
I'r anial wlad.

* * *

XVII.


Mewn hiraeth aml awr
Eisteddwn ninnau i lawr,
Yn wylo'n lli,
Gan alw yn eu hol
Anwylion cu ein col
O'r angof du.

XVIII.

A thybiwn weithiau'u bod
Mewn gwisgoedd gwyn yn
O'r dywell wlad, [dod
A'u gwedd yn oleu wiw,
Gan syllu ar y byw,
Mewn prudd fwynhad.

XIX.

Ond pan, o galon lawn
O serch, ymdafu wnawn
I'w mynwes hwy,
Diflannant yn ein llaw,—
Maent hwy yng Ngwynfa
A ninnau yn ein braw [draw,
Yn unig mwy.



Y BONT GWIBDAITH.

ddylid y darllen
 fod gennym lawer
 yd am olygfeydd y
 canys ni chwson
 hwy gipolwg arnynt,
 gwaethaf y modd.
 y mae i bopeth
 anfanfeision fel ei
 teision, felly y mae
 gerbydres. Gogon-
 lus o beth i'r mas-
 w y gerbydres. Gall
 ei foreufwyd gar-
 i deulu, rhodio yn
 saf gerllaw, codi ei
 thio ugeiniau o fill-
 ryw ganoldref fas-
 wneyd ei fasnach
 m dull hamddenol,
 ei eisteddle drachefn
 i i swpera gyda'i
 ochanaid o gloron
 delu rhyw ddeucant
 fasnach nid ychydig,

a chyrraedd gartref gyda'r nos mor sych a phren gwely. Arllwysed y cymylau eu cynnwys i lawr, taraned y storom, nid ydych yn ymfino mwy yn eu cylch na phe byddech yn gweithio gan llath dan y ddaear. Mae y gawod yn tasgu oddiar do y cerbyd ym mhell dros y perthi bob tu; ac ni bydd dim yn peri blinder i chwi, oddieithr fod rhyw laslanc bochgoch ar arffed ei fam yn *mynnu* agor ffenestr y cerbyd yn awr ac yn y man, i weled y perthi yn rhedeg, a'r byd yn myned heibio yn rhibanan.

Ond er bod y gerbydres mor fanteisiol gyda golwg ar ddibenion masnach, mae ymhell o fod felly i'r dyn sydd yn caru Natur a'i golygfeydd. Pan fyddoch yn gweled rhyw olygfa

Golygfeydd.

brydiarth ar ymyl y rheilffordd,—rhyw afon lla, lawn, lydan, yn dyfrhau bro fel paradwys, rhyw fynydd cyrhaeddfawr yn crwydro yn y cwmwl, a'i glogwyni pell pell fel yn hiraethu am fyd arall,—clogwyni hanner daear, hanner nef,—rhyw olygfeydd na welsoch erioed o'r blaen,—y fath hiraeth sydd yn llenwi y fynwes eich bod yn cael eich cludo heibio i'r gwrthrychau arddunol hyn, heb gymaint ag hamdden i gymeryd eu hamlinellau i mewn. Trem! a dyna'r cyfan wedi pasio. Oni bai eich bod wedi codi tocyn i fyned gan milldir ymhellach, a bod yr arian, feallai, yn brin, chwi aech allan yn yr orsaf nesaf, ac a ddychwelech yn araf, a'r ffon yn eich llaw,—

“ To sit on rocks; to muse o'er flood and fell;
To slowly trace the forest's shady scene,
Where things that own not man's dominion dwell,
And mortal foot hath ne'er or rarely been;
To climb the trackless mountain all unseen
With the wild flock that never needs a fold;
Alone o'er steeps and foaming falls to lean;—
This is not solitude; but 'tis to hold
Converse with Nature's charms, and view her stores unrolled.”

Ond dyma fel y mae y byd yn myned, ac y mae yn debyg fod yn rhaid i ninnau fyned gydag ef. Ond dywedaf hyn, pe byddai gennyf fi geffyl a *gig*, a digon o amser, nid wyf yn meddwl yr elwn i'r Gogledd yn dragywydd mewn cerbydres.

Tra yr oeddem y tu yma i'r Fenni, talem fwy o sylw i'r dynion oedd yn cyd-deithio â ni nag i'r golygfeydd, canys nid oedd dim yn y golygfeydd ffordd hon i ddenu ein

Pont y Crumlin.

bryd yn neillduol, o herwydd ein cynefindra â hwynt. Mae yn wir i ni groesi Pont Crumlin, ond beth am hynny? Nid yw yn fwy gennym na chroesi y buarth bellach. Yr ydym wedi teithio drosti mor fynych, fel nad ydym mwyach yn meddwl dim am y peth, er ein bod uchder aruthrol mewn awyr. Nid yw y bont, o drugaredd, ronyn yn is na'r diwrnod ei hagarwyd; ond peth cryf iawn yw cynefino ag unrhyw beth. Os ydych am gael golygfa arddunol, sefwch ar waelod y cwm

hwn pan fo cysgodau yr hwyr yn dechreu disgyn yn dew, ac edrychwch i fyny i'r uchafion ar y *passengers' train* wedi ei oleuo yn myned dros y bont ryfedd hon!

Wedi pasio y Fenni, anghofiasom y cerbyd a'r teithwyr, a dechreuasom edrych allan,—

“ The golden sun has coloured all the woods !
Fresh views succeed ; each brighter than the last ! ”

Nid oedd y mynyddoedd tu draw i'r Fenni yn amddifad o swyn ac ardduniant. Byddwn yn meddwl am linellau bardd seraffaidd y Gaerwen, wrth syllu ar fynyddoedd,—

“ Banerog bennau oerion,—llawn geiriau,
Ond eu tafodau ydynt fudion.”

Pwy all edrych ar fynydd heb deimlo ei enaid yn cael ei ddyrchafu i ryw lonydd gymundeb â'r uchddaeareol a'r nefol ?

“ Mountain ! Thou art half divine !
Severed from earth.”

Ni fuom nemawr o amser cyn cyrraedd Henffordd. Pe cawsem dreulio rhagor o amser yn y dref hon, dichon y buasai gennym ddarlun neu ddau i'w osod ger bron y darlennydd.

Henffordd. Ond, fel y mae, nid oes gennym ddim i'w ddyweyd ond mai tref o briddfeini yw Henffordd, tai cochion i gyd. Cyfarfuom yn yr orsaf hon â thri chyfaill, y rhai oeddynt hwythau a'u hwynebâu tua'r Gogledd. Bu cryn helbul arnom wrth gychwyn oddiyma, i gael lle yn y gerbydres,—lle i ni *oll* yn yr un *compartment*. Gwelsom yn y man le helaeth a braf; ond, er ein diflasdod, *second class carriage* ydoedd, a gwyr o'r trydydd (*railway standard*) oeddym ni. O'r diwedd gorfu arnom fyned i *rywle*, neu beidio myned o gwbl. Gwasgasom ein hunain i le cyfyng a chaethiwus iawn, gan ddewis anghysur yn hytrach nag ysgariad. Pan ystyriwch ei bod yn ddiwrnod poeth o haf, a'r haul yn ei nerth, gellwch farnu ei bod yn fyd lled gysurus arnom.

Dyma yr agwedd oedd arnom wrth deithio o Henffordd i Amwythig. Yr ydym yn cofio am un olygfa yn ystod y rhan

Church Streeton. hon o'r daith, ac er na chawsom ond cipolwg arni, mae ei hargraff yn aros yn y meddwl hyd y funud hon; yr olygfa *dlysaf* a welsom erioed. Rhyw glysdwr o fryniau crynion ydyw,—yn rhywle rhwng Henffordd a'r Amwythig; nid ydym y cofio yn iawn ble yn gywir,—rhyw swp o honynt ar bwys eu gilydd mor bert, mor dlws, mor gyfeillgar, ac mor farddonol a dim a welsom erioed. Yr ydym yn gobeithio yn ddistaw y cawn gyfle, cyn darfod dydd, i ddisgyn mewn rhyw orsaf gyfagos, i grwydro ar hyd y bryniau tlysiion, glob-aidd hyn, ac yfed ysbrydoliaeth yr olygfa.

Erbyn cyrraedd yr Amwythig, nid oedd amser i ddim ond i neidio i mewn i gerbydres arall, a ffwrdd a ni. Cawsom gipolwg, oddiar y rheilffordd, ar fro Llangollen. Ymddangosai fel y fynedfa i Baradwys, gan deced oedd. Y fath dlysmi! Y fath geinder! Y fath amrywiaeth, ac eto y fath unoliaeth yn y cyfan! Nid oedd y cwbl a welem ni ond cwr o'r gogoniant,—rhyw ymyl o'r fantell nefolaidd a wisgai Anian yno. Buom yn meddwl wedi hynny mai dyma y ffordd oreu i weled golygfa,—trem, ac heibio. Yr ydych yn cael *outline* o brydferthwch, o ogoniant, ac y mae eich dychymyg yn ol llaw yn ei lanw a'i liwio, nes y byddo yr olygfa yn *fwy* na daearol,—yn rhywbeth nefol, ysbrydol, anarferol, cyfatebol i uchelfonedd ei enaid ei hun. Nid yw y dyn o feddylfryd barddonol am olrhain golygfa drwyddi draw, nid yw am weled ei halpha a'i homega; nid oes eisiau mesur hyd a lled y goedwig, neu rifo y gwŷdd ysblenydd. Os yw yn meddwl ail-doddi elfennau yr olygfa, a'u tywallt allan eilwaith mewn ffurf mwy ysbrydol, gwell ganddo a gwell iddo ef beidio gweled ond rhan, cwr, ymyl o'r olygfa; peidio derbyn i mewn ond yr amlinell.

Diagynasom y nos honno yn Wrecsam, lle y cawsom garedigrwydd nid bychan gyda brawd crefyddol, er na welodd efe ein gwyneb erioed o'r blaen. Un o brif ragoriaethau y gyfundrefn Fethodistaidd, debygem, yw y cyfleusder y mae yn ei fforddio i feithrin y rhinwedd o letygarwch.

Boreu drannoeth, wedi ymadfywio drwyddom, nes teimlo mor llon a'r uchedydd, cychwynasom tua'r orsaf, ac nid hir y buom cyn cyrraedd Caer. Dinas hynafol a chlodfawr ydyw Hoflder Natur. Caer. Arosasom yno tua theirawr. Eithr nid oes gennym lawer i'w ddweyd am dani, nac am unrhyw dref neu ddinas arall o ran hynny; canys *Natur* fydd yn ein swyno ni fwyaf. Y dynol sydd yn dyfod i'r golwg mewn tref a dinas, ac at y dwyfol yn hytrach y mae ein tueddiad ni. Byddwn yn canfod mwy mewn un seren nag mewn ugain o ddinasoedd; ac mae peroriaeth felusach i ni yn sw'n y don tua'r hwyrol awr nag sydd yn organ y *cathedral* ardderchocaf a fedd Prydain Fawr. Buom unwaith yn Llundain; ond y mae yr olwg gyntaf a gawsom ar y Dafwys, ryw ugeiniau o filldiroedd tu yma i'r brif-ddinas, pan eto yn afon ieuanc, las, lon, ddihalog,—

“ Emblem of Life! which, still as we survey,
Seems motionless, yet ever glides away.”

wedi gadael argraff ddyfnach ar ein meddwl na holl gywreinion ardderchog y ddinas fawr. Na bai dyn a *Natur* yn fwy o gyfeillion! na bai ei ysbryd yn clusfeinio yn amlach ar weinid-

ogaeth y ser, y rhai sydd yn siarad fel pe baent wyneb yn wyneb & thragwyddoldeb. Yr ydym yn eu gwelod yn rhy aml, a dyma un rheswm ein bod mor esgeulus o honynt. "*If the stars should appear one night in a thousand years, how would men believe and adore, and preserve for many years the remembrance of the City of God that had been shown.*"

Yn y prydnewn yr oeddym yn ehedeg tua Mon, ar hyd y rheilffordd esmwythaf y teithiasom arni erioed. Mae y rheilffordd hon fel y *South Wales*, yn rhedeg gyda'r môr, ^{Hiraeth am y môr.} ond yn agosach ar ei holl hyd na'r olaf. Bydd yn dda gennym weled môr bob amser, ond yn enwedig y tro hwn, canys yr oedd blynyddoedd wedi myned heibio er pan y buom yn dal cymundeb & i donnau o'r blaen. Mae adgofion melusaf ein bywyd yn adgyfodi o fynwent Amser, ar bell-seiniad tonnau y môr,—

"Oh! I shall not forget until memory depart,
When first I beheld it, the glow of my heart;
The wonder, the awe, the delight that stole o'er me,
When its billowy boundlessness opened before me."

Dangoswyd i ni ble yr oedd Llynlleifiad tu draw i'r tonnau. Ymhen ychydig amser daethom i olwg y dyffryn prydferthaf a welsom erioed—Dyffryn Clwyd. Rhywbeth tebyg i ^{Dyffryn Clwyd.} niwl yw yr adgof a adawodd Dyffryn Clwyd ar ein meddwl wrth basio, ond y mae lliwiau o'r godidocaf yn euro y niwl hwnnw hyd heddyw, a rhyw seiniau nefolaidd yn llifo drwyddo, fel pe clywsem ganiadau angylion wrth fyned heibio. Yr oedd pob ceinder anianol, a miloedd amrywiaethau Natur wedi cydgyfarfod,—

"The warbling woodland, the resounding shore,
The pomp of groves, the garniture of fields."

Mae rhywbeth yn y ddynoliaeth sydd yn debyg iawn i adgofion am Baradwys, ac y mae ambell i lannerch yng Nghymru fel pe byddai yn diuno y pêr adgofion hyn.

Nid ydym yn cofio yn y byd pa fath gerbyd yr oeddym ynddo, na pha fath ddynion oedd yn y cerbyd; yr oedd natur mor ogoneddus fel ag i beri i ni anghofio y cyfan. ^{Y Mynyddoedd.} Ond hi ei hunan. Yr oedd rhyfeddodau Anian yn rhedeg heibio i ni—*panorama* ar ol *panorama* o degwch creadigol—afonydd mor hur a glas y nef—coedwigoedd y gallai ysbryd barddoniaeth fyfyrion yn eu cysgod yn dragywydd. Ond disgwyl am y *mynyddoedd* yr oeddym o hyd. Pa le mae mynyddoedd y Gogledd? Canfyddem yn y man arwyddion eu dyfodiad. Yr oedd y tlws yn ymadael yn raddol, a'r mawreddog yn dyfod i mewn yn ei le. Ymbarotoai Natur i eogyn tua'r nef, a dechreuai drefnu ei chreigiau uwchben eu

gilydd fel grisiau i fyd arall. Yr oedd y golygfeydd yn myned wylltach, yn arwach, yn ogoneddusach, fel yr elem rhag ein blaen. O'r diwedd dyma'r mynyddoedd, fel gwaliau byd, yn esgyn yn unionsyth. Rhaid i ni ddistewi yn awr. Pa beth yw iaith; pa beth yw athrylith i ddilyn camrau Natur, pan y mae hi yn esgyn i'w nefolion leoedd, ac yn brynio i'r anherfynol!

Yr oedd yr olwg gyntaf a gawsom ar Beaumaris yn dra swynol. Yr oeddym (pwy nad yw?) wedi tynnu darlun ar len y dychymyg er ys llawer blwyddyn, o'r fath le yr Beaumaris. hoffasem breswyllo ynddo, a braidd na welen y darlun hwnnw yn cael ei sylweddoli yn awr ar len fyw o Natur. Mor hardd yr ymddanghosai draw, a'r Fenai deg gyferbyn, a'r mynyddoedd tragwyddol fel pyramidiau yr Hollalluog yn terfynu yr olygfa nefolaidd. Disgynasom yng ngorsaf Menai Bridge.* Yr oedd arnom eisiau cael ein cyfarwyddo i'r Borth, a buom mor ffodus a chyfarch swyddog yn y rheilffordd, yr hwn a drodd allan yn Gymro glân gloyw, a bu mor garedig a'n harwain yn uniongyrchol i fangre ein dymuniad. Aethom dros Bont Menai, yr hon a grogai dros yr eigion sydd rhwng Arfon a Mon, mor deg, mor feiddgar a breuddwyd yn crogi dros yr eigion sydd rhwng cnawd ac ysbryd, rhwng y marwol a'r anfarwol.

Gwibdaith oedd ein taith oddiyma hyd Fon, a rhyw wibdeithio y buom drwy yr ynys honno, heb fawr hamdden i graffu ar ddim. Gwlad wastad gan mwyaf yw hon, heb Ynys Mon. ynddi ond ychydig godiadau tir. Ond os yw hi ei hun yn wastad, mae ei thrigolion yn mwynhau golygfa odidog ar fynyddoedd sir Gaernarfon yn y pellder. Llawer gwaith y troisom ein golwg tuag at y mynyddoedd anghydmorol hyn, tra yn crwydro ar hyd yr ynys, a theimlem ryw hiraeth am anfarwoldeb wrth syllu arnynt mor bell, mor ddwyfol yn y nef. Ymddanghosent fel pethau yn perthynu i fyd arall, ac edrychent i lawr arnom fel i'n cymhell ág hyawdl-
edd eu distawrwydd nefolaidd i feddwl am Dduw. Gwelem lawer o glogwyni arddunol yn y nef, agos, debygem, a bod yn gyfartal mewn uchder. Pa le mae y Wyddfa? Yr oeddym yn disgwyl y buasai y Wyddfa mor amlwg uwchben yr holl fynyddoedd eraill ag yw y seren uwch ei phen hithau, ac na fuasai un petrusder ynnom yn ei chylch. Ond methem yn deg a phennu arni, yr oedd y gystadleuath mor galed, mor bell yn y nef. Gofynasom fwy nag unwaith pa un o'r clog-
Y Wyddfa. wyni pell acw oedd yr Wyddfa; nis gwyddai ein hebryngydd. O'r diwedd danghoswyd hi i ni gan gyfaill; yr oeddym yn barod i ryfeddu, canys yr oedd cynifer o

* Porthaethwy.


fynyddoedd ereill bron yn ogyfuwch â hi mewn ymddanghosiad. Ond wedi hynny cawsom brawf arddunol o'i huchafiaeth yn y ffaith ei bod hi *o'r golwg* yn y eymylau, pan fyddai yr uchelfannau ereill oll yn amlwg. Gwelem gopaon y mynyddoedd ereill bob dydd, ond anfynych y gwelem gopa yr Wyddfa; yr oedd y cwmwl yn gorffwys ar ei phen fynychaf, ac yn ei derbyn i'r nef. Meddyliem am ryw bethau pell, pell, wrth edrych ar y glogwyn fawreddog; am ryw adgofion pell yn ol mewn amser, neu ryw obeithion pellach ymlaen mewn tragwyddoldeb,—

“ Trembling I survey thee, mountain-head of Eternity!
From whose vast height
My dimly-perceiving spirit floats into the Everlasting.”

Yr oedd y mynyddoedd gogoneddus hyn yn peri i ni feddwl am “Delectable Mountains” Bunyan, a'r Wyddfa ambell i funud fel Mount Clear. Gallem feddwl, wrth syllu arnynt o bell, fod golygfeydd anfarwol yn weledig oddiarnynt, ac y buasem yn clywed lleisiau angylion oddiar uchelderau mor bell oddiwrth ddydd a daear, mor agos i'r ser a Duw!

Dylai Mon fagu beirdd heb eu hail. Canys y mae yr olygfa a geir ar y mynyddoedd o Fon yn gyfryw ag i ddiuno nerthoedd dyfnaf ac ardderchocaf y meddwl dynol. Maent Cartref beirdd. yn rhwym o greu ysbryd barddonol ymhob enaid a gymdeithaso â hwynt o bellder Mon, ac o droi gwyneb yr awen ieuanc tua chyfeiriad y pell, y pur, a'r anfarwol. Maent bron yn ysbrydol o Fon, bron yn ddwyfol! Y fath linellau teneuedig draw, draw, yn llofio ymaith i'r anherfynol! Y fath gysylltiadau puredig rhwng y gweledig a'r anweledig—rhwyng yr amserol a'r tragwyddol! Y fath wifrau ysbrydol sydd yn gorffwys ar y clogwyni draw, y gall trydan barddonol redeg ar hyd-ddynt tu hwnt i amser a chnawd, ac ymhell i mewn i dragwyddoldeb. O bell y mae gweled mynydd i fantais farddonol; o'r pellder hwnnw y gellwch gymeryd defnydd am ysbryd, daear am nef, dyn am angel, ac amser am dragwyddoldeb.

Ni a gawn well beirdd pan y cawn feirdd fydd yn adwaen Natur yn well, yn gallu deongli ei lleisiau hi yn well, ac yn yfed eu hysbrydoliaeth o'r seren, a'r mynydd, a'r Beirdd Natur. môr, ac nid o wobr eisteddfodol. Mae gwobr arianol yn beth rhy wan i dynnu allan yr angel sydd mewn dyn, ac i gynhyrchu barddoniaeth o'r fath buraf ac ardderchocaf. Ond dyger yr angel sydd mewn dyn i gymundeb â'r angel sydd mewn Natur, heb ddim i'w wobrwyo ond y cymundeb hwnnw, ac efe a rodia allan o'r enaid, ac a gân odlau a anwylir gan ysbrydion puraf y geneal trwy oesoedd dyfodol.



edrych ar Fynyddoedd


dicent

ph, a hwy a ganant

Myns Môn a'i thrigol-
bl a delw yr efengyl
yn edrych ar y wlad
pw yr anfarwol Elias,
gan aros fel oracl yng
Gwyn. Yr oeddym yn
d yr agosaem i Lan-
nnaf Cymru.
Hydres wyllt anfardd-
Ond y mae amlinellau
wydro hyd heddyw ar
colwg arnynt, a hynny

main,
pe arise."

ISLWYN.



CYNNYDD Y CYMRO.

MAE fod y meddwl Cymreig wedi cynhyddu yn ffaith nas gellir ymryson â hi. Mae hynny yn rhy amlwg i fod yn nod i amheuaeth neb. Ymdafler yn ol i'r canrifoedd o'r blaen, a cheir canfod y bobl yn eistedd yn nhir tywyllwch.

Yr hen oes. Ymfoddlonent ar fyw mewn anwybodaeth gan nad oeddynt yn effro i'r syniad mai posibl iddynt oedd bod yn wahanol. Nid oeddynt yn ddim amgen na deiliaid yn nheyrnas dylni. Y pryd hwnnw yr oedd duwinyddiaeth ardal yn drysoredig yn ymennydd difater person y plwyf. Yr oedd medrusrwydd gyda ffigyrau i'w gael mewn hen ysgolfeistr nad oedd ei ddiogi yn caniatáu iddo ymysgwyd rhyw lawer cyn canol dydd. Byddai y wybodaeth am symudiadau y byd ynghadw gydag ystiward nad oedd ganddo nemawr ddim i ymfrostio ynddo ond cyflawnder o weniaith at y meistir tir; ac yr oedd llenyddiaeth yn ymgorffori ym mhenglog tipyn o brydydd a glectai gwpled ar ol cwpled o linellau diniwed, y rhai a lifent i ebargofiant gyda'r cwrw a lyncai. Gan nad oedd arweinydd priodol iddynt, yr oedd y bobl yn fyddar i bob dyhenad am ymddyrchafu o gaddug anwybodaeth.

Er y bu gennym yn gynnwys yn oes Crist athrofeydd yn Llanilltyd Fawr, ym Mangor Dunawd, ac yn Llancarfan, eto, ychydig iawn o symudiad at oleuni a wnaeth ein Sylfaen newydd. cenedl hyd ddyddiau cymhariaethol ddiweddar Griffith Jones Llanddowror a Charles o'r Bala. Ganddynt hwy y gosodwyd sylfaen y dadblygiad presennol yng Nghymru. Wedi i'r Cymry unwaith gael eu gosod ar y ris briodol, maent byth er hynny yn ymddyrchafu mewn gwybodaeth a diwylliant. Wedi sefydliad ysgolion Sul ac ysgolion dyddiol yn y wlad, dechreuodd y syched am wybodaeth angerddoli. Wedi dihysspyddu yr aber, ymawyddwyd am fyned i'r môr. Nid ydyw amledd ein haddoldai, galluoedd ein gweinidogion, doniau ein llenorion, ein parch i drefn a chyfraith, yn ddim ond profion amlwg o'r cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn y meddwl Cymreig.

Mae pob cynnydd ym meddwl cenedl yn rhwym o feddu ar effeithiau. Dygwyd ni gan ddadblygiad i fod yn genedl fwy defosiynol. Drwyddo arafwyd ein rhyseidd a pharlyswyd ein penrhyddid. Dysgwyd ni i ofni Duw ac i gydnabod ei lywodraeth. Cawsom oleuni newydd ar amcan ein bodolaeth yn y byd. Gwnaed ni i ymestyn at linellu

Edithian
cynnydd.

y gwahaniaeth rhwng drwg a da. Deffrowyd ni yn fyw i'r syniad y gallem fod o les i'n gilydd mewn ystyr gymdeithasol; fod yn werth i ni feithrin rhinweddau fel addfwynder, gostyng-eiddrwydd, haelioni, a chydymdeimlad. Mae y dadblygiad hwn i raddau helaeth wedi dymunoli ein moesau. Mae yr anifail oedd ynnom wedi ei fflangellu ymaith ym mhresenoldeb goleuni a than ddylanwad cynnydd gwybodaeth. Mae hagrwech di-foes wedi rhoddi lle i brydferthwch boneddigaidd.

Canfyddir y dadblygiad yn arbennig yn ein chwaeth. Beth oedd yn boblogaidd yn y dyddiau gynt? Cerddi Huw Morys, baledau Glan-y-gors, interliwdiau Twm o'r Nant, ac ^{Chwaeth.} englynion carpiog Elis y Cowper. Rhoddid heibio brynnu a gwerthu mewn llawer ffair i wrando ar faledwr diotgar yn rhygnu maswedd allan wrth y pennill. Nid oedd y fath beth a chwaeth yn bod. Y diffyg ohoni oedd amlycaf. Ond yng ngwyneb dadblygiad y dyddia presennol, mae yr hyn sydd yn ddichwaeth yn chwilio am le i ymguddio. Ni chyfarfyddir âg ef ond mewn cornelau, ac ni feiddia gadw nemawr swm hyd yn oed mewn lleoedd felly. Bu y dadblygiad hwn yn foddion i symud ymaith syniadau anghywir a rhagfarnau y Saeson mewn cysylltiad â ni. Ychydig flynyddau yn ol ystyrriid y Cymro, druan, fel creadur wedi dianc i fodolaeth gyda dim ond rhyw ddamwain o enaid ganddo. Desgrifid ef fel un yn byw am y pared â barbareidd-dra. Os sonnid am ei grefydd, delid ei benboethni tybiedig i fyny, er mwyn dim ond i lafoerio sarhad arno. Gwawdid ein cymanfaoedd, a dull ein pregethwyr o draddodi, ganddynt. Danghosid ni fel cenedl fechan, gul, yn coffeidio dylni a hunanoldeb. Nid oedd ein hiaith yn ddim ond rhygniad baldor-ddyn, na'n sefydliadau cenedlaethol yn ddim ond cofgolofnau i'n hanwareidd-dra. Methrid ni ar dde, ac erlynid ni ar aswy. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1866, wrth wawdio Eisteddfod Caer, dywedai y *Times* mai y Gymraeg ydoedd melldith Cymru; fod ein hiaith hanner barbaraid yn ein cuddio mewn tywyllwch. Nid oedd ein heisteddfodau, meddai y *Times*, yn ddim ond "ymyriad ynfyd â chynnydd gwareiddiad a fynyant." Ond erbyn 1884 yr oedd tŷn arch-wawdiwr y Cymry wedi cyfnewid. Canmolodd yr Eisteddfod a rhoddodd anwes i'r hen genedl. Diffoddwyd ei ragfarn drwy orfod cydnabod ein cynnydd meddyliol. Erbyn heddyw mae bron yr holl fyd Seisnig wedi newid ei syniadau am danom. Achosodd tueddiad y meddwl Cymreig at yr hyn sydd bur, coeth, a dyrchafedig, i'r Saeson edrych gyda pharch ac edmygedd arnom.

Bu yr Ysgol Sul yn foddion neillduol at hyrwyddo cynnydd y Cymro. Tynner ei duwinyddiaeth a'i Beibl oddiar y genedl, a bydd iddi edrych yn nodwedig o amddifad a di-addurn.

Dychymyger am eiliad fod Cymru yn gorfod byw am yr hanner can mlynedd nesaf heb yr un Ysgol Sul.

Yr Ysgol Sul. Y fath atalfa ar gynnydd y meddwl a fuasai hynny!

Yr Ysgol Sul, fel rheol, a rydd y min cyntaf ar awydd y Cymro am ychwaneg o wybodaeth. Pa beth bynnag ydyw gallu meddyliol llawer Cymro heddyw, olrheinia blaniad hedyn cyntaf ymddadblygiad ei enaid at wersi a chynghorion athraw mewn cwmwd eithaf di-nod yn rhywle. Mae y ffaith fod y cynnydd meddyliol yn cychwyn mewn lle mor ddiogel a'r Ysgol Sul yn esboniad effeithiol ar amboblogrwydd anffyddiaeth yn y wlad. Un o'r pethau cyntaf yr addysgir y Cymro ynddo ydyw i barchu y gwirioneddau dwyfol, ac ym mha gyfeiriad bynnag yr ymddadblyga ei feddwl, gweithreda yr addysg honno fel math o atalfa rhag iddo ymollwng gyda chenllif anystyriaeth a chabled. Mae nifer y llyfrau gwerthfawr yr ydym yn y dyddiau hyn yn feddiannol arnynt i dafu goleuni ar gynnwys yr Ysgrythyrau yn profi ein bod wedi cynhyddu yn ddifawr yn ystod y blynyddau diweddaf.

Canfyddir y cynnydd yn enciliad ein culni a'n rhagfarnau cenhedlaethol. Yr ydym wedi ein dwyn i ddysgu parchu rhai a ddigwyddant ffurfio barnau gwahanol i ni ar faterion

Goddellad. neillduol. Nid ydym yn ymorffwys i'r un graddau ag y gwnaem yn y dyddiau gynt ar syniadau ac arferion

ein henafiaid. Yr ydym yn fwy byw i ragoriaethau y Saeson, ac nid ydym yn ol o allu efelychu yn llwyddiannus yr hyn sydd yn gymeradwy a gwerthfawr ynddynt. Mae ein hamharod-rwydd i roddi ystyriaeth briodol i syniadau newyddion wedi darïod. Yr ydym wedi gorchfygu y duedd i wrthod yr hyn sydd yn newydd am yr unig reswm ei fod yn newydd. Yr oedd ein tadau yn y dyddiau gynt yn gwneyd yn dda drwy ofni a chrynnu yng ngwyneb pob ffurf neu syniad nad oeddynt hwy wedi ymgynefino ag ef. Yr oedd anaddfedrwydd y meddwl Cymreig ar y pryd yn rheswm digonol dros hynny. Ond erbyn heddyw, mae y genedl wedi ei hargyhoeddi o'i chyfoeth meddyliol,—fod ganddi adnoddau a wrthsafant ymosodiad,—ac yng ngrwm yr argyhoeddiad hwnnw gall chwilio i mewn drosti ei hunan i'r hyn sydd yn newydd, a derbyn hynny o dda a gwrthod hynny o ddrwg fydd ynddo. Dyma un o'r agweddu mwyaf dymunol ar gynnydd y meddwl Cymreig, ac mae gennym bob mantais i goffeidio y dyb yr a ymlaen gydag ynni di-wrthdro yn ystod y blynyddau nesaf.

Mae y meddwl Cymreig wedi cynhyddu i raddau yn ystod y blynyddau diweddaf fel meddwl ymchwilgar. Mae mwy o chwilio yn bod yn awr ar ddamcaniaethau athroniaeth a gwyddor nag a fu erioed yng Nghymru o'r blaen. Ychydig o athron-

wyr gwirioneddol a gynhyrchwyd yng Nghymru, a llai fyth o wyddorion. Gellir cyfrif am hyn oherwydd prinder rhai i hyfforddi y genedl ieuanc mewn materion o'r fath. Yn ddiweddar, mewn cymhariaeth, ar ol sefydliad y colegau, y bu i wyddor ac athroniaeth ddwyn sylw sydd yn meddu ar osgo at fod yn un cyffredinol yn y wlad. Gallasai Cymru fod wedi dangos amgenach dadblygiad yn y cyfeiriad hwn. Erbyn hyn mae gennym luaws o wŷr galluog wedi pasio arholiadau yn llwyddiannus yn y prif athrofeydd mewn athroniaeth, ond anfynych iawn y ceir gan neb o honynt i ysgrifennu na darlithio ar y gangen honno. Feallai y dadleuir, gyda graddau o rym, nad yw ysgrifeniadau athronyddol yn boblogaidd, nac yn "cymeryd," ys dywedir; ond yn sicr, mae yn amhosibl byth eu gwneyd yn boblogaidd drwy beidio ysgrifennu dim. Mae yn angenrheidiol peidio cadw athroniaeth a gwyddor y tu fewn i furiau y colegau yn unig. Dyger hwy allan i'r wlad yn fwy cyffredinol, ac yna ceir gweled na fydd i'r bobl gau eu llygaid mewn difaterwech rhagddynt. Yr ydym mewn angen mawr am law-lyfrau syml a rhad yn egluro egwyddorion mawrion athroniaeth a gwyddor. Mae digonedd o'r cyfryw gan y Saeson, ond nid oes odid yr un hyd yn hyn wedi gwneyd ei ymddangosiad yn y Gymraeg. Ychydig iawn hefyd ydyw y gefnogaeth a rydd yr Eisteddfod Genedlaethol i hyn.

Daw yr ysbryd ymchwilgar y cyfeiriwyd ato i'r golwg hefyd yn amlwg mewn cysylltiad â duwinyddiaeth. Nid wyf drwy ddweaeth hyn yn anturio honni fod y fath beth ag an-

Duwinyddiaeth heuaeth ar gynnydd yng Nghymru. Mae hen wirioneddau sylfaenol yr efengyl yn dal yn eu cadernid o hyd yn ein mysg. Ond mae mwy o chwilio i mewn iddynt nag a fu erioed yng ngoleuni yr hyn a ysgrifennir i brif gyfnodolion y Saeson gan wŷr nas gellir osgoi yr orfodaeth o'u galw yn amheuwyd. Nid oes lle i gwyno oherwydd ysbryd ymchwilgar yn y cyfeiriad hwn. Fel y cynhydda, gall brofi ei hun yn ddadblygiad iachus. Yr ydym wedi ein cynghori i "brofi pob peth ac i ddal yr hyn sydd dda," a gofynnir oddiar ein llaw am reswm dros "y gobaith sydd ynnom." Mae yn angenrheidiol iawn ar i bob Cymro ieuanc fod ar ei ddi-hŷn yng ngwyneb yr ymosodiadau a wneir ar wirioneddau sylfaenol y grefydd Gristionogol. Nid wyf yn credu mewn annog ein pobl ieuanc i beidio darllen ysgrifeniadau awduron cydwybodol, ond eto heb fod yn uniongred. Mae llawn cymaint o berygl mewn eu hannog i beidio ag sydd mewn eu hannog i wneyd. Pan rybuddir hwy yn erbyn darllen beirniadaethau ar egwyddorion crefydd, derbynna crefydd ei hunan ryw gymaint o sarhad drwy hynny. Y mae fel pe yn rhoddi argraff ar y meddwl ei bod yn rhy fâs i'w chwilio, ac yn rhy ddi-nerth i ddal ymosodiad.

Mae i newyddiaduriaeth ryw gymaint o ran yn nhyfiant y meddwl Cymreig. Ychydig o amser sydd er ys pan mae newyddiaduron Cymreig yn bethau cyfiredinol; ac erbyn heddyw mae eu cyfiredinolrwydd yn brawf o ddad-blygiad y genedl mewn awyddfryd am wybodaeth.

*Paperau
Newyddion.*

Mae y meddwl Cymreig wedi manteisio yn ddirfawr oherwydd newyddiaduron. Buont yn foddion i gyfrannu llawer o wybodaeth i'r wlad; cafodd aml lenor a cherddor ieuanc symbyliad arbennig drwyddynt. Cafodd y gweithiwr amddiffyn ei hun ynddynt, a chafodd ei amddiffyn ganddynt, yng ngwyneb yr ormes a'r esgeulusdra a ddanghosid tuag ato. Feallai y gellir honni y gall newyddiadur beryglu tyfiant y meddwl Cymreig mewn rhai cylchoedd. Gall rhai o'n dynion ieuainc ymddibynnu arno fel yr unig gyfrwng i ehangu eu gwybodaeth. Mae lle i ofni fod llawer o'r rhai hynny a wasanaethant mewn masnach-dai a swyddfeydd nad ydynt byth yn darllen dim ond newyddiadur, ac feallai, esgus o ffugchwedl ddi-gamp ar ffurf resynus yr arswydolion ceiniog. Rhodder ei le priodol i newyddiadur ar bob cyfrif, ond arwydd o wendid anobeithiol ydyw synio y gall meddwl dynol fyw am wythnos arno. Nid oes yr un meddwl yn casglu cadernid drwy adloniant yn unig. Rhaid iddo wrth ymborth wedi ei goginio gan law y chwaethus ac enaid y diwylliedig. Mae gan newyddiaduriaeth le arbennig i gynorthwyo y cynnydd meddyliol presennol yn Nghymru. Gall y newyddiaduron wneyd hynny i raddau helaeth drwy ddyrchafu chwaeth y darllenwyr. Ceir ambell newyddiadur yn ymostwng i wenieithio i drachwant afreolus dosbarth arbennig am adroddiadau o rai o achosion ffaidd ein llysoedd gwladol. Os ceir gŵr cyhoeddus yn un o'r llysoedd hyn yn euog o ryw drosedd, nes y bydd mor ddu fel na fydd yn ddim amgenach na pharddu yn symud, bydd y newyddiadur yn neillduol o ofalus i roddi pob manylion ynghylch ei anffodion pechadurus. Llenwir colofn ar ol colofn gyda'r hanes. A rhyfedd y gwerthu fydd ar y fath geiniog-werth hudduglyd! Paham y gorlwythir newyddiaduron gyda hanesion cymeriad ar ol cymeriad wedi cyfarfod â thrychineb? Ai er mwyn i'r cyhoeddusrwydd wasanaethu fel un rhan o gosp iddynt, ynte am y gwyddis fod "mynd" ar adroddiadau o'r fath, ac y llenwir llogellau y cyhoeddwyr drwy ychwanegu y gwerthiant? Rhaid, yn lled anfoddog, ydyw ochri at y dyb ddiweddaf. Nid ydyw hyn o gwbl yn llwybr i gyflymu cynnydd meddyliol. Tuedda yn hytrach at wenwyno hynny o gynnydd sydd wedi cymeryd lle eisioes. Cydier mewn newyddiadur weithiau, a braidd na allesid dychmygu fod ein dwylaw yn cochi tra yn ei ddal. Bydd yn orlawn o hanes y llofruddiaethau mwyaf arswydolawn. Mae rhyw ddsbarth o bobl, hyd yn oed yng

Nghymru oleuedig, yn sychedu am waed ond iddynt ei gael ar bapur. Mae cyhoeddwyr newyddiaduron yn gwybod hynny, a choginir ar gyfer y bwystfil sydd ynddynt. Desgrifir y gyllell, y gwaed, a'r archollion, gyda'r manylrwydd mwyaf gwrthun o anioddefol. Bydd gwaed yn gwneyd popeth ond llifo ar bob tudalen. Nid cyfrwng i wneyd cigyddion na barbariaid ohonom ydyw y newyddiadur i fod. Nid wyf yn golygu iddo fod yn anyddorol a dôf; ond os am fod yn gefn i ddadblygiad cenedl-aethol yn ei holl rannau, rhaid iddo fod yn chwaethus, ac yn gynnil a gofalus ei adroddiadau o erchyllderau pechadurus sydd ar brydiau yn arswydo cenedl gyfan.

Pe yr edrychem ar ein cylchgronau Cymreig, gwelem ar un-waith fod meddwl y genedl wedi tyfu yn eglur iawn.

^Y
Cylchgronau. Troer i gopiau o'r hen *Wladgarwr*, y *Gwyllyedydd*, neu unrhyw hen gyhoeddiad cyffelyb. Ceir gweled ynddynt lawer o ysgrifau hanesyddol, bywgraffiadol, daearyddol, &c., y rhai, y pryd hwnnw, oeddynt yn newyddion iawn, ac yn cyfateb i'r dim i amddifadrwydd yr oes o wybodaeth ynghylch hynny. Ysgrifennid hwy mewn dull syml ac eglur, yn bwrpasol ar gyfer y newyddion mewn materion o'r fath. Ceir yr un peth a hwy heddyw yn llyfrau plant o'r ail a'r trydydd safon mewn ysgolion elfennol. Ddeugain mlynedd yn ol, ac yn ddiweddarach, yr oedd "mynd" anarferol yng nghymoedd Cymru ar lun llew ac ysgrif yn cynnwys rhestr o orchestion ei fawrhydi. Siaredid am dani am wythnosau ger mainc y crydd, engan y gôf, a thanllwyth yr hafod. Gwnai bwyd ysgafn y tro y pryd hwnnw, oherwydd nid oedd y genedl wedi ymadael megis oddi-wrth ei dillad cyntaf mewn gwybodaeth. Ond yn y cyfnod presennol nid yw "llun llew" yn achosi hyd yn oed i fachgen-nyn ysgol agoryd llygad na genau mewn nemawr arwydd o syndod. Y trachwant mawr heddyw ydyw yr un am fwyd cryf, am gynhaliath feddylol, am faeth enaid. Yr ydym o galon yn talu gwarogaeth gyflawn i'r hen gyfnodolion parchus ddarof iddynt unioni y ffordd, a disgyblu y deall i dderbyn yr hyn oedd fwy. Rhaid yw cropian cyn cerdded. Erbyn heddyw, os prynna dyn ieuanc, neu unrhyw ddyn darllengar o ba oedran bynnag, chwarterolyn neu fisolyn Cymreig, awchlymir ei chwant am newydd-deb yn y fan. Disgwylia am erthyglau coeth a meddylgar mewn duwinyddiaeth neu lenyddiaeth, a phan y caiff y cyfryw, ac y sugna fwynhad a deall oddiwrthynt, teimla y Cymro ieuanc fel pe buasai wedi cael darn newydd yn ei enaid. O'r holl gyfnodolion a wnaethant fwyaf tuag at ddadlygu y meddwl Cymreig, rhaid i ni roddi y lle amlycaf i'r *Traethodydd*. Gwyddis am lawer gŵr, sydd heddyw yn urddas a thŵr i bulpud neu lenyddiaeth Cymru, a olrheinia ei ddyheuad cyntaf

at ragori fel meddyliwr i ysgrifau y *Traethodydd*. Bu i'r cyhoeddiad coeth hwn greu to newydd o feddylwy'r yng Nghymru. Symudodd y genedl o'r hen dir ystrydebol hwnnw y crebachai ei meddwl gymaint ynddo, i gyfeiriad y grawnsypiau hynny o wybodaeth oeddynt fel pe yn guddiedig rhagddi. Rhoddodd hoen adnewyddol yn ymadferthoedd meddyliol y Cymro. Trwy ysgrifau y cyhoeddiad rhagorol hwn bu i ryw oleuni newydd a dieithr gael ei dywallt ar y dosbarth mwyaf ymchwilgar yn ein gwlad.

Mae cysylltiad arbennig rhwng Cymru â beirniadaeth. Yr eisteddfod yn bennaf a biau y clod am ein dwyn i'r cysylltiad hwn. Ond a oes gynnydd diweddar gwerth son am

Beirniadaeth.

dano yn y meddwl beirniadol Cymreig, sydd yn bwnc anhawdd ei benderfynu. Efallai fod mwy o feirniadu heddyw nag a fu erioed; ond nid yw hynny yn golygu cynnydd. Yr hyn a gwynid yn bennaf yn y dyddiau gynt ydoedd, nid yn erbyn galluoedd beirniaid, ond yn erbyn eu hegwyddorion. Mae llawer o'r sorod diegwyddor wedi ei symud oddiar y llwyfan beirniadol; ond prin y gellir dweyd fod rhyw llawer iawn mwy o allu yn cael ei ddangos yno. Darllenner llawer beirniadaeth eisteddfodol, dyweder ar yr awdlau cadeiriol, a cheir gweled mai braidd yr un peth a ddywedir am y rhai fydd yn colli ag am y rhai a enilliant; yr un ffaeiddau a gondemnr, a'r un rhagoriaethau a ddyrchefir. Gwneir helynt fawr gan ambell feirniad gyda gwallau bychain—rhyw byrfetach o lithriadau. Gwysir holl adnoddau y beirniaid ymlaen i ymosod ar gorachod o feiau meirwon y byddai yn sarhad ar wir fanyldeb i wneyd dim amgenach na rhoddi awgrym distaw ynghylch eu bodolaeth. Ychydig o sylw a delir i ffyddlondeb awdwr i'w destyn, i werth ei gynllun, ac i briodoldeb ei syniadau. Yng Nghymru, beth bynnag, lle y cyfarfyddir cymaint o'r elfennol, dylasai beirniadaeth fod yn llawer mwy addysgiadol. Bydd gwir ffaeiddau cyfansoddiad, gan ychydig feirniaid yn cael eu hosgoi, naill ai yn fwriadol neu yn ddi-wybod. Er hyn oll, credwn fod rhyw gymaint o gynnydd neu o welliant, beth bynnag, wedi cymeryd lle gyda beirniadu. Cymerir mwy o ofal yn y dyddiau diweddar hyn i roddi y beirniadaethau o flaen y cyhoedd, a chymer y beirniaid fwy o drafferth i fod yn sier yn eu meddyliau eu hunain fod y goreuon ymhob cystadleuaeth yn cael eu gwobrwyo.

Wrth droi i'r byd barddonol, gellir yn deg honni fod y meddwl Cymreig wedi cynhyddu ynddo. Yr ydym fel cenedl yn rhy dueddol i ddweyd mai "gwell yw yr hen"

Barddoniaeth.

am llawer iawn o bethau. Mae yn bosibl ein bod yn dweyd hyn am ein barddoniaeth. Yr ydym yn ddiddiwedd yn ymfrostio yng ngodidogrwydd ein barddoniaeth

o ddyddiau Taliesin ac Aneurin ymlaen, ond ychydig iawn a wŷr neb am dano, er hynny. Anurddir ein hen farddoniaeth gan dywyllwch, anystwythder, geiriau diystyr, a syniadau penffordd. Ond am farddoniaeth y cyfnod presennol, mae yn fwy chwaethus, yn fwy naturiol, yn fwy diwylliedig; mewn gair, mae yn fwy o farddoniaeth. Flynyddau yn ol, tinc a chlec ydoedd popeth. Prif anhebgor bardd ydoedd dawn ddi-hysbydd i rochian cydseiniad, eled synwyr, chwaeth, a rheswm, y tu allan i gylch ei enaid i chwilio am eu gilydd. Ond yn awr mae y wlad wedi dysgu dod i ymddifyrru gyda meddwl—syniad noeth—yn anibynnol ar unrhyw addurn dychmygol o'i ddeutu. Mae ein beirdd wedi dadblygu i fod yn well meddylwyr nag a fuont erioed. Feallai nad ydynt mor wreiddiol; ond mae yn bosibl bod yn wreiddiol ac yn ddi-orchest. Un o'r llwybrau mwyaf effeithiol i ddadblygu ychwaneg ar y meddwl barddonol Cymreig, ydyw cael gan y werin i gymeryd mwy o ddyddordeb yng nghynrychion y beirdd. Fel rheol, nid oes ond y beirdd eu hunain yng Nghymru yn darllen barddoniaeth. Ychydig iawn o gydymdeimlad sydd gan y bobl gyffredin â'u cyfansoddiadau.

Yng nghyfeiriad y pulpud mae dadblygiad sier yn cael ei arddangos. Nis gellir honni fod y pulpud Cymreig heddyw yn fwy gonest, pur, a gwyneb-agored nag a oedd yn nyddiau ein tadau. Feallai, hefyd, nad yw yr "hoelion wyth" lawn mor amlwg ag y buont. Nid oes rhyw un haul mawr digymhar o ran ei nerth a'i danbeidrwydd i'w ganfod yn ffurfafen y pulpud Cymreig. Ond i wneyd i fyny am hynny, mae gennym liaws mawr o heuliau, y rhai, os nad ydynt yn llawn mor danbaid â heuliau y dyddiau a fu, eto tafiant gystal goleuni; a thra yn cael eu harwain ganddynt, nid oes nemawr berygl i'r genedl ymollwng i gyfrgolli mewn cyfeil-iornad. Rhoddid pwys mawr yn y dyddiau gynt ar ddoniau traddodol pregethwr. Nis gellir gwadu nad yr hyn sydd yn fawr yn ffair siaradwr cyhoeddus ydyw meddu ar lais hydwyth, clochaid, a swynol. Ond nid y "waedd" ar wahan i'r "beth a waeddaf" ydyw gwir werth pregethwr. Mae yn arwydd neillduol o ddadblygiad y meddwl Cymreig yn y dyddiau hyn fod ein cynulleidfaoedd wedi eu disgyblu i'r fath raddau, nes gallu ymlonhau mewn cyfoeth meddyliol ac mewn ynni dirnadol, ar wahan i ryw fath o addurnedd a swyn a felysai wirioneddau yr efengyl yn y dyddiau gynt. Nid yw rhaid i bregethwr y cyfnod presennol allu gwneyd taranau â'i lais wrth gynnyg iachawdwriaeth i bechadur. Credir y gall y pregethwr fod yn gynnes heb iddo chwysu, ac yn ddifrifol heb iddo waeddi. Gwnaed cryn gynnwrf amser yn ol, yn bennaf drwy y wasg Seisnig, am fod rhai yn ymadael oddiwrth burdeb

yr athrawiaeth. Amheuid golygiadau llawer o brif weinidogion ynghylch ysprydoliaeth y Beibl, dwyfoldeb person Crist, sefyllfa ddyfodol, &c. Mae yn debygol fod sail i'r amheuaeth ynglŷn â rhai o bulpudau Lloegr. Ond cadwodd gweinidogion Cymru, fel cyfangorff, yn lân oddiwrth hyn. Ond pe buasent wedi myned ar lithrigfa o ran eu syniadau athrawiaethol, ni fuasai hynny yn arwydd o dyfiant, ond yn unig yn yr hyn sydd yn anymunol. Buasai yn dyfiant neu ddadblygiad cyn belled ag y croesawid ef gan ddisgyblion Darwin, Huxley, a Tyndall. Yn wir, mewn cysylltiad â'r meddwl Cymreig yn y pulpud, teimlir graddau o anhawsder mewn penderfynau ymha beth y mae yn cynhyddu. Bu pulpud yr hen genedl ar hyd y blyn-yddau mor efengylaidd braidd ag y gallesid disgwyl iddo fod. Mae y ffordd i'r bywyd wedi ei dangos drwyddo mor oleu a chan unrhyw bulpud yn y byd. Y cynulleidfaoedd, feallai, sydd yn dadblygu fwyaf, ond nid o gwbl yn anibynnol ar y pulpud. Os yw yn rhaid dweyd ymha wedd y dadblyga y meddwl Cymreig yn ein pregethwyr, credaf na fyddis yn cilio o fod mewn cydymdeimlad â'r gwirionedd drwy ddweyd fod chwaeath y pulpud wedi gwella llawer. Mae yr ymadroddion carbwl a'r ystumiau aflednais, a welwyd ynddo gynt, braidd wedi colli yn llwyr ohono. Nid yn fynych yn awr y trethir cynulleidfa i chwerthin oherwydd rhyw frawddeg led ystablaid fel a glywson flynyddau yn ol. Mae pregethwyr y cyfnod presennol yn fwy coeth a diwylliedig nag y buont. Gofynnir iddynt fod felly oherwydd cyrhaeddiadau meddyliol ac addysgol y cynulleidfaoedd. Felly mae pulpud a sedd mewn cydgord dedwydd â'u gilydd.

Mewn ystyr wleidyddol mae y meddwl Cymreig wedi cynhyddu llawer iawn. Prin yr oeddym, hyd yn ddiweddar, yn cymeryd unrhyw ddyddordeb gwirioneddol mewn gwleidyddiaeth, neu rhoddasid amlygiad ohono drwy fynnu sicrhau cynrychiolaeth amgenach ynghynt.

Boddlonem ar gymeryd ein cynrychioli gan wŷr—boed hwy Ryddfrydwyr neu Geidwadwyr—a ofalent gymaint am ein buddiannau ag a wnaent am eiddo y cynddiluwiaid. Rhai o gymhwysderau aelod seneddol Cymreig hyd yn ddiweddar ydoedd meddu ar balas gwych, dau o "weision lifrai," dwain o gŵn hela, medru saethu brain a chwnhingod, a modd i feddwi hanner sir ar ddydd yr etholiad. Nid oedd y wlad yn gofalu nemawr pa fodd y taflai yr aelodau eu pleidleisiau. Pe buasent yn pleidio mesur yn ffafwr gefynnu tafod pob Cymro, prin y buasai hynny yn foddion i ddadebru y wlad i ffeiddio y cyflwr o waseidd-dra yr oedd ynddo. Yr oedd yr arglwyddi tirol yn teyrnasu, a'r ystiwardiaid yn cynllwyn, a'r wlad megis yn llyfu

y llwch oddiar 'eu traed, ac yn gwenieithio yn eu hwynebaw gydag anaturioldeb gorfodaeth. Ond rhyfedd y cyfnewidiad erbyn heddyw. Mae y meddwl Cymreig yn effro i'w werth a'i bwysigrwydd ei hunan. Mae yn ymwadu â gwaseidd-dra, ac yn profi y gall wrthod ffafrau y mawrion pan y teflir hwy o flaen ei lygaid er mwyn ei ddallu i'w hawliau. Mewn ystyr wleidyddol ni fu meddwl y Cymro erioed mor anibynnol ag a yw heddyw. Mae y gwyleidd-dra hwnnw fu mor anfanteisiol iddo wedi dechreu darfod. Nid yw yn gwerthu ei egwyddorion am wên ystiward, ac nid yn llogell y meistr tir y cedwir ei gydw-bod. Mewn gair, cafodd Cymru weledigaeth ar ei hanghenion, ac fod rhywbeth ar ei llaw ei hunan i'w wneyd tuag at eu symud. Mae gennym dir lawer i'w feddiannu eto yn y cyfeiriad hwn. Rhaid i ni gynhyddu mwy, neu bydd yr oruchafiaeth yn cael ei gwadu i ni.

Ym myd y gweithiwr yr ydym yn canfod cynnydd nodedig, a chymerodd hwn le mewn amser cymhariaethol fyr. Ychydig flynyddau yn ol yr oedd y gair gweithiwr bron yn gyfystyr â'r gair caethwas. Nid oedd yn werth ymofyn am ei farn ef ar ddim yn y byd. Gwneid pob ymdrech i'w gadw a'i feithrin mewn dylni ac anwybodaeth. Os danghosai awydd weithiau am dorri dros gloddiau dinodedd, chwaraidd am ben ei resymau, a gwahoddid cenedl gyfan i'w ystyried fel ynyfryn. Yr oedd gwg o'i flaen a gormes o'i ol, a chyda gwialen haiarn uwch ei ben y symudai o'i gryd i'w fedd. Yr oedd ei barchu allan o'r cwestiwn. Digon iddo ef oedd cael caniatad i anadlu. Ond daeth tro ar fyd y gweithiwr, druan. Mae ei farn yn werth rhywbeth heddyw, ac nid ychydig ydyw yr ymofyniadau sydd am dani. Mae y gweithiwr wedi dwyn ei hun i sylw gwreng a bonedd drwy ymdrechion dyfal o'i eiddo ei hun. Drwy wneyd defnydd doeth o'i oriau hamddenol a'i enillion, llwyddodd i gasglu gwybodaeth. Ac nid rhyw fath o wybodaeth, ond un er mantais arbennig iddo ei hunan—gwybodaeth a drydanodd ei galon â'r syniad mai nid dyn wedi ei fwriadu i fod dan draed neb ydoedd—gwybodaeth agorodd fyd newydd o'i flaen, ac a daflodd ei iawnderau fel byddin benderfynol i mewn iddo—gwybodaeth a roddodd weledigaeth iddo ar yr ormes yr oedd ynddi nes clafychu uwch ei phen, a gwybodaeth a'i dygodd i swm llyffetheiriau gwaseidd-dra yn malurio yn ei ddwyllaw ei hun. Erbyn hyn mae y gweithiwr Cymreig yn feddiannol ar hyfdra—yr hyfdra hwnnw sydd ar unwaith yr un mor oddefol ag a ydyw o angenrheidiol. Mae wedi diwyllio ei feddwl a disgyblu ei natur foesol i'r fath raddau nes troi cydymdeimlad y boblogaeth at ei hawliau. Ffrwyth y cynnydd hwn ym meddwl y gweithiwr Cymreig ydyw fod mawrion

y tir yn dechreu parchu ei syniadau, yn edmygu ei benderfyniad, ac yn dechreu ymholi â hwy eu hunain, ai nid yw yn bosibl iddynt wneyd rhywbeth tuag wella ei sefyllfa. Nid oes ddad nad yw ein dosbarth gweithiol yn cynhyddu, ac fod y cynnydd hwnnw yn ennill sylw ffaffriol iddynt. Drwy ddal i geisio deall prif gwestiynau y dydd, ac i gyfoethogi eu meddyliau â gwybodaeth iachus, daw buddugoliaeth lwyr i'r golwg yn y man.

Yr wyf yn ymwybodol fy mod yn gadael amryw bethau heb eu crybwyll, ond rhaid yw terfynu. Yr hyn a'n dygodd ni i gyffyrddiad â'r cynnydd presennol ydyw addysg.

Addysg. Yn ol fel y cynhydda addysg bur y cynhydda ein dadblygiad meddyliol. Yn hwyr ar y dydd, megis, yr estynnwyd manteision addysg i Gymru, ond croesawyd y wawr yn llawen pan y daeth. Ofer, bellach, ydyw ceisio ymddwyn tuag atom fel tuag at genedl newydd ymddiosg o'i hanwareidd-dra. Mae meibion Cymru wedi rhoddi prawf digonol eu bod yn meddu ar gymhwysderau i droi mewn unrhyw gylch o anrhydedd a chyfrifoldeb. Mae y gwaith da o ddadblygiad meddyliol wedi ei gychwyn, a diameu mai llifio ymlaen a wna nes y cyrhaedda yr hen genedl un o'r safleoedd mwyaf anrhydeddus ymhlith cenhedloedd y byd.

LA BELLE DAME SANS MERCI.

(Cysteithiad o Faled Keats).

O, BETH a'th flina, farchog dewr,
 O, Fan yma'th hun mor wael dy bryd?
 Yr hesg a wywodd ar y llyn,
 A'r wig sy'n fud.

O, beth a'th flina, farchog dewr,
 Mor bruddaidd wyd a llwyd fel llen?
 Y wiwer wnaeth ei stôr—a daeth
 Cynhaua i ben.

Fe welaf lili ar dy ael;
 Rhyw dwymyn yn ei gw litho sydd,—
 A gwela'n gwywo'n gyflym iawn
 Rosyn dy rudd.

- “ E welais feinwen ar y ddôl
Mor lân a rhian o Dir Hud
Ag hirwallt llaes, ac ysgafn droed,
A gwyllt, wyllt bryd.
- “ Gwnes bleth i'w rhoddi ar ei phen,
A heirdd freichledau, torchau têr,—
Edrychai gariad arnaf, a
Gruddfannai'n bêr.
- “ Rhois hi ar fy ngharlamus farch,
Heb weld ond hi drwy'r hirddydd glân—
A nesu ataf wnai, gan roi
Hudolus gân.
- “ Hi gasglai wreiddiau pêr eu blâs,
A mêl i mi, a manna-wlith;
A dwedai im mewn rhyfedd iaith—
'Fe'th garaf byth.'
- “ Hi aeth a mi i'w hogof hud,
Lle gruddfan wnai, ac wylô'n lli;
A phedwar cusan rois i gau
'I gwyllt emrynt hi.
- “ Ac yno'm suo wnaeth i gwsg—
I freuddwyd aethum, gwae o hyn!
Y breuddwyd olaf fyth ges ar
Ael oer y bryn.
- “ Brenhinoedd a th'wsogion lu
A milwyr oent—tost-welw i gyd,
A'u gwaedd—'La Belle Dame Sans Merci'
A'th gadd i'w hud.'
- “ Yn erch newynog drwy y gwyll,
Rhybuddiai eu gwefusau gwyn;
Deffrois, ac yma oeddwn ar
Ael oer y bryn.
- “ A dyna pam 'rwyf yma 'nawr
Fy hunan, ac yn welw'm pryd;
Tra'r hesg a wywodd ar y llyn,
A'r wig sy'n fud.”

* “Y Ferch brydferth heb drugaredd” (yn llythyrennol)—seinier “La Belle Dame Sans Merci.”

1848.
89.

ad oes ar lèchres
ddim cymeriad a
luniwyd fel un mor
is, dirmygus, ac alar-
a'r eiddo y Cymro
ve Jeffreys, o sir
ae bywgraffwyr a
oesoedd diweddar
osgoi a myned heibio
dwd erchyll a brwt,
a rhêg. Mae ei
yn ceisio ymwrthod
Gweirydd ap Rhys
rytaniaid a'r Cymry,"
ennym ei arddel fel

abod, er hyny, ei fod
yffredin yn ei oes,
fod yn feddiannol ar
fath o athrylith
nus, cyn y buasai yn
dringo mor fuan i'r
af yn y wladwriaeth.
nus, yr oedd pob dyr-
fodd yn dwyn ei
as i fwy o amlyg-
yn oed ei genedl ei
odig, yn cael ei bres-
teinig, ac eir heibio

odi ceisio amddiffyn
y tywyllwch a dyn-
Froude wyngalchu
ari Waedlyd rai i'w
neyd arwr o'r teyrn
aeth y diweddar De
s Iscariot. Ond am

Jeffreys, nid oes neb wedi meiddio cynnyg ei amddiffyn,* ac nid wyf finnau yn bresennol am geisio ei amddiffyn—dim ond crybwyll rhai ffeithiau yng nghwrs ei fywyd er rhoddi y darllennydd mewn mantais i bwysu yr amgylchiadau, a barnu ei gymeriad drosto ei hun. Mae y ffaith mai Cymro oedd Jeffreys yn hawlio iddo gael pob chwareu teg oddiar law ei genedl ei hun; ond prin y gellir dweyd iddo gael cymaint a hyn. Mae llawer o wŷr enwog wedi codi o bryd i bryd yn sir Ddinbych, ac er mai "anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth," fe ystyrir Jeffreys fel eithriad yn eu mysg, ac edrychir arno fel Satan ymhlith "meibion Duw," neu fel "cythraul yn y nef," ys dywed Iolo Caernarfon.

Mab oedd George Jeffreys i John Jeffreys, uchelwr bychan o Acton, oerllaw Gwreccsam, sir Ddinbych. Wedi cael graddau o addysg gartrefol, anfonwyd ef i ysgol St. Paul yn Tŷmor Addysg. 1659, ac oddiyno i ysgol Westminster, lle y gorffennodd ei addysg. Yr oedd er yn blentyn o dueddfryd gyfreithiol, ac o nawws gwerylgar; a choffeir i'w dad ddweyd wrtho unwaith,—“George, George, mae arnaf ofn y byddi farw rhyw ddiwrnod a dy esgidiau am dy draed.” Yr oedd rhyw ysfa ryfedd yn y bachgen yn addo wrth weled gorymdeithiau gwychion y barnwyr pan oedd efe yn ysgol St. Paul. Nid oedd ei dad yn gyfoethog, ond yr oedd ganddo nain a chanddi dipyn o arian segur; ac yn 1663, pryd y daeth yn fyfyrwr o'r Inner Temple, rhoddodd ei nain iddo hannercanpunt yn y flwyddyn at ei gynnal. Ond yn lle astudio y gyfraith, cawn fod George yn gwario ei arian a'i amser mewn yfed a meddwi mewn tafarnau isel, a chyda chyfeillion oeddynt yn ddigon isel eu chwaeth i edrych arno fel eu harweinydd mewn drygioni. Mae yn ffaith bruddaidd a galarus fod cynnifer o wŷr ieuainc o dalentau cryfion yn cael eu harwain ym moreuddydd bywyd i lwybrau yr yspeilydd, ac i ddilyn arferion penrhudd; ac yn bur fynych tra byddant yn eu hynfydrwydd yn “hau eu ceirch gwylltion,” fel y dywedir, byddant hefyd, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn hau hadau marwolaeth yn eu cyfansoddiad eu hunain, ac yn rhy fynych, fel Burns a Byron, yn disgyn i'r bedd cyn hanner eu dyddiau. Adeg beryglus i blant athrylith ydyw tymor ieuencyd, pryd y mae y nwydau yn aeddfedu o flaen y farn, y dychymyg o flaen y rheswm, a'r chwant o flaen y gydwybod. Hwyrach na ddylem gymeryd

* Wedi i'r erthygl hon gael ei hyagrifennu, cafodd Jeffreys amddiffynnwr yn y *New Review*. Mae Jeffreys yn sicr wedi cael cam dybrd, oherwydd darluniadau rhamantwyr dihidlo am y gwirionedd fel Macaulay a Blackmore. Ond dyddiau nithio hen dybiau yw'r dyddiau hyn.—[GOL.]

gweithredoedd y dosbarth yma bob amser fel amlygiad o'u gwir gymeriad, er hwyrach nad oes un reol ddiogel i farnu cymeriad dyn ond wrth ei weithredoedd; eto i gyd mae'n digwydd yn aml fod elfennau ardderchog, a dynoliaeth ddyrchafedig, i'w cael yn y dosbarth yma weithiau, *er ar lawr*. Mae y perl yr un mor bur, a'r un mor ddisglaer, pan o dan len o dywod yng ngwaelod y môr, ag ydyw pan yn gwreichioni yn y goron ymerodrol. Pa fodd bynnag, hwyrach y byddai yn burion i ni, wrth farnu cymeriadau ein cyd-ddynion, gofio fod anrhydedd weithiau i'w gael ymysg lladron.

Pan alwyd Jeffreys at y Bar, dywedir ei fod yn druenus o anwybodus yng nghyfrinion y gyfraith; ond trwy ei hyfder a'i wynebgaledwch, ei lais cryf, uchel, a garw, daeth yn

Dechreu dringo. fuan i sylw, ac i gael galwadau mynych. Yr oedd efe yn gyfrwys fel llwynog, ac yn llawn o gastiau direidus hefo ei alwedigaeth. Dywed Dickens y byddai Mr. Bob Sawyer, y crachfeddyg, yn gwthio ei hun i sylw trwy wneyd i'w was ddyfod i alw arno allan o'r eglwys ar y Sul, a hynny bob amser pan y byddent ar fyned i gorganu y Salmau. Pa fodd bynnag, dywedir y byddai George yn myned i eistedd gyda chyfeillion i dai cyhoeddus, ac yn peri-i'w ysgrifenydd ddyfod i alw arno a dweyd fod ei siamber yn llawn o bobl yn disgwyl wrtho; fel hyn byddai yn llwyddo i roi ar ddeall i'w gyfeillion ei fod yn llawn gwaith, pryd mewn gwirionedd ei fod yn hanner ei amser yn segura a gloddesta ar bwys gwaddol gwrach.

Yr oedd ganddo ryw allu rhyfeddol i ymwthio i lewis gwŷr mawr, a thrwy eu dylanwad hwy, ar ol bod wrth y Bar am ddim ond tair blynedd, llwyddodd i gael y swydd o Common

Common Sergeant. Sergeant. Wedi dyfod cyn belled a hyn y mae yn newid ei liwiau fel y cameleon, ac yn troi ei gefn ar ei hen gyfeillion Whigaidd er mwyn ennill ffafrau gwŷr y llys; a thrwy ddichell a chyfrwystra Wil Chiffinch, yspiwr a gwas-trodyn y brenin, daeth yn fuan i sylw y llys a ffafr y brenin. Yn y cyfamser y mae yn newid yr Old Bailey am Westminster Hall, a thrwy ei ymddygiad hyf a herfeiddiol, ei iaith lem, a'i eiriau brathog, mae yn dringo i fyny yn gyflym, ac yn pasio dynion oedd ar lawer ystyriaeth yn amgenach nag ef ei hun. Ar yr un pryd rhaid cydnabod fod Jeffreys yn feddiannol ar ryw alluoedd rhyfeddol cyn y gallasai ennill a dal y fath swydd bwysig ag yntau yn treulio ei oriau hamddenol mewn rhialtwch ac oferedd. Nis gallasai dyn dwl reoli llysoedd o'r fath, ymysg dadleuwyr galluog, a'r tebyg ydyw fod Jeffreys yn un o'r ychydig wŷr hynod hynny oedd yn meddu rhyw allu rhyfedd, a chyfriniol, i gyrraedd gwybodaeth heb braidd ddim ymdrech a

llafur. Dywedir i Goronwy Owen ddysgu yr Arabaeg mewn tair wythnos, ac yr oedd cydoeswr iddo, Thomas Williams, o'r Abererch, ger Pwllheli, yn meddu rhyw allu gwyrthiol mewn rhifyddiaeth, er na fedrai ddarllen nag ysgrifennu,—a diameu fod Jeffreys yn feddiannol ar ryw allu cyfriniol i ddeall a meistroli y gyfraith cyn y gallasai ennill y fath safle bwysig ac urddasol, ag yntau yn lleban ofer a diymdrech drwy holl gwrs ei addysg.

Yn 1678 cawn ef yn Gofiadur Dinas Llundain, ac yn Brif Ynad Caer; a dywed Arglwydd Delamere ei fod pan yn gweinyddu y swydd hon, yn debycach yn aml i ddigrifwas nag i ynad, ac yn trafod achosion pwysig pan ymhell o dan effeithiau y diodydd meddwol.

Gofiadur
Llundain.

Yng ngweinyddiad ei swydd dywedir y byddai yn ffraeth a chwareus dros ben ambell waith, ac nid anfynych y byddai yn cyfarfod â rhai trech nag ef ei hun mewn ffraeth eiriau. Yr oedd tyst a wisgai wasgod ledr wedi ei anfoddhau unwaith, ac meddai wrtho,—“Yn awr, yr hen wasgod ledr, dywed i mi beth wyt yn ei gael am ddyfod yma i dyngu fel hyn?” Ac meddai y tyst,—“Fy arglwydd, pe na byddech chwi yn cael mwy am eich celwyddau nag wyf fi yn ei gael am fy llwon, gallasech chwithau fod yn gwisgo wasgod ledr yn gystal a minnau.” Unwaith dywedai wrth dyst gyda barf lled laes,—“Os yw eich cydwybod chwi cyhyd a'ch barf, gellwch chwi dyngu y peth a fynnoch.” “Fy arglwydd,” medd y tyst, “os ydych yn mesur cydwybodau wrth hyd barfau, nis gall fod gan eich arglwyddiaeth gydwybod o gwbl.” Yr oedd efe yn feddiannol ar gryn fesur o arabedd naturiol, ac yn gyflawn o ryw fath o ysmaldod ffwdanllyd, a gellid meddwl y buasai yn gwneyd arweinydd eisteddfod o'r fath oreu, oni buasai am ei natur ddrwg. Ond yn anfodus yr oedd efe yn defnyddio ei arabedd finiog i boeni ac nid i ddiddanu, i archolli ac nid i esmwythau, i ladd ac nid i fywchau.

Arabedd.

Yn 1680, collodd y swydd o Gofiadur Dinas Llundain, oherwydd ei waith yn cynorthwyo y llys i atal cyfarfyddiad y Senedd; ond gan ei fod wedi ennill ffafwr y brenin, nid oedd yn malio brwynen yn hynny. Yr oedd y deyrnas ar y pryd yn llawn o elfennau cynhyrfus, a dialedd a chreulondeb yn nodweddu symudiadau pob plaid. Wedi gorffen hefo'r cuddgynllwyn Pabaidd,—y *Popish Plot*,—cymerodd y brenin fantais ar guddgynllwyn y Rye House i lwyr lethu y blaid wrth-babaidd. Cynllwyn i lofruddio y brenin oedd hwn; ac er fod llofruddiaeth yn ddrwg ysgeler dan bob amgylchiad, eto i gyd, os oedd undyn tufewn i'r deyrnas ag y buasai yn dda cael gwared ohono, y brenin oedd hwnnw; a

Amaerodd
enbyd.

byddiol hwyrach a fuasai i "un farw dros y bobl," a hwnnw yr un gwaethaf, "fel na ddifether" cynifer o rai anrhaethol well nag ef.

Syrthiwyd ar Arglwydd Russell ac Algernon Sidney fel rhai a dybid yn fwyaf amlwg yn yr helynt yma; ac wedi i Jeffreys hynodi ei hun fel dadleuydd yn erbyn Russell, fe'i dyrchafwyd yn Arglwydd Brif Farnydd Lloegr, er mwyn sicrhau condemniad Sidney. Dywed Burnet fod yr apwyntiad yma yn ddechreuad "teyrnasiad dychryn," ac yn arddangos amcan dieflig y brenin i gymeryd ymaith fywydau rhai o wŷr goreu y deyrnas, ac ychwanega fod y Prif Farnydd yr adeg yma "yn feddw bob ddydd."

Cyflawnodd Jeffreys ewylls y brenin trwy gario treial Sidney ymlaen heb rith o degwch na chyfiawnder, a Prawf Sidney. dyfarnwyd y gwladgarwr enwog i gael ei golli ar gam. Wedi i'r Barnwr gyhoeddi ei ddedfryd greulon, dywedodd y carcharor enwog—

"O Dduw! O Dduw! yr wyf yn erfyn arnat santeiddio y dioddefiadau hyn i mi, ac na chyfrif fy ngwaed yn erbyn fy ngwlad, ac na ymofynner am dano er dial; ond os rhaid dial gwaed y diniwed, bydded i'r farn ddiagyn ar y rhai sydd wedi fy erlyn yn faleisus o herwydd fy ymlyniad wrth gyfiawnder."

Jeffreys.—"Bydded i Dduw weithio ynoch dymer addas i fyned i'r byd arall, oblegid mi welaf nad ydych yn addas i fyw yn y byd hwn."

Sidney.—"Fy arglwydd, teimlwch fy ngwaed-guriad, a gwelwch os wyf yn gynhyrfus. Yr wyf yn bendithio Duw am na bum erioed mewn gwell tymer nag wyf yn awr."

Cymerwyd y gwladgarwr hoffus a da i'w gell i aros ei ddienyddiad, a dywedir i Jeffreys fyned ar y pryd i wledd briodasol i ganu a dawnio wrth arfer yr amseroedd, ac i foddi llais ei gydwybod yn nhrwf a bloedd y wledd.

Er mor warthus ac anghyfiawn y triniwyd achos Sidney, fe ddanghosodd Jeffreys fwy o greulondeb a dibrisdod o bob dynoliaeth gydag achos Syr Thomas Armstrong. Yr oedd Prawf Armstrong. Armstrong wedi ei gyhoeddi yn herwr (*outlaw*), ac wedi dychwelyd yn ol o Holland i geisio ei ryddhad.

Yn yr achos gwarthus hwn, gwrthododd Jeffreys wneyd un sylw o'r dadleuon o blaid y carcharor enwog, ac ar draws cyfiawnder a threfn cyhoeddodd ddedfryd marwolaeth ar Syr Thomas Armstrong. Yr oedd merch y carcharor yn y llys ar y pryd, ac wedi ei gorchfygu gan ei theimlad, dywedodd mewn llais wylofus,—

"Fy arglwydd! gobeithio nad ydych yn myned i lofruddio fy nhad."

Jeffreys.—“Pwy yw y ddynes hon? Cymerwch hi i'r carchar. Beth, a ydyw yn cyhuddo y llys o lofruddiaeth, am fod y carcharor yn cael ei euog-farnu am uchel fradwriaeth yn ol cyfraith y wlad? Cymerwch hi ymaith.”

Miss Armstrong.—“Disgynned barn y Duw Hollalluog arnoch.”

Jeffreys.—“Syrthied barn y Duw Hollalluog ar y rhai sy'n euog o uchel frad yn erbyn y brenin.”

Miss Armstrong.—“Amen, O, Dduw.”

Jeffreys.—“Felly y dywedaf finnau, ac yr wyf yn diolch i Dduw fy mod yn ddigon gwrol i wneyd fy nyledswydd.” Car-iwyd hi ymaith.

Syr Thomas Armstrong.—“Mae yn gyfiawn i mi gael tegwch y gyfraith, ac nid wyf yn gofyn am ychwaneg.”

Jeffreys.—“Trwy ras Duw, chwi a'i cewch; bydd eich dienyddiad yn cymeryd lle ddydd Gwener nesaf.”

Dienyddiwyd Armstrong y dydd Gwener dilynol yn ol y ddedfryd waedlyd, a hynny mewn dull barbaraid wrth arfer yr amseroedd. Dywedir i Charles,—y “Merry Monarch,”—dynnu modrwy werthfawr oddiam ei fys, a'i rhoddi yn anrheg i Jeffreys am ei ddedfrydau barbaraid; a dywed Burnet i'r fodrwy hon gael ei galw ar ol hyn yn *bloodstone*. Heblaw gwobrwyo Jeffreys am ei greulondeb, yr oedd y brenin yn feddiannol ar ddigon o ragrith i roi y cyngor hwn iddo,—“Fy arglwydd, gan fod yr haf hwn mor boeth, byddai yn dda i chwi beidio yfed rhyw ormodedd o frandi, er mewn eich iechyd.”

Ar derfyn teyrnasiad diraddiol Charles, a dyfodiad James yr Ail i'r orsedd, cawn fod Jeffreys a'i lygaid ar y Sêl Fawr, ac yn llawn ysfa am gael ei wneyd yn Arglwydd Ganghell-ydd Lloegr. Ond yr oedd gan James ryw gymaint o fudrwaith i Jeffreys i'w gyflawni fel prif ynad cyn ei symud i'r cangell-lys; ac er mwyn ei gadw yn ddiddig fe'i dyrchafodd i'r bendefigaeth. Yr oedd y dygynwrf a adwaenid fel Gwrthryfel Monmouth wedi terfynu yn 1685. “Mab llwyn a pherth” i Charles oedd y Monmouth hwn, a gwnaeth beth cynnwrf yn y deyrnas cyn i James gymeryd ymaith ei ben oddiar ei gorff. Ond yr oedd ar y brenin hurt a dialgar hwn eisiau taro arswyd i fynwesau ei ddeiliaid rhag i gynnwrf cyffelyb ddigwydd byth mwy; a phenderfynodd y Llywodraeth anfon dirprwyfaeth trwy Orllewinbarth Lloegr yn cael ei blaenori gan Jeffreys er mwyn gwneyd esiampl o'r rhai a dybid oedd wedi bod a llaw yn helynt Monmouth. Mae hyn y ddirprwyfaeth ddielfig hon trwy “Wlad yr Haf” wedi ei nodi â ffrydiau o waed cannoedd o bobl ddiniwed; ac fe erys y creulonderau erchyll a gyflawnwyd gan y gwaedgwn hyn yn warth tra-

Gwrthryfel
Monmouth.

gwyddol ar lys a gorsedd James yr Ail. Dienyddiwyd tri chant yn yr hynt waedlyd hon heb braidd rith o dreial, ac yn eu mysg y dyner a'r brydferth Lady Lisle; ac alltudiwyd wyth gant o'u cartrefi. Mae yn syndod pa fodd y goddefodd y bobl i'r fath gyflafan gael ei chyflawni heb iddynt gyfodi fel un gŵr yn erbyn yr awdurdodau. Pe buasai yn y deyrnas gymaint ag un Cromwell neu un Glyn Dŵr, ni oddefasid i'r fath gyflafan basio heb ddial gwaed y diniwed; ond yr oedd y bobl wedi dirywio erbyn hyn, ac eiddilod yn eu harwain. Cyfnod tywyll yn hanes y wlad hon oedd adeg yr "adferiad;" oblegid pan ddaeth Charles yr Ail i'r orsedd, daeth a lliaws o ddrygau i'w ganlyn, a'r rhai hynny o natur mor farwol fel ag i andwyo bywyd y genedl fwyaf rhinweddol. Ymledodd penrhyddid, twyll, ac aflendid y llys fel haint dros y deyrnas, ac ymaflodd pydredd a llwfrdra yn y corff gwladwriaethol nes darostwng cymdeithas i gyflwr diraddiol a galarus. Gwir a ddywed Bolingbroke gyda golwg ar deyrnasiad Charles,—“Pan y mae pobl ryddion wedi cymeryd eu darostwng mor isel fel ag i blygu eu gliniau fel camelod i gymeryd eu pynori a'u marchogaeth gan y nesaf atynt, nid yw ryfedd yn y byd iddynt ddyfod o'r diwedd i deimlo ffrewyll ac yspardyn y gorthrymydd; oblegid y mae y gormeswr, boed ef frenin neu weinidog, yn bur debyg i'r diafol, ac yn neillduol felly pan yn tentio ac yn poenydio,— yn gwneyd troseddwy'r er mwyn yr hyfrydwch o'u cospi.” Yr oedd anwybodaeth, twyll, a chreulondeb, wedi disgyn fel barrug ar y deyrnas, fel mai eiddilod diegni oedd llawer o arweinwyr y bobl, ac nid oedd ond ychydig o ŵyr cryfion i'w cael yn unman yn y wlad. Nid oedd yn Ysgotland, medd yr hanesydd Buckle, nemawr un gwerth son am dano ond Burnet; ac am Gymru, gwlad enedigol Jeffreys, ni cheid yma ar y pryd odid i fardd gwreiddiol ond Huw Morus o Bont y Meibion. Ni chyhoeddwyd ond wyth ar hugain o lyfrau Cymraeg yn ystod y ganrif honno, a thystiai Walter Caradoc nad oedd yng Nghymru ddim mwy nag un pregethwr ymarferol ar gyfer pob sir trwy y Dywysogaeth. Nid oedd cyflwr Lloegr nemawr gwell, os nad mewn rhai ystyriaethau yn waeth; ac am yr ychydig goleuedig ac anibynnol eu meddyliau, yr oeddynt yn y perygl o gael eu cymeryd i'r carchar, ac o'r carchar i'r dienyddle. Dyma y sefyllfa a'r awyrgylch gymdeithasol ym mha un y dygwyd Jeffreys i fyny, ac yn: mha un y ffurfiwyd ei gymeriad brwnt; ac nid rhyfedd i ansoddau gwaethaf a hacraf ei natur gael eu dad-blygu i'r fath raddau.

Mae yn ddiambheuol fod Jeffreys yn ddyn gwir alluog,—y mwyaf galluog, fe allai, a gododd yng Nghymru yn ei oes ef, ac er ei holl ddrygau, daeth yn un o gyfreithwyr pennaf y deyrnas.

Anffawd fawr ei fywyd oedd iddo gael ei wneyd yn Arglwydd Brif Farnwr, a thrwy hynny ddyfod yn offeryn yn nwyllaw rhai gwaeth nag ef ei hun, sef Charles a James; oblegid ^{Al ter condemnio Jeffrey's} yr oedd efe yn dal i ddweyd hyd ddydd ei farwolaeth nad ydoedd efe ddim wedi bod hanner mor greulon ag y dymunasai ei benadur iddo fod. Ond er ei holl ddrygau mae braidd yn od fod y Cymro galluog hwn yn cael ei ddal allan fel prif gasddyn ei oes, a bod agos i bob hanesydd yn pentyrru pechodau yr amseroedd ar ei ben, a'i arwain i'r anialwch Beth yw yr achos fod rhag a melldith pob oes yn cael eu pentyrru ar ben y dyn hwn, pryd yr esgusodir ereill oeddynt ar bob ystyriaeth llawn cyn waethed ag yntau? Heb son am Bacon, a Finch o'i flaen, yr oedd clerigwyr Henaduriaethol Ysgotland, fel y dywed Mr. Buckle, ar ol cael y gyfraith i'w dwylaw eu hunain, yn euog o weithredoedd oeddynt mor greulon a gwaedlyd a dim a wnaeth Jeffreys; a gellir rhoddi creulonderau y Puritaniaid tuag at y Crynwyr (yn America). yn yr un restr. Ond ceisir esgusodi y creulonderau hyn, am eu bod yn cael eu cefnogi gan y "farn gyhoeddus;" ond ai nid oedd y farn gyhoeddus yn gefnogol i greulonderau Jeffreys wrth gario allan ewyllys ei benadur? Yr oedd y Cymry, yr Ysgotiaid, a phlaid gref yn Lloegr yn bleidiol i'r Stiwartiaid, ac yn Jacobiaid i'r carn.* Yr oedd "hawl ddwyfol" y brenin yn cael ei phregethu megis ar bennau y tai, a gwyddom fod uchelwyr Cymru, y pryd hwnnw beth bynnag, yn ystyried llais y brenin yn llais Duw; ac nid yw yn anhebyg nas gallasai Jeffreys, yng ngrym ei deyrngarwch, fod yn edrych ar ei waith yn anfon y rhai a dybid yn elynion y brenin i'r dienyddle, fel gwasanaeth i Dduw. Yr oedd y Cymry mor deyrngarol i'r teyrn gorthrymus James fel yr oeddynt yn barod i dywallt eu gwaed yn ei achos; ac er mor atgas yr ymddengys creulonderau Jeffreys i ni, y mae yn deg i ni gydnabod y gallasai ei fod yntau yn gweithredu i ryw fesur o dan deimlad o deyrngarwch i'w benadur. Nid oedd yn benboeth-ddyn crefyddol fel Laud, ni fradychodd ei gyfeillion fel Arglwydd Bacon, ac ni werthodd anrhydedd ei genedl ei hun am ffafrau estroniaid, fel rhai o'r tywysogion Cymreig.

Mae wedi cael ei gondemnio a'i felldithio gan amryw ysgrifren-

* Mae llythyr ar gael ac yng nghadw ym Mheniarth, a ysgrifennwyd gan Iarll Mar o Fwrdd Cyngor yn Innsbruck, Ebrill 7, 1717, at Lewis Pryce, Yaw., Gogerddan, yn hysbysu y bwriedid rhuthro ar oror Cymru o blaid yr "Ymhonnwr" Charles Edward Stewart, ond ni wnaed. Yr oedd amryw o uchelwyr Cymru heblaw Syr Watkin yn casglu milwyr ac arian yn 1745, er cynorthwyo yr "Ymhonnwr" i feddiannu gorsedd Lloegr; a phan oedd y Cymry ar groesi yr Hafren, anfonodd y tywysog am iddynt droi yn ol, fod gormod o waed gwyr dŵrion wedi ei dywallt mewn achos oedd yn anobeithiol.

wyr oherwydd ei iaith front, a'i ymddygiad dibris tuag at yr enwog Baxter pan oedd achos y gŵr hwnnw ger ei fron; ond yr oedd llawn cymaint o ryw gellweiriaeth ac ysmaldod yn yr helynt ag oedd o lid a chreulondeb. Mae yn debyg fod yr Arglwydd Brif Farnwr mewn tymer anaddas ar y pryd i drafod achos gŵr mor bwysig; oblegid yn ol yr adroddiad cawn iddo ddweyd wrth ddadleuydd Baxter,—“ Mr. Wallop, pam yr ydych byth a hefyd yn ymhel âg achosion budron fel hyn?” Ac yng nghwrs y treial dywedai yn gellweirus,—“ Yr wyf yn gweled fy mod i drafod achos *sant* heddyw; wel, mi wn amcan pa fodd i ddelio â saint yn gystal ag â phechaduriaid. Draw acw yn Palace Yard, chwi gewch Oates yn sefyll yn y Pillory, a honna ei fod yn dioddef dros y gwirionedd; ac felly yr haera Baxter; ond yr wyf fi yn meiddio dweyd, pe safai Baxter wrth ochr Oates o'r tuallan i'r Pillory, y byddai y ddau ddyhiryn gwaethaf a fedd y deyrnas wedi dyfod o hyd i'w gilydd.” Yr oedd y fath ymadrodd yn hollol anheilwng gyda golwg ar y diwygiwr llafurus, er iddynt gael eu hadrodd hwyrach “rhwng difri a chwareu.” Mae'n sicr fod Jeffreys yn adnabod Baxter yn dda, ac o safle y Prif Farnwr, dinesydd go aflonydd oedd awdwr “Tragwyddol Orffwysfa y Saint.” Yr oedd Baxter, er ei holl lafur a'i dduwioledeb, yn cael edrych arno gan lawer fel gŵr lled gwerylgar; wedi ymgeintach hefo Cromwell, croesawu Charles yr Ail i'r orsedd, a ffyrnig ymddadlu â'r Crynwyr a'r Bedyddwyr; yr oedd yn cael ei hun mewn dwfr berwedig yn barhaus, a beunydd a beunos a'i fyseidd ym mrywes pobl ereill.

Wedi i Jeffreys gael ei ddyrchafu yn Arglwydd Ganghellydd, nid oedd a wnelai nemawr mwyach â'r cortyn a'r gyllell, ac yn groes i ddisgwyliadau llaweroedd, fe droes allan i fod yn ^{Arglwydd} Ganghellydd. swyddog gwir alluog. Dywed y Llefarydd Onslow ei fod yn “Ganghellydd gwir fawr,” a chydag achosion cyfreithiol dyrys, ei fod yn gallu eu trafod gyda llwyddiant a chywirdeb anghydmorol bron. Cliriodd allan o'r Canghell-llys lawer o achosion oedd wedi cael eu hoedi i amcanion anghyfiawrn, a throdd ei wyneb yn erbyn y llygredigaeth a'r llwgrwobraeth oedd wedi halogi y llys. Mae yn ddiarnheuol fod Jeffreys yn amgenach Canghellydd na'i raglaenydd, Arglwydd Bacon; ond gan fod Bacon yn feddiannol ar ryw fath o bersonoliaeth ddwbl, y mae ei rinweddau fel athronydd wedi cuddio ei ddrygau fel Canghellydd; ac y mae disgeirdeb ei draethodau yn ein hatal rhag edrych ar ei lygredigaeth, ei lwgrwobrau, ei fradwriaeth, a'i dwyll-chwareuon politicaidd; ac mae yn bosibl, pe cawsai Jeffreys ddeng mlynedd o amser i weithredu fel Canghellydd, hwyrach y buasai yn gwneyd rhyw gymaint o iawn am y drygau a gyflawnodd fel Arglwydd Brif Farnwr.

Onid yr oedd y diwedd yn ymyl; pallodd amynedd y Saeson i oddef James ddim yn hwy ar yr orsedd, ac wedi i'r brenin ynfyd a drygionus hwn ffoi am ei fywyd, gwelod Jeffreys fod dydd dial wedi ei ddal yntau; ac wedi ymwisgo yn nillad morwr, eillio blew ei aeliau, a chuddio ei ben mewn het lydan darllyd, fe ffodd mewn dychryn, ond daliwyd ef yn Wapping; dygwyd ef o flaen y Maer, ac yn unol â'i ddymuniad dygwyd ef i'r Tŵr, yn cael ei warchod gan ddwy gatraud o filwyr rhag llid y bobl; ac yno y bu farw yn yr oedran cynnar o ddeugain mlwydd oed.

Yn y pellder o ddau cant o flynyddau oddiwrtho, mae yn anhawdd gwneyd tegwch â chymeriad y Cymro galluog hwn, gan ein bod yn ymddibynnu am ein gwybodaeth am dano ar hanesiaeth; ac mae hanesiaeth, medd Walpole, yn gelwyddog. Pa fodd bynnag, mae bywyd y dyn rhyfedd hwn yn llawn o rybuddion ac addysg i bobl ieuainc Cymru; ac yn hytrach na dweyd fel Gweirydd fod "yu gas gennym ei fod yn Gymro," gadewch i ni ddweyd gyda golwg arno, fel y dywedwyd am Bolingbroke,—“Druan o'r natur ddynol.”

Y LLAETHFERCH.

MAE cofio y llathferch honno
Ganfyddais wrth odreu'r bryn,
Yn gwneyd i fy meddwl lithro
I ganol rhyw freuddwyd gwyn.
Ni welais un eneth eto
Ddifywnai ei phrydweidd llon,
Ac nid oes a liwiwyd gan angel na
breuddwyd
Ddeil ei gydmaru â hon.

Cychwynnai i'w thaith yn foreu
Dan ganu i'r ddôl gerllaw,
A rhodiai ymlaen dan chwareu
Y llestri oedd yn ei llaw.
Ei gwallt oedd fel aur fodrwyau
Yn hongian i'w harlaes dlos,
A drochwyd gan awen yng ngawlwrid
yr heulwen
Wrth fachlud ym min y nos.

O'i chwmpas y glaswellt tyner
A blygent dan wlith di ri,
A llygad pob gwllithyn gloywbêr
Chwenychai ei darlun hi.
O'i blaen y gorweddai'r gwartheg
Mewn porfa dan gysgod llwyn,
c O! 'roedd pob llannerch, drwy'r
boreu, a'r laethferch
Yn frwd o farddonol swyn.

Ysgol Ramadegol Emlyn.

Newidiodd ei chân o'r diwedd,
A'i llais a wtreiddiai'r ddôl
Wrth alw ei gwartheg glanwedd
Orweddent ymlaen ac ol.
Ond eto, cyn gorffen godro
Fe'i clywais yn dweyd fel hyn,—
Wrth weld cyfatebiad mewn rhywbeth
i'w theimlad
“Mae cariad i gyd yn wyn!”

O! ddwysed yw nerth dylanwad
Amgylchoedd i harddu'r fun!
Mae'n tybio mai gwyn yw'r cread
Am mai gwyn yw'r laeth ei hun;
Dychwelai o'i thaith foreuol
Dan garu y gwyn dros ben!
Ac O! meddwn innau, pan gollais ei
chamrau
Mae'r llathferch yn eneth wen!

Mae'r llathferch yn laethferch eto,
A'i gwyneb o hyd dan wên,
Mae'n myned o hyd i odro
I'r ddôl o'r amaethdy hen.
Y gweision sydd yn ei mholi
Am ddiod gynhaliol wyn.
'Rwyf finnau mewn traserch am wyn-
der y llathferch
Sy'n trigo wrth odreu'r bryn!

NANTLAIS.

GWLAD HAUL CANOL NOS.

WEDI noswaith hapus o forio ymysg yr amryw ynsoedd ar hyd y glennydd, yr oeddym erbyn amser boreufwyd wrth y *pier* yn Trondjhem. Ar ein cyfer pan yn glanio yr oedd ystorfa glo, ac wrth edrych ar y lle, braidd na thybiasom ein bod wedi glanio mewn porthladd yn ein gwlad ni. Ym mhob tref lle y glaniasom yr oedd y prif fasnachdai yn anfon eu cynrychiolwyr i'n cyfarfod, gan erfyn arnom dalu ymweliad â'r gwahanol lleoedd.

Mae y dref rhwng y *fjord*, yr afon, a'r porthladd, bron wedi ei hamgylchynu â dwfr. Hynod mor newydd yr oedd popeth yn ymddangos i ni pan yn myned trwy y ddinas mewn cerbydau, ac ymlaen am tua phum milltir i'r wlad. Yr oedd cadben y llong yn yr un cerbyd a ni, gŵr mewn oed, un hynod dawel, prin y clywsom ei lais ar hyd y fordaith, ond eto i gyd yr oedd disgyblaeth y llong yn ardderchog. Tra yn cerdded i fyny yr elltydd yr oeddym yn cael mwynhad wrth hel mefus a blodau ar hyd ochr y ffordd.

Dyna oedd diben y daith,—gweled dau raiadr ar yr afon Nid. Er nad yw y ddisgynfa ond rhyw bedwar ugain troedfedd, eto y mae y cyflawnder sydd yno o ddwfr yn gwneyd yr olygfa yn darawiadol iawn. Dyna ydyw,—rhuthr anorchfygol, yn berwi ac ewynu yn ofnadwy, tra y mae swm ei ruad i'w glywed trwy yr holl fro. Ychydig ymhellach y mae yr un afon yn codymu, ond nid ydyw yr olwg mor erwin arni ag ar y llall, oblegid ei bod yn lletach, a'r dwfr wedi ei rannu. Wedi eu hadeiladu mewn lleoedd sydd yn edrych yn hynod beryglus y mae amryw o felinau coed.

Y mae yn Trondjhem 25,000 o drigolion, a hi ydyw y ddinas fwyaf yn y byd mewn safle mor ogleddol. O fryn gerllaw cawsom olwg eang a dymunol dros ben ar y dref a'r wlad oddiamgylch. Fe ddywedir fod llawer o'r trigolion yn gyfoethog, ac yn hynod am eu hynawsedd a'u caredigrwydd.

Rhwng ein llong ni a'r dref yr oedd y porthladd nesaf i mewn, ac ystordai mawrion wedi eu hadeiladu mewn rhan uwch ben y dwfr. Y mae y rhan fwyaf o ystrydoedd y dref yn mesur o gant i gant ac ugain o droedfeddi o led, er mwyn lleihau y perygl oddiwrth dân, yr hyn sydd bwysig iawn mewn tref lle mae y tai o goed. Yn cysylltu â'r dref yr oedd pont henafol

iawn, ac yn y canol yr oedd darpariaeth at ei hagog i'r llongau fyned trwodd. Y mae pobl Trondjhem yn credu mewn *signboards* mawr, ac hefyd mewn darluniau o'r pethau sydd ganddynt ar werth. Mae yn lle hynod o ddyddorol,—cyflawnder o fasnachdai, ac amryw o westai ac o adeiladau cyhoeddus da. Yr oedd ganddynt nwy, y telegraph, a'r telephon, ac ar gonglau rhai o'r prif ystrydoedd yr oedd swyddfeydd bychain tlws dros ben mewn cysylltiad a'r telephon, wedi eu hadeiladu o goed.

Edrychir ar Trondjhem fel dechreufah teyrnas Norway, ac am ganrifoedd lawer yr oedd yn brif-ddinas. Yr adeilad mwyaf pwysig ydyw yr eglwys gadeiriol, lle y coronir y brenhinoedd. Saif yr eglwys ar y llannerch lle yr adeiladwyd yr eglwys Gristionogol gyntaf yn Norway.

Dwy reilffordd a welsom ar ein holl daith,—un yn Bergen, ar llall yn Trondjhem, yn rhedeg i Sweden. Yr oedd yr orsaf yn adeilad lled wych, ac, fel ychydig o adeiladau ereill yn y dref hon, wedi ei gwneyd o feini.

Ymhob lle y buom yr oeddym yn cael ein prydas bwyd ar fwrdd y llong, os mewn cyrraedd. Y diwrnod hwn yr oeddym ar ol boreufwyd wedi cael *drive* o ddeng milltir gan ddychwelyd i'r agerlong erbyn *luncheon*. Ond yn y prydawn, pan yn gwled y ddinas, yr oeddym wedi ein cyfarwyddo i dalu ymweliad a café, yr hwn sydd hynod am ei ddanterthion, yn agos i'r North Cape Hotel, ac yn wir pryd o de doniol a gawsom.


Ychydig mewn cymhariaeth o deithwyr sydd yn myned yn uwch i'r gogledd na Trondjhem, ond y mae y rhai sydd yn rhwym am y North Cape a ffordd bell iawn ganddynt Trot i'r gogledd. i fyned, oblegid nid ydyw Trondjhem ond oddeutu hanner y ffordd yno o Edinburgh. Gadawsom yn hwyr y dydd, ac wedi mordwyo am beth amser, yr oeddym allan o'r *fjord*, ac yn llinynnu ein cwrs rhwng yr ynysoedd. Ar ol noswaith o gwsg da, cyrhaeddasom erbyn y boreu at ynys a elwir Torghatten, hynodrwydd pennaf yr hon ydyw fod tynel naturiol trwy y mynydd, rhyw 450 o droedfeddi uwchlaw y môr. Tra yma gwelsom amryw o longau yn llwythog o goed. Wedi angori awd i'r lan yn y cychod. Fel yr oeddym yn dringo i fyny yr oedd yr olygfa yn ehangu, ac ynysoedd dirif yn dod i'r golwg. Yr oedd gennym ddau *pilot* oddiyma ymlaen, a'r syndod oedd sut yr oeddynt yn gwybod y ffordd trwy y fath dryblith o ynysoedd. Yr oedd y llong yn myned trwy leoedd mor gul, a'r troadau mor sydyn rhwng y mynyddoedd fel ag yr oedd yn rhaid arafu, ac hefyd roddi rhybudd gyda'r hŵter o'n presenoldeb rhag fod llestr arall yn y cyfwng ond o'r golwg. Wedi cyrraedd y tynel yr oedd yr olygfa yn dra eang, ar mynydd yn hynod o dlws gan fel yr oedd wedi ei fritho â blodau, ac â llys a ffrwythau

helaethrwydd o
 glanio, byddai y
 gyda hwy yn ol,
 a hwech o'r gloch,
 a dychwelyd o'r
 ol y bu rhai o'n
 Tra yn pasio yr
 el ei ddangos gan
 d yn chwifio eu
 ter o ganghennau.
 an, gan mor fawr





CHWARR (O bell).

ac iddynt saith o
 a elwir y Saith
 yddoedd o wyrdd
 bychain, oll yn
 dlos iawn. Erbyn
 Arctic regions, ac
 uchryd y llinell. Yr
 chwibaniad gan yr
 Hestmand, yr hon
 ar y llinell. Y
 fel darlun o wr ar
 a'r marchog; het
 môr. Tua deg o'r
 addisgleirdeb, ac ni
 na naw munud a'r



ein taro yn rhyfedd-
 id aros am awr ac un
 efn.—oblegid yr oedd
 es, i gychwyn diwrnod
 m wedi dod i olwg
 digyffelyb hyn yn
 dd, ac er mwyn rhoddi
 llong allan o'i chwrs
 o yng nghymdogaeth
 y daethom atynt tua
 y Werydd ar gyfer
 iwy i'r gogledd yr
 o faintioli mwy.



ae y Maelstrom, ag y
 n dano. Dyna ydyw,—
 a gorlifant y dyfr-
 ynnyd ag y desgrifir ef,
 lled anesmwyth pan
 edir pan y bydd yn
 llanw a chynddeiriog-
 er fyned yn agos i'r lle,
 i uchder mawr ar y
 ddiroedd oddiyno. Yr
 nthegeg cant o filliroedd
 mynyddoedd mawrion.
 o eu cyffelyb o ran eu
 oeddynt yn fawreddog
 u copau serth; ac yng
 ul, yr oedd y mwsvgl
 yn gorwedd yn eu



cesseiliau, yn gwneyd golygfa nas anghofir hi am lawer o amser. Yr ynysoedd hyn ydyw canolbwynt pysgodfa y penfras (*cod*). Bydd yn y tymor pysgota bob gwanwyn gynifer a 30,000 o ddynion yn ymgasglu yno o bob parth o'r wlad, bydd ganddynt 8,000 o gychod at y gwaith; mor fyw o bysgod yw y dyfroedd fel nad oes eisiau abwyd o gwbl, dim ond bach gloew, a gellir dal faint a fynnir. Mae cynefindra y bobl hyn a'r môr yn eu gwneyd yn eofn a dewr; ond y mae eu bywyd yn un caled iawn, a'r peryglon y maent yn agored iddynt oddiwrth ystormydd, damweiniau, ac afiechyd, y fath ag sydd yn achosi marwolaeth rhai cannoedd bob tymor.

Tua phump y prydawn yr oeddynt yn paratoi y cychod er glanio mewn pentref o'r enw Harstad, yn Ynys yr Hindw, un o ynysoedd y Loffoden. Yr oeddym wedi gadael y mynyddoedd cribog o'r tu ol, a'r pentref bychan o'n blaen, lle yr oedd ystordai mawrion, a nifer o agerlongau. Pysgotwyr ydyw braidd yr oll o bobl Harstad, a lle dymunol ydyw yn yr haf, ond pan y troir yr ochr arall i'r ddalen o'u hanes, yr ydym yn cael fod y gauaf y fath nad ydynt yn cael digon o oleuni dydd i fedru darllen am bum mis. Aethom ymlaen rhyw dair milltir i bentref bychan o'r enw Trondnaes, ac yr oedd y golygfeydd ar y ffordd yn ddymunol iawn. Y mae llawer o lechi yn cael eu defnyddio yn y parthau hyn; y maent yn dewach ac yn fwy llwyd-las na llechi ein gwlad ni, a bron yn ddieithriad gosodir hwynt ar draws y tô. Wrth fyned ymlaen yr oedd yr olygfa yn ehangu, —y *fjords*, ynysoedd, a'r mynyddoedd yn amlhau. Mewn amryw o'r cilfachau yr oedd ystordai at y fasnach bysgod. Y mae deddfau goleuni a'r cysgodion yr un yma ag ydynt ymhob lle, a hynod mor dlws oedd yr adlewyrchiad ar y gwahanol *fjords*. Anhawdd gwahaniaethu rhwng y gwirioneddol a'r gwrthlun, gan mor berffaith oedd yr adlewyrchiad yn y dwfr.


Dyma ni yng ngolwg Trondnaes. Aethom i'r eglwys, yr hon, oddifewn, a edrychai yn hen ac adfeiliedig. Yr oedd y gweinidog yno yr un pryd a ni, a chafwyd pob hysbysrwydd ganddo. Yr oedd yno organ, ac oriel i'r côr, ac yn ymyl y pulpud yr oedd dau fwrdd du, ac arnynt wedi ei ysgrifennu â sialc rif yr emynnau a ganwyd yn y gwasanaeth y Sabboth blaenorol. Hynod o'r dyddorol i ni oedd y tro a gawsom ymysg y beddau. Yr oedd golwg drefnus iawn ar y fynwent, ac ar y beddfeini, ond o ran hynny, nid meini oeddynt, ond coed braidd oll. Amlwg oedd fod y brodorion yn talu sylw manwl iddynt, ac yn eu lliwio yn fynych, oblegid yr oeddynt yn drefnus a glân. Golwg pabyddol sydd ar y beddau hyn, ond nid Pabyddion ydyw y bobl, ond Protestaniaid selog. Erbyn hyn yr ydym yn ol yn Halstad. Fel yr oeddym yn dychwelyd i'r ager-

Beddau.

long, yr oedd dyfroedd y *fjord* mor glir a'r grisial, yr hyn oedd yn ei gwneyd yn bosibl i weled y gwaelod mewn dyfnder mawr, a rhyfedd yr olwg odidog a gawsom ar yr amrywiol chwyn a'r môr gregin. Tra yr oedd y llong yn paratoi i hwylio, yr oedd amryw bleser-gyehod yn ymsymud oddeutu yn yr awelon hwyrddydd hafaidd. Yr oedd un o'r cychod yn cadw yn lled agos atom, a gallem dybied fod y merched ieuainc oedd ynddo yn cymeryd dyddordeb mawr yn ein llong ni, a'i llwyth o estroniaid, oedd newydd dalu ymweliad a'u tref fechan hwy. Ar y llaw arall, y mae y ffaith ein bod ninnau wedi cymeryd dau ddarlun o honynt yn profi eu bod hwythau yn denu cryn lawer o'n sylw ninnau, ac nid rhyfedd, oblegid yr oedd yr olwg arnynt, —y cwch, a gwisgoedd haf prydferth y merched, a'r adlewyrchiad byw yn y dwfr, a'r cyfan dan effeithiau rhyfedd goleuni hwyrddydd y parthau gogleddol hyn, yn gwneyd yr olygfa yn un swynol dros ben. Yr oedd yn ddeg o'r gloch pan y gadawsom Halstad, ac yr oedd y noswaith, os nos o gwbl, i fod yn un fyth gofiadwy. Y lle goreu i weled yr haul ganol nos, neu i weled yr haul trwy y dydd a thrwy y nos, ydyw o ben Penrhyn y Gogledd; nid am nad ellir ei weled o lecedd ereill, lle nad oes mnyddoedd rhyngom a chyfeiriad machlud haul. Ond oherwydd ei bod yn aml iawn yn niwl tew ym Mhenrhyn y Gogledd, ac felly yn siomedig i deithwyr, trefnodd ein cadben gwrs y llong, ac amser cychwyn, fel ag i ni gyrraedd y môr agored erbyn hanner nos. Yn fuan ar ol unarddeg yr oedd ehangder o fôr ar chwith y llong, a'r haul yn y golwg, ond gan ein bod

Yr Haul. yn teithio yn gyflym, a'r haul i'w weled yn mynd yn yr un cyfeiriad, gwelwyd yn fuan y buasai yr ynys fawr fynyddig at yr hon y dynesem, yn cuddio gwyneb yr haul oddiwrthym. Felly, am chwarter i hanner, rhoddodd y Cadben orchymyn i atal y peiriannau. Meddiennid ni gan deimladau rhyfedd iawn, ac anhawdd ydyw desgrifio yr argraff ar ein meddwl yn ystod yr amser hwn, yn unigrwydd a thawelwch y lle, pan y syllem am y tro cyntaf ar y fath ryfeddod. Y diwrnod yr oeddym ni yn gadael cartref, machludai yr haul un munud ar bymtheg wedi wyth. Pan y cyrhaeddasom ddeheubarth Norway, yr oedd yn machlud bedwar munud a deugain wedi wyth, ond erbyn i ni gyrraedd cylch y Pegwn, yr oedd yn naw munud a'r hugain wedi unarddeg arno yn diflannu, ac yn codi drachefn ddeugain munud wedi hanner nos. Felly yr oeddym wedi ein paratoi i raddau at weled y rhyfeddod, gan y machludai yr haul yn hwyrach, hwyrach, bob dydd, fel y teithiem tua'r gogledd, hyd nes o'r diwedd i ni fyned mor bell fel na fachludodd o gwbl. Er hynny, yr oedd rhyw syndod ac arswyd dirfawr yn ein meddiannu wrth syllu ar yr haul, yr hwn, yn lle

udai ymlaen tra yn
 Mewn gwawl arlun
 i'r lleuad, o herwydd
 hefyd ar y môr. Y
 oleuni mawr o gylch
 An ar y môr, ond fod
 rychder digyffelyb yr
 och ac aur-afalaidd,
 y *sensitive plate* a



oeddyd wedi teithio
 ar haul mewn llawn
 aur-goch oedd o'i gylch
 codiad haul. Y mae yn
 o'r ddaear, lle y mae
 ddeall pa fodd y mae
 yn sicr na ddywedai
 rryd, fe geisiwn egluro
 nc.

Y mae dwy ffaith yn hysbys ddigon i ni, sef yng nghyntaf, fod y ddaear yn rhoddi tro anferth o amgylch yr haul un waith bob blwyddyn, ac yn ail, fod y ddaear yn rhoddi tro Y ddaear yn troi. cyflawn ar ei hechel bob pedair awr a'r hugain, yr hyn sydd yn achosi dydd a nos. Yr esboniad am ddydd hir a dydd byr, ac am y gwahanol dymhorau, ydyw y ffaith fod pegynau y ddaear pan y mae ar ei hymgyrch o gylch yr haul bob amser yn cyfeirio yr un ffordd,—un i'r gogledd, ac wrth gwrs, y llall i'r de. Pe buasai y ddaear yn troi y pegwn, fel y byddwn ni yn troi ein gwynebau pan yn gwneyd cylchdro, ni fuasai dydd hir a dydd byr, ond diwrnod a noswaith yr un hyd a'u gilydd dros wyneb yr holl ddaear, ac ni fuasai amrywiaeth tymhorau yn bosibl, ond hinsawdd yr un fath o ddechreu i ddiwedd y flwyddyn. Dydd yr un hyd, a thywydd tebyg i'r peth yw yn niwedd Mawrth, a gawsem ni yn y wlad hon trwy gydol y flwyddyn, heb na gauaf oer na haf poeth.

Ond y mae y Creawdwr yn ei fawr ddoethineb wedi trefnu, trwy ffordd hynod syml, i ni gael yr amrywiaeth sydd mor angenrheidiol tuag at ein cynhaliath a'n cysur. Mae yr haul ar y dydd hwyaf yn codi yn y Dwyrain Ogledd Dwyreiniol (E.N.E.) am bedwar munyd a deugain wedi tri, ac yn machludo yn y Gogledd Orllewin Gogleddol (N.N.W.) am ddeunaw munud wedi wyth. Ar y dydd byrraf y mae yr haul yn codi yn y Deheu Ddwyrain Deheuol (S.S.E.) am dri munud wedi wyth, ac yn machludo yn y Gorllewin Deheuol Gorllewinol (W.S.W.) am ddeng munud i bedwar. Mae yr haul yn y golwg ar y dydd byrraf agos yr un faint o amser ac y mae o'r golwg y dydd hwyaf.

Y mae troad ein byd ni ar ei echel yn gwneyd i'r haul ymddangos fel pe yn myned ar gylch. Tua'r cyhydedd, hanner y cylch sydd yn y golwg bob dydd o'r flwyddyn; ond y mae ein gwlad ni gymaint i'r gogledd, hyd nes yr ydym yn gweled tri chwarter y cylch yn yr haf, ac fel yr eir tua'r gogledd, y mae mwy o'r cylch i'w weled, nes o'r diwedd, pan y cyrhaeddir cylch y Pegwn, y mae yr oll yn y golwg, gan fod yr haul yn ei fan isaf ar hanner nos yn sefyll yn uwch na'r terfyn-gylch (*horizon*). Wrth edrych ar yr haul hanner nos, yr ydym yn gwynebu y gogledd. Mae y pegynau yn cyfeirio i'r un man trwy y flwyddyn, a gogwydda y pegwn gogleddol at yr haul yn yr haf. Y canlyniad ydyw nad yw y rhan honno o'r ddaear sydd oddifewn i gylch y Pegwn yn myned allan o olwg yr haul, ac felly nid ydyw tywyllwch nos yn cyffwrdd a'r rhan honno yn ystod canol haf. A dyna ydyw yr esboniad am haul canol nos; oblegid fe welir nas gall wneyd dim gwahaniaeth faint o weithiau y try y byd ar ei echel, nid yw yn bosibl iddi fyned yn nos tra y bydd y

rhan honno o'r ddaear sydd o amgylch y pegwn yn gwynebu yr haul trwy yr haf. Yr un modd gyda golwg ar fisoedd o nos yn y gauaf, pa mor aml bynnag y try y byd ar ei echel i wneyd dydd a nos, nid ydyw yn bosibl i'r rhan sydd oddi-fewn i gylch y Pegwn gael dydd am fisoedd, oblegid wrth droi nid yw y rhannau hynny yn dod o gwbl i olwg yr haul, gan fod gogwydd y Pegwn gogleddol oddiwrth yr haul yn y gauaf. Nid wyf wedi son ond am y Pegwn gogleddol, ond y mae yn hysbys fod yr amgylchiadau yr un yn y Pegwn deheuol, a phan y bydd yn nos hir yn y gogledd, y mae wrth reswm yn ddydd hir yn y dê.

Y Pegwn
Deheuol.

Er ei bod hi yn hwyr iawn pan aethom i orffwys, eto ar ol ychydig oriau o gwsg, oblegid yr oedd yn angenrheidiol mynd i'r gwely hyd yn nod yn y lledrodau (*latitudes*) hyn, lle y mae yn ddydd parhaus, yr oeddyr ar y dec erbyn saith yn y bore, pan y deallasom ein bod wedi angori er ys pedwar o'r gloch mewn bau prydferth a amgylchynid gan ynysoedd, ac o'n blaen yr oedd pentref o'r enw Gibostad.

Yr oedd y dydd o'r blaen wedi bod yn un pwysig neillduol, ac yr oeddyr y diwrnod hwn eto i gael golygfeydd nad ydynt i'w cael mewn un lle tu allan i'r gororau hyn, gan ein bod Gwersyll y
Lapiaid. i dalu ymweliad â gwersyll o Lapiaid. Wedi cerdded ychydig i'r wlad, daethom i olwg y gwersyll, ac yn sicr, lle hynod ddeniadol oedd i bawb, ac yn neillduol felly i photograffwyr. Y mae Sweden a Norway, fel y gwyddoch, yn gorwedd ochr yn ochr, ac y mae cyfraith wedi ei phasio sydd yn caniatáu i Lapiaid Sweden i ddod i Norway at lannau y môr yn yr haf, ac hefyd i Lapiaid Norway i fyned i Sweden yn y gauaf. Felly y cartref haf a welsom ni. Yn ymyl y gwersyll yr oedd gyr o geirw. Gwrthrychau helwriaeth yn unig oedd y rhai hyn i gychwyn, ond erbyn hyn y maent wedi eu dofi, a dyma brif foddion cynhaliaeth y Lapiaid mewn bwyd, dillad, ac offerynau. Yr oedd y cŵn yn hardd, ac yn tynnu sylw neillduol, ni raid ond erchi iddynt, ac ant yn y fan ymhell i'r mynyddoedd, a deuant a'r ceirw i lawr i'r gorlan. Mawr oedd y twrw yno, oherwydd cyfarthai y cŵn bron ar hyd yr amser, o groesawiad, mae'n debyg, i'r dieithriaid.

Yr oedd y foneddiges henaf ar y llong wedi gweled dros drigain a deg o flynyddoedd, ac eisiau gorffwys oedd arni, meddai, dyna pam y cododd docyn i Benrhyn y Gogledd. Yr oedd yn wrol iawn i gychwyn i'r fath daith, yn enwedig gan ei bod yn teithio wrthi ei hun. Pan yn edrych ar y Lapiaid, tripiodd ei throed, ac ysaigodd ei garddwrn. Er ei bod wrthi ei hun, yr oedd pawb yn talu sylw mawr iddi, a phan y briwodd dipyn, yr oedd y pum meddyg oedd ar y llong am y cyntaf yn gwein-

yddu pob ymgeledd iddi. Yr ieuengaf ar y llong oedd geneth ddeuddeg oed o Glasgow yn teithio gyda'i hewythr. Yr oedd yn llawn bywyd, a mawr oedd ei hawydd am gael ei darlun gyda'r Lapiaid.

Y mae braidd yr oll o boblogaeth Norway o darddiad Goth-aidd, ond y Lapiaid a'r Finiaid ydyw cyn-frodorion y wlad. Allan o'r 18,000 Lapiaid, y mae mil a saith gant o honynt yn crwydro o le i le am borfeydd. Y mae gan rai o'r amryw deuluoedd sydd yn ymsymud gyda'u gilydd gynifer a phedair mil o geirw, ac hawdd ydyw credu y ffaith fod ymrafaelion mynych rhyngddynt hwy a phoblogaeth sefydlog y wlad.

Yr oedd yn boeth iawn y diwrnod yr oeddym ni yno, er hynny gwisgai y bobl hyn ddillad wedi eu gwneyd o grwyn ceirw, ac esgidiau a *leggings* o grwyn mor-filod, a'r rhai hynny mor dyn am eu coesau nes ein synnu pa fodd y medrid mynd i mewn iddynt. Y mae y dillad hyn yn para yn hir iawn, ac yn cael eu trosglwyddo i lawr o oes i oes.

Iaith y wlad ydyw y Ddanaeg (*Danish*), gydag ychydig gymysgfa o'r hen iaith, sef yr hen Nors. Ynys yr Ia (*Iceland*) ydyw yr unig fan y siaredir yr hen iaith yn ei phurdeb a'i grymusder, a lle yr ymfudodd rhai o Norway yn y nawfed ganrif.

Nid ydyw y Lapiaid yn rhai tlws o gwbl, ond i'r gwrthwyneb, y maent yn hagr yr olwg arnynt. Sylwasom fod pob un yn gwisgo gwregys cryf o ledr am eu canol, a bod rhai y merched wedi eu haddurno â phob math o hen fotymau.

Yr oedd gweled ein llong ni wedi angori yn sicrwydd i drigolion pentref Gibostad fod y diwrnod i fod yn un pwysig yn y gwersyll, felly yr oedd amryw o honynt wedi dod i'r lle, nid yn gymaint i weled y Lapiaid ag i'n gweled ni. O'r ddau ryfeddod, y ni oedd y mwyaf iddynt hwy. Pobl fudron yw'r Lapiaid, a'r olwg arnynt fel pe baent wedi crebychu. Y maent o bedair i bum troedfedd o daldra. Yr unig greaduriaid hapus yn y lle oedd y plant bach. Y mae y fam yn magu'r baban mewn cryd tebyg o ran ffurf i gwch wedi ei wisgo â chroen. Rhaisom ychydig bres i'r fam, oblegid ni wnaent ddim heb dâl, am iddi godi pen y cryd i fyny er mwyn i ni

Plant y Lapiaid. weled gwyneb y bychan. Gallen feddwl fod y baban yn y cryd bob amser, ac felly pan yn magu'r bychan y mae y cryd hefyd ar liniau y fam. Tra yr oeddym ni yn edmygu y baban, yr oedd geneth bach o'r pentref cyfagos yn edrych gyda syndod ar un o'r boneddigesau oedd yn perthyn i'n cwmni ni. Y maent yn coginio, bwyta, a chysgu mewn cabanod wedi eu gwisgo oddi mewn â chrwyn. Yn aml, bydd dau deulu neu dri yn byw mewn un caban.

Er nad oedd y pethau ar werth yn ddeniadol iawn, yn wir yr

oedd yn anhawdd dyfalu beth oedd llawer o honynt, eto i gyd, prynwyd llawer er cofio am ein hymweliad â'r cynfrodorion. Yr hyn a'n temtiodd ni oedd dagra mewn gwain o gorn, llwy gorn, a chôd o groen. Y mae y dagra o wneuthuriad cywrain, ac y mae pob Lap yn cario un wedi ei sicrhau wrth ei wregys. Y maent yn ysmocwyr mawr, a chan eu bod yn byw mewn lle cyfyng, a hwnnw yn llawn o fŵg oddiwrth y tân, y mae golwg arnynt, fel y dywedodd un teithiwr, fel pe baent wedi eu sychu mewn mŵg (*smoke dried*). Canlyniad hyn oll ydyw creu syched angherddol, a chwant am ddiodydd meddwol, a chan fod gonestrwydd yn brin yn eu mysg, y maent wedi ennill y cymeriad o fod yn feddw a lladronllyd. Ond y rhyfeddod ydyw na baent yn waeth nag ydynt, pan yr ystyrriwn eu dull o fyw, a'r caledi mawr y maent yn ei ddiodef, yn enwedig yn ystod hir-nos ac oerni mawr y gauaf. Ac nid rhyfedd y ffaith fod cenedl y Lapiaid yn darfod yn raddol oddiar wyneb y ddaear.

Wedi gadael y gwersyll, aeth amryw o'n cyfeillion at lyn oedd gerllaw er mwyn cael ymdrochi mewn dŵfr croew, tra yr ymorweddaï eraill ar y glaswellt yn mwynhau y golygfeydd.

Pan gyrhaeddwyd y pentref, galwasom mewn gwesty, ac er ein syndod, pwy welem yn dod yn un llinyn, ond y Lapiaid. Daethant i mewn drwy ddrws y cefn, a dyna lle yr oeddynt mewn ystafell fawr yn torri eu syched trwy wario peth o'r llawer arian oeddynt wedi eu dderbyn y bore hwnnw. Pan bydd un yn rhybuddio un arall yn Norway i beidio yfed i ormodedd, fe ddywed,—“Peidiwch a gwneyd Lap o honoch eich hun.”

Nid cynt y cyrhaeddasom yn ol i'r llong, nad oedd wrth ein hymyl dri o'r Lapiaid mewn cwch, gyda *rugs* o grwyn, cyn ceirw, a phethau eraill i'w gwerthu, a thrwy eu dyfal barhad a'u taerni, llwyddasant i berswadio amryw i brynnu. Rhwyfant wyneb yn wyneb, ac edrychant yn hollol gartrefol ar y dŵr. Yr oedd yr olwg arnynt oddiar fwrdd y llong yn un hynod o ddyddorol, a chawsom bleser mawr yn edrych ar eu symudiadau meistrolgar gyda'r cwch, eu dull taer yn ceisio gwerthu eu nwyddau, ac hefyd wrth sylwi ar amrywiol nodweddion eu hwynebau.

Yn fuan fe godwyd yr angor. Er hynny, hwyrfrydig oeddynt i ymadael; ac yn wir nid oedd arnom frys am iddynt fyned, oblegid yr oedd pob ysgogiad o'u heiddo yn creu ynom ddyddordeb newydd. Yr oedd y dydd o'r blaen wedi bod yn un bythgofiadwy, gan i'r haul fod yn tywynnu arnom drwy y nos. Yr oedd y dydd hwn eto yn un hir i'w gofio, oherwydd ein ymweliad â'r crwydriaid hyn. A chyn cychwyn ym mhellach i'r gogledd am Hammerfest, cymerasom un olwg arall o ffarwel ar y triawd hynod yn y cwch.

Yn fuan wedi cychwyn, rhoddodd y gwres mawr ffordd i oerni, ac yr oedd y golygfeydd oddiyma ymlaen yn llawer mwy gogleddol (*Arctic*) yr olwg arnynt. Yr oedd y

Golwg mwy
Gogleddol.

mynyddoedd gan mwyaf yn greigiau noethlwm, ac yr oedd eira braidd heb derfyn iddo yn ein golwg. Mewn un lle yr oeddym yn myned heibio i fraich iaen (*glacier*) oedd yn ymwithio i lawr rhwng y mynyddoedd. Yr oedd y fraich hon wedi methu dal y pwysau, ac wedi torri ar ei thraws, fel ag i ddangos trwch y rhew a'r eira bythol yn y fan honno. Yr oedd o leiaf yn bedwar can troedfedd o drwch. Wedi cysgu noswaith, yr oeddym ar y dec oddeutu wyth y boreu, a chawsom fod y llong wedi angori mewn bau gyferbyn a thref Hammerfest.

Yr ydym yn awr yn y dref fwyaf gogleddol yn yr holl fyd, gyda phoblogaeth yn rhifo dwy fil. Pysgota a pharotol *cod liver oil* ydyw dwy brif fasnach y lle. Y mae llawer o'r agerlongau sydd yn dal morfilod hefyd yn galw yma. Yn y porthladd yr oedd nifer o longau, y rhan fwyaf yn perthyn i Rwsia. Yr oedd gwell trefn ar y lle nac yr oeddym wedi ei ddisgwyl,—yr ystrydoedd yn lled dda, a rhai o'r tai ac adeiladau cyhoeddus yn hynod o dlws. Y mae y telegraff a'r goleuni trydanol ganddynt. Y mae yr eglwys, fel pob adeilad arall, wedi ei gwneyd o goed. Ni welsom gapel yn un lle ar ein taith nes dod i'r dref hon, a chapel y Bedyddwyr oedd hwnnw. Cafwyd sierwydd o hyn trwy i aelod o'r Tabernacl, Llandudno, fynnu gweled y ffynnon. Yr oedd llwybr yn arwain i ben y bryn, ac yma a thraw ceid seddau haiarn er gorffwys ar y ffordd. Wrth droed y mynydd yr oedd safle brydferth i'r gerddorfa. Yr oedd yn amlwg fod y bobl yn deall yn lled dda pa fodd i fwynhau eu hunain. Lle rhyfedd i fyw ynddo ydyw Hammerfest, oblegid y mae yr haul yn machludo Tachwedd yr 20fed i beidio codi tan Ionawr yr 21ain. Ac o'r ochr arall, y mae yr haul yn codi Mai y 13eg, ac nid yw yn machlud tan Awst y 1af. Felly y mae trigolion y dref hon yn cael un diwrnod hir o un wythnos ar ddeg a thri diwrnod, a'r haul heb fachlud yr holl amser, ac yn cael nos o wyth wythnos a phedwar diwrnod, a'r haul heb godi o gwbl.

Yr ydym wedi crybwyll am nos hir a dydd hir, ac i ddeall ansawdd pethau, rhaid cofio pan y bydd yr haul yn machludo y tro cyntaf ar ol y diwrnod hir, na fydd prin yn myned o'r golwg na bydd yn codi wedyn; ac o'r ochr arall, pan yn codi y tro cyntaf ar ol y nos hir, prin y bydd yn codi digon i neb allu gweled ei holl wyneb cyn y bydd yn machludo drachefn.

Yr oedd braidd bawb o honom yn galw yn "siop y gornel," lle yr oedd pethau o wneuthuriad y wlad mewn arian, &c., ar werth. Wedi dod adref, anfonais i'r siop hon am Almanac, a


daeth i law yn ddiogel. Yr oedd yn amlwg fod y siopwr yn deall fy llythyr Saesneg i yn llawer gwell nag y medra i ddeall yr Almanac, oblegid yr oedd wedi nodi & phensil goch atebion y llyfr i'r cwestiynau a roddais iddo. Ac er bod yr haul yn codi am y tro cyntaf Ionawr 21ain, eto i gyd nid oes son am godiad haul yn yr Almanac hyd Chwefrol yr 2il; ac o'r ochr arall, er bod yr haul yn machlud am y tro cyntaf Awst y cyntaf, nid oes son am fachlud o gwbl yn yr Almanac hyd Awst y 10fed. Y rheswm am hynny ydyw,—fel y crybwyllwyd o'r blaen, nad yw yn machlud y dyddiau cyntaf ond am ychydig iawn, na thrachefn yn codi ond am amser byr iawn.

Rhyfedd mor gyflym y mae y dydd yn ymestyn, ac hefyd yn byrhau. Y mae y dydd yn ymestyn yn ein gwlad ni rhyw ddau funud ar hugain mewn wythnos, ond yn Hammerfest y mae yn ymestyn a byrhau oddeutu awr a hanner mewn wythnos. Ar ol nos hir bydd llawenydd mawr pan gyfyd yr haul, ac fe ddywedir fod yn null siarad, a thôn llais y trigolion, ryw swm lleddf yn cael ei achosi gan absenoldeb golëuni yr haul am gyhyd o amser yn ystod y gauaf. Aeth amryw o'r meddygon i weled y lleoedd yr oeddynt yn gwneyd *cod liver oil*. Yr oedd yr arogl o'r lleoedd hyn, ac ar y pysgod sychion yn yr ystordai mawrion, braidd yn anioddefol drwy y dref i gyd.


Gadawsom Hammerfest am y rhan olaf o'r daith i'r Gogledd, ac yn fuan yr oeddynt yn morio rhwng mynyddoedd mawr a chreigiau moelion, a golwg arnynt fel pe buasai pob tyfiant wedi ei ysgubo i fwrdd gan ystormydd. Er mwyn cael golwg dda ar greigiau a elwir Creigiau'r Adar, fe ddarfu i'r cadben newid cyfeiriad y llong. Ar ol pedair awr o forio yr oeddynt yn myned heibio creigiau hynod a orchuddid gan adar y môr. Taniwyd magnel oedd ar y bwrdd, a chwibanwyd yn y modd mwyaf trwstfawr gyda'r ager, y canlyniad oedd i'r miliynau adar godi, nes yr oeddynt fel cymylau mawrion uwch ein pennau, gan wneyd swm dolefus. Yr oedd yr olygfa yn werth mynd ymhell iawn i'w gwled.

Wedi morio am ddwy awr arall, daethom i olwg y Penrhyn Gogleddol. Yr oedd yn ddiwrnod dwl, oer, ac yn debyg i wlaw, a phennau y mynyddoedd wedi eu gorchuddio gan niwl, ond yr oedd y môr yn dawel. Tra yn paratoui angori, gollyngwyd y plwm dros ochr y llong, ond ni chyrrhaeddodd y gwaelod, er bod y llinyn yn ddau gant a deugain o lathenni o hyd. Symudwyd yn nes i'r lan, ac angorwyd ar yr awr dê, pedwar o'r gloch.


Wrth droed y mynydd y mae darn o graig yn ymestyn allan fel corn rhinoceros, oddiwrth yr hwn y gelwir y trwyn yn Hornwick. Gan nad oeddynt i lanio tan ar ol naw o'r gloch,



...y mynydd oddeutu mil
 ...wn i'w esgyn. Y mae
 ...n ran helaeth o'r ffordd,
 ...ngo i fyny, ac yn fwy
 ...gan mor serth yw y
 ...ddasom y pen, ac wedi
 ...thom at gofadaill wedi ei
 ...scar II. a'r lle yn 1873.
 ...iriad y pegwn, heb ddim
 ...tler yn ymyned yn ol a
 ...wled yr haul allan o'r
 ...cymylau.



PRYDDEDD.



...dd, yn sydyn daeth niwl
 ...y gwrych wyfr. Cyn
 ...niwl ymaith. Erbyn un
 ...y llong yn mwynhau y
 ...artref, a thra yr oeddym
 ...n y mynydd, fe glywem
 ...a chychwynwyd yn ol.
 ...p, ac am hanner awr wedi
 ...yn y saloon. Swm y
 ...dwyd fel y Sabboth o'r
 ...*Shipwrecked Mariners'*
 ...llongddrylliog hynny a
 ...y fath waredigaeth yr
 ...wasanaeth crefyddol, ond
 ...dd i wneyd; ond i geisio
 ...wneyd casgliad; ond yr
 ...gawsom, er ymhell o bob

cyrraedd, bregeth dda, a'r pleser o roddi mewn casgliad. Ar ol pymtheg awr o fordwyo cyrhaeddasom i Tromso.

Tromso. erbyn pedwar y prydawn. Tref o chwe mil o drigolion ydyw Tromso, lle mae masnach mawr mewn pysgod a *furs*. Yr oedd yno Arddangosfa yn agored, a llawer o shouau, a'r bobl o'r wlad yn dylifo i mewn i'r dref. Yr oedd yr un pethau yn union yn difyrru y bobl yn Tromso ag sydd i'w gweled yn y ffeiriau ar hyd Cymru. Yr oedd y dref yn lled lân a'r holl le wedi ei adeiladu o goed. Sylwasom fod braidd bob ffenestr wedi eu llenwi â blodau yn tyfu. Yn un o'r ystrydoedd cyfarfuom ag un o'r Lapiaid a welsom yn y gwersyll yr wythnos gynt, yr un y prynnwyd y llwy ganddo, ac yr oedd yn amlwg ei fod yn ein cofio, oblegid fe dynnodd allan lwy gyffelyb eisiau i ni ei phrynnu, ond nid oedd yn ddiwrnod i brynnu a gwerthu. Gwelsom ef amryw o weithiau y prydawn hwnnw, ac yr oedd yn gwenu arnom bob tro; ac yn wir, yr oeddym ninnau hefyd yn gwenu, oblegid yr oedd yn edrych yn rhyfeddach fyth ar yr heol yn Tromso nag yr oedd ymysg y lliaws yn y gwersyll. Y mae rhyw fath o yswildod yn perthyn i'r bobl galed hyn. Diwrnod cyn ein hymwelriad â hwy cyfarfyddwyd ag un ar y ffordd. Wedi rhoddi ychydig bres iddo, cafwyd ganddo sefyll am ei ddarlun; pan ar ei gymeryd darfu rhyw ferched oedd mewn cae gwair yn ymyl dorri allan i chwerthin. Yr oedd hyn yn fwy nag y gallai y Lap ddal; trodd ar ei sawdl ac i fwrdd ag ef. Tromso fel rheol ydyw y lle diweddaf a'r cyntaf y bydd y rhai fydd yn myned i geisio chwilio i mewn i ddirgelwch y pegwn gogleddol yn galw ynddo.

Yr ydym unwaith eto ar fwrdd y llong. Wedi bod ciniaw drosodd fe gynhaliwyd moddion gras, ac er ein bod wedi ein hamgylchynu â mynyddoedd yn y pellder, a'i bod yn hanner awr wedi deg y nos, eto yr oedd yr haul yn tywynnu arnom yn ei nerth. Fe all fod o ddyddordeb i ryw rai i ni ddweyd gair am fywyd ar fwrdd llong. Yr oedd y St. Rognvald yn agerlong ardderchog, wedi ei goleuo â'r goleuni trydanol drwyddi, hyd yn oed i ben yr hwylbren. Yr oedd y *grand saloon* yn ddigon mawr i bedwar ugain eistedd wrth giniaw. Y nifer

Prydau bwyd. ar y llong oedd cant a phedwar a deugain, yn cael eu gwneyd i fyny fel y canlyn,—un ar bymtheg a phedwar ugain o deithwyr, pymtheg o forwyr, deuddeg yn adran y peirianwyr, pedwar ar bymtheg yn adran y gweinyddion. Yr oedd coffi neu de a theisenau i'w gael y peth cyntaf ar ol codi, ac am naw o'r gloch yr oedd boreufwyd ar y byrddau; ac yr oedd digon o amrywiaeth i'w gael. Un o'r gloch oedd awr y rhagbryd (*luncheon*), yr oedd popeth yn cael ei gario ymlaen fel yn y gwestai goreu. Yr oedd y cwmni yn eistedd wrth y byrddau ar

ddwywaith, y rhai oedd wedi codi eu tocynau gyntaf am y daith yn cael dewis eu hamser i fwyta. Yr oedd gan bawb ei le ei hun ar hyd y daith. Yr oedd wyth o weinyddion yn gwasanaethu y byrddau, pob un yn gofalu am ryw chwech neu saith ohonom. Am bedwar byddai y gloch yn galw, ac eisteddem oll gyda'n gilydd wrth y bwrdd te. Y diwrnod y gadawsom Tromso yr oedd y ciniaw am hanner awr wedi saith, ac yr oedd y byrddau wedi eu hilio â phob danteithion, a'r rhai hynny mewn cyflawnder mawr. Yr oedd golwg mawreddog a dymunol dros ben ar y byrddau ar yr awr giniaw. Yn un pen yr oedd y cadben yn eistedd, ac yn y pen arall Mr. Perowne. Nid peth bach oedd doddi ciniaw ar y bwrdd, oblegid yr oedd yn rhaid wrth o leiaf chwe chant a hanner o blatiau ar y pryd. Yr oeddyd yn medru cysgu yn rhyfedd iawn, a hynny yng ngwyneb y ffaith fod y llong yn prysur deithio bob nos ond un. Aml i foreu yr oeddyd yn cael allan wedi myned ar y dec, fod y llestr wedi angori tra yr oeddyd ym mreichiau cwsg, heb ein deffro o gwbl.

Yr oedd yn daith o bymtheg awr o Benrhyn y Gogledd i Tromso, ac yn daith tri diwrnod a thair noswaith o Tromso i Geiranger Fjord, yr oedd y golygfeydd,—yn neillduol felly yr ynsoedd Loffoden,—y tu hwnt i ddim a welsom erioed o'r blaen. Er mwyn torri ar y daith o dri diwrnod, galwasom tua deg o'r gloch y nos, mewn tref dlos o'r enw Aalsund, yn sefyll ar ynys, heb fod ymhell iawn o'r fynedfa i'r Geiranger Fjord. Pan yn son am nos nid ydym yn tybied tywyllwch, am na wyddant yn y parthau hyn beth ydyw nos am fisoedd. Nid ydyw goleudai y glannau hyn yn cael eu goleuo o gwbl trwy fisoedd yr haf. Yr oedd pobl y dref allan yn y gerddi a'r parc, yn mwynhau eu hunain, ac mewn oriel wedi ei thorri yn uchel yn y graig yr oedd côr yn canu, a phan ddeallasant fod llong Brydeinig wedi dod i mewn, canasant "Auld lang syne" a "God save the Queen."

Yn fuan ar ol hanner nos gadawsom Aalsund, a i chwe mil trigolion, y rhai i'n golwg ni oeddynt yn edrych yn hynod ddedwydd. Yn foreu dranoeth yr oeddyd yn Geiranger Fjord, un o'r rhai hynotaf yn Norway am brydferthwch y golygfeydd. Erbyn saith o'r gloch yr oeddyd wedi angori ymhen y fjord, o flaen pentref Merok, yr hwn sydd yn lle hynod o brydferth; wedi ei angylchynu â mynyddoedd, ac aberoedd yn disgyn ar hyd-ddynt ar bob llaw. Rhyngom a'r lan yr oedd pleserlong (*yacht*) fawr perthynol i foneddwr o Brydain. Wedi dringo i fyny y llethrau cawsom olygfeydd hynod eang o'r fjord a'r mynyddoedd oddiamgylch. Yn y gladdfa y mae bedd teithiwr Prydeinig; yr oedd yn digwydd sefyll ar fwrdd agerlong yn agos i'r lle yr oeddynt yn codi yr angor pryd y torrodd y gadwyn a tharawyd ef yn farw.

Gadawsom Merok yn y prydawn, a chawsom weled yr oll a gollasom pan yn cysgu tra yn dod y nos o'r blaen. Ac yn mysg holl brydferthwch y Geiranger, yn sicr yr hyn a dynnodd fwyaf o'n sylw oedd Rhaiadr y Saith Chwaer; cyfyd y mynyddoedd allan o'r dyfroedd yn unionsyth, a chul a chyfyng ydyw y fjord yn y lle hwn fel mewn aml i fan arall. Yr oedd y Saith Chwaer yn hynod ddeniadol, mae y mynyddoedd hyn yn lled uchel, ac y mae disgyniad y dyfroedd o'r fath le yn olygfa hynod darawiadol.

Yr oedd y tywydd yn ddwl a chawodog ac anffafriol i weld yn glir, ond cawsom olwg unwaith wedyn ar y Saith Chwaer, o dan amgylchiadau mwy ffafriol, o'r ochr arall i'r fjord, a'r haul yn tywynnu, a gwelsom y modd y maent yn rhedeg i lawr y mynydd cyn cymeryd y naid.

Yr oedd yr oll o'r Geiranger o Mezok i'r môr yn brydferth iawn, ac yr oedd toddiad yr eira yn achosi fod rhaiadrau yn aml. Yr oeddym wedi clywed cyn gadael Merok fod Ymherawdwr Germani i ddod yno, ac ym mhen tuag awr fe ddarfu i ni gyfarfod y pleserfad brenhinol yn y fjord, yr oedd golwg mawreddog arno, a dilynid hi gan fâd torpedo. Ymhen ychydig oriau yr oeddym allan o'r fjord, ac yn morio rhwng

yr ynysydd yn y môr agored, gan deimlo ychydig
Bergen. weithiau oddiwrth dreigled y Werydd. Erbyn


boreu drannoeth yr oeddym yn Bergen, wedi teithio tua 200 o filltiroedd. Mawr oedd yr awydd am newyddion oddicartref, oblegid yr oeddym fel pe wedi bod allan o'r byd am yn agos i dair wythnos; ac yn fuan daeth goruchwyliwr cwmni y llong ar y bwrdd gyda rhai cannoedd o lythyrâu a phapurau. Glaniwyd yn gynnar yn y boreu, a threuliwyd y diwrnod i fyny i hanner nos yn Bergen a'r amgylchoedd. Y mae yn dref ac ynddi hymtheg a deugain o filoedd o drigolion, ac y mae iddi borthladd prysur. Y mae ei sefyllfa yn hapus iawn mewn dyffryn, ac y mae llethrau y mynyddoedd sydd o'r ddeutu iddi wedi eu britho â thai. Y mae golwg hynod o ddieithrol ar y dref, y mae braidd yr oll o'r hen dai o goed ac wedi eu toi â phriddlestri cochion. Treuliodd y cwmni y rhan fwyaf o'r boreu yn gweled y dref, a'r canlyniad oedd i lawer iawn o barseli gael eu hanfon i'r llong o'r gwahanol siopau.


Yn y prydawn aethom mewn cerbydau i Fantoft, i weled eglwys hynod wedi ei gwneyd o goed. Yr oedd yn sefyll ar y cyntaf mewn lle o'r enw Fortum, lle y bu am chwe' chant o flynyddoedd, ond saif yn awr ar fryn yn cael ei amgylchynu a choed a gerddi blodau, lle y symudwyd yr adeilad gan y Consul Americanaidd, tŷ yr hwn sydd gerllaw i'r eglwys. Y mae yn adeilad hynod iawn, ac yn beth i edrych arni yn fwy

nag ydyw o ddefnyddiol. Y mae braidd yr oll o'r ymwelwyr â Bergen yn talu ymweliad a'r eglwys hon. Tra ar y daith o bum milldir pan yn dychwelyd, tarawyd ni yn fawr gan brydferthwch llawer o dai y boneddigion oddiamgylch Bergen. Yr oeddynt y tai coed harddaf a welsom erioed. Treuliasom oriau'r hwyr yn ymweled a'r parciau, ac yn un o honynt yr oedd torf o'r dinaswyr yn mwynhau cyngherdd rhad yn yr awyr agored. Cawsom yma gyfleusdra i ymgymysgu ac i sylwi ar y bobl, y rhai y dywedir eu bod yn hynod am eu cyfeillgarwch a'u llonder ysbryd. Am hanner nos codwyd yr angor, ac yn fuan diflannodd Norway o'n golwg. Erbyn y boreu yr oedd y llong yn ymrowlio mewn môr mawr, ac am y waith gyntaf canodd y gloch frecwast a ninnau yn methu ateb yr alwad, ac erbyn lwr y cynbryd doedd pethau fawr well, ond erbyn tē yr oeddynt yn alluog i eistedd wrth y bwrdd. Yn yr hwyr daethom i fysg llynges bysgota Môr y Gogledd, a mawr yr hwre i ni oddiar ffwrdd y llongau agosaf atom, a chalonnog iawn oedd yr atebiad yn ol gennym ninnau, i'r dynion dewr, y rhai yn y peryglon a'r caledi cydfynedol a'u goruchwylion sydd yn ennill eu bywioliaeth yn unigrwydd y môr mawr ac aflonydd hwn.

Aeth noswaith arall heibio, yn cael ei dilyn gan ddiwrnod tēg. Yn y boreu daethom i olwg tir Ysgotland, a glaniasom yn Aberdeen. Yr oedd y cyfnewidiad yn fawr, o dref Bergen a'i thai coed, i ddinas Aberdeen sydd wedi ei hadeiladu o wenithfaen. Ar ol ychydig oriau o forio cyrhaeddasom Leith, lle y gadawsom y llong, ac yr awd ymlaen i Edinburgh, lle y treuliasom y Sabboth.

Felly y terfynodd taith o dros bedair mil o filltiroedd, heb ddim anghysurus wedi digwydd, taith neillduol o hapus a llawn o ddyddordeb, pryd yr aethom mor bell i'r gogledd, ac mor agos i echel y ddaear, fel o'r braidd nad oeddynt yn tybied ein bod wedi cael ateb i'r cwestiwn yn llyfr Job, lle y gofynnir,—“Pa ffordd yr eir lle y trig goleuni?” Oblegid yr oeddynt mewn gwlad nad oedd yr haul—lle y rhoddodd Duw y goleuni yn ystôr—yn machlud am amser. Ac heblaw hynyna, yr oedd yn daith i wlad lawn o ryfeddodau natur, a phob peth a welsom yn dangos yn eglur fawr allu a doethineb y Creawdwr, ac ar derfyn yr hon yr oeddynt yn barod i ddweyd fel y Salmydd,—“Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd.”





RHAN O FAW ABERTAWR.

"(Dim wisgo'r tonnau oll ág arian byw
I harddu'n fwy y for olygta wiv."

Breudddwyd Islwyn.

Y LLENOR, Llyfr xi.

ISLWYN.

PIGION O'I WAITH.


PIGION RHYDDIAITH.

ATODIAD BARDDONIAETH.

Gwrecsam :

HUGHES A'I FAB, HEOL ESTYN.

GORFFENNAP, 1897.



Y CYNHWYSIAD.

Wyneb-ddarlun—RHAN O FAU ABERTAWB.

PIGION O RYDDIAITH ISLWYN.

	TOTAL
Y Bachgen Iesu (Darluniau— <i>Ysgol yng ngwlad Canan, Bechgynydd Crist</i>)	17
Alexander Smith	33
Baridoniaeth	38
Nodiadau Llenyddol	42
Cofiant Caledfryn	46
Eisteddfod Maesywmmwr	49
Arddull	52
Oynghanedd Seisnig a Chymreig (Darlun— <i>Ty'r Agent,—lle ganwyd Islwyn</i>)	54
Anerchiad	56
Jones o'r Tranch	59
Anerchiad Cyfarfod Llenyddol	61
Atodiad i'r GWAITH BARDDONOL	3
” ” ” ”	65

Y BACHGEN IESU.




E buasai y Beibl yn llyfr dyn, ac wedi ei ysgrifennu oddiar gynhyrriad dynol, buasai yn sicr o dalu gwarogaeth i'r awyddfryd hwnnw sydd ymhob dyn am y cywrain, y rhyfeddol,

Dall dynol a
dall dwyfol.

a'r rhamantus. Buasai yr efengylau yn cael eu gwneyd i fyny gan mwyaf â darluniadau cynhyrfus o'r hyn oedd yn rhyfeddol ac allan o'r cyffredin ym mywyd yr Iesu. Prif waith yr efengylwyr fuasai crynhoi at eu gilydd hanesion am ddiwyddiadau ei febyd, ac yna eu gosod allan yn lliwiau uchaf a chyfoethocaf athrylith ddesgrifiadol. Ond y mae yr efengylwyr fel pe byddai brys arnynt i gyrraedd

Calfaria, ac fel pe byddai holl ddyddordeb yr hanes rhyfeddol yn ymgyrnhoi o amgylch y groes. Y maent oll, mae'n wir, yn cychwyn o Bethlehem, eithr nid ydynt yn aros ond ychydig yno. Brysiant dros y daith foreuol i'r Aifft, tafiant gipolwg ar Nazareth, dim ond cipolwg, ac nid ydynt yn coffau ond un digwyddiad yn ei fywyd yn ystod y deng mlynedd ar hugain a dreuliodd efe mewn anghyhoeddusrwydd. Eithr wedi cyrraedd Calfaria y maent yn eistedd i lawr megis ar eu gorseddfaine hanesyddol, ac mewn modd araf a phwyllog yn tynnu darlun o'r olygfa. Nid yw Ioan gymaint ag yn enwi Bethlehem, dim ond "y Gair a wnaethpwyd yn gnawd." Nid oes ganddo ef air i'w ddweyd am y seren a'r doethion a'r ffoedigaeth i'r Aifft, y cyflwyniad yn y deml, a'r mynediad i Jerusalem pan yn ddeuddeg oed. Y mae yn myned heibio y pethau hyn gyda chyflymdra, ie heb sylwi arnynt; eithr y mae yntau, fel y mae yn tynnu'n agos i Golgotha, yn arafu ei gamrau, gan fanylu ac ymhelaethu yn ei ddesgrifiadau. Y mae dyddordeb yr hanes yn awr yn gorddyfnhau, ac y mae yn sefyll yn hir. Nid yw yn pasio un digwyddiad, nid yw yn colli un gair, pe byddai hynny yn bosibl, lle y mae digwyddiadau a geiriau yn dilyn eu gilydd gyda chyflawnder a chyfoethogrwydd diderfyn y bywyd rhyfeddol hwnnw,—bywyd Duw yn y cnawd. Mor hir y mae yn



YSGOL YNG NGWLAD CANAN,

yn y mae yn cofnodi

nu ei lyfr. Buasai dyn
molryw trwy ymollwng
sydd yn y Testament
gymaint. Neu os oes
dynt, fel y dywed un
ogir ei athrawiaethau

gogoneddus. Ond digwyddiadau fuasai ym Meibl dyn. Cyfres ar ol cyfres o ddigwyddiadau anghyffredinol yn dilyn eu gilydd gyda dyddordeb byth-gynyddol, nes dibennu yn naeargryn Calfarfa a thywylliad yr haul uwchben croes y Dwyfol Arwr. Buasem yn hir cyn cyrraedd bryn yr aberth. Fe'n cadwesid yn hir ar y ffordd tuag yno. Cawsem bennod o ddigwyddiadau am adnod o athrawiaeth, a mil o wyrthiau am bob dameg.

Ac ni fu erioed y fath le i athrylith ddangos ei hun ag yn y disgrifiad o fywyd yr Iesu. Yr ydym yn llenwi pob amlinell tdaearol yn ebrwydd, canys terfynol ydyw. Yr ydym yn gorffen y darlun yn fuan. Ond dyma amlinell anherfynol, dyma amlinell na lanwasai athrylith mo honi byth, sef amlinell bywyd Duw yn y cnawd. Dyma gyleh ag y gallasai yr athrylith mwyaf cerubaidd ehedeg oddiwrth ei ganolbwynt am dragwyddoldeb, yn yr un cyfeiriad, heb ganfod terfyn. Bywyd Duw yn y cnawd, pa le y ceir y fath destyn? Duw yn y cnawd, ie Duw ei hunan yn byw am ddeng mlynedd ar hugain mewn pentref bychan o'r enw Nazareth,—ai credadwy y buasai hanesydd dynol yn myned dros y fath bwnc addurnol, dros y fath faes cyfoethog llydan, heb ddweyd dim mewn ffordd o ddesgrifiad ond adnod neu ddwy? Na, buasai athrylith wresog y bardd yn gostwng ei adenydd uwchben Nazareth, ac yn gwneyd ei gartref yno. Buasai yn gosod yng ngenau ei Arwr eiriau cyfaddas i'r Dwyfol Blentyn, a buasai hanes ei febyd yn eithriad hollol i bob mebyd arall. Buasai yn darlunio y tŷ lle y treuliodd "y bachgen Iesu" ei febyd gyda'i fam, cawsem glywed pa fodd y treuliai ei amser, a pha fath oedd ei arferion boreuol, a phwy oedd ei gymdeithion y pryd hwnnw.

Ond nid ar unwaith y cyrhaeddasem Nazareth. Buasai swynion Bethlehem yn rhy luosog a chryfion iddo ef fyned heibio iddynt gydag ond ychydig adnodau. Arhosasai yn hir i anadlu awyr nefolaidd dinas Dafydd, fore yr ymgnawdoliad. Cadwasai ni yn hir yng nghyfeillach y bugeiliaid oedd "yn gwylid eu praidd liw nos." Buasem yn hir cyn colli ein golwg ar "ei seren ef," buasai y seren ryfedd honno yn hir cyn machlud dros ymyl yr hanes. Meddyliwn eilwaith am y doethion o'r dwyrain. Y fath destyn cyfoethog o ddefnyddiau fuasai eu taith hwy i Jerusalem ac i Bethlehem! Y fath brofedigaeth a fuasai i ymhelaethu ar y daith hon fel y mynegiad o awyddfryd y cenedlddyn! Y cenedlddyn, o'r diwedd, yn Jerusalem, yn gofyn "Pa le y mae?" Ac yn cael ei osod, gan oruchwylwyr dirgel-edigaethau Duw, ar ben y ffordd freiniol at "ddymuniant yr holl genedloedd," ffordd y broffwydoliaeth. Odid hefyd na chawsem ddesgrifiad o'r daith, yr afonydd a groesasant, a'r anhawsderau a orchfygasant ar y ffordd.

Dyna fuasai Beibl dyn. Ond llyfr hollol wahanol i hyn ydyw Beibl Duw. Y mae y dwyfol llyfr yn ddistaw ynghych y digwyddion posibl neu ddechymygadwy a nodwyd.

Beibl Duw. Y mae yn myned heibio iddynt fel pethau amherthynasol i'w ddiben gogoneddus. Pa beth sydd o Bethlehem hyd yr Iorrdonen? O'r ymgawdoliad hyd y bedyddiad gan Ioan? Distawrwydd hollol bron. Y mae dwyfoldeb y llyfr yn dod i'r golwg yn yr anibyniaeth mawreddus hwn ar awyddfryd calon dyn, ei hawyddfryd greddfrol a chryf am y cywrain a'r anghyffredin. Y mae y llyfr yn rhy uchel i ymostwng at ofynion dynol a chwaeth daearol. Gall ei ddarllenwyr ofyn llawer o gwestiynau cywreingar, ond nis cant ganddo ef un atebiad. Gallant ofyn,—Pa beth oedd helyntion bywyd boreuol “y bachgen Iesu?” Pa beth yr oedd yn ei wneyd yn Nazareth? Pa fodd y treuliai ei amser? Pa beth a ddywedid ganddo? Pwy oedd cymdeithion ei ieuencid? Pa beth oedd yr argraff a wnai ar drigolion y lle hwnnw? Ond nid oes un atebiad ar gael i'r gofyniadau hyn. Lle y buasai dyn yn dweyd fwyaf, yno y mae y Beibl yn dweyd leiaf. Lle y buasai dyn yn fwyaf hyawdl, yno y mae y Beibl yn fwyaf distaw.

Ond os yw y gofyniadau hyn a'u cyffelyb heb atebion iddynt, y rheswm dros hynny yw eu bod yn amherthynasol i ddiben mawr y llyfr dwyfol. Nid oes un cwestiwn o bwys hanfodol ag y gall dyn ei ofyn a'r nad yw y Beibl yn ei ateb yn gyflawn. Os gofynnwn, Pa fodd y treuliai Crist ei amser yn Nazareth? nis ceir un atebiad. Ond os gofynnwn y cwestiwn anrhaethol bwysicach, Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw? ceir atebiad eglur a chyflawn. Nid llyfr i garwyr cywreinrwydd yw y Beibl, ond llyfr i bechadur. Dyna ei ddiben mawr, arddangos trefn Duw i gadw pechaduriaid trwy Waredwr croeshoeliedig. Nid oes un digwyddiad na hanes yn cael ei nodi ond y sydd yn wasanaethgar i'r diben hwn, ac yn eglurhaol o hono. Pe rhoisid i ni ddesgrifiad helaeth a chynhyrfus o febyd Crist, ac o ddigwyddiadau ei ieuencid, buasai y diben gogoneddus hwn yn ymgolli mewn rhan fawr. Buasai hanes y digwyddiadau hynny yn debyg o gymylu amcan ei ddyfodiad, ac o dynnu ein meddyliau oddiwrth ei wir waith. “Canys Mab y dyn a ddaeth i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid.” Nid i ddifyrru y daeth, ac nid i synnu yn gymaint, ond i achub y colledig. Y mae holl ddydd-ordeb yr hanes yn ymganoli yn y groes. Calfaria ydyw canolbwynt yr holl ysgrythyrau. Tuag yno y mae pob profwyd yn hwylio ei gerddediad, tuag yno y mae pob apostol a phob efengylwr yn myned. Ceir digon o son am Galfaria, dim braidd am Nazareth. Y mae y groes yn amlwg,—Nazareth dan len.

Y mae hyn yn dangos mai at dair blynedd ei fywyd cyhoeddus, ynghyd â'i farwolaeth iawnol, y dylem ni gyfeirio ein meddyliau yn bennaf. Er hynny, nis gallwn lai na meddwl weithiau am y deng mlynedd ar hugain rhyfeddol a dreuliodd efe mewn distawrwydd ac anghyhoeddusrwydd yn Nazareth. Yr ydym yn awyddus am wybod y cwbl ag y gellir ei wybod am gymeriad mor ryfeddol, am un ag y mae ein gobaith pennaf yn gylmedig â'i berson ac â'i waith. Y mae chwilgarwch greddfol ein natur yn creu ynnom awydd angerddol i edrych i mewn i holl hanes y fath un. Dymunem ddilyn cadwen euraidd ei fywyd o Bethlehem i lawr i Galfaria, ac o Galfaria i fyny i'r drydedd nef. Yr ydym yn awyddus am ganfod pob dolen, ac nid yw hynny yn rhyfedd, oblegid ar y gadwen hon yr ydym yn hongian ein buddiannau pennaf a'n bywyd tragwyddol; ac wrth ymaflyd yn hon, â llaw afaelfawr ffydd, yr ydym yn gobeithio codi ein traed oddiar lawr y codwm, ac esgyn, yn ei gafael, nes rhoi ein traed i lawr ar ucheldiroedd anfarwoldeb. Y mae y gadwen euraidd hon yn amlwg ym Methlehem, yn amlwg yn y cyflwyniad yn y deml, yn amlwg yn y ffoad i'r Aifft a'r dychweliad oddiyno. Ond yn Nazareth y mae yn ymsuddo o'n golwg, eto nis gallwn lai na myned ar ei hol i'r distawrwydd, i'r unigrwydd, ac i'r dyfnder, rhyfeddol ddyfnder y deng mlynedd ar hugain. Y mae y gadwen yn y niwl du am y deng mlynedd ar hugain hyn, ac nid yw yn dyfod i'r golwg ond *un* waith. Nid ydym yn canfod yn yr ystod hirfaith hwn ond *un* ddolen o honi, eithr y mae y ddolen unigol honno yn engraifft o ddolennau ereill ei fywyd cuddiedig, y mae yn cysylltu ei fywyd eisioes â'r hyn sydd fwyaf uchel, ac yn dangos ei fod ef, yn ei flynyddau boreuol, ie, pan yn ddeuddeng mlwydd oed, ynghylch pethau a berthyn i'w Dad.

Heblaw chwilgarwch greddfol ein natur, ac heblaw cysylltiad ein buddiannau tragwyddol â'i berson ac â'i waith ef, y mae egwyddor arall yn ein cymell i olrhain ei fywyd boreuol, sef cariad. Yr ydym yn ei garu, oddiar hyn yr ydym yn awyddus am wybod y cwbl yn ei gylch. Nid yw cariad byth yn blino ar hanes ei wrthrych, nid yw byth yn cael digon i'w foddhau. Y mae ynddo awydd anrhaethol gryf am gael holl hanes ei wrthrych, yn enwedig os bydd yr hanes honno yn hanes o ddiodeffiadau, ac yn fwy fyth os bydd y gwrthrych wedi myned dan y diodeffiadau hynny *er ei fwynd ef*. Hanes o ddiodeffaint, ymddarostyngiad, a thyldi ydyw hanes Crist. Gŵr gofidus oedd efe, a chynefin â dolur. Ac er nas gwyddom ond ychydig am ei fywyd yn Nazareth, ni a wyddom hyn,—mai bywyd o hunanymwadiad dwfn ydoedd, bywyd o ostyngaidrwydd pur, tylodi, a dinodedd. Ac fe wŷr y Cristion

Cyweirirwydd
am wybod.

Hiraeth cariad
am wybod.

mai yn ei achos ef, ac er ei fwyn ef, yr aeth Crist trwy yr holl dylodi, a'r holl ddarostyngiad hyn. "Yr hwn ac efe yn gyfoethog, er eich mwyn chwi a ddaeth yn dlawd." Y mae hyn yn cryfhau ei ddymuniad am wybod holl hanes y bywyd hwnnw, ac yn gloewi ei lygad i edrych i mewn i'r dirgelion. "Yr hwn er nas gwelsoch yr ydych yn ei garu." Golygfa'r groes, golygfa'r "cyfiawn dros yr anghyfiawn," sydd yn cynhyrfu y cariad hwn gyntaf; gwelod Crist yn marw yno yn ei le, ac yntau yn cael arbediad a bywyd tragwyddol trwy yr iawn. Ar Galfaria y mae y cariad yn dechreu. Eithr nid yw yn foddol i aros yno yn gyfangwbl. Y mae yn teimlo y fath ddyddorbeb yn y person a roddodd ei fywyd drosto, fel y mae am olrhain ei hanes yn ol. Y mae ei feddwl yn cael ei lyncu i fyny yn gyfangwbl gan ei Geidwad. Y mae yn dod i lawr o Galfaria, yn myned trwy yr ardd, yn croesi Cedron, ac yn ymweled â'r oruwchystafell. Gorffwysa yn syn ymhob un o'r manau hyn, a geilw i'w gof, neu, â'i Destament yn ei law, darllenna y pethau rhyfedd a ddigwyddasant yno. Yma y bu yn chwysu gwaed! Yma y bu yn gweddio'n ddyfalach; ac yma, yn yr ystafell hon, yr ordeiniodd efe y Swper. Y mae yn myned yn ei ol drachefn, ac yn dringo Mynydd y Gweddnewidiad. Gwel Fôr Tiberias obry, glannau yr hwn a gysegrwyd yn dragwyddol â swn ei lais, a thonnau yr hwn a'i haddolasant. O Fôr Tiberias! Pa Gristion na hoffai eistedd ar dy lannau, a chwilio ar dy sanctaidd dywod am ôl troed ei Geidwad! Pa Gristion ar nad yw wedi clywed dy donnau yn disgyn, gyda pheroriaeth angylaidd gân, ar draeth anfarwol ei freuddwydion! A yn ol, yn ol, nes canfod o'r diwedd olygfa ymagorawl y Fesiaeth, golygfa'r bedyddiad gan Ioan. Y mae y digwyddiadau a'r golygfaoedd hyn, fel cynifer o gerrig-milltir gwynion, yn sefyll ar ymyl ffordd y Cyfryngwr, o fewn pellteroedd cyfheus, i arwain y Cristion yn ei daith olrheiniol. Y mae yn gallu myned yn hwylus a chyflym o'r naill i'r llall, gan ddilyn ei Waredwr bob cam o Galfaria yn ol i'r Iorddonen. Eithr yno y mae yn colli ei Anwlyd. Y mae yn pasio y garreg filltir olaf am ddeunaw mlynedd. Ofer holi dim am dano. Y mae ei Geidwad yn ymneillduo i unigolrwydd Nazareth, ac yn gollwng i lawr y llenni rhyngddo a'i ganlynwyr. Pa beth sydd o'i flaen yn awr? Ehangder o ddeunaw mlynedd, heb un mynegfys o'u mewn i gyfeirio at ei weithrediadau, heb un olygfa, heb un weithred ysgrifenedig. Ymhen y deunaw mlynedd hynny, deuir o hyd iddo eilwaith yn y deml, yn ddeuddeg oed, ond yn ddisymwth wele ef yn difannu drachefn am ryw ddeuddeg ereill o'r tu ol i gauadlen dywell Nazareth. Ond er fod y gauadlen mor dywell ac mor drwchus, nis gallwn lai na gwneyd ymgais at ei chodi, a chael rhyw gipolwg ar y bywyd rhyfeddol oddifewn iddi.

Naturiol yw i ni ofyn, yn gyntaf oll,—Pa fath le ydoedd Nazareth? Y mae yn hawdd disgrifio y lle fel ei darlunnir i ni gan rai a'i gwelsant. Dychymyged y darlennnydd am Nazareth. fro neillduedig, yn gorwedd ar ucheldir, yng nghanol bryniau. Bro gul ydyw, ynghylch milltir o hyd wrth chwarter milltir o led. Yma a thraw ceir canghennau o gymoedd gwylltion yn rhedeg allan o'r fro hon. Y fro sydd lawn o feusydd ffrwythlawn, a cheir ar ei hwyneb ddwy neu dair coedwig o olewydd, a rhai prennau unigol yn wasgaredig yma a thraw. Y mae gwregys o fryniau crynion eu pennau yn amgylchynu y fro, fel nas gellir gweled dim o'r wlad tu hwnt iddynt. Gorchuddir ochrau a phennau y bryniau hyn â daear lwyd, galed, ac â cherrig calch, ac y mae yr olwg arnynt yn arw a diffaeth, eithr y mae yr awyr bob amser yn beraroglaidd gan arogl y gruwlys wyllt (*wild thyme*). Y bryn ar yr ochr ogleddol sydd uwch na'r lleill i gyd. Y mae y bryn hwn yn rhedeg i lawr yn dra serth, a thorrir ei lechweddau isaf gan amryw o geunentydd (*ravines*), a thrumiau o greigiau noethion rhyngddynt, ac yn y ceunentydd hyn, ac ar y bencydd llechweddog sy'n rhedeg oddiwrthynt i lawr i'r fro, y mae tai Nazareth wedi eu hadeiladu. Dyma "y bryn," ar "ael yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei hadeiladu." Dyma "Nazareth, lle y magesid ef." Dyma y pentref bychan, dyma y fro lonydd lle y treuliodd "y dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo" ddeng mlynedd ar hugain o'i fywyd. Mae'n wir nad yw y disgrifiad manylaf o'r lle yn ein galluogi mewn modd i ddarganfod helyntion a dull ei fywyd ef yno, eto nis gall y darluniad lai na bod yn ddyddorger i bob Cristion. Os oes rhywbeth yn yr holl fyd a all roi i le hynod-rwydd, ei gysylltiad â Mab Duw all wneyd hynny. Nid oes gennym un gronyn o gydymdeimlad â'r ysprydolrwydd ymfrostfawr hwnnw sydd yn rhy ddyrchafedig i sylwi ar y lleol mewn cysylltiad ag hanes bywyd sylfaenwr ein crefydd. Ac ni feddyliem lawer am gyfeillach y Cristion hwnnw a allai fyned heibio i Ffynnon Jacob fel rhyw ffynnon arall. Yr ydym yn parchu y dyn sydd yn myned ar daith bell i ymweled â gwlad gysegredig Canan, gwlad ag y mae ei bryniau mor adnabyddus i angylion y nefoedd ag yw "bryniau tragwyddoldeb," gwlad ag y maent hwy gan amled eu hymweliadau â hi yn adwaen pob llwybr a phob croesffordd o'i mewn. A gaiff y bywgraffydd ymweled â lle genedigol ei ddynol arwr, a gaiff efe lenwi tudalennau cyfain â disgrifiad byw o'r tŷ, o'r pentref, o'r fro, neu o ochr y mynydd, lle y treuliodd efe fore ei oes? Ac oni chawn ninnau ymweled â'r pentref unigol "lle y magesid" y Dwyfol Ddyn, lle y bu Tad tragwyddoldeb o fewn cylch amser, a hollbresenoldeb o fewn cylch lle? Traddodiadau Nazareth a'i

hofergoelion diweddar nid ydynt yn werth ein sylw. **Ped** ymwelsai rhywun â'r lle tua diwedd y ganrif gyntaf neu ddechreu yr ail, feallai y cawsai hanesion dyddorger mewn cysylltiad â'r Forwyn a'i Dwyfol Fab. Feallai y dangosaisid iddo y tŷ ymha un y treuliodd ei ddeng mlynedd ar hugain yno, ac feallai y cawsai ei gyfeirio at y llwybrau hyd ochrau y bryniau y rhai yr hoffai efe gerdded ynddynt gan fyfyrion ar y pethau a berthynent i'w Dad. Ond y mae llifeiriant oesoedd wedi dysguboyaith bob olion o'r fath hyn. Eto y mae y golygfeydd naturiol yn para yr un. Yr un yw y bryniau a wregysant y fro yn awr, ag oeddynt pan orffwysai llygaid y Gwaredwr arnynt. Yr un yw y fro lonydd. Cyffelyb ydyw y meusydd presennol i'r meusydd y syllai efe ar eu ffrwythlonder yn ei febyd a'i ieuencid. Ac y mae hyn yma yn unig, sef anghyfnawidoldeb y golygfeydd naturiol, yn ddigon i wneyd y lle yn fwy swynol i'r Cristion nag un lle arall dan haul, oddieithr Calfari. Ac nid rhyfedd i un teithiwr duwiolfrydig dorri allan i ddweyd mewn synfyfyrdod,—“Mor fynych y rhedodd efe yn ei febyd i fyny ac i lawr yr ystrydoedd hyn! Mor fynych y canlynodd efe ei fam i'r ffynnon acw! Mor fynych yr eisteddodd gyda'i rieni ar nen y tŷ, ar brydnawnau tawel, yn syllu ar y fro werdd draw! Mor aml y crwydrodd efe ar hyd y bryniau creigiog hyn, ac i lawr i'r ceunentydd dyfnion hyn, gan fyfyrion ar ei genhadaeth ddwyfol, a chan anadlu gweddiau at ei Dduw a'i Dad!”


Os caniateir y golygiad fod meddwl y dyn Crist Iesu yn graddol ymddadablygu yn ol deddfau y ddynoliaeth, feallai y goddefir yr awgrym fod yn Nazareth, fel lle, elfennau ag oedd yn ffafriol a chyfaddas i'r dadblygiad hwnnw. Nazareth a chyunydd meddwl Crist. Ymddengys fod sail yn yr ysgrhythyr i'r golygiad hwn. Dywedir iddo “gynhyddu mewn doethineb a chorffolaeth a ffafr gyda Duw a dynion.” Nid mewn corffolaeth yn unig yr oedd y cynnydd graddol hwn, ond “mewn doethineb” hefyd. Gwnaethpwyd ef “ym mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr.” Os ydoedd ef yn cynhyddu yn y modd hwn, a'i feddwl yn ymagoryd o radd i radd, yr oedd ei feddwl yn derbyn argraffiadau oddiwrth wrthddrychau y byd oddiallan. Nid oedd lle a golygfeydd heb eu dylanwad ffurfiol ar ei gymeriad a'i feddylfryd. Ac yr oedd dylanwad golygfeydd Nazareth, a ffurfiau bywyd yno, yn gyfryw ag oedd yn gyfaddas i'r diben mawr.

Meddyliar am neillduolrwydd heddychol y lle, a'i ddiogelwch rhag ymosodiad. Os ymholwn pa fath le sydd yn gyfaddas i fagu ynddo frenin rhyfelgar, fe etyb hanesyddiaeth Tangnefedd y lle. mai lle hyf o ran ei olygfa, a lle agored o ran ei sefyllfa i ymosodiad. Eithr am Nazareth, yr oedd anenwogrwydd y lle, pe na buasai dim arall, yn ddigon o

id ei bro fechan yn
fa yn rhoi diogelwch
yth o'i mewn. Yr
ywywysog Tangnefedd.



golygfeydd Nazareth
h tawel. Er ei fod
el, eto fe drefnwyd i'r



Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r llyfr yn parhau'n ddwyieithog, gyda'r testun yn cael ei ysgrifennu'n ddwyieithog.

444



hwn oedd i lywodraethu mewn tangnefedd, fro uchel, lonydd, dawel, i dreulio ynddi ei flynyddoedd boreuol. Yr oedd yr unrhyw dawelwch heddychol yn ffafriol i'w fyfyrdodau dyfnion a chyson ar y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur. Ni aflonyddid ar ei gymdeithas â'i Dad. Fe roddodd Natur ei bro dawelaf i'w Chrewr pan wisgodd gnawd.

Yr oedd ymneillduedd y lle mewn ystyr arall, sef ei bellder oddiwrth y byd, yn fanteisiol hefyd. *Wedi* ei esgyniad i'r nef y gwnaeth Crist fwyaf tuag at y byd. Tra y bu efe ar Nelliduedd y lle. y ddaear, tuag at y dwyfol yn bennaf yr oedd yn gweithio, boddloni Duw yn ein lle ni, trwy ufuddhau, dioddef, a marw drosom. Gan mai tuag at y dwyfol yr oedd ei feddyliau a'i waith yn gyfeiriedig yn bennaf, yr oedd yn briodol symud ei gartref cyn belled ag oedd yn bosibl oddiwrth y byd, fel y cai fwynhau y llonyddwch dyrchafedig hwnnw ag oedd yn gydunol â natur ei waith.

Hefyd y mae yn amlwg fod golygfeydd a chynyrchion naturiol Nazareth a Galilea wedi dylanwadu ar ffurf ei ddysggeidiaeth, fel y dengys ei ddamhegion. Y mae llawer o'i ddamhegion prydferthaf wedi eu cymeryd oddiwrth natur, ac Golygfeydd y lle. oddiwrth natur fel yr ymddanghosai yn Galilea, "ei wlad ei hun." Yr ydym yn canfod ar wyneb ei ddysggeidiaeth "feusydd" y wlad y magesid ef ynddi, "yn wynion eisoes i'r cynhauaf." Portreiadir o flaen ein llygaid "yr hauwr yn myned allan i hau," a danghosir i ni y creigiau a'r drain yn ymgodi yng nghanol y "tir da." Ac yn nameg "y rhwyd," dacw fersiandi-aeth fywiol glannau Môr Tiberias, a dacw bysgodwyr y llyn hwnnw, yn dyfod i'r golwg.

Gyda golwg ar y gofyniad,—A ddarfu i Grist yn ei flynyddoedd boreuol gysylltu ei hun âg ysgolion duwinyddol Iddewig,—gorfodir ni i ateb yn hollol nacaol. Nid oedd yr Oriel a'r ysgolion Iddewig. angen lleiaf am hynny gydag ef; oblegid yr oedd ei wybodaeth ef yn fewnol a gwreiddiol. Nid o'r allanol yr oedd yn derbyn gwybodaeth, yr oedd "holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo." Y mae ychydig ffrydiau meinion o wirionedd yn rhedeg trwy rydwelyau y byd oddiallan, trwy gymdeithas, trwy ysgolion, trwy lyfrau, trwy natur. Ac wrth yfed o'r rhai hyn y mae pob meddwl dynol yn derbyn ei faeth a'i gynnydd. Ond nid oedd yn rhaid i Grist wrth y ffrydiau hyn. Yr oedd ef yn yfed gwirionedd wrth y ffynhonnell dragwyddol, ac yr oedd y ffynhonnell honno yn ei berson ei hun. Nid oedd yr allanol yn rhoddi un fantais iddo ef ond cyn belled ag yr oedd yn rhoddi achlysuron i alw allan gyfoeth anfeidrol ei feddwl ei hun. Mae'n wir fod golygfeydd Galilea yn rhoi ffurf i'w ddamhegion, ond ni roisant iddo, ac ni

allasai dim allanol roddi iddo, y gwirioneddau a eglurid trwy y damhegion hynny. Yr oedd y gwirioneddau yn wreiddiol ynddo ef ei hun. Ni eisteddodd ef wrth draed un Gamaliel, ac nid oedd ef yn ddyledwr i un athronydd, nac i un Rabbi, nac i un llyfr o awduriaeth dynol. Heblaw hyn yr oedd ei olygiadau ef am bob gwirionedd yn berffaith union a chywir am eu bod yn ddwyfol. O ganlyniad nis gallasai ef oddef y cysylltiad lleiaf â'r ysgolion Iddewig, llawer o olygiadau y rhai oeddynt mor anghytunol â gwirionedd. Buasai ei ymwybodolrwydd hanfodol o wirionedd yn peri iddo wrthod, ar bob cam, eu haddysg hwy, ac yn ei hollol anghymwyso i dderbyn dim ganddynt. Y mae y gofyniad,—“Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ac yntau heb ddysgu?” pa fodd y medr hwn addysgu mor ragorol, mor anghymarol, ac yntau heb fod yn yr ysgolion, heb ei godi yn y drefn arferol i fod yn athraw?—mae y gofyniad hwn yn profi na fu un cysylltiad rhyngddo â'r ysgolion hynny. Ac y mae ei atebiad yntau yn profi yr un peth,—“Fy nysgeidiaeth nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i.” Nid cymeryd i fyny defnyddiau oedd mewn bod eisoes yn yr ysgolion a wnaeth Crist. Yr oedd ei ddysgeidiaeth ef yn dwyn argraff o wreidd-iolder anghydmorol, a hollol anibyniaeth ar elfennau a golygiadau ysgolion dynol. Dygodd ddefnyddiau ei ddysgeidiaeth gydag ef o fyd arall. Tynnu o'r mewnol yr oedd ef o hyd. “Yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel un ag awdurdod ganddo, ac *nid fel yr ysgrifenyddion.*”

Yr unig ddigwyddiad o'i fywyd yn Nazareth a gofnodir yn yr hanes ddwyfol, ydyw ei fynediad i Jerusalem pan “oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed.” Y mae y digwyddiad hwn

Yn y deml. yn ymddyrchafu fel ynys oleu a chadarn allan o fôr dwfn, llydan, a chuddiedig, y deng mlynedd ar hugain, yr unig ynys ag y gall yr hanesydd osod ei droed i lawr arni, a gorffwys ennyd ar y ffordd faith, ddistaw, i'r Iorddonen. “Flodeuyn unigol,” fel y dywed Stier, gan gyfarch y digwyddiad, “unigol flodeuyn allan o ardd ryfedd, gauedig, y deng mlynedd ar hugain.” Yr oedd ei ymddygiad yn Jerusalem, ar yr adeg foreuol hon, yn rhoi argraff o neillduolrwydd anghydmorol i'w gymeriad. Bachgen ydoedd y pryd hwn, “y bachgen Iesu,” ond mor wahanol i'r bechgyn eraill a deithient yn yr orymdaith! Tra y treuliai y plant ereill eu hamser mewn ysgafnder yr oedd ef yn ddifrifol. Tra y crwydrai ereill oddiamgylch i weled rhyfeddodau y ddinas fawr, elai ef i'r prif gysegr ar y ddaear, i'r deml. Tra y meddyliant hwy yn unig am ryfedd odau y lle a phleserau a golygfeydd y daith, ni feddyliai ef ond am y pethau a berthynent i'w Dad. Ond ar y ffordd tuag adref gwelodd Joseff a'i fam ef eu bod wedi ei golli. Aethant daith diwrnod cyn

darganfod hyn. Tybient drwy gydol y dydd ei fod yn y fintai, ac y delai i'r golwg tua'r hwyr. Safodd y fintai, o'r diwedd, i orffwys dros nos, a disgwylent ei weled ef yn ymddangos o fysg y dorf, ond nid oedd un arwydd am dano. Aethant i ymofyn am dano "ym mhlith eu cenedl a'u cydnabod," ond nis gwyddai neb ddim yn ei gylch, nid oedd neb o'r pererinion wedi ei weled. Noswaith bryderus oedd honno i Mair. Dichon ei bod yn cyhuddo ei hun o esgeuluso y dwyfol drysor a roddwyd dan ei gofal, ac yn rhyfeddu erbyn hyn iddi allu cychwyn o Jerusalem heb sierhau ei fod yntau yn y dorf. Eto, ni a dybiem, fod goleuni yn y cwmwl, fod yr adgof o'i ddwyfol darddiad yn tawelu ei meddwl yn ei gylch,—Nis gall mab y Goruchaf fod mewn perygl! Bore drannoeth cychwynnodd Joseff a'i fam ef yn eu hol tua Jerusalem i edrych am dano. Tybiwn eu bod ymhell ar y ffordd i Jerusalem pan dorrodd gwawr ogoneddus y dwyrain ar fryniau Judea y bore hwnnw. Ond er codi yn fore y mae yn daith diwrnod, ac erbyn cyrraedd Jerusalem y mae yn nosi'n gyflym, ac nis gellir chwilio nemawr am dano hyd fore drannoeth. Feallai nad aethant i unman y nos honno ond i'r llety lle yr arosasent dros wyl y Pasg, ond er manwl holi ni chaent un hanes am dano yno. Noswaith bryderus arall, ond dyma fore'r trydydd dydd yn torri. Dydd rhyfedd yw y trydydd dydd yn hanes yr Iesu. Collodd Mair ef unwaith wedi hyn, yn nhywyllwch dudew Calfaria a'r bedd, ond y trydydd dydd hi a'i cafodd, nid yn y deml, ond yr ochr draw i farwoldeb, wedi cyrraedd holl ddibenion ei ddyfodiad, ac wedi "ei egluro yn Fab Duw mewn gallu trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." "A bu, ar ol tridiau, gael ohonynt hwy ef yn y deml." Feallai iddynt fyned i amryw o fannau yn y ddinas, y trydydd dydd, *cyn* myned i'r deml. Mae yn rhyfedd na fuasent yn meddwl am y deml yn y lle cyntaf oll, fel y man tebycaf o bob man i gael gafael arno. Eithr y mae yn ymddangos, fel yr oedd blwyddyn yn dilyn blwyddyn, fod yr adgof am ryfeddodau Bethlehem a'r amgylchiadau rhyfeddol oedd yn gysylltiedig â'i enedigaeth, yn gwanhau i raddau. Nid am nad oeddynt yn gwybod pwy ydoedd, ond yr oeddynt wedi ymgynefino gymaint erbyn hyn âg ochr ddynol ei berson. Yr oedd ochr ddynol ei ymddad blygiad wedi myned yn y blaen mor naturiol, mor raddol, mor "gyffelyb ymhob peth i'w frodyr," ac yr oeddynt wedi ymgynefino gymaint â'r ochr honno bellach, fel nad oedd yn rhyfedd os oeddynt weithiau, yn enwedig ar adeg o bryder fel y presennol, yn colli golwg ar yr hyn oedd yn rhyfeddol a dwyfol ynddo. "A phan welsant ef, bu aruthr ganddynt." Ni fuasent yn synnu dim wrth ei weled yno, pe buasent, yng nghynhyrriad yr amgylchiad pryderus, yn ystyriol o'i Dduwdod. Obligid pa le yr oedd y dwyfol Fab yn debyg o fod ond

yn y dwyfol dŷ? Ac i ba le yr elsid i edrych am dano, yng nghanol dinas fawr, ond i dŷ ei Dad?

Er nad oes neb i ateb, nis gallwn lai na syn ofyn,—Pa fodd y treuliodd “y bachgen Iesu” y tri diwrnod hyn yn Jerusalem? Ymha le y lletyodd efe y ddwy noswaith hyn? A fu rhywun yn garedig iddo yn ninas Dafydd ei dad? A dderbyniodd rhywun ef dan dô? A welodd rhywun, neu a dybiodd rhywun ei fod yn gweled cylch o oleuni anghreuedig o amgylch ei ben, a mynegiad o ddoethineb mwy na doethineb dyn ar ei wynepryd? Neu ynte, a fu efe, mor fore a deuddeg oed, heb le i roi ei ben i lawr?

Y cwbl a wyddom yw ei fod yn y deml ar y trydydd dydd, “yn eistedd yng nghanol y doctoriaid, yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt.” Nid yn syllu yn syn ar ogoniant allanol yr adeilad, ond yn eistedd yng nghanol y doctoriaid. Tybia rhai ei fod yn athrawiaethu i'r doctoriaid ac yn eu dysgu. Ond dywedir yn eglur mai *eistedd* yr oedd fel gwrandawr, gwrando, holi, ac ateb. Barna rhai mai y pryd hwn yr oedd ymwybodolrwydd o'i Dduwdod yn dechreu yn ei feddwl ieuane, mai yn awr yr oedd yn dechreu dod yn ymwybodol mai efe oedd y Messiah addawedig. Yn ol y golgygiad hwn, yr ymwybodolrwydd rhyfeddol hwn oedd y peth a'i cynhyrfodd i fyned i'r deml ar yr adeg hon. Os y pryd hwn yr oedd yn dechreu teimlo mai efe oedd Y Dwyfol Fab, beth oedd yn fwy naturiol nag i'r teimlad hwnnw ei gario i dŷ ei Dad? Fe aeth yno yn naturiol hollol, *fel* y mae plentyn yn tynnu tua thy ei Dad. Feallai hefyd fod y deml yn ei adgofio (adgofio'r dwyfol oedd ynddo) am dŷ ei Dad fry, oblegid nid oedd y deml ond “portreadau o'r pethau sydd yn y nefoedd.” Fe aeth yno i'w “holi hwynt”—am beth? am dano *ei hun*. Pa fath un oedd y Messiah i fod, pa beth oedd natur ei waith i fod? Er fod llawer o opiniynau gau, eto yr oedd llawer o wirionedd yn nysgeidiaeth y doctoriaid ar y pwnc hwn, oblegid yr oedd eu dysgeidiaeth yn sylfaenedig ar Moses a'r Proffwydi. Yr oedd eu hatebion yn ei gadarnhau yn ei dufewnol ymwybodolaeth, ac o'r diwedd y mae yn darganfod ei hunan, y mae yn dyfod i'r penderfyniad, “*Myfi yw!*” Y mae y disgrifiad ohono yn cyfateb yn hollol i'r hyn yr wyf fi yn ei deimlo.” Ond pa *bryd* bynnag y daeth efe i ymwybyddiaeth o ddirgelwch ei berson; y mae un peth tu hwnt i amheuaeth, sef ei fod yn ymwybodol o hyn y pryd *hwn*, y diwrnod hwnnw yn y deml. Y mae ei atebiad i'w rieni yn dangos hyn. “Paham y ceisiech fi? oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad.” Yn yr ymwybyddiaeth o uchafiaeth anfeidrol ei berson, y mae yn ymryddhau am funud oddiwrthynt hwy, gan addef

rhwymedigaeth i un uwch. "Paham y ceisiech fi?" Yn yr olwg lawn ar ei berthynas agos â'r dwyfol, y mae yn ymddyrchafu am ennyd uwchlaw ei berthynassau â'r dynol, ac yn ymryddhau oddiwrrhynt. Gadewch fi yma, dyma fy nghartref i, tŷ fy Nhad! Fy Nhad! Fe anadlodd yr enw o'r diwedd. A chyda'r gair rhyfeddol hwn, "Fy Nhad!" yr ydym yn colli Joseff o'r hanes. Y mae Iesu a Joseff yn myned o'n golwg eilwaith dan lenni Nazareth,—Iesu am ddeunaw mlynedd, Joseff am byth!

Fe basiodd hyn yn sydyn. "A hwy ni ddeallasant y gair a ddywedasai efe wrthynt." Fe ymostyngodd y dwyfol Fab yn ol i'w sefyllfa flaenorol. "Ac efe a ddaeth i waered gyda hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt," fel y cyflawnai bob cyflawnder mewn ufudd-dod ac hunanymwadiad. Yr ydym yn ffarwelio âg ef wrth borth Jerusalem, yn ddeuddeg oed. Y mae ein disgwyliadau wrtho yn rhyfeddol fawr, oblegid yr ydym wedi deall pwy ydyw, a pha bethau y mae yn eu cylch. Dacw ef wedi gadael Jerusalem. Myned tua Nazareth y mae. Ni a edrychwn yn hir arno, yn hir ar ei ol, oblegid ni chawn ei weled ef eto am ddeunaw mlynedd. O ymostyngiad anfeidrol! Y Mab, yr Unig-anedig Fab, yn y llawn ymwybyddiaeth o urddas ei berson, eto yn cuddio y goruchel ymwybyddiaeth hwn eto yn ei fynwes, ac heb ddweyd wrth neb pwy ydoedd, heb ofyn dim o'r parch, ie'r addoliad hwnnw oedd yn briod etifeddiaeth iddo, yn myned yn ei ol yn araf, yn ostyngedig, tua Nazareth dlawd, i dreulio deunaw mlynedd ereill yno, ar agwedd gwas. Ond os na chawn weled ei wyneb, os na chawn glywed ei lais am ddeunaw mlynedd, os oes rhaid i ni droi yn ol, ni a drown yn ol gyda'r sicrwydd dedwydd ei fod yn ymneillduo yn ein hachos ni; ei fod yn myned o'r golwg i osod i lawr yr anfeidrol ddyfnderoedd ufudd-dod deunaw mlynedd golofnau iachawdwriaeth dra-gwyddol.

Ac nis gallwn ymadael â'r mater hwn heb goffhau sylw o eiddo Alford, sef *Mai yn ystod y deunaw mlynedd hyn y cafodd llawer o waith mawr yr Ail Adda ei wneuthur*. Yr ydym yn dueddol i gyfyngu ei waith fel Meichnydd i oriau olaf ei fywyd, o fewn terfynau Gethsemane a Chalfaria. Ond os ydym am gael golwg gyflawn ar y gwaith a gyflawnodd efe "drosom ni," rhaid i ni gysylltu Chalfaria â Nazareth. Yr oedd y gwaith rhyfeddol hwn yn gynwysedig yn y gweithiad allan o'r "meddwl" y sonia yr Apostol Paul am dano, "y meddwl yma yr hwn oedd hefyd yng Nghrist Iesu." Hunan-ddibrisiad, hunanymwadiad, hunanymaberthiad yn ein hachos ni, ac er ein mwyn ni, ydoedd y

O'r deml i
Nazareth.

Gwaith y
neillduedd.

meddwl hwn. "Yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd was, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion; a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd anghen, ie, anghen y groes." Ar ben Calfaria y mae "y meddwl yma" yn esgyn i'w ddadblygiad uchaf, ac yn cyrraedd ei sylweddoliad gorffennol, ond y mae y gweithiad allan ohono yn cyrraedd yn ol ac yn gorchuddio holl yspaid ei fywyd yn Nazareth. Yr oedd llawer o'i waith yn gorwedd mewn "cymeryd arno agwedd gwas," ac yn Nazareth yn bennaf y gwelir ef yn yr agwedd honno. Ymddanghosai ar agwedd brenin a mwy na brenin lawer pryd yn ei fywyd cyhoeddus, yn ei weithredoedd nerthol, ac hyd yn oed yng nghanol ei ddiodefiadau gorffennol y mae ei fawredd yn dod i'r golwg nes y mae ei elynion yn syrthio yn wysg eu cefnau. Eithr nid oes dim ond y "gwas" i'w weled yn Nazareth.

Y mae gogoniant "y meddwl yma," a'i anfeidrol werth fel rhan o ufudd-dod ac ymddarostyngiad Crist, yn gorwedd yn y gyferbyniad rhyfeddol sydd ynddo. Ffurf Duw—agwedd gwas! Gogyfuchder â Duw—cydraddoldeb â dynion! Yr hwn ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw, eto yn ymostwng o'r anfeidrol uchder hwnnw, ac am ddeng mlynedd ar hugain yn byw yn Nazareth dlawd fel dyn arall. Yr oedd yn rhaid ymddarostwng i achub. A pha ymddarostyngiad cyffelyb i ymddarostyngiad bywyd Nazareth! Dyma ddigon, mewn undeb âg iawn y groes, i gyfiawnhau dyrchafiad tyrfa nas gall neb ei rhifo. Dyma ddarostyngiad Dwdod gyferbyn â dychafiad y ddynoliaeth. Y mae cyfiawnder yn foddolawn i'r dynol i esgyn, esgyn i binaclau tragwyddol o ogoniant, esgyn i fywyd anfarwol, esgyn i gymdeithas angylion; oblegid, ar gyfer hyn, y mae yn canfod y dwyfol yn suddo, ac yn aros yn nyfnderoedd hunanddibrisiad am ddeng mlynedd ar hugain. Y mae gwerth anfeidrol, y mae pwysau anfeidrol yng nghloriannau cyfiawnder, yn ffafr pechaduriaid, yn hyn yma, sef yng ngwaith Crist *yn dod i fynny o Nazareth*, ei waith gwirfoddol yn ymostwng i ddinodedd y pentref dirmygedig hwnnw. Yr hwn nid oedd y nefoedd yn ddigon eang i gynnwys ei ogoniant, yn gwasgu ei hun megis i le mor gyfyng, "Efe a'i dibrisiodd ei hun." Yr ydym yn hoffi cyfieithiad Salisbury, "Efe a'i bychanodd ei hun." Do, am ddeng mlynedd ar hugain. Fe wnaeth ei hunan yn fach, er mwyn gwneyd pechadur yn fawr, er mwyn dyrchafu y ddynoliaeth i sefyllfa o ogoniant tragwyddol.

Yr oedd rhan fawr o'i ufudd-dod yn gynhwysedig yn ei waith yn cuddio ei ddwyfol fawredd yn wyneb llawn ymwybyddiaeth o'r mawredd hwnnw. Edrychwch arno yn nyfnderoedd ei

ymddarostyngiad boreuol. Y mae yn ymwybodol o allu, eto yn atal gweithrediad y gallu hwnnw flwyddyn ar ol blwyddyn. Y mae ei law yn dal taranfolltau Hollalluawgrwydd, eto y mae y llaw honno yn ymddangos yn eiddil, ac yn llafurio am ddefnyddiau cynhaliaeth dymlorol. Y mae yn Hollalluog, eto'n ymddangos fel yn wan! Mae yn berchen ar gyflawnder y greadigaeth, eto'n llafurio am ei fara beunyddiol. O! 'r mawredd o ymddarostyngiad; O! 'r pwys o ufudd-dod sy'n gorwedd yn y cuddio hwn. Edrych ar y sêr oddiar ystrydoedd Nazareth, heb ryddid i ddweyd mai ei sêr Ef oeddynt, mai pelydryn o'i lygaid ef a'u cyneuodd gyntaf, ac mai ei fys ef dynnodd eu llwybrau trwy eangder y greadigaeth! Rhodio ar lannau môr Tiberias, pan y gallasai rodio ar ei donnau!

Pe bai yn briodol i ni gymharu un rhan o'i fywyd â'r rhan arall, gyda golwg ar y mesur (anfesurol ymhob rhan!) o ymddarostyngiad a gynhwysant, braidd na ddywedem fod mwy o hunanymwadiad, a mwy o'r "agwedd gwas" yn neng mlynedd ar hugain Nazareth, nag oedd yn nhair blynedd ei fywyd cyhoeddus, fel yr awgrymwyd yn barod. Oblegid yn ei fywyd cyhoeddus, fel yr oedd llawer o'i ogoniant yn dyfod i'r golwg, yr oedd llawer o barch a gwarogaeth yn cael ei dalu iddo, a'i Dduwdod yn cael ei addef gan lawer. Yr oedd yn cael ei ad-dalu âg aml i amlygiad o'i ogoniant. Y mae ei fywyd cyhoeddus yn ymagor, fel codiad haul, mewn golygfa o ddwyfol ogoniant. "Ac wele y nefoedd a agorwyd iddo, ac efe a welodd ysbryd Duw yn disgyn fel colomen, ac yn dyfod arno ef. Ac wele, lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Os yw efe un diwrnod heb le i roi ei ben i lawr, y mae efe ar ddiwrnod arall yn ymgodi "yn ffurf Duw" o ddyfnder ei ymddarostyngiad, ac yn rhodio ar donnau y môr. Ond nid oedd un gweddnewidiad yn neng mlynedd ar hugain Nazareth. Dim un "Arglwydd, nid wyf deilwng ddyfod o honot dan fy nghronglwyd." Dim un daith dros donnau môr Tiberias. Dim un disgybl, mae'n ymddangos, nac un addolwr. Yr oedd yno anfeidrol ddoethineb; ond nid oedd nemawr i amlygiad o'r ddoethineb honno mewn geiriau. Nid oedd ei ogoniant yn llewyrchu yn gyson a pharhaus, mae'n wir, yn ystod ei fywyd cyhoeddus, ond yr oedd ambell i fflachiad sydyn a barai i bawb gredu fod y goleuni yn ddwyfol. Nid oedd ei ogoniant yn llewyrchu fel yr haul, gyda pharhaus gysondeb, ond yr oedd yno ambell i fellten ddwyfol.

ALEXANDER SMITH.

LLAWER gwaith yr ydys wedi gofyn, Beth yw Barddoniaeth? a llawer ymgais a wnaed cyn hyn i ateb y gofyniad. Ond o'r braidd y gellir cael unrhyw atebiad mewn ffordd o ddeffiniad (*definition*) o farddoniaeth a rydd foddlonrwydd i'r meddwl. Ond os na ellwch chwi ddweyd pa beth ydyw, chwi a'i hadwaenoch lle bynnag y byddo, megis drwy reddf. Pa un bynnag ai mewn pennill ai mewn pregeth, ai yn y gân ai yn yr areithfa, y byddo yn gwneyd ei ymddanghosiad, bydd y galon ddynol yn sicr o'i sylweddoli ac o deimlo ei swyngyfaredd nefolaidd. Nid rhyw hoff iawn fyddwn ni o ddeffiniadau o gwbl, yn enwedig deffiniadau o'r pethau hynny sydd yn ymylu ar yr anweledig, a'r pur, a'r nefol. Gwell gennym gadw ein hunain yn rhydd oddiwrth lyffetheiriau o bob math.

Beth yw barddoniaeth? dyna'r pwnc. Nid ydym yn meddwl gwneyd un ymgais i'w ateb mewn ffordd o ddeffiniad, canys y mae y lliaws a geisiasant ei ateb yn y ffordd honno o'n blaen wedi gadael y pwnc bron lle yr oedd cyn hynny. Gair rhyfedd yw y gair *esboniad*, canys y mae llawer esboniad yn gofyn am gael esboniad arno, lawn gymaint a'r testyn gwreiddiol. Ac fe allai, ped aem ninnau i esbonio y pwnc hwn, y gellid ddweyd am danom fel y dywedodd Byron am athronydd enwog,—

“ Explaining metaphysics to the nation,
I wish he would explain his explanation.”

Myn rhai fod mesur ac odl yn hanfodolion barddoniaeth, ac nas gall barddoniaeth fodoli hebddynt. Cyfaddefwn yn rhwydd fod mesurau ac odlau yn gynorthwyolion ac yn addurnolion i farddoniaeth, ond nid ydym yn barod i gyfaddef eu bod yn hanfodolion anhebgorol. Yr ydym wedi gwrandaw pregethau ag y buasai yn llawer hawddach gennym eu galw yn farddoniaeth na llawer prydddest lefn ei hodlau. Y meddylddrych sydyn hwnnw a saethodd fel mellten dros y gynulleidfa, gan glaeu oleuo rhyw eigion o wirionedd—rhyw glogwyn yn y nef—am funud—barddoniaeth oedd yno wedi cyrraedd pwynt rhy bell, rhy ddwyfol i ddaearolion bethau fel odlau fodoli arno. Pan fyddo yr athrylith barddonol yn esgyn i'w gylchoedd uchelaf, agosaf i'r nefol a'r didranc, nis gall fforddio, gan ysblander y weledigaeth, i ddisgyn i lawr i'r daearol i droi tudalennau geirlyfr am gyfodlair. Eto fe *fydd* yr iaith yn farddonol yn ystyr gwirioneddol y gair barddonol, bydd y geiriau yn dylifo yn

gysonber, sein-fawreddus, a llawnion, fel afonydd **chwyddedig**. Y mae deddf dragwyddol o gynghanedd neu bereidd-der yn gorwedd yn hanfod yr ysbryd barddonol, ac fe fydd **dylanwari** y ddeddf dufewnol honno, yn ddiarwybod i'r bardd ei hun, yn sicrhau llyfnder a nerth a pherseinedd yn yr iaith a ddefnyddia. Na feddylid neb ein bod yn condemnio yr odl; yr ydym yn caru odl gymaint a neb, ac nid rhyw fath o odl hefyd; rhaid i'r odl fod yn ddifai, nid yn unig i'r clyw, ond i'r llygad hefyd. Dyna ym yn ei ddweyd, fod barddoniaeth yn ei hanfod yn rhyw beth sydd yn anhraethol uwchlaw odlau, ac hefyd fod deddf o gynghanedd, *an internal law of harmony*, mewn Awenau uchradol a disgybledig (am y cyfryw awenau yr ydym yn siarad) a'u diogela rhag unrhyw amhriodolder, garwder, neu amhereidd-der mewn arddull ac iaith, yn anibynnol ar y gosodiadau dynol a elwir yn rheolau barddoniaeth. Ni raid i angel wrth gledrau gosodedig i redeg arnynt; peiriant difywyd *mechanical* sy'n sefyll mewn angen am gledrffordd. Gellwch ollwng angel i las anfeidrol y nef, bydd holl swn chwifiad ei esgyll yn berorol, a'i holl ysgogiad yn aruchel a mawreddog fel chwyldro seren.

Ereill a honnant fod y gynghanedd yn hanfodol i farddoniaeth. Yr ydym yn hoffi y gynghanedd gymaint â neb, ac yn ymorfoleddu ynddi fel etifeddiaeth genedlaethol, fel cyfundrefn sydd yn sylfaenedig ar ansawdd ein hiaith, ac yn ddrych i ddangos ei chyfoeth a'i hamrywiaethau. Mae y gyfundrefn gynghaneddol yn *literary curiosity* nas gall unrhyw genedl arall dan y nef ddangos ei chyffelyb. Mae cenedloedd ereill yn rhyw sôn am *alliteration*, ond y Gymraeg yn unig sydd wedi cario allan yr egwyddor hon a'i dadblygu, nes ffurfio ohoni gyfundrefn berffaith. Ar yr un pryd ni fynnem gyfyngu yr Awen Gymraidd i'r gyfundrefn hon; canys er amled ei cheinion, ac er mor genedlaethol ei neillduolion, nid ydym yn meddwl ei fod yn ddichonadwy byth i unrhyw athrylith orchfygu hualau y gyfundrefn mor llwyr fel ag i ddwyn allan orchestwaith barddonol o'r radd uchaf, megis *Paradise Lost* neu y *Divina Commedia*.

Pa beth ynte yw barddoniaeth? Yr ydym, yn ol yr hen ddull, wedi trin y pwnc yn nacaol. Ffordd burion i'w drin yn gadarnhaol fydd gosod ger bron ein darllenwyr ychydig ddyfyniadau o weithiau rhai o feirdd diweddar Lloegr. A chan fod *Life Drama* Alexander Smith ar y bwrdd o'n blaen, ni a ddechreuwn gydag ef. Y mae Smith yn fardd o radd uchel iawn, ac yn seren ddisglaer ar lenyddiaeth farddonol yr oes. Fe allai na chymerodd unrhyw fardd erioed safle mor uchel ym meddyliau ei gydoeswyr ar ymddanghosiad ei waith cyntaf.

Croesawyd ef bron yn ddiethriad gan yr holl feirniaid. Mae ei ddychymyg cyfoethog yn esgor yn ddiball ar ffigyrau a delwau (*images*) barddonol; y mae y ffigyrau hyn mor ffres a'r gwllith, ac mor ysblenydd a lliwiau y wawr, ac y mae ganddo feistrolaeth ryfeddol ar iaith. Rhaid i chwi fod yn ofalus wrth ddyfynnu darnau allan o ambell i lyfr, onide chwi ddyfynnwch yr oll sydd o werth ynddó mewn byr amser. Ond am y gyfrol hon, gallem lenwi *Cylchgrawn* â dyfyniadau o honi, a byddai yn gyfoethog wedyn. Na feddylid y darlennydd ein bod yn myned i feirniadu y gwaith hwn; yr oll a wnawn fydd dyfynnu rhai darnau ohono, i'r diben o ddangos i'n darllenwyr ieuainc *beth yw gwir farddoniaeth*. Bydded iddynt gymdeithasu llawer â gweithiau o'r fath yma, a deuant yn fuan i amgyffred hanfod a dirgelwch barddoniaeth. Fel hyn y sieryd ef wrth yr Awen,—

“ I love thee, Poesy ! Thou art a rock,
I, a weak wave, would break on thee and die.”

Mor hunan-ymwadol mae y bardd yn siarad am dano ei hun yn y llinellau canlynol,—

“ 'Tis not for me, ye Heavens ! 'tis not for me
To fling a Poem, like a comet, out
Far—splendouring the sleepy realms of night.
I cannot give men glimpses so divine,
As when, upon a racking night, the wind
Draws the pale curtains of the vapoury clouds,
And shows those wonderful, mysterious voids
Throbbing with stars like pulses.”

Gwrandawn arno yn anadlu ei ddymuniadau am ogoniant,—

“ A star is trembling on the horizon's verge,
That star shall grow and broaden on the night,
Until it hangs divine and beautiful
In the proud zenith—
Might I so broaden on the skies of fame !”

Nis adwaenom nemawr i fardd mor hoff o'r Lloer,—

“ I am fain
To feed upon the beauty of the moon.”

Pwy all esbonio y cyd-darawiadau anweledig sydd rhwng defnydd ac ysbryd, y rhai sydd yn gwneyd ffurfiau y cyntaf yn ddrychau cyfaddas i deimladau yr olaf! Ond os na ellir eu hesbonio, fe all

“ The vision and the faculty divine ”

eu darganfod a'u defnyddio, fel ag i beri i deimladau yr ysbryd anfarwol ddyfod allan o'r anweledig a gwisgo cnawd. Y mae yr anianawd farddonol (braidd y gwyddom paham, ond yr ydym yn ei deimlo ynnom ein hunain) wedi darganfod rhyw

beth ar wynepryd y lleuad sydd wedi ei gwneyd hi yn ddel-
o brudd-der. Onid yw y ddynoliaeth yn ymlonyddu i ryw b-
brudd-der wrth gymdeithasu â'r lloer—

“Sorrowful moon! seeming so drowned in woe,
A queen, whom some grand battle-day has left
Unkingdomed and a widow, while the stars,
Thy handmaidens, are standing back in awe,
Gazing in silence on thy mighty grief.”

Meddylwfn fod y darn a ganlyn yn dra barddonol,—

“I look, sweet Flora, in thine innocent eyes,
And see in them a meaning and a glee
Fitting this universal summer joy;
Each leaf upon the trees doth shake with joy,
With joy the white clouds navigate the blue,
And on his painted wing the butterfly,
Most splendid masker in this carnival,
Floats through the air in joy! Better for man
Were he and Nature more familiar friends!
His part is worst that touches this base world.
Although the ocean's inmost heart be pure,
Yet the salt fringe that daily licks the shore
Is gross with sand.”

Pa beth all fod yn dlysach na'r canlynol (wrth ganfod Walter
yn cysgu dan gysgod pren yn y goedwig),—

“Ye envious lids! I fain would see his eyes!
Jewels so richly cased as those of his
Must be a sight.”

Am lyfrau,—

“Books written when the soul is at spring-tide,
When it is laden like a groaning sky
Before a thunder-storm, are power and gladness,
And majesty and beauty. They seize the reader
As tempests seize a ship, and bear him on
With a wild joy. Some books are drenched sands,
On which a great soul's wealth lies all in heaps
Like a wrecked argosy.”

Mae y llinell ganlynol debygem yn dra phrydfferth,—

“This book has domed my being like a sky.”


Ac am ei awdwr eilwaith,—

“He was one
Who could not help it, for it was his nature
To blossom into song, as 'tis a tree's
To leaf itself in April.”

Am y môr,—

“The lark is singing in the blinding sky.
Hedges are white with May. The bridegroom sea
Is toying with the shore, his wedded bride,
And, in the fulness of his marriage joy,

DDONIAETH.



un o brif ddiffygion
ad yw eisiau mwy o
deusiad o ansodd-
bywyd brawddeg yn
ar un gair. Y mwyaf
adnabuom ni erioed
Griffiths, "Gohebydd"
ariau fel ag y mesura
ron ei gamrau hefo'r
steddfod Genedlaethol,
enillodd cyfaill i'r
id oedd dim a fodd-
grifennu erthygl adol-
aru; a chan fod yr
ofe a geisiodd ganddo
mwyn pwyntio iddo ef
i yr ysgrifennydd, gan
Iae gwell gair na *hun*
ghosai ar y pryd yn
burion, ewch ymlaen."
ac fe synfyfyrïai am
edd, ac yn wir, gair i
ynddo. Fe ddysgodd
hofiwyd mo honi.
wenylen, yn priodoli
m,—sef diwydrwydd a
deth rhwng y geiriau,
weych, trybeid, tanbaid,"
an dano yn mabwysiadu
gynnyg ei wasanaeth,
y cyfatebol ac yn fwy
au i'r eira, yn dweyd,
ad."
gwyn." Nid yw eira
bod yn seren serenog.
Lân gyda hyn!—"Yr
olch fi, a byddaf wyn-
Hollalluog frenhinoedd
almon." Megis pa beth

ydwy cennad ffyddlon? Megis oerder eira yn amser cyn-hauaf." Meddylïer am gafod o eira yn disgyn ar y medelwyr chwys-olchedig yn nyfnder poethder haf! Purdeb Nazareaid Seion, eto,—“Purach oedd ei Nazareaid hi na'r eira, gwynnach oeddynt na'r llaeth, gwridocach oeddynt o gorff na'r cwrel, a'u trwsiad oedd o saffir.” “Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ant cyn wynnad a'r eira.” Eto, oferedd diniweidrwydd dynol,—“Os ymolchaf mewn dwfr eira, ac os glanhaf fy nwyllaw yn lân; eto ti a'm trochi yn y pwll, a'm dillad a'm ffeiddiant.”

Y mae y diffyg manylder y cyfeirir ato yn cyfodi oddiar ddiffyg arall, y rhan amlaf, sef diffyg addysg glasurol ym more yr oes.

Edrycher ar feirdd o athrylith uchelryw, ond heb fwynhau manteision addysg uchel. Saif Dewi Wyn o Eifion ar ben y rhes, uwchlaw Goronwy a phawb. Dewi Wyn o Eifion ddechreuodd ymeangu yng nghylch gweledigaeth yr Awen; lled gul eu meddylfryd, a chyfyng eu cydymdeimlad, fuasai ei ragflaenoriaid ymron i gyd. Eithr, er holl gryfder ei athrylith a nerth mawr ei gyneddfau, fe ellir pigo allan laweroedd o ansoddeiriau perffaith weiniaid yn ei waith. Y mae y *Traethodydd* yn priodoli y pentyrru ansoddeiriau eiddilion hyn i'r ffaith fod ar y bardd “eisiau cynghanedd.” Ond yr oedd Dewi Wyn yn ormod o feistr ar y gynghanedd i fabwysiadu gair gwan, neu foddloni ar gyferbyniadau eiddil a diafael. Yr oedd y gŵr a gyfansoddodd,—

“Daw'r genedl adre i Ganan,—daw all
Adeiliaw coed Liban,
Daw mil myrdd o demlau mân—mewn purdeb
O odre Horeb draw i Haran,”—

yn ormod o gelfyddydwr i ymdawelu ar eiriau gweinion *er mwyn* cynghanedd. “Eisiau” disgyblaeth foreuol lem oedd ei brif eisiau; a hefyd, weithian, eisiau gofal, pwyll, ac ystyriaeth wrth gyfansoddi; ac, ambell i bryd, diffyg anianaeth hwyliog ar y pryd.

Bardd mawr ydoedd cymydog a disgybl Dewi Wyn o Eifion, sef Eben Fardd. Ond perthyna iddo yntau ddiffygion cyffelyb i eiddo ei athraw enwog; gyda hyn o wahaniaeth—yr oedd tynerwch (*pathos*) lawer pryd yn Dewi Wyn, tra y mae Eben yn hollol amddifad o'r elfen bwysig honno. Y mae Awdl “Dinistr Jerusalem” mor fawreddog a chreigiau Eryri, a'r un mor foel hefyd. Fe wna Eben i chwi synnu, ond ni wna i chwi wlo fyth, bron.

Pwy all lai na themlo uwchben dolef dyner “y gŵr o Gaerwen,” o berthynas i'w gystudd,—

“Ymroi raid, marw yr wyf,
Marw raid, ymroi'r ydwyf.”

“ Rhyfedd Dduw! rho faddeuaht—im’ mewn cred,
Er mwyn Crist a’i haeddiant;
Gwna fi’n dduwiol, siriol sant,
I gynnâl pwys gogoniant.”

Mawreddogrwydd yn y desgrifiadol ydoedd cuddiad cryfder Eben Fârdd. Rhyw ddigwyddiad ydyw cwrdd â’r tyner yn ei waith; ac ar hyn o bryd nis gallwn alw i gof ond esiampl-neu ddwy,—

“ Rhyw fael fawr i wr fel fi
Yw drannoeth di-drueni!”

“ Rhin y gwaed nac aed o’m cof,
Gwnaed gannaid enaid ynnof!”

Y mae efe yn hynod o ddiotal ac esgeulus gyda’i ansoddeiriau, yn enwedig yn ei gynyrchion boreuaf. Cymerer ei ddesgrifiad o Jerusalem,—

“ Ei *hoff* balasau a’i phobl *tiocog*,
Dawnu lywlawdwyr, Dinas *oludog*,
Ei *berthog* rannau, *hen* byrth *gorenwog*,
Muriau *diadwy*, O, mor *odidog*!
Addien, *sermawl*, Ddinas *ariannog*,
Cyrorain a *llawen*, ceir hi’n *alluog*,
Heddyw o’i rhwysg nid hawdd yr ysgog—hi,
Hawddamor iddi, le *hardd*, *mawreddog*!

Nid oes dim yn y toddaid hwn ond twrf geiriau. Ceir ymaddau ar bymtheg o ansoddeiriau, a’r rhan amlaf yn o debyg yn eu hystyr i’w gilydd. Dinas oludog, berthog, ariannog—dyma dri gair yn arwyddocau yr un ansawdd; a gwnelsai “goludog” yn llawer gwell ar ei ben ei hun. Eto,—dinas orenwog, odidog, alluog, hardd, a mawreddog—dyma bump ansoddair heb nemawr o wahaniaeth yn bod rhyngddynt. Eto, ei englyn diweddd-gloawl ar “Job,”—

“ Buchedd Job i wych ddiben—ysgrifwyd,
Dengys grefydd drylen;
Gwir afaelfawr gref elfen,
A’i thynfa i’r Wynfa Wen.”

Nid priodol o gwbl y “*Wynfa Wen*.” Yr ansawdd a briodolir i’r Wynfa yw *gwyndra*, ond y mae y gair ei hun yn cynnwys yr ansawdd yn ddigon eglur.

Gadawer i ni yn awr droi at un neu ddau o’n beirdd dysgedig. A dechreuwn gyda Ieuan Glan Geirionnydd, un o’r beirdd tyneraf ei awen a fagodd Cymru erioed, ac awdwr yr hymn felus, “Ar lan Iorddonen ddofn,” &c. Y mae bron yn amhosibl rhoi bys ar gymaint ag un ansoddair ambriodol ac eiddil yn ei holl weithiau ef. Un o’i weithiau pennaf yw ei “Awdl ar Hir-aeth Cymro am ei Wlad,” ac fel hyn y desgrifia deimladau pruddaidd yr estron,—

“ Awel dyner fy hen wlad anwyl,
A oedai ddyddiau oriau f' arwyl;
O, brysia, enwog breswyl,—i'r meddiant
Cu y dynesiant, min cadw noswyl.

“ A thrydar am ei throedio—yr ydwyf,
A thradwys och'neidio;
Frysured a deued, O!
Yr adeg im i'w rhodio.

“ Y gwir feddygon, er eu doniau,
A'u glân hoffeiriau, wiw gyffuriau,
Ni laesant byth mo'm loesau;—Cymru glyd
Anwyl i'w sengyd,—neu lys angau!

“ Y golomen, yn ddigwl imi,
Gad im gymell dy asgell wisgi,
Dos a diaros genadwri.
Tro i fy hoenus gartref heini,
I ddwedyd yn ddiocedi,—fod o'r bron
Y galon dirion ar ymdorri.

“ Fel gwylan, wawr hoew-lân am fôr heli,
Gwlyydd, a'i lawenydd am oleuni,
Nel fal y gwenyn am fêl i'w gwemi,
Neu glaf fyg einioes o'i glwyf a'i gyni,
Neu faban am ei fami,—mae 'nghalon,
Am y wlad dirion, yn ymyl torri.


“ Fel llwdn a'i fref am ei gynefn,
Neu'r blaidd am hafaidd dês Mehefn,
Neu'r hydd am afonydd i'w fin,—ochaf
A mawr ysaf am Gymru iesin.”

Yn awr, y mae rhifedi mawr o ansoddeiriau yn y darnau hyn, ond y maent mor gyfatebol ac mor berffaith yn eu lle, fel nad ydym braidd yn ymwybodol o honynt. Pan fyddo ambell i garreg arw heb gyfateb i'w lle, a heb ei thrin, yn *projectio* allan o adeilad hardd, y mae yn tynnu ein sylw ac yn dolurio ein llygad. Ond y mae adeilwaith awenyddol Glan Geirionnydd yn gydgaboledig drosto oll. Yr ydym yn edrych yn foddhaus ar gyfanwaith cydwedd o brydferthwech meddyliol, ac y mae effaith y cyfan arnom yn ddymunol iawn.

Yr oedd Ioan Tegid yn fardd dysgedig, ac er fod ei waith barddonol yn lled sych, eto y mae yn werth i gyfansoddwyr ieuainc ei fanwl efrydu, er mwyn y cynllun a fforddia o fanyl-der a chywirdeb gramadegol. Fel hyn y darlunia adferiad dedwydd Job,—

“ Mil amlach bref ei ddefaid,
Dwy gorlan pob corlan caid,
Ac ychain oedd gannoedd gynt,
Yn ddedwydd floedd ydynt;
A'i gannoedd esyn gynnuau,
O'i gylch ynt floedd yn gwau;
Ac yntau mwynhau mewn hedd
Faith rif ei gyfoeth rhyfedd.

“ All deulu o'i ddeutu ddaeth,
Ar ei aelwyd fawr helaeth;
Meibion prydfarth cydnerth call,
O dda a chyflym ddeall;
A merched deced a'r dydd,
O hynod glod trwy'r gwledydd.
Rhyfedd yw ffyrdd, myrdd a mwy,
Ein lor; neud anirnadwy!
Ynt argel, ond diwrygam;
O dan gêl, ond nid yn gam.”



la *Baner America*
 ymddanghosodd y
 ydym yn ddiolchgar
 i'r. Lemuel James, am
 wat y mater. Nid yw
 ei hun o nemawr
 unig mai anfon-
 idio ateb. Yn wir,
 a, canys y mae dwy
 yn werthfawrocach
 tur melyn. Fe gofia
 wyr yn dda am y
 Parch. Moses Ellis,
 Islwyn. Fe gollodd
script, o'i awduriaeth
 dai ddeuwyd o hyd i'r
 rwaith hwn ran fawr
 wb a'i hadwaenai y
 o at yr amgylchiad
 lladron, ac fe ben-
 on defaid!" meddai;
 ladron pregethau!"
 egethau mewn ffordd

YN?

a ymddanghosodd yn y

—
math,

wr gennyf mewn math o
 fel y cefais i hwynt.—Y
 au yn ei fedd), pan ar ei
 (dai wrthyf hanes 'cwrdd
 (dai, dywedai ei fod yn *bed-*
 barddoni tan 'oriau bach y
 quadwy offeithiol y Parch.
 alig cymhariaeth y 'graith
 'John,' meddai Islwyn, 'Be



"Adroddwyd y llinellau ugeiniau o weithiau o bulpudau Morgannwg, cyn iddynt erioed gael eu hargraflu, a hynny fel eiddo yr awenydd grymus o Fynydd Islwyn. Os y bardd o Borthmadog a'u cyfansoddodd, gadewch i ni gael y prawf, ac yna bydd 'pob peth yn dda.'

"*Utica, N.Y.*

APMADOC."

Y mae yr amgylchiad uchod yn aros yn newydd yn y cof hyd heddyw. Dyn o athrylith a choethder anghyffredinol ydoedd Cledwyn Jones. Ond efe a laddwyd yn fore gan wely *damp*. Darfu i wely llaith ei roi yn fore mewn gwely lleithach. Y mae gwelyau *damp* wedi rhoi beddau anamserol i lawer o oreuon pregethwyr Cymru. Gwell yw dilyn esiampl Theophilus Jones. Un od yn ei ffordd ydoedd "The Jones;" ond nid rhy od i ddibrisio ei iechyd. Cysgai un noswaith mewn ffermdy, lle y cai bob parch ond gwely parchus a chras. Aeth y wasanaethferch i ddangos yr hen bregethwr enwog i'w nos-ystafell. Yr oedd yr ystafell yn un fawr, a'r *pren* gwely yn un gwyg; ond aroglai Jones leithder.

"Odi'r gwely hyn yn *safe*?" gofynnai.

"O, mae e'n eitha, syr," ebe'r wasanaethyddes, "'does neb wedi cysgu yma er's tri mis, syr."

"B'le'r wyt ti'n cysgu?" gofynnai Theophilus Jones. Danghosodd yr eneth iddo ystafell fechan a *phren* gwely crin, ond dillad gwely perffaith gras.

"Dyna," meddai Jones, "dos *di* i'r *room* fawr, fi gysga i yma—*Good night*." Ac felly efe a achubodd ei einioes am y tro hwnnw.

Tra yn son am Theophilus Jones, yr ydym yn galw i gof amgylchiad arall. Pregethai, medd yr hanes, yn Cendl (Beaufort), am ddau o'r gloch yn y dydd, un tro. Yr oedd yn arferiad yn y dyddiau hynny i'r *colliers* defosiynol ddod i fyny o'r pyllau glo a myned ar eu hunion i'r *gallery* pan fyddai pregethwr hyglod yn pregethu yn y prydawn. *Slipia* un *collier* ar ol y llall i'r oriel, gan ddued â phechod Adda, oddigerth eu llygaid a'u dannedd. Rhoddai "yr Hen Theophilus" *start* bob tro y delai glowr i fewn. Feallai na welsai lowr yn ei fywyd o'r blaen—hynny yw, yn ei dhillad gwaith. Nis gwyddai y gwahaniaeth, feallai, rhwng glowr â dyn du. Fodd bynnag, aeth y wasgfa ar ei ysbryd yn rhy drwm, a dywedodd,— "Wn i beth y'ch chi, ond fe ŵyr Duw mae arna i'ch ofon chi;" a diweddodd y gwasanaeth ar hynny.

Ond at gwestiwn y *Drych* Americanaidd. Nid oes *dim* a fynno Islwyn â'r ddwy linell grybwylledig. Nis gŵyr efe ai Ioan Madog ai arall yw eu hawdwr, ond maent yn debyg i ddawn y clodwiw Ioan Madog.

A ydyw yn bosibl rhagori ar y ddwy linell gywydd godidog,—

“Gwaed y groes a gwyd y graith,
Na welir mo'ni eilwaith.”

Y mae bron yn gyfartal i'r Ysgrythyr Lân ei hun,—“Eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, eithr yn sanctaidd ac yn ddifeius.” “Y rhai a olchasant eu gynau, ac a'u kannasant hwy yng ngwaed yr Oen.”

Ac eto, y mae bardd y genedl Gymreig HEB YMDDANGOS, yn ol rhai o'n beirniaid! Wel, yn wir, y mae eu disgwiliadau yn anghymharol o uchel—yn uwch nag eiddo un genedl a fu neu a sydd! Y gwir yw, ped ymddanghosai yr arch-angel Gabriel ei hun yn rhywle yng Nghymru, a phe fflamiai drwy nefoedd aruchledd dan y teitl o “Welsh Bard,” nis gwnai rhai barchu ei farddoniaeth, hyd yn oed pe byddai i'w ddisgleirdeb eu taro â dallineb. Y mae yn bryd, bellach, i ni gael terfyn ar y *nonsense* hyn, ar y grach-feirniadaeth ynyd hon. Ni fyn y Saeson, lawer o honynt, gydnabod ein llenoriaeth; ond bydd yn dda gan eu gorwyrion ddysgu ein hiaith. Ni fyn Llywodraeth Arglwydd Beaconsfield gynorthwyo ein *cyntaf* a'n *hunig* Brifysgol; ond fe gostia y tro iddynt hwy fwy o filoedd o *votes* nag a ofynnem ni o *sovereigns* yn y flwyddyn. Nid ymddygodd Gweinidogaeth Brydeinig mor anghyfiawn erioed; ac y mae y tro yn sicr o ddwyn dialedd ar rai neu ar rywun. A ydyw Iwerddon yn fwy “loyal” na'r Dywysogaeth? A ydyw Lloegr yn fwy teyrngarol na'n pobl addfwyngar ni? A ydyw hyd yn oed Ysgotland? Na; os yw y Cymry, fel corff, wedi gadael Eglwys Loegr, y maent wedi glynu wrth Goron Lloegr, ac y maent yn ddigon boddolawn i'r Eglwys eu hennill yn eu hol, os gall hi. A ydyw Iwerddon a Lloegr wedi addurno dwylaw ein barnwyr â chynifer “pârau” o “fenyg gwynion” ag y mae y Dywysogaeth deg wedi ei wneyd? Er hynny, nid oes gan ein pennau coronog deyrn-balas yn holl Gymru, ac nis gellir dylanwadu hyd yn hyn ar Dywysog Cymru i ddyfod i Eisteddfod, er fod ein henw arno. Na!

“Pa wlad, wedi'r siarad, sydd
Mor lân a Chymru lonydd!”

Ac eto, nis myn yr awdurdodau nesaf i'r Orsedd i ni gael manteision addysg uwchraddol. Y mae y manteision hyn gan yr Ysgotiaid, ac eto parhant hwy yn bobl mor neillduedig, mor *clannish* ag erioed. Y mae yr un manteision gan Iwerddon, ond beth yw y firwyth? Anesmwythder, terfysg, *Fenianism*. Ac hyd yn oed wedi ymfudo o Wyddelod i wledydd tramor, y mae eu gelyniaeth reddfol at Loegr yn parhau, ac y maent yn epilio mor aruthrol o gyflym fel y gall perygl godi ryw ddydd o'u gelyniaeth atom. Eithr nid yw y Cymro yn y Trefedig-



un parth o'r llydan
Prydain Fawr, na'i
ymuno casglu digon
ei enedigaeth, a huno

dar lol a ffiloreg y
n ceisio dirmygu ein
ant yn grach-feirniaid
wyr dysgedig ond
ol o gwbl. Pa beth a
farnai weithiau llen-
ghnw ar yr un pryd
ydym ni, lenorion
n; ond y mae torf
hynny funudyn yn
dd feddargraff Dewi
pryd proffwydoliaeth

bedd?"

synnu cenhedloedd"
yn dechreu distewi,
ainc a Germany yn
nder a'n llenyddiaeth
goreuon y bobloedd,
ol ni yn gywreinbeth
ddod yn agos ati.

Y mae hyn yn ein
mewn pentref yng
heibio, ac ymosododd
hynny yn afresymol
yn rhyw fath o gan-
gaed rhyw Gymro
Aroswech, peidiwech,
nob, "Nid *dyn* yw e,



er, y bu Cofiant Caled-
to ei ffordd i oleu dydd.
ennym ei weled, ac eto
m siomi. Y mae yn
au o gymeriad Caled-
bron, ond nid Caled-
Tueddar ni i ofyn
d, wrth droi tudalen
o'r llyfr hwn,—Pa le
alfryn a adwaenem ni
wen? Pa le y mae y
adeithasol? Pa le y
oleuai y tŷ, ac a wnai
wen? Pa le mae yr
methbert—yn y gadair
dychymygu efelychu
abl? Nid ydym yn ei
wyll sydd yma bron
ild ei hun sydd wedi
ofiant. Ond yr oedd
modiadau hyn—llesg o
yn yn hen a methedig
ydnaws â'r sefyllfa y
feddwl yn ol at yr
boreuol yn ei fywyd
medigaethau, a meth-
toedd llwyddiannus.
d, *nid* mabwysiadu y
cyfanrwydd, ond eu
s Cofiant, gan adael
lleshad i neb. Peth
wr ysgrifennu *auto-*
corfforol a meddyliol
eill, nis gall farnu ei
ed oedd ei brif gamp-
selio y farn hon yn

Yr elfen fawr yng nghymeriad Caledfryn ydoedd anibyniaeth meddwl di-ben-draw. Nid oedd o un pwys yn ei olwg ef beth yn y byd fyddai y canlyniadau, os barnai fod y cwrs a fabwysiadai yn gwrs yn ol y gwirionedd. Yr elfen hon ydoedd sylfaen ei lwyddiant a'i fawredd; ond bu iddo hefyd ar rai achlysuron, o'i gorweithio i eithafion annoeth, yn ffynhonnell o wendidau a phrofedigaethau. Cashai "Ditotaliaeth," ys geilw efe hi, oherwydd ei bod yn ormes gymdeithasol, ac yn torri ar draws anibyniaeth dyn. Yr oedd noswaith yn nhy Titotal, yn ei dyb ef, fel noswaith mewn carchardy, canys yr oedd egwyddor anibyniaeth wedi syrthio ar yr heol o'r tu allan. Bu llawer o ymosod arno oblegid y peth hwn, ond nid allodd neb erioed roi bys ar gymeriad glân, ac nid oedd yn byw yn ei oes ef ddyd mwy cymedrol. Ffromai yn aruthr, ac nid heb achos, wrth weled *rascals* meddw, wedi bod yn rholio yn y ffosydd am ugain mlynedd, yn cael eu codi yn sydyn i'r areithlawr a'u caniatu i arllwys llaid a thom at gymeriadau dynion da; canys efe a welsai y rhai hyn, bron i gyd, yn ail-syrthio i'r ffos, ac yn ebrwydd ddyrchwelyd i uffern.

Fe ddygwyd Caledfryn i fyny o dan nawdd y Methodistiaid Calfinaidd yn Ninbych, a chafodd bob cefnogaeth gan y cyfeillion i ddechreu pregethu. Ond y mae yn debygol fod yn Ninbych ar y pryd ryw un blaenor neu ddau nad oedd Caledfryn ieuanc yn gwbl wrth eu bodd. Yr oedd yn rhy anibynnol iddynt hwy, eto nis meiddient ei ateb mewn dadl. Y pwnc y tramgwyddai efe wrtho ydoedd awdurdod y cyfarfod misol ar yr holl eglwysi. Credai ef fod eglwys yn gorff cyfan a chyflawn ynddi ei hun, ac nad oedd un hawl gan un eglwys neu eglwysi ereill i ymyrraeth yn awdurdodol â hi mewn dim. Nid oedd hogyn fel hyn wrth fodd y tywysogion. Y fath nifer o fechgyn, o dalentau disglair, sydd wedi eu tarfu oddiar lwybr defnyddioldeb gweinidogaethol—rhai wedi troi allan i'r byd—ereill wedi gorfod rhwygo cysylltiadau bore'r oes—yn unig o herwydd ambell i hen flaenor anwybodus, balch, chwyddedig, anllythyrennog, ond cyfoethog! Fel ffrwyth ei fyfyrion ef ei hun ar yr hyn a ymddanghosai i'w feddwl y ffurflywodraeth eglwysig oreu, ac mewn canlyniad i symbyliad cryf i "groesi," a gawsai gan y Parch. Arthur Jones, Bangor, heb anghofio hefyd "ymddygiadau rhai o'r blaenoriaid mwyaf taeg a chyndyn," efe a ymunodd yn sydyn â'r Anibynwyr, a chyda hwynt y glynnodd hyd ei fedd. Dechreuodd bregethu yn fuan, aeth rhagddo gyda chyflymdra, a chafodd ei neillduo i waith y weinidogaeth Mehefin 2, 1829, yn Peniel, Llannerchymedd.

Efe a symudodd wedi hyn i weinidogaethu i amrywiol fannau,

ac, yn eu mysg, i Lundain. Yr oedd dau ddiakon yn Llundain yn peri blinder iddo, a gwnaeth iddynt yr englyn canlynol,—

“Sion Mathews sy'n ymwthio,—am y blaen
Y mae blys mawr arno;
A Sion Evan sy'n nofio,
Ynddo'i hun mae 'i nefoedd o.”

“Y mae yn beth i'w ryfeddu na ddigwyddodd i'w ran ef erioed gael eglwys fodeuog dan ei lywyddiant; ond yr oedd yr achos wedi cael ei faeddu yn Llannerchymedd, ac yng Nghaer-narfon, ac nid oedd yn llewyrchus yn Llundain, ac yr oedd o dan y dŵr yn Llanrwst.” Mewn un gair, nid ymddengys i Galedfryn gael lle a chylch hollol gyfatebol iddo ei hun, hyd oni ymsefydlodd yn y Groeswen. Wrth gyfeirio at y lle dedwydd a thawel hwn, dywed:—“Gall ddywedyd iddo weled aml a blin gystuddiau yn ystod y daith, ond fod goleuni wedi tywynnu ar ei babell yn hwyr ei ddydd. Cafodd le wrth ei fodd i weinidogaethu, a gwraig wrth ei fodd i'w gynorthwyo ac i ofalu am dano yn ei hen ddyddiau.”

Fel llawer o'i flaen ac ar ei ol, efe a lafuriodd gyda'r waag newyddiadurol ar ei golled. “Golygodd y *Sylwedydd*, cyhoeddiad misol, heb cael dim ond colled oddiwrtho. Golygodd y *Seren Ogleddol*, heb daliad erioed; a chyn hynny *Tywysog Cymru*. Golygodd *Gylchgrawn Rhyddid* am ddim. Golygodd yr *Am-aethydd*, heb gael un rhan o bedair o'r tâl a ddylasai gael. Golygodd y *Gwron* am bedair blynedd, a cholodd trwy hynny dros saith bunt a deugain.” Wrth sylwi ar y feithiau hyn, y mae golygydd un o gyhoeddiadau misol Cymru yn gofyn,—Paham y bu efe mor annoeth ag ymgymeryd eilwaith a thrachefn â golygiaethau fel hyn wrth weled eu holynol aflwyddiant? Atebwn dros Caledfryn,—*am* mai er mwyn ei *genedl* yr ysgrifennai ef, ac *nid am arian*. Gyda golwg ar y golygydd uchod, y mae efe yn cael dros gan punt y flwyddyn am ei olygyddiaeth; ac nis gwna efe ond ychydig yn wir heb dâl! Fe welir, yn y rhes uchod, nad yw Caledfryn yn cyfeirio at y *Gwladgarwr*. Gwnaeth ef dros y *Gwladgarwr*, a bu y *Gwladgarwr* (i'n sicr wybodaeth ni) yn ffyddlawn idd ei gydnabod yntau yn ol ei allu hyd y diwedd. Yr ydym yn credu mai ei sypyn wythnosol i'r *Gwladgarwr* ydoedd y peth diweddfaf oll a ysgrifennodd.

Substitute tlawd am *steel-engraving* yw y *photo* brau a geir ar ddechreu y llyfr. Buasai yn well heb ddim o gwbl. Y mae yn dechreu cyrlio i fyny eisioes, a bydd wedi pylu neu ddiflannu yn ebrwydd. Y pethau goreu yn y gwaith yw barddoniaeth anghyhoeddedig y bardd ei hun. Ni fydd Cymru wrth ei bodd os na chyhoeddir yn y man ragorach a chyflawnach cofiant o ŵr mor fawr, ac mor dda.

tydwch o fod yn
Eisteddfod Maesy-
nnos ddiweddf, ac
ing amryw o'n pen-
beirdd. Ni fuom
id fwy pleserus a
Os nad ydoedd yn
oedd yn gynllun o
ystyr. Yr oedd
y llgor yn berffaith
im i beri achwyn
yn deall ei waith,
i weithio, ac nid
daddodi rhyw araeth
leidfya ymddifateru
su oll. Camsyniad
ymeryd mantais o'r
ef ei hun—neu, ei
h. A chyda golwg
yn rhedeg bron yn
adroddiadau ydynt
stadleuwyr yw eis-
ym yn tybio mai yr
yr hyawdledd a'r
mddynt hwy, yn y
odau Seneddol ac
aeth gartrefol neu
sl eu gelwir. Eithr
od nis gall urddas-
awf goreu o hynny
edig, yn eistedd yn
eir waith y sefydl-
pwmwr ydoedd y
rasu ynddi ymhlith
yer, wrth gwrs, fel
m fod neb, yn codi

llais mewn ffordd o gwyno a beio. Ystyriwn mai ymddygiad isel ac *unmanly* mewn unrhyw ddyw ydyw cwyno wedi barn, yn enwedig gyda golwg ar y corau lliosog sydd bob amser yn dod i faes yr ymdrechfa. Yr ydym wedi gweled llawer eisteddfod yn cael ei darostwng yng ngolwg dynion pwyllog a da, a'u gogoniant yn cael ei lwyr gymylu, drwy waith corau aflwyddianus yn codi terfysg, ac yn cwbl rwystro y gweithrediadau. Yr ydym wedi colli lawer gwaith, ond nid erioed wedi cwyno. Y ffordd oreu yn hyn o fater ydyw llyncu y geninen yn ddistaw, a gobeithio am well ffawd y tro nesaf. Gwell ydyw llyncu y "bilsen" sur dan wenu, yn lle ei throï a'i throï ar dafod y genau nes creu gwynebau gwepiog a bair i bawb chwerthin am ein pennau. Fe wŷr pawb cystadleuwyr, pa un bynnag ai yn unigol neu unedig, *pwyllydd i feirniadu*. Ac fel rheol bron ddieithriad, yn y dyddiau hyn, y mae y beirniaid ymhob canghen o gystadleuaeth, yn ddynion o dalent, dysg, a chymeriad. Bu yn wahanol, mae'n wir; bu amser, ac yspaid hirfaith o amser hefyd, pan y ceid dynion o gymhwysder amheus, ac o foesau isel, yn arwain y sefydliad ac yn beirniadu ynddi. A'r pryd hynny fe aeth yr eisteddfod i lawr yng ngolwg cymdeithas: fe ymneillduodd boneddigion, offeiriaid, gweinidogion, a phawb dynion da, allan ohoni, nes myned o honi yn bentwr o lygr-edigaeth. Ond y mae y cwbl wedi newid erbyn hyn. Y mae barnllawr yr eisteddfod wedi ei ysgubo yn lân, ac yn disgleirio yn loew. Ac y mae y diwygiad mawr hwn wedi ei dyrchafu i uwch bri nag erioed. Dynion moesol, crefyddol, a dylanwadol sydd bellach yn ffurfio y gallu arweinyddol a beirniadol.

Dweyd yr ydym fod y beirniaid yn yr oes hon yn wŷr galluog, a chwbl deilwng o ymddiried, a bod yr ymgeiswyr yn gwybod yn dda ym mlaen llaw pwy ydynt. Y mae y rhagwybodaeth hon yn torri y tir ymaith yn lân odditan draed grwgnachwyr anfoddog. Y mae y ffaith eu bod yn dyfod i'r ymdrechfa o gwbl yn arwyddocau fod ganddynt ymddiried yn y sawl sydd i farnu eu tynged; os felly, pa reswm, pa ddynoliaeth y sydd mewn achwyn ac ymffyrnigo? Os *nad* oedd ganddynt yr ymddiried uchod, paham *nad* arosasent yng nghartref, neu eistedd yn esmwyth i wrundo? Yr ydym wedi gweled achwyniadau dirdynol weithiau yn y newyddiaduron, ar ol eisteddfodau, ond nid ydym yn darllen ond ychydig linellau yn y dechreu, ac ar ol deall y testyn rhoddwn y papur gyda gwên o'r neilldu i gynneu tân yn y gegin drannoeth. Gwastraff ar amser, ac amharch ar ddyw ei hunan, yw darllen y fath sorod. Mae'n wirionedd poenus fod pyrth rhai o newyddiaduron Cymru yn rhy agored o lawer, ac yn barod beunydd i dderbyn pethau o'r fath hyn. Nis dylid derbyn llithiau achwynol oddi-

wrth fechgynos siomedig yn erbyn dynion ag y mae gwlad yn credu yn eu hanrhydedd.

Nodwedd ddymunol arall yn yr eisteddfod dan sylw ydoedd gweddeidd-dra a chymedroldeb y gwyddfodolion. Digwydda fel arall yn aml, fel y mae gwaethaf y modd, ond y tro hwn ni welsom ddim i ddolurio llygad na phoeni meddwl. Hyderwn y daw Eisteddfod Maesycwmwr yn sefydliad blynyddol, oblegid gyda'r fath bwyllgor rhagorol y mae hi yn haeddu ei pharhau ymlaen.

BEIRNIADAETH.

Yr Asyn a'i Gysgod.—Y mae y farddoniaeth yn llithrig, a'r wers yn rhagorol. Y mae yn well gan lawer o bobl wrando am gysgod asyn nag am sylwedd gwirionedd. Yr oedd pregethwr enwog yn pregethu am ddau o'r gloch, un tro, ond methai yn lân a chadw'r bobl yn effro, er ei fod yn traethu ar y pynciau mwyaf difrifol. Ond daeth meddylddrych Demosthenes am yr asyn a'i gysgod i'w feddwl; trodd at y ffenestr oedd tu cefn i'r pulpud, a gofynnodd mewn llais clochaid,—“Shon, shwd y'ch chi heddy? odi'r scitsha'n barod?” Ar hyn fe ddefrodd y bobl fel pe buasai taran wedi ymhollti yn y nenfwd. “Dyna'n awr,” meddai'r pregethwr, “gwrandewch ar sylwedd; mae Shon wedi mynd, ac ni awn ar ol y scitsha fory.”

Y Gelynen.—Odiaeth o ddesgrifiadol. Erys y Gelynen yn yr unwisg unlliw drwy bob tymhorau,

“Ac ni ddaw ffasiwn newydd
I'w hudo gyda'i gwên.”


Mor brydferth, mor newydd ydyw, yn nyfnder gaeaf!

“Pan grynna'r dderwen eon,
Yn noeth o'i phen i'w throed,
Bydd hi a'i gruddiau'n gochion,
Fel geneth ugain oed.”

Y Ceiliog (yn ol dull Heinrich Heine).—Yr ydym yn dra diolchgar i'n hen gyfaill dysgedig a thalentog, y Parch. W. Thomas, A.M., am gynorthwy ei awen goeth a gwreiddiol ef. Llon iawn gennym ddeall fod ei ymdaith yn Ysgotland a'i fordaith ym Môr y Canoldir wedi profi yn llesiol i'w iechyd. Diolch cynnes am “Salm y Wawr:”

“Undonawl, eto fyth mae croesaw
I salm y wawr;
A balch yw yntau ar yr alaw,
Sy hen yn awr.”

afnogol i farddoniaeth
eddig, a thra am wneyd
tuag at gadw i fyny
aid i ni addef fod yr
n a llai coethedig yn
anteision gyda golwg
heb a dylanwad lleshaol
Tra y dymunem ar
ag y *dylar* fod, y mae
gymeryd fel ag y *mae*.
Charllengar yn rhanedig
barthiadau amrywiog;
col-ddysgedig, rhai yn
dig, a rhai heb ddysg o
annau cyntaf a symlaf
di gwaith o goethder
neddyliaeth o'r *refine-*
afodd erioed ond bron
weddol dda. Fe ellir,
; ond nis gellir modd
Gan hynny, y mae
din y bobl yn llesol a
beth bynnag fyddo y
au yn gystal ag mewn
ag fel y llall.
au hyn yw ein bod yn
foreu, neu Ganwyll y
Rhys Pritchard, M.A.,
" fel ei gelwid gan ein
yddo y Gymraeg mewn
ddarfod i lyfr *plaen* y
y nag a wnaed erioed
ei hun, o ran amseriad,
au yn bod yn ei oes ef
oedd gan y werin aros
rando. Llyfr y Ficer
yddu am y Beibl, ac i




harweiniodd at yr
wyf y pryd hynny a
hion hyn yn darllen
wydd ym miloedd o'r
yl y gallent fwynhau

icer, rhaid i ni gofio
doedd; nid peth o
wr dysgedig, wedi ei
o y Gymraeg fwyaf
ai mai ofer a fuasai
o hyd i'r bobl, ac er
drwy fabwysiadu y
ydym yn ei fawrhau
y daioni cyffredinol
defnyddio cannoedd
neu cymeradwyo, ond
nai hyn oedd yr unig
teddwl yn hysbys i'w

"*gwawl ysplynydd.*"
ofyn iddo beth oedd
fwyd, "Ystyr *gwawl*
a chi'n peidio dweyd
na buaswn yn eich

fredin, y mae y fath
rar ei benillion, fel y
i'r dysgedig fel yr



CYNGHANEDD SEISNIG A CHYMREIG.


Y MAE cyfundrefn o gynghanedd yn yr iaith Seisnig yn beth cwbl amhosibl. Yr ydym newydd ddarllen erthygl ar "alliteration," gan awdwr Seisnig. "Alliteration is pleasant," medd efe, "when skilfully managed," eithr nid oes dim "skilfulness" yn yr esiamplau o'r egwyddor a rydd efe yn ei erthygl. Rhyw hap a damwain yw y ffugbeth a elwir yn gynghanedd gan y Saeson a phawb cenhedloedd ereill, tra y mae cynghanedd yn y Gymraeg yn gyfundrefn anffaeledig yn ei pherffeithder, nerthol yn ei phwynt, a melusber yn ei seiniaid. Y mae y perffeithder undrefnol hwn yn ein cynghanedd genhedlaethol yn profi fod elfennau o beroriaeth, elfennau cysonber o gydateb-oliaeth, yn ein hiaith ni ag nas gwyr ieithoedd ereill braidd *dim* am dano. Onid ydyw yn profi fod y Gymraeg yn hynach na ieithoedd ereill,—ei bod hi wedi tarddu o ffynhonnau agosach i'r dwyfol na hwyntwy? Hyn sydd sicr;—Pan y delo dyg-edigion Ewrob (fel y maent eisoes wedi dechreu gwneyd) i astudio "y Gymraeg ac ansawdd ei barddoni" (ys dywedai Dewi Wyn o Ffion), fe fydd iddynt synnu yn fawr wrth berffeithder peroriaethol ein hen iaith anwyl.

Nid ydym yn dyweyd y dylai beirdd Cymru gyfyngu eu hunain yn hollol i'r drefn gynghaneddol. Yr ydym ymhell oddi-wrth farnu felly. Pe buasai Milton yn Gymro, barnwn nas gallasai efe fyth gyfansoddi ei Goll Gwynfa oddifewn i bêr rwydwaith y gynghanedd, canys fe fuasai y cylch yn rhy gyfyng a rhy gaeth i ehediadau mor gerubaid. O'r tu arall, nis gallwn yn dragywydd gydolygu a'r cyfryw y sydd am ddileu y gynghanedd allan o bob ymarfer a pharch. Yr ydym yn cofio siarad ar y mater hwn hefo y diweddar addfwyn Mr. Ambrose, o Borthmadog, a dywedai efe am ein cynghanedd,—*"It should be for ever preserved as a literary curiosity."* Dylai gael ei pharhau a'i noddi, dros ddyddiau'r genedl, y rhai a fyddant tra fyddo dyddiau, fel "philological curiosity" nas gall ieithoedd y cyfanfyd fforddio dim cyffelyb iddo.

Onid i ddychwelyd am funud at yr erthygl Seisnig y cyfeir-
iwyd ati. "Gray," medd efe, "has many alliterations," a rhydd y canlynol fel esiampl,—

‘ Weave the warp and weave the woof.’


Fig.



yr uchod, sef yn
 niatau cyferbynnu
 h cydseiniad ac
 dylir o'r esiempl

fn gysgodau!
 wir gynghanedd
 asio cysuro rhieni
 ed,—

A iaith yr aelwyd
 thder celfyddydol



ANERCHIAD,

WRTH GYCHWYN COLOFN GYMRAEG Y *South Wales Daily News*.

“HEN Wlad fy Nhadau” yw hoffusaf gân y Cymry, a “Hen Iaith fy Nhadau” eu hoffusaf iaith. Er teithio ohonynt trwy wledydd lawer, a meistroli ieithoedd amrywiol, erys Cymru o hyd yn wlad y serch, a iaith y Cymry yn iaith y galon. Y mae hyd yn oed ffon ddiaddurn wedi ei thorri o goedwig yng Nghymru yn drysor cysegredig yng ngolwg y Cymro ym mhellldiroedd Amerig, ac y mae y cyd-deithydd neu yr ymwelydd a yngano air o Gymraeg yn dyfod ar unwaith yn gyfaill ac yn frawd. Nid oes odid un Cymro yn preswyllo mewn gwledydd tramor na hoffai ddychwelyd “cyn darfod dydd” i fro ei dadau, a rhoi y pen lluddiedig i lawr, i huno yr olaf hun ar fynwes ei daear gysegredig. Na! nid oes un Cymro pell o'i wlad na ddywed gydag awen bereiddiaf Ieuan Glan Geirionnydd,—

“Pe deuai y dydd yn rhydd i'm rhoddi,
A dod o'r diwrnod i droedio arni,
Cofleidiwn, cusanwn mewn cais heini',
Ei daear loewlon, rhandir y lili!”

Diamheuol mai croesawus gan liaws o'n cenedl fydd gweled “Y Golofn Gymreig” mewn newyddiadur Seisnig. Y mae “Y Golofn Gymreig” yn deyrnged o glod i genedl henafol y Cymry, ac yn arwydd o barch i'w hiaith fythglodus—iaith oll-haeddol o glod—iaith ag y mae ei tharddiad yn guddiedig mewn ol-oesoedd rhy bell i lygad craffaf hanesiaeth oleuo llwybr i'w dyfnderau—iaith ag oedd yn hen pan oedd y Roeg a'r Ladinaeg yn eu cryd, iaith a welodd angladd y ddwy glasuriaith hyglod—iaith sydd wedi gweled trawssffurfiad ieithoedd Ewrop i aneirif newydd-weddau, ond sydd wedi cadw ei chynffurf cynhwynol ei hun mor bur ag y mae y seren wedi cadw ei gloewder creadigol, neu y môr ei ddeddfau—iaith, hefyd, a siaredir mor groew yn y dydd presennol hwn ag yn Neffrobani bell!

Y mae rhai yn darogan fod y Gymraeg i farw—ei bod hi yn marw. Y mae hyn wedi cael ei ddarogan fyth oddiar yr amser y colodd Cymru ei hanibyniaeth, ac y daeth i fod yn Dywysogaeth o dan goron Lloegr. Ond y mae y broffwydoliaeth,

“Eu Hiaith a gadwant,”

wedi ei chyflawni yn rymus hyd y dydd hwn, ac mor debyg o barhau i gael ei chyflawni yn y dyfodol ag yn yr oesoedd sydd wedi myned heibio.

Pa fodd y mae iaith i farw pan y mae llenyddiaeth yr iaith honno yn arddangos elfennau nerthol o fywyd, a'r bywyd meddyliol hwnnw ar gynnydd parhaus? Llenyddiaeth Gymreig yn fwy blodeuog nag erioed, ond y Gymraeg ei hun yn marw! Mwy—mil mwy o lyfrau Cymreig nag a fu er cof pellaf hanesiaeth—mwy o ganu, barddoni, a phregethu yn y Gymraeg nag a fu erioed, ac eto y Gymraeg yn tynnu ei thraed i'r gwely i farw! Y mae eisiau dadfeiliad cyn trancedigaeth, ac arwyddion gwywdra cyn y crinder gorfennol.

Nid yw fod y Saesneg yn ennill tir ymysg y Cymry yn golygu o angenrheidrwydd fod y Gymraeg yn colli tir, oblegid y mae miloedd ar filoedd o'r Cymry hyn yn cadw a yn coleddu yr hen iaith megis ag y gwnaent o'r blaen. Gwir yw fod ambell goegyn balchaid yn profesu colli ei Gymraeg, ond chwi a gewch weled dyfnder ei golledigaeth dim ond rhoi traed ar ei gyrn. Y mae y mwyafrif mawr yn "cadw y ddwy."

Nid ydym ni yn gweled paham nad all y Gymraeg fodoli yn gyfochrog ag ieithoedd ereill oesau'r ddaear. Y mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn gynorthwy mawr i amgyffred a meistrolï y Saesneg, oblegid y mae llaweroedd o wreiddiau y Saesneg yn gorwedd yn nyfnder bras-gyfoethog iaith ein tadau ni. Paham nad all Cymry Cymru—Cymry y deuddeg sir—fod fel Cymry Llundain, Liverpool, Manchester, a Birmingham? Y mae Cymry dinasoedd Lloegr yn deall, ac yn siarad, ac yn ysgrifennu Saesneg gystal â'r Saeson eu hunain, ond y maent yn darllen y Beibl Cymraeg, yn cyflogi gwasanaeth-ddynion Cymreig, yn siarad Cymraeg, a dim ond Cymraeg, wrth eu plant am y blynyddau cyntaf nes eu gwreiddio yn yr iaith; ac am y Sabboth, diwrnod cwbl gysegredig i'r Gymraeg ydyw y dydd sanctaidd, canys nis mynnant yr efengyl ond yn yr iaith honno sydd mor gydnaws âg ysbryd yr efengyl, nes tybio o honom ambell i bryd mai y hi fydd iaith y nefoedd. Paham nad all hyn barhau? Paham nad all eu plant, a phlant eu plant, a'r pell ol-genedlaethau, barhau felly yn yr un modd? Y mae yn sicr y gallant, ac y mae yn debyg y gwnant.

Nid oes neb yn fwy pleidiol na ni dros i'r Cymry wrteithio y Saesneg, a phob iaith arall o fewn cyrraedd eu manteision, ond pa eisiau colli y *Gymraeg* sydd? Dyma sy'n ddirgelwch i ni. Y mae miloedd o Ffrancod yn astudio yr iaith Seisnig, ac y mae hynny yn fantais arbennig iddynt hwy a ninnau mewn ystyr masnachol, gwyddonol, a gwladlywiol. Ond beth a dybiai y Ffrancod hyn wrth gymeryd eu gwersi—beth dybient hwy pe

“Wi golli y Ffrancaeg.”
Boniau rhyfeddach nag

Arth gadw hen iaith
Idysgu.

Yn rhyw fodd, fyddai
yn bosibl i enaid bach
i'w colled ddirfawr
a clasurol yn ieith-
— yn y dydd hwn,
sg uchelyrw, a'r fath

Buasai blwyddyn
mlynedd yn y prif-
euainc yn ymdreulio
iaith! colli llenydd-
hol o ansawdd dyrch-
Cymry, yn yr ystyr
golled anadferadwy.
yn, pŕ-ganiedydd tŷ
i fyny.

“Oes y byd i'r iaith
nru fu, Cymru fydd!”
foethogi llenyddiaeth
ilwng, trwy roi help
ddonol, trwy adolygu
achlysurol ar fudiadau
ni arbed amser na
ymeryd ág ef, yn y
ogaeth galonnog gan y

i'w hadolygu, gael eu

(m),
Sanfraith,
Near Newport, Mon.



JONES O'R TRANCH,

AC OFERGOELEDD YR HEN GYMRY.

Y MAE ysbrydion yr hen amserau wedi ein gadael, y mae y canwyllau cyrff wedi eu diffoddi, ac y mae cor-ellyllon (*fairies*) y cylchau wedi dawnsio eu dawns olaf. Fe all Cymro fyned yn awr drwy y fynwent yng ngoleu lloer heb lyncu ei anadl, ac heb ofni gweled dim gwaeth nag ef ei hun. Y mae "Nos Cyn Gauaf," bellach yn myned heibio fel rhyw nos arall, gyda'r eithriad o'r wydd dew, a'r llaeth a'r afalau. Nid oes un gamfa yn crynnu dan bwysau cythraul,—nac un eneth deg yn rhoi chwecheinog yn ei hosan, ac yn cerdded i'w gorffwysfa lwyr ei chefn, er mwyn y fraint o gael gweled ei gŵr dyfodol yn ei breuddwyd. Dylem ddiolch fod amseroedd yr anwybodaeth hon wedi myned heibio drwy oleuni yr efengyl, a thrwy ddylanwad rhyfeddol y Wasg. Ac eto nid oes can mlynedd er pan fu farw Jones o'r Tranch, hen weinidog anwyl ac enwog, gerllaw Pontypool, yr hwn a gredai mewn "ysbrydion" mor sicr ag y credai yn ei Feibl, a'r hwn hefyd a gyhoeddodd gyfrol yn yr iaith Seisnig yn cynnwys hanes gweithrediadau rhyfeddol yr ymwelwyr dieithr o'r bydoedd ereill. A wŷr rhai o'n darllenwyr pa le y gellir cael y llyfr rhyfeddol hwnnw? Y mae bron yn sicr ei fod yn aros eto mewn ambell i deulu henafol, yn enwedig ym mhlwyfydd Trefethin a Mynyddislwyn. Ni a hoffem yn fawr ddyfod o hyd iddo, ac a'i gwerthfawrogem fel *relic* drudfawr o'r "Cymru Fu." Y mae dyfyniadau o'r gwaith yn ein meddiant, ond ni welsom y llyfr erioed, er dyfal ymholi am dano.

Nid oedd dim o'r dewin, cofier, yn perthyn i Jones o'r Tranch. Ac nid oedd ef yn adrodd nac yn croniclo hanes yr ysbrydion a'r ellyllon er mwyn brawychu nac er mwyn difyrru pobl; ond yn unig er mwyn dibenion da, moesol. Ei athrawiaeth ef ydoedd, mai ysbrydion dynion drwg, yn dychwelyd o fyd arall, oedd yr "ysbrydion" hyglod gynt,—ysbrydion dynion a arweinasant fywyd anuwiol,—ac anogai bawb i fyw yn foesol a chrefyddol fel y caent orffwys a bod yn ddedwydd y tu hwnt i'r bedd.

Ond tra yr oedd ei amcan ef yn dda, y mae y chwedlau eu hunain mor rhyfeddol o ramantus fel y tybiem, braidd, fod y gŵr a gredai ynddynt wedi hen farw cyn i'r byd yr ydym ni yn byw ynddo erioed gael ei greu. Ac y mae rhai o'r chwedlau hyn mor ddigrifol, a thriciau direidus rhai o'r ellyllon mor chwareus,

fel ag i beri i feudwy anghofio ei sobrwydd a chwerthin yn groch. Rhoddwn esiampl neu ddwy o'r ddoethineb henafol hon.

Yr oedd offeiriad perthynol i Eglwys Loegr o'r enw Mr. Hughes yn byw yn sir Fon. Yr oedd y periglor hwn yn bregethwr poblogaidd dros ben,—mor boblogaidd nes creu cenfigen ato ym mynwes ei frodyr yn yr offeiriadaeth, ac fel effaith y genfigen honno gorfu iddo ef droi allan o'r eglwys am ysbaid a phregethu yn yr awyr agored, ond fe'i derbyniwyd yn ol iddi drachefn. Wel, yr oedd y Parch. Mr. Hughes ryw noswaith yn myned o Amlwch i eglwys Sant Elian i bregethu. Rhywle ar y ffordd yr oedd rhyw gylch (*artificial circle*) ar y llawr, a dywedid fod ysbryd yn aflonyddu oddifewn i'r cylch hwnnw. Can gynted ag y daeth gŵr Duw oddifewn i'r cylch, dyma rith milgi yn ymddangos iddo, a chafodd ei lusgo oddiar ei geffyl a'i guro (*beaten*). Y nos canlynol aeth Hughes ar hyd yr un ffordd, gan feddwl siarad a'r ysbryd, ond cafodd ei guro drachefn (*beaten again*)! Nid oedd o un gwerth i Mr. Hughes ei fod yn ddyn cadarn, nerthol; oblegid pwy all ymladd ag ysbryd? Fe siaradodd ag ef, mae'n wir, ond ni chafodd un atebiad. Ryw dro wedyn aeth Hughes yr un ffordd, y tro hwn ar ei draed. Wele yr ysbryd yn ymddangos drachefn, ond y tro hwn fe welai fod yr ysbryd wedi ei gylmu â chadwyn, ac wedi deall hyd y gadwyn, aeth mor agos ato ag oedd yn gyson â diogelwch ei farwol ddynoliaeth, a gofynnodd iddo paham yr oedd yn aflonyddu arno ef ac ereill. Dywedodd yr ysbryd wrtho ei bod yn arferiad gynt i'r rhai a gyrchent i eglwys Sant Elian gyflwyno darn o arian at wasanaeth crefydd yn y lle; ei fod ef (yr ysbryd), pan yn y cnawd, ryw dro yn myned tua'r eglwys, gydag ereill o'i gydnabod, a bod ganddo ddernyn arian gwerth pedair ceiniog (*a silver groat*), ag y bwriadwyd ei gyflwyno at yr achos goreu. Ond efe a guddiodd y dernyn arian o dan garreg, gan ddweyd yn anwireddus mai ei golli a wnaeth. Dywedodd ble yr oedd y "silver groat," aeth Mr. Hughes yno a chafodd afael ynddo, a thalodd ef i drysorfa yr eglwys, ac ni welwyd yr ysbryd byth wedi hynny. "I hope," medd yr hen broffwyd o'r Tranch, gyda symledd mawr, "I hope this account is authentic."

Bu farw Jones o'r Tranch yn 1794, yn 92 oed. Feallai y cawn ddychwelyd at y chwedlaeth hon eto, a gobeithiwn y bydd i rai o'n darllenwyr ein cynothwyo i ddod o hyd i'r "Book of Apparitions."

Y fath gyfnewidiad sydd wedi dod dros Gymru oddiar 1794!

Gyda'r holl ffyddiogrwydd diysgog mewn canwyllau cyrff, y mae yn ffaith pur hynod, fel y sylwasom dro yn ol, nad yw Jones ei hun wedi gweled ond nesaf i ddim o'r ysbrydolion ryfedd-

odau hyn. Fe welodd un ganwyll gorff, medd efe, yn ei ddydd, ond bu raid iddo fyned o'r Tranch bob cam i Gwreccsam i gael golwg arni!

Y ganwyll gorff *ddiweddaf* y clywsom *ni* son am dani, oedd yr hon a welwyd gan y bardd Aneurin Jones, o Gelligroes, ac am ymddanghosiad bywydol yr hon y tystiolaethodd i ni gyda'i sobrwydd arferol ef. Nis medrai neb edrych mor sobr ag Aneurin pan fyddai efe ar fin gwneyd i chwi chwerthin. "Mi welais hen ganwyll gorff yn pasio drwy Bontllanfraith *just nawr*," meddai. "Beth y chi'n feddwl, Aneurin?" "Evan Evans, Nantyglo," oedd ei atebiad. Buasai Mr. Evans yn ganwyll ddisglaer gyda'r "Corff o Fethodistiaid Calfnaidd" gynt.

Yr ysbryd mwyaf ei gellwair a'i ysgafndra o holl ysbrydion Mr. Jones, oedd yr hwn a aflonyddai ar heddwech teulu Mr. William Thomas, Aberafon. Bu hyn yn 1760. Yr oedd y forwyn yn neillduol yn *target* tragwyddol ganddo. Pan elai hi i'r gwely y nos, diffoddai ei chanwyll. Pan godai yn y bore, tarawai'r ysbryd hi â chlustog ar ochr ei phen nes y byddai yn hurt. Trallodai hi yn y gauaf y nos drwy dynnu y dillad oddi-arni, ac yn yr haf trwy bentyrnu dillad yn fryniau ar ei gorweddfa. Bryd arall, efe a guddiai allweddau y *drawers* fore Sul, fel nad allai y teulu fyned i'r addoliad o ddiffyg eu dillad goreu. Byddai yn poeni Mr. William Thomas hefyd, ond gyda thrugaredd neillduol,—a rhyfedd fel y mae yr hen broffwyd yn mawrhau ymyriad Rhagluniaeth yn y peth hwn. Canys pan fyddai Mr. Thomas yn eillio, efe a gai lonydd gan yr ysbryd tra fyddai yr ellyn ar ei wyneb; ond wedi rhoi o hono yr erfyn miniog ar y bwrdd, efe a'i tarawai ar ochr ei ben nes y byddai ei llygaid yn gwreichioni! Hynyna yn awr!

ANERCHIAD MEWN CYFARFOD LLENYDDOL.

UN o brif amcanion y cyfarfodydd hyn ydyw rhoi gwaith i feddyliau pobl ieuaine,—eu dysgu i feddwl, ac i draethu eu meddyliau. Mae yn ddiameuol fod cyfaddasder arbennig yn y cyfarfod llenyddol i sefyllfa dynion ieuaine Cymru. Y mae yn cynnwys manteision yr eisteddfod heb ei diffygion; rhagoriaethau yr eisteddfod heb ei llygredigaethau. Ac y mae yn gwneyd mwy o dda gyda llai o rwysg ac ymddanghosiad.

Y mae y cyfarfod llenyddol yn cyfateb i sefyllfa ein pobl ieuaine o ran *nad yw ei safon yn rhy uchel*. Ni ddylai safon cyfarfod llenyddol fod yn uchel, oblegid nid yr amcan ydyw cynyrchu cyfansoddiadau o natur orchestol, yn gymaint, ond *calonogi* dynion ieuaine yn yr arferiad o feddwl ac o osod allan

eu meddyliau; hyfforddi y cyfansoddwr ieuanc, a'i hyfforddi ymhen ei ffordd. Y mae beirniad llym a sarrug allan o'i le mewn cyfarfod llenyddol. Y mae wedi camsynied ei swydd a'i waith. Yn wir, nid yw yn wrthrych plerurus i edrych arno yn unman. Boed lle y byddo, tynnu'r byd yn ei ben y mae, a chreu gelynyion iddo ei hun ar bob llaw. Y mae rhoi ergyd yn beth purion weithiau, hynny yw, pan fyddo cawr o'ch blaen. Mae ef yn ddigon cryf i'w dderbyu, fe ymuniawna yn union er iddo syrthio. Ond y mae rhoi ergyd i gyfansoddwr ieuanc yn ddigon i'w ddigalonni am byth a pheri iddo eistedd i lawr am weddill ei oes mewn digalondid a diffrwythdra. Mae ambell hen gyfansoddwr gwargaled i'w gael yn debyg i Goliath. Gellir rhoi ergyd da i hwnnw, ond mae cisiau bod yn dirion o Moses bach yn ei gawell lafrwyn ar lan Nilus fawr, athrylith yr hon sydd yn tarddu,—ond pwy all ddweyd *ble* mae'n tarddu? Nid oes neb eto wedi darganfod *sources* yr afon fawr o farddoniaeth sy'n codi dros ei glannau unwaith bob blwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae ambell i feirniadaeth fel storm o wynt yn chwythu dros y wlad, ond y mae ambell i gyfansoddwr fel derwen henafol yng nghanol y storm. Gadewch i'r storm ruo a tharanu o gwmpas honno, nis gwna un niwed iddi,—dim ond ei hysgwyd, ac anfon ei gwreiddiau yn ddyfnach i'r ddaear. Bydd yr hen dderwen yno wedi'r cwbl, a meddyliau anfarwol fel adar byd arall yn nythu yn ei changhennau. Ond dylid bod yn dirion o'r planhigyn tyner main sy'n dechreu tyfu yng ngardd mebyd. Fe ddaw hwn yn dderwen, ond ei gysgodi rhag y gwynt am ychydig flynyddau. Dylid cofio bob amser mai gardd y planhigion tyner yw y cyfarfod llenyddol. Mae'n wir fod eithriadau i'w cael, fel y cafwyd yn y gystadleuaeth bresennol. Mae yma rai prennau lled fawrion gyda chwi yma, ac os nad ymgadwant yn y cysgod y mae lle i feddwl y bydd yn rhaid i chwi eu *transplantio* i fforest fawr yr Eisteddfod Genedlaethol i gael gwared o honynt. Rhaid iddynt fynd yn wir, fel y caffo "12 years old" a "15 years old" chwareu teg.

Nid ydym yn gwybod am neb braidd sy'n haeddu mwy o gydymdeimlad na'r cyfansoddwr ieuanc yng Nghymru. Sefyllfa lawn o anfanteision ydyw ei sefyllfa yn y cyffredin. Y mae hafn ddymunol enwogrwydd yn y golwg ganddo, o bell, ac y mae yn rhwyfo yn galed i'w chyrraedd, ond y mae gwynt a llanw amgylchiadau yn ei erbyn. Ac yn y nos yn gyffredin y mae yn hwylio,—ar ol dod adref o'i waith. Nid oes ganddo ond oriau hwyrol at efrydiaeth a llafur meddyliol, ac y mae yn teimlo yn llesg iawn lawer pryd ar ol caledwaith y dydd. Ac am ei lyfrau, ychydig iawn sy ganddo; galleu ysgrifennu eu henwau i gyd ar un ochr i amlen llythyr. Y mae yr olwg ar yr

anfanteision hyn bron a'i ddigalonni weithiau, a pheri iddo roi heibio bob meddwl am ragori.

Onid na ddigalonned ar un cyfrif. Yr ydym ni wedi dod ynghyd heno, i ddweyd wrth bob cyfansoddwr ieuanc sydd yma am beidio digalonni. Dyma iaith y cyfarfod llenyddol,—Ewch rhagoch er gwaethaf amgylchiadau; parewch i ysgrifennu, i ddarllen, i feddwl, ac i gyfansoddi. Os na fydd ond dwy awr bob nos at y gwaith, defnyddiwch y ddwy hynny, a chofiwch fod dwy awr bob nos yn gwneyd misoedd cryno mewn bywyd. Mae gwneyd y goreu o ddwy awr bob nos wedi dod a rhai cyn hyn yn brif ddynion eu hoes. Ble y magwyd prif bregethwyr a lliaws o brif lenorion ein gwlad? Nid ar gadeiriau esmwyth, ond yn y gwaith haiarn neu weithfeydd ereill. Ble y treuliasant y deng mlynedd ar hugain cyntaf o'u hoes? Dan y ddaear, neu o flaen y fwrnes, neu yn dilyn yr aradr. Faint o amser oedd ganddynt at gyfansoddi? Rhyw ddwy awr bob nos. Ond cofiwch bob nos. Nid dwy awr un nos yn yr wythnos. Mae'n well cael y dydd i gyd ati, ond lle na bo hynny yn bosibl, fe wna llai y tro. Os na ellwch brynnu y dyddiau, prynnwch yr oriau. Ie, medd rhywun, ond y mae amgylchiadau mor gryfion. Mae hynny'n wir, y mae amgylchiadau yn gryfion, ond y mae un peth sy'n gryfach nag amgylchiadau. Beth yw hynny? Dyn,—dyn ieuanc penderfynol. Pwy yw dynion pennaf y byd? Concwerwyr amgylchiadau. Y mae penderfyniad i rwystrau amgylchiadol, y peth yw gwyddoniaeth i rwystrau materol. Os na all gwyddoniaeth agor y môr, hi all wneyd bad i'w groesi. Os na all hi sychu y Fenai, hi all daflu pont drosti, "uchelgaer uwch y weilgi," am yr hon hefyd y canodd Eben Fardd mor ragorol,—

Pen tir Mon, pa antur mwy,—ei gyrraedd, &c.

Felly gydag afonydd, felly gydag amgylchiadau. Os na all penderfyniad ddileu amgylchiadau, fe all penderfyniad eu gorchfygu. Y mae ysgol yn dda, ond os na fydd yn bosibl ei chael, fe all dyn wneyd hebdi. Dywedwn eto, os na fydd ysgol i'w chael, fe all dyn wneyd heb ysgol. Os ydyw am fod yn fardd, aed i ysgol natur. Fe ddysg y ser fwy o farddoniaeth iddo mewn mis, nag a ddysgai athrawon y byd iddo mewn blynyddoedd. Os nad yw yn alluog i ddarllen Homer, mae yr un ser uwch ei ben ef ag oedd uwch ben Homer,—ac fe all gymdeithasu â'r un ffynhonnau o gynhyrriad awenyddol. Ie, aed i ysgol fawr natur, lle mae yr haul yn rhoi darlithiau y dydd, a'r ser y nos. Os oes nant neu afon yn llifo gerllaw, aed i wrando ar ei murmur hi,—y mae fel anthem angylion yn marw, marw yn y pellder. Ac yn enwedig aed i ben bryn i weled yr haul yn machlud ar ganol haf,—pan y mae'r cymylau wedi eu gogoneddu,

a nentydd o aur yn ffrydio ar hyd-ddynt, a rhyw bethau symudliw fel adenydd angylion yn chwareu, a'r holl nefoedd yn ddigon hardd i fod yn *entrance* i dragwyddoldeb. Dyna ysgol iddo,— ysgol farddonol heb ei hail. Gallem gyfeirio at lawer sydd yn fyw fel esiamplau o rai wedi dod i enwogrwydd heb fanteision. Ond yn bresennol cyfyngwn ein sylwadau at y rhai sydd wedi myned i ganu i ogoniant. Pa fanteision gafodd Dewi Wyn o'r Gaerwen? am yr hwn y canwyd,—


“ Sain ei gain odlau synnai genhedloedd, &c.”

ac am yr hwn y canodd Eryron Gwyllt Walia mewn odlau anghymarol,—

“ Dylifon odlau ofydd,—ffraeth o ddysg, &c.”

Wel, ni chafodd ef nemawr o fanteision. Eto i gyd pwy a ganodd fel Dewi Wyn o Eifion? Fe orchfygodd amgylchiadau. Ond fe orchfygodd *fwy* nag amgylchiadau. Fe orchfygodd y mesurau caethion. Fe drodd gadwynau y mesurau caethion yn addurnol.

Dymunwn ddweyd un gair mewn ffordd o rybudd. Wrth annog pobl ieuainc i ddiwydrwydd a llafur mewn llenyddiaeth, dymunwn ddweyd hyn,—Gofalwch na fyddo eich cariad at lenyddiaeth yn *ymyrraeth d'ch ffordd o fywoliaeth*. Yr wyf yn adnabod dynion ieuainc sydd yn ymroi i farddoni nes myned yn hollol esgeulus o lwybr eu cynhaliaeth, a thrwy hynny yn dyfod i warth a thlodi. Mae bron yn ddiareb yn Nghymru, chwi wyddoch, os bydd dyn yn fardd, ei fod dan angenrhaid i fod yn ddyn tlawd. Wel, y mae hynny yn eithaf gwir, o ran nad yw yr awen yn Nghymru yn dod a fawr neu ddim elw i mewn. Yn wir, gorchwyl digon di-dâl a di-ddiolch ydyw llenyddiaeth Cymru; eto i gyd yr ydym yn caru Cymru, ac yn foddlon i wasanaethu Cymru am ddim os bydd rhaid. Dylem fod yn dirion iawn o'r cyhoeddiadau misol Cymreig, oblegid mae eu golygwyr bron i gyd yn llafurio am ddim; ie, maent fynychaf ar eu colled trwyddynt. Y mae yn wahanol yn Lloegr. Y mae enwogrwydd lenyddol yn Lloegr bellach yn *fortune* i'w berchenog, fel y mae yn werth i ddyn ddibrisio ychydig ar ei alwedigaeth er mwyn rhagori mewn llenyddiaeth. Ond hi fu yn wahanol yno hefyd oesoedd yn ol. Fe hanner newynwyd llawer awdwr enwog yn Llundain fawr ei hunan cyn hyn. Y mae wedi myned erbyn hyn yn Lloegr. Ond nid yw wedi newid fawr yn Nghymru. A dymunwn ddweyd eto—gan na ellwch ennill bywoliaeth trwy lenyddiaeth, peidiwch a pheryglu eich bywoliaeth er mwyn llenyddiaeth. Ond mae'n ddiarhebu y gellir cysoni y ddau beth hyn â'u gilydd, gyda phwyll a gofal. Rhodder y dydd at amgylchiadau, a'r nos at lenyddiaeth.



"Wagyl, rhyfeddawl fydd,
 "A gwaleml newydd."

Awdl Cennil y Cymry.

ATODIAD.

I'r byd bob llinell o waith
 ynghynorthwyo, gael gafael
 ar bob llinell. Ceir yn
 ymuno gyda'r ymunoedd, ceir
 yn yr iaith Gymraeg, ceir
 ymunoedd, neu rai y rhoddasai
 ymunoedd. Cofied y darlennydd,
 ymunoedd fy amcan, ac nid rhoddi

am gyhoeddi cyfrolau
 hwn wedi dod yn rhan
 o'r amiedig dloes o'i *Gymru* ar
 dilynir hi cyn bo hir gan

ymddangos, canfyddais
 din, gell y darlennydd eu
 goffio i mi wneyd fy ngorau
 dod drosodd eilwaith yn y
 degau gwahanol, a chydag
 cerbyd, ceir copi llawnach o
 yn enwedig, fy mod wedi
 GWAITH, tudalen 434)

GWAITH ISLWYN i Gymru, a

CYNHWYSIAD YR ATODIAD.

I GYFROL "GWAITH ISLWYN."

	Tud.		Tud.
Ar ol Breuddwyd	i.	Gwybodaeth	xvi.
Colli Cyfall	ii.	Cymanfa Gwent a Morgannwg	xvii.
Y Bore a'r Groes	iii.	Emyn	xvii.
David Jones, Dolau Bach	iv.	Arwain Fi	xviii.
Dydd y Farn	iv.	Cartref	xix.
Beddergryff.. ..	iv.	Cof am y Bardd	xx.
Marwolaeth Glan Ebbwy ..	vi.	Dechreu' an	xxii.
Abraham yn aberthu Isaac	vii.	Cydymdeimlad	xxiii.
Thomas Nicholas, Penycae ..	vii.	Cri Etholiad Gwent	xxiv.
Englynion Cof	viii.	Priodas Gurnos	xxiv.
Y Bywyd-fad	ix.	Anian	xxiv.
Parch. Evan Richards	ix.	Galargan	xxvii.
Y Cydgyfarfod Mawr	xi.	Priodas Athan Fardd	xxx.
Ephrata	xii.	Distawrwydd	xxx.
Organ Ebeneser	xiii.	Hapus Dyrfa	xxxi.
Agor Capel	xiv.	Marw Ann Bowen	xxxiii.
Emyn	xv.	Y Môr Coch	xxxiii.
Tonau Ieuan Gwyllt	xvi.	Gwilym Iid	xxxv.
Y <i>Glorian</i>	xvi.	Elias y Thesbiad	xxxvi.

ATODIAD.

AR OL BREUDDWYD.

O! NA pharasai 'mreuddwyd falmaidd;
Yr oeddwn, tybiais, gyda hi
Ar draeth y môr, a'r awel beraidd
Yn arllwys arnom oddi fry
Aroglau'r gerddi hwnt i'r môr,
A'i chwiban llon fel adsain nefol gôr.

Edrychwn arni, O! mor hardd
Y gwrid, ac O! mor fwyn
Yr olwg dafiai ar ei bardd,—
Ei bardd Ielwyn!
'R oedd din veidrwydd yn ei gwedd,
Ac yn ei lly, gad arlun Hedd.

Tawelwch a arafai'r wylltaf don,
Pan welai ar ei mynwes ddelw hon.

A'r lli
Edmygai'i harddwch hi,
Drwy ffrwyno'i feirch, a'u cadw dan
Orchymyn llym rhag rhuthro tua'r lan,
Glan a ystyriai'i dywod mân di ri'
Yn santaidd fyth ar ol ei sangiad hi.

Ac haul y nen
Waghâi drysorfeydd ei wawl di-len,
Gan wisgo'r tonnau oll âg arian byw,
I harddu'n fwy y fôr-olygfa wiw.

Edrych yr oeddym am y fan,
Anwylaf fan i mi,
Gysegrir yn ein mynwes gan
Adgofion pêr a chu.
Prif harddwch yr olygfa wiw,
Ein cyntaf gyfarfyddfan yw!

Gan sangu 'n ysgafn, ysgafn, trown i,
 A chyda gwên ddeallgar, troai hi,
 Tuag at y môr, a diolch wnaem ein dau
 I'r tonnau, oent bryd hyn yn cydfwynhau
 Eu hun brydnawnol, nes pan dynnai 'r nos
 Ei chauadlenni dros ffenestri 'r wybren dlos,
 Yr ad-ddeffroent â gwylltineb mwy
 I nerthu braich y corwynt! iddynt hwy
 Diolchem am ymweled â'n hoff fan, a'i gadw'n lân
 A thrwsio 'i lawr â milfyRDD o gregyn gwynion mân.

Gan wenu 'n fwyn, gofynnai hi,
 "Fy Islwyn hoff, cân dôn i mi."

A chanu wnaem am Galfari,
 A chwyddai hithau fawl y gerdd,
 Nes oedd cymanfa 'r ednod yn addolfa 'r wigfa werdd
 Yn tewi gan ragorach swyn
 Ein lleisiau mwyn,
 Wrth ganu am Galfari.

Ond O! i hir barhau, rhy gu
 Y mwyniant hyfryd hwn i mi!
 A mil rhy bêr yr anthem fwyn
 I'r ddaear hon, a mil rhy lawn o swyn.

Dihunais! ffoes y breuddwyd eu,
 A chyda 'r breuddwyd melus, Hi!

A chyda 'i chygod hi, e ffoes
 Fy hoff orfoledd pêr, a throes
 Y felus gân yn chwervw gwyn.
 Distawodd fyth yr anthem fwyn,
 Yr addoledig lun ni chaed,
 Ac, wele! unig oedd Islwyn.

YNYS DDU, *Tach.* 1853.

COLLI CYFAILL.

Mrs. Williams, priod y Parch. John Williams (B.), Ynyeddu.

CYMYDOG serchog i'm sydd,—mwy 'n gorwedd
 Mewn gweryd yn llonydd;
 Mae hiraeth im o'i herwydd,
 Gloes im fu pan darfu 'i dydd.

Câr i'm mam, cywir i mi,—a siriol
Fu S—— heb wyrni;
Llanw ei hoen a'm llonnai i,
Dihunai gân dan gynt.

Bu imi unwaith ddyddiau gwawr,
Cymdeithion, fawr niferoedd;
Ond y mae heddyw un yn llai,
Oes, un yn llai o'u lluoedd.

Pan ddown yn ol o hirbell daith,
Yn llesg, a llaith, a llwythog,
Cawn wyneb gwenog ganddi hi,
A chroeso cu a serchog.

O! nid oedd le rhy dda i mi,
Na chroeso rhy galonnog,
I'r gadair fawr ger aelwyd glyd
Hi fynnai o hyd fy annog.

Pan fyddai'r awdl faith ar ben,
Neu'r bryddest wen, bob pennill,
A'r gader dderw'n sicr o ddod,
A'i hoewnod wedi ei ennill,—

Mi awn am dro i fwrw'maich,
Yng nghader fraich ei haelwyd;
Ac yno llawer dedwydd awr,
'Rol lludded mawr, a dreuliwyd.

Ni threuliaf oriau felly mwy,
Mae imi glwy wrth gofio:
Paham y mae y dyddiau braf,
Hapusaf, oll yn pasio!

Bu'n bruddaidd imi wyllo'th rudd
O ddydd i ddydd yn gwywo.

(Heb ei gorffen.)

Y BORE A'R GROES.

YSGAFNACH filwaith fydd y groes
O ddechre'i chario fore oes;
Fe dyf yr ysgwydd ati hi,
A daw yn rhan o honom ni.

Dechre 'n fore ar dy waith,
 Cychwyn yn fore ar dy daith
 I Seion, a phan ddel prydawn,
 Cei gerdded yn hamddenol iawn.

Mae'r bore 'n fwy na'r oes i gyd,
 Mae camrau 'r bore 'n fawr eu hyd ;
 Boddha dy Arglwydd, gweithia 'n llwyr,
 Cei foddio 'th hunan tua 'r hwyr.

DAVID JONES, DOLAU BACH.

Hen flaenor am fwy na hanner can mlynedd yn Llangeitho.

ARDAL bêr y Dolau Bach—newdiodd
 Am hoen Eden bellach ;
 Yno heb loes, yn gwbl iach,
 Canu mae uwch cwyn mwyach.

DYDD Y FARN.

Mesur,—*Yr Hen 50ain.*

Ysgrifennwyd yn 1877 ar gais Mr. D. Davies.

DAETH dydd y Farn, mae 'r Barnwr mawr gerllaw,
 Mewn rhwysg y disgyn ar y cwmwl draw ;
 Angladdau myrdd o ser sy'n pasio fry,
 Gwisg mwg y byd y nefoedd yn ei du ;
 Clyw 'r udgorn mawr, clyw ruddfan angau 'n trengu,
 Clyw anthem fawr y meirw fyrdd yn codi.

BEDDERGRYFF.

MR. WILLIAMS, Pontllanfraith.

Gŵr hynaws, hawddgar, union,—henadur
 O nodwedd yn Seion,
 Fwynhá, is y golofn hon,
 Yn Iesu hŷn ei weision.

MRS. WILLIAMS, Pontllanfraith.

O frwydr einioes, fyr drueni,—hedodd
 I wlad y goleuni,
 'R ol chwerwon droion di ri',
 Chwaer anwyl, i'w chironi.

MISS ANNIE WILLIAMS, eu hanwyl ferch.

E ddenodd rhinwedd Annie,—y Nefoedd
Yn ifanc i'w charu;
Ac er gwau 'n serch, cydserch cu,
Am hon, y Nef wna'i mynnu.

MRS. E. WILLIAMS, Pontllanfraith.

Môr o ing, fu farw Ann,—wnaeth ddiffodd
Obaith hoff ei hunan,
Nes gwelai Ffydd lonydd lan
Tir ac haf hwnt i'r cyfan!

MRS. E. BEDDOE, Llanfabon.

Ni, y byw, ar lan ei bedd,—wnawn ddewis
Yn ddiâu'r un fuchedd,
R' un bywyd o hyfryd hedd,
Yr un Duw, a'r un diwedd.

MR. THOMAS WATKINS, hybarch Flaenor Hermon, Dowlais.

Hermon fawr! mae yn ei fedd—dy Flaenor
Diffino, yn gorwedd;
Ei holl hyfrydwch a'i hedd
Oedd dy dda hyd ei ddiwedd.

CHWAER.

Ei chrefydd, uwch yr afon,—ymledai
Am wlad yr angylion;
Nid ofnai ddyfroedd dyfnion,
Na nerth yr Iorddonen hon.

BRAWD.

Angylion sydd vng ngwaelod—y bedd hwn,
Byddincedd y Duwdod;
Yn gadarn mae o'i geudod,
Ryw ddydd, orchfygwr i ddod.

ABALL.

Yn fanwl, drwy'r stryd fynor—mor rhyfedd!
Mae rhif ar bob ceuddor!
Daw'r Iesu am ei drysor,
Fore ddaw, fe wŷr ei ddôr.

MARWOLAETH GLAN EBBWY.

“ **D**EDWYDD fydd tragwyddol orffwys,
 Oedd dy eiriau yn y glyn;
 Heddyw yn y deg baradwys
 Teimli y dedwyddydd hyn;
 Ie, dedwydd gorffwys yno,
 Mwy i nofio mewn mwynhad;
 Tawel orffwys ar ol blino,
 Yn yr hedd drigfannau rhad.

Gwlad uwchlaw ystormydd blinion
 Yw'th breswylfa dawel mwy,
 Rhued byd a'i holl awelon,
 Byth ni chlywi eu rhuad hwy;
 Aeth yr awel olaf heibio,
 Heibio fyth yr olaf don;
 Bythol deg yw'r tywydd yno,
 Balmaidd holl aroglau hon.

Nid oes deigrryn gennyf mwyach,
 Yfodd bedd fy nagrau prudd;
 Gwel, ni fedd y llygad bellach
 Ddagrau i ddyfrhau y rudd;
 Ofer gwlytho'r bedd mewn alaeth,
 Ni thyf blodyn ar ei fron;
 Sychodd holl ffynhonnau hiraeth
 Yn y galon unig hon.

Frawd! cymeraf lwybr newydd,
 Yn lle wylo, canu wnafl,
 Canu am y bore dedwydd,
 Bore y tragwyddol haf,
 Ar y fynwent drom gymylog,
 Wawria o wybrennau gwell,
 Gan oleuo'r beddau niwlog,
 A dilennu'r wynfa bell.

Ebbwy! 'n iach, yn iach nes torro
 Gwawr yr anfachludol ddydd,
 Cawn gyfarfod heb ymado,—
 O gyfarfod melus fydd!
 Fry mwynha, mwynha'th ogoniant,
 Mel heb fustl, bri heb wawd,
 Nes cael rhan o'r unrhyw fwyniant,
 Ffarwel iti, O fy mrawd.

ABRAHAM YN ABERTHU ISAAC.

*Darn o'r cyfansoddiad ar Abraham yn aberthu Isaac.
Cystadlennau gyntaf Islwyn yn 1850.*

A BRAHAM ar lwybyr Ior,
Aeth o Haran ferth oror;
Ef i Dduw ufuddhaodd,
Drwy gred, gan fyned o'i fodd,
Heb wybod yn ei babell
Ddim am y fro wiwfro well.
O'i fodd aberthodd y byd,
A chofion ei ach hefyd,
Daoedd Ur y Caldeaid

* * * * *
Ior nef, er profi 'i grefydd,
A chryfder ffyrfer ei ffydd

* * * * *
Mawrhawyd pen Moria;
Isaac teg fu gysgod da
O arbediad pechadur;
Rhyw arwydd pell fu'r "hwrdd" pur
O'r fawr drefn, ryw "farw dros"
Du bechawd, nid heb achos;
Un diwall arall erom
Dan bennydd rhudd, dan boen drom;
Ond o'i fodd, nid o'i faeddu,
Yn y dwfn "dyrysni" du.

Daeth Ab'ram ar daith ebrwydd

COFARWYDD AM THOMAS NICHOLAS, PENYCAE,

Yr hwn a fu farw Gorffennaf 14, 1854, yn 24 mlwydd oed.

PERCHID yr ymadawedig gan bawb a'i hadwaenai fel dyn ieuanc o dduwioledeb diamheuol, fel ysgrifennydd medrus, ac fel pregethwr cymeradwy a thra gobeithiol perthynol i'r Trefnyddion Calffaidd. Yr oedd yn hynod am addfwynder ysbryd, ac am ddiwydrwydd gyda phob gwaith da. Y mae ei enw yn perarogli yn yr eglwys y perthynai iddi, a'i goffadwriaeth yn fendigedig.

O'i waith, glân obaith Glyn Ebbwy—gludwyd,
A'i glod yn mynd fwyfwy:
Toa y maen distaw mwy
Ddymuniad miloedd Mynwy!

Y gofadail hon a gyfodwyd gan ei gyfeillion fel arwydd o'u parch i'w goffadwriaeth

ENGLYNION

*Er cof am Mrs. Jane Jones, priod Mr. William Jones,
Nelson, Llanfabon. Bu farw Chwefror 2il, 1878.*

EIN brawd hoff, dy briod aeth,—mwy o'th fewn
Mae 'th fynwes gan alaeth
Yn oer,—a'th fron gan hiraeth
Yn blwm sy,—bu lem y saeth.

Rhy ifanc oedd i'r afon,—rhy ifanc
I rwyfo'r fath eigion!
O, paham y cwypai hon
O ganol plant mor geinion!

Ar Fai ei disglær fywyd,—ai i rew
Rhagfyr oer y gweryd;
Brau fu ei hoes, byr fu'i hyd,
Diflannodd, do, fel ennyd.

Afraid torri, O, frawd tirion,—er hyn,
Ar ei hol, dy galon!
Nid yw yn wir ond rhoddi'r Ion
Yn nyled dy blant anwylion.

Nos eitha blin yw saith o blant,—heb fam!
Ba fodd ymgysurant!
Eto dydd newydd fwynhant,
Rhad wyneb Ior adwaenant.

Bydd Ef yn fwy-mwy na mam,—mwy na thi,
Mwy na thad diwyrgam;
E gymrodd fab teg Amram,
Do yn wir, i'w nawdd dinam.

Ni welodd Moesen alaeth,—nac eisiau
Un cysur, na mamaeth,
Ac o lenni Rhagluniaeth
Deufwy mwy ddawn,—dwy fam ddaeth.

Chwi, rieni, a'ch rhai anwyl,—uwch gwae
Cewch gwrdd ar fyr egwyl,
A chyrraedd gwlad uwch arwyl
Fry, y lon anfarwol wyl.

Beth fydd, o newydd, fwynhau,—heb hiraeth
Ein bore undebau!
Ar faes aneirif oesau
Fath bur hoen! fyth i barhau.

Y BYWYD-FAD.

EI dyner blant oedd ar y bwrdd,
 Rhwng myrdd o donnau croch eu twrdd,
 O ben y graig
 Oedd uwch yr aig
 Fe waeddai 'r tad â tharan lef
 Yn llawer uwch na'r storm gref
 "Bad! Bad! O, Bywyd-fad!"
 Ond nid oedd morwr yn y wlad
 Anturiai i'r fath storom fawr.
 Twrf! Twrf! Mae'r llong yn torri'n ddarnau
 A thorri wnaeth ei galon yntau.

"Ust!" meddai'r lances wan
 Glustfeiniau ar y lan,
 A'i chalon wedi sefyll dan ei bron
 Gan ofn syn, a dychryn uwch y don.
 "Ust! O, f'anwylid! ai dy lef
 A glywais i, trwy'r storom gref!
 A ddaethost ti dros genfor maith
 I drengu'n awr ar ben dy daith.
 Marw ar drothwy cartref cu,
 A marw yn fy ngolwg i?
 Bad! Bad! O, Bywyd-fad!
 O, aros ennyd, obaith mad!

"O, dyro imi weld ei wedd,
 Cofleidio unwaith cyn fy medd,
 Mi fydda farw'n dawel heno
 Ond im gael unwaith ei gofleidio;
 Bad! Bad! O, Bywyd-fad!
 O, aros ennyd, obaith mad!"
 Ond nid oedd morwr yn y wlad
 A elai allan i'r fath storm.
 Trwst! Trwst! Mae'r llong yn torri'n ddwy,
 A'i chalon hithau dan angeuol glwy
 Ni churodd mwy!

PARCH. EVAN RICHARDS, ROCK.

EIN Evan Risiart dan faner Iesu,—
 Yn Seion ethol wnai hir was'naethu;
 O'i foreu i'w hwyrddydd gwnai fawr harddu
 Ffyrdd gras, gan eu haddas ogoneddu;

A'i Dduw anfonodd i'w ddwyn i fyny,
 Cennad, o garchar y cnawd i'w gyrchu;
 Mewn cynnes fro mae'n canu,—O! mae'n sant
 Mewn ter ogoniant byth mwy'n trigiannu.

Diosgwn ein du wisgoedd,—o'i blegid,
 Goblygwn hwy fythoedd;
 Lliw gwyn sydd well o gannoedd,—tra,
 Yn nwyfawl ddwfn y nefoedd,—nofia'r sant,
 Ym moroedd o foliant myrdd o filoedd!

Mae adgofion tirion o'n tad,—i'r eglwys;
 Per-aroglau 'i gariad,
 Ei dda foes, a'i fuchedd fad,—hyd eto
 Sy yn nofio yng ngardd Seion wiwfad.

Awen brid fu'i briod fad,—wir addas,
 Mawr oedd eu hymlyniad;
 Bu hir oes i'w hundeb rhad,
 Ym Mhen Maen mewn ymuniad.

Mwyn gymhlethu ei bregethu
 Ag awenu wnelai ganwaith;
 Gwneyd sydyn englyn di-us
 Oedd flasus dda feluswaith.

Ym mynwent Rock am ennyd
 Huna ei lwch anwyl, hyd
 Y bore ddydd bair i ddor
 Eigion y bedd i agor.
 Daw i'r lan a'i eirian wedd
 Yn ddelw o bob urddoledd;
 A'i nerth i gyd yn wyrthiol,
 A'r llesgedd rhyfedd ar ol.
 Hyd hynny, ein brawd anwyl,
 Hyd agoriad rhad yr ŵyl,
 Canu'n iach mwyach sy i mi;
 Daw ein Ceidwad i'n codi,
 Cawn loew fyd, cawn hwyl fwy odiaeth,—eto,
 A gwell bwrdd yno a gwell barddoniaeth.

Ni ddaw llesg i fyrdd y llu,
 Ni flinwn ar foliannu.
 Cydganwn, gwn, yn gynnes
 I'r Oen, gyda mwy o wres!

Cawn ogoniant, cawn ganu,
 Cawn fyrddiwn llon, cawn feirdd yn llu,
 Un gynganedd rhyfeddol
 Yw y nef,—“Orffwysfa 'n ol,”
 Nid yw'r oll ond digoll gân,
 Ni ac engyl mewn cyngan.
 Bydd ryfedd mewn hedd mwynhau
 Cysonedd cu eu seiniau !

 CRYNHOI YNGHYD YNG NGHRIST.

Y CYDGYFARFOD MAWR.

YSGARODD pechod deulu 'r Ior
 Ar hyd yr anial pell,
 Ffoes ysbryd undeb hwnt i'r môr
 I froydd miloedd gwell.

Cydgerrddai 'r dyn a'r angel gwyn
 Trwy Eden law yn llaw,
 Cydganent ger y dwyfol lyn
 A yfai ddwyfol wlaw.

'R oedd gan yr angel aden gref,
 A phan ofynnai dyn
 Esgynnai drosto tua'r nef
 I ddwyn anfarwol win.

Ond pechod ddaeth i'r lannerch wen,
 A ffoes yr angel trwy
 Y cwmwl cyntaf dduai 'r nen,
 Ac ni ddychwelodd mwy.

Pell bontydd y dragwyddol law
 Oedd rhwng y byd a'r nef
 A dorwyd â tharandwrf draw,
 A mwy nis gwelwyd ef.

Edrychai y ddynoliaeth dlawd
 Ar ol ei chyfaill pur
 I weld a ddeuai ar ei rawd
 Yn ol o'r dwyfol dir.

A syrthiodd gwllithyn ar ei rudd,
 Mwy gloew na gwllith y nef,
 Sef deigr yn ola'r angel prudd,—
 Ei ffarwel iddo ef.

Cydgwrddent weithiau ganol nos
 Ar glogwyn breuddwyd pell,
 Ac wylent mewn rhyw fyd o ras,
 Wrth gofio dyddiau gwell.

Ephrata! O, Ephrata lon!
 Y man cyfarfod cu!
 Mi welaf deulu Duw o'r bron
 Yn tynnu atat ti.

Pan ymgnawdolodd Iesu mawr,
 Fe ddygodd lu y nef,
 A'i thorf angylion oll i lawr
 I gyd o'i amgylch Ef.

Os torrwyd ym Mharadwys gynt
 Y bore bynt i lawr,
 Mi welaf agor ar eu hol
 Y bont Gyfryngol fawr!

Ac ar hyd hon angylion sydd,
 A dynion fwy na rhi
 Yn ymgymysgu nos a dydd,
 Mewn goruchelion fry.

Mi welaf angel yma mwy,
 'R Iddew a'r cenedl ddyn,
 Ac fel eu mawr ganol-bwnc hwy
 Mi welaf Dduw ei Hun.

E P H R A T A .

HOFF air wyt, O Ephrata!
 Seinber enw, ei swyn barha,
 Daeth y dydd i ffydd goffhan
 Dy fawredd hynod forau,
 Annerch y lannerch lonydd,
 Aros gwawr goris ei gwydd,
 Bro y gŵr bore ei gân,
 A lle deilliai 'i had allan.

Cyn torro'r wawr heibiau 'r af,
 Ei breseb ni ddibrisiaf,
 Ar y daith cwrdd â'r doethion
 Hiraethol am Ephrath lon,

I'w gwynebu, gan obaith
 Fyrred yw eu herfawr daith!
 Os hir y nos, "ei seren Ef"
 A'i gwna 'n hawdd, hawdd i'w dioddef,
 Hawdd esgyn bryn neu ddisgyn bro
 Y nos olaf cyn y Seilo!
 Hawdded a gorffwys-iddyn
 Fu ei dal, nos olaf dyn!

A mawrion roddion yr ant,
 Arwyddion o fawl roddant,
 Ephrath bêr o ffrwyth y bau
 Ddwyreiniol brofodd riniau.
 O chaf, erfyniaf finnau
 Roddi i'w glod arwydd glau;
 Nid af, y lleiaf, yn llwm
 Heibio Ephrath heb offrwm.

Adloniant trwy delynau
 Y nef red wrth ei fawrhau.
 Newyddion dannau heddyw
 Ar Seion yn seinio 'n syw;
 Hoff delyn proffwydoliaeth,
 A pheraidd nod eu cyffwrdd wnaeth;
 Daear a nef dery 'n awr
 Yn eu torf y tant dirfawr;
 Duw mewn cnawd yn Bryniawdydd,
 Erfawr ddawn ar fore ddydd!
 Y dorf, y dorf ddiderfyn,
 Bythawl fydd eu mawl am hyn.

ORGAN EBENEZER, CASNEWYDD AR WYSG.

PWY a roddes y pereiddiaf,—offer
 I uffern atgasaf,
 I dywys achos duaf
 Y gelyn, hen elyn Naf?

O dygwch, dygwch y dôn,—o Babel
 I lwys awel Seion
 O Asyria i Saron—
 I lys hael mawl, Salem Ion.

Yn awr Seion roesawa,—i'r cyrddau 'r
 Offer cerdd pereiddia ;
 Alldudion, ei llaw a'u doda
 Yn eu lle yn ol, llawenha.

Eigion o swm o'r organ sydd—fel dwfn
 Fawl y dorf dragywydd,
 Rhyw fôr fawl, hir ferw fydd—fel emyn
 Engyl i'w ddilyn yn nghlyw addolydd.

O'r organ daw môr ergyd—o foliant,
 Fel o dragwyddolfyd !
 A'r swm a'm cwyd dros ennyd
 Uwch anial barth, uwch niwl byd.

Nid dihalog mwy mo'u telyn,—aeth hon
 A'i thannau i'r gelyn ;
 Hi aeth yn gaeth, o'i lle gwyn,
 I foddio 'r aflan feddwyn.

O chwery ei chworydd,—i foddio 'r
 Anghrefyddawl beunydd ;
 Gan y saint yr organ sydd,
 Chwareua fawl ei Chreydd.

Syw dannau 'r lleisiau dynol,—a blethant
 Trwy blith y rhai celfol,
 Clyw ar draeth hedd ryfedd rol,
 Neu fôr o sain anfarwol.

A! gwelaf ddydd, pob celf a ddaw,—at ddôr
 Tŷ Dduw i ddymunaw
 Am waith a grym i weithiaw,
 O ba les un gelf heblaw ?

Casnewydd a fydd yn foddion,—cynnwrf
 Yn y canu weithion ;
 A di-ddadl symudodd hon
 Y terfyn oedd ar y Trefnyddion.

AGOR CAPEL.

A MELUS anthem hylon,—crynhown
 Gylch caer newydd Seion ;
 Yr Ior fendithio 'r awrhon
 Seilio mur y Salem hon.

Yr Ion a dodd yr hen dŷ,—â'i edyn
 Gysgodo'r newydd-dŷ!
 Bo'r hen bwerau hynny,
 Eto'r un fraint o'r nef fry.

O'r lle achuber lluoedd,—eneidiau,
 Hosanna gân, O seinier floedd,
 A lleisier gan bell oesoedd,
 A'r nefol hwyl yr hen floedd!

A mager yma egin,—i'r nefoedd,
 Bo'r nifer yn ddibrin,
 A'r gwlaw o'r nef, a'r gloew-win,
 Newydd ras gynyddo'u rhin.

Arosed gair yr Iesu,—yn oleu
 Heb niwl i'w dywyllu,
 Haul y gair o'r deml gu,—heb len brudd
 Na hyll orchudd, fo byth yn llewyrchu.

Yn wyl dymunwn eilwaith,—arosed
 Gair Iesu'n yr heniaith,
 A'r muriau i'r Omeriaith,—gadwn
 I gyd i'r fytholiaith.

Dyma le yn deml i iaith
 Y bryniau, y bêr heniaith.

 E M Y N .

GORUWCH y greadigaeth fawr
 Jehofa yn teyrnasu sy,
 Yn nerthol rhoes ei sail i lawr,
 Yn nerthol y cynhalia hi.

Tragwyddol gadarn yw dy fainc,
 Ac ni ddaw cwmwl ar ei bri,
 Na diwedd ar y melus gainc
 I'r Hwn a'i sicrhaodd hi.

Ymorfoleddwn yn dy air,
 Safadwy fel dy orsedd yw,
 Tragwyddol ddiogelwch gair
 Ar uchel graig addewid Duw.

TONAU IEUAN GWYLLT.

MOR o awen—amrywiaeth—o donau
 Daenir drwy y dalaeth;
 Môr o nerthol addoliaeth
 Nawf hyd yr oes, nef ei draeth!
 Aml i dôn mal adenydd—byw gerub
 Garia y gwrandawydd
 Hyd lannau rhyw wlad lonydd
 Uwch ser yn llewyrchu sydd.

Y "GLORIAN."

BOED yn bapur pur, darpared,—iach lèn,
 Gwych lwydd fo i'w dynged,
 Ac i gannoedd coginied
 Oreu ŵyl i'r wlad a'r led.

Llenyddol, llawn o addysg,—a fyddo,
 O fuddiol wyddonddysg,
 I Gomer rhoed yn gymysg
 Ynni meib dawn ymhob dysg.

Bu eisiau arnom bwysydd,—a difai
 Dafol mewn llaw gelfydd,
 Os ei i fewn, dwed sawl owns fydd
 O deg awen yn dy gywydd.

Ni wedda hen newyddion,—wythnos oed,
 Aeth yn sal y Brython
 Ar ddiol sur,—sur yw'r son,—
 Ddyry rhai newyddorion.

Y diweddaraf o'r dyddorion,—gludir
 I'n gwlad anwyl weithion,
 O dud Ffrainc ceir diod ffres,
 Yr hoff hanes o'r ffynnon.

Ni waeth pwy,—un eitha pell,
 A'i bib yn duo'i babel!

* * * *

GWYBODAETH.

OS aeth gwybodaeth gyda'r badau,—llesg,
 A'r llusgol abwydau,
 Ffy weithion drwy'r burlon bau
 Ar ebrwydd fellt yr wybrau.

CYMANFA GERDDOROL GWENT A MORGANNWG.

FINNAU a gaf fwynhau gŵyl
 A gwin tonau Gwent anwyl.
 Onid lles yw gwrando llu
 Cynnes o Went yn canu ?
 Mêr y genedl, Morgannwg,
 Yma a geir heb ddim gwg ;
 Dwy dalaeth nis didolir,
 Un yw y ddwy dan nawdd hir ;
 Un yw y ddwy mwy, a mawl
 Addwyn yw'r gadwyn gydiawl.

Ieuan Gwyllt arweinia'u gwaith,
 Rhoi iach hwyl i'r uchelwaith.
 Dyma flaenor pob côr cu
 Ac enwog deyrn y canu.
 Dyn yw wnai gyfnod newydd
 Ar y dôn, ar ganu'r dydd.
 Ni fyn y dôn fuanwyllt,—
 Marw o dan warth mae'r dên wyllt ;
 Dwrn dinistr i hen donau
 Yw dwrn Gwyllt, dyrna y gau.
 "Y Delyn Aur" drwy'r dalaeth
 Yn nod o ddirmyg a wnaeth.

EMYN.

FE agorodd ffordd i'r euog
 Gael dyfodfa at y Tad,
 I ymofyn am ei heddwch,
 Ac am lawn faddeuant rhad ;
 Ffordd gyfreithlawn
 I'w dragwyddol gyfiawnhau.

Mae'r wahanlen wedi'i rhwygo
 Rhyngom gynt â'r nefoedd gaed,
 Mae y Barnwr yn ymddangos
 Yn gymodol yn y gwaed,—
 Goleu bellach
 Yw y llwybyr ato Ef.

Diluw y digofaint dwyfol
 Treio wnaeth, er uchod fu ;

~ Cafodd Gobaith le i roddi
 Ei droed i lawr ar Galfari,—
 Gweddi hefyd
 Le i ymbil wrth y fainc.

Dan yr haeddfawr drugareddfa
 Mae y gyfraith wrth ei bodd,
 Trwy ddiodef ar Galfaria
 Ag anfeidrol Iawn fe'i todd;
 Iawn yn gysgod
 Dros ei holl ofynion roed.

 ARWAIN FI

O! arwain fi i'th nefol ffyrdd
 Yng nghanol temtasiynau fyrdd,
 Yn awr y brofedigaeth ddu
 Dragwyddol Ysbryd! arwain fi.

Rhyw anial erchyll yw y byd,
 A maglau ei bleserau i gyd,
 Yn gywir i'r baradwys fry
 Hyd ffordd sancteiddrwydd arwain fi.

Rhag twyll fy nghalon ddrwg fy hun,
 Afiendid ei meddyliau blin,
 O! rhag ei chynhyrfiadau hi,
 Yn llwybrau ofn, arwain fi!

Mae Satan, chwant, a phechod gau,
 Oll am fy arwain tua gwae,
 O! rhag eu hymdrechiadau hy
 Yn ffordd cyfiawnder arwain fi.

Pererin wyf ymhell o'm gwlad
 A' ngolwg ar drigfannau 'Nhad,
 Pererin rhwng gelynyon lu,
 Dad pererinion! arwain fi.

O! arwain fi hyd lwybrau hedd
 Yn ufudd mwyach hyd fy medd,
 Trwy'r olaf brofedigaeth ddu
 Yn orfoleddus arwain fi.

Trwy ddyfnion donnau angau af
 Dan ganu, os dy gwmmi gaf,
 Nes cyrraedd glan y Ganan gu,
 O Iôr anfeidrol ! arwain fi !

 CARTREF.

O DRE y bardd am dro bum,
 Ar foethus yrfa aethum,
 I fwynhau pell barthau 'r byd
 A mynnu hoen am ennyd.
 Eto somiant dwys imi
 A fu'r holl ddaearol fri ;
 Môr y ddinas, myrddiynau,
 Mawredd oedd yn fy mhruddhau ;
 Hiraethais, gelwais i go
 Fy anwyl gartref yno.

Mae im' dân a mam dyner,
 Mae yno byth im' hoen ber,
 A gwên ddi ffug yn nydd ffawd,
 A'r unffurf yn awr anffawd.
 I glefyd enbyd od af
 Yno, ni ddigalonaf ;
 Mam gariadus, serchus, sy
 Angyles ger fy ngwely ;
 Drwy nos hir druenus, hon
 A'm gwylia o dwym galon,
 A chariad fy chwiorydd
 Ffyddlawn yn gysurlawn sydd.

Ac i lawr os daw 'r hen dŷ
 Yn ddybryd garnedd obry,
 Af i weled adfeilion
 Muriau y lle fu mor llon !
 Wylaf uwch yr olaf faen,
 Ac af a hi fel cof-faen.

Sia'r nant wrth ser y nef
 Yn odrist am f' hen adref.
 Hyfrydwch fydd cofio 'r adeg
 Min ein nant hon mewn henaint teg
 Mor ddedwydd fy mreuddwydion
 Mewn henaint am ein nant hon,

A'r werddaf len a'r ardd flydd
 O flaen y drigfa lonydd,
 Ac y dderwen hen honno
 Oedd du cefn (hawdded y co!)
 Balch o'i chryfder rhesder oedd
 Uwch asur—balch o'i hoesoedd!

Boed mawryd y byd i'r bon,
 Boed alaf i'r bydolion,
 Boed lloniant byd i'w llenwi,
 Tra fo 'mam Cartref i mi!

COF AM Y BARDD.

MEWN byd o gyfnewidiol ryw
 Mae ambell enw 'n para 'n fyw,
 Ac nis gall siomedigaeth gwyw
 Na'r bedd wanbau ei swyn;
 O'r enwau hyn ni theimlir un
 Mor bêr a Dewi Iscin gun,
 Mae'i alw i gof fel mel a gwin,
 Y pêr awenydd mwyn.

Pan fyddo 'r môr gan stormydd blin
 Yn berwi ar gynddeiriog lun,
 Y mae ei ddyfnder fyth yr un
 Yn dawel oll, yn hedd;
 Pan fyddai 'r byd mewn storm bob tu,
 'Roedd dyfnder o addfwyndra eu
 O fewn ein hanwyl Ddewi ni,
 Yr un o hyd ei wedd.

Er dringo llawer Alpaidd riw,
 Er teimlo llawer loes a briw,
 Ni chiliodd ei ireidd-dra gwiw,
 Ei dangnef fu ddi-don;
 A chadd yn wobrwyl am ei waith,
 Fel Moesen, ddringo Pisgah faith,
 A gorffen ei drugarol daith
 Yng ngolwg Canan lon.

Caruaidd fel cymydog fu,
 A hael fel wybren Ebrill gu
 Sy'n arllwys bendith ar bob tu,
 Gan lwyr fendithio 'r ddôl;

Mi welaf weddwon llesg gerllaw,
 I foddfa 'n troi ei feddfaen draw,
 Yn wylu 'n ddyfal am na ddaw
 Eu Dewi fyth yn ol.

Dilynodd Iesu fore 'i oes,
 Ei wanwyn ir i'r Iesu roes,
 Fe dyfai 'i ysgwydd at y groes,
 Nes oedd yn hawdd ei dwyn;
 Yn dair ar ddeg i'r eglwys aeth,
 At fesur oedran Iesu daeth,
 Ac yna dianc ato wnaeth
 I fro yr anthem fwyn.

Ei fuchedd ef o'i ol sydd bur
 Fel llinell o sancteiddrwydd hir,
 Fel un o lwybrau 'r dwyfol dir
 Gan engyl deithir fry,—
 Gadawodd ar ei ol i'r byd
 Yr etifeddiaeth oreu i gyd,
 Sef enw da, na'r enaint drud
 Yn fwy ei werth i ni!

Fe gafodd ef, fel Jacob gynt,
 Do, yntau, ei Beniel ar ei hynt,
 Lle cafodd un o'r dwyfol bynt
 Sy'n arwain at y Tad;
 Ymdrechai gyda 'r angel mawr,
 Ymdrechai nes y codai 'r wawr,
 Ymdrechai nes y tynnai i lawr
 Y fendith fawr ei rhad!

Pregethai Grist a iawn ei groes,
 Y rhin sydd yn ei farwol loes,
 A llawer enaid ato droes
 O ymyl bythol dân,—
 O! melus ganddo 'u gweled hwy
 Yn dod i fyny, oll heb glwy
 I'r nef—y rhai waredwyd trwy
 Ei weinidogaeth lân!

Gofalai, Seion, am dy ddor,
 Adwaenai anghord yn dy gôr!
 A chwynnai sanctaidd ardd yr Ior
 I'w chadw 'n lân o hyd;

A thyner law fe borthai wŷyn
 Y gŵr fu farw er ei fwyn
 Trwy einioes ddiwyd nes ei ddwyn
 I'r fro sy'n gân i gyd.

Ryw nos lawn lleuad, nos o hedd,
 Mi ddeuaf, Dewi, at dy fedd,
 Mi gaf gymdeithion hardd eu gwedd,
 Sef engyl dwyfol fro ;
 Maent wedi cloi dy feddrod di,
 Maent wedi mynd â'r allwedd fry
 At Iesu, ac os rhydlyd hi
 Mae 'n ateb oll i'r clo !

Bêr Awen ! os anghofiaf di
 Anghofiaf hanfod Dewi gu,
 Anghofiaf y gyfannedd fu
 Yn paradwyso 'i oes.
 Ymaflaist yn ei law mewn pryd,
 A dysgaist ef i rodio 'r byd
 Mewn gorfoleddus hwyl o hyd
 Dan ganu is pob croes.

O gorffwys mwy ar fryniau 'r myrrh !
 A ninnau, er yn camu 'n fyr,
 A ddringwn ar dy ol, nes tyr
 Gwawr y tragwyddol ddydd !
 Ffarwel hyd hynny, Dewi gu,
 Ffarwel hyd oni chwrddom ni
 Yn y dragwyddol jubili
 O'n rhwymau oll yn rhydd.

DECHREU CAN.

YR oedd y nos yn dywyll
 A'r eira yn dod i lawr,
 Pan grwydrai llanc oedd wael ei bryd
 Ar hyd y ddinas fawr,
 Wrth lawer dor curasai, yn ofer yr edrychai
 Am le i guddio 'i ben,
 A chysgu wnaeth ar garreg oer,
 A'r eira drosto 'n llen,
 Er oered ei obennydd,
 Mil oerach oedd y byd,
 Ac er mor deneu oedd y llen
 Yr oedd yn wen i gyd.

* * * * *

CYDYMDEIMLAD.

NAC wyla, fy mrawd, sugndyniad y nef
 A aeth yn rhy gryf yn y diwedd,
 Enillodd ei hysbryd yn llwyr iddo ef,
 A lithrodd i fythol dangnefedd,
 Collasai y ddaear bob sugn, pob swyn,
 Ar ysbryd mor bur, mor nefolaidd;
 Ei Cheidwad a denodd ei bryd nes ei dwyn
 Yn raddol i'w fynwes garuaidd.

Fel rhosyn o eilfyd, rhy dyner oedd hi
 I ardd mor auafaidd a'r ddaear,
 Rhy oerion awelon ein haniaf fyd ni,
 I un oedd mor brydferth, mor hawddgar;
 Fe'i dygwyd gan angel anwylaf y nef
 I fro lle mae'r haf yn dragwyddol,
 Lle mae'r awel yn gân, lle mae goleu y ser
 Yn yr ymyl, a Iesu'n bresennol.

O! dedwydd fu'i chyfran, gael gado yn lân
 Ofidiau y ddaear, mor forau!
 Cyn codi croes amser cadd ddechreu y gân,
 Na dderfydd mewn bythol ororau!
 Dibennodd y fordaith yn gynnwr o'i rhan,
 Yn aber ieuenctid dibennodd,
 Cyn myned i'r dyfnder, cyrhaeddodd y lan,
 A storm oed a henaint ddiangodd.

Pan welwn ei gwyneb, meddyliwn am hedd,
 Am rinwedd, am grefydd, am nefoedd,
 Yr oedd y goleuni i'w weld ar ei gwedd
 A ddaw o dragwyddol ardaloedd;
 Blodeuai ei chrefydd yn fwy-fwy o hyd,
 Pan ffoai prydferthwch ei hagwedd,
 A llwythai yr awel a wywai ei phryd
 Ag olaf aroglau ei rhinwedd.

Nac wyla, fy mrawd; mae engyl yr Ior
 Yn gwylio cysegrle'i beddrod,
 Daw Iesu ei hunan i agor y ddor,
 Daw Iesu ei hun i'w chyfarfod,
 O! hardd fydd ei golwg pan ddelo y dydd
 I godi mewn bythol ieuenctid,
 Gwawr iechyd tragwyddol brydfertha ei grudd,
 A phoen ni fydd mwyach na gofid.

Er popeth ddywedir, rhaid wyllo er hynny,
 Fe wylodd yr Iesu ei hun,
 Mae'n cofio ddwy chwaer, eu dagrau a'u gweddi,
 Mae Iesu ei hunan yn ddyn;
 Dos ato am gysur, dos ato am hedd,

CRI ETHOLIAD GWENT.

YMUNWN, bloeddiwn o blaid—ein hawliau,
 Hen hil y Prydeiniaid!
 Ysplennydd ymgeisydd gaid,—a throsto
 Berwi a thanio bo'r Brythoniaid!

Ar donnau cyffredinol—ar y llif
 A'r llanw etholiadol
 Rhaid arwain Clifford wrol
 I bur hafn—a phawb ar ol.

Eiddilion wŷr ni ddylent—ein harwain,
 Blaenori nis haeddent;
 Foneddwyr a gweithwyr Gwent,
 Etholwch Rym a Thalent.

PRIODAS GURNOS.

Y PEN bardd, pwy yn y byd—a'i hudodd?
 Merch o Eden geinbryd!
 Os bu'n nos ar Gurnos gyd—daeth weithion,
 I'r gŵr hoewfron, eurog wawr hyfryd.

Gwyrth o fun, gwraig wrth ei fodd,
 Yn ei gern, pan welodd
 Lizzie anwyl a'i swynodd,—a Gurnos,
 Em o fil, ymafaelodd.

A N I A N .

DYMA amser adferiad—holl anian,
 Llonwch fri ei chread
 I'w hurddo'n awr ddaw yn ol,
 A'i dwyfol fore dyfiad.

Rhyw bâr oedd daear a dyn

I anian bêr mae gwae'n bod,
 Mae baich i hon am bechod;

Cwynfanus cân afonydd,
 A swm gwae sydd yn y gwydd;
 Min hwyr ei hemyn hiraeth
 Gân weithion mewn cyffion caeth.
 Y lloer yn mantell hiraeth
 Wyla dros y nefol draeth;
 Am wynfyd o hyd mae hon
 Yn chwiliaw trwy'r uchelion.

Duai'r cwmwl wedi'r camwedd

Mae Anian yn dymunaw
 Beunydd am y dydd y daw
 Dyn i'w le—Duw Ion o'i lys
 I'w
 Credwn daw "pob creadur"

A phan y cwyd ei phennaeth

Y llyn pur a furmur fawl

O deml y coed cwyd mawl cu—bythol'lon,
 A'u llwyni gwynion yn llawn o ganu,
 Ni ddigia y gwrdd eigion,
 Ochrau tir ni chura ton.
 Y cawraidd fôr, caruaidd fydd,
 A châr y lan fel chwaer lonydd.
 Dyfera'n edifeiriol
 Drysorau a nwyddau'n ol,
 A myrdd o emau arddun
 A rydd efe i'w hardd fun.
 A'i floedd am fil o flwyddi
 Uwchlaw'r oll ni chlywir hi.
 Ni rhaid angor ar fôr fyd
 Na buain fadau bywyd.
 Rhyw elfen fawr lefn a fydd

Ni fydd darn is barn yn bod,
 Na'r felldith barai falldod.
 Ein Naf o'i orsedd nefol,
 Glyw y nef, a'i geilw yn ol.
 Mwy daearen ymdorra
 I faith lwydd, i fythol ha.
 Eto anadla natur
 Heb wae—fel yn Eden bur.

Y melldithion geirwon gynt
 Mynyddoedd trymion oeddynt,
 A fel gardd nefol i gyd
 A thyf heb driniaeth hefyd ;
 O nefol wlaw ! ddwyfol wlith !
 O fuander y fendith !
 Anfedrus wyf i adrawdd
 Anghydmareol nefol nawdd
 O diaeth les y fendith lân
 A'i rhinwedd hi ar anian.

Rhyw nef lydan o eirian flodau
 A fydd ein hawddgar ddaear yn ddiau,
 Mwy difyr hoff sawyr ei phwysiau
 Nag i Addaf, mwy prydferth ei gweddau,
 Bro las gan wiber lysiau—a fydd hon
 A rhai newyddion ei rhinweddau.

Ni rifir oed y coed cain
 Tymhorau'r blodau mirain.

Y drom ystorom nis tyr
 O'i lle yn nghostyll awyr,
 Taranfoltt awyr enfawr
 Arth y nef ni syrth yn awr.
 Bydd anian a'i byddinoedd—mewn heddwch
 Mwyneiddiaf am oesoedd
 Yn lle y bar anwar oedd.

Tymor ar ol tymor—teg
 I'n byd a fydd,
 Heb wywder fydd pob adeg,
 Ni wywa aur wynfa'r haf
 Tan rewiant tyn oer auaf ;
 A'r chwa ni ddilea lon
 Gain orchudd ei gynyrchion.
 Ac yn awr ni ddisgyn eira—ond ar
 Yr uchelderau pella,
 Fry yn nef cyfeirio wna,
 At iawnfyg bwynt y wynfa.
 Nawf awelon yn foliaint,
 Hybir eu sw'n heibio'r saint,

Ac yn awyr cân newydd
 Gan lon nefolion a fydd ;
 Holl anian mewn llawenydd
 Organ fawr, môr o gân fydd,
 Pyncia'r adar, côr Eden,
 Mân engyl yn ymyl nen

A'r braf hwyr a'r bore fydd
 Yn awen bythol newydd

Clefydau a phoenau a orffennant
 Yniau iechyd mwy ni wanychant
 A hwnt i'w ffauau heintiau a ffoant
 Awenau dedwydd y teg F——.
 Ar ol eu hanwylion llon nis lluniant
 Alargan drom ; pob somiant—gofidiau
 Och, nos, a beddau, mwyach nis byddant.

A myrdd o engyl yn mro ddu angau,
 Lu dirif, ddeuant fel torf o dduwiau,
 Ac yn dyn y gelyn gau—a rwymant,
 Taranu byddant uwch teyrn y beddau.

Yn ngharchar angau erchyll—a roddir,
 Arno y toir â barnau tywyll
 Nes darfod o'r cyfnod cu

G A L A R G A N .

GERLLAW i ywen werdd y llan,
 Mae fanwyl un,
 Yn gorwedd yn yr oerllyd fan
 Mewn marwol hun.
 Fy nghalon sy gan alar trwm
 Yn suddo ynnof megis plwm,
 O bob llawenydd wyf yn llwm,—
 Diosgwyd fi ;
 Ochenaid ar ochenaid sydd
 Yn esgyn o fy mynwes brudd
 A'm dagrau'n treiglo nos a dydd
 O'i herwydd hi.

Hiraethu am y gwanwyn gwyrdd
 Bum lawer gwaith,

Hiraethu am ei flodau fyrdd
 A'u gwisgoedd braith ;
 Hiraethu am Fai i lenwi'r llawr,
 A pheraroglau gwych eu gwawr,
 Gan roi i'r awel beraidd sawr
 Pan ar ei hynt ;
 Hiraethu am ganiadau mwyn
 O gangau'r coed a brig y llwyn,
 Hiraethu am y siriol swyn
 Y byddwn *gynt*.

Ond *bythol, bythol* mwy na ddoed
 Y gwanwyn hardd,
 I wisgo dail am gangau'r coed
 A britho'r ardd ;
 Na ddeued Mai mewn gwisgoedd gwiw,
 I droedio'r ddôl na dringo'r rhiw,
 Na thardded blodyn llon ei liw
 Mewn unrhyw fan.
 Na chlywer ond galarus gwyn,
 Oddiar delynau gwig a llwyn,
 Oherwydd mae f'anwylyd fwyn
 Yn llwch y Llan.

O Anian ! gwisga mwy hyd lawr
 Alarwisg ddu ;
 O boed dy wedd bob munud awr
 Yn drist a thru ;
 O cyd-dywalltwn ddagrau 'n lli,—
 Y fun mor fawr a garwn i
 Oedd dy ogoniant pennaf di,
 A'th goron gun ;
 Ar bared llwyd fy meddwl prudd
 Ei harlun hardd yn hongian sydd,
 Yn anghof gennyf byth ni bydd
 Fy anwyl un.

Glân fel y lili ydoedd grudd
 Fy anwyl un,
 A llon ei threm fel gwawr y dydd,
 O f'anwyl un !
 Gwyleidd-dra pur, addfwynder drud,
 Pwyll, a challineb dwfn ynghyd,
 A gydlewyrchent yn ei phryd
 Fel haul prydawn ;
 Teg golofn risial oedd, wrth fyw
 Drwy'i hoes, yng nghanol eglwys Dduw,

Ac arni haul cyfiawnder gwiw
Lewyrchai'n llawn.

Ond och! ond och! ni welaf mwy
Fy anwyl un,
Er dyfal dremio dan fy nghlwy
Yn llesg fy llun;
Hed fy ngruddfannau gyda'r gwynt
Tra syllaf ar lle byddai gynt,
Mynega'i lle, hi aeth i hynt
Ni ddaw yn ol!
A! nid yw taerni'r fron ddi-hedd,
A dwfn ochneidiai'r trist ei wedd,
Yng nghlustiau ceidwad dorau'r bedd,
Ond dadwrdd ffol.

Ffarwel am byth, gysuron byd,—
Ffarwel i chwi;
Yn alltud yn y fynwent fud
Gadawsoch fi;
O'm cylch mae pawb yn llawn o nwyf,—
Ond mi, truenus adyn wyf,
Yn ocheneidio dan fy nghlwyf,
Yn fawr fy ngloes;
Fy meddwl hed o dwrw dyn
I gangau'r ywen hen ei llun,
I brudd fyfyrion wrtho'i hun
Ar drallod oes.

Oddiar fy nghlyw byth, byth, nid aeth
Llais cloch y Llan,
Ond na! ei chlul sy fel y saeth
I'm calon wan;
Y mae ei chlul yn dwyn fy hedd,
Y mae ei chlul yn gwywo'm gwedd,
A'i chlul a glywir uwch fy medd
Yn fuan iawn;
I'r sawl a'i cais boed mwyniant byd,
Ei uchel fri i'r balch ei fryd,
I minnau'r gwan dihoen, fy hyd
O'r fynwent lawn.

Wyf wedi blino'n llwyr o dan
Fy nirfawr bwn;
I'w roi i lawr nid oes un man
Ond bedd, mi wn;

Croesaw, croesaw, anwyl ddydd
 Croesaw, croesaw, ywen brudd ;
 Croesaw, croesaw, feddrod cudd,
 A'th felus hun ;
 Nid wy'n dymuno mwyach fyw,
 Ond fy nymuniad pennaf yw
 Cael "marw a'm pwys ar ras fy Nuw,"
 Fel f'anwyl un.

PRIODAS ATHAN FARDD A MISS ROGERSON,
 CASNEWYDD.

A THAN hoff, bendithion nen—gorono'th
 Hawddgar anwyl feinwen ;
 Ior roddo i'ch, bâr addien,
 Araul oes, heb unrhyw len.

Frawd anwyl, dwedaf ar donnau—hiraeth,
 Boed eirian rinweddau,
 Llwydd, heddwch, trwy'ch holl ddyddiau,
 Angel gwyn i'ch diffyn eich dau.

Boed cerub hyd y cyrrau—diweddaf,
 Sef dydd tywyll angau ;
 Yn eich arwain, a chorau
 Ogyrch yn fwyn gylch fo'n gwau.

Tôn-gu, a Chymru, a chàn,—yw bythol
 Bethau y brawd Athan ;
 Enillodd, teilyngodd lân
 Ddynes o wylaidd anian.

Yn nherfyn hyn o yrfa—O ! bydded
 Eich bedd yn ddiangfa ;
 O bob drycin a blin bla,
 Fry i geinfawr fro Gwynfa.

DISTAWRWYDD.

O DDISTAWRWYDD ystyriol—y genir
 Gogoniant meddylol ;
 A phair i ddyn ffordd ddi-ol
 At fwau'i aur tufewnol.

O'i dirion buraf ddyfnderau—di-swn
 Daw synawl drysorau ;

Haul yr hynod Olrheinydd,
Yn ei ddi-swn nefoedd sydd
Yn nghel fan, ag angel-fys,
A gwên dawel gwna i dywys.

E gyfranna gyfrinion—hen anian,
A ffynhonnau croewon ;
O newydd urdd ynion
O fewn drud ddynderau hon.

Alaf anian, elfennau—newyddion,
Na wyddai yr oesau
Am eu nerth, daw i'w mwynhau—yn raddol
O hedd ystyriol ei ddistaw oriau.

Rhoes natur eres i Newton—allwedd
Ei holl undod cyson ;
Ryw awr fud, ry bruddfud bron—iddo ef
Diau oddef swm cwmpiad addon.

Y berwol agerbeiriant
Sy bron ffoi draws bryn a phant,
Trawsyrta tros y Werydd
Fel angel hyd echel dydd,
A myn lwybr a mânwl hynt
Er garwed môr a'i gorwynt,
A'n hawdd dros fôr mynyddig,
Dros Alpau o donnau dig,
A godidog geudodau.

HAPUS DYRFA.

GWEL uwchlaw cymylau amser
O! fy enaid, gwel y tir
Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir!
Hapus dyrfa!
Sydd yn nofio yn ei hedd.

Gwel a chred! mae yna drigfan,
Oes, a chorcn deg i ti ;
Golud hon ni threulir allan,
Gwel, a chais ei golud hi,
A deilyngwyd
Yn yr ardd drwy iawnol chwya.

Ynddi tardd ffynhonnau bywyd,
 Trwyddi llif afonydd hedd
 I ddyfrhau ei broydd hyfryd,
 Ac i anfarwoli ei gwedd;
 Iachawdwriaeth
 Ar ei glan anadlir mwy.

Saethau 'r bedd ni allant esgyn
 Ei hagosaf dalaeth hi,
 Ac ni faidd y marwol elyn
 Sangu ar ei rhandir fry,
 Cartref bywyd,
 Cartref anfarwoldeb yw.

Troir awelon glyn marwolaeth
 Oll yn hedd tu yma i'r fan,
 Try holl ocheneidiau hiraeth
 Yn anthemau ar y lan,
 Syrth y deigrin
 Olaf, i'r Iorddonen ddu.

Nid oes yno neb yn wylo,
 Yno nid oes neb yn brudd,
 Troir yn fel y wermod yno,
 Yno rhoir y caeth yn rhydd,
 Hapus dyrfa
 Sydd a'u trigfa yno mwy!

Iachawdwriaeth ar ei hawel
 Lif, a chyfoeth o fwynhad;
 Mae ei hanthem fyth yn uchel,
 A'i thrysorau fyth yn rhad,—
 A'i gogoniant
 Yn disgleirio fel yr haul.

Mae fy nghalon brudd yn llamu
 O orfoledd dan fy mron,
 Yn y gobaith am feddiannu
 'R etifeddiaeth ddwyfol hon,
 Hapus dyrfa
 Sydd a'u hwyneb tua'r wlad.

MAR W ANN BOWEN.

Dyma fel y mae Islwyn yn cofnodi marwolaeth ei ddyweddi, yng *Nghylchgrawn* Abertawe, am Tachwedd, 1853.

MISS ANNE BOWEN.—Ychydig funudau cyn i wawr bore dydd Llun, y 24ain o Hydref, ymadael a gwawl-lys y dwyrain, ehedodd yr hyn oedd anfarwol o'r ddynes ieuanc a rhinweddol uchod tu hwnt i orllewin cymylog amser, i awyr loewach tragwyddoldeb. Byr fu ei chystudd, ond tra thrwm. Tymhestlog gan awelon oerion angeu oedd ei "mynediad i mewn," eto—

Ystorm arw, nid llong ddrylliad fu!

Canai,—melus cofio,—canai yn bêr a hyfryd, pan ar yr ugeinfed flwydd o'i mordaith ddaearol y tafiai y drem olaf ar fydoedd isloerawl, i ymddigoni byth ar olygfeydd hawddgarach nefolgyd. Yr oedd yn aelod parchus a thra diwyd gyda Chyfundeb y Trefnyddion Calфинаidd yn y dref hon. Hi aeth i lawr yn hawddgar, daw i'r lan yn fil hawddgarach, a'i gwynepryd can i gyd yn anfarwoldeb.

Cantyddaf llyn y cyfamod hedd
O'r orsedd fry yn cydio yn ei bedd!

Tangnefedd i'th lwch, hawddgaraf, ffyddlonaf fun. Oddiar glogwyni cedyrn a disglær datguddiad, yr wyf yn gweled gwawr hapusach dydd i ti!

Tangnefedd a hedd iddi;
Cywir iawn oedd, carwn hi.

"Yr udgorn a gân," hyd hynny, yn iach, yn iach!

Y MOR COCH.

PIHAHIROTH! Pa oror
Ingol "rhwng Migdol a'r môr!"
Ar ol, gelyn sorol sydd,
O flaen, y môr aflonydd.
Torf ar ol, twrf yr heli
Yn rhuo o flaen, arwaf li.
A'r anial mal ymylon
Erch o seirff, frawychus son.

Ar eu camau rhag cymhorth
Y byd gaua 'r pedwar porth.

Y môr gwel megis mur gwyn,
A'r dyrfa ar ei derfyn.

Terfyn o fôr, torf ynfyd !
 O siom ! heb le i symud.
 Neshau at ymylau'r môr,
 Ar ogwydd mae myrdd rhagor !
 Ac yn yr awr ingfawr hon
 Rhai i fewn ar ei ffinion !
 Eu lle hwynt o hyd lleihau,
 Culach a chulach elai.
 Ar y traeth eu halaeth hwy
 Ydoedd anarluniadwy.

Ar ol, y gelydol lu
 Tua'r môr yn trwm yrru ;
 O ! 'r aflwydd a'r sobrwydd syn,
 A'r twrf sydd tua'r terfyn !
 Rhuad môr, gweyriad meirch,
 Tyrfaeu carlamiad dewrfeirch ;
 Gweld eu seirch gloewed â ser,
 Tua'r llif yn troi'n lleufer.

Ond gweddi'n ymgodi, gwel
 Gwel rhyngddynt fel disglaer angel !
 Gweddi wêl i'w huchel hynt
 Ail yr angel, le rhyngddynt.
 Ys hoff goruwch Baalsephon
 Esgyniad 'madawiad hon !

Yn niwl tua'r Aifft, yn ol trodd
 Yr angel, a chyfryngodd.
 Dau lu wedi'u deol ynt,
 Mae'r angel, mae Iôr rhyngddynt !
 Arbedwr, mur heb adwy !
 Gwahaniad mawr nas gwnaed mwy.
 Gwae a ddaw i'w goddiwes,
 Ni ddont pan yrront yn nes.

Dwyreinwynt cryf darana,
 Ar hyd y nos ;
 A'r heilltion ddeifr a holltir,
 Gwely ton dry'n galed dir.
 Arweiniad trwy y waneg ;
 Lle berwai ton, llwybrau teg !
 Y torfoedd dros y terfyn,
 Mewn llwyddiant rodiant ar hyn,
 Ymlaen yr a'u miliynau

O fewn y dwfn nid ofnant,
 Ei groth gerth yn gaerwaith gânt ;
 Ond o fôr un diferyn
 Ni ddaw ar y torfoedd hyn.

Gwel yn awr ddirfawr ryddhad,
 A llaw angel gollyngiad
 Yn dal y rholion diluw
 Goruwch y dorf âg arch Duw !

 G W I L Y M I L I D .

C OF melus caf am Ilid

Ffyddlon gyfeillion im fu—anwylaf
 Awenolion Cymru,
 Nid oes bron ond cofion cu
 Y dydd hwn i'm diddanu.

Unig wyf, maent bron i gyd
 Yn gorwedd yn y gweryd.

Wyf anedwydd, O, fy nhadau,—ar ol
 Eich areulaf ddoniau,
 Arweinwyr yr awenau
 Yn y bedd, aniddan bau.

Da fu ym mebyd f'awen,—hoff feirddion,
 Eich hyfforddiant trylen ;
 Oech engyl at wych angen
 Im harwain i ym mro nen.

Yn ein bro tra awen brid.
 Bydd wylo uwch bedd Ilid !

Fy arweinydd i fryniau
 Yr awen bêr, eirian bau,
 Enwog w'r, fe' nysgai 'n gu
 Yn gynnar iawn i gauu.

O fodd y canaf iddo,—heb orchest,
 Fy hen barchus Athro,
 A'r alargerdd fawlgerrdd fo
 Ail afon yn dylifo.

Na nydder ond cynghaneddion,—hwylus
 Fyth i Ilid dirion ;
 Yn ei sel ni fynnai son
 Am wael bryddestau moelion.

ELIAS Y THESBIAD.*

EILUNADDOLIAETH fel eon ddyli
 Suddai 'r genedl i echrys ddrygioni,
 Llwy'r ymadawodd &'r Duw wnaeth roddi
 Ei ddwyfol nodded a'i ddeddf lân iddi,
 A'i dyg o wlad yr enbyd galedi,
 O bau ruddfannus yr hen briddfeini,
 I froydd o fêl yn fyrdd i'w foli,
 A! gwedi ei ddawn, gwadodd hi—Dduw o'i bodd

Y gwir Dduw a agorodd ei heol
 Dramawr eang sych drwy y môr rhuol;
 E grugiai wenyg yr aig ewynol
 A'i fawrion wyrthiau yn furiau nerthol;
 Ei gysegr eirian roes yn eu canol,
 Ei faner wen, a'i golofn arweiniol,
 Rhoi yd y nefoedd i'r had henafol,
 A newydd afon o ffynnon ddwyfol
 Bêr iawn i'w hyfed, a bara nefol,
 Er hyn nid aent ar ei ol—er cedau
 A diail radau ei law waredol.

Anfad ddirywiad ar ol
 Eu briedd glwys boreol.

Allorau diles drwy 'u holl ardaloedd
 Adeiledid ag anfad oludoedd,
 Leoedd o fawl i eudduwiau filoedd,
 A Baal a gai gan y bobl ei gyhoedd
 Addoli ar uchelfeydd laweroedd,
 Ond un allor fry neu dŷ nid oedd,—er
 Eu holl nifer, i Dduw yr holl nefoedd.

Gan hyll arddelwyr gwenlloer addolid,
 Weithian, a'r huan fel duw fawrheid,
 Yn y creadur llwyr egwan credid,
 A'r Crewr, yr awdwr mawr, a wedid.

Rhag yr anfad addoliad a ddelai
 Y lloer tan hug o gaddug ymguddiai,

* Gwelir rhannau ereill o Elias y Thesbiad yn y *Gwaith*, tudalen 838—844. Ceir rhai o'r llinellau sydd yn y darn hwn yno; ond ailargreffir hwy er mwyn i'r efrdydd fedru gwneyd y ddau ddarn yn un cyfansoddiad.

I ddwfn o niwloedd gan brudd ofn elai,
 Pob seren deg ar y wiwnen grynnai,
 A'r siriol haul brysurai—rhag y dig
 Ormes addig—yn goch yr ymsuddai.

Gylch y temlau ar y brynau
 Ceid y llwynau 'n cysgod llonydd
 Dros arferion aflan, creulon,
 Geuwyr hyfion Baal a'i grefydd.

Ai y genedl yn ol at baganiaeth,
 Y Cananeaïd a'u cyn-anuwiaeth
 A'u difai lywdrefn dwyfol lywodraeth
 Roes am oes le i atgas ormesiaeth.
 Ion o'i le 'n eu canol aeth,—gwg a llid
 Mwy newidid am ei wên odiaeth.

Diengai'n ceidwad-angel—i'r ne 'n ddig,
 Ac i'w drygioni gadawai'r genel.

Y cofiadur-angel cyfododd,—a'i lyfr
 Yn ei law disgynnodd,
 Gorfawwl ysgrifennodd—eu henwau,
 Yna uwch heuliau at Dduw dychwelodd.

Cryfhaodd llanw crefydd y llys—drwy'r wlad,
 Arferion anllad y budr freninllys,
 Rhwydd ddeuent y myrddiynau
 I gyd, i'r un llwybr gau.

O'r un rhin a brenin bro
 Yw y dynion o dano,
 A'r unwedd drwy 'i arweiniad
 Euog lys wna halog wlad.

Mileinig erledigaeth
 Ar eglwys Dduw 'n ddiluw ddaeth.
 Jezebel o'r teyrnlys ban
 Wnai ollwng ei chwn allan
 Ar gywir broffwydi'r ffydd,
 Defaid corlannau Dafydd,—
 I'w herlid hwy o'r wlad oedd
 Yn hafal i fro'r nefoedd.
 Yn ei nwyd ymaflyd wnaeth
 Yn awenau'r frenhiniaeth.

Garn arthes, gyrrai ei nerthoedd—i ddal
 Addolwyr Duw'r lluoedd,
 I uffern erch offeryn oedd,
 A heriai'n hyf Ior y nefoedd

Ei dirion weision ger ei bron wysiodd
 A'i llwyddwyr drwy ei harch a'u lladdodd,
 Yr eglwys brudd o'i golwg ymguddiodd,
 Môr o'i phur waed trwy Samaria ffrydiodd.

O'i lys ter yn nyfnder y nos
 Edrychodd Duw ar ei achos ;
 Edrychai o'i lys derch i lawr
 Ar ddiderfyn lygredd dirfawr ;
 Gorlidiai, clywai sain clod
 O balasau Baal isod ;
 Ffromodd wrth weld offrymiad
 Ebyrth lu'n holl barthau y wlad
 I halog ffaidd eilun
 Ar ei hoff allorau 'i Hun !
 A'u mwg am ddyrchu megis
 I watwar ei lachar lys !
 Drwy gerth ffeidd-dra gwrthun
 Gwelai ei hoff gail ei hun
 Ag aidd yn plygu i eudduw
 A lloi Dan, yn lle i'w Duw !
 O lwynau fyrdd aflan fawl
 Ai i lan, yn olynawl
 Gyda sw'n llef gwaed ei saint,—i lys Ion,
 Eynnodd ei gyfion lawn ddigofaint.

Penderfynodd eu rhoddi—i law barn

Archodd ei was ardderchog—i dorri
 Fel croch daran ruog
 Ar Ahab, honnwr euog,—fel sydyn
 Follt ar goryn ei elyn halog.

Ar unwaith heb ragarweiniad—deuodd
 Fel gordd Duw a'i gennad,
 Ac fel Melchisedec fad—heb achau,
 Heb ddechreu dyddiau na diweddiad.

Ior a lenodd ei foreuol hanes,
 Arferion ei dirion febyd eres,
 Cauodd o'r ddwyfol gyfrol y gofres
 O'i gyn-dylwyth fel gweig enwau diles
 A rhai anheilwng o res—ac o radd
 Arddunol uwchradd i'r ddynol lechres.

Nid enwir achau dynol—yn nhynged
 Y dyn-angel nerthol,

Un roddir cyn hir yn ol
I fraich Naf ar feirch nefol

Deilliodd fel uchfod allan
O allor Duw oll ar dân,
I ddeifiaw bob llaw mewn llid
Y gau ddelwau addolid.

Y teyrn ag arswyd lannwyd, a'i lwynau
Gan ofn a laeswyd, gan fewnol loesau;
Drwy 'i gydwybod rhuai euog dybiau,
Ac ofer oedd ei rwysg a'i fawreddau,
Ofer ei feirwon eiddilion ddelwau
A'i goron, o flaen geiriau—'r sant enwog,
Ddieithr eneinog, a ddaeth o'r nennau!

Heriai Elias ei ddirfawr luoedd,
Ef oedd ei hun yn fwy na'i fyddinoedd,
Ucheled a'i dynged oedd—ei allu,
A Duw i'w waredu 'n bleidiwr ydoedd.

Gwynepryd sobrbryd y sant
Wnai gynneu gan ogoniant,
Wrth ganfod fod y farn fawr,
Yn ei rhwysgedd ar esgawr,
A dialedd fel diluw
Fry yn dod o fryniau Duw.

Daranwr Duw! ar unwaith—a mawr aidd
Ymroddai i'w fawrwaith,
A'i uchelwych orchwylwaith,—
Arwain i fewn y farn faith.

“Ni ddaw hedd y blynyddau hyn,”—eb ef—

“Ni fydd byw lysieuyn,
O dud ni chyfyd hedyn,
Gwlith na gwlaw ni ddaw i ddyn.

“Ni ddaw mad ddyddiau medi
Am adeg,
Ond ar fy nymuniad i,
Wrth adrodd y gerth ddedryd”

A rhwysg dryllfawr ysgydwai 'r hollfyd,—taran^ofawr,
O'r fawr enynfawr nenfyd,
Hi roliai fel i'r ail fyd
Yn daranau Duw 'r wiwnef
Roddai i'w lais i'w arddel ef.

Yn enw ei Naf dyrchafodd
 Ei fyg law, a'r nef a glodd.
 Trodd allwedd aur ei weddi
 Yn nghlo'r wybr fel angel Rhi!

Bron gu yr wybren gauwyd,—drwy 'r camwedd,
 Godreu 'r cwmwl rwymwyd,
 Y tirion wlith lesteiriwyd—ar bob llaw
 Dôr asur gwlaw drysorau a glowyd.

Do, rhoddodd Duw Ior iddaw
 Agorion gwlybion y gwlaw!

Engyl blygent i'w hongian,—uthr agwedd,
 Wrth ei wregys seirian;
 Ei law bur a ymaflai ban
 Yn awenau cerbyd anian.

Anian glodd ei ffynhonnau,—oddifewn
 I ddu fyd y creigiau,
 Llethodd sychder y bêr bau
 Aniddan, am flynyddau.

Y wlad hoff is barnol dân
 A'i 'n llesg oll, llosgai allan.

Yn* y broydd sychai beunydd
 Yr afonydd araf yno;
 Gerddi, dolydd, oll am newydd
 Win-gafodydd yn gofidio.

Y llysiâu i gyd oedd yn llosgedig,
 A bywyd yr hadau yn bydredig;
 Canan odidog fel anial unig
 Wywai gan anadl poethwynt gwenwynig;

Gwywder ddiosgai'r goedwig,—o wisg gain,
 Hardd y llydain ddisglaerddail lliwiedig,
 Gwyrddwawr bren o'r gwraidd i'r brig
 Oll ydoedd yn falledig.

Newyn tost oedd yn y tir,
 Marw o fewn Samaria fawr;
 Wylai cryfion hyfion wŷr
 Yn drist iawn drwy eisiau dŵr.

Is nen o bres enynnol,—elai'r bobl
 Ar bell daith ymchwiliol
 Dan eu hing, ond yn eu hol
 O fethiant ni ddoent fythol.

A phob ffordd brif,—ffordd drwy 'u bro
Ydoedd ry boeth i'w rhodio.

Ahab welai gylch ei balas,—wywder
Wawdiai rym ei deyrnas,
A'i erddi er ei urddas
Heb floen na gwlyb flewyn glas.

O wres anaele y rhosyn olaf
Yn Saron hylon, y fro anwylaf,
Gan wyro, gauai 'd araf,—darfu 'i wên
A'i wrid addien, diflannai 'r diweddaf.

Deuai yn drist yn ei dro
Y Gwanwyn prudd dan gwyno;
Heb gynnyrch, heb ogonedd,
Heb arwydd gwlaw, na bwrdd gwledd.
Ar ei ol agorai haf
Newydd, ond heb gynhauaf!
Ac hir rwymid y cryman
Di fudd, uwch yr aelwyd fan,
Hir adeg cafodd rydu,
A'r fen yn segur a fu.

Ond, heb ei newid, Ahab anuwiol
A barhâi 'n ei gamwedd boreol
A'i oferedd, yn anedifeiriol,
Yr Ion ni addefai,—a'i farn ddwyfol
A'i enfawr allu fu'n ofer hollol
I'w ddwyn ef o'i ffyrdd yn ol,—mewn gau lwydd,
Byddar ynfydrwydd, beiddiai 'r Anfeidrol.


Ei anwar wraig a honnai,
Am ŵr y goruchaf, mai
Gŵr o gyfareddwr oedd
Yn hyf ar enw y nefoedd,
Mai dyn drwg, mai dewin di-ras
Du ei law ydoedd Elias;
Ac mai trwy ofnadwy nerth
Ei ynfyd gelf ddu anferth
Y llwyddodd i gael allwedddau
Y nef uchelnef a'i chau.


Iaith yr halog gythreules
Goeliai, ymgynhyrfai nes
Anfon cenhadon ynfyd




el
dyn,

[The following text is heavily obscured by noise and artifacts, making it illegible.]







ERWEN.



Y LLENOR.

" I WYBOD DOETHINEB AC ADDYGO."

DAN OLYGIAETH

OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

LLYFR XII.

" DUW A EDRYCH IDDO'I HUN."

GWAITH MOZART.


BLYNYDDOEDD OLAF DEWI WYN.


LLE DEWI WYN.

Gwasg:

HUGHES A'I FAB, 56, HEOL ESTYN

HYDREF, 1897.





Dŵr, Dolgellau.

D.

ION.

feird a rhydleithwyr
wi Wyn. Eben Fardd a
g Nghymru.

TUDALENNAU 5—10.

ON."

TUDALENNAU 11—16.


TUDALEN 17.

LL.

TUDALEN 18.

amos, teyrn yr Aifft."
m yng nghyfraith. Y
eraon. Yr hun-offeren


TUDALENNAU 19—32.



WI WYN.

...oddiadau anhysbys. Llythyr
...ert ab Gwilym Ddu. Llythyr
...wolaeth.


TUDALENNAU 33—66.




RDD CYMRU.

...entyn natur. Mân-frychau
...riadog, Talhaiarn, Nicander,
...n, Goronwy Owen, Dafydd
...ymreig." Ei ddylanwad.

TUDALENNAU 67—96.





YMGOM.

AF helbulus fu'r
th o gyhoeddi bardd-
slwyn,—eto gorlawn
mad a gorffwys. Llafur
io rhoi'r darnau an-
wrth eu gilydd;
eu hargraffu; tra-
ddarfod wrth ym-
barhaus â rhai'n
weled, er iddynt
danysgriño, paham y
danysgriño; tafod
iddynt a hwythau
o'r profedigaethau
i'r.

Dig mai fy addewid
medrwn i ddod hyd
ymeg na hanner gini.
Islwyn nag a ddych-
ybodaeth, a gwerth-
yn y dull goreu, ac
fwy na phum cant

Yr oeddwn yn awyddus am gyhoeddi gwaith Islwyn ar un-waith, gan fod cymaint o amser wedi dianc er pan ddylasai ei feddyliau oll gael byw ym meddwl ei wlad. Arhosais tua blwyddyn, a bum i a chyfeillion yn chwilio yn ddyfal am bob peth. Ond dihangodd llawer heb i ni ei ddarganfod. Wedi cyhoeddi'r gyfrol, ac wedi cyhoeddi'r atodiad, cafodd Mr. D. Davies gyfrol fawr,—y fwyaf o ysgrif-lyfrau Islwyn,—ymysg llyfrau y Parch. D. Jenkins, brawd yng nghyfraith Islwyn. Gynted y caf hamdden, cydmaraf gynnwys yr ysgrif-gyfrol honno â chynnwys *Gwaith Islwyn*; a pha beth bynnag sydd yn ychwaneg ynddi, cyhoeddir ef mewn rhyw dull hylaw.

Pan fyddaf wedi gorffen cyhoeddi'r tameidiau hyn, rhoddaf ysgrifau Islwyn i ryw lyfrgell gyhoeddus,—yn ol pob tebyg i Lyfrgell Coleg Prif Ysgol Cymru,—ac yna gellir beirniadu fy ngwaith fel golygydd. Nid gwaith hawdd fydd gwaith y beirniad,—cymer fwy nag un dydd iddo gydmaru,—ond hwyrach y cymer rhywun y drafferth, er mwyn Islwyn.

Byddaf ddiolchgar iawn am unrhyw ddarnau o waith Islwyn nad wyf eto wedi eu cael, rhof hwynt ar y tudalennau hyn. Y mae amryw yn ail-rwymo eu cyfrol yn ddwy, ac yn rhwymo llawer o ddalennau gwynion yn niwedd yr ail, fel y medront ysgrifennu yno bob peth o'r newydd o waith eu hoff fardd fel y daw i'r golwg.

"Wrth droi hen nod-lyfrau drosodd," ysgrifenna Mr. Edward Williams, Machynlleth, "daethum ar draws un yn cynnwys lloffion o'r mynwentydd. Yn eu plith gwelaf fod un o waith Islwyn nad wyf wedi digwydd ei weled yn y gyfrol na'r atodiad. Ym mynwent Talybont, ger y Bala, y mae i'w weled, a rhed fel y canlyn,—

'Gwyn bu ei ber einioes gan bob rhinwedd,
Gwyn am ei hanwyl ddigwyn amynedd,
Gwyn ei phob awr, a gwen ei hoff buredd,
Gwyn fu ei therfyn, gwyn fyth ei hoerfedd;
Gwyn hâf Duw, gwn, fu ei diwedd,—bellach
Gwynnach, gwynnach fyth, a ei gogonedd.—ISLWYN.'

Ond dylwn esbonio pahan yr wyf yn cyfeirio at yr an-hawsderau ynglŷn â chyhoeddi llyfr, megis ei gyhoeddi am bris i foddio pawb, a chael pob rhan yn gyfan. Yr wyf wedi addaw cyhoeddi gweithiau awduron ereill, a gwnaf hynny yn ol yr ychydig amser a fedraf gael i mi fy hun. Ond nid wyf, ar hyn o bryd o leiaf, mewn ysbryd i anturio golygu a chyhoeddi cyfrol fawr. Gwell gennyf gyhoeddi cyfrolau llai, yr un blyg a *Gwaith Islwyn*, ond yn llai trwchus; ac os bydd raid rhoddi dwy gyfrol neu dair i ambell awdwr, rhydd hynny gyfle i gael ei waith yn gyflawn.

Ymysg y llyfrau gyhoeddir, o fewn y flwyddyn nesaf hyd y gellir, y mae y rhai canlynol,—

GLASYNYS,—ei waith barddonol.
 GORONWY OWEN,—ei holl waith.
 MORGAN LLWYD o WYNEDD,—*Llyfr y Tri Aderyn, &c.*
 ALUN,—ei holl waith barddonol.
 ROBERT JONES RHOS LAN,—*Drych yr Amseroedd, Lleferydd yr Aeyn, &c.*
 ROBERT AB GWILYM DDU,—*Gardd Eifion, &c.*
 ELIS WYN,—*Gwleddigaethau y Bardd Cwsg.*
 THEOPHILUS EVANS,—*Drych y Prif Oesoedd.*
 TWM O'R NANT,—*Gardd o Gerddi, &c.*

Yr wyf mewn gohebiaeth ynghylch gweithiau Gwilym Hiraethog, Samuel Roberts o Lanbrynmair, Ossian Gwent, ac Eben Fardd; hoffwn fedru cyhoeddi cyfrol o ddetholion o'r rhain, ac o weithiau rhai o'n prif awduron ereill.

Myfi fy hun fydd yn golygu gwaith Glasynys, gyda chymorth caredig Glaslyn ac ereill. Ereill fydd yn golygu y llyfrau ddaw wedyn; arolygu'r cyhoeddi fydd fy ngwaith i. Bydd y cyfrolau yn unplyg, o'r un plyg a'r LLENOR, oll yn swllt o bris, ac yn ddarluniedig pan y bydd hynny'n angenrheidiol. Yr wyf yn meddwl y bydd y gyfres y rataf gynygiwyd i Gymru eto,—wedi ei hargraffu a'i darlunio'n gelfydd a phrydferth. Oddigerth llyfrau yr hanner canrif diweddaf, bydd pob llyfr lythyren am lythyren fel y gwreiddiol; ond bydd esboniadau pan fydd hynny yn angenrheidiol.

Y mae y rhestr uchod yn anghyflawn, ac feallai y newidir peth arni. Nid wyf yn gwybod eto pa lyfrau gyhoedda Urdd y Gŵyr Gradd. Ni fyynnwn er unpeth groesi eu cynlluniau hwy; a thynnaf enw unrhyw lyfr fwriadant hwy gyhoeddi o'm rhestr. Ond y mae'n debyg mai gweithiau llai adnabyddus, megis rhagymadroddion y gwahanol ganrifoedd, a gyhoeddant.

Gwn am gynllun sydd ar droed i gyhoeddi ein beirdd hŷn hefyd, o Ddafydd ab Gwilym i Dudur Aled. Y mae'n resyn nad oes gasgliad o waith Dafydd ab Gwilym; y mae argraffiad y Dr. W. O. Pughe yn cynnwys awdlau na phia Dafydd ab Gwilym mohonynt, ac nid yw'n cynnwys dim tebyg iddynt i gyd. Bydd y rhain yn gyfrolau mwy costus; ond nid oes gennyf hawl i roddi manylion yn awr.

Bydd rhifyn Ionawr o'r LLENOR yn rhifyn o *Waith Glasynys*. Bydd yn cynnwys rhai o ddarnau adnabyddus y bardd melus hwn, ac amryw ddarnau nas gŵyr ond ychydig iawn o hen gyfeillion y bardd am danynt. Bydd y rhifyn, fel arfer, yn cynnwys darluniau.

Bardd y môr a'r mynydd oedd Glasynys, ac ychydig o feirdd sy'n fwy naturiol nag ef wrth ddarlunio golygfeydd natur. Os

na raid ei ddarllen ddwywaith oherwydd dyfnder meddwl neu aneglurdeb arddull, rhaid ei ddarllen lawer gwaith oherwydd y swyn sydd ynddo,—adlais rhaiadr, neu su'r gwynt a'r môr, neu gân lon y bugail. Meddyliai Islwyn mai bardd i'w ddarllen drosodd a throsodd drachefn oedd Glasynys.

Bardd y dylid ail gyhoeddi ei waith ar fyrder yw Dafis Castell Hywel, oherwydd y mae *Telyn Dewi*'n anodd ei chael erbyn hyn, a bron yn fud. Anfonodd y Parch. R. Jenkin Jones, M.A., Aberdâr, y llinellau canlynol i mi; a da gennyf gael cyhoeddi hyn o weddillion bardd melodauidd Castell Hywel. Ymddangosodd y penillion Saesneg o'r rhain y maent yn gyfieithiad yn gyntaf yn y *Morning Chronicle*, o'r lle y copiwyd hwy i'r *Monthly Repository* am Chwef., 1810. Ar gopi y Parch. D. Dafis, o Gastell Hywel, o'r rhifyn hwn, yr hwn a aeth wedi hynny i feddiant y Parch. John Jones (1802-1863), Aberdâr, ceir y cyfieithiad a ganlyn i'r Gymraeg, yn llawysgrifen D. Dafis. Nid yw y penillion yn *Telyn Dewi*.—

FFRINS, PRIOD, A PHLANT.

Os rhown mewn estronied ymddiried am dda,
Ein gobaith gwywedig siomedig ni sa;
Ond cysur mwy ffyddlon o'r galon a gant
Hwy'n daer a hydero ar ffrins, priod, a phlant.

Marsiandwr sy'n rowndio i barthau'r holl fyd,
I gasglu'n trysorau a'u gemau hwy i gyd,
Er lwysaidd per lysiau a chyfoeth, mae'n chwant
Am weled gwell perlau,—ffrins, priod, a phlant.

Dewr forwr wrth farw'n y frwydr ar fôr,
Er gwingo 'nghrafangau yr angau du o'r,
Fwyn gofio cyn symud o'r byd hwn i bant,
Mor llon gynt oedd gartre—ei briod a'i blant.

Ym moreu mwyn meiriol ei febyd gall dyn,
Mewn lechyd a golud fyw'n hyfryd ei hun;
Ond henaint dry'i hunan yn gwynfan i gant,
Heb gael mwyn amgeledd gan briod neu blant.

Castell Hywel, 1810.

D. DAVIES.

Wrth gofio, y mae disgynnydd i Dafis Castell Hywel,—un o leiaf,—yn prysur ennill sylw'r byd llenyddol Seisnig. Y mae Mrs. B. Puddicombe,—a adnabyddir wrth ei henw llenyddol "Allen Raine,"—yn gyfieithydd mor fedrus a'i hynafiad, ond mai o'r Gymraeg i'r Saesneg y cyfieitha hi. Bu cyfieithiad campus o "Alun Mabon" Ceiriog, o'i gwaith, yn *Wales* y flwyddyn hon; ac y mae'n amlwg ei bod o'r un dosbarth a gŵr Llanidloes fel cyfieithydd. Y mae'n farddones dda hefyd. A gwelaf ei bod newydd gyhoeddi gwaith newydd,—*A Welsh Singer*. Ystori am fywyd Cymreig ydyw; a chyhoeddir hi gan y Mri. Hutchinson, 34, Paternoster Row, Llundain.

Onid dymunol fuasai cyfrol o ddetholiadau o Ddewi Wyn? Neu, hwyrach fod rhywun yn ddigon mentrus i gasglu ei holl waith, a'i gyhoeddi, nid ar ddull argraffiad Caernarfon, ond ar ddull argraffiad Caer. O'r argraffiad hwnnw, yr argraffiad cyntaf o *Flodau Arfon*, yn 1842, y codwyd y darlun sy'n wyneb-darlun i'r llyfr hwn.

Myrddin Fardd yw'r awdurdod uchaf ar hanes Dewi Wyn, fel ar hanes beirdd Eifionnydd i gyd. Efe, nid oes reswm dros beidio dweyd, yw awdwr yr ysgrifau helaeth ar Ddewi Wyn fu yn llyfrau'r LLENOR,—ysgrifau sy'n dod i derfyn, ysywaeth, gyda'r llyfr hwn. Gŵyr pawb am drylwyredd, gofal, a medr y llenor diwyd a diymhongar hwn; ac yr wyf fi, fel ereill, wedi cael y fraint o dynnu'n helaeth o'r trysorau y rhoddodd ef ei fywyd a'i enillion i'w casglu.

Yr wyf yn meddwl fod yr ymddiddanion yn cynnwys hanes Dewi Wyn yn gyflawn iawn. Nid hanes o ben i ben am Ddewi Wyn sydd yma, ond hanes o lygad y ffynnon. Enw ffugiol yw Amaethon ar gymydog i Ddewi Wyn, ac o'i enau ef y cafwyd pob peth a briodolir iddo. Bu'r awdwr gyda Lewis Thomas, hwsmon Dewi Wyn, yn cael yr hanes am dano a geir yn yr ymgomiau.

Nid oes odid i fardd mor anodd rhoi ei le iddo, a boddio pawb, yn rhestr beirdd Cymru. Ond dyma ni fel cenhedlaeth wedi gwneyd ein dyledswydd tuag ato trwy gadw pob sill o'i waith a phob ffaith wybyddus inni. Rhwng y bardd newydd, a'r critig newydd, ag ef. Byw ar ddiwedd canrif yr ydym ni, drusain, a'n gwaith yw casglu briwsion i'r genhedlaeth sy'n dod. Pa rai o'n meini ddefnyddiant yn eu hadeiladau nis gwyddom,—ond dyma hwy iddynt.

Y mae cyfnod ar fywyd bachgen pan y mae'n gas gan bron bawb ef. Daw'r adeg honno rhwng diniweidrwydd ei blentyn-dod a dechreu profiad bywyd. Yr adeg honno y mae yn barod i gondemnio pob peth, ac nid oes odid i ddim wrth ei fodd ond efe ei hun. Y mae adeg felly ar fardd newydd hefyd. Medr ddweyd beth sydd i'w gondemnio, a beth sydd "anfarwol," heb ond prin edrych ar waith yr awdwr y bydd yn ei anrhydeddau a'i sylw. Ni chymer drafferth, prin yr egyr ei lygaid yn llydan gan fursendod, ond sieryd ddigon i fyddaru byd,—fel rheol i ladd ar bobl ereill rhagor ef ei hyn. Pe cawn y fraint o olygu *Almanac Caergybi* am 1901, proffwydwn y byddai'r bodau hyn mor aml a morgrug ar ddechreu'r ganrif newydd. Prin y mae'n werth rhoi pethau ar gof a chadw er eu mwyn hwy; ond y mae cenhedlaeth gryfach yn dod pob amser ar eu holau, a gallwn fod yn sicr y ca'r ganrif hon ei haeddiant gan y genhedlaeth honno. A'n dyledswydd ni yw cadw; nid ydym yn sicr eto pa beth y

bydd yn rhaid i ysbryd yr oes newydd wrtho er mwyn i lenydd-iaeth Cymru ymburo ac ymgadarnhau gyda thwf canrif arall.

Y mae'n debyg mai Eben Fardd oedd y beirniad llenyddol tecaf a mwyaf ymroddgar welodd Cymru yn y ganrif hon. Gwyn fyd na cheisiai beirniaid diofal a ffwdanus ein heistedd-fodau a'n cyfarfodydd llenyddol yn y dyddiau hyn ymdebygu iddo. Rhydd *Cymru*,—rhifyn Medi,—bapur nodweddiadol iawn o Eben Fardd, a ysgrifennodd yn 1855, ar feirniadaeth. Yn y papur hwnnw dadleua, ac efe ei hun y manylaf o'r beirniaid, dros diriondeb wrth feirniadu. Dengys mai arwain yr ymroddgar ymlaen, ac nid chwilio am berffeithrwydd, yw gwaith y beirniaid. Trugarhaer, ebe ef, wrth feirniadu traethodau a chaneuon a anfonir tan len i'r cyfarfod llenyddol; ond nac arbeded y wasg.

Yn adeg Eben Fardd yr oedd y wasg yn beth gwahanol i'r hyn yw heddyw. Yr adeg honno yr oedd cyhoeddi yn beth llawer anhawddach nag yw'n awr; a chyhoeddi pob peth at ei gadw. Ond yn awr, pan y mae cyhoeddi popeth mor hawdd ac mor rhad, nid yw'n gofyn fawr fwy o gred mewn hunan i gyhoeddi nag i ysgrifennu ar bapur. A phan ysgrifennu rhywun i'r wasg, nid oherwydd ei fod yn credu fod y peth ysgrifennu yn anfarwol y gwna, ond oherwydd ei awydd i roddi gwybodaeth neu bleser i'w gyd-ddynion. Pwy sy'n cadw papurau newyddion afrifed y dydd, i hel llwch ac i fod ar ffordd? Onid cyfeillion hanner awr yn unig ydynt, i ymadael am byth mwy? A phe cedwid hwy, y mae'r papur a'r inc ddefnyddir yn awr yn sicrhau na fydd dim darllenadwy ohonynt ymhen rhyw gan mlynedd. Gall llawer bardd a llawer cynghorwr fod yn berffaith dawel,—daw adeg y bydd yn hollol rydd oddiwrth bob perygl ei feirniadu.

Gan hynny, nid safon perffeithrwydd ddylid roddi i gynhyrchion y wasg ychwaith. Ni fyddaf yn hoffi gwaith ambell un yn dweyd i sicrwydd beth fydd byw mewn oesoedd i ddod,—mi gredaf fod yr oesoedd sydd i ddod yn cadw eu cyfrinach am beth fydd wrth eu bodd. Ond llawer hoffach yw dweyd hynny na fflangellu a difrio awdwr am ei fod wedi meiddio, ar ei gost ei hun, gwneyd cymwynas i'w bobl. Hoffwn weled pob beirniad yn efrynu cynghorion Eben Fardd; hoffwn weled beirniaid y wasg yn gwneyd yr un peth, ac yn cymeryd iddynt eu hunain gynghorion beirniad gofalus a chraff Clynog i feirniaid cyfarfodydd llenyddol.

Arwydd oreu ein beirniadaeth yw ei hynawsedd. Ymgyrhaeddwn eto at fanyldeb a chydwybodolrwydd. Gall beirniadaeth anonest wneyd drwg anrhaethol,—gall wneyd i werin hoff o ddarllen golli ei hymddiried yn ei harweinwyr llenyddol.

HUN."



haul,—tu ce'n f'r wawr,
HUN."

...eth gun,
...IDDO'I HUN!"
...ri,
...airdd glân?
...yn
...yw
...rem—
...yn!

Vertical text on the left margin, including a small decorative symbol.

Ond ni ddiffygiodd. Dringodd gyda nerth
 A chwyddai'n fwy bob cam o'r rhiwiau certh.
 A chredodd ateb gyda'r geiriau hyn,
 Pan dorrrwyd ar ddistawrwydd pur y bryn
 Gan holiad sydyn. Er nas gallai ef
 Eu deall, fe'u siaradodd dros y Nef—
 A'u deall gafodd wedyn. Ac mae'r byd
 Yn deall mwy o honynt hwy o hyd.

O, Ffydd, ardderchog ffydd, mae hi yn byw
 Tu hwnt i'r llen, gerllaw gorseddfainc Duw ;
 Cynefin ydyw â'i feddyliau Ef,
 Ac edwyn Ef yn well na neb drwy'r nef
 Ond Ef ei hunan. Ffydd, bererin blin,
 Ddywedodd,—“ Duw a edrych iddo'i hun.”

Ti glywaist ganwaith am weithredoedd ffydd,
 Ac fel bu'n diodde'n ddistaw lawer dydd,—
 Fel torrodd fwch drwy fôr ac afon ddofn ;
 Fel safodd wrth ystanciau yn ddi-ofn,—
 Tyrd, gwrando ffydd yn siarad. Sicrwydd sydd
 Yn llanw'i hymadroddion, fel mae'r dydd
 Yn llanw'r Ddinas Nefol ; ni cha nos
 Ambeuaeth fyth lychwino'i brawddeg dlos,
 Na thafu cysgod arni,—dichon bydd
 Dy enaid weithiau'n methu tremio'n rhydd,
 Drwy'i niwl a'i ddagrau, i'r disgleirdeb byw,
 Yn ofni mai tywyllwch aruthr yw.
 Ond nid tywyllwch ydyw brawddeg ffydd,—
 Cred fwy, a dring yn uwch, a daw y dydd
 A geisi drwyddi ar dy ruddiau'n rhydd.

A chlyw atebiad ffydd ; mor syml, mor lawn,
 Mewn brawddeg fyrred fath gyflawnder gawn—
 Cyflawnder mawr a sanctaidd, nad oes le
 I holiad arall yn ei wyneb E.
 Pan gyfyd ffydd i ateb, daw y fron
 Afonydd yn dawelwch, fel y don
 Ar fôr Tiberias, pan lefarodd Ef
 Y “gosteg” hwnnw'ng nglust y ddrycin gref.

Mae môr o ddydd,—mae'r haul,—tu cefn i'r wawr,
 A Duw tu cefn i ffydd a'i brawddeg, mawr
 Yw ei hawdurdod ; a phau sieryd hi
 Rhyfedda'n doethion dygedicaf ni—
 Rhyfeddant i ddistawrwydd yn ddioced,
 Fel doethion hen Caersalem gynt
 Yng ngwydd y deuddeg oed !
 Nis gallodd Isaac ieuanc holi mwy
 Ar bwnc yr Oen, ac ni ddylasai, clwy
 I'r digelwyddog yw ail-holi ffydd
 Yn ateb ; nid yw'n cellwair fyth, ni rydd
 Atebiad amwys chwaith—mae'i gwefus hi
 Yn goch gan burdeb. Beth yw'th Reswm di ?
 Hen gyfelliornwr safndrwm a thrabhaus,
 Yn edrych i'r pellterau yn sarhaus,
 Yn amheu'r Anweledig yn barhaus.
 Mor syfrdan ei “gasgliadau,”—leied ŵyr !
 Dos gydag ef i holi'r byd yn llwyr,—
 Y llanw pererinol—chwa yr hwyr

A'i awel fore,—hwythau ser y nos
 A'r lloer fyfyrger,—hwythau'r wawrddydd dlos
 A'r haul brenhinol—hola'r oll yng nghyd ;
 A dos yn araf drwy golegau'r byd
 I holi ac i chwilio. Oni fydd
 Dy glust yn blino'n fuan iawn ar yr atebion rydd,—
 A'th galon yn hiraethu'n llesg am bêr-afalau ffydd,—
 Y dwyf-atebion gasgla hi yng nghyfoeth Gwlad y Dydd ?

II.

"Duw a edrych iddo'i hun." Pa beth fydd canlyniadau hynny ?
 Beth yw Duw, a pheth mae " edrych iddo'i hun " yn ei awgrymu ?
 Pryd y trydd Efe i " edrych," pryd y trydd y Duw tragwyddol
 Fel i chwilio'i hunan allan ?—rhaid bydd hwnnw'n ddwthwn ingol !

Trown i ddarllen Ei hanesiaeth,—ysgrifennodd rai penodau,
 Ac mae'r Cymro uniaith heddyw'n medru adrodd rhai adnodau.

Dyma adnod creadigaeth. Beth mae hon yn ddweyd am dano ?
 Dweyd nad ydoedd creu y cyfan iddo Ef ond ewyllisio.
 Cysgod egwan o'i ewyllys hollalluog ydyw'r cyfan ;
 Yn y cread, nid yw'r Duwdod yn Ei orau'n dyfod allan.
 Nid yw'r bydoedd dirifedi ddim ond briwsion ysgwydedig
 Ar ymylau moroedd dyfnion Ei adnoddau cysegredig ;
 Er fod murmur Ei hyawdledd yn cyfodi drwy'r planedau,
 A'i ddoethineb yn disgleirio yn nghanbeidrwydd y comedau,
 Hawdd oedd iddo greu y cyfan,—hawdd yw iddo'u cynnal hefyd,—
 Nid yw'r hawdd yn dweyd beth ydyw yn nyfnderau cudd Ei fywyd.

Hollalluog ydyw'r Arglwydd,—dyna adnod creadigaeth,
 Ond nid dyna'r adnod orau ym mhenodau'i hanesyddiaeth,—
 Mae gogoniant mwy ofnadwy eto'n aros yn guddiedig,—
 Geill Ei " Fydded " greu ychwaneg heb orffwyo yn lluddedig.
 Nid yw'r enaid foddolawn yma, er mor loew'r weledigaeth,—
 Mae rhyw ystyr fwy i'r " edrych iddo'i hun " na chreadigaeth.

Beth yw geirian'r adnod nesaf ? Hanes Duw yn rhoddi deddfau,—
 Deddf i'r môr, i'r haul, a'r lleuad, a thragwyddol ddeddf i ninnau.
 Beth yw'r deddfau hynny ? Sanctaidd ! sanctaidd ydyw Ef ei hunan,
 Nis gallasai Duw fodoli pe'n ei natur fymryn aflan.

Mae fy nghalon wan yn crynnu—i ba le y trof fy wyneb ?
 Duw sy gadarn hollalluog, a deddfroddwr llawn o burdeb,—
 Dyma fawredd rhy ofnadwy i fy enaid edrych arno ;
 Llefaf allan cyn fy marw,—a oes adnod arall eto ?
 Os nad ydyw Duw'n ddim arall, O, nis gallaf aros funud
 Yn Ei gwmni, trydd pob " edrych iddo'i hun " yn wae diasyfyd
 Ar fy mywyd crwydrol, aflan ; O, am adnod arall eto,—
 Adnod sieryd am ryw ddyfnder na i yw'r lleill yn son am dano.

Oes, mae llawer adnod arall, Dyma un, fy enaid gwyw,
 Un felusach na'r pêr-ddiliau, gwranddo hon,— " Duw,—cariad yw."

Cyn i'th galon ddechreu wylo, fel amddifad ganol nos,
 Cyn i'th enaid ocheneidio wrth adgofio Eden dlos,
 Cyn i amser ddechreu siarad am ei gyfoeth dirfawr Ef,
 Cyn i angel ddechreu canu dan Ei wenau'n more'r nef,
 Ei feddyliau cysegredig lanwent dragwyddoldeb byw
 Gyda seiniau dyrchafedig salmau pêr,— " Duw,—cariad yw."
 Onid allaf finnuau ganu, er nad wyf ond gwael fy llun ?
 Gallaf, canaf â'm holl galon,— " Duw a edrych iddo'i hun !"

Ond pa hawl sy gan bechadur fel myfi i seinio cân,—
 Nid yw'm dwylaw, nid yw'm telyn, nid yw'm calon eto'n lân.
 Oni sieryd fy nghydwibod waeau beunydd yn fy nghlyw?
 Oni ddywed nad oes gennyf unrhyw hawl i gariad Duw?
 Ddaeth cyflawnder Duw yn gariad? Gollodd Ei gyflawnder glân
 Ei fodolaeth yn Ei gariad,—beidiodd llosgfa'r Ysol Dân?
 Na; mae'r Cyflawn eto'n gyflawn,—digyfnawid ydyw Ef,—
 Nid oes modd i'r euog, aflan, ganu ar delynau'r nef.

A! mae eisiau adnod eto cyn bydd "hanes" Duw yn llawn;
 Gwranddo arno'n dweyd Ei hunan,—“Tyred, mi a gefais Iawn.”

Iawn dros bechod un mor aflan! Ple y cafwyd Iawn mor fawr,—
 Nid ar fryniau dirifedi, nid yn holl gorlannau'r llawr;
 Rhaid i'm wybod ple y cafwyd Iawn dros holl bechodau dyn,—
 O ble daeth? Clyw'r ateb melus,—“Duw edrychodd iddo'i hun.”

Os yw'r mynydd acw'n eiddo i bendefig uchel dras,
 Medraf fi, bererin distadl, edrych arno'n codi i'r glas,
 Medraf yfed ei awelon a'i aberoedd arian, pêr,
 Medraf edrych heibio'i glogwyn ar dangnefedd ymdaith ser;
 Ond ni fedrai'r un Philistiaid edrych tua'r cysegr gynt,
 Neb ond Israel oedd i yfed peraroglau'r dwyfol wynt.

Neb ond meibion yr Hebreaid fedrent edrych tua'r Nef
 Pan y byddai'r tân yn difa ei boeth-offrwm sancteidd Ef;
 Ac ni fedrent hwythau edrych fyny gyda llygaid glân,—
 Eu hadgoffa o'u pechodau wnai yr offrwm losgai'r tân.

Ond chwalwyd muriau'r gwersyll, a llen y cysegr mawr
 A rwygwyd oddifyny'n ddwy “ynghylich y nawied awr.”
 A thrwy yr Oen dihalog mae pawb yn syllu'ng nghyd
 Ar Dduw yn “edrych iddo'i hun” am ffordd i gadw'r byd.

Mewn fath gyfwng yr edrychodd,—cyfwng llawn tywyllwch erch,
 Nad oedd bore iddo'n unman ond ym mynwes dwyfol serch.
 Am dywyllwch mor ofnadwy ni freuddwydiodd haul erioed,
 Troai'r nosau dua'n welwon pan ganfyddent ol ei droed.
 Pechod, pechod! O, dywyllwch,—todd furfafen dynol ryw,
 Cauodd arnom fel nas gallem ffoi i unman a chael byw;
 Eisteddasom yn ei gaddug, ac ni feiddiem godi cri
 Rhag i'r bryniau ogylich ruthro mewn digllonedd arnom ni.
 Troes afonydd a chefnoroedd i adseinio dolef barn,
 A dirgrynnai'r ddaear danom bron ymddryllio'n chwilfriw sarn.
 A chyfododd llys Cyflawnder yn ein herbyn chwervw gri,—
 Gan y llys diwyrni hwnnw yn dragwyddol collwyd ni.
 A diagynnodd mellt eiriaswyn i oleuo'r gwagle mawr,
 Fel na fethai'r cledd dau-finiog pan ddynesai'r ingol awr.
 Daeth yr awr i daro'r ergyd, daeth eiliadau olaf dyn,
 Ond ar drothwy'r dinistr uthrol,—“Duw edrychodd iddo'i hun.”

A'r fath weithred a ddilynodd,—gweithred bennaf “hanes” Duw,—
 Onid ydyw yn “Ei orau” ynddi hi, fy awen wyw?
 Os dywedi mai difyrwch dwyfol ydyw'r cread maith,
 Nad yw gwenu dydd tragwyddol iddo Ef i'w alw'n waith,
 Onid ydyw gyda'r weithred yma yn “Ei orau” glân,—
 Dyma weithred y gweithredoedd, rhoi Ei unig Oen i'r tân.
 Oni chafodd Ef ei hunan yn y weithred ingol glwy?
 Mi ofynnaf ar fy ngliniau a allasai Duw wneyd mwy?
 Onid ydyw Ef ei hunan,—Ef ei hunan mawr yn hon,—
 Dyma'r Oen, a dyma'r Duwdod—Ef ei hunan ger ein bron.
 Ie, oddiallan inni, ynddo Ef mae'n hiachawdwriaeth,
 Nid oes ynnom ni ein hunain ond tywyllwch a marwolaeth.

Dacw long yng ngwaeau'r drycin,—clywaf waeddi'r morwyr dewrion,—
 Gwelaf donnau'r eigion chwerw'n llofo drosti'n ewyn creulon.
 Dacw daflu'r dodrefn drosodd—ond mae'r drycin yn cynhyddu.
 Dacw'r gwenith drosodd eto—pryd mae'r corwynt am lonyddu?
 Dacw raffau'r cwch yn torri—dyna waeddi'r morwyr eto,
 Dacw'r hwylybren ar y tonnau—a'r ystlysau yn ymrwygo!
 Ond mi welaf yng ngoleuni'r mellit fywydfad cryf yn brysiol
 Atynt i'r alanas marwol; gwelaf hwy'n ddiogel ynddo!
 Felly ninnau, ofer inni edrych i'n calonnau tywyll;
 Nid yw'n "dodrefn" drud na'n "gwenith" pura'n ddim mewn drycin
 Ofer inni gelsio dianc, mae'r dinistrydd yn y galon, [erchyll
 Trown i'w hedrych—dyna uffern yn ymdonni'n ferw digllon.
 Dyma siad seirif yn chwarae gyda brigau'r flammau ysol,
 Dyma fintai o feddylliau aflan yn llofruddio'r nefol,
 Dyma hollt i'r môr o bechod lifo i'n heneidiau meirwon;
 A! nis gallwn ddim ond suddo—suddo i'r dyfnderau geirwon.
 Trown i edrych i Galfaria drwy'r tywyllwch llethol, mawr—
 Dyma adsw'n "Gorffennwyd" yn tramwyo creigiau'r llawr;
 Dyma'r bore'n dechreu gwawrio ar fy llygaid lleithion bliu,—
 Medraf ganu'n awr wrth gofio "Duw a edrych iddo'i hun."

Fel mae popeth yn cyfnewid—oeddwn gynneu'n ddychryn byw,
 Weithian canaf ar fy ngliniau dan y ser, "Duw, cariad yw."
 Nid oedd gennyf chwaeth na thelyn i roi iddo unrhyw glod,
 A chyfrifwn Ef yn elyn—foi oddiwrtho oedd fy nêd:
 Weithian canaf fel y wendon ar y draethell nos a dydd,
 Mae fy nhalon wedi'i gollwng o'i phryderon chwerw'n rhydd;
 Gwelais "gariad fel y moroedd" at anheilwng, aflan ddyn,
 A deallais ystyr dyner "Duw a edrych iddo'i hun."

Nid yagubo'r nos i'r gwagle ydyw unig waith y dydd,—
 I egluro'r haul trylachar dros y ddaear rhodia'n rhydd;
 Nid dros bechod dyn yn unig y bu farw'r dwyfol Oen,—
 Nid datguddio haeddiant pechod ydoedd unig waith Ei boen;
 Dyma'r Oen sydd yn datguddio calon eang Duw i ddyn,
 Am ddatguddydd o'i gymeriad, "Duw edrychodd iddo'i hun."
 Dlysed ydyw'r galon honno na ddatguddir ond gan Oen,
 Ac mor dyner,—rhaid fod pechod byd i honno'n chwerw boen.
 Oen sydd iddi yn ddatguddydd rhwng mieri'r ddaear; ddyn,—
 Trwsia'r delyn, tyrd i foli'r "Duw a edrych iddo'i hun."

O, fy Nuw, mor hir y ciliais oddiwrtho gydag ofn,
 Mor egniol yr ymblliais am ymguddfa dywell, ddofn,
 Rhag Ei sanctaidd bresenoldeb ganwaith ar grwydriadau blin,—
 Arswyd ydoedd Ei ddwyfoldeb i fy nghalon aflan, grin.
 Ac ni allwn fyth glustfeinio ar y gair, "Duw, cariad yw;"
 Drwy fy hanfod byddai'n seinio megis udgorn dirmyg byw,
 Hyd nes gwelais waed Ei Oen yn lifo—lifo mewn cyflawnder,—
 Hyd nes gwelais ymgoffeidiad Ei drugaredd a'i gyflawnder.
 Pe buasai Ef yn estyn llaw cadernid i'm cyfodi
 I drigfannau'r Gwynfyd sanctaidd, nis gallaswn Ei glodfori.
 Os heb "waed" i olchi 'meiau rhag edrychiad llym Ei burdeb,
 Ciliwn rhagddo yn wylofus, fflawn i rywle rhag Ei wyneb.
 Yn yr Oen mae Ef i'w adwaen; yn yr Oen mae'n nefoedd innau,
 Ar yr Oen mae Duw a dynion yn cydroddi eu coronau.

Dyma'r Oen dros Dduw s'yn eiriol
 Rhwng mieri'r ddaear wyw;
 Dyma'r Oen dros ddyn sy'n eiriol
 Wrth orseddfainc sanctaidd Duw.

Yng nghorlannau aur Paradwys,
 Yn niffaethwch byd y poen,
 Ar y ddaear, yn y nefoedd,
 Dyma'r unig, unig OEN.

III.


O, wlad fy nhadau, gwrando ar seiniau'r delyn wyw,—
 Paid colli golwg ar yr Oen, a phaid a gwadu Duw ;
 Ti fuost ffyddlon, ffyddlon ar lawer cyfwng prudd,
 Ai anffyddloni fynni'n awr a'r wawr ar ros dy rudd ?
 Mae'r oes yn crwydro'n wamal tros lawer bryn a phant,
 Ond cofia di mai llwybrau'r Oen a roddant fri i'th blant.
 Na chais arweinydd arall, dos gyda'r Oen, fy ngwlad,
 A'r " Duw a edrych iddo'i hun " a fydd yn Dduw dy hâd.
 Ar lwybrau'r Oen mae rhinwedd fel blodan'r nef yn byw ;
 Ar lwybrau'r Oen mae'r byd yn gweld gogoniant dyn a Duw.
 Dos gyda'r Oen, fy mamwlad, yn dyner nos a dydd,
 O'i lygaid Ef daw'r wawrddydd wen ar fryniau Cymru fydd.
 Os ydyw enwau seintiau ar lawer llan a thref,
 Dos heibio'r oll, heb sylwi fawr, i edrych arno Ef,—
 Am Hwn, am Hwn, fy mamwlad, er mwyn dy " godi " 'n ol,
 Bu " Duw yn edrych iddo'i hun," na chrwydra eto'n ffol.

Clyw dithau, blentyn trallod, fy nghanig egwan i,—
 Mae profiad blwyddi hirion iawn yn felus ynddi hi ;
 Gwyn fyd pe gallwn ganu yn well fy nhelyn bêr,
 Ei chanu gyda'r fore wawr, a'i chanu gyda'r ser,—
 Mi gefais lawer gofid er bore marw 'nhad,
 A gwelais lawer cyfaill gau yn trwsio rhwydi brad ;
 A chollais lawer seren er noson marw mam,
 A gwelais bigion teulu'r fro yn gwawdio 'nghur a 'nghan ;
 Ond, wele, byw wyf eto, a'm telyn yn fy llaw,
 A'm llygaid llwyd yn tremio'n llon i gyfoeth byd a ddaw,
 A'm halaw yn melysu, er gwaethaf gwg a gwawd,
 Mae'r " Duw a edrych iddo'i hun " yn Dad amddifad tlawd.

Ni ddaethum i hyd yma drwy'r anial hebddo Ef ;
 Pwy ydwyf fi i ddod ymlaen heb Ei ddeheulaw gref ?
 Pwy sychodd foroedd dyfnion, pwy laddodd alon fyrdd,
 Pwy wnaeth y llwybrau creigiog, blin, i mi fel dolydd gwyrdd ?
 Pwy roddodd imi'r manna, a'r dŵr grisialaidd, byw ?
 " Y Duw a edrych iddo'i hun " ym mhlaid amddifad gwyw.

" Dos rhagot," ebai wrthyf,—paham yr holaf mwy ?
 Os yw blinderau'r daith yn fawr, mae Ef yn drech na hwy ;
 Ei awgrym hollalluog a egyr bob rhyw byrth,
 Efe yw Tad y mellt a'r gwllith, y corwynt cryf a'i wyrth.
 Os yw yr afon olaf yn afon chwerw, gref,
 Drwy'i ras, fe'i croesir hi gan fyrdd, dan ganu iddo Ef.
 Yng ngrym yr afon honno mae " cilfach glyd a glân,"
 A " Duw a edrych iddo'i hun " ym mhlaid amddifad gwan."


J. R. TRYFANWY.



pedd na'r wawrddydd
coed y glyn."

urddydd

ddydd



s,

BEN DAVIES.

NID YW Y WAWR YMHELL.

O ENAID aros ! nid yw'r wawr ymhell ;
Mae gan y nef i ti olygfa well .
A phrofiad uwch. Ai brwydro yn y nos
Yw'th ran, os dros y gwir cwyd seren dlos
I gyfarwyddo'th law,
I wenu ar dy arfau ?
Ymbortha byth ar waith, gwel obaith draw
Yn ysgrifennu rhyddid ar y bryniau ;
Cyn hir mwynhei y wawr, anwylaf wawr !
Diflanna tawch oddiar dy enaid mawr,—
Rhy fawr i aros mewn tywyllwch byth ;
Y gw lith sy'n awr yn eistedd ar dy blygion
Cauedig dry yn awyr i deleidion
Dy hanfod chwareu ynddi yn y man,
Agori dithau tua'th fro—dy nef ddi-lan,
Gan adael nos ac anwybodaeth hen
I ymgodymu yng ngoleuni'th wên.

A yw y byd yn wag o Dduw am nad yw'n ddydd ?
A gredi nad oes haul am fod yr haul yn gudd ?
Yn nwf n unigedd y cysgodau hyn
Sy'n cuddio'th nerth, ymdeimla am y Bryn
A ddaw a gwawr i'th olwg,
A wna wirionedd glân yn amlwg.
Mor fawr wyt ti ! Mor fawr rhaid fod dy haul
I ymlid nos mor ddu oddiar dy ddail,
Oddiar dy flodau. " Hyd nes gwawrio dydd,"
I ddadrys dy gadwynau tawch yn rhydd,
A'th gadwant rhag it 'hedeg i'th frodorol le,
Disgybla dy adenydd at wybiennau'r ne,
Cerdd draw i eithaf traethell ddu y nos,
Agosach fyddi i draethell gwynfa dlos :
Mewn ser-lyth'rennau ar y d'wyllaf awr
Ti weli Achor Duw. Nid yw y wawr
Ymhell ; mi wn oddiwrth fy nhelyn ;
Mae miwsig per ei dylanwadau
Yn gyrru cyffro drwy ei thannau,
Pan ddaw mi ganaf wedyn.

GWAITH MOZART.

Hyd oni wawrio y dydd, a chillo o'r cysgodau.
Cân y Caniadau.

Cwsg, Cwsg,
Hyd nes y gwawrio'r dydd
A'i lewyrch gwyn,
A chillo o'r cysgodau prudd
"Sy'n toi y glyn;"
Haul y cyflawnder gyfyd yn y man.
A'i fywiol wawl ddyg fywyd i dy ran.

POWYSON.

BU raid i Fozart droi yn ol o Baris, a gadael ei fam mewn bedd rhy bell i'w hanwyl rai "ymweld â'r sanctaidd fan," troi yn ol adref i weled ei lle ar yr aelwyd yn wag, a gwybod i sicrwydd mai gwag fyddai byth mwy.

Er dued y wybr gan gymylau o alar a siom erbyn hyn, yr oedd llecyn gwyn oleu yn ei adgof am Mannheim, ac yno tywynnai ei seren,—

"Y seren fwyn siriol fu'n swyno ei fryd."

Yn y fro hyfryd honno, tybiai y cai gyfeillion i'w gysuro yn ei drallod, a chydymdeimlad un, beth bynnag am ragor, o deulu Weber yn ei ofid; a throes yno am lygedyn o wawl ar ei ffordd tua thre. Gwenai pawb arno cyn fwyned ag erioed ond y seren—un o'r ser disperod ydoedd hi, yn gwenu weithian mewn rhan arall o'r ffurfafen. Ni wybu Mozart ddim am hyn, nes myned yn llawn o aidd ei gariad cyntaf i weled ei anwylyd ar ol yr hir ysgar, a chael mai prin y medrai hi ei ddwyn ar gof. Canfu yntau ar wib mellten, mai piniwn pen oedd y cyfan, ac er llymed ei loes, aeth ar ei union at y berdoneg a chanodd gân duchan Ellmynig i'r perwyl,—

'Rwy'n foddlon i adael y fun
Sy'n pallu fy ngharu i mwy

O gywilydd ceisiodd Aloysia esbonio'i dallineb, a dyma y rheswm grymus a roddes,—ei fod wedi ymddieithrio drwy alarwisgo yn ol ffasiwn Ffrainc, sef gyda botymau du ar hugan goch. "O nefol serch, anfarwol serch." Ond er hawsod tarfu cariad rhian orwyl fel hyhi, nid botymau du ar hugan goch oedd y bwgan, pa mor erchyll bynnag yr olwg arnynt. Y gwir noeth lymun ydyw, mai Sian lygad y geiniog ydoedd Frau

Weber, ac mai caru yn ol mympwy ei mam wnai hithau. Gwyddai Frau Weber, drwy lythyrâu Mozart, mai methiant fu siwrne Paris, gwyddai drwy brofiad mai gŵr anhylaw i drin y byd ydoedd, a breuddwydiai bellach, fel gwrach yn ol ei hewyllys, mai gwael oedd ei siawns am ddyfodol eirian. Ac efe'n breuddwydio, yn hŷn ac yn effro, am wynfyd ym Mannheim, daeth aithor o'r enw Lange heibio yno, yn llawn asbri ei lwydd ar y llwyfan yn personoli ereill mewn helbul, gwelodd gariad-ferch Mozart, a sylodd arni â llygaid serch. "A," ebe'r fam awchus, "wele iddi gyfle ysblenydd;" a throed y cerddor anfarwol ymaith i wneyd lle i aithor bri munud awr. A dyna pam nad adwaenai'r fun ei chariad-lanc coch ei hogan, du ei fotwm. Ond mwy y syndod, ddarfod i Fozart, ar ol y cyfan, droi'n galedfaen na fennai dim arno, yn nwyllaw ei dad, a'i carai'n fwy na'i enaid ei hun, ac yn gŵyr tawdd yn nwyllaw Frau Weber, a'i gwerthasai eisys am saig o fwyd. Ond wiw rhagflaenu.

Mor atgas i Fozart y syniad o gartrefu yn Salzburg dan aden y gŵr traws, fel y ceisiodd am swydd yn llys Etholydd Bavaria, ond ofer fu'r cais. Clybu'r dwthwn hwn i'w gyfeillion gael gan yr Archesgob ei ail gymeryd i'w wasanaeth, bellach fel organydd a meistr y cyngherddau; ond ni fynnai efe brysuro o Fannheim a gadael ar ol gwmni llon meibion yr awen, am hualau'r castell a thraha ei berchen. Llidiodd y gŵr llên yn aruthr ei weled mor ddibris o'i nawdd; a sorrodd ei dad wrtho, am hofran fel pryf y ganwyll o amgylch ogylech fflam a ddeifiai ei adenydd yn hwyr neu'n hwyrach; yn wir, priodolai aflwyddiant yr ymdaith i Baris i ffolineb ei fab yn gwag symera, ac yn ynfydu o serch ym Mannheim. Felly, er dwys dysterwch y croesaw adref ar ol y rhwyg na chyfunid mhono byth, buan y gwybu Mozart nad oedd iddo ddinas barhaus ym mro ei febyd. Ni ddysgasai ddoethineb yr Arab o "gusanu'r llaw na feiddiai frathu," a gwingo fu yn erbyn y symbylau tra'n dwyn iau yr Archesgob ynddi. Heblaw hyn, nid oedd yno swyn iddo mwy. Mor salw oedd ei gwedd i ddinasoedd gwych dyffryn y Rhein a Pharis, a thyloted ydoedd o wŷr o fri wrth eu haneirif rai enwog hwy, ac am fwyn gymdeithas,—wel, nid oedd teulu Weber yno. Dim i'w wneyd ond ymheulo goreu gallai yng ngwenau ei dad—dipyn yn oer erbyn hyn—ei chwaer Nannerl, hithau a'i bryd ar godi aden i ehedeg draw i nythu, a'i gydwas yn y llys, Michael Haydn, brawd ieuangaf cyfansoddwr y "Cread," a cherddor o allu mawr; ac ymroi ati o ddirif calon i gyfansoddi.

Perthyn i'r cyfnod hwn o'i hanes y mae ei fwsig i'r ddrama arwrol, "Thamos, Teyrn yr Aift." Nid oes fawr o deilyngdod

llynyddol yn hon, ac egwan iawn yw'r wê hanesyddol ynddi, am na wyddid y dyddiau hynny ddim am yr Aifft y tu allan i'r Ysgrythyr, ond trwy goel chwedlau Groeg a Rhufain, a damcanion, ynfyd yn aml, ysgolheigion am ystyr yr ysgrifau darluniol. Er hyn, neu wyrach, oherwydd hyn, enynnai'r Aifft fryd beirdd y cyfandir, a chawn Schiller yn canu cân arddunol ar ddelw wedd gudd Isis yn Sais, dan yr hon yr oedd yn ysgrifenedig,—“Ydwyf yr hyn a fu, yr hyn sydd, a'r hyn a fydd, a llen fy ngwyneb ni chododd neb erioed,”—ysgrif, gyda llaw, a ddodai Beethoven ar y ford o'i flaen bob amser pan yn cyfansoddi. Er mai delw Neith, ac nid Isis, oedd â llen ar ei gwedd yn Sais, yn arwydd o'r dirgelwch sydd yn toi bywyd, gwna awen Schiller inni anghofio'r gwall. Ond nid pob bardd, a ganodd ar hanes neu lèn yr Aifft, fedd ei allu ef, fel y dengys y ddrama dan sylw, a'r opera “Zauberflöte” y cawn son am dani eto. Salw yw'r ddrama, ond ardderchog yw yr adran gerddorol, a rhestrir cydganau ysblenydd offeiriaid Teml yr Haul efo gweithiau rhagoraf Mozart. A dyma i ti, ddarlennydd, ffaith ryfedd, cyhoeddir hwy heddyw gan Novello yn Llundain, nid yn unig yn eu lle priod, fel molawd i Amen Ra, duw y dydd; ond gyda geiriau Lladin yn datgan clod y Duw na fyn dduwiau ereill ger ei fron ef.

Cyn crybwyll dim am ei lafur ynglŷn â chaniadaeth y cysegr, dylid efallai wneyd sylw neu ddau ar y rhan sydd i gân yng ngwasanaeth Eglwys Rhufain, gwasanaeth y dywed Mozart nas dichon Protestant amgyffred ei swyn, na deall yr adgofion a'r cysylltiadau sy'n deffro meddwl pob Catholig crefyddol, ac yn ennyn ei awen. Llawer o le sydd i gân ynddo, eto cyfyng yw rhestr y testynau i'r cerddor ganu arnynt, ar wahan i'r Salmau. Dyna gân Mair a chân Simeon—y “Magnificat” a'r “Nunc Dimittis”—a hen emyn odidog Emrys, y “Te Deum Laudamus,” a'r offeren (*mass*) drefnwyd gan Gregori Fawr yn y chweched ganrif. Nid oes dim yn y rhain i frochi'r gwrth-babydd mwyaf pybyr, os nad ystyria annerch y Mab yng ngredo'r offeren yn gyffes o drawsylweddu'r elfennau, fel a welir yn “Ave Verum.” Ac am y “Te Deum,” oni chlywir megis adlais holl wledydd cred drwy'r canrifoedd yn ymdonni yn ei seiniau mawreddog? Mair addoli a dim angen ydyw'r “Ave Maria,” ac y mae elfen gref o hyn yn Emyn y Grog,* y “Stabat Mater” ysgrifenydd gan fynach hanner gwallgof o'r enw Iacobus de Benedictis yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg, o dosturi â Mair yn gwylio ei Mab “yn anadlu ei enaid allan dros bechodau ei bobl.” Offrwm y byw dros enaid y marw ydyw yr hân-

* Gweler rhyw fath o gyfleithiad o Emyn y Grog yng *Nghymru*, Cyf. IX. tudal. 33.

offeren—y “Requiem Mass”—yn yr hon y cymhlethir rhannau o offeren Gregori, a rhannau o'r “Dies Iræ,”* emyn ofnadwy o gyffrous ar ddydd dicter, a lifodd allan fel ufel eirias o enaid Tommaso de Celano bum canrif yn ol.

Tymor i'w awen nythu fel aderyn y to yn nhy Dduw ydoedd hwn i Fozart. Ni roes y “Stabat Mater” ar gân, am a wn i; na'r “Requiem Mass” nes ydoedd yn tynnu i ddiwedd ei yrfa; ond lliosog dros ben yw ei gathlau duwiol ar y testynau ereill, a deil lliaws o honynt heb edwino hyd heddyw. Dilyn ol y tadau'n ofalus fanwl, fel sy'n weddus i ddisgybl, wnaï Mozart hyd yn hyn, ond yn ei ganiadau cysegredig goreu y cyfnod hwn, gad yr hen lwybrau tramwy a thyr lwybr llydan iddo ei hyn, drwy ddyrus lwyni celf. Nid ffurf er mwyn ffurf mwyach, nac arddull er mwyn arddull, nid ymbil yma mewn canon, a chlodfori draw mewn ehedgan, yn union yn ol defod, gawn ynddynt; ond canu

“Mawl didawl da,
Oes hoenus! a Hosanna.”

Nid ydyw mor hoewlon â Haydn yn byrlymu mawl o fynwes lawn llawenydd, fel aderyn brig y bore; nac mor fawreddog ddwys â Bach yn ei offeren yn B leiaf, sydd fel coedwig eang â su o dragwyddoldeb yn torri ei distawrwydd dwfn; nac mor danbaïd â Beethoven yn gwibio mellt drwy y ffurfafen, ac yn ei rhwygo â tharanau. Ond am gyfuniad dedwydd o hoen a chadernid, nid oes hafal Mozart. Y mae fel mynydd yn ymgodi yn dawel ddianwadal i'r wybr, ac awelon y nef yn chware ar ei ben.

Dyma'r adeg y cyfansoddodd ei offerenau yn F fwyaf a D fwyaf, a'r un uchaf ei bri ym Mhrydain, y ddeuddegfed offeren yn G fwyaf,—haera rhai nad efe a'i pia, er tebyced ydyw i'w weithiau ereill o ran naws ac arddull, ac na wyddys pwy yw y Mozart arall fedd awen mor swynol.

Cychwynnodd ar gwrs newydd o gyfansoddi yn yr opera “Idomeneo,” a barotodd gogyfer â charnifal Munich yn 1781. Cadd ar awr wan ganiatad yr Archesgob i fyned yno i hwyluso ei dodi ar y llwyfan, a gadawodd Salzburg heb fawr feddwl na ddelai yno'n ol i gartrefu. Bu “Idomeneo” yn llwyddiant perffaith. Dengys gynnydd aruthrol yn yr adran offerynol—ffrwyth y “gwag symera” ym Mannheim; a synnai'r etholydd, fel pentrefwyr syml Goldsmith gynt, fod pethau mor fawr yn dod allan o ben mor fach. “Ni chadd miwsig erioed o'r blaen,” meddai, “y fath ddylanwad arnaf; y mae'n wir odidog.” Dyna hefyd farn ei olafiaid am dani.

* Troed hon i Gymraeg grymus gan Glanmor, gweler “Gwaith Glanmor.”

Yr oedd yr Archesgob weithian yn Vienna, wedi ei alw yno ar farw'r frenhines Maria Theresa, yn niwedd Tachwedd, 1780. Cyn hir wele wys bendant i Fozart adael Munich a'i holl rialtwch, a myned i Vienna i lanw ei swydd yn y cyngherddau nosol. O'i anfodd ufuddhaodd, ac am y tro diweddfaf. Ni faddeuasai y gŵr traws byth i'r cerddor am ei herio'n flaenorol, a bu mor sarhaus wrtho'n awr, i'w gadw'n wylaidd ar ol miri mawr Munich, fel y gofynnodd Mozart eilwaith am ryddhad. Na, nid felly ysywaeth, rhaid cael cydsyniad Leopold Mozart cyn tynnu'r ffrwyn o ben un yn bwhwman a thro'i a throsi yn y tresi fel efe. Credai'n siwr na feiddiai'r tad roddi hyn, rhag tynnu gwg ar ei ben ei hun. Ond yr oedd Mozart yn benderfynol, a cheisiodd ymddiddan â'i elyn wyneb yn wyneb,—ni thalai hyn mo'r tro ychwaith. Un dydd, aeth Mozart i'r plas a'i fwriad ar weled ei feistr doed a ddelo, a derbyniwyd ef gan swyddog o'r enw Count Arco. Pan wybu hwn ei neges, arllwysodd gawod gethin o fryntni ar ben y cerddor gwylaidd, a throediodd ef allan drwy'r drws. Bu orchwyl anhawdd iawn i Leopold gadw'i fab eiddil rhag anfon her gornest i'r Count yn ol defod yr oes, ond ymdawelodd wrth gofio, os gwnelai, y byddai ei dad dan wg ei feistr i ddiwedd ei ddyddiau. A'r modd yna y dryllwyd yr iau orweddai mor anesmwyth ar ei war. Fel y newidia amser wedd pethau! Prin y tybiai'r Archesgob trahaus mai ei gysylltiad â'r cerddor bach dirmygedig, yn unig a gadwai ei enw o dir angof, ac yn sicr, ni chredai'r Count mai nwyd moment, ac nid llafur oes, a roddai iddo yntau anfarwoldeb.

Bellach, try Mozart i wynebu'r byd ei hun, heb ei dad i ffoi ato am nodedd yn nydd ystorm. Plentyn ydoedd o anian, er yn ddyn o ran oedran, a chawr o ran dawn. Dewisodd aros yn Vienna; a pha faes mor addawol iddo a'r un y bu'n lloffa ynddo yn ei febyd? Tybed na fedai gynhaeaf aurfelyn yn nyddiau ei nerth?

Dechreu ei yrfa newydd wnaeth "yn union fel efe ei hun," ys dywed y beirniaid pan fo'u meddwl yn pallu. Nid oedd moddion cadw tŷ ganddo, a gorfu iddo fyned i lety, ac i ba le yr aeth, ond fel oen diniwed i ogof y ddraig—Frau Weber. Yr oedd Aloysia wedi priodi Lange erbyn hyn, ac yntau wedi ei phriodi hithau a'i theulu, a'r cyfan yn byw yn Vienna o fewn cyrraedd galw i'r chwareudai. Rhuai Leopold Mozart fel llew—yn unol â'i enw—pan wybu fan llety ei fab,—paham y cwynai beunydd a byth yn erbyn anwybodusion Salzburg, ac yr ymlynai'n dyn wrth deulu dilên Weber? Ar ol hir chwyrru ac ysgyrnygu dannedd cadd ganddo newid ei lety; ond yn rhy hwyr. Yr oedd y ddraig; fel y sarff gynt, yn gyfrwysach na

holl fwystfilod y maes, ac wedi cael gan ei fab cyn ymadael, arwyddo memrwn i'r perwyl a ganlyn,—

Yn 1af. Yr oedd i briodi Constanze Weber o fewn tair blynedd.

Yn 2il, Yr oedd, doed a ddelo, i'w phriodi ar ddiwedd y tymor, neu

Yn 3ydd, I dalu iddi flwydd-dal o dri chan florin ; ac

Yn 4ydd, Derbyniai hithau'r tâl, ar wahan i le ei hannedd, ac ar wahan i'w modd o fyw, os heb briodi arall, a thalai yntau ef bob mis, neu bob tri mis, tra y byddai byw.

Dyna syniad Frau Weber am iawnderau merch y ganrif o'r blaen. Ond chwarae teg i'r cerddor, fe ddodasai o wirfodd ei sel ar waeth telerau, am nad oedd yn ei fryd dwyllo neb, llawer llai eilun ei serch. Y diwedd fu iddynt ymbriodi, a byw fel y rhan fwyaf o blant dynion, weithiau dan wyll, weithiau dan wawl, neu yn ol yr Arab, weithiau'n ddydd mêl, weithiau'n ddydd wynwyn,* nes i angau eu gwahanu.

Yr oedd Mozart y tymor hwn yn llawn hoen a hyder. Teimlai fel Dante ond iddo " ddilyn ei seren, na phallai ddyfod i hafan odidog."† Onid oedd ynni ieuenctid ynddo, celf ddiguro ganddo, ac awen o'r lanaf i ysbrydoli ei enaid? Heriai y byd. Ond

Hawdd yw dwedyd, Dacw'r Wyddfa ;
Nid eir drosti ond yn ara.

A dyna brofiad buan Mozart. Dibynnai am fara ar gyngherddau, ar roddi gwersi ar y berdoneg, a chyfansoddi ; ond byw o'r llaw i'r genau wnai. Nid Bydol-ddoethyn ydoedd efe, na Chadw Mi Gei hithau ei wraig, ac felly pan uchaf uwchlaw angen, nid oeddynt nepell o gynni. Yn Rhagfyr, 1787, fe gafodd swydd cerddor cyfrin i Benadur Awstria, tan gyflog o dri chan florin y flwyddyn—rhyw bedwar ugain punt o'n harian ni ; ond er bychaned y swm, da oedd iddo wrtho fel rhywbeth safadwy ymhlith yr arian byw ddylifai drwy'i ddwylaw mor hylaw. Ymhen y dwy flynedd daeth galwad iddo i Ferlin, yn gapel-feistr Frederick William II., nai Frederick Fawr a wisgai'r cledd ac a ganai'r chwibanon, a nai y Dywysoges Amelia a fethodd ddenu ei dad i'w gymeryd yno, pan yn blentyn, " am fod mwy o gusanau ganddi nag o arian." Addawai teyrn Prwssia iddo dair mil o fflorinau y flwyddyn am ei wasanaeth. Y peth cyntaf ddywedodd Mozart pan glybu ydoedd, " Pa fodd y gallaf werthu fy Mhenadur?" O'r diwedd, o daer ymbil cyfeillion, gofyn wnaeth am gennad ymadael. " Beth," meddai'r

* Yom assal, yom baessel.—*Diareb*.

† Se tu segui tua stella
Non puoi fallire a glorioso porto.

Inferno. xv. 55—56.

Penadur, "nid yw eich bryd ar fy ngadael, Mozart?" "Os rhynga fodd eich Mawrhydi, mi a arhosaf," ebe'r cerddor anghenus, heb yngan gair am iawn ariannol. A "moes i mi, heb hwde i ti" fu ymddygiad y teyrn hwn ato, a phan edliw-iwyd ei ffolineb iddo gan garedigion siomedig, ymesgusododd gyda "Pwy fyth fuasai'n meddwl am y fath beth ar y fath adeg?" A phwy fyth, ond Mozart ddihunangar, neu os mynner, ddiddarbod am dano, na fuasai'n meddwl am y fath beth ar y fath adeg?

Yr oedd enw iddo fel perdonydd dihafal yn Vienna, a phan ddaeth Clementi, perdonydd enwocaf Ewrob, ar ymweliad yno, mawr oedd chwilfydedd y dinasyddion pa un o'r ddau oedd y trechaf. I roddi taw ar yr ymdrafod, bu ymryson canu rhyng-ddynt o flaen yr Ymherawdwr, a Mozart a orfu. Soniai Clementi am ei ganu "fel y tyneraf a'r hyfrytaf a glybu erioed." Gwyddai Mozart o'r gore am ei allu di-ail efo'r offeryn, ond yr oedd o anian mor hynaws fel nad anhawdd cael ganddo ei ganu ar adegau pan na dceilliai bri mwy iddo, nac elw o gwbl,—nid un o'r cyff clêr ydoedd. Ni wnai ffwdan ar yr alwad, ac ni cheisiai ymesgusodi gyda'r wên foddhaus o hunan-ddibrisodod sy'n nodweddu ambell i gorrin a fyn fod yn gawr. Yn ol un hanesydd, pan eisteddai wrth y berdoneg, gwedd newidiai ei wynepryd, syllai ei lygaid ymhell bell, megis ar olygfeydd y tu draw i amser, ehedai ei enaid yno i fwynhau prydferthwch y broydd hyfryd, a dylifai ei ddedwyddwch i'r ddaear yn afon o gynghanedd a chân.

Yr oedd iddo lu o ddisgyblion ar y berdoneg, ac iddynt hwy o dro i dro y cyfansoddodd liaws o'i ganuanau (*sonatas*) i'r offeryn. Gresyn i awenydd o'r anian eiriannaf orfod llafurio'n anheilwng o'i allu, er cadw corff ac enaid ynghyd,—addysgu plantos a merchetos a phoblach seiat y byd i ddringo'r *gamut*, ac iawn droi bys am fawd, a bawd dan fys. Ond nid drwg diledryw, fel y dywed Richter, ar ol profi eithafion caledi,—“Pa beth yw tlodi i ddyn ruddfan dano? Nid yw namyn tyllu clust morwynig, a chrogir tlysau yn y briw.” A thlysau ym mriwiau Mozart yw ei ganuanau i'r berdoneg.

Ceir darnau i'r berdoneg o ansawdd ddarluniadol, yn aml yn dwyn enwau gwych dros ben, megis “Canuan y Gâd-ruthr,” neu “Ffantasia Cario'r Gaer.” Y mae tân ysol y gâd gamlan yn gwibio drwyddynt o ben bwy gilydd. Yn gyntaf oll daw ymdeithgan danbaid—“Gwŷr Harlech,” o bosibl—i ddynodi hynt y milwyr i faes yr aer. Yna daw sain yr udgorn yn galw i ryfel, mewn cynghanedd moel ar y tonydd a'r llywydd. Gwae fi, beth yw y nodyn hir yna, efo un byr-gam ysbongiog o'i flaen, a'r gair “boom” o dano? Dyna drwm ruad magnelau. Ar

hyn ysgythrir allweddau uchaf y berdones, gan chwyrmellu braw i enaid y sawl a glywo'r seiniau—mân-ynnau'n tanio ydynt hwy. Rhag ein marw'n anhymig, cawn seibiant munud awr, ac ennyd o orffwys yn swm tawel telyn yr awel. Ond rhy fyr, ysywaeth, yw ei barhad, canys clywir twrf ofnadwy yn dychlamu o barthau isaf y bass, yn cael ei ddilyn gan ruthriadau gwallgof y dwylaw i gyffiniau uchaf y soprano, yna gwibiant i fyny ac i waered, a chroesant y naill y llall, a phwyant yr offeryn nes ymron a'i dryllio'n ysgyrnion gyrbibion. Ffrwydrad erchyll y cloddfeydd neu'r ogofâu yw hyn yna. O raid daw goruchafiaeth yn y man; a phwy a'i pia namyn y Prydeiniaid dewrfryd gwrol, yn enwedig gan mai gwylliaid y bwa saeth a'r bicell fain sydd gennym gan amlaf i wynebu ein harfau tân.* Felly cawn seiniau moliannus "Wele'n harwr adre'n dod," a'r "British Grenadier Guards" yn son am ryw Alecsander; ac wedyn efallai y dwysheir ni â briwsion o "Deithgan y Marw yn Saul," er cof am y rhai gwymasant yn y gâd. Dygir y byw adref yn hyfryd orfoleddus âg alaw fwyn, "Home, Sweet Home," a dyry "Duw Gadwo'r Frenhines," daw ar y tryblith dilun.

Lle sylfaenol sydd i'r darnau hyn ymhlith ceinion y gân, rhywle ar finiau drama y gŵr bach â'r cefn crwca, neu lèn erch geiniog y Sais, yn eu hadran hwythau o fyd y meddwl. Cymaint y gagendor rhwng canuanau Mozart â'r sothach hwn ag sydd rhwng darluniau llaw gelfydd, dyweder Leonardo Da Vinci neu Fichel Angelo â'r darluniau cyntefig hynny y dodid "dyn" neu "aderyn" danynt i wybod prun oedd prun. Paham y rhagorant gymaint? Nid eiddo lladrad yw eu "dennydd," ys dywed pobl Powys; nid synwyr y fawd, ond athrylith, fu'n tynnu eu cynllun; nid darnau o glytwaith anghyflw ydynt o ran arddull, ond cyfanweithiau gwê gain unol gymhlethliw; a'u dawn yw swyno dyn ym myd y gwae, â seiniau wnan' iddo wenu drwy ei ddagrau ac nid ennyn ei nwyd, a gogoneddu ei raib. A chyda dy gennad, ddarlennydd mwyn, wele rai sylwadau ymbhellach ar y pwnc, ond nid yn ei berthynas â gweithiau sy'n peri i ni ddyheu, fel y clown yn Othello, am "fiwsig nas gellir mo'i glywed."

"Rhaid i fiwsig fod yn fiwsig, ac nid nâd, hyd yn oed pan yn fynegiant o alar neu wae," meddai Mozart un tro; a dyna nodwedd ei holl weithiau,—

"Mwyrn yw sain y rhain i gyd,
Hudol swyn wynfyda'r byd."

* Wele dricoedd arwyr gwareiddiad,—y cenhadwr â'i Feibl i ddyegu ffordd tangnefedd i'r anwar; y milwr â'i wn i saethu y rhai na rodiant mohoni; a'r marsiannydd gwirod â'i hylif i wenwyno y sawl a geisia ei llwybro.

Lleddfa ei alawon mirain ingoedd yr enaid, a lluddia ei gynganedd cyfoethog, cyweithas, i orfwyniant droi'n ddiflasdod merfedd. Ac nid rhuthr gorwyllt ydyw anterth ei hoen, yn llifeirio dros ei geulannau a swn distryw byd yn ei ru; ond dylif cryf yn llifo'n ddi-droi-yn-ol drwy sianeli addas i lesoli gwlad a'i gwneyd yn baradwys. Torrwyd rhai o'r sianeli hyn gan y tadau diwyd fu'n arloesi'r tir yn yr oesau tywyll, fel y ganon a'r ehedgan; torrwyd ereill yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, fel yr *overture* gan Lulli yn Ffrainc; ond i Haydn a Mozart y perthyn sianel y ganuan, yr awdau offerynol, a'r sinffoni, er mai Bach o Ferlin dorrodd y dywarchen gyntaf, ac mai Beethoven a'i cwblhaodd. Rbenir y ganuan i dri symudiad. Yn nechreu ei gyrfa, a dilyn y gymhariaeth, lifa'r gân yn gyflym, heb oedi oherwydd a fu, na phetruso am a ddel, ond llamu ymlaen yn llawn nerth ac ynni'r amser sydd. Yna dwysha, a dylifa'n araf, gan ddelweddu cysgodion ei glannau, a chymylau y nen, yn ei dyfroedd tawel dwfn. Ymhen ennyd ymhoewa drachefn, a daw'n hoenus i ben ei thaith, a dawnsia goleuni ar frig ei mân donnau. Ond yr un dylif ydyw, er y nodweddion amryfal a ddengys. Neu, os mynnir newid geiriau, nid darlun o dri pherson ydyw, un yn gawr yn ymdaith yn amler ei rym, arall yn hen wŕ dan bwys hir ddyddiau yn llwybro'n araf i derfyn y daith, a'r olaf yn hoewlanc yn llemain a chrychneidio o lawenydd ei galon. Ond yn hytrach tri-darlun o'r un gŵr, dan wahanol ddylanwadau bywyd, neu ar wahanol dymhorau o hono,—yn ynni ei ieuenctid, dan ofalon canol oed, yna'n diweddu ei oes dan heulwen lachar yn fwy na choncwerwr. Dyna ddigon i ddangos cydnawsedd anheggorol cyfanwaith.

I bob symudiad y mae dwy sylfon, neu brif alaw, unol eu gwe, gwahanol eu lliw, a chymhlithir hwynt drwy fân alawon symudliw, wnan' i'r lliwiau ymdoddi y naill i'r llall fel lliwiau yr enfys. Dyry'r holl gymhlethiadau hyn safle i'r ganuan fel y ffurf geinaf a gaed eto ym myd y gân, ac oherwydd hyn y dilynir ei chynllun yn yr awdau offerynol a'r cyfundonau sydd yn ogoniant y gelf.

Dylid addef mai cymhesurol iawn ydyw Mozart, fel Haydn, yn ffurf ei ganuanau, pob adran o faint penodol, nes ymylu ar gywreinerwydd "gerddi y gaeaf." I Beethoven y rhoed y ddawn i lwyr naturioli'r ganuan, ac eangu ei therfynau, nes ydyw anian yn ei mawredd cynhenid i'w chanfod ynddi, heb ol llaw y trimiwr truan. Bu cyfansoddwyr gwych i'r berdoneg ar ol hyn yn canu canuanau, ond mewn ffurfiau ereill y mae eu hawen hoenusaf, ac felly cawn Mendelssohn yn rhagori yn ei "Ganeuon Di-eiriau," Schumann yn ei "Ramantau," Chopin yn ei "Nogonau," Liszt a Rubenstein yn eu "Ffantasiau," Brahms a Grieg

yn eu "Suites" i'r offeryn. Ond ar wahan i hyn, cain odiaeth yw canuanau Mozart, a chymwys lefaru am dano fel Johnson am Goldsmith, "na roddes ei law ar ddim heb ei harddu." Nid oes sain anaddas, neu frawddeg afrywiog o'u mewn. Ni thyn ei awen yn erbyn ei hanian o ysa afiach i gynhyrchu effaith, fel y cerddor hwnnw ddarlunia fugail yn myned o'r heulwen i gysgod gwinwydden efo thrawsgyweiriad mor erchyll a phe suddai y truan i wyll cysgod angau. Cydweddus, fel chwaer gangau o'r un cyff, yw ei sylfonau, a theg ei alawon, fel blodau'r gwanwyn ar afallen y berllan. Tymhera mwynder ei nerth, fel nad el byth yn erwin, melusder ei bruddni fel nad yw byth yn llethu, a thynerwch ei hoen fel na choffha ei lawenydd ni byth o grechwen yr ynyfyd. "Y mae'n rhy seinber o lawer," yw anair rhai iddo. Feallai hynny, ond y mae a'u digono hwy, "eneidiau gwynion." Y crasaf lais yw llais yr asyn, ac ni warafun neb iddynt glust ymwrando arno.

Lliosog ac amrywiol iawn yw cyfansoddiadau Mozart y cyfnod hwn, a nodwedd pob un yw arddull lân a hudol swyn. Y mae ei awen yn gynefin â phob ffurf gerddorol, ac â phob cangen o'r gelf. Dyna ei awdau i offerynau tant, sydd mewn bri heddyw gan garedigion coeth cyngherddi ffasiynol y bore; a'i gyfundonau i gerddorfa lawn, a glywir eto yng Ngwyliau y Gân,—un ohonynt, "Cyfundon Iau," o arucheledd a chelf ddigymhar, nes y canodd Beethoven ei naw gyfundon anfarwol. Rhoddodd ffurf newydd i'r gân unllais, drwy ganeuon syml fel Das Veilchen,* gan ddangos y ffordd i Schubert anfarwoli ei hun. Yna daw ei operâon nwyfus, llawn asbri,—*"Die Entführung aus dem Serail,"* trem ar wegi bywyd yn y dwyrain, dianc o'r harim; *"Le Nozze di Figaro,"* sef neithior gwron ysmala Beaumarchais; *"Don Giovanni,"* bywyd a diwedd twyllwr; *"Die Zauberflöte,"* effaith ryfedd canu "pibell swyn" yn un o hen demlau aruthrol yr Aifft; ac ereill llai o bwys na raid yma mo'u henwi. Yn iaith yr Eidal yr oedd rhai, ereill yn iaith ei fam, ond Ellmynig yw arddull pob un, fel operâon Gluck; a'u gweithiau hwy i'w dau, a Weber, a *"Fidelio"* Beethoven fu'n cynnal breichiau awen yr Almaen ar y llwyfan yn erbyn Ffrainc a'r Eidal, nes daeth Wagner efo'i ddramodau cerddorol dihafal, fel Blücher gynt i faes Waterloo, a gyrru'r gelyn ar ffo. Pwy ŵyr am ba hyd? Ac yn olaf cawn yr Hân-offeren, gwaith mwya'r cerddor mwyaf, yn ol tyb rhai, yn yr hon y ffrydiodd ei enaid allan fel "li o alawon yn ymddolennu rhwng glannau o helyg gwylofus."

Byr yw bywyd, hir yw celf. Pan gofiwn i Haydn lefaru ar ddiwedd oes hir, lafurus, fod rhaid ymadael cyn iddo fedru

* Gweler cyfleithiad yng *Nghymru*, cyfrol XI., tudalen 171.

defnyddio ei wybodaeth; ac i Beethoven ymron yn driugain oed, sylwi, er maint ei allu, mai ar eigion diderfyn yr ydoedd, a'i lannau'n ymgilio ymhellach bellach oddiwrtho'n barhaus; rhaid cydnabod athrylith rymus Mozart ieuanc, a bron addoli ei awen fywiol lân. Wele syniad Schubert am dano,—“O Fozart anfarwol, mor aneirif y ceinion o fyd gwell a ddelwaist ar ein henaid,” ac ychwanega i'w weithiau suddo i'w enaid lle y “serenant yn nhywyll nos bywyd, a dyry eu goleuni arian prydfferth, hyder a gobraith i ninnau.” Fel y cilia cyfnod ar ol cyfnod i wyll yr amser fu, gan gludo yn eu col gyfran o olud meddwl dyn, nis dichon nad ant â lliaws o chwech chant a chwech ar hugain o gyfansoddiadau yn ysbail i wlad angof; ond erys ei operâon tra pery calon dyn i ddyheu am lawenydd, a'i gyfundonau a'i offerenau tra y pery hiraeth yn yr enaid am yr anfeidrol a'r tragwyddol.

Tra llafuriai Mozart ar “Die Zauberflöte,” daeth gŵr ato, ac mewn dull cyfrin gofynnodd iddo gyfansoddi Hân-offeren. Beth fyddai'r pris, a pha bryd y byddai'n barod? Mynegwyd y pris iddo, ond ni fedrai nodi'r amser. Ymadawodd y dieithr-ddyn ar hyn, ond dychwelodd yn fuan, talodd yr arian, ac archodd y cerddor weithio yn ol ei allu, ond rhoes arno siars bendant i beidio chwilota am ei noddwr dirgel,—methiant hollol fyddai'r ymgais. Cafodd hyn effaith ryfedd arno. Gwael oedd ei iechyd eisioes drwy or-lafur, a llesg ei ysbryd. Dwyshaodd hyn ei ymdeimlad fod angeu'n nesu at ei ddror i guro. “Yr wyf yn canu Hân-offeren i mi fy hun,” meddai. Bu fyw i orffen ei opera, ac i gael pelydryn o wawl drwy wybod am ei ffyniant, ond ni chwblhaodd y Requiem. Gwnaed hon yn barod i'r Diadwaen, fel y galwai Mozart y gŵr dieithr, gan ei gyn-ddisgybl Süßmayer.

Mawr yw dirgelwch hanes y Requiem Mass, ond gwyddom, weithian, mai cennad Count Walsegg o Stuppach ydoedd y Diadwaen. Ymddengys mai uchelgais y pendefig oedd cael ei gyfrif yn un o awenyddion y gân. Ar adegau neillduol ymgiliai i'w ystafell ddirgel, nid i weddio, ond i adgopio gweithiau a brynasai gan gerddorion llai o olud, mwy o ddawn. Wedi gorffen hyn o lafur, deuai allan o'i gél i swyno'r byd â'i gân bryn. Dwyn wy, dwyn mwy; ond trwy ryw gyfaredd credai'r Count mai efe oedd awdwr y gân am iddo ei hysgrifennu. Dyna oedd tynged Hun-offeren Mozart, a datganwyd hi dan arweiniad Count Walsegg er cof am ei wraig,—tybed ai ail llaw oedd ei alar am dani? Wedi hyn mawr oedd dicter mab yr awen, pan wybu i weddw Mozart gyhoeddi'r gwaith dan enw ei gŵr; er iddi ddeisyf caniatad y noddwr anadnabyddus drwy hysbysiadau,—ryw fodd neu gilydd, nid aethai yr un ohonynt i'w wâl.

Brochi, a bytheirio bygythion a dialedd llys barn; ond nid aeth efe yno i ddatgan ei hawl,—gwyddai gystal a Sion Ifan Ty'n y Coed, y cana Mynyddog am dano, mai "Taw pia hi, boys;" a thewi a wnaeth.

Bu ymdrafod faith a chynnen ymhlith beirniaid,—uwch feirniaid wrth gwrs,—ynghylch y rhannau bia Mozart, a'r rhannau bia Süßmayer o'r Requiem, nes doed o hyd i'r copi gwreiddiol yn llyfrgell Vienna. Ni thorrodd hyn y ddatl yn ddisyfyd, am fod llawysgrifau'r ddau yn tebygu; ac ni cheir gwybod byth, ysywaeth pa mor ddyledus fu Süßmayer i'w hen athraw am syniadau'r rhannau sydd yn gyfangwbl yn ei lawysgrif ef. Hoff gan Mozart ymddiddan âg ef am y caniadau anorfenedig, a bu droion yn canu alawon a chynghanau ar y berdones, ac yn egluro iddo'r modd y defnyddiai hwynt. Rhoes y weddw hefyd rai o nodiadau Mozart iddo, pan oedd yn ymgymeryd a dwyn y gwaith i ben. Faint o gymorth fu hyn i'w awen ymddyrcu'n uwch na chynt na chwedyn, sy'n ddirgelwch, ac a fydd felly bellach.

Pan gyfansoddai Mozart y cydgan "Lacrimosa" o'r Hûn-offeren, ac y daeth at ddiwedd y drydedd linell,—


Dydd fydd hwnnw 'n ddydd o alar
Pan i wyddfod Barnwr daiar
Daw yr euog fry yn fyw,

sy'rthiodd y bin ysgrifennu o'i law, ac ar y gair "byw"* y canodd olaf. Ni feddai nerth i draethu yr hyn a deimlai wrth fyfyrion ar y llinellau dilynol ar fin tragwyddoldeb,—


O tosturia wrtho, Dduw;
Arglwydd Iesu, dirion wedd
Dyro iddyn' hûn o hedd.
Amen.

Un diwrnod ar ol hyn, galwodd am weled yr Hûn-offeren, ac ar ei gais canwyd hi, efe ei hun â'i lais egwan yn canu'r alto, a'i berthynasau a chyfeillion y lleisiau ereill. Cymerwyd hi o'i chwyr, gan ddechreu efo'r "Kyrie Eleison" dwys erfyniol, a myned trwyddi, gydgan ac awd, weithiau o obaith, weithiau o alaeth, nes dyfod at y "Lacrimosa," pryd y torrodd efe i wylo, a rhoddodd y gwaith o'i law, byth mwy i gyffwrdd ynddo. Nychu'n gyflym ddarfu gyda'r nos, ac ebe'r claf, yn gwybod fod awr ysgaru corff ac enaid yn ymyl,—“Oni ddywedais fy mod yn ysgrifennu Hûn-offeren i mi fy hun?” Yn fuan colodd bob ymwybod anianol, ond tra y ciliai ei enaid yn araf dros ororau amser, symudai ei wefusau fel pe buasai cân udgorn yn ei fryd. Ie, yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig—yn anllygredig. Am un o'r gloch, Rhagfyr, 5, 1791, bu farw Mozart yn bymtheg ar hugain oed. Ond bu farw i ddechreu byw.

* Yn y gwreiddiol "reus"—euog.



n weddus ar lan y
bardotyn "na phia
cynhebrwng dinod
ystorm ofnadwy o
tai fach o alarwyr
i ddwyn y marw i
Mozart. Nid oedd
yn yr hunai; ac er
wybu na châr na



o'r marw, anghofio'r
roni delw à blodau
Mozart.
el blodeuyn y glas-
nawn, cyn ymestyn
i'r dydd bruddhau.
un modd yn ieuenc-

tid y dydd. Ai myned i glustfeinio ar gân y gwynfyd ddarfu'r awenyddion hyn, a chael eu hunain yn rhy bell i droi yn ol? Hyn a wyddom, ein bod yn clywed yn awr ac yn y man, megis chwaon o wlad well yn eu caniadau, a "chymaint o gerdd a roed dan gudd," pan ddodwyd hwy dan len o bridd, a ninnau'n tybio fod yr awelon yn cryfhau. Ofer gofyn paham. Oni wyddom am UN a droes yrfa'r byd i gwrs newydd, ac a fu farw yn wr ieuanc tair blynedd ar ddeg ar hugain oed?

Saif Mozart yn rheng flaenaf mawrion y gân, ond nid myfi gais benderfynu pa un a ffynna, ai hwn yma, ai hwn acw o feibion yr awen. Digon i mi yw ceisio caru purdeb a defosiwn Palestrina, hoen a llawenydd Haydn, arucheled arwrol Handel, dwysder mawreddog Bach, ysblander llachar Beethoven, coethder Mendelssohn, a melus swyn Mozart; a diolch o eigion calon i'r Tad tragwyddol am eu hanfon i ddwyfoli'r byd. A thithau, ddarlennydd, os wyt yn caru cân, a pha Gymro nad yw? dos i'w hefydu'n wylaidd, a thi a geri bob un o honynt, heb ymholi pa un yw'r tecaf, fel y ceri brydferthion anian, o flodau'r grub i lili'r maes, ac

" O'r eryr ar ei aden gref
I'r dryw sydd ar y drain."

Gad i ereill, os mynnant, groes dynnu ac ymddadleu am ragorolion hwn, a ffaeledau'r llall; a phan ddelont i'th hudo i'w ffyrdd hwy, gelli eu hateb yn ol llafar Eliseus gynt wrth feibion y proffwydi,—“Mi a wn hynny hefyd, tewch chwi a son.” A phwy a w'yr na ddisgyn arnat fantell un o'r rhai a hoffodd dy enaid, ac y byddi'n fendith Duw i'r wlad a'th fagodd?

Disgynnodd llenni du canrif rhyngom ni a dyddiau Mozart, ond yng ngoleuni hanes gwelsom megis cysgodion yn gwibio y tu ol iddynt, a chawsom ryw syniad am fywyd y mwyaf swynol ei ddawn o holl feibion cerdd. Canwn yn iach iddo â geiriau ei gân olaf, canys hi a ddwg i'n cof y Dydd Mawr hwnnw pan fyddwn, yn ol Addison, “bawb yn cydoesi, ac yr ymddanghoswn oll ynghyd,”—

Lacrimosa Dies illa,
Qua resurget ex favilla
Judicandus homo reus,
Huic ergo parce Deus;
Pie Iesu Domine
Dona eis requiem.
Amen.

Amen, meddaf finnau, hyd oni wawrio y dydd, a chilio o'r cysgodau.

ROBERT BRYAN.

BLYNYDDOEDD OLAF DEWI WYN.

YMGOM RHWNG TALIESIN, AMAETHON, AC EIFION IEUANG.

PWY bynnag oedd yn gydnabyddus â thref Pwllheli ychydig flynyddau yn ol, gallasai weled siop yn y brif heol, ar yr aswy wrth fyned i gyfeiriad cantref Lleyrn, agos gyferbyn a'r fan y mae y brif heol yn ymrannu yn ddwy; y lle a elwir yn nhafodiaith goegfalch y dyddiau hyn "Caroline Square." Ac ar astell fawr, lydan, ar ben uchaf yr adeilad, yr hwn nid yw mor uchel a'r agosaf ato, gwelid mewn llythyrennau breision yr enw SHOP Y GAERWEN. Ni ddarfu i mi sylwi ar un dref yr un fath a Phwllheli yn hyn. Yn aml iawn, lle yr oedd nifer o fechgyn yn cael eu magu mewn fferm yn Lleyrn neu Eifionnydd, rhoddid un ohonynt yn egwyddorwas ym Mhwllheli; ac ond odid na byddai y bachgen hwnnw yn sefydlu masnach ei hun yno, wedi cyrraedd o hono addfedrwydd oedran; a byddai ei fasnachdy, fel rheol, yn cael ei alw ar enw ei gartref yn y wlad. Am y rheswm hwn, gelwir un yn "Shop Cae-Rhydderch;" un arall "Shop Pwll-defaid;" un arall "Shop Crugan;" un arall "Shop Glasfryn. Felly yr oedd "Shop y Gaerwen" ar enw cartref Owen Owens, a ymsefydlodd ynddi fel masnachwr. Nid wyf yn gwybod pa ddealltwriaeth oedd rhwng Dafydd Owen ag Owen Owens, gyda golwg ar fuddiannau y fferm a'r masnachdy; ond arferai Dafydd Owen fyned i Bwllheli bob amser ar ddyddiau marchnadoedd, i gynorthwyo ei frawd, cyn myned yno ato i fyw. Yr oedd buddugoliaeth Dewi Wyn yn Eisteddfod Tremadog wedi ei ddyrchafu i sylw a ffafwr neillduol Syr Thomas Mostyn a'i oruchwyliwr, a throi ffrwd y tenantiaid i "Shop y Gaerwen." Yr oedd rhagoroldeb y nwyddau a gedwid yno yn enwog; nid llawer o ymddanghosiad a wneid ynddi un amser; ond yr oedd y nwyddau yn dda a detholedig. Peth arall, ystyrrid y brodyr yn nodedig am eu cywirdeb a'u gonestrwydd. Yr oedd eu dull o gario eu masnach ymlaen yn debyg i'r Crynwyr—*un pris*—dim dadlu, wedi ei osod yn nod i ymgyrraedd ato. Yr wyf yn cofio y byddai pawb am fyned i "Shop y Gaerwen," er mwyn gweled y bardd a chlywed ei ffraethineb; aeth cantoedd yno i fasnachu oddiar gymhellion o'r fath; a rhwng y naill beth a'r llall, yr oedd "Shop y Gaerwen" mor hysbys fel masnachdy ag ydoedd Dewi Wyn fel bardd.

Tra yr wyf yn ymdroi fel hyn, wele y tri chyfaill wedi cyfarfod â'u gilydd ar eu llecyn dewisedig yn gryno a phrydlon,

a phob un yn edrych yn fwy siriol nag arfer; a pharod wyf i obeithio y bydd fy nghymydogion yn llawen o gael clywed rhai amgylchiadau ymhellach am eu hen gydnabod Dewi Wyn o Eifion.

TALIESIN.—Wel, gyfeillion, y mae yn dda gennyf ddeall fod yr hyn sydd yn dod o dan ein sylw fel hyn o dro i dro, wrth olrhain hanes Dewi Wyn, yn deffroi eich ystyriaeth, ac yn peri y fath ddyddordeb i chwi, yn gystal ag i lawer ereill. Yr wyf yn hyderu fod Eifion Ieuanc yn barod efo'i holiadau, ac wele y cymwynasgar a'r deallgar Amaethon yma i'w hegluro, mewn trefn i linyr yr hanes fod mor gyflawn ag y bo modd.

EIFION IEUANC.—Y mae llawer o syniadau rhyfedd wedi tramwy drwy fy meddwl er pan dorrodd ein cyfeillach o'r blaen. Yr oedd yr hyn a wyddwn eisoes am Dewi Wyn yn cynyddu fy syched am wybod ychwaneg o'i hanes, fel yr ymroddais gyda phob egni a dyfalwch i ymholi a sugno allan fy nghof i'w waelodion, mewn hyder y cwrddwn â rhyw gymorth tuag at ddwyn i sylw a phrawf rywbeth o'r newydd yn ei gylch. Yr hyn a ofidai fy meddwl yr wythnos yma oedd ein bod wedi ei golli fel bardd, gan iddo adael y llennyrch lle y teimlodd angerddolrwydd agosrwydd a dwfn gariad mynwes ddilychwin tuag at ei rieni ym moreuddydd ei fywyd—llennyrch ag y mwynhaodd ynddynt gynhyrifiadau nerthoedd distaw Natur fawr, ac ymgymeryd â gofal masnach ym Mhwillheli—tref megis yn nythu yn safn y môr. Ymhell y bo'r trefydd, efo'u hawyr afiach a'u twrf masnachol, y mae pob talent yn dihoeni ynddynt. Yng ngolwg y mynydd uchel, glan yr afon ddfon, neu lennyrch yn cael eu gwisgo â gwyrddlesni, eu hulo â briallu teg, a'u brodio â meillion mân o bob lliw a llun, yng nghanol cerddorion mawr y coed yn gwrando arnynt yn arllwys mawl am gael toriad y dydd gan y Crewr mawr,—dyma lle mae yr awen wrth ei bodd, ac nid y tu ol i'r maelfwrdd yn nhwrf arian a phob math o glebr-siarad. Beth arweiniodd ein bardd i le o'r natur yma?

AMAETHON.—Nid wyf yn meddwl ddarfod i Dafydd Owen gael troedigaeth mor lwyr oddiwrth yr awen ag yr awgryma ymadroddion fy nghyfaill ieuanc. Ond diau ddarfod iddo ddigio wrth ei feirniaid a'i adolygwyr, nes troi ei feddwl oddiwrth farddoniaeth i gasglu cyfoeth; eithr er hynny, tarawai ati yn achlysurol i gyfansoddi englynion a chyfansoddiadau byrion ereill. Onid yn y dref y cyfansoddwyd yr englyn canlynol?—

“ Ym myd awen mae Dewi,—a'i enaid
O anian barddoni;
Pallai olud Pwllheli,
Neu fyd tlawd fy atal i.”

“ Dewi Wyn wrtho ei hun ” yw pennawd yr englyn ym *Mlodau Arfon*.

TAL.—Rhoddaf eglurhad i chwi pahan yr aeth Dewi i fyw i Bwllheli yng ngeiriau ei fywgraffydd gwreiddiol—Sion Wyn o Eifion. Dyma fel y dywed efe,—“Nis gwn yn sicr pa faint o amser cyn y flwyddyn 1827 y darfu iddo ef a'i fam ymsefydlu yn fwy neillduol ym Mhwllheli, a hynny oblegid gwaeldra ei frawd Owen Owens. Er ei fod yn dal y Gaerwen, ac yn myned yno megis i roi tro yn lled fynych, eto ni ddychwelodd yno i aros hyd ar ol marwolaeth ei frawd yn 1837; ac yn yr ysbaid y bu ym Mhwllheli, ni byddwn yn ei weled ond yn anaml, a phan yr ymwelai â mi, nid ymddiddanai braidd am ddim ond am ei frawd, cystudd yr hwn oedd yn pwyso yn drwm iawn ar ei feddwl.” Nid oherwydd unrhyw duedd i ymgymeryd â thrafferthion masnach, chwi a welwch, y symudodd efe i fyw i Bwllheli, ond i gynorthwyo ei frawd cystuddiedig, a daeth oddi-yno yn llawer gwaeth; yr oedd angau wedi cymeryd ymaith ei fam a'i frawd, ac yr oedd efe yn teimlo yn unig, a rhoes y fasnach i fyny mor fuan ag y gallodd, gan encilio i'w gartref yn y Gaerwen. Yno, gwnaeth ymgais i gyfansoddi cywydd marwnad ar ol ei fam; ac yn yr olwg ar ei gartref hebddi, dywedai,—

“O! ddu anian ddiensaid!
Llwyd yw y lle, lludw a llaid;
Nid enaid na daloni
Yn y byd hwn hebot ti;
Nid yw'r byd ond oer bydew,
Cymrwd o rwd ac o rew;
Darn bychan o degan du,
Gwyll diflas, gwell ei dafu;
Llais anian oll sy'n un nád
I mi, oerni a marwnad.”

Yr oedd serch Dewi Wyn yn gryf iawn at ei fam, ac yr oedd ei hiraeth yn anaele ar ei hol. Diau fod colli ei fam, a marwolaeth ei anwyl frawd, wedi rhoddi mantais fawr i'r afiechyd oedd yn dechreu ymborthi yn araf ar wraidd ei fywyd yntau. “Nis gallaf,” ebai Sion Wyn, “lai na chredu ddarfod i hyn effeithio cymaint ar ei ewynau, fel ag y bu yn un o brif achosion iddo gael ei ollwng i'r pruddglwyf trwm, yr hwn a ddifuddiodd ei feddwl bron o bob cysur dros y pedair blynedd olaf o'i fywyd. Yr oedd y dyb hon yn cael lle hefyd yn ei feddwl ef ei hun. Rywbryd ar ol i'w salwch ef ddechreu, ac ychydig cyn marwolaeth ei frawd, anfonais lythyr ato, yn yr hwn y ceisiais, hyd yr oedd ynnof fi, i droi ei feddwl at ffynhonellau diddanwch sylweddol i enaid trallodus, ond ni chlywais oddiwrtho hyd fis Awst, 1838, pan yr ymwelodd â mi. Yr oedd ei anhwyldeb, a'r pruddglwyf cysylltiedig âg ef, yn pwyso yn ddwys iawn arno er dechreu y flwyddyn o'r blaen, neu ryw gymaint cyn hynny. Cwynai yn fawr oblegid y poenau uirdynol yn ei gorff—dywedai nas gallai

ddarllen na thynnu cysur oddiwrth un peth a feddai, a haerai yn gryf fod amlygiadau o farn Duw yn cael eu dangos tuag ato."

AM.—Gan bwyll gyfeillion, nid wyf yn foddllawn i chwi son am ddiwedd oes Dafydd Owen mor fuan—ni ddaethum yma i edrych arnoch yn ei ddwyn i law anymunol angau heddyw, oblegid yr wyf yn bwriadu dwyn gerbron amryw fân gyfansoddiadau o'i eiddo na argraffwyd mohonynt hyd yma, trwy wybodaeth i mi. Canai fel y canlyn am "Ymocheliad rhag henaint,"—

" Myned i 'mweled â mil,—fe allai
Gyfeillion cyfepil,
Adnewyddu dyn eiddil,
Yna gwna gwan gnoi ei gil.

" Wedi cyrraedd da ceraint,—a'u cariad
Y ceir y fath enaint ;
Gwywa hyn bob gwayw a haint,
A chrina ochrau henaint."

I syched,—

" Os ychydig sychedu,—a'i ddolur,
A ddeil i gynhyddu ;
Pe seler fai 'r dyfnder du,
Nis peidiwn a'i hysbydu."

I'r awen,—

" Mae'r awen i'm pen, gwmpelni—mwynion,
A'm 'menydd yn berwi ;
Aed anian a'i daloni—
Bwyd a chwsg, a'r byd i chwi.

" Gan awen a'i llawenydd,—dim arall
A dymhera'r prydydd ;
Nid yfed a wna Dafydd,
Nid cuoi bwyd, ond canu bydd."

Yr hael a'r cybydd,—

" Gwael gan hael gul gynhilo,
Rhannu fyn o'r hyn a fo ;
Ac o'r cwbl, pe cai'r cybydd,
Domen o'r aur—dim ni rydd."

I Robert Davies (*Bardd Nantglyn*),—diau ddarfod i'r englynion canlynol gael eu cyfansoddi cyn y ffrwgwd yng nghylch Awdl Elusengarwch, onide ni roesai Dewi i Fardd Nantglyn y fath glodforedd a hyn,—

" Llwyddiant it' Fardd Du Nantglyn,—gwiw organ
Gywirgoeth a thelyn ;
Praff araul—pur offeryn,
A bwrdd gwledd yw Bardd y Glyn.

" Ti gynhullaist gnewyllyn—o'r enwog
Wirionedd diderfyn ;
Gardd wych, hardd, gywir ddi chwyn,
A llwys yw ei llysieuyn.

- “ Y fanywaidd fwyn awen,—dda ddinam
Ddiddanwch i'w pherchen ;
Merch paradwys wiwlys wen,
Digamwedd roddiad gymen.
- “ Da gennyf yw dy ganu,—a'th hynod
Ddoethineb yn prydu ;
Noddawl bo it' gynhyddu,
Yn eilfydd i Ddafydd Ddu.
- “ 'R awen addien rinweddawl,—hi oedd gynt
Eiddo gwyr dewisawl ;
Lewis o Fon lwys ei fawl,
A Goronwy gywreiniawl.
- “ Y fer awen foreuawl,—fwyneiddwaed,
Ddefnyddiaist yn fuddiawl ;
Ar destynau mwyn-glau mawl,
Araeth rywiog wrth reawl.—Dafydd Owen a'i cant.”

I lyfr o waith Bardd Nantglyn, a elwir “Cnewyllyn mewn Gwisg,”—

- “ Cnewyllyn, gwir hyn, teg wraidd,—mwyn a geir
Mewn gwisg foneddigaidd ;
Dda waith awen ddoeth hoywaidd,
Flodeuog, gwresog ei gwraidd.
- “ Perffaith gu effaith a gaffwyf,—burdeg
Ar bob ardal 'r elwyf ;
Godidog a da ydwyf,
Gwrlionedd diddiwedd wyf.
- “ Fy ngwisg lân, sef cynghanedd,—lle didwyll
Y dodwyd fi'n buredd ;
Ag er mwyn y gwyr a'i medd,
Da gennyf rodio Gwynedd.
- “ Fy ngwisg ddedwydd-wisg, sydd deg,—o wauad
Gwiw awen gywreindeg ;
Yr ydwyf mewn goreudeg
Siaced fraith, wisgiad di freg.
- “ O'r awen lawen loywyh,—a'i gwauodd
Yn gywir gywreinwyh ;
Yr hon ddaeth fel rhan ddoethwyh
O nef, fy hen gartref gwych.”

Eto i lyfr o waith Bardd Nantglyn, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1803,—

- “ Cywir eiliad carolau,—hardd gerddi
Ag eurddeith gywyddau ;
Englynon irion eiriau,
Araith fwyn yn yr iaith fau.”

Englyn i'w roi ar fedd, yn ddealedig oddiwrth y marw,—

- “ Gwel, ddyn, fod terfyn i ti—wael amod
Fal yma y byddi,
Ac mewn bedd y gorweddi,
Oera fodd, fel yr wyf fi.—D. O. a'i cant.”

Arferai ysgrifennu "D. O. a'i cant" pan yn ieuanc iawn; ond yn mlynnyddoedd olaf ei oes "Dewi Wyn o Eifion" a geir ar ol ei gyfansoddiadau. Fel rheol, ysgrifennai y flwyddyn hefyd, ond y mae eithriadau i'r rheol hon.

Dioddefaint Crist,—

- "Dylifodd diwael afon,—o gochwaed,
Gwir achos o'i galon;
Doluriau effeithiau'r ffon,
Oedd afwrydd dan ei ddwyfron.
- "Tan hoelion creulon y groes,—y rhoddodd
Ior byddysg drwy waewloes
Rasusawl unawl einioes
Eirianwawr, ar lawr drwy loes.
- "Pan hunodd ein Pen hynod,—was gwynnaf,
Disgynnodd i'r beddrod;
Mewn grasol rinweddol nod,
Er mawl i'w ddidawl Dduwdod.
- "Y trydydd cynddydd mewn modd cu,—c fad
Gyfododd yr Iesu;
I'w gyson lon foliannu
Gan hapus haelionus lu.
- "Ac felly, yn guf ollol,—e sathrodd
Holl sythwraidd y diafol;
Aeth adref i nef yn ol,
Dduw uchod yn heddychol.
- "Ei ddihoen fawr boen a'i bennyd,—am hyn
I'm henaidd ceir bywyd;
Gorfoledd a hedd o hyd,
A gwreiddiol enwog rydyd.
- "Gydag ef cydoddefaf,—a'i felus
Wiw foliant a ganaf;
A thrwy gynorthwy y Naf,
Gydag ef i nef nofiat.
- "Llefara drwy gall fwriad,
Am fath sancteiddwaith y Tad,
A rhywydd ysbrydolrwydd Daw,
Ynnof mewn modd di annuw."

Yn hytrach na myned ymlaen yn y cyfeiriad yma, feallai mai dilyn cwrs digwyddiadau fyddai oreu i ni yn bennaf am amser eto; ewch chwithau rhagoch hyd linell cysylltiadol hanes bywyd Dafydd Owen. Cawn egwyl yn y man i adolygu ac adystyried y maes a deithiasom, a chymeryd golwg eangach a mwy cyffredinol ar bethau.

TAL.—Nid oes un cyfnod ar fywyd ein bardd a chan lleied i'w ddweyd yn ei gylch a'r cyfnod o ddeng mlynedd y bu yn byw ym Mhwlheli; eto, ceir ychydig o feithiau a brofant mai Dewi Wyn oedd efe yno, fel yn y Gaerwen, er mai mewn cysylltiad â'r olaf yr adnabyddir ef bellach—treigla enw y

Gaerwen i lawr gydag enw Dewi Wyn i'r olaf ddydd, neu o leiaf hyd drancedigaeth y Gymraeg.

Yr oedd ei frawd Owen Owens yn ddigon tebyg i Dewi, yn llawn pruddglwyf fel yntau. Yn ei waeledd, cyn cael ei gaethiwo yn hollol i'r tŷ, arferai fyned allan mewn cerbyd, a byddai ganddo dair neu bedair o gobau trymion am dano, ac ond odid fantell dros y cwbl, a hynny ar yr hin boethaf yn yr haf. Byddai y ddau frawd yn hynod ysmala efo'u gilydd. Cwynai Owen un diwrnod ei fod yn wan iawn. "Nag wyt, Owen bach," ebai Dewi, "meddwl hynny yr wyt ti;" ac ymaith âg ef o'r llofft i nol dau o bwysau 56. "Hwda, cymer un ymhob llaw, a cherdda ol a blaen hyd y llofft, a chei weled dy fod yn gryf iawn." "Fedra i ddim, Dafydd bach," ebai Owen. "Medri, medri," ebai'r llall; a bu raid i Owen Owens geisio cerdded hyd y llofft, a'r pwysau trymion ymhob llaw.

Ar ddiwrnod marchnad ym Mhwillheli, pan oedd Dewi yno yn cymeryd gofal y siop, daeth amaethwr cyfoethog i fewn i brynnu het newydd. Estynnwyd nifer mawr o hetiau i'w dangos iddo, ond wedi treulio mwy na mwy o amser, yn ol arfer rhai o'r un dosbarth, dywedai yr amaethwr,—“Mae yn anhawdd iawn i chwi gael het ddigon mawr i mi.” “O, Mr. Williams,” ebai'r gwas, “y mae'n rhaid i *synwyr* gael *lle*.” Dewi yn cerdded ol a blaen ac yn clywed hyn, a atebodd yn sydyn,—“Mae'n rhaid i *ffolineb* hefyd gael *lle*.” Ni allasai y cwsmer lai na chymeryd yr awgrym.

AM.—Yr wyf yn cofio gweled Dafydd Owen yn dyfod ar hyd y gors acw un tro, o Bwillheli, a sylwais ei fod yn disgyn yn aml, fel ar ei liniau. Erbyn i mi graffu dipyn yn fanylach, deallais mai cyfansoddi rhywbeth yr ydoedd; a phan fyddai arno eisiau ysgrifennu y llinell, neu yr englyn, plygai un pen glin ar lawr, a chyda phwyntell ysgrifennu ar y pen lin arall. Yr oedd hyn yn arferiad ganddo—pan fyddai yn cerdded hyd y caeau yma, a rhyw feddylddrych yn dyfod i'w ben, plygai i lawr ar ganol y cae i'w ysgrifennu yn y fan. Dyma fel y dylifai y meddylddrychau mwyaf barddonol o'i feddwl mawr ef, ac ni chymerai amser i gynllunio a threfnu—dim ond eu gadael fel talpiau o feini grisialaidd; ac i hyn yma y byddaf fi yn priodoli y lle mawr a gafodd lliaws o'i linellau yng nghof ei genedl. Byddai hefyd yn colli arno'i hun pan ar ganol cyfansoddi rhywbeth. Gwyddoch am yr hanes a ddywedodd ef ei hun wrth Sion Wyn, am dano ei hun, yn myned a'r cawellaidd gwellt medi ar ei gefn i lofft y tŷ, pan alwodd ei fam arno i droi yn ol—mai i'r beudy yr oedd eisiau mynd a'r gwellt medi. Dywedodd wrthyf ei fod, pan yn cyfansoddi ei Awdl Molawd Ynys Prydain, wedi myned gyda'r ceffyl a phwn o yd i Felin

Rhyd-y-Benllig, ac iddo gael ei orchfygu gan yr anianawd yma i'r fath raddau fel y cafodd yr anifail, druan, grwydro am oriau a'r pwn ar ei gefn, ac yntau yn prydyddu. Bum yn meddwl ddarfod iddo ddyfod y fath feistr ar y gynghanedd drwy ymarfer i wneyd y cydseiniaid i glecian. Nis gallaf roddi rheswm arall dros y fath "Hir a thoddaid" a'r un canlynol sydd yn ei "Awdl ynghylch Ysbrydol Gariad;" ac os nad oes ynddo "sw'n cydseiniaid yn clecian," ni wn i pa le i fyned i'w clywed. Dyma fel y mae yr "Hir a thoddaid" yn ei lawysgrifen ef ei hun,—

" O gariad purdad egoriad perdymp,
O gariad haeldad gwiwrad oleudymp,
O gariad iawndad o gred ei undymp,
A gwiwnerth agwedd, ag ni ogwypm;
Rhyfedd agwedd o ddigwypm,—pur gariad
Unduw a glandad iawndeg lawendymp."

Dengys yr ysgrifen mai pan oedd yn ieuanc y cyfansoddwyd yr awdl hon, ond anhawdd meddwl olygu fod unrhyw ystyr i'r fath "gariad," ond fel ymarferiad o'r gallu, a ddaeth wedi hynny mor nodedig ynddo, sef meistrolaeth rwydd ar y cynganeddion. Feallai nad oes trymach prawf i gadarnhau fy sylw, er dangos i chwi mor gryf oedd ei duedd at gynghaneddu, na'r tebygolrwydd ei fod yn feistr ar y gelfyddyd honno bron cyn gallu sillebu yn gywir, fel y dengys ei ddau englyn dan y pennawd "Efan y Bardd,"—

" Fy elfan sydd gyfannedd—at ganu
Teg enwog ei sylwedd;
A thraethaf mewn hoywaf hedd
Yr enwog bur wirionedd.

" A chywir y gwir a gaf—gan Iesu
A'i gynhwysiad doethaf;
A dyfal arno daliaf,
Ag mewn sylw enw fy Naf.—D. O. a'i cant."

E. I.—Yr wyf fi yn teimlo grym y rhesymau a nodwyd gennych, Amaethon. I mi, y maent yn ymddangos yn rhesymol a naturiol; ac ni allaf lai na synnu at eich gallu i gofio. Pâr hyn i mi ddymuno cael gwybod gennych a oes llawer eto o waith Dewi Wyn heb ei gyhoeddi. Yr oeddwn i yn meddwl fod Cynddelw wedi casglu cymaint ag oedd i'w gael i'r *Atodiad*.

AM.—Mae'n wir i Gynddelw chwanegu amryw gyfansoddiadau, ag ydoedd eisoes yn argraffedig yn y cylchgronau, mewn ffurf o atodiad i *Flodau Arfon*; ond y mae llawer eto ar ol. Y mae gennyf fi rai awdlau, carolau, englynion, a phenhillion o'i waith, na ddygwyd, hyd yn hyn, i oleu dydd trwy y wasg; ac wrth ddyfal edrych dros ysgrifau fy hen gyfaill anwyl, y maent wedi llenwi fy nghof, bron heb wybod i mi. Ni wnaethum

ymdrech neillduol erioed i'w dysgu, eto y maent agos i gyd ar fy nghof. Byddaf yn hoff iawn o'r llinellau canlynol a gyfansoddwyd ganddo, ac yr ydwyf yn credu yr esgusodweh fi am eu dwyn gerbron,—

“ Mae dydd ar wawrio, henffych iddo, i ryfel beiddo yn y byd,
Wir dyner Arglwydd da, O! brysis'r dedwydd bryd;
Mae dydd i egor, da i'w ddisgwyl, pan fo'r efengyl anwyl lon
Yn ei gogoniant pur, yn greddfur' ddasear gron;
Addurnawl hafaidd ddiwrnod eilunod oll i lawr,
I'r byd Sabboth, er bod seibiant, rhoi moliant un Duw mawr;
Goris y rhôd y clywir i'r Drindod yn ddi-drai
Ryfeddol gân ddilyth, fydd byth am faddeu bai.
O D'wysog y tangnefedd sydd fyth ar orsedd fainc,
Gan waredigol gôr anfarwol ar bêr dragwyddol gainc;
Ei saint ynghyd heb orffen byd, mewn bywyd glân uwch ben,
Anrhegant i'w fawrhau emynau mawl, Amen.”

TAL.—Mae yr hyn a draethwyd gennych o waith boreuol Dewi Wyn yn dra newydd i mi. Ni fu y fath gyferbyniad erioed rhwng dechreu a diwedd bywyd yr un person, ag oedd rhwng dechreu bywyd Dewi Wyn a'i ddiwedd; oblegid fel yr oedd y naill yn nodedig o obeithiol, disglaer, a firwythlawn, yr oedd y llall bron mor nodedig o dywyll, anobeithiol, ac anffirwythlawn. Yr oedd y bore yn dawel a chllir, ond yn fuan wele ryw elfennau brawychus yn ymgrynhoi, a chyn y nos yr oedd wedi cynhyddu yn ystorm ofnadwy. Bu cyfoeth yn ymddangos unwaith i'r bardd fel gweledigaeth ddisglaer ymlaen, ond cyn y diwedd “rhydodd yr aur a'r arian;” a daethant i bwys fel y plwm ar gydwybod ein cyfaill adfydus.

E. I.—Yr wyf wedi clywed a darllen cryn lawer am yr anhwylddeb a oddiweddodd Dewi Wyn ym mlynnyddoedd olaf ei oes, a'r teimladau rhyfedd ac anobeithiol oedd yn ei feddiannu; ond y mae pob ysgrifennydd fel yn osgoi y pwnc ac yn tynnu llen i lawr dros yr olygfa bruddaidd, fel ag i beri i un gasglu fod llawer i'w ddweyd ar y mater, ond nad oeddynt yn ewyllysio archolli teimladau y byw.

TAL.—Nid oes dim ym mywyd Dewi Wyn ag y mae yn angenrheidiol i un dyn ei gelu, na dim yn ei ymddygiadau ag y dylai neb wrido o'i herwydd; yn hytrach, y mae pob un o'i berthynasau yn ei theimlo yn anrhydedd mawr i gael arddel cyfathrach âg ef. Yr oedd ei ddioddefiadau corfforol yn fawrion yn ddiameu, ac yr oedd ganddo yntau allu mawr i'w desgrifio. Dioddefodd llawer, feallai, gymaint ag yntau, ond ychydig a fu erioed yng Nghymru a chymaint o allu i bortreidiu eu dioddefaint. Y prif gyhuddwr yn erbyn y bardd oedd efe ei hun; oni buasai ei gyhuddiadau a'i waith yn edliw beiau iddo ei hun, ni fuasai neb wedi meddwl dim am danynt erioed—yr unig ystyr iddynt oedd dwysder a diffuantrwydd ei alar a'i

edifeirwch, ac nid ei fod yn fwy pechadur na rhywun arall. Caniatewch i mi, os gwelwch yn dda, ofyn i chwi roddi clustymwrandawriad i'r hyn a ddywed ei gymydog Sion Wyn ar y mater yma.

"Pan oedd gyda mi yn Awst, 1838, digwyddodd fod chwaer imi yn eistedd yn yr ystafell; a chan ei bod ers blynyddau yn goddef poen corff, yn debyg mewn rhyw ddull i'r hyn y cwynai yntau o'i herwydd, efe a droes ati i ymofyn pa fodd yr oedd, a dywedodd,—'Yr wyf yn deall eich bod chwi yn cael seibiant un rhan o'r dydd i feddwl am fyd tragwyddol, ond nid oes llonyddwch i mi am un funud,—yr wyf yn clywed hefyd eich bod gyda chrefydd, ac os oes gennych ryw gymaint o ras, yr ydych yn ddedwydd iawn,—nid oes gennyf fi un wreichionen ar fy aelwyd.' Chwanegai ddwedyd hefyd fod cymaint o ras ag a gadwo ddyn rhag cyflawni un pechod o werth mawr iddo. Anhawdd peidio synnu, wrth ystyried ei fod wedi cael ei ollwng i dybio mor ddrwg am dano ei hun, tra yr oedd ei gyfeillion yn edrych arno fel un o'r dynion mwyaf moesol a hardd eu buchedd yn yr ardaloedd. Dywedodd wrthyf y tro hwn, fod ei anhwylddeb wedi ymosod arno pan oedd o gylch ugain oed, ac hefyd pan oedd yn ddeugain. 'Ond yn awr y mae wedi fy nal,' eb efe."

Wedi hyn, pan o dan yr un anwydau, ac ofnau duon yn ei gylchynu ol a blaen, ysgrifennodd lythyr at John Elias, gan hyderu y gallai gŵr o ddoniau fel efe ei annog a'i gynorthwyo er lliniaru peth ar ddwysder anocheladwy ei dymherau aflonydd. Yntau yn garedig iawn a anfonodd lythyr yn ol; a theimlaf yn ddyledswydd arnaf ddwyn y cyfryw o'ch blaen, heb unrhyw esgusawd dros hynny, amgen eglurhad o natur yr ohe'biaeth, fel y canlyn,—

LLYTHYR JOHN ELIAS.

Fy nghyd-deithydd trallodedig mewn amser,

Derbyniais eich llythyr cwynfanus. Nid oeddwn gartref pan y daeth; pe amgen, buaswn wedi ysgrifennu cyn yn awr.

Yr wyf yn teimlo gwir dosturi atoch wrth ddarllen am boenau eich corff a'ch meddwl; ond nid wyf yn ddigon gwybodus am gorff nac enaid i roddi cynghor addas i chwi.

Yr wyf yn barnu mai afiechyd corfforol yw dechreuad eich anhwyld a'ch poenau; a bod y gelyn diafol yn cymeryd mantais ar wendid eich corff, ac anhwyld eich natur, i boeni a therfysgu eich meddyliau yn ddirfawr; a'r Penllywydd mawr yn goddef hynny i ryw ddiben doeth, er nad ydym ni yn deall ei ddiben yn awr.

Pe gwelai yr Arglwydd yn dda waredu eich meddwl odditan

ormes y gelyn, nid wyf yn amheu na theimlai eich corff lawer o esmwythad a gwellhad yn fuan. Y mae ei allu a'i drugaredd yn anfeidrol. Pwy a wŷr na wna ef hynny?

Nid wyf yn meddwl y dylech olygu eich gofidiau yn *farn* Duw, nac yn ddiferynau o'i lid ef; ond yn hytrach yn *brofedig-aeth* i ryw ddiben doeth. Nid ychwaith am fod eich pechod yn fwy ac yn amlach na phechodau rhai ereill, y mae hyn arnoch chwi; ond y mae dibenion doeth Duw yn guddiedig yn awr,—ar ol hyn ceir eu gweled.

Nid yw yn angenrheidiol i chwi allu pwyso na rhifo eich pechodau mewn trefn i gael eu maddeu. Derbyn pwy bynnag a gredu ynddo ef (sef Crist) faddeuant pechodau yn ei enw ef.

Ni welir yn yr efengyl bod pechodau neb yn rhy aml, nac yn rhy fawrion i gael eu maddeu trwy waed Crist. O! rhowch eich hunan i fyny iddo yn ddibetrusder; ymaflwch arno; ymollyngwch o'ch gafael derfysglyd eich hun; gorweddwch yn dawel wrth ei borth; wrth ei orsedd,—ni chollwyd neb yno!

Golwg trwy ffydd ar drefn rasol Duw yn achub pechaduriaid, ac ar ogonyant person a gwaith y Gwaredwr, a chwalai derfysg a thrallodau eich meddyliau; ie, chwi a gaech orffwysdra ac esmwythyd i'ch enaid, nerthai hyn chwi i ddal cystudd corff yn dawel. Trwy edrych ar y pethau ni welir, chwi a nerthir i edrych ar eich cystudd yr ydych yn awr yn ei deimlo yn drwm iawn, ie, bron yn ormod i'w ddiodef—chwi a nerthir meddaf, i edrych arno yn “fyr ac ysgafn, a godidog ragorol.” Pa faint bynnag yw eich dioddefiadau corfforol, ni pharhant yn hir. Hyderaf y cewch waredigaeth a buddugoliaeth yn fuan. O! na ymollyngwch, ac na lwfrhewch; feallai bod yr amser yn agos y cyfodir chwi “o'r pydew erchyll, ac o'r pridd tomlyd, ac y rhoir eich traed ar y Graig, a chaniad newydd yn eich genau.” Y mae Duw yn “rhoi achosion i ganu y nos.” Ond cenir yn felusach pan wawrio'r bore. Disgwyliwch ronyn bach.

O ran eich achos tragwyddol, dywedaf,—“Nac ofna, cred yn unig.” Y mae yr efengyl yn dal allan Grist a'i gyflawnder. Digon, ie digon byth, i'ch bath chwi, ie, i chwi y mae gobaith wedi ei osod o'ch blaen. Ffowch i gymeryd gafael ynddo. Y mae “cysur cryf yng nghadw i'r rhai hyn!” Er rhodio mewn tywyllwch heb lewyrch, ymddiriedwch yn enw yr Arglwydd.

Gall ein Duw sydd yn llawn gras droi cysgod angau yn fore ddydd. Ond i'ch meddwl gael ei waredu oddiwrth gyhuddiadau a rhuthriadau y diafol; cynheliwch waeledd corfforol yn llawer gwell, ie, cenwch yn y pair cystudd. Deued dydd eich gwaredigaeth ar frys, yw dymuniad a gweddi eich cyd-bererin, &c.

JOHN ELIAS.

FRON, LLANGFN, *Tachwedd* 2, 1838.

Dyma eto lythyr Saesneg a ysgrifenyd gan y bardd at y Parch. Thomas Parry, Bangor, o'r un nodwedd ac adsain a'r llythyr a anfonodd efe at y Parch. John Elias, ond yn ddiethr i chwi. Dyma fel y mae,—

Kind Sir,

GARWEN, Dec. 24, 1839.

I acknowledge your good will and sympathy, and I let you know that I am now under the treatment of one of the London doctors, John Epps by name; and a part of his treatment is to wash myself night and morning with warm water and soap, and after drying it, soaking myself with some lotions. You see I am not backwards in my efforts to save my life. He promises this treatment, with what I swallow, will in six weeks have an effect so as to begin and promise a cure (may it be so). My whole system of nerves is shook and weakened, so that I am full of itchings and agonies, sufficient to hurry a man to commit suicide; the system is kept in this weakness by the blood being impure. That arises from indigestion, the indigestion from a lazy disordered liver, which cannot purify the blood, so to save life for some time the task of purifying the blood is prescribed to the lungs which constantly are labouring in discharging such quantity of mucus and corruption as if in decay, so the vital organs are all as weak and sluggish as the nerves, and worst of all the soul and body being not two but one being, all the faculties of the soul are diminished, all the passions turned out of office, the conscience, the mind and the will perfectly callous. The memory and understanding by God's favour hitherto keep their seats, by which I am enabled to regulate my conduct and manage my affairs; but though acknowledging my duty to thank God for his goodness, yet I am so hard and callous that I cannot thank God, nor feel any affection or sympathy towards God nor man. Happy are you, kind sir, who can derive benefit from medical treatments, and can pray and praise God for his mercies, so that you are blessed again with good will and sympathy towards your fellow creatures, while I labour under a disease, being plainly a sign of the displeasure of God towards me, as the most suitable judgment to be inflicted on me in this life, so that I am an example and a terror to all others, whether they take me to be so or not, for my having lived ungodly and irreligious, without obeying the Creator, nor adhering to the dictates even of nature, providence, nor revelation, though all these dispensations were administered to me in great brightness; but I followed the way of my own deceitful heart, the lust of the flesh, the lust of the eye, and the pride of life, and made wrong use of all the privileges and talent that were laid in my unclean hands, until I brought upon myself rather more by misconduct than by misfortune, this worst of diseases, wherein the body and soul are involved, and made useless to myself, to others, and to God; and have but to suffer my dreadful agonies, itchings, and languor, with a callous heart that cannot pray to God, as expecting daily to be thrown to the everlasting dungeon. All I can do is to recollect my sins and to reflect on my unclean life, to make a cold confession before God, to think of dry and dead words in form of prayer, without the influence or assistance of the Holy Spirit. So I have the strongest marks of a sinner left to himself under the just judgment of the Almighty. I do not know my having committed the sin against the Holy Ghost, which sin is unto death or unpardonable forever, I think rather it is the consequence of my refusing to obey God during my long life, so full of blessings, favours, warnings, corrections, and especially having disobeyed the gospel in almost all respects, though offered to me in great force and brightness. May all men in everywhere pray for me. O! pray for me, who cannot pray for myself.

Yours miserably, D. OWEN.

Should it please God to spare and restore me, I would devote my services to him; and even should my heart endure hard and callous, yet my hands and outward conduct should act according to the laws of nature and Scripture, and should not work for the devil; and should what I could do be not approvable to God who calls for the heart, yet, I do believe I would do some things that might be of blessing and some benefit to men; but alas, I am afraid all is over. I have neglected to do good in the fine time which the good God prescribed.—D. O.

Goddefwch imi chwanegu fod gennyf y pleser o gyflwyno eto i'ch sylw lythyr maith a dyddorol a ysgrifenyd gan y Parch. James Jones, gweinidog yr Anibynwyr yng Nghapel Helyg, at Sion Wyn o Eifion, pan oedd yr olaf yn paratoi at ysgrifennu Cofiant y bardd. Gwn eich bod yn awyddus i glywed rhywbeth o'r newydd ynghylch Dewi Wyn, a chan fod y llythyr crybwylledig wrth law yn bresennol, ac yn adnabyddus i chwi, rhoddaf ef yn gyflawn gerbron,—

FRON OLEU, *Mawrth 25ain*, 1841.

Fy Anwyl Frawd,

Clywais eich bod wedi cael eich pennu i gasglu defnyddiau at Gofiant eich hoff gyfaill Mr. D. Owen—ac os ystyriwch y pethau canlynol, neu ryw ran neu rannau ohonynt yn deilwng o le mewn rhyw gongl o'r golofn goffadwriaethol, wele hwynt at eich gwasanaeth.

Rhagfyr 31ain, 1838, aethum ar neges i'r Betws Fawr, a'r olwg gyntaf a gefais ar yr hen fardd clodwiw Robert ab Gwilym Ddu oedd ei weled yn eistedd mewn modd syn yn y neuadd; a dywedodd wrthyf gyda'r peth cyntaf, fod Dafydd Owen yn gyffrous iawn ei feddyliau yn y parlwr. Gyda hynny, daeth Mrs. Williams, a gofynnodd i mi ddyfod i'r parlwr, fod Dafydd Owen yno yn siarad y pethau mwyaf dychrynlyd. Ceisiais ymesgusodi, gan ddywedyd na fuasai un adnabyddiaeth neillduol erioed rhyngom. "Ah!" ebe hithau, "pan ddywedasoeh y gair cyntaf ar eich dyfodiad i mewn, efe a adnabu eich llais—deuwch ato i'r parlwr." Gyda fod y ddôr yn agor dywedodd wrthyf mewn modd llym, ei fod yn dyall wrth yr olwg arnaf fy mod yn iach, ac heb lawer o ofid meddwl; a dechreuodd ddywedyd yn y modd mwyaf philosophaidd am natur ei afiechyd ei hun, gan dywallt allan ei ymadroddion nerthol er darlunio ei gyflwr gorwael ac anobeithiol. Ar yr un pryd, dywedai wrthyf ei fod yn gryfach o goiff a chynheddfau nag erioed; a chyda hynny ymaflodd yn galed ynnof (ond nid amcanodd fy niweidio) gan ddywedyd ei fod yn ddigon cryf i'm gwasgu nes y byddwn yn seiten. Ar hyn, danghosodd Mr. Robert Williams i mi englyn, a chyda'i fod yn gorffen ei ddarllen, cipiodd Mr. Owen ef, a dywedai,—“Nid yw yn gywir.” “Ydyw, Dafydd Owen.” “Nac ydyw, nac ydyw—mae'r a yna sydd yn y drydedd linell yn ormod.” “Ho, mi welaf,” ebai'r hen fardd. “Fel yna,” ebai Dewi, “y gwnawn a'ch pregeth chwithau pe bawn yn eich gwrando—canfyddwn y sothach mewn munud.” Dywedodd lawer wrthyf y diwrnod hwnnw am ei anheimpladrwydd, &c.; a phan yr oeddwn yn ymadael, dywedodd wrthyf y dymunai arnaf ei gofio mewn gweddi; ond ar yr un pryd,

dywedodd nad oedd yn gwneuthur hynny oddiar deimlad, ond yn hytrach o arferiad. Chwanegai ddywedyd fod mil o ddynion wedi marw er pan ddaethwn yno, a bod *naw cant* ohonynt wedi disgyn i uffern, ac y disgynnai ef yn is na neb yno pe byddai farw yn y cyflwr yr oedd. Ceisiais ei wrth-brofi, gan ddal na byddai yn is na neb yno, ond y rhai yr oedd yn fwy pechadurus na hwynt, ac na chlywswn i erioed air am dano fel troseddwr ysgeler. "O," ebai yntau, "ai dyna y fath bregethwr ydych chiwi? Pa bechodau sydd waeth—gynddrwg ag anufudd-dod i'r efengyl a chybydd-dod?" Yna dechreuodd ddywedyd am y breintiau a fwynhasai. "Gwrandewais lawer ar wahanol enwadau o grefyddwyr yn pregethu yn dda a chyson. Cefais yr hyfrydwch o fod yng nghyfeillach llawer o weinidogion yr efengyl, a phobl dduwiol ereill, mewn gair, cefais bob braint a fydd pobl gyffredin yn gael, ond rhieni crefyddol. O! beth a wna!" Felly gadewais ef y tro hwnnw. Ymhen ychydig wythnosau gwelais ef drachefn, yr oedd y pryd hwnnw yn gorwedd ar ei wely yn y Gaerwen. Wedi i mi fyned i ymyl ei wely, dywedai wrthyf ei fod yn gweled y bobl fyddai yn dyfod i ymweled âg ef fel seraffaid. "A minnau fel un wedi ei osod," medd efe, "mewn tywyllwch yn y dyfnderau." Dechreuodd ddywedyd drachefn am ei anufudd-dod a'i gybydd-dod. Yr oeddwn innau wedi clywed erbyn hynny iddo fod yng nghyfeillach neillduol y Bedyddwyr rai troion cyn iddo gael ei ddal gan yr anhwyldeb trwm oedd arno. "O," ebai yntau, "y gweddill oeddwn fel yn gynnyg wrth wneyd felly." Aethom drachefn i ymddiddan ynghylch cybydd-dod, a gofynnais iddo a hoffai weled y *Mammon*. "O, nis gallaf wneuthur dim âg ef—clywais mai ysgrifennwr nerthol yw'r Dr. John Harries." Dywedais innau fod llyfr Mr. Roberts o Lanbryn-mair wedi gwneuthur i mi gredu fy mod yn gybydd—peth na wnaeth llyfr Harries, er mai ei waith ef gawsai y wobr. "Mae llawer o anghyfiawnder," eb efe, "hefo barnu traethodau. Mae Roberts yn rhy galed i neb ag y gwn i am dano fel cyfansoddwr traethodau. Ond pa fodd yr argyhoeddodd ei lyfr chwi eich bod yn gybydd? Pa un o'r ddau a ddarllenasoch gyntaf?" Un Harries, syr. "Gadewch i mi feddwl pa fodd y bu." Yna cododd yn ei eistedd ar ei wely, a synfyfyriodd am funud neu ddau, a dywedodd ei fod yn meddwl mai gwneyd masgau y rhwyd yn bur fân yr oedd Roberts, a'i fod wrth hynny yn dal cybyddion bychain, ond mai rhwyd at ddal cybyddion mawrion oedd un Harries, yn debyg fel pe gwelech ddyn yn gwau rhwyd i ddal bwystfilod mawrion, a gadael i'r rhai bychain ddianc. Wel, felly yr oedd, yr wyf yn meddwl ebe fi. "Ie, yr ydych yn meddwl i mi gael hyd i'r *secret*?" Do, yn ddiameu, Mr.

Owen. Llonnodd hynny ef yn anarferol, cododd yn ddioed o'r gwely, a dywedodd drachefn ei fod yn meddwl na chafodd Sam chwarae teg yn achos y traethawd ar gybydd-dod. Rhoddodd yntau y darluniadau mwyaf arswydus o'r drwg hwn, a chon-demniodd y pregethwyr a'r personiaid na fyddent byth yn rhoi pregeth yn erbyn cybydd-dod, er fod y natur ddynol mor ddarostyngedig iddo. Dywedais innau mai hunan-elw ym marn llawer o bobl a fyddai mewn gclwg gan bwy bynnag a bregethai yn erbyn cybydd-dod. "O," ebai yntau, "codi'r groes, a phregethwch yn erbyn cybydd-dod nes byddo pawb a fyddo yn gwrando yn arswydo rhag bod yn gybyddion." A chwanegai ddywedyd ei bod yn beth gwarthus fod dyled ar un addoldy mewn un man, ac nad oedd pobl wrth roi at achos Crist ddim yn rhoddi ond fel cardod yn y drws i ddyn tlawd, ac nid rhoddi fel rhoi anrheg i frenin. "Codwch Gymdeithas," medd efe, "yn erbyn cybydd-dod—mi a ddeuaf i areithio yn ei chyfarfodydd, os caf wellhau ychydig." Cefais y waith hon le i feddwl oddi-wrth amryw ymddiddanion fu rhyngom, fod gan Mr. Owen gydwybod dynyr iawn, ac yn neillduol drwy i wraig o'r gymydoggaeth ddyfod i'r tŷ i ofyn cymorth i gael ceffyl yn lle yr un a gollasai. Archodd yn ddioed i Miss C. Davies, ei gyfnither, roddi dau swllt iddi hi. Dywedais innau wrth y wraig am iddi hi alw heibio i mi gartref, ac y rhoddwn innau ychydig iddi. "Beth a roddwch?" ebai efe, wedi iddi ymadael. "Chwech neu swllt," ebe finnau. "Wel," ebai yntau, "bydd chwech i chwi yn llawer mwy na phe rhoddaswn i bunt iddi. O! y fath gybydd ydwyf!"

Ryw dro yn yr haf canlynol, anfonodd ei was i ymofyn am danaf, a phan aethum yno, yr oedd yn gorwedd ac yn ddiobaith iawn yn achos ei enaid. Cefais lawer o bleser nad anghofiaf y tro hwnnw yn ei gyfeillach. Dywedodd wrthyf am y pwys o bregethu yn ddi-dderbyn wyneb; anogai fi i fyfyrion ar ddull Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost. "Hwn a gynerasoch chwi, ac â dwylaw anwir a groeshoeliasoch ac a laddasoch. Pregethau fel hyn a ddwysbigai y gwrandawyr eto." Dywedodd hefyd am bregeth Stephan. Atebais fod effeithiau gwahanol i'r ddwy bregeth. "Yr oedd y nefoedd yn foddlon i bregeth Stephan; dyna'r prif beth." Gofynnodd i mi a oeddwn yn caru y "system newydd." Atebais fy mod yn mawr ewyllysio dyall hen *system* y patriarchiaid a'r proffwydi, Crist a'i apostolion yn well; a'm bod yn rhoddi fy hun yn agored i argyhoeddiad, pa bryd ac yn mha le bynnag y cawn ef. "Nid oes dim i'w ddywedyd yn eich erbyn, ond nid wyf fi wedi dyall yr hyn sydd yn cael ei alw *system newydd*—yr ydych yn dyall fy meddwl, mi wn. Mae ynddi rywbeth hefyd." Y tro

hwnnw darlennais y drydedd bennod o Alarnad Jeremiah hyd ddiwedd y 26ain adnod. Pan ddarlennais hyd y 18fed dywedodd,—“Hyd yma y mae darluniad yn cael ei roi ohonof fi.” Ond darlennais yr wyth ganlynol, a dywedais ychydig wrtho yntau ar eu pwys, am y sylfaen sydd i'r pennaf o bechaduriaid i bwyso ar drugaredd yr Arglwydd yng ngwyneb angau y Cyfryngwr. Wedi i mi godi oddiar fy ngliniau, dywedodd,—“Gwyn eu byd y rhai sydd yn meddu y pethau fuoch yn ofyn.” Bum yn nghyfeillach Mr. Owen droiau wedi hynny, a dywedodd lawer o bethau wrthyf nad anghofiaf, ond yr ydwyf yn ofni fod yr hyn wyf wedi ysgrifennu atoch yn rhy faith i'w osod i mewn yn y Cofiant a amcenir i'r gwron ymadawedig. Yr wyf yn hiraethu am weled y Cofiant wedi dyfod drwy y wasg, gan obeithio y bydd Dewi Wyn, er wedi marw, yn llefaru eto ynddo.

Yr eiddoch, &c.,

JAMES JONES.

E. I.—Druan o Dewi Wyn! Yr oeddwn yn teimlo rhyw iasau oerion yn cerdded fy nghyfansoddiad pan oeddych yn darllen y llythyrau blaenorol. Yn fy myw, ni allaf gredu fod Dewi yn gymaint pechadur ag y mynnai ef ei fod. Atolwg, i ba beth y byddwch yn priodoli y teimladau rhyfedd, a'r iselfrydedd yma oedd wedi ei ddal?

TAL.—Mae yn dda genyf i chwi roddi y ffurf yna i'r gofyniad pwysig hwn. Pe gofynasech i mi pa beth oedd yr achosion o'r anhwylddeb a'r gwahanol deimladau pruddglwyfus cysylltiedig âg ef, buasai raid i mi omedd cymeryd y cyfrifoldeb o'i ateb, ond y mae gennyf fy nhyb; a gallaf, drwy ddarllen gwaith meddygon, ddweyd wrthyf i ba achos y priodolir y teimladau oedd yn cymylu ei feddwl cwmpasog, ac yn llethu ei enaid mawr, yn mlynnyddoedd olaf ei oes. Tebyg mai yr hyn a elwir mewn Meddyginiaeth yn iselder ysbryd (*Hypochondriasis*) oedd ei afiechyd ef a'i frawd, i'r hwn yr oeddynt yn ddarostyngedig fel teulu o du ei fam. Mae achosion y clefyd hwn yn amrywiol, yn codi yn gyffredin oddiar gyflwr gwannaidd a methodig y giau, fel ag i beri i'r claf gredu ei fod yn dioddef o dan ryw glefyd dychymyngol arswydus, neu ei fod yn llawer gwaeth nag ydyw mewn gwirionedd. Mae yn fynych hefyd rannau gweithiol neu swyddogaethol allan o drefn, yn neillduol y rhai cysylltiedig â threuliad ymborth. Yn fynych, mae meddyliau y cyfryw yn eithafol ac afresymol; tybia, feallai, fod ei daldra yn anferthol, neu ei fod yn angyffredin o fychan, ei fod mor drwm a'r plwm, neu mor ysgafn a'r bluen. Bydd ar brydiau yn hynod o ofnus,—yn ofni pethau bychain iawn, a'i ofnau yn ddisail, ac yn peri

iddo fod yn sarrug, afrywiog, a drwgdybus. Yn gyffredin y peth goreu yw tynnu meddwl y sawl fo dan y clefyd hwn gymaint ag a ellir oddiw'rtho ei hunan, ac i'r diben hwnnw dylai gael mwynhau cymdeithas ddiddan a llawen, a chael hefyd newid golygfeydd.

AM.—Mae y sylw yna yn hollol ddesgrifiadol o Dafydd Owen am y pedair blynedd olaf o'i oes, sef wedi ei ddychweliad o Bwllheli i'r Gaerwen,—heb ei fam, heb ei frawd, heb neb ond perthynasau pell, mewn cymhariaeth, i'w gysuro. Yr wyf yn gweled ar unwaith y rheswm pahan yr effeithiodd y symudiad o'r dref i'r Gaerwen gymaint er gwaeth arno, oblegid nid oedd yma ddim tuag at symud ei feddwl oddiarno ei hun, nac unrhyw gymdeithas i sirïoli ei feddwl; ac yr oedd megis yn achub pob cyfle i gydnabod ei ymddifadrwydd,—difrifwch ei ddioddefiadau, a beusrwydd ei ymddygiad pechadurus. Byddai ar brydiau yn coleddu meddwl ei fod yn gryf iawn, gan wneyd prawf o'i nerth a'i bwysau ar braidd bob dyn a ddeuai i ymweled ag ef. Mi a ddarlennais yng Nghoflyfr Eben Fardd yr hanes a ysgrifennodd efe o'i ymweliad â'r Gaerwen, ac â Dafydd Owen; a gwn y goddefwch i mi, gyda boddhad, ddwyn ei gynnwys i'ch sylw chwithau, fel hyn,—

“Medi 8fed, 1838.—Diwrnod hyfryd, cymerais yn fy mhên fyned i ymweled â Dewi Wyn, o Glynnog Fawr hyd i'r Gaerwen; cyfeiriais trwy Lwyn Ne, heibio i Frysgyni, ar hyd y ffordd dros lechwedd y Bwlch Mawr, heibio i Fron yr Erw, i lawr at Hengwm a'r Mynachdy nes cyrraedd Brynengan. Yma yr oedd adgofion fyrdd,

“Yn gwdd tew fel egin had daear,”

yn cyfodi i'm meddwl, oddiar hen gysylltiadau gynt, na byddai eu crybwyll yma o nemawr briodoldeb.

“Prysurais i lawr o'r fan yma, ar hyd llwybr digon adnabyddus i mi gynt, nes cyrraedd Ffordd Newydd Maughan, yr hon nis gwelawn erioed o'r blaen; ymddanghosai fel swyn, trwy rin y cyfnewidiad a wna'i yn yr olygfa, ynghyd â'r effaith ar y teimlad. Rhyw barth noethlwm ac anhygyrch oedd yr ardal o amgylch y Gaerwen yn flaenorol; ond yn awr ymddanghosai braidd fel Dyffryn Llanystumdwy, yn diroedd ffrwythlawn addurnedig â ffyrdd a choed; ymylid y ffordd hon gan irwydd prydferth a deiliog, a'i gwnelai yn rhodfa eang, ysgafn, a phleserus. Yr oedd yn amlwg erbyn hyn fod rhag-ddisgwyliadau y Bardd Gwyn yn 'Awdl y Gweithwyr,' wedi eu sylweddoli, lle y dywed,—

‘Creu a wnewch i'n Caerwen ni
Gysgod rhag dyrnod oerni,’ &c.

“Yn ymyl y Gaerwen croesais glawdd neu ffos y ffordd newydd ar hyd bont bren i droi at y tŷ; curais yn y drws, ac yn ddioed dyma Dewi Wyn ei hun yn agor y ddor, ac yn dechreu dal sylw craff arnaf, a chyda hynny yn estyn ei law i gydymgyfarch; yr oedd yn edrych yn hynod o groesawus, a llonyfarchai fi ar fy ymddanghosiad personol, a'm golwg iachus.

“Dechreuodd, gyda fy mod yn ei ddilyn i mewn i'r tŷ, ddesgrifio ei ddiodefiadau, gydag iaith ddigon cref braidd i ddarlunio poenau uffern. Dywedai fod ei iau (*nerves*) fel yn orlawn o ager neu bowdwr ar ymdorri; ac er ei holl wendid, y gallai gynhyrchu nerth rhyfeddol ac anghyffredin; er prawf o hyn dechreuodd fy ngwthio yn esgud a chyflym, a minnau yn ei wrthsefyll ar agwedd oddefol yn unig heb wthio yn ei erbyn nac ymafyd ynddo; ond nid oedd y dull yma o'i wrthsefyll yn ei foddioni; archai i mi ymafyd ynddo erbyn tu blaen ei gôt, ac ymaflai yntau ynnof finnau yr un modd, fel pe buasem yn 'maelyd codwm breichiau. Wedi trefnu ein hunain fel hyn, ymosodai i'm herbyn â'i holl rym, gan blannu ei draed yn y llawr, a gwthio yn egniol, a minnau, wrth reswm, yn colli tir; er, i'm tyb i, nad oedd ei fawr nerth ond dychmygol. Yna perai i mi ddal fy llaw ar y bwrdd, iddo ef osod ei ben arni; ac wedi pwyso ochr dde ei ben â'i holl nerth ar fy llaw, datganai ei syndod wrth ei bwysau dirfawr, gan ddywedyd y byddai weithiau mor drwm braidd i ddryllio y gobennydd. Dywedai fod pob cysur wedi ei dywallt allan o hono fel dwfr o fowlen a droid ar ei hwyneb. Mynych ddywedai,—‘O? Arglwydd mawr,’ a chyffelyb ymadroddion ebychiadol. Yr oedd teimladau tyner, medd efe, wedi darfod; ni buasai yn cydymdeimlo dim â mi, pe gwelsai fi yn cael fy nhrywanu â chleddyf, er y gwnaethai ei oreu i fy amddiffyn ar yr un pryd.

“Archodd i'r forwyn wneyd tê i mi, a chymhellai fi i aros yno i fwrw y Sul. Ni chymerodd efe dê gyda mi; dywedai mai ei arfer oedd bwyta yn nodedig o brysur, a chymerai damaid i ddangos i mi ei ddull. Ychydig iawn a eisteddai, yr oedd yn naill ai yn cerdded yn ol ac ymlaen, neu yn sefyll yn ystod fy arosiad; daeth allan i'm danfon gan belled a Chefn Pencoed, tyddyn cyfagos. Tra yn sefyll ychydig gydag ef yn y fan honno, cyn ymadael, ac yn bwrw golwg ar y tirwedd amgylchol, sylwais mor ddedwydd y gallasai fod, yn porthi yr awen ym mynues y coed-lennyrch difyr hynny, ond iddo ymddioeg o'i brudd-der a'i anobaith, i'r hyn yr atebai,—‘Pe buasai y lle yn Ardd Eden, ac Adda ac Efa yn rhodianna ynddi fraich ym mraich, nad allai deimlo mohono ei hun funud yn hapus.’ Ar hyn ysgydwasom law ac ymadawsom.”

Fel yna y byddai efe yn ystod ei afiechyd—nid eisteddai ond

ychedig iawn; cerddai o'r gegin i ben draw y parlwr, oblegid yr oedd drws y gegin a drws y parlwr gyferbyn a'u gilydd, gan groesi y cyntedd gyferbyn a drws y tŷ,—cerddodd nes oedd cerrig y llawr wedi eu treulio yn bantiau dyfnion, a phan ddeuai at simdde y gegin, odid na phoerau bob tro i dwll oedd yng nghysylltiadau cerrig yr aelwyd. Ni eisteddai, hyd yn oed i fwyta, byddai ei fwyd ganddo ar ben y bwrdd, a chymerai damaid o hono wrth fyned heibio yn ei daith o'r naill ben i'r tŷ i'r pen arall; fel hyn y porthai deimladau gofidiau ei gorff a'i feddwl, gan fyfyrion yn barhaus ar ei afiechyd a'i bechodau; a phan ymwelid âg ef gan gyfeillion, darluniai ei drallodion gydag iaith ddigon cref i ddarlunio glynoedd niwliog gofidiau, corsydd digalondid ac anobaith, a llyngelynoedd distryw a cholledigaeth.

TAL.—Dechreuais roddi i chwi fy ngolygiadau ar achosion ei brudd-feddyliau a'i anobaith, ac yr wyf yn meddwl y gallaf sicrhau i'r afiechyd gael cyfnerthiad grymus oddiwrth anffodion ei fywyd. Yr ydym wedi cyfeirio mor fynych at ei helbulon cystadleuol, fel na raid ymhelaethu ar hynny eto. Ond chwangeaf ychedig mewn perthynas i'w siomedigaeth, os priodol ei alw felly, pan fwriadodd efe ymuno mewn priodas â Jane Roberts o'r Wern Fawr, ym mhlwyf Llanbedrog. Dyweder a fynner am y personau anhapus ag y mae tyngedfen wedi eu deddfrydu i unigrwydd; er hynny trais ar y natur a wnaed i ymserchu, yw ei darostwng i gaethiwed deddf unfurfiol trist-neillduedd. Addefaf nad oedd y rhwystr a daflwyd (yn anfwriadol fe ddichon) ar ffordd Dewi Wyn yn ddigon o reswm dros iddo droi ei gefn mor swta ar wrthrych ei serch; ond wrth ystyried anibyniaeth ei feddwl uchelfrydig, nid oedd hyn mor ryfedd. Pe buasai tad y ferch yn deall, i ryw raddau, gymeriad y dyn oedd wedi bwriadu dwyn ei hun i gysylltiad âg ef, trwy briodi ei ferch, ni fuasai yn yngan gair am ei eiddo. Gallasai ymddiried y buasai i'r dyn sydd wedi cofio am, a chyfoethogi ei berthynasau hyd y nawfed radd, yn cofio am ei briod, ac feallai ei blant. Y mae dylanwad nodedig gan siomedigaethau o'r natur yma weithiau. Gwyddom am amgylchiadau pryd y cariodd hyn y fath effeithiau nes prysuro marwolaeth y personau. Nis gallir cynhyrchu cariad trwy weithrediad uniongyrchol yr enaid arno ei hun, nac ymserchu wrth unrhyw ddeddf neu reol, onide buaswn yn beio ein bardd am roddi ei fryd ar wrthrych ieuangach o lawer nag ef ei hun; ond yr ydwyf yn credu pe cawsai yr elfen gymdeithasol gref oedd ym mynwes Dewi Wyn, a'i edmygedd cryf o'r rhinweddol a'r prydferth,—pe y cawsai chware teg i ymfurfio yn gyfamod priodasol, a chrynhoi o'i hamgylch holl swynion cartref dedwydd, y buasai meddwl ein cyfaill yn cael ei ddenu i raddau mawr oddiarno ei hun ar ei briod a'i blant. Pwy

fedr fagu pruddglwyf yng nghyfeillach garuaidd priod hawddgar; yn enwedig pwy a fedr achlesu teimladau pruddaidd yng nghlyw ac yng ngolwg chwareuon plant bach iachus a llawen? Anffawd oedd hon, na wyddom amcan ei dylanwad niweidiol ar gyflwr meddwl ein bardd anedwydd.

Rhaid i mi alw eich sylw at un ffaith bwysig ynglŷn â chyflwr adfydus ein cyfaill, sef amddifadrwydd o unrhyw foddion pur ac uwchraddol, fel a geir mewn crefydd,—tangnefedd meddwl, a heddwch cydwytbod. Buasai yn werth mil o fydoedd iddo yn yr adeg yma ar ei einioes; ond nis gallasai efe dynnu ei gysuron o'r ffynhonnell fendigedig yma,—“pechodau,” “euogrwydd,” ac “an-ufudd-dod i'r efengyl,” oedd o flaen ei feddwl yn barhaus. Er prawf o hyn, galwaf eich sylw at lythyr o eiddo Ioan Mai, yr hwn a ymddangosodd yn yr *Herald Cymraeg* lawer o flynyddau yn ol, fel hyn,—

“Oddeutu y flwyddyn 1836, yr oedd gennyf i alw yn nhŷ y diweddar Mr. P. Evans, yr hwn a fuasai argraffydd yr *Awdl ar Elusengarwch* cyn cyhoeddiad cyntaf *Blodau Arfon*; a'r hwn, oblegid ei ddawn awenyddol ei hun, ydoedd hen gyfaill i Dewi. Byddai y bardd o Eifion yn arferol ar ei dro o alw gyda'r argraffydd ac o letya ychydig gydag ef yn eithaf cartrefol. Gwyddai Mr. Evans, er nad oeddwn ond bachgen ar y pryd, y byddwn weithiau yn cylymu ambell bennill. Y tro hwn, pan yn diweddu fy mhryniad yn ei faelfa, gofynnodd Mr. Evans imi a ddymunwn i weled Dewi Wyn. Atebais y byddai yn dda iawn gennyf gael y fraint. Yna dygwyd fi i mewn i'r ystafell tu cefn i'r shop. Yno gwelwn y bardd, a'i law yn ei fynwes, yn cerdded yn ol a blaen yr ystafell mewn anesmwythyd rhyfedd, canys dyna'r pryd yr oedd dan effeithiau y pruddglwyf, am yr hwn y canasai ei fod ei hun odditano yn 'hafal i Saul a Nabal dan sel anobaith.' Wedi fy ngyflwyno i'r bardd, anturiais yn y man adrodd rhyw lun o englyn i gael ei farn arno. Dywedodd yntau yn ei lais main cyflym,—'Dyna ddigon i ddangos fod yr elfen ynnot; ond fy machgen i, cymer fy nghyngor, paid a moedro dy 'fennydd bach â'r fath bethau; porthi balchder a hunan-chwydd ydyw prif effaith barddoni yn gyffredin, ac nid gogoneddu Duw.' Aed ymlaen yn yr ymddiddan, a dywedodd y byddai weithiau yn llwyr ymgolli mewn myfyrdod barddonol, fel ag i anghofio pa orchwyl cyffredin y byddai yn ei gylch; ac odid na chludai faich i'r llofft wair a'wriedid i'r beudy neu ystabl. Ar hyn atebai Evans,—'Pan welir rhyw larp o ddyn swrth a phendwrwm yn myned heibio, clywir y naill edrychyd yn holi pwy tybed allai hwna fod? a'r llall yn ateb, Mae'n debyg i brydydd.' 'Hy! hy!' meddai Dewi, 'cystal a dweyd ei fod yn

debyg i ffwl.' 'Pan yn cyfansoddi cywydd neu awdl,' meddai Dewi, 'fy arfer fyddai gwneyd swrn o linellau gwasgarog, a'u gosod wrth eu gilydd yn y diwedd; ac wrth gyfansoddi unrhyw linell,' eb efe, 'deg i un fyddai imi lwyddo i gorffoli yn llawn y drychfeddwl a amcanwn; rhaid fyddai cymeryd y peth a ganiatai y gynghanedd.' Ond tra bwriai aml feddwl fel hyn yn eithaf rhesymol, caid ganddo adeg arall ymadroddion oeddynt ffrwyth amlwg ei bruddglwyf. 'Mae yn fy mraich,' eb efe, 'y funud hon gymaint o boen, fel y gallwn feddwl, ond ei osod o dan Garn Fadryn y buasai yn ei chwythu i fyny.' Carn Fadryn sydd fynydd mwyaf yn Lleyn. Dywedodd hefyd iddo ddweyd wrth dad i ryw blentyn oedd ar ei ffordd tua Phwillheli, na fuasai yn ddim mwy yn ei olwg ladd y plentyn na thorri gwddf cyw iar. Yr cedd yn gallu adrodd hyn am dano ei hun fel prawf o'r cyfnewidiad rhyfedd oedd wedi ei oddiweddyd dan effaith ei waeledd."

Goddefwch i mi ddwyn ymlaen eto un llythyr tra hynod o eiddo ein cyfaill trallodus, yr hwn a ysgrifennodd efe at ei gar,— y Parch. W. R. Davies, Dowlais, gynt, yn y modd difrifol a ganlyn,—

"O! William!—Dyma fi hyd yn hyn yn lledfyw, ond mewn poenau echrydus, a chyflwr anobeithiol. Bum yn Llundain er ys dyddiau ddau fis yn dioddef triniaeth echryslon gan y meddygon; ond er mor erchyll oedd, nid oeddwn yn teimlo nemor gan fy arteithiau fy hun. Clefyd ydyw a dynnais arnaf fy hun drwy fy mhechodau; ond gallai fod peth gwendid yn fy natur, a'r caethiwed a gefais yn gynhorthwyol i'w ddwyn arnaf. Er fod fy ysbryd yn isel, fel yr oedd fy mrawd dan *Hypochondria*, nid yr un clefyd sydd arnaf fi ag oedd arno ef. Yr ydym yn hynod o anhebyg i'n gilydd; ond meddwl yr wyf ei fod ar bob un o honom, yn neillduol arnaf fi, mewn ffordd o felldith neu farn gyfiawn Duw am fy mywyd pechadurus a digrefydd, diogoniant i Dduw, a difudd i ddynion; ie, yr wyf yn meddwl y bywyd gyda'r melldigedicaf a arweiniodd un o hil syrthiedig Adda, er dyddiau y cwmp. Erbyn i mi graffu ac ystyried, yr oedd fy mywyd, yr hwn oedd ddiffrwyth a drwg iawn mewn rhai pethau yn gyhoedd, ond yn anghymarol ddrwg yn y dirgel; ac felly, wrth wasanaethu fy chwantau twyllodrus, eiddo'r cnawd, y llygad, a balchder y bywyd, mi a fegais glwyf ac anhwylder, ag sydd yn farn dra chymwys ar fy nghorff a fy enaid; ac yn lle bod yn awr yn ogoniant i Dduw, yn lles i ddynion, ac yn harddwch a dedwyddwch i mi fy hun, dyma fi yn syndod ac yn ddychryn i bawb y ffordd yr elwyf, mewn poenau

corfforol anhraethadwy ddydd a nos, fy enaid wedi ei galedu, neu ei nwydau wedi eu cloi neu eu carcharu, fel na fedraf na chashau na charu na Duw na dyn,—ni fedraf dosturio na gresynu pe gwelwn filiwn o bobl yn cael eu malu neu eu llosgi yn fywion,—nid oes gennyf ddim peth tebyg i gydwybod,—ni fedraf deimlo euogrwydd nac edifeirwch am y pethau hyllaf a gyflawnais erioed, ni fedraf weddio dim am faddeuant er gwneyd miloedd o gynhygion egniol felly yn galed ddideimlad; yr wyf yn disgwyl i angeu ar fyr fy nhrosglwyddo o boenau amserol i boenau bythol; y mae drwy fy nghorff boenau o ddirdyniadau ac ysfaau anoddefol, digon i rwygo Behemoth a brysyru dyn i'w ladd ei hun, pe bai yn cael ei demtio i hynny. Yr ysfaf fwyaf sydd yn fy lwyn deau, a fy iau; yr iau yn wan, yn afiach, yn methu puro y gwaed, feddylw'n, yw gwreiddyn yr afiechyd. Ni wn beth yw chwant bwyd mwy na phren, er ys blynyddau, eto byddaf yn rheibio bwyd yn dra hyllig. Y mae yr anadl yn fyr a gwan iawn, a'r ysgyfaint yn carthu yn ddibaid, fel mai rhyfedd nad yw yn *decayo*. Cefais ugeiniau a channoedd, debygwn, o deimladau ofnadwy o boenus, yn dangos gallu, doethineb, a chasineb Duw at bechod, y rhai nid oes enwau na rhif arnynt. Pe buasai i'r fath beth ag im gael adferiad, meddylw'n y troiswn i gyd yn dafod ac yn ysgrifell i rybuddio dynion na phechont fel y gwnaethym i, a thynnu uffern arnynt eu hunain yn y byd hwn. Oni bai y caledwch sydd ynnwyf, byddwn yn sicr o ymfalu mewn gwallgofrwydd o herwydd fy mhoenau a'm hanobaith. Y mae fy nghaledi a fy anedwyddwch yn anhraethadwy, ac y mae yn rhyfeddach gennyf fod y Bod mawr yn fy nal yn fyw dan fy mhoenau, na'i fod yn dal y bydoedd. Nid wyf yn gwybod imi bechu y pechod anfaddeuol; tebycach gennyf i mi fyned drwy y fath gylch o freintiau a goruchwyliaethau, claddu a chamddefnyddio pob talent a braint, fel y rhoddodd Duw fi yn hollol i fyny, a hynny drwy ollwng clefyd arnaf sydd yn gwneyd dynion fel hyn, diwedd y rhai yn aml yw hunanladdiad. Nid oes fodd i mi farnu yn sicr ac yn iawn am danaf fy hun. Yr wyf yn oleu a chadarn fod gras Duw ac aberth Crist yn fwy na digon, a gallu santeiddiol yr ysbryd yr un modd ar gyfer fy nhrueni; ond yr wyf wedi colli yr ysbryd hwnnw yn llwyr, ac hefyd wedi colli fy ysbryd fy hun. Hefyd, nid oes gennyf duedd at nemor o bechodau er ys talm; ond os teimlaf duedd, cydsyniaf â'r demtasiwn yn lled hawdd. Nid oes ynnof ddim cythreuldeb nac aflawenwch; ond fel yr oedd fy mynyd yn fwy anuwiol nag y meddyliodd neb, felly yn awr y mae fy mhoenau a theimladau didduw fy ysbryd yn filiwn gwaeth nag y medr neb feddwl; er na fedraf weddio, byddaf yn oeraidd ofyn i arall weddio drosaf, gan nad wyf yn hollol sicr pa beth yw diben yr

Arglwydd; ond hyn a wn, na fyddai yn rhyfedd yn y byd iddo fy ngyrru o'r byd i uffern yn y modd echryslonaf, ond y byddai yn rhyfeddod pe cawn waredigaeth i gorff neu i enaid. Bu llawer o bobl deallus yn ymddiddan â mi; ni ddaw o hyd ond yr un geiriau truenus o'm genau. Mae llawer yn ceisio gweddio drosod, ond heb yr arwydd lleiaf fod Duw yn gwrando. Gweddia dithau, da William, ac na fydded ormod gennyf ymprydio diwrnod; ond na wna heb ofn mawr i'r Duwdod ddangos anfoddlonrwydd arnat, canys dichon na weddiwyd dros ddyn erioed a ddigiodd Dduw mor noeth a pharhaus ag y gwnaethum i dan y fath orchwyliaethau ac amgylchiadau. Yr wyf yn llwyr fethu diolch i Dduw am nad wyf yn uffern, neu yn berffaith wallgof ar y ddaear. Er na fedraf gydymdeimlo a thosturio, byddaf yn gwneyd rhai gweithredoedd da, megys elusennau. Mae y cof a'r deall yn cadw eu lle ynnwyf; wrthynt hwy, ac nid wrth y nheimladau, yr wyf yn rheoli fy ymddygiadau a'm hachosion, &c. Mae bod y nwydau dynol heb weithredu ar wrthddrychau, &c., yn fath o uffern i enaid dyn, pe na byddai poenau corff arno.

"Yr wyf yn meddwl, gyda llawer o reswm a phwyll, fy mod wedi dioddef eisoes fwy o boenau corff a meddwl nag ond odid lawer o filoedd o ddynion a fuont feirw; mae hyn, mae'n debyg am i mi edrych mor ddideimlad ar fy mrawd, a fy mam, cyhyd o amser mewn poenau cyffelyb. Y mae fy *nervous system* yn berffaith wallgof drwy fy holl gorff; ni all fod llawer o anrhefn neu anhymer ar yr ymennydd, canys y mae fy enaid ymresymiadol yn ei drefn, ond fod yr enaid hwnnw wedi colli galluoedd y nwydau; ni fedraf garu fy nghymwynaswr na chashau fy niweidiwr, &c. Yr wyf yn meddwl mai yr anhrefn a'r anhymer arteithiol a gwallgofus sydd yn yr iau, yng nghyd â pheth gwendid ar ryw ran o'r ymennydd, ond odid, a wnaeth i'r nwydau golli eu defnyddioldeb. Dywedai yr hen philosophyddion mai yr afu yw sefyllfod cariad. Mae y rhai diweddar yn gwadu hynny, ond y mae fy nheimladau i yn peri i mi feddwl fel y cyntaf. Yr wyf yn sicr, yn fy meddwl, fy mod yn deall trefn yr iachawdwriaeth fawr trwy Grist, cystal a'r Apostol Paul, eto yn golledig dragwyddol, yng ngolwg y fath arddigonedd, am i mi ei hesgeuluso, a charu pechod; colli ugain mlynedd o oes ddedwydd yn y byd hwn o amser llwyddiannus a gogoneddus; colli llawenydd y nef yn dragwyddol; colli cymdeithas saint, engyl, sereiff, a cherubiaid, a'r Personau Dwyfol am byth; ennill damnedigaeth, lliid Duw hollalluog, yn fwyaf fy nghosp a'm cywilydd o'r holl ysbrydion drwg. Nid oes gennyf un arliw, braidd o obaith, y caf adnabod fy Nghreawdwr byth, ond yn ei ddigofaint; na'i ogoneddu ond drwy ddamnedigaeth. O galedu! O galedu! O galedu!—D. OWEN."

E. I.—Yr wyf yn dra diolchgar i chwi am y sylwadau a ddyfynasoch ar natur yr anhwylddeb yna, onide buaswn yn dueddol i gredu Dewi Wyn druan am ysgelerder ei bechodau, a'i euogrwydd mawr. Mor dda mai i'r afiechyd yr ydym i briodoli yr holl erchylldra ar fywyd ac ymddygiadau y bardd, ac nid am eu bod yn briodol iddo ef ei hun. Mae hwn yn rheswm digonol dros y cwbl.

AM.—Byddwn yn meddwl weithiau ei fod yn yr anhwylddeb yna yn ymylu ar wallgofrwydd. Yr wyf yn cofio clywed ei gefnder yn dweyd eu bod wedi myned allan o Gricieth i forio mewn cwch, gan obeithio y buasai hynny yn effeithio rhywfaint yn ffatriol ar anhwylddeb Dafydd Owen; ond cawsent gryn helynt gydag ef; dywedai bethau echrydus, a mynnai iddynt ei fwrw o'r cwch i'r môr, fel yr elai o'r byd hwn trwy farwolaeth ddisymwth a thawel; a da oedd cael y lan, ond ni chlywais iddo erioed dybio fod neb am ei niweidio, na chwaith iddo amcanu niweidio ei hun.

Rhag blino ein hunain â meithder, ac fel y gallom gadw ar ein llwybr, gwell peidio dwyn chwaneg o'i llythyrau ymlaen, oblegid yr un adsain resynus a'r llythyrau a glywsom eisoes a gynhwysant braidd o'r dechreu i'r diwedd; gan hynny, symudwn rhagom, a gwnawn oreu y gallom.

E. I.—A beidia hyn dorri ar gwrs cysylltiadol yr hanes? Ffeithiau yw ffeithiau, a pha beth bynnag a ddichon fod yn wir hanes ein henwogion, mae yn iawn a phriodol ei achlesu, fel yr ydoedd mewn gwirionedd. "Paentiwch fi fel yr ydwyf," ebai Cromwell wrth ei arlunydd. "Paentiwch fi fel yr ydwyf, gyda'm holl greithiau a'm diffygion." Credaf fod gan Dewi Wyn hawl i'w hanes fel yr ydoedd mewn gwirionedd, ac nid fel arall. Gan hynny, yr wyf yn awyddus am i chwi drafod ei hanes yn fanwl, ac nid yn wasgarog. Yr wyf yn methu deall pa fodd yr oedd ei feddwl yn parhau mor derfysglyd, a'i gyflwr mor anobeithiol, ac yntau yn coleddu syniadau mor dyner, parchus, a dyrchafedig am Dduw, ac yn ol ei addefiad ef ei hun, "yn deall trefn yr Iachawdwriaeth fawr trwy Grist cystal a'r Apostol Paul."

TAL.—Ni allaf lai nag amlygu fy nghymeradwyaeth i'ch syniadau. Chwi a wyddoch fod gwahaniaeth dirfawr rhwng credu gwirionedd fel ffaith, a medru ei sylweddoli yn y meddwl. Yr ydym yn credu y medr Duw faddeu, fod yr iawn yn ddigon rhinweddol, &c.,—gallwn gredu gwirioneddau fel yna, heb brofiad o dangnefedd yn y fynwes. Credai Dewi Wyn yr oll, ond yr oedd yn methu a'u sylweddoli na'u mwynhau. Gwyddoch fod rhyw ddsbarth o ddynion syml, agored i gredu yn dawel bopeth a glywant, yn teimlo mwy nag maent yn ei

feddwl; cymerant i mewn feddylddrychau gyda rhwyddineb, a gollyngant eu gafael ohonynt mor rwydd a hynny. Maent yn derbyn argraffiadau trwy gyfrwng eu teimladau, y rhai ydynt gryfach ynddynt na'u hamgyffredion. Ni chymer y dynion hyn mo'r drafferth i chwilio drostynt eu hunain—cymerant ffurf o grefydd—credant, a gwnant y cwbl yn unol â'r cymhelliadau cryfaf a ddigwydd ddylanwadu arnynt.

Mae dosbarth arall o alluoedd meddyliol cryfion, na allant byth ymorffwys nes cael gafael ar sicrwydd, na theimlo'n ddedwydd tra byddo yn ddichonadwy iddynt gamgymeryd. Profant bopeth, a phan gredant rywbeth, credant ef â'u holl enaid; ac y mae mor hawdd dadwreiddio yr enaid ei hun, a dadwreiddio argyhoeddiadau y bobl hyn.

Perthynai Dewi Wyn, o ran nodweddiad ei feddwl, i'r dosbarth olaf a nodwyd. Yr oedd tywyllwch yn ymgrynhoi o amgylch yr hyn a wasgai ar ei feddwl yr adeg yma o'i fywyd. Pan yn ieuanc a heini, yr oedd pethau eraill yn dwyn ei fryd,—ymddifyrrai yng nghyfeillach ei awen falch a goludog, yr hon a addawai ei ddyrchafu i'r safle uchaf, o ran anrhydedd, yng nghyfrif ei genedl,—cynhyddai o ran ei olud,—teimlai y swyn hwnnw mewn cyfoeth ag sydd mor effeithiol i ddenu y meddwl ac i dynnu allan ymadferthoedd yr enaid; ond wedi hyn cyfarfyddodd â siomedigaethau, diflasodd ei feddwl i ddilyn ei awen, trodd ei aur a'i arian i losgi ei gnawd ef fel tân. Ol a blaen, nid oedd ond peryglon a thrueni; ac nid oedd waredigaeth i'w chael iddo yn y byd hwn, na'r un a ddaw. Yr oedd yn ddyn o argyhoeddiadau cryfion a dyfnion iawn, ac wedi gwrando yr efengyl gan lawer o bregethwyr goreu Cymru, ac nis gallai hynny lai na phentyru marwor tanlyd ar ei gydwybod, nes teimlo o hono ei losgfeydd. I ddilyn ei hanes ymhellach, gadewch i ni glywed tystiolaeth ddiarnheul ei gyfaill Sion Wyn, fel hyn,—

“Daeth i ymweled a mi yn nechreu mis Ebrill, 1839, a'i was gydag ef, a dywedodd wrthyf yn fuan mai ei brif neges yn ymweled a mi oedd i erfyn arnaf ei gofio yn aml o flaen gorsedd trugaredd. Siaradodd yn Saesonaeg am hanner awr neu fwy, gan ddarlunio gofidiau ei gorff a'i feddwl yn y modd mwyaf grymus. Eisteddodd y tro hwn cyhyd ag y darlennodd Awdl Marwnad Griffith Williams, neu Gutyn Peris, yr hon oedd y pryd hwnnw newydd ymddangos yn y *Gwladgarwr*, a darlennodd hi hefyd gyda gradd lled fawr o ganmoliaeth. Dywedais wrtho ryw bryd yn ysbaid yr amser y bu gyda mi y tro hwn, y buasai yn dda gennyf fi ac amryw eraill, pe buasai yn ysgrifennu hanes ei fywyd. I hyn yr atebodd,—‘I ba beth yr ysgrifennwn i fy hanes, nid oes gennyf ddim ond pechu i son am dano; ni

ewyllysit tithau ddim i mi bechu mwy.' 'Da gennyf feddwl fy nghyfaill anwyl,' meddwn innau, 'nad oes fodd i ti fod yn anedwydd mewn byd arall, fel yr wyt ti yn ofni.' Gofynnodd paham yr oeddwn yn tybied hynny. 'Y mae yn ymddangos i mi,' meddwn, 'dy fod yn meddu y fath barch i Dduw, fel ag yr wyt yn ofni ysgrifennu dy hanes rhag y byddai i ti drwy hynny bechu yn ei erbyn. Nid yw neb a'r cyfryw deimladau ganddo ddim yn debyg o fod yn dioddef byth o dan wg ei Greawdwr.' 'O,' ebai yntau, 'golwg ar y gosb sy'n peri i mi ofni pechu,—nid felly mae dyn duwiol.'

"Ar giniaw, digwyddodd i mi gyffwrdd, yn ein hymddiddan, â rhai o'r pynciau crefyddol y dadleuir yn eu cylch yn fynych yn ein gwlad. Sylwodd yntau gyda'i fywiogrwydd arferol, 'Mae y Beibl,' ebai, 'yn ymddangos fel pe bai yn ddwy ran. Gellid meddwl weithiau wrth ei ddarllen mai Arminiaeth a fydd, bryd arall mae'n Galfiniaeth, ond Calfiniaeth sy'n pwyso. Pan y mae Duw yn galw pechaduriaid, gellit feddwl fod Arminiaeth yn myned ymlaen, ond pan y mae Efe yn achub ei bobl mae Calfiniaeth yn dyfod i mewn; ac os gofyn rhyw un pwy ydyw'r Calfiniad mwyaf, dywed mai Duw; oblegid nid oes neb ond efe yn deall ei arfaeth a'i drefn ei hun yn berffaith'

"Galluogwyd fi i ymweled âg ef ym mis Awst, y flwyddyn hon. Ymddanghosai yn drist a difrifol iawn. Cwynai yn dost o herwydd anhwylddeb, a darluniai mewn gwahanol ddulliau cyffrous, y modd yr ydoedd yn ei farn ef, wedi treulio ei amser yn ofer, ac mor amddifad ydoedd o heddwch meddwl a chysuron gobaith. Nid eisteddodd am gymaint a munud yn ysbaid y tair awr a hanner y bum gydag ef; a dywedodd wrthyf y byddai yn cerdded deng milldir ar hugain bob dydd ar hyd llawr y neuadd. Dywedodd wrthyf y tro hwn na buasai erioed mewn Ysgol Sabbothol, a bod y meddwl am hynny fel briw saeth yn ei fynwes. Deallais fod amryw bethau neillduol yn blino ei feddwl; ac ymhlith pethau eraill, fod yr Araith Satanaidd, a ysgrifennodd, ac a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ol, yn achos o ofid i'w deimladau; ond dywedodd ar yr un pryd, ei fod yn tybied pan y cyhoeddwyd hi, y buasai yn bechod iddo beidio gwneyd hynny.

"Yn Chwefror, 1840, anfonodd lythyr helaethlawn ataf, ag anrheg fel amlygiad ei fod yn cofio am danaf. Yn hwn y mae cryfder ei alluoedd a'i fedrusrwydd i ddarlunio ei boenau a'i deimladau yn yr iaith mwyaf grymus a deffrous yn ymddangos yn dra amlwg; ac anhawdd yw peidio wylo wrth ei ddarllen, wrth feddwl am y cyflwr tywyll, anedwydd yr oedd ynddo, ynghyd â'r dychrynfeydd a'r gloesion o anobaith a wasgent arno mor drwm a pharhaus. Yn niwedd y flwyddyn o'r blaen, yr oedd wedi bod yn Llundain, i'r diben o ymgynghori â'r physyg-

wyr ynghylch ei anhwylddeb; ond ofer a dileshad fu'r daith hon iddo; ac yn y llythyr a grybwyllais y mae yn cwyno oherwydd 'y driniaeth galed a chreulawn' a gawsai tra bu yn aros yn y brif ddinas. Bum gydag ef y flwyddyn hon yn Awst a Medi, ac ar y ddau dro hyn yr oedd yn gorwedd yn ei wely. Yn Awst ymddanghosai mor anedwydd, neu yn hytrach yn fwy anedwydd a chyffrous ei deimladau nag y gwelwn ef erioed,—dywedodd nas gallai garu na Duw na dyn, ac nas gwyddai ef am neb a aethai mor bell yn ffyrdd pechod ag ef. Ar ei waith yn beio ei hun oblegid cybydd-dod, dywedais er mwyn ceisio ei gysuro, fy mod wedi clywed y dydd hwnnw am amlygiad neillduol o'i haelioni. Ar hyn, cyffroes yn fawr, a dywedodd,—'Nid yw yn ddim gennyf fi pa beth a ddywedo eraill, mi wn i beth ydwyf yn well nag y gwyddost ti na hwythau; mae gennyf ti dosturi, feallai, ond heb arian; ond y mae gennyf fi arian, ond nid oes gennyf dosturi.'

"Amlwg yw fod y dyb hon yn cael ei meithrin ganddo oddiar ddyrswch ei ddychmyg gyda golwg arno ei hun; oblegid y mae profion digonol ei fod wedi dangos haelioni neillduol tuag at y tlawd, yn enwedig yn y pedair blynedd olaf o'i fywyd. Wrth weled y forwyn yn paratoi pethau mewn modd trefnus tuag at gynnal natur, cymerais gyfle i amlygu yr hyfrydwech a deimlwn wrth feddwl fod Rhagluniaeth wedi ei amgylchu â'r fath lawnder o gysuron yn ei adfyd trwm; ond nid oedd yn cymeradwyo y sylw hwn, ac atebodd,—'Yr wyt ti wrth ddywedyd fel hyn, fel pe hait heb weled trugaredd Duw tuag atat ti, na barn Duw tuag ataf finnau; onid ydwyf wedi dywedyd lawer gwaith nad ydwyf yn gallu mwynhau dim o'r pethau sydd gennyf? Yr wyt ti yn gallu mwynhau dy gysuron, er dy fod yn gystuddiol; a byddaf yn dywedyd yn aml, pe gallwn fwynhau Duw a dyn fel tydi, y byddwn yn foddllawn i aros yn yr ystafell hon, heb fyned allan o honi tra byddwn byw.'

"Ymwelais âg ef drachefn ym mis Medi, a dyma y tro olaf y gwelais ef. Yr oedd yn lled dawel a digyffro y diwrnod hwnnw o ran ei deimladau, ond yr un oedd ei feddyliau mewn perthynas i boenau ei gorff, ac ansawdd anobeithiol ei gyflwr ysbrydol. Adroddodd wrthyf y waith hon y modd y dechreuasai ei salwch a'i bruddglwyf trwm, ynghyd â'r effaith ryfedd a wnaethai ofn angau ar ei gorff. Sylwodd fel yr oedd yr Arglwydd wedi llwyddo ei ymdrechion yn rhyfedd braidd ymhob peth. 'Ceisiais gasglu arian a myned yn gyfoethog,' ebai, 'a llwyddais yn rhyfedd yn fy amcan, ond ofer fu'r cyfan,—er cael gallu i dyrru golud, yr wyf yn hollol amddifad o allu i fwynhau dim a feddwyf.' Sylwodd hefyd ei fod wedi ceisio myned yn brydydd, a'i fod, fel y gwyddwn, wedi bod yn fwy llwyddiannus na'r cyffredin

yn ei ymgais. Ond yr oedd yn dra amlwg fod ei enwogrwydd yn hyn, yn gystal a'r cysuron a'i cylchynai, yn ymddangos yn hynod o wag a diwerth yn ei olwg y pryd hwnnw. Siaradodd yn dawel am ei anhwydebydd y tro hwn, ac amlygai wybodaeth lled helaeth mewn perthynas iddo yn ei wahanol raddau. Adroddodd hefyd ei farn am amryw awdwyr a chyfansoddiadau llenyddol; ond nid hir yr ymddiddanai am unrhyw beth heb a'w fy sylw at ei sefyllfa anedwydd, fel un ag yr oedd gwg Duw arno yn ol ei dyb ef. Hoff iawn oedd gennyf ei glywed yn dywedyd fod Gair Duw, a'i drefn ryfedd i achub pechadur trwy farwolaeth Iesu, yn ymddangos mor oleu i'w feddwl ag y buasant erioed, eto cwynai nad oedd yn gallu tynnu un cysur oddiwrthynt. Cymerais innau gyfleusdra ar hyn i amlygu yr hyder a deimlwn fod gan yr Arglwydd feddyliau o heddwag ato, ac y byddai iddo cyn hir, ar gyfrif y Cyfiawn a aeth i le yr anghyfiawn, adferu cysur a thangnefedd i'w enaid. Yr oeddwn wedi gwneyd sylw tebyg i hyn ryw bryd o'r blaen wrtho, ac ymddanghosai y dywediad y dydd hwn fel pe buasai yn pelydru gradd o sirioldeb i'w feddwl, ond yr unig beth a ddywedodd ydoedd, nad oedd hyd yma ond ychydig le i obeithio am hynny. Deallais cyn ymadael âg ef y dydd hwn, fod gweddio ar ei ran, ac yn ei glyw, yn gweini gradd o hyfrydwch i'w enaid, er y dywedai nas gallai weddio ei hun, er ymgais yn fynych i wneyd hynny. Ymadewais âg ef gyda theimlad o bryder dwys ar ei ran, ond nid oeddwn mewn un modd heb obaith cael ei weled drachefn.

"Galluogwyd ef yn ol hyn i symud o'r gwely, ac i fyned oddi-amgylch yn ei *gig*; ac yn niwedd y flwyddyn hon yr anturiodd cyn belled a Dublin; ond nid ydys yn deall i'r daith fod o un lles iddo. Gŵr ieuanc parchus o'r gymydogoeth, sef Mr. John Owen, o'r Gwyndy, oedd ei gydymaith y tro hwn."

Nis gallaf derfynu ein hymdrafaeth â'r mater tywyll hwn yn well na thrwy ddarllen o'r *Traethodydd* yr ymadroddion grymus canlynol,—“Beth a ddywedir am sefyllfa bruddglwyfus ei feddwl tua diwedd ei oes, pan oedd golygfeydd anian yn methu a chreu bywyd yn ei ysbrydoedd? Yr ydym braidd yn ffael a pheidio colli dagrau wrth feddwl am dano y pryd hyn, pryd yr ymddanghosai y gerddi mwyaf paradwysaidd iddo yn anialwch, a'r blodau mwyaf telaid a dyfai ynddynt yn chwynogl. Ystyriai adeiladau gorwychaf anian yn garcharau i'w enaid. Tybiai wrth syllu ar ogoniant y Wyddfa, fod gwg ar ael ei holl glogwyni. Curai ei draed yn erbyn y creigiau geirwon wrth gerdded ar hyd y llwybrau dymunolaf. Troai ffrydiau Castalia yn ddyfroedd Mara yn ei wefusau; a chredai weithiau fod hyd yn oed yr ymadrodd am y groes yn arogl

marwolaeth iddo. Byddwn weithiau yn dychymygu clywed creigiau Eryri yn adsain i'n clustiau yr ymddidanion prudd-glwyfus a gymerai le rhyngddo ag ef ei hun yn eu clywedigaeth. Rhedai yr ymgomiad yn ol y dull anobeithiol a ganlyn,— 'Crewyd popeth gan Dduw ar y dechreu ar agwedd siriol a hyfryd; ond trwy lygredd fy nghalon i trowyd yr heulwen oedd uwch fy mhen yn gwmwl crogedig. Beth all fod yr achos na bawn i yn mwynhau rhan o'r dedwyddwch cyffredinol a wasgerir mor helaeth ar hyd wyneb y ddaear? Rhaid fod y bydysawd a'i Grewr yn anghymodlawn â mi. Ym mha fan, a pha fodd, y gellir adeiladu pont i groesi y gagendor sydd rhyngom? Ac os ydyw amser yn paratoi cymaint o anhawsderau ar fy ffordd, beth am y peryglon a'r dychrynfeydd all fod yn fy aros yn nyfnderoedd tragwyddoldeb? Os lluchir fi mor anhrugarog gan siomedigaethau ac ystormydd y fuchedd bresennol, beth all fod yn fy aros yn y byd a ddaw? Pa fodd y gallaf gredu y try y goruchwylion doeth, ond chwervon, hyn yn y diwedd, yn fuddiol i'm codi o'm sefyllfa druenus? A pha fodd, uwchlaw popeth, y gellir dwyn telpyn mor afuniaidd a mi ar ddelw ddisglaer Mab Duw?' Ni cheisiwn ateb y cwestiynau hyn yn awr. Gobeithiwn, Dewi, i ti weled y cymylau a'r tywyllwch a amgylchynai orseddfaine dy Dad wedi eu gwasgaru gan danbeidrwydd Haul Mawr y cyfiawnder."

E. I.—Y casgliad naturiol i mi oddiwirth yr âdroddiadau blaenorol yw, mai ychydig iawn o gynnydd y mae yr hyn y gellir ei galw yn feddyginiaeth feddyliol wedi ei wneyd hyd yn hyn. Y mae gwybodaeth o ddeddfau natur a'r cyfansoddiad dynol wedi galluogi meddygon i wneyd cynnydd enfawr mewn physigwriaeth. Ond tra yn deall y corff yn llawer gwell, ymddengys ein bod mewn cymaint o dywyllwch ag erioed gyda golwg ar ddeddfau y meddwl. Nid yw dyn eto yn deall meddwl dyn, nac wedi darganfod y moddion goreu i ddylanwadu arno er gwella yr anhwyldeb ac adferu yr ynni meddyliol. Fel y mae'n hysbys, er ymdrechion llawer o'r meddygon glewaf, llithrodd Dewi Wyn, rhwng eu dwylaw, yn gorfforol a meddyliol mor bell i afaelion y cywair lleddf, nes suddo i fôr y gorffennol a nofio ar gefn llifeiriant i hafan lle nad oes neb yn dychwelyd yn ol. Druan o Dewi Wyn! Hoffwn, os yn bosibl, gael rhagor o oleuni ar y llinell grefyddol a berthynai iddo, gan fod yr elfen yma, yn ddiâu, yn meddu rhan bwysig yn ei hanes, yn enwedig yn ei ddyddiau olaf, os nad yn fanwl, rhoddi y prif ffeithiau, neu gymaint o'r mater a ystyriwch yn angenrheidiol a buddiol.

TAL.—Mae eich sylwad olaf yn dwyn ar gof i mi gynnwys llythyr a anfonwyd gan Mr. Rowlands, pregethwr gyda'r

Bedyddwyr Neillduol ym Mhwllheli, at Sion Wyn, o'r hwn y gwnelai ddefnydd yn y Cofiant Gwreiddiol, i'r perwyl yma,—

“Ymddengys oddiwrth lythyr Mr. Rowlands, ddarfod iddo (Dewi Wyn) ddyfod unwaith i gyfarfod wythnosol a neillduol y Bedyddwyr, yn eu haddoldy ym Mhwllheli, a hynny fel y tybir tua diwedd y flwyddyn 1837. Dywedodd yn fynych ar ol hyn, medd Mr. Rowlands, mai ei ddiben yn dyfod yno oedd ymofyn cyfarwyddyd ynghylch y man priodol i gael esmwyth-had neu ymward oddiwrth y baich o anedwyddwch truenus, a dan yr hwn yr oedd yn parhaus oddef. Bedyddiwyd ef ym mis Mai, 1840, ar ddydd gwaith—y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, yn lefaru am ychydig ar natur yr ordinhad, a'r Parch. Enoch Williams o'r Garn yn ei gweinyddu ym mhresenoldeb ychydig o gyfeillion a theulu y tŷ. Ymddengys hefyd iddo, ar brydnawn Sabboth yn niwedd y flwyddyn hon, gyfranogi o Swper yr Arglwydd, gydag ychydig o aelodau Capel y Beirdd, a hynny yn ystafell ei wely, a dywedir fod yr olygfa yn neillduol o arbennig a difrifol. Yntau ei hun, medd Mr. Rowlands, a ddywedodd rai pethau nodedig o bwysig ac arddunol yr amser hwn, mewn perthynas i'r ordinhad y cyfranogai o honi.”

Crybwyllai Sion Wyn iddo ei gael yn fwy tawel a hymddenol ym mis Medi, 1840. Yr oedd wedi ei fedyddio er y mis Mai blaenorol. Clywais y Parch. Robert Jones, Llanllyfni, yn dweyd iddo anfon gyda'r gwas am dano ef amryw weithiau, ac y byddai yn cael lle i feddwl mai awydd fyddai arno gael ei fedyddio; ond ni feiddiai Mr. Jones wasgu y ddyledswydd arno, oblegid yr oedd cyffes y bardd braidd yn rhoi penbleth i'w feddwl. “Gallech feddwl weithiau,” eb efe, “ei fod yn profi edifeirwch Cristionogol ac efengylaidd, ac hwyrach pan sonnid am gredu wrtho, y dywedai,—‘Nis gallaf gredu ond fel y mae cythraul yn credu.’ Ac hyd yn oed y diwrnod y bedyddiwyd ef, dywedai,—‘Pe bai mwy o gythraul ynnwyf nag y sydd, gallaf ymostwng i fyned i'r dwfr yna.’ Gofynnodd i'r ddau weinidog oeddynt bresennol,—‘Pa un o honoch sydd am fy medyddio i? ni waeth gennyf fi pa un.’ A chan mai y Parch. Enoch Williams oedd gweinidog Capel y Beirdd ar y pryd, disgynnodd y weithred megis yn ddyledswydd arno ef. Wedi iddo ei godi o'r dyfrllyd fedd, trodd y bardd ato a dywedodd yn hyglyw,—‘Dyna'r pechadur mwyaf fedyddiaist ti erioed, a'r mwyaf fedyddi di byth.’ Ar ei dderbyniad i gymundeb yr eglwys, a'r llanw yn uchel ymhob mynwes yno, rhwygodd y bardd y llifddorau, a llefodd allan yn orfoleddus yng nghanol y mawl ar ddiwedd yr oedfa,—‘Mae mwy o ogoniant yn yr ordinhad hon na welwyd erioed yn nheml Solomon.’”

Ymddengys mai y cymundeb olaf y cyfranogodd efe o hono oedd yr un a gyfeiria Sion Wyn ato, oblegid bu yn cyfranogi o'r Swper santaidd amryw weithiau cyn hyn yng Nghapel y Beirdd, a chlywais rai oedd yn cyd-gyfranogi âg ef yn dweyd iddynt ei weled yn myned bron i lesmair mewn edmygedd o'r cariad dwyfol a ddanghoswyd tuag at rai euog fel efe ei hun ym marwolaeth y Cyfryngwr; ac y mae'n gysurus meddwl ddarfod iddo ymostwng yn dawel i ewyllys ei Grewr, fel y profa y llinellau olaf o'i eiddo, y rhai a gyfansoddwyd ganddo yn ystod ymweliad y meddyg âg ef; ac y maent yn ddigon i ryddhau ein meddyliau oddiwrth y pryder rhag ddarfod i Dewi Wyn ymadael â'r byd mewn ymrafael â threfn ac â chynlluniau Duw. Y pennawd a'r llinellau sydd fel hyn,—

“THE LAST SIGH OF THE LATE DEWI WYN'S MUSE.

This hypochondriac with its symptoms all,
Afflict my body and distress my soul;
A constant nightmare pressing on my breast,
Enalves the system months without rest;
Defies physicians and condemns their art,
Laughs at them, makes them all like fools depart;
Tramples on the powers of strongest medicines,
All diets, spirits, and relieving wines,
Intend to season this carcase sweet and raw,
Fit for cold death,—the grave's voracious maw.
But He who first has formed these conscious nerves,
And whom this hypochondriac humbly serves,
This Lion Tyrant may command a way,
Save from the pangs of death his fondest prey,
Set the poor patient at full liberty,
And bid adieu to all his misery,
Who had long time involved his case
A portion large of every hard disease.
So I give up all hopes in human skill,
Both soul and body to my Makers's will;
Bow to the goodness of my gracious God,
Obey and kiss his ever blessed rod;
My soul rests under Jesu's beloved wing,
And ever tun'd his solemn praise to sing.

DEWI WYN O EIFION.”

E. I.—Dyna syniadau a theimladau hapuslawn, ac os oes ymddiried i dystiolaeth dyn o gwbl, y maent yn ddigon i liniaru y meddwl am sierwydd diddanwch cyflwr eu hawdwr, tra yr oedd ei awr ddiweddaf yn prysur neshau. Druan o'r bardd, siomwyd ef yn ei obaith am adferiad; ond cafodd, fel yr hyderir, yr hyn oedd anrhaethol werthfawrocach, sef goruchafiaeth ar ei holl euogrywydd, a'i holl ofnau. Ond i ddychwelyd at ddau beth a esgeuluswyd. Nid ydych, hyd yn hyn, wedi bod mor ffodus a dwyn i gof enw y man y bedyddiwyd ef, nac wedi rhoddi manwl gyfrif o'i haelioni tuag at y tlawd, fel y gallom farnu yn well

am hyn trwy weled a oedd ei ymarferiad yn gyfatebol i'w broffes. Deuwn i adnabod dynion lawer yn well trwy edrych pa fodd y maent yn byw yn y byd, na thrwy wrando pa fodd y maent yn siarad ar ben ffordd.

AM.—Yr ydwyf yn cofio cystal a doe ddiwrnod bedyddio Dafydd Owen; cymerodd yr amgylchiad le yn afon Ddwyfach, ychydig islaw pont bren y Betws Bach. Am ei haelioni tuag at y tlawd, clywais fynych ddweyd mai gŵr caled, didosturi, a didrugaredd ydoedd. Gall fod achos i hyn mewn gwlad o lawnder pe byddem yn gwybod y cyfrinion dirgel. Dysgir ni y naill ddydd ar ol y llall i fod yn galed a difater, am fod llawer o feibion dynion ar eu goreu yn gwneyd troion iselwael, dirmygedig, ac anheilwng o ddynoliaeth, mewn byd ac eglwys. Ond anaml y mae ochr waethaf y ddynoliaeth yn dyfod i'r golwg heb ei hochr oreu hefyd, ac y mae wedi ei brofi ganwaith nad ydyw dyn ddieithrach i neb nag iddo ei hun, a bod ei dafod yn aml yn gwneyd cam dirfawr â'i galon. Felly gyda golwg ar Dafydd Owen, nid oes brin amheuaeth na ddarfu iddo fyw yn dra chynnil drwy gydol ei oes; eto, danghosodd haelioni mawr tuag at dlodion yr ardal, yn neillduol ym mis Ionawr y flwyddyn y bu farw, ac amlygodd fwriad i gyfrannu yn helaeth tra byddai efe byw, at chwaneu eu cysuron. Ar y seithfed o'r mis, anfonodd ei was gydag anrhegion gwerthfawr i'w gyfaill cystuddiedig, Mr. John Thomas, Chwilog (*Sion Wyn o Eifion*); rhoddodd £10 at brynnu dillad gwelyau, a £10 arall at brynnu cig ac ymenyn i'w rhannu i'r tlodion oddeutu y Nadolig. Rhoddodd yn ei ewylllys £10 at Gapel y Beirdd, a £10 at Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Nid oedd yn hoffi cyhoeddi ei roddion elusenol, ac ni soniai am ei haelioni. Hoffai, yn hytrach, wneyd daioni o'r natur yma yn ddirgelaidd; am hynny, nid oes modd cael allan, hyd sicrwydd, y symiau a gyfranodd efe at wahanol achosion crefyddol, &c. Dywedir ddarfod iddo gyfrannu y swm o £100 yn ddirgel at achosion crefyddol gweiniaid yn Lleyn, a £10 at achos y Bedyddwyr yn Llanystumdwy; eto, wrth gymharu ei hun â rheol a maen prawf gair y gwirionedd, teimlai ei hun yn fyr ac yn ddiffygiol. Nid oedd na'i arferion na'i gyfeillion wedi bod yr hyn a allai foddloni ei gydwybod; ac am hynny llawer o bethau a ymddanghosai i ddynion yn gyffredinol yn feiau bychain oeddent yn ei olwg ef yn bechodau echryslon.

TAL.—Yn ol pob argoel, yr oedd Dewi Wyn yn ddyn o deimladau tyner; canys yr oedd efe yn hael gyfrannydd i ereill yn y dirgel, yn ol fel y byddai yr angen. Dyma hanesyn yn rhagordystio yr hyn a goeliai pawb am ei hynawsedd. Pan oedd efe ar y ffordd yn dyfod o Bwllheli i'r Gaerwen, gyda throl a dau gefyl, aeth yn giprys rhyngddo â neidr yn Nant Ystigall, a chyn

llawn gyrhaeddyd o hono Fourcrosses,—pellder o ddwy filldir a hanner,—gofidiai yn herwydd ei ymyriad â'r creadur mud a byddar, heb fod na rhaith na rheswm yn gofyn am dano, yr hyn a fennodd fel saeth yn treiddio i'w galon. Ar hyn, ei dynerwch anianol a'i hanogodd i roddi'r wedd dan ofal rhyw un, ac iddo yntau droi yn ol i ddibennu y neidr, os oedd heb hollol farw, yn hytrach na'i bod yn dioddef pcen yn herwydd ei ddiereidi ef. Fel hyn, mae'n amlwg fod tynerwch ei deimladau, ac uniondeb ei egwyddorion, yn foesol, teuluol, a gwladwriaethol, megis wedi eu llwyr gymhwyso âg addfwynder ysbryd, a'u tymheru ym marwydos effeithiol cudd-rinweddau.


Wedi cyd-ymaith â chwi hyd yma, ac feallai y cyd-unwn yn y farn,—mai buddiol i mi bellach neshau at adeg ddifrifol ei oddi-weddiad. Yr oedd yn gorwedd yn ei wely y pum wythnos olaf o'i selni, yr hwn a amharai ei holl gysuron i raddau mawr; ond ymddanghosai tuag wythnos cyn ei farwolaeth yn lled gryf a gobeithiol. Modd bynnag, ar brydnawn Sul yr 17eg o Ionawr, 1841, pryd na thybid gan neb o deulu y tŷ fod yr ymddatodiad mor agos, clywid twrf yn yr ystafell wely; a phan redodd un o'r gweision i fyny, canfyddai y bardd ar ei ochr ar y llofft, wedi dyfod o'i wely, ac ar waith y gwas yn cynnyg rhywbeth iddo i'w yfed, ac yn cymell myned i geisio y meddyg,—“Na,” ebai yntau, “does dim eisiau, mae gwaed y groes yn ddigon yn awr,” a chyda'r geiriau hyn rhyddhawyd ei gorff dioddefus o'i reffynnau caethiwus, a dodwyd ef i gysgu yr hyfryd gyntun yng ngwely'r bedd, gyda'i frawd, ym mynwent henafol Llangybi, ar ochr ogleddol yr eglwys, fel y gwelir oddiwrth gistfaen ag sydd yn cynnwys darlleniad fel hyn,—

“ Isod y claddwyd Corff
OWEN OWENS o'r Gaerwen,
Yr hwn a fu farw Ebrill 18fed, 1837,
Yn 51 oed.



Er rhoi hon ar ei wyneb,—i nodi
Mynediad dynoldeb;
Daw'n ol gan hoywed a neb,
Fry i wel'd anfarwoldeb.!

Hefyd
Corff DAFYDD OWEN ei Frawd,
Sef y godidog Brif-fardd Cymreig,
yr hwn a gyfenwyd
Dewi Wyn o Eifion.
Bu farw Ionawr 17eg, 1841,
Yn 56 oed.

Sain ei gain odlau synai genhedloedd;
Hir fydd llewyrch ei ryfedd alluoedd!
Oeswr a phen Seraph oedd—pen campwr,
Ac Amherawdwr beirdd Cymru ydoedd.”



eto heno. Gwelwch
 yn eurog gan belydr
 llanos yn ymledu yn
 wn eto ar y llannerch
 ac iach, i dreulio un
 bpedig ag y buom yn
 oles i m cyfaill Eifion
 addiddan yma—bydd
 nol ar fywyd y bardd,
 didiwrtho. Yn y cyf-
 riaeth rai o'r gwersi
 Yn neillduol, bydded
 enion goreu, fel na
 erwydd ei gamddefn-
 ghyfeillion hawddgar,



LLE DEWI WYN YMYSG BEIRDD CYMRU.

TALIESIN YN ATEB EIFION IEUANC.

CYFARFYDDODD Taliesin ac Eifion Ieuanc â'u gilydd ar awr apwyntiedig, o dan gysgodion irwydd gwyrddleision Ffordd Maughan; a chan na fwriedid treulio ond y prydawn hwn gydag achos Dewi Wyn, yr oedd pryder yr ieuengaf wedi cynhyddu i wres eithafol bron—Dewi Wyn oedd weithian yn ei feddwl ar ben pob ymddiddan; megis heb yn wybod iddo ei hun cyfeiriai at ryw amgylchiad, neu rai o ddywediadau y bardd. A'r peth cyntaf a wnaethant oedd myned i mewn i dŷ y Gaerwen; ac er mai teulu o amaethwyr, na wyddant fawr ddim am feirdd a barddoniaeth, sydd ynddo yn preswyllo, er hynny teimlant bob hyfrydwch yn dangos y tŷ a'r cyfnewidiadau a wnaed ynddo ar ol dyddiau Dewi Wyn.

Y lle cyntaf yr aethant i mewn iddo oedd ystafell fechan yng nghefn y tŷ, a ddefnyddir yn bresennol i gadw llaeth—hon oedd llyfrgell Dewi Wyn. Yn ol ei addefiad ef ei hun, nid oedd yn arfer prynnu llyfrau; ond am bob llyfr a brynnai, gellir dweyd y byddai yn gwneyd y defnydd goreu o hono; nid fel y bydd rhai yn prynnu llyfrau er mwyn eu gosod i ddodrefnu estyll llyfrgell, i edrych arnynt fel teganau; ond yr oedd Dewi, fel y dywedai Tegai, wedi "bwyta y geiriadur" bob gair o hono. Druan o'r bardd, ni chaffai efe fawr o hamdden i aros yma, gan na allai oddef eistedd, chwaethach myfyrio, ond yn unig ar ei amgylchiadau a'i boenau ei hun, y rhai a'i gwnaent ar brydiau yn ofidus fel cydymaith. Aethpwyd wedi hynny i'r neuadd, lle y cerddai gan droi a throsi ol a blaen, trwy gydol y dydd, i borthi arteithiau ei glefyd adfydus; ond mae y llawr wedi ei ail balmantu, a'r hen ddodrefn a welid yno gynt wedi eu symud ymaith bob un. Oddiyno aethant i'r ystafell wely, lle bu y bardd farw; meddiannid y ddau yma gan ystyriaethau trist a difrifol iawn; teimlent fel pe ym mhresennoldeb yr ysbryd mawr a esgynnodd oddiyma i'w wlad ei hun; gwell ymneillduo o honi—ychydig iawn am fywyd fedrwn ddysgu yn nhiriog-aethau marwolaeth. Wedi hynny aethant trwy weddill y tŷ a'r beudai, a dygai pob man a phopeth ryw adgofion hiraethus am Dewi Wyn; a chan brysuero i'w rhodfeydd arferol, wedi eu meddiannu gan deimladau rhyfedd, y rhai y mae yn haws eu dyfalu na'u darlunio; dywedai Eifion Ieuanc,—“Buaswn yn caru yn fawr gael desgrifiad personol o Dewi Wyn.”

TAL.—Yr oedd yn ddyn cryf, o brydwedd goleu, oddeutu pum troedfedd ac wyth modfedd o daldra, yn meddu ar ddau lygad bywiog a threiddgar, y rhai pan y cyffroid ef fyddent megis yn melltennu yn ei ben. Yr oedd lled-dro yn ei wyneb i'r ochr ddeau, fel pe buasai rhyw sylwedd gormodol yn yr ochr aswy i'w enau. Siaradai yn gyflym, ac ambell i air yn dianc fel pe buasai lediaith arnynt, megis byd, llun, y rhai a swniai yn *bid*, *lin*. Tueddai at londer yn hytrach na difrifwch, yn enwedig ar ei ddynesiad cyntaf atoch, neu pan ddeuai i'r tŷ; ond wrth ymddiddan, tueddai i fyned yn fwy difrifol. Yr oedd ei lais yn glir, ei barabl yn eglur a chroyw, a'i dymherau yn hytrach yn danbaid, a gellid sicrhau oddiwrt h yr olwg arno, ei fod yn ffraeth yn ei atebion. Dyma ddesgrifiad cywrain Meiriadog o hono. "Sylwer ar ei gorff. Craffed y penwyddegwr (*phrenologist*) ar gylchedd crwn ei ben, lled ac uchder llawn ei dalcen, gyda'i wallt modrwyog, a chenfydd ei fod yn gronfa helaeth o grebwyll. At hyn, sylwed y gweddwyddonydd (*physiognomist*) ar ffurf rhamantus ei wynepydd gyda'i lygaid rhythog trymfryd, megis dan dorlan o ymennydd llawn o athrylith, a gwel yn ei ddrych nad oes ynddo brinder iaith at wasanaeth ei feddylddrychau amrywiaethol. Nis gellir dweyd ei fod yn hardd ar y naill law, nac yn hagr ar y llaw arall; eto gellir dweyd ei fod yn *awfully grand* ar bob llaw. Ymddengys fel pe byddai Arfon wedi ei hysdrydebu ynddo; oblegid fel y mae ei berson, felly mae ei farddoniaeth hefyd."

E. I.—Ai nid ydych yn tybio bod llawer o fân gyfansoddiadau Dewi Wyn ar gael na chrybwyllwyd am danynt gan ein cyfaill Amaethon na chwithau? Byddwch mor fwyn a rhoddi i mi ychwaneg o'r amheuthyn bethau. Mae yr hyn a roesoch yn dra newydd i mi, ac yn peri imi deimlo dyddordeb neillduol yn y cyfryw fater.

TAL.—Mae eich cais yn rhoi cryn gyfrifoldeb ar fy ysgwyddau, ond gan eich bod mor anghyffredin o awyddus dros ddwyn i'r amlwg bopeth sydd bosibl o waith Dewi Wyn, nid oes genyf ond ymdrechu gwneyd fy ngoreu tuag at eich boddhaul. Y cwbl allwch ddisgwyl i mi wneyd fydd nodi cwrs cysylltiadol y mân gyfansoddiadau yn dyfod allan o weithfa y bardd, er mwyn cael pethau yn cylymu am eu gilydd fel achos ac effaith, a'r rhai hynny drachefn âg achosion ac effeithiau dilynol. Cydnabyddir ef y blaenaf o hawb am barodrwydd ei awen, yn gystal a ffraethineb ei atebion. Rhoddasom rai siamplau, a gallasem chwaneu llawer atynt. Y mae rhai ar hyn o bryd o flaen fy meddwl, na chrybwyllodd ein cyfaill Amaethon na minnau am danynt. Rywbryd yn y flwyddyn 1804, aeth Dewi i Fangor, a chymerodd yr hen fardd ffraeth Macwy. Mon ef i weled yr

Eglwys Gadeiriol. Wrth edrych mewn syndod ar yr adeilad, dywedai y bardd o Eifion yn y fan,—

“Teml Esgawb, tŷ melusgor,—pinaglawg
Yw pen Eglwys Bangor;
Ac organ fwyn gân i gôr,
Mawr gyntedd amryw gantor.”

Yr oedd yr un hen fardd yn gweithio yng Nghaergybi fel saer maen yn y flwyddyn 1821, adeg ymweliad y brenin Sior â'r lle. Ac yn yr adeg honno aeth Dewi Wyn yno; a chyfarhodd Macwy yn fyrfyfyr â'r englyn canlynol,—

“Gŵr â chŷn yn gwreichioni—y garreg,
Ar gwr morfur Cybi;
Gwyro 'mhen yw goreu i mi,
Na chellwair, rhag f'archolli.”

Rhywbryd o'r flwyddyn 1805 i'r flwyddyn 1807, ysgrifennodd at olygwyr *Greal* Llundain, fel y canlyn,—

Hybarch Ddysgedigion,—

Os bernwch rywbeth o'r isod yn dellwng o le yn y *Greal*, can croesaw i chwi ei argraffu. Dymunaf arnoch gymeradwyo Dyffryn Clwyd, ac os byddwch yn dewis gallaf anfon llawer o gysoddiadau a chyfieithiadau o'r fath o ran barddoniaeth i chwi—pe bai'r *Greal* yn cynnwys mwy o fân ganiadau a thraethiadau bywiog addysgidawl, a llai o hynafiaeth, mae'n ddiameu y byddai yn fwy derbynol gan y cyffredin—ac yn fy marn i yn fwy buddiawl ac adeiliadawl hefyd.

Ydwyf eich gwasanaethwr,

DEWI WYN O EIFION.

GWAWDD I'R *GREAL*.

Dygwch y dysgedigion—eich callwaith
O'ch celloedd; chwi ddoethion
Brif feirdd, o Ben-Bro i Fon,
I'r *Greal* a'r goreuon.—DAFYDD OWEN.

Dyma eto “englynion gan Dewi Wyn wrth ddyfod i Sir Fon i rodio yn nechreu mis Mehefin, 1822,—

Digalon yn rhodio gwyliau—ydwyf,
Gwledig a di-foesau;
Nid drwg er hyn trugarhau
Wrthyf, er maint fy ngwarthau.
Diethr ac unig yw Dewi—yma,
Na omedd fy llonni;
Lletyer, artoller fi,
Rhyw damaid yn rhad imi.

Dywedodd yr englynion wrth fyned at dŷ arall, cyn dyfod i Amlwch. Daeth yma (i Amlwch) Difia y 6ed, ac aeth yn ol tuag adre dydd Llun y 10fed o Fehefin, 1822.—J. J.* Ysgrifennodd wedi hynny at yr un gŵr fel y canlyn,—

* Mr. Joseph Jones Amlwch, Caernarfon wedi hynny. Efe oedd un o feirniaid “Awdl y Greadigaeth,” prif destyn Eisteddfod Freiniol Aberffraw, 1849.

"PWLLELI, *Hydref 15fed, 1824.*

Anrhydeddus Gyfaill,—

Mawrion a lliosog yw cyfnewidiadau a gweithrediadau Natur a Rhagluniaeth,—peiriannau anataladwy y rhai a frysuir gan olwynion amser er pan gefais yr anrhydedd a'r hyfrydwch o dreulio ysbaid o amser gyda chwi yn Amlwch. Deallaf mai nid bychan fu'r cyfnewidiad yn eich tŷ a'ch teulu prydferth chwi, drwy fod eich cyntafanedig wedi ei dynnu o'ch deheulaw, ac wedi eich rhagflaenu i'r byd lle'r ydym oll yn sicr o fyned, ond yn ansicr pa mor fuan na thrwy ba fath ymweliad. Gobeithio eich bod chwi a'ch cymhares wedi cael amynedd a doethineb cyfatebol i'r amgylchiad i foddioni ewyllys yr hwn mae ganddo awdurdod a gallu i wneyd popeth yn y modd goreu, ac na all wneyd dim yn anheilwng o anfeidrol ddaioni.

Peth tra anisgwyliadwy i mi oedd cael un math o gydnabyddiaeth â chwi, a mwy na hynny oedd cael gwahoddiad o groesaw gennyh heb achos na haeddiant; felly mwyaf oedd achos fy niolchgarwch. Meddyliais yr amser hwnnw y parhasai rhyw radd o gydnabyddiaeth a chyfeillgarwch drwy y cawsom eich gweled yn y wlad yma, gan y disgwylid y deuech yn fynych tua'r mwyn-waith a gynhygid arno yn y Pennant, ond hyd yn hyn ni ddigwyddodd dim ond absenoldeb a dieithrwch, ond gwybyddwch fy mod i yn parhau yn hollol o'r un deimladau a'r dydd yr ysgydwais law â chwi ym Mon, ac y byddai yn hyfrydwch ac yn anrhydedd nid bychan gennyf pe gallech fforddio (os dewch i'r wlad yma) dyfod i ymwelid â mi, naill ai yn y Gaerwen, lle byddaf yn gyffredinol fel dyn yn ei gartref, neu yma ym Mhwllheli, lle byddaf agos bob dydd Mercher drwy y flwyddyn. Pa un bynnag o'r ddau le y cyfarfyddech fi, byddai gennyf le i chwi orffwys ac ymborthi, a lle cynhesol y gallech gyssgu. Byddwn dra ystig i'ch arwain i unrhyw barth o'r wlad yma, ag y gallech chwennych rhodio ac ymhyfrydu.

Mae'n gôf gennyh i mi gymeryd gyda mi o'ch llyfrgell y cyfrol hwnnw o waith yr arwrwch Johnson, *Rasselas*, darlleniad yr hwn a fu yn ddifyrrwch mawr ac yn beth addysg a buddioldeb imi. Yr oeddwn yn hir yn meddwl ei ddychwelyd i'ch llaw chwi eich hun pan welwn chwi yn Eifionnydd, ond gan fod cryn lawer o amser wedi rhedeg heibio heb imi gael y cyfleusdra i wneyd felly, yr wyf yn ei hystyried yn llawn bryd i ymorol am ei ddychwelyd drwy foddion di-drafferth a di-dramgwydd; gan hynny, rhaid erfyn anroch anfon llinell ataf cyn yr anghofioch ar ôl derbyn hyn oddiwrthyf fi, i hysbysu os byddai yn dderbyniol gennyh i mi anfon y llyfryn i ofal Mr. Edmund Francis neu gydnabyddwr arall i chwi yng Nghaer-narfon, fel y gallai eich negeswr chwi oddi yna ei ddwyu adref gyda rhyw gyfleusdra.

Yr wyf yn ymlithro fwyfwy beunydd oddiwrth bob math o ymyraeth myfyriol, prin cysoddi ambell englyn os digwydd hynny heb na phoen na llafur, a hynny yn bur anaml. Mewn cynnyg o'r fath, cysoddais yn ddiweddar fedd-argraff i J. R. Jones, Ramoth, i'w gyfeillion ei ddefnyddio os mynnant,—

Diwygiawdwr Duw, o agwedd—oes a'mhur
 Sy yma yn gorwedd:
 Wylo mae'r Beibl, am i'r bedd
 Gau ar enau'r Gwirionedd.

Dyma hefyd ddau englyn diweddar arall,—

BETYDDFA.

BETYDDEA, gynt, bu deddf gwel,*—oedd Aion,
 A'r Iorddonen isel;
 Ni bu yn hir neb yn hel
 Cwpan a dŵr i'r capel.

Pob enw, pawb â'i anel—i eirio ffurf
 Ryw ffordd i'w ddiarddel;
 Pe b'ai waeth, y Pab a wel
 Droi'r cwpan dŵr o'r capel.

Erfyniaf na fo yn ormod gennych fy anrhydeddu â llinell fal y crybwyllais uchod, a chyfeiriwch fel hyn,—

D. OWEN,

MR. JOSEPH JONES,
Amluch.

Care of O. OWENS,
Pwllheli."

THE ADAGE

"Great faults belong to great men," compared.

The ocean deep, where range the whales and ships,
 Abounds with rocks; arts have defects and rips;
 Suns have their films; bold charger dreadful trips,
 And "to great men belong great faults" and slips.

DEWI WYN.

THE BARD LAMENTING THE MISFORTUNE
OF THE LADIES.

Ah! me, what pity that so indiscreet
 These female angels tread this dirty street?
 For fashioned were such never-fading girls
 To dance the walks of Paradise in pearls.

DEWI WYN O EIFION.

Yn Nhref Pwllheli.

THE BARD'S APOLOGY FOR PRAISING THE FAIR SEX.

Ni phrydwn mi wn yn fy myw—i ferch
 A f'archoll yn gyfryw;
 Rhown fy awen am fenyw,
 Gan mor deg yn 'y mryd yw.

DEWI WYN.

* Matt. iii.

AR DDARLLENIAD RHAN O'R "GEIRIADUR CYMRAEG."

Wr hynod, o ble'r hanyw?—hynodol,
Ni adwaen ei gyfryw :
Hynodydd ei hun ydyw,
A hynod iawn, onid yw?

Hwn yw awdwr hynodwaith,—a chanddo
Mae'r *cylichynddyg* perffaith ;
Drwy gorff a rhaniadau'r gwaith,
Caf iawn-drefn i'r cyfundraith.

DEWI WYN O EIPION.

Dyma eto dri phennill rhagorol o'i waith na argraffwyd erioed,—

Pan gyfarfyddaf angau llym,
Bydd gras yn rym digonol ;
A chariad yn gorchfygu'r ofn,
A ffydd yn golofn gadarn.

Deil ffydd fy nhraed rhag llithro lawr,
Dan bwysau dirfawr dristwch ;
Hi rydd fy mhen a'm cariad trist
Ar haeddiant Crist mewn heddwch.

Fy nefol Frenin, mawr, dilys,
A'm tywys i fyd tawel ;
I ganu mawl dda hawl o hyd,
Yng nghyd â'r sant a'r angel.

DEWI WYN.

Gan fod gennym bethau ereill i'w trafod heddyw, yr wyf yn ystyried fy mod wedi dwyn ger bron lawn gymaint ag sydd angenrheidiol a buddiol ar hyn o bryd o gynnyrchion awenyddol Dewi Wyn, a rhag eich blino a gormod meithder, ac fel y gallom gadw ar ein llwybr, gwell i ni beidio ymhelaethu ar y pen hwn.

E. I.—Pur wir hyn, fy nghyfaill ; ond eto, yr wyf yn teimlo rywsut fod rhyw fwelch—rhywbeth megis ar ol, yn hanes Dewi Wyn, a'r hyn a dybiaf yw, a fu efe yn ymyrryd a beirniadu mewn eisteddfodau, ai na fu? Diameu gennyf y buasai hynny yn fantais tuag at gyfanu ei gylch-hanes, a pheri i lawer ei werthfawrogi gyda mwy o ddyhewyd a chynhesrwydd wrth ei drafod.

TAL.—Yr ydych yn barnu yn bur gywir, ond edrych yr oeddwn i ar hyn fel peth bychan a dibwys iawn, ond mae yn ddyled arnom gadw pob hanesyn am ein llenorion, rhag i'r ysgrifenyddwr a ddel fod yn anhysbys o'u tadau. Parasoch i mi alw i gof nad oes un engrafft, hyd y gwn i, ddarfod i Dewi ymyrryd â'r cyfryw waith gymaint ag unwaith yn ystod ei holl oes. Ceisiwyd, mae'n wir, ganddo feirniadu gan bwyllgor Eisteddfod Dinbych, 1828, a phwyllgor Eisteddfod Llannerchymedd, 1835, ond gwrthododd er pob taerineb, fel y dengys y llythyrâu dilynol—dengys y blaenaf, heblaw hynny, syniadau y godidog Gwallter Mechain am natur amgylchiadau ymrwyfus a therfysglyd yr eisteddfodau, &c., fel hyn,—

Hynaws Gyfall,

Derbyniais lythyr arall oddiwrth Mr. W. Davies, ac nid yw efe na minnau yn barod i gymeryd eich hegasodion yn dderbyniol, na chwaith yn canfod eich rhesymau yn erbyn cymeryd y swydd o feirniadur yn ddiog cadarn. Rhoddodd yr Hollalluog i chwi ddawn prydyddiaeth a llawer o dalentau ereill, a'ch dyledswydd, yn fy meddwl i, yw eu iawn ddefnyddio. Gofynnir i chwi yn yn awr fod yn gyd-feirniadydd gyda Mr. W. D., a'r Dr. W. O. Pughe, a hynny heb fyned (oni fyddwch yn dewis) oddi cartref, ac os bydd i chwi wrthod, chwi a fyddwch felly yn foddion i rwystro Mr. W. D., ac felly ymddifadu'r gymdeithas o'i wasanaeth, canys nid yw efe wedi addaw ond dan amod,—sef, os byddai i'r Dr. W. O. P. a chwithau fod yn gyd-feirniaid fel y soniwyd,—adroddaf yma i chwi eiriau Mr. W. D.,—“Y mae digon o amser rhwng hyn a Medi neu Hydref i Fardd Eifion ymfoddloni i gymeryd y swydd arno, er iddo nacau'r erfyniad cyntaf,—mi a safaf fi os saif yntau,—ni roddai y feirniadaeth nemor o'rwystr iddo. Bydded y cyfansoddiadau yn ugain (mwy neu lai) o rifedi; cyddied yn y papuryn cyntaf a ddiogwyddo i'w law,—efe a wèl mewn ychydig o linellau pa un ai gwiw darllen y cwbl ai peiddio,—os nad gwiw,—tafler heibio,—a'r dodder nod arno er mwyn dirnad,—ac felly ymlaen,—nes y cwrddo ef ág un lled gywir parth iaith a chynghanedd,—drwyddo,—noder hwnnw rhif *un*,—a phob un cyffelyb dan yr un nod y darlleniad cyntaf. Yn y diwedd, darllenner y rhifau un,—drosodd eilwaith, a sylwer yn fanylach ar gywirdeb a godidogrwydd iaith a chynghanedd hwn a'r llall,—a'r gwrthwyneb,—yna barner pa un sydd gyflawnaf o feddylliau dyrchafedig, ehediadau awenyddol, &c., yn canlyn y testyn oreu heb grwydro i hela geriau amherthynol. Nid wyf yn 'sgifennu fel hyn, gan ryfygu addysgu neb, ond er mwyn dangos na byddai y dasg o faru o gymaint rhwystr i D. Wyn yn ei orchwylion priodol ag y mae efe yn brudio. Yr wyf bron yn diogel greu y cytunem yn ein barn heb grwdd a'n gilydd,—a fyddwch chwi, syr, mor fwy ag ysgrifennu ato ef eto? Os cydsynia a'm dymuniad, mi a ysgrifennaf i Ddinbych i erchi iddynt anfon y cyfansoddiadau yn Awst, gyda chennad troediawg neu y cerbyd (*mail*), ond iddynt ei yrru felly yn ddiarau i'r derbynnnydd. Dywedir yn y llythyr diweddaf o Ddinbych, er na farnai Mr. D. O., y deuai er hynny i'r eisteddfod,—Mi a'i cynghorwn ef i feirniadu gartref, yn hytrach na myned i'r Caledfryn yn Rhos. Ni syllaf fi gam tuag yno. Cas gennyf feddwl am y fath ffair y gwagedd,—nid hoff gennyf erioed wrando ar wichian ac ysgrechian dieithriaid, ac am y cantorion Cymreig arferol yn yr eisteddfodau,—yr wfft fawr iddynt. Ni bum i mewn un eisteddfod wedi un y Trallwng bedair blynedd yn ol, ac nid wyf debyg o fyned i un byth. Trwy gymhelliad, er hynny, y bum mewn dwy neu dair,—y mae hynny yn ormod, Mi a ddiengais adref o un y Trallwng ar doriad dydd yr ail ddiwrnod, gan nad allwn lai na chyfri y fath ddwnder ond math o le i dramgwyddo'r anystyriol, &c. Yr ydwyf yn disgwyl y cydsynia Mr. D. O. i dderbyn y cyfansoddiadau.—Derbyniais (medd efe yn uechreu ei lythyr) air oddiyno (Dinbych) yn dymuno gan nad oeddwn foddion i sefyll yn y swydd fy hun, i mi fod felly yn un o dri, sef Mr. D. O. o'r Gaerwen, Aneurin O. Pughe a minnau. Atebais, os boddlonai y ddau ereill, y safwn yn drydydd, am y tro hwn eto. Sylwais ymhellach, os byddai A. O. P. yn farnydd, nad oedd un mwy cymaws, yn enwedig os canai rhai o'r beirdd yn iaith a chynghanedd Cynddelw B. Mawr, Casnodyn, a'r fath. Ac os anfonent y cyfansoddiadau gyda negeydd buriadol i'r Gaerwen, ac oddiyno i Fanafon, y teimlwn fy hun yn ddiogel dan achles y fath ddau gyfall.”

Dymunaf gael eich ateb, ac yr ydwyf yn gobeithio y bydd i chwi gael ar eich meddwl i wneuthur fel ag y mae cynifer o'ch cydwladwyr yn ewyllysio ac yn dymuno. Os oes gennyh (fel ag yr ydwyf yn tybied fod) gariad at eich iaith a'ch gwlad, gwnewch hyn o gymwynas. Paham na anfonech weithiau rai o'ch cyfansoddiadau i'r *Gwylieddydd*. Beth pe baech chwi a'ch cymydog Robert Williams yn cynnyg rhoddi i'r wlad gyfleithiad cynghaneddol o'r Salmu, mwy cyfatebol i'r amser presennol na gwaith yr Archddiacon? Y mae gan y Saeson Sternhold a Hopkins, a Tate a Brady. Gadewch i minnau'r Cymry gael gwaith y ddau fardd D. O. ac R. W. Nid ydwyf yn coelio yn iawn y gwna hyn waethu neu amharu dim ar eich iechyd. Y mae'r gennad ar gychwyn i'r dref, ac y mae yn rhaid i minnau ddiweddu. Ydwyf eich ewyllysiwr da ymhob daioni,

Mr. DAVID OWEN, Bard,

P. B. WILLIAMS.

Gaerwen Eifionnydd, *Pwllheli*.

Y llythyr arall, yr hwn a anfonwyd oddiwrth Dewi Wyn at ddirprwywyr eisteddfod Llanerchymedd, a dderllyn fel yma,—

PWLLHELI, *Mai yr 8fed*, 1835.

HYBARCH SYR,—Derbyniais eich llythyr o law y Parch. W. Williams; ymdeimlaf yn ddiolchgar i'ch dirprwyaeth am eich tyb dda o honof yn cynnyg imi yr anrhydedd o fod yn gydfarnydd â Mr. Williams ar y caniadau, y rhai a ddyg gydag ef; darlleniad pa rai a fu yn ddifyrrwch nid bychan imi, gan eu bod, yn fy nhyb i, yn cynnwys llawer o ragoriaethau a gorchestion awenyddol; ond oherwydd amrywiol resymau afreidiol eu hadrodd, nid allaf ar un cyfrif eu darllen gyda'r fath ddichlynwch ag a weddai i'w cymharu a'u barnu; gan hynny, gobeithiaf yr esgusodwch fi. Ac i dystio fy mharch a'm hewyllys da atoch chwi a phob eisteddfodau, goddefwch i mi eich annog i beidio gollwng cynnyrch y fath lafur a medrusrwydd i fro angof, drwy esgeuluso neu wrthod cyhoeddi y goreuon, fel y gwna eisteddfodwyr yn gyffredinol.

Yr eiddoch yn ostyngedig,

To MR. JOHN HUGHES, *Secretary*,
Llanerchymedd Eisteddfod.

D. OWEN.

E. I.—Yr wyf yn hoffi y llythyrau yna yn anghyffredin, ac i mi maent yn swnio yn newydd, er hynny yn gyson. Mor ddenol ac addysgiadol yw crybwyllion y diffuant Wallter Mechain yn y llythyr blaenaf. Mae'n rhaid i mi addef fy mod yn hoffi y goleuni hwn a roddir ar hanes Dewi; a'm bod yn cael boddhad yn y cyd-darawiad agos i gywir sydd rhwng pethau a'u gilydd, yn ol fel yr esbonir y mater ar dudalen 199 o'r "Atodiad i'r Blodau Arfon." Caniatewch i mi ymhellach ofyn i chwi gyfeirio at rai llinellau perthynol i'w hanes fel gwleidyddwr; o gymharu hynny â'i waith, ymddengys i mi fod yr egwyddor ryddfrydig yn rhedeg fel llinell liwiedig drwy y cwbl.

TAL.—Nid oes nemor ddim o'i syniadau gwleidyddol ar gael, heblaw a geir, fel y sylwasoch, yn gymhlith â'i farddoniaeth; oblegid ychydig iawn a wyddai y bobl wledig y pryd hynny am yr hyn fyddai yn myned ymlaen yn senedd ein gwlad; ond yr oedd rhai materion yn tynnu sylw neillduol ambell dro. Un mater fu yn cynhyrfu y deyrnas hon yn ei amser ef oedd Rhyddid y Pabyddion, pryd y ceisient gael dileu y *Test Act*, neu y gyfraith oedd yn gwahardd i bawb ond aelodau o Eglwys Sefydledig Lloegr i ddal un swydd dan y goron, nac eistedd fel cynrychiolwyr y bobl yn senedd y wlad. Cyfraith oedd hon a wnaed gan y diwygwyr Protestanaidd i amddiffyn eu hunain rhag creulondeb y Pabyddion, y rhai bob amser a goledent y syniad am Brotestaniaid nad oeddynt amgen na hereticiaid

haeddiannol o garchar a marwolaeth. Rhennid teimladau y deiliaid Prydeinig gan y dadleuon o blaid, ac yn erbyn, y rhyddid a ofynnid gan y Pabyddion; ac y mae Dewi Wyn, mewn llythyr at ei gyfaill Sion Wyn, yn traethu ei farn ar y mater fel hyn,—

Mai 4ydd, 1825.

Fy Nghyfaill cywrain,—

Am yr hyn a grybwylli am Ryddid y Pabyddion, mae'n amlwg wrth yr ymdrech seneddol o'i herwydd, ei fod yn destyn a defnydd dadl wladol anorffen; ond meddwl yr wyf, fod achleswyr yr ymgais haerllug hwn, i ryw raddau, yn anwybodus o ddrygioni egwyddorion a thueddiadau y cyfryw, y rhai nid ydynt yn terfynu ar bethau crefyddol, ond mor barod a sarff i lynu pethau gwladol, ac ar fyned yn frenhinoedd y ddaear, i roi eu nerth i'r bwystfil, ac wrth hynny fel cynt, lladd gwir ddisgyblion Crist, neu ddeiliaid teyrnas Crist, gan dybied eu bod yn gwneyd gweithred i Dduw.

Oherwydd y pethau uchod, cyn belled yr ystyriwyf fy hun dan ddyledswydd i roi pleidlais fel aelod o'r wladwriaeth, yr wyf yn teimlo rhwymau cydwybod i wrthwynebu eu cyrch. Ond meddyliwn, pe ystyriwn fy hun fel Cristion, mai goreu fyddai po lleiaf a ymwnawn âg achosion ac ymrysonau gwladol a bydol; eithr mai fy nyledswydd a fyddai ewyllysio a gweddio am i Ragluniaeth ddal i lawr a darostwng y pethau, yn ol pob tebyg-olrwydd, a fyddynt yn dueddol i gau drysau rhwyddhad yr Efengyl i redeg, a chael gogonedd, ymhlith yr holl genhedloedd.

A meddwl yr wyf, fod y drwg a ellid ofni o ryddid y Pabyddion, yn yr ystyr y mynnynt hwy, yn llawer mwy na'r daioni a ellid disgwyl drwy'r unrhyw. Peth arall, os myn Duw a dynion i'r Pabyddion gael eu cais, gobeithiaf mai nid eleni, gan eu bod wedi proffwydo ac ymffrostio cymaint am eu dyrchafiad a'u buddugoliaeth y flwyddyn hon; a phe caent, byddai yn eu cryfhau, ac yn eu sicrhau yn eu tywyllwch a'u cyfeiliornadau; ond os syrth eu cais i'r dim, bydd yn argyhoeddiad i'r werinos o dwyll a drygioni eu blaenoriaid, ac ond odid yn fendith gyffredinol iddynt.

Meddyliwn mai dy ddyledswydd a fyddai darllen a myfyrio cymaint ag a barai ddfyrrwch a bywiogrwydd i anian, ac er dim ymatal rhag hynny, pan dueddo i lesghau a gwanychu dim ar dy iechyd. Os dyma wyf fi yn farnu yn ddyledswydd arnaf fy hun, pa faint mwy yn ddyledswydd arnat ti, sydd fel deiliad i nychedod a gwendid oesol, ac eto yn ddigon o gofnod o wyrth trugaredd a gallu Duw, yn ymddangos yn ddedwyddach a bodlonach nag ond odid y naill hanner o ddynolryw, ac wedi meddu yr anrhydedd o fod yn wrthrych geirda a charedigrwydd y cyff-

redinolrwydd, a chael y rhan leiaf o gasineb a chenfigen, ac wedi teilyngu sylw pell ac agos,—a mil mwy, os wyt, fel y gobeithir, yn gwybod am gymdeithas oruwch-ddynol.

Nis gwn pa bryd y digwydd i mi alw hebod, ond gwn mai ychydig o les a wnelai hynny, oni fyddai fy nyfodiad yn arweiniad i ryw ddynsawd arall uwchlaw fy hunan.

Wyf dy gyfaill swrth ac aſterw,

D. OWEN.

Gellir casglu beth oedd ei farn am y degwm, y trethi, &c., yn ei "Awdl ar Elusengarwch;" ac am ryfel, yn yr "Ymddiddan rhwng y Bardd ar Awen, ynghylch Napoleon Bonaparte." Mewn cysylltiad â hyn, sylwa un beirniad fod Dewi fel yn aelod o Gymdeithas Heddwch ymhell cyn ei sefydlu, yr hyn oedd yn dangos ei fod ef yn anghyffredin o ran ei wybodaeth a'i syniadau, ac anibynnol o ran ei ysbryd. Nid oes braidd gysgod o deimlad, na braidd syniad am gymeriad, nad yw efe wedi eu pwyso, eu cloriannu, a'u cynrychioli ger ein bron, mewn rhyddiaith, barddoniaeth, neu ymddiddanion personol. Ond yr hyn a'i hynodai, i'm tyb i, fel nodwedd cyffredinol, oedd *tosturi*. Dywedai wrth ei weision nad oedd arno eisiau iddynt weithio ond fel y caent awydd at ymborth. Lled wahanol, onide, i amaethwyr ein gwlad yn gyffredin? Nid yn unig yr oedd yn graff i ganfod ar unwaith unrhyw achos a roddid ger ei fron, ond teimlai ef i'r byw, nes *guneyd* rhywbeth i bwrpas. Ceir llawer a gydgwynant â dyn mewn helbul, ond ni *wunnt* ddim tuag at ei symud. Ymddengys fod ei natur yn llawn o dân digllonedd tuag at bob math o greulonderau; a byddai yn trydanu ei gydwladwyr â melldithion eirias-boeth hyawdledd ei ddigofaint yn erbyn anghyfiawnder, a thrwy apeliadau gwefreiddiol o blaid iawnderau dyn. Yr oedd yn caru y ddynoliaeth yn gwbl oll. Teimlai dros y llafurwr a'r bwthynwr; a gresynai fod y trethi yn cael eu codi i gynnal diogwyr a chwareuwyr; trethu ymborth y tlawd, ie, hyd yn oed ei halen. Clywch fel yr oedd wedi iawn ddeall drygedd y cyfreithiau, ac mewn modd gorchymynnol yn erfyn ar ein seneddwyr idd eu dileu;—

"Symudwch y dreth sydd yn difetha;
Un glo 'n aberoedd, un gwlan a bara;
Ac un halen, rhowch ar y cwn hela,
Neu ar deulu Endor a dai Indin,—
Neu wnewch yn unionach na hyn yna.
Alban, Lloegr, clybwn oll, â—chwerw iawn floedd;
Llais ein cenhedloedd oll sy 'n cynadla.
Treth ydd yd, nid rhith o dda,—dilewch
O lwg, O gwyliwch lewygu Gwalia!"

Y mae efe, nid yn unig yn ein dwyn yn ol at fywyd anwar Prydain yn ei brenhinoedd a'i seneddwyr, ond hefyd yn ein

cymeryd drosodd i awyr yr Ynysoedd Ia, a niwloedd amryw wledydd tywyll—"drwy bau deg cred, a'r byd crwn," er mwyn ein codi uwchlaw y terfynau arwynebol hynny nad ydynt ond yn unig yn gwahanu dyn oddiwrth ddyn, cenedl oddiwrth genedl, a phlaid oddiwrth blaid. Cymaint oedd ei ddyhewyd tuag at bob symudiad yn y llywodraeth a dueddai i hyrwyddo masnach a llesiant cyffredinol y werin weithgar, nes cynhyrfu ei anianawd i'r ddyledswydd o ddangos yr angenrheidrwydd o ddiddymiad y *Navigation Act*, fel—

"Dadrwymed byd i dramwy
Cyfeillach a masnach mwy.

"Ym mhyrth Rhws mae drws i drysor,—meddir
A moddion i'w hebgor;
I'w gario i bob goror,
I wlad Prydain hyd fain fôr.

"Cynyrchion mawrion Amerig,—coedydd
Ac ydau puredig,
Rhag eistau, trwy donnau dig
A gludir yn dreigledig."

Yn ei hyder ar ryddhad y caethion a dilead caethfasnach, a chan ddeisyfu mai buan y gorfyddai gwledydd gwahanol rannau o'r byd ganlyn Prydain i ryddhau y dyn du o lyfeitheiriau caethiwed, a rhoddi breiniau gwlad a'i chyfryngau iddo, dywedai mor deimladwy—

"Nid tywys Indiaid duon—mwy'n orthrwm,
Yn wrthrych tor calon;
Ond er lles ein brodyr llon,
Rhoi addysg i'r gwyr rhyddion.

"Ow! dyn, bryfyn brau, afiach,
Yn dwyn ei bwn, adyn bach!
Rhag ei weled rhed yr haul,
Wres araul, yn brysurach!

"A dynoliaeth dan wyllo,
A gwedd wael yn gwaeddi, O!"

Dengys yr un golygiadau ynghylch heddwch; ac yr oedd wedi efrydu yn ddwys ddeddfau llywodraethol gwahanol wledydd, pa un ai brenhinol, amherodrol, neu weriniaethol fyddent. Cofier fod y bardd yn ysgrifennu yn nechreu y ganrif hon.

E. I.—Yr wyf yn teimlo grym y rhesymau a nodwyd gennych mewn perthynas i'w syniadau gwleidyddol. I mi, y maent yn eglur a naturiol, yn cyd-daro i'r dim â theithi hanes Dewi Wyn. Mae ei olygiadau ar faterion ysgrythyrol, i raddau, yn adnabyddus. Mae ganddo ei "Fedydd Cristionogol," a'i "Sen i Daenellwyr," ynghyd â'r ffaith ddarfod iddo ufuddhau i fedydd trochiad. Yr oedd hefyd yn Galfiniad gyda golwg ar athrawiaeth etholedigaeth gras; ond nid oes gennym amser i ymdroi gyda'r

pynciau hyn, gan mai fel bardd y mae ei enw yn adnabyddus yn ein mysg; ac yn wir, ewyllysiwn gael eich syniadau mewn cysylltiad â'i athrylith, neu ei nodweddau fel bardd. Yr wyf wedi sylwi fod mwy o'i linellau yn cael eu harfer fel arwydd-eiriau gan ysgrifenywyr Cymreig nag odid un bardd fu erioed yng Nghymru, ie, na holl feirdd Cymru gyda'u gilydd, mor bell ag y gwn i. Nid amlach yr arferir ymadroddion Shakespeare-gan ysgrifenywyr Seisnig, nag yr arferir rhai o linellau Dewi Wyn gan y Cymry. Y mae ugeiniau ohonynt megis yn wersi diarebol ar dafod y werin, yn flaenbrawf ar ben pob yagrif, ac yn ddiweddglu i bob ymresymiad o'r bron. Nodaf rai ohonynt fel engreiffitiau.

Pwy byth, o'r braidd, a welir yn cloi ymresymiad, gan herio-gwrthbrawf, na ddefnyddia y llinellau hyn,—

“ A wado hyn, aed a hi,
A gwaded i'r haul godi?”

A glywsoch chwi neb erioed yn dadlu cydraddoldeb heb ddefnyddio y llinellau hyn o'r “Awdl ar Elusengarwch,”—

“ Mewn ystyr brodyr o un bru ydym;
Ar y cyntaf, yn Addaf, un oeddyr,—
Ni, i gyd oll, un gwaed ym,—yn ddi-ddadl,
Un cnawd ac anadl, ac un Duw gennym?”

Mor briodol y llinellau canlynol, i osod allan y boen a'r siomedigaeth sydd mewn golud anwadol,—

“ Gwae wired yw y gair doeth,
Y daw gofid o gyfoeth!”

Pan argymhellir elusenau a gweithredoedd da, ond heb udganu o'u blaenau, dywedir yng ngeiriau y llinellau hyn,—

“ Boed na wypo byd, neb pell;
Ie, naill law a wnel y llall.”

Wrth argymell caredigrwydd i'r tlawd, pa arwyddair mor briodol a'r cwpl canlynol?—

“ Na chynilwch, anwylyd;
Tâl Duw gost y tlawd i gyd.”

Pwy Fedyddiwr yng Nghymru na fedr y llinellau hyn?—

“ Nid boddi enaid byddant;
Byd ddaw 'n well, bedyddio wnant.”

Hefyd,—

“ Urdduniant yr Iorddonen
Fo 'u deddf hwy, Fedyddfa hen.”

Dyma linellau a ddefnyddir wrth gyfeirio at bob golygfa ddirifol a gresynus,—

“ Edrych yn y drych hwn dro,
Gyr galon graig i wyllo.”

Dyma oracl yr awen,—

“ Ei heffaith bair ei hoffi,
Ac arfer a'i hadfer hi.”

Wele yn canlyn wawdiaith finiog a ddefnyddir yn aml,—

“ Neswch i'm gelyn oes-hir,
Gael lle *teg* wrth golli tir.”

Iaith hyderus,—

“ Pan bwyf yn erbyn y byd,
Ar bob tir, gwir a'm gweryd.”

Ni ddywedodd Solomon sicrach gwirionedd na'r canlynol,—

“ Canys gwas pan deyrnaso,
Mae llaw barn yn drom lle bo.”

Eto—

“ A phawb, yn gall ac yn ffôl,
A ddygymydd a'i ga'mol.”

Clywais y llinellau canlynol lawer gwaith yn cael eu hadrodd, er cysuro'r cystuddiedig, gydag effaith rhyfeddol,—

“ Gwybydd, dan law Dofydd Dad,
Nad yw cerydd ond cariad;
Yna o'i law, anwyl Iôn,
Wedi cerydd daw coron.”

Nid yw y llinellau a ddyfynwyd ond ychydig nifer o gannoedd o rai cyffelyb; rhaid fod y defnyddiad mynych a wneir o linellau fel hyn yn peri eu bod trwy rym deddf cymdeithas yn argraffu eu hunain yn ddwfn ar y meddwl; ac yn effeithio yn rymus yn ffurfiad nodwedd a chymeriad ein cenedl. O ba le, gan hynny, y daeth hyn i ran llinellau y bardd o Eifion, rhagor neb arall? Paham y gwneir y fath anrhydedd ag ef trwy ddefnyddio ei linellau fel arwyddeiriau, ac y rhoddir y fath fantais iddo ef i ffurfio ein bucheddau a'n syniadau? Nid oes dim mwy effeithiol tuag at ffurfio nodweddiad cenedl, na dim yn arddangosiad cywirach o'i nodweddau na'i diarhebion; ac mae y llinellau a ddyfynwyd, ynghyda llawer ereill cyffelyb iddynt, wedi ennill eu sedd ymysg diarhebion ein cenedl ni. Carwn gael gwybod y rheswm am hyn.

TAL.—Mae'r cais-awgrymiad yna yn un eang a dyddorol, nid oes amheuaeth nad yw yr hyn a ddywedasoch yn ffaith; ond feallai mai rhy anhawdd rhoddi y rheswm am hyn, er y gellir enwi amryw bethau a roddant raddau o gyfrif am yr arbenigrwydd yma a briodolir i farddoniaeth Dewi Wyn; yr hwn, trwy gydsyniad cyffredinol, sydd wedi cymeryd ei safle ar binacl uchaf enwogrwydd, mor bell ag y mae a fynno cenedl y Cymry âg ef. Ystyrir ef fel safon uwchraddoldeb awenyddol. “Difyrrir ni yn fawr,” ebai un awdwr, “wrth eu clywed yn cymharu nifer

mor liosog â bardd y Gaerwen. 'O,' meddai un, 'dyna bryddest mor awenyddol ag awdl Dewi Wyn ar 'Elusengar-wch.' 'O,' meddai y llall, 'dyma farddoniaeth a ddeil ei gymharu â chyfansoddiadau goreu y Bardd Gwyn.' Ond nis gallwn ni gredu ond mewn ymddangosiad *un* Dewi Wyn. Nid yw natur ddim llawn mor haelionus a hyn o'i heuliau. Rhaid i *un* brenin y dydd ddigoni i oleuo *un* gyfundrefn. Y nefoedd yn unig a wŷr amledd ei sér—nis gall yr un seryddwr eu rhifo. Pwy erioed a glywodd am ddau Homer—am ddau Shakespeare—am ddau Filton—am ddau Ddafydd Ionawr? Ac ni chlywir byth ychwaith am ddau Ddewi Wyn."

Mewn hen *Seren Gomer*, ac wedi hynny yn y *Traethodydd* am y flwyddyn 1851, cymerodd y beirdd yn eu pennau i dynnu amcan-farn o alluoedd cymharol eu gilydd, o dan y penawdau canlynol,—Awen, Gwybodaeth, Dysg, a Chynghanedd; a rhai hefyd i Farn, Chwaeth, a Meddyliau. Y rhifnod perffaith oedd 20. Cymerodd Hiraethog, Arfonwyson, Eben Fardd, Tegid, Tegai, Caledfryn, &c, ran yn yr ymdrafodaeth. Yn awr, edrychwn pa le y saif Dewi Wyn ar y rhestr, pa mor drwm ydyw yn y glorian. Gan Hiraethog gosodir ef ar ben y rhestr, yn 20 mewn Awen, ac 20 mewn Cynghanedd, sef wedi cyrraedd safon perffeithrwydd: nid oes neb arall yn y rhestr wedi cyrraedd yr un safle. "Saif Dewi Wyn yn uchaf fel awenydd a chynghaneddydd. Yn ei awen ef yr oedd mwyaf o dân, gwynt, a llifeiriant athrylith, yn rhuthro i lawr dros glogwyni, a rhaiadrau cynghanedd, yn gyffelyb i'w ddisgrifiad ef ei hun o'r rhaiadr naturiol,—

" Uchel-gadr raiadr dŵr ewyn,—hydrwyllt,
Edrych arno'n diagyn,
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
Synnu, pensyfrdanu dyn."

Yn rhestr Arfonwyson saif Dewi Wyn ym mlaenaf, yn 20 mewn Awen, ac yn 19 mewn Meddyliau. A'r tafolwyr blaenorol, cydsyniai y lleill, oddieithr Tegai a Chaledfryn, y rhai a dybient na ddylasent restru neb fel wedi cyrraedd safon perffeithrwydd, ond y nesaf at berffeithrwydd ganddynt hwythau yw Dewi Wyn. Tra y mae arweinwyr y genedl fel hyn yn cydsynio i osod ein bardd ar y gris uchaf fel awenydd o un bardd a ymddangosodd yng Nghymru yn yr oesoedd diweddar, os erioed: naturiol iawn yw i'r cyffredin edrych i fyny ato fel y "mwyaf o feirdd Cymru," a gosod yr arbenigrwydd mwyaf ar yr oll a idywed. "Pan lefaro Dewi Wyn am gynghanedd," ebai Tegai, "rhaid i bawb dewi; a phan lefaro efe yn gynghaneddol, llefara fel un ag awdurdod athraw ganddo."

Wrth gael ei gymharu â beirdd ereill Cymru, ymddengys ein

bardd er ei fantais; ac wrth osod y naill neu y llall wrth ei ystlys, ymddengys yn uwch o'i ysgwyddau i fyny nag odid un ohonynt, a'i brif ragoriaeth ar bob un yw, fod ynddo fwy o adlewyrchiad o ddelw *natur* nag un o'r lleill. Anian oedd ei fyfyrgeffell ef; natur, yn bennaf, oedd y llyfr a ddarlennai; y creigiau, y mynyddau, yr afonydd a'r ffrydiau oedd ei "awduron." Yn y *Traethodydd*, dan y pennawd "Oriau hamddenol gyda beirdd hen a diweddar Cymru," ni chelir hyn. "Wrth ddyweyd fod Dewi yn talu gwarogaeth i waith bysedd yr Anfeidrol, ni chredwn iddo wneyd hynny oddiar ystyriaeth o'i ddyledswydd, gymaint ag oddiar gynneddf naturiol ei feddwl. Yr oedd ganddo 'lygad i weled anian, calon i deimlo anian, a glewder a faidd gydfyned âg anian.' Canfyddai ef fwy o brydferthwch yn y rhosyn, gwrid mwy llachar yn yr wybren, pelydr gor-ddisgleiriach yn yr haul, a gogoniant mwy ysplenydd yn y sêr, na dynion ereill. Eneiniwyd llygaid ei feddwl ef âg eli, ac, yn groes i'r wyrth, gwelai ef breniau fel dynion yn rhodio. Clywai yr afonig a'i thrydar, y rhaiadr a'i dwrf, tonnau y môr a'u hanthemau tragwyddol, a'r côr asgellog â'u cân fel offeiriad urddawl ein Duw ni yn cynnal gwasanaeth foreuol yn nbeml fawr natur. Yn ei ddesgrifiad gorchestol o olygfeydd anian, swynir ni yn fwy na dim arall gan yr amlygiadau a geir ynddynt o'r argraffiad dwfn a gaent ar ei feddwl ei hunan. Darluniai hwynt, nid fel yr ymddanghosant i'r llygaid, ond fel yr ymddanghosant i'r meddwl. Nid ffurfiau o bren a maen ydynt, ond creadigaethau amgyffredinol (*ideal*) darfelydd. Ymddiriedai Dewi yn sefydlogrwydd anian, fel yr ymddirieda gŵr yn ei gyfaill. Cafodd ei siomi ganwaith yn nidwylled y dynion goreu, ond teimlai fod natur yn ddidwyll yn ei holl addewidion, ac yn rhydd oddiwrth bleidgarwch yn ei holl gyfraniadau."

Dyn hunan-wneuthuredig yn dwyn mwy o ddelw natur na chelfyddyd oedd Dewi; natur oedd ei famaeth. Efe oedd y deonglydd helaethaf o'r natur ddynol, o holl feibion athrylith Gymreig. Am hyn yr ydym yn ei ddarllen mor awchus, yn ei edmygu mor fawr, ac yn ei ddyfynnu mor aml. Efe oedd tywysog y maes, ac yr oedd yn rhaid i ysgubau ei frodyr ym-grymu ger bron ei ysgub ef. Pwy ag sydd yn gydnabyddus â'i weithiau, na fu yn synnu uwchben llinellau o'i eiddo—llinellau ag sydd yn serenu fel goruchion tân gan feddyliau tanbaid ac anisgwyladwy yn yr ymadroddion mwyaf grymus a'r cyng-haneddion mwyaf cywraint—yn gyfryw o ran natur—mor agos, ac eto mor guddiedig oddiwrth ffyrdd cyffredin dynion o feddwl—fel ag y rhaid i'r neb fyddo awyddus i'w dirnad, ymroddi i'w hefrydu yn fanwl a meddylgar. Ond wedi'r cwbl, ymddengys i mi mai ffurf diarebol ei linellau yw y *prif* reswm

dros y ffaith a nodasoch. Nid cadwyn o aur yw ei farddoniaeth, ond blychaid o berlau; ymddisgleiriant yn y llwch yn gystal ag mewn cadwyn o aur. Gellir cymeryd i fyny un o'r perlau heb ddrygu y cyfansoddiad; symud ei safle, heb golli dim ar ei ogoniant. Felly, mae arluniau Dewi yn gywrain a gorffennol, ac heb ddibynnu y naill ar y llall. Y mae gan feirdd ereill gadwyni aur ysblenydd; ond nis gellir cymeryd ymaith un ddolen o'r gadwyn heb ddinistrio nerth a phrydferthwch y cyfan; ond nid felly Dewi, mae ei linellau ef yn ddiarebion byw, cynhwysfawr; ac fel yr eiddo Solomon, yn cynnwys enewyllyn gwirionedd a gafwyd trwy effaith sylw a phrofiad. Y nodwedd yma yn *bennaf* a gynhygiad i chwi fel eglurhad ar eich ymofyniad; heb anghofio, wrth reswm, uwchraddoldeb y synwyr.

E. I.—Yr wyf yn cydolygu yn hollol â chwi yn eich sylwadau; y maent yn deilwng iawn o sylw, ac fel yn gorffwys ar sylfaeni pur resymol a chredadwy. Er hynny, tueddir fi i led-feddwl na allodd hyd yn oed Dewi Wyn gynyrchu barddoniaeth heb arno na "brycheuyn na chrychni," fel yr ydych braidd wedi awgrymu. Feallai fod yn anhawdd gennych gredu fod fy sylw yn werth ymchwiliad; ond na throer ef heibio cyn ei bwyso a'i brofi.

TAL.—Nid yw "pigo beiau" yn orchwyl pleserus i mi, ac mae'n resyn gennyf grybwyll rhyw wallau bychain, ymhlith llawer o orchestweithiau o fath rhai Dewi Wyn; ond ar eich cais, dyfynnaf ychydig linellau er dangos fod rhai anafau cynganeddol dibwys wedi llithro i fewn i'w weithiau; megis,—

"Darfu, Prydain gain, dy gur,—*dadebra*,
Dy wybren sydd eglur."

"Mawryger William Morgan."

"iddo 'n rhwit
Anrheithio a difa."

Yr oedd Dewi yn ysgolor o'r hen ysgol farddol yn gystal ag o'r ysgol newydd, a byddai yn arfer llithro o'r naill i'r llall er cyfleu ei feddwl yn rhyddach gyda llai o drafferth; felly, nid oedd o bwys ganddo swrth-neidio tros yr orffwysfa trwy chwanegu gair i fod yn rheolaidd o ran y cydseiniaid a'r seiniaid, heb fod gorffwysfa arno, fel yn yr engraifft ganlynol,—

"oer iawn yw,
Ar wyneb yn ddagrau."

Ond a gadael heibio yr amryw fân wallau sydd ym marddoniaeth Dewi, tra rhagorodd efe ar neb arall fel "nyddwr y cynganeddion;" a gall rhai gorhoff o gynghanedd gael hyfrydwch wrth ddarllen ei waith, canys ceir ynddo bob math o gywreinrwydd cynganeddol. Heblaw hynny, efe a ffurfiodd yr arddull newydd

ar groes rywiog, sef dwyn cynghanedd o gyswllt iddi, fel yn yr engreiffiau a ganlyn,—

“Gwnai byg wyneb i'w genedl.”
 “Llef hagi llif ei Goll o.”
 “Gan bigo o begun i begun.”
 “Gwneyd rhwyg neu adwy ar hynt.”
 “Rhydd ef â'r ordd fawr urddau.”
 “Mae rhai gwŷr mawr i Gawr Mon.”
 “Oedd raid i fardd erioed fyw.”
 “Adda, prydydd paradwys.”
 “Dri ymerawdr, em eirioes.”

Heb helaethu ymhellach ar hyn, rhoddaf o'ch blaen eto engraifft o rith-gampwri a briodolir i grebwyll cynghaneddol Dewi Wyn, sef ddarfod iddo ddarganfod fod *ch* yn caledu *l* yn *ll*, megis yn y llinell—

“Rhyw hesgach llwyd wrysg a chlai.”

Er mwyn diheuro Dewi oddiwrth glod disylfaen o'r fath yna, sylwa Meiriadog fod “y fath dybiaeth yn gyfeiliornad, am y rheswm mai i'r gwrthwyneb y byddai dylanwad *ch*, sef troi yr *ll* yn *l*, fel yn y llinell a ganlyn,—

‘Llon aehles yw Llanuwchllyn,’

am mai *l* ac nid *ll* a olygai efe, ond i *ll* ddigwydd llithro trwy ddiotalwch ei lawysgrif,” sef

“Rhyw hesgach lwyd wrysg a chlai.”

Gan feithed fy sylw, rhaid lleihau nifer y dyfniadau; a bydded yr hyn a gafwyd yn ddigon ar y pen hwn, rhag ein bod yn crwydro gormod oddiwrth ein bwriad dechreuol.

E. I.—Ni allaf lai nag amlygu fy nghymeradwyaeth i'ch sylwadau. Credaf eu bod yn meddu digon o debygolrwydd i fod yn gywir fel ag i fod yn deilwng o ystyriaeth; ond rywfodd, wrth sylwi ar yr ychydig anafau a nodasoch—anafau, fel yr ymddengys i mi, ydynt ranedig rhwng y bardd a'r wasg, tueddir fi ymhellach i feddwl fod yn hysbys i chwi yr achwynir ar Dewi, nad yw yn ddigon syml, ei fod yn rhy hoff o eiriau anghynefin, fod ganddo ffurfiau ymadrodd anaturiol, yr arferai “gyfrodeddu enwau lleoedd, gwledydd, afonydd, a phersonau” heb un ystyr iddynt yn y cysylltiadau y gesyd efe hwynt. Dengys hyn, mae'n wir, pa mor hyddysg oedd efe mewn daear-yddiaeth, a pha mor lwyr y “bwytaodd efe y geiriadur;” ond carwn gael gwybod gennyhych am sefyllfa y mater hwn yng ngoleuni hanes—ei ddiffygion a'i ragoriaethau.

TAL.—Mae'n amlwg i mi eich bod yn teimlo mwy-fwy o ddyddordeb yn hanes Dewi. Yng ngwyneb hyn, nid oes gennyf ond ymwroli a gwneyd goreu y gallaf. Yr hyn a gymeraf mewn llaw yn awr yw dwyn ger bron sylwadau tri neu bedwar o'n prif-feirdd ar y ddau englyn blaenaf o awdl ein bardd ar

"Elusengarwch"—nid oes yn yr un ohonynt ystyr ddfriol na chwerwder tuag at yr awdwr, ond i'r gwrthwyneb yn hollol. Caiff Meiriadog ddechreu fel y canlyn,—

"Y pennill mwyaf direswm yn yr iaith ydyw y pennill blaenaf yn awdl Dewi Wyn ar *Elusengarwch*. Cymerer y llinell flaenaf,—*Geiriau Elusengarwch*. Nid yw *Elusengarwch* yn *eiriau*. *Gair* yw efe. Pe dywedasai *Geiriad Elusengarwch*, buasai yn ei le. Pa synwyr eto a geir yn *Pob paladr yn ffladr a fflwch?* Yna mae llinell y *palf* yn dyfod i fewn, yn yr hon nid oes dim synwyr! Ystyr *palf* yw *cedr llaw*, cyfystyr â *paw* a *pawen* y Gymraeg, a chyfystyr â *paw* a *palm* y Saesneg. Terfyna yn y llinell a ganlyn,—Cofadaill fawr *cyfodwch*. Berf *wrthrychol heb ei gwrthrych* yw *cyfodwch*. Ni wyr neb *pw* y sydd i gyfodi wrth *cyfodwch*, pa un ai *dyn* ai ynte *anfai*. Pe dodasid berf anwrthrychol, gwnaethai y tro, sef *cyfoder*, ond ni chawsid *odl felly*."

Y nesaf a ddaw dan ein sylw, yw Talhaiarn, yr hwn a ddywed fel hyn,—

"Bu cwyno lawer gwaith fod caddug o aneglurdeb yn gordoi y pennill cyntaf o Awdl Elusengarwch gan Dewi Wyn. Y mae meddwl y bardd yn ymddangos yn eithaf eglur i mi—

'Geiriau Elusengarwch;
Pob paladr yn ffladr a fflwch,
Mae plyfyn i'm palf yn awr,
Cof-adaill fawr cyfodwch.'

Pe tynnid y ddwy linell ganol allan, byddai'r meddwl yn amlwg i bawb—

'Geiriau Elusengarwch,
Cofadaill fawr cyfodwch.'

Pe goddefid i mi newid yr ansoddeiriau, a gosod meddwl y bardd mewn rhyddiaeth, gellid dweyd fel hyn,—Chwi eiriau Elusengarwch, ydych chi yn gweled fy ysgrifbin yn fy llaw, yn barod i groniclo yr hyn a ddywedwch? Gofalwch am lunio pob paladr englyn yn wych, grymus, a disgleirddawn, a

'Cofadaill fawr cyfodwch.'

I bwy? I dduwies Elusen. Neu yn Saesneg fel hyn,—“Ye words of charity, behold the pen in my hand; form yourselves into heart-stiring sentences, which will become an everlasting monument to your goddess.”

Yn canlyn daw Nicander dan ein sylw a chawn ganddo y sylwadau canlynol,—

“Fel y gall fod ysgolhaig Groeg da, ac eto heb fod yn ysgol-

haig digon da i drin *chorus* yn Æschylus neu Sophocles; felly gall dyn fod yn Gymro pur dda mewn rhyddiaith, ac eto heb fod yn Gymro digon da i fedru trin Awdl Dewi Wyn, yr hon o'i dechreu i'w diwedd nid ydyw ond *chorus* Cymraeg. Fy niben yw cyfieithu'r geiriau i chwi i'r Saesneg. Geiriau Elusengarwch.—The words of liberal-mindedness or generosity. Nid *liberality*. 'Liberality' yw *elusen* yn hytrach. Eto; Pob paladr yn ffladr a fflwch—every line of them eloquent and rapid. Mae plyfyn i'm palf yn awr—my pen is now ready in my hand. Os wyf yn rhoi ambell air o'r eiddof fy hun i mewn i helpu'r ystyr yn Saesneg, gellwch eu rhoi mewn llythyrennau Italaidd. Beiais lawer mis yn ol ar y gair *palf* (yn lle rhyw air lledneisiach) yn y llinell hon. Yr wyf yn addef yn rhwydd fod y gair yna yn anerbyniol. Eto; Cofadail fawr cyfodwch—erect a grand monument. Sylwch mai *geiriau* Elusengarwch yw y *nominative* i'r ferf *cyfodwch*. Drachefn,—

'Gwel yma, O golomen!—cain feindwr,
Cwynfandy yr angen;
Golwg iawn amlwg o'i nen
Ar lysoedd yr elusen.'

Drychfeddwl y bardd yw ei fod wedi ei osod ei hun ar ben pinacl eglwys (er ei fod fel Milton yn wrth-eglwyswr ffyrnig), ac y mae'n gwahodd yr awen ato dan yr enw colomen (yr enw priodolaf iddi mewn awdl ar y fath destyn). Ynghopi gwreiddiol y bardd (yr wyf yn cofio'n dda), rhyfeddnod fel uchod, ac nid *comma*, oedd ar ol y gair colomen; ac y mae hyn yn torri peth, chwi wyddoch, ar y cysylltiad cystrawenol rhwng *Gwel yma a cain feindwr*. Cyfieithwch fel hyn,—See here, O dove! This is a white graceful spire on which I stand, to serve as a place to bewail human wants. Neu feallai fod y bardd yn golygu yr eglwys ei hun, ag yr oedd y meindwr yn perthyn iddi, fel cwynfandy yr angen. Yr ydych yn sylwi fod yr erthygl *yr* o flaen *angen* yn gwneuthur *angen* yn air *abstract*. Y mae'r bannod yn gwneuthur y gymwynas hon i lawer o eiriau yn Gymraeg a Saesneg, ond yn llawer mwy felly yn iaith y Ffrancod. Wel eto. Golwg iawn amlwg o'r nen ar lysoedd yr elusen, *sydd yma*, neu *ydyw hon* (understood). This is a true and clear vision, from the top of this sacred spire, of the noble place where liberality is exercised. Hynny yw, y nef; tai dynion hael wrth yr anghenog; y Senedd yn diddymu caethfasnach, neuadd y Bibl Gymdeithas, a manau haelionnus ereill a grybwyllir yn yr awdl. Ac ymhen y cain feindwr yng nghwmni ei Golomen y mae'r bardd yn cyfansoddi yr holl awdl."

Yr olaf a grybwyllwn yw Cynddelw. Dyma fel y dywed efe,—

“Tramgwyddir wrth yr englyn unodlgyrch sydd yn dechreu yr awdl, a cheisiwyd troi yr holl bennill yn ffolineb.

Geiriau elusengarwch.

Arferir *gair* i ddynodi adroddiad; megis, mae y *gair* ar led; ac i ddynodi elod, megis mawrair, geirda; ac yn y gwrthwyneb, anair. Hefyd, i ddynodi pennill; megis, *gair* o hymn, adnod, &c. Penillion neu fesurau yr awdl oedd y bardd yn feddwl.

Pob paladr yn ffladr a fflwch,

sef, pob paladr o'r 'geiriau'—pob llinell o'r penillion.

Ffladr,—*flattering*, sef yn ganmoliaethus.

Fflwch,—bywiog, cryf, llawen, cyflym.

Mae plyfyn i'm palf yn awr,

Mae'r bardd yn teimlo ei nerth wrth ymaffyd yn y 'plyfyn,' sef y pin ysgrifennu. A'r 'plyfyn' y mae efe yn curo ei holl wrthwynebwy'r yn *Awdl yr Adebar*; a dywed mewn lle arall, nad oedd ganddo 'ond pin i wneyd pennill.'

Palf—amhriodol, meddai rhyw un, am law dyn; *gair* ydyw o'r un âch a *palm* y Saeson; a phalf sydd yn yr hen Gymraeg, yn fynych iawn, am law dyn.

Mae y bardd fel yn neidio ar unwaith i ganol golygfeydd trueni, yn cael ei amgylchynu gan holl drigolion y byd, yn peri iddynt gyfodi cofgolofn uchel, fel y gallai gael

Golwg iawn, amlwg, o'i nen,
Ar lysoedd yr elusen.

Dechreua fel Arthur Fawr ar ei orchestwaith,—

Geiriau Elusengarwch—

Pob paladr yn ffladr a fflwch—

Mae plyfyn i'm palf yn awr—

Cofadaill fawr cyfodwch.

Y testyn yw caniad Elusengarwch. Sut ganiad fydd o? Pob llinell yn glodforus a nerthol. Yr wyf yn awr yn barod i ddechreu ar fy ngwaith. Cyfodwch gofadaill fawr, fel yr elwyf i'w nen i gael golwg iawn ac amlwg ar faes llafur Elusen."

Y mae hyn yn naill ai digon ai gormod, i ddangos syniadau y beirdd ynghylch englyn y tramgwydd. Af rhagof bellach at y cyhuddiad a ddygir yn erbyn ein bardd, o arferid geiriau ansathredig ac anghynefin, ac o gyfrodeddu enwau lleoedd, heb un ystyr i hynny. Gellir dyfalu mai o bwrrpas ac o egwyddor yr oedd efe yn osgoi prydyddu yn nullwedd mân feirdd a phrydyddion, gan ystyried fod prydyddiaeth felly yn gwneuthur argraff egwan ar y meddwl, a thrwy hynny'n lithro'n fuan o'r cof. Yn hytrach na hynny, dewisach oedd ganddo symud o afael gwerinos ddiog, ddiymdrech, a gosod ei hun yn nheml y glewion

a'r gweithgar, er mwyn ymgynabyddu â dullwedd cysefin hen iaith odidog ei wlad, dros orfod chwilio cryn lawer ar gudd-gelloedd llawnion ei geiriau cryfion, dringo dros greigiau certh ei berfau troellog, a thramwy hyd lwybrau dyrys ei chystrawen nodweddiadol. Nis gwn am yr un bardd cyfoethocach o iaith na Dewi Wyn. "Y mae gan Dr. Pugh yn ei *Goll Gwynfa* fwy o rifedi o ryw fath o eiriau nag sy gan Dewi, ond rhyw fath ydynt, a'r rhai hynny wedi cael eu cysylltu ynghyd mewn cystrawen glogyrnaidd dros ben. Y mae yn debyg iawn nad allasai yr un Cymro ond Dr. Pugh gyrraedd y cywreinrwydd sydd yng *Ngholl Gwynfa*; ond cywreinrwydd ydyw hollol amddifad o fuddioldeb. Nid ydym yn meddwl y gall y Cymreigydd goreu yng Nghymru ei ddeall, heb droi yn aml iawn i'r geiriadur,—ie, heb droi eilwaith i Milton ei hun. Nid dyfysgiad fel yna ydym ni yn ystyried yn iaith dda. Ar y llaw arall, nid iaith werinaidd Hen Vicar Llanymddyfri a alwn yn iaith dda. Rhwng y ddau eithafnod yna yr ydym i ymofyn am wisg deilwng o'r bardd, ac yr ydym yn ei chael gan Dewi Wyn; ond yn tueddu at uchel-iaith. Yr oedd cyfoeth diball Dewi o feddylddrychau yn galw, ac nid yn ofer, am gyfoeth ieithyddol i drosglwyddo y cyfryw feddyliau yn briodol. Y mae bardd mawr Meirion ymhell iawn ar ol bardd Gwyn Eifion mewn ieithyddiaeth. Er nad oes neb yn cyhuddo Dafydd Ionawr o wastraffu meddylddrychau barddonol, eto y mae yn ol o iaith i drosglwyddo y nifer sy ganddo yn ddyladwy. Ychydig iawn o gywyddau lled helaeth a ganfyddwn nad ydym yn cael ein hunain yn y teimlad gofidus o orfod byw yn swm yr un geiriau, fel cw-cw y gôg yn ein byddaru; ond nid hyn yw ein teimlad wrth ddarllen gweithiau Dewi Wyn. Pa mor rhwydd bynnag y cawn ef yn bwrlymu allan ei feddylddrychau gwreiddiol, y mae ganddo ddigon o amrywiaeth o'r gwisgoedd gorwyhaf i'w haddurno. Gwaith ofer yw i ni ddifynnu, canys un engraifft ysblenydd o'n gosodiad yw ei holl weithiau. Na fydded i ni gasglu oddiwrth hyn, nad oes gwallau yn iaith Dewi, cryn lawer hefyd o fân wallau. Ni efrydodd Dewi ddigon ar fanylion y gramadeg; ond bwytaodd y geirlyfr bob tamaid—tra rhagorodd, yn nerth a chyfoeth ei iaith, ar ei holl gynoesolion Cymreig." Dyna i chwi dystiolaeth un o Gymreigwyr goreu Cymru—y clodlawn Tegai, a phwy cyfaddasach at y gorchwyl?

Onid i ddychwelyd at yr ail gyhuddiad—y cyhuddiad o "gyfroddeu enwau lleoedd, gwledydd, afonydd, a phersonau." I'm tyb i, yr oedd yn ffodus iddo gyfansoddi ei Awdl Molawd Ynys Prydain pan oedd yn ieuanc. Tra wrth y gorchwyl hwnnw casglodd wybodaeth a chafodd ogwydd i'w feddwl a fuont yn addurn iddi o hynny allan. Y mae testynau hanesiol

yn destynau godidog, gorlawn o faterion ardderchog, i'r awen wir eu portreiadu. Os byddant yn gofyn gormod o lafur i brydyddion anwybodus a diog, nid yw hynny o nemor bwys.

Ar y ddau fater hwn y mae llawer iawn o gam-gyhuddiadau, yn fwiadol ac yn anfwriadol wedi bod; a diau fod rhagfarn wrth wraidd graddau helaeth o'r cam-gyhuddiadau a wnaed gan y naill ar ol y llall—pob un yn ol ei fypwys ei hun—odid y byddai un nodwedd yn aros fel ategiad i'w enwogrwydd; cyhuddid ef o ddiffyg chwaeth, trefn, cynllun, a llawer o bethau, gan geisio dihatru ei deleidion o'u hurdduniant. Adolygwyd llawer ar ei weithiau, taflwyd cannoedd o saethau gwenwynig ato, cafodd ei wên-ddirmygu yn ei wyneb, ei absennu yn ei gefn, a'i gam-gyhuddo yn ei fedd, gan ddynion anheilwng i ymyrraeth âg ef. Wedi y cwbl, erys ef yn boblogaidd ac anfarwol, ac fel y cyfryw yn rhan o etifeddiaeth ein gwlad.

E. I.—Rhaid i mi gyfaddef na chefais erioed o'r blaen y fath oleuni ar hanes Dewi Wyn. Nis gwn a ydych ai peidio yn myned yn eich edmygedd o hono ychydig tu hwnt i linyr eich cyhydedd; canys gyda ni y Cymry—os hardd, harddach na Sanddef Bryd Angel; os hagr, hacrach na Morfran fab Tegid. Tra yr edmygwn ni Dewi Wyn i'r fath raddau, onid ydym i gredu yr un pryd mai yn y gynghanedd y mae ei ogoniant barddonol yn trigo? Ai ni achwynir fod yr iaith ganddo yn cael ei hoffrymu yn aberth ar allor y gynghanedd, fel nas gellir cyfieithu ei farddoniaeth i iaith arall—i gydmaru â'r gwreiddiol mewn llafarwedd priodol, fel y gwneir â barddoniaeth cenhedloedd ereill? Syniadau fel hyn a barant i mi, nid eich blino, gobeithiaf, ond eich annog i roddi llith fraslun ar y mater.

TAL.—Tybir yn aml nad oes mesurau caethion ond yn unig gan y Cymry. Mae hynny yn gamsyniad. Dywed y dysgedigion nad yw "caethder y mesurau Cymraeg yn ddim i'w gymharu i gaethder mesurau Horas a Catullus, nac i gaethder y mesurau choraidd yn nhragediau y beirdd Groeg—fod mwy o gaethder bum waith ym mesur y *Paradise Lost*, a mwy o gaethder ugain gwaith ym mesur yr *Aeneid*, nag sydd ym mhedwar mesur ar hugain Dafydd ap Edmunt—fod y beirdd uchod, oherwydd cywreinder clust a dillynder chwaeth, yn gallu cyfansoddi gyda hwyylusder yn eu mesurau ag sy mor gaeth. Ac fel yr oedd y Lladin a'r Groeg yn berffaith gyfaddas i gyfansoddi ynddynt ar y cyfryw fesurau—fod mwy fyth o gyfaddasrwydd yn y Gymraeg at y mesurau cynghaneddol—ei bod yn berwi ohonynt, hyd yn oed mewn rhyddiaeth. Yr oedd Dewi Wyn, yn ddjarwybod iddo ei hun, yn milwrio yn erbyn yr achos a amddiffynnai, pan y dywedodd, wrth gymharu beirdd Groeg â beirdd Cymru,—

'Wrthyft am wau pynciau pèr,
Bwhwman y bu Homer;
Ac i'w hodlau cyhydlef
Mal y dim ei *Iliad* ef.'

Yr oedd yr *Iliad* wedi ei gyfansoddi mewn mesur caethach nag awdl bardd Eifion ei hunan ar Elusengarwch."

Ynfydrwydd yw haeru nas gall barddoniaeth o'r radd flaenaf ymddangos yn y mesurau caethion. Mae yr *Iliad* a'r *Aeneid*, a holl farddoniaeth Groeg a Rhufain, yn gwrthbrofi hynny, heb son am awdlwyr penigamp Cymru. Dywedir fod Virgil wedi llwyddo i allu gosod acenion ei iaith i glecian yn eu gilydd, i osod allan swm carnau march rhyfel mewn llinell neillduol, a'i fod wedi derbyn gwerth hanner cant o filoedd o bunnau am y farddoniaeth oedd yn swm y llinell honno; ond pe cyfieithid y llinell grybwylledig i'r Gymraeg, collai ei swm a'i gogoniant yn yr un man. Ond os beiddia y Cymro ddefnyddio y rhagoriaeth hwn, a gosod y cydseiniaid i glecian, bydd beirdd y mesurau rhyddion yn bloeddio,—“Barbariaeth!—swm!—nid oes dim barddoniaeth mewn swm!—rhaid ei gyfieithu!” &c. Mae'n beth rhyfedd fod beirdd y mesurau rhyddion yn beiddio ymyrryd â barnu “caethder y cynghaneddion”—i awen y cynghaneddion nid yw y pedwar mesur ar hugain yn *gaeth* yn y gradd lleiaf, eithr yn rhoddi *rhyddid* hapuslawn yn hytrach na chaethiwed; a diau fod yn deg i bob bardd gymeryd ei ryddid i ganu ar ei ddewis fesurau, ac ni ddylai y naill blaidd na'r llall warafun y cyfryw ryddid, gan ystyried maint y rhyddid a'r cyfleusderau a ganiata y Gymraeg o ran ei llythyrennau newidiol, a threfn ei chyfansoddiad.

Gan eich bod chwi wedi nodi y pethau a ystyrir yn wendid a diffygion yng ngweithiau Dewi Wyn, ac wedi fy lled-ddenu innau i ddilyn brisg eich dawn megis o'm hanfodd, cymeraf finnau fy nghennad bellach i nodi allan rai o'i ragoriaethau,—y pethau ydynt wedi ei ddyrchafu, ac a barhant i'w gynnal ar ben uchaf y rhestr o feirdd Cymru; ac un o'r colofnau cedyrn hyn, yn ddiameu, yw gwreiddioldeb ei feddylddrychau. Nis gwn am unrhyw fardd na chyhuddir ef o ddirwyn eiddo ereill, i ryw fesur, ond yn unig Dewi Wyn. Darlennwch ddarnau o weithiau Dewi Wyn i'r neb a fynnoch, ni chewch byth glywed y sylw “Hen feddylddrychau, hen linell,” &c. Bardd natur ydoedd, nid carreg lafar i adseinio lleisiau ereill; ac yr oedd ei ymwybodolrwydd o uwchraddoldeb ei alluoedd yn cau y drws ar eiddo pawb ereill allan. Gallasai ymddisgleirio mwy, mae'n wir, pe buasai yn fwy darllengar. Er hynny, yr oedd yn Seisnigwr hyddysg, ac yn Hebrewr da—cafodd ei ddyddordeb a'i gywreindrwydd eu cyffroi, nes teimlo o hono ddymuniad cryf i wneuthur

ei hun yn feistr ar iaith wreiddiol yr Ysgrifeniadau Sanctaidd—nid ymfoddlonai ar ddefnyddiau ail-law a chyfieithiadau pan y dylasai fod yn feirniad Biblaidd drosto ei hun. Wrth droi dalennau yr Hen Destament Hebraeg, yr oedd yn gallu ymdafu yn ol at Moses ac Esaiah—gwrando ar eu hacenion, a chael ei gynhyrfu gan eu hysbryd, mewn modd nas gallai wneyd wrth ddarllen y cyfieithiadau goreu wnaed erioed. Gallwn grybwyll yma, mai isel oedd ei farn am ei gyrhaeddiadau ei hun pan siaradai yn ddifrifol gyda chyfaill, neu ryw un ag y meddai ymddiried ynddo, er iddo ar rai adegau wneyd arddanghosiadau cyhoeddus i'r gwrthwyneb. Crybwyllodd Amaethon wrthyf ei fod yn cofio siarad âg ef am hyn, ac iddo yntau ddweyd nad oedd arno pan yn lled ieuanc ofn un dyn ar wyneb y ddaear; ond wedi hynny ddarfod iddo adnabod ei hun yn well, a dyfod yn fwy cydnabyddus â dynion, ac i'w hofni. Ond nid oedd dim amlycach yn ei gymeriad na'r anianawd farddonol—berwai barddoniaeth yn ei ymgom, nis gallai hyd yn oed profedigaethau ei llesteirio a'i hatal i ymddangos; ond fel un yn troedio siglender,—parai pwysai trwm troed afiechyd a "mynych wendid" i ddyfroedd grisialaidd ei awen fwrlymu i'r golwg.

Y mae holl farddoniaeth Dewi Wyn yn arllwysiad o deimladau dyfnion yn ei enaid; pe buasai yn cyfansoddi yn arwynebol, nis gallasai daflu cymaint o wrid iachus bywyd i'w bortreiaidau, a'i gymeriadau. Pwy erioed a ddarlennodd ei ddesgrifiadau o wrthyrechau elusen, heb deimlo ei waed yn fferru? "Credwn," ebai un awdwr, y "meddiannai Dewi fwy o ddyngarweh na neb o'i frodyr barddonol yn y Dywysogaeth. Y mae yn rhaid fod ei galon yn curo mewn cydymdeimlad â'r truenusion dynol, onide ni allasai byth ddarlunio eu 'poen a'u dilafur' fel y gwnaeth. Darluniai ddyfnderoedd eu trueni yn ei linellau mewn llythyrennau o dân. Darluniai eu dagrau, nid fel perlau, ond fel dafnau gwaed yn treiglo dros eu gruddiau. Darluniai eu gwynebau, nid fel adlewyrchiadau o ddelw yr Anfeidrol, ond fel danghosiad orbruddawl anian yn absenoldeb disgleirdeb yr heulwen. Darluniai eu griddfannau, nid fel cerddoriaeth yr eos yng ngwyll y nos, ond fel ocheneidiau y greadigaeth."

Yr oedd Dewi yn feddiannol ar egwyddorion moesol eang a haelfrydig—nid dyn plaid ond dyn rhinwedd ydoedd—gallai gymeradwyo rhinwedd pa le bynnag y byddai, ffeiddiai ddrygioni, pwy bynnag fyddai euog o hono, tosturiai wrth drueni y byd mor ddiffuant ag y chwaddai am ben ei ffolineb. Nid oedd yn llwfr-ddyn,—cynhygiai y môr wedi llawer o longddrylliadau; nid oedd trallodion yn ei lwfrhau, ond yn hytrach yn ei brofi; ac er iddo dreulio oes mor amrywiol, mor gyffrous, ac mor gymysglyd o eithafion, a chadw o'i fewn gydwybod euog yn cael

ei thrywanu â phicellau tanlyd ag oedd yn rhoddi arwyddion amlycaf o'r poenau mwyaf arteithiol, nes gwaeddi o hono "Mi fyddaf gyda hyn fel brithyll byw ar radell boeth," ni roddai ddim "yn ynfyd yn erbyn Duw." Cydnabyddai gyfiawnder gorsedd a gweinyddiadau rhagluniaeth y Goruchaf, ymostyngai o flaen y wialen, a thafai yr holl fai ar ei ysgwyddau ei hun.

Cymharwyd y Gwyn o Eifion â phob un o'i gydoeswyr awenyddol, a chydnebydd pob un ei uwchraddoldeb ef. Rhoddes y Parch. G. Edwards (*Gutyn Padarn*), sylwad lled helaeth yn Saesoneg, gyda'r amcan o'i gymharu âg Alun; ond am nad ellir ei dalfyrru yn Gymraeg, heb anurddiant i'w deleidrydd, rhaid i mi adael heibio yr ymgais.

Gosodwyd ef i sefyll wrth ochr Goronwy Ddu o Fon, ac er ei gymharu felly â'r goleuad disgleiriaf yn ei oes, nid yw yn tafu yr un gronyn o dywyllwch, na chysgod o hono, ar ddisgleirdeb bardd Eifion. Gwir fod Goronwy yn fwy dysgedig, ac feallai yn fwy aruchel weithiau; ond yr oedd Dewi yn tra rhagori mewn cyfoeth meddyliol, ieithyddol, a chynghaneddol, yn gystal a chywirdeb ei arluniau.

Addefir fod tebygolrwydd rhwng "Bardd Elusengarwech" a "Bardd y Drindod," sef Dafydd Ionawr; yr un pryd, cydnabyddir uchafiaeth y blaenaf ar yr olaf. Dyma fel y mae y cloriannau yn troi yn nwyllaw un tafolwr medrus:—"Caiff Dafydd Ionawr fod yn Gader Idris, i gynrychioli bryniau Meirionnydd; ond rhaid i Dewi Wyn gael bod yn Wyddfa i gynrychioli holl fynyddoedd Cymru. Y mae yn wir i Dafydd Ionawr gyflawni mwy o orchestion barddonol na Dewi Wyn; ond cyflawnodd yr olaf ddigon i ddangos fod ei athrylith yn fwy dwfn, amrywiol, ac awenyddol na'r blaenaf. Saif Cywydd y Drindod yn gofgolofn i dystiolaethu i'r oesoedd dyfodol am yr hyn a allodd Dafydd Ionawr efe a'i gwnaeth. Ond nid oes neb a wyddai faint a allai Dewi Wyn gyflawni. Nid oes gan ei feirniaid ond sefyll uwchben ei weithiau gan waeddi 'O! ddyfnder!'"

Yr oedd Gutyn Peris yn fardd rhagorol, ac yn gynghaneddwr gwych; dywedai Dewi Wyn ei hun am Gutyn na welodd efe neb mor anhawdd gwella ei gynghaneddion ag ef; ond y mae mwy o gelfyddyd nag o nerth bywyd yn ei farddoniaeth—mae yn amddifad o'r elfen bwysig honno mewn barddoniaeth, sydd yn cyffroi yn gystal a boddhau. Dywedai Cynddelw fod Gutyn Peris yn ei gywyddau dadleuol yng nghylch "Bonedd yr Awen," gyda Dewi Wyn, yn canu yn well nag arferol, ond na "fuasai waeth i bathew fyned i gydreddeg â milgi" nag iddo yntau fyned i groesganu â bardd angerddwyllt y Gaerwen.

Rhagorai Eben Fardd ar Dewi Wyn yng nghynlluniad ei

adeiladaeth. Medrai bardd Clynog Fawr gynllunio arddangosfa fwy gorwych a mawreddog na'r hon a gynlluniodd yr ymherawdwr Claudius pan ymddanghosodd Caradog o'i flaen yn Rhufain. Y mae gorseddfeinciau yr "Archangel" a'r "Cyfryngwr" yn fwy rhwysgfawr ac ysplenydd na'r eiddo Claudius nac Agrippina. Wrth ddarllen un o gyfansoddiadau Eben, yr ydym megis pe yn cael ein harwain i deml ogonedus, yr hon y mae ei cholofnau caboledig wedi eu mesur yn ofalus, ei ffenestri disglær wedi eu trefnu wrth real cymhesuredd, a phob rhan o'r adail yn gelfyddgar a gogoneddus; er hynny, celfyddyd yw ei gogoniant, ac y mae yn rhaid i ni addef fod rhyw fawr ragorol ogoniant yn perthyn i natur wedi'r cwbl. Yr ydym yn cael ein boddhau gan brydferthwch celfyddyd, ond heb ein gwefreiddio megis gan olygfeydd anian. Ac er yr ystyriwn Eben Fardd y blaenaf o feirdd y genedl, ar rai ystyriaethau, y mae Dewi Wyn yn rhagori arno yntau, o gymaint ag y mae y naturiol yn rhagori ar y celfyddydol. Fel etholedig natur yr adweinid ef gan y cyhoedd,—natur oedd ei famaeth,—a bardd yn ol baint a defod greddf natur, a rheswm, ydoedd yntau,—ni dderbyniodd urddiad ffurfiol "gorsedd," na thrwydded gan neb, ac nid oedd angen hynny arno, oblegid yr oedd ei athrylith mor farddonol ei naws, ac mor lawn o'r peth byw ysbrydol hwnnw nas gellir ei deimlo â'r dwylaw na'i weled â'r llygaid, nes peri iddo ymwithio ac ymdroellu ymlaen trwy anial-leocdd anhygyrch, creigiau a mynyddoedd gwylltion, dolydd eangfaith, a dyffrynnoedd breision, gan mor ddwfn a thanllyd ei serch tuag at olygfeydd rhamantus natur fawr. Sylwai efe hefyd ar bethau disylw gan rai, gan eu gosod allan yn y modd effeithiolaf. Dywedir mai wrth weled gŵr a gwraig a saith o blant yn ciniawa ar un penogyn y cafodd y meddylddrych, "Rhoi angen un rhwng y naw." Nid rhyfedd, o ganlyniad, iddo ganu mor orchestol ar "Elusengarwch,"—yr oedd yn teimlo ei destyn, ac y mae ei ddelw ar ei awdl odidog, ar hyd yr hon y mae ei deimlad yn dylifo fel môr cynhyrfus, yn llawn gofid, a hiraeth, ac ymbil sydd yn ddigon i gyffroi calon garreg; a phob ymadrodd fel saeth oddiar fwa yn cyfeirio i'r cywir fan.

Cydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn un o'r beirdd goreu a fu yng Nghymru erioed, ac na chynyrchodd ein gwlad fardd mor wreiddiol, cyflym, ac athrylithgar. Ni fedr neb ddarllen ei farddoniaeth, gydag ystyriaeth, heb gael ei ysbrydoli â rhyw wreichionen o farwor ei wresogrwydd. Y fath dân eiriasboeth oedd yn ei awen! Yr ydoedd megis haul disglær yn tywynnu dros y wlad; a llawer o feirdd, megis Eben Fardd, Nicander, Taliesin o Eifion, Robin Wyn o Eifion, ac amryw ereill, a gyneuasant eu tân yn ei ffwrnes fawr ef.

Gwel rhai debygolrwydd rhwng Dewi a Byron y bardd Seis-

nig,—gallai fod graddau o debygolrwydd rhwng y ddau mewn rhai pethau. Yr oedd Byron fel Dewi yn anghymodlawn â'i feirniaid ac â'i adolygwyr, i'r rhai y canai yn ducharllyd; ond ymhob amgylchiad, yr oedd y ddau yn *fwy na'u beirniaid*.

Gan y gelwir Dewi gan rai yn "Byron Cymreig," dylwn nodi rhai pethau nad oedd un gradd o debygolrwydd rhwng y ddau. Yr oedd Byron mewn ymrafael âg ef ei hun, â'i gartref, ac â'r byd yn gyffredinol; ac yn darlunio poenau ei gorff a'i feddwl yn debyg i Dewi Wyn. Ond halogwyd yr awen drwy y gwasanaeth a wnaeth Byron o honi; ac y mae tri cyhuddiad pwysig yn erbyn ei gynyrchion barddonol, sef eu tuedd amffyddol, eu difriad o'r rhyw deg, a thadogi i ddrygioni briodoleddau hanfodol rhinwedd. Mor wahanol yw teithi barddoniaeth y bardd o Eifionnydd! Tybiwn y gallwn ei osod wrth oehd Byron o ran nerth a thân ei awenyddiaeth; ond y mae cymeriad a thuedd foesol yr oll a ysgrifennodd Dewi yn bur ac yn rhinweddol. Yn wrthwyneb i Byron, coleddai efe y teimladau puraf, tyneraf, a pharchusaf tuag at y rhyw deg. Er iddo fyw a marw heb briodi, fel y buom yn crybwyll, ac mai carreg fechan ar ei ffordd fu yn dramgwydd iddo, ni phallodd ei barch na'i dynerwch tuag atynt, hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd yn rhagori yn ei ddarluniadau o'r "Wraig Rinweddol," a'i "Elen," ar hyd yn oed Dafydd ab Gwilym. "Fel creadigaethau amgyffredol (*ideal*), daliant i'w cymharu âg *Elen* Homer, â *Dido* Virgil, â *Beatrice* Dante, â *Fairy Queen* Spenser, ac *Efa* Milton. Ac arddengys deimladau mor dyner, serch-gynhyrliol, a dwfn, ag a wna Coleridge yn ystori ddihefydd y *Dark Ladie*." Pa beth a ddywedasai Iwan am y fath syniad a hwnyna ag sydd wedi dyfod oddiwrth ŵr mor gyfarwydd ym marddoniaeth gwahanol genhedloedd ag oedd yntau, ac yn meddu galluedd llawer uwch i'w cymharu a'u beirniadu?

Nid oedd yr un ddeddf na'r un reol yn llywodraethu Dewi, oddieithr ysgogiadau naturiol ei feddwl; adroddai yr hyn a deimlai, nid yr hyn a ddysgasai; yr oedd efe yn creu fel y mae natur yn creu; yr oedd yn rhy ysbrydoledig a dwfn-dreiddiol i ymorffwys ar allanolion edwinol,—amgylchiadau gwibiog a sylfeini gweledig anwadal. Yr oedd yn meddu rhywbeth yn ei natur ag oedd yn cynrychioli yr holl creadigaeth,—yn gallu myned i mewn i anian pob creadur a gwrthrych,—y tu mewn i'r llen, fel archoffeiriad mawr natur. Yn ei weithiau amrywiol, y mae wedi dangos ei fod yn gyfarwydd â holl deimladau, a holl raddau y teimladau, sydd yn llywodraethu ynddygiadau yr hil ddynol; yr uchel fel yr isel, y cryf fel y gwan; y cyfoethog fel y tlawd; ac hefyd wedi efrydu rhyfeddodau y ser a addurnant saffir y nef, fel tlysni y blodau a dry-frithant y ddaear; gogoniant tanbeidiol ac arddunol yr haul, fel

prydfwrthwch swynol y gwllithyn perlog; nerth brawychus y corwynt, fel mwynder yr awel falmaidd; rhuad llesmeiriol y daran, fel y sibrydiad awgrymiadol a distaw. Y mae ei galon yn ei gyfansoddiadau,—ei churiadau yn hygryw yn y llinellau, a deffroant galon y darllennydd i gyd-guro mewn cydymdeimlad brwdfrydig. Ond cyn y gellir tynnu allan a mwynhau yn gyflawn y ddoethineb sydd wedi ei thrysori yn ei farddoniaeth, rhaid ymgadw rhag ymchwiliadau esgeulus a diamcan, oblegid mae ei ogoniant nid yn y wyneb, ond yn y dyfnder,—fel mwn-glawdd gwerthfawr; er fod y prydfwrth, y dymunol, a'r gwerthfawr,—“yr aur o Ophir” a'r lili,—wedi eu huno ynddo.

Goddefer i mi yma alw eich sylw at y dylanwad oedd ganddo ar ei gyd-feirdd. Ni welwyd calonnau beirdd Cymru erioed yn fwy amlwg mewn parch, aurhydedd a galar, na'r adeg y bu efe farw. Rhaid ei fod yn fawr iawn ei ddylanwad arnynt cyn y daethent allan mor unfrydol i ddangos eu hanwyldeb ato, a'u tristwch oherwydd ei golli. Crybwyllaf rai darnau allan o lawer nad ydynt ar glawr yn llyfr ei weithiau—*Blodau Arfon*, er dangos pa mor fynwesol a thryloew ydoedd yn eu golwg, a pha arlun o hono a wnaeth plethion eu hawenydd,—

“Ow! Eifion dirion, daeth dydd—o drallod,
Dydd dryllio awenydd;
Gwae i feirdd gwaew a fydd,
Gwae i awen dragwydd.”

“Dewi Wyn, tad awenydd—tad y beirdd
Mewn tud bedd yn llonydd!
Môr o gân rhwng muriau gwydd,
Enaid awen! Ow dywydd!”
D. EVANS, Dyfed.

“Distawrwydd, sobrwydd, is wybren—leda,
Machludodd haul awen!
Trig mawr wae trwy Gymru hen,
Aeth i'r llawr gawr y Gaerwen.”

“O'r Omeraeg, er ei mawredd—dygodd
Greadigaeth ryfedd!
A hon fyth, er yn ei fedd,
A eiriol dros ei fawredd.”

“Hyf eryr uchaf ororau—Awen
Oedd Dew i yn ddiâu;
Gwawl o bob ddychmygawl bau,
A ddygodd ei frawddegau.”

“Ni bu neb er ei febyd,—i'w genedl,
Ganai yn fwy hyfryd,—
Ei awen, hyd ei fywyd,
Synnodd a boddiodd y byd.”

“Y Gaerwen, seren siriol,—a giliodd
O'm golwg hiraethol;
Ing yw myd, anghymodol,
Pe medrwn, 'hedwn i'w hol.”

" Y llinell orllewinawl—a basiodd ;
 Buasai'n naturiawl
 Ganlyn Dewi Wyn i wawl,
 A brodir mwy ysbrydawl."

TWRG.

" Distawrwydd, o dosturi,—a weddai'n
 Addas yma imi ;
 Heb iaith fawr, Ow ! beth wyf fi ?
 Ofned awydd faen Dewi.

ROBYN DDU ERYRI.

" Dewi Wyn, od awenydd,—feistolodd
 Fost trylen bob prydydd ;
 Fel campus fedrus fydrydd,
 Y pennaf am gamp hwn fydd.

" I'w lenwi fel olynnydd—ni ddaw un
 Iddo ef mor gelfydd ;
 Yn flaenor fel awenydd,
 Y puraf o'r campwyr fydd."

MERIADOG.

" Pen doethawr erfawr Arfon,—pen agwrdd
 Penigamp brydyddion ;
 Mur a glyw y Gymraeg lon,
 A'i mawredd ddinam wron.

" Gŵr dawnus, gwybodus ban,
 A'i glod ar led drwy gred gron ;
 Hysbys drwy'r byd i gyd, gwn,
 Ei enw di-warth—DEWI WYN.

" Cywir bynciwr, hoyw bencerdd—profedig,
 Prif awdwr cysongerdd ;
 Celfyddgamp clau ofyddgerdd
 Arain a geir yn ei gerdd.


" Gwawdydd llên, cymhen, cu *Homer*—Gwalia,
 Gwiwlyw cerdd a'i muner ;
 Arweinydd, llywydd llawer
Tydain doeth tad awen dêr."

Y Gwladgarwr, Chwefror, 1840.


Cyn diweddu, bydded ychydig eiriau oddiwrth un o oreuon ein cenedl yn esgusodol, fel chwaneg o barch-gydnabyddiaeth i goffadwriaeth ein bardd ymadawedig. "Yn y cyfamser, Cymdeithas Gymreigyddol Llundain a gynygiodd wobr o £3 3s. am y chwe englyn goreu, mewn dull o fedd-argraff i Mr. Dafydd Owen, o ganlyniad i'r hyn y daeth ymlaen ddim llai na dau a deugain o ymgeiswyr. Beirniadwyd eu cynyrchion gan y Parchedigion Walter Davies (*Gwallter Mechain*), a Daniel Evans (*Daniel Ddu o Geredigion*). Y penigamp brif-fardd blaenaf yn nechreu ei feirniadaeth ar y cyfansoddiadau, a sylwai, 'I shall take up the compositions at random from the promiscuous heap ; for a heap it is ; for never, I believe, were

more than half the number of elegies inscribed to the memory of the same individual before—*Forty-two!* Ar ol dadgan ei olygiadau ar waith yr amrywiol ymdrechwyr, wrth ddiweddu, efe a nodai allan y buddugoliaethwr, dan yr enw 'Dysgybl'—Y Parch. Robert Owen (*Eryron Gwyllt Walia*), Llundain; a'r beirniad hybarch, wrth amlygu ei gymeradwyaeth o'r desgrifiadau a roddasai y dysgybl hwnnw o Dewi a'i ddoniau, a ofynnai fel y canlyn,—'Pwy oedd Gamaliel y beirdd yn yr oes hon, wrth draed yr hwn yr eisteddai cynifer o ddisgyblion? Am bwy arall y gallai y Dysgybl buddugol ddywedyd 'Penigamp enwogydd cerdd dafod?' A 'Bardd mwynbleth, gywirgreth, geirgraff,' 'A'i gân yn ogoniant argraff,' 'Ei farn graff, trysorau natur seraff,' 'Tân yr iaith,' 'Amledd o fawredd myfyriawl,' 'Ffrydiau amgyffredion nerthawl,' 'Teleidion gwawl,' 'Broddau enaid barddonawl,' 'Dylifion odlau ofydd,' 'Pêr flodau'r prif eiliedydd,' 'Ei farddas digyfurddydd,' 'Colofn o'i fawryd,' 'A chofiant llawnach hefyd—na charreg bedd—na chreig byd?' Am bwy arall y gallai y Dysgybl ddywedyd neu adrodd y gof-restr dra chyflawn hon o bigion yr holl ragoriaethau awenyddol, ond am Ddewi Wyn o Eifion?"

Yn awr, fy nghyfaill ieuanc, y mae yr amser wedi dyfod, y mae yn rhaid i ni ymadael â'n gilydd heno, ac ymadael â'n cyfaill anwyl Dewi Wyn. Mae eraill o feirdd Eifionnydd y cawn, feallai, cyn hir gyfleusdra i adolygu eu hanes, ac i ddysgu gwersi o ddoethineb oddiwrth eu bywyd a'u hathrylith; ond ni chawn neb o nodweddion mor neillduol, mor unplyg, dihoced, a di-feddwl drwg; neb mor ddifrifol, diweniaith, a diargyhoedd; neb o dymheredd mor fywiog, tanllyd, a gwreiddiol; neb wedi derbyn cymaint o rin a swyn yr athrylith farddonol; neb wedi cael y fraint o fyned mor ddwfn i fynwes a chyfrinach natur; neb o feirdd y genedl wedi cerdded mor drwm ar y ddaear, ac wedi tynnu sylw mor gyffredinol, a'r anghydmareol fardd DEWI WYN O EIFION.







GENERAL LIBRARY - U.C. BERKELEY



8000883091

